


LIBRARY OF THE
UNIVERSITY OF WISCONSIN

A

3327



Ym.
GWAITH BARDDONOL

ISLWYN.

1882—1878.

**"Y mae y byd yn santeidd yn y nos,
A'r ysbrydolyd fel yn un ag ef."**

1897.

ANGRAFFWYD DROS OWEN M. EDWARDS GAN HUGHES A'I FAB,
GWRECSAM.



RHAGYMDRODD.

Fy nyledswydd i oedd rhoddi i'r cyhoedd holl waith barddonol Islwyn allwn gael; rhwng y dyfodol a phrofi faint sy'n anfarwol.

Diolch, am gennad i gyhoeddi peth gyhoeddasant hwy, i'r Mri. Hughes (*Caniadau Islwyn*, detholion o'r "Ystorm," "Cymru," &c.); Mr. Gee (*Marwnad Dr. Parry*, 1875); Mr. I. Jones (*Awdl y Nefoedd*); Mr. Duncan (darnau yn y *Cardiff Times*).

Cyhoeddwyd hefyd yn ystod bywyd Islwyn,—*Barddoniaeth* yn 1854 ("Myddfai," "Yr Iesu a Wylodd," "Yr Adgyfodiad," "Glyn Ebwy," "Aeth blwyddyn heibio"); *Albert Dda* yn 1869; *Ymweliad y Doethion* (gydag "I'm Hathraw" ac "I'r Angor") yn 1871, *Marwnad David Jones* yn 1871; *John Jones Blaen Annerch* yn 1877. Ymddanghosodd llawer o'r darnau byrion a detholion o'r darnau hwyaf yn y *Traethodydd*, *Drysorfa*, *Cylchgrawn*, *Dysgedydd*, *Gwerinwr*, *Ymgeisydd*, &c.; ac yng nghofnodion Eisteddfodau.

Codwyd cynnwys y gyfrol hon bron i gyd o lawysgrifau Islwyn, cydmarwyd y gwahanol lawysgrifau â'u gilydd ac â rhannau oedd wedi eu cyhoeddi, a'm hymgais oedd rhoi pob llinell ysgrifennodd i mewn. Faint fuasai ef yn cyhoeddi nis gwn; tybiaf y bydd pob gair yn y gyfrol yn werthfawr i Gymru.


Trefn damwain yw'r dresfn. Ond rhoddir rhestr o'r gweithiau y gwyddis eu hamseriad i sierwydd, fel y gallo'r efrydydd wyllo dadblygiad awen Islwyn.

Dymunwn ddiolch i Mr. Daniel Davies, Dyfed, Dafydd Morgannwg, a lliaws o gynorthwywyr parod ereill, ac i dros bum cant o danysgrifwyr.

OWEN M. EDWARDS.

BLYNYDDOEDD ISLWYN

1832. *Geni Islwyn.*
 1850. Y Gerbydres.
 Abram yn aberthu Isaac.
 1852. Cywydd Ffydd.
 Morgan Howel.
 1853. Mawrth 16 Amser.
 Mai 17 Gwagedd o wagedd.
 " Machludiad Haul.
 " Y Ser.
 " D. R. Stephen.
 Meh. 3 Yr Eryr.
 " 5 Y nos yn mynegu.
 " 5 Pa beth yw ieuencid.
 " 5 Yr Arglwydd sy'n teyrnasu.
 " 5 Y nos y bradychwyd ef.
 " 8 Udgor y Jubili Milfwyddol.
 " 9 Daeth yr awr.
 " 9 Lle'r ydwyf fi yn myned.
 " 10 Oni ellych chwi wyllo un awr?
 " 13 Gorffennwyd.
 " 14 Preswylfa'r bardd.
 " 15 Mawl i Dduw.
 " 16 O ddyfnder môr.
 " 16 Arglwydd y lluoedd.
 " 16 Y Groes.
 " 17 Coflaf chwi.
 " 17 O Dad, madden iddynt.
 " 17 A Phedr a ganlynodd o hirbell.
 " 17 Carnhuanawc.
 Awst 29 E. Morgan, Caer Dydd.
 " 29 Fy chwilydd.
 Medi Carnhuanawc.
 Hydref 6 Bydrda pob peth.
 (Yng Nghaer Dydd).
 " 12 Adgoffon Serch.
 " 24 *Marw Anne Bowen yn ugain oed.*
 Tach. 14 Hawddamor, Nos.
 (Yng Nghaer Dydd).
 " 16 Ceisio gloewach nen.
 " 26 Fy Mreuddwyd.
 Rhag. 7 Y Wenynen. (Yn llys Arglwyddes Llanofar).
 " 15 Awn hyd Bethlehem.
 " 15 Y Bardd.
 Rhag. 17 Distawrwydd y Pregethwr.
 " 17 Yr Ieuanc Hen.
 1854. Ion. 17 I'm cyfaiil Peredur,
1854. Ion. 20 Englynon Gnodau (y 14 cyntaf).
 " 20 Syr Robert Peel.
 Mawrth Efengyl fwyn, ehed.
 1854.—1856. Yr Ystorm.
 1856. Mai 19 *Dechreu ygrifannu'r Ystorm.*
 Cenedl y Cymry.
 Rachel.
 1857. Y Genhadaeth Gristionogol.
 1858. Rebeca Jones, Pontypridd.
 1859. Echryslonrwydd Rhyfel.
 1862. Er Cof,—Miss E. Williams.
 Priodas,—D. Roberts a K. Lewis.
 1863. Er Cof,—R. Jenkins.
 Er Cof,—Mrs. Hopkins.
 Albert Dda.
 I'm Hanwylyd.
 1866. Yr Ymfudwr a'i Gariad.
 Y Bugall a'i gi.
 Priodas Thomas a Fisher.
 Pellebyr Môr y Werydd.
 Bedd Cyfall.
 Ai breuddwyd yw bodolaeth.
 1867. Ymweliad y Doethion.
 1868. Y Wawr.
 1869. Yr Ysbiadur.
 1870. Clod Richard Hughes.
 Ymadawiad D. Edwards.
 Bedd Talhaiarn.
 Marwnad David Jones.
 Y Nos.
 1872. Er Cof,—Mr. Edwards, Abercarn.
 Y Groes.
 Moses.
 1873. Caned Clychau Rhondda.
 Priodas J. Morgan ac Ellen Jones.
 1874. James Henry a Jehoiada.
 Nicander.
 Cartref.
 Marwnad Dr. Parry.
 1875. Emrys.
 1876. Rachel.
 Er Cof am Ann.
 1877. Sarah Ann Lewis.
 Y Nefoedd.
 Caroline Mary Davies.
 John Jones, Blaen Annerch.
 Y Weddi Anorffennol.
 1878. *Marw Islwyn.*



ISLWYN YN 1859, YN SAITH AR HUGAIN ORD.

BYWYD ISLWYN.

GANWYD Islwyn Ebrill 3, 1832, mewn tŷ yn agos i'r Ynys Ddu, pentref bychan yn nyffryn y Sirhowy, hanner y ffordd rhwng Tredegar a'r Casnewydd; ac wrth droed Mynyddislwyn y treuliodd ei oes. Morgan a Margaret Thomas oedd ei rieni, a William Thomas oedd yr ieuengaf o'u naw plentyn. Cafodd addysg yn ysgolion blaenaf Mynwy a Morgannwg,—yn Nhredegar, Casnewydd, y Bont Faen, ac Abertawe. Tra yn Abertawe dechreuodd gyfeillachu â merch ieuanc o'r enw Anne Bowen; a phan oedd amser priodi wedi ei benodi, bu farw y ferch ieuanc yn dra disymwth. Ofnid yn hir mai dihoeni a marw a wnelai ar ol ei ddyweddi, ac y mae ol ei brofedigaeth fawr ar lawer o'i waith.

Dechreuodd gyfansoddi 'n fore, dan gyfarwyddyd Gwilym Iliid; ei frawd yng nghyfraith, y Parch. D. Jenkins, y Babell; ac yn enwedig Aneurin Fardd. Enillodd ar "Abraham yn aberthu Isaac" yng Nghewn Coed Cymer yn 1850, ar "Carnhuanawc" yn Eisteddfod y Fenni yn 1853. Ysgrifennai i'r *Cylchgrawn*, a chyhoeddodd *Barddoniaeth* yn 1854. Dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid yn 1854. Rhagorai fel pregethwr mewn tlysineb a thynnerwch, ond nid oedd yn ymddifad o nerth. Priododd Martha Davies yn 1864, o'r tŷ y buasai Anne Bowen yn byw ynddo.

Enillodd amryw gadeiriau,—yn y Rhyl am awdl *Y Nos* yn 1870, yng Nghaerbybi am awdl *Moses* yn 1872; yng Nghaerffili am awdl *Cartref* yn 1874, yn Nhreherbert am y *Nefoedd* yn 1877. Curid ef weithiau, cododd i eilio diolch i Granogwen, wedi ei guro ar y *Fodrwy Briodasol*, fel hyn,—

" Rhaid addef mwy, hi bia'r gân,
Hi nghurodd i yn ddigon glân;
Gwir fod y testyn yn bwrpasol
I ferch—" Y Fodrwy Briodasol ; "

Peth chwithig oedd mewn merch mor fâd
I guro'i hawenyddol dud—
Mae hyn yn arwydd digon siwr
Y bydd i'r Farddes guro'i gŵr."

Bu'n golygu'r *Cylchgrawn*, yr *Ymgeisydd*, y *Glorian*, y *Gwladgarwr*, a barddoniaeth y *Faner* a'r *Cardiff Times*. Beirniadodd lawer hefyd. Bu farw Tachwedd 20, 1878.

Bychan hytrach ydoedd o gorffolaeth, ac ysgafn, tua phump troedfedd a chwech modfedd o daldra; yr oedd o bryd tywyll, a'i ymddanghosiad yn llednais a gwylaidd; yr oedd y pen yn fawr, gryn lawer yn fwy yn ol y cyfartaledd cyffredin na'r corff, ond nid oedd y gwahaniaeth gymaint fel ag i dynnu sylw, ac i wneyd y peth yn hynod. Yr oedd y wyneb yn hir, ac yn hardd, a'r trwyn yn lluniaidd, heb fod yn fawr, a'r gwefusau hytrach yn drwchus, a thoriad y genau yn brydfarth; yr oedd y talcen yn fawr iawn, yn cyfuno uchder a lled, ac anaml y gwelwyd talcen o'r fath uchder mor llydan a gwastad hefyd; yr oedd y llygaid, y rhai oeddynt yn llechu o dan aeliau trymion, yn llawn, yn fawrion, a disglaer, a'u trem ymhell.

D. DAVIES.

CYNHWYSIAD.

Y STORM.	TUDAL.	Beddargraff D. Edwards	TUDAL.
I.—Mae'r oll yn gysegredig	1	Y Nos	357
II.—Byd heb storm	9	Er Cof,—Mr. Edwards	359
III.—Y Rhuthr	33	DR. PARRY Y BALA	361
IV.—Y Graig	35	Yr Adgyfodiad	370
V.—Y Gwyntoedd	39	CYMBU	371
VI.—Ceisio Gloewach Nen	52	Llangeitho	395
VII.—Mynyddoedd Adfyd	53	Llywelyn	396
VIII.—Iaith y Planedau	65	Ffontygeri	398
IX.—Yr Haul	66	Cleddyfiau y Brythoniaid	399
X.—Y Môr	100	Anwyldeb Cymru	400
XI.—Y Llfeiriant	122	Pontarfynach	402
XII.—Y Diluw	134	Stormio Uffern Ddu (Efelychiad)	402
XIII.—Y Storm Olaf	136	CENEDL Y CYMBY	403
XIV.—Diwedd "Y Storm"	139	Abou Ben Adhem	432
		Preswylfa'r Bardd	433
CARTREF	145	Cathl Hiraeth	434
FY NHAD	153	Fy Chwiorydd	435
FY MRAWD	160	Adgofion Serch	440
Fy Nai tuhwnt i'r môr	162	Mewn Adgof	442
Fy Nai tuhwnt i'r bedd	163	Y fodrwy briodasol	444
I'm Hathraw	164	Lle yr wyf fi	445
Lille	165	Cystudd yn y Gwanwyn	447
Af fedd chwaer	166	Adgof	447
FY MAM	167	Cyflwyniad y <i>Caniadau</i>	448
Er Cof,—Mrs. Jones	171	Y NEFOEDD	449
Y FYNWENT	172	Odlau Hiraeth	462
GARDD EDEN	185	Beddargraff Heman Gwent	462
Johnny a Thomas Francis	192	CARNHUANAWC	463
Y Nos,—Awdl	193	William Parry	480
Y WAWR	213	Adgofion am Benjamin Miles,	
JOHN JONES BLAEN ANNERCH	218	Pantywyll	481
Nicander	226	Sarah Ann Lewis	483
EMRYS	227	Nora Rachel	485
Thomas Richard Abergwaen	239	Annie Mary	486
Mrs. Jones Blaen Annerch	242	Er cof	487
GWEDDI	243	William John, Abertawe	488
Yr Hen Weimidog	256	Er cof am Ann	490
I'r Angor	256	Y MORWR	491
DAVID JONES TREBORTH	257	Y Parch. W. Morris Tyddewi	494
Nis gall y fiam	266	Dr. Harries Jones	495
ANGEL	267	Tysteb D. Howells	497
Y CAETHGLUDIAD	277	Englynion Priodasol	499
Saint Enlli	281	Y Gwanwyn	500
Odlau Priodasol	284	Er Cof	501
YNWELIAD Y DOETHION	285	Rhuddos y Morfa	502
Calfaria	300	Y Gwyddfid	503
MOSES	301	John James	503
Y GROES	319	Ar ol y frwydr	504
Cyfr yngwr	329	SANT PAUL	505
ALBERT DDA	331	David Howells Abertawe	531
Sabbth Gartref	356	Udgorn y Jubil Milfwyddol	536

	TUDAL.		TUDAL.
Yr Arglwydd sy'n teyrnasu ...	539	Ynglynion Gnodau	668
Pa beth yw ieuencid	539	Syr Robert Peel	670
Y nos yn mynegu gwaith ei		Yr Ymfudwr a'i gariad	672
ddwyllaw ef	540	Y Bugail a'i Gi	674
Gwagedd o wagedd, gwagedd		ECHRYALONRWYDD RHYFEL	675
yw y cwbl	540	Y GENHADAEH	689
Machlud Haul	541	I'm Hanwylod	769
Y Ser	542	Y Gerbydres	773
Amser	542	Er Cof,—E. Williams	771
I'r Eryr	543	Chwedl	772
Nos y bradychu	546	CYMRU,—Awdl	773
Daeth yr awr	554	Enaid	801
Gorfennwyd	556	Y Milfwyddiant	804
Ant Heibio	557	Tybiaeth	805
Pedr	557	Bywyd fel y nef	806
E. Morgan	558	O Hapus Luddedig	806
Salmau	561	Y Dylanwad	810
Emynnau	564	Gwelwch y fan	811
Cyfaill	566	Y BRYNIAU	812
Rebecca Jones	566	Y BEIHL	818
Caroline Mary Davies	507	Trefeca	824
David Morris	569	Rhinwedd	825
Clychau Rhondda	569	Ai breuddwyd yw bodolaeth	827
Gweddi	570	Y Dderwen	828
Lazarus	571	Ymadawiad D. Edwasds	829
Mewn gwlad bell	572	I Gyfeilles	829
Clod Lietygarwch	572	Bedd Evan Harries	830
D. R. STEPHENS	573	Anorffennol	830
Caledfryn	581	Llongyfarch	830
Er Cof,—Mrs. Hopkins	582	Maer Abertawe	831
Llinellau Galarnadol	583	Y Gelyn	834
Er Cof,—R. Jenkins	584	Ar fedd Talhaiarn	835
Cân o Glod	585	Y Llen Leidr	836
Er Cof,—dau blentyn	587	Y Cadeirfardd Marw	837
Pellebr Môr y Werydd	588	Dechreu Canu	837
MYDDFAI	589	ELIAS Y THRESBIAD	838
ABERTHU ISAAC	597	Rhos Igol, Cae'r Ffynnon	844
Y GROES	609	Dod adre o'r Odfa	845
Angau	614	Y Wyddfa	845
Adgyfodiad	644	Barn Beirdd Pwllheli	845
Hiraeth	614	Y Beddau	845
Yr Ysgol Sabbothol	615	Mis Tachwedd	846
Aberth Crist	615	Adeg Etholiad	846
Morgan Howel	616	Yr Ysgol Sul	846
Cywydd Fydd	617	Evan Harries	847
Y GWEDDNEWIDIAD	621	Sion Wyn o Eifion	847
Fy Mreuddwyd	637	Anfarwol Ddyn	848
Y BARDD	643	Clod	849
Awn hyd Bethlehem	652	David Bach	852
Iesu a wylodd	653	Gwrthryfel Llafur	853
Yr Adgyfodiad	656	Gormes Cyfalaf	853
Glan Ebbwy	657	Dol	854
Aeth Blwyddyn Heibio	657	Darganfyddiad Glo	854
Yr Ysbiadur	657	Priodas Gwilym Teilo	855
FY NGARDD	658	Cartref	856
Fy Rhosynau	664	Priodas	858
Distawrwydd y Pregethwr	665	Ystorm Fellt	859
Yr Ieuanic Hen	667	Yr Andes	860
Peredur	667	Tawelu'r Ystorm	862

GWAITH ISLWYN.



Y STORM.

I.

*Y STORM. Mae'r oll yn gys-
egredig. Ysbrydoliaeth Natur.*

PA bryd, O Natur deg, y'th ddysgwyd di
Fyth bythoedd i wedd-newid, ac i roi
I'r tawel a'r ystormus ar dy wedd
Gellweirio fyth, a bythol watwar dyn,
Rhy watwaredig eisoes, nes ei gael
Yn uchel ar y mynydd neu y môr;
Ei ddenu trwy y borau dros y fro,
Neu dawel hynt, o wddf yr afon lefn
Ymlifiad, hyd freuddwydion hedd y don,
Ddistawrwydd anian, pan orffwyso'r môr
Gan ddisgwyl am y ser, a gair y nos;
Ei dawel ddenu oni wywo'r lan
Fel ymyl breuddwyd i'r eangder pell,
A beddu'r penrhyn yn y berwol fŷr,
A gweled draw ystormus ael y graig
Ac adfail y goleudy ar ei brig,
A gorsedd gan y strom yno mwy?

O siomedigaeth na chyrhaeddodd bedd
Mo'i ddyfnder, na marwolaeth erch ei ing!

Paham na throai bywyd, gyda bod
Yr enaid ar ei drothwy, oll o'i gylch
Yn llefau o wylofain ac o wae,
A'r cryd yn adfail arnom? Felly mae
Per awel bore-fwyniant am y dyn
Yn chwareu ei hadenydd balm-ddyferol,
Nes swyno'r enaid, fel ar lif o gân,
I uchder y tragwyddol wynt, lle mae
Y gân yn darfod mwy, a'r awel lem
Yn deifio'r enaid hyd yr olaf obaith,
Oll hyd deneurwydd angeu. Awel bêr!
Pa bryd y'th unwyd dithau â'r ystorm,

Ac y dechreuaist dithau ganu o'i thu ?
 Hudoles bêr o gylch yr aber lon,
 A'th galon gyda'r daran bell a'r môr !
 Pa beth yw storom ? Awel yn ei grym.
 A siom ? Daearol obaith wedi cael
 Ei lawn helaethrwydd, ac yn chwythu mwy
 Y peth ofnadwy ydyw. Awel bêr
 Oedd honno hudodd oddiar y lan
 Yr enaid newydd dirio ar draeth bywyd,
 Yn gwrando curiad ei ddedwyddaf galon,
 Yn peraidd adsain hyd funudau llon
 Y gyntaf awr, y ddedwyddolaf gaed.

Fel pe na bai eu gwedd yn ddigon braw,
 Mae'r tonnau yn ymleisio yn y gwynt,
 Ac angeu ac anobaith yw eu hiaith.
 Fel pe bai'r daran a'i holl fyd o sain
 Draw wrth ymchwalu ar y tywyll fôr
 Yn myrdd ymrannu hyd y tonnau rhwth,
 Gan ymfytholi ar yr eigion mawr.
 Cydruant yn ei mawredd, yn ei holl
 Urdduniant dwyfol hi. Ond pwy a ddeil
 Daranau y gorddyfnder, a mynediad
 Y môr a'i ruol gedyrn ! Forwr tlawd,
 Pererin blin y don, y mae dy wedd
 Yn duo gan ystorom ddyfnach fyth,
 Lle cryn yr enaid ar ei olaf graig,
 A thragwyddoldeb yn melltenu i mewn,
 A tharan o gydwybod, pwy a wŷyr,
 Yn siarad am dymhestloedd uwch drachefn,
 Am foroedd tywyll o anfeidrol wae,
 A nos rhy ddofn i oleuni ser,
 Lle mae goleuni Duw yn darfod byth,
 A'r enaid marwol yn ymdreiglo dros
 Y fraich dragwyddol mwy. Dwed, forwr blin,
 Os rhydd dy enaid o'r arswydion hyn,
 Pa le y mae dy feddwl ? Gyda phwy
 Dy galon drom, os gwyddost ? Onid yw
 Dy enaid eto'n fwy na'r dymhestl hon,
 Ymhell tuallan iddi, ac yn uwch
 Ei ehediadau na'r holl wyntoedd hyn ?
 Mae'r enaid fyth yn fwy na'r byd, a'r bedd
 Fel troedfaine anfarwoldeb dan ei sang.
 Mae'n uwch na'r byd ar ben holl fryniau'i fri,
 Ac o waelodion dyfnaf i'w gwarth

Rhed ei obeithion tua Duw a'r nef,
 Fel cadwyn o fynyddoedd heibio'r haul,
 A gwelaf ef yn cerdded dros ei wae
 Dan ganu o'r tragwyddol. Ofer, fyd,
 Y lledi di dy gwmwl arno ef
 Sy'n dwyn o fewn ei fynwes fwy na'r haul,
 Gan weled dros fedd-ddiffyg aruthr bod.

Y mae dy galon, forwr, oll o fewn
 Yr annedd unig dan y bryniau pell;
 Y muriau gwynion, a'r winwydden deg,
 A myrdd o freichiau yn anwylo'r mur,
 Y gylchawl wawr o ros ar hyd y sail,
 Y glwyd bêrgolyn, gwyrdd y ffynnon grai,—
 Ymgwyd y cyfan ar dy enaid blin,
 A rhywun o anwylach adgof fyth,
 Nad oes gan amser ddyfnder i lenhâu
 Ei delw rhagot, na chan angeu fedd
 Rhy erch i'th enaid sefyll ar ei faen
 A syllu ar ei hol, draw! lle nad yw
 Bodolaeth ond rhyw wâg di-fwa mwy,
 Rhyw godiad maith o rithiau oddiar
 Eithafoedd pob rhyw oes. Llif llawer ton,
 Fel llawer awr, ogyfuwch yn y gwynt,
 A llawer bryn o fôr aelguchiog lif,
 Dan groch daranu heibio, heb i ti
 Ei chanfod gan y mewnyndroad hwn
 O'th holl feddyliau am un adgof bêr,
 Un canol-deimlad i'r holl enaid mawr.

Braw! mae y môr yn codi dros y cwbl,
 A phob rhyw don fel llanw ynndi ei hun,
 A llawer craig o ddyrchafedig ael
 Na wêl y don ond unwaith ym mhob oes
 Ei breiniol uchder, collir hithau dan
 Y nos o ddyfroedd sydd yn dwyn y nef
 A byd y gwyntoedd ar ei beilchion fôr.
 A llawer traeth dragwyddol gollir mwy,
 Dragwyddol ymneilldua o wÿdd y byd
 I bell gymundeb gorddynderau'r môr,
 Lle ni ddaw borau mwyach nes y daw
 O wyneb Duw ei hunan, pan y ffy
 Cymylau amser oll, a'r bedd, o'i flaen.

Mae ysbryd barn a distryw ar y byd!
 A moroedd godant ar ei alwad erch,

A dychryn ddeil weithredoedd pennaf Duw,
 A rhua'r ddaear, rhua'r nefoedd oll,
 Fel pe bai'r bryniau yn ymgasglu i farn,
 Fel pe bai cyfrif natur wedi dod
 A barn-wŷs y Tragwyddol ar y byd.

O am eich aruthr ysbrydoliaeth chwi,
 Y creigiau, chwi geryddwyr beilch y môr ;
 A chwithau, chwyddawl hyawdleddau'r dwfn,
 Genhadau y gorddyfnder, wenyg ceidr,
 Fytholion gedyrn yr ystorom fawr,
 Y blaenaf yn y gwyntoedd, a'r diweddaf
 O'i meibion i ymostwng ; yn ymdroi
 Am ddyddiau yn ddigofus dan ei harch
 Ar ol i'r byd lonyddu, a'r holl nef
 Anghofio yr ystorom gyda phell
 Freuddwydion amser. Tithau'r daran groch,
 Y sydd dy hun yn dduwdod bron, a'th ru ;
 Uwchben holl dyrfau'r cyfan fyd,—y peth
 Fai tragwyddoldeb oddiar ryw awr
 O waelion amgylchiadau,—O am radd
 O'th fawreddogrwydd anherfynol, darn
 O'th allu, o'r meddyliau pell tu draw
 Sy'n brynio i'r Anfeidrol dros dy sain.

Paham yr atolygem o un nef,
 Un bryn tragwyddoledig, rym y gerdd ?
 Dos, taro hi, o fewn y graig mae'r dyfroedd,
 Mae'r ysbrydoliaeth yn y pwnc i gyd.
 Ac nid oes gan y nefoedd ddim i'w ddweyd
 Ond a ddywedent ar y cyntaf oll.
 Mae meddwl dirfawr yn dy ymyl, clyw
 Mae'n gruddfan yn dy ymyl am ryddhad.
 Fe all ei fod yn gorwedd yn y bryn
 Er awr y greadigaeth, heb i un
 O feibion Amser weld ei wawr erioed ;
 Boed i dy enaid godi arno mwy,
 A'i ddwyn i olau y tragwyddol ddydd.
 Fe all ei fod yn ofnog grwydro hyd
 Y bannau pellaf ar y bryniau fry,
 Gan bwyso weithiau ar y cwmwl aur,
 Neu esgryn ar belydryn pur o ddydd,—
 Fawreddog amnaid am ryw bellach byd,
 Am ryw wirionedd uwch yn nhynged dyn,

Rhyw awgrym a ddyferodd Ior fel ffafr
 I'r bryn pellfrydig a phell-dremiol draw
 A syllai i'r tragwyddol ar ei ol,
 Pan ymagorai sabboth mawr ei hedd
 I'w dderbyn eilwaith wedi gorffen gwaith
 Y greadigaeth ; dos, a dwg i lawr
 Y gwylaidd feddwl, a phâr glywed mwy
 Lon sain ei genadwri yn y byd.

O ! y gafaelion o feddyliau drud,
 Y ffrydiau aur o ysbrydoliaeth bur
 A gladdodd y ddaeargryn cyn i'r byd
 Eu gweled yno. Am na fynnai weld,
 Derbyniodd Ior y cyfan iddo ei hun,
 Y cyfan ar un farn, a daeth y bryniau
 Digofus ar y deillion mewn un nos.
 Dychymyg fu'n caethiwo'r ddwyfol ffrwd
 I Helicon, yn casglu am un bryn
 Yr awenolion a'r mwynderau gynt.
 Fe roddes Natur awen ar bob ban,
 Arwrgerdd i bob ton, ac i bob llif
 Ryw arlif llawn o ysbrydoliaeth bêr,
 A threfnodd yr Awenau dros y byd.
 O ddedwydd adeg, pan y clywir hwynt
 I gyd yn taro eu tragwyddol gerdd,
 Pan welo natur jubiliaidd awr
 Ei hysbrydion leisiau, a phan ddaw
 Gweithredoedd Ior, y gaethglud fawr, yn ol
 Dan ganu am eu Duw a'u Tad, y modd
 Y canent pan gychwynnai'r byd a'r ser,
 Berorol bethau, o'r tragwyddol hedd.

Mae dyfroedd Helicon yn gwyrddu'r byd,
 Yf lle y mynnot, Helicon yw'r cwbl.
 Parnassus ? Dacw ef, y mynydd ban
 Y'th anwyd dan ei gysgod. Ni fu neb
 O glod Homeraidd ar ei frig erioed.
 Ond fe fu'r awel yno, a'r ystorm
 Yn cyd-ddysgubo lleisiau'r byd ymlaen
 Fel islais cydgasgledig Amser tan
 Bell anthem tragwyddoldeb lawer tro,
 A bu y cefnfor yno, gadael wnaeth
 Y diluw awen nerthol ar ei frig,
 Adgofion byd colledig ; bu yr Ior
 Ei hun yn cerdded dros y bannau hyn,

Pan berai i'r oll i sefyll ar ei air,
 Nes deuai eilwaith ar y cwmwl fry
 I archu'r cyfan ymaith fel y cai
 Y gofod oll i foroedd Duwdod mwy.

Mae'r oll yn gysegredig, mae barddoniaeth
 Nefolaidd ar yr holl fynyddoedd hyn,
 A bu—goddefer y wladgarol nwyf,—
 Bu llawer brawd a chyndad hoff i mi,
 Na edwyn neb eu henwau mwy na'u clod,
 Ond taweledig rith yr oes a'u dug,—
 Ar hyd y bryniau hyn ar lawer nawn
 Yn canu neu yn wylo fel y caed
 Profiadau bywyd. Ninnau gyda hwynt
 Adawn gymunrodd o adgofion per,
 Rhyw anadliadau a myfyrion syn,
 I'r awel dyner eu mynwesu fyth,
 Neu fyth i wywo ar y niwl uwchben.
 Pa beth yw ffynnon Jacob? Y mae delw
 Un mwy na Jacob ym mhob ffrwd trwy'r byd.
 Fe aeth fy nhadau dros yr afon hon,
 A'r holl awelon nefol lawer gwaith,
 A'r lloer, a llawer seren ddwyfol wawr,
 A'r haul, a'r daran hefyd. Mae y byd
 I gyd yn gysegredig, a phob ban
 Yn dwyn ei gerub a'i dragwyddol gainc.
 Ac nid yw glannau yr Aegean pell,—
 Penrhynion tragwyddol-wawr Groeg, y sydd
 Yn codi gyda moroedd amser fyth,
 Ac ar bob craig oleuni llawer oes,—
 Ond rhannau bychain o farddonol fyd.
 Ni chanodd Homer am y bryniau draw,
Ni welodd hwynt! Beth fuasai'r Wyddfa hon
 Pe cysgodasai hi ei gawell ef?
 Rhyw ardderchocach Ida yn ei gân
 A dydd o dduwiau yn torri ar ei brig.
 O! am yr oes, O! am y ganrif mwy
 Ddyfera oddiar ei hasgell aur
 Ar un o'ch bannau chwi, Eryri beilch,
 Y Bardd ddeongla eich rhyfeddol iaith,
 Dragwyddol archoffeiriaid yn y nef,
 Yn gweini bythoedd oddiar y byd,
 Offrymwch chwi ystormydd fyrdd i Dduw,
 Rhyw un o geidrion natur ar bob ban;
 A deil pob ban allorawg ar ei fin

Ryw orwyllt wynt bob borau a phrydnawn,
 A rhua o dan rwymau ceidr y graig,
 Nes tawel farw ymaith i'r tragwyddol.
 O am yr awr bar i ni glywed mwy,
 A syn glustfeinio arnoch gyda'r ser,
 Syn wrando a wrandawent hwy erioed,—
 Eiriolaeth urddasolion bethau'r byd,
 Yn pwyso oll draw ar orsedd-waith Duw,
 Y goruchelder pell a nef y nefoedd.
 O am y llaw a gerfiai arnom oll
 Rai o'ch breuddwydion aruthr, ac a chwiliai
 Bob craig a chwmwl, a phell rôl o niwl,
 Am nerthol fyfyrddodau llawer oes,
 Gruddfannau aruthr natur, lle y mae
 Ei mynwes fawr yn chwyddo tua'r haul
 Y dydd, a thua heuliau uwch y nos.

Boddlonaf ar dy ysbrydoliaeth di
 Y bêr-awelog fro, a th flodau ter,
 Fel ser blagurol ar dy dyner las,
 A thithau fryn, ym mhell orffwysfa'r niwl,
 A th rôlfawr ysbrydoliaeth di, y môr,
 Sy'n rhuo yn dy gynhyrifiadau fel
 Pe treiglit dragwyddoldeb ar y byd,
 Gan ddwyn y Duwdod ar dy lif i farn,
 I farn anffyddol fyd.

Ond pwy ai câ ?

O, pwy gyrhaedda fyth eich graddau chwi,
 A hedd anfeidrol eich myfyrion, pan
 Ymseibio'r byd i feddwl am ei Dduw ?
 Dychymyg yw yr awen. Chwi, y creig,
 A'ch brodyr o aruthrol deulu'r byd,
 Sy'n meddu dwyfol wirioneddau'r bardd ;
 A chwi sy'n cynnal gyda'r nennau hyn
 Arnefoedd uwch barddoniaeth, a'i holl ser.
 Rhoer imi eistedd ar ryw graig a gweled !
 Tyrd, ysbrydoliaeth dderch y fôr-don fawr
 Sy draw yn ymwastraffu ar y traeth,
 Tyrd, eistedd ar uchelach lif yr enaid
 A fynnai arwain yr ystorom fawr,
 Ystormydd bywyd hefyd, dros y gân !
 Dos unwaith dros yr enaid, digon fydd.



AP WAELOD MYN YDD IRLWYN.

"Mae'r oll yn ymgyrchu, mae Gwladfoniadau'n sefyllid ar yr hall fforddau'n hysgu."
"The ddaer-innert a' rhagaddu hof i'w ar hylt y'wrgantau hys ar ddaer hys." — Y STRONN.

Ty Irlwyn ar y llyd; ty y Parch. D. Jenkyns yn agosaf ato; y ty y genwyd Irlwyn ynddo y'n nes ato.

Y STORM.

II.

BYD HEB STORM—*dyn ar ddalio Duw, gallu fydd, dyfodiad pechod a stormydd. adgof om y tawelwch fu. Parawys.*

PAN nad oedd amser eto wythnos oed,
 Yn addfwyn eto, ac yn pwyso'n sobr
 Ar eirwon liniau tragwyddoldeb, draw
 Fe wawriodd bwa o ogoniant claer
 Dros asur-fannau'r nef, ac arni hi
 Jehofa hongiodd oleuadau'i deml,
 Fil myrdd o ser, yn barod i wawlhau,
 Ar un edrychiad oddiwrtho, yr Hwn
 A edrych, ac y mae yn hanner dydd
 Ar dragwyddoldeb oll. Edrychodd Ef
 O'i faine dragwyddol ar y dyfnder mawr,
 A bydoedd fyrdd gyneuent wrth ei draed ;
 A gwelid uchel dal yr haul oddiar
 Fynyddoedd aur y dwyrain, pan gychwynnai
 I'w feiddgar daith ar hyd Ior-lwybrau'r nef,
 A môr o ddydd yn llanw ar ei ol,
 Gan guddio byd bob chwydd. Olygfa fawr !
 Pan y sicrhawyd carreg sylfaen amser,
 Tra môr diaraul tragwyddoldeb draw
 Yn araf dreio gyda sobraf dwrdd
 I ddyfnder anfeidroldeb a thawel leoedd Duwdod,
 Pan ganodd ser y borau nes i'r haul,
 A'r bydoedd-bererinion, edrych oll
 Yn ol ar dragwyddoldeb, gan addoli
 A syrthio ar eu gliniau unwaith mwy,
 Tra y danghosai Duwdod â'i deyrnwialen
 Eu ffordd i lawr drwy'r oesoedd, hyd y dydd
 Y deuai eilwaith i'w cyfarfod hwynt,
 Ac i derfynu lle y dechreuasai
 Eu hanes, ynddo ei Hun, a dwyn i mewn
 Y wedd sylweddol o fodolaeth, rhyw
 Ail dragwyddoldeb, lle na bydd na byd
 Na therfyn, amser, peth gweledig mwy,—
 Ond Duwdod anherfynol oll yn oll.

A phan agorai dyn ei lygaid glwys
 Yng ngwynion freichiau diniweidrwydd pur,

Yr oedd yr awel yn telori o'i gylch
 A moliant ar ei hanadl, a'i hadenydd
 Yn ysgwyd cawod o anthemau'r nef
 O bêr drysorau adlais gyda'r wawr.
 Ac nid oedd cangen ddistaw yn yr ardd,
 Na cholfen un na chwyfai gan addolwyr.
 Murmurai afon ieuanc wrth ei draed,
 A thonnau arian lifent ar y lan
 Fel dagrau engyl pur ar rudd prydferthwch.
 Dyferai'i swn hylifber ar y clyw,
 A balmaidd oedd yr effaith, balmaidd oedd
 Yr awel bêr berarogl ar y lan.
 Pan wywai'r ser yn eang wawl y borau,
 Pan rodiai'r wawr rhwng arianlwyni Eden,
 A'i throed yn gwynnu yn y gwlith, a'r blodau
 Yn agor i'w chroesawu, ac yn gwrido
 Ar ol cusanu'i throed; lle gwelai'r dydd,
 A'r don wrth ysgwyd o'i chysgadurwydd pêr,
 A deffro o ryw weledigaeth brudd
 Am wyntoedd ac ystormydd,—dieithr bethau,
 Nid dieithr mwy!—pan ddelai heibio'r ardd
 Mewn awel bêr-aroglau, i ddeffroi
 Teyrn y baradwys, oedai ennyd cyn
 Anadlu'r bore ar ei lifol ael
 Yn dwym o fynwes ei foddlonol Dduw.
 Hwyrffrydig oedd i dorri'r dwyfol hedd
 Farmorai golygfeydd y wynfa oll
 I dawel wedd myfyrdod, dyfnaf daw
 Perffeithiaf feddylgarwch. Cai y dyn
 Ar lechwedd un o'r bryniau eurwawr oedd
 Yn edrych tua'r dwyrain, ac yn troi
 Tragwyddol wawr o flodau ar yr ardd,
 Wynfaol chwydd o anian, ar yr hwn
 Yr hoffai'r cwmwl edrvch nes y bai
 Yn gwrido fyth, a byth yn newid gwedd.
 Ar hunwedd yno cai y dedwydd ddyn,
 Nid o lesghaol ludded, ond o bêr
 Lonyddol fyfyrdodau am ei Dduw.
 Ar ol i'r nefoedd gauad fflamwawr ddor
 Byd-noddfa y gorllewin ar y dydd
 A'i bêl ymoerol mwy, pan yr ymdaenai
 Cysgodion bryniau Eden ar y byd
 Fel seilwaith ardderchocaf fainc y nos
 A berlid â mawreddau pennaf Duw,
 Pan nad oedd nos ond sancteiddiolach dydd

A'i hunig olau yn angyllion, dwfn
 Ddyddâd o enaid ar anfeidrol fyd ;
 Ar lydan wynt o bêr-ddifrifol sain
 Pan drefnid y cymylau dros y byd
 Ryw egwyl dedwyddolaf, cyn i'r mellt
 Ymlidio yn dragwyddol ac ymwau
 Trwy anfeidrolion fronau'r nef fel myrdd
 O fforchog eirf poethedig oni rhuo
 Fel pe y dygai ynnddi adfail byd,—
 Ei geidwad-angel godai tua'r nef
 Ei gannaid law, y llifai ffrwd o wawl
 Dwyfolaidd oddiarni, a rhoddai dyn
 Ei enaid oll i'r alwedigaeth dderch,
 A hongiai ei fawreddog fyfyrdodau
 Fel ardderchocaf ddringion wrth y ser,
 Fel araul ddringion i'w ddwyfolfawr ran,
 I'r dwyfol ymneillduo am y nos
 Nes, gyda'r haul, ymgodi o iswaith Ior
 Lle y cychwynna ei berffeithiau mewn
 Gweledig bethau bydoedd ag y gall
 Babanol law eu teimlo ; gyda'r haul,
 Sy'n cynrychioli ger yr oesoedd oll
 Y creol air, gan ddwyn y greadigaeth,
 Ddiderfyn fawredd, gydag ef i'r lan
 Bob boreu fel o ddiddym, gan ddyddhau
 Deng mil o fryniau â'i anfeidrol wên ;
 A'i enaid mewn caethiwed gan y ser
 A'i tynnent ymaith i eigionau'r nos,
 Gyhoeddwy'r anfarwoldeb, luoedd Duw,
 A rodient allan fel o hono ei hun
 I ganu am eu Tad, gan ddwyn eu borau
 Ar lawer pennarth o'r tragwyddol fyd,—
 A'i fod i gyd yn feddylgarwch pur.
 Per ymollyngai dyn i falmaidd gwsg,
 Ac i freuddwydion gorfawreddog am
 Baradwys, nad yw'r seren olaf draw
 Yn sicr o'i chyfeiriad. Nid oedd cwsg
 Bryd hynny ond symudiad gwell i mewn
 I orgreadau yr ysbrydol fyd,
 Ymlifiad hyd yr anfarwolion rodau,
 Per hynt ar lannau y tragwyddol fôr ;
 A byth ni lifai ar ei freuddwyd ef
 Oer wawl y beddfaen unig ar y bryn,
 Y lechwedd lom a didrain ; ac nid oedd
 Môr anherfynol galar wedi cael

Glan o fewn breuddwyd eto, na dychymyg
 Pelldreiddiol i ledyngan ei neshâd.
 Anturus ragehediad, rhagwawlhâd
 O enaid ar y dyfodolion bethau,
 Ni chaed i aflonyddu mwyniant per
 Dyddhaol oriau amser, pan y torrai
 Y wawrddydd danbaid o'r tragwyddol nos
 Yng nghanol bloedd dwyreol fydoedd Ior,
 Afrifed dorfoedd, ac yng nghanol swm
 Byd-sylfaeniadau ei ddeheulaw gref
 A phell aweliad y dragwyddol fraich,
 Raiadrol Dduwdod! Hyd yn hyn ni chaed
 Un cwmwl o lofruddiog wawr, o ffurf
 Caeredig na byddinog, na niwl fyd
 Yn symud ar gastellog drefn o fewn
 Eangaf orwel Eden. Disglaer oedd
 Gwelediad ardderchocach enaid dyn
 Hyd orgylech ei ddychymyg faith, a thros
 Bell oleuadau ei farddoniaeth fawr
 A ymddyrchafai mewn mawrhydri pur
 Diderfyn rwysg, ar gyfer gweithiau Duw
 Ac ar eu cynllun gorfawreddog hwynt.
 Ac nid oedd gofal am yfory fyth,
 Rhagwthiad o bryderus ofnau iddo,
 Yn rhagdywyllu ei ragluniaeth ddofn,
 Gan ddwyn holl bwys, a mwy na phwys, ei holl
 Helyntoedd ar yr enaid cyn i Dduw
 Ei alw danynt oddiar ei haul,
 Sy'n galw yn ei enw wrth bob byd,
 Bob dôr ddwyreiniol, gyda gosgordd fawr
 Llydanol ddisgleirderau'r bore ddydd.
 Yr oedd pob dydd o anherfynol rad
 Fel llawnaf fôr; pob awr fel newydd lanw
 Yn wylo am eangach traeth, am le
 I arllwys mwy o gyflawnderau Ior,
 Aberoedd dyfnach i bob dwyfol ddawn
 Fwynhau ei llawnaf chwydd, a dweyd wrth chwyddo
 Fod Duw yn fwy na rheidiau'i fydoedd oll.
 Bendithion fyrdd yn ol i'w fynwes Ef
 Ddychwelent fel y doent heb le i'w dwyn,
 A myrdd o flodau gauent gyda'r dydd
 Heb un i edrych ar eu gwawr o liwiau
 Y gallai angel weled yn ei wisg
 Ryw ddiffyg, a dyfeisio newydd addurn
 O wawr a ffurf mwy eirioes wrthynt hwy.

Er lledu'i enaid trwy bob nerth i maes
 Fwy-fwy, ac yfed o ddaioni bod,
 O radau lor ei eithaf, teimlai dyn,
 Er cymaint a dderbynai ar bob awr,
 Fod môr yn llifo heibio y ddau tu.
 Yr oedd bodolaeth yn ddedwyddwch pur
 I mewn i'r meddwl dyfnaf, ac i maes
 Hyd bellaf ehediadau'r enaid, hyd
 Arsyllfa olaf ei athrylith dderch.
 Pa wrthrych bynnag o'r diderfyn fyd
 Ddwyfolai â'i edrychiad pur, ni chaed
 Dim ynddo a gythruddai dawel fôr
 Ei anherfynol hedd. Ah! nid oedd gwawr
 Y bryniau pell yn peri i ddyn bryd hyn
 Adgofio pellach pethau. Ac nid oedd
 Afonydd hedd-wawr y baradwys, rhwng
 Goriathrol lannau o fyrierain wawr
 O lyfnaf arwedd yn llifeirio fyth,
 A'r awel dyner ar eu mynwes lawn
 Yn ymdawelu i farw wedi rhoi
 Ei hoffrwm olaf iddynt, arogl pêr
 Perarogl i bob ton—nid oeddynt hwy
 Pan fai eu swm dawelaf min yr hwyr,
 Lifeiriol hedd, yn peri i enaid dyn
 Brudd ymlonyddu i fyfyrion syn
 A meddwl, meddwl! Sydyn waedd y gwynt
 Wrth gyffwrdd âg oer fronnau canol nos,
 A'i adsain ddilon bell, ni thorra i mewn
 I gylch swynedig ei ddwyfolaf hun
 A wylid gan angylion, araul lif
 O anfarwolion fodau, riniau ceidr,
 Lurugog anfarwoldeb! Nid oedd chwyth
 O naws gauafol fyth yn disgyn ar
 Amfrwysol bethau ei ramantol awr,
 A freision godent mewn un nos ar hyd
 Pell arwynfaoedd ei freuddwydion ef,
 Yr hongiai eu gorellydd gwylltwedd dros
 Ddyfnderoedd nad yw'r greadigaeth hon
 Trwy yrfa'r oesoedd wedi dwyn ei haul
 A'i rhagddydd mawr o ser
 I'w golwg eto. Nid oedd adgof oer,
 Fel sydyn wynt o'r ol, yn chwythu i maes
 Oleuon y presennol oriau tra
 Yr ymoddeithent gan fendithion Duw,
 Lifeiriol olew rhad, un ar ol un,

Fel eu cyneuid gan yr haul, y sydd
 Fyth fyth yn rhedeg dros y bydoedd, gan
 Oleuo llugyrn amser, oni bydd
 Yr olaf awr yn llosgi i mewn i Dduw,
 Yn welw yn y dwyfol ddydd, pan gwyd
 Duw mwy fel mesur anfesurod bod,
 Fel yr anfeidrol fôr o fewn yr hwn
 Y collir holl afonydd amser byth,
 Holl derfyn-feini'r oesoedd ; Duw ei Hun
 A'i Hun yn cylchu'r cwbl, gan lydanu
 Amseroedd, llwybrau, a thyngedion bod
 Oll iddo ei hunan yn ddiderfyn mwy.
 Yr oedd y graig yng ngorsedd-waith y bryn
 Yn gyfan, llyfnwedd, myrdd-gadwynog, fel
 Ei treiglwyd gynnau o'r dragwyddol Law,
 Ac nid oedd awel bruddaidd eto o fewn
 Un ceule ynddi, yn ymruddfan fod
 Ei meini hi ar hyd y glyn islaw
 Yn oer oleuo, â'u marmorawl ddydd
 Digysur, olaf ddisgynfaoedd dyn
 I wae a barn ac anherfynol nos,
 Yn gwawdio duwch ffawd a gwyndra barn,
 A chofrestryddion bythwyddfodol,—bedd
 A thywyll fod o gofion. Ac nid oedd
 Y fforest enfawr ar awelon nawn
 Yn gostwng ei sibrydol ddail tra'n clywed
 Ergydion clir y fwyall ar y pell
 Gyffiniol gylch o wÿdd, a'r adsain oll
 O anaearol ryw, fel pe bai bedd
 A'i oerion fyfyrdodau, gaerau mein,
 Yn troi yn llais am ennyd, ac yn gofyn
 Byd-haen o newydd eirch.

Fe rodiai dyn

Fel cysgod ei Greawdwr dros y byd,
 A'r ddaear ymlonyddai ger ei fron,
 A chofion y greadigaeth am ei Duw
 A ail-gyneuid ffordd y cerddai ef.
 Rhoddasid iddo y tragwyddol air
 Y bydd y greadigaeth fawr yn falch
 O cheir hi ynddo yn y diwedd fel
 Y leiaf o'i lythrennau. Yr holl fyd
 Ymgrymai iddo fel yr unig un
 A gawsai allwedd y dirgelion oll,
 Ac Alpha ac Omega natur fawr

Cyfrinion Ior. Fe ddygai ynddo ei hun
 Ffrwd glir o Dduwdod droai'r byd fel olwyn
 Y crynai Natur ar ei phwys fel corsen.
 Fe welai ddeddfau Natur yn ddi-len,
 O ddwyfol ddydd ei ddealltwriaeth fawr,
 Fel gweoedd yn yr haul; a'i air ei hun
 Yn fwy na'r cyfan, fel y gweddai fod
 I raglaw yr Anfeidrol. Golwg—gair—
 Lanwent holl gylch ei allofyddiaeth ef.
 O dan ei lygad, fel dwyfolach haul,
 Ymweddnewidiai Natur. Mewnol oedd
 Yr holl beiriannaeth fawr a droai'r byd.
 Yr enaid, fel yr oedd ar ddelw Duw,
 Ar ddelw ei berffeithiau, rhaid ei fod,
 Fel Duw, yn fwy na'r byd. Beth bynnag sydd
 Ar ddelw Duw, yn ol y graddau, mae
 Duw yn bresennol yno, a'r ddwyfol fraich,
 Holl hyd santeiddrwydd, allan. Delw Duw
 O fewn anfarwol ysbryd—beth yw'r gwynt,
 A'r môr, a'r mynydd, yn ei herbyn hi?
 Pe credem eto, ffoai'r bryniau, fel
 Pe deuai Duw i Farn ar gwmwl Ffydd.
 Pe credem o'r fan hyn y gallai Duw
 Lefaru trwom, o'r fan hyn yng nghanol
 Mynyddoedd barn a drylliau llawer oes,
 Ni byddai dim amhosibl i ni.
 A'r bryniau geirwon hyn, beth ydynt hwy
 Ond delwau o'r ysbrydol rwystrau sydd
 Ym mydoedd uwch yr enaid, ar hyd ffordd
 Y bywyd anherfynol; help i ddyn
 Trwy ddaearolion bethau weld ei hun,
 A chael delweddiad o'r profiadau sy
 A'u gorddieithrwech yn arswydo'r fron,
 Fel aruthr bethau o ryw farnol fyd
 Yn rhodio trwy yr enaid ganol nos?
 Anffyddiaeth, dychryn, ofn, y bryniau uwch
 Sy'n hongian dros yr enaid ac yn dal
 Tragwyddol auaf ar eu bannau erch,
 A'r daran sydd yn ysgwyd tragwyddoldeb,—
 Ddiflannant oll ar godiad llusern ffydd,
 Nes gwelo'r enaid ffordd bodolaeth oll
 Yn olau hyd yn Nuw, a'r beddfaen oer
 Yn nringion anfarwoldeb yn ei le,
 Un o fuddugol sefyllfaoedd bod
 O'r hon mae'r nef yn gyrhaeddadwy mwy

Fel eurog gangen yn llaw Duw. Holl ffordd
 Tynghedion enaid o ddiderfyn hynt,
 Ddyddhair gan fellteniad gwannaf ffydd,
 Er dyfned fyddo y tu yma i'r bedd,
 Ac nid yw'r beddfaen oer ond un o'r mil,
 Mil cynalyddion dan y ddwyfol wirf.
 Paham mae ffydd mor nerthol? Onid am
 Ei bod yn dwyn y dwyfol allu i mewn
 I'r enaid eilwaith, ac yn tynnu i lawr
 Gadweni rhagdfrefnedig-undeb bod,
 Un ar ol un, i afael dyn, nes cael
 Yr olaf, nesaf i'r Anfeidrol, ar
 Y pell fynyddoedd sy'n cyffinio'r byd,
 Yn barod i'w ddyrchafu'n llwyr i Dduw,
 Ei godi iddo Ef yn hollol mwy
 O wydd y byd, fel seren gyda'r dydd.
 Mae ffydd fel dydd yn uno'r nef â'r ddaear,
 Fel haul yn codi cydrhwng dyn a Duw,
 Rhwng bryniau oerion bywyd, glyn y bedd,
 A'r am-anfeidrolerau lle y mae
 Gogoniant Duwdod yn rhaiadru mwy,
 A'i symudiadau yn glywadwy fyth
 Fel bythol godiad o newyddion fydoedd.
 Ffy amser ymaith, ac ni welir mwy
 Yr oesoedd, y cymylau sy'n gordoi
 Pell a thragwyddol hanesyddiaeth dyn.
 Y mae gwirionedd amser ger ein bron,
 Y dechreu pell a'r diwedd, ac i gyd
 Yn Nuw, fel ffordd yr huan yn y nef, ..
 Yn codi ac yn disgyn.

Cyfyd ffydd

Fel haul ar amser, a goleua'r oll
 I mewn i Dduw bob pen. Mae'r enaid sydd
 Yn credu, wedi canfod gwawr y byd,
 A maith gydgodiad milfil heuliau Ior,
 O'r borau cyntaf, danbaid dorf y sydd
 Fyth yn baneru ei ogoniant claer
 Hyd nefoedd, fil mewn anherfynol ddydd.
 Fe rodia'r enaid ar ei haden bell,
 Fel angel dros yr eigion oesoedd, sydd
 Yn torri ymaith lannau'r bythol fyd,
 A gwel y cyfan fel y daeth o Dduw,
 A'r cyfan fel y bydd yn Nuw drachefn,
 Ar ol y puriad o angerddol dân

Oleua amser i'w dragwyddol fedd,
 Heb ado ond a fydd yn addas oll
 I'w fudo i mewn i Dduwdod, ac i fod
 Fyth ynddo fel priodoledau mwy.
 Un Heddyw mawr yw amser iddi hi,
 A Duw ei haul holl-lanwol. Oesau fil
 Tu blaen, tu ol, un ffunud ydynt oll
 I'w dwyfol edrychiadau hi, y sydd
 Yn derbyn golygfeydd tu draw i'r haul,
 Tu draw i orwel y diweddaf ddydd,
 Pan dry holl amser yn fachludiad mwy,
 Pan y machluda Duwdod yn ei holl
 Weithredoedd, i ail-godi ynddo ei hun
 Mewn tragwyddoldeb newydd. Ar ei thaith
 Pan y prysura i gwrdd â Duw, i gwrdd
 A'r gwirioneddol ddechreu yn y diwedd,
 Pan ffy y greadigaeth i roi lle
 I'r da a gysgodasai hi, i'r Duw
 Yr hongwyd ei holl ser a'i heuliau ynghyd
 Ar amser—un o bell
 Dylathau tragwyddoldeb ar ei hogwydd—
 Fel cyffelybrwydd o'i gyfodiad ef,
 Rhagardeb o'r dyddhad llydanach fydd
 Ar gylchoedd anifeiriol bod, pan ddaw
 I soddi'r darlun ynddo ei hunan,—gan
 Gyflymed ei rhedegiad amser gyll
 Ei boenus wahanolrwydd, ac ymred
 Yr oesoedd oll i'w gilydd, lifol wedd,
 Gan fawrwech ymribynnu gyda hi
 Nes cwrdd â thanau y diweddaf ddydd.
 Fel newydd-greol air o enau Duw,
 Hi seilia'r bydoedd eilwaith yn y meddwl,
 A myn i ddyn eisteddfa dderch ymhlith
 Aneirif luoedd ser y borau hwnnw,
 I orfoleddu gyda meibion Duw
 Uwchben y newydd greadigaeth—un
 O donau hollalluogrwydd sydd yn chwyddo
 Trwy amser oll ei byd-beroriaeth faith.
 Hi drefna anhrefn oll o'i flaen, hi yr
 Lifeiriaint beilchion Caos oll yn ol,
 Gan ddiorehuddio bydoedd yn y dwfn.
 Hi hongia oleuadau lor ar hyd
 Y nos dragwyddol, caua wely'r môr
 A dyrnod hollalluog yn y creig,
 Ac arch i'r ddaear donni tua'r nef

Ei meddal ddefnydd ac i sefyll fyth
 Yn fryniau yno. Trefna rodau'r nef,
 Y myrdd olwynion, cylchoedd haul a ser,
 Orleiswaith amser oll, a phâr i ni
 Glustfeinio ar y cydysgogiad mawr
 A'r gyntaf awr yn taro, a bythol un
 Unolwedd dawel tragwyddoldeb maith
 Yn cael ei dorri i fyny mwy
 I afrif raddfau, rhodau, heuliau, ser.
 Mae ffydd yn adgysylltu dyn â Duw
 Gan wneyd yr oll yn ddwyfol; haul a lloer
 A ser a gwae a beddau,—yn ei ddwyn
 I weled â thragwyddol lygad o
 Ffordd a chyfeiriad Duwdod; yn dyrchafu
 Ei holl feddyliau a'i efrydion derch,
 Fel ser, i'r dwyfol oruchelder pur,
 I'r fan ddwyfol-wawr, lle ni welir mwy
 Wahaniaeth arwedd ar y ddaear bell,
 Na bro, na bryn o gribog ael, na môr
 Na chroes na bedd, ond un tawelaf oll,
 Hydweddol â'r Anfeidrol amgylch ogylch,
 Yn hardd lewyrchu gyda "Bydded" Duw,
 O ser ei gariad nid y lleiaf un.
 A cheidw hi yr enaid ar bell fynydd
 Y bythol weddnewidiad, lle y mae
 Holl amgylchiadau amser yn gweddnewid,
 A gwyneb Duwdod yn disgleirio byth,
 A'i wisg o ragluniaethau geirwon oll
 Can wynned a'r goleuni; lle y daw
 Tragwyddol bethau i gyfarfod dyn,
 Elias, blaenion o'r tragwyddol lu
 Yn edrych am eu brodyr, ac yn dwyn
 Canghennau pren y bywyd dros y ser,
 Rhyw freuddwyd o ogoniant. Cred, a bydd
 Duw drosot, ynnot, ac o'th amgylch mwy,
 Dy faner a dy darian a dy gledd,
 Dy wregys o anfeidrol bethau byth,
 Dy haul a'th fywyd y ddau tu i'r bedd,
 Dy graig yng nghanol holl lifeiriant barn,
 Dy fugail ar fynyddoedd tywyll angau,
 Dy uchelderau yn yr olaf ddiluw.
 Yn unig cred. Trwy gredu mae y sant
 Yn tafu ei bechodau afrif mwy,
 Ei fywyd a'i farwolaeth, byd a bedd,
 A barn a thragwyddoldeb, oll ar Dduw,

Ar Dduw yn plygu i'w derbyn yn y cnawd.
 Symuda ymaith, fel daeargryn, holl
 Fynyddoedd enaid arno ef, a soddodd,
 Fe'u soddodd hwynt, oll yn ei wæd ei hun.
 Cystuddiau dyn a'i anwireddau oll
 Roed arno ef yr un prydnawn, a'r un
 Prydnawn a gollwyd byth ar ben y bryn,
 Lle llwythwyd anghof â phechodau byd,
 Lle torrodd a lle y distawodd holl
 Daranau yr Anfeidrol ynddo ei hun.
 Mae ffydd yn darfod a'i phechodau mwy
 Wrth edrych ar ei Duw, ac ato ef
 Cyfeiria ei chyhuddwyr erch i gyd.
 Nid ofnwn pe symudai'r ddaear—ffydd
 Sy'n gwneyd i'r enaid mwyach deimlo ei hun
 Fel seren dawel lon yn yr Anfeidrol
 Yn sier yn ei hundeb pur â Duw.
 Cydsyrthied yr wybrennau ar y byd,
 Ac aed y bryniau i ddyfnderau'r môr,
 Ar ol i'r bryniau dreulio hyd ddiddymdra,
 A thrai y môr o wendid beidio byth,
 A llwch y byd ymchwalu ar yr awel,
 Bydd Duw yn bod, a'r enaid ynddo ef
 Yn hardd, diysgog, cydunedig, fel
 Pe felly erioed buasai trefnwedd bod.
 Ar fryniau uwch ei hedd yn cerdded bydd,
 A'i wenau yn ymseru ar ei ffawd,
 A'i wybrau fyth i fyny, fyth i'r lan,
 Heb orwel, heb ymgload pruddaidd mwy.
 O am yr awr y cenfydd dyn ei holl
 Ffynhonnau eto yn Nuw, a phan y gad
 I'r bryniau grynnu, ac i'r ddaear droi
 Dan lefain,—“Duw sydd noddfa a nerth i mi,
 Efe a'm cynnal pan y try y byd
 Yn wagle, a'i ardderchog bethau'n darth.
 Yr arwaith mawr, y byd, yr haul, y ser,
 Y corff, cyfeillion, cyfeillgarwch, câr,
 Diflannent oll ar unwaith, mae fy nhroed
 A'm holl orffwysiad ar y sylfaen noeth,—
 Yr Hollalluog.” Delw Duw o'n mewn,
 Ac undeb â'r Tragwyddol, yw ein hawl
 I gyfoeth, parch, a theyrnedd pob rhyw fyd.
 A dedwydd oedd y dyn a deimlai'i hun
 Trwy ei gyneddfau oll yn un â Duw,
 Fel y winwydden trwy ei changau heirdd
 A'r fawr gedrwydden o ymdeyrnol wedd.

Fe grynai'r byd o'i flaen, gan weled Ior
 A'i holl berffeithiau fel cynalwaith uthr
 O dan ei eiriau a'i weithredoedd oll.
 Teyrnasai Ior o enaid dyn bryd hyn,
 O'i fywyd-orsedd yn y galon bur.

O ddedwydd adeg, pan y rhodiai dyn
 A'i Grewr law yn llaw, drwy Eden wiw,
 Fel plentyn gyda'i dad. Felldigaid awr
 A daflodd ar y rhwym a'u hunent hwy
 Fflam pechod, a enynnodd amser oll
 Yn oddaith o ddigofaint rhyngddynt mwy.
 Blagurai, ymagorai meddwl dyn
 Mewn myrdd o feddylddrychau teg newyddion,
 Fel uchelwydden a blanasai Duw
 O dan gawodydd myrrh y ser,
 Aml riniau, yn colfenu tua'r nef.
 Fe welai Duw ei hunan ynddo ef
 Mewn dyfnder o gyneddfau. Erchyll awr
 A ddug y storom farnol rhyngddynt hwy,
 A'r cwmwl sydd yn duo tynged dyn
 Gylch ei anfarwol fod, gan godi'r ser,
 Ddwyfolion rai, i mewn i Dduw i gyd,
 Nes oedd yn nos ar hyd yr enaid oll,—
 Derfysglyd aber o'r anfarwol fôr,
 Heb ynddo ond delw y gorhongiwl greig,
 Mynyddoedd tywyll, gwaeau, beddau, barn
 Yn disgyn fyth, a byth yn ymddyfnhau.
 O bechod! O erchylldra! Gwae y dydd
 Y damniwyd Amser â dy sangiad erch.
 Gwae'r dywell awr yr ysgrifennwyd ar
 Ei wyneb-ddalen ef dy enw di,
 Fel yr ofnadwy destyn, pan y rhoed
 Holl gyfrol fawr yr oesoedd drosodd mwy
 Ar ysgrifen-fwrdd y dragwyddol farn
 I erch awduriaeth yr ofnadwy ysbryd
 O wae, y sydd yn lledu hanes mawr
 Y byd o flaen y meddwl sobr, fel
 Ei hunan-gofiant, ac yn adnewyddu
 Yr argraffiadau gyda phob rhyw oes.
 Pa beth y'th enwaf? Y mae iaith yn pallu
 Ymglymu yma, a'r llythrennau fel
 Yn ymbellhau o'r enaid ar bob tu,
 Rhag ffurfio sain i'r fath anferthwch, sain
 Mor estron i beroriaeth briod bod,

Peroriaeth creadigaeth lawen Ior,
 Fel y tarawodd gyntaf wrth y gair
 Holl-berol, holl gyweiriol, fel y bydd
 Yn Nuwdod eilwaith, pan y boddir byth
 Holl amheroriaeth amser yn y gân
 Dragwyddol, y dragwyddol gân a dyr
 I mewn pan syrthio olaf gaer y byd.

Fe ddaeth y borau, 'roedd yr haul i ddod,
 A thi a gafwyd yn ei le, tydi
 A'th nos dragwyddol gafwyd. Trodd y dydd
 Rhagddarparedig yn ei ol, a'r haul
 Fachludai'n ol i'r borau. O pa beth,
 Beth ydwyt? Mae ymdyrfol oesau'r byd,
 Ser amser, yn cyfodi ac yn disgyn,
 A myrdd o ser am galon dyn yn machlud ;
 A gobaith llon yn plannu'r lampau hyd
 Bell fryniau y dyfodol, i'r dyfodol,
 Pan ddêl, eu diffodd â'i wirionedd oer ;
 Y mae pob newydd flwyddyn ar y bedd,
 Pob newydd lanw o amser, fyth yn dwyn
 O faith ystorom bywyd lawer llwyth
 O longdrylliedig bethau daclwyd gynt
 I forio anfarwoldeb, ac i gael
 Eu hafn yn Nuw, a nofio yn ei hedd
 Wrth y dragwyddol angor ; mae y byd
 Yn ail ymseilio ar ei fedd ei hun,
 I ail waghau ei newydd wedd â beddau ;
 Mae'r oesoedd yn ymsymud dros y byd
 Fel elor-gynalyddion y ddynoliaeth,
 A'r cyfan o'r tu ol yn troi yn fedd,
 Yn dywell gladdfa o holl bethau'r byd ;
 Mae dyn yn marw bywyd, ac yn byw
 Marwolaeth beunydd, yn gwyngalchu'r bedd
 Ar fryniau a nefolion leoedd cof,
 Gan roi i siomedigaeth ennyd awr
 Eangder oes o gofion, a pharhad
 I ing yr ymadawiad pan yr oedd
 Yr enaid yn ymdywallt oll i'r deigrin—
 Gan ddewis gydag ef farw ar y grudd—
 Nes teimlid fel pe bai bodolaeth oll
 Yn wagle ac yn gysgod ; ing yr awr
 A welai fedd yn cau ar fwy na'r byd.
 Mae rhyfel erch yn golchi'r byd â gwaed
 Fel âg afonydd barn, ac uchelfrydedd

Yn rhudd-ddyfrhau beilch gedrwydd ei ddibenion
 Sy'n hongian dros y byd, o'r marwol lif,
 I brofi dy fodolaeth erchyll di,
 O Bechod. Eto pwy a ddywed im
 Beth ydwyt? O ba le? Dy gryd, dy fedd,
 Dy febyd erchyll a dy arwyl lon,
 Dy erch gyfnodau hyd y nos o wae,
 Y nos ni ellir ei goleuo heb
 I Dduw ymostwng mwy a dwyn ei hun
 Dan ddiifyg mawr o waed fel haul i'r lan,—
 Ai moddion syn, ai angenrheidrwydd wyt?
 Taw! digon yw—yr wyt. Mae'r oesoedd oll
 Yn dy ail adrodd fel mawr destyn amser
 A llais rhy groew, fe ddaw y bregeth fawr
 O enau Duw ei hunan,—Tragwyddoldeb.
 Y mae y byd o gyrrau amser oll,
 Cymanfa yr hil ddynol, yn ymdyrfu
 Fyth tua'r bedd i'w gwrando, oni bydd
 Amser i gyd yn wâg, a'r olaf oes
 Yn ymddihoeni mewn unigedd gwael,
 A'r Sabboth bythol wedi cael yr oll,
 Tu draw i'r bedd, i mewn i Dduw i gyd.
 Paham yr ydwyt? Holl ddoethineb dyn,—
 Ar ol myfyrio hanner amser ymaith,
 A gweld y ddaear o'i hystafell lwyd,
 Pan syllo allan, yn heneiddio o'i gylch,
 Y bryniau di-wawr a'r lluddedig fôr,
 A golau amser wedi croesi'r llinell;
 Pe meiddiem edrych trwy y dymhestl froch
 Y sydd a'i gwyntoedd yn ochneidiau byd,
 A'i tharan yn gollfarnol lef uwch ben
 Cenedlaeth lawn bob tro, byd-haen o fywyd,—
 Doethineb balla yn yr ymchwil hon,
 Ac unig ateb pob athronydd mawr
 Yw—syrthio'n ol i'w gader lom, a marw.
 Paham yr ydwyt? I ba beth? Taw, taw,
 Yr ydwyt dithau i rywbeth, fel pob sar.f
 Sy'n yfed gwenwyn erch y byd oddiar
 Ffordd ardderchocach dyn. A oes i ti,
 Feddgloddiwr bydoedd amser, fedd? O gylch
 Dy galon uffern-ddofn, lle yr ymnytha
 Aneirif ysgorpionau gwae, a oes
 Ofn angeu fyth, a breuddwyd diddymhad?
 Ymseiliai'r greadigaeth fawr o newydd
 Ar y diddymiad hwnnw, ac o'i wyll

Yr haul tragwyddol godai, a rhyw ddydd
 O anherfynol hedd. Taw, Enaid, taw!
 Mae ffeithiau o anarluniadwy ryw
 Yn hanesyddiaeth bod na ddichon neb
 Eu dirnad, ond yr hwn sydd fwy na'r cwbl,
 Yr hwn gwmpasa'r cyfan fel y nef,
 Y ddaear a'i mynyddoedd a'i chlogwyni.
 Fel hyn y mae; pa fodd, nis gwyddom; pam,
 Nid oes a ddywed. Pechod,—O, y mae
 Yn ffaith aruthrol; mynydd tywyll bod,
 Y gorwedd lladdfa amser wrth ei droed,
 Cwympedig genedlaethau'r byd.
 Pa fodd y daeth i mewn? O gofyn, ddyn,
 Pa fodd y gelli ei osgoi? Pa le
 Y cei y llusern sy'n goleuo'r bedd,
 Y grisiau prinion hyd y marwol fryn,
 Y rhaff dragwyddol ar y llif o farn,
 Y bwa yn y cwmwl lle y mae
 Cyfamod gwreiddiol bod o hyd mewn grym,
 Hedd-fwa sy'n ymlifo i mewn i Dduw,
 Yn hardd ymagor i'r tragwyddol ddydd
 A oedd i godi ar y bore fyd
 Dros wynion fryniau diniweidrwydd gynt,
 Ond a symudwyd heibio'r oesoedd oll
 I wawrio dros ben arall amser, dros
 Ddiweddaf oriau'r ddaear? Trefnodd Duw
 Y Ffeithiau mawr gyferbyn. Dug ei Hun
 O'r dyfnder fel y gyferbyniol ffaith.
 A dyma ddau wirionedd amser, clyw,—
 Fod Pechod, a bod Duw mewn cnawd yn fwy.
 A rydd yr haul hanner y byd i'r nos
 I ddangos ei dragwyddol allu a'i rwyg
 Ei hunan pan y cyfyd wrth ei bwyll,
 I eglurhau ei fawredd? Oni roed
 Hanner y greadigaeth, neu y cwbl
 A grewyd yn nhragwyddol wythnos Ior,
 I bechod holl nos Sadwrn amser, fel
 Y profid fod ei anherfynol ras
 A'i gyfoeth, a'i dragwyddol allu, yn fwy,
 Yn fwy na holl drueni amser, pan
 Y codai ef ei hunan ar y byd,
 Gan fythol leddfu holl ystormydd bod
 I un dragwyddol hindda â thaenelliad
 O'i ddagrau a'i holl-haeddol waed ei hun?
 Ac fel y deuai'r Sabboth mawr i mewn,

Y tragwyddoldeb o ddiderfyn hedd
 Ar ol y cwbl, gyda sydyn wawr
 O'i galon ac o'i gariad dros y groes,
 Ai nid gogonawl oedd arddangos haedd
 Y dyferynau hynny, am y pren
 A llynent un prydawn, ac oddiar
 Eigionau pellaf tragwyddoldeb sydd
 Fel ser tragwyddol yn disgleirio byth,
 Gan hawlu'r oll, yr anherfynol oll,
 I ddyn colledig mwy? O, onid oedd
 Yn werth ei brofi am un waith fod un
 Ymddarostyngiad o'r Tragwyddol Fod,
 Fod un cerddediad hyd y byd a'r bedd,
 Un sangiad ar y marwor enbyd, un
 Prydnawnol grwydriad hyd y bryn o wae,
 Un iddo ef, yn fwy na digon byth
 I gyfiawnhau holl fôr-lifiadau gras,
 I wneyd trugaredd yn gyfiawnder byth,
 Ac yn fwy cyfiawn mwy y cyfiawnhâi,
 A gwneyd cyfiawnder yn anghyfiawn bron,
 A barn yn gamwedd wedi barnu Duw?
 Cyfiawnder y tragwyddol nerthoedd mwy
 Yw trugarhau heb raddau a heb rif,
 Cyhoeddi blwyddyn gymeradwy Ior,
 A lledu'r uchel wyl dros fryniau'r byd,
 Dros fryniau'r oesoedd oll, nes dwyn yr oll,
 Holl gaethglud amser, gwaredigion Duw,
 I ddinas y tragwyddol fryniau draw,
 Cydgyfarfyddfa meibion Duw, lle mae
 Y brenin yn ei degwech, a myrdd myrdd
 Wrth edrych arno fyth yn ymdeghau;
 Caersalem anfarwoldeb, lle yr esgyn
 Holl lwythau yr Anfeidrol, lle nid oes
 Un porth yn cau, na mur yn plygu mwy,
 Na'r maith ymlifiad yn dibennu byth,
 Fyth bythoedd yn ymlanw, eto fyth
 Yn diorchuddio ar y bryniau pell,
 Gan ddangos araul barthau uwch yn Nuw,
 Heolydd byd-lydanol bob un, fel
 Ffordd haul y borau. Trugarhau heb gyfrif,
 Ar ol y cyfrif fu; pardynu heb gofio
 Ond enw y pechadur; rhwygo i maes
 Y duon ddail o anferth gyfrol barn
 Nas gall ond Duw ei chodi, ac nas gall
 Ond tragwyddoldeb neu efe ei dwyn

Sy'n soddi tragwyddoldeb ynddo ei hun,
 Yn llanw "awr" a'i hunan, nes ei gwneyd
 Yn fwy na thragwyddoldeb, yn fil mwy
 Na phob estyniad o feidrolion bethau;
 Eu rhwygo i maes nes crogi'r clorian erch
 Goruwch tragwyddol gyfarwyddion gras,
 A dwyn goleuad anfarwoldeb dros
 Y bedd a nos-fynyddoedd amser mwy,—
 Cyfiawnder y dragwyddol orsedd yw.
 O, 'r dagrau hynny! Onid gwerthfawr oedd
 Gael cyfle unwaith i arddangos beth,
 Beth allai Duw trwy ddagrau, a pha fodd
 Yr wylai un drueni'r byd i ddim,
 I lai na dim gan iddo ef—wyllo?
 Mae gallu anherfynol yn ei fraich,
 Hi seilia fyd bob codiad; cafwyd nerth
 A rhwysg cyfartal yn ei farwol ing.
 Fe bechodd dyn, fe lanwodd Duw ei holl
 Ddyfodol oer â'i hunan, ac o'r bedd
 Daeth allan i'w gyfarfod, gan agoryd
 Dyfodol newydd iddo ynddo ei hun.
 Pa beth yw pechod? Ymostyngodd Duw
 Fe ruddodd y melldigaid bren â'i waed,
 Bu farw yn ein lle, ac O, farwolaeth
 Gwmpasog honno! Holl drueni dyn
 A gollwyd yno. Rhyw ddansoddiad oedd
 O holl fynyddoedd gwae. Ymledodd Un
 I farw, a'i angau ymhelaethai dros
 Gylch pellaf, olaf afryglyddiaeth dyn;
 A llefai Iawnder,—“Mwy na digon yw.”
 A daeth y môr o Iawn i lawer aber
 O ddirfawr gylch, nad oedd gan bechod un
 Oer adfail ar ei chreigiau. Enaid, taw!
 Beth yw y ddaear a'i mynyddoedd geirw
 Yn yr amgylchawl gread? Y peth yw
 Dy bechod yn y dwyfol Iawn—brycheuyn!
 Digonedd am y cwbl—gwaedodd ef.

Ac eto hyfryd meddwl am y wedd
 Fwasai ar fodolaeth, galw yn ol
 Y pethau a gollasid, peri i ser
 Y borau hwnnw daro'r gân o newydd
 O oriel bellaf adgof. Oni ddaw
 I freuddwyd adgof lanw o fwynhad
 Na swniai erioed ar y soddedig draeth?

Per brudd-der cofio yw dedwyddyd dyn.
 Mae'r enaid trwy adgofion yn mwynhau
 Mwy nag a allai'r byd ei hunan roi,
 Mae'n llanw â'i weithrediad mawr ei hun
 Bob diffyg, ac yn gwneyd y cyfan mwy
 Yn harddwych, mawr, a pherffaith fel ei hunan.

O uchder adgof

Gafaela yn nigwyddion geirwon bod,
 A chyfyd arnynt greadigaeth fawr
 O oruchelion bethau ; mae y nerth,
 Y ddwyfol gynneddf yn yr enaid sydd
 Yn hiraeth am yr anherfynol pur
 A'r perffaith a'r tragwyddol, oddiar
 Y tryblith o adgofion yn deddfhau
 Yn ddiarwybod iddo'i hunan braidd,
 A'r cyfan, tra meddylio am a fu,
 Yn codi fel y mynnai iddo fod.
 A thybia'r enaid iddo weled gynt
 Wynfaoedd felly, gan mor gymwys ydynt,
 Mor addas iddo. Hawddgar oedd y dydd
 Goronai ddwyrain amser, tecach yw
 Wrth wawrio dros fynyddoedd mewn yr enaid
 A'r seren fore, adgof, ar ei flaen.
 Blodeuyn hawddgar ydoedd fel ei caed
 Ar fanc ystormus bywyd—tyrd i mewn
 I dderch ros-erddi adgof, dwyfol yw.
 A nef funudau bywyd ydynt hwy
 Pan fo yr enaid allan o'r presennol
 Yn chwilio y tragwyddol leoedd am
 Y per anwylion fu ; pan fyddo haul
 Yr heddyw blin a thrystfawr wedi machlud,
 A dwyfol sobrwydd anherfynol fod,
 Fel nos ardderchog, ar yr enaid rhydd
 Yn disgyn, a holl oesoedd Duw fel ser
 Tragwyddol. Beth yw heddyw ? Mae yr enaid
 Yn hawlu tragwyddoldeb fel ei heddyw,
 Ei briod ddydd, ei ddwyfol ddydd di-oriau.
 Y ddoe ? y fory ? darfu am y cwbl.
 Mae'r enaid wedi codi ynddo ei hun
 I'r uchder lle mae'r bythol haul i'r lan,
 Lle mae yn anherfynol ddydd, o'r hwn
 Nid yw pob carreg filltir ar hyd ffordd
 Diderfyn fywyd dyn, mesurau bod,
 Ond rhannau o wrthuni amser, rhith

Ddaduniad o'r anysgaradwy, cysgod
 Colfenau eiddil ar y bythol lif.
 Nid yw mynyddoedd angau ar ei ffordd
 Ond ymohiriad awr neu ennyd; byr
 Ymloewad cyn ymlifo i dragwyddoldeb,
 Lle collir swyn yr awrlais gyda myrdd
 Wrthseiniau geirwon amser, lle nad oes
 Un cysgod mwy i awru'r deial oer.

Derbynia ddiolchgarwch enaid blin
 Am gymaint o ddedwyddwch ar y daith,
 O Adgof. Llawer carreg lyfnaist ti,
 A dringwyd llawer bryn heb synio'r rhiw
 Wrth gadwr galon a'i theimladau oll
 Ymhell tu ol. Per feusydd bore byd,
 Pell doriad gwawrddydd gobraith, rhodfa bell
 Y galon ar hyd faes ieuentid gynt,
 Pan redai bywyd flaen dychymyg bron,
 Pan oedd y byd gymaint a'r enaid braidd,
 Yr enaid yn ei gryd er hynny, cyn
 Cyfodi yn ei rwysg a throi i maes
 I uchel lwybyr bod, gan holi am
 Ei Dduw a thragwyddoldeb, egwyl lon
 Cyn cael ei hun ar derfyn eitha'r byd,
 Ar ymyl beddfaen bore ddug i'w gof
 Yr iaith dragwyddol a'r tragwyddol fyd,
 Lle trodd bodolaeth yn ardderchog nos
 Heb onid golau ser, adgofion fyrdd,
 A myrdd o arobeithion uwch eu gwawr,
 Pan nad oedd eto un dyfodol braidd,
 Nac un ymgasgliad o adgofion prudd
 Yn codi ar y galon bob yn ail
 Gan dynnu ei feddyliau oll ymlaen,
 Neu oll yn oll, nes llwyr waghau'r presennol
 O'r enaid mawr, a diolwyno amser
 Nes rhedai'i oriau drosodd mor ddi-swn,
 Di-wasgiad mwy; per olygfeydd y wawr,
 Dileniad cyntaf amser, bore wrid
 Yr enaid pan y rhodiai gynta'i maes
 I gyd yn degwch ym morwyndod bod,—
 Dy eiddo di, O Adgof, yw y swyn,
 All gyffwrdd beddau y dedwyddion hyn
 A pheri i farwolaeth bod ail fyw.
 I ti y rhoed y gair sy'n agor holl
 Gaudedig ddorau amser; y wialen
 A hyllt y tywyll fôr sy'n llanw dros

Holl wawriol genedlaethau'r byd, gan ddwyn
 Pell niwloedd ebargofiant ar bob traeth,
 Lle gwelwyd a lle byth y collwyd dyn,
 Gyredig alar-dorfoedd pob rhyw oes.
 Ti feddi di y nerth i gadw draw
 Aderyn gwae sy'n nythu dan y fron,
 Ac anfon y golomen yn ei le
 A deilen olewydden yn ei phig,
 Addewid yn y man o werddach bro
 Nes cano y rhwymedig ar y graig.

Mae gan bob enaid fel y cyntaf un
 Ei Eden rywle tua dwyrain bod,
 A thi sy'n dwyn yr agoriadau aur,
 A thi sy'n cadw ffordd holl brennau bywyd
 Rhag cau, O nid i wahardd; a thydi
 Sydd yn ymweled â'u hunigedd hwynt
 A llawer deigr yn llawn o enaid, llawn
 O riniau cariad, dagrau sydd yn dwyn
 Y bythol wanwyn ar eu bywiol lif
 Sy'n adnewyddu bywyd trwy ei holl
 Hinsoddau, ac yn arwain hyd y bedd
 Chwyf y cynhauaf mawr. Cyfodi di,
 O ddyfnder amser a'i ardderchog nos,
 Afaelion o ogoniant milwaith uwch
 Nag ardderchawgrwydd holl freuddwydion byd,
 Ramantol fawreddogrwydd. Adgof bêr!
 Paham yr ymadawem? Tyred, tyred,
 A byddwn fyw o fewn y pethau fu,
 Bêr absenoldeb! Aed y byd ymlaen,
 Mwynhâwn ninnau heddyw yn y fory
 Y cyfan ag a fydd yn werth mwynhau
 Pan all yr enaid ddewis a'i boddha.
 O fewn yr enaid byddwn byw, o fewn
 Hoff bethau'r enaid, sydd yn gorwedd oll
 O fewn dy etifeddiaeth dawl di,
 Ar ymyl teyrnas y tragwyddol hedd,
 Lle bythoedd y teyrnasai anghof ar
 Yr olaf fedd, bedd adsain. Adgof bêr!
 Fe basiodd yr amodlw dros y bedd,
 A chlywodd ysbryd o'r tu draw i'r byd.
 Tyrd! hyd y beddrod arall ag y mae
 Rhyw faen o fewn tragwyddol nos y graig
 Yn gorfreuddwydio eisioes gael ei hun
 Yn gorffen y bydlethiad ar y fron,
 Hyd yno dyred; yno ymadawn

Os mynni. Dywed wrth yr awel brudd,
 A dywed wrth y seren gyntaf, dywed
 Yn isel wrth y funud ganol nos,
 Mae'r enw, er mor bruddaidd, ganddynt hwy,
 Hwya a'i hadwaenant pan y chwilia'r byd
 Ei rol yn ofer. Ac os daw, ryw hwyr,
 Ryw awel heibio heb ei adwaen mwy,
 Cod iddi fel ochenaid, a bydd farw,
 A nythed yr aderyn ar fy medd,
 A chaned anian yno fel o'r blaen.

Yr oedd pob pren yn flodau hyd y ddaear,
 A'r awel am y cangau yn ymdroi,
 Yn nofio mewn aroglau 'n araf, araf,
 Fel pe'n dymuno aros rhyngddynt mwy,
 A gado'r nef a'i huchelderau pell,
 Ac ar y gangen amlflodau hon
 Anadlu'i holaf. Pan y clywid swm
 Mawreddog rod y dydd ar fryniau'r dwyr,
 Fel blaenaf lais y prif o gorau Duw,
 Yn galw bryniau fil a byd i wrando,
 Coedwigoedd eurwawr Eden lennid gan
 Aneirif godiad, anherfynol daen
 O gorau'r wawrddydd, lond yr awel fawr
 Dderbynia'r borau ar ei haden bell,
 Holl anherfynol Jubili y wawr.
 A gwenai aml gerub mawrwych, gaed
 Yn ymgadeirio mewn rhyw gwmwl derch,
 Rhyw gadair o ogoniant ag y troed
 Holl rwysg y borau arno, mawreddogrwydd
 Y danbaid greadigaeth wrth ddeffroi,
 A'i eurwisg yn llifeirio ar y nef
 Fel borau arall, a'i dywynnol wedd
 Fel haul agosach, haul yn dangos Duw,
 A chylch o fydoedd ereill am y gair
 Holl-berol fyth yn adsain. Gwenai fry
 Goruwch y moroedd o beroriaeth gaed
 Yn torri ar lydanol draeth y dydd,
 Lydanol ysplanderau'r bore anfeidrol,
 Tra milwawr feirddion y baradwys hyd
 Fynyddoedd fil yn pyncio, yn y wisg
 A dderbyniasant o'r dragwyddol Law,
 Ysplander claerlifeiriol, ffrydiol geinder.
 Fe redai'r llew o enau noeth ei ffau,
 I lawen gyfarch y brenhinol ddyn,

Draw pan ddwyreai ef ei heulaidd ben
 A'i ffurf ysplenydd oddiar y byd,
 Fel cerub a gysgasai ym mheroriaeth
 Amfydoedd lor. I'w gyfarch rhedai ef
 Gan ruo o lawenydd aruthr fel
 Y rhua'r môr, wrth glywed ar ryw bell
 Bigyrnol Alp o gwmwl ddieithr swm
 Pell ysgogiadau'r dymhestl ffroch, a murmur
 Ei haruthr gynadleddau, tra'i cherbydau
 Gordduon yn ymdaenu'n faith ar hyd
 Fawreddus ffordd mell y taranau draw.
 Hyd fwng ystormus yr anifail broch
 Fe dynnai dyn ei wen ddiniwed law,
 Gwen oedd bryd hyn fel mynwes diniweidrwydd,—
 Nid felly dwylo'i feibion ar ei ol,
 Nid felly ei law ei hun pan godai hi
 Yn arw gan bridd i fyny at ei dalcen
 I sychu ffwrdd y gawod chwys a fai
 Yn gwlychu ei wyneb gwelw neu yn gymysg
 A chawod drom o ddaagrau ar ei rudd,
 Pan oedd ei rudd, fel wyneb amser mwy,
 Yn rhychau drosto, a'i ardderchog dal
 Yr ofnai'r holl greedig fyd o'i flaen
 Fel nos o flaen y dydd, yn wael o wedd,
 O'r ddaear yn ddaearol; nid fel cynt
 Pan ledai yn ddangosog lydan glaer
 O'r gallu a'r mawrhydri fedr Duw
 Argraffu, ie, ar bridd.

O, hyfryd yw

Adgofio'r hyn a fu, na ddaw drachefn.
 Breuddwyd yw bywyd, enaid yn diuno,
 Daeargryn angau sydd yn deffro dyn.
 Agorai Eden llai ei maint, nid llai
 Ei mwyniant na hon yma, yn ein gwydd.
 Ar ymyl ffordd ieuenctid taflai hi
 Ei dorau yn agored, ac o'i mewn
 Fe ledganfyddid rhes o ddringion derch
 Yn rhedeg i orentrych mawredd oll,
 I'r wynfa bell a byth-bellhaol sydd
 Yn hir ymgynnal ar ryw enbyd obaith,
 Rhyw golofn niwlog a rhamantol o
 Freuddwydion gwawrddydd bywyd; pan yr oem
 Yn creu tyngedion ac yn archu'r bedd
 A'r tywyll bethau dros y gorwel oll

Rhwng lled-gwsg a di-hun, bér egwyl, cyn
 Agoryd yn yr enaid erfawr rwyg,
 A rhwygion erfawr eilwaith, trwy y rhai
 Y cafodd anherfynol wyntoedd gwæ
 Eangder ffordd i mewn, i droi yn ol
 Fôr araul bywyd ar dragwyddol drai,
 Ac i ddadwreiddio y gobeithion gaed
 Yn tyfu ar hyd fryniau'r enaid, fel
 Fforestydd anfarwolwawr, yn y rhai
 Yr hoffai'r awen ymgysgodi a rhoi
 Yr enaid i freuddwydio ar ei chân,
 A'i obenyddu mewn barddoniaeth flydd,
 Eangder i leihau a diffodd pell
 Fryn-lampau uchelfrydedd a blanasai
 Rhyw freuddwyd beiddgar yno, man na bu
 Ond ambell gerub-ddyn yn rhodio erioed
 Lle gwelai amser oll, un yma a thraw
 Fel duwiau ar yr oesoedd.
 O, swynion nefol yr olygfa hon!
 Braidd na fuasai sant ar risiau'r nef
 Yn edrych dros y bedd, gan genfigennu
 Eden mor hawddgar i nos-ochr y byd.
 Yr oeddym ar y trothwy, ar y trothwy.
 Efrogdydd blin! a fuost ti erioed,
 A glywaist ti erioed am neb a fu
 Ym mhellach gam na throthwy gwynfyd, gorsing
 Paradwys yma i'r bedd?
 Yr oeddym ar y trothwy, blin y dydd!
 Daeth uchelfannau, sail, a chwbl i lawr,
 A gorsing gobaith a'i eurddringion oll,
 Oll yn yr adfail.

Na ofynned neb

Neb fedr deimlo, ble mae'r fan—

Bedd, bedd sydd yno.

A throm yw agwedd anian gylch y lle,

Mae'r blodau yno yn pendrymu, a'r gwllith

Yn wylo ar eu mynwes hyd brydnawn.

A thyner yw yr haul; ar ganol dydd

Ni leibia hwynt â'i wres. A'r edn

Ddiagynna ar y beddfaen hwn, a thaw!

A hir ymdrecha natur dwym ei chalon

I gadw y dywarchen ar dy fron

Yn dyner ac yn werdd ar ol i'r gauaf

Anadlu angau ar y byd. Hir, hir

Y mae un arall yn gohirio o gylch,
 Ei bechan ddirrain annedd, fel pe bai
 Yn disgwyl clywed cyffro o'i mewn, neu lais
 Yn son am adgyfodiad, balmaidd son
 Am ail gyfarfod. Ah, nid yw y bedd
 Sy'n gofyn, gofyn, gofyn, ac ar ol
 I oesoedd, gwledydd, bydoedd, wrando a rhoi
 Eu hunain a'u hadgofion olaf iddo,
 Yn gofyn gan daranu,—nid yw ef
 Yn ateb un gofyniad er i'r truan
 Drengu wrth geisio. Eto hyfryd yw
 Adgofio'r hyn a fu, na ddaw drachefn,
 Na ddichon eto ddyfod !



YNG NGWLAD ISLWYN, GER Y GELLI GROES.

*" Per brudd-der cofio yw dedwyddyd dyn.
 Mae'r enaid trwy adgofion yn misynhau
 Mwy nag a allai'r byd ei hunan roi."—Y STORM.*

Y STORM.

III.

Y *Author*.

FEL udgorn dyrchafa ei llais ar y bryn,
 A gwrendy y glyn
 Dan grynu fel colfen ar raiadr bryd hyn.
 A wyt tithau yn crynu? Tyrd, gwrando yn hy,
 Llais natur sy fry,
 A natur sy'n canu ei hanthem i ni.

* * * * *

Mae y mynydd yn crynu, a'r dderwen ar lawr!
 O'r tu cefn i'r muriau gwrandawaf yn awr,
 Nid erchylldra i gyd yw y dymhestl fawr.

Ar ben y mynyddoedd y clywaf ei llef
 Ofnadwy a hy',
 Fel pe bai dan ei thraed uchelfaoedd y nef,
 Ac yn ei heyrnfreichiau y bryniau fry,
 A than ei theyrnwialen y derw addolant,
 A chenglau y graig yn y dyfnder ymlaesant,
 Tarana fel cawr ar glogwyni'r mynyddoedd,
 A thros ei hysgwyddau arllwysa y gwlaw,
 O lynau y nefoedd,
 Sy'n hongian ar fronnau yr wybren draw.

Clywch, acw ar dafnod y nefoedd mae'n rhuo,
 A'i tharanau dros lofft y cymylau yn treiglo.
 Yr afon a gyfyd o'i gwely i'w gwrando!
 A Rhyfel yw ysbryd y dymhestl hy,
 Goresgyn y bryniau a'r wybren mae hi,
 A themtia yr afon anwadal i estyn
 Ei gwleb deyrnwialen dros waelod y dyffryn,
 A chroesi y terfyn a'i thonnau,
 A noethi morddwydydd y bryniau.

Ag uchel law,
 Marchoga ar y cwmwl draw,
 Sydd wedi ei genglau â tharanau,
 A'r fellten danbaid ar ei ael yn cynau.
 Fry cwyd ei haiarn fraich tua'r sêr a beiddgar lef,
 Tra yn ei dwrn holl daranfolltau'r nef.

Yr eofn wynt, rhyw daran a'i deffroa,
 Wrth gwympto i lawr o'r nen, a'i erchyll fwng ysgydwa;
 Anturia allan rhwng y mellt a'r nifwl,
 Yn wlyb o'r cwmwl.

O flaen fy aelwyd gled, a gwynaf fi?
 Anuwiol fyddai, Forwr! a thydi
 Ar allt erchyllaf angau, yn gafaclu
 Yng nghanen olaf gobaith, a mil o feddau'n codi
 Ar flaen y gwynt gan rythu i fro'r taranau,
 Fel pe am gau ar gedyrn yr wybrenau.

Ah, nerthol yw'r ystorm ar gefn y weilgi,
 Tra'r dwfn o lan i lan o'i phlaid yn ymarfogi,
 A lleng o donnau wrth ei harch o'r dyfnder
 Yn rhuthro i'r lan a'u hwyneb yn glasu i gyd gan ddigter.

Un bryn ni chwyd ei ysgwydd fawr o greigiau
 Yno, i'w hatal ar ei thaith dros ben y môr-fynyddau,
 A'i themtio i ddryllio ar ei ochr yr olaf o'i tharanau.
 Ma'r ffordd yn rhydd bob llaw, a chôr y gwyntoedd
 Yn chwyddo ei chlod o'i blaen yn udgorn mawr y nefoedd.
 Ynilla holl wastadedd maith y tonnau,
 Tra'r daran fawr yn cadw y nefoedd ar ei gliniau.

Anffyddiaeth! ffoa rhag y tyrfau sydd
 Draw yn cyhoeddi dy gondemniad prudd
 O uchel fainc y nefoedd. Byddar bydd
 Rhag derbyn y dystiolaeth ddwys,
 Y plyga yr wybrenau dan ei phwys.

Mae nerthoedd yr ystorom ar yr wybr,
 Ac uchelderau'r creigiau yw eu llwybr.
 Braich noeth y dymhestl dreigla ar y gwynt
 Ei mawrlwyth o ddigofaint, farwol hynt.
 Y daran a ddiluwia fyd a nef
 Mewn môr o sain; a llawer clogwyn gref
 Fwynha leferydd i gyhoeddi fry
 Feddyliau Anian a'i theimladau hi.
 I lawr yr holltau anherfynol clyw
 Ymdoriad pell y daran, aruthr yw.
 Fry, chwyth y gwynt ei udgorn lond y nef,
 Gan alw'r bryniau i'w addoli Ef
 A ferchyg yr wybrenau.

Gwna y gwllaw

Wrth ddisgyn ar y creigiau moelion draw
 Ardderchog gydgerdd. Deffro mae y llyn
 Gan roi ei donnau broch wrth draed y bryn,
 Oll dan dywysiad yr ystorom fawr
 Sy'n llenwi'r ddaear fel y nef yn awr.

Yr afon leag ddihuna, hithau, dan
 Reddf cydymdeimlad â'r mynyddoedd ban;
 Derbynia'r nentydd gorchwyddedig,—sy
 Ail storm o eira ar y rhiwiau fry—
 Fel cymwynasau ar y mynyddoedd draw,
 A galwad i ledaenu ar bob llaw
 Ogoniant Anian.

Tros y nef yn lân
 Agorai'r mellt eu baner goch o dân.
 Am eiliad bryniau a dyffrynnoedd gawn
 Yn ail ymddangos yn nisgleirdeb nawn,
 Ond eiliad ydyw—dyfnach nos yn awr
 Ddisgynna, gloa yr olygfa fawr.
 Ailrua'r daran o'r tywyllwch pyd
 Mewn llawnaf dôn, fel angladd-gloch y byd.

Dewisach yw yr annedd dan y bryn
 Na marmor lysoedd, ar yr oriau hyn.
 Dedwyddach fil na thywysogion byd
 Y bardd sy'n gwrando o'i ystafell glyd.
 Yng ngoleu claer y mellt darlenna ef
 Lythrennau enw'r Ior ar len y nef.
 Ei gyfrol ar y bwrdd a ddyd i lawr,
 Agorodd natur ei chyfrolau 'nawr!

 Y STORM.

IV.

Y graig.

SAF ar y graig! Barddoniaeth duwiau yw,
 Os meiddi oddef yr ofnadwy iaith,
 Os meiddi wrando ar y môr a byw,
 A'th enaid godi gyda'r fordon faith,
 Ymgodi tuag ardderhocach traeth
 Nes clywed yr ymchwyddiad ar ryw LAN
 DRAGWYDDOL fel yn darfod mor dyner, O mor wan!

Ton ar ol ton ysgydwa lawr y traeth,
 Ar hyd y ddaear a'r taranau hyn,
 Fel pethau bywyd hyd y galon laith
 A thrwy ei holltau a'i hysgarion syn.
 Fel pe bai byd yn trengu fryn wrth fryn
 Y gwelaf hwynt! Ofnadwy wawl a rydd
 Eu hewyn wrth ddiflannu fel golau angau prudd.

Y mae gan angau olau o'i fath ei hun,
 A sêr tywyllion ddigon, O y mae
 Rhyw anfarwoldeb o adgofion blin
 Rhag methu o'r siomedig weld ei wae,
 A synio gwagder bywyd, a'r pell drai
 O ddymunolion bethau forau byd,
 Pan oedd yr oll yn dawel a'r storm ar ol i gyd.

Saf ar y graig! Gogonawl yw'r sefyllfa,
 Er hynny, sydd yn dwyn i'r galon flin
 Y gwynt a'r gwae drachefn, rhyw arsyllfa
 Bâr iddi weled nad yw hithau ei hun,
 Fod dros y cyfan ryw amrywiaeth hin,
 A bod i'r graig ei nos a'i phell adgofion
 Am ysgariadau gynt, i'r bryniau eu seil-broffion.

Ni ddylem ymawyddu weled un
 Yn wylo pan ein hunain ar y llif
 O ddagrau, 'n ceisio rhyw belldraethau cun
 Y cerddwyd drostynt unwaith yn rhy hyf,
 A'r adgof-dyrau rannwyd mor ddi rif
 Uwch dyfroedd ebargofiant, oll uwchlaw
 Awyrdon loddol anghof sy'n dilyn—dilyn draw.

Ni ddylem! Eto prudd-ddyddanol yw
 Weld eraill hefyd o wywedig wedd,
 Ac ambell un heblaw yn meiddio byw
 Tu ol i fywyd yn y tawel hedd
 Lle nad oes dim yn amlwg ond y bedd,
 A phan y delo allan, oll yn wyw
 Fel blodyn a ddylasai mewn hinsawdd arall fyw.

Rhyw ddrych o fywyd ydyw natur oll,
 A byd yr enaid ar ryw farwol len,
 Ceir rhwng y bryniau uchaf lawer coll,
 A llawer hollt tragwyddol, llawer pen
 Yn edrych fyth i lawr o'i briod nen
 Heb ganfod seren mwy, a llawer awel
 Yn canu am ryw nef sy fil mwy tawel.

Mae pren gogwydd-fawr ar y mynydd draw,
 A welsid yn ymgodi'n fawrwych gynt,
 A'i gangau yn meddiannu'r nef bob llaw,
 Caf yntau heno'n isel dan y gwynt,
 A llawer côr yn tewi ar eu hynt
 Gael y cerddfaoedd heirdd i gyd mor llwydion,
 A'r cyfan ond fel adfail o freuddwydion.

Y mae y cangau yn cyfeirio i gyd,
 Fel bysedd meinion llwydion, tua'u bedd;
 A'r gwllithion dros y dail wywedig bryd
 Fel dagrau yn dyferu, a'i holl wedd
 Fel un a fynnai mwy dragwyddol hedd.
 Clyw gyffro'r gangen hon—aderyn du,
 Fel adgof, gynnau ar ei brig a fu.

Barddoniaeth, O farddoniaeth! Pwy a ddyd
 Derfynau arnat? Eang fel y nef
 Yw taen dy ymerodraeth; mae y byd,
 Ei greig, ei foroedd, a'i fynyddoedd ef,
 Yn troi o'th amgylch a chyfundraeth gref
 O dragwyddolion bethau, a'r holl ser
 O fewn gwelediad dy gerub-drem der.

Un yw gwirionedd, ac i ti y rhoed
 Dirgelwch ei unoliaeth. Rhoer i hon
 Y graig ystormus, gwydra yn ddi oed
 Wedd o wirionedd ar ei garwaf fron,
 A daw y graig i'r lan yn fyw o'r don
 Fel rhan o'n bywyd, rhan o'n henaid mawr,
 A'r bryniau gydsymudant a'u hysbryd oll yn awr.

Edrychaf ar y pêr flodeuyn draw,
 Mae mwy na blodyn yna! mwy i mi,
 Mwy i bob un el heibio yn dy law;
 Fel dôr blygedig egryr ef i ti,
 A'r enaid rodia i ryw wynfa fu
 Fynediad athrist drwyddo; o'r tu cefn
 Chwyrn ddadfachluda amser, a chwyd y byd drachefn.

Pa beth sydd yna? Ti yn eglurhau
 Unoliaeth pethau, myrdd cydiadau bod;
 Tydi yn llanw y gwagleoedd gau
 A gauodd balchder dyn o farwol glod
 A fynnai ar wahan fodoli, a dod
 Yn unig bennaf fawredd—ysgaredig
 Oddiwrth y Duwdod hefyd, urdduniant melliagedig,—

Urdduniant engyrth y dafledig graig
 A hyrddiodd y ddaeargryn fythoedd fry,
 Lle mae y daran fel clwyfedig ddraig
 Yn ysgwyd caerau'r nefoedd oll â'i rhu,
 A storm dragwyddol ar ei honglau hi;
 A'r byd-unedig fryniau 'n gorffwys draw
 Ar seddau cydresolion, mewn oesol hedd islaw.

A myrdd bwâu y cyfamod hedd
 A daflodd yr Anfeidrol dros y byd
 I maes o'r enaid cyntaf, ti a'u medd,
 Olrheini hwynt i'w gorffwysfeydd i gyd
 Ar fryniau, moroedd, ac ystormydd pyd,
 A thrwy y cwmwl du a thrwy y ser
 Sy'n ymgymysgu â'r enaid mewn rhyw gawod ddagrau bêr.

Pa beth yw testyn? Ton ar fôr tragwyddol,
 Ac nid oes gwybod ble dibenna'r daith,
 Na pha ryw bell ynysau nef-arwyddol,
 Pa benrhyn welir, pa anfarwol draeth,
 Pa seiniau glywir o'r dragwyddol iaith!
 Beth yw y draethell hon ond rhan o fyd?
 Dos, sawdd i'r gorwel arall, mae'r pwnc yn gwawrio o hyd.

Pa le yr aeth y testyn? Mae y don
 Yn gweled llawer nef a llawer traeth
 A llawer gwlad, ac eto 'r un yw hon,
 Er cael o raddau yn ei chwydd a'i hiaith.
 Pe meiddiem mewn ystorom fod yn ffraeth
 Fe ddylai testyn weithiau golli ei hun
 Yn anifeiriant pethau, rhag Babeleiddio un.

Mae ambell un o'u golygfaoedd lwy,
 Y creig a'r broydd, yn ein henaid ni.
 A bythoedd gwelir yr olygfa mwy
 Gerllaw y galon, fel rhyw daeniad eu
 O fywyd wrth ei bywiol ddyfroedd hi.
 Pa beth sydd yn parhau'r olygfa hon
 Gan dyner dragwyddoli sw'n y don?

Ddwyfoldeb enaid, O Farddoniaeth, Hon!
 Hon sydd fel hyn yn eneidioli'r byd
 A'i feirwon bethau. Rhoer im' weld y don,
 Farddoniaeth, dan dy ysbrydoliaeth ddrud,
 Weld onid blaen y penrhyn, beth yw hyd
 A lled a dyfnder amser! Yn y fan
 Rhydd ei holl feirw i fyny,—a thi, O fwynaf Ann.

Mae'r enaid weithiau fel pe'n teimlo ei hun
 Yn fwy nag amser, ac yn archu'r byd
 A'i oriau ymaith fel cymylau blin
 Oddiam ei briod uchder, a'i holl bryd
 Yn teg ymledu; fel pe deuai o hyd
 I ryw golledig wyddor sydd yn dwyn
 Holl rithiau amser dan ei rymus swyn.

Y STORM.

v.

Y gwynoedd.

Gyrrwch, wyntoedd,
Ar eich hyntoedd,

Dros y llyn,
Dros y glyn,
Dros y bryn,

A thros lawer Alpfôr gwyn !
Beth yw gwlad o fryniau i chwi
Ond gorddringion uwch i fri ?
Lle mae'r byd yn ymwahanu
Beilch y croeswch dan chwibanu,
A chan ado'r geirwon fryniau
Fyrdd ar ol fel niwl-gyffiniau.

Beth yw tonnau
Ond y bronnau
A estynnir

Gan y fam dragwyddol, Natur,
Lle y tynnwch laeth gwrhydri,
Galluawgrwydd, a mawrhydri ?

Berwed moroedd,
Brynied byd,
Lle mae'r tonnau
Llawna' u llid,

Lle mae'r bryn
Yn gwneyd glyn
Yn y nef ei hunan fry
Rhyngddo â rhyw niwl-lethr hy,
Gwaen neu fryn,
Môr neu lyn,—
Drostynt ewch,
Drostynt dewch,

A'ch tragwyddol orchwyl wnewch.

Mae eich priod nef o hyd
Yn helaethach, ac yn lledu uwch y llid ;
Beilch ymgodwch, chwyddwch chwi,
I'w diddarfod ofod hi,
A'ch pell orfoleddol lef
Gryma holl uchelion nef,
Lle na welir ond y daran,
Fythoedd, neu Greawdwr anian.

O, mae yn yr enaid uchder
 A rhyw nef o ddwyfol wychder,
 Lle mae bryniau yng ngwych arfod
 Anfarwoldeb wedi darfod,
 Bryniau, ofnau, beddau, braw,
 Wedi darfod ar bob llaw,
 Wedi cael eu holaf fannau,
 A phob ton ei holaf lannau,
 Moroedd gwae
 Ar ryw blymaidd drymaidd drai ;
 Lle y gwelir beichiau'r byd
 Yr holl siom a'r ofnau i gyd
 Ond fel borau-niwloedd llwydion
 Yn ymylu tir breuddwydion.

O am gyrraedd ynnof f' hun
 Briod orfawrhydri dyn,
 Dringo oddiar bob glyn
 Y cerubaidd fewnol fryn
 A ymheula mewn ucheledd
 A Duw-huliad o daweledd.
 Y mae ambell
 Feddwl llambell
 Yn ei weled,
 O daweled !

Pan dywylllo môr y byd,
 A phan godo 'i donnau i gyd ;
 Pan y rhytho'r bedd, fel gwaneg
 Olaf distryw, am ychwaneg,
 Am ychwaneg wedi cael
 Mwy na bywyd ar un ffael ;
 Pan y metho'r cyfaill gorau
 Gofio 'i gymwynaswr borau ;
 Pan fo'r byd o allanolion
 Yn diflannu mor ddiolion,
 Gan ein gado'n ddigymdeithion
 Ar yr anialderau meithion ;
 A saeth adgof
 Trwy y fron,
 Trwy ddi rif
 Feddyliau hon ;
 Pan fo brodyr hoff yn cefnu
 Ac i'n herbyn yn ymdrefnu ;
 Pan fo siomiant, a'i holl fryniau,

Am ein bywyd fel cyffiniau,—
 Y mae ynnot ti dy hun
 Fawredd uwch y cyfan, ddyn!
 Gelli feiddio bryniau'r byd,
 Ac o fewn ymgodi o hyd,
 Neu fawreddog ymddifyrru
 A gofidiau o'th gylch yn tyrru,
 Fel yr awel yn y glyn,
 Fel y corwynt ar y bryn,
 Yn y sicrwydd ynnot fod
 Uchder uwch yr uchaf rod.

O, ardderchoced weld yr enaid mawr
 Yn tawel ymneillduo iddo ei hun,
 Gan godi ar adenydd dwyfol wawr
 Meddyliau uchel, o ddyrchafol rin,
 Rhai teilwng o anfarwol dynged dyn,
 Yn codi i'r taweledd pell na faidd
 Ond Duw ei hun ei gynnal neu enaid pur ei aidd.

O, dedwydd hwnnw a all odde' ei hun,
 A dal ymgroniad ei feddyliau noeth,
 A dewis absenoldeb llwyr pob un,—
 Y difyr, y cyfoethog, ac y doeth,
 Gan ddiagwyl am unigedd fel am y pennaf foeth,
 A chan ei enaid weithiau ynddo ei hun,
 Fel yn ei nef dawelaf, Elysa ddwyfol lun.

Unigedd! Pell, O engyrth bell, fo'r ffawd
 A dry feddyliau'r euog arno ei hun.
 Unigedd! Mae y gair yn dringo ei gnawd
 Fel gwewyr gwae, fel anherfynol fin
 Y cledd tragwyddol. Colledigaeth flin,
 Beth ydwyt onid ysbryd erch yn troi
 Fyth ynddo, arno ei hunan, heb unrhyw le i ffoi?

Ffynhonnau heddwch y diniwed, man
 Y tardd hapusrwydd â thragwyddol li
 O ryw ddyfnderoedd anherfynol dan
 Fodolaeth dyn, O, chwerwon ydych chwi
 Fel gwaelod cwpan barn i'r galon dru,
 Y galon na faidd wrando arni ei hun,
 Pan na fo swn i'w glywed onid un.

Yn hytrach, eirwon wyntoedd, rhoer i mi
 Barth o'ch herfeidd-dra anherfynol, chwi
 Sy'n croesi'r bryniau, ac yn chwareu hyd

Y gorddyfnderoedd sydd yn gwydru'r nef,
 Mewn dyfnder cyferbyniol yn eu bron;
 Yn ofer ymgadwyna'r bryniog fŷr,
 Yn ofer gwylia'r daran hyf o fewn
 Y pell gymylau o ardyrol drefn,
 Y mae eich ffordd ar hyd ymylau'r llif,
 A'ch goruchafiaeth yn yr uchaf fôr,
 Ac ar eich edyn cipiwech chwi y don,
 A'r nef danghoswch iddi, briod wlad
 Eich etifeddiaeth, bro eich tynged dderch,
 A syrth yn ol fel delwedd siomedigaeth,
 A chawod eira yw y cyfan gawn
 Ar ol ei holl feiddgarwch, ac ar ol
 Gofidiau bywyd oll; rhyw arwydd fod
 Uwch pethau i'w mwynhau, a'r enaid mwy
 Yn disgyn tua thawel barth y bedd
 Lle mae y ffordd dragwyddol. O am nerth
 I ddal yr aden sydd yn dwyn yr enaid,
 A baich y galon, oddiar y byd
 Pan frynio uchaf mewn mynyddog wae.

Y mae i'r bryniau, fel i'r broydd teg,
 Eu defnydd. O, y mae pob pigwrn oer,
 A phob dyrchafiad oddiar
 Wastadedd erch diddymdra, o ryw fudd
 A rhyw fendithiol ddefnydd. Trallod, siom,
 A phrofedigaeth, geirwon fryniau bod,
 Hwyr sydd yn casglu am eu bannau oer
 Y gwyntoedd enaid-leddfol sydd yn dwyn
 Pell seiniau bydoedd eraill ar y fron,
 A rhyw aroglau o wynfaol naw.
 I fyny yno mae yr enaid blin
 Yn cofio am ei fonedd, ac yn dal
 Dirgelion ei fawr dynged, tra y ceir
 Nos siomiant yn eu haraf eglurhau
 O serawl fawredd. Ac ar hyd-ddynt hwy
 Y ceir y dwyfol lynnoedd, y cronfeydd
 Nefolwawr sy'n diwallu'r enaid blin,
 Gan lanw ei feddyliau, a chan adael
 Ei holl obeithion fel penrhynion gwael
 Ymhell tu ol—tu ol i'r mawr gyflawnder
 Sy eto yn nhynged dyn. Pell eira siom,
 Sy'n gwynnu beiddgar Alpau gobaith, geir
 Fel yn ymdoddi arnom ambell dro
 Yn ddyfroedd o adgofion, o dan wawr

Rhyw seren ddienwadwy sydd yn awr
 Yng nghylchoedd anfarwoldeb gyda Duw.
 Ac O, y toraeth o ddedwyddwch dardd,
 Y meusydd newydd o feddyliau ffrydiant
 O gylch y galon dyner ar ol hyn.
 A hwy sy'n amrywiaethu arwedd bod,
 Gan ffurfio harddwch bywyd, mawreddogrwydd
 Yr enaid tra yn chwyddo fyth ymlaen.
 Ac ynddynt hwy y gorwedd yr holl gyfoeth
 Sy'n codi amgylchiadau enaid hyd
 Y nefoedd a holl reidiau'r byd a ddaw.

Dyloted hwnnw na fu erioed yn dlawd!
 Dirmygus na ddirmygwyd, ac na fu
 Ei enw yn sarn i blaned o wallgofion,
 Rhai na adwaenant fawredd ond y sydd
 Mewn daear felynedig. Tlodi geir
 Yn ffurfio seilwaith mawredd pennaf dyn.
 Pa le mae uchelderau pennaf amser,
 Y bryniau sydd yn profi nad yw'r byd
 Ond cyfran o dragwyddol olygfeydd,
 Pechod-soddedig barth o gyfan bod?
 Pa le y ceir y disgleirderau hyn?
 Nid yw yr orsedd drom-euredig draw
 Yn derbyn eu pelydron. Ac ni fu
 Brenhinol osgordd yno, ac ni ddaeth
 Athroniaeth eto dros eu ffiniol gylch.
 Rai dirmygedig amser, d'wedwch chwi.
 I chwi y rhoddwyd gwybod hyn, chwychwï,
 Y gwael a'r gwrthodedig gan y byd,
 A wthir o'i gymdeithas a'i holl fawl,
 I chwi y rhoddir y dadguddiad derch,
 Y dringion prinion hyd y rhai y daw
 Angylion y dragwyddol rod i lawr.

Pan gauodd pechod uchaf ddorau'r byd,
 Nef lwybrau amser, a agorent gynt
 Ar Eden gyda heuliau cyntaf amser,
 Pan gollwyd dy gymundeb di, O Haul,
 A'th ser o blith eu brodyr; pan y daeth
 Ein daear lom dan wylo o bob cwmwl,
 Dan gasglu yr ystorom fawr o'i chylch,
 A gwneyd galarwisg o'i holl nefoedd mwy,
 Brudd arwyl o wybrennau, i bell rod
 Pell wagle ei halltudiad, lle ni faidd

Un seren edrych ar y nos dawelaf
 Heb grynu bob pelydryn, na'r Anfeidrol
 Ei hunan ddyfod heb waghau ei hun
 Ac megys gado ei hun ar ol, gan roi
 Ei enw allan mwy fel Mab y dyn,
 (O'r meibion oll y pennaf!) lle nad oes
 Gan gariad le i roi ei ben i lawr,
 I lawr i farw ond yn ei waed ei hun,
 Nac un orffwysfa i gyfiawnder Duw
 Ond ar adfeilion bedd y byd, neu ar
 Ei ddyfnach fedd ei hun; lle methodd angau,
 Holl angau'r byd prynedig, ledu am
 A chynnwys eu Pryniawdwr a ymledai
 Dros holl derfynau eu drwghaeddiant hwy,
 Nes llefai angau ar y trydydd dydd
 I'r nef ei dderbyn, a chael dod ei hun,
 Er dued oedd, i blith yr olaf res
 O nerthoedd iachawdwriaeth, er yr olaf,
 Y pennaf, a'r perffeithiaf sydd yn rhoi
 Yr enaid ar ei orsedd; fore'r byd
 Pan godwyd holl uchelion amser mwy,
 Ei arnefolion leoedd ef, i mewn
 I Dduw a'r eilfyd—fe adawyd un,
 Un ffordd unigaidd, yn y niwl a'r nos,
 Un ddringfa dawel oddiar y byd,
 Ar risiau'r hon y gall yr enaid blin
 Weld mwy nag Eden eto, a mwynhau
 Y nefol weledigaeth yn ei rhwysg,
 Pell olygfeydd y wlad tu draw i'r bedd,
 Lle ni ddaw angau prudd na rhyd o wae,
 Na rhyd o ddagrau byth, na thonnau mwy,
 Ond uchel donnau'r archangylaidd gân
 Sy'n nofio tragwyddoldeb ar ei swyn
 Gan wthio ei fyrdd oesoedd oll o'r meddwl,
 A phob ystyriaeth o'i ymlifiad ef,
 Gan lawnder oll-gynwysol y mwynhad.

A chwi sydd yn ei meddu, y ddringfa hon,
 Chwi'r dirmygedig rai, a'r gwael eu byd,
 Rhai nad oes gan y byd i'w swyno mwy
 Ond ambell adgof o ryw bethau gwell
 Fu ynddo, nid o hono; fel angylion
 A welwyd ar y byd un borau teg,—
 Teg am eu bod hwy ynddo, am eu bod
 Yn gwneyd i ni anghofio'r haul a'r byd,

Gan ddod yn heuliau ac yn fyd eu hunain
 Mil mwy a chyfoethocach na'r rhai hyn,—
 I'r enaid dedwydd a gai ddod o fewn
 Pergylchoedd eu swynoledd tawel hwy
 A nefoedd eu prydferthwch, welwyd unwaith,
 A mwy nag unwaith gollwyd. Adnewyddir
 Golygfa bruddaidd eu machludiad hwy
 Bob tro y dringo'r enaid i ben bryn
 Y pell welediad, bryn y pell welediad,
 Bryn adgof, sydd yn casglu uchder fyth
 A bannau eraill beunydd. Aml y daw
 Areulion ddyddiau bywyd arno ef,
 Yn lluoedd ac yn lluoedd, o'r tir pell.
 Rhyw hedfa o adeiniog ysgeifn bethau
 Yw holl ddedwyddion bywyd dyn, ar hyd
 Y llawr yn hedeg gyntaf; adgof yw
 Yr uchder ysbrydolwawr sy'n mwynhau
 Eu haml ymwelion, ac yn derbyn gwawr
 Eu hail ddyfodiad. Heirdd y gwelaf hwynt,
 Fel nefol golomennod yma a thraw,
 Yn disgyn ar yr enaid o'r pellafoedd.
 Pa le yr ydych yn ymorffwys mwy?
 Ac o ba le y deuwch? O ba fyd?
 A phwy sydd yn eich anfon? O, a phwy
 Sydd yn eich galw ymaith? O ba fath
 Y ddeddf sydd yn eich rhwymo? Neu a oes
 Lawn ryddid i chwi dramwy'n ol a blaen,
 A dewis eich tymhorau ymweliadol?
 Ai chwi sydd yma? Chwi eich hunain? Rhai
 Yr hoffem edrych ar eich cysgod gynt
 Yn angeleiddio'r byd; y deua'r ser
 Ymhell i lawr i'r nos dan lawenhau
 Cyn yr ystyriem, dan eich llygaid chwi,
 Fod y dydd drosodd, a bod pethau amser
 Ymhellach o un haul? Ai chwi yn wir
 Sy'n cyffwrdd â'n heneidiau ambell dro?
 Ai dichonadwy ein hanghofio'n llwyr,
 Y rhai a garech yn fil mwy na'r ser
 Sydd heddyw'n ffurfio eich ardderchog ddydd,
 Gan glaeroleuo 'ch llwybrau? Onid oes
 Rhyw gwllwm eto yn ein huno ni,
 A'n tynnai at ein gilydd o bob byd?
 Ac er cyfryngiad angau a'i gysgod du,
 Beth yw dylanwad angau a'i rwysg ar hyn?
 Chwi wyddoch. A yw angau erch yn fwy

Na'r enaid hefyd, a'i fynyddoedd tywyll
 Yn drysu ffordd yr ysbryd? A yw'r bedd
 Yn ymeigioni rhyngoch chwi â'r oll
 Nad allai bywyd o dymhestloedd wneyd
 Gwag munud rhyngoch â'u cariadau per?
 Os condemniedig ych i deithio 'mlaen
 Ar hyd y bryniau anherfynol pell,
 Yn llaw rhyw angel nerthol a bedd-ddistaw
 Na fyn ddywedyd dim ond "Duw,"
 A'i olwg fythoedd yn y blaen ar ryw
 Ryw nôd aruthrol; neu os morio'n brudd
 Ar hyd y môr dilewyrch a di lan
 Di awel a di hedd, lle ni chlybuwyd
 Am gysgod craig nac adfail hafn erioed,
 Lle mae y cwnpawd yn ymgylchu fyth
 Gan chwilio 'n mhob cyfeiriad am ei bwynt
 Ac heb ei gael—nid yno maent! nid yno!
 O pwy a'i dywed! Byth nid yno! Amhosibl!
 Ar lan y ddwyfol afon sy'n dyfrhau
 Pell ddinas Duw, neu ar y bryn o berl
 Sy'n dal mawreddau ei frenhiniaeth Ef,
 A mangre araul ei ogoniant pur,
 Lle tyf holl firwythau anfarwoldeb dan
 Dragwyddol haf ei nefoedd-wlawiol wên,—
 A ydych chwi yn meddwl ambell dro
 Am rywrai llai breintiedig? fyth yn sefyll
 Yng nghanol nef wrth feddwl am y rhai
 Na welsant nefoedd, ond anadlech chwi
 O'ch amgylch yma? Yn unig dywed im
 Pa seren hawddgar o'r myrddiynau fry
 A hoffi, fel y gallwyf syllu fyth,
 Fyth ar ei thegwch hi, nes cael fy hun,
 Ryw awr ddedwyddlawn, yn ymagoshau
 I fyny tua'i rhod. Ti fyddi yn gorffwys,
 Yn tawel orffwys, ar ei gorgylch hi.

Chwi sydd yn meddu y gymdeithas hon,
 A'r enaid-ymddiddanion dyfnion hyn,
 A'r gwahoddiadau tua llwybrau'r ser,
 Ser byw y mawr ogoniant, tua ffyrdd
 Yr ysbryd yn helaethrwydd ei ryddfreniau
 Yn teithio fel pelydryn gyda'r haul,
 Neu draw yng nghanol ser y borau, y borau
 Sy'n lledu gyda chylch y creol air,
 Yn lledu ar yr ymddatguddiol Dduw,

Ar ddyfnder ac uchderau Ior, y sydd
 Yn ymddadlennu o'i dragwyddol hanfod
 O flaen y nefoedd fyth. Chwi sydd yn cael
 Cymundeb gwirioneddau pennaf bywyd
 Ar fannau eich unigedd. Siomiant sydd
 Yn codi enaid ar bell raddeg bod,
 Gan wneyd y bychan gan y byd yn fawr
 Yn Nuw a'r ysbrydolion. Y mae llwydd
 Daearyl, ac amseiniol foliant dyn,
 Y llawrwyf o dymhorol wywol wawr,
 Y palas ar y bryn, a'r etifeddiaeth
 Ddaearol-deg o gwmpas yn crynhoi
 Y nefoedd gorwel-hongioli fel ei chylch,
 Yn peri i ddyn anghofio'r bedd, a'r byd
 Goruwch ymdaen tu yma a thu draw,
 Lle mae yr enaid yn ei elfen dderch
 Yn meddwl ac yn troi uwchlaw y byd
 Yn swm urddunol wirioneddau bod,
 A lle mae amgylchiadau bywyd mwy
 Yn cyflawn ymaddfedu, ac yn hongian
 Bob un, fel meddwl llawn,
 Ar gangau tawel-hongioli ein myfyrdod,
 Lle troir bywyd yn feddyliau pur
 Lond myfyrdodau'r galon, lle y mae
 Yr enaid fel yn adgaffaelu 'i hun
 O afael rheibioli amser, ac yn troi
 Pob peth yn feddwl, gan derfynu i hanes
 Fel rhan ac hanfod-beth o hono 'i hun.
 Pan anfarwola'r enaid ynddo ei hun
 Y marwol a'r llygredig, gan eu harchu
 I ddiosg eu daearol wisgoedd mwy,
 A chodi i'r anfarwol gydag ef;
 Pan fo yn archu'r bedd a'r oll sydd ynddo
 I fyw 'n dragwyddol ac i symud mwy
 Fyth yn y blaen, fyth bythoedd gydag ef,
 Fel seren yn ei wybren fawr ei hun,
 Lle mae y mewnlol adgyfodiad mawr
 Ar bethau bywyd, pethau amser oll,
 Yn mynd ymlaen, a'u holl ddi-gwyddion hwy
 Yn gado'u beddau ac yn gwisgo i gyd
 Eu newydd wedd a'r perffaith, yn yr hon
 Y gwelant ac y cyfarfyddant Dduw
 Ym marn y byd ysbrydol,—oni fernir
 Pob dyn yn ol ei enaid? O, pa beth
 Yw'th fywyd yn feddyliau? A'th weithredoedd

Yn noethder y goleuni pur o'th fewn ?
 Meddyliau fydd y cyfan cyn bo hir,
 Holl swm a chyfrif bod. Ni fydd y corff,
 Ond beth fydd ei weithredoedd yn feddyliau !
 Cyflawna dy weithredoedd beunydd, fel
 Y mynnit i'th feddyliau yn y byd
 Anfarwol fod. A boed dy fywyd, ddyn,
 Yr hyn a alli oddef fyth a byth
 Fel meddwl ac fel hanfod-ran o'th enaid.
 Fe a'th weithredoedd ymaith; yr holl fyd,
 Y bryniau draw, a'r môr, diflannant hwy,
 A chei gyfarfod â'r ddaear hon
 Lle bu dy gryd, dy fywyd, a dy fedd,
 Lle pechaist, ofnaist, ac y digiaist Dduw,
 Fel llychyn yn yr awel, neu fel niwlen
 Ym maith fachludiad amser; ond fe fydd
 Y cyfan o'th weithredoedd welodd hi
 Fyth ynnot fel ansoddion d'anfarwoldeb.
 Ddyn, nid oes dim yn marw. Nid oes bedd
 I ddim o'th eiddot. Mae y ddaear hon
 Yn gwrthod dy weithredoedd. Bydd dy holl
 Anwiredd yn cael gorwedd ar dy fedd,
 Ond bedd ei hun ni cha. Beth yw y pridd ?
 Y peth yw'r maes a'r bryniau hyn o'th gylch,
 Yr un o ddefnydd, elfen, deddf; fe roir
 Y pridd i'r pridd drachefn, i ryw grug
 Neu floen ei wisgo â theilyngach gwedd,
 Ond rhaid i'r ysbryd ddychwel at ei Dduw,
 A'i holl weithredoedd gydag ef,—y da
 A'r drwg, y ddau ynghyd, a'r ddau
 Fel rhannau o'i gymeriad, oll ar wedd
 Ysbrydol a barnadwy, i'r byd arall,
 Lle mae yr oll yn ysbryd, a phob peth
 Yn feddwl byw di-fantell a di-len,
 A Duw fel haul, fel dydd, yn amlyghau
 Y cyfan oll a'i Hunan. Pridd i'r pridd,
 A phridd yw baich y bedd, rhyw wastadhâd
 O ddaear balch i'w ddaear yw y cwbl,
 A cherydd arno am gerdded dros ei frodyr,
 Y bryniau a'r clogwyni mudion, cyd;
 Piler o dywod wedi peidio troi
 Ar hyd ddiffieithwch crinboeth amser mwy,—
 Paham yr wylem am ei gollu ef ?
 Yr ym yn gadael byd o'r unrhyw ar ol
 Yr un diwrnod. Pridd i'r pridd yw'r cwbl,

Ond pwy all feddu ei weithredoedd ef,
 Gweithredoedd yr anfarwol fu o'i fewn?
 Maent hwy i gyd o fewn yr enaid mawr,
 Yn gronfa o feddyliau nerthol pur,
 Yn croesi gydag ef, ac oll yn rhwym
 Dragwyddol wrth ei dynged. Pridd i'r pridd—
 O'r enaid y mae pechod, ac i mewn
 I'r enaid rhaid ei ddychwel. Nid oes bedd
 Gynhwysa ei weithredoedd onid un
 Gynhwysodd fwy na holl weithredoedd Duw,—
 Ei hunan yn yr olaf o'i weithredoedd
 Yn natur farwol dyn. Ac nid oes dim
 All wneyd i enaid oddef ynddo ei hun
 Ei fywyd yn feddyliau, ond pan ddont
 Yn ol trwy ganol ei gyfryngdod ef,
 Trwy gawod waed ei groes, a'u hedyn oll
 Yn dyferynu gan y dwyfol rin,
 A'u holl ansoddau wedi newid byth
 Trwy rin ail-greol y ddyfodfa hon,—
 Pryd hynny gall yr enaid euog ddal
 Ysbrydoledig faich ei holl weithredoedd,
 Pan lifont ar ei galon dros y groes,
 Oll gyda'r weddi o anfeidrol rym,—
 "Dad, maddeu iddo!" Mae y ddear fawr,
 Dyfnder y nef, a'r ser aneirif draw,
 Pob ton a chraig gysgodfawr yn y môr,
 O ddyn, yn gwrthod dy weithredoedd oll,
 Ac yn dy wthio'n ol i ti dy hun,
 Ofnadwy ymneillduedd, gartref erch.
 Ac nid oes aden ar y nefoedd draw
 Na wywai ddwyn dy gysgod. Nid oes neb
 A'th dderbyn fel yr wyt, ond Duw ei hun,
 O dan y nefoedd, dan y byd, a than
 Ddrychfeddwl olaf darostyngiad bron
 A thrwy y bedd, yn chwilio am dy hynt
 Heb seren i'w oleuo ar ei daith
 Ond seren ddwyfol cariad ynddo ei hun,
 Na golau ond a wnai ei groes i farw,
 Ei groes o waed rhy amlwg ar y bryn.
 O, ni fydd pechod farw ond lle bu
 Marwolaeth ei hun farw, a phob gwae.
 Rhyw gyfrwng nerthol yw ei angau ef
 A drych ei brynedigaeth, i gyfnewid
 Holl wedd bodolaeth dyn, a throi y nef
 Ac anfarwoldeb eilwaith ar ei dynged.

O ddyfnder trugarawgrwydd! Y mae ef
 Yn derbyn pechaduriaid, ac yn derbyn
 Eu pechod oll o'u blaen, gan feddu'r cwbl
 O fewn yr eigion, y farwlaeth fawr
 Nas gallai'r haul er uchod, er mor bell,
 Fyth syllu ar ei gorlydanol gylch
 Am holl randiroedd erch euogrwydd, holl
 Benrhynion gwae, yn rhedeg ac yn rhedeg,
 Rhyw gyd-ollyngiad o holl foroedd gwae,
 Amlifiad o'i holl gyflawnderau ef,
 Ffynhonnau bywyd yn cydlifo i mewn
 I angau, fel y byddai angau mwy
 Yn ffynnon anfarwoldeb i'r holl fyd,
 Yn darddle i afonydd llawnaf Duw
 Sydd i ddyfrhau y byd a nef y nef;
 Y nerthoedd sydd yn cynnal ac yn creu
 Y bydoedd ogyrch o ddefnyddiol ryw,
 Yn cydymroi i farw er sylfaenu
 Rhyw greadigaeth o ysbrydol wawr,
 Lle mae yr oll yn newydd, lle y bydd
 Dyn a Duw hefyd ar ryw newydd wedd
 Yn gweld eu gilydd, ar eu gilydd byth
 Yn troi rhyw newydd olwg o foddhad,
 Ac yn mwynhau y pellder unwaith fu,
 Y barnau nef-ysgydwol a'r dieithrwech,
 Mewn cofion pereiddiedig yn ei waed,
 Ei waed sydd yn pereiddio gwae ei hun,
 Gan wneyd yr enw euog bron yn fraint,
 A'n daear wael y flaenaf o'r holl ser,
 Ac un o'i bryniau'n uwch na nef y nefoedd,
 Lle y cydgasglodd y Goruchaf Fod
 Ei ddirfawr hunan o bob byd a nef
 I farw dros ei fydoedd, ac i droi
 Llfeiriaint tragwyddoldeb yn eu hol.
 Y mae ei angau ef yn rhedeg rhwng
 Yr enaid a'i euogrwydd, rhwng y ddau
 A'r Duwdod, ac y mae y ddau ynghyd,
 Duw a phechadur, yn gydfoddlawn fyth.
 Y mae pob gweithred yn yr enaid mwy
 Yn ymbureiddio i feddylddrych pur
 A syniad o ufudd-dod ac o fawl;
 Y mae yn hongian ar y tywyll fedd,
 Ar nos-gysgodion angau yn y glyn,
 Ei fantell wael o gnawd a'i holl amhuredd,
 Ac yn prysuro draw i wyddfod Duw

Yn enaid o feddyliau,—o feddyliau
 Pell-losgawl o addoliant,—ac yn dwyn
 Bodolaeth bur o fawl a diolchgarwch
 I'w rod dragwyddol. Mae ei gamwedd oll,
 Oll yn olchedig yn y dwyfol waed,
 Ac yn ei ysbryd mwy fel canol wawl,
 Fel haul o gariad am yr hwn y try
 Yr enaid a'i feddyliau byth dan ganu.

Fry, meddwl pennaf yr archangel pur,
 Wrth redeg dros ei hanes, dros ei fod,
 Dros dreigliad ei holl oesoedd gyda'r ser
 O'i godiad yn y dwyfol gyda hwynt,
 Wrth edrych ar ei hanes ynddo ei hun
 Fel ffrwd o wawl di-gysgod a di-len
 Yn llofio hyd ei darddiad yn y nef
 Foreuaf a agorwyd dan y gair
 Oll-greol, ei feddylrych pennaf yw,—
 “Ni phechais! moliant fyth i enw Duw!”
 “Yr Hwn a'n golchodd oddiwrth ein holl
 Bechodau”—dyna bennaf feddwl sant,
 A nef ei nefoedd oll, y dyfnder mawr
 O'r hwn y daw holl foroedd mawl i'r lan
 Dros oesoedd tragwyddoldeb, a thros bob
 Bob munud araul ar ei fythol fod.
 Fe ddygodd fy mbechodau yn ei gorff,
 Ei hunan ar y pren, a daeth i'r lan
 O'r beddrod heb ei faich, a minnau, mi
 Yng nghanol grym ei adgyfodiad ef—
 Deddf iachawdwriaeth sydd yn dwyn y byd
 I'r dwyfol rodau eilwaith, fyth i droi
 O amgylch y canolfan mawr, tu fewn
 I'r seren fewnaf o'r myrddiynau fry—
 A minnau godwyd, godwyd gydag ef
 I nefoedd purdeb a sancteiddrwydd derch,
 Lle taenwyd f' ymarweddiad a'm holl ffyrdd;
 Ac wedi tramwy eu helaethrwydd hwy,
 A godwyd i'w ddiweddf godiad ef,
 I nef holl nefoedd ei gyfryngol rwysg
 Y sydd fyth bythoedd yn ymledu am
 Ddeheulaw gallu Duw, deheulaw holl
 Briodoledau 'i hanfod.

O, y môr,
 Y môr o wych ddedwyddwch heddyw dardd

Wrth feddwl am yr hyn a fuont gynt,
 Yr hyn ni welant, ni adwaenant mwy,
 Ond trwy ei groes a'i gyfryngwriaeth ef.
 A chwi, y gwael a'r bychain gan y byd,
 A welaf ar y rhiwiau serth a geir
 Yn hongian drwodd o'r gogoniaint hyn
 I gymell dyn i'r lan, tra yma a thraw
 Gang o'r tragwyddol bren a gwawroedd aur
 Gwlad anfarwoldeb ar ei araul frig.
 A'r nefoedd yn ymgroni yn ei bêr
 Bêr addon, ac yn syrthio i lawr yn gyfain
 Gan bwysau teg dedwyddwch,—chwi yw'r rhai
 Ddewisir, y tylodion, fel y bo
 Tylodi cyfoeth yn noethedig fyth.
 Y tralodedig sydd yn cael y bryn
 Goleulawn hwn, a gododd hyd y nef
 O ddyfnder ei farwolaeth, pan yr aeth
 O dan drueni dyn, a phan y cododd
 Gan ddwyn y byd i fyny gydag ef
 Trwy rym ei adgyfodiad mawr ei hun.

Y STORM.

VI.

Ceisio gloewach nen.

*"My heart's poles now are fixed as earth's in Heaven,
 Shining in solid silence to the moon,
 Starry and 'cy silence; and all ceased
 Their torrid oscillances. Once it rolled
 In tropic splendour."*

YN nyfnder nos
 Y lleuad dlos,
 Dan wylo, fyth yn welw ei gwawr,
 Dramwya yr eangder mawr,
 I geisio gloewach nen.

Ar wedd fyfyrger
 Pan fo 'r seryddwr o'i arsyllfa
 Yn pwyso bydoedd, arno tremia
 Yn athrist eto'n hawddgar,
 Fel pe yn deisyf oddi fry
 Ar iddo ddangos iddi hi
 Y ffordd tua gloewach nen.

Heb gâr i'w llonni ar ei thaith
 Yn unig trwy'i harianrod faith,
 Nid syn os ydyw wrthi ei hun
 Heb gyfaill un
 Yn wylu am loewach nen.

Fel breiniol weddw
 Ar orsedd wen
 Hiraethu mae
 Am loewach nen.

A hwy y ser,
 O'u cylchoedd ter,
 Ni sylwant ar ei gweddi hi,
 Ehed mor daer, mor athrist fry—
A oes yn cylchu eich rhodau CHWI
Hapusach gloewach nen?

Neithiwyr yn nyfnder nos,
 Pan i'r ffurfafen dlos
 Ar ei hunigrwydd cwynai'n brudd,
 Dywedwn i,—
 Dy gâr wyf fi,
 O sych dy rudd
 Gyfeilles hoff! a llawen bydd,
 A chrwydraf gyda thi
 I geisio gloewach nen.

Y STORM.

VII.

Mynyddoedd adfyd.

MYNYDDOEDD adfyd, tywyll ydynt hwy
 Pan syllom arnynt o'ch cyfeiriad chwi,
 Fydolion, sydd a'ch calon ar y byd
 A'ch uchelfrydedd pennaf yn y pridd.
 Tywyllion ydynt, o'r cyfeiriad hwn
 Yr ydym yn eu hofni, mae ein henaid
 Yn crynu dan eu pell gysgodion hwy.
 O amgylch iddynt yn y pellder awn;
 Rhyw nos ddi-gysur ar eu bannau sydd,
 Mor foelion oll, mor anial ar bob ochr!
 Ac nid oes câr i'w weled arnynt fyth,
 A'i lusern yn ei law, na seren lon

Yn meiddio tramwy y caddugau hyn.
 Y mae y byd yn ymbellhau, a phawb
 Yn troi rhyw olwg tosturiaethol ar
 Y truan sydd yn rhwym o'u dringo hwy
 Yn llaw y dynged dywell sydd yn tynnu
 Yr hug ofnadwy dros ei hwyneb teg,
 Teg pan ddilennir ef yng ngolau'r dydd
 Sy'n araf dorri ar fynyddoedd uwch
 Marwolaeth, oddiarnynt. Tynnwch chwi
 Eich glythion ddaearolion at y tân,
 Clustogwch eich cadeiriau, rho dy ben
 Ar glustog meddal o gyffelyb naws,
 Nes bo y meddwl am y bedd, ar ol
 Y mwyniaint hyn, yn erchyll iawn yn wir.

Gwell gennym ddringo gyda'r truan draw,
 Heb ddim o'r byd am danom ond a ddaeth
 Am danom oll i'r byd, a rhywfaint llai
 O gymaint ag y mae y marwol hwn
 Yn colli pwysau fel mae'r enaid mawr
 Yn ymddadblygu fwy i'r perffaith ddyn,
 Gan orfantoli ym mesurau bod.
 Y mae arsyllfa yn dy enaid, ddyn—
 Anfynych y cyrhaedda neb ei phwynt,
 Gan mor weddnewidiedig yw y byd,
 A'i holl wrthrychau, o'i huchelder hi,
 Fel nas gall neb ei oddef ond y pur
 A'r sanctaidd a'r diniwed, lle nid oes
 Dim swynol ond y sydd tu draw i'r bedd,—
 Y well olygfa yn ei maith welediad,—
 Na dim o werth ond sydd yn ddwyfol mwy,
 Neu'n adgyfodi o'r beddedig fyd
 Ar ddwyfoledig wedd. Ond pwy a faidd
 Fyth sefyll ar yr edrychfaoedd hyn,
 Y byddo cysgod o'r daearol rhwng
 Eu henaidd a'r tragwyddol?

Adfyd sydd

Yn profi i ddyn beth ydyw, ac yn rhoi
 Ei hunan iddo ef yn lle y byd.
 Mewn adfyd y mae dyn yn cael ei hun,
 Ei enaid yn ei fawredd. Mae y byd
 Yn llai nag ef pan feiddio ymbellhau
 Ar hyd fynyddoedd adfyd oddi wrtho,
 A byw o fewn ei ddwyfol fyd ei hun,—

Lle mae y ser a'r môr tragwyddol oll,
 Ddyfnderoedd pennaf, wirioneddau bod;
 A'i briod raiadr ar fynyddau pell
 Gwrolder oll-herfeiddiol; peraidd ddôl
 Y dwyfol gariad; firwd y mewdol hedd,
 Na ddichon dim ei dorri; golau haul
 Y byd ysbrydol, a siriolaf wawr
 Y dydd tu draw i'r bedd. Mynwesa'r ffawd,
 Y dynged a'th orfoda i droi i mewn
 I ti dy hun; a phan y delot allan
 Ti fyddi'n synnu wrth dylodi'r byd,
 A ffoledd dynion. Na felldiga'r storm,
 O chyfyd gwyntoedd amser ar dy ffawd
 A'th yrr i maes o holl noddfeydd y byd,
 O ddinas gadarn golud, a'r tu faes
 I'w holaf argaer hi, nes byddot mwy
 Yn rhwym o droi i'r ystafelloedd dyfnion
 Sydd yn dy eneid fel cynteddau bydoedd,
 A chau dy hun am danat. Adfyd sydd
 Yn gyrru yr afradlon tua thref,
 Y crwydriad tua'i gartref lle y mae
 Ei Dad yn aros, a'r dragwyddol wledd.
 Gwel! mae dy angel, ddyn, wrth ddôr dy enaid
 Yn disgwyl dy ddychweliad. Mae yr holl
 Angylion hefyd yn cydlawenhau,
 A chwydd ar fôr llawenydd llawn y nef
 Pan ddelo y twylledig ato ei hun.

Ac nid mor dywyll yw'r mynyddoedd hyn,
 Y mae goleulawn fannau arnynt hwy,
 A broydd telaid rhwng eu hechrys greig,
 Ac ymweliadau o angylion hefyd,
 A chysgod clyd yr Hollalluog law
 Sy'n dal y nefoedd ar ei chledd ynghyd,
 Yn mesur llwybrau'r haul â'i lleiaf fys,
 Fel chwarau ar ddarlunlen fawr y nef.
 Ond pwy a wel eu swynion, ond y rhai
 Sy'n rhodio eu gorfannau, ac yn syllu
 I lawr ar bob peth ond y ser a Duw?

O, edrych mwyach ar y ddaear, ddyn,
 O bell dueddau Duwdod, ac o ffordd
 Y tragwyddolion bethau. Mae y ffawd
 Sy'n torri ymaith amgylchiadau'r byd,
 Ac yn dy ddadgysylltu oddiwrth

Wrthrychol bethau amser, awr, a chlod,
 Y palmwydd dynol, a phob marwol swyn,
 Gan beri iti sefyll arnat d' hun,
 Fel edn ar ei asgell yn y gwagle,
 Heb fynydd a heb gangen dan y nef,—
 O, mae yn werth pryniedig aur y byd
 A chydraiadriad ei fawreddau oll,
 Ystorom o orseddau ac o fawl.

Tylodi sydd yn rhoi i ddyn y mwn
 Tragwyddol, a all wneyd ei enaid ef
 Yn fwy na'r byd, yn fwy na'r bydoedd oll,
 Sy'n llanw ei ddwyfol dynged. Adfyd yw
 Y gallu rhyfedd sy'n gorseddu dyn
 Fel cerub, arno'i hunan, ac yn rhoi
 Y nef a'i holl ddistawrwydd hyawdl hi
 Yn goron ar ei ben, a mwy na'r ser
 I lawenhau ei nos. Y truan draw,
 Gadewch i ni ei ddilyn ef o bell,
 O bell rhag torri ei ddwyfolaf hedd,
 A'i alw yn ol i'r byd a chysgod dyn;
 Gad, ddyn, i ni ei wyllo, am y bryn
 Unigaidd draw, yn crwydro wrtho'i hun,
 Ac ynddo ei hun. Y truan? Nid oes neb
 A'i geilw felly ond y cyfryw sydd
 Ymhell o dano, gyda'r pryf a'r aur,
 A'r dref, a'r ddinas fyglyd, a'r holl lwch
 Sy'n llanw llygaid dyn, a mwy na hyn—
 Ei enaid trwy ei holl welediad bron.
 Pa le y mae'th gyfeillion? Ble yr aeth
 Y rhai a'th folent gynt, y rhai nad oedd
 Y byd yn ddigon yn eu golwg bron
 I'w dafu i dy freichiau? Hwy, a wnaent
 Eu hunain i dy foddio yn bob peth?
 Dy garedigion o'r palasau gynt;
 A aethant hwythau? A oddefent hwy,
 Ymddifad, i ti dynnu deilen fach
 O'u gardd, i sychu'th ddeigryn, neu fwynhau
 Golygfa o fyd o fewn eu gorwel hwy?
 Ai nid oes dim yn nyffryn bywyd—dim
 A ellit ti ei garu, ac hiraethu
 Na bai ef gyda thi?

Yr ynfyd, taw!

A phaid a holi'r gwyntoedd am y gwyntoedd.
 Mae'n dda fod dy ofynion ar y gwynt

Sydd yn eu derbyn, ar y gwynt yn marw
 Cyn cyrraedd yr holedig yn ei hedd
 A'i fewn-gysegroedd nefol. Ydwyt ti
 Yn tybied fod y dirmygedig draw
 Yn teimlo ei fawr ddirmyg? Dim! os yw
 Yn deilwng o'i ddiodef. Neu a wyt
 Wrth syllu o dy ddaear, waelaf ddyn,
 Yn methu peidio wylo weled fry
 Y fath dylodi? Cadw'th ddagrau oll
 Nes bydd eu heisiau arnat, pan y bo
 Dy aur a'th balas a'th ogoniant oll
 Yn ysgwyd llaw â thi ym mhorth y bedd,
 Ac arall yn eu disgwyl, yn anfoddog
 Eu bod yn gwylio dy anadliad olaf.

Tylodi! beth yw hynny? Nid y dyn
 Sydd wedi colli baich o ddim daearol.
 Ym mhorth y bedd, pa beth yw tlodi, frawd?
 Ar lannau'r byd tragwyddol, O pa beth?
 Ar ol i'r marwol wywo am dy enaid
 Ar ol dy noethi fyth o flaen dy Dduw,
 A'th roi i gyd yn enaid ger ei fron
 Heb niwl o gnawd am danat, pan na fydd
 Y ser yn ddim i ti, na'r haul na'r ddaear,
 Pa hawl a godi di o'th dir a'th dai
 A ddeil y golau hwnnw? O, pa lamp
 O'r miloedd lampau sy'n goleuo'th lys
 Ac yn dyddhau yr oriel ganol nos,
 A ddygi gyda thi i'r byd a ddaw?
 Pa haul, pe meiddit, o'r holl heuliau fry?
 Fe wywai'r oll, yr heuliau acw i gyd,
 Cyn cyrraedd glan y byd ofnadwy hwnnw.
 Pan fydd dy babell yn agenu o'th gyleh,
 Pob adwy fwyfwy yn ymledu, a gweidd
 Yr ysbryd yn weledig o'r tu fewn,
 A'r enaid oll yn ffrydio i maes i'r dydd,
 Y dydd tragwyddol anherfynol draw,—
 O dywed, beth fydd tlodi? Beth a wna
 Yr enaid yn gyfoethog yn ei fyd
 Ei hunan, ac o flaen ei farnol Dduw?

Anuwiol! beth yw'th dlodi dyfnaf di
 Yn ing marwolaeth? Onid gweled fod
 Dy balas mawr a'r bwthyn yr un fath
 O ran eu cywir werth, a'r ddau yn ddim,
 A'r llaw a'u gwnaeth fel hwythau, pan y syrth

Dy gorff o'th gylech, a phob rhyw farwol beth,—
 Y byd, a'r ser, a'r nefoedd oll,—i'r dyfnder,
 Gan d'adael di dy hunan yn oer niwl
 Marwolaeth, heb oleuni ond a rydd
 Dy enaid di-lenedig ar dy lwybr
 Dan y dragwyddol gaddug, rolion barn ?

Trwy ymfodoliad mewdol ynnot d' hun,
 Trwy fyw o'r galon, byw o'r enaid pur,
 O ffynnon gyntaf, buraf, ddyfnaf bywyd,
 Ac nid o un daearol beth tu faes
 Tu faes i briod ddyfnder enaid dyn;
 Trwy roesaw adfyd fel gwahoddiad Duw
 I ni ymnefoleiddio yn ein serch,
 Ac ymddyrchafu, a chymeryd mwy
 Ein lle yng nghylchoedd yr ysbrydol fyd,
 Cylchoedd tragwyddol gariad, lle y mae
 Tragwyddol ac oll-berffaith gynllun dyn
 Yn mawrwyd eistedd ar ddeheulaw Duw—
 Trwy hynny y mae gwneyd yr enaid mawr
 Yn fwy na'r byd tra ynddo, tra y bo
 O dan ei faich a'i holl dymhestloedd ef;
 Trwy hynny y mae tafu tramgwydd faen
 Tylodi i sylfeiniwaith mawredd dyn,
 A rhoi tragwyddol bwys gogoniant hwn
 I orffwys ar dywyllaf gonglau'r byd,
 A chodi'r nefoedd yn ei wagle ef.

Mynyddoedd adfyd! helynt hyd-ddynt hwy,
 A'u dringo trwy y gwyntoedd oer a blin,—
 O, hynny sy'n dadblygu'r enaid mwy,
 Yn dwyn i fyny y tragwyddol rin
 A orwedd ynddo, ac yn dwyn pob un
 O'i nerthoedd allan i'r eangder maith
 Nad yw y ddaear ynddo ond cam o fythol daith,
 Nac angau ond hyspysol gloch ei ddydd a'i ddwyfol waitth.

Eangder dy gyneddfau, enaid mawr
 Pa dafod byth a'i dywed! Dedwydd yw
 Y dynged honno,—er ei bod bob awr
 Yn llawn o siomaint a gobeithion gwyw
 Maith fynediadau o angladdol ryw—
 Ddadblyga bell ddyfnderoedd dy gyneddfau,
 Gan godi'r Caos sydd o'th fewn i gylech bywydol ddeddfau,
 A gwneyd i'th holl fodolaeth droi o angylch dy nef-reddfau.

Lle mae y bryniau bellaf yn y nef,
 A'r gwynt yn cynnal yr wybrennau gan
 Ei nerth ei hun, a gallu ei gyngerdd gref,
 Lle mae y creigiau yn ymostwng dan
 Y daran fawr gyfagos, a holl lan
 Y serawl nef fel cymydogaeith ddwyfol
 I'w gweld gerllaw, dros lyn o nos hyrwyfol;
 O, yno, ar y bryniau, y mae cael
 Gwelediad iechyd yn ei lawnaf rin,
 Lle nad oes lwybyr ond yn erbyn ael,
 Lle mae y ffyrdd fel ochrau nef bob un
 Ac ar eu bannau fel y nef ei hun,
 A broydd a mynyddoedd o gymylau,
 Yn rhoio danom am y bryn-ymylau.

Fel dynoledig ewig yno mae
 Yr ieuanc yn ehedeg yn ei hynt,
 A nwyf yr awel yn ei ysgafnhau
 A'i lifol droed yn disgyn ar y gwynt,
 Lle nad all storom ond ei ddwyn yn gynt,
 Gan aweleiddio'i gam i'w annedd ferth,
 Pan soddir pellder yn ei lanwol nerth.

Ac yno hirfaith yr ymgynnal ef
 Sy lawn a llesg o ddyddiau, hir y dwg
 Holl auaf bywyd ar ei galon gref,
 Ei wyntoedd nosawl a'i ymwelion drwg,
 Ffurfafen dywell henaint a'i holl wg;
 Gorllewin bod, lle nad oes ysgogiadau
 Na golau ond a rydd
 Darfyddiad olaf dydd
 A chyfres o ddilynol fachludiadau.

Y mae ei nerth, y nerth a gafodd ef
 Ar riwiau y mynyddoedd geirwon gynt,
 Pan barai wagle yn y storom gref,
 Gan fynnu ffordd lle caed y llifol wynt
 Rhaiadrol, bron ymgeulo ar ei hynt
 Dan wasgiad y taranau, a'r holl nef,
 Pan ymollyngai ar y dymhestl gref.

Y mae ei nerth boreuol yn parhau,
 A'i wyneb eto fel rhyw hwyrol forau
 Yn llawn o wenau, daweledig rai!
 A'r llygad eto'n derbyn holl ororau

Y wlad i mewn, a'r môr a thymhestl-ddorau
 Y nefoedd pell a'u bydoedd cymlyedig,
 Lle mae'r taranau anfeidrolion
 Yn casglu eu haruthrawl rolion,
 A lle mae'r nef â gwynt yn balmantedig
 Y gallai angel ollwng ei adenydd
 A thramwy'r nefoedd ar ei rol ysplenydd.

A'r bywyd fyddo arwaf gan fynyddoedd,
 O hwnnw, derfyn dydd, a fydd yn fawr.
 A'r enaid ddiodefodd ei flynyddoedd
 Gan lawned o ofidiau mor ddi-wawr,—
 Bob un yn fynych drosodd, a phob awr,—
 Efe fydd nerthol pan y ceir pob gallu,
 Ond eiddo'r enaid, yn tragwyddol ballu,
 Pan gollir gwawr y ddaear, pan y bydd
 Y ser o dano oll a'u holaf ddydd.
 Pan na fydd yn dy enaid amgylchiadau,
 Ond dyn a Duw, y meddwl a'r teimladau,—
 Efe fydd nerthol na wastraffodd ddim
 O'i nerth ar farwol fyd, a gadwai 'i rym,
 Grym meddwl, grym serchiadau, oll ynghyd
 Fel serawl bethau 'mhell goruwch y byd.
 Efe ar ol un waith eu caru hwy
 A gweld eu gwaelod, bedd, ni charodd mwy,
 Ni charodd mwy ond pethau sydd i gyd
 A'u dyfnder yn y Duwdod, a'i oesodd Ef eu hyd,—
 Efe fydd nerthol i wynebu draw
 Y byd anfeidrol ar ei dynged ddaw,
 Y byd a dynnodd rin ei enaid ef,
 Ei feddwl, a holl ffrydiau 'i galon gref
 I'w fewn i gyd, pan wnelai, yn ei rod
 Ddaearol, yr oruchaf nef ei nod,
 A gwên ei Arglwydd ei goronol glod.
 I'r hwn ni feddai bywyd, trwy symudiad
 Ei holl flynyddoedd, swynion gwerth ei gludiad,
 Ond ambell fedd ac ambell i fachludiad,—
 Machludiad o ryw barthau o fodolaeth
 Nefolwedd, dan ryw drumau o farwolaeth
 A daflood siomiant fel daeargryn gynt
 Yn erbyn borau bywyd, a'i gynnar hawddgar hynt,—
 Beth yw y byd a'i swynion iddo ef ?
 Pob mawredd ynddo, a phob gorsedd gref ?
 Y perthi aml-liw sy'n ymylu 'i daith,
 Fe'u gwelodd, ond eu pasio fu ei waith.

Os tynnodd un o'r mil-liwiedig gangau,
 Trodd yn ei afael, wraidd a brig, yn angau,—
 Euredig farwolaethau ydynt hwy,—
 Ac aeth ymlaen yn ddifrifolach mwy,
 A thynnodd ei serchiadau bob yn un
 Yn ol o'r byd. Un bedd o dywyll lun
 Yn unig a ddewisodd o'r carneddi
 I ollwng ambell lifddor, ambell weddi
 Pan ddelai ato, am *un* ail gyfarfod
 Pe bai bodolaeth gyda hynny 'n darfod.
 Dewisodd un, a dim ond un ddewisodd
 O'r pethau fu, ac adfail oer a brisodd ;
 Fe'i hailgyfododd ar gynaliol gofion,
 O, mae yn uchel ar ei enaid-nofion
 Yn gyfan yn ei galon-aber ef
 Lle na thyn amser ei ystorom gref.
 Fe alwodd ei serchiadau'n ol o'r byd,
 Ei galon, a'i feddyliau goreu i gyd,
 Yr holl feddyliau sydd yn tynnu nerth
 Yr enaid allan, ac yn profi 'i werth,
 Sy'n gofyn gallu'r enaid i'w dyfalu,
 A chydalluoedd byd a bedd i'w chwalu,
 Rhai nad all byd o berlau eu had-dalu.
 Pan y dychwelai'r gobaith hwnnw i'w law,
 Fel bedd, addaweb o ddedwyddwch draw,
 Dynnodd y byd un bore bythgofiedig,
 Pan ddaeth i'w law yn briddlyd a thoredig,
 Fe dyngodd ar y toriad, ar y bedd,
 Y mynnai bethau o gadarnach gwedd,
 A'r ser a holl adenydd Duw i'w huddo
 A bydoedd eraill yn ddyledwyr iddo;
 Y rhwymai'r nefoedd gydag ef, i sefyll neu gydsuddo.
 Oddiar ei enaid taflodd yr holl fyd
 Fel nos, a chwalai 'i niwl-fawreddau i gyd,
 Disgynnodd Duw i lawr, a'r ser o ddwyfol bryd.
 Breuddwydiodd trwy ieuenetid ; pan ddeffroes
 Ar ymyl gwagle distaw, llwyr y troes
 Ei enaid a'i feddyliau oll i fyny
 Lle mae y ser am Dduw fel craig yn glynu,
 Lle mae afonydd pob daioni sy
 Yn tarddu gyntaf ac yn llawn eu lli,
 Ar ol dychwelyd o bob oes a byd
 A llawn ddyfrhau rhedleoedd bod i gyd.
 Dwyreai bywyd fel cyfandir draw
 O gaddug amser, lledai ar bob llaw

Paradwys ar baradwys, hongiai nef
 O ryfedd ardderchawgrwydd arno ef,
 Ond rhythodd gwagle aruthr draws ei daith.
 Distawrwydd oedd o'i fewn, neu ddistaw iaith,
 A safodd, safodd yno dymor hir,
 Lle nad oes bellach ond i enaid dir
 A ddeil y sangiad anturiaethus—draw
 Lle nad oes gan y byd a deimlo llaw,
 Lle mae y llafar yn y dyfnaf daw
 Yr erchyll oll fel peth tu faes i'w fyd,
 Lle try yr haul a'r ser yn ol i gyd,
 A phethau mil agosach gyda hwy,
 Gan ado enaid y peth ydyw mwy,
 Yn unig byth. Pan syrthio'r corff fel mantell
 Dros ymyl amser a'i deneuaf gantell,
 Pan gyda'r galon saf y byd marwolaf, ~~ar~~
 Pan ddaw y gauaf maith, distawrwydd y glyn olaf,
 I fyny i'w ffynhonnau eithaf hi,
 A phan y metho ei diweddaf li
 Ysgogi allan, O pan ddaw'r arafiad
 Y gwyndra, y distawrwydd, a'r mewn-safiad,
 Pan dawo'r byw fel beddau amglustfeiniol,
 A ddarfu bywyd? Trwy y pethau seinïol
 Gweledig—calon, genau, corff—do, darfu.
 Ond aeth yr enaid ymaith. O pa angel a'i cyfarfu,
 Pa ryw o dragwyddoldeb gaed i'w dderbyn,
 A oedd y nef o hirbell neu gyferbyn?
 Paid, dyner Fam! O, tyn yn ol dy law,
 Y bedd sy'n curo'n awr, a chlych y bydoedd draw.

Rho mwy dy law o dan fy mron,
 A yw y galon unig hon
 Yn curo, curo? O, paham
 Y curai hi
 Ar ol ei llu,
 Ar ol ei mam
 A'i mwy?—Paham
 Na pheidiai hi y dywell awr
 Y syrthiodd mwy na'r ser i lawr,
 Holl nefoedd cariad baradwysaidd wawr?

Paid! gall fod ton
 O fywyd eto dan y fron.
 O freuddwyd bêr,
 Parhâ! y mae

Rhyw seren eto
 Uwch y gwae
 Yn addo—paid a'i phrofi hi.
 Cred eto, cred
 A bydd yn erbyn bedd yn hy.
 Dos eilwaith, dos,
 A allodd ton
 Marwolaeth fyth
 Fyth oeri y galon nefol hon,
 A rhoi i'r bedd
 Y fath nefolaidd wylaidd wedd?
 Dos eto, dos
 Yr wyt yn hir—
 A ddaeth y nos
 Y nos ddi-ser yn wir?
 Taw! mae'th ddistawrwydd
 Wedi dweyd,
 A'th loes-wên nos
 Ddi-foreu wedi gwneyd.
 Ti ddysgaist dithau
 Iaith y bedd,
 Distawrwydd bythol ydyw ef
 A ffyrnig hedd.
 O pan lefaro
 Pan y clyw
 Pan yr atebo
 Alwad Duw,
 Fe fydd yn werth
 Ar adfail yr holl fydoedd fyw,
 Ar lechwedd olaf amser,—clyw,
 Ar olaf sail
 Y llosgawl fyd,
 A chodi'r haul
 Treuliedig draw
 Fel gwan oleuen yn y law
 I weld y llid
 Ddymchwela seiliau'r bedd i gyd,
 Pan ddaw i'r lan o nos y bedd
 Nefoedd o ser,
 Lond agoredig hanfod Ner
 Ar newydd wawr a newydd wedd.
 Pan y dadrolir holl ddaearag bod
 A haenodd angau, byd ar fyd,

Bryniau a broydd, mawr a bach ynghyd,
 Brenhinbarth, cyrrau'r gwae ac alpau'r clod,
 Dadrolir hwy i'r nef yn awr
 Bob haen o led y ddaear fawr.
 Ac amser ddaw oll heibio i Dduw
 A'i luocedd oll, oll yn ei freichiau gwyw.

Fe glyw—fe glywodd bedd cyn hyn.
 Aeth y Gorchfygwr trwy y glyn.

Fe glyw, fe glyw
 Pan ddelo Duw

A'i briod nef

A'i gedyrn oll o'i amgylch ef.

Y meirwon glywir dan y byd,
 Yn codi ar ddaeargryn amser, fyrdd ynghyd.
 A ffy y bryniau, ffy y môr,
 Ac ni adawa dydd yr Iôr
 Ddim, dim o'r ddaear, dim o'r byd
 Ond bywyd—bywyd a fydd ei weddill-lwch i gyd

A gwelir angau echrys bryd
 Fel nos o fewn y nos o lid,
 O'r hon y seinia cnul pob byd
 Y nos ddilea'r nef i gyd

Mewn un machludiad, a'r holl ser,
 Pan gyfyd barn-gymylau Ner,
 Ac arnynt draw ei orsedd danbaid der,

Fel bryn o wawl
 Ar fôr o fawl,

A leinw'r gofod gwag nes teimlir fod
 Y llawnder yn helaethach ym mhob rhod,

A thonnau mawl,
 Yn uwch eu tawl,

A llawnach na phan oedd pob trân
 Yn dwyn ei nef a'i fyd o dân,

A'i arbarth ter

O grogawl gerub-ddaliol ser.

Fe rythodd gwagle dros ei yrfa lon,
 A gwagle hollol fu y ddaear hon
 A'i holl ogoniant mwyach iddo ef:
 Aeth drosti mwy gan hongian wrth y nef
 A'i byd-gyffyrddol addewidion hi,
 Fel cerub, pan dramwyo'n daear ni,
 A'i fraich fel bwa dros y ser, ac un
 O'u cantau 'mhlyg yn ei ddeheulaw gun.

Y STORM.

VIII.

Faith y planedau.

PAN rodio i ganol y nos
 Fel cysgod distawrwydd a hedd,
 Pan wisgo y nefoedd eu serenog ros
 A llewyrch eu Duw ar eu gwedd—
 Pan godo y lloer ar y nef
 A'r ser yn ei harwain i fyny,
 A chyngherdd distawrwydd mor gref,
 A'r byd fel wrth adsain yn glynu—
 Pan dawo y môr i'r nef fawr-wydd
 O burdeb y dwyfol lefaru,
 O, pan y mwynhaom ddistawrwydd—
 Distawrwydd y bydoedd yn caru,—
 Yr egwyl nefolaidd y daw
 Holl natur yn hylif i'n bronnau,
 A'r môr ysbrydoliaeth o draw
 Yn symud y nefoedd fel tonnau,
 Fel tonnau o amgylch penrhynion
 Ser-olau yr enaid pan rydd
 Ei hunan i'r pethau nef-wynion
 Tu allan i amgant y dydd,
 Pan egyr ser-dênlau'r uchafion
 Holl led a helaethrwydd y nef,
 A phan ellid gweled gorsafion
 Y weddi, a llifiad y llef—
 Trwy'r dwyfol ddistawrwydd i fyny
 Dros olaf ymylgylch y gwawl
 A'r seren sy fyth yn terfynu
 Y cread gan bennu ei bawl—
 Pryd hyn fe gyfarchai y brynau,
 A'r lloer, a'r planedau, a'r ser,
 Fel tystion tragwyddol eu rhiniau,
 Fel meibion anwylaf ei Ner.
 "Fy mrodyr," dywedai, "Fytholion
 Wynebau di weniaith, di wawd!
 Yr un uwch yr holl newidiolion,
 Ardderchog, oludog, neu dlawd."—
 Sibrydai yr holl blanedolion
 A'r ser, trwy y gawod,—“EIN BRAWD!
 Cyfoethog neu dlawd,
 Mewn gwychder a'r gawod,
 Yr un yw y Nefoedd, O byth yn eu rhawd!

Lle nid oes wahaniaeth rhwng gorsedd a maen,
 Pell, pell y tu yma y derfydd pob sain
 Daearyl, a phob uchelfrydol esgyniad
 Gall rhod yr aderyn orlamu'i derfyniad.

Yr un yw y ffawd,
 Cyfoethog, tylawd,
 Y gwychder a'r gwawd,

I ni—

Glŷn di!

Mae'r Nef yn rhy berffaith
 I rifo'r byrlymion ar wyneb y lli,
 Nid digon o ser-ffaith
 Pridd wawd a phridd fri.

Glŷn di,

Cyfoethog neu dlawd,
 Os union dy rawd,

Mae'th gader yn barod a'th fawredd heb ri
 Gyda ni, gyda ni,
 EIN BRAWD."

Y STORM.

IX.

Yr haul.

NID yw y greadigaeth aruthr hon
 Ond Teml yr Anfeidrol, ac nid oes
 Un cyntedd llai na byd, a digon prin
 Y pennaf a'r helaethaf, pan y del,
 I gynnwys cwr ei fantell, ac i ddal
 Adsain ei lais o fewn ei lawnaf gylch.
 Nef fawr yn ddor pob eang gyntedd gawn,
 Yn troi ar haul fel colyn; a phan gwyd
 Y dydd ei olaf feinaf far o wawl,
 Ei dôr awyrol ailgolyna hi,
 Dan lifo, ar y ser; a lleuad gron
 Fel meddwl tawel oddiar bob un
 A gwyd, gan hanner-agor trwy y niwl
 Ei llygad breuddwyd-huliol, fel pe bai
 Yn gwahodd dyn i lanw a chronhau
 Ei syniad, nad yw amser wedi cael
 Trwy ei holl oesoedd hyd ser-orsaf heno,
 Air a chyflawnder iddo. Galwodd Duw
 Y greadigaeth, bydoedd fyrdd, o gylch
 Y canol air, a myrdd o fydoedd mwy,

Tu faes tu hwnt i'w gilydd, haul am haul,
 A ser-anfeidrollerau amgylch ogylech,
 Nes caed yr oll yn debyg iddo'i hun,
 Ac fel efe yn fawr, ac fel efe
 Yn anherfynol fyth ond iddo ei hun,
 Sy fyth yn fwy na'r cyfan, fel y mae'r
 Cynhwysol fyth yn fwy na'r cynhwysedig,
 A'r meddwl luniodd yn anfeidrol fwy
 Na'r llun a dafodd allan.

Collodd dyn

Ei syniad am y greadigaeth hon,
 Pob syniad cywir am ei mawredd hi
 A'i hundeb a'i helaethrwydd. Synnai mwy
 Pan dynnai'r dydd ei holl gyfryngdod ffwrdd
 A'r haul ei ganol-fawredd odd y nef,
 Fe synnai weld nefolach, dyfnach dydd
 Yn gwlawio ei belydrau clauer ar hyd
 Ymylau'r nos. Anghofiai rhai y ser
 Fel pethau o gyfundraeth uwch, nad oedd
 Gan ddydd a'i fyd ran ynddi hi, na'i loer,
 Er bod ei hagwedd fel pe mynnai hi
 Ollyngdod, trwydded gan y ddaear gref
 Ormesol ei llywodraeth, i roi tro—
 Dan ddeddf bob paladr hyd ei chreigiau, hyd
 Ei chanol-bwynt, heb ado gronyn fyth
 I grocsi terfyn ei chwmpasog gant,
 Na syrthio dros ei hymyl-geulan bell
 I fôr am-ruol creadigaeth Ior,
 Sydd yn ymlannu ar ei rhimiol gylch
 O'r anherfynol a'r tragwyddol draw,
 Cylchoedd o ddydd di-rif fel môr wrth fôr
 Tu faes i'w gilydd, dan a thros eu gilydd,
 Fel tragwyddoldeb o ddiderfyn wawl,
 Bob un yn troi o gylch ei drolyn mawr,
 Ei haul creidd-dynnol, am yr hwn y rhed
 Y bydoedd yn llifogydd anfeidrolwych
 O allu ac ysplandra, nos bo môr
 Y tran bytholgylech oesoedd ar eu hol
 Yn storom o ddisgleirder ac o nerth—
 Fel pe y mynnai drwydded i roi tro
 I bliith ei brodyr a gollasid gynt,
 Pan y gwahanodd pechod deulu Duw,
 Gan eu gwasgaru a'i aruthrol wynt,
 Bob lloer a phlaned i'w hanialwch pell,

Meudwyon aruthr hyd y gwagle oer,
 Pan dorrwyd yr ysbrydol bynt i lawr,
 Rhai oeddynt yn cysylltu'r ser i gyd
 A'u gilydd, ac â phellaf orsedd Duw,
 Fel rhannau teg o'r un cyfanwaith mawr,
 Cynteddau yr un Ior-lanwedig deml.

Meddyliai dyn am oesoedd mai ei fyd
 Soddedig ef oedd canol bwynt y cwbl
 A swm y greadigaeth, ac nad oedd
 Y ser ond gwreichion ar ei gyrrau ef,
 Arwyddion ei derfynau, nad oedd gan
 Yr haul un dwyrain na gorllewin ond
 A droai efe ato yn ei daith
 Ganol a ser-ysgogol; fod yr haul
 A nefoedd Duw i gyd yn troi o'i gylch.

O, fel y gallodd meddwl un—un dyn—
 Ddileu holl freuddwyd amser, a rhoi'r byd
 A'r haul a'r ser i gychwyn fel o newydd
 I maes o gyntedd amser yn eu trefn;
 A dwyn y greadigaeth fawr i'r lan
 O hono ei hun, o feddwl ynddo'i hun,
 Yn ol ei mawredd a'i hanfodol ddull,
 Heb seren dan dywyllwch, nac un byd
 Yn tramwy yr anfeidrol heb ei ddeddf.

Fc syrthiodd creadigaeth Duw i'w law
 Fel afal, a gwahoddai'r byd i weld
 Dirgelwch ei threfniadaeth ar ei fys,
 A sylfaen ymerodraeth fawr yr haul,
 Ac uwch ymerodraethau ser y nef,
 A gyd-deyrnasant trwy yr unrhyw ddeddf
 O godiad hyd fachludiad amser mwy.

Haul! nid oes boreu yn dy hanes di,—
 Dy hanes o ddiderfyn rwysg a gwawl,
 O fewn yr hon y mae rhyw blaned fyth
 Yn disgwyl dy gyfodiad, mil a myrdd
 O froydd a mynyddoedd yn y niwl,
 A'r nefoedd fel llumanau dros eu pen
 Yn gwrando swm dy ddydd-wneuthurol rod,
 Sy'n tafu dydd o amgylch ac o flaen
 Bob tafliad lonnaid wybren môr a byd

Gan fesur amser trwy ei gylchoedd oll,
 O'r cyntaf i'r diweddaf, pan ymsawdd
 Pob mesur yn yr anfesurrol mwy,
 Pan na chanfyddir amgant lle y bydd
 Y gorwel fyth yn ddyfnach, lle ni cheir
 Un terfyn ond a wnel gwelediad dyn,
 Byrdra ac anigonrwydd ei welediad,
 Yn agoredig ryfeddodau Ior,—
 O fewn dy hanes ogoneddus fawr
 Nad oes o'i mewn wagleoedd onid dau,
 Dwy ddalen wag yn unig, a adawyd
 Yn wag, yr olaf, pan y teimlai'r byd
 Pan deimlai'r nef, pan deimlai amser fod
 Un cof yn ddigon y diwrnod hwnnw
 Pan lefodd y Tragwyddol yn y cnawd
 "Mae syched arnaf," nes i'r synnol fyd
 Adseinio mewn daeargryn, nes i'r lloer
 A'r ser i gyd ddihuno ganol dydd.
 Mae'n ddigon ac yn ormod; rhydd y baich
 I dragwyddoldeb, ac nid gormod ef
 I'w gynnwys, ac i ddal y môr o fawl
 Daen yn ddiderfyn o'r gwirionedd dwfn.

Braidd y ceir boreu yn dy hanes di
 Mor fawr â hwnnw dorrodd mor ddisymwth
 Ar foroedd dyfnion ei feddylfyd ef,
 Seryddwr amser oll. O Newton fawr!

Fe allai'r ser

Eu hunain ffurfio'th feddfaen claer, a'r haul
 Fachludo dros fynyddau'th fawredd olaf,
 A'r seren fore wenu ar dy lwch
 Fel brawd o'r un addewid, ac o'r un
 Gyffelyb genadwri, 'r hwn a ddug
 Ysplenydd ddydd y cyflawn-eglhurhad
 Ar galon a ffynhonnau'r dydd ei hun.

Ai plentyn oit ar lan y dwyfol fôr,
 Yn cipio ambell royn yma a thraw?
 Drychfeddwl dirfawr ydoedd, teilwng o
 Genhadwr iddo ef nad yw y byd
 Ond groyn iddo, a'r ser ond taeniad uwch
 O fanro ar uchelach creig ei allu.
 Na welai amser fwy o'r plantos hyn,
 Nad oedd i'w mawredd hwy a gyffelybid
 Ond cyd-fawr, cyd-ddwfn ostyngciddrwydd pur!
 Yn rhodio hyd ei geulan grynol ef

Dan grynu, O na welai amser fwy
 O'r cyfryw enaid-bererinion pur
 Frawychent feddwl am yr olaf beth,
 Rhydio a chynnwys dyfnder olaf Duw;
 Y rhai wrth syllu ar yr haul a'r ser
 Obeithiant nad yw'r helaethderau hyn
 Ond cyntedd y gogoniant, tARTH y môr
 Tragwyddol, a phenrhynion bythol fyd
 Yn treiddio ac yn chwyddo tonnau amser
 Gan wneyd cyfyngfor bywyd yma'n fawr
 Gan fawredd gobaith, a disgwyliad pell;
 Y rhai obeithiant, yn eu dwyfol ffydd,
 Nad yw y greadigaeth, er mor fawr,
 Mor llydan, ond gwahanlen defnydd, rhwng
 Yr ysbryd a'r ysbrydol, dyn a Duw,
 Y bryniau rhyngom a'n tragwyddol wlad;
 Y rhai sy'n edrych ar olynïad cyson
 Planedau, heulïau, ser, pel ar ol pel
 Yn codi'r dydd i fyny ac yn gwneyd
 Machludiad yn amhosibl oesoedd byd,
 Y lloer yn adgyfodi o deg fedd
 Byd-ddwfn machludiad draw, hanner y dydd
 Gan daenu'r borau tyner dros y byd—
 Y ser o'u huchelderau'n tafu i lawr
 Ryw ddarnau o dragwyddol ddyddïau Ior
 Sydd yn goleuo bryniau tragwyddoldeb oll;
 Y rhai sy'n edrych ar y cylchiad hwn
 Boreu ar gyfer nawn, a'r lloer a'r ser
 A'r holl blanedau'n cynorthwyo'u gilydd,
 Fel unol ymdrech creadigaeth Duw,
 Cydymegniad ei holl fydoedd hi,
 I ffurfio ffigyr o'r tragwyddol ddydd
 Sy'n llanw oesoedd anfarwoldeb fry
 A ddwg efe i mewn, am dano, fel
 Ei briodoledd a'i ogoniant pur,
 Pan ddaw ei hun i olwg dyn ar ol
 Ei holl weithredoedd.

Rhyfedd yw dy rwysg,
 A theilwng ddrych o'th Berydd mawr, O haul!
 Ti gludi fyd fel pluen ar dy fôr,
 Dy fôr di lan o wawl. Derbynni'r ser
 Fel engyl-adar ar dy donnau'n awr
 Pan gasglont yn y pellder am eu brig
 Y niwl ac ardderchocaf hudd y nos.

Ac nid yw'r nos helaethaf ond dy arwydd
 Dydd-gloawl ar y byd, a'r ser di-rif
 Ond delwau dy ogoniant ar y sel,
 Y sel ardderchog sydd yn rhoi dy fydoedd,

Un ar ol un,

Fel plant i freichiau am-bluedig cwag,
 I ryfeddodau mewdol gread dyn,
 Y breuddwyd, sydd yn tynnu heuliau uwch
 O'r enaid i oleuo brvniau pell
 Rhamantus fyd dychymyg, ganol nos.

Ac nid oes eisieu cymorth arnat ti
 Mewn un awyrbarth o'th lywodraeth fawr,
 O'r canol bwynt hyd olaf gwr y dydd
 Sy'n ymgymysgu draw â dyddiau'r nef
 Lle mae yr enaid weithiau'n cael ei hun
 Yn ddiarwybod iddo, ac yn wyllo
 Ei fod o fewn atyniad marwol fyd,
 A baich o ddefnydd fel condemniad trwm
 Yn hongian wrth ei ysbryd, nad all dim
 Ei rwygo ond y rhwygwyr mawr y sydd
 Yn ysgar bydoedd ac yn tynnu'r cylch
 Du tywyll am bob byd o euog nod
 Sy'n rhwyfo trwy dy foroedd duon, Amser,
 A than y barnol donnau amlaf, hyd
 Y gobaith olaf sydd yn bannu ei wae.
 Ti ddygi amser gyda thi fel môr,
 Ac fel y tyn y lleuad ar ei hol
 Foroedd y byd ar lanw o awyddfryd,
 Y tynni di y byd a'r lloer a'r bydoedd
 A roddwyd dan dy ofal, oll fel llanw
 O danbaid hollalluawgrwydd o dy gylch.

Mor fawrwych nofiant ar dy fythol ddydd!
 O na chawn wrando twrf dy fydoedd di,
 Ac eistedd oddi arnynt oll fel cerub,
 A chlywed yr ystorm anfeidrol sydd
 Yn rhuo o'r tu ol i'r bydoedd hyn,
 Ar ol pob un, y storm o sain oll-lanwol
 Nad yw ei hadsain yn dibennu byth,
 Yn seibio, nes y delo'r belen fawr
 Yn ol drachefn ar ei heang gylch
 I godi y taranau fwyddyn arall.

Digonol wyt dy hun i ddwyn dy faich,
 A chadw'th fydoedd a'th leuadau heirdd

Uwch bedd-lanedig foroedd amser oll.
 Dos, deilwng gynrychiolydd o dy Dduw,
 Sy'n ysgrifennu, ar ddalennau gwag
 Y gofod, greadigaeth fel drychfeddwl,
 Ac fel drychfeddwl yn ei galw yn ol
 I fod mewn llawnach purdeb ynddo ei hun.

Parha

I godi o dawelfawr hafn y nos
 Fyd ar ol byd yn ol eu harddaf drefn,
 Eu cipio ar uchelder dy gyfodiad
 A'u nofio yn fawreddog dros y dydd,
 Nes egyr y ddiweddaf nos o bell
 Ei thywyll byrth, O nes y gwelot draw
 Benrhynion aber y tragwyddol fyd
 Yn pennu amser â'r ddiderfyn lan,
 Nes gwelot draw y Graig aruthrol sydd
 Yn soddi bydoedd dan ei chrog o wae
 Fel gro ton-dafiol, neu yn derbyn fyth
 Ryw lif o heuliau ar ei gloewaf frig
 Yn esmwyth a mawreddog, lif o ser
 Fel tragwyddoldeb o foreuau. Boed
 Dy leiaf wên, fel eiddo'th Dduw, yn ddydd,
 A'th fachludiadau fel yr eiddo ef,
 Fel eiddo ei drugaredd lawn a'i ras,
 Draw ond ymddangosiadol ac mewn rhith.

Helaethrwydd dy ddaioni, cylchedd maith
 Dy fyd-oleuol, byd-fendithiol daith,
 Dy fawredd yw yr achos fyth dy fod
 Yn machlud. Nis gall dyn dy ddilyn dros
 Geulannau niwl ei fyd. Mae'n rhaid i ti
 Roi cylch anfeidrol cyn y gelli ddwyn
 Dy ddydd a'th fawredd eilwaith ar y byd.
 Y byd sy'n troi ei gefn arnat ti
 Trwy oesoedd o wamalwch. O, pe gallai,
 Pe gallai gadw ei wyneb arnat fyth,
 Heb droi ei fryniau prudd a'i gyfandiroedd
 A'i lygad nef-ddelweddol, y mawr fôr,
 Fyth ar y cwmwl a dyfnderau'r nos!
 Mae pwynt cerubiaidd ar y nefoedd fry
 Na wel fachludiad ar dy yrfa fyth,
 Hyd at y pellaf sydd yn mesur cylch
 Diweddaf amser, ond rhyw godiad maith,
 Rhyw godiad ar godiadau, byd ar fyd,
 Llydanach dydd ar ddydd, yn chwyddo i'r lan

Hyd uchder eithaf defnydd haen y ser
 Goruwch y rhai y gorffwys tragwyddoldeb
 Fel nefoedd, a gorseddfaine Duw fel haul.
 Os rhaid i'th fawredd a'th helaethrwydd di,
 A'n gwendid ninnau, ffurfio rhyngddynt hwy
 Wedd o fachludiad a newidiad fyth,
 Pa beth am Dduw a ninnau? O, pa beth
 Am hirfaith yrfa ei ragluniaeth ef
 Sy'n codi fythoedd ac yn machlud fyth
 Ar froydd a mynyddau'r bywyd hwn?
 Pe gwelem, y mae Duw yr un o hyd,
 A'i holl drugaredd fel y cyflawn haul,
 Pe gallem ond ei ddilyn, a mwynhau
 Golygfa y pellderau nad yw'r bedd,
 I'w ganfod oddiar eu terfyn hwy.
 Nyni sy'n disgyn tua bro y niwl,
 Yn taenu ofn a digalondid fel
 Byd-gwmwl dros ein henaid, ac yn ceisio
 Ei weled trwy y llygaid cnawdol hyn,
 A darllen ei fynediad rhyfedd trwy
 Gyfryngdod y daearol bethau o'n cylch,
 Yn lle fel engyl rodio dros y byd
 A cherdded bryniau adfyd ag y mae
 Siom fel daeargryn yn eu taflu i'r lan
 Er mantais enaid a golygfa well—
 A bod a'n hymarweddiad yn y nef,
 Y nef o ffydd, o burdeb, ac o fawl,
 Sydd yn mwynhau gwynepryd Duw a thaen
 Ei ragluniaethau oll fel hanner dydd.
 Y mae arsyllfa yn y bywyd hwn,
 Fel ymdaith seren, uwch y byd a'r bedd,
 O'r hon ni welir yn nhrugaredd Ior
 Fachludiad na lleihad ond hynny wnoir
 Gan eu hanfodol fawredd ynddo ef,
 A'u pellder yn yr anherfynol draw.
 Ac os yw gwên a thrugareddau Duw
 O agos heuliau'n ymleihau i ser
 Rhy bell a gweinion yn y dwyfol braidd
 I dreiddio y rhagluniaeth gymyledig
 A llonni'r ysbryd ar y bryniau oer,
 Mawrha y dynged sy'n pellhau y dydd,
 Y dydd o Dduwdod ar dy enaid dyr,
 Y dydd na edwyn un cyhydedd fyth
 Na chanol na therfyn-bwnc, am nad oes
 Un diwedd ar ei forau, ar y wawr

Lif yn dragwyddol o drugaredd Ior.
 Po bellaf rhagom yr amgylcho Duw,
 O mwyaf, llawnaf, ardderchocaf fydd
 Ei drugareddau pan y del yn ol.
 Ei fawredd yw yr achos fod ei gylch
 Mor eang. Aros ennyd! ennyd yw
 Dy holl arosiad yn y bywyd hwn.
 Daw yr holl ffafrau, y ser-wenau hyn,
 Oll yn y man,
 Bob un fel haul ysplenydd, yn eu hol,
 I roi dyddhad diderfyn ar ddyddhad
 Ar rod dy dynged yn y bythol fyd.
 Yn unig aros. Y mae Duw yn fawr,
 A'i drugareddau fel efe ei hun
 Yn gofyn tragwyddoldeb oesoedd Ior
 I droi o'u mewn ac ymddadblygu'n llawn.
 Nis gallant ddod i olwg dyffryn eul,
 Cul ddyffryn amser, ond fel ser, o bell
 Yn twynnu ac yn gwahodd dyn i'r lan.
 Haul yw pob seren; tragwyddoldeb yw
 Cyflawnder pob addewid wlawiodd Duw
 O'i galon waed-gawodol oddiar
 Y tywyll fryn, uwchben holl oesoedd dyn,
 Ei oesoedd oll hyd wawr yr olaf un,
 Pan na fydd eisiau un addewid mwy
 Ym mynwes yr Addaw-wr mawr ei hun.
 Yn unig aros. Y mae Duw yn fawr
 Ac un o'i wenau'n fwy nag amser oll.
 Mae f' haul yn machlud, a chysgodau'r bedd
 Yn disgyn ar fy ymdaith fel y nos
 Ddiweddaf, a'r addewid olaf bron
 Fel seren yn ymrolio i fyny mwy
 Yn nhew gymylau yr ystorom hon.
 O dringa di fynyddoedd adfyd serth,
 Y mae'r mynyddoedd-hyn, er garwed ynt,
 Yn esgyn i'r tragwyddol ddydd i gyd,
 A'u bannau gyda'r ser, a'u holl lechweddau
 Tu draw yn o au gan wynepryd Duw,
 A lluoedd o angylion ar eu hael
 Yn cydaddoli gyda'r seintiol lu,
 A'u gorseddfeinciau yn cawodi dros
 Y llethrau llyfnion ddyddiau o belydron.
 O ben mynyddoedd angau gweli mwy
 Ffordd ryfedd ei drugaredd ef yn troi
 Fyth ar i fyny, ar i fyny fyth

Ar aden pob rhagluniaeth, dros y byd
 A'r bedd, eu beddau hwy a garwyd gynt,
 Fel pethau difeddadwy, ac uwchben
 Dy fedd dy hun yn uchaf lawnaf oll.
 Cei weled na ddisgynnodd rhod ei ras,
 Ac na fu cyfnewidiad ynddo ef,
 Na chysgod troedigaeth, na fu haul
 Ei gariad am funudyn mewn un fro,—
 Mai'r uchder dwyfol oedd yn peri i ti,
 Y mawredd a'r helaethrwydd, dybio fod
 Machludiad yn ei gariad neu leihad.
 O! mae y nef dragwyddol fyth yr un,
 Ac nid oes bro a bryniau ynddi hi,
 Cyfodiad na disgyniad. Golygfeydd
 Y ddaear gyfnewidiol hon y sydd
 Yn esgyn ac yn disgyn; ynddi hi
 Y mae yr hollt, a'r môr, a'r graig, a gwag
 Ofnadwy'r bedd. Mae'r nefoedd, fel y Duw
 Sy'n hongian eu hamgylchoedd ar ei air,
 Yn ddigyfnewid gyd-uchelion fyth,
 A'u gwelediadau uwch holl fannau'r byd,
 A thros fynyddoedd ei gyfryngdod ef,
 Fel heulog bebyll duwiau dros y cwbl.
 Ac os yw'r storom a'r gwamalog wynt,
 A'r cwmwl fyth yn pasio trwyddynt hwy,
 Eu newid byth nis gallant; wedi'r cwbl,
 Yr holl daranau a'r rhaiadrol wlaw,
 Clir yw eu gwedd, a disglair fel o'r blaen,
 Cyd-lyfnion loewon ddyfnion hyd y ser.
 Mae'r wybren goruwch Horeb danllyd fryn
 Yn oleu er ys oesoedd. Duw,—
 O, anherfynol ras, a chariad yw.
 A chariad yw y gyfraith fawr ei hun,
 Daeargryn o ddigofaint yn dyrchau
 Bryn Sinai a Chalfaria i'r un rhes,
 A bryniau bywyd ei chlogwyni fry.
 Gras dyfnach yw digofaint, lle y mae
 Digofaint yn cyflawni amcan gras,
 Gan gasglu'r byd â'r daran a'r ystorm
 I gorlan bywyd a thragwyddol hedd.

Dos rhagot, haul! Y mae dy wersi, fel
 Dy fydoedd oll, yn fawrion, ac i gyd,
 Yn agor ein meddyliau tua'r nef
 Fel dydd llydanol. O, na bai ein holl

Feddyliau, fel dy helaeth gylchoedd di,
 Yn rholio trwy'r anfeidrol ac yn dwyn
 Rhyw ddyddiau newydd beunydd ar y byd.
 O pe caem edrych ar y ddaear hon,
 Ei broydd, ei gorseddau, a'i holl gylch,
 Am ennyd trwy dy lygad uchel di,
 Darfyddai uchelfrydedd ond a fai
 Lydaned, uched, ddyfned a'r holl ser,
 Holl greadigaeth am-daenedig Duw ;
 Darfyddai pob uchelfryd ond yr hwn
 A gronnai ei ddibenion oll yn Nuw,
 A fyddai foddllawn, fel y bydoedd hyn
 I ddychwel i ddiddymdra yng ngoleuni
 Ei wên, gan gyfrif yr helaethaf gylch
 O lafur a bodolaeth, oesoedd fyrdd
 O ing a lludded, wedi cyrraedd nod
 Oruchel a digonol, mwy na gwobr,
 Pe tynnai un cymeradwyol air
 O enau yr Anfeidrol; uchel fryd
 A hoffai'n hytrach farw ar ol gweld
 Mainc Duw a llys ei odidawgrwydd ef,
 A gwedd ei wyneb yn tŷwynnu'n llawn,
 Ac a fwynhâai yn yr angau hwnnw
 Swm anfarwoldeb a chyflawnder bod.
 Darfyddem edrych ar y ddaear hon,
 Ond yn ei thro pan ddelai gyda thorf
 Y ser i fyny ar ei blwyddyn fer.
 O, dwyfol fyddai edrych ar y byd
 Fel meddwl yn y pellder mawr, a'r lloer
 Fel ysbryd breuddwyd yn ei hymyl hi
 Yn rhodio trwy ei nos. Ni fyddai'r nos
 Ond cysgod oddiyna, cysgod byr
 Yn syrthio ar ei hol. Torfeydd y ser
 Ni welid mwyach yn ymgasglu i mewn
 I'w chysgod pruddaidd, nac i nos un byd.
 Caem esgyn ar dy lanw disglaer hyd
 Ymylau tavel eu môr-ddyddiau hwy,
 A'u gweled yn eu mawredd fel eu rhoed
 Bob un ar flaen ei chreadigaeth fawr.

O ganol dy ogoniant tafla fyth
 Dy ddydd fel tragwyddoldeb am dy ser,
 A dod belydryn o ffynhonnau'r gwawl,
 O ddyfnion flaenau'r greadigaeth lawn,
 Fel dyfnach canwyll yn fy llygad i,

Nes gwelwyf dros y diffyg draw a bod
 Yng nghartref fel archangel gyda'r ser.
 Ddychymyg, aros! Pam y byddai'r haul,
 Sy'n anfon ei bell reiddiau dros y byd
 A thros fynyddau'r lloer a'i balchaf roed
 A thros y ser a'u holl wynfaeod hwy,
 Haul mawr yr enaid, sy'n goleuo bod
 Fel wybren â'i gyfodiad, ac yn dwyn
 Baich trwm y byd yn wychach ac esmwythach
 Ar foroedd ei feddyliau uchel—pam
 Nad allai yntau esgyn, a mwynhau
 Gwelediad ei genadau, y tu faes
 I rod yr haul ac oesoedd amser oll?
 Rhaid iddo ef ymlwybro yn y dwfn
 O dan y niwl a'r nos, ac amser llesg
 Fel diffyg ar ei wedd yn ymddyfnhau,
 Nes cau yr oll o'r golwg dan y bedd.

Y mae mynyddau'r bywyd marwol hwn
 Yn torri ar bob pwynt y dwyfol ddydd
 O hono ac o'i amgylch fyth a lif
 Am dragwyddoldeb, fel y tyr y graig,
 Y bryniau, a'r cyfandir, ddwyfol lyfn
 A theg olygfa y taenedig fôr.
 Fan yma ceir gofidiau ar bell daen,
 Ac angau fel mynyddoedd garwach draw,
 Yn torri'r nefoedd ymaith ac yn gwneyd
 Ei fywyd oll yn froydd, a'i holl hynt
 Yn beth o waeledd ac iseldra prudd
 Cydwastad ag iseldra olaf bod,—
 Y bedd a siomedigaeth perffaith bron.
 Gwych fydd y borau pan gyrhaedda ef
 Ei rod daenedig ar y nefoedd gwell,
 Y nefoedd nad oes eisiau haul o'u mewn
 Gan lewyrch Duwdod, pan y gwel y cwbl
 O'i briod uchder yn y dwyfol fry,
 A phan y bydd y bryniau tywyll hyn,
 Hyd at yr olaf a'r uchelaf sydd
 Yn arwain tragwyddoldeb hyd y bedd,
 Gan hongian ei fawreddau yn niwl amser,
 Bob un yn olau fythoedd, a phob un
 O fewn ei dynged yn ogoniant mwy,
 Yn beth o fawredd ac urdduniant dwfn,
 Fel y mae'r ddaear a'i holl olygfeydd,
 Ei bryniau, a phob rhiw i ti, O haul,

Pan godot arni yn dy gyflawn nerth,
 Gan dafu dros ei chreigiau garwaf hi
 Ryw fôr o ogoneddiad led y byd.

Y mae y byd a'r enaid gledd yng nghledd.
 Y marwol a'r anfarwol, er yn rhwym
 O deithio yr un llwybyr, trwy y daith
 Yn araf ymddadrwymant, gan bellhau
 Oddiwrth eu gilydd yn eu gilydd fyth.
 Mac gwagle'n dechreu rhyngddynt gyda bod
 Sel tynged ar yr undeb. Amser ddwg
 Ei wyntoedd lledol i'r agorawl rwyg,
 Ac ambell storm, ddigonol yn ei nerth
 I dorri byd yn ddau, a newid gwedd
 Y blaned fawr gan boenau, oni bai
 Fod dyn yn fwy na bydoedd, ac yn fwy
 Nag angau a'i holl allu tywyll ef,
 Yn rhwym o godi o bob môr o wae
 Ar ol pob byd-faluriol ordd o ffawd,
 Tawelu ac ymledu fel y nef
 Ar ol pob storom, mewn cymundeb derch
 A'r anherfynol a'r disoddawl draw,
 A byw'n dragywydd, byw trwy angau, byw
 Trwy bethau nad yw angau ond eu cysgod
 A byd-fedd ond eu harwynobedd teg,—
 Y brofedigaeth sydd yn croni o'i mewn
 Beryglon tragwyddoldeb mewn un ton
 O ddistryw anherfynol ac o wae,
 Yn bygwth dadsylfaenu adail bod,
 Pileri rhinwedd, pell rodfoedd hedd
 Ardyrau gobaith, eu cyd-ddymchwel oll
 Ar foment ac ar dragwyddoldeb mwy,
 A chladdu'r enaid dan y distryw fyth,
 A gostwng anfarwoldeb a holl lan
 Y byd a ddaw i ddlyfnder ag y mae
 Bedd yn ogoniant iddo ac yn haul,
 Am oesoedd dyn, holl oesoedd Ior ei hun.
 Gwynt ar ol gwynt ddaw i lydanu'r rhwyg
 Nes y cyrhaeddo o'r diwedd ddullwedd angau,
 Dyfnder difwa a thywyllwch bedd.

Nac ofna ef, er dued. Nid yw'r bedd
 Ond dwyn i ben a llwyr berffeithio'r hyn
 Y mae dy enaid, trwy bob meddwl derch,
 Bob codiad i'r anfarwol, pob dychymyg

Sy'n gwisgo gorysplenydd rodau'r haul,
 Gan gipio o'r eangder ar ei bys
 Fodrwyon Sadwrn fel y byddo mwy
 Yn addas i ymddangos ger bron Duw,
 A dal disgleirder ei orseddfainc ef,
 A sefyll dan daranau ei gadernid
 Yn treiglo trwy ei hanfod pell ei hun,
 Gan ddysgub bydoedd oddiar eu ffordd,
 A'u hadsain olaf yn anfeidrol fwy
 Na thwrf eu haruthr gyd-ddisgyniad hwynt
 Dros y ceulannau sydd yn rhimio bod,
 Yn rhimio holl greadau llaw ei nerth,
 Fel modrwy arian yn ei faith gyflawnder,
 Ry fechan a rhy wael i'w leiaf fys
 Sy ag araul dragwyddoldeb ar bob un,—
 Nid yw y tywyll fedd ond cyflawnhau
 Yr hyn yr ydwyt trwy bob meddwl pur,
 Pob syniad teilwng o dy fawredd, ddyn,
 Yn ceisio'i ddwyn i ben ddydd ar ol dydd.
 Pan fo dy enaid di a'r ser yn un,
 Pan lifo dy feddyliau iddynt hwy
 Mewn cydgymysgiad o urdduniant pur,
 Pan dorfo'th ddychymygion heibio
 Penrhynion olaf amser, môr y dydd
 Huanol, i gyduno yn y nef
 A chydaddoli â holl engyl Duw
 A blaenaf luoedd cariad, O yr wyt
 Bryd hynny'n mhellach oddiwrth y byd,
 Y corff, a phethau o weledig ryw
 Na phan y taflo angau rhyngoch chwi
 Ei farwol fryn yn naeargryn ei nerth.

Cam, cam—a dyna ni dros wag y bedd.
 Paham yr ofnwn yr ysgariad hwn?
 Bu lled y greadigaeth, rhod yr haul
 Fil milwaith drosodd, rhyngom lawer tro.
 Do, lawer tro, pan godem gyda'r ser,
 Pan godai ein meddyliau oll o'n mewn
 Gan gipio'r enaid ar eu boreu pell
 I uchder y tragwyddol olygfeydd.
 O, mae'r llinynau sy'n eu huno hwy
 Yn weinïon pan y delo angau'n mlaen,
 A bychan, bychan ydyw gorchwyl bedd
 I hwnnw a arferai amlaf fod
 Lle na bu gan y marwol safle erioed

Na chysgod eilrith am funudyn byr ;
 A hoffai ymarweddu yn y nef
 A byw a bod a symud trwy ei oes
 Yn Nuw fel rhod, fel ffordd, fel cartref pur ;
 A deimlai ei ymddiried arno ef
 Ymbwysiad ei holl enaid ar ei air ;
 Fod ei gerddediad ardderchocach fyth
 Ar hyd uchderau addewidion Duw
 Ac nid ar hyd y ddaear ond mewn rhith ;
 Nad oedd yn disgyn ar y ddaear hon,
 Yn gorffwys, ac yn huno, ac yn troi
 O gylch y graig ddacarol hon a'r bryn
 Yn unig ond ei gysgod ef, ei rith,
 Y corff, y marwol ; fod ei olwg ef,
 Ei bryder, ei obeithion, a'i edrychiad
 Ar wedd y byd ysbrydol fry, pa fodd
 Uwchben y cyfan yr ymweddai Duw,
 Ai tangnefeddus ai ceryddol caed
 Ei olwg ef, ai bryn o wg, ai gwên
 Fro-daenol leinw welediad yr ysbrydol ;
 A deimlai ei awyddfryd pennaf fyth
 Am godi ac ymgâdw ymhell goruwch
 Y byd, orseddau a phrinderau 'nghyd,
 Y groes a bryn y gallu, oll, a bod
 Fel angel yn ddihalog gyda Duw,
 Fel meddwl sanctaidd yn ei gariad ef.
 I hwnnw dreuliai ei ddedwyddaf awr
 I holi'r ser bob nos, a welont hwy
 Arwyddion ei ddyfodiad ef, a oedd
 Pigyrnol fryniau'r greadigaeth draw
 Yn derbyn tor y wawrddydd ar eu brig,
 A oedd olwynion ei gerbydau ef
 Yn ysgwyd tragwyddoldeb bellach, gwên
 Ei wyneb yn dileu yr heuliau oll
 Gan roddi awgrym y machludiad mawr
 A rydd y greadigaeth oll dan len,
 A blyg y nefoedd fel gwywedig wisg,
 Gweddus yn unig i ddiddymdra, ysbryd
 Distawrwydd ac e bargof,—O, i hwnnw
 Na adnabyddai'r byd ond fel y mae
 Yr angel sanctaidd sydd yn ymyl Duw
 O'r nefoedd yn ei adwaen, fel y ser
 Sydd yn ei ganfod yn ei briod gylch
 Ac yn ei wirioneddol wedd, y nos
 Pan ddaw y bryniau allan i amdoi

Ei holl ynfydrwydd a'i orchwylion gwael
 Rhag gweled fry o flyddlawn dystion Duw,
 A choſio a chyhuddo pan y del
 A'i holl weithredoedd gydag ef i farn,
 Ei briod wybren, ei weithredoedd oll
 Am dano, pan y saif ar amnaid Duw
 I fyw neu farw fyth yn ol y wedd
 Dry yr anfeidrol arno oddiar
 Y nefoedd gorsedd-adeiledig draw,—
 I hwnnw bychan ydyw croesi bedd;
 Yr hwn a hongiai dros ei enaid, dros
 Eisteddfa'i farn cylch ei feddyliau i gyd,
 Fynyddoedd tywyll angau (goleu rai
 Pan arnynt, derbynfaoedd dyddiau'r nef)
 Ac oddiarnynt, fel gorseddau'r gwir,
 Gorseddau'r enaid a'r anfarwol fyd,
 A ffurfiai bob golygiad yn ei le
 Am bethau'r ddaear, pethau'r bywyd hwn;
 A welai'r cyfan o'r dyfodol pur,
 Gan adeiladu ei arsyllfa dderch
 O feini'r bedd ac adfeiliadau'r byd;
 A wnai farwolaeth yn ganol-bwynt bywyd
 O'r hwn y gwelai'r cyfan yn ei le,
 Neu o'r uchderau cydraddolion draw,
 Y cylchoedd sydd yn dwyn gorseddau'r ser,
 Ac yn crynhoi meddyliau'r saint i'r lan
 I uchder ei dragwyddol feddwl ef
 Sy'n rhagddelweddu yn ei feddwl fyth
 Gyflawnder a pherffeithrwydd pob rhyw beth,
 A chyflawn ffrwyth pob gweithred, oes, a byd,
 Yn dwyn dadguddiad tynged ar ei wedd
 A ban a swm pob seren ynddo ei hun,
 Y diwedd a'r dechreuad oll, yr hwn
 Na wel un dechreu ond o hono ei hun
 Na diwedd ond a fachlud iddo'n ol;
 A welai yng ngoleuni Duw ei hun
 Y Duw anfeidrol na raid iddo fyth
 Roi cam ymlaen i weled, nac yn ol
 I goſio; nad oes yn ei hanfod mawr
 Un adgof fythoedd na dyfodol, ond
 Holl-bresenolrwydd pethau, bydoedd, bod;
 Heb ddechreu dyddiau ac heb ddiwedd oes,
 Heb amser ac heb dragwyddoldeb mwy,
 Nad yw y cyfan fu, sydd, neu a ddaw
 Ond un anfeidrol wyddfod ger ei fron.

Dyn sydd yn dweyd, "A fu. Un eiliad drosodd."
 A phwy a'i ca? Pa feddwl dyn a ddeil
 Ei afael arno? Yn ei wendid mae
 Yn colli y gwelediad mawrwych daen
 O'i amgylch yn dragwyddol, fel nad oes
 Dim yn bodoli yn ei olwg ef
 Ond cymydogaeath y munudyn hwn.
 Trwy fod a symud hyd y ddaear hon,
 Ac arfer edrych trwy olygon cnawd,
 Mae'r enaid yn ymddaearoli bron,
 A gwelediadau ei ysbrydol fyd,
 Gwelediad priod ei anfarwol fod,
 Yn ymgyfyngu ac yn ymgulhau,
 Yn cau i mewn, i mewn, gylch o fewn cylech,
 Yn ol arddullwedd y tymhorol fyd,
 A byrion welediadau'r ddaear hon,
 Nad oes arsyllfa ar ei balchaf fan
 O awyr-orseddedig Alp a chwmwl
 Lle rhed y bryn i'r.nef, a'r nef i'r bryn,
 Rhyw gymysg o'r daearol a'r ysbrydol,
 Rhyw ymbriodiad ar allorau'r gwawl
 O ddaear ac o nef fel corff ac enaid—
 Nad oes gweledfa ar ei phellaf fryn
 A all gymeryd onid darn i mewn
 O'i byd-welediad. Mae yr enaid llesg
 Yn gwisgo gwedd y ddaear am ei fyd
 Ei hunan, ac yn siarad am ei fod
 A'i anfarwoldeb priod gylch ei rwysg
 Yn ol olyniad bryn a bro, yn ol
 Cyfyngdra ac helaethrwydd ffrwd a môr,
 Lle nad oes mewn gwirionedd onid un,
 Un araul anherfynol, môr di lan.
 "A fu," medd dyn. Y mae o hyd i Dduw,
 Ac "ydwyf yr hwn ydwyf" yw ei enw.
 Ac nid oes dim yn cael ei gollu, dim
 Yn darfod bythoedd. I ba le yr ai?
 Pa feddod a'i derbynai? O, pa nos
 A'i plygai dan ei chysgod y tu faes,
 Rywle tu faes i'w fythol hanfod ef,
 Sydd yn amgylchu'r cyfan fel y mae
 Y nefoedd acw yn cwmpasu'r byd,
 Gan dderbyn ei holl fachludiadau ef
 Fyth, fyth i mewn i'w heangderau'u hun,
 A chylchoedd yr holl oesoedd ar eu gwedd
 Mewn môr-lifiadau o egluraf wawl?

"Machluda'r haul,"—dyn a ddywedodd llyn;
 Nis gall y nefoedd ei ddywedyd fyth,
 Y sydd yn cynnal ei fynediad ef
 Fyth, byth ymlaen ym mawredd hanner dydd.
 Yng ngwelediadau anherfynol Ior
 Mae'r oll a fu, yn bod; yr oll a fydd
 Yn gorwedd yn ei hanfod ef fel llyn.
 Rhyw lyn yw tragwyddoldeb ynddo ef
 Yn cronni ei feddyliau, ac yn rhoi
 Delweddiad o'r dyfodol fel y bydd
 Pan golo dyn ei olwg ar ei wedd.
 Duw yw y cwbl. Ni ddaw digwyddiad fyth,
 Na damwain ar ei lwybrau araul ef,
 Na thro anisgwyliadwy. Ynddo ef,
 A thrwyddo ef, ac iddo ef, y mae
 Y cyfan yn ymsymud ac yn bod;
 Ac nid oes dim yn newydd nac yn hen.
 O, pe y gwelem yn ei olau ef,
 Ni fyddai amser ddim, nac oesoedd ond
 Cysgodau tlodi ac amherffeithrwydd dyn,
 Rhyw bethau o deuluaeth y mynyddoedd,
 A newid-weddol rithiau'r ddaear hon,
 Ac anhrefn pethau y tu yma i'r nef.
 Mae dyn yn colli'i olwg ar yr haul,
 A'r bryniau hurtion oll yn troi i maes
 I'w gwyno ar ei ymddifadiad prudd
 A cholliad y gogoniant nad yw ef
 Na hwy ddigonol iddo.

Y mae pwynt

Lle nad oes seren yn machludo fyth,
 Yn esgyn nac yn disgyn, nac un byd
 Yn croesi llinell y gwelediad mwy,
 Y cyfryw yw bodolaeth oll i Dduw.
 Bu gwrthrych hawddgar unwaith ar y byd,
 Fe aeth yr enaid tyner ar ei ol,
 Gallasai groesi olaf gylch y byd
 Wrth ganlyn y gogoniant swynol hwn,
 Heb synio fod y byd a'i bethau ar ben,
 Fe gollodd—collodd y gwelediad byth,
 Diflannodd ymaith, ac ni chenfydd mwy
 Ond tawel gysgod y cyffroad—bedd.
 "Y mae," er hynny; a phe tafiai dyn
 Y ddaear ymaith, a chyfyngawl wisg
 Y ser a'r bryniau, oddiam ei enaid,

Gan honni ei fawrhydri fel y gwna
 Pan ddaw y beddrod i'w orseddu ef
 Ar anfarwoldeb, O fe wel bryd hyn
 Fod yr hawddgarwch oll ar gael yn Nuw,
 Fel seren yn yr anherfynol fyth.

Bu Ceidwad farw ar y bryn, y mae
 Y gwaed yn llifo byth ar orsedd Ior.
 O, mae yr aberth yn boddloni byth.
 Nid oes adgofion yn ei hanfod ef,
 Yr hwn a wel y cyfan, ac a ddwed
 Uwchben yr oesoedd—"Ydwyf yr hyn wyf;"
 Ac wrth bob peth—"Wyt yr hyn ydwyf fyth."
 Dos atc, dos i fyny at ei faine,
 Mae digon am dy achub, er mor bell
 I ti ffynhonnau yr achubiaeth hon,
 A blaenau afon bywyd, afon hedd.
 Dos, nid yw adsain yr iawn-gloawl air
 Ysgydwodd seiliau'r byd a sedd y dydd,
 Y llef a rwygodd fwy na bryniau'r byd—
 Y barnol fryniau gaudent ar bob llaw
 Ffordd yr anfarwol nes y culent mwy
 Ei dragwyddoldeb hyd gyfyngdra bedd,
 Iselder, dyfnder, a thywyllwch angau;
 Y llef a dynnodd o gloedig fron,
 O greig-gloedig fynwes natur fud
 Ei chalon a'i theimladau hyd yr haul,
 A wnaeth i'r creigiau gipio yn yr wybr
 Farn dyn ar orsedd y ddacargryn fawr,
 A rho'r ddedryd ar gymylau'r nef,
 Y ddedryd fawr a selir ganddo ef
 Pan ddaw i fyny lond yr olaf ddydd,
 Pan dry yr haul fyth bythoedd yn ei ol,
 Fel cysgod gwael, wrth weled yn y nef
 Ei sylwedd a'i gyflawnder yn dyddhau
 Dyrchafol fryniau tragwyddoldeb oll
 A ddygant ddinas Duw ar uchaf res
 Eu bannau, a'r tragwyddol dân fel niwl
 O wae taniedig ar eu parth soddedig,
 Soddedig ac ymsoddol fyth o dan
 Ddaeargryn fythol ei ddigofaint ef,—
 O, nid yw adsain y terfynol air,
 Y gair a gloai hedd-gyfarchiad mawr
 A chariad-weinidogaeth Duw mewn cnawd,
 Hyd yma wedi darfod ar y nefoedd,

Ar hedd-awelon ei foddlonrwydd ef.
 Dos ato. Newydd, newydd ddod i mewn
 Y mae y mawr Bryniawdwr, a'i holl chwys,
 Holl waedlyd chwys yr ymdrech ar ei rudd,
 A'i law deyrnasol yn dyferu gwaed
 Ar hyd yr oesoedd, gwerth eu bywyd hwy,
 Yn newydd fel y galon-gawod gynt
 A gauai'r groes i mewn, mewn cylch o waed,
 Cylch na faidd melldith fyth ei groesi ef,
 Na chwmwl barnol ei gymylu mwy,
 Na chyrraedd neb o'i fewn. O ddedwydd awr,
 A ddyd yr enaid ar uchderau Ior
 I weled ei wynepryd, a mwynhau
 Holl-bresenolrwydd pethau ynddo ef,
 Y pethau ag y mynnai'r enaid fyth
 Eu gweled iel yr oeddynt, golygfeydd
 Y Dwyfol yn ei ymdaith dros y byd—
 Yn cychwyn allan o'r goleuni pur
 Ni ellir dyfod ato, a mynyddoedd
 Bytholfyd yn diflannu, myrdd ar fyrdd,
 A dinas fawr ei Dad yn-machlud mwy,
 A'i holl anthemau yn distewi gan
 Gyfryngiad ei ddigofaint mawr ei hun
 A huddai ei ogoniant ef mor llwyr
 Nes y cyfrifid pob rhyw ddwyfol wên,
 Pob priod weithred o'i hanfodol nerth,
 Pob teneuhad o'r llenni am ei berson,
 Yn rhyfedd wedd-newidiad ac yn wyrth,
 Ei briod wedd yn wedd-newidiad mwy,
 A hedd-naturiol ysgogiadau'i law
 Dros ei weithredoedd yn rhyw wyrth o nerth,—
 Yn dyfod oesau ar ol oesau 'mlaen,
 Ym mawredd ei drugaredd a'i holl ras,
 A goruchwyliaeth o arwyddion maith
 Am oesoedd yn ymsymud dros y byd
 Fel pell-ddisgynnol gysgod ei ddyfodiad,
 A miloedd, miloedd o aberthau drud
 Yn uno'u' ffrydiau i arwyddo i ddyn
 Y môr o hedd a ddygai dan ei fron,—
 Yn blaenu sercn dawel Bethlehem,
 Seren genhadol cariad, nad yw fyth
 Yn symud ond i ddwyn i mewn i ryw
 Colledig fyd wawr y tragwyddol ddydd,
 Y seren deg na welir ond un waith
 Goruwch y bydoedd, ond ar ol ei gweld

• Un waith na threngant yn dragwyddol mwy:
 Sydd, nid yn machlud, ond yn gwywo i mewn
 I'r Duw sydd yn ei dilyn hi fel dydd,
 Dydd llawn o anherfynol rad a hedd;
 Yn gwenu ar y doethion yn ei gryd
 A'u holl ddoethineb yn ei dawel wên,
 Yn machlud i'r anfeidrôl ac yn troi
 Yn fawl tragwyddol am adferiad dyn;
 Yn gwenu ar y llon fugeiliaid hefyd
 Y wên sy'n casglu bydoedd Duw bob un
 I gorlan ei drugaredd ddwyfol ef;
 Ac wedi hynny, trwy heolydd gwag
 Caersalem yn ymlwybro ganol nos
 Heb le i huno ond y garreg oer
 A ailfarmorid âg oer ddydd y ser;
 A gweld y ser yn disgyn, neu y byd
 Fel yn ymgodi'n araf atynt hwy,
 Mewn cydgymundeb synnol uwch ei ben:
 A'i glywed ef yn gofyn,—“Fynnwch chwi,
 Chwi hefyd, fyned ymaith?”—ac o'r diwedd
 Yn unig dan holl faich trueni dyn,
 A'r haul ei hunan yn ymguddio mwy,
 A'r nefoedd yn tywyllu uwch y ser,
 A holltau'r beddau yn cydsyrthio o gyleh
 Fel cedyrn farrau'r oesoedd dan y byd;
 Ei weled ef yn dringo rhiw y gwaed
 Ac amser, amser a'i gamweddau oll,
 Fel croes anfeidrôl ar ei enaid ef,
 Y groes nad oedd y melldigedig bren
 Ond cysgod o'i herchyllrwydd, ar yr hon
 Y bu ei enaid ef a'r ddwyfol law
 O dan y barnau, nes diflannodd holl
 Holl gamwedd amser dros fynyddoedd pell
 Ei am-gyfodol amser.
 O, gogoneddus fydd mwynhau y cwbl
 A fu am gadwedigaeth dyn, a fu,
 Ac eto sydd, yn Nuw, yr hwn a rydd
 Ei enw fel Pryniawdwr allan fyth,—
 “Wyf yr hwn ydwyf,”—ddyddiau'r nefoedd oll.

Y mae y corff a'r enaid fel dau fryn,
 Ac amser fel daeargryn rhyngddynt hwy,
 Yn chwyddo'r pellder, ac yn tafu un
 Fel mynydd o ogoniant tua'r nef,
 Nes y derbynio ar ei araul frig

Ryw chedfaoedd o angylion pur
 Y dwyfol air, a Duw fel boreu mwy,
 Nes yr hiraetho'n anhraethadwy gael
 Ei ysgar oddiwrth y marwol fyd,
 A'i dafu dros holl foroedd amser draw
 I'w le ei hun, a bod yn unig fyth,
 Fel tawel fryn yn Nuw, i'w dderbyn ef
 Fel dydd tragwyddol am yr enaid oll.
 Beth yw y bywyd hwn? Mae gallu dyn,
 Pob cynneddf, yn rhanedig, a'i ddibenion
 A'i egwyddorion megis rhwng dau fyd
 Yn crynu ac yn ansefydlog fyth.
 Fe fynnai'r enaid ddianc tua'i wlad,
 A bro ei dawel odidawgrwydd fry,
 A'r holl ysbrydol gydag ef. Ni cheir
 Uchelfryd y llygradwy heibio'r bryn
 Na'i duedd gyda'r cwmwl chwim a'r haul.
 O'r ddaear, dros y ddaear, ac i'r ddaear,
 A *than* y nefoedd, dan y ser, a thrwy
 Fedd-weddog froydd amser gyda'r pryf,
 Hyd lwybrau llychlyd y daearol fyth,—
 A dyna ei athrawiaeth ef i gyd.
 Y mae yr enaid yn mwynhau y ser
 Fel cydaelodau o'r un teulu derch,
 Fel brodyr o'r un anian a'r un nawws,
 O'r un nef-uchder gwreiddiol, ac o'r un
 Awyddfryd ac ucheledd tuedd fyth;
 Fe hoffai wrando arnynt trwy y nos
 A myned allan gyda'u tanbaid lu,
 A'i holl feddyliau yn ymfurfio dan
 Ei enaid ef, fel byd o anfarwoldeb,
 Fel pwys sylweddol o ysbrydol rym;
 Pryd hynny mae y marwol yn llesghau,
 A'i duedd ef i huno, ac arffedu
 Ei hunan ar ddistawrwydd a mwynhad.
 Rhaid bolltio'r drws, ac edrych yr ail waith
 Rhag i ryw bridd symudol ddod i mewn,
 A pheri iddo ddychryn ganol nos,
 A'i weled ar y maes o flaen yr haul.
 Rhaid cloi y ddor, a throi i mewn, a chau
 Y nef i maes, a gado'r ser i gyd,
 A gobaith anfarwoldeb gyda hwy,
 A theg ddadguddiad y tragwyddol fry,
 Sy'n agor bydoedd o gyfrolau draw
 Y rhai nad allodd doethion amser oll

Feistroli dalen gyfan o'u mawr swm.
 Mae'n rhaid perswadio'r ysbryd erbyn hyn
 I fachlud o'i ddiderfyn hanner dydd,
 A galw ei feddyliau o bob byd,
 A cheisio rhyw ddiddanwch, rhyw ad dâl,
 Yng ngwagder ac ynfydrwydd byd y breuddwyd,
 Y Breuddwyd, sydd yn chwareu pob cymeriad,
 O'r proffwyd uchel ar orseddfainc ffawd
 Hyd at y daroganwr du ei wisg.

Pa beth yw breuddwyd? Onid ysbryd pur
 Yn ceisio tafu ffwrdd adgofion defnydd,
 Ac ymryddhau i ddianc tua'i wlad
 Tro bo y marwol yn mwynhau ei hun
 Yn dawel gyda'r byd a'r bryniau meirw;
 Yn ceisio edrych tra bo'r llygaid hyn
 Yng nghauad, trwy ei fewnol lygad pur
 A theimlo'i ffordd i fyny â meddyliau,
 Ac ymadeinio â'r ysbrydol noeth,
 A chodi yn ei anibynrwydd derch
 Ar ddefnydd, trwy ei ddwyfol rym ei hun?
 Y mae yn methu, a'r canlyniad yw
 Ystorum o elfennau oddiar
 Gyffredin faes bodolaeth, cymysg, anhrefn,
 A chaos o fodolaeth nad all neb
 Ei gofio a'i ddelweddu; enaid pur
 Yn edrych trwy ddau olwg ar ddau fyd,
 Nes bo'r gwelediad yn ddyrswch pur;
 Yn ceisio cipio golwg ar y byd
 Anfarwol, dros y marwol, a'r diweddaf
 Yn brynio a phigyrru ar bob llaw,
 Nes torri y gwelediad yn rhyw fil
 O ddarnau anghysylltiol anghydweiddol—
 Yn ymbenrhynio i'r tragwyddol fôr;
 A'i brudd adgofion am y marwol hwn
 Fel miloedd o ynysydd yn llenhau
 Ac yn tywyllu y gwelediad nefol.
 Barddoniaeth y briodas ryfedd rhwng
 Ysbryd a marwol ddefnydd, nef a chnawd,
 Yw'r Breuddwyd,—enaid pur yn llawenhau,
 Gan geisio taro ei anfarwol gân
 O fewn mesurau caethion, o dan faich
 Byd o fynyddoedd tywyll. Hyfryd yw
 Er hyn ei ganfod yn mwynhau o bell
 Welediad y gogoniant, ac yn rhoi

Rhyw dro i olwg y mynyddoedd aur
 O dan gysgodau'r byd. Bryd hynny mae
 Yr enaid fel yn edrych dros ei gryd
 Ei gryd o gnawd, ei gawell-fyd o frwyn,
 O aur a bryniau amblethedig teg
 Sy'n hongian yn y gwagle mawr, a'r haul,
 Mâb hynaf natur, yn ei gylchu fyth
 A'i oesoedd gan ei dawel ysgwyd, dan
 Ei wên dragwyddol, y nef-lanwol ddydd;
 Y mae yn edrych dros ei farwol gryd
 Pan deimlo ei ysgogiad yn lleihau,
 A'r byd bob cangen a phob bryn yn sefyll,
 A dim yn symud ond y ser a Duw—
 Fel gobaith Jacob yn ei gawell gynt;
 A chenfydd Anfarwoldeb fel angyles,
 Hyd afon bur y bywyd yn neshau,
 O lys ei Dad a'i harddwch ar ei gwedd,
 A geiriau hanner-ysbryd hanner-daeear
 Ddyferant dros ei fin ysbrydol wawr,
 Mewn nwyf rhwng syndod a gwallgofrwydd derch.
 O, nis gall gofio ei fwynhad ei hun,
 Nac enwi un o'r ymwelyddion derch
 Nac arddelweddu ynddo 'i hunan mwy
 Un o aberoedd y dragwyddol lan,
 Pan ddaw yr haul âg adgyfodiad mawr
 Y bryniau ar ei edyn a'r holl fyd,
 Pan ga ei hun yn gondemniedig eto
 I edrych allan trwy ffenestri'r cnawd,
 A darllen Duwdod mewn ffigyrau gwael,
 A chau ei hun i'r ddameg geir o'i gylch
 Yn codi gyda'r dydd.

Pa lw oedd hwnnw a gysylltai'r ddau
 Ar allor fore amser, pan nad oedd
 Llais gan yr enaid i foddhau i'r rhwym?
 Y mae yr enaid yng ngoleuni gwan
 Y Breuddwyd, lloer ei anfarwoldeb ef,
 Yn ameu gwiwdeb y cyfamod pell,
 Ac ehediadau ei feddyliau ef
 Ymhell goruwch y ddaear, a goruwch
 Ser-oleuedig arbinaclau'r nos.
 A hoff breswylfa ei ddychymyg mwy
 Yw'r wlad tu draw i'r bedd, lle nad oes môr
 Ond anfarwoldeb, afon, bryn, na bro,
 Ond bywyd glân ac ysbrydoldeb pur;

Lle nad oes cartref gan yr enaid fyth,
 Gorffwysfa mwy, na thrigfa, onid Duw,
 Na chorff ond anfarwoldeb am ei holl
 Feddyliau ac helaethrwydd bywyd byth.
 "O ddedwydd adeg," dywed ynddo'i hun,
 "Pan gollaf olwg ar y bryniau hyn,
 Pan dderfydd bod mewn bro a chysgod bryn,
 Pan dderfydd bydoedd, daear, haul, a ser,
 Tywyllwch a goleuni defnydd oll,
 A dydd a nos, pan na hanfoda mwy
 Ond enaid taweledig yn ei Dduw,
 Pur ysbrydolrwydd amgylch ogylech fyth,
 Pan nad all codiad na machludiad haul
 Rith-lawenychu a brawychu dyn,
 Na diluw dyfroedd, chwydd y ddaear-gryn,
 A gweddnwidiad bydoedd dan ei nerth,
 Gynyrchu yn yr enaid ofer fraw
 Ac aflonyddwch, fel pe gallai byd
 Rholiedig arno ei ddyfetha fyth,
 Fel pe y bai gan ddiluwiedig fyd,
 Gan fyd o foroedd, arswyd yn ei gól
 A dychryn bod-ddileol iddo ef;
 Pan na fydd gallu ei deimladrwydd mwy
 Yn cael ei lifo a'i wastraffu ar bridd,
 Na byd llygradwy'n yfed iddo ei hun
 Rinweddau ei anfarwol hanfod ef,
 Ei ddagrau aur, a'i ymgnion derch
 I mewn i'w foroedd a'i fedd-holltau gwael,
 Fel pethau o gyffelyb werth a rhyw
 Oll â'i aflonydd lleidiog ef ei hun."

Ac eto tybiem am yr enaid pur,
 Ar ol ei ollwng i'r anfarwol fyd,
 Nad yw y breuddwyd a'i fawreddau ond
 Ei filfed cysgod, fod yr ysbryd draw
 Yn hoffi meddwl am y marwol hwn
 Fel am gydymaith, cyd-b-rerin, fu
 Yn teithio gydag ef is lwybrau bod
 O dan y seren fore, cyn i'r haul
 A'r dydd tragwyddol godi, pan y ffodd
 Fel cysgod ymaith yn y goleu llawn,
 Gan adôr enaid ar y daith ei hun.
 Cydymaith llesg dan nych yn fynych fu,
 A llawer gwaith y troai'r ysbryd cryf
 I'w lonni ef, a'i gymell yn y blaen,

Ymlaen ychydig wedyn, hyd y bedd
 O leiaf, a therfynau'r belen hon,
 Hyd ymyl modrwy amser, cyntaf gylch
 Bodolaeth. "Tyred, mae y bedd gerllaw,
 A bryn diweddaf dy ymdeithiad di,
 Ar ol un tro am y rhagluniaeth hon
 Yn gyflawn yn y golwg, a llen fawr
 O oesoedd,—oesoedd yw ei gysgod ef,—
 Tyrd dano, ennyd eto tyrd ymlaen,
 Mi fynnwn ganfod dy ofidiau di
 Ar ben, a'th weled yn dy gartref hedd
 Yng nghól dy fam a'i breichiau tawel hi
 Cyn rhodio moroedd y tywyllwech draw,
 A rhoi y cyflawn lam a âd y byd
 A'r ser a breuddwyd-lannau amser oll
 Am dragwyddoldeb, oll ar ol. Hir, hir
 Y buom gyda'n gilydd; rhoist dy hun
 Yn ddrych a ffenestr imi, trwy yr hon
 Y syllwn, nid yn gymaint ar y byd
 A'r bryniau ystormedig deithiem ni,
 Ond ar y ser a glannau'r dwyfol fyd
 A godent hwy draw ar eu tonnau aur,
 Pell donnau ysbrydoliaeth drostynt lif
 Ar hyd y nef-fordwyol enaid, pan
 Y taen ei hwyliu oddiar y byd,
 A helm tragwyddol gobaith yn ei law,
 A seren anfarwoldeb ynddo'i hun
 Yn codi ac yn eistedd ar ben blaen
 Y llong ysbrydol o feddyliol nwyf,
 Yr arwydd a'r arweinydd; nes dy ddod
 Yn olau beth ysbrydoledig gan
 Weithrediad meddwl ynnot, arnat fyth;
 Ac nes i tithau bron anghofio'r byd,
 Anghofio'r cyfan ond y tawel sedd,
 A heuliau'r nefoedd oll, oll ond yr olaf
 A ddwg fawreddau'r Adgyfodiad gwell
 Ar edyn ei ogoniant, fel y dydd
 Fyth y ccisiasai ei gyrhaeddyd ef."
 Y mac pererin ffyddlaw yn mwynhau
 Adgofion ei gydymaith unwaith fu
 Yn glynu wrtho ac am dano fyth,
 A gallu a ffyddlondeb mwy na'i nerth,
 Yn torri yr ystorom gydag ef,
 Gan yfed trwy yr yrfa flin ei ran
 O'r gwyntoedd, gwyntoedd byd pan deffid ef

Fel mynydd noeth i ganol gauaf siom,
 Lle syrthiai ein cysgodion oll o'n cylech,
 Fel beddau gobaith-wywol ban unigrwydd,
 Lle mae y byd yn ymgfyngu mwy,
 Yn ymgulhau fel min o dan yr enaid
 Nes gwaedo mwy na'r galon, a'r holl ddyn
 Yn friw gan orlymderau bywyd oll.
 Per ganddo feddwl am gydymaith fu
 Yn dringo bannau 'i obaith bob yr un,
 Yn teithio, wedyn, holl ddyffrynnoedd siom,
 Nad oes a'u rhodia onid rhithiau bedd,
 A'r gwir bererin nad all feddwl fyth
 Am ado ei anwyliaid nes y bont
 Yn gyflawn dros derfynau amser oll,
 A'u cysgod olaf wedi gado'r byd—
 Ffyddloniaid puraf cariad, nad all un
 Hyawdledd eu perswadio i droi yn ol
 Ond hyawdleddau distaweddau'r bedd
 Sy'n eistedd ar y tragwyddoldeb mawr,
 A thywyll faen o'r graig fel oeraf fys.
 Ger oesoedd amser ar ei enau fyth.
 Y cyfaill flyddlawn yn ei ymyl gaed,
 Pwy bynnag a'i gadawai, er i'r byd
 Ystyried safle'n ddigon iddo ef
 Ryw fan i se'yll arno ganol nos
 I edrych ar y seren a garasai;
 Ac yn cyd-edrych y tu fewn i'r byd
 Ar lyn ei galon, ac yn gwrando'n brudd
 Ar ddyfnaf olaf lais ei ysbryd lleddf,
 Y curai 'i galon yn gyflymach bron
 Rhag clywed ymgwyn dwfn ei feddwl llesg,
 Gan foddi ei gwyniadau mewdol ef,
 Yn am-lanwadau ei chyflymol lif;
 A gydymdeimlai fel nas medra neb,
 Na dim, un angel nac un seren fry,
 Ond defnydd corff-luniedig, gydymdeimlo;
 A blygai gydag ef o dan ei wae,
 A chydag ef a godai fel afonydd
 Ar ol cawodiad o ddedwyddol rin;
 A wylai pan y byddai ef yn brudd
 Nes y boddheid yr anfarwol, fod
 Modd ganddo i liniaru ia y bedd
 A thorri'r rhew sy'n oeri bywyd byth
 A chawod ddaagrau ac â bywiol wlith
 O gwmwl agos iawn i'r galon drom;

Cydymaith a gymerai arwedd bod
 A'i holl dymhorau oddiwrtho ef,—
 Haf dan ei wên, a gauaf dan ei wae;
 A godai gyda'r haul pan alwai ef,
 A chyda'r ser a godai eilwaith dan
 Gynhyrfaid newydd o ddwyfolach rhin,
 A chyda hwy lafuriai lawer awr;
 A wisgai i'w ewyllys, fel y maes
 I foddio y tymhorau yn eu trefn,
 Yn ol arweddau y newidiol haul
 A droai'r flwyddyn amlwedd dros y nef.
 A phan y tynnai gwaith yr ysbryd mwy
 I dawel awr y terfyn, pan y caed
 Olwynion bywyd bron a throï i gyd,
 A chysgod eu diweddaf adain hwynt
 Yn syrthio ar y byd ymloerawl mwy,
 Eu holaf a'u tywyllaf fraich, y bedd—
 A grymai yntau tua'i olaf hedd
 A thy ei hir hir gartref, fel pererin
 Yn dechreu plygu ei luddedig ben
 Weld isel ddôr ei hedd-gartrefle mwy,
 O fewn ychydig gamau dros y gwyrdd;
 Gawodai ei flynyddoedd dros ei ben
 Fel arwydd yr addfedrwydd a'r cyflawnder,
 Fel awgrym ei baroddrwydd i'r hun fawr,
 Fod ei flynyddoedd yn rhifedig oll
 O rif fel gwallt ei ben, pe trefnid hwynt
 Yn ol helaethrwydd ei brofiadau ef,
 Oll yn rhifedig, ac yn wynion oll,
 Yn wynion pe na byddai onid gan
 Rinwedd a chariad a sancteiddrwydd glwys,
 I gyd yn wynion i gynhauaf Duw.
 Ai rhyfedd os dyfera'r enaid un
 O'i ddagrau mawr ei hunan ar yr haul
 Ddwg foreu yr ysgariad rhyngddo ef
 A'i gydsymudol cyd-deimladol cyd-
 Hanfodol gâr, nes diffodd byth o'i gof
 Oleuni y dydd hwnnw, heb ei weld
 Fyth mwy ond yn lloerlifol wawl y bedd
 Dderbyniodd ei anwylyd fyth i'w gôl?
 Fe gofia yn y nef. Y mae y dyn
 Gwir ddyrchafedig, yn ei lysoedd aur,
 Yn hoffi meddwl am ei annedd gynt,
 Y babell a'i derbyniodd ac a'i rhoes
 I fawredd ac i lwybrau tecach ffawd.

Po teca'r canol dydd, anwylach fydd
 Yr adgof am y wawr a lethwyd bron
 Gan wyntoedd a mynyddau pan nad oedd
 Neb a'i gwahoddai oddiar un ban,
 Na llwybyr ond a dorrid draws y byd,
 Na dôr o fyrdd yn agor ond a wnaed
 I wywo ar ei golyn, ac i ffoi
 Ffoi ymaith gyda'r pell-roliedig niwl.

Dos rhagot, haul! Daeth rhyngom ddiffyg mawr
 O fwy na daear. Dywed rywbeth eto.
 Mae nos yn perthyn i'th gyfundraeth di,
 Ac ar dy gyfer fyth. Nis gelli draw,
 Er llawned ac helaethed yw dy ddydd,
 Oleuo byd o'i amgylch. Dwed i ni
 Ai rhyw ymwelydd o ddieithriaif nawd,
 Ai traws-ymyrrwr, estron, a di hawl,
 Ai cyferbynedd gwynfyd ydyw gwae,
 Ei argyferedd, ei gyfarwedd ef,
 Parth o'r un angenrheidrwydd a'r un drefn?
 Y mae pob planed yn tywyllu'i hun,
 Gan adeiladu'i nos o'i bryniau'i hun,
 O'i moroedd, ac o'i chyfandiroedd teg,
 Ei thyllau, ei dinasoedd, a'i theyrnlysoedd;
 Ac angenrheidrwydd ei hansoddiad hi
 Yw'r gwae sydd yn ei beddu rhag y dydd
 Hanner ei hoesoedd. Hongiwyd ar bob peth
 Ei briod gysgod gyda'r haul, a myn
 Ei dro a'i daen anolau bob yn ail
 Yn ol cydnerthol, cydurddunol ddeddf,
 A honno sydd yn dal yr haul i'r lan.
 Beth yw y ddaear bridd-luniedig hon,
 Ei nos a'i dydd, ei bryniau oll o'i chylch,
 Ond delwedd o'r anfarwol fyd y mae
 Yr enaid pererinfawr fyth yn gael
 O angylch ei feddyliau pellaf oll
 Yn lledu'n dragwyddoldeb? Nid oes bryn
 Fyth yn cymeryd ar ei ochrau oll,
 Nac ar ddau cyferbiniol, rwysg yr haul,
 Y mae un ochr gan y nos o hyd,
 Neu gan ryw eilun o'i chysgodion prudd.
 Ac nid oes un rhagluniaeth drosti oll
 Yn olau, nac un gadwyn o ddigwyddion
 Yn rhedeg gyda'r haul gwynfydol fyth.

Rhagluniaeth olau—ban
 Ar fynydd amser yw,
 Ac nid oes ond un s-fyll fan,
 Ac am un eiliad gwyw,
 Lle ca ucheddau'r enaid lan
 Wrth nofio'r gwag sy rhyngddo â Duw,
 Ryw bwynt i ostwng ei adenydd,
 A meddwl am ei fro garenydd,
 Rhyw araul fan i orfiwys ennyd
 Heb deimlo ei alltudiol bennyd.

Rhagluniaeth olau—rhaid
 I honno ddwyn ei nos
 Ar ol ei dyrchafiadau
 A'i mwyniaint rif y rhos,
 Tu cefn i'w mynyddoedd
 A'i harelysa dlos.
 A phrawf ei nef-aufoniad yw
 Ei bod yn gyflawn, ac o Dduw.

Goleua marwol ddyn
 Ei balas ar y bryn,
 Ar ol i'r huan ddisgyn fel
 Pererin pell i'r glyn,
 Ar ol i fryniau'r ddaear
 Fil miloedd ymdawelu,
 A'r ser droi allan yn eu nerth
 Fel duwiau i'w diogelu,
 Try dyn y byd yn ol ac adnewyddda'r dydd,
 Afonydd o oleuni wahanant y nos brudd.
 O dedwydd ydyw dwyn noshad rhagluniaeth, pan
 Fachludo y goleuni mwy o fan i fan,
 O hedd i hedd,
 O fedd i fedd,
 A chysgod pob rhyw obaith yn disgyn yn yr hedd,
 A diwedd pob perfeithrwydd draw'n neshau, bedd ar ol bedd.

Saf yna, saf yn dawel
 A rhoer i'r nos ei lle,
 Ac na oleuer lamp y byd
 Yn absen haul y ne,
 Ei olau gwahardedig
 O fwyniaint ac o flys
 Sy'n lloer-oleuo'r enaid,
 Fel rhyw golledig lys

F'ai'n crynnu ar ddaeargryn fyw
 Bob eiliad dan gondemniad Duw.
 Saf dan y cysgod athrist, saf.
 Nid oes un flwyddyn oll yn haf,
 Na gwynfa heb ei tharan gliriol,
 Na chylch o ddydd heb nos amfuriol.

Y marwol, cysgod yr anfarwol yw,
 A'r greadigaeth erfawr—cysgod Duw,
 Cysgodau ei anfeidrol fawredd ef
 Yn dod yn feithion fydoedd hyd y nef
 Am oesoedd ar ol oesoedd; pan y daw
 Yn holl gyflawnder ei ogoniant draw,
 Fe ffy y byd-gysgodau oll yn un,
 A byth ni welir ond efe ei hun.
 Rhaid arwain dyn i fyny trwy y byd
 A'i feddylddrychau trwy y ser i gyd,
 Ei arwain trwy y cysgod sydd yn cau
 Ior ymaith, cyn ei weled fel y mae.
 Ac amser, onid cysgod egwan yw
 O'r anherfynol, oesoedd mawrion Duw ?
 Edrychodd yr Anfeidrol ar y byd
 Yn holl gyflawnder ei berffeithiau i gyd,
 Ei fawredd a'i anherfynolrwydd ef,
 Edrychodd, a llifeiriodd ar y nef
 Yr haul i gyd a'i oesoedd oll o'i flaen
 I lygad dyn fel anherfynol daen.
 Tywyllwch yw cysgod dyn bob llaw,
 A nos yw cysgod yr holl fydoedd draw,
 Tywyllwch, prudd-der, byd-ostegol fraw ;
 O, haul ysblenydd, lond yr oesoedd, yw
 Y lleiaf gysgod o symudiad Duw;
 Ac er tanbeidied ei wynepryd gwiw,
 Ar gyfer Duwdod nos ei hunan yw.

Tywyllwch yw diddymdra ; rhyw leihad
 O'r nos dragwyddol, araf deneuhad
 Yw bywyd dyn yng nglynnoedd amser prudd ;
 Cysgodion yw yr oll o'i amgylch sydd
 Ac ar hyd ambell feddwl pell laswyniad gwan o ddydd ;
 Rhyw gysgod ar ei lwybrau yw y byd,
 Ac ar gysgodion taen y ser i gyd
 Rywfaint ysgafnach, ysbrydolach bryd ;
 Nis gall yr haul ddatguddio iddo ef
 Ond cysgod, byd o gysgod, niwlog nef ;

Fel cysgod rhed ei fywyd drostynt hwy,
 Nes elo'n llai na gafael adgof mwy,
 A faidd afaelyd a'i hysbrydol law
 Ar gysgod gair dros hanner canrif draw;
 Y cysgod olaf ddaw, y beddrod prudd,
 Ac yn ei holl fawrhydi trwy yr hudd
 Fe rodia'r enaid i'r tragwyddol ddydd.

Ni welir dim yn eglur, y peth yw,
 Na gronyn, byd, na meddwl o un rhyw,
 Digwyddiad na rhagluniaeth, ond yn Nuw.
 Y mae cysgodau pethau yn yr Ior
 Yn darfod fel y ddaear yn y môr.
 Tywynna ei oleuni llawnaf Ef
 Bob tu i amser; pob rhagluniaeth gref
 Dderbynia Dduw i'w chanol, o'i hamgylch, fel y nef
 Yr haul a chyflawn eglurhad y dydd.
 A gwelir mwy y llynnoedd dagrau prudd,
 Holl ddyfnder bywyd, dyfnder du y bedd,
 Yn adlewyrchu ei siriolaf wedd.
 Pan syllo Duw ar fyd o feddau prudd,
 Ar ddyfnder angau y diweddaf ddydd,
 Diflanna'r nos, diflanna'r olaf hudd,
 A bywyd fydd y cyfan ynddo Ef,
 Diderfyn adgyfodiad hyd y nef!
 Ac ni fydd angau, angau'r oesau i gyd,
 Ond cysgod bywyd bythoedd yn gwywo gyda'r byd.
 Hanerog yw goleuni amser; rhannau
 Unigol welir, a thoredig lannau.
 Nid oes un meddwl cyflawn yn y byd,
 Ochr welir, cysgod yw y llall i gyd
 Yn aros am y perffaith ddydd, y wawr
 A noetha'r enaid fel golygfa fawr,
 A'i holl feddyliau fel mynyddau'r dydd,
 A'i fod am dano heb un llen na hudd,
 Fel teml urddunol, hyd y sancteiddiolaf,
 Hyd at y galon a'r fewn-gyntedd olaf,
 A thragwyddoldeb, archoffeiriad mawr
 Bodolaeth, ddaw i mewn pan dery'r awr,
 A syrth y byd fel gwahan len i lawr;
 Holl ddorau'r enaid gydagorir mwy,
 Ac ni ddaw cysgod bythoedd rhyngddynt hwy.

Mae golau amser yn rhy isel fyth
 I ddangos odd yr enaid ond ei wlith,

Gwlith teimlad prudd-ddisgynnol; am y don
 O feddwl derch a gor-dafliadau hon,
 Ni fedra ddangos ond ei chrychiad hi
 Ar wastad bywyd a'i gyffredin li;
 Ymdorcha i'r nefolion leoedd fry!
 Nis gall yr haul ei throi yn ol, na'r ser
 Ei glannu ar eu harbellderoedd ter,
 Nac ymaberu, na ddychwela hi
 O'u dyfnaf aber i'r eangder hy,
 A heibio'u gloewaf benrhyn o ogoniant
 Gan holi uwch y cyfan am aberoedd ei boddloniant.

Un crychiad o'r anfarwol pan gyffro
 Y môr o feddwl dan y fron, un tro
 A edy amser mewn un ennyd grynol
 Fel bwrlwm ar y moroedd anherfynol.
 Bryn enaid yw drychfeddwl; gwyg ehediad
 O fawreddogrwydd ar ei bell welediad;
 Ac nis gall amser dderbyn onid ael,
 A hwnnw gan ei bellder yn lloeri ei lawnaf haul.
 Cyffredin yw y meddwl ag y medr
 Amser ei gynnal ar ei gyfyng gledr.
 Nid teilwng yw o'r enaid mawr a phur,
 A fyddo y tu yma i'r bedd yn glir
 Fel peth o farwol ddefnydd, fel y bryn
 O gleilyd gaerau draw sy'n beichio'r glyn
 A nos dragwyddol o gysgodion.

Clir

Na foed i'r enaid felly ddim tua yma i'r dwyfol dir,
 Y tir na edwyn haul na phethau byw
 Na bannau na dyfnderau onid Duw,—
 O, yno, ynddo ef, ei haul yn wir,
 Y ceir yr enaid bellach yn y clir,
 A'r cyflawn byth, a'r amlwg. Yn y nef
 Dragwyddol y gorfrynia'i feddwl ef.
 Pan fyddo'r enaid yma'n ceisio codi
 Drychfeddwl mawr fel byd, yn ceisio cylch
 Ei rôd a'i fesur o fewn amser oll,
 Nid rhyfedd od a arddrych llawn i goll
 I'r anherfynol, nes y metho'r byd
 Ei gynnwys gan ei fawredd, a'i nef-wynebol bryd.
 Babanol beth yw'r enaid, meddant hwy,
 Tra yma; bydded faban; mae yn fwy
 Na'r byd sydd yn ei grydio rhwng ei fryniau

A'i gyfandiroedd o fôr-grydiol riniau.
 Y mae ei lygad eisioes, er mor wael,
 Yn taflu i'w ddyfnderoedd rôd yr haul.
 Y mae yn chwareu â therfynau'r byd,
 Mae'n trwsio ei lamp lle diffydd llusernau'r ser i gyd,
 Ac anfarwoldeb wawria trwy holl agenau'i gryd.
 Gwel ei feddyliau fel comedau byw
 Yn dychwel dan oleuni gorsedd Duw.
 Cod, farwol ddyn, yr amrant mawr, y byd
 A'i lennol fryniau, cod y llen i gyd
 Oddiar dy enaid, yn eu lled a'u hyd
 A'u dwyfol danbaid uchder, cenfydd hwy,
 Meddyliau'r enaid yn eu mawredd mwy.
 Mae rhan o holl feddyliau mawrion dyn
 Goruwch y gair, ac o anhydraeth lun
 Oddiar y cwbl fel bryn a nef yn un.

Daw amser fel pererin blin i'r lan;
 Ond digon iddo yw y cyntaf fan,
 Gwelediad cyntaf y dyrchafol syniad,
 A gâd i fydoedd eraill y terfyniad.
 O, gogoneddus ydyw rhodio dan
 Gysgodion meddwl, a rhyw grogawl fan
 O fawreddogrwydd dros yr enaid syn
 Yn hongian megis nef-gyffiniol fryn.
 Fel allai cerub dawleiddio'i fron,
 A rhodio trwy y nos ardderchog hon,
 Fel cysgod mawredd, cysgod anfarwoldeb,
 Yn disgwyl codiad Duw a llawnder tragwyddoldeb.

Fel gwlad a'i bryniau yn dyffrynnu'r nefoedd,
 Gan ddal yr wybren ar eu hael-bellafoedd,
 A'i holl ystormydd ar eu dyrchafiadau,
 A rhwysg y daran ar ei phell roliadau;
 Fel gwlad a'i bryniau yn triannu'r nos,
 A'u gorgysgodion ar ei mynwes dlos,—
 Fel honno, O mawreddog yw'r cyfrolau
 A fyddont ar ryw barthau fyth bythoedd yn anolau,
 A thros eu hanner yn gysgodion prudd,
 A'r hanner arall ond rhyw lās o ddydd.
 Dos, ddyn, trwy honno mewn awyddfryd mad,
 Fel un a gerddai trwy ramantawl wlad,
 Ar ymyl nef y nefoedd, a gerllaw
 Dyfroedd y Bywyd a'u cyflawnder draw.
 Mae nos ym myd yr enaid, a phrudd luniau
 Yn gorffwys ar ei odidocaf fryn'au.

Y STORM.

X.

Y môr.

Y GREADIGAETH der
 Yw teml yr Ior, a'r ser
 Y porth sydd yn ei dderbyn
 O'i danbaid lys gyferbyn.
 Fe'i cododd hi
 O amgylch fry,
 A rhoes â'i law bob congl faen,
 Geir yn serenu'r adail gain,
 Mesurai hyd,
 Eangder, dyfnder, pob rhyw fyd
 Fel cyntedd draw
 A chwyf ei law.
 Rhoes am bob byd fel gwahan len
 Y nos, holl hyd a lled ei nen;
 A haul fel archoffeiriad
 Yng nghanol pob rhyw lu
 I rwygo â'i ddisgleiriad
 Ei bydoedd-orchudd hi,
 Gan ddwyn y dydd i mewn fel môr
 A chyflawnderau cariad Ior.
 Ac wedi rhoi y bydoedd
 O amgylch yn eu lle
 Dywedai Duw,—“Da ydoedd,”
 A chodai lond pob ne
 Ar unwaith hyd ei orsedd bêr arogl-darth o fawl,
 Ac yn y don anfeidrol fry nofiai'r pellaf bawl.
 Ac aeth y Ior dwyfolaf
 I mewn i'r cyntedd olaf
 I'r nef, y sancteiddiolaf,
 Y cyntedd o dragwyddol lun
 Sydd uwch y cyfan, ynddo ei hun.
 Ac un oedd tôn y bydoedd gynt
 Trwy'r mil myrdd o ororau,
 Un oedd eu cân a'u haraul hynt
 Fel eiddo ser y borau.

Ond tynnodd dyn,—pan y culhaodd chwant
 Ei holl feddyliau bellach ynddo'i hun,
 Pan y cyfyngodd pechod helaeth rod
 Ei feddwl a'i holl ehediadau pell
 I gylchoedd byrwel hunanoldeb mwy,

Gan wneyd i'w feddwl, a lydanai gynt
 Fel tro-fôr o fawreddau am yr oll,
 I ymleithau nes darfod ynddo ei hun,
 A'i fynd yn wagnod yng nghyfanswn bod,—
 Fe dynnodd fawredd Duw a rhod ei fawl
 I mewn, i mewn o'r byd-gyntedddau, gynt
 Y cydaddolai gyda'u miloedd hwy,
 I mewn i feingylch teml o'i waith ei hun,
 Mil llai ei gylch na'r fforest leiaf draw
 A alwodd Duw o wlithyn, dros ei wisg
 A lifai, i gysgodi rhag y gwres
 Ei wir addolwyr, ac i sancteiddioli
 Y dydd â thyner brudd-der drostynt hwy.
 Fe gollodd ddelw yr Anfeidrol, fel
 Y ffurfiai'r greadigaeth unol hi
 Lle'r oedd pob gwrid yn forau led y byd,
 Pob gwên yn hanner dydd, pob teimlad-chwyddl
 Yn fydoedd cydgyfodol, pob pruddhad
 A thawelhad yn hardd fachludiad byd.
 A chodai'i lun ei hunan ar ei deml,
 Gan newid gwedd yr anllygredig Dduw
 I gyffelybiaeth dyn llygredig mwy,
 A'i holl addoliant a gyfyngid fyth
 Yn ol iseldra a byrdra'r llun a wnai
 I gynrychioli'r Addoledig mawr.
 Addoli Duw! Addoli ei hun y mae
 Llygredig ddyn fynychaf, yn ei deml
 Hunanwedd, wael, a gyfyd ef o fewn
 Cyfleustra rhwydd-gyrchadwy iddo'i hun.
 Y mae yn cau y bryniau allan oll
 Na phlygant ennyd ond i'r ddaear-gryn
 Hollalluawgrwydd Natur, ac na wel
 Yr haul newidiad ar eu harweld fyth,
 Na chlyw yr oesoedd un anghordiawl sain
 Fyth yn eu dyfnion foliant; caua ef
 Y cyfan allan,—môr a bryn a ser,
 Arweinwyr moliant anser ymhob oes,
 Gan drefnu'r cyfan iddo ef ei hun.

Ar hyd y bryniau y gweddiar ef,
 Y Perffaith, a'i ddamegion ar y maes
 O fynwes Duw a wlawid fel cawodydd.
 Edrychai ar y byd fel darn o deml
 Ei Dad tragwyddol, ac ni welai ddim,
 Dim ynddo yn anheilwng onid dyn.

Yr oedd cysgodau'r bryniau arno ef
 Yn disgyn, disgyn fel sancteiddrwydd pur,
 Rhag cysgod dyn yn unig troai ffwrdd.
 Yr oedd yn tawel huno ar y môr,
 A'r môr yn huno'n dawel gydag ef,
 Neu'u cyffro'n unig fel y profai'n well
 Ei undeb â'i Greawdwr yn y storm.
 Ar gyffro anian, codai gyda'r haul
 A'r môr a'r bryniau i addoli y Tad.
 Ei fore weddi godai gyda'r byd,
 Gweddi a allai godi'r byd ei hun
 A'i arwain trwy y nef â llawnach dydd.
 Y bryniau oeddynt byrth ei deml ef,
 A chanol nos ei gysegredig awr;
 Syn ymlonyddai'r mynydd pan o bell
 Y gwelai ef yn nesu gyda'r nos,
 A lleufer o gerubiaid nefol wawr
 Yn llifo fel ysplander ar ei lwybr,
 A seren lon Ephrata fyth o'i flaen,
 Sy heddyw ar ei galon dyner fry,
 Yn cau y clwyf a brynnodd hedd y byd;
 A duai'r haul dan nos ei angau ef.
 Fe hoffai rodio ar hyd lan y môr
 A rhifo'r tonnau fel y deuent hwy
 I'w gyfarch o'r dyfnderoedd eithaf, oll
 Yn wynion gan awyddfryd at ei draed.
 A chipiai ar ei weddi ru y dwfn,
 A'r holl ystorom oddiarno ef,
 Gan anfon addoliadau anian fawr
 I fyny'n gymeradwy hyd y Fainc
 Dragwyddol, gyda'i nefol lais ei hun.
 Y bryniau oedd ei frodyr; pan ei caed
 Yn unig ac ymddifad ar y maes
 A'r ser yn disgyn rai eiliadau'n gynt
 Ei weled yno ei hun, cyfeiriai ef
 Ei gamrau byd-sancteiddiol tua ffordd
 Y bryniau, ac yr oeddynt hwy yr un,
 Ac awel bêr fel llais ar hyd pob ban
 Yn anfon eu gwahoddion dros y nef,
 Gan lawenhau ei weled unwaith mwy
 Yng nghartref, a gweithredoedd pur ei Dad
 A'r bryniau byd-ddodrefnol oll o'i gyleh,
 A'r lloer yn tyner weini ar y byd,
 Gan ddwyn holl jubili y ser i lawr,
 A'r tangnef anhraethadwy dros y cw'ol.

O, llawer nos a wnaed yn sanctaidd fyth
 Yng nghofion amser gan ei weddi ef,
 A'i ddyfnion fyfyrdodau, dyfnion fel
 Y dyfnder a dderbynia'r ddaear fawr—
 Ar ol i'r haul dramwyo bwa'r dydd
 A'i wywo i'r dyfnderau ar ei ol—
 Lle huna moroedd a mynyddau'r byd,
 Nad yw yr heuliau gogoneddus draw
 O'i eigion anhraethadwy onid ser
 Rhy bell, rhy uchel, i oleuo breuddwyd.
 Olewydd! glwysaf o fynyddau'r byd!
 Bryn yr adgofion dwyfol! Cyrchfan Ior!
 Na chawn dy weled, oddiar dy ael
 Ddyferu deigryn o lawenydd pur
 Am unwaith, wylo lle yr wylodd ef,
 Y parthai'r wawr ei ddagrau disglaer oll
 Bob borau oddiwrth y gwylth o gylch
 I'w gado yn dragwyddol lle eu caed,
 Rhag hollol wywo o'r malledig fyd,
 A chau o'r gauaf ar yr olaf rin!
 Ni theimlai y pererin, ar y daith
 Nefolaidd honno, eisiau seren fyth
 Na llusern wan y cymyledig loer;
 Digonol fyddai pell-belydrol wawl
 Adgofion teithiau y Pryniawdwr gynt
 I'w arwain hyd y sancteiddiolaf fan.
 Derbyniaist sang ei droed, a goleu fyth
 I ffydd y llwybrau a oleuodd ef
 Pan nad oedd golau ar fynyddau'r byd
 Ond gaed o hono ef, a daflai fwy
 Na llawnder y canolddydd ar bob gwên.
 Derbyniaist dros dy fannau lawer tro
 Lif ei weddiau sydd yn chwyddo i'r lan
 Arch Iachawdwriaeth, pan y collir hi
 Yn niluw amser ac euogrwydd erch,
 Pan godo moroedd profedigaeth oll
 I sodd'i'r cyfan ond a nodo Duw
 I chwyddo yn dragywydd oddiar
 Gollledigaethau bydoedd, arno ei hun.
 A thithau Cedron! Oni chodir di
 I froydd araul anfarwoldeb, fel
 Cofiedydd hawddgar ei ddiweddaf ing
 A llifol adgof ei ymdeithiad ef
 Pan groesai fwy na diluwiedig fyd
 I gyrraedd y gogoniant roed o'i flaen?

O ddyfnder ebargofiant, bru y môr,
 Dwed, oni elwir nefoleiddiaf lif
 Y nos gofiadwy honno yn ei ol,
 Pan ddaw y Prynwr ar gymylau'r nef,
 Pan roer mynyddoedd a dyffrynnau'r môr
 Yn sychion fel byd arall ger ein gwydd?
 Do, gwelaist ef bryd hyn, a rhoest dy li
 I gyd yn ddagrau fythoedd wedi'r tro.

Ardderchog eto ydyw rhodio i maes
 Pan godo'r haul i alw'r byd i fawl,
 Neu pan ddiflanno yn gysgodau draw
 I roddi lle i offeiriadaeth uwch
 Y ser tragwyddol sydd yn uno'r byd
 Ag uchel addoliadau nef y nef,
 Gan agor oddiar y bryniau oll
 Y sancteiddiolaf i ddyfodiad dyn,
 A chodi y wahanlen sydd yn cau
 Yr holl angylion oddiwrthym—draw
 Yng nghyntedd araul y gogoniant pur
 A'r nefol Wyddfod y tu fewn i'r llen.
 Y mae y bryniau eto'n addolfeydd,
 A'r môr o hyd yn dadgan mawredd Duw,
 A'r tonnau mewn urdluniant anibynnol
 Ynhell o olwg gweledfeydd y byd
 Lle nad yw glannau'r ddaear wamal hou
 Yn rheleg fyth, na dim o honi hi
 I'w weled, onid ambell big o ynys
 Môr-amgylchedig; yno fyth, ar hyd
 Dragywyddoldeb defnydd, codant hwy
 Fawl yr Anfeidrol hyd gymylau'r nef.
 A pharod ydynt i gyfoli fyth
 Ar alwad yr awelon glwys bob un
 Genada'r nefoedd i'w hadgoffa hwy,
 Gan eu hadeinio yn nhrysorau natur,
 Fel prawf ucheledd eu hanfoniad fyth,
 Oll âg hollalluawgrwydd yr ystorn.
 Ac nid oes gan y ddaear ofal gwag
 A all eu lluddias yn eu huchel waith
 A rhwysg eu haddoliadau. Tafiant hwy
 Y byd tu ol, a'i greigiog lannau oll,
 A rhoddant ei fynyddoedd uchaf ef,
 Gadwyni cyfain hanner cylech y byd,
 A'i wythi dyfnion o sylweddol aur,
 Fel pethau dirmygedig oll dan draed.

A gwae y llaw a faidd eu-cyffwrdd hwy,
 Ac hyf halogi cysegrfeydd y dwfn,
 A throi y don dragwyddol yn ei hol.
 A phan ddwyreo rhyw gyfandir mawr
 Ei derfyn-fyddin o gydredol greig
 Arfedig âg arswydion defnydd oll,
 Yn erbyn eu dyfodiad, rhwygant hwy,
 Ddyffrynnoedd llydain trwy eu canol, pell
 Aberol helaethderau, gan eu llanw
 Eu hunain, a chwanegu at eu rhol
 Newyddion foroedd am a thrwy y byd
 Helaethion leoedd i'w haddoliaint derch.

Ha henffych it' y Môr! y Môr!
 Ardderchog yw dy anthem pan yn moliannu'th Ior,
 Dy anthem yw y storom, a'r tonnau hyf dy gôr,
 A dull ni feddi di;
 A gwae a firwyno'th donnau, a gwae a herio'th li
 Pan chwyddo trwy yr awel i seinio moliant draw
 Lle clywo'r nef uchelaf a'r bryniau beilch bob llaw.

Fe syrthiodd taran hy
 Dros ganllaw y cymylau,
 A galwad oedd ei rhu
 I'r môr addoli isod,
 I'r bryniau grynu fry.
 A chlywaist yn dy erfawr gryd
 Sy'n drymach na'r mynyddau i gyd,
 Yn fwy ei led, yn fwy ei hyd
 Na llawer byd,—
 Ti glywaist rymus lef dy Ri,
 A theffi i'r cymylau
 Freuddwydion gweig a gwenau,
 A chodi mae dy lef,
 A chodi mae dy donnau
 A'u nwyfiant am y nef.
 Y storom yw dy fawlderdd seml
 Y ser dy oleuadau claer, a thi ni cheisi deml.
 Ac nid oes genyt offer cerdd na threfn i'th anthem hy,
 A dull ni feddi di.
 Mae'th fynwes fawr yn chwyddo i fyny at dy Dad,
 O! boed i 'nghalon innau yr un gogwyddiad rhad.
 Gwrandawaf, Fôr, fan yma dy daran-gyngerdd gref,
 Ac adsain ar ol adsain yn llanw byd a nef!
 Dan grynu tawaf yma fel y seren welw ei gwawr

Sydd acw yn addoli'n fud a'i llygaid tua'r llawr.
 Mil gwell ywanadl teimlad na chorwynt rhwysgfawr dawn,
 Ior! derbyn fy addoliad,—distawrwydd calon lawn.
 Un deml nid oes yma na dull o uchel fri,
 Y galon yw dy deml, Dad, a dull ni cheisi di.
 Rhy gyfyng yw'r palasau a'r deml fwyaf sy,
 Rhy gyfyng, mil rhy gyfyng duwdod i'th gynnwys di.
 Ac i ba le'r edrychaf am olwg ar dy wedd,
 Ble mae dy lais oruchaf, ble dyfnaf mae dy hedd?
 Ar ol i'r storm ddistewi hyd fin y dyfnder af;
 Pan noetho'r môr ei fynwes dan lydain wenau haf,
 A'i donnau ar ol dychwel o fryniau'r dymhestl fan
 Yn huno oll yn esmwyth ar wynion liniau'r lan,
 Dad! gwelaf yno ardeb o'th anherfynol Hedd,
 A'r tawel anfeidroldeb dywynna ar dy wedd.
 A chofiaf yn y blinfyd y dedwydd fywyd fry
 Lle bydd yn Oes Dragwyddol yn dragwyddol haf i mi.
 Fel hyn bydd moroedd bywyd ar ol terfysgu'n hir
 Yn bythol ymlonyddu ar draeth y dwyfol dir.

Y Môr! Y Môr!

Ardderchog yw dy anthem, a'th ddull yn moli'th Ior.
 Rheola yn dragwyddol, fawrwych fôr,
 Yr helaethderau sydd yn parthu'r byd.
 Mae agoriadau'r gwledydd gyda thi,
 Gwaelodion a dyfnderau natur oll
 O dan dy gysgod mewn tragwyddol hedd
 Yn ffoi rhag golwg a gorhyfder dyn;
 Yr wyt yn magu'th wenyg ieuainc oll
 Ar liniau natur, a sylfeini'r byd
 O'u hamgyleh yn ymgodi yn eu nerth
 A'u haruthr noethni. Dygi yn dy hudd
 Golofnau'r bryniau dan urddunol nos
 A theilwng orchudd o'u mawrhydri hwynt.
 A llawer cadwyn o fynyddoedd derch,
 A gwledydd teg o baradwysol wedd,
 Gynhwysir ynnot, sail a bannau oll,
 A chyfandiroedd tansoddedig fyth,
 Byd o ddirgelion, na chanfyddodd dyn
 Ei wawr erioed, ond lle goddefi di
 I ambell fan bigyrnu uwch y don.
 Peth unig ydyw i welediad dyn
 Pan ddelo heibio ar ei ysgafn hwyl,
 A geilw ef yn ynys. Ban o fyd
 Mawreddog yw, byd na thranwyodd dyn

Ei lannau braidd; yn gorwedd ynnot, fôr,
 Fel tragwyddoldeb, yn ofnadwy oll,
 A thywyll oll i ymweliadau dyn,
 Caudedig rhagddo amgylech ogylech fyth;
 Ac, fel y tragwyddoldeb a gysgoda,
 Heb ffordd i mewn nac un fynedfa i ddyn
 Ond angau; na ddaw neb o hono'n ol,
 Na llynges o ardderchog hwyliau i'r lan
 O'i ddyfnder, ond yn adfail mân a briw,
 Fel ein gobeithion pan ddychwelont hwy,
 Yn fân adgofion yma a thraw o'r dwfn
 Sy'n rhoi i angau ei ofnadwy bwys,
 A'i fawredd, a'i anolrheinadwy nerth.
 Y mae y ban ynysol unig draw,
 Sy'n crynu fythoedd rhwng y nef a'r don,
 A'r gwynt tragwyddol yn ei hysgwyd hi
 Fel delwedd o'r ddaeargryn ar y llif,
 Y mae yn dal cymundeb, er mor bell,
 Mor unig a digysur ar y dwfn,
 A chyfandiroedd o aruthrol faint,
 Byd cyfan o anhydraeth olygfeydd.
 Saif acw fel gwyliedydd dros y cwbl,
 Fel byd-genhades oddiar y llif,
 I wyllo borau y dadguddiad llawn,
 Gwawr cydadgodiad y mynyddoedd pell.
 Gwac'r hwyl amheuo eu bodolaeth hwy,
 Gan redeg yn ddireol dros y llyfn,
 A rhoi yr helm i'r gwyntoedd ennyd byr.
 Pe sychai pechod oddiar wyneb bod,
 O, 'r byd tragwyddol godai arnom fyth;
 Y gadwyn fawr ar gadwyn dros eu gilydd
 O gedyrn wirioneddau danom gaed;
 Y broydd anfarwolwawr o fwynhad;
 Yr uchder dros ben uchder o orfoledd;
 A'r graig dragwyddol o gysgodawg wedd
 O dan y cyfan, dros y cyfan fyth,
 A'r cysgodfeydd o elysfaol wedd;
 A'r amaethyddiaeth o wynfaodd pur
 Yn gwyrddu'r cyfan hyd y dwyfol fryn
 Ddiplannai i'r anfeidrol gyda Duw.

Bod alltudiedig ydyw dyn, ymhell
 O'i briod wlad a'i briod fyd ei hun;
 Fe lifodd pechod fel tywyllaf fôr
 Dros olygfeydd ei deg anfarwol fod,

A gwthiodd ef yn ol, yn ol, hyd draeth
 Anobaith a chulhaol lannau gwae,
 Sy fyth yn ymgyfyngu nes y bo
 Y safle olaf wedi gwywo oll,
 A'r cyfan yn ddiderfyn fôr o lid,
 Heb arwelediad tragwyddoldeb mwy,
 Oleudy unig, nac ymddifad hwyl.
 Ceir ambell bigwrn o'r anfarwol fyd
 Yn torri dyfroedd Amser yma a thraw,
 Rhyw feddwl pell-ehedol ambell bryd,
 Ban o ryw fryn tragwyddol yn y dwfn,
 Dychymyg ennyd-godol byr-weladwy,
 A rhywbeth fel goleudy ar ei brig.
 Rhyw ddyfnder o fyfyrdod aruthr dan
 Yr enaid yn ymagor fel clawr byd,
 Rhyw bell adgofion ar y dicithr lif
 Yn codi fel ynysoedd anfarwolwawr
 Nas gall yr enaid onid cipio o bell
 Drem arnynt heb eu cyrraedd a'u mwynhau,—
 Cofleidia hwynt. Arwyddion ynt o'r maith
 Ogoniant a ddatguddir, bannau byd
 Ysplenydd, a dwyfolion olygfeydd.

Arweinydd y dyfnderoedd, rholia fyth.
 Dy eiddot ti ardrefnu gwedd y byd,
 A'i daenu fel darlunlen ar dy lif,
 Yn wledydd ac yn fyrdd o olygfeydd,
 A lledu'r ynys a'r cyfandir mawr
 Yn ol dy ddeddfiad yng nghynghorau'r dwfn
 Gynhelir dan gysgodion seiliau'r byd.
 Pan yr ymlygrodd teulu erfawr dyn
 Y pryd nad oedd dynolryw, er mor aml,
 Ond un aruthrol lwyth, o ddull yr un,
 Yr un o iaith ac o arferion oll,
 O ddefod a thymheredd yr un wedd,
 Heb bellder gwledydd i'w diethrio hwynt,
 A gwahaniaethu'u cymeriadol wedd;
 Pan ddirfawr ymlygrasant, nes y caed
 Y byd yn dywyll gan un cysgod erch
 O bechod ac o gymhlethedig wae,
 O dan ddirgelwech llen y Diluw mawr,—
 Ti gyfnewidiaist wedd y ddaear oll,
 Gan dorri'r byd yn gyfandiroedd mwy
 A breichiau estynedig dy gadernid,
 O orddyfnderoedd dy aruthrol fron,

A dwyn o fyd dy ddyfroedd rhyngddynt hwy
 Fôr ar ol môr yn barthol gyfryngfeydd.
 Llydanaist yr afonydd gaed o'r blaen
 Yn rhwydd rydiadwy, gan eu gwneuthur mwy
 Yn ddychryn i'r cenedloedd ar bob tu,
 Mor nerthol a galluog nes yr oent
 Yn dwyfoleiddio eu chwyddedig lif,
 Gan eu haddoli megis duwiau ceidr,
 Ofnadwy i'w cythruddo yn eu hedd
 Ac ameu gallu eu terfyniaeth hwynt.
 A thafiaist un cyfandir dan yr haul,
 Gan rwymo ei boethedig wledydd ef
 O amgylch â'r cyhydedd fel â gwregys;
 A chrogaist ar y gogledd gonglau un,
 A bylchaist hwynt drachefn â llawer môr
 Aruthrol ei lfeiriaint, gan fwâu
 Eu glannau ag aberoedd erfawr led,
 Nes gwahanoli a nodweddu fyth
 Tirolwedd pob cyfandir ynddo'i hun,
 A gwncyd pob penrhyn bron yn arwydd gwlad.
 A phan adawyd Babel yn y niwl,
 Fel holl fawreddau a gobeithion dyn,
 Heb ond y tarth i'w werthfawrogi mwy,
 Fel gorffwys fan cyfeus a pharod fry,
 Ar egwyl syn y byd-wasgariad mawr,
 Pan safai'r adail dderch ar ganol nef
 Gan derfysg geiriau am ei seiliau hi,
 Pan wnaed y rhaniad mawr ar ddynol ryw,
 Yn ol eu hieithoedd, cenedl am bob iaith,
 Gogwyddwyd eu cerddediad tua ffordd
 Y gwledydd anilwedd, alluocaf fôr
 A drefnaist iddynt dan wahanlen fawr
 Y Diluw. Rhodiodd y cenedloedd oll
 Dros fryniau, cyfyngdiroedd, ac o gylch
 Aberoedd llydain filoedd, nes eu cael
 Bob un i'w briod wlad a'i fro ei hun;
 Ac wedi darfod o'r ysgogiad maith
 A wnai i'r bryniau symud dros y byd,
 Amgylchaist leoedd eu preswylfod hwynt,
 A chododd dy daranau rhyngddynt fyth.
 I ti yr ydym yn rhwymedig, fôr,
 Am amrywiaethau dyn. Ti sydd yn rhoi
 Ei wlad a'i haul a'i hinsawdd i bob llwyth,
 Y rhai sy'n llunio eu cymeriad mwy,
 Yn arwynebol neu yn ddyfnion ddwys,

Yn nerthol neu yn weinion, fel y bo
 Gwedd anian ogyrch, a'i thymereidd hi
 Sy'n codi dyn yn ol ei delw ei hun,
 Gan leddfu'r enaid i'w harddelwedd bron,
 A rhoddi iddo radd a rhod yr haul.
 Y mae dy lawnion freichiau fel cronfeydd
 O oesoedd, breichiau o'r tragwyddol fôr,
 Yn ymddynderu rhwng cenedloedd dyn,
 Gan beri uwch dadblygiad arnynt hwy,
 A throad o holl weddau y ddynoliaeth,
 Danghosiad anherfynol fawredd dyn,
 A'i ymadferthoedd ef o dan bob haul,
 A'i oruchafiaeth o dan bob lleddfhad
 Ac awchlymhad o ddefnydd; acw o dan
 Rew-gyfandiroedd y gogleddfyd oer,
 Na edwyn ond un tymor oescedd byd,
 Hyd losgol wastadeddau Affrig boeth
 Lle rhudda'r byd fel archoll dan yr haul,
 Lle mae'r fforestydd anfeidrolfawr oll
 Yn disgwyl am y llawn belydryn rydd
 Eu holl ddyfnderoedd hwy yn fôr o dân.
 Yr wyt yn trefnu pob parthedig lwyth,
 Fel byd unigol ar ei ben ei hun,
 A'i iaith ei hun, a'i ddeddfau'i hun, a rhes
 O gawr-feddyliau oll yn eiddo'i hun,
 A'i awen bêr ei hunan fyth ar hyd
 Ei briod fryniau, ac ar lannau glain
 Ei ddyfroedd pur, yn tywallt llif ei cherdd
 Ar briod wedd a newydd ddull yn ol
 Y golygfeydd a'i hysbrydolant hi,
 A threigliad ei gymeriad ymhob oes.

Po mwyaf fyddo'r pellder lenwi di
 A'th gysgod-anfeidrollder rhyngddynt hwy,
 Rhyfeddaf oll, a mwy amrywiol fydd
 Dadblygiad y ddynoliaeth; mwyaf oll
 Y gwelir mawredd a gogoniant dyn,
 Ac amrywiaethau yr awenol nwyf
 Sy'n nefoleiddio ei fodolaeth ef,
 Gan brofi ei ddisgyniad fyth o'r duwiau.
 Yr wyt yn torri'r byd i fyny o gylch
 I'w luosogi, ac i ddwyn i maes
 Ei ymadferthoedd oll-greadol ef,
 A'i ryfedd allu i ail-blannu ei hun
 Yn ardderchawgrwydd ei berffeithiau oll,

Ac i ail ymddyrechafu trwy ei holl
Gyneddfau fel archangel hyd y nef
Dan bob amgylchiad ac ystad o fod.

Yr wyt yn llanw'r byd â bydoedd, gan
Dy gariad anherfynol ato ef,
Er mwyn y per hyfrydwch o fwynhau
Ei ddedwydd bresenoldeb gyda thi,
A'i ysgwyd fel anwylod ar bob môr
Sy'n cyfarch pedwar pwynt y nef i gyd,
Ac yn eigioni ar derfynau'r byd.
A ydwyt, fôr, yn hoffi clywed swm
Llais dwyfol dyn yn torri'th ddyfnaf hedd,
Gan lonni'th aruthr ymneillduedd di,
A'th bell unigrwydd y tu faes i'r byd?
A wyt yn hoffi ysgwyd ar dy fron
Ei gryd-ynysoedd, a chenhadu'r don
I'w ffyddlawn gyfarch ef ddwy waith y dydd
O amgylch yr holl blaned, ar bob glan
A chraig a phenrhyn, ac i frysio 'mlaen
I'r pell afonydd i'w gyfarfod ef,
A chodi ar dy gyflawnderau hael
Bob afon gyrraeddadwy dros y byd?
Paham yr ydwyt ar dy lannau oll
Yn trefnu tawel ddyfnion orffwysfeydd
Aberoedd rhwydd-ddisgynnol feinol fyth,
Hedd-lyfnion fel y glas sy'n gwaenu'r nef,
Yn lle trynaddu gwylltion eltydd draws
Y byd o amgylch, ochrau union serth
I'th donnau geirwon ymdrochioni fyth
O danynt, ac ystorm dragwyddol arwain
Tro-lynoedd cynddeiriogwyllt dan bob craig,
Nes gorfynyddu holl derfynau'r byd,
A gwneyd pob glan yn wylltred o erchylldra,—
Fôr anherfynol, dywed! Onid fel
Y caffo dyn ddylifiad rhwydd i'w fyd,
I freichiau agoredig ei hoff rai,
Goronant frig y garth â mwy na'r byd,
Gan ddisgwyl gyda'r ser, ac fel y prif
O siriolderau y gwelediad maith,
Lydanol wawr ei hwyl a swm ei lais?

Pan elo dy orfoledd mawrwych di
Yn rhy aruthrol a goruchel draw,
Yng nghodiad yr elfennau, i wael ddyn

Ddefnyddio natur fel llawforwyn mwy
 Yn gweini'n unig ar ei reidiau ef;
 Pan godo'th fawl i raddfau yr ystorm
 Nes yr anghofiot ar dy gwmwl-lif
 A dyrchafiadau dy ddyfnderoedd pell
 Bob peth ond yr Anfeidrol;
 Pan fo dy wenyg yn dyfrhau y nef,
 Gan olchi godre llaes y cwmwl du
 O orddynderau'r byd, yn awr dy nerth;
 Pan y goleui'r nos â dydd o ewyn
 Yn torri dros y creigiau am y byd;
 Pan na faidd onid un fwynhau dy ddrych
 A gweld ei hunan yn dy fawredd oll,
 A rhith o ddelw ei gadernid ef
 Yn britho'r don uchelaf, pan y cais
 Fynwentu'r gwyntoedd dan ei bwa crôg
 A dwyn y nef i lawr,—a ydwy't ti,
 A yw dy ysbryd mawr, yn awr dy hedd,
 Yn ysgrifennu ar bileri'r byd
 Rol fawr dy feirwon? Onid oes rhyw hedd
 Syn-dawol yn dy eigion, pan y dwg
 Ystorom fawr ei meirwon gyda hi,
 A'i lladdfa oddiar y rhuol faes
 Lle cesglir cedyrn natur oll i'r frwydr,
 A marwol ddyn y lleiaf yn y gâd?
 T'bygem weithiau fod dy ysbryd mawr,
 A'r storm yn hongian dros ei ysgwydd noeth,
 Fel urddwisg laes, a'r gwyntoedd geirw i gyd
 Yn ffurfio'i anadl o ddyfnderau'i fron,
 A gemol fan o uchder Ararat,
 Fel arwydd pennaf ei fawrhydri ef,
 Yn byclu yr ystorom ar ei fynwes,
 Ac hybarch arglwydd-donnau'r Chaos gynt
 A gwylltni y tragwyddol ar eu gwedd
 O'i amgylch,—tybiem ambell bryd ei fod
 Yn galw rhol ei feirwon, ac yn troi
 Godreon y mynyddoedd dros eu llwch,
 Ac yn beddfeinu eu gweddillion hwynt,
 Oes ar ol oes, â phreiff golofnau'r byd,
 Byd-golofn bryn-faenedig am bob oes.

Yr ydwy't ti yn cipio fyth o'n gwydd
 Bob un o'th feirwon, fedd a chyfan, fôr,
 Gan wahardd i'r galarwr ddod yn nes
 I oror gysegredig angau prudd,

Un cam yn nes i mewn na'r lan—glan môr.
 Môr yw marwolaeth, ac nid oes un lan
 Arosol iddo, gan ei fod o hyd
 Yn codi gyda chenedlaethau'r byd,
 Gan ado'r cyfan yn y man, pob gwlad,
 Pob oes, yn ddyfnder tywyll ar ei ol;
 Môr tywyll, lle y bythol gollir dyn,
 A holl welediad ei fodolaeth ef,
 A'i ofnau, a'i obeithion tecaf, fel
 Amrywion maes soddedig, tywyll ddwfn,
 Lle mae ystormydd barn ar aden fyth,
 A'r gwynt byd-wastadaol yn ei rym
 Yn ynnill uchder gydag amser, fel
 Y tyr ei oesoedd ar ei arwedd ef
 Yn fryniau o dywyllwch dros eu gilydd.

 Ond beth yw bedd a beddfaen? O, paham
 Y ceisiai dyn ynysu ar y dwfn
 Adgofion ei drueni, ac aberu
 Ei enaid dan eu creig unigaidd hwynt,
 Lle nad oes onid ymddifadrwydd llwyr
 A phrudd-der delweddedig ar bob tu?
 Pam na adawai i'r ysbeiliol ddwfn
 Gynnwys y cyfan fythoedd fel tydi?
 Beth yw y beddfaen onid dyfais gwae
 I roi i angau ryw barhaol fod
 Ger bron yr enaid fyth, ac ail fawrhau
 Yr hyn ni ddylai farw ond un waith
 O flaen y galon am-rwygedig lesg?
 Fe fynnai'r ddaear ddedwyddoli dyn,
 A thyfu dros ei wae, a thaenu'i gwyrdd
 Ar hyd weddillion ei obeithion oll,
 A rhoi i'r adar ganu lond y pren
 Gorhuddol, a chydweddu'r athrist fan
 A'r dedwyddolaf fyd o amgylch daen.
 Ond rhaid i ddyn uchderu'r cof â maen
 O'r graig dragwyddol, a'i fynyddu ef
 Goruwch yr holl welediad, dros y byd,
 A gwynnu'r ddaear â cholofnau derch
 I'r creulawn deyrn, a rhoi celfyddyd gain
 O rym ei dyfais i'w milweddu hwynt.

 Fe ddylai arwyl symud yn y nos,
 A'i chysgod olaf ddarfod yn y graig,
 Y graig gadarnwedd ar oer ael y bryn,

Gwir ddelw y bedd, diysgog fel efe,
 Ac fel efe, er holl gawodydd nef,
 Er ei holl ddagrau pan yr wylo hi
 Yng ngalar a chynhyrriad yr ystorm
 Yng nghydygfroed yr elfennau oll,
 Er hynny fyth yng nghauad, fyth a byth
 Yn dywell ac yn unig ac yn wag,
 A'i hadsain yn ofnadwy ganol dydd
 Fel canol nos, heb gân y daran fawr
 A allai gynrychioli aruthr nerth
 A byd-newidiol ddylanwadau amser,
 Rym ond i ysgwyd yr unigaidd lwyn
 A dyf gan grynu dan ei chysgod hi
 A'r meinlâs crwydrol a linyna'i chefn.
 Ac eto pwy a rodiai dros y fan,
 O pwy arweinia'r aradr dros y gwyrdd
 Mwy—mwy na sanctaidd hwnnw? Ar ei daith
 Pa flin bererin allai agoshau
 Heb wrando ar yr ysbryd hoff gerllaw
 Sydd yno eto, eto yno, fel
 Yn disgwyl rhywbeth, disgwyl am ryw un?

Fôr! mae dy feddau di dan orchudd oll,
 Ac nid oes yn dy ddyfnder ddim i mi,
 Nac adgof fynnai geulo unrhyw don
 Yn faen oddiarnat. Beth pe byddai un?
 Eisteddid lawer munud ar y lan,
 Yn unig, ond y creigiau; llawer ton
 A holid fel y tafai yn ei thro
 Ei dyfnion genadaethau ar y byd;
 A llawer awel anwyd ar y llif,
 A ysbrydolwyd gan ryw waneg bell,
 A holem hithau, gan ei throi yn ol,
 I ganu adgyfodiad uwch y fan.

Fôr! cadw dy ddirgelion hyd y dydd
 Na welir ton yn gwllitho'th wely mwy,
 Pan fyddi di, fel llawer calon brudd,
 A lanwaist â dy ddyfroedd, oll yn wag;
 Pan droi ymaith gydag athrist drai
 Oddiwrth dy holl aberoedd, megis hi
 Un borau oddiwrth ei holl obeithion
 A'i chymuniadau â holl bethau'r byd.
 Y mae dy feddau yn dy fynwes oll,
 Ac yn dy fynwes byddont. Digon yw

Y môr ei hun i wylo drostynt hwy.
Y mae dy ddagrau gymaint â dy hun,
Yn llanw fyth y byd-wagiadau oll.

Mae Natur trwy ei holl elfennau'n un,
Ac mewn cyfamod cadarn am y byd.
Paham y codem wrthglawdd rhagot ti,
Gan ameu dy ffyddlondeb? Marwol ddyd
Yn unig a drodd allan, ac efe
Yw'r unig anghysonder dan y nefoedd.
Efe yn unig sy'n ysgaru ei hun
Oddiwirth y greadigaeth, ac yn dwyn
Ei hun i'r lan yn erbyn Duw a'i fyd
A threfn hanfodol pethau. Pan y daeth
Y Crewr yma ar raslonaf wedd,
I weld daearddarn ei anfeidrol waith,
Adnabu ei weithredoedd ef i gyd.
Dychwelai natur ei holwynion oll
Bob elfen-fraich ar hyd ei holwyn fawr,
Ar awgrym ei ewyllys; dysgai hi
Ei rhiniau lleiaf i'w adnabod ef,
A sychu neu lifeirio oddiwirth
Ei air fel bys-gyffyrddiad yr Anfeidrol.
Yr oedd y gwynt yn codi ar y nef,
Ac hyd y môr yn disgyn ar ei gais,
Fel pe na buasai ond ei lais ei hun
Yn chwyddo yn ei fynwes. Bywiocai
Y môr o dan yr hwyyl a'i dygai ef;
A phan y codai, cyd-ddisgynnai'r môr
Gan addef ei fawrhydri, a'r holl wybr
Adwaenai ei chynhalydd ynddo ef.
Dyn brau yn unig a'i hamheuai ef:
Fe wadai y gwirionedd yn ei wydd
Yn erbyn cyd-dystiolaeth gwynt a môr,
Yng nghanol dydd o wyrthiau ac o Dduw,
Nes codi o'r ddaeargryn yn y man,
A barn o fryniau ar ei hysgwydd hi
Yn esgyn tua'r nef, ac nes i'r bedd
Ei hun ddihuno dan y baich o gabledd
A thaflu parth o fyd-welediad maith
Yr Adgyfodiad gwell i fyny, fel
Goleuni byd-gyhuddol, tua'r nef.
A glywyd dy daranau hynaf di,
Bygythion Chaos, aruthr fôr, bryd hyn?
"Mae syched arnaf?" Daeth dy donnau oll

I'r wyneb, a glâs angau ar eu gwedd.
 A gallu dyfnach na'r ddaeargryn gref
 Olyngai holl ffynhonnau'r byd bryd hyn,
 A gwelwai natur wrth ei gwedd ei hun,
 Gan ollwng ei theyrnwialen fawr o'i llaw
 I'r cysgod aruthr a lywyddai'r byd.

Yr ydych chwi yn ffyddlawn, a phob un
 Yn sefyll yn ei le yn nheyrnas Duw.
 Pan y rychwanta'r bwa fôr y nef,
 Ysblenydd arwydd y cyfamod wnaed
 Yn swn llifeiriaint y disgynnol ddiluw
 A'r pell-ddychwelol foroedd, cyn i'r arch
 Ddarfod dyferu a'r ffurfafen bell,
 Pan godai'r byd yn newydd, gadarn fôr,
 O'th oruchwyliaeth hollalluog di,
 Pan gwelid y cymylau gwlybion fry
 Yn dechreu ail ymlunio, ac i gyd
 Yn llawnion o gyflawnder tonnau'r môr,—
 Ciyw! y mae natur trwy ei pharthau oll
 Yn gyffro o lawenydd, mae y nef
 Yn plygu gan gawodydd dros y byd,
 Y mae y môr yn gwlychu brig y graig
 Gan godi, dyfnder cyfan ei holl led,
 A'r fellten fforchog yn ogofu'r nef,
 A'r croch daranau'n rhuo dros y cwbl,
 Fel bryniau olwynedig trwy y pell
 Dyneli a waghant uchderau'r wybr.
 A dyn yn unig sydd yn crynu dan
 Gydgyfarchiadau yr elfennol fyd.
 A'r arwydd o gysonedd natur gain
 O gydredolrwydd ei helfennau hi,
 A'i hanghyfnewidioldeb trwy bob rhan,
 Yr arwydd o barhad un wedd y byd
 O'i ddiogelwch, ac o'r sicrwydd sydd
 Am ei drosglwyddiad hyd yr olaf ddydd;
 Fel llythyr o hollalluawgrwydd Duw,
 A phob rhyw fôr a mynydd yn ei le
 Fel arlinellau o amrywiol wedd,
 Sel Duwdod ar ei nef amlennol hi,—
 Hyn sy'n brawychu alltudiedig ddyn,
 A ddylai ei gysuro ef a gwneyd
 Ei gam yn eofn hyd derfynau'r byd.

Y Môr! y Môr! Pwy rifa'r swynion eu
 A orwedd ar dy ddyfnder maith i mi!
 Ailenedigaeth i'm bodolaeth wan
 Yw rhodio hyd dy dawleiddiaf lan.
 Bryd hynny mae y galon unig hon
 Yn rhodio allan fel i gwrdd â'r don,
 Gan droi am dani natur fel ei bron;
 Helaethion yw ei gweithrediadau mwy
 A chlywaf y tu faes i'r byd eu swm mawreddus hwy.

Tebygem ar yr ennyd hon
 Weld ysbryd amser ar y don,
 A'i ddyddiau gloewaf am ei law
 Yn troi, a llawer borau llon
 Yn agor eto'n harddwych draw
 A'i wawr yn deffro'r don.
 Egori, gefnfor mawr, i mi
 Fel dyfnaf ddôr holl led dy li
 Fel dôr i barthau amser oll,
 A daw y cyfan fu ar goll
 I fyny ar dy donnau hedd,
 O lawer parth dan loer y bedd.

Cwyd amser ar fy enaid prudd,
 Parth ar ol parth, a dydd ar ddydd,
 Gobeithion ar obeithion fyrdd,
 A'r oll yn newydd, oll yn wyrdd.
 Aeth llawer blwyddyn dros y byd,
 Troes llawer haul ei gant i gyd,
 Heb godi adsain wan o'th lef
 Ar ymyl un isloerawl nef;
 Heb gipio o fewn holl gylch y byd
 Bell swm dy lais, a gwawr dy bryd,
 Dy bryd hawddgaraf, haelaf un,
 A'th lais o oll-bereiddiol rin.
 Glan môr yn unig a all ddwyn
 Yn ol i mi y rhiniau mwyn.
 O Gilfach dawel! cronni di
 Bereiddion fy modolaeth i.
 Ac ar dy nefoleiddiaf lan
 Swyn ar ol swyn fel tonnau gwan
 A ail lifeiriant trwy fy mron
 Gan lanw holl wagleocdd hon.
 O yno, yno crog y ban
 Sy gadarn oddiar bob glan,

Pob môr o amser amgylch ogyrch;
 Ac yno gwelir yn eu trogyrch
 Bell ddyddiau bywyd wrth eu trefn,
 Pan ledont yn ein cof drachefn.
 Mae uchder oddiar dy li
 Wêl froydd amser ar bob tu,
 Rhyw bigwrn o eneidol fawredd
 A daen o dano fel ei lawredd
 Eangder a holl faes bodolaeth,
 Arsyllfa bell goruwch marwolaeth.
 O am anadlu ar dy awel
 A'th hedd nefolaidd, Gilfach dawel.

Fe rodiodd dau anwylion dros dy draeth
 Brydnawn tawelaf; llawer blwyddyn faith
 Oddiar amgylchoedd amser dorrwyd ymaith
 Er nawn, O nefoleiddiaf nawn, yr ymdaith.
 Fe gododd amser rhyngom fel cyfandir,
 A bywyd droes i fyny lawer rhandir
 Na chaed i fyny hyd ei harwedd drom
 Oll ond yn greigiau a Sahara lom.
 Ond pan y gwelaf lan y Gilfach hon,
 Y mae yr oll fel teimlad ar fy mron,
 A'r awr o hedd yn agos fel y don,
 A'm calon eto yn ei llanw hi
 A bywyd fel ag afon lawn ei lli.
 Tebygem eto weld ei delw lon
 Yn disgyn gyda chysgod gwyrf y don,
 A gobaith eilwaith gwyd ei ben o dan
 Y gafod o adgofion a ysbrydola'r lan.

Y mae dy greigiau ar fy enaid i
 Oll yn rhifedig mwyach, Gilfach gu;
 A'th donnau'n disgyn ar fy nghalon wan
 Fel edyn engyl ar ryw fewnol lan;
 A'th awel dyner ar y galon hon
 Yn gorffwys megys ar ei chartref-don.

Tawelaf nawn oedd hwnnw! addas awr
 I'r ymdaith olaf cyn y rhaniad mawr.
 Yr oedd y glannau'n amlwg ar bob tu,
 A'r nefoedd oll yn dawel-ddyfnion fry,
 Fel taen boddlonrwydd dwyfol drosom ni.
 Un don ni awelweddai'r nefoedd fry,
 Ond ein diweddaf ddyfnaf eiriau ni

A godent fel o ddyfnder pell a syn
 Na agorasid hyd yr oriau hyn;
 Fe deimlid tra ymlifai'r oriau fwrdd,
 Fel pe na chaem drachefn am oesoedd gwrdd;
 A deuai'r tangnef ar y galon brudd
 Bair iddi ymlonyddu ar y dydd,
 Yr adeg ymadawol sydd yn dwyn
 Holl fryniau angau rhyngddi â'i holl swyn.
 Yr oedd cysgodion y neshael ffawd
 Yn tawel hongian dros ein henaid tlawd,
 Gan hedd-bruddhau y galon ieuanc lon,
 A'i lleddfu i dymheredd hedd y don.

Tyrd gyda mi, Lawforwyn deg y nef,
 A'th fraich dyneraf dod o dan fy mhen.
 Tydi yn unig gafwyd dan yr haul
 Yn ffyddlawn, O tydi yn unig roed
 I aros yn fy ymyl pan fai'r byd
 Ac amser lawer huan o fy mlaen,
 A minnau'n dilyn ar arafach llif
 Eu pell adgofion hwynt. Pa le y mae
 Dy drigfa pan yng nghartref? Dangos im,
 Pan fyddo'r ser yn ddyfnion yn y nos,
 Y golau tawel a luserna'th lys,
 A chwr ei fantell ogoneddus ef,
 Yr angel sydd yn cadw'th seren lon,
 Dy seren deg dy hunan, ar y nef,
 Yn barod ac yn sanctaidd, erbyn awr
 Dy lon ddychweliad o dy ymdaith faith,
 A'th ysbryd etholedig gyda thi,
 Yn addas yntau i'r gogoniant gwell
 A gwelediadau y tragwyddol ddydd.
 A ydwyt ti yn cyrchu ambell dro
 Phiolaidd o neithdarol win y nef
 I lonni'm hysbryd ar anialwch oer
 Myfyrion siomedigaeth, ac i droi
 Oddiar fy enaid ryndod erch y bedd,
 Sy'n peri i'r enaid deimlo yn ei niwl
 Sylweddol oerni bron, a'i ddieithr wllith
 Yn troi yn felldith wywol ar bob bloen?

Fe droes y byd yn ol, Angyles deg.
 Tydi ni throaist. Daethost ti i mewn
 O dan y cysgod anwawladwy gaed
 Yn hongian oddiar y tawel fedd

Dros holl welediad bywyd amgylch ogylich.
 Yr oedd y gafod yn rhy drom i'r byd,
 A'r enaid oll ymdaenai y pryd hyn
 Fel cwmwl mawr o siom, i'w harllwys hi
 Flynnyddoedd a blynnyddoedd pell ar hyd
 Holl lwybrau bywyd, nes y codent hwy
 Gan ddagrau, hyd welediad arall fyd,
 Lle troir ffynhonnau hiraeth dan y fron
 Fyth yn darddfaoedd o dragwyddol hedd.
 Gorffwysaist ar y bedd fel seren lon ;
 A'm henaidd dan ei bywiol reiddiau hi,
 A ddysgwŷd i obeithio trwy y bedd,
 Ac edrych ar y tywyll unig faen
 Fel colofn gyntaf yr anfarwol fyd,
 Fel arwydd gwlad, gwlad o dragwyddol hedd. -
 A chododd ar y prudd ddyfnderoedd hyn
 Feddyliau llawnion o lawenol nwyf,
 Y modd y cyfyd ar hyd hedd y nos
 Ser Duw'n dyferu o'r tragwyddol ddydd.
 A dysgaist dy gydynaith, er mor brudd,
 I lonni'r bedd â chân, a gwranddo mwy
 Ar adar y baradwys yn y glyn,
 Pan ddeuent drosodd o'r dragwyddol wlad
 Y gwelir ei heddychlaw'n froydd hi
 A'i chwyfol nef-ddyferol feusydd, fel
 Godreon tragwyddoldeb, yn y llif
 Byd-barthol yn ymolchi—pan y doent
 I ganu ar y cangau oerion hyn,
 Ac ysgwyd pren marwolaeth hyd ei wraidd,
 Sydd ag un gangen yn blodeuo fyth,
 Y gangen blannwyd ar y gwywdra certh,
 Pan gerddodd cyfaill dyn un oer brydnawn
 Ar hyd y glyn tawelaf yn ei waed,
 Y gwaed a'i cludodd dros y marwol li
 Heb deimlo'r tonnau barnol ar y rhai
 Y nawf yr ia tragwyddol sydd yn toi
 Torfeydd dynolryw dan ei blygion cerch.
 A deuai ambell awel lon i'r glyn
 Fel ar dy awgrym per, a'r nef ei hun
 Yn gorffwys ar ei haden dawel hi,
 A hedd yn ffrydio arnom fel pe bai
 Y blaenaf o holl swynion nef gerllaw,—
 Y wyneb sydd yn gwneyd y byd yn wag
 A llwyr afluniaidd heb ei siriol wawr.

Yr ydwyd ti yn ffyddlawn, Awen gain,
 Tydi a'r Môr. Ac hyfryd ydyw troi
 Ennyd o wydd gweddnewidiadau'r byd,
 Ac eistedd dan eich ysbrydoliaeth chwi,
 A gwrando ar eich gweinidogaeth hedd.
 Clyw! mae y tonnau'n disgyn ar y traeth
 Heb gysgod troedigaeth, fel y daw
 Meddyliau'r ser trwy'r oesoedd ar y byd.
 Un waith yr yfir eu barddoniaeth hwy,
 Anghyfnewidiol ydyw fel y graig
 A lif o dan ei gyfoethogrwydd hael,
 Anfarwol fraint, dan seren a than haul.
 Gwrandawaf arnynt fel dyferion hedd
 Yn disgyn! Onid ar y cywair hwn
 Y prudd ddisgynnent lawer blwydd yn ol,
 Pan ymostyngai'n bywyd unol ni
 Fel traeth i'w derbyn? Sanctaidd yw eu swm,
 Fel pan ddisgynnent ar ein holaf nawn,
 Pan gaed y byd a'r dywell graig ei hun
 Yn sanctaidd fel ar ol cyffyrddiad ysbryd,
 Pan hunai cysgod angel ar bob peth,
 Pan welem benrhyn ar ol penrhyn pell
 Yn codi yn fawreddus gyda'r llif,
 Fel blaenau y dyfodol athrist, cyn
 I amser llesg ei dderbyn ar ei haul
 A'i godi ar y byd. Tebygem fod
 Y tonnau am ddywedyd rhywbeth mwy,
 A siarad dros yr absenolion rai,
 O ddyfnder cofion y gafaelfawr fôr,
 Y sydd yn derbyn fyth i'w fynwes lawn
 Ystorum fawr fel adgof, soddiad byd
 Fel meddwl a dychymyg ennyd bron.

Llefwrch, Donnau! O na fedrwn i
 Eich iaith fawreddog ddysgwyd gennych gynt
 O enau geirwon Chaos, pan yr oedd
 Y byd yn ymronynnu yn eich bru,
 A'r haul yn casglu y pelydron mân
 O gonglau'r nef o gyleh ei gronig fach
 A chwyfid gan yr awel yn ei rhod,
 Cyn codi o'r mynyddoedd yn eu nerth
 Fel duwiau oddiar y llifion beilch,
 A'r nefoedd dadgloedig am y byd
 Yn cydymagor i'w croesawu hwynt;
 Na fedrwn godi oddiar y traeth

Eich geiriau amhrisiadwy, mwy eu gwerth
Na mwneu glain Golconda a Pheru!

Mae gan yr enaid gydymdeimlad syn
A swm eich pell-ddisgyniad, donnau per,
A'ch adsain wan a gollaf ynnof f' hun
Ar ryw bellderoedd o feddyliau prudd
A redant hyd fy anfarwoldeb pell.

O nefol dynged! Trefna i mi
Breswylfa unig ger y lli,
Lle ceidw'r don o hyd gerllaw
Ei delw lon, a gollwyd draw.
Per fyddai rhodio gyda'r lloer,
A chyda firwd yr awel oer,
O gylch y graig a'r penrhyn pell
A chanu am y glannau gwell,—
O, nefoedd fyddai gwylio'r wawr
Yn plygu'r nos fel amlen fawr,
Gan ddwyn o'r gorchudd ban ar fan,
Gwlad ar ol gwlad, glan ar ol glan.
A phan y troai'r ser i lawr,
Fel tanbaid lan o'r wynfa fawr,
Per fyddai gollwng f'enaid mwy—
Tu draw i amser—arnynt hwy.
O flaen efrydion maith y môr,
A'r golwg ar ei ddyfn di-ddôr,
Ymloewai bod i'w ddyfnder pur
A'i anfarwoldeb ynddo'n glir,
Ymburai'r enaid trwyddo i gyd,
Mor bell i maes o dwrf y byd,
Nes derbyn ar ei ddyfnder gwell
Ser tragwyddoldeb a'r dydd pell.

Y STORM.

XI.

Y llŷetriant.

GWIR fawreddogrwydd yw dy eiddot ti,
O natur! Yn dy ymneillduedd, wyt
Fawreddog er mwyn mawredd, ac yn toi
Dy hunan ag wybrennau, danbaid wedd,
Heb lygad-dyst na thafod i'th fawrhau,
Na neb i weled ond yr unig loer
A'r ser gorddistaw pan y crynont fry,

A thragwyddoldeb o ddistawrwydd syn
 O'u hamgylch yn ymledu. Dygi di
 Dy holl ogoniant allan, a dy fraich
 Estynni mewn afonydd llawnion ceidr
 O fôr hyd fôr, a chyfandiroedd teg
 A obenyddi ar y dyfnion fyr;
 Ac o wersyllfa'th geidrion dyfnaf oll
 Arweini dy ynsoedd teg o'r dwfn
 I wyllo ar y môr anagoredig
 Y moroedd na agorwyd eto i ddyn,
 Ac na chanfyddwyd ar eu llifion heirdd
 Ond plu-hwyl yr aderyn, pan ei caed
 Yn nofio yn ei degid ar y don,
 A'r awel nefol lond ei aden gain;
 A threfni dy fynyddoedd am y nef,
 Gan roi i lawer un goruwch y gwynt
 Eisteddfa o ogoniant ac o hedd,
 Lle tafia y wawr gannaid gyntaf oll
 Addewid deg y dydd, ac arwydd llon
 Agoriad y cyhydedd unwaith mwy,
 Lle ymohiria'r haul am lawer awr
 Ar ol i'r broydd dyfnion dynnu'r nos
 Fel arwyl-fantell dros eu bronnau teg
 Ac am-oleuo'r ser o gylch y byd;
 Ac yn nyfnderau'r byd-fforestydd pell
 Ordeini lawer rhaiadr i lonhau
 Unigrwydd oesol ac anfeidrol hedd,
 Fel adsain o leferydd Ior ei hun
 I lonni ei weithredoedd unig pell
 A dweyd ei fod yn fyw. Bugeili di
 Dy froydd rhwng y bryniau pell fel praidd,
 A than y ser fel gortho o ogoniant
 Corlanni hwynt bob nos; a hedd yr hwyr
 Fel afon Duw ollyngi ar y byd;
 Ti wnei y mawrion ryfeddodau hyn
 Heb geisio gair o fawl, O Natur deg.
 Tu draw i helaethderau'r Werydd fôr
 Sy'n derbyn haul y nefoedd ar ei don,
 A'i ddydd gogwyddol arno fel ei hwyl
 Hedd-blygol, a mawreddau awr machludiad
 Fel breuddwyd duw ar frig ei ffoawl lif;
 Tu draw i olaf gylch mordwyaeth gynt,
 Urddunol egwyl, cyn i orfryd dyn
 Ddwyn natur oll fel troedfainc dan ei draed
 A dwyn y seren bennaf yn y nef

Dan deyrnged iddo, cyn i law ei nerth
 Arfeiddio'r dyfnder a'i agorwyd fyth
 Fel dôr i fydoedd eraill, cyn i'r môr
 A thragwyddoldeb yr ystorom fawr
 Ymagor iddo, cyn i'r nodwydd fer
 Fradychu'r môr a'i olaf lan i'w law,
 Pan yr ymledai'r dyfnder ar ei hynt
 Fel cysgod tragwyddoldeb, yn rhanhau
 Y byd i fydoedd lawer, a mil mwy
 Nag angau certh ei hunan rhwng pob un,—
 Tu hwnt i'r beilchion·donnau, Natur deg,
 O forau cyntaf amser gwnaethost hyn.
 A thaenaist i edmygedd mud y ser,
 A'r oesoedd dilais, y gweledion hyn.

Bryd·hynny yr·oedd·gennyt·fan o hedd,
 Cyfandir o unigedd ar y dwfn;
 A phan y blinit ar derfysgoedd dyn
 A swm ei farwol ddaearoldeb ef,
 Dy fantell wawl am danat, ysbryd pur,
 A dynnit, a dwy seren daubaid lawn
 Yn tawel orffwys ar dy fynwes wen,
 Ac enfys o fewn enfys am dy fraich
 Fel teg foreuau'r ser yn araf droi,
 Ac ymneillduit gydag awel hwyr
 Ar un ymdaffiad araul dros y dwfn
 I dawel bêr fyfyrion ar dy Dduw,
 A gweld yr haul ar addoliadol wedd
 Yn codi ar y gorllewinol fyd,
 Gan daenu dros y brynïau sanctaidd draw
 Y borau fel o sancteiddiolaf Duw,
 O ddyfnaf lyn y nefoedd; ac nid oedd
 Swm i dy afonyddu ond a wnaed
 Gan fawredd a gweithredoedd Ior ei hun.
 Tros yr anfesuradwy barthau hyn
 Tramwyit, ag ysbrydion yr afonydd
 A thon gronedig lawn fel calon bur
 O dan eu bronau gwlybion, gyda thi;
 A gwylltaf ysbryd Chaos oddiar,
 Yn edrych arnoch dros y tanlyd fin,
 Nes gollwng deigrion aruthr ar y môr
 O ffamau bryn-lanedig, pan y tyr
 A sawdd fynyddoedd dan ei ruddgoch fyr,
 Gan ado gwledydd cyfain ar ei ol
 Yn weigion ac yn ddymchweliadau erch

A'u dyfroedd oll yn mygu hyd y nef,
 A'u holl ddinasoedd ar eu bron o wae
 Fel barnau duon byth, fel bryniau byw
 O farwor ac o ddistryw. . . Gydag ef
 Ysbrydion cyntaf amser, y rhai fu
 Yn gwylio'r greadigaeth erfawr hon
 Yn tyfu oddiar ganghennau preiff
 Tragwyddoldeb fel tyneraf gang
 Uwchben y gwagle unig, oer, a thywyll,
 Gan blygu yn yr anherfynol hedd
 O dan y gyntaf awr, ddisgynnai mwy
 Fel edn o'r anherfynol arni hi—
 Caed hwy yn edrych gydag ef i lawr.
 A llawen oeddit, cadarn oedd dy ffydd
 Yn Nuw, yng nghanol yr am-dystion hyn
 A dawel feithrinasiid gyda thi
 Fel engyl ieuainc dan y cyntaf do
 A gasglwyd dros ddiddymdra. Llawer gwaith
 Y chwareuasoch ar y cyntaf faes
 A lawrai'r bythol wagle; llawer tro
 Yr aethoch allan gyda'r lloer a'r ser
 O dan arweiniad y tragwyddol air,
 Pan oeddynt hwy yn ieuainc ac yn agos
 Ac fel unedig deulu fyth ynghyd,
 Cyn i ystormydd amser ddod i mewn,
 A'i oll-ysgarol ddylanwadau ef,
 I'w parthu oddiwrth eu gilydd fyth
 A thafu rhyngddynt trwy y gwagle maith
 Eangder uwch eangder, nos ar nos,
 Nad oes a'u beiddia ond dychymyg mwy—
 Anorchfygadwy allu'r enaid, sydd
 Yn beiddio dyfnder angau, ac yn dwyn
 Uwch braich y bedd anwylion fil yn ol
 Heb lygredd ar eu gwedd, a'u mynwes fyth
 Yn don o gariad chwyddfawr, gwen, a llawn
 Oddiar y galon ddofn; fel yr oent
 Pan dynnodd angau y gyfryngol len,
 Yn dawel ac yn ieuainc ac yn deg;
 A'u gwenau'n torri ar eu gruddiau heirdd
 Fel gwawroedd nefoedd, nes y teimlid fod
 Prydferthwch yno yn edmygu ei hun,
 Ac yn ehedeg ymaith gyda'r wên
 Ddofn honno fel perffeithder olaf harddwch;—
 Cyn eu condemnio hyd y gwagle oer
 Bob un mewn anfeidrollder o unigedd;

Mor ddieithr oddiwrth eu gilydd mwy
 A'r fath aruthrol ddyfnder rhyngddynt oll,
 Fel nad all mwyach o'u holl foroedd gwawl
 Ond un pelydryn gyrraedd dros y gwag
 Fel adgof, arwydd fod eu lampau pell
 Heb ddiffodd yn y storm dragwyddol sydd
 Yn rhuo amgylch ogyrch amser fyth.
 Edrychit ar y môr, a meddwl mawr
 Agorai ger dy galon fawr fel aber,
 Un arall yn ei ymyl, ac un mwy,
 Helaethach, eilwaith yn ei dyfnder hi,
 A llanwai ef bob un â mawreddogrwydd
 Fel ebyr byd â thonnau, pan y cwyd
 Y llanw, a'r holl nefoedd arno ef
 Yn dyrchu, a'r holl dymhestl ar ei frig;
 Ac nid oedd hwyl ar hyd yr eang lif
 I dynnu'th feddwl oddiar y pur
 A'r dwyfol a ddelweddid ar ei don.

Duw! ef yn unig welit ti
 Ar hyd y glwys fawreddig li,
 Ac nid oedd ar y don na'r ne
 Fyth yn weledig ond efe.

Pan gasglai'r ser ar ael y nos,
 Fel cysgod o'r baradwys dlos,
 Ni chaed un marwol wrthrych mwy
 A'th dynnai oddiwrthynt hwy,
 A'th lluddiai i gyduno fry
 A moliaint y nefolion lu.

Ior a natur oedd yr oll
 Yno welid, ac ni theimlid dim ar goll.
 Cyflawn oedd bodolaeth ber
 Gyda natur, Ior, a'r ser.

Sugnit yno laeth y don,
 A dyferion ysbrydoliaeth fel[o'r fron.
 Curai'r môr fyrdd o donnau
 Ar y lan fel calonnau,
 Pan nad oedd y gwynt a'r tarth
 A phob wybren a phob parth
 I feddyliau Duw ond bronnau.

Torrai'r wawr ar dy rudd
 Fel dadguddiad dyblyg ddydd;

Ar ddydd gwell o ddwyfol wawl
 Lifai dros y boreu pell i oleuo ysbryd mawl
 Yn ei ehediadau gwell
 Am y perffaith, am y pell.
 Fel adenydd engyl hedd,
 Chwyfai'r awel dros dy wedd.
 A thangnefedd ddygai'r don
 Fel anadliad ar dy fron.
 Safai'r bryn
 Uwch y glyn
 Fel offeiriad, a'r holl nef
 Yn ei amfantellu ef,
 A eiriolai
 Dros yr wylaidd fro tra molai,
 Dros y rhos a'r awel bêr,
 A eiriolai gyda'r ser,
 Cynrychiolwyr nesaf Ner.

Fel hanfod môr, fel llawn gronedig swm
 Llifeiriaint byd, Niagara, clywaf di,
 Fel arall fyd. Fel amser yn ei hynt
 Yn boddi'r cyfan yn ei dwrf ei hun
 Gan gau'r tragwyddol allan, soddi di
 Bob taran fawr am lawer nef, pob llif,
 Pob afon lawn ei thon am lawer gwlad,
 Gan gasglu'r oll i mewn i'th fawredd d' hun,
 Pob swm a thymhestl a mynediad pell,
 Fel dy Greawdwr bethau amser oll
 A thragwyddoldeb iddo ei hunan fyth
 Nes y tragwyddol soddir yn y man
 Bob cenedl, oes, a byd, oll ynddo'i hun.
 Pan ddaw y diwedd, pan y cesglir hwynt,
 O fewn gwelediad ei hanfodol rwysg,
 A swm rhaiadriad ei dragwyddol nerth,
 Fe allai'r storom sefyll ar dy fin
 A throi yn ol yn fud, a'i gwyntoedd oll
 Yn glynu am ei bronnau gwlybion hi
 Yn arswydedig! Onid dyma'r modd
 Y rhuai y llifeiriaint am y byd
 Pan dreiai'r diluw, pan y rhuthrai môr,
 Môr cyfan, dros bob cadwyn o fynyddoedd
 Fel o dan yriad Duw, dan bwys y nef,
 I lawr, aruthrol lifaint, pan y caed
 Afeilion y cymylau dan y don
 Ac awyr-orseddfeinciau'r storm i gyd,

A phell drysorau'r gwyntoedd? Cefais'ti
 Yr oesoedd i daranu, ac i roi
 Tystiolaeth fythol i gadernid Duw,
 A rhyddid i'w addoli yn dy holl
 Fawrhydri pell-gyntefig, fel yr oet
 Ym more-gofion anser, pan y'th gaed
 Yn rhyfedd ym mhlith byd o ryfeddodau.
 Llawn ddigon fyddit i hynodi byd,
 Byd o anialdra o dy amgylch wnaed
 Yn adsain-le i fawredd ac i nerth.

Meddyliau anhraethol eu mawredd i mi
 Farchogant, fel duwiau diluwiau, dy li.
 A'r enaid synedig gydnebydd eu nerth
 A theimla'u dwyfoliaeth a dyfnder eu gwerth,
 Er nad all holl eiriau holl ieithoedd y byd,
 Pe cesglid eu holl arddercheddau ynghyd,
 I ffurfio un gair o urdduniant a gwerth,
 Ddarlunio y lleiaf ei ddyfnder a'i nerth.
 Wrth ganfod ymdafliad mawreddog dy li,
 A chrynodod y ddaear a'r nefoedd bob tu,
 A'th fwa ysblenydd o ddyfroedd bob awr,
 Fel arwydd y Duwdod rhwng nefoedd a llawr,
 Rhaiadra yr enaid o uchderau gwell,
 A thyr ei feddyliau fel o ryw fryn pell,
 Pell fryn arucheldd sy'n bannu yn Ner
 Fawrhydri yr enaid a'i hawlfraint i'r ser.
 Fel llynnoedd ar fryniau anfarwol eu rhyw
 Meddyliau am fawredd, am ddyfnder, am Dduw,
 Ar hyd yr holl enaid a orwedd fel byd
 Soddedig, dan bwys mawreddogrwydd i gyd—
 Yn awr ymollyngant nes colli pob syniad
 Am amser a phethau o farwol derfyniad.
 Lliferied anffyddiaeth a balchder y byd
 Tros fwa dy allu i'r dyfnder i gyd,
 Fel ofnau y diluw dros fwa y gwlaw
 Lif drosto fel ofnau y diluw o draw.
 Tragwyddol tarana fel adsain y llef
 A'lwedd y ddaear fel meddwl i'r nef,
 Fel meddwl tragwyddol a wisgai yr haul,
 A chylchoedd y nefoedd fel mantell ddi-draul.
 Mae'r enaid yn adwaen ei gynllun ei hun
 A'r ddelw dragwyddol ym mawredd dy lun.
 O Natur ardderchog! na faem fel tydi,
 Yn ffyddlawn trwy filoedd yr oesoedd in' Rhi.

Fe rydd y creadur gwamalog ei ryw
 I law ebargofiant addoliant ei Dduw,
 A hanner ei einioes gawn eisioes o'n hol,
 Heb un porth i'r nefoedd yn agor o'i gol,
 Fel anial tywyllaf heb seren na dôl.
 Tydi ydwyf ffyddlawn bryd hynny, pan fo
 Serchiadau y galon o'r ffynnon ar ffo
 Fel edn ar grwydr o'i gangen a'i fro.
 Wyt ffyddlawn bryd hynny, a'r afon yn llawn
 Bob amser,—boreuddydd, canolddydd, prydawn,—
 A'i mŷr fel meddyliau yn rhychu ei gwedd,
 A'i glannau dan arwydldyhuddiant a hedd,
 A'r goedwig o'i dyfnder a'i moroedd o wyrdd
 A gwyd gyda'r gwyntoedd yn filoedd a myrdd
 Fel gwynfa ddeffroedig, i foli y llaw
 Godasai y bryniau cysgodawg o draw,
 I dorri awchlymder y storom pan dry
 Holl fin yr elfennau ar rod y nef fry;
 A'r llanw ddychwela yn ffyddlawn i'w ran
 I eiriol ar greigiog allorau y lan
 Dros gamwedd y dyfnder, gwamalrwydd y gwynt,
 A gorfryd y storom anhreithiol ei hynt,
 Pan lwyr ebargofir ei gyfoeth i gyd
 A chylchoedd y gwledydd, fel duw yn ei lid;
 Ac adsain Niagara a lenwir o hyd
 Fel gair mawr urddunol wnaed i enau byd.

O Natur! pwy all gipio'th ddwyfol wenau
 A'u gwisgo ar ei rudd fel hawlfraint i'r wybrennau?
 Pwy fyth all godi un o'th eiriau dyfnion,
 Y cymer nerth y moroedd geirw a llyfnion
 I'w llunio bob yn un, a gwasg y bryniau
 I dynnu ar y byd eu llythyrennol luniau?
 Y mae dy froydd yn ymagor draw
 Fel tudalennau cyfrol o waith y Ddwyfol Law,
 Y ser a Duw ei hardaitl, ac uwchben
 Pob dalen deg o fynydd, môr, a nen,
 Rhyw seren bell fel enw o'r tragwyddol
 Fel peniad uchel draw ac uwch-arwyddol,
 Ac yma a thraw air gwerth y lleill i gyd,
 Fel enw Duw, fel llawn ddeffiniad byd.

Pwy ddengys im agoriad dy ddirgelion
 A gwerthfawrocaf awr dy Dduw-ymweliôn,

Pan y symuda'i Wyddfod yn weladwy
 Dros heidd y fro a'r môr anolrheinadwy,
 Pan ar y tawel lion rhwng y gwŷydd
 Y clywir rhediad ei drugaredd rydd—
 Pan ymleddfha ei wyddfod ar don fachludol dydd,
 Yr awr ymsodda'i bresenoldeb ef
 A'i gyfarchiadau ar hyd natur gref
 Fel edyn angel pell yn nyfnder nef ?

Pan rodiom ar hyd fin y môr
 Yng ngolau'r pell wynfaoedd,
 Pan egyr nos y ddwyfol ddor
 I ser y nefoedd
 Geir yn ymdorfu arni hi
 O awydd canfod
 Y ddaear eto, gardd trugaredd Rhi
 A drych ei hanfod,
 Lle troes y Duwdod arno'i hun
 Ddiffyg o gnawd
 I godi ar dynerach llun
 Fel brawd,—
 Yr Anfeidroldeb coffeidadwy
 I wael greadur,
 Yr Anfeidroldeb goddefadwy
 I bechadur ;
 Pan glywaf dawl si y don
 Fel breuddwyd hedd,
 Fel breuddwyd angel pruddaidd-lon,
 Pan laetho arnom mwy fel bron
 O fynwes hwnt i'r bedd ;
 Pan gwyd y gwynt fawreddau'r môr
 Ymhell i'r nef
 Pan ddyrch y tonnau hy fel côr
 Yng nghyntedd duwiau, hyd-ddo ef ;
 Pan syrth Niagara ar ein clyw
 Fel tymhestloedd,
 A'i ddyfroedd crog mawreddog ryw
 Yn cyfarch creadigaeth Duw
 Fel torf o foroedd,
 A'i adsain eilwaith dros y nef
 Yn rhaiadru,
 A'r mynyddoedd fyth i'w lef
 Ar ymdrech i droi adru,
 A'r ystorm fawr ei hun,
 Delw urdduniant,

Yno yn addoli ei llun
 A'i dymuniant;
 A'r môr-wyntoedd pererinol,
 Aruthr gôr,
 Yn dyrchafu'u cerdd urddunol
 Glywed draw eu ffawd ddymunol,
 Glywed môr,
 Môr cyfagos, yn ei ddyfnder,
 Yn ei nerth,
 A'r mynyddoedd ar ei ffiniau
 Fel ar derfynau'r byd yn serth,
 Môr na feiddia unrhyw hwyl
 Rwyfo hyd-ddo ar ei hynt,
 Ond a daen y nef ei hun—
 Mellt a gwynt,—

Mae yr enaid distaw, syn,
 Yn dymuno canfod mwy
 Ysbryd y mawreddau hyn,
 A'u calonnau aruthr hwy
 Yn y maith ddirgelwch mawr,
 Obry'n curo nes bo'r byd
 A'i deg wedd yn newid gwawr,
 A'i fynyddau'n chwyddo i gyd.

Ym yn teimlo ger y don
 Hedd-brydnawn,
 Pan orffwysu ar ei bron
 Seren lonydd, hanner llawn,
 Seren ddofn fel gobaith pell,
 Teimlo'r ym
 Forau o baradwys well
 Ar ei hael o lanwol rym.

Oni fynnai'r waneg ddwyn
 Air o ddyfnach, sicrach swyn,
 Gair o anherfynol rin
 Fel o wefus Ior ei hun?
 Gwrandu arni! Daeth o bell,
 Daeth trwy lawer storom hell,
 Gwrandu ei newyddion gwell.

Da yw eistedd ar y graig
 Sydd yn byw
 Rhwng y ddaear oer â'r aig,
 Ac yn derbyn braidd bob rhyw

Ar ei chlogwyn unig oer,—
 Môr a daear, lli a lloer,
 Yr aderyn yn ei gân,
 Bollt y daran nefol dân,
 Haul a chwmwl, hwyr a borau,
 A holl gadwyn y tymhorau,
 Llid y nefoedd, a dirgelwch
 Ei boddlonrwydd a'i thawelwch,
 A'r tymhestloedd o bob rhyw,
 A'r pell dystion, holl ser Duw.

Felly llawer enaid blin
 Rhwng dau fywyd, rhwng dau hin;
 Yr ymadawedig gwell
 Ar un tu, y dyddiau pell,
 Môr o gofion,
 Dyfnder o dyneraf brofion,
 Ar ei gof fel tawel nofion—
 A'r presennol bethau sydd
 Lonnaid y mynedol ddydd.
 I ddedwyddwch pan y gwnaed
 Bywyd oll yn llyfnaf draeth,
 Môr o gysur unwaith gaed—
 Fel breuddwydion treio wnaeth,
 A chysgodion llawer bedd
 Gaent dros y swynol wedd
 O fodolaeth, a wnaï fywyd oll yn hedd.

Per yw edrych ar y glannau
 Lle y bu
 Y don eurog, cofio'r manau
 Elor-weddog mwy a du.
 Mae y traeth y funud hon
 Fel anialwch ger y fron,
 A distawrwydd difynediad
 Hyd derfynau ei welediad,
 Heb ond swm y galon brudd
 Yn cronhau ei dagrau rhudd.
 Eistedd ar y graig, a bydd
 Megis hithau nos a dydd,
 Rho dy enaid allan mwy
 I drallodau siom a'i glwy,
 I'r awelon oer eu rhyw,
 Holl sor daear, holl ser Duw

Rho dy air, don, i mi.
 Hoffi'r ydwyf weinidogaeth lawn dy li.
 Y mae gennyf air o hedd,
 Gair a gipiwyd o ddyfnderoedd is na'r bedd.
 Yn y dyfnder gwnei dy dref,
 Fel y ser yn nyfnder nef;
 Dyfnder dyfroedd moroedd du
 Yw dy gartref, donnig gu.
 Ac ni feiddi ddringo'r ne
 Dim ond edrych o'r dyfnderoedd ar ei lle.

Felly ninnau! Henffych awr
 Y cawn esgyn traeth y wawr,
 Traeth y nefoedd, esgyn fry
 Nes bo'n dduwdod tanbaid, tanbaid ar bob tu.

Hyd yr adeg, donnig gu,
 Croesaw fyrdd i'th swynlawn si.
 Dywed ar y glannau draw
 Fod y llanw, olaf lanw, 'r byd gerllaw.

Saf ar y lan! Mae'r lloer o wywlyd wedd
 Fel meddwl prudd y nos, fel planed oer y bedd,
 Yn esgyn gyda'r niwl, a'r ddyfnaf don
 Yn teimlo llaw y dynged ar ei bron,
 Y dynged rwyma hi i ddilyn hon;
 Fel y delweddiad oer o dynged dyn,
 Gorffwysa ar y storm a'r cwmwl blin
 Goruwch y byd, ac fel pe byddai draw
 O rif y ser er bod aml nef islaw;
 Mewn nef, ond nef o wyntoedd, grog y byd
 I ddal ei ddagrau a'r ystormydd pyd;
 Ryw rith o'r hyn fuasai, cysgod gwael
 O'r mawredd gollwyd, y tragwyddol haul.
 Pa gydymdeimlad, don o falchaf frig,
 Sy rhyngot ti a'r blaned draw, a drig
 Fel wyneb prudd-der dan dragwyddol hug?
 Tydi, a welaist gyntaf lannau'r byd
 Yn codi gyda'r creol air i gyd;
 Yr hybarch, yr hynafol, a'r ofnadwy,
 A drefni'th babell o'r anolrheinadwy,
 A geui'th wely rhwng colofnau'r byd,
 Ddeffroi y nef âg enbyd lef dy lid,
 Pa raid i ti addoli'r prudd a'r pell,
 A chwilio beunydd fel am lannau gwell?

Pa raid ond a'n ein bod yn teimlo i gyd
Ryw ddiffyg absenoldeb rhywbeth drud?

Y STORM.

XII.

Y diluw.

CHWYRN ruthra y dyfroedd fel afon o'r graig,
Ymhell dros y terfyn clywch ruad yr aig!
Y Diluw sy'n arwain ei foroedd i'r lan
Yn wyn gan ddirofaint, tros ddyffryn a ban.
Fel byddin fuddugol crochfloeddia'r elfennau
Wrth weld y mynyddoedd yn gostwng eu pennau.
Un elfen deyrnasa trwy'r cyfan yn awr,
Mae hanner y ddaear yn gefnfor mawr!
Y corwynt a dreigla y creigiau bryd hyn
O gopa y mynydd nes llanw y glyn.
Ffowch ymaith! mae'n dymchwel y bryniau cellt,
Ffowch! ffowch! mae ei anadl yn boeth gan y mell!
Torfeydd a ymaflant yn nannedd y creigiau,
A'u dwylaw yn gwaedu, vn gwaedu i'r tonnau.
Mae ewyn y don fel eira ar y bryniau,
A'r môr yn taranu ar draeth o gymylau!
Y Diluw a lwne yr afonydd chwyddedig
Fel mân ddyferynau o gwinwl gwywedig.
Dyrchafa y sto'om ei mainc ar y nifwl,
A'i duon gerbydau a yr dros y cwmwl.
Ar wlybion olwynion trwy ganol y nefoedd
Try'r ddaear fel planed ystormus o ddyfroedd.

Fe welai y graig.

Pan daenodd yr hwyr ei len gyntaf o nifwl,
Fe welid goleudy, mor deig â drychfeddwl,
A'i sail yn y môr, a'i lofft yn y cwmwl.
O! aml i forwr a lonnwyd cyn hyn
Wrth weld ar y dyfnder oleuni mor wyn.
Y môr oedd yn gysglyd pan gododd y lloer,
A'r tonnau freuddwydient ym mreichiau'r lan oer;
'R oedd y lamp yn goleuo, fel seren y môr,
A chraig oedd y sylfaen, a harn oedd y ddôr.
Ond daeth yr ystorm, a fflangelodd y tonnau
Nes rhuthrent fel llewod a briw yn eu bronnau;
O amgylch yr adail cyfarfu'r elfennau,
A Neifion ollyngodd ei nofiol fagnelau,

Fe lwyr benderfynodd na chai y goleudy
 Waredu un llong o'i afael ond hynny;
 Edrychai yr huan wrth godi ar yr aig,
 Fe welai y Graig!

Calon y Storm.

A! nid erchylldra i gyd yw'r dymhestl hy,
 Y mae tynerwch yn ei chalon hi.
 Ar ol i raiadr o daranau draw
 Ymarllwys dros y nef, O! 'r seibiant ddaw
 Fel afon falm i fewn i'r fynwes brudd,
 Ar hyd yr hon mordwya'r Awen rydd
 Hyd lannau'r wlad lle na fydd bellach glwy,
 Na storom flin, nac adsain storom mwy.
 Anadla Anian yn fwy rhydd ar ol
 Y mawrwyeh dwrf, ac ymlonydda'r ddôl
 Ar wely'r fro, mewn diolchgarwch yf
 Y gawod bêr o law y dymhestl hyf.

O! gwyn ei fyd all wrando'r tyrfaeu draw
 Heb deimlo'i galon yn gwanhau o fraw,
 Na'i lwynau'n datod fel yr euog tru
 Pan glywo'r barnol lais o'r orsedd ddu.
 A all eu gwrando heb ddychryndod blin,
 O! gwyn ei fyd, farddonol ddedwydd ddyn!

Dad! rho im' wenu pan fo'r daran fawr
 Yn treiglo tros ryw Alp o niwl i lawr.
 A dod gydwybod dawel yn obennydd
 Pan hunwyf yn y storom fawr ysblenydd;
 Y nefol fendith! dod gydwybod dawel
 Pan fo rhyw siffrwd sobr yn llais yr awel,
 Rhyw uchel awgrym yn yr wybren draw
 Fod gallu Duw, a Duw ei hun, gerllaw!

Oes! y mae calon gan y dymhestl fry,
 Ac ambell un all gymdeithasu â hi.
 Mordwya'r meddwl yr eangder draw,
 A santaidd rwyd athrylith yn ei law,
 Ac O! y traill o nefol feddylddrychau
 I'r ddaear dyn, o lynnoedd y cymylau.

Y STORM.

XIII.

Y Storm olaf.

AR uchelfannau amser draw tywynna gwawr y nef,
 A chysgod tragwyddoldeb ddaw ar hyd ei lwydion dyrau ef;
 A'r farn-esgynlawr, araf godir hi;
 A theifi yr elfennau
 Awyrbont dros wybrennau
 Hyd ymyl uchel nennau
 Eilfyd fry.

Ac aml angel o'r uchafion fry ar aden corwynt o ogoniant ddaw
 I archu sobrwydd—fod gosgorddawg lu y farn mewn trefn a'i llum-
 A'r nef yn arllwys ei thyrfacedd gwawr [an hi gerllaw,
 I'r gwagle maith ororau
 Sy'n agor eu holl ddorau
 I dderbyn ser y borau
 Fyrdd i lawr.

Y mae olwynion amser yn llesghau, a'r haul yn codi'n araf fel i farw,
 A nefoedd prudd o waed am dano'n cau; a beddau'r bydoedd yn y
 Yn lledu eu hanfeidrol ddorau draw. [tryblith garw
 A daw y dydd i fyny,
 A'i rod mewn barnau'n glynu,
 A'r olaf awr yn crynu
 Yn ei law.

Mae'r gwyll teimladwy sy'n amgylchu'r bedd
 O ddydd i ddydd yn teneuhau, fel niwl
 O flaen dyfodiad pell yr haul,
 Pan lif y boreu o ffynhonnau'r wawr
 Hyd awyr draeth y nef. A gorsedd drom
 Marwolaeth welaf yn gogwyddo dros
 Ymylon amser, fel treuliedig graig
 Ar lechwedd pellaf byd;—bys yr anfeidrol
 Gyffyrdda â hi, a'i anadl arni ddaw,
 A threigla i eigionau anghof mwy,
 A'r adgyfodiad fydd.

Teyrnwialen angau wywa yn ei law
 Fel diffrwyth gang o danllyd wigoedd uffern
 A felldithiasai Duw. Y mae y byd
 Yn paratoi i dderbyn Ior a'r Farn.
 Mae'r bryniau yn cenhedlu yn eu bru
 Elfennau eu dymchweliad. Eilwaith rhed
 O'i galon fawr o dân-fynyddoedd draw

Ei lifwy ar eangawl gylch, ar ol
 Praffhau a cheulo oesoedd fil o fewn
 Ei fryniog graig-wytheni; eilwaith llif
 O dan gynhyrriad uchel farnau Duw.
 Llifeiria trwy ei holl ogofau allan
 Fel berwol waed y ddaear euog hon
 Ar olaf allor amser, i ddileu
 Euogrwydd oesoedd, a dyhuddo llid
 Y gwawriol dragwyddoldeb. Seion deg
 Fry ar ddaeargryn gipir tua'r nef
 I weld ei Duw o bell, a'r gwagle fel
 Afonydd o oleuni ar ei ol.
 A'i law ei hunan ysgrifenna Ior
 Feddargraff olaf amser oddiar
 Weddillion adail fawr y greadigaeth
 A llythyrennau wedi eu torri i maes
 O echyl mwya'r bydoedd.

Ogylch bydd

Daeargrynfeiau a sergrynfaoedd fil
 Yn cymysg sail a gortho creadigaeth—
 Ei sail o g'eig, a'i llathraf do o ser—
 Yn un anferthol adfail ar ymylon
 Diddymdra, wagle pell, i anadl Ior
 Eu hysgwyd dros yr erchwyn uthr i lawr
 I ddyfroedd oer Letheaidd anghof mwy,
 Lle mae diddymdra'n treiglo'i araf fyr
 Dros graig oer amser gan orchuddio'r oesoedd
 Fel cregin brau llawn o adseiniau gweigion
 Sy'n tyfu drosti'n fyrdd.
 Ystorum fawr fydd Natur oll-bryd hyn
 Ac anadl Ior ei hysbrydoliaeth hi,
 A phell odreon ei gaddugwisg farn
 Fydd ei chymylau duon fry, a swm
 Adenydd ei angylaidd osgordd fydd
 Ei gwyntoedd yn y nef,
 A ffrwydriad bydoedd ei tharanau croch.
 Y bore hwnnw daw yr haul i'r lan
 Fel bugail llesg dros fynydd aur y dwyrain
 I weld ei gorlan fawr o fydoedd fry
 Yn cael eu gwasgar yma a thraw ar hyd
 Anialwch erch y gwagle, yn nhymhestloedd
 A rhaib y tryblith wyntoedd, pan y rhoir
 Y greadigaeth gyfan yn eu llaw
 Fel fforest fawr i'w rhwygo, lle y bydd
 Pob colfen frau yn fyd.

Mae'r Dymhestl Olaf yn dechreu taranu,
 Mae'r fflam las yn dringo pileri y byd,
 Mae seiliau'r mynyddoedd tragwyddol yn llaesu
 A'u bannau fel Etna anfeidrol ei hyd.

Mae'r ddaear yn sefyll yn drom ar ei hechel,
 A saif holl olwynion y bydoedd uwchben,
 A Ior a ysgydwa yng ngwynt ei ddigofaint
 Y bydoedd fel cawod o aeron drwy'r nen.

Agorwyd y porth tua gwagle Diddymdra,
 A miliwn o fydoedd gydruthrant i'r adwy,
 Ogoniant ofnadwy!
 Yr haul gyda'i dorf o blanedau ddilyna.

Deffroa y byd—mae y meirw yn deffro
 I gyd yr un bore, yn nerthol fel duwiau,
 Mae Udgorn y Bywyd o'r nefoedd yn seinio,
 A'r daran ddiweddaf yn rhoddi enul angau.

Marwolaeth a egyr ei byrth, mae holl furiau
 Ei garchar gordywyll yn syrthio bob llaw;
 Mae'r dorf o waredigion yn esgyn i'r wybrau,
 A bro y cymylau yn llanw draw.

Ynsoedd a doddant i ganol y weilgi,
 Mae'r creigiau o amgylch y moroedd yn toddi.
 Clyw'r môr yn neshau at y glannau taniedig,
 Gan ferwi ar wely o greigiau toddedig.
 Fel cronglwyd o dân ymestynna y nefoedd,
 A deffry y daran gan fwg yr uchafoedd,
 A rhua o bell fel angelgawr mewn poenau
 Fai'n cerdded yn droednoeth dros danllyd fynyddau;
 Mae'r llewod yn rhuo ar farwor y goedwig,
 A genau eu ffau gan y fflam yn gauedig.
 Agora'r Daeargryn ei safn newynllyd,
 A hanner y byd ni ddiwalla'i foreubryd,
 Fe gwyd ar ei ysgwydd y ffrwythlaw'n ddyffrynnoedd
 Nes syrth eu hafonydd fel rheieidr o'r nefoedd.
 A thaniwyd y byd i oleuo yr Eglwys.
 Trwy wagle'r gre'digaeth, i mewn i Baradwys.

Y STORM.

XIV.

Diwedd yr Ystorm.

MAE 'n bryd i'r storm dawelu, mae yn bryd
 I ninnau orffwys wedi teithio cyd
 Ar hyd fynyddoedd byd, mynyddoedd bod,
 A ffordd yr ysbryd hyd ei bellaf rod.
 Ystorom ydoedd, ac a fernir dyn
 Am gollu ei ffordd yn hon, a cholli ei hun?
 Nid yw y gwynt yn rhwymo ei hun wrth reol,
 Chwi wyddoch, nac yn sylwi ar beth lleol.
 Ac nid oes gan y byd am dano nef,
 Nac wybren ddigon llydan iddo ef.
 Hardd wisgoedd daear yw y nennau i gyd,
 Mae'r storom yn eu rhwygo ffwrdd mewn llid.
 Fe fyn ei ffordd, O nerthoedd y caeth-lennau,
 Pe taflech chwi yr Wyddfa oll i'w enau
 Gan ruo a tharanu,—“Cymer hwn
 Am feiddio cerdded dros y wlad heb bwn,
 Dos ymaith! ymaith fyth a'th afterw udsain
 Neu dod dy holl alluoedd ar gydsain.”

Y gydsain bêr

Geiriau a'u ser,—

Pwy 'riodd deimlodd feddwl, pwy welodd ei wawr?

Mae y geiriau yn hysbys fal llys ar fol llawr.

Och, gwelwch eu gwawr,

A sugnwch eu sawr,

A llyfwch y llawr,

Mewn bywyd mae'n bawr.

Fy mrodyr, nid yw'r gwynt o'r meddwl hwn,

Ac nid yw'ch gwasanaethydd hoff, da gwn.

Peth ofer mwyach fyddai cynghaneddu,
 Ar ol yr hyn a fu ni fyddai'n gweddu.
 Ond peidiwch chwi a synnu (*maddeu'r ud-sain*)
 Os bydd ystorom eto ar bwnc y gydsain.
 Y llwybr goreu o'r cwbl, debygem ni,
 (Mae'r llinell hon yn arw, ond ffwrdd â thi)
 Y goreu lwybr o'r cyfan, ni debygem,
 Ac yma eich cydsyniad atolygem,
 Ac os na roddir ef ni awn ymlaen
 Os nid er mwyn y synwyr, er y sain;
 Oblegid rhaid fod sain yn beth o bwys
 Can's rhaid i'r enaid ganlyn yn ei gwys.

O bwys? Pwy wadai hyn oddiar pan roed
 Yr enaid mewn cadwynau wrth ei droed?
 A pheth mae'r daran draw yn cynghaneddu?
 Fe all fod bloddd rhyw seren yn cydweddu.
 Fe synnai'r mynydd garwaf acw, gwn,
 Pe dwedwch nad yw ond anurddo'r byd
 Oblegyd fod ei led, uchder, a'i hyd
 Ronyn neu ddau neu lai, yn llai na hwn.
 Y mae'r mynyddoedd o amrywiol uchder,
 Ond pwy na wel mai hynny yw eu gwychder?

Y ffordd debycaf i ryddhau yr awen
 A pheri iddi fod byth mwy yn llawen
 Oedd archu iddi esgyn gyda'r gwynt
 A gweld y greadigaeth ar un hynt;
 Y peth yw'r gwynt a'r stormydd yn eu llwybrau
 Bom ninnau trwy farddoniaeth a'i holl wybrau.

Gobeithio na fu yma dorri ar eiriau,
 Ni fynnem hynny mwy na thorri esgeiriau.
 Mae asgwrn bach o air, fe wyr y nifwl,
 Yn fwy o werth nag angel o ddrychfeddwl.
 Bellach, O eiriau nerthol, dewch i lawr,
 A rhodied meddwl o'r carchardy mawr.
 Lle na bo meddwl, gwir, mae gair yn rhywbeth
 Ond clyw-beth.

Y meddwl yw y mellt a'r daran fawr,
 A'r gwlaw sy'n dwyn y nef ei hun i lawr,
 A'r ser a'r duwiau fel argawod fawr.
 Boddloned geiriau o chant ffurfio mwy
 Ryw gwmwl-gerbyd i'w gogoniaint hwy.
 Tu draw i feddrod amser a'i holl fydoedd
 Bodola meddwl fyth yn Nuw a'i nefoedd,
 Pan na faidd geiriau na lleferydd mwy
 Fyth dorri eu hanfeidrol syndod hwy.

Dywedir in o'r carchar, "Fe wnaeth rhai
 Orchestion yn y gadwyn yn ddi-au?"
 Heb au mae'n wir, a boed ei hyd a fyddo,
 A dedwydd yw y cof a'i hadnewyddo.
 Ond ymha fodd y rhagorasant hwy?
 Y cawsant un o fryniau barddas mwy?
 Dywedwch in yn ddiau, yn ddi-au,
 Ai nid trwy geisio codi ac ymryddhau
 Dringasant i'r gref awel arnynt gaed,

A chyda'r haul a'r nefoedd ffwrdd yr aed?
 Ond och, yr oedd mynyddoedd am eu traed
 Yn sicr wrth bob gwraidd a ban ac ogo,
 Ac nid oedd ond codymu a dweyd "*No-go,*"
 A siarad bellach mewn tywyllwch mawr
 A chwympto ar bob clawdd a ffigr a phawr.
 A dedwydd fyddai'r dynged pe gallasyn
 Led-ddewis bellach rhwng y gwŷr a'i asyn.

Dos, awen bellach, cân ar ben y graig;
 Ond paid a'i chario gyda thi pan fot yn croesi'r aig,
 Y môr o feddwl sydd a'i ddyfroedd pur
 Draw, draw i fyny ar y dwyfol dir
 A'i lannau fel yr haul ymhell a chilir;
 Môr anfarwoldeb, sydd ryw bryd yn doddi
 Yr enaid ar y fan
 Lyfnedig a di-lan

Lle bu ystormgraig angau yn ymgodi
 (I uchder pennaf, pennaf obaith dyn)
 A gasglai wyntoedd amser oll yn un.
 Bydd rydd! bydd fawr! boed lydan fel y nefoedd
 Dy enaid oll i dderbyn o'r pellafoedd
 Y rhyfeddodau agoshaol sydd
 Yn dechreu codi yn yr enaid-ddydd.

Dos ymaith, cân, agora nen ar nen.
 Anturia ym mhob byd, tu fewn i'r llen.
 Ond paid a chodi'r Wyddfa ar dy ben.
 Mae eisiau, gyda'r ser, anghofio'r Wyddfa,
 Hi fyddai yno uwch ei holl arglwyddfa.
 Prin digon, gwyddoch, ser, y cadwn ni
 Y corff am danom ar eich cylchoedd chwi;
 Os gellwch chwi anadlu ein teinladau
 O eiriau, yn ein henaid-gynhyrfiadau
 Pan fyddo mewn-fôr o feddyliol donnau
 Yn mawrwych godi rhwng y nef â'n bronnau,
 Mil croesaw i chwi ganlyn; ond, gyfeillion,
 Na thybiwch fyth ein harwain fel gwŷr deillion.
 Mae peth gwahaniaeth rhwng y mwn a'r meillion.

Mae amser a'r holl fyd yn newid beunydd,
 A newydd wedd bob gwanwyn ar y gweunydd.
 Pa hawl sy gan un bryn i ddweyd,—*Myfi*
 Yw pennaeth anian a'i chanol-bwynt hi

Weithredoedd daearegol—safent mwy,
 Mi yw eu cynllun a'u perffeithrwydd hwy."
 Fe godai'r byd, debygem, haen ar haen
 Yn sicr a mawreddog fel o'r blaen,
 Gan ddwyn rhyw lawnach arwedd ar bob codiad
 A moroedd uwch, a bryniau uwch eu rhodiad.
 Nid yw y byd a'i foroedd gorhelaethion
 Yn caru troi yn ol mesurau caethion;
 Ac os yw'n wir am ddaear wael, O, drymed
 A fyddai im' eu tafu hwy am gomed.
 Fe fyn y ddaear fynd, gyfeillion bychain,
 Pe safech chwi o'i blaen fel llu o ychain
 Gan ruo am fesurau mwy cymedrol
 A llwybrau peth gweddusach na rhai cledrol.
 Fel hyn y mae. Fe fyn y ddaear droi,
 A'i moroedd a'i mynyddoedd gyda hi ffoi
 Trwy oesoedd ar ol oesoedd yn bur fanol
 A'i llygad ar y perffaith yn y canol.
 Newidia yr afonydd eu gwelyau,
 Y maent yn chwilio am ffyrdd gwell mae'n ddiau,
 A dodwa'r gwagle beunydd ryw fyd-wyau,
 A gwych o beth yw hyn—ond dyma'r swmbwl,—
 Paham y safai dyn ar ol y cwbbwl,
 Ar ol y cwbbwl, ar ryw ganrif bell,
 Yn fawr ei drwbbwl na ddoi'r oes yn well
 Trwy ddychwel lle ymdagodd yr holl bethau
 A fu o'i flaen, bro anghof a'i lawethau?
 "Fel hyn y dylid canu." Pam? "Fel hyn
 Y canodd Neli Wen neu Oli Wyn."
 A phwy oedd Oli Wyn? "O, rhyw greadur
 Na fu ei fath yn gyrru trol neu bladur."
 Ond pwy oedd Oli Wyn? Mor sicr a'm mhen
 Rhaid dweyd nad oedd ond brawd i Neli Wen.
 Mae'n rhyfedd fod yn rhaid i oesoedd dalu
 Gwarogaeth i un Nel ar ol ei malu.

Bydd rhai yn digio, ond fe ddigiai rhai
 Pe dwedem ni fod llo a llo yn ddau.
 Bydd rhai yn teimlo awydd i daranu
 A bythol glirio ffurfafennau canu,
 Gobeithio'r ym er mwyn ein pennau gweiniaid
 Na fydd yr hynt yn storom o gydseiniaid.
 O bob ystorm y pennaf yn ei hyllwch
 Yw honno sydd yn symud mewn tywyllwch.
 Gobeithio, os na welir gwawr y wennol,

Na fydd yr haul a'r synwyr yn absennol.
 Yn awr, Gydseiniaid, y mae gennym beth
 I'w ddwedyd wrthych, craffwch yn ddi-feth.
 Y mae gwrthryfel yn y barddol dir,
 Ac mewn gwrthryfel y mae dweyd y gwir.
 Mae'n rhaid i chwi ddistewi. Nid yw'n deg
 Fod gorsedd yr arglwyddiaeth yn y geg.

Daw adeg ar farddoniaeth na fydd un
 Gyfundrefn gaethol o fesurau blin.

Na deddf

Ond greddf,

Y ddwyfol ddeddf o oll-bereiddiol rin
 A orwedd yn yr enaid mawr ei hun;
 Y ddeddf osodwyd ynddo ef gyferbyn
 A holl weithredoedd Duw, ei hawl a'i allu i'w derbyn.

Ddedwyddaf adeg, pan lifeiria cerdd
 O'r enaid pur fel firwd o'r goedwig werdd,
 Mor beraidd fyth, mor baradwysaidd rydd,
 Fel dŵr ar hyd y ddôl, a than y gwydd;
 Pan welir ar ei holl feddyliau ef
 Oleuni'r gwllith, a glas a dwfn y nef;
 Pan na fydd caethder ond y caethder sy
 Ar ffordd y môr ger bron cyfandir hy,
 Ar ffordd llifeiriaint yr afonydd draw
 Pan gauo'r bryniau ar ei hynt bob llaw,
 Y caethder sydd ar ffordd y daran hy
 Pan deimlo yr anfeidrol allu fry
 A'i am-gyffyrddiad ar ei rholion hi;
 Pan fydd holl ddeddfau barddas yn rhy bur,
 Rhy fewnol i'w hesbonio fyth yn glir,
 A'u rhoi i lawr mewn geiriau fel y gallo
 Y dwl eu hefelychu pan ddeallo.

Barddoniaeth, O Farddoniaeth! Pwy a roddes
 I neb awdurdod ar y fath angyles,
 I bennu dy derfynau? Ymaith, Reol!
 Ffowch, ddeddfau dynol! Rhowch i hon dragwyddol heol.
 Mae'n pasio oesoedd fyrddiwn yn ei brys,
 Mae'n rhoi modrwyon Sadwrn am ei bys
 Fel arwydd ei phriodas â'r tragwyddol,
 Y pur, y pell, y perffaith, a'r anfeidrol.

Fe enir bardd ryw ddydd a wawdia ddeddfau,

A lunia'r gân yn ol rhyw ddwyfol reddfau;
 Maluria Babilon y cynghaneddion,
 A'i anghydmarol lwydd ddilea ddeddfau caethion.
 Gorffennir galw barddas yn gelfyddyd
 Pan ymollynga i dragwyddol ryddid,
 Pan edy lyn cynghanedd am y moroedd
 Lle mae pob ton yn fyd, a'r lan yn nef y nefoedd,
 Y moroedd lle y cyfarfyddir weithiau
 A llynges o angylion ar eu teithiau.

Fe enir bardd ryw ddydd—O doed yn fuan!—
 Fe chwal y beirniaid fel y chwal yr huan
 Gymylau'r nos o'i flaen; bydd beirniaid bychain
 A mawrion, yn ei ddilyn ef, fel ychain
 Yn dilyn comed fry; a'u gwaith bryd hynny
 Ym môr ei swynion fydd mawrhau a synnu.
 Maddeued im, pan ddelo'r bardd nefolaidd,
 Am imi ganu weithiau mor *reolaidd*.
 Fe all y dengys yntau ambell awr,
 Pan ddelo arno rhyw hwyl chwerthin fawr,
 Ei fedr ar gynghanedd, pan na fyddo
 Ond meddwl bach di bwys i'w osod allan ganddo.

Fe'm ganwyd i ym mlwyddyn y *Reform Bill*,
 A dyna pam yr wyf yn dwyn ystorbil
 Mor hyf i mewn i'r Senedd Awenyddol,
 Er dychryn i Doriaid mân-brydyddol.



YSTORM AR FYNYDD ISLWYN.



Y GLYN,—CARTREF ISLWYN.

CARTREF.

Y cartref bore.

IS goleuni glwys gloewnef—Eden deg
Dan do oedd fy nghartref;
Liw nos, ai ymyl y nef—a welwyd
Yn fy mreuddwyd, oedd fy more haddef?

Mae cofion am dano'n dod
I'm monwes â grym hynod,

Ac aml awr cwmwl hiraeth—a dorra
Uwch dwyrain bodolaeth;
Diau'n nos ei gysgod wnaeth
Holl nawn gorllewin henaeth.

Hen wr wyf ar fin yr afon—olaf;
Ai'm hanwyliaid ffyddlon,
O'r tu hwnt i rydau hon,—glywaf fi
I'm croesawu, o'm cur, i Seion?

Aelodau'r hen le ydynt,
Ie, o'r hen gartre' gynt!

K

Er eu bod uwch marw byth,
 Yn dal coronau dilyth,
 Yr un byth er eu hoen bêr
 Yw tôn eu lleisiau tyner.
 Fy chwaer Ann wrth fy ochr i
 Sy'n f' aros, a niferi
 O anwylion fy nghyn-helynt
 Wnaent yn nef fy hen gartref gynt.

Llawn o buredd fu 'nghyfeillion borau,
 Llawn o gariad, y cyfeillion gorau,
 Dichwerwedd, fu'n cydchwarau—mor ddedwydd
 Trwy eu gilydd, ger y cartre golau.

Ceir trafod aml gartrefi
 Mewn oes—ond, i 'monwes i
 Fe bair y cartref borau—hyd henaint,
 Er llu o geraint, drwy'r oll y gorau.

Diau y Seion—aelwyd swynolaf—
 Ydyw, a'i nodwedd y diniweidiaf;
 Yr hen dŷ gwladaidd—pery y puraf,
 Erys fyth fel Salem yr oes feithaf;
 Rhyw siom i deimlad yw'r symud amlaf,
 Rhyw aeth ac antur blin wrth y cyntaf.
 E barha y boreuaf,—ac ato,
 Wedi chwilio y byd oll, dychwelaf.

Fy nhad anwylaf, enaid ein haelwyd,
 Yno'n gyfoeth o gariad in' gafwyd;
 Y wialen ni welwyd,—heb air erch
 Llywiau o burserch yr oll heb arswyd.

Am y fam! Y fam! Pwy fyth
 A gaf i'w lle'n dragyfyth?

Pe unid cariadau pennaf—y byd
 Bawb oll yn ddianaf,
 Y hi yn rhagori gaf,
 I mi na'r nifer mwyaf.

Cariad mam, cred, yw y mwyaf;—cura
 Y cariad tyneraf;
 Llyma im' gèd, os llaw mam gaf,
 O! llaw angel a ollyngaf.

Brodyr y tirion brydydd
(Ba dda son!) yn y bedd sydd.

Elisa ei chwaer lwyswen—a roddwyd
Is y bruddaidd ywen;
Ei harwyl hi fel oer len
Ordoai'n cartre di-wen.

Cartref y morwr.

Y fath swyn tragyfyth sydd
Yn llenwi cartref llonydd!
Ar hyd dragwyddolgyd o ddwr
Dyma hiraeth mād y morwr;
Ar ddyfroedd fyrdd, ei efryd
Wna bwyntio yno o hyd.
Cartref i hwn yw'r pegwn pur,
Nod ei gais, enaid ei gysur.
Mae synied am ei swynion
Hyfryd ef, yn lleddfu'r don.
Merchyg y gwenyg gwynion
Yn eu llid, dan ganu'n llon
Ei gân hynod gynhwynol
Wrth gofio'r gun un sy'n ol;
Wrth gofio ei berth gafell,
A'r rhai bach, yng Nghymru bell.
Breuddwydia yn beraidd wedyn,
Am Nef, sef ei gartref gwyn;
Cenfydd ei wraig ufudd gain,
A'i mir agwedd mor hygain,
Mor hardd a'r bore arddun
A wnai o ddau ddedwydd un;
A'i saith o'i chwmpas weithion
Yn ymglymu, llamu 'n llon;
Pum mil o hir filltiroedd,
I'w wyllt hwyl ef, lled dōl oedd.
Tybiai'r fordaith faith, o'i fodd,
A'i dyryswch oll drosodd;
Gwelai Gymru gu ei gwedd,
A'i gun wyngalchog annedd
Yng ngolwg, a'i saith angylion
Anwyl ef, ac ei Wenno lon.
Ar y gain eurwawr 'e gwyd
Yn bruddaidd—dim ond breuddwyd!

Cartref y bardd.

O! yr hoen y sy ar nos o auaf,
 Ar fad aelwyd y cartref tawelaf,
 Tra mawr yw ynni y storm erwinaf,
 Ar rwygfawr hwyr y du Ragfyr oeraf;
 Yn fy nghy mi a fwynhaf—y tyrfau
 Fel amleisiau o'r per fawl melusaf.

Mae yn rhyfedd hymn yr afon—o bell!
 Mor bur yw'm myfyrion!
 Onid yw awen y don,
 Ar daith o gariad weithion
 O'i dwfn hedd, yn cydfwynhau
 Mewn hoen â'm hawen innau?

Un ffenestr fy hoff annedd—addurnir
 Gan iâ-ddarnau rhyfedd,
 A byd celfyddyd ni fedd
 Ddarnau o'r fath addurnedd.

Er lliwiedig ffenestri llydain,—gwaith
 Y gelf fwyaf mirain,—
 A'i hia oer, oer, ar y rhain
 Rhagora'n ffenestr gywrain.

'E daenodd Duw ei hunan—eiry len
 Ar lawr y byd cyfan;
 Syllaf yn ofnus allan,—O! sanctaidd
 I'w Duw, a llunaidd, yw pryd holl anian.

Mor dda i mi a'm priod,
 A'm plant bach bellach, yw bod
 Ar aelwyd o'r siriolaf,—
 Mae gwae'n hoen, mae gaua'n haf!
 Syn fwynhad cyferbyniad yn bennaf
 Ydyw achos y dedwyddydd uchaf;
 Os trwm oddallan y stormydd hyllaf,
 Oddifewn mae y tangnef addfwynaf;
 Tirion y cartre yn haf,—mae'n dyblu
 'N awr, mae'n Ne gu yn nhrom hin y gauaf.

Eitha byd efo'm saith bach—a fwynhaf,
 Nefol yw cyfeillach
 Fy mir do, fy mhriod iach,
 A'm hawen—pa raid mwyach?

Canaf tra'r glo yn cynneu,
 Mae'n gu reddf i'm hawen greu
 O flaen yr olygfa lonydd,
 A'r swyn o fewn cartre y sydd.
 Llunio englyn sydyn sydd
 Yn hoen i fron awenydd;
 Mae fel prid angel yn dod
 O lachar gwmwl uchod.
 I mi, wr lleddf, O! mor llon
 Yw nyddu cynghaneddion
 Y gywrain awdl, ei gwau'r nos
 A 'nhirion wraig yn aros
 Gan wau'i hosanau, mor swynol—ei gwên—
 A bore y deisen briodasol!

A! Gwen, y mae llawer gwyneb
 Anwyl, is y dywarchen wleb;
 Ni thâl y genhedlaeth hon,
 Fe allai, yn gyfeillion;
 Oes! i ni mae oes newydd
 Wedi dod; rhyw syndod sydd.
 Y didor newidiadau—a gafwyd!
 Yr engyl a huddwyd! Yr angladdau!

Eto, 'r un wyt, O! 'r Wen hoff
 I mi'n wir, fy mun orhoff.
 Yr un mor gun, fy ngwraig ŵyl,
 Wyt yn hen eto'n anwyl.

Cartref y milwr.

Durfron gadfridog dewrfryd,—sy â'i wg
 Yn ysigo'r hollfyd,
 A braw ar ei lidiog bryd,—a chadarn
 Fraich o haiarn fel ei fawrwyh hewyd,—

Ger ei aelwyd, y llyw gwrolaf—geir
 Yn gariad o'r mwynaf,
 A chawr gwg yn chwareu gaf
 Hwnt a'i engyl blant iangaf.

Yn y wain y gwron hyf
 A gladd ei waedlyd gleddyf;
 Dyry ei wn a'i darian
 I'w wraig bert i'w crogi ban;
 Teganau ei blant gwynion
 Yn eu lle drefna yn dra llon.

Fe'i myn hi, y fam, yn nes,
 Gan ei chofleidio'n gynnes;
 Ol ei seiniol gusanau
 Sy glws ar ei gwefus glau,
 A dywed hi yn dawel,—
 "Wyt i mi fel hanfod mêl;
 Swyn medd yw dy gusan i mi,
 Yn mas hufen, mêl, a syfi."
 Ah! melus gweld y milwr
 Yn troi'n ol i'r tirion wr;
 Gwroldeb yw i gawr ildio
 Yma i gariad rhad am dro,
 Rhoi 'i hun i'w fun i fyny,
 Caeth i'w buddugoliaeth gu.

Cartref y Brenin.

Yng nghartref, y teyrn hefyd
 A geir fel ninnau i gyd;
 Y frenhines fron anwyl
 Yma wna waith mam yn wyl.
 Ni raid gwisgo'r ddrud goron
 I wneyd cartre yn lle llon;
 Dim ond hoffder tyner tad,
 A gŵr yn llawn o gariad.
 I'w fawrhydi afreidiawl
 Gorseddfainc a mwyngainc mawl;
 Deganau! nis digonant,
 A'u swyn,—pa les wrth swn plant!

Y deyrngadair hyna a godwyd,
 Y fwya ardderchog fry a ddyrchwyd,—
 Mwy o hoen gorhoen a gwyd—heb ddwndwr
 I gadr reolwr o gadair aelwyd.

Nadolig.

Gwyliau Nadolig, gwel lawen deulu
 Yma o diroedd pell yn ymdyrru,
 Pa allu dawn, pwy all dynnu—'r darlun?
 O, megys un maent yn ymgusanu!

Nid oes ond seiniau croesaw
 Cyfarchion llon ar bob llaw.
 Hyd eto ceir y tad-cu,
 Sy a'i henaint i'n synnu,
 Adref yn ei gadair fawr
 Ar ei aelwyd siriolwawr;

Y mae unwaith mwy yno—yn ei hawl
A geiriau grasawl i'w gwir groeso.

Wele y Pren Nadolig—i'r rhai bach
Ar y bwrdd derchedig,
Yn odiaeth addurnedig,
A difyr oll hyd ei frig.

A chelyn gwyrddrych eilwaith—ar y mur,
Mal arwyddlun perffaith
O gariad a'i ragorwaith
O'i rym hir, o'i bara maith.

Cartref tragwyddol.

Truenus yw cartre annuw,
A dinawdd os na adwaen Dduw.
Nid oes arno do a dâl,—na thestyn
O'i fewn i ganu, na sylfaen i'w gynnal.
Bo allor i Ior, bellach,
Tra fwy byw, 'n fy nghartref bach!
Bob borau emynnau mawl
A seinio o 'nhy swynawl.
Engyl yn f' ymyl a fydd
Yn bennaf noddwyr beunydd,
Tra elo mawl nefawl o 'nhy
O fonwes dduwiol i fyny.

Tŷ eich sant, O! tŷ uwch siom—o bob rhyw,
Tŷ bywyd ydyw “tŷ Obededom!”

Ah! nid erys un cartref daearol
Am hiroes ini oll, er mor swynol—
Nid yw'r haddef ond amnaid arwyddol,
Cysgod isod o gartref cydoesol
A Nâf ei hunan—yr anherfynol,
Cartref y wen loewnef anifflannol!

Sef y nef,—“orffwysfa'n ol,”—
I ryfedd dorf afrifol.

E fu Iesu fyw isod,
Iachawdwr, yn wr di-nod;
Galw'r nef yn eglur wnaeth
“Tŷ fy Nhad,” Ô, fan odiaeth!
Duw yn Dad, bywyd yn do!
Iesu i hunan sy yno!

Gŵyr ef pa gartref sy gu
 I ddyn—beth wna'n diddanu.
 Gŵyr Iesu (bu garw isod
 Hyd y bedd ei ryfedd rod),
 Gŵyr ef ba nef wna i ni,
 Y llawenydd wna'n llonni.

O'i isod gartref odiaeth,
 Bethania, i'r Wynfa'r aeth,
 I bartoi'n yr wybrau teg
 Eildo, cartref bytholdeg.

Ba les i Mair balas mwy,—o fawredd
 O ryw loew nodwedd anarluniadwy,
 Nac i Martha ferth drafferthus—
 Ba les yw yr oll heb Lazarus?
 Bydd Israel yn wael ei wedd
 Heb ddau o'i feib i'w ddiwedd;
 Pa hoen mwy heb Benjamin,
 Heb Ioseff ei fab iesin?
 Heb Ionathan, ba nyth hoff
 I'r pêr ganiawdwr purhoff?

O, Ti, fy Nuw, Crist fy nhŵr,
 Ti, Ti yw'r Parotowr!

Bydd fy Ann eilwaith, bydd fy anwylion,
 Fy merth wiw Dora, fy Martha dirion,
 A'm holl, O! f' holl gyfeillion—fry yn saint
 To maith o geraint, i emu'th goron.

Melus yno fydd ailuno
 Uwch ymado na cham wedyn;
 Cael byd gwell, cael bywyd gwyn,
 A dedwyddyd y Duw-ddyn.

Gydag ef gwedi y gofid—yn nhref

O felus gartref olaf
 Yn nhŷ ac ar fyuwes Naf!



TY'R AGENT,—LLEGANWYD ISLWYN.

FY NHAD.

TYRD, ysbryd yr alargerdd, atat ti
Y mae fy llef, a'm holl ddymuniad mwy.
Dy bruddaidd ysbrydoliaeth yw fy nghais,
I mi fwynhau y byd a fu drachefn
Yn adgyfodiad adgof, onid el
Y bywyd yma heibio ac y daw
Y bywyd arall a'i dragwyddol bwnc,—
Y Duwdod wedi eglurhau ei hun.

Arfaethwyd gado dy ddwyfoldeb, fyd
Y sydd a'i ddyfroedd o dawelaf bryd
O risial anfarwoldeb, a'i fynyddoedd
Yn derbyn ymweliadau angylion nef y nefoedd,
A golau tragwyddoldeb ar ei fannau,
Ac arall fyd fel môr mawreddus ar ei lannau,—
Arfaethwyd hynny, ond danghosodd rhod
Rhagluniaeth im fod arfaeth uwch yn bod.

Yr ydwyf yma eto, fryniau oerion,
Yn sylu arnoch. Chwi yn unig, weithion,

Adwaenaf o wynebau'r dyddiau fu,
 Caf oll yn ddieithr yma onid chwi.
 Dywedwch rywbeth wrthyf. Llawer meddwl
 Daffasoch imi o'r tu draw i'r cwmwl.
 Pa fodd y cauwyd y cymundeb borau,
 Ac y distawodd yr angylaid gorau
 A hoffent suo gynt o fan i fan
 Pan ddelai ymyl eilfyd mewn ffin o ser i'r lan?

Ni fuwyd oddicartref wythnos lawn,
 O na fuasai lai o un prydawn!
 Pa le yr oeddych, ysbrydolion pur,
 A welwn weithiau ar ddedwyddaf dir
 Y breuddwyd aur, a goror bell y gân,
 Pan fyddo'r nef uwch ben â myrdd o ser ar dân;
 Yr engyl sydd yn gwasanaethu dyn,
 Pa le yr oeddych na allasai un
 Ddywedyd wrthyf am ei ing diweddaf,
 A sisial imi ei ddymuniad olaf—
 Ei olaf gais yng ngrym y storom arw
 A'r afon ddu—*fy ngweled cyn ei farw?*

Yr oedd y gadair yno yn ei lle,
 A'r ffon fel ninnau yn ei ddisgwyl e.
 Ymledai'r waen yn lās o gylch y tŷ,
 Ond cartref nid oedd yno mwy i mi.
 Ac nid adwaenwn braidd y bryn gyferbyn
 A fu fy nghyfaill pennaf lawer blwyddyn
 Ym myfyrdodau Anian, pan glustfeiniem
 Pa adsain o dragwyddol fyd a glywem.

Nefol-gaer Gobaith, geir o gylch y galon
 Yn ceisio dal ynghyd, dan warchae o drallodion;
 Do, do, cyn hyn dderbyniodd lawer adwy
 Ollyngodd ar yr enaid nerth ofnadwy
 O siomiant ac o wae. Paham y ceisiai weithion
 Ymddal cyhyd, a chuddio ei adfeilion?
 Ymollwng mwy. Mae tynged wedi profi
 Mai ofer yw gobeithio lle mae angau yn teyrnasu.

Ddieithriol gyfnewidfa! Mae y byd
 Sydd o fy mlaen yn newydd im i gyd,
 Heb ar ei angylchiadau un goleuni
 All roddi awgrym fod y ser erioed yn perthyn imi;

Byd arall yw, a gerddir heb arweiniad
 Y llaw a gaed fel perffaith arlun cariad.
 Pa beth ei galwaf,—y tynerwch hwnnw,
 Y gofalgawch sydd goruwch pob enw
 Fel pob peth dwyfol, y teimladrwydd tirion,
 Y fynwes ail, y galon o fewn calon,
 Na edwyn onid tad? Pa beth all ei egluro?
 A! rhodio'r byd am onid wythnos hebdo.

Diflannodd swynion y boreuol fyd;
 A Seren Cartref o farddonol bryd,
 O gylch yr hon y carai engyl hedd
 Ymhongian gynt, machludodd yn ei fedd.
 Ffarwel, ffarwel, ddelwyddion bore oes!
 Rhaid newid mwy y breuddwyd am y groes,
 Yr hwyl nefolaidd am y gofal prudd,
 Y seren bell am sorod gwael y pridd.
Rhaid gwrando bellach pan y galwo'r byd,
 A'i alw i mewn, fu wrth y ddôr gyhyd;
 Mae'n ofer edrych tua'r gadair fawr
 Am un ofalai am bob peth bob awr.
 Rhaid gado mwy borthladdoedd bore byd,
 Aberoedd gobaith a barddoniaeth brid,
 Lle na adwaenwn o ofidiau bywyd
 Ond sw'n y llanw yn y pellder hyfryd,
 Rhaid myned allan bellach gyda'r dyfroedd,
 Ymollwng i ystormus fyd, o lannau fel y nefoedd.

O annedd dlos yng nghanol gwyrdd y meusydd,
 Rhaid canu'n iach i'th swynion yn dragywydd;
 Y nant,—mi hoffaf fyth dy gysgod di,—
 Rhaid canu'n iach i'w hysbrydoliaeth hi.
 Ond O, arosed bythoedd yn fy nghofion
 Dy furiau oll, a llun dy aelwyd dirion
 Yn berffaith fel yr oedd, a delw y wyneb
 Oleuai'r oll yn forau o sirioldeb.

O faith welediad adgof na ddiplanned
 Un maen arwyddol o fy more dynged;
 Blagured mebyd eilwaith yng nghrog-erddi
 Nefolaidd adgof, blanna engyl inni.
 O bydd yn hyfryd gweld y golygfaoedd
 Draw oddiar yr olaf o'n blynnyddoedd;
 Bu yr olygfa'n fwy na dynol inni,
 Fe fydd yr oll yn ddwyfol erbyn hynny,

Ac O, os gwelir tuag hwyrdydd bywyd
 Bererin llesg ac amgysgodau eilfyd
 Fel nos sancteiddiaf ar ei ael yn disgyn,
 Ac am ei lwybrau swm angylaidd edyn
 Ar hyd y meusydd telaid hyn yn crwydro,
 Boed angel borau yr olygfa yno
 I roi i'r cangau lais, i'r awel deimlad,
 Ac i adfeilion tŷ fy nhad adfywiol wawr o gariad.

Nid mwy cynefin idd y lan y llanw hwyr a borau
 Nag ydoedd i dy enaid di, fy nhad, ddyfodiad gorthrymderau.
 O mae fy nghalon oll yn glwy wrth gofio am eu hamlder hwy,
 Wrth feddwl am y pryder mawr o flaen y wawr a gaed yn effro,
 Y baich o amgylchiadau prudd nad oedd y dydd yn ddigon iddo,
 Y baich a deimlid hyd y byw-ar ol i bawb ymollwng i freichiau
 anghof gwiw.

A drysorasoeh chwi ei ddaurau ef
 O dystion sancteiddiolaf awr y bedd,
 Osododd Duw ar hyd canllawiau'r nef
 I wyllo yr adfydus gwyw ei wedd?
 O seren canol nos, mynega'n awr
 Bob cwyn a deigrin ger yr orsedd fawr.

Nid oedd ond pared rhyngom. Llawer gwaith
 Y syrthiodd caer fy mreuddwyd idd ei gŵyn;
 Na thorred boreu bythoedd ar fy nhaith
 O phallaf ddeigrin eto er ei fwyn
 Pan gofiat hynny. Y dagrau trymion prudd
 Fedyddient ganol nos yn ganol dydd.

Pan gaffai lonydd ambell eiliad bêr,
 Pan beidiau'i ingau onid ennyd awr,
 Fel pan newidia'r Nefoedd ei gwyntoedd am ei ser,
 O felly y newidiai yntau 'i wawr.
 Fe ganai am ei Dad, a'i gariad cu,
 Ac am yr aberth mwya' riced a roed ar Galfari.

Athrylith Pant y Celyn yn ei gân
 A enid eilwaith; ysbrydoliaeth hon
 Ddeffroid eilwaith yn ei lef
 Gai newydd ymollyngiad.

E fu ei gylch yn eang iawn un dydd,
 Ac nid oedd gormod iddo ef ei wneyd

Yn ffordd dyledswydd a thros waith ei Dduw,
 Dros waith yr Hwn a'i carodd cyn ei tod.
 Ni fu yr hin ry oer, na'r daith ry bell,
 Na lle yr ymgynulliad rhy ddi sylw,
 Ac nid oedd gan y draul ar lechi cof
 Un cerfiad nac un nôd o flwydd i flwydd.
 O bu afradlon, dros ei Dduw y bu.
 Anghofiai'r cyfan ond teilyngdod mawr
 Y gwaith rhagorol. 'Roedd ei garedigrwydd
 Fel eiddo'r ffynnon sydd yn rhoi ei dafn
 O dan y cysgod oesol, lle nad oes
 Ond ser ac engyl idd ei chanfod hi.
 Llaw aswy cof ni wypai beth a wnai
 Deheulaw cariad. Roddion bywyd maith!
 Disgynned eich adgofion ar ei fedd
 Fel-pelydr crwydrol o dragwyddol fyd.
 O Garedigrwydd! i ba le yr ai?
 Dos, eistedd ar ei lwch;
 Pa fynwes mor ddirodres, mor anghofus,
 O'i rhinwedd bennaf? Gydag anadl hwyr
 Pan ddelot heibio yn yr awel leddf,
 Tro olwg ar ei feddrod yn y glyn,
 A chofia nid yn gymaint am ei haeledd
 Ag am ei nefol anghofusrwydd ef.

Ymddifaid, pwyswch ar y beddfaen gawn
 Yn wyn gan alaeth uwch ei orffwys fan,
 Gall ddwyn i gof y fraich o gariad llawn,
 I felus gof, y fraich gynhaliai'r gwan;
 Pan wisgid ffurf Rhagluniaeth oll â du,
 Aech ato ef, ac yn ei gariad ymnewidiai hi,
 Fel o flaen drych o brif egwyddor nef,
 A llawen fyddech ar y ffordd i dref.

Ragrithiwr, saf am ennyd ger ei fedd.
 Gall adgof godi o'i gymeriad pur,
 Angel o wers i tithau. Mawr yw sedd
 Cymeriad fo a'i sail ar y tragwyddol wir.

Yr oedd gwirionedd fel urddunol wawr
 Ar wyneb ei dduwioldeb, nid oedd crefydd
 Ond mynwes arall am ei galon fawr
 O fewn yr hon y cura yn dragywydd.
 Y llais a alwai'r gweithiwr tua'i orchwyl
 Yn fyw a llon, yr un yn gymwys gaed

Yn groesaw dynion at y Ceidwad anwyl,
 Yn llon a bywiog ganmol rhin y gwaed.
 Fe deimlai Rhagrith dan y fanllef honno
 Yn gollfarnedig; torrai ar y llu
 Mor oll-ddeffroawl, 'r oeddynt yn clustfeinio
 Ar gur y galon fel o'i phellaf adsain hi.
 Fel ar y môr y crea ton o'i hamgylch
 Aneirif donnau, fel ymdoniad byw
 Yn creu toniadau filoedd trwy'r awyr-gylch,
 Gwythienau bywyd o dragwyddol ryw
 Ar hyd ei lawnion ddyledswyddau gaed
 Yn chwyddo, chwyddo fel â gallu Duw,
 A gallu fyw ar ol y fferro cig a gwaed.

Bu arw dy fordaith, fy nhad, flynyddoedd diweddaf dy oes;
 A! mynych y gwelais dy fad bron soddi gan wyntoedd mor
 groes;

Fe dorrodd Rhagluniaeth y nef i fyny ei hindda oedd wiw,
 Ac ysbryd y dymestl gref a hollol feddiannodd y llyw;
 Gallaswn â dagrau o waed ddyhuddo y dyfroedd, y don
 Goruwch dy holl enaid a gaed yn boddi gobeithion y fron.
 Prydnawn o wylofain yn wir a gefaist,—machludiad di-hedd,—
 Blynnyddau o donnau, heb dir mewn golwg ond acw i'r bedd.
 Gwybuaist—a chawsom i gyd wybodaeth dan brofiad fy nhad—
 Holl gyfnewidioldeb y byd, y gwenau mewn llwyddiant, a'r brad
 Mewn aflwydd pan fyddai y wên yn angel mewn anial yn wir.
 O adfyd! Paham hyd yn ben y seliwyd phiolaid mor sur?

O ddyfnder Rhagluniaeth yr Ior, yr wyf yn addoli yn awr,
 Uwch sanctaidd ymylon ei môr—mae y don wedi derbyn y
 wawr,

A'r dyrys ofidiau o'r bron yn troi yn ddibenion o hedd,
 Mae'r Arglwydd yn eistedd ar hon, y don sy'n gorchuddio y bedd.
 Haul cariad y Duwdod y sydd yn sugno tARTH adfyd i'r lan,
 I'w gwlawio yn ol ar fy nydd yn helaeth fendithion i'm rhan;
 Os bu'th oruchwyliaeth, fy Nuw, yn ddyfnder tryblithiol—yn awr
 Dwyrea'th ddibenion o'r dyfnder fel ser, fel dydd uwch llwybrau
 y llawr.

Bu dda gennyf deimlo y chwydd yn nyfroedd bodolaeth y sydd,
 Yn arwydd o sicraf neshad y tragywyddoldeb a fydd,—
 Y ddinas dragwyddol ei sail, uwch cyrraedd corwyntoedd mor
 llym,

Yn dechreu ymagor, a haul cyfiawnder yn codi i'w rym.
 Rai oriau cyn myned i mewn, tawelodd y dyfroedd, a chaed

Llonyddwch ; dy Geidwad oedd yno'n taenellu y dyfroedd â'i waed;

Dy Geidwad tragwyddol ei hun yn rhodio y tonnau o'th blaid—
Fe drodd chwerwaf ddyfroedd marwolaeth yn win, ac angel yn ei ymyl a gaed.

Y mae y cyfiawn yn nirgelwch Duw ;
A rhai o dyraudinas fawr ei feddwl
Sy'n gorwedd yn nistawrwydd y dyfodol,
Rhai o benrhynion ei bell arfaeth ef,
O bell yn amlwg iddo, cyn eu dod
O fewn gwelediad idd y marwol fyd.
Y mae meddyliau Duw, fel Duw ei hun,
I gyd yn ymgnawdoli. Ac fel yr oedd
Arwyddion amlwg o'i ddynesiad Ef,
Y mae i'r cyfiawn y cyffelyb fraint
Yn ymyl esgoreddiad ei fwriadau.
Mae "Seren" ragarweiniol i bob un
O'i brif feddyliau, ond na roir i neb
Ei gweled ond i'r doethion, megis gynt.

Ti wyddit tithau fod meddylddrych mawr
Dy Arglwydd wrth y ddor, y deuai eilwaith
Ac y cymerai'r eiddo ato ei hun.
"Ni chaf dy weled eto" oedd y gair
Diweddaf glywais o dy enau di.
Bryd hynny nid oedd hollt yng nghwmwl amser
I mi ddarganfod golau'r byd a ddaw
Yn dechreu torri. Nid oedd swm
Yr afon ddwyfol, sydd yn llawenhau
Pell ddinas Duw, hyd eto yn fy nghlyw.
Ond ti a wyddit. Y mae ambell air
O broffwydoliaeth eto yn y byd.
Pell oeddwn oddiwrthyt ar yr awr
Y daeth cysgodau'r bythol fyd i lawr.

Y cyfiawn ! O mae golau uwch ei fedd
Na ddeil uchelfryd ar ei uchaf fan
Gyffelyb iddo. Y mae yno hedd,
Y fath a deimla angel ar y lan
Sy'n derbyn Duwdod yn weledig mwy,
A thonnau tragwyddoldeb uwchlaw pob loes a chlwy.

Mae eu gweithredoedd yn eu canlyn hwy
Dros fwa y cyfamod dwyfol sydd

Yn uno'r ddeufyd dros y beddrod mwy,
 Y ddeufyd gyda gwawr tragwyddol ddydd;
 Ac hyfryd hyfryd, pan y teithiem ni
 Yn ol i amser ym mro adgof gwiw,
 Ym mhlith beddfeini y blynyddau fu,
 Ardderchog megis darn o'r nefoedd yw

Eu gweled, gweithred ar ol gweithred lawn
 Yn tawel gychwyn tua ffordd y nef,
 Gan wneuthur swm hyfrydol hwyr brydnawn,
 Wrth fyned heibio i'w orweddfa ef
 Yn llawen tua'r orsedd erbyn dydd
 Y farn a fydd.

Lle y gadawsom weithred dda o'n hol ar lwybrau bywyd,
 Gadawsom angel hoff, a'u gwna yn air o'n tu mewn eilfyd;
 Pan alwa yr arch-angel mawr eu corff o'r graian mwy,
 Cyd-adgyfoda yr un awr eu holl weithredoedd hwy.

Agorai ef bob newydd ddydd fel newydd ddalen yn y llyfr mawr,
 I'w lenwi erbyn eilfyd sydd i radau,—gweithred am bob awr;
 Ac ynddo ysgrifennai fyth â llaw ddi-sw m o gariad,—
 Y llythyrennau'n disgyn fel y gwllith,—ei amddiffyniad.

Yr oedd y llyfr wedi ei gau, gwaith bywyd oll ar ben,
 Ac yntau'n marw wrth ei fodd, a'i olwg ar y nen;
 Nid am ei fod yn gorffwys dim ar ddynol weithred ganddo wnaed
 Mawr werth yr aberth oedd ei rym, nid gweithred, ond y Gwaed.

FY MRAWD.

(Cyfansoddiwyd ar farwolaeth ei hojfus briod yn Tasmania.)

ANTURIODD dros y moroedd pell,
 Yn llawen dros y lli,
 O! nid oedd un baradwys well
 Na'th lon gymdeithas di.

Yr oedd mor dda—yr wyf yn ameu bron
 A fu'r fath un yn rhodio'r ddaear hon;
 Ai nid angyles oedd a welais i
 Ar glogwyn breuddwyd yn dy ymyl di?

Y llwybr ar ei hol drwy farwol fyd
 Gan oleu rhinwedd sydd yn wyn i gyd.
 Fe allai angel rodio yn ei llwybr,
 A bol mor bur ag ar y loewaf wybr.

Esiampl gyflawn o'r rhinweddau oll
 Adawodd ar ei hol, heb un ar goll.
 Parhad o'i rhinwedd a'i rhagorion hi
 A fyddo bywyd ei hanwylblant eu.

Nis gallaf ofyn am un fendith fwy
 Ar ran ei thirion blant, nag iddynt hwy
 Gael byw ei bywyd hi ym mhob rhyw rinwedd
 Tra ar y ddaear hon, a marw'r unwedd.

Tywalltaf falm i'th glwy,
 Fy mrawd, nac wyla mwy,
 Mae hi yn ddedwydd ger gorseddfa'r Oen
 Uwch cyrraedd poen.

Clyw, fy mrawd, mae clwyf i 'raron
 O daraw un mor dirion;
 Byd niwliog, heb d' anwylaf,
 Yw y byd hwn, bywyd di-haf.
 Torrwyd dy gartref tirion
 A rhywg llwyr, o golli hon.

Fy mrawd hoff! wyf am roi taith,
 A gyrfa dros fôr garwfaith,
 Hyd ymyl gwlad Van Dieman,
 I'th adlonni di o dan
 Alar am dy anwylyd,
 Sychwn, gwn, dy ddaagrau i gyd.
 Rhwydd i'r bardd fyddai rhoddi'r byd
 A'i deg urddas am dy gwrddydd!

Ei bedd sy bell, rhy bell i ni ymweld â'r santaidd fan,
 Ond nid rhy bell i Iesu ei dwyn o'i marwol hun i'r lan.
 O! plannwch flodyn llon ei liw bob gwanwyn ar ei bedd,
 Fel arwydd o addewid Duw, a chodi ar ei wedd.
 'Roedd angel yn ei hangladd hi, fe ddaeth o gwmwl draw;
 Fe glodd y bedd, ehedodd fry a'r allwedd yn ei law.
 Er pelled yw ei bedd i ni, y mae i'n Ceidwad hardd
 Mor adnabyddus ac mor gu a'r "bedd oedd yn yr ardd."

Gobeithio'r y'm eich gweld ryw ddydd yn dod yn ol heb nam;
 Ond A! golygfa bruddaidd fydd y teulu heb y fam.
 Y teulu heb y fam sy brudd mewn pell estronawl wlad,
 Ond O! na weler yno byth y teulu heb y tad.

FY NAI TU HWNT I'R MOR.

WILLIE.

MAE'TH enw hoff i mi fel lloer i'r moroedd,
 Mae'n galw mewnfor teimlad o'i ddyfnderoedd:
 Ac er y pellder rhwng y lloer a'r lli,
 Ac er y pellder rhyngot tithau a mi,
 Mae'r sugndyniad yn parhau
 Yr un mor nerthol a phe bai
 Y lloer yn eistedd ar y don,
 A thithau'n pwyso ar fy mron.

Mi deimlais ddiffyg ar dy ol;
 Mi wylais fel yr wyla'r ddôl,
 Trwy ddaagrau gwllith y gauaf du,
 Ar ol ei meillion heirddion hi.

Fel tyner oen dilynet fi,
 A minnau a'th fugeiliwn di.

Mae seren fechan lon ei phryd
 Gerllaw y lleuad brudd o hyd
 Fyth yn ei dilyn hi,
 A thithau megis seren lon
 Wareuit fythoedd ger fy mron,
 Ger lloer fy mhrudd-der i.

Yr oedd dy dad tu hwnt i'r don
 Tu arall i'r ddaearen hon,
 A'th fam dyneraf gydag e,
 A minnau'n ceisio llanw eu lle.
 Planhigyn dy athrylith di
 A dyfodd yn fy nghysgod i;
 Dywedir im ei fod yn awr
 Yn lledu fel nefolbren mawr;
 O! pwy a wŷr na roir i mi
 Gael eistedd yn dy gysgod di,
 Pan fyddi yn dy gryfder llawn,
 A minnau'n eiddil ym mhrydnawn
 Yr einioes farwol hon:—
 Willie! mi dybiaf fod y don
 Sydd acw'n disgyn ar y lan
 Yn dweyd,—ar ol ei dirfawr daith
 Mewn rhyw ysbrydol nefol iaith,—
 DAW ADREF YN Y MAN.

FY NAI TU HWNT I'R BEDD.

YR wyf yn teimlo'n athrist wrth adgoffio
 Y wyneb llon sy dan y briddell heno,
 A'r wên oedd ar dy wyneb pan y deuw'n
 I'th olwg, a phan gyda thi chwareuwn.
 Chwareuwn gyda thi, a gwnawn fy ngoreu
 I deimlo'n llon fel yn fy mebyd boreu.
 Ni chefaist fyw i ddweyd fy enw'n gyfan,
 'Roedd gennyf arnaf enw bychan, bychan;
 Dy oreu ydoedd er mor fyr, er bloesged;
 O, beth na roddwn heno am ei glywed!

Ber fu dy fordaith ar uchelfor amser,
 Ond digon hir i deimlo ei erwinder.
 Môr amser groesaist yn y culaf fan;
 Ond O! mor erwin oedd o lan i lan.
 Man culaf môr yw'r garwaf fan i groesi,
 Lle mae'r dragwyddol lan ar amser yn ymylu.

Fy nghalon aeth yn glaf wrth weled dorau
 Y beddrod yn ymagor it' mor forau,
 A thi mor deg, a ni mor hoff o honot,
 A chartref oll mor wag, mor bruddaidd hebot.
 Pahan na chwsem gadw'r blodyn tirion?
 'Roedd yn y nefoedd eisoes flodau ddigon.
 A! gwell er hynny oedd ei symud acw,
 Lle nad oes, ar y dwyfol dir, un blodyn mir yn marw.

Ni feddaf ddarlun o dy lon wynepryd,
 A gwell yw hynny rhag cynyddu tristyd.
 Rhydd wyf yn awr i lanw'r amlinellau
 Sy'n aros ar fy nghof, & nefol liwiau.
 Yn nwyfol oleu'r ser, mi dynnaf weithion
 Dy ddarlun fel yr wyt ym mysg angylion;
 Mae'r ser yn gweld dy wyneb mewn gogoniant,
 A'th degwech ar fy enaid adlewyrchant.
 Dychmygaf gwelaf di yng nghanol engyl
 Di-rif, a Phren y Bywyd yn dy ymyl,
 A'i gangau uwch dy ben yn ffurfio cysgod,
 A'i ffwrwthau'n plygu'n drymion oddi uchod,
 Yn drymion gan rinweddau anfarwoldeb,
 A'i flodau'n perarogli tragwyddoldeb.



ANFURIN FARDD.

I'M HATHRAW.

MAE llawer blwyddyn, anwyl frawd, er pan gymerem ni
Ein hwyrol daith, ein llongydd rawd, ar ymyl llongydd li
Yr hen Sirhowy. Nid oes clod na bri yn eiddo hon,
Os nad i ni, ryw amser, fod a'n cysgod ar ei thon.
A! llawer hwyr y buom ni yn crwydro ar ei glannau,
Pan oedd fy mysedd eiddil i yn dechreu cwrdd â thannau
Y delyn awenyddol fad, yn ol dy gyfarwyddyd rhad.

Mae'r haul yn isel dan y bryn, y mae y glyn yn duo,
A thybiaf fod yr afon bur is awyr hwyr yn suo;

Yn suo am y dyddiau mad
Pan nad oedd eisieu ond dy dad,
A thi, a minnau, 'n tri yng nghyd,
I wneyd i fyny eithaf byd!

O, fyd di-alar, fyd di-glwy,
Ni ddaw ei fath, ANEURIN, mwyl!

A! mae yr olwyn fel yn flin wrth droi y felin fad,
Mae tŷn y nant, o gywir reddf, yn lleddf o dan bruddhad;
Mae fel pe'n cwyno wrthyf fi o'th eisiau di a'th dad!

Dywedir im fod yn y byd fwynderau fwy na rhi,
Dewiswn i o'r rhain i gyd gael awr o gwrdd â thi;
Fy llygaid fel dan gwmwl llawn a wlawient ar dy fron,
Hoen ie'nctyd eilwaith wenai dan y dyner gafod hon.

Fe hoffai cyfeillgarwch pur gael byd rhy fach i fôr,
Rhy gyfyng i ysgarol fur, rhy gul i glawdd a dôr;
Wrth gofio am ein disglaer wawr a hoen ein dyddiau gwell,
'Rwy'n beio, braidd, Columbus fawr, am ganfod byd mor bell.

Mae arfaeth ddistaw dan fy mron i weld Amerig fawr,
ANEURIN! prif gymhelliad hon yw gweled siriol wawr
Dy wyneb—gwrando ar dy lais—ymheulo yn dy wên—
Ymddiddan am y dyddiau fu, y lon Baradwys hen.

L I L L E .

O LILLE, y brydferth! y brydferthaf bron
Erioed fu'n sangu ar y ddaear hon!

O Lille y brydferth! Lille y brydferth fyth
A fyddi yn fy ngolwg i, fy nith.
Mae llawer tymor bellach wedi pasio
Er pan y'th roisom di i lonydd huno.
Aeth llawer storom arw dros ein teulu
Er pan, Lille fach, y'th roed mewn bedd i gysgu,
Ond pe bai oesoedd wedi myned heibio
Amhosibl a fyddai dy anghofio.

'Rwyf yn dy gofio fel angyles iach
Yn dod i dŷ fy mam, a'th fased fach
Yn hongian ar dy fraich a'i llond o ros
(Debygwn heddyw) o'r Baradwys dlos
O'r fath sy'n tyfu yng ngerddi nef y nef,
O flaen ei balas Ef!

'Rwy'n tybied fod y cwmwl fry
Yn cadw ei gawod, nes dy weled di

Yn gynnes a diogel yn y tŷ.
 O Lille y brydferth, y brydferthaf bron
 Erioced fu'n sangu ar y ddaear hon,
 Anfonai'th fam ryw neges gyda thi,
 Ac O! mor swynol yr adroddit hi
 A'th beroriaethol lais, fel llais y corau
 Sy'n canu gyda glasiad hafaidd forau.
 A phan anfonem di yn d' ol â'r ateb
 'Roedd dydd o wenau yn goleuo'th wyneb.

Wylasom ger dy fedd yn chwervw iawn.
 O Lille! mor dywyll oedd y blin brydnawn,
 Ein llygaid fel cymylau yr awr honno,
 Ni allent weled dim, na gwneuthur dim ond wylo.
 Ond wedi peidio o'r gawod ddagrau
 Yr ym yn awr yn gweld yn olau—
 Fe'th gipiwyd di o flaen ystormydd llymach,
 O flaen cawodydd llawer trymach.
 O Lille y brydferth! cipiwyd di
 I wlad lle nad oes cwmwl du
 Yn duo'i nef, na storom arw
 I'w chlywed byth, na neb o'i mewn yn ofni marw.

O tyrd im cwrdd pan groeswyf afon angau;
 Bydd di ymysg y cyntaf ar y glannau
 I'm cwrdd yr ochor draw. Adroddaf yno
 Ein helynt wedi'th fynd, cei dithau wrando
 Dan gysgod pren y bywyd, ein dau'n holliach,
 Ein dau heb ofni cael ymadael bythoedd bellach!

Mae'n werth ymadael am ryw hirfaith gyfnod
 Er mwyn y fendith o'r fath ail gyfarfod,
 Cyfarfod eilwaith dan anfarwol gangau
 Y bywiol bren, tu draw i gysgod angau.
 Ffarwel, anwylaf Lille! nes delo'r borau
 Y cawn gyduno byth yng ngherdd y nefol gorau.

AR FEDD CHWAER, SEP MRS. DAVIES, GLYN EBBWY.

Er ei mynych nych, ni wnai—unrhyw
 Rhoi gair croes ni fynnai, [gwyn,
 Yn y cynllun heb un bai
 Diwaelod gariad welai.

Ei chrefydd uwch yr afon—ymleda
 Am wlad arall weithion;
 Nid ofnai donnau dyfnion
 Na nerth yr Iorddonen hon



GREEN MEADOW.

Cartref Ialwyn wedi marw ei fam.

F Y M A M .

Yn fynych iawn gofynnid im paham
Na fyddwn wedi canu cerdd fy mam,
Paham na chlywsid, yng nghysgodau'r glyn,
Lais prudd yr awen lawer mis cyn hyn.
Rhy dyner eto yw fy nghof am dani,
Amhosibl i hiraeth *perffaith* ganu.

Nid yw fy holl fodolaeth onid cwmwl
I ddal cafodydd hiraeth, dagrau drud,
A phan y gwelaf angel o ddrychfeddwl
Ymdorra'r cwmwl rhyngof a'i deg bryd,
A'r angel dry yn niwlen yn fy nwylo,
Nis gallaf feddwl dim, na gwneuthur dim ond wyllo.

Pan y darfydda'r gwlaw, ceir gweld yn glir
Y golygfeydd tu ol, y dwyfol dir
Y rhodiais drosto gydag ysgafn gam
Flynnyddau'n ol, yn llaw f' anwylaf fam.
Ewyllys Awen sydd yn nerthol iawn,
Pan fyn arferyd ei harddunol ddawn;
Ei harch a rydd, a theyrnas fawr yr enaid
A dawel ymlonydda ar ei hamnaid;

Gweinydda'r meddwl a'i gyneddfau'n gyson,
 Ac yn eu hymyl tyn deimladau'r galon;
 Ond methai'r Awen trwy y misoedd hyn
 Gysoni fy modolaeth yn y glyn;
 Y teimlad oedd oruchaf; mynnai ef
 Ei ffordd ei hunan ag wylofus lef.
 Ond nid oes llanw ar ddaearol lan
 Heb lonydd drai i'w ddilyn yn y man;
 O nid oes nos mor dywyll nac mor faith
 Heb fore cu i dorri ar y daith.
 Mae llanw hiraeth, er mor gref ei don,
 Yn dechreu troi ar draeth y fynwes hon.
 Fy ol-fodolaeth leda fel yr aig,
 Ac yn ei ymyl adgof sydd yn graig
 I efryd eistedd arni—gwel yn awr
 Gerubaidd ffurf, yn decach fil na'r wawr;
 Mae teimlad yn myfyrio—myfyr sy
 Yn teimlo, mae y ddau mewn undeb cu.

Mae'r gadair fawr yn dwyn i'm cof ei gwedd,
 Y wyneb oedd yn adlewyrchu hedd
 A bythol gariad; mae treuliedig glawr,
 Treuliedig dudalennau'r Beibl mawr,
 Yn dwyn i'm cof ei thyner lais toddedig
 Pan y darlennai'r llyfr bendigedig,
 Disgynnai rhyw eneiniad ar ei hysbryd
 Yr eiliad yr agorai air y bywyd,
 A barai i'm glustfeinio lawer tro,
 A derbyn adlais o anfarwol fro.

O ysbryd lletygarwch! Wyla di
 Ar fedd fy mam, am ennyd, gyda mi;
 Ei thy oedd gartref i genhadau Ion,
 Ac am ei haeledd byth ni chlywid son.
 Am ddeugain mlynedd deuent at ei thy—
 Pwy ŵyr na ddaeth angylion oddi fry
 Yn ddiarwybod ambell waith, gan ado
 Tragwyddol fendith inni wrth ymado!
 O, mae yn edrych gyda'r dyrfa fry
 Mewn hyder sanctaidd, am y bore cu
 Y daw y Barnwr ar gymylau'r nef
 I arddel pawb a'i harddelasant Ef,
 Efe yn ddieithr yn ei frodyr fu,
 A hithau a'u cymerodd gyda hi;
 Ni wylaf mwyach, llawenyachu wnafl—
 Fy mam fu gyda'r Iesu pan oedd glaf!

Ond pe coffheid ei chymhwynasau i gyd,
Gofynnai gyda'r dyrfa lân,—“Pa bryd?”

Ffarwel, lon ddiotalwch bore oes,
Ffarwel i'r hon a ddygai bob rhyw groes
Ei hun, i mi gael llonydd i fyfyrio
Heb unrhyw ofal yn y byd i'm blino.

Bu'r byd i mi yn llawn
O swynion hyfryd iawn
Un cyfnod pell;
Ond angau cryf sy'n dwyn
Yn raddol bob rhyw swyn
I fydoedd gwell.
Arllwysa môr y byd
Ei berlau goreu i gyd
I borthladd bedd.

Canfyddais longau fyrdd
Yn cuddio'r cefnfor gwyrdd
Un bore llon;
Ryw lynges hardd ei gwedd
Mewn undeb ac mewn hedd
Heb dani don;
Ond daeth y ddryc-hin brudd,
A thua hwyr y dydd
Es tua'r fan.
A gyfnewidiad blin!
O'r llongau teg eu llun
Nid oedd yn awr ond un,
A honno'n wan!

Cydgychwynasom gynt
Cyn cyrraedd ar ein hynt
Fan noeth y bythol wynt,
Ryw lynges fawr;
Ond o'r ardderchog rif
Ar ol y croeswynt cryf
Ni welir ar y llif
Ond un yn awr!

Fy mam! a fu i mi
Y fath angyles gu
Pan oeddwn wan,
A fu i mi ei llaw
Wrth odre mebyd draw
I'm dwyn i'r lan,

Ai breuddwyd mawr ei rin
 A gefais wrthyf f'hun,
 Ai rhyw gerubaidd lun
 A welais fry,
 Un fraich o dan fy mhen
 A'r llall fyth tua'r nen
 Yn gofyn bendith wen
 A rhad i mi?

Na! ofer yw y dyb,
 Mae'm gruddiau yn rhy wlyb
 Mae'r deigrol li'n rhy lawn;
 Pa fodd mae cofion dyn
 Am bopeth mawr ei rin
 Fel gweledigaeth gun
 Yn ebrwydd iawn?

Anfona, Awen fwyn!
 Am unwaith er ei mwyn
 Y seiniau mwya'u swyn,
 Dy guaf gân.
 Dod ar ei beddrod hi
 Y blodau tecaf sy
 Yng ngardd dy frodyr fry,
 Yr engyl glân.

O! cofia'r cyfnod pan
 Yr oeddit eto'n wan,
 A'r ffordd ymhell i'r lan
 I'th ddinas wen,
 A'r modd y caffem ni
 Lonyddwch, drwyddi hi,
 I araf esgyn fry
 O nen i nen.

Cymerai bethau'r byd
 A gofal hwn i gyd
 I'w rhan ei hun bob pryd,
 Tra byddem ni
 O fewn y fyfyr gell,
 Yn pyncio am y pell
 Ororau, canmil gwell,
 Lle'n awr mae hi.

Ieuenctyd cerub fu
 Dy deg ieuenctid di
 O dan ei hadn hi,
 O fore gwiw!
 Bore o ffrydiol aur,
 Y lleuad oedd dy chwaer,
 A'r ser dy gwmni claer,
 Pur deulu Duw.

A! gwag yw'r gadair fawr, a'r hen, hen dŷ,
 Mae'r fro yn wag, mae'r byd yn wag i mi,
 Mae newydd nod yng ngherdd yr afon sydd
 Yn llifo trwy y fro—iselnod prudd,
 Angladdol liw sydd ar fy ngardd yn awr,
 Y mae y blodeu fu mor llon eu gwawr
 Yn edrych fel pe byddent dan eu clwy,
 Yn disgwyl un nad yw yn dyfod mwy.
 Ffarwel i'w llon groesawol fore Llun,
 Wrth ddychwel o'r Sabbothol daith yn flin.

Edmygais y pellebyr lawer gwaith,
 Fel pe y gwelwn angel ar ei daith;
 Ond pan y dug i mi mewn marwol awr
 Y marwol newydd i Manceinion fawr,
 Yr angel gwyn, er cymaint ei ysblandra,
 A droes yn angel du, a beiais ei fuandra.

Dymunwn blygu i Ragluniaeth fawr,
 Dymunwn ar fy neulin fynd i lawr,
 Dymunwn ganu yn y nos y gân
 A gwyd o froydd gostynggeiddrwydd glân;
 Er hynny seinia pwnc y bruddgerdd hon
 Yn ddieithr iawn, mae'n anghredadwy bron,
 Adgofion Mam! Dwed im', fy Awen wan,
 Ai dyna'r oll sy'n aros yn dy ran?
 Adgofion—dim ond hynny—am yr un
 Drwy f'oes a gerais fel fy enaid f'hun!

MRS. JONES, Cae Draw, MERTHYR TYDFIL.

I wlad engyl diangodd,—uwch hiraeth,
 A'i choron a wisgodd,
 A'i phoen yr awr gorffennodd
 Yn ddi-dranc lawenydd drodd.

MRS. E. BEDDOE, LLANFABON.

Ni, y byw, ar lan ei bedd—wnawn ddewis
 Yn ddiau'r un fuchedd;
 'R un bywyd o hyfryd hedd,
 Yr un Duw, a'r un diwedd.



Bedd
Ialwyn.

MYNWENT Y BABELL.

Pia'r bedd'ym Mynwy bell?
Ialwyn hana'n fwrn lan yna.
Ond ei enid fry a gans
Yn y dyff, Hapus dyff'a'r wlad sy well.
R. BEVAN.

Y FYNWENT.

Machlud haul.

WEDI i'r haul gyflawni 'i dro,
A myned mwy i huno;
Wedi i'r lloer mewn prudd-der llawn
Ar ne der wawrio'n diriawn,
Ac i'r ser mewn gloewder glân
Ddwyn eu holl fyddin allan,
I wylïo'r nen ysblenydd
Oruchel, nes dychwel dydd,
Dros y ton lās gan dristhau
I'r Fynwent draw af finnau.
Y fath hedd rhyfedd ar ol
Iaith daearfyd fyth-dyrfol!
O! melus im yw wylaw
O dwrf y dref a'r dorf draw.
I ddrych fy nghof, er yr hirfaith ofod,
E gwyd wynebaw fy hen gydnabod,

Sy yn ein Hiesu yn huno isod,
 O! mal Gwynfa im yw eu hail ganfod
 A dwyn i gof dan gafod—o ddagrau
 Y troion borau, y cartre'n barod,—
 Y dodrefn wedi 'u trefnu
 Hefyd, a'r gain fodrwy gu,
 Rhwymyn ein borau amod,
 A'r ysblenydd ddydd ar ddod,
 Ond yr angau'n mynd rhyngom,
 A'm heinioes i mwy yn siom,
 Yn siom oll, fy einioes mwy
 Yn fedd i mi tra fyddwy.

Adgof dyner.

Mae'n dawl yma'n y diwedd,
 O! 'm mam hoff, y mae yma hedd!
 Ni thyr llef dy dangnefedd,
 Na gelyn byth gloion bedd.
 Ni enfyn neb o lin fy nhad—lythyr
 I lethu dy deimlad;
 Newydd un yma ni ddaw,—na phoenus
 Iaith alarus byth mwy i'th ddoluriau.

Cydraddoldeb yno.

Ni arddelir urddoliaeth,—nac achau,
 Nac uchel waedoliaeth;
 Ni bydd cof yn y bedd caeth,
 Fel yn awr, am flaenoriaeth.

Taena y Fynwent union—ei llenni
 Uwch y llonydd feirwon:
 Cydradd ydyw dugiaid ceidron
 Yn oer glai bedd a'r gwaela 'u bon.

Jubili y werin fawr

Jubili i bobl lawer,—awr rhyddhad
 Awr ddedwydd cyfiawnder,
 O dra'r byd, yw'r awr bêr—i fynd obry
 I waelder marwolder.

A! blin yw'r werin trwy waith,
 Go lwydion trwy galedwaith;
 Gyrrir gan feistri geirwon,
 Ofer eu bri, hyd farw bron;
 Eu gwarrau llesg a wyrant,—gan ruddfan,
 Wyr aniddan, hwy'n gynnar heneiddiant;

Er hyn oll, yr enillion
 Yn nacau byw-reidiau bron.
 Onid digon yw bron brudd,
 Ac isder eithaf cystudd
 Yn eu plith, heb ddyblu'r pla
 O berygl eisiau bara,
 Heb do gwael, ac oer aelwyd,
 Costau heb fodd, cist heb fwyd,
 Tra gwaria eu meistri gerwin
 Fyrdd o aur ar foroedd o win,
 A'u henfawr wastraff anfad
 Gan lwydd, yn ddigon i wlad ?

I'r werin wan, er mor brudd ei hanes
 Egyr y Fynwent gariadgar fonwes,
 Cânt weithion heddychlon ryfedd achles
 Rhag twrf tymhestloedd a garmoedd gormes.
 Yn iach i niwed, yn iach i newyn,
 Yn iach i alaeth, yn iach i elyn,
 Lethwr gwlad, yn iach adyn!—yrwyr gau,
 Dim mwy o'ch tyrfau, dyma eich terfyn;
 Eich cnul gloch acw'n niwl y glyn—seiniodd !
 Duw a osododd ddymchweliad sydyn.

Un yno a'r frenhines—y forwyn
 Lafuriai fel caethes;
 O drôn ban, daw'r unbenes
 I'r un gyffredinol res.

Y gwas yn dragwyddol rydd.

Y Fynwent dyr efynnu—y caethwas,
 Ca eithaf ei freiniau,
 Mae'n dragwydd rydd o'r iau,
 Gorfennir gweu rheffynau.

Melus saib i'r gwas syml sydd
 O'i boen, ar ei gobennydd.
 Llaw angau a'i gollyngodd
 O raith ei feistr, wrth ei fodd.
 Os bu'n llesg a'i gosb yn llawn
 Yn herwydd gwŷr anhiriawn,
 Is ei bwn rhy drwm os bu
 Gyhyd, a'i fron yn gwaedu,
 Cyflawn fydd yr iawn ar ol
 Ei ludded dialeddol.
 Daear y cyfeillgar fedd

Gaiff drosto'n do o'r diwedd,
 Lle o nawdd a llonyddwch
 Dwf'n, hir, goris llenni'r llwch :
 Fe ga hun heb fywiog nwyd,
 Bêr hun, ry ddofn i'r breuddwyd ;
 Ei farwol faich fwria,—angau weithian
Gysga allan o'i anian,—dihuna
 Oll yn newydd yn nydd Naf—o'r bedd cau,
 Hefo'r myrddynau, fry, mor ddianaf,
 Mor dda y drych, mor ddi-dranc
 A bywiol gerub ieuanc !

Diwedd cenfigen a ohyd-ymgais.

Y Fynwent sydd derfyniad
 Ar weniaith a bryntwaith brad.
 Yn y bedd cenfigen baid,
 Yma ni wna un niwaid.
 Dileir cystadleuaeth—o bob rhyw,
 Y terfyn ydyw ar bob trafniadaeth.
 Cadfridawg enwawg yno—gwsgeithion
 A'r holl luyddion gerllaw iddo,
 Yn ddi-swn y lluoedd sydd
 A'u galon gyda'u gilydd ;
 A chyda y gwarchaeedig
 Yn ei ochr draw'r gwarchaewr drig.
 Yn y glyn i derfyn daeth
 Hyglod addysg Gwleidyddiaeth ;
 Er eu sel, Rhyddfrydwyr sydd
 Oll yno'n ddigon llonydd.
 Hi ydyw'r prif gymodydd,—Diwygwyr,
 Diogelwyr geir oll gyda'u gilydd,
 Heb ddu wg, heb eiddgedd,
 Na nwyf byth, yn nhangnef bedd.
 Heb lid, oll, yr Wrthblaid aeth
 I'r un hedd a'r Weinyddiaeth ;
 Mewn heddwch mae'u llwch bob llaw
 I lawr yn cydfaluriaw.
 Esgob oedd a'i wenwisg bur,
 Un ydyw a'r henadur.
 Huna glyw oedd berchen gwlad,
 Wedd wyl, wrth ochr ei ddeiliad.

Bedd y dyn tylawd.

Dyna fedd dyn tlawd—un fu
 'I holl oes yn gyfaill Iesu

Caled fu'i dynged hyd angau,—gofid
 Gafodd a blinderau,
 Bron brudd, a'r bara yn brin,
 A gerwin lidiog eiriau.

Rhodiai'n nod i waradwydd,
 Gwn, am lawn tri ugain mlwydd;
 Pan ballai pob poen bellach
 Ni fu ond rhyw angladd fach;
 Arwyl fach ar ei ol fu,
 Ac arch y plwyf i'w gyrchu
 I'w dŷ pridd—dim braidd ond y pren,
 Heb alarwyr, heb eloren.
 Er hyn, oedd iach yr enaid,
 A'r bedd dan ogonedd gaid.

Engyl ddoent i'w angladd ef—a llonfryd
 Wedi edryd ei enaid adref;
 A seiniwyd y nos honno,
 Gan lu glân, bêr gân i'w go.

Corff sant! nid yw cyrff y ser
 Yn hafal er eu nifer;
 Pa raid ond enwi'r pridwerth,
 Y gwaed o ardderchog werth!

Y garreg arw sy'n gwyro,—ar ei fedd
 Mor fud ag ef heno,
 Heb weithion adgof o hono
 Ond ei dau air gyda'i oed o.

Ddarllennydd, er eu lluniaw
 'N ddi-lun, gan "anghelydd law,"
 Daw seintiau llon gogoniant
 Yn y nos, a'u darllen wnant.
 Y da lu, cyn dyfod i lawr
 Welsant mewn gogoniant gwynwawr
 Yr anwyl ddeuair hynny
 Ar lyfr Iôn, yn araul fry.

Dwy chwaer a brawd bach wrth fedd eu mam.

Draw gwelaf ddwy chwaer afiach
 O bell, gydag un brawd bach,
 Min hwyr, a'u camau'n araf—yn dyfod
 Ar hyd waelod y fro dawelaf;
 Cerddant mewn prudd-der gorddwys

At gamfa'r gladdfa fyg, lwys;
 Yn dawel i mewn deuant,
 Is yr Yw'n ddigysur ânt,
 At lwydaf feddau'r tlodion
 A geir ar bell gwr o hon.
 Safaf, edrychaf o draw,
 Af ennyd i glustfeiniaw
 Ar y chwaer hyna'n rhoi 'i chŵyn,
 Am huddo eu mam addwyn.
 "O'm Mam! a fyddai'n gamwedd
 I'th rai bach felltithio'r bedd?
 Ow! am roi mam mor ieuanc
 I oer ddyfnder trymder tranc!
 Nid un dyner—tynerwch
 Ei hun sydd dan lonydd lwch.
 Pwy yn awr a'n helpia ni?
 Einioes sydd angau inni.
 O ble daw'r tân rhag anwyd
 I' mrawd bach bellach, a bwyd?
 Ti mewn bedd—mae'n syn—heddyw,
 Tra hen bobl y pentre'n byw!
 Ti 'n y bedd, a'r coed yn byw!
 A'm tad—O! gormod ydyw—
 Yng ngwyrdd fedd dyfnfedd y don
 Tan frochus wguſ eigion."

Gweled eu dwys galedi
 Dawdd yn hawdd fy nghalon i;
 Diau bydd f'ymchwil di-baid
 Mwy ddeufwy am amddifaid
 I roddi o'm haur iddynt,
 Tlodion lôn ei hunan ynt!
 Caf lôg ardderchog ryw ddydd,
 Iôr ei hun yw f' Ariannydd.

Sul y Blodau.

Dewch ar forau Sul y Blodau
 Tua'r beddau, hynt dra boddus;
 Rhowch bwysiau amryliwiau,
 Rhos o orau fill persawrus.
 Gwened blaendwſ y gwanwyn
 Yn hygar, mal awgrym mwyn
 O'r claeſ adgyfodiad a fydd,
 Y gwanwyn bythawl ei gynnydd.
 Mae had cun obry'n hunaw,

I fawr dwf ryw fore daw ;
 Cyfyd hyd y Wynfa deg
 Ryw odiaeth ddisglaer adeg—
 Erfawr dwf prif "Erw Duw,"
 A gardd holl erddi'r gwir-Dduw !
 Rhy eang ond i'r angel,—fydd cae mad
 Yr adgyfodiad, odidog fedel !

Gweddw oedranus a basged fodau.

O ! gwel acw weddw wan
 Yn llwydrudd drwy bell oedran,
 Yn dod a'i basged fodau—tua bedd
 Un sy'n gorwedd mewn hedd er's blynyddau,
 Gŵr ei hienctyd hyfryd hi
 Unwaith oedd bopeth iddi.
 Diau, mwy, 'r fodrwy sy fain,
 Dygwyd am flwyddi deugain,
 Ond mae'r enw inad mor anwyl.
 A phan aeth yn hoff fun wyl
 Yn ei gwyn, yn ei gwenau,—o dawel
 He'n dŷ ei chyn deidiau,
 I wneyd, wrth ordeiniadau
 Yn nhy Dduw Iôn, un o ddau.

Bedd gweinidog.

A ! rhoddaf fill ar wyrdd fedd
 Gweinidog gwiw ei nodwedd ;
 Ef fu'n foddion prydlon, prid,
 Yn Nuw, i'm llwyr gyfnewid.
 Seion deg sy yn ei du
 Oherwydd ei ddaearu.

Bedd y milwr.

Cofiwch lwch noddwr ei wlad
 Y milwr trwm ei alwad.
 Y Sabbath wrth basiaw heibio
 Rhowch flodeuyn gwyn idd ei go,
 Na, un coch gwaedgoch i gyd,
 Efe roes waed ei fywyd
 Yn Waterlw, torrai i lawr
 Alon geirwon ein gorawr.

Bedd y merthyr.

Ust ! Ust ! boed pawb yn ddistaw,
 Ysgafn boed pob rhyw droed draw,—

Dyna orffwysfa gŵr ffydd,
 Gŵr hyf o blaid ei grefydd.
 Rhag gwadu yr Iesu, rhoes
 I dân, do ei brid einioes.
 Rhowch oreu swp o barch i'r sant,
 A lynodd â'r fath ffyddloniant.

Bedd yr anadnabyddus.

A bedd yr anadnabyddus,—O! rhowch
 Ar hwn flodyn serchus;
 Pwy ŵyr nad anwyl dad oedd
 I rai ydoedd gariadus?

Bedd y bardd ei hun.

Draw! draw! wrth weld yr huan
 Mor bur yn ymwyro ban,
 A'i haf leufer fel afon
 O fygr aur ar y nef gron,
 Daear yn fud, a'r nef, fel—pe'n gwrando
 Rhad gyngor rhyw deg angel,
 Môr o borffor, mor berffaith
 Tros y bell ne a phe'n ffaith;
 Muriau o wawl pur, mor wych,—a gwaliau
 Crisial, a muriau Caersalem orwych,—
 Draw! draw, dymunai f' awen
 Gael huno, gorffwyso 'i phen.
 Bydded i fi'r bedd di-faen,
 Heb nod, heb un i'w adwaen,
 Lwysaf le, 'r ol oes flin—ar ddihalog
 Ororau y lliwiog glaer Orllewin.
 Ar dirion hwyr, rywbyrd arall,
 'R ol dydd o boen, o boen ddi-ball
 Pan syllwyf dan bruddglwyf bron
 Ar hygar donnau'r eigion,
 A gwyrdd Neifion fel gardd nefawl
 Is ser a'u gogoneddus wawl,
 Pob gwaneg deg fel yn dod—a grasawl
 Lon air o dadawl enau'r Duwdod;
 Arddunol sancteiddrwydd anian
 Yn troi'n wynfa'r olygfa lân,—
 Am ennyd, braidd, dymunwn
 A bodd Naf, gael bedd yn hwn,
 Hefo'r dorf sy'n dy fru di,
 O Fynwent fawr ddifeini!

Y gloddfa deuluaidd.

Na, na! pan ddaw fy niwedd,
 Ger y Llan boed man fy medd!
 Gyfeillion tirion, torrwech
 Yno le i'm marwol lwch.
 Rhowch fi i lawr dan laswawr len,
 Is tawel gysgod Ywen.

Dail hon a fo'n delynnau—i hwyliawg
 Awelon eu chwaraeu,
 Eu miwsig fo am oesau
 O'r Ywen brudd fry'n parhau.

Nodded Ywen mewn heddwch
 Oes ar ol oes, fy oer lwch;
 O! na foed i ynyfdion
 Daro byth ryfder ei bon.
 Gadawer hon yn llonydd
 I'm cwyno, nes delo'r dydd
 I niwloedd y glyn olaf
 Doddi i ddydd newydd Naf,
 Yr ysblynydd ddydd i ddod—i fyny
 A gallu Iesu, o'r oergell isod.

Yno y dodwyd fy hen gyndeidiau
 Yn dawel i lwch, deuluol achau,
 Yn aml i reng, gan lem law yr angau;
 Yno e geir fy nghyfeillion gorau,
 Rhai ffyddlon o'u calonnau,—a'r un gain
 O! 'r un wir firain fu farw'n rhy forau!

Bedd fy chwcer.

A minnau wyf am annedd—dawelaf
 Yn ochr Elisa fy chwaer lwyswedd.
 Mae adenydd lor am dani,
 'R un dlos, mae yn aros yn hir
 Yn ei bedd, yn ei bedd bach,
 Heb ball, am ei brawd bellach.
 Mae hi'n awr yn mwynhau'i hedd
 Gwn, am lawn ddeugain mlynedd;
 Eneth bach, hi aeth i'w bedd,
 I lawr i dawel orwedd,
 Ah! do, *cyn* geni'r brawd cu
 Mewn cwyn sy yma'n canu;
 Er hyn, ei hanwylo'r wyf,
 O raid ei charu'r ydwyf;

Ar heuldir Anfarwoldeb—pe'i gwelwn,
 O! mi adwaenwn, gwn, ei theg wyneb;
 Awr beraidd fry i'w bardd-frawd—yn ddiaw
 Fydd, o wynebaw'r torfeydd, ei nabawd!
 I'm, un o swynion mwyna—gwlad fy Naf,
 Gwlad lwysaf, fydd gweled Elisa.
 Gallwn farw'n llon fory
 Er y dda fraint o'i chwrdd fry.

Y dwfn fedd nid ofnaf fi,—o'i gariad
 Y mae Duw-Geidwad i'm hadgodi.
 Metha fy ngwlad ag adwaen
 Yr enw mwy ar garn y maen;
 Metha'r Olaf Amaethwyr
 Ddeall sill o'i bennill byr.

Iesu a'r bedd.

Yr Henaf Frawd, er hynny,—ni fetha!
 Fyth ei gariad bery;
 O fewn ei fron bydd f'enw fry,—a'i ffyddlon
 Uchaf angylion o gylch fy ngwely.

Ewyllys y Tad.

Y llannerch, y lle union,—a gofia
 Fy Nuw—Gyfaill ffyddlon;
 Delw sy o deulu Seion
 Yn gywir fry ger ei fron.
 Fe rydd arch i'r dywarchen
 I chwyfo mwy uwch fy mhen,
 O! ysgafn fydd fel asgell
 Cerub; ail gwasg awyr bell.
 Nis tyr "Ewyllys y Tad,"
 Cadarn yw yn llaw Ceidwad.
 E dry'n fân y darn o fynor
 Uwch y man; fe sycha y môr;
 O'u rhodau'r ser chedant,
 Gwrthol o'u rheol yr ant;
 Byth ni ddigwydd aflwydd i'r
 "Ewyllys," ac ni chollir
 Un mymryn llwchyn o'r llu
 A roed i'w llwyr waredu.

Ni fyn Iôn i "ddim o hono—golli,"
 Nis gall ei anghofio;
 Mewn awr gref fe'i myn o'r gro,
 Yn Natur gyflawn eto.

Ni all y Fynwent lwyd fy arswydo,
 Dywell gafell, ond imi adgofio
 I Iesu ei hunan orffwys yno,
 A! fe aeth i lawr i fythol euro
 Yr wgus oer, oer ogo,—troes y bedd
 Diau mwy yn annedd dwymn i huno.

Haul Iesu grasawl isod,—wych loewder
 Fachludai i'r beddrod,
 Glyn bedd yw'r goleua'n bod—mae'r gell gau
 Yn olau i'w gwaelod!

Ioseff o Arimathea.

O! na fuaswn, ddydd angladd fy Iesu,
 Yn lle'r Ioseff hygar wnai ei garu,
 I roi fy hunan yn llwyr i fyny
 Arno o hiraeth i wasanaethu;
 O'i ol i gerdded, â chwinwl gorddu
 Yr hwyr am danaf, i lwyr alaru;
 Yr hwn o'i fodd ar bren fu—o'i gariad
 A'i ras, fwyn Geidwad, drosof yn gwaedu.
 A rhoi benthg myg o 'medd
 Fy hun, yn olaf annedd,
 I'w gorff oedd glwyfus i gyd
 Gael ynddo huno ennyd.
 Hoffaswn gael corff Iesu
 I gael ei eneinio'n gu,
 Dan brudd gwyno ei eneinio—
 Yno'n anwyl,
 A'i roi i'w le 'n ara' i lawr,
 A gohiriaw'r gu arwyl;
 Ac eistedd mewn cystudd mawr
 O alaeth, ar y dulawr,
 Gerllaw, i wylaw o'i ol
 Mwy, hefo'r ddwy Fair dduwiol.

Ioseff ro'i fedd i Iesu,—rhoes Yntef
 I'r sant, i'w ad-dalu,
 Wynfa lân yn gyfran gu,—Gogoniant
 A Dwyfol loniant nad yw'n diflannu.

A! cafodd y benthg hefyd—yn ol
 Yn wely tra hyfryd
 I'w gorff, wedi 'i da'nu gan
 Dynner law Duw ei hunan.

'Nid yw Efe yma.'

Arno er murio y carchar marwol,
 Ac er sicrhau mwy na dorau durol,
 Er archoffeiriaid, fradwyr erch, ffwyrol,
 Er Pontus Pilad a'i lu gwyliadol,
 Er rhwymo 'n Hathraw, rholio'r maen uthrol
 Ar ei fedd, er ei selio'n herfeiddiol,
 Iesu gododd â nerth oll-ysgydwol
 I'r lan! i'r lan! trwy y dorf elynol,
 Dan aur faner bywyd anherfynol,
 A'r angeu 'i hunan yn marw ynghanol
 Ei eres ogoniant goresgynnol,
 Tra meib bywyd draw, draw ymhob heol,
 O'r gref Gaersalem nefol—yn dechrau
 Llawenhau â thelynuau bythlonol.

A byth wedyn beth ydwyd
 Ti, O y lon Fynwent lwyd?

Mynedfa, mwy, o'n hadfyd,—trwy gaddug
 I'r tragwyddol fywyd,
 Arweinfawr ddor i wynfyd,
 Oer gell bedd sy ddor gwell byd.

Yng nghadarn law fy Ngheidwad,—drwod af
 Draw i dir nefolwlad,
 Cyfeirfys at Teyrnlys Tad,
 A man fy holl ddymuniaid.

I'w anwylion, beth yw y glyn olaf?
 Glyn y dydd! Ie 'r Gelyn diweddaf!
 Angau tirion, fy nghyfaill ffyddlonaf,
 Annoeth a fuais, mi mwy ni'th feiaf,
 Terfyn pob gelyn gaf—ynnot weithion,
 Un o'm hen alon byth mwy ni welaf.

Tragwyddol iechyd.

Gwaelod y bedd sy glyd byth
 O'i ol, i'w holl wehelyth!
 O'm ceufedd Ef a'm cyfyd—mewn harddwch
 Fry, o lwch, i anfarwol iechyd.
 Oh! Uchod, beth ydyw iechyd bythol!
 Byw oesau rif tonnau 'r moroedd taenol,
 Hwnt i Rifyddiaeth a'i gant ryfeddol,
 Byw y clær huan allan yn hollol!
 O, fuchedd ryfedd, ar ol—blinderawg
 A dolenawg glefydau olynol.

Yn holl elfennau mwynhad,—y fwyaf,
 Cofier, y bennaf yw Cyferbyniad,
 Meithder ar ol byrder bôd
 Fydd hoen y nefoedd hynod.
 Am rwysg Caersalem a'i rhin,
 Pwy ŵyr oreu? Pererin.

Ef fu unwaith âg hadau tufewnol
 Y marw yn ei anian, mor wenwynol,
 A'i galed fywyd dan glwy difaol,
 Efe a ŵyr am werth yr Anfarwol.
 Hwn all ymgodi'n hollol—at fawredd
 A rhyfedd fonedd bod anherfynol.

Ni gawn yno enwog wynion ynau,
 Na bu o'u gwawr gan y cerub gorau';
 Cawn gyferbyniad gan Gof o'r bannau
 Tragwyddol, pan ddaw'r anfarwol forau,
 Dadguddiad, gwn, acw leinw'n calonnau
 A mawl i Ner am y gorthrymderau,
 Am y du gethin siomedigaethau,
 Am y bedd ei hun, am y buddiannau,
 Yr urddas a'r gras sy'n dod o groesau.
 Ni gynyddwn ar y gogoneddau
 Y sy ar engyl, wrth basio'r angau
 I'r iach entyrch, a phechod erch yntau!

Heb ymadael mwy.

Tragwyddol ryfeddol fydd
 Mwynhau yn Salem Newydd
 Goron wedi'r greulon groes,
 I lonni bythol einioes,
 A gwrandaw hwyl alaw lon,
 Croesawiad corau Seion;
 A chw'rddyd mewn hyfryd hwyl,
 A'n hen gyfeillion anwyl;
 Rhai mewn trallod isod oedd,
 Fry i'n Hiôn yn frenhinoedd,
 Heb ofni cyni nac aeth,
 Nac engur gur ysgariaeth;
 Hedd i mi fai'u cwrdd am awr
 Yma'n y cystudd tramawr;
 O! beth fydd y cwrddyd bythol
 A saint Naf, sy in' eto'n ol!

GARDD EDEN.

BU gan ddynoliaeth yn ei dyddiau gwell,
 Ardderchog gartref yn y dwyrain pell,
 Cyn dod o bechod ar yr ieuanc fyd
 I wywo'i degwch a heneiddio'i bryd;
 Pan oedd y ddaear hon o hawddgar lun
 Fel nefol ardd flaen palas Duw ei hun,
 Pan wenai engyl ar eu hieuanc frawd,—
 Yr angel newydd yn y wisg o gnawd,
 A elwid Adda, bod o ryfedd ryw,
 Ardderchog goron creadigaeth Duw.

O ddedwydd adeg, cyn i bechod du
 Ddarganfod rhwng y ser ein daear ni,
 Cyn darfod adsain y digymar gôr
 A ganodd uwch newyddion fydoedd Ior;
 Cyn i daranfollt hollti'r cwmwl gwyn
 A hongiai uwch y ddaear deg bryd hyn,
 Yn blygion o ogoniant, cyn i'r dydd
 Hiraethu am y nos a'i llenni prudd;
 O cyn i seren ddechreu crynu fry
 Uwchben euogrwydd dyn a'i ryfyg hy.

Pa fodd y canaf i'r ardderchog Ardd,
 Boreule hyfryd y ddynoliaeth hardd?
 Mae'r awen sydd yn dringo'r Alpau derch,
 Yn gyrru heibio i'r ystorom erch,
 Mewn godidocaf gerbyd ar ei hynt,
 Yn pasio carreg filltir ola'r gwynt—
 Yn syllu i lawr o Chimborazo draw,
 Ar erwi fyrdd o gwmwl tew islaw,
 Mae'n methu dringo'r oesol fur y sy
 Yn cau i mewn ei haml degwch hi—
 Arsyllfa im nis caf, er gwneyd fy ngorau,
 I weld preswylfa diniweidrwydd borau,
 Y mae'r cerubiaid tanllyd yn gwahardd
 Hyd heddyw y fynedfa deg i'r Ardd.
 Mi drof i mewn i'm hensid prudd fy hun,
 Beth ydwyf ond parhad o'r cyntaf ddyd,
 Parhad o'i nodwedd a'i adgofion ef,
 A'i hiraeth mawr, a'i siomedigaeth gref?
 'Rwyf finnau fel yn teimlo ambell awr
 Ryw niwlog adgof am ogonedd mawr

Fy natur yn ei mebyd santaidd gynt—
 Wan adgof am ryw lon foreuol hynt
 Ar hyd rhodfeydd yr anifannol wyrdd,
 O'r fath sy'n harddu teg ymylon ffyrdd
 Y cerbyd dwyfol fry, rhyw gwmwl-go
 Am fore llon mewn rhyw hyfrydol fro—
 Bro y syrthiasai pwyntel Raphael fawr
 Am byth o'i law wrth syllu ar ei gwawr;
 Lle nad oedd clafaid liwiau Hydref prudd
 Yn sisial enw angau wrth y gwydd.
 A fum i'n canu ar ryw ddwyfol draeth
 Gerdd nad oes gennyf adgof am ei hiaith?
 Pa beth oedd ymgais y ddynoliaeth egwan
 Trwy'r oesoedd i gymysgu'r rhyfedd gwpan
 O ryw anfarwol rin, ond cof cymysglyd
 Am Eden deg, a rhinwedd pren y bywyd?

Ni chlywir bellach dan y felldith fawr,
 Ond ambell ddarn o'r ddwyfol gân yn awr;
 Toredig ddarnau anghysylltiol sy
 O'r hen beroriaeth anherfynol fu,
 Ychydig yma, ac ychydig draw—
 Peroriaeth rhwng taranau ar bob llaw.
 Nid yw arweinydd corau anian gun—
 Perffeithydd ei cherddoriaeth, dyn ei hun,—
 Yn canu ond yn bur anfynych mwy,
 Gan archoll pechod erch a'i farwol glwy.
 Rhyw ambell odl ddaw o'i enau ef
 Wrth ganfod rhwng cymylau'r storom gref
 Der dŷ ei Dad, a phenrhyn pell o'r nef.
 Mae dyn a natur mewn caethiwed mwy
 Yn garcharorion, ac ni chanant hwy
 Ond pan y torro rhyw belydryn gwell
 O wawr rhyddhad i mewn rhwng barrau'r gell.

Ond ym Mharadwys, breswyl lonydd lân,
 Ni chlywid fyth ond un dragwyddol gân,
 Un gyffredinol anthem dros y byd,
 Bêr anfeidrolder o gydgordiau prid,
 Unedig anthem gylich gorseddfainc Ior,
 O feinlais pell y ser hyd islais dwfn y môr,
 Di-dor beroriaeth oedd bodolaeth dyn,
 A sang ei droed ar wyrdd y Wynfa gun
 Ddeffroai gerdd, er fod ei sang yn awr
 Yn deffro ysbryd y ddaeargryn fawr.

'Roedd byw ei hun yn ddigon o fwynhad,
 Yr oedd ei siarad yn beroriaeth fad,
 A'i ganu'n filwaith mwy; cerdd-beiriant mawr
 Oedd creadigaeth eang Duw yn awr,
 A dyn ddeffroai'r seiniau mwyaf llon
 Trwy bob cyffyrddiad ar yr organ hon.

Y dyn a safai fel cyfryngydd gwell,
 Rhwng y naturiol a'r ysbrydol pell,
 Gan gynghaneddu holl elfennau bod
 O'r llwch iselaf hyd yr uchaf rod,
 Cai marwol ddefnydd dafod yn y dyn
 Ac ynddo gwelai'r angel ei ddelw ef ei hun.

Pan elai ef i huno am y nos
 A'i ben yn ddwfn mewn anfarwol ros;
 O pan ddistawai bywiog donau'r dydd,
 Pan ai'r asgellog gorau yn y gwŷdd
 I gyd i orffwys mwy, fe alwai Duw
 Y lloer a'r ser i gadw'r gân yn fyw.

Dihunid brenin y baradwys dlos
 Gan anthem anian weithiau ganol nos,
 A rhodiai allan ar yr hwyr-awr bér
 I wrando ar hyawdledd pur y ser—
 Cenhadon diaglaer tragwyddoldeb pell
 Sy'n canu eto am ryw fydoedd gwell.

O, Eden yn y nos! Paradwys wiw,
 Ar awr distawrwydd, awr sancteiddiaf Duw,
 Pa ddawn a draetha ei gogoniant ter
 Dan oleu'r lloer, a santaidd oleu'r ser?
 Caraswn weled y baradwys wen,
 Pan fyddai nos yn tynnu ysgafn len
 Dreiddiadwy i angyllion dios ei nen.

Y cwmwl arian a gusanai'r gwŷdd,
 A wlawiai arnynt addewidion dydd.
 Wrth grwydro ganol nos trwy'r ddwyfol ardd,
 Fe gwrddai dyn â llawer cerub hardd,
 A'u hedyn claer sidanaidd lanwai'r nef
 A llon beroriaeth, wrth ei basio ef.
 Yr oedd ei glyw yn deneu iawn bryd hyn
 Deallai iaith yr awel ar y bryn,
 A iaith y dail, a dyfnaf iaith y don,

' Roedd ei synhwyrâu yn ysbrydol bron.
Mae anian eto'n siarad, ond y mae
Clyw ayn yn fyddar ond i lefau gwae.

Rhodfeydd godidog redent trwy yr ardd,
Y fath na ddychymygodd crebwyll bardd ;
Cyffelyb oeddynt i'r rhodfeydd y sy
O flaen palasau yr angylion fry ;
Ymylid hwy â'r blodau mwyaf pér,
Cyffelyb i'r rhai sydd yng ngerddi'r ser
Yn tyfu o dan gysgod gorsedd Ner.

Fe godai y foreuol awel lon
Gerublwyth o aroglau yn ei bron,
Anadlai hwynt ar fynwes dyner dyn,
I'w hyfryd ddeffro o'i felusaf hun.
O pan ddihunai, ' roedd yr ardd i gyd
O'i amgylch yn ymagor megys byd
O berarogled blydd, tra'r coedydd cain
Yn plygu dan y gyngerdd bêr ei sain
A droai'r goedwig fore a phrydnawn
Yn ddwyfol deml i beroriaeth lawn.

Pan godai Adda ei ddihalog law
I dynnu eurog ffrwyth y gangen ffaw,
Ataliai hi gan syndod wrth y gerdd
Foliannus oedd yn llanw'r goedwig werdd.
Ai'r oriau heibio fel munudau bron,
A boddid amser yn y gyngerdd hon.
Parhâi'r blodau trwy y flwyddyn hir
I hardd ddisgleirio ar y sanctaidd dir,
A Rhagfyr Elen oedd yn decach fyrdd
Na'n claer Fehefin ni a'i eiddil wyrdd.

Ni ddeuai'r eira'n is na phen y mynydd,
Neu uchel frig y paradwysaidd goedydd,—
Ymfurfiai yno i bob delw a llun,
Ramantus weddau, i ddifyrru dyn ;
A phren y bywyd dan ardderchog lwyth
O fythol rin, bob mis a roddai'i ffrwyth.

Fe dyfai ffrwythau holl hinsoddau'r byd
Ar hyd mynyddoedd y baradwys brid—
Coed ffrwythau'r gogledd ar y bannau beilchion
Yn awyr oerach y cymylau gwynion,—
Ysblenydd acron y trofannau gaed
Mewn bythol ardderchawgrwydd wrth eu traed.

Holl anian ydoedd yn ei llon newydd-deb
 Yn llawn o ieuanc ynni a ffrwythlondeb—
 Mor gyflym tyfai y planigyn egwan
 Yn nerthol bren, a myrdd o adar eirian
 Yn pyncio rhwng ei ddail, a cherub weithiau
 Yn plygu ei adenydd ar ei gangau.

Y ddaear ydoedd fras, a hawdd ei gweithio,
 A llawn o rin, heb angen ei gwrteithio.
 Diderfyn frasder y cyn-ddynol gyfnod
 Oedd ar ei gwyneb yn rhyw haen ddiddarfod,
 Brashéid hi ág oesoedd o edwino,
 Fforestydd anfeidrol-fawr wedi crino,
 A gwthiai fiodau o nefolaidd sawr,
 Trofannol ffrwythau o gerubaidd wawr,
 Fwy mewn diwrnod nag mewn oes yn awr.
 Poeth-wely ydoedd o naturiol dân,
 Anianol wrcs yn twymno'i mewnol lan,
 I gyflym dyfu rhyw gynhyrchion rhyfedd
 O'r fath a geir o dan y claer gyhydedd.

Y llew a drigai gyda'r oen bryd hyn,
 A'r llewpart brych orweddaï gyda'r myn;
 Fe grogai cwmwl tragwyddolwyn fry,
 Fel baner heddwch uwch yr oror gu.
 Yr oedd holl natur yn ei lle i gyd,
 Fel teyrnas dyn, a'i etifeddiaeth brid
 A'r holl elfennau'n ufudd ger ei fron—
 Fe roddai'r ffrwyn yng nghlaerwyn enau'r don
 Gan lywodraethu'r môr. Distawai'r gwyntoedd
 Ar godiad bys dirprwywr mawr y nefoedd,
 Er iddo golli ei lywodraeth fawr,
 Enillodd hi yn ol drachefn yr awr
 Y rhodiai Mab y Dyn ar frig y don
 Fel nerthol aer breniniaeth Eden lon.

Machludiad haul yn Eden lân!
 O, ble mae'r gallu, ble mae'r gân
 Ddarlunia y disgleirdeb mawr,
 Pan elai rhwysg y dydd i lawr
 Mewn godidocaf liwiau
 Fel claer Niagara o dduwiau—
 Pelydrau ola, teca'r dydd
 A ogoneddent ddail y gwydd;
 Trawsfurfient y cymylau pell
 Fel grisiau i'r baradwys well.

Fe lifai y cymylau'n nentydd
 O donnog aur trwy'r pell wybrennydd.
 'Roedd nôd *ddirveddaf* corau'r dydd
 Yn llon, yn ysgafn, ac yn rhydd—
 Yr hwyr-ddydd fel y wawr—
 Nid fel y mae yn awr.
 Mae lleisiau natur oll yn brudd
 Wrth araf ddilyn elor dydd
 I lawr i'r orllewinol riw—
 Ei thôn yn lleddf a'i gwedd yn wiw.

O, ieuanc oedd y lloer a llawen,
 Pan godai ar bereiddfro Eden,
 Teyrnasai fry fel bendigedig
 Frenhines newydd-goronedig,
 Ar nefoedd newydd-agoredig;
 Ac nid oedd prudd-der ar ei gwedd,
 Cyn gweld o honi fai neu fedd.

'Roedd digon o gymdeithas fry,
 O ser ac engyl ganddi hi,
 Cyn dod o bechod, erchyll gawr,
 I dorri'r cysylltiadau i lawr—
 Yr enfys-bontydd gaed uwchben
 O fyd i fyd, o nen i nen,
 Ysblenydd hynt,
 Angylion gynt,

Cyhoeddus lwybrau trwy'r wybrennydd;
 Nid oes ond awen bur a chrefydd,
 Yn gallu canfod olion mwy
 Ar santaidd hynt o honynt hwy.

Ein byd adferir eto i'r ystad
 Foreuol yn y deg baradwys fad;
 Y mae yn natur eto ryw adgofion
 O'r ddwyfol Ardd, a rhyw ddiffannol brofion
 Fod defnydd Eden eto ganddi hi
 Pan y dadblygir ei hadnoddion cu.
 Nid yw y rhosyn sy'n addurno'n gerddi,
 Gan wrido gŵda'r fath ryfeddol dlysi,
 Nid yw efe ond rhosyn gwyllt y perthi
 Yn llaw diwylliad, wedi gweithio allan
 Ei *fewnol* degwch, tegwch Eden eirian!
 Ni all diwylliad, er mor ryfedd yw,
 Greu newydd degwch, na rhoi newydd liw
 Na feddai ef o'r blaen, dim ond dadblygu
 Yr hen brydferthwch sydd o'i fewn yn cysgu.

Ceir pob peth yn y cread fel pe bai
 'N anfoddlawn i fodoli fel y mae.
 Ymdrecha'r graig i efelychu tyfiant,
 Blodeua allan mewn godidog risiant.
 Mae'r gangen ddiddaill yn y gauaf gerwin
 Yn estyn breichiau noethion fel pe'n erfyn
 Am hyfryd adeg gwanwyn anherfynol,
 I ddwyn yn ol haf Eden—haf tragwyddol.

Mae ambell lannerch yn fy Nghymru dlos,—
 Pan rodiwyf drwyddi rhwng y dydd a'r nos,
 Pan fyddo'r ser yn ennill ar yr huan—
 I mi fel darn o Wynfa Duw ei hunan.

Deg afon Clwyd! O, pe tafiai Ior
 Fy mhechod *olaf* i'r tragwyddol fôr,
 Na ddaw ymwelydd bythol at ei lannau,
 Na bad na goleu bythol ar ei donnau—
 Pe rhoddfai imi gorff heb unrhyw glwy,
 Na chystudd trwm, nag ofn marw mwy,
 Mi allwn fyw'n dragwyddol ar dy lannau,
 A galw'th ddyffryn, di yr Eden orau.

O, nid oes Eden, er mor hardd, mor der,
 Ond cysgod gwan o Eden uwch y ser,
 Lle mae y saint dan orchudd gwinwydd gwell
 Yn canu'r fythol gerdd yn ddigon pell
 O afael pechod mwy.

Arwyddlun gwyw

Oedd Eden o baradwys nes at Dduw,
 Paradwys yn ei fynwes, yn ei wedd,
 Yn un dragwyddol wledd!

O, dyro imi, Iesu, fy anwlyd,
 O dyro imi ran ym mhren y bywyd;
 Rho imi eistedd yn dy Ardd dy hun,
 A blannwyd gan dy law,—dy law a fu'n
 Prudd sychu'r dagrau oddi ar dy rudd
 Ger bedd dy gyfaill Lazarus ryw ddydd.

Mae'r ffordd ymhell, ni wel y seren bella
 Sy'n crynu gan agosrwydd Duw, ni wel mo fur y
 Wynfa.

Mae'r ffordd ymhell, ond cyflym yw y cerbyd
 Sy'n tramwy o farwolaeth draw i fywyd.
 Ac nid i *un*—nid cerbyd i Elias
 Yn unig yw, y proffwyd mawr ei urddas,

Ond cerbyd Israel,—cerbyd yr holl lwythau,
Ac yn y man ceir ynddo le i minnau.

O, hyfryd meddwl gyrru tua thref
Yng ngherbyd Paul—y clud a'i dygodd ef
O Rufain i ogoniant—ac a ddug
Ardderchog lu'r merthyron o'r fflam i'r Wynfa fyd.

Dad gwna fi'n barod pan y delo'r dydd
I lamu iddo yn dragwyddol rydd,
I yrru tua'r Eden bwr uwchlaw y ser y sydd.

JOHNNY A THOMAS FRANCIS, GUAYACAN, CHILI.

O CHILI bell y daethant dros y tonnau,
Mor ieuainc, O mor ysgafn eu calonau!
Mor falmaidd oedd awelon y Tawel-fôr
Y dydd y cychwynasant i'r uchel-fôr;
A'u rhiaint oddiar y lan, mi dybiaf,
Yn edrych arnynt am y tro diweddaf!

Ai nid oedd prudd-der yn yr ymadawiad
Ar fwrdd y llong, rhy ddwfn i ddesgrifiad,
Rhyw ddirgel deimlad, hanner ymwybodol,
Rhyw gysgod du 'n ymestyn o'r dyfodol?
Ai ni edrychent ar y llong, o bell,
Fel angel-long yn rhwym i fydoedd gwell?
Ai ni thybiasant hwy y noswaith honno,
Ar fôr breuddwydion weld y llong yn hwylio
Tu hwnt i Gymru, a thu hwnt i amser,
A golygfeydd tragwyddol yn y pellder?
Ai nid oedd swm yr awel ar yr hwyliau
Fel swm y *ffarwel gerdd* a rydd y sant yn angau?

Fel yr Hebrewr ar estronol hynt
O fro ei dadau, pan yn alltud gynt,
Dros lawer anial poeth dychwelai'n flin
Er mwyn cael marw yn ei wlad ei hun;
Fe allai *fyw* mewn llawer goror arw,
Ond rhaid oedd mynd i Ganan bur i *farw*;
I gwm o Ganan Gomer daethant hwythau,
I orffwys gyda'r hen Omerawl lwythau.

Ardderchog amcan oedd i'w mordaith forau,
Am addysg bur y daethant i'n gororau;
Ond Duw anfonodd ei orchymyn allan
I'w derbyn hwy i'w athrofeidd ei hunan,
Yr athrofeidd lle graddia yr angylion,
Lle tardd gwybodaeth yn ei dwyfol ffynnon.

Y NOS.

Rhag-feddyllau.

MI ganaf am ogonedd
 Y nos, gain hynaws ei gwedd;
 Euraidd adeg bardd ydyw,
 Ac awr bêr y cerub yw.
 Engyl ar ei hymyl hi,
 Miloedd a geir yn moli,
 Rhyw adgof ynnof ennyn
 O deg etifeddiaeth dyn,
 O'i enwawg darddiad hynod,
 A'i hawl i anfarwawl fod.
 Mi glywaf lwysaf leisiau
 A'u holl nwyf i'm llawenhau;
 Lleisiau nef, rhai cartrefawl,
 Er ymhell 'rwy'n cofio'r mawl.
 Ysbrydol leisiau brodyr
 Yw'r angel-dôn drwy 'nghlyw dyr;
 Mae perthynas urddasawl
 Rhyngof fi a'r eang fawl;
 Afradlon wyf, a'r odlau
 Myg a phell wna im goffhau
 Am annedd fy nymuniad,
 Iaith fy Nuw, a thy fy Nhad;
 Ac am y dydd ca i'm dwyn—yn ol
 Eto i'r rhyfeddol gartref addwyn.

Deg nos! wyf yn d'aros di
 O fyd i'm hadgyfodi,
 Ar allu pur, i well pau,
 I fydoedd uwch gofidiau.
 Efo'r Duwdod, drwod, draw
 E ga'm henaidd gymunaw;
 Seren ar ol seren sy
 Ar fin y llwybr i fyny,
 I fyny, i fyny fyth,
 Trwy gu ofod tragfyth,
 I'r lan, i'r lan, trwy'r loewnef,
 Trosodd at ei orsedd Ef.

Dydd a't guller.

Fyrrred yw golygfa'r dydd—er esgyn
 I rwysgedd ysblenydd!
 Y cread dan suddiad sydd,—ser gollir,
 Eu myrdd gleddir yn moroedd goleuddydd.

Ar ei loew-rod ni wel yr haul eirian
 Ond disgleirdeb ei wyneb ei hunan;
 Am encyd 'hollol mae'n caud allan
 Gyfandir serenog enwog anian;
 Nid yw'r oll ddengys ond rhan—trwy'r hynod
 Enwog ofod, o'r gyson drefn gyfan;
 Dim ond rhan o'r cyfanwaith,
 Rhychwant cyn diderfyn daith;
 Un don o ddwfn eigion Ner;
 Syn don—yr adsain dyner
 Gyntaf a meinaf er mawl
 I'w "Fydded" gor-ryfeddawl.

Nos a'i heangder.

Y nos wna ddangos i ddyn—le union
 Ei blaned, fel mynryn,
 Rhyw anenwog ronynyn;—yn ddim a
 Ger ffawd y dyrfa o gyrff diderfyn.

Brau fad ger llongau'r prif fydoedd—mawrwych,
 Sy'n morio'r dyfnderoedd;
 Ac ar eu banerau coedd
 Urddasiant myrdd o oesoedd.

Er lleted ydyw'n daear alltudiedig,
 Nid yw yn anian ond tywodyn unig;
 Ar'eigion nos rhyw egwan ynysig,
 O oleudai 'r ser yn anweledig;
 Deilen awr oed mewn tragwyddol goedwig;
 Brau ddolen yng nghadwen yn hongiedig,
 Orwych fydoedd mil mwy dyrchafedig.

Fy ysbryd gyfyd uwch holl ogofau
 Y ddaearen hon, i feddu 'r nennau.
 A chymeraf fy nhaith iach am oriau
 Yng ngloewaf fydoedd, plith engyl-fodau,
 Odidog oludog ymweliadau,
 A broydd ysblenydd sy fel blaenau
 Y nefol anherfynol drigfannau.

Nos swynhudol ehanga'n syniadau
 Am Greawdwr y pell edmyg rodau,
 Yr Hwn a alwodd yr eirian heuliau,
 A greai anian â gair o'i enau;
 Ei law Ef luniodd eu haml filiynau,

A'i law a'u darwain trwy'r uchelderau
 Mawreddus, ail us ar awel oesau;
 Dygir, bugeilir y bydoedd golau
 Fel wyn gwylaidd addfwyn gan ei ddeddfau;
 Er o rif rhagor na gwllith y borau,
 Mae Ior yn nabod eu mir wynebaw,
 A geilw y ser trwy yr holl bellderau
 Ar ryw iaith hynod, oll "wrth eu henwau."

O! ddidor ryfeddodau!—hwy faeddant
 Y rhifyddiaeth orau,
 Palla i gyd—pwy all gau
 Am y ser â mesurau?

Os eir amgylchedd seren
 E wna archangel yn hen;
 Daw bore hynod adgyfodi—cyn
 Terfyn un flwyddyn nefol iddi,
 Fawreddig flwyddyn ddigoll,
 Fwy nag eangder amser oll.
 Mawredd uthr ryfedd, a threfn—cerub a
 Acw i syndra uwch eu cysondrefn.
 Rheol drwy anfeidrollder
 Yw perffaith gysonwaith ser.

Dyrysaf uwch y dyfnder isod—rhy fawr
 Fyth i weld ei waelod,
 Lle i fydoedd filoedd fod
 Yn dawel fel mân dywod.

Eto, rhaid im ymatal,
 Gormod o dduwdod im ddal!

Dymuno corff anfarwol i olrhain.

O am gorff yn rym i gyd,
 Un a fai oll yn fywyd;
 Un fedrai daith anfeidrol
 Drwy y nef heb droi yn ol;
 Un, fel enaid, na flinai,
 Hwylus gorff, fyth na lesghai;
 Heb fethiant, er byw fythol,—heb angau,
 A heb reidiau ond rhai ysbrydol.

Gwibdaith drwy'r gyfundrefn heulog.

Yna o dywyll fyd ymadawn,
 A'm tragwydd adenydd a daenwn

Uwch y cymylau, yn iach acw molwn;
 Ar y Lloer danbaid gannaid disgynnwn,
 A'i llosgfrynïau am-olau ymwelwn,
 A'i heirdd newidiawl arweddau nodwn;
 Am ei hatynol rin yr ymholwn,
 A'i rhaff dynnol wych reol chwareuwn,
 Ar hedfa seraff ei rhod fesurwn;
 Ogylch y blaned ddaearol hedwn,
 A hithau fel lloer fwy olau welwn,
 O fyw newydd! mis cerub fwynhawn.

Awn ar gyrch i Mercher gan,
 Dewis hoff blaned Huan;
 Gwasga hon at ei fonwes,
 Beunydd rhydd ei orau wres
 A'i orau olau o hyd
 Yn helaeth i'w anwylyd.
 Afreidiol creu un lleuad
 Yn chwaer fwyn i Mercher fad,
 Nawdd agos haul sy'n ddigon,
 E ga'r dydd holl gariad hon.

Ar y daith cawn Gwencer deg,
 Mor brid ei gwrid goreudeg!
 Ei thyner fireinder hi
 A geir yn tra rhagori
 Ar geinder gwychder a gwawl
 Holl nifer y llu nefawl,
 Duwies tegwch harddwch oedd
 Yn asur y cynoesoedd,
 A! mwynhawn brif em y nos
 Benigamp, pe bawn agos;
 Os synnais wrth ei swynion
 O'r ddaear bell hybell hon,
 Ynfyd awn o'i chanfod hi—ar ryfeld
 Fyg sedd gyfagos iddi,
 A chael hir drem uchelwych
 O'i hwyneb draw heb y drych.

Awn eilwaith ar daith nes dod—i Iau fawr,
 Prif fyd ein harianrod,
 Na wel o'i aruchel rod
 Drwy oesau'n daear isod.

Oddiyno'n arddunol—i Sadwrn
 Bell sidell ramantol,
 Draw yn deg dry yn ei dwy
 Eirian fodrwy anfeidrol:—

Y nos anwyl gâr yma breswyllo
 Ddedwydd blaned, heb braidd dydd i'w blino,
 A bythawl loerwawl yn tawel euro
 Pob drych rhamantawl mil-lennawl yno;
 Hi a ga'lawer lloer i'w goleuo,
 Aarywiaeth o'u gwasanaeth i'w swyno,
 O'u hamgylch loewder gwel rai'n machludo
 O hyd, ac craill yn hardd-deg wawrio;
 Un yn entrych gwych y gwawl;
 Un ar y terfyn hwyrawl,
 Arall a'i gwawl yn pallu
 I gyd oll, mewn diffyg du;
 Lloer, arall yn dod allan
 O'i bedd mewn ail ddiffyg ban,
 A'i hēglurdeg ddisgleirder
 Wrth ddyrchu'n synnu y ser;
 Un ar gil o leufer gwan,
 Un arall oll yn eirian;
 Ac weithiau'r lleuadau oll
 Mewn teg ymuniad digoll,
 Y swynol gysegrol saith—yn t'wynnu,
 Draw'n eiriannu ne Sadwrn ar unwaith.

O, farddol ryfeddol fyd,
 A'th nwyfre fyth yn hyfryd!
 Yn hir y mynnwn aros
 Yng nghysegrfyd nawddfyd nos,
 Byw ar der leufer dy lon
 Fireiniaf lawforwynion.
 Ar fy nhaith eilwaith elwn—heb lesghau,
 Ag ymylau'r Drefn Heulog ymwelwn.

Uranus fawr, y nos fyd,
 Yn hon aroswn ennyd,
 I fwynhau ei golau gwan,
 Hwyr aur ei chwe lloer eirian;
 Yna i bwnc fy nhaith bell
 Yn oerbarth Neptune hirbell,
 Terfyn fyd ein heuldrefn fawr,
 Y ffinfyd pell gorffenfawr.

Ac yna yn iach canwn,—am barthau,
Sy fyw o heuliau, daith oesau filiwn.

Enwog nos! mae'th gynhwysiad—yn rhy fawr
Fyth i'm hamgyffredial,
Rhy faith yw'r gyfundraeth fad
Oddiarnaf, im ddirnad.

Newton a'r nos.

Newton—Columbus natur—a chwiliodd
Trwy uchelwylch lafur,
Deg nos, dy wiwgain asur,
Dy hedd pell, dy fydoedd pur.

Dilynai dy olwynion
Drwy y nef, oleunef lon.
Gwelai d' ardderehog olud
A deddfau dy rodau drud.
A! rhoddaist iddo ryddid
A braint y Gre'digaeth brid.
Dalia'i law, fel angel Ior,
Allweddau y bell wyddor,
Wnai ddi-gloi y bydoedd glân,
Enwog uchddorau anian.
O fyd i fyd hedai fel
Un rhwng y dyn a'r angel.

Er hyn addofai'r olrheinydd hyfawl
Nad oedd ond maban egwan unigawl,
Heb dlarganfod ond un perl arddunawl
Yno ar fin y pell anherfynawl;
Diadwaen foroedd didawl—eto oedd
O faith oludoedd y nos fythledawl.

O, Igridd y rhodau.

Syn wrandaw wna yr awen,
Y nos, ar beroriaeth nen.

O! braidd hi glyw beraidd glod—y rhodau
Cariadus, mewn undod;
Mae rhyw fain adsain—rhyw nod
O'u dwyfawl gân yn dyfod.

Hyd y llydan ofod, y lleuadau
A sidellant yn eres eu dulliau
Mewn drych hynodwylch gylch y planedau,
A'r rhai hyn eilwaith gylch mawrion heuliau,

Gyda swynol gydseiniau—anthemol,
Yn gôr anfeidrol o gywrain fydrau.

Er fod eu mawr rifedi
Uchod yn ormod i ni
Ei gynnwys,—eu cydganedd—rhyfeddol
Acw sy unol yn ei llawn gysonedd;
Nis ceir un nôd croes o'u cân
Nac anghord yn eu cynghan.

Daw y nos fel cennad Ner
I fyny dan ei faner,
Ag angylion llon bob llaw,
Orwych res, er ei chroesaw,
Yn enw yr Ion ei hunan
I ddi-gloi y bydoedd glân.
Clyw eu haur byrth dislaer ban
Uwch angau, gyda chynghan,
Gyda sain rhyw gywrain gôr.
Ogylch yn cydymagor;
O gwel eu haruchel rôd,
Rai dedwydd gerllaw'r Duwdod.
A! nis dring dinistr angau
I'r lan byth i'w gorlon bau;
Er ehanged eu gwledydd,
Gofod i feddrod ni fydd.
Nid a angludd o'u haddef
Tra miloedd blynyddoedd nef.
Ni throir maen yn feddfaen fyth
Oer gofur yn dragyfyth.

Y nos a'r rhat hunasant.

Dyner ser! cryf hiraeth sy,—yn ddibaid
Yn fy enaid am ddringo i fyny
Palasau y seintiau sydd
Uwch braw, o fewn eich broydd.
Ynnoch rywle mae ne 'nhad,
Aur wynfa mam dirionfad.
Oes rhyw gof o'r amser gynt
Eto yn eiddo iddynt,
Rhyw ddolen o'r gadwen gaid
Yn ein huno'n un enaid?

Ann, fy chwaer, sy'n eich nef chwi,
Rhoddwyd nef fore iddi,

Pur anfarwoldeb bore,
 Coron cyn loes y groes gre.
 Diolchaf i Naf a'i nos
 A'i dda engyl am ddangos
 Y man lle gorffwyswch mwy,—ac mae'r wen
 Hardd Eden i minnau'n gyraeddadwy.
 I fewn pan ddeuaf finnau
 O'r flin hynt, O! 'r ail fwynhau
 Rhyngom a fydd, a'r angau
 Tu ol byth i'n tawel bau,
 Gwlad Seion, hyfrydlon fro,
 Nis enwir y nos yno.

Tŷ ger y môr ganol nos.

A! mae ynnof ddymuniad
 Trwy'm hoes, am wneyd cartre mad
 Yn fy henoed i f' hunan
 Mewn rhyw le tra mwyn ar lan
 Y gwyrdd fôr, a gardd firain
 O'i gylch fel paradwys gain,
 Gerllaw hwn adeiliwn dŷ,
 Nef ei hunan fai hynny.

Dedwydd yno trwy hyd y dydd hunwn,
 Gyda'r nos hoff a'r eos deffrown,
 O! gyda'r ser mi godwn,—mewn purach
 Dydd dwyfolach amgenach mi ganwn
 Foliant gogoniant Gwiwner
 Mal sant yn ymyl y ser.

Efo'r awen awn yn llawen
 A llawn lleuad
 Tua'r glannau, a'm meddyliau
 Am addoliad.

Eurai, gogoneddai'r nos
 Unigawl, y don agos.
 Tonnau a ser—cawn tan eu swyn
 Newyddfyd i'r awen addfwyn.

Mae y ser fel am siarad
 Yn y nos am dŷ fy Nhad;
 Meddyliau uwch geiriau gaf
 O'r ser, ddwyfolwers oraf.

Tybiaf, meddyliaf im ddod—o fynwes
 Addfwynaf y Duwdod,
 Mal Efe—a theimlaf fod
 Fy ach o'r wynfa uchod.

Tybiaf fod eto obaith
 Am Eden wen yr ail waith,
 Eden well dan ewylllys
 Fy Mhrynwr, llywiwr y llys;
 Addaw maent mewn hedd i mi
 Caf eilwaith acw ei foli,
 A'i weld wedi'r holl hirwae
 Yn ei lys "megys y mae."

A! mi a wn am fangre dymunol,
 A'r môr yn agor o'i flaen—unigol
 Dawel lannerch, mewn lle di-elydol.

Yn mwynder eu cymundeb
 Clau, ni theimlwn eisiau neb.
 Gwell weithion y don dyner,
 A'r caruaidd sanctaidd ser,
 Na gweigion gymdeithion dydd
 I weini ar awenydd.

Unoliaeth awen, seren, sant.

Awen, a seren, a sant,
 Enwir mewn perffaith uniant.
 Yn eu nodwedd un ydynt,
 O'r un'llwyth a thylwyth ynt.

Y ser oeddynt fy mhrif gysuryddion,
 Eang fydoedd, gynt yn fy ngofidion,
 I fyw rhinweddol fy arweinyddion;
 Nos oedd angyles pan suddai 'nghalon
 I 'nhywys i ddinas Iôn,—i froydd
 Y gwin newydd a'r bythol ganeuon.

Hi a'm haddysgai fod modd i esgyn
 I ryw eilfydoedd ar loewaf edyn,
 Draw o dwrf daear a dyn,—i weld gwawr
 A dydd dirfawr ein tynged ddiderfyn.

Gwna y nos ddangos i ddyn
 Y dwyfol aur edefyn
 Sy eto, er rhwysg Satan
 Yn uno'r byd â'n Hiôr ban.

Gwynneb nef mewn afonydd.

Weithion mae'r hyfrydlon fro.
Hoff isod yn gorffwyso.

E baentia 'r nen ei gwyneb ysblenydd
Obry ar fynwes bur yr afonydd,
A lluniau'r cymylau dros y moelydd
Acw redant fel cysgodau 'u Creawdydd;
Beth yw'r gwawl gorsynawl sydd—ar y ddôl?
Ai lliwiau dwyfol o waith llaw Dofydd?

All greadigaeth mewn llynnocedd.

Nos ddywed, "Bydded!" a bydd
Nennau'n y llynnau llonydd.
Seren ar ol seren sy
Ar wybren glasfor obry,
I'w huchelfaith daith yn dod
Drwy asur y dŵr isod.
O flaen Duw fel hyn y daeth
Gwawr deg y greadigaeth;
Fel hyn yn sydyn doe'r ser
O ddu amdo diddynder.

Mewn ter lif mae natur lân
Heno yn dyblu'i hunan.

Sain y nant swyna y nos,—fry wyla
Pan fo'r haul yn agos,
Mynnai 'n awr i'r guwawr gain
Yn Nwyrain gwyn i aros.

Y mae y nant fel am i ni,—weithion
Ddeall iaith y nosli
Mewn hedd cymuno â hi,
A boddus ateb iddi.

Yr eos.

Clyw, draw, yr eos lawen,—fel duwies
Ar flodeuog gangen;
Llanw â'i mawl y nefawl nos
Wna'r eos bêr ei hawen.

I'r gwigoedd heirdd cydgrynhua beirddion
Aml yng ngoleu y ser, mal angylion,
I fwynhau dwyfol seiniau a swynion,
A melusderau mawl eos dirion!

Gynghanedd ryfedd! Distawa'r afon,
 I'm meddyliaeth, a'r balmaidd awelon,
 Bob llaw, i wrandaw ar hon,—oll yn gaeth,
 A pheroriaeth ei cherdd hoff yr awrhon.

A! onid ydyw anian odidog
 Mewn pur syndod, rhyfeddod gorfoddog,
 Yn rhoi 'i gwiwfys ar ei gwefus eurog?
 Yn dal ei hanadl uwch yr odl enwog,
 I lwyr fwynhau seiniau syn,—cerddoriaeth
 Dihafal hudoliaeth dwyfol delyn.

Y nos a'r gwilithyn.

O law nos y cain rosyn,—goronir
 Ag ariannaidd wlithyn,
 A'i arogl ef drwy y glyn,
 Syw iawn dâl, sy yn dilyn.

O wlithyn gorwyn, mor gu
 Yw dy wên wrth dywynnu!
 Hylif em, dy loewaf wawl ...
 Gura ser â'u gwawr siriawl.
 Ni fedd un teyrnedd, i'm tyb,
 Na phalas, dy gyffelyb.
 Pa hyfryd loewder sy'n pefru?
 Beth wyd? Ai llygad cariad cu?
 Ogonawl wlithyn gwiwnef,
 A'i dafn wyd o afon nef?

Mi welais emau heulog,—yn Llundain
 A'u llond o'r godidog;
 Glanach, a mil mwy gleiniog,
 Dy ddafn ter mewn creider crog.

A dŵr nef dioda'r nos
 Fil o dyner flodionos,
 Yna'n ŵyl oll dan len,—ânt i huno,
 Mwy, i freuddwydio am froydd Eden.

Y nos a gorfyrystera.

Llefara nos i'r llafurwr,—heddwch,
 A rhyddid i'r gweithiwr;
 Dwg hun i flinedig ŵr
 Rhag aflwydd ei chwervw gyflwr.

Mal nef yn ymyl y nant
 Yw man ei hoff ddymuniant.

Taen blodau'n fwâu hedd
 Rhosynawg tros ei annedd.
 Mae'n gartref i dangnefedd,
 A gwir hoen, mae'n gysegr hedd.
 Bcddlonrwydd a dedwyddyd
 A gawn o'i fewn, a gwyn fyd.
 Y gwyrdd sy fel gardd Seion,
 Fel glas ne, gylch y lle llon
 Daw'r gwllith & dwbl fendith fad
 Ddwyfol, ar ei ardd wiwfad.

Is eirian wawl ser y nef—fawreddus,
 Rhy ogoneddus yw'r wiwgain haddef,
 O! rhy lân yw'r drigfan draw,
 Rhy lonydd i'w darluniaw.

Y gŵr blin a gâr ei blant,—a hwythau
 Weithion a gyfodant,
 Ail am engyl ymhongiant,—wrtho,
 A'u croeso goreu iddo a roddant.

Arweinia y rhai hynaf,—yn ei law,
 Anwyl ŵr tirionaf,
 Idd y lleia rhodda wres
 Ei gynnes fonwes fewnaf.

Eu swm a'u melawg gusanau,—sy dâl
 Dros y dydd a'i feichiau;
 Mwy ennill yw, mae'n well llog
 Na'r gyflog eurog orau.
 Hidlo balm nefol wna'r hwyrol oriau
 Ar y gŵr a lethir a gorlwythau;
 Cloa boddloniant pur ei amrantau
 Ag hun melusach nag yn mhalasau
 Ymerawdwyr a gwŷr gau,—mor llonydd
 Yw ei obennydd clyd, mor ddiboenau.

Breuddwyd y gweithiwr.

Hyd y nos breuddwydio wna,—am orffwys
 Ym mherffaith hedd Gwynfa,
 'R awr bêr caiff llafurwyr byd
 O'u holl ingfyd ollyngfa.

Gwel ei hun wedi glaniaw
 O'i fordaith a'i drynwaith draw;

A'r llaw fu'n gweithio mor llesg,
 Yn dal mewn gallu dilesg
 Balmwydd o wych lwydd uwchlaw
 Gelyn i'w lidiog wylaw.
 Banllefau meibion llafur
 Yn y loew bell Jubil bur
 Glyw efe,—buddugol fawl
 Ar fannau anherfynawl;

Lle mae y werin oll mwyach—tu hwnt
 I hawl gormes afiach,
 Hwnt i heyrn eu hen deyrn du,
 Heb allu gan drais bellach.

Hun y creadur.aid.

Sua'r afon ci physg, weithion,
 I hun dirion trwy'r dyfnderoedd,
 A breuddwydiant am ogoniant
 A llifeiriant y pell foroedd.

Y cerddgar adar ydynt
 Yn dychwel o'u huchel hynt!

Llaesa eu corau lliosog,—ysgeifn
 Eu hesgyll godidog;
 Ant mewn llon hyfrydlon frys
 Mwy i'w sigl-lys mwsoglog.

Y wiw wenynen ddiwyd,—adawa
 Y blodeuyn ceinbryd,
 Ac mewn heddwch i'w chwch a,
 Le faedda bob celfyddyd.

Yn hedd hwyr y paen a ddaw,
 A'i esgyll yn ymrwysgaw,
 Yn eres oll, fel rhyw syn
 Aderyn o fyd arall.

A'r hardd bluog geiliog cain
 Hyderus, sydd yn darwain
 Yn ei ran ei deulu'n rhwydd
 I'r ieirglwyd fel rhyw arglwydd

Hun y bar.aid.

Minnau hunaf, af i fyd,—od, uthrog,
 Dieithrawl yr ysbryd;
 Acw enaid uwch cylch cnawd a,
 Hardd hedfa trwy freiddwydfyd

Er ei rwysg, carcharor yw,
 Cloedig mewn clai ydyw!
 Aml raff gylch y seraff sydd,
 Dyfnaf Babilon defnydd.
 Cloa hwyr y synhwyrâu,
 Y llaes gorff sydd yn llesghau.
 Mater baid, a'r enaid rhydd
 Nid ofna mwy rhag defnydd;
 Uwchlaw byd dychwela ban
 I'w freiniol fro ei hunan.

Cymer ei daith faith i fyd,—yr engyl,
 Uwch cyfryngau cleilyd;
 Ymgais ydyw i fyw fel
 Angel wedi diengyd.

Ebrwydd hed yn y cerbyd breuddwydiol,—
 Yn nef yrrir gan engyl anfarwol,—
 Trwy bur hewyd, i'w gartre' boreuol,
 Bro ei ddwyfol haniad, darddiad urddol;
 Selir ger allawr ser-wawr nos siriol
 Ei addas briodas a'r Ysbrydol.

Breuddwyd fedd allweddau—ysbrydolfyd,
 Hawl i agoryd y bythol gaerau,
 Eirian awr o fewn yr anherfynawl,
 Llawen ofwy i blith y llu nefawl,
 Rydd inni, ac arddunawl—gysgodau
 O agweddau bodolaeth dragwyddawl.

Storm y nos.

Hoff ydwyf dan bruddglwyf bron
 O wrando ar ru'r wendon
 Yn herio'n hy'n oriau nos
 Y gwgwawl greigiau agos.

Aed daearol fydolion,—i rifo
 Eu haur ofer weithion,
 Mil mwy bri, gwell mael i'm bron,—os mwynhaf
 Is trwm auaf, y nos storom eon.

Yn fy nhrigfa yn Rhagfyr
 Dedwydd bod, wedi dydd byr,
 A syllu yn serchus allan
 Ar y glwys bur eira glân.

Eira rydd ei oer, oer wawl
 Llwyrrwyn, fel cysgod lloerwawl.
 Mor gu yw'r storom ruawl
 'N awr i mi, mor bur ei mawl!

Rhuadau'r llew mawredig,—ysgydwa
 Y gysgodawg goedwig,
 Ei daran lais, cryglais cry,
 Ddefdry ddyfnderoedd Affrig.

Y Lloer.

Weithian y storom drom draw
 A hanner nos i hunaw ;
 Derfydd y tyrfau dirfawr,
 Daw tangnef drwy'r nef yn awr,
 Dros yr oll daw'r ser allan,
 Enwog lu, filiynau glân ;
 O ddu gwmwl, yn ddigymar,—ei harddwch,
 Yn ei holl degwch daw'r lleuad hygar.

Dethol lusern ymdeithydd
 Wedi i'r don ordoi'r dydd ;
 Mewn hiraeth mae yn aros
 Am hon yn eigion y nos.
 O'i bron deg mae bryn a dól—i'w gweled
 Oll yn yfed ei harianlli nefol.
 Môr arian dros anian sydd,
 Rhwyse Eden dros y coedydd.

Mae arian ar y bannau,—mae arian
 Ar y môr a'i donnau,
 Mae arian ar y muriau,—rhyw ddylif
 O fyw arian hylif yw'r ne olau.

Eden yn y ngoleu'r lloer.

Yn y nef, loer henafol,
 Asi ni ag oesau'n ol!

Ti glywaist gu alawon,—y bore
 Gan bur archangylion,
 Doniol lu—uwch Eden lon
 Gwlawiaist dy belydr gloewon.

Adda a'i Efa dan dy wên ddwyfol
 Elynt am hynt trwy'r rhodfeydd rhamantol,
 Gwisgai Eden yn y nos gysgodol
 Geinderau gwychederau uchdaearyl,

Troai yn lwys baradwys ysbrydol
 Dan gain addurn dy wên ogoneddol—
 Nos Eden! O, nos hudol!—tecach na
 Nos gu Arabia, O, nos gerubiol!

Cymylau golau i gyd,—llawn ceinder,
 A geid yn nwyfre'r deg Eden hyfryd;
 Nifwl, ie, cwmwl can
 Yno oleuai 'i hunan!

Y cwmwl, cyn y camwedd,—arwisgai
 Bob rhwysg a gogonedd,
 Pob ceinder, gwycheder, a gwawl,
 Afrifawl ffurfiau rhyfedd.

Oedd weithiau ar agwedd llong fawreddog,
 Dan hwyliu ar donnau'r nef sidanog,
 A'i llwyth o drysor pell fôr llifeiriog,
 A'r engyl draw, y "dwyllaw" dihalog,
 Newidiai wedyn fry yn odidog
 Ar ne las swynawl, i deyrnlys enwog,
 Ac, mewn urddas cwmpasog,
 Gu wyrdd crai, a gerddi crog.

Deuai'r ser gan leuferu
 Yn nes i lawr, hynaws lu;
 A! nês i'r ddaearen oedd
 Rhifedi ei chwaer-fydoedd.

Garid yng ngolen lleuad.

Mor gain, O, mor ogonawl,—yw 'mherllan,
 A'i lliwiau eirian o dan y lloerwawl!

Blodau y pren afalau nefolwych,
 Wna i chwannog angylion ei chwennych,
 O, fawrhedri! Fry edrych!—A fu pren
 O fewn i Eden yn fwy hynodwych?

Y ll ser a phruidd der.

Er hyn, 'e geir yn ei gwedd—arwyddion
 Pruddaidd o dristlo:edd;
 Mae rhyw drem o ardrymedd,—lliw galar
 I'w weld ar hygar loewder ei hagwedd.

A, leuad fad! wyt hoff i'r adfydus,
 Rhyw belen dirion iawn i'r blinderus,
 Lleferi dirioni i druenus,
 Acw anfone dy wên i'r cwynfannus,

Gu loer, chwaer y galarus,—dy brudd wawl
 Sy wir swynawl i fonwes resynus.

Ai dy asiad a'th gaethiwed oesol
 Wrth fyd mor bellenig, mor unigol,
 Sydd yn achosi 'th gynni byth gwynol,
 Fel caeth forwyn dan gadwyn dyngydiol ?
 Ai awydd esgyn hyd ryfedd ysgol
 Cread Iehofah, i'r cyrrau dwyfol ?
 Ai awydd erwydraw, draw, uwch dir reol,
 Efo nifer y ser anfesurol ?

Ai gweld o'r pur uchelder—holl hagrwech
 A llygredd y dyfnder,
 A dyn is gwawl mor dyner
 A ban arf yn erbyn Ner ?

Adeg myfyr a gweddi.

Y santaidd nos a'n tuedda ni—fwy-fwy
 At fyfyr a gweddi,
 Ei nefol-deg adeg hi
 Sydd hwylus i addoli.

Hoffder yr Iesu o'r Nos.

Y nos anfonai'n Hiesu—ei dirion
 Weddi daer i fyny,
 Am gariad ei Dad o'i du
 A'i rad i'w gwbl waredu.

I'w hoff fynydd, pan orffennai—y dydd,
 Mab Duw a esgynnai ;
 Natur oll, yn ddistaw'r ai,
 Oblegid Duwdod blygai.

Tybiaf fod syndod trwy'r ser—o'i weled
 Mor wyl yn y dyfnder ;
 Priod Fab, anwylfab Ner,
 A'i bryd yn llawn o bryder !

Un ogyfuwch âg Iehofa—a'i lin
 Ar las Palestina !
 Brenin ne 'n gynefin â
 Phob dolur a chur chwerwa !

Y ddofn nos mewn hedd a fwynhai,
 O'i gyfoeth hi a'i hadgofiai.
 Clywai'r tyner ser yn son
 O gariad am ei goron,
 O

A'i liosog balasau
 Oll o berl, yn y bell bau,
 Am ei orsedd ryfeddawl,
 Ac am forau gorau'r gwawl.
 Meddyliai am addoliad
 Engyl fry drwy dŷ ei Dad;
 O! tybiai y clywai eu clod
 O'i heddychawl fynydd uchod.

Y Nos yn cuddio'r croesbren.

Hoffai'r nos, a'r nos a wnai—am hynny
 Gymwynas pan drengai,
 Ei duwch dyfnaf doai—ei groesbren,
 A'r oleunen uwch Calfari lennai.

Uchod cyn darfod o'r dydd—Haul enwog
 Ddifannai gan gwilydd;
 Torrai ymaith, mewn terydd
 Lid dirfawr, deirawr o'r dydd.

Nos mor ddu ni fu,—ni fydd
 Oesau fil nos hefelydd,
 Fel bydoedd trymion oeddynt
 Ei gorblygion geirwon gynt.

Gwnai y ser, gan y sorian, —alw adref,
 Belydrau u gogoniant,
 Ei loes ni oleusant,—eu gwawl cu
 Rhag gwedd Iesu yn llwyr a guddiasant.

Ni allai'r Iddewon hyllig—weled
 Yr hoelion llymedig,
 Na'r archollion dyfnion dig,
 Na gwaed y bendigedig.

Ein Hiesu anwyl yn y nos honno
 Rodd iawn i Ion dros fyrddiynau yno,
 Ac i'r nef lwys cai'r lleidr ei gymhwysu
 Dan ei offeiriadawl waed yn ffrydio,
 Rhyfeddawl flaenbrawf iddo—o ffyniant
 Ei haeddiant, a llwyddiant ei holl eiddo.

“Gorffennwyd!” O'r gair ffynol—fe wawriodd
 Rhyw foreu tragwyddol,
 Yfory teg anfarwol—heb un loes
 Ar ol einioes o hirnos orlennol.

Nos einioes fel nos anian.

Adeg gymylog ydyw
Yr einioes hon, oer nos yw.
Siom ar ol siom fel niwloedd sydd
Yn ei gordoi mewn garw dywydd.

Anledfawr gymylau adfyd—er hyn
Sy o rinwedd hyfryd,
Er yn brudd, i droi ein bryd
Ar geinfawr fro y gwynfyd.

Ni welem ser anwylion—y ne bell
Oni bai'r nos dirion ;
Na mawr gariad rhad yr Ion,
Heb alaeth a helbulon.

Ei odiaeth addewidion—yn dwr ser
Dros orwel trallodion
Gyfodant—nos gofidion
Yn ei hedd sy lawn o Ion !

Acw i fro nef cyfeiria ni,—a ffydd
Goffeir yn ei chynni
O'i theg etifeddiaeth hi
A'r sedd sy'n aros iddi.

Gofid blin gyfyd ei blant—o'u halaeth
I olwg gogoniant
Dinas Ior, sy'n dyneshau,
Ymylau gwlad y moliant.

Nos einioes, fel nos anian,
Sy loew gan wawl dwyfawl dân,
Gan gu ser, gan gysuron,
Gan ddisgleirdeb wyneb Ion.
Yn nbrymder, yn nyfnder y nos,—mewn hedd,
A mud unigedd, O, mae Duw'n agos !

Duo wna'r byd, a Ner ban
A leinw ei le ei hunan,
Daw i lawr yn awr yn nês
A'i dirion wyddfod eres ;
Yn hedd du nos ni ddywed neb
Anwyllder ei bresenoldeb.

Deuwch, ofidiau duon,—i guddio
 Gwedd y ddaear weithion ;
 I mi weled ymylon
 Y wlad well, a golud hon.

Anwyl fraint, mae'n oleu fry!—mae cannaid
 Wawl ar fy enaid, mae'n glir i fyny!

Mae angylion llon bob llaw
 I'm harwain rhag im wyrwaw ;
 Os yw'r byd i gyd am gau
 Ei ddaearol is-ddorau,
 Salem Ior sy'n agored,
 A'r heol aur oll ar led.

Ni fydd nos yno.

A chlywaf wych alawon,—miliynau
 Sydd o' mlaen yn Seion ;
 Wedi 'r llid, fy mrodyr llon,—fyth ganant
 Mewn gwyn ogoniant, mewn gynau gwynion.

Minnau af, mae hoen hefyd,—i finnau
 Ar fynydd y gwynfyd ;
 Yng ngwyl fawr yr angel fyd
 Caf hoewaf ddiranc fywyd.

Ydd ysgol wisg ddiogaf,—a llaeswych
 Wn y llys a wisgaf ;
 Yn lli angeu goliyngaf
 Y groes hon, aur goron gaf.

Hawddamor, oror araul
 A "Duw a'r Oen" dy der haul!
 Gwyneb Duw-ddyn yn gwenu
 Yw'th haul can a'th oleu cu.

Ni fedrwn ddal yr anfeidrol,—leufer
 A lifa'n dragwyddol
 Yn y nef, nes cael yn ol,—ar wawr glau
 Y gorffen-forau, ryw gyrff anfarwol.

Ni welir y nef yn niwlio,—na dydd
 Trwy oes Duw'n machludo,
 Na chysgod hudd yn cuddio—yr eurog
 Nef ddinas enwog,—“Ni fydd Nos yno!”

Y WAWR.

Cerub teg flaen cerbyd dydd
 Yw'r gywrain wawr; agorydd
 Uchel ddorau'r borau ban,
 Bron aur yr wybren eirian,
 Gem yr wybr, digymar yw,
 Ai gwên Eden gain ydyw ?

Blina anian ysblenydd
 Erbyn prudd derfyn y dydd,
 Mae yn edrych fel mewn oedran,
 Yn flin, ar ol cyflawni 'i rhan,
 Ei phluog eurog gorau,
 A'u lleisiau i gyd sy'n llesghau ;
 Ei chlaer haul o'i uchel rod,
 O'i sedd asur sawdd isod ;
 Mor llesg a marw yw y lli,
 Mae anian heb ddim ynni.
 Ond ar fyw awr y wawr wen
 Dryloewaf, natur lawen
 Ymrwysga, hi wisga wên—ardderchog,
 Nwyf a byw odidog febyd Eden.
 I fyny cwyd mewn ifanc oed
 Y bêl hon heb ol o henoed,
 Mewn gwyrddni a glesni glân,—yn gwenu,
 Yn lleueru gan bob lliw eirian.

Synnais pan welais y wawr
 Ogyrch heddyw'n ymagawr,
 A'r henfyd fel claer wynfa,—mor eurog
 A gwiw fawreddog foreuau Adda.
 A'r olwyn fawr heb dreulio,
 Dieithr rym, er cyd ei thro.

A'r hen fyd, mor heinyf yw !
 Ai Addaf wyf ? Ai heddyw
 Y daeth y gre'digaeth deg
 I fod, y gyntaf adeg ?

Rhudd-linell hardd o oleuni—yw'n unig
 Ar y nen wrth godi ;
 Eitha dirym wrth dorri ;
 A gwan iawn yw ei gwên hi.

Edefyn gorfain (dwyfawl
Er hyn yw) o ryw wan wawl.

Dyrch fel y llewyrch lleia,—ei goleu
Gwylaidd draw a gryna;
Y ddu nos, pan ddynesa
Trwy y niwl, ei gwatwar wna.

Ond cryfha, cynhydda'i nerth,
Nes enfyn y nos anferth
A'i lluoedd niwl-dorfoedd dig
I gyd yn orchfygedig,
Ffoant, diflannant yn flin
Dros aur-ganllawiau'r llewin.
A'i chlau lumanau mir—enfysliwiol,
Draw yn fuddugol drwy y nef ddygir.

Llwyr yn awr enilla'r nen,
Esgynna i lys gwiw-nen,
Hawlia'n hyf deyrnwialen hon,
Ei chyrrau pella, a'i choron.

Mae'r huan eirian o'i hol
Ryw ffynnon anorffennol;
Lleufer dwll i fôr y dydd,—yw'r nefol
Wawr adlonol—y môr dilennydd.
Dibenna ei chlod beunydd
Mewn mawr ddawn, mewn môr o ddydd.

Gwel ogonawl glogwyni!
Codant, dwyreant heb ri,
Fil mil ar ol eu gilydd
I'r lan dont ar lanw y dydd
O araul fannau eirian,
A lleuer dydd oll ar dân.

Llidiog gymylau llwydwawr
Dros ochrau'r mynyddau'n awr
Roliant, a doddant fel dim
Ar ddydd i awyr ddiddim.

Ymleda natur mal Eden eto,
Y swynol ddyffryn sy yn ail ddeffro,
Syw heirddion gariadus erddi'n gwrido,
A pharadwys o amgylch yn ffrydio,
Y goleu hanerog sy'n glain euro
Y geirw fryniau gwelwon geir fry'n gwylio,
O Anian, pwy wna'th ddarlunio? Angel,
(Gwellt yw ei bwyntel,) nis gall dy baentio.

Edrychaf tra'r ymdrochi,—mewn mawredd,
 Mewn môr o oleuni,
 Mewn disgleiriaf loewaf li
 (Uthrolwyrth!) o aur hyli.

Per iawn gerdd, pob pren a'i gôr
 Yma sy'n dy hawddamor;
 Llwyni fyrdd sy'n llawn o fawl
 O roeso i'th wên rasawl;
 Try y byd i gyd yn gân
 Ar bêr awr bore eirian.

Egyr boreugerdd cydgor y brigau,
 Heirdd eu hadenydd, peraidd eu doniau,
 Lluon gorhwylus mewn llon garolau,
 Pynciant, moliannant, wrth y miliynau,
 Eglwys i gyngan yw y gleis gangau;
 Greddfol ydynt eu gwir hawdd fawliadau
 Cu feirdd Eden, uwch cyfarwyddiadau,
 Uwch addysg ddynol, celfyddol foddau,
 Duw ei hunan a wnaeth eu llon donau;
 Canant ei glod heb nodau—yn berffaith,
 Hardd ddifyrwaith yw'r ddielgerdd forau.

Ar oriau y wawr euog,—rhagorach
 Yw'r garol blygeiniog
 Nag emyn dyn, mwy doniog,—mwy peraidd
 Yw llu Handelaidd y llwyni deiliog.

Coron-lwyth y crwn wlithyn—oreu berl,
 Geir ar bob blodeuyn:
 A! mae ail y gemau hyn?—gemau'r dydd,
 Dihefelydd arian dwyfolwyn.

Diolcha'r blodau eilchwaith
 Am y llwys nef-emau llaith,
 A'u hiach aroglau uchod
 A fynegan eu glân glod.

Adlonol yw dylanwad
 Y borau aroglau rhad;
 Eu rhin hwy a dry hen oed
 Yn fyw obaith, yn faboed.

Iach yw yr awel ddifyr chwareus
 Hyd ochrau'r bryniau, y bore hoenus;
 Anadla fywyd i fyd gofidus,
 Mag rosynau ar fochau'r afiachus.

Henffych, awel dawel dydd!—gwnei 'n llawen,
A llunni i awen esgyll newydd.

Drwy d' anadlu gwnei gyfrannu
Modd i ganu, meddyginiaeth ;
Llonder ysbryd, hyfryd hwyl,
Wawr anwyl, yw'th feithriniaeth.

Ychydig sy'n gwylio 'i chodiad,—er mor
Dra mirain ei thrwsiad ;
Huna myrdd tra'r nennau mad
Yn oddaith o ogoneddiad

Yn eu cerbydau gorau y gyrrant
I weled mannau'n ol eu dymuniant,
Llecedd o gelfol ddynol ardduniant,
A gwiw arlunfeydd gorlawn o foddiant ;
Eu haur yn rhwydd am y rhain a roddant,
Edmygwyr, dilynwyr pob adloniant,
Ein harweinyddion,—er hyn ni wyddant
Am y wawr gain a'i môr o ogoniant.

Gweithiwr genfydd foreuddydd fawreddau
Ar awr taniad enyniad y nennau,
Na wel brenhinoedd bythoedd mo'u bathau ;
Ei law sy barod ar las y borau
At ei orchwyl, wr anwyl ei riniau ;
Fe a o'i fwthyn gwyn, gyda gwenau,
Gyda'r hedydd enwog ei droadau ;
Drwy wiw ddolydd a dyfnder o ddiliau,
A'r nef arddunol dry yn fyrddiynau
O fythgynhyddol faith ogoneddau !

O ! pwy wna fesur y gwypm enfysau
Draw a berir gan y pelydr borau ?
Ai angelion llon sy'n tynnu'r lluniau
Wêl hwn ar enynnol lenni'r nennau ?
Ai cerub celfgar sy ar ei orau
Trwy bur hoen, yn paentio 'r wybrennau ?
Saif i edrych ! Gwrendy'r melus fydrau
Yn llawn o deimlad ddaw o'r llwyn-demlau,
O, mae yn nef i'w mwynhau.—wr gwledig,
Mae'n wir foddedig mewn rhyfeddodau.

O fawreddog foreuddydd
Odlau saint ar d' awel sydd,

Miwsig fel cymysg foliaint
 Moroedd o ser, myrdd o saint.
 Yn llawn serch y laethferch lon,
 Hithau sy'n dychwel weithion,
 Ar hwylus frys drwy'r las fro
 Adref, a'i hysten odro.
 Rhy lawn i roi ar lenni
 Ei gwych hoen a'i thegwch hi,
 Mor iach o wedd, merch y wawr!—mor nefol
 Ei charol drwy'r iach orawr.

Ardeb cywir yw'r wawr dirion,—loewbryd
 O lwybrau y cyfion;
 Rhai celyd ynt, rhai culion,—ar egwyl
 Boreu i'r anwyl lân bererinion.

Ond tua'r hwyr dont er hyn
 Yn lletach, hawddach iddyn,
 Llai o gerrig, llai geirwon,
 O neshau at ddinas Iôn;
 A therfyn y faith yrfa
 Fydd palas yn ninas Naf.

Ymledant, rhedant i'r aur ystrydoedd
 Tragwyddawl tanbeidiawl, o led bydoedd,
 Terfyn diderfyn y seintiol dorfoedd
 Yn byw yn nwyfawl ddisgleirdeb nefoedd.
 Arllwysa 'r holl oesoedd—o'u cul lwybrau
 I'r wynfa olau ryw eirian filoedd.

Gwawr y sant yn agor sydd
 I fawreddus foreuddydd;
 Haul harddwych o loew urddas
 A geir ar ol gwawr ei ras.
 Gras sydd megys gwawr i sant,—hyd fythol
 Gu ganol dydd gogoniant
 Yn wybrau nef, heb oer nos
 Na hwyr fyth yn eu haros!
 Wybrennau llon heb orllewin ynt,
 A'u dyddiau heb fachlud iddynt.

Delw'r bedd yw unigedd nos,—ym weithian
 Mor egwan a'r meirw agos;
 Y bersawrus wawr brysur
 Heibio im, ei llais a'm bywha.

Godidog gysgod ydyw
 O'r adgyfodiad i fyw.
 Trwy i heffaith gwell gobaith gaf,
 Am fore gwell myfyriaf.

Mal hyn y cwyd miliynau,—drwy'r alwad
 A'r yr olaf forau
 Fel engyl uwch gafael angau,—dyrchant
 I ogoniant, yn wynion eu gynau.

Cedyrn fel duwiau'n codi
 Fydd yr holl dyrfa ddi-ri.

O'u nifer minnau hefyd,—a ddyrchaf
 I ardderchog fywyd;
 Daw'r fro lân sy'n gân i gyd,
 Daw'r Goron wedi'r gweryd.

Diau ni fydd eisiau yn oes oesoedd
 I mi o fethiant huno mwy fythoedd,
 Bêr hoffus fywyd heb orffwysfaoedd,
 Heb wely angau a heb wael ingoedd,
 Heb un sain o alar, heb nos-niwloedd.
 Na haul yn gwyro i'w lewin-gyroedd,
 Yn ieuanc ein galluoedd,—tra oes Ner
 Neu erfawr nifer canrifau'r nefoedd.

GOSODIAD CARREG SYLFAEN CAPEL BARGOED.

BOED sylfaen Capel Bargoed ar y graig,
 Mor gadarn ag mae'r creigiau'n ffinio'r aig.
 Os pery'r capel tra y pery clod
 Y sylfaenyddes wiw, fe fydd yn bod
 Tra pery amser. Boed y deml lân
 Hyd fyth yn haeddol o dragwyddol gân!
 Ar lan y Rumi boed y deml hon
 Yn gysur pur i lawer clwyfus fron.

Fe roir y garreg sylfaen yn ei lle
 Yfory—ac fe fydd angyllion ne
 Yn canu uwch y gwaith; mi hoffwn i
 Angyllion-frodyr, ganu gyda chwi,
 Ond cystudd balla hyn, ar hyn o bryd,
 Ond pwy a wŷr na chawn mewn arall byd
 Gyfarfod â rhyw hardd gadwedig lu
 Achubwyd oddifewn i'r muriau cu
 A seilir fory! Gwnawn obeithio hyn
 Er mwyn y Gŵr fu farw ar y bryn.

JOHN JONES, BLAEN ANNERCH.

JOHN JONES Blaen Annerch, enw mawr ei werth,
 Yn sefyll ar ei sail ei hun i gyd,
 Heb unrhyw ateg o'r allanol fyd;
 Fel pyramid, mae'n aros yn ei nerth.

Pe cawn i'm ffordd, dewiswn gan y nef
 Gael bod yn un o'r rhai mae cenedl faith
 Yn dod i'w hangladd gyda gruddiau llaith
 A chalon drom—un felly ydoedd ef.

Dewiswn fod yn un o'r rheini sydd
 Wrth fyw, yn aur-oleuo'n tywyll fyd;
 Wrth farw, 'n gadael cwmwl maith ei hyd
 A nos o'u hol—yn marw fel y dydd!

Nis gwn pa le i ddechreu 'mhruddaidd gân
 Gan faint fy nghariad at y gwrthrych cu;
 Nis gwn pa le, pa fodd, i'w gorffen hi,
 Gan ddyfned, amlled, ei deilyngdod glân.

O! rhowch im liwiau'r wawr a'r enfys cain
 I dynnu darlun cennad hawddgar Duw;
 Rhowch fyrdd-amrywiog odlau'r eos wiw,
 Holl geinion arddull, a holl swynion sain.

Doed ysbryd Pant y Celyn eto i lawr,
 Pereidd-der Handel i'r gynghanedd fwyn,—
 Doed *mwyl* i'r Awen, sef rhyfeddol swyn
 John Jones ei hun ddydd y Gymanfa fawr.

Pe tynnid darlun llawn o hono ef,
 Nis caem ei gadw'n hir; cerubiaidd law,
 O gwmwl gwyn, a'i distaw gipiai draw
 I'w hongian ar barwydydd nef y nef.

Aeth pulpud Cymru oll am dano ef
 I'w ddyfnaf ddu, y nef i'w gwynaf wyn;
 Tra wylem yn ei arwyl, oll yn syn,
 Gorfoledd priodaswledd lanwai'r nef.

Y nos cyn marw ein hardderchog dad,
 Breuddwydiais imi glywed anthem bêr
 Mewn rhyw ororau pell tu hwnt i'r ser—
 O, ddwyfol gerdd! O, nefoedd o fwynhad!

Y nos ganlynol bu i mi 'r un fraint,
 Ond O, 'r oedd rhywbeth newydd yn y côr
 Rhyw newydd lais, fel nawfed ton y môr!
 Adwaenais ef plith lleisiau myrdd o saint.

Fe glywodd lais y nef yn foreu iawn,
 A pharod ufuddhai i'r galwad llawn.
 Rhyfeddol fraint! cael cychwyn tua'r nefoedd
 Wrth gychwyn bywyd bron; a'i ymadferthoedd,
 Pob cynneddf, a phob dawn, i gyd yn newydd,
 A'u hieuanec ynni at wasanaeth crefydd.
 'Roedd ei gynheddfau yn eu holl ddisgleirder,
 Fel arfau glain, hyd eto heb eu harfer.

Fe'i cafodd Iesu ef yn hoewlym ysbryd—
 Yn Samuel, nid Eli hen a rhydlyd.
 Rhyw newydd Ioan ydoedd ef i'r Iesu,
 Rhyw ddisgybl 'roedd yr Arglwydd yn ei garu
 Yn fwy na'r lleill, pe gallai cariad dylan
 Mewn unrhyw wedd ragori arno'i hunan.

Fe drodd yn foreu at y mawr Iachawdur
 Gan ofyn,—“Beth a fynni im ei wneuthur?
 A allaf, mi a'i gwnaf, 'r wy'n rhoi fy hunan,
 Fy mywyd a fy nerth, i ti yn gyfan.”

Pan roes ei hun i'r Arglwydd, tebyg ydoedd
 I newydd long yn llynges Teyrnas Nefoedd,
 A'i llwyth i gyd o'r nef, ei hwyliau'n wynion,
 Y Gair ei llyw, y Gair ei chwmpawd union.

Ei gariad cyntaf oedd angerddol danbaid
 Y cyfnod hwnnw'n llanw ei holl enaid;
 Pob rhwystrus ddrain a ddeifid gan ei boethder,
 A Seion deg oleuid gan ei loewder.

Prydferthwch pur y Dwyfol Bren Afalau
 Wnai ogoneddu gweledigaeth forau
 Y newydd lygad, Ffydd; o dan ei gysgod
 Eisteddai fel o dan adenydd Duwdod,
 Sef Duwdod boddlonedig! Ac i archwaeth
 Y Newydd Ddyn, ei ffrwyth oedd felus odiaeth,
 Fe ai, am rodfa, draw i froydd Escol
 I wleda ar y pomgranadau nefol;
 Ar glogwyn Pisgah gwelid ef yn fynych,
 Fel angel pell, a gloewaf yspienddrych
 Y Gair wrth lygad Ffydd, mewn mwyniant odiaeth,
 Yn gweld, o bell, y ddwyfol etifeddiaeth.

Yn fuan wedi gwneyd ei le yn Seion,
 Yng Nghytir bach, dangosai'r llanc arwyddion
 O anghamsyniol ddoniau yr eneniad
 Y rhai sy'n mhell uwchlaw pob dynwardiad.
 Gweddiwr mawr addawai'r mawr bregethwr,
 A gorfoleddai'r saint wrth weld ei gryfdwr
 A'i afael ar y Nef; yr oedd yr "Angel"
 Yn methu ymryddhau, fel gynt ym Mheniel;
 Ymgasglai'r wlad ynghyd i weld yr ymdrech,
 I weld yn gwawrio seren fawr Blaen Annerch.

'R oedd tân ei ysbryd, irder ei dduwioldeb,
 A'i gariad cyntaf yn holl angerddoldeb
 Ei wres boreuol, a phereidd-dra rhyfedd
 Y llais ag oedd fel hanfod pob cynghanedd,
 Yn toddi'r dorf, yn tynnu o'r calonnau
 Caletaf yn eu plith lifeiriol ddagrau.

Trafferthus iawn yw llwybr ambell un
 I fyny i'r areithfa; hir a maith
 Ei ymdrech, fel pe na bai neb i'r gwaith
 Nefolaidd yn ei alw ond—ei hun.

Ond am hawddgaraf wron hyn o gân,
 'R oedd llais ei Dduw'n ei alw'n glir o'r nef,
 (Adsain i'r galwad oedd ei weddi gref)
 A chydllais arall—llais yr eglwys lân.

Mae galwad oddiwrth y saint cytun
 Yn gystal prawf o alwedigaeth glir
 A mewdol gymhelliadau (gwell yn wir,)
 Ond gydag ef yr oedd y ddau yn un.

Yr eglwys bur gyfeiriai 'i santaidd fys
 (A modrwy y briodas arno'n dyn,)
 At yr areithfa fel ei le bryd hyn,
 Ei briod le, fel brenin yn ei lys.

Llaw wen y santaidd eglwys wnai yn awr
 Garpedu grisiau'r pulpud iddo ef,
 A dringai yntau o dan nawdd y Nef
 I uchelderau'r weinidogaeth fawr.

Mor brydferth ar y claer fynyddoedd fry
 Y safai traed yr efengylwr mwyn,
 Mor gryf ei lais, ond oll mor llawn o swyn,
 Fel oen yn addfwyn, fel y llew yn hy.

Ar hyd welyau dyfnaf trefn gras
 Y llifai afon ei hyawdledde mawr,—
 Y caru cyn ein bod, a'r dod i lawr
 O uchder nef, a'r gwisgo agwedd gwas.

Ei wneuthur dan y ddeddf, wrth fodd ei Dad,
 A'i dros-osodiad yn ein lle yn llawn,
 Ei lwyr ufudd-dod, a'i anfeidrol Iawn,—
 O! dyma bynciau 'i weinidogaeth fad.

Trwy Geredigion, gyda'r balmaidd wynt,
 Ymledai si fod rhywun ar ei draed,
 Yn efengylu maith rinweddai'r gwaed,
 A doniau ail i ddoniau Rowland gynt.

O lawer sir trwy Ogledd a thrwy Dde
 Dylifai gwahoddiadau ato'n awr;
 Nid oedd trwy Gymru ond un teimlad mawr—
 Ei weld a'i glywed, ym mhob cwm a thre.

A'u galwedigaeth daer cydsynio wnai;
 Os uchel ydoedd eu disgwyliad hwy,
 Cyflawnder ei ddyfodiad oedd yn fwy—
 Mwy'r son o'i ol na'r swm o'i flaen a ai.

Fel ymdaith brenin ieuanc drwy ei wlad,
 A'r goron gain yn pefru ar ei ben—
 Pob baner hardd fel enfys yn y nen,
 A thorfoedd iddo'n rhoddi pob mawrhad,—

Cyffelyb fu ei ymdaith gyntaf ef
 Trwy gylch y siroedd, brenin llawn y llu;
 Torfeydd! torfeydd yn canlyn ar bob tu!
 I'w lwyr fawrhau cydunai'r byd a'r Nef.

Y dyrfa! 'r dyrfa! nid oedd waeth pa le,
 Pa un ai yn y boblog drystiog dre
 Sy'n un llawn fôr o fywyd; ynte fry
 Ar ael unigedd fynydd, o'r naill du
 Lle ceid addoldy bychan, dim heblaw
 Ond ambell gaban gwledig yma a draw—
 Nid oedd gwahaniaeth—lle y byddai e,
 Fe fyddai'r dyrfa hefyd yn ei lle.
 Fe fynnai'r dyrfa'i ddilyn ar bob hynt
 Fel y dilynent y Bedyddiwr gynt.

Trwy swyn sugndynnol deddf naturiol iawn,
 Fe geir y dyrfa lle y ceir y dawn.

Pa beth yw y cynnwrf a welir bob llaw ?
 Mae'r bryniau'n ymsymud gan dorfoedd o draw,
 Mae'r plwyf-ffyrdd rhy gulion yn llawnion o'r llu;
 Cerbydau aneirif yn dyfod bob tu;
 Mae'r boreu yn hyfryd, mae'r nef fel pe bai
 Am noddi'r cynhulliad sydd byth yn mwyhau.

Dydd mawr y Gymanfa sy'n awr wedi dod,
 Dechreuir yr oedfa â chanu a chlod;
 'R awr ddeg yw yr awr, a'r santaidd addolfa
 Yw'r bur awyr las o waith llaw Iehofah.
 Mae'r miloedd yn disgwyl Blaen Annerch yn awr,
 Mae'n codi o'r diwedd fel codiad y wawr;
 Mae gwên yn goleuo ei wyneb i gyd,
 Efengyl ei hun yw siriolder ei bryd.
 Agora ei destyn yn araf a llawn,
 Ei destyn hoffusaf,—“Efe yw yr Iawn.”
 Nid ydyw y llanw ond dechreu'n y pellder,
 Ond mae 'i swm o draw yn dweyd am ei gryfder.
 Aiff hanner awr heibio, mae 'r llanw'n ymchwyddo,
 A llongau y saint ar ei ddyfnder yn nofio,
 A'u hwyliau ar led i ddal yr awelon
 Sy'n chwythu yn nerthol o'r nefoedd yn union.
 O, pwy all ddarlunio y dyfaion amennau
 O dan yr eneiniad sy'n rhwygo y nennau?
 Mae'r bêr floedd orffennol yn awr yn ei chryfder,
 A'r dyrfa'n doddedig gan swyn ei phereidd-der,
 Ac er ei rhyfeddol nertholdeb a'i hynni
 Mae lleisiau y dyrfa 'n y man yn ei boddi !

'Roedd rhyw ddirgelwech yn ei lais a'i ysbryd
 Wnai i adnodau gofiem er ein mebyd
 Ymddangos oll yn newydd, fel yr oeddent
 Yng nghlywedigaeth Israel pan y deuent
 O enau'r proffwyd gyntaf. Mor gartrefol
 Oedd ef yn rhol y llyfr anghydmaro!
 Cof sancteiddiedig oedd fynegair iddo,
 A'i fywyd yr esboniad iawn ohono.

Yng nghynadledau y Gymanfa gref,
 Pan fyddai'r pwnc ar amgylchiadau 'r saint,
 Ffigyrau sych—ychydig deimlai ef,
 Gadawai hyn i ddynion llai eu maint.

Nid talent rhifo oedd ei dalent ef;
 Gwnaiff undyn ystadegw'r bron; ei ddawn

Oedd *teimlo* cariad Duw, a gras y nef,
Trueni dyn, a'r bywyd ddaeth trwy Iawn.

Pan ddeuai'r mater uwch ei ryw ger bron,
"Cyfamod hedd, ei gryfder, a'i barhad,"
Ai'n fywyd oll, disgleiriai 'i lygaid llon,
A'i galon dwymn a losgai gan fwynhad.

A phan gyneuai fflam ei deimlad cry,
Fel nwy-oleuwr yn y neuadd fawr,
Cyneuai'r oll o'i gylch, a fflamiai'r tŷ
Fel teml Solomon, gan ddwyfol wawr.

Rhyfeddol allu yw y gallu sydd
'R ol teimlo'i hun, yn gwneyd i dyrfa fawr
Gyd-deimlo—fel mae'r haul yn gwneyd y dydd—
Hyn wnaeth ein Cymru wiw'r hyn yw yn awr.

O, f' enwog dadau, arwyr mawr y groes,
Rhai droisoch Gymru, oedd ddifiaethwch blin,
Yn Eden wridog, yn eich plith nid oes
Na Jones Blaen Annerch enw mwy ei rin.

Y groes a'i maith rinweddau bob amser lanwai 'i fryd,
Y peidio cyfrif beiau i euog farwol fyd:
Symudodd i Galfaria yn foreu iawn i fyw,
A'i babell a gyfododd yn ymyl croes ei Dduw.

A'i gefn tua'r ddaear, a'i wyneb tua'r nef,
Helyntoedd gwladol Prydain ni chaent ei sylw ef;
Angylaidd fywyd dreuliodd uwchlaw daearol fyd,
Gan fod ei ymarweddiad fry yn y nef o hyd.

Mae clogwyn ar yr Andes yn ymyl eilfyd draw,
Os cyrraedd teithiwr ato, fe fydd y storm islaw;
Fe wel y mellt yn gwibio, fe glyw y daran gref,
Mewn pellder dwfn dano, a dim o'i gylch ond nef.

Cyrhaeddodd yntau'n foreu glogwyni pellaf ffydd,
Uwchlaw yr holl gymylau, yng ngoleu dwyfol ddydd;
Taranau croch Magenta a Solferino gref,
Ni chlywodd braidd eu hadsain o'i uchder yn y nef.

Swn masnach a'i holl dyrfau a foddid, er mor llawn,
Yn swn dioddefiadau ei Arglwydd un prydawn;
Ni wyddai ddim ond Iesu, a hwnnw ar y groes
Yn rhoddi Iawn digonol drwy lawn anfeidrol loes.

O! clywsom ef yn bloeddi, fel angel yn y nef,—
 “Iawn! Iawn!” nes byddai'r creigiau yn adsain gan y llef—
 “Iawn! Iawn!” mewn eilfloedd hyfryd, llond cae, llond byd o air,
 Llund tragwyddoldeb hefyd, ei rinwedd byth a bair!

Fe wnaeth ddiwrnod da o waith, llafuriodd tra bu'n ddydd;
 Ac er cyrhaeddyd pen ei daith, pen draw i'w waith ni fydd.

Pur had o anlygredig ryw yw'r had a hauodd ef,
 Perffeithder ei ddadblygiad fydd gogoniant eitha'r nef.

Fe gadwai 'i boblogeiddrwydd mawr hyd olaf hwyr ei ddydd,
 Ac er i'w seren fynd i lawr, ei goleu'n para sydd.

O, fy nhad! er maint dy fawredd a'th hyawdledd uwch y llu,
 Nid oedd neb o'r fath hynawsedd ar yr aelwyd, neb mor gu;
 Er it ennill urdd apostol, a chymeriad gloewaf sant,
 Wedi'r oedfa fawr chwareuem gylch dy liniau megys plant.

Nid oedd ail i'th boblogeiddrwydd ond dy ddiniweidrwydd glân,
 Cofiaf byth dy wenau siriol nos auafol wrth y tân;
 Meddit lygad y golomen wedi 'i golchi â llaeth yn wir,
 A'th arabedd a'n gadawai, er yn llawen, eto'n bur.

Ffarwel Jones! Beth yw'r disgleirdeb welaf, hwnt i'r olaf don?
 “Cerbyd Israel, a'i farchogion” ddaeth i'th gyrchu adre'n llon—
 Nid dy gerbyd di dy hunan ydyw'n unig, O fy nhad!
 Mae yn perthyn i'r holl deulu sydd a'u gwyneb tua'r wlad.

Cerbyd Israel yw y cerbyd, cerbyd yr holl lwythau'n wir,
 Ac mae ynddo sedd i minnau, ac fe ddaw yn ol cyn hir;
 Pan ddisgynnaf, yn anfarwol, oddiar y danbaid sedd,
 Yn dy freichiau gad im ddisgyn, yn y wlad sy lawn o hedd.

Pan gyrhaeddaist fro'r angylion fe'th gyfarfu ddisglaer lu
 I'th roesawu, o'r rhai alwyd trwy dy weinidogaeth gu.
 Ac wrth syllu 'n ol o'r bryniau dwyfol fry, i'r anial maith,
 Gweli dorf o'tn alwedigion eto'n dilyn ar eu taith.

Pan gyrhaeddant yn ddihangol adref, ar eu newydd wedd,
 Bydd pereiddiach fil yr anthem, a melusach fyrdd y wledd;
 Ni fydd byth olygfa harddach yn y nef, na Chennad Hedd
 Yn coffeidio 'i waredigion oll yn iach tu hwnt i'r bedd.

Jones Blaen Annerch oedd dy enw, Jones Blaen Annerch byth
 a fydd;

O dy feddod ym Mlaen Annerch allan deui'n hardd ryw ddydd.
 Diau'r cyntaf yr ymholwn am ei drigfan yn y nef,
 Fydd yr anwyl Jones Blaen Annerch, canys yno'r un fydd ef.

N I C A N D E R .

NICANDER hoff! nid oes pythefnos bron
 Er pan y buom yn beirniadu 'nghyd
 Uwch gorchestweithiau aml i awen lon,
 Yn frodyr serchog o un farn un fryd—
 Pythefnos! a thydi wyt yn dy arch!
 O beth yw clod—rhag angau beth yw parch?

Ni welais i, fy nhad, dy wedd erioed,
 Ond gwn ei bod yn hawddgar fel y wawrddydd;
 Ni chlywais i dy lais, na swn dy droed,
 Ond gwn eu bod yn bêr fel clych eglwysydd
 Ar foreu Sabboth Duw. Cawn gwrdd ynghyd,
 Mi wn, o gylch y bwrdd mewn gloewach byd.

Disgynnai dy onestrwydd arnaf fi
 Fel esmwyth aden angel, feirniad pur!
 Dyrchafol ydoedd dy ohebiaeth di,—
 Addolet fyth y teilwng, coeth, a'r gwir.
 Angylaidd yw y daith i'th angladd di,—
 Mae'r awen deg a Chymru yn eu du.

A gaf fi mwyach gu ofwyo Mon,
 Gaiff cwmwl f' hiraeth oeri uwch dy fedd?
 Gaf fi goffhau dy felus awdlau—son
 Am d' oes o ddysg, ac am dy oes o hedd?
 Gyferbyn gwelaf rosyn gloew ei fri,
 A phlannaf ef ar fedd dy dangnef di.

O Fynwy mynnaf ofwy at dy fedd,
 Caiff blodau Mynwy wylo gwllithion Mon
 Bob boreu ar dy lwch, tra angel hedd
 Yn cwyno, gyda'r ser, ar dyner dôn;
 Ffarwel, Nicander hoff! Cawn gwrdd ynghyd,
 Mi wn, o gylch y bwrdd mewn gloewach byd.

Mae 'nghynganeddion yn dylifo i lawr,—
 Cynghanedd oedd dy holl fodolaeth di;
 I ti, fy mrawd, cynghanedd oedd y wawr,
 Cynghanedd oedd yr awel bêr ei si.
 Cynghanedd oedd yr oll; cynghanedd brid
 Fydd cwrdd, o gylch y bwrdd, mewn gloewach byd.

E M R Y S .

EMRYS enwawg, mor swynol,
 Er marw, yw ei enw o'i ol,
 Dyn a'i brid enw i barhau
 'N urddasol, fyrdd o oesau.
 Eneinied Ior fy noniau
 A'i fyw rin, i lwyr fawrhau
 Ei was anwyl, a seinio
 Hwylus gân i'w felus go.
 Ac fel y bardd coeth, arddun,
 O! megys Emrys ei hun,
 Fy nghân fo rydd-gan, a rhai
 Pigion 'n ol defion difai
 Y beraidd lân gynghanedd,
 Sy fel haf o syf wledd.
 Y rhydd a chaeth! harddwch chwi
 Ei waith a'i daith a'i deithi.

O holl ddalennau llyfr d' hanesyddiaeth,
 Ti Fangor hen, eisteddfa fawr dysgeidiaeth,
 Ni fedda ddalen well na'r ddalen ddengys
 Mai ti oedd dinas enedigol Emrys.
 D' ystrydoedd culion yn ein bryd eangir,
 Dy fyg gadeiriol dyrau ogoneddir,
 Pan gofion am ein Emrys bach yn chwerau
 Ar hyd dy belmynt hen, gan syllu weithiau
 Fry ar dy dyrau'n siarad wrth y cwmwl
 Pan ar ei ffordd i wisgo'r Wyddfa â nifwl.

O ddwyfol Fenai!

A thyfion Eden yn addurno'th lannau,
 Pa afon-fôr fel ti!—Mon, ar un ochor,
 Yn cysgu ar ei chefn yn y dyfnfor,
 A'i phen, yn uwch, ar greigiog glustog Cybi;
 A'r ochor hyn, yn fythol risiawg resi
 Fynyddoedd Arfon yn y nef yn gwylio
 Yr ynys wen i gyd—neu'n ymneillduo
 I gwrdd â Duw'n y cwmwl—pa olygfa
 Mor addas fyth â Menai, Mon, a'r Wyddfa,
 I led-freuddwydiol ienctyd awen dreulio
 Ei bore ddydd, ac yn eu hol ymffurfio?

Awenydd pur! ti yfaist lyfnder Mona,
 I'th ysbryd rhodiodd mawrder derch yr Wyddfa;
 Fe wnaeth y Fenai wely yn dy galon,
 A throdd o'th fewn yn rhyw ysbrydol afon;
 A'i phont grogedig unodd ddeufyd ynnod,
 A chroesaist at angylion heb yn wybod;
 A chawn y golygfeydd a'u holl amrywiaeth
 Yn ail ymddangos yn dy "Greadigaeth."

O Fangor i Gaergybi,—derbyn yno
 Wybodau uwch eu rhyw; fel llong yn llwytho
 Ar gyfer gwledydd pell, fe lwythai yntau
 Ar gyfer porthladd Madog, gan y deuai
 Y dydd i fynd i mewn i hafn ddymunol
 Ei ddefnyddioldeb yn ei fasnach ddwyfol.

I'w ddyfodol Caergybi a addfedai
 Emrys anwyl: glan y môr a'i swynai;
 Yno aml hwyr o drylwyr hoen dreuliai;
 Efe o'r dwyfol fawryd a yfai;
 Y daran-anthem pan dorrai—'n sydyn,
 I'w nodau syn ei awen adseiniai.

Ymleda yr olygfa deg yn awr
 I fyrdd ystrydoedd heirdd Llynlleifiad fawr,—
 Marchnadfa'r byd o'r bron, lle ceir llyngesoedd
 Dan faner hedd, yn cyrraedd am filltiroedd
 Fel gelltydd nofiol ar yr afon lydan,
 A'u beilchion frigau yn y nef ei hunan;
 Diderfyn ellytydd o ddi-brin hwylbrennau
 Yn hofian yn y nef eu myrdd llumanau.—
 Pwy yw yr egwyddorwas welai'n rhodio
 I'w orchwyl gyda'r dydd, gan syn fyfyrion
 Fel un a fynnai rodio ar yr enfys,
 A sarnu ar y byd? Ein hanwyl Emrys!
 Mae'i ddwyllaw ar ei orchwyl, ond ei galon
 Ar bethau uwch na'r byd. Mae'i awen dirion
 Yn dechreu ymysgwyd yn ei chawell borau,
 Yn dechreu chwareu hefo'r aur allweddau,
 Rhai sydd yn agor yr ysbryd-borth dirgel
 I ollwng awyr at y rhyfedd angel
 Sydd yn ein marwol gnawd yn garcharedig,
 A'i hiraeth am ei Dad a'i nef enedig.

Llyn tro yw'r dref anuwiol—llyn sy'n sugno,
 I ddyfnder gwarth a gwae, y neb ddaw ato;

Ond cymer Emrys gylch o bell i'w ochel,
 Osgoa yr ymylon, fel gwna angel
 Pan ar ymweliad byr â'n byd llygredig;
 Ymgeidw'n bur, a'i fron yn wynfydedig.

Yng nghanol llwybrau gwyrgam fil,
 Fe geidw ef y llwybyr cul,
 A phob dydd wythnos fel dydd Sul
 Yn wyn gan burdeb moes;
 Pan grwydro ereill ar bob llaw,
 Mae'i lygad yn sefydlog draw
 Ar y dragwyddol goron ddaw
 Ar ol y gwae a'r groes.

Breese anwyl a berseiniodd—rin y gwaed,
 A'r 'Hen Gerdd' a'i swynodd;
 Aml i Sul melus wylodd,
 A'i galon dirion a dodd.

Drwy ienctyd, derfysglyd fôr,
 Efengyl fu ei angor;
 Fe'i hachubodd rhag soddi
 Yn y lliidiog leidiog li.
 Lled eigion colledigaeth,
 (Uchel nôd!) ei ochel wnaeth!
 O'i amryw berlau, Emrys
 Yw gwawr a braint goreu Breese.
 Diau eilchwyl diolchodd
 Emrys i Breese, am bêr rodd
 Y dirion Iachawdwriaeth,
 Adref idd y nef pan aeth.

Y brif-ddinas a brofodd ei anian,
 A natur bur ei dduwioldeb eirian;
 Brwydrodd, cafodd y dydd ar y cyfan;
 Wedi hollol orthrech, dai allan
 Yn wyn ei glod, wron glân;—swynion lu
 Ar bob tu i'w ddygu oedd ry egwan.

Meddiannai 'i oriau hamddenol—yn llwyr
 At wellhad meddyliol;
 Ni chai ffug ddifyrrwech ffol
 Un awr o'i hamdden hwyrol.

Ei ddoniau a'i buredd yn y Boro',
 Ei gynnydd beunydd, swynai bawb yno,

A rhoed gwahoddiad caredig iddo
 I wasanaeth Efengyl, i seinio
 Ei gras a'i dinag roeso,—ei chariad,
 A'i heuraidd alwad i'r holl rai ddelo.

Bu yntef i lais y nef yn ufudd,
 Heb ymdroi gwnai ymroi â mawr awydd,
 A'i hyder yn Nuw 'n ei gylchdro newydd,
 A Duw 'n ei arddel yn ei dyner-ddydd,
 Yn mawrhau'i ddawn yn more'i ddydd,—a'i sel,
 Ie 'n ei arddel fel yn ei hwyrdydd.

Y Seion bur y sy yn y Boro
 Adwaenai'n rhwydd yr hyfrydlais drwyddo,
 Clywai'r aur glych cysonwych yn seinio
 O'i weinidogaeth, a Duw'n bendigo,
 Llawer Sul yn llwyr selio—i lafur gŵyl,
 Ail dyn anwyl wedi ei eneinio.

Er ei ddoniau arddunol,—a'i doraeth
 Cymhwysderau nefol,
 Hyd yn hyn cadwai'n ol—eu *llawn* fawredd,
 Trwy fyw o nodwedd trafnydol.

O weithwyr pybyr ein pau
 Mae'r dynion mawr eu doniau;
 Meibion pur llafur yw llu
 O weision goreu Iesu;
 Ameuthyn yw amaethwr
 At waith gras—y gwas yw'r gŵr.

Ond ar dawel ymweliad,
 Wr myg, a'i hen gartre mad,
 Newidiwyd, do, holl nodwedd
 Ei fryd a'i fywyd, i'w fedd.
 Yn lle masnach, bellach bu
 'N gyson weinidog Iesu.
 Mae ei daith yng nghymdeithas
 Caledfryn, drwy Leyn fro lās,
 Trwy Eifionnydd lonydd lân,
 Yn wirgamp i arwrgan!
 O gyfaill gwerth ei gofio,
 Caledfryn! haul gwyn yw'th go;
 A'i loewder, er machludaw,
 Eto ar drum "y tir draw."

O loew-wych nerthol awen,
 Gerais i yn y Groes Wen,
 Sawl hwyr, ac O sawl arawd
 O'th ddawn gu a'th awen gawd!
 Wrth basio'r bedd gorweddi,
 Mae cur tost, ti'm ceraist i.

Llew'n y cyhoedd oedd, a'i ddull
 Fry'n eonddewr frenhinddull;
 Teyrnol ŵr, taran o lais!
 Oedd ddihafal ei ddyfais
 I lywio torf,—ond fel tad
 O dwymlon gydymdeimlad
 Ar ei wiw aelwyd siriolaf,
 Ail iddo er chwilio ni chaf.
 I roddi help i'r eiddil
 Awen fach, oedd un o fil;
 Un o fil yn ei fyw wawd,
 Un o fil yn ei folawd.
 Pedr y cyhoedd oedd, a'i her
 A'i nodwedd yn llawn hyder;
 Ond Ioan bob anian bêr
 Nos hapus hoen y swper,
 A'i lawn fynwes gynnes gu
 Ar rasol fron yr Iesu.

Yn iach, Caledfryn! Uchod—cawn eilwaith
 Uwch cŵyn ail gyfarfod,
 A chydblethu, clymu clod
 Melusach na'n mawl isod.

Caledfryn trwy ei graffder pur,
 A'i eryr-lygad treiddbell clir,
 Oedd barod fyth i ganfod dawn,
 A thynnu allan grebwyll llawn,
 Canfyddai yn ein Emrys bur
 Arwyddion o athrylith gwir,
 O ddefnyddioldeb gwych ei ryw,
 A thwysog ar fyddinoedd Duw.
 Clai oedd y tŷ, y mur o gnawd,
 Ond canfu ar y cyntaf rawd,
 Cyhoeddiad cyntaf Emrys wiw,
 Odidog gerub yno'n byw—
 Rhy dda i werthu nwyddau'n hwy;
 Rhy dda i ddim, hyd angau mwy,
 Ond traethu rhinwedd marwol glwy.

Gwas y nef, Christmas hefyd—pan gwrddodd
 Ag ef, fe roddodd iawn gyfarwyddyd ;
 Wr Duw, ei eiriau o dân
 Enynnai yn ei anian ;
 Pwy wŷyr holl gamp ei araeth,
 A than nef yr effaith wnaeth?

Ar ei foreuol daith, Porthmadog
 A welai ynddo'i hoff weinidog.
 Rhoes Salem arno'i bryd a'i chariad dyfnaf,
 Do, carodd Emrys ar yr olwg gyntaf,
 A mynnai selio y briodas santaidd
 Heb oedi dim.

 Ond ni roe'n harwr gwylaidd
 Gam mawr yn fyrbwyll fyth. Ei rodiad union
 Oedd araf, mesuredig, cryf, a chyson ;
 Yn enwedigol ar uchelffyrdd Seion.
 Ni fynnai seilio tŵr heb ragarwyddion
 Y gallai'i offen mewn prydfferthwch cyson.
 I'w brydfferth ysbryd, pennaf anghysonder
 Oedd gorchwyl wedi ei adael ar ei hanner.
 Buasai'i galon ddagrau gwaed yn wylo
 Pe gwelsai eglwys dan ei law'n adfeilio.
 Mae engyl nef yn wylo dagrau heilltion
 O fry, pan welant eglwys yn adfeilion ;
 Yr adfail drymaf oll yw adfail Seion.
 Gweld dwyfol fur ar lawr, a thyrrau nefol
 Ar ogwydd yn y cwmwl—anioddefol
 I Gristion yw y drych ; y mae'n olygfa
 I lawenhau archelyn hyf Jehofa.

Ef ni ddechreuai gŵys, heb rodio'n gyntaf
 O gylch y maes, a phrofi'r tir yn araf.
 Y penna i gyd, o bob cyfatebolrwydd,
 Yw'r un rhwng eglwys Dduw a gwas yr Arglwydd ;
 Mae'u symudiadau'n ddistaw ac yn ddwyfol
 Fel symudiadau'r ser a'u cydgan nefol,
 Nas clywir ond gan engyl, neu gan awen
 Pan hedo yn ei phell ysbrydol elfen.

Gwnai'n brawd gochelgar, gwylaidd, craff ei ardrem,
 Gyfamod blwyddyn gydag eglwys Salem,
 Fel gallent brofi'u gilydd, ymgydnabod,
 A gweld ai doeth ai annoeth fyddai'r undod.
 Bu'n flwyddyn ei flynyddau oll mewn pryder,
 Ond ar ei diwedd roedd yn llawn o hyder,

O santaidd hyder wedi dal y profiad,
A chael o fry ryw ddyli o arddeliad.

Mor hardd a mawr ei urddiad! Dyn profedig
Yn cydio yn yr aradr fendigedig
A grymus ddwyllaw byth o hynny allan,
I'w dal am helaeth ran o ganrif gyfan,
Nes gwelid ei gŵys olaf yn ymdoddi
I'r Wynfa fry, "ar lan y pur oleuni!"

Wrth syllu'n ol, 'roedd maes o flwyddyn gyfan
I'w weled, o'i ddiwylliad pur ei hunan
A'i gnwd yn donnau aur dan awel falmaidd,
A llygaid y medelwyr clær angylaidd
A'u golwg eisoes arno—mae'r ysgubau,
Ran amlaf, erbyn hyn, ymhell uwchlaw'r wybrennau.

Fel eryr ieuanc hedai'n syth
I nefol gylch gwasanaeth Ner,
Gan adael ei ddaearol nyth,
Ei ado'n llwyr, ei ado byth,
I fyw a throi ymysg y ser.

Gan fyw yn Ior, gwnai fwynhau
Ei wyneb llawn a'i wenau.

Eglurder y dwyfol ddisgleirdeb—oedd
Addurn ar ei wyneb;
Am y nod, amheuai neb,
Duw a roddodd ei drwyddeb.

Nid caniatad cennad hur,
Breinteb esgob ar antur;
Uwch oedd ei hawl, a chadd hi—oddi uchod,
Diau'r Duwdod wnai ei awdurdodi.

Ceir ambell bregeth, rywfodd, yn ein swyno
Tra byddom—dim ond hynny—yn ei gwrando.
Mae ei diwedd glo yn ddiwedd glo'n ddiau,
Gadewir hi ar ol o fewn y muriau
Fel ofer sain. Ond pur bregethau Emrys
Barhaent yn eu sylweddolrwydd dilys
I'n dilyn tua'n cartref; oent yn aros
Fel gwledd Nadolig ar y bwrdd am wythnos,
A'r tad yn torri llawer tafell lydan
I holl eneidiau'r ty—y dorth oedd gyfan
Po mwya torrid, fel y deisen fechan

Wnai'r weddw i Elias yn Sarephtah,
 A'r olew o'r ystên wnai flwyddyn bara—
 Blynnyddau, hefyd, weithiau! Sonnir heddyw
 Am aml bregeth fawr o'r rhes uchelyrw.

Aruchel ydoedd nod ei weinidogaeth,
 Nid creu ymdoniad byr ar fôr teimladaeth,
 Rhyw arwynebol gynnwrff yn mynd heibio,
 Tra caed dyfnderau'r deall heb eu plymio—
 Bron heb eu cyffwrdd.

Os cyfodai dyfroedd
 Y teimlad dano ef, gwirionedd ydoedd
 Y ddwyfol loer a'i chwyddai tua'r nefoedd.
 Arwyneb llyfn y dorf, os ymsymudai,
 Daeargryn o wirionedd a'i hachosai.
 Pob newydd bregeth oedd wythien newydd
 O drysor gwell nag arian—a'r gwrandaowydd
 A weithiai yn y bur wythien honno
 Am lawer awr, ar ol i'r Sul fynd heibio,
 Gan agor fwy-fwy a dadblygu'r trysor
 Trwy gof ac efryd maith ar air y cyngor.

Pan godo'r morwr ei angorau i fyny,
 Pan daeno'i hwyl i'r ffatriol wynt ei llenwi,
 Mae ganddo yn ei olwg hafn ddymunol,
 Ac er mor bell cyrhaedda hi'n ddiangol;
 Yr unfodd Emrys yn ei bulpud arddun,
 'Roedd ganddo bwynt, o gyntaf air ei destyn,
 Mor glir yn ei feddyliol weledigaeth
 A seren yn y nef ar rew-nos odiaeth;
 A chyn dibennu, gwnai i'r dorf synedig
 Ei weled fel goleudwr dyrchafedig
 Ar uchaf grib y graig, a'r golau ynddo
 Mor glaer a gwyneb angel yn disgleirio.

Pan chwyddo'r afon, rhaid mwyhau
 Ei gwely, neu ei ddyfnhau;
 Rhaid ildio mwy o dir i'r traeth,
 Pan godo'r llanw 'n nerthol iawn;
 A Salem yn rhy gyfyng aeth
 I ddal y raso! ddwyfol ddawn;
 Helaethwyd lle y babell hon
 Do, fwy nag unwaith, fel gwnai ton
 Y dwyfol ddylanwadau pur
 Ddwyn llongdrylliedig rai i dir.

Adeiliai aml Ddiwygiad mawr
 Orielau newydd, newydd lawr ;
 A'r aur ddylifai i fewn heb drai,
 Fel y dylifai'r euog rai
 Oedd edifeiriol am eu bai.
 Estynnwyd y cortynau 'mhell,
 A'r rhaffau ar eangder gwell,
 A'r hoelion aur sicrhawyd fry
 I ddal gogoniant teg y ty.

Ac o'r tu allan idd ei gorlan gun,
 Fe daenai'i aden dros eglwysi Lley'n
 A gwlad Eifionnydd. Ei gyf'rwyddyd ef,
 Mewn profedigaeth, oedd fel gair o'r nef.
 Hapusaf gartre'n aml newidiai'n brawd,
 Am anghysuron llety digon tlawd,
 Fel newid hindda am ystormydd llym,
 Neu newid tir am don, heb gwyno dim,
 Ond cyfri'r oll yn fendith ac yn fraint
 Os gallai rywfodd adeiladu'r saint.

Pan ddodai Rhagfyr oer ar deyrnol ben
 Y santaidd Wyddfa goron eira wen,
 Gan roi y deyrnas olygfaol fawr
 Oll dan ei llywiaeth—pan y rholiai i lawr
 Dros biglym greig sydd megis dannedd byd,
 Raiadrog nentydd, oll mor wyn gan lid
 A'r bannau pell gan eira, gwelid ef
 Bryd hynny'n myned ar wasanaeth nef,
 Mor ddedwydd yn ei deimlad, er mor flin,
 A phe yn rhodio yn ei ardd ei hun
 Ar hwyr o haf; fe droai'r dŵr yn win
 Rhinweddol iddo ar y santaidd hynt,
 Fel gwnai yng Nghana Galilea gynt.
 Ac angel ddeuai 'n ddistaw gyda'r ser,
 I daenu'i wely ef yn nhangnef Ner.

Y mae elfennau ei gymeriad llawn
 Yn rhy luosog bron i unrhyw ddawn
 Eu gwir ddesgrifio. Wyf fel arluniedydd
 Yn syllu ar olygfa deg, ysblenydd,
 Yn cynnwys pob amrywiaeth o brydferthion,
 Y bryn yn wyrdd i'w fannau pell; yr afon
 Arianlliw yn breuddwydio am yr eigion,
 Gan droi a throï fel un yn chwilio am dano,
 Gan holi 'r coedydd tal sydd yn ei minio

A welant hwy y môr o'u balchaf frigau,
 A glywant hwy gartrefol ru ei donnau;
 Y gerddi'n gwrido fel priodferch wylaidd
 Ar foreu holl foreuau 'i hienctyd euraidd;
 Nis gwn pa le i ddechreu, f' eiddil awen,
 Nis gwn, gan rif y swynion, ble i orffen.

Barddoniaeth ni wnaeth yn nod;
 'R oedd ei dwf mewn cerdd dafod
 Mor bur ac mor naturiol
 O fyw ddawn, a thwf y ddôl.

Fe ganai fel y cân y fronfraith bêr,
 Neu fel y cân yr eos wrth y ser
 Rhai ddont yn nes i lawr i lwyr fwynhau
 Y bur gynghanedd, pan fo cwsg yn cau
 Amrantaau pawb ond beirdd.—Pwy'i dysgodd hi
 I leisio mor feistrolgar—weithiau fry
 Ymhell uwchlaw y cwmwl—weithiau i lawr
 Fel un fai 'n gweled angladd anian fawr
 Yn agoshau, a rhyw aneirif lu
 O engyl yn galaru oll mewn du?
 Ni chadd yr eos ddysg; llifeiria'r lleddf
 A'r llon, o lygad-ffynnon doniau greddf.

Rhwydd anadlu
 Oedd ei ganu, a'i dda gynnydd;
 Emrys anwyd,
 Do, eneiwyd, yn awenydd.

Y fath doreithiog lawnder o gynheddfau
 Ni welwyd braidd erioed; crynhôdd holl riniau
 Y cylch meddyliol i addurno'i nodwedd;
 Ei feddwl oedd fel rhod, a'i chronder rhyfedd
 Heb unrhyw fwlech, na diffyg ar ei hagwedd.
 Llaw gadarn barn wnai ffrwyno'i awen rymus
 Fel nad ymgollai yn y pell Ramantus,
 Yn niwlfyd gorddychymyg, a'r cysgodau
 Sy'n duo darlunfaoedd rhai awenau.
 'R oedd glewder ganddo i gydfynd âg anian,
 Ond nid i fynd tu hwnt i'w ham-gylch eirian.
 Ymgadwai oddi fewn i'r gwir a'r dilys;
 Lle safai y gwirionedd, safai Emrys.
 Cydbwysedd ei gynheddfau oedd ryfeddol;
 Ni welid ochredd gŵyr, na rhwyg ar reol.

O gylch ei farn fe droe ei holl gynheddfau
 Mor ddisglaer ac mor gyson a'r planedau
 O gylch yr haul, mewn pell ond perffaith rodau.

O, y swynawl nos honno—fy nghyfaill!
 Mae 'n fy nghofion eto,
 Pan ddest o dan wledig do
 Fy awen, i'm gofwyo.

Wedi'r da fawl, wedi'r odfa hwylus,
 Gyrrem adref i fy haddef heddu,
 Fro gled yn nodded gwŷdd gogoneddus,
 Yn llawn o ynni, yn llon a hoenus;
 O! 'r oedd yn nos fawreddus!—a thithau
 Yng ngorau dy wiw hwyliâu hudolus.

O! eres awenydd y rhosynau,
 A'i brif oludoedd y ceinber flodau,
 Nid gauaf oedd alaf ei feddyliâu,
 Ond haf yn ei dirion rad fwynderau;
 Y cu a'r hygar, nid cuchiog greigiau,
 Oedd hardd ogonedd ei euraidd ganau;
 Rhedodd holl fyfyriadau—ei lawen
 Wiw rasol awen, ar ros-welyau.

Prydferth erddi
 Yw ei gerddi, pob rhagor-ddull;
 Rhydd eu swynion
 I wir feirddion, oraf arddull.

A cheir aml ffwnt yn chwarau—'n ei erddi
 Dan heirddion belydrau;
 O! mae y rhos yn mawrhau
 Oer rin eu dyferynau.

Gwin a medd yw ei gân i mi,
 A blâs hufen heblaw syfi;
 Goludoedd arogl Eden
 Hyfryd nawf ar hyd y nen.

Cymdeithas y Beiblau a swynodd ei fryd,
 Brenhines yr holl Gymdeithasau i gyd,
 Sy'n gadael i'r Beibl esbonio ei hun
 Yn gadael y Rhol rhwng y dwyfol â'r dyn;

Yn estyn i bellaf baganiaid y byd
 Y rhyfedd ddatguddiad sy'n gariad i gyd;
 Sy'n dweyd am yr aberth, yn dweyd am yr hedd,
 A'r cadw, a'r bywyd, a'r codi o'r bedd;
 Gwnaeth Emrys ei oreu mewn dadleu o du
 Ei hawliau, a'i lwydd yn rhyfeddol a fu.

Oedd fawr ymhob rhyw gylch; ond yn y pennaf
 O'i gylchoedd oll, y gwelid ef yn fwyaf.
 Oedd fawr fel bardd; ond nid ei felus awdlau
 Enillodd iddo ef ei folawd gorau—
 Goruwch ei bulpud crog ei brif lawryfau,
 A'u gwyrddni bair i deg addurno borau
 Yr adgyfodiad claer i'r aur ororau.

Ond bellach mae cysgodau'r bedd yn disgyn,
 A'i yrfa fawr gerllaw ei dirfawr derfyn.
 Yn rhosydd Moab cadd fel Isr'el dario,
 A chyda sain yr afon gynefino,
 Nes ffodd ei harswyd ymaith, nes hiraethu
 Am groesi'n llwyr i fro y bythol ganu.

Ffarwel yn awr! Ffarwel, hawddgaraf Emrys!
 Mi genais hyn o gerdd drwy deimlad hapus
 A phruddaidd bob yn ail. O Emrys ffyddlon,
 Gadewaist ar dy ol y decaf goron
 Adawodd sant erioed, a thrwy fy nagrau
 Hyfrydwch pur i mi yw rhifo'i pherlau.
 Fel beddau Ethiopia, mae'th fedd edmyg
 O wydr oll i gyd, wrth Gapel Helyg;
 Dy ffyddlon Geidwad wél yn oleu heddyw
 Dy bur brynedig lwch—ei bwrcas ydyw,
 A gwerth ei waed.

Gwnaeth Duw ei brif ewyllys
 I sicrhau dy adgyfodiad, Emrys;
 Ynghanol myrdd myrddiynau, a thrwy honno
 "O'r cwbl roes, ni chollir dim o hono!"

Heb wryiad, byth fe bery—'r ewyllys,
 Daw yr "oll" i fyny;
 Anwyl frawd, cawn eilio fry
 Wych dôn,—yn iach hyd hynny!

THOMAS RICHARD, ABERGWAUN.

FEL angel yn rhodio dros fwa y cwmwl,
 A'i fys yn cyfeirio yn union i'r nef,
 A'i fantell fel borau o aur ar y nifwl,
 A nerthoedd y nefoedd i gyd wrth ei lef ;
 Fel hynny y rhodiai y pennaf areithydd
 Dros nef yr athrawiaeth, y bwa o waed
 A roed i rychwantu y duon wybrennydd,
 Yr eigion rhwng daear a nefoedd a gaed.

Dyrchafiad ei lais oedd yn arwydd i filoedd
 Anghofio eu gofid, a gado y byd,
 Ei bechod, ei wae, ac ofnadwy ddyfnderoedd
 Marwolaeth, eu gado o danynt i gyd.
 Fel angel ymaflai yn udgorn y nefoedd,
 Fel angel ehedai trwy ganol y nef,
 A'r dydd jubiliaidd gyhoeddai i filoedd,
 A bywyd ei hunan oedd adsain ei lef.

Ni cheisiai ogoniant tua yma i'r nefoedd,
 Na dim ond hynodrwydd ei Arglwydd, y groes ;
 Na ser i oleuo ei enw i'r oesoedd,
 Ond ser cadwedigion casgledig ei oes.

Canfyddaf dy dystion, O ymadawedig,
 Pur dystion dy lafur yn ol ac ymlaen ;
 Tu yma, tu acw i derfyn gwywedig
 Marwolaeth ; O gwynfa ei hun yw eu sain !
 A ydwyt yn rhodio ar lannau y nefoedd,
 Ar lannau y moroedd tragwyddol o hedd,
 A'th fynwes yn chwyddo, gan ddisgwyl dy luoedd
 I araf ddod allan o gysgod y bedd ?

Fe godai iachawdwriaeth o'i ffynhonnau,
 Gan ddwyn llaeth bywyd o'r tragwyddol fronnau.
 A'r elfen fawl a gaed o dano ef
 Dan ddylanwadau'i areithyddiaeth gref,
 Yn donnau cynhyrfedig hyd y nef ;
 Ei ddawn a gaed yn agor fel y borau,
 Ac yn y pellder wawr y gwell orrau,
 Rhyw gil-agoriad o'r tragwyddol ddorau !
 Yr oedd ei bregeth yn ei mawredd chwyddol
 Yn codi ar y dyrfa anedwyddol
 Fel Horeb dan gymylau'r farnol hynt,
 A'i lais fel udgorn y digofaint gynt ;

A chrynai miloedd dan fygythion nef,
 A siglent fannau i areithyddiaeth ef;
 Euogrwydd fel daeargryn gipiai'r llu
 I glyw taraniad yr Anfeidrol fry.
 Fel angel Duw, yn uchel yn y nef,
 A'i udgorn yn ei law, y galwai ef
 Euogion ger ei fron, ac archai mwy
 Faith adgyfodiad o'u gweithredoedd hwy;
 O feddau duon amser pan y doent,
 Pan am yr enaid syn yr ymgrynhoent,
 Pwy allai mwy ymgynnal dan y llid,
 A dal ymgroniad ei bechodau nghyd?
 Pan ryferthwyent yn eu llawnder erchyll
 O fyrdd o oriau ac adgofion tywyll,
 Pan gronid bywyd mewn un awr o wae,
 Pan gaed bodolaeth fel yn ymgulhau
 Hyd at ddymuniad am ddiddymiad braidd,
 A'r enaid oll yn gwywo hyd y gwraidd,—
 O nefol ennyd, pan y dygai ef
 Y groes i'r golwg, a phell lannau'r nef!
 Ei ffurf ymgodai fel i herio'r bedd,
 Ac edrych drosto gyda thawel hedd,
 A gwên o fuddugoliaeth ar ei wedd.
 Fel toriad bywyd oedd ei floedd yn awr,
 Na chollid fyth ond ar fôr-floedd y dyrfa fawr,
 Pan na chaed diben i fodolaeth mwy,
 Ond moli, moli byth yr Oen a'u prynodd hwy.

O, llawer gwaith adseiniai'r wlad a'r dref
 I rymus floedd ei alwedigaeth ef.
 Yr oedd y creigiau ar y bryniau pell
 Yn adsain oll i'r gwahoddiadau gwell,
 A'u hadsain yn dychwelyd ar y llu
 Fel galwad arall, galwad natur gu.
 Llif-ddorau teimlad gaed yn awr
 Yn cydymollwng dan y llawnder mawr,
 Y llawnder o orfoledd yn ei ran,
 A wnai i'r enaid dorri dros bob glan,
 Pob caer o ddefod ac o ffurfiol foes,
 Yng ngolwg llawn y ddyrchafedig groes.
 Rhy fychan yr addoldy danat ti!
 Fe lannwyd llawer wybren, llawer llu
 A'i llanwodd â'u haddoliad, pan y caed
 Y maes yn symud—symud dan eu traed.
 Fy nhadau! ardderchocaf weision Duw!

Eu cofio yn eu beddau, hyfryd yw.
 Ser boreu y diwygiad unwaith fu
 Yn ysgwyd Cymru o afaelion du
 Marwolaeth anherfynol, ac yn dwyn
 Ar fil o fryniau wawr efengyl fwyn,—
 Fel engyl Duw ehedech trwy y wlad,
 Ac yn eich llaw allweddau y rhyddhad,
 A'r oll a geisiai dyn, a goleu'r nef
 Yn llof ar eich ol. Llangeitho gref,
 A Morris y taranau, wisgai'r wawr
 A'r nefoedd am ei weinidogaeth fawr!
 Gwregysid hwy â gallu fel â gwisg,
 A'u nerth aruthrol waradwyddai ddysg,
 Rhyfelwyr cedyrn oeddynt, ond ni chaed
 Fyth ar eu hol ond arwydd dwyfol waed,
 A gwywedigion filoedd yn codi ar eu traed.
 Symudai'r nef fel awyr gyda hwy,
 A'r dylanwadau uwch y miloedd mwy.
 Rhoad Horeb a Chalfaria yn yr un
 Waredol gadwyn, a ffordd fawr i ddyn
 Ar hyd-ddynt hyd orseddfaine Ior ei hun.
 Elias, yr anfarwol, O tydi
 Y crogai Cymru ar dy amnaid gu,
 Fel colfen yn y nef, dan ddwyfol wlith,
 Yn barod i lesghau neu chwyfo byth!
 Yr oeddych chwi yn santaidd fel y ser
 Goruwch y byd, anwylaf dystion Ner.
 Ni allai'r annuw edrych ar eich gwedd,
 Heb gofio Duw, ac ymbil am ei hedd.
 Ofnadwy oedd eich enwau ar bob rhyw,
 Fel tywysogion a rhyfelwyr Duw.

Gorffwysa dithau'n dawel gyda hwy,
 A dos i mewn, i mewn i'w gwleddoedd mwy,
 I mewn ac allan rhodiaist yn eu plith,
 Y cydlafurwr llon, y brawd heb rith.
 Pan oedd yr eglwys yn oleuni'r byd,
 Fel llu banerog o ofnadwy bryd,
 Pan weddnewidid wyneb Cymru oll,
 Pan elai'r cwbl ond enaid dyn i goll,—
 O pan helaethai purdeb hon o hyd,
 Pob dydd yn ddydd o farn ger bron y byd,
 A'r anuwiolion eisoes oll yn fud,
 Yr oeddit ti ymhlith y blaenaf gaed
 Yn arwain lluoedd y pryniawdol waed.

Ar uchel frvn ei areithyddiaeth ffraeth
 Llywyddai holl weddnewidiadau iaith;
 A gwasanaethai geiriau arno fyth,
 Fel lliwiau'r nefoedd ar y boreu wlith,
 Neu 'ihamryliwiau ar yr enfys gain;
 A dygai yr un meddwl mawr o'n blaen
 Olynol drefn, yn holl arwisgoedd iaith,
 Fel angel gweddnewidiol ar ei daith,
 Nes rhoed i anwybodaeth bwl ei hun
 Ei ganfod ar ryw dro, ar ryw ddychwelliad cun.

Yr oedd ei areithyddiaeth fyth fel môr,
 Na chyfaddefai derfyn, glan, na dôr,
 Nac ynys seibiol ar ei lif, na dim
 Ond dyfnder, dyfnder, a diderfyn rym.
 Dylifai 'i ddawn dan ysbrydoliaeth hedd,
 Fel afon o lydanol wyrddol wedd,
 A golygfeydd newyddion ar bob tro,
 Rhyw gerub-fryn, rhyw baradwysaidd fro.
 Pwy amlach ei fyfyrion; eto, pwy
 Allasai, fel efe, eu hebgor hwy,
 A byw ar ysbrydoliaeth yr eiliadau,
 Ac arwain amser wrth ei darawiadau?
 Ni wyddai ei eangder fwy na'r nef,
 Na'i gyflawn aden fwy na'r awel gref.
 Caed bythol wanwyn ar ei enaid mawr,
 Rhyw ymagoriad newydd ar bob awr;
 Ni ddygodd bywyd auaf yn ei gol,
 A allai yrru ffrwd ei ddawn yn ol,
 Na pheri sychiad ar ffynhonnau hon,
 Nes sychodd ffynnon bywyd dan ei iron.

MRS. JONES,

GWEDDW Y PARCH. J. JONES, BLAEN ANNERCH.

MAE un i'w henwi eto; chwaer yn wir,
 I'r gwragedd ddoent o Galilea gynt,
 Ar ol yr Iesu ar ei olaf hynt,
 "Gan weini iddo ef" o gariad pur.

Ei weddw ydyw hon; bu iddo ef
 Yn briod, chwaer, a mam; boed hwyr ei dydd
 Yn hwyr o ddwyfol hedd, heb gwmwl prudd;
 Ac yna, ail gyfarfod yn y nef!

G W E D D I.

Llythyrgludydd yr enaid.

A M Weddi lân y canwyf
 A phur aidd, ei hoffi'r wyf;
 Bu i mi heb amheuaeth
 Yn gynhaliol fywiol faeth,
 Ffynnon cysuron y sant,
 A'i ganwyll i ogoniant.

O fodd y plethwyf iddi
 Rwymyn aur o'm hawen i.
 Hi fu ynni fy enaid,
 A'i holl rym mewn llawer rhaid.
 Hi redodd lawer adeg
 I agor dôr y nef deg,
 A dug i mi rad gymorth
 Doniau o bell, Duw yn borth.

Fry hi gyfododd o fro gofidiau,
 Ar hoew adenydd, uwch môr a'i donnau,
 Uwchlaw y daran a'r uchelderau,
 Uwch pellaf drum olaf y cymylau,
 Filwaith i'r nef olau,—a dug yn ol
 Hyd y rhiw serol ddwyfol drysorau.

Fy nghanhades yn fy angen ydoedd
 I ofyn nwyfau o nef y nefoedd,
 Yn daer uwch y pellderoedd—gwnai ofyn
 Rhad i'r abwydyn uwch rhodau'r bydoedd.

Er fy mai, deuai bob dydd
 Yn glodus lythyrgludydd,
 Yn barod yn y bore
 A hwyr nos i fynd i'r ne.
 Esgynnai 'n hwylus ganwaith
 A'm llythyr, fy llythyr llaith,
 Ag ol edifeiriol fys
 Ar y dail, ddagrau dilys;
 A Ior, fy mhorth, er fy mai,
 Yn fuan a'm gofwyai.

I fyny eto anfonaf—drwy hon,
 A thirion lith yrraf,
 Nes elo a'm cais olaf
 O'r terfyn, i gartref Naf.

Y ffenestr yn agored tua Jerusaleu.

Arddunol gweld addolydd
A gair Duw yn agor dydd!

Ei dŷ ef sy gysegr nefol,—parod
Bob bore at ddwyfol
Wasanaeth, a'i blant swynol—yn gryno
A'i weis yno, heb un yn absennol.

Yn arwain eu tylwyth rhiaint welir
At y Fainc ddwyfol, rasol,—fe'u rhesir
Yn hardd o'u hogylch, y Beibl mawr ddygir;
Byd a'i ddisylwedd oferedd fwir
Allan am ennyd, a llon ymunir
I wrando weithian ran o'r Gair enwir,
Gyda pher emyn trwy'r gwaed offrymir
Aberth mawl, fe'u hatebir,—a hwy, gwn,
O fewn y dwthwn hwnnw a fendithir.

Ni ddaw drwg, nac anedwydd dro,—i'w cwrdd,
Cant eu cyfarwyddo
A'u harwain heb wyro,—Gweddi a chlod
A wna ddiwrnod a nawdd Dduw arno.

Ni ddaw i fwthyn y Weddi fythol
Un ffael anedwydd na phla niweidiol;
Lle trig Gweddi mae gallu tragwyddol
A Ion yn ei ras yno'n arosol,
Diau gyda phob duwiol—mae Duw'r hedd
Yn ei gariad rhyfedd yn gartrefol.

Derbyniaf arch Naf i nhy,
Daw hoen a rhad o hynny.
Bo gwell fy haddef bellach,
Ys hon fo yn Seion fach.
Yn fy nhy, o flaen fy Naf,
Hyd fedd offeiriad fyddaf;
Ceir hedd sicr uwch cyrraedd siom,
Byd odiaeth Obededom.

Arferaf y wawr fore,
Aberthaf i Naf y ne.

A min nos caf ymnesu,—erfyniaf
Ar i'w faner ledi,
A'i gariad fel caead cu
Dros of, er gwaed yr Iesu.

Af i huno ar fynwes—fy Ngheidwad,
 Ef yw 'nghadarn achles;
 Rhydd imi beraidd amwes
 I 'ngwyllo rhydd engyl rea.
 Yn orddedwydd breuddwydiaf
 Trwy y nos am Gartre Naf
 A diddan fro dedwyddydd,—am seintiau,
 Am y fwyn bau, am ofyn y bywyd,
 Am haul heb ddim cymylau,
 Am bur hoen mwy i barhau,
 Am y gorau forau fydd
 Fawreddog glaer foreuddydd,
 Pan gaf uwch poen a gofid
 Esgyn goruwch llynclyn llid,
 O wael fedd i nefol fyd
 Yn nelw fy Anwylyd.

Cyfoeth gras.

Ion drwy 'i wir gariad wna 'n dra rhagorol,
 Tu hwnt i gaerau ffiniau gorffennol
 Ein dymuniadau mwyaf eithafol;
 Y Weddi ehangaf, o gystudd ingol
 Erioed anfonwyd ar aden fewnol,
 Ion a fedra ragori 'n anfeidrol
 Ar y Weddi honno; mor arddunol
 Hwnt i'r eiddunedd a'r natur ddynol
 Yr ehangaf ei gariad cyfryngol
 Yn rhyw afonydd pell anherfynol!

O feddwl dyn! pwy feiddia—roi y ffin
 Gorffennol i'w yrfa?
 Yng ngloew nef fry angel wna
 Ddilyn ei weddi ola.

Un munudyn! a'i ddymuniadau
 Hwnt a basiant heibio i oesau,
 Fry ehed goruwch dirfawr rodau
 Myrdd o fydoedd, moroedd o fodau,
 Nid yw 'r bedd, y du oer bau,—ond bywyd
 Iach ar ei loewbryd a dechreu 'i lwybrau.
 Ond, yn Nuw, nid yw ein hawydd—pennaf
 Ond y lleiaf at rad y Llywydd.

I f' enaid mi ofynnaf—y rhadau
 Gwardedol uchelaf,
 Eto daw'r geiriau ataf,—
 "Mae yn ol fil mwy yn Nâf!"

E ddeil y Weddi ola—yn y man,
 A'm dymuniad pella,
 Yn ffyddlaw'n fe'u cyflawna,
 Fe rydd im ryw fôr o dda

Hwnt i angau, ond dengys—yn y fan
 Fôr o hedd dihysbys,
 Neu newydd le 'n nawdd ei lys,
 Le mwy tawel i'm tywys.

Llawer a ddichon taer weddi y cyflawn.

Pwy a draeth ei helaeth hawl?
 Un Gweddi â'r tragwyddawl!
 Rhoddwyd pob llawnder iddi
 Yn eres ran, Aeres Rhi!

Ymguddiaf dan rym Gweddi,
 Agor môr wna ei grym hi.

Ni fedd enwog fyddinoedd—y filfed
 O'i nefolfawr nerthoedd;
 Gyda 'i nerth Gedeon oedd
 Yn uthr fwy na thyrfaoedd.

Y mae gallu holl luon
 Engyl Duw yng ngalwad hon;
 Ar ei llais disgynna'r llu,
 A chân, i'm hamgylchynnu.
 Taen o blaid y Cristion blin
 Ryfeddol ddisglauer fyddin;
 Gwarcheidwaid gorwych ydynt,
 Gwarchlu Ior goruchel ýnt.

Er dyfais mawr diafol—a'i allu
 Hyllig ac uffernol,
 Taran Naf a'i tery 'n ol,
 Rhag Gweddi ffy 'n dragwyddol.

O bob parth os cyfarth cŵn
 Drygionus, dreigiau annwn,
 O'm henaid ochenaid chwydd,
 Tery hwynt â distawrwydd,
 A throlyn o gythreuliaid
 Yn sydyn fel boglyn* baid.

* Bubble.

Yn ddilys pan addolaf
I gysgod y Duwdod af.

Cuddia fi 'n llon yn ei gyffion gafell,
I gyd yng nghysgod ei eang asgell,
Peryglon mawrion ynhell—draw a yr,
Yr wyf yn bybyr o fewn ei Babell.

Gweddi dyn derfyn nas daw
Gelyn drosto i'm gwyliaw ;
Lliuell bell, lle ni eill byd
Na diafol ddod hefyd.
Gwneir ysblenydd ddefnydd o
Holl anian, trwy gynllunio ;
Defnyddir ar dir, ar don
Ei hyniau yn eon.
Cyflymder ager a rydd
Fythol ogonol gynnydd,
Mewn hoen pasia, gwawdia 'r gwynt
Fel hoen cerub flaen corwynt ;
Segur ar y gwyrddlas eigion—unwaith
Fu ynni 'r awelon,
Hwythau a chwyddant weithion
Yr hwyl deg ar rol y don.

Y nant, o bu gynt heb waith,
Ar yr olwyn droir eilwaith ;
Try draw â chyngerdd lawen
Olwyn y wiw felin wen.
Ond Gweddi, y weddi wir,—(y fwyaf
Wyrth a fawrygaf) ni werthfawrogir !
O, mor ddi-barch yw myrdd y byd
O elfen fawr ysbrydolfyd,
Lle mae y gallu mwyaf
Ie, holl nerth llaw ein Naf!
Llais hon yn hollallu sydd
Yn awyr y Cread newydd.
Y mae ager a grym eigion,
Dŵr a thir, dan lywodraeth hon.

Trydan uwchlaw anian yw,
Eneidiol drydan ydyw,
A'i gwifrau ar heuliau 'r rhod
Ar ochor y ser uchod,
Cedyrn wifrau yn cydiaw
Yn eirian drôn yr Ion draw.

Mae'r enaid mawr ei hunan
 A holl fyd ysbryd o dan
 Ei rheolaeth helaeth hi,
 Byd meddwl bob dim eiddi.

O eiddil ŵr diweddi,
 Y gŵr mawr, idd ei grym hi
 Soflyn gwan, us o flaen gwynt
 Gwyr a i bob rhyw gorwynt.

Egwyddor rymus Gweddi
 Wna â Ion ein huno ni.
 Ior â'i nerth wna 'n cādarnhau,
 Ymhogiwn am ei angau!
 Os tyr y gref ystorom
 A syn drwst o Sinai drom,
 Os trwm fydd y storom faith
 Ymafaelwn mwy filwaith!
 Bo gafael ymhob gofid
 Yn Nuw Ior nes lleddfo'r llid.

" Fy Ngiceddityr."

E gafodd Jacob gyfion
 Orchfygu trwy allu hon.

Ef un nos ofnai Esau
 Yn ei sor oedd yn neshau;
 Y nos honno nis hunodd,
 A mawr rym i weddi ymrodd;
 Aeth i'r man lle cadd ganwaith
 Ras i fyw drwy ei oes faith.

Bu daer hen Jacob dirion
 A'r "Gŵr" o fri ger ei fron;
 Y Gŵr ar fyr ragorodd,
 Niwl ei ffurf ddynol a ffodd,
 I angel prid newidiodd;
 Newydd drem—yn Dduw e drodd!
 Ryfedded gweled y gwael
 Am Jehofah 'n ymafael!
 A! llwyddodd llaw y Weddi
 Ddihafal, er atal Rhi;
 O ddwylaw ei addolydd
 Ni allai ffoi—llaw y ffydd
 Blethai brid addewidion
 Fawrwych rwym am fraich yr Ion;

Ef a geid mewn dalfa gan
Ei air enwir ei hunan.

Mor ryfedd i'm Hiôr ofyn,—y mawr Dduw!—
Am ryddhad gan bryfn!
Ai'r craff seraff yn syn—weld Duw'r lluoedd,
Llywiwr y bydoedd, yn llaw'r abwydyn.

Trwy nos hir er taerni y sant,
A'i holl aidd, ni fu llwyddiant.
Gohiriai Duw ei gariad
O'i hoffder ym mwynder mad
Y Weddi, ac er addas
Brofi ffydd ei brif hoff was.
Pur Weddi yw'r pereiddiaf
Alaw a wneir yng nghlyw Naf.
Melusach, hoffach ei cherdd
Dawel, nag angel gyngerdd.
Ion gâr ei swm ger ei sedd,—a chyn hir
Draw, draw agorir dôr ei drugaredd.

Hyd drannoeth y taerineb—a'r hewyd
Barhai yn ddiwrtheb,
Swm taerach, uchelach, heb
I Ior eto roi'i ateb.

Po mwyaf profir Gweddi'r gwael
Tan ei gofid, tynna'i gafael.

Ar weniad gwawr y wwnef
Daeth y ddawn,—“Bendithiodd ef!”
Ion i'w daith a'i bendithiodd,
Ac anian draig yn oen drodd;
Dygasedd lliidiog Esau,
Troai'n serch, tra yn neshau.

Rhag fy Esau innau af,
Hon i finnau ofynnaf.
O, fendith y bendithion,
I minnau fyth mynnaf hon!
Hyd y glyn diogel af,
Yn nawdd hon llonydd hunaf.
Dirym yw Gweddi daeraf
Enaid prid, i newid Naf;
Ond ei nerth wna'n newid ni
I'w ddelw, wrth ei addoli.

Ni thyn Ner o'i lys eres,
Ond tyn ni at Ion yn nês.

Hi yw f' ysgol, caf esgyn
Yn dra phell hyd ei haur ffyn,
Cadernid addewidion
Ion a'i ras yw ffyn aur hon.
Uwch pellder y ser os af
Hyd hon, ni thyr o danaf.
Cryfach po uchelach yw,
Cadarn hyd y faine ydyw.
Canaf ar eithaf ei rhad,
Uwch caer awen, uwch cread ;
Drwy engyl hyd-ddi dringaf
Nes fy nod i lys fy Naf.

Dirym fu lluoedd dewrion
Amalec yn ymyl hon.
Ei lew dorf a wnaed fal dim
Ar ffodus faes Rephidim.
Gwyliai Moesen y gelyn
Heb un braw o ben y bryn ;
E ddaliodd fry ei ddwyllaw
Ar led—dyferai i'w law
Cyn hwyr, y lwyr fendith lon,—sef helaeth
Fuddugoliaeth wrth fodd ei galon.
Rhodes Duw urddas y dydd
I ddwylo ei addolydd.

Natur fawr un tro fu—ar Weddi fwyn,
Fel llawforwyn addwyn, yn gweinyddu.
Rhoed holl anian o dani,
Daear a nef i'w dwrn hi.

Gweddi i'w llaw gadd y lleuad,—a'r haul
A roed at ei galwad ;
Safent wrth ei deisyfiad
Er parhau 'r golau i'r gâd.

Uchod bu syndod i'r ser—nas deuai
Nos dywyll fel arfer ;
Ddydd a nos, diffoddodd Ner
Eu chwyldaith trwy'r uchelder.

O ryfedd fri Gweddiydd
A'i law 'n dal olwyn y dydd !

Y santaidd Elias, yntef,
 Oedd yn hy ar allweddau nef.
 Ar Dduw e daer weddiodd,
 A'r wybren glaerwen a glodd ;
 Ei rymus Weddi oedd rwymyn
 Acw am loew gwr y cwmwl gwyn.

Bu y loewnef, dair blynedd—a chwe mis,
 At ei arch mŷg rhyfedd ;
 Elias ar angel-sedd !
 Fe roed arno fawr deyrnedd.

Ail-blygodd, addolodd Dduw,
 Oni ddelai'r gwlaw 'n ddiluw,
 Dylif, erfawr lif ar led,
 Dacar sech dorrai 'i syched.

Ac honno'r wraig o Ganan,—nis enwai
 Y briwsionyn bychan
 Na roes ei holl dŷ i'w rhan,—a hawl i
 'R holl ddaioni, yr allwedd ei hunan.

O'r nef fe edrych yr Ior anfeidrol
 Ar y gwael a'i Weddi anryglyddol,
 Rhanna ei ddoniau i'r anhaeddiannol ;
 Y gwael a'r rheidus ga 'i law waredol,
 A chynhorthwy 'i fraich nerthol—i'w ddyrchu
 Trwy iawn Iesu, o'i wae truenusol.

Ion ni agora i'r hunangarol
 Aur drysorfeydd ei rad ras rhyfeddol ;
 E gaua'r nennau rhag yr hunanol,
 Gweddi ddigynni 'r hunan-ddigonol,
 Nid a 'r wag weddi hon yn dragwyddol
 O fewn i furiau y nef anfarwol.

Gweddi y truan gwan anigonol
 Ystornia 'n ebrwydd y gaer dragwyddol,
 Y nefoedd egyr, saif yn iuddugol
 Ar eirian furiau'r oror anfarwol.
 Deigrin, *un* dyferyn edifeiriol,
 Nofia longau nefol—yn llawn rhadau
 I fewn i ddu enau'r afon ddynol.

A! pobl y cwynion, y publicanod,
 Sy yn llochesu yn y llwch isod,
 Hwyl sydd dda 'u hachos ger y sedd uchod ;

Edifar ŵr sy'n dyfod—yn enwog,
Ie'n dywysog godidog Duwdod.

Pharisead ni chaffai 'i roesawi,
Ior a guddiodd ei hun rhag ei weddi,
Ei iawn oedd ei hunan a'i ddaioni;
Yn nheml Ion son am ei eluseni!

Wael adyn, eiddilyn yn addoli
Ei hunan, gan anghofio ei gynni;
Ai y gŵr adref mewn gau wrhydri,
Ynfyd ŵr annoeth, yn fwy 'i drueni.

I'r euog arall Ior agorai—'i aur borth
O hir bell tra safai;
At yr euog mewn hedd troai,
Ei ras oedd fôr i suddo 'i fai.

Euogrwydd ei fywyd i gyd godai
I'w olwg ar unwaith, a'r gwael grynai;
Fry yn yr awyr, y Farn a ruai;
Ai'n nos hollol, tua'r nef ni syllai;
Hyd ei gydwybod euog e dybiai
Rolio o synol 'storm farwol Sinai.
Yn y dwys ofid o flaen Duw safai
Yn fud, heb esgus am fai,—dan gyfion
Farn y goron, ei ddwyfron a gurai.

Yn ei ran ni feddai un rhinwedd,
Na degymau, na dim ond ei gamwedd,
Na modd i ddisgwyl am hedd—a bywyd
Ond trwy agoryd o ddrws trugaredd.

E dorrai allan mewn geiriau drylliog
Gyda pharodwedd a llygnid ffrydiog,—
"I bechadur dan gur bydd drugarog,
Dy ras, Dduw, rho i droseddwr euog!"

Diau hwn aeth i'w dŷ 'n ol—yn ŵr rhydd
O fewn newydd gylch cyfiawnhool,
Ai adref heb y ddedryd,
A hyn oedd fel newydd fyd!

Draw e welai'r lleidr halog—lwybr Gweddi
Yn egori tua'r nef deg eurog,
Llwybr i wan weddi'r annuw
Trosodd hyd at orsedd Duw.

Erfyn ar derfyn ei daith
 Yn nôr uffern, O'r effaith !
 Ei Weddi fer ddygodd faith—fythol rad
 Iddo'n atebiad, braidd hwnt i obaith.

Gwelai Frawd ar Galfari
 Goludog at galedi ;
 E welai fodd, ger ail fyd,—i faddeu
 Holl feiau hyll ei fywyd.

Er cynni y Gŵr canol—er ei gur
 A'r goron ddrain wawdiol,
 E welai deg ddelw ei Dad
 A'i haniad uchfrenhinol.

A thrwy un Weddi'n unig—y trowyd
 Y truan colledig,
 Un ymddiried puredig
 I'r pryniad ar y pren dig.

Ai 'u lân i'r Wynfa lonydd
 Dan wên Duw brydnawn y dydd !

Ior o'i nef, prysuro a wnaeth—weithion
 Olwynion ei dirion Iachawdwriaeth.

I ras yr Ior, gwaith o oriau—ydoedd
 Ei waredu 'n ddiau ;
 Aeth i wlad y caniadau,
 "Cân yr Oen," cyn ei hwyrhau.

Mewn un prydawn gwaith oes a gyflawnwyd,
 O fywiol ynni ef a ailanwyd,
 Yr halog ddyn euog gyfiawnhawyd,
 A'i enaid eilchwyl yn y gwaed olchwyd,
 I'r nef lwys fe 'i cymhwyswyd,—cyn hwyr ef
 Yn y gain haddef a ogoneddwyd.

Egyr rhyfedd allwedd hon
 Ddorau carcharau chwerwon.
 Paul anfarwol a fwriwyd
 I garchar gan anwar nwyd ;
 A Silas, was yr Iesu,
 A roed yn y dyfnder du ;
 Uchel fur a chloiau fel
 Ar gell engur coll-angel !

Er poenus artaith ac effaith cyffion,
 Er uchel gaerau a chloiau geirwon,
 Troes y ddau at orsedd—Ion yn union;—
 'Hedai 'n ol o'i dwyfol daith
 Yn ol fel mellten eilwaith,
 A chanddi arch newydd Ion
 I rwygaw daear-eigion,
 A darwain o'r dyfnderoedd
 Ddaeargryn sydyn nes oedd
 Y gell bybyr ail i gawell baban,
 Fel myr enwyllt, fel y môr ei hunan,
 Pob caer arswydus gwngus yn gwegian,
 Pob dôr yn agor, pob dur yn egwan;
 Crynai'r tŷ fel deildy dan
 Ystorom a thrwst taran.

Y drysau cryfion geirwon agorwyd,
 A heyrn farrau cadarnaf a yrrwyd
 Oll yn eu hol, a llaw ni welwyd!
 Y cyffion oll gollwyd,—a'r ddau enwog
 Wrth wir weddio gan wyrth ryddhawyd.

Urddas oedd ar y ddau sant,—at ryddhad
 Rhodd eu Hior ogoniant,
 Creodd hoen ac urdduniant
 A bri Jubili i'w blant.

Ceidwad y carchar cadarn
 Waeddai fel yng ngwydd y farn
 A sedd yr Ior,—“Beth sydd raid
 I fi estron, O feistriaid?”
 “Cei rad y nef os credi
 I'r Oen fu ar Galfari;
 Euog adyn, fe'th gedwir
 Yn ei waed o chredi'n wir.”
 Cyn agor gwawr y borau
 Yr oedd hwn wedi 'i ryddhau
 Rhag nerth diafol serth a'i swyn
 A chadwyn ei bechodau.

“Mist yw y ffordd.”

Nid oes un ffordd ond Iesu—a'i haeddiant
 I Weddi ddyrchafu
 O fonwes dlawd i fyny,
 Arwydda gwaed ei ffordd gu.

Agorai 'i waed Ef y cysegr Dwyfol,
 A rhwygai'r gadarn wahanlen farnol
 Acw er oesau lennai'r faine rasol,
 Lennai Dduw! Fe luniodd heol—olau,
 Hardd, fawr yn nennau, sef ffordd frenhinol
 I Weddi yr anhaeddol—fynd i'r lan
 At lys nef eirian, at les anfarwol.

Ryfeddol Iawn! Cyfiawnder foddlonodd!
 Ei waed a'i haeddiant mawr a'i dyhuddodd;
 Y Ddeddf-daran ddiweddaf a dorrodd
 Ar ei ben, a'i holl lid a dderbyniodd;
 Y gyfraith bur gaf wrth ei bodd—heb lid,
 Mwyach ei ryddid i'r Meichiau roddodd,
 Ac o'i fodd, ynddo rhoddai
 Ryddid i fyrdd o'u du fai.

O farw'r trydydd forau—e gododd
 Heb gadwyn yr angau,
 Yn ei nerth "i'n cyfiawnhau"
 Drwy ei iawn a'i fâd riniau.

Fe godai yn fyw Geidwad—yn forc,
 Yn fawr archoffeiriad,
 Hoff un, er amddiffyniad
 A lles dyn yn llys ei Dad.

Yn ebrwydd trwy 'r cain wybrau—adref aeth
 Drwy fythol ororau,
 I'r dwyfol gysegr golau
 Bellach er "ein cwbl iachau."

A' y mae swyddog grymus i Weddi,
 Diail ei urddas yn dadleu erddi,
 "Efe yw'r Iawn,"—dyna 'i ddirfawr ynni;
 Yn ei iawn llawenhawn ni!—Crist Iesu
 Sy orlwyddiannus eiriolydd inni!
 O, canwn er ein cynni!—mae mab Ion
 Yn yr uchelion i'n cynrychioli!

Ar ddeheulaw Ner e ddeil yn eiriol
 O du ei eiddo, er ei waed haeddol,
 Hyd nes daw'r eglwys fawr anifeiriol,
 Fore a fydd, yn dyrfa ryfeddol
 Allan o'r bedd yn lân hollol,—pob sant
 Hwnt i fethiant megis Yntau fythol,

Uwch du ofid, uwch diafol.—uwch pryder,
Uwch ser, uwch eisiau eiriol!

Try 'ngweddi innau trwy 'i ing haeddiannol
Yn rymus yn awr, mae Iesu 'n eiriol,
Ni obeithiaf bythol—am achubiaeth
Ond o'i offeiradaeth a'i waed ffrydiol.

O bythol eiriol erof—fy Nuw cu!
O dyro, Iesu, dy Weddi drosaf!

YR HEN WEINIDOG.

'Y NEB ni weithio,' meddai Paul, 'Na chaffed fwyta chwaith,
Ond cofiwn, *ni* ddywedodd ef 'Y neb ni *allo* waith.'

Adwaenwn un gweinidog claf, 'r oedd wedi ffaelu gweithio;
Alleirio 'r llinell olaf wnaf—'r oedd wedi ffaelu teithio.

Adwaenwn filwr oedd un dydd y gore yn y gâd,
Mewn henaint a phenllwydni prudd fe 'i cadwyd gan ei wlad.

Adwaenwn filwr uwch ei radd, o urddas milwaith mwy,
Tan faner Iesu treuliai 'i oes, bu farw ar y plwy!

O Gymru! tyred gyda mi i dŷ 'r gweinidog claf,
Fe roddodd oreu 'i oes i ti, ei wanwyn oll, a'i haf;—

Y mae y gauaf wedi dod, ac eira amser sydd
Yn gwynnu ei santeiddiaf ben, a darfod mae y dydd.

O! cofia 'th hen weinidog pan yn methu yn ei dŷ,
O! cofia, Gymru, os yw 'n wan, fe roes ei nerth i ti.

Fe roes i ti ei wanwyn teg a'i euraidd lon gynhauaf,
Gofala am y tymor oer, O! cymer di ei auaf!

Gwel a yw 'r to sydd uwch ei ben yn ddigon rhag yr hin,
Gwel a oes ar ei aelwyd dân, ac yn ei gostrel win.

I 'R ANGOR.

RHAG chŵdd môr angor a rydd—gadernid
Rhag dyrnau ystormydd;
Y di-sigl yn cydio sydd
Yn y fin don aflonydd.

DAVID JONES, TREBORTH.

GWELL gennyf dy hanes diweddar, fy ngwlad,
 Na 'th hanes hynafol i gyd;
 Gwell gennyf yr heddwch ddilynai y gâd,
 Y tangnef ddilynai y llid;
 O! gwell yw hyfrydlais efengyl yr Iôr
 Na thwrf y rhyfeloedd a fu;
 Mae engyl yn ddistaw i wrando dy gôr
 Yn canu am Geidwad mor gu.
 Os aeth d' anibyniaeth a'th gyfraith i goll,
 Anthemau Llangeitho sy dâl am yr oll.

Bu dywell dy fro am ganrifoedd di-hedd,
 Nid oedd i'w goleuo ond ffachiad y cledd;
 Rhyfel-feirch a sarnent dy lesni dan draed,
 A'u ffroen yn y cwmwl gweryrent am waed.
 A! mwy na disgleirdeb yr enfys a'r wawr
 A geir yn goleuo dy froydd yn awr!
 Mae 'th fryniau yn gorffwys ar fynwes y wiwnef,
 A'u bannau 'n cyldbwyntio i'r pell fythol artref;
 Dy holl gerrig adsain adferwyd i'w hawl
 Gre'digol, i ateb yn unig i fawl.
 Dychwelwyd dy gledd yn dragwyddol i'r wain,
 Ac nid oes ond blodau lle na bu ond drain;
 Amheua'r ymwelydd, wrth rodio dy dir,
 Ai daear ai nefoedd wyt, Gymru, yn wir.
 Nid oes ynnot fryn na santeiddir ei droed
 A syml addoldy hynafol ei oed;
 Na bro heb ei Bethel, a'r myg Angel mawr,
 Gan weddi rhyw Jacob, yn rhwym wrth y llawr.

Yn lle y gwroniaid rhyfelgar a fu,
 Ti gefaist genhadon y bywyd yn llu;
 Ac ni fu cenhadon mwy dwyfol eu dawn
 Erioed yn cyhoeddi rhinweddau yr Iawn.
 Mae 'u henwau yn doddi dy ysbryd ar dân,
 Ac yn eu nefol-res mae gwron fy nghân.

DOLYDDELEN anfarwolwyd fel ei enedigol le;
 Uwch y fangre, pan ei ganwyd, llawenhai angylion ne;
 Mae angylion yn adnabod myrdd o'th lennyrch, Gymru fad;
 Teimlant mor gartrefol ynnod ag yng Nghanan, santaidd wlad.

Oni chedwir DOLYDDELEN, oni chedwir TAL Y SARN,
 Gan warchodlu o gerubiaid, rhag dyfethol dân y Farn?
 Oni cha y fath gysegroedd ddianc yn yr olaf ddydd,
 Fel colofnau yn oes oesoedd ar y "ddaear newydd" fydd?

Ganwyd DAFYDD ar y Sulgwyn,—arwydd nad oedd iddo ef
 Ond cyfodiad ar gyfodiad yng nghyfeiriad nef y nef;
 Fe ddihunodd i fodolaeth gyda'r Iesu, 'r "trydydd dydd;"
 Ac o fewn "grym ei adgyfodiad" treuliodd gerub-oes o ffydd.

Galwodd Duw ei dad i'r nefoedd, pan nad oedd ond ieuanc iawn,
 I gymeryd arno i Hunan ei holl ofal ef yn llawn;
 Idd ei law ei hun cymerodd ei hyfforddiant, a'i holl ffyrdd;
 Mwy nag athraw dynol gafodd, mwy na nawdd angylion fyrrd.

Codwyd ef, 'r un modd a Ioan, yn athrofa Iesu 'i hun;
 Fe 'i haddysgodd ar ei ddwyfron, ac 'o dan ei aden gun.
 Pwy ond Duw allasai lunio y fath enaid yn ei wawr?
 Pwy ond Duw yn uniongyrchol allasai godi "tri mor fawr?"

Ni fu iddo o fanteision ond ychydig, fore 'i ddydd;
 Nid oedd eto 'n NOLYDDELEN ysgol un, na llyfrgell rydd.
 Gorchwyl hawdd oedd rhifo 'i lyfrau, eto ni fu lle mor dlws,
 Mor gysegrol, â'r lle cadwai 'i lyfrau gynt—"yng nghil y drws."

Y fath olygfa fuasai 'i weled yn fachgennyn gwridog, iach,
 Ar deg hwyr o haf, yn myned yno, i'w fyfyrgeall fach,
 At ei hanner dwsin llyfrau 'ng "nghil y drws"—ac angel draw
 Yn ei wyllo, rhag i niwed ei gythryblu ar un llaw.

Gall fod y diffyg o fanteision borau
 Yn rhoi i'r meddwl dynol fantais *weithiau*.
 Mae 'n gweithio gyda mwy o fewnol allu
 Na phan bo amgylchiadau yn ei helpu.
 Y mae athrylith anorchfygol weithian
 Yn llwyr ymdafu ar ei nerth ei hunan.
 Ceir mwy o ofal am yr addurn-goedydd,
 Sy yn addurno 'n gerddi mor ysblenydd;
 Ond yn y dderwen, dyfodd wrthi 'i hunan,
 Y gwelir nerth a *holl* fawrhydi anian.
 Fe fagodd hon gadernid yn ei borau,
 Ac ni ysgydwir hi gan stormydd oesau.

Dirmygus ganddi hi fai dringo muriau,
 A phwyso ar ategion a cholofnau.

Nid ffrwyth dysgeidiaeth, nid planhigyn llafur,
 Yw gwir wreiddiolder, eithr cynnyrch Natur.
 Bydd rhyfder hwn, feallai, 'n gyfatebol
 I naturioltra 'r twf, a nerth y storm allanol.
 Prydferthach, glasach, yw y pur eginyn,
 Na edwyn ond y gawod bêr a'r gwllithyn,
 Na holl gynhyrchion gwrtaith celfyddydol,
 Sy 'n gwthio 'r twf i'r lan yn anamserol.
 Mawryger Dysg; ond *gall* fod ambell eithriad,
 Lle mae naturiol dwf yn cyrrædd uwch daddblygiad.

Os na chadd ef ddysgeidiaeth yn y borau,
 Fe gafodd Anian—yr athrawes orau—
 I droi cyfeiriad ei feddyliau gwawriol
 Yn brydlawn tua 'r uniawn bwynt—y Dwyfol.
 A! nid oes neb a ddysg yr ieuanc feddwl
 Yn debyg i flodeuyn, seren, cwmwl!

Rhoed iddo lygad craff i weled Anian,
 A thrwyddi hi i weled Duw ei hunan.
 Ni allai crebwyll Milton anghydmarol
 Dros glwyddo iddo y fath wers effeithiol,
 Ar allu, mawreddogrwydd, ac arddunedd,
 A'r syniad gai wrth weld mynyddau Gwynedd
 Yn erwydro fry, mewn bythol aruthroldeb,
 Gan edrych arno fel o Dragwyddoldeb!
 Pa beth all roi i awen llanc feddylddrych
 Am gyfoethogrwydd ac ysblander gorwych,
 Cyffelyb i fachludiad haul Mehefin,
 Pan fyddo pwyntel Ior yn lliwio' r teg orllewin—
 Pan fo afonydd clær o aur toddedig
 Yn arllwys dros gymylau pentyredig,
 I ryw dragwyddol geudod, a rhyw ffurfiau,
 Fel eiddo engyl, yn addurno 'u glannau?
 Fe yfodd ei athrylith ardderchoca
 Yn ddwfn i fewn ogoniant yr olygfa.
 Ei enaid doddai dan y claerder cirian,
 A rhedai i fewn i ffurf odidog Anian.
 Yn forau lluniwyd ei athrylith gun
 Gan Natur lân, yn ol ei delw ei hun;
 Ac, yn y man, fe welid fod ei ganiad
 Yn adlun hardd o ryfedd wawl machludiad,
 A'i feddylddrychau, fel o ddwyrain amser,
 Yn suddo i orllewin tragwyddolder,
 I lawenhau angylion bro y Gwynfyd,

A chyfoethogi dofn lenyddiaeth eilfyd.
 Hoff ddisgybl Anian ydoedd yn ein mysg,
 A ffyddlawn fyth a fu i'w dwyfol ddysg.
 Doi ambell awel dros ei bregeth ef
 Yn llwythog oll gan beraroglau 'r Nef.
 Caed ambell ddarlun, hardd fel pren afalau
 Yng ngoleu lloer a ser, a dwyfol wenau.

Y Gwanwyn oedd ei gynllun; dilyn wnai
 Brydferthion Ebrill, a balmeidd-der Mai.
 Yr Haf oedd reol ei farddonol ddawn,
 Y lwythog fen, yr ysgub felen, lawn.
 Cyweiriai 'r delyn wrth lawenaf dôn
 Y llon fedelwyr, pan yn moli Ion,
 Am haul a gwlaw, ac ysguboriau clyd,
 A'u muriau oll ar dorri gan yr yd.
 Ni chlywais anghord unwaith yn ei dôn;
 Nid wyf yn cofio 'i glywed ef yn son
 Am ddim ond ffydd,—am ddim ond gobaith per,
 A chariad yn cyrhaeddyd uwch y ser.

Ceir rhai yn canu am yr Hydref prudd,
 Am hyd y nos, a byrder blin y dydd,
 Pan fyddo Natur fel dan farwol glwy,
 Dan gystudd trwm, yn chwennych marw mwy;—
 Pan gryga llais y gwynt,—pan fyddo'r coed
 Yn gwlawio 'u dail, gan lesgeidd a hen-oed.
 Ein brawd ni chanai am y tymor du;
 Rhy ddisglaer oedd ei obaith; mil rhy gu,—
 Mil rhy gariadlawn, oedd ei Awen lon,
 I borthi trymder, a llesg brudd-der bron.

Fyth am y Gauaf cana ambell un,
 Y sydd a'i fywyd oll yn auaf blin;
 A thros ei dynged rhyw angladdol len
 Yn lledu, fel y drom auafsaidd nen.
 Mae Anian, fel ei galon ef ei hun,
 Oll wedi rhewi, a phob gobaith cun
 Yn gorwedd yn y bedd; dinodded yw
 Rhag stormydd chwerwon, fel y gangen wyw.
 Ond holl gynhyrchion ein hardderchog frawd
 A adlewyrchent ei ddisgleiriaf ffawd;
 Ei wynfyd mewdol weithiai trwy ei gerddi,
 Fel egin glas o ddaear lawn o ynni.

Mynegfys aur yr Ysgol Sul
 Ddanghosai iddo 'r "llwybr cul,"
 Sy'n arwain heibio haul a ser
 I fyny i Baradwys Ner.
 Sefydliad bendigedig yw
 Yr Ysgol hon;—mae angel Duw
 Yn gwylio wrth ei gwynnaf ddor,
 A'i hunig ddysg yw Gair yr Ior.
 Mae, fel y Sabbath myg ei hun,
 Yn santaidd,—yn santeiddio dyn.

Fendigaid wr a'i dysgodd ef
 Yn hon i ddarllen geiriau 'r Nef!
 Ar ol cyflawni tasg mor fawr,
 Gallasai 'i athraw fynd i lawr
 I'w dawel fedd, mewn hedd di-lyth,
 Fel un a'i waith ar ben am byth.
 Carasai angel ddod yn ddyn,
 I ddysgu darllen i'r fath un,—
 I agor porth gwybodaeth wiw
 O flaen athrylith o'r *fath* ryw.

Nid yw y rhai sy'n meddu llyfrau *lawer*,
 Ym more 'u hoes, braidd yn efrydu 'r hammer.
 Mae *llwyrd* yr efrydiaeth yn gymesur
 I *brinder* y manteision. *Mwy* yw 'r llafur,
 A hirach filwaith yw y llinyn plymio,
 Os culfor yw y ddysg;—gwna 'n llwyr ei chwilio.
 Cwyd hwn bob cragen at ei glust feddyliol,
 A llwyr fwynha ei holl adseiniau nefol.

Ni feddai 'n bardd ond hen Ramadeg Nantglyn,
 I'w ddysgu yng-nghelfyddyd gain yr englyn;
 Ond digon oedd i awen mor naturiol,
 I lwyr feistroli 'r nyddu cynghaneddol.

Byth ni 'th ddirmygaf di, y bêr gynghanedd,
 Adseini i glych y nef mewn pur gysonedd!
 Gem ydyw englyn nad all unrhyw lèn
 Ei wisgo ar ei bron, ond Cymru hen.
 Mae sain cynghanedd Dewi Wyn o Eifion
 Yn ddigon braidd i ddofi gwylltedd Neifion.

Bu hyfryd ganddo yntau, fore 'i oes,
 Felusion y gynghanedd sain a'r groes,
 Ac *ambell* i gynghanedd lusc, mor bêr
 Ag odl ddyferodd o anthemau 'r ser;

A thrwy ei fywyd o weithgarwch llwyr,
 Ein bardd a aurai orwel llawer hwyr.
 Ag awenyddol ogoneddiad claer,
 A thoddaid cyfoethocach na'r pur doddedig aur.

Ar ol dychwelyd o'i "gyhoeddiad" pell,
 Dros fryniau Cymru, ai i'w fyfyr-gell,
 I lunio cerdd, a llonni hwyr y Llundun,
 A chynghaneddion melus fel y gwin.
 A! llawer awr aeth heibio—fel y mae
 Angylion yn mynd heibio—wrth fwynhau
 Cymdeithas bêr yr awen! Llithrai'r nos,
 O awr i awr, i gwrdd â'r geinwawr dlos,
 Tra ef yn tynnu bywyd-ddarlun mad
 O'r "mab afradlon" yn cofleidio 'i Dad.

Tyrd, Awen, mwy i syllu arno ef,
 Fel un o bennaf weinidogion nef,
 Ni fedd y byd un swydd mor ddyrchafedig
 A chennad hedd, gan Dduw yn anfonedig.
 Prif lysgenhadwr amser ydyw ef,
 A'i gredlythyrau oll o lys y nef.
 Y mae gogoniant dwyfol ar ei swydd,
 Sy'n gwneyd i Satan ffoi o'i santaidd wydd.
 Mae'r had a heuir gan ei ddiwyd law,
 Yn dod i fyny yn y dydd a ddaw,
 Yn wyn gynhauaf o ddiranc barhad,
 A myrdd o engyl y medelwyr mad.
 Er hau mewn dagrau, meda, yn y man,
 Mewn pur orfoledd, ar y nefol lan,
 Tu hwnt i gyrraedd pechod, ing, a phoen,
 Ym mythol bresenoldeb "Duw a'r Oen."
 O! pan gyrraeddo derfyn pur ei daith,
 Derbynia "goron," am ei uchel waith,
 Na wisgodd teyrn mo 'i bath; ac ar ei ben
 Bydd enfys Duw 'n disgleirio yn ddi-len,
 Pan dduo'r haul, pan syrthio ser y nen.

Er uchod yw y bardd, er pured yw
 Cenhadaeth awen o sancteiddiol ryw,
 Ymgolla yn y swydd oruchel hon,
 Fel seren yn y dydd, fel defnyn yn y don.

Nid gwthio 'i hunan i areithfa'r groes
 A wnaeth efe; ond eglwys Dduw a roes

Yr alwad iddo; a'r nesaf alwad yw
 At uniongyrchol alwedigaeth Duw.
 Pan fyddo y lân eglwys yn ei lle,—
 Pan fyddo hi ar ganol ffordd y ne,—
 Mae dwyfol rym yn ei hewyllys gun,
 Mae 'n adlewyrchu meddwl Crist ei hun.
 Fe welai brodyr DOLYDDELEN fod
 Rhyw seren deg o arfaeth Duw yn dod;
 A chydunasant, ar ei gwawriad hi,
 I'w chroesaw idd ei rhod ardderchog fry.
 Mae 'r "doethion" eto yn eglwysi nef,
 Fyth yn parhau i weld "ei seren Ef."

Yr oedd ei frawd, trwy 'i weinidogaeth gref,
 (Fel angel yn ehedeg yn y nef,)
 A siroedd Cymru eisioes wrth ei draed,
 Yn gwaeddi am achubiaeth trwy y gwaed.
 O! clywais ef, fel udgorn Sinai gynt,
 Yn ysgrwyd Cymru, fel â dwyfol wynt;
 Fe dynnai 'r nef, â'i nerthol lef, i lawr
 Yn gawod drom ar y Gymanfa fawr;
 A thyfai grasau 'r eglwys ar ei ol,
 Fel, wedi cawod, egin glas y ddôl.
 Joseff y teulu,—fe agorai 'r wlad
 I craill o ardderchog dŷ ei dad.

Grymusder ydoedd nodwedd "TAL Y SARN,"
 A nerth fel nerth daeargrynfeydd y farn.
 Wrth wrando arno 'n agor geiriau 'r Ior,
 Meddyliem braidd am lanw 'r Gwerydd fôr,—
 Am ryw Niagara feddyliol gref
 Fry yn ymarllwys dros fynyddau 'r nef.
 Pregethau "TREBORTH" oeddynt emau 'r saint,
 Mwy hynod am dryloewder na maint,
 Disgleirdeb pur ei arddull wnelai ddrych
 I angel weled ynddo 'i wyneb gwych.
 Llwy'r daffai ef ei ddirifoldeb dwys
 I'w bregeth, nes y plygem dan ei phwys.
 Rhy santaidd ydoedd ei areithfa ef
 I greu digrifwch coeg,—rhy lawn o'r nef
 I gymhelliadau o ddaearol ryw
 Anturio fyth i ddringo 'i grisiau gwiw.
 Addysgu, nid difyrru, oedd ei nod;
 Ei amcan oedd lleshau, nid ennill clod.
 Er cymaint oedd ei ddawn, ni welid ef
 Yn gwthio 'i hun i mewn i'w bregeth gref.

Fe suddai hunan yn anfeidrol fôr
 Cyflawnder Crist, a'i anherfynol stor.
 Symudai bopeth fyddai rhwng y llu
 A chroes ei Arglwydd, fel y gwelent hi,
 Heb unrhyw len, ar uchder Chalfari.

Ei bregeth ryfedd, gan brydfertion dawn,
 Addurnid oll â godidogrwydd llawn.
 Tywysai ni trwy ryw rodfeydd di-ail,
 Dan goed ag anfarwoldeb ar eu dail;
 Ond nid oedd rhodfa, er eu dirfawr ri,
 Heb ei mynegfys tua Chalfari.

Godidog flodau, addas idd y nef,
 A geid yng ngardd ei bur athrylith ef;
 Ond, er eu mawr amrywiaeth, tyfent oll
 Yn ffurf hoff enw 'r Iesu yn ddigoll.
 Holl ymerodraeth crebwyll, dysg, a dawn,
 A drethai at wasanaeth Crist a'i iawn.
 Holl flodau ei athrylith, drwy ei oes,
 A rwymai 'n sypyn cryno ar y groes.
 Er godidoced dy genhadon di,
 O Gymru fad!—er aaled yw eu rhi,
 Ni chefaist un mwy pur ei ddull nag ef,—
 Neb mwy coethedig yn athrawiaeth nef.

Ni chlywyd ef, ar hwylus dâith, erioed
 Yn traethu pregeth hanner canrif oed.
 Toreithiog fythol oedd ei feddwl ef,
 Fel daear Canan gynt dan fendith nef.
 Ffrwythlonder meddwl o drofanol rym
 Roed iddo ef, heb wywder gauaf llym.
 Ei feddwl mawr gynhyrchai fel y gwnai
 Paradwys ddwyfol Eden cyn y bai.
 Fe ddeuai, fel y daw y gwlaw a'r gwllith,
 Yn newydd fythol, ac yn faethol fyth.
 Nid camlas marw oedd ei bregeth bur,
 Ond afon yn dolennu trwy y tir,
 Ac ar ei glannau flodau ieuainc, per,
 Ac ar ei bron, yn adlewyrchu 'n der,
 Gysawdau pur o fres-greuedig ser.

Di-ail dywysog ydoedd mewn cymdeithas,
 Yn llonni â'i arabedd bawb o'i gwmpas.
 Pwy fel efe am adrodd hanes difyr,
 Flaen siriol dân, ar noson oer o Ragfyr?

Dirmygus ganddo oedd gwynebaw hirion,
 Mewn byd mor wynfydedig ac mor dirion.
 Dirmygai fyth y talcen gwallt-guddiedig,
 Fel pob ystafell wag, ddiddefnydd, unig.
 Pa beth yw Cristion ond y dyn puredig?
 Pa beth yw gras ond natur berffeithiedig?

Parhaodd yn ei waith,
 Nes cyrraedd pen ei daith;
 A'i ysbryd pur
 Ehedodd tua'r wlad
 Addawyd gan y Tad,
 Y dwyfol dir.

Gorffwysa ambell un,
 Cyn cyrraedd henaint blin,
 Ar wely o ros;
 Ei ddefnyddioldeb sydd
 Yn darfod cyn ei ddydd;
 Mae 'n huno cyn y nos.

Ond ar bob cam o rawd
 Ein cysegredig frawd
 Caed ol o waith;
 Ac ni ddisgwyliai ef
 Orffwysfa cyn y nef,—
 Cyn pen y daith.

Fel haul, goleuo bu
 Tra yn ein golwg ni;
 Ni allai fwy;
 Goleuodd nes, mewn hedd,
 Fachludo i lawr i'r bedd;
 Ni allai 'n hwy.

Er teimlo llawer loes,
 Ym mlwyddi ola 'i oes,
 Pregethai Waed y Groes
 Yn bêr o hyd;
 A llanwodd ef yn llwyr
 Ei fore ddydd a'i hwyr,
 A gwaith i gyd.

Yn iach, fy mrawd!—Mae'r bedd yn felus iawn,
 A'r ol fath einioes o weithgarwch llawn.

Mae Iesu 'i hunan wedi cloi dy fedd,
 Mae allwedd aur yn hongian ger ei sedd,
 A'th enw 'n gyflawn arni, i'w goffhau
 O'th gariad gynt, a bore dy ryddhau.
 Ffarwel yn awr!—Mi ddeuaf at dy fedd,
 Ryw falmaidd hwyr, pan fyddo dwyfol hedd
 Yn gorffwys yn santeiddiol ar y byd,
 A lleisiau pawb, ond eiddo 'r ser, yn fud—
 Rhyw nos llawn-lleudad fydd—rhyw ddwyfol nos,
 Fel honno gynt orchuddiai Eden dlos.
 O! bydd prydferthwch yr olygfa gu
 Yn dwyn i'm cof dy degwch moesol di.
 Bydd eglwys Gomer ar angylaidd wedd,
 A'i dagrau yno 'n gw litho blodau 'th fedd.
 O! pe bawn angel o anfarwol fri,
 Dewiswn ylio dy orffwysfa gu!

NIS GALL Y FFLAM EU DIFA HWY.

NIS gall y fflam eu difa hwy a brynwyd ar y pren;
 A thros y rhai gogwyddodd Ior ar fron o waed ei ben.
 Yr oedd y ffwrn yn bceth, a'i gweld yn angau oddi draw,
 A thafwyd, tafwyd hwy i mewn dan rwymau droed a llaw.
 A chollai'r elfen yn y fan ei chwbl ond ei lliw;
 O, nis gall tân eu difa hwy fo 'n rhodio llwybrau Duw.
 Mae natur deg yn adwaen llais ei Hior, a swm ei draed;
 Adnabu ei wynepryd, do, trwy borffor len o waed.
 O'i mynwes tynnodd yn ei llid y ddaear-gryn, cref law ei nerth;
 A rhwygodd, rhwygodd yn y fan ei chreigiog wregys certh.
 Fe blygai y ddaearen dan ruddfannau Ior, anfeidrol faich,
 A rhodiai 'r storm trwy ganol nef a'r bryniau ar ei braich.
 Symudai 'r haul yn araf draw, fel elor-gerbyd du,
 A'r dydd yn farw o'i fewn, a'r nef mewn galar ar bob tu.
 Ac wylodd llawer ffynnon bell hyd arlechwedlau Canan gu;
 Pan gludai 'r awel brudd y llef, "Mae syched, syched arnaf fi!"
 A Chedron yn y fro islaw ruddfannai am dramwyfa fry;
 A chlywid awen Seion deg yn gruddfan gyda hi.
 Ni fynnai 'r wig lle torrwyd y melldigedig bren
 Flaguro mwy, nac edrych byth mwyach tua 'r nen!
 A'r awel lon pan ddelai yn agos ati hi
 Fel uwch ben bedd distawai, a drylliai 'i thelyn gu!

A N G E L .

A GAIFF fy ysbryd i
 Yng ngharchar defnydd du
 Fydryddu'th hanfod eu,
 O Angel rhydd!
 A gaiff carcharor tlawd
 Drwy rydlyd farrau enawd
 Dy weld, a'th alw'n frawd
 O wlad y dydd!

O, braidd nad ydyw'n fai
 I un sy gymaint llai,
 O fewn ei gragen glai,
 Dy *enwi* di!
 Myfi mewn cyfyng gell,
 A thi yn rhyddid pell
 Y tragwyddoldeb gwell
 Yn Nuwdod fry!

Adarwr creulawn ddaeth,
 A'm dal yn fore wnaeth
 O fewn ei faglau caeth,
 Sef pechod du;
 Pan ddeui ar dy hynt
 Ar edyn dwyfol wynt,
 Mae cof o'm rhyddid gynt
 I'm llethu i.

Ac eto 'rwy'n mwynhau
 Dy bell leferydd clau,
 Fel sw'n rhyw ddwyfol drai,
 Mae'n sisial hedd;
 Mae'n addaw agor dôr
 I ryddid fel y môr,
 I anfarwoldeb Ior,
 Tu draw i'r bedd.

Mi ganaf, ysbryd gwyn,
 Y dagrau-odlau hyn,
 Na chymer dithau'n syn
 Os lleddf eu sain;
 Feallai cyn bo hir,
 Daw'r anthem yn fwy pur,
 Daw seiniau mil mwy clir
 I foddî'r rhain.

Rhy santaidd yw'th ogoniant idd ei ganfod ;
Ysbrydol, megys eiddo'th Ior, yw'th hanfod.

O, wynfydedig fod ! heb lwyth daearol
I'th dynnu i lawr o rwysg dy rod anfarwol,
Ymddyrrcha meddwl dyn i fyny weithiau
I fydoedd ysbryd pur, rhyw deg ororau ;
Ond, fel y cerbyd dan y lās awyren,
Tyn defnydd ef yn ol o'i ddwyfol wybren
I ddyfnder fel y bedd ; o uchder angel
Disgynnir ef yn gydradd â'r anifel.

O ddefnydd ! O fynyddoedd wedi eu rhwymo
Wrth gwmwl gwyn a fynnai basio heibio
I olwg gorsedd Duwdod, ac ymdoddi
I'w hanfod pur ei hun, ei lawn oleuni !
Israel ym Mabilon—ymhell o'i Seion
Ei hun,—yw enaid dan faterol gyffion.
Ni chân garolau pêr ei fro ei hunan,
Ond ambell nodyn yn y breuddwyd egwan.

Tyrd, ddieithr Allu ! tor y c'lymog linyu,
A gad i'm hysbryd gorfoleddus esgyn
Fel "cerbyd Israel a'i farchogion"—heibio
I haul a ser, i'm cartref bore eto.

Odidog fod ; ni raid i ti gwynfanu,
Nid yw'th fodolaeth di yn cael ei rannu
Rhwng dwy wrthelfen groes. Er awr dy gread
Ni theimlaist ynnot d' hun un gwrthdarawiad,
Ni fu sain groes nac unrhyw afreolaeth
I dorri pêr gynghanedd dy fodolaeth.

A'th ysbrydolrwydd, gyda'th berffaith burdeb,
Yw gwraidd dy allu, sail dy anfarwoldeb.
Yr *ysbryd* sydd mewn dyn sy'n rhoddi iddo
Lywodraeth ar yr holl gre'duriaid dano ;
Ei reswm yw ei rym ; y Meddwl rhyfedd,
Ag sy'n goleuo'i lygaid a'i holl agwedd,
Sy'n cadw'r byd i lawr, fel pe bai'r Duwdod
Yn tremio drwyddo ar bob peth sydd isod.

Ti fedri, Angel, o'th gyfoethog allu,
Ymwisgo yn yr unrhyw ffurf a fynni
I ddweyd dy air wrth ddyn, y gair dderbynni
O enau Ior pan wrth ei fainc addoli.

Ti elli ddod i lawr yn anweledig
O'r wybren lās, at Abram fendigedig ;

Ymddangos iddo ef fel gŵr ymdeithiol,
 (Ac eto rhywbeth ynnot mwy na dynol.)
 A golchi'th draed, a than y pren orffwyso,
 A rhoddi hanfod pob rhyw fendith iddo,
 Ac yna diosg niwlwisg daearoldeb,
 Ac ail ymdoddi'n ol i anfarwoldeb,
 Yn cl i Dduw!

Manoah ni'th adnabu

Er mor ofnadwy'th wedd, nes ymddyrelhafu
 O honot tua'r Nef yn fflam yr allor,
 Gan brofi grym dy air, a sail dy gyngor.
 O, pwy a ŵyr nad ti'm gwarddodd innau
 Pan nad oedd yn fy mryd ond dyn a minnau
 I'n gweld ar ael y dibyn—ar ymylon
 Y tro-lyn ferwai fel uffernol eigion.

Beth oedd dy oedran pan y gwelaist Adda
 Yn rhodio hyd ros-lwybrau Eden gynta?
 Pa beth dy syndod weld dy hunan ynddo,
 Ac arall ran na welaist moni eto
 Mewn uniad â'r Meddyliol? Yr oedd defnydd
 Y dynol gorff bryd hynny mor ysblenydd
 A lliwiau'r fore wawr, ac nid oedd eto
 Un had o dranc nac o ddadfeiliad ynddo.
 Tâl *pechod* yw marwolaeth; moesol burdeb
 Mewn defnydd fo ag ysbryd glwys mewn undeb,
 Wna sicrhau i'r defnydd anfarwoldeb.
 "Y marwol *hwn*" gyfodir yn y diwedd,
 Yr *un* a lusgid yn ei fawr iawn lesgedd
 O fan i fan am welliant—i'r "Ffynhonnau,"
 I "ddwr y môr"—*hwn*, fu yn rhaib i donnau
 Eigionau rhuol cystudd—*hwn* a wisgir
 Ag anfarwoldeb pan y llwyr orffennir.
 A! ni fuasai'n rhaid ei farw fythol
 Pe y cadwasai'r hedyn creadigol
 Blanesid ynddo yn y santaidd forau
 Ymhell o ddaear *pechod* a'i ororau.
 Pe y cadwasai dyn ei lân ddechreuad
 Nes gorffen tymor ei amodol brofiad,
 Buasai'i santaidd gorff yn traws-ymffurfio
 I led-ysbrydol agwedd, ac yn nofio
 O hono'i hunan, dros y glesni wybrol,
 Ryw fachlud haul, i'r pur ororau dwyfol.

Ac eto, nid achwynaf, Angel addien!
 O's "methodd" tég gynhauaf cyntaf Eden,

Bydd fil-mil gwell yr ail! O'r ail gynhauaf!
Boed ynddo ran i mi y bore olaf!

Dwed, faint o amser, wedi creu y dyn,
A basiodd, cyn i Efa hardd ei llun
Ymddangos ger ei fion? Pa beth ddywedodd
Y prydfferth wr, prydfferthach gwraig pan welodd?

Pa fodd y deuai ato bob creadur
I gael eu henwau'n ol eu huniawn natur?
A welai Adda'n ddyfnach na'r allanol?
A welai ef bryd hyn olynwaith mewrol
Eu bodolaethau oll, y modd y gwelir
Olwynwaith awrlais pan ei hamgylchynnir
A gorchudd gwydr, fel y gallai rod-di
Eu henwau wrth eu hanian bur heb wyrni?
Ni holaf mwyach am y bore gyfnod;
Mae'r bore'n ffoi, a chanol nos yn dyfod.
Yn unig dywed, beth oedd cân eich corau,
Pan glywsoch gyntaf yr addewid forau!

Pan fyddo'r Cristion yn llesghau,
Ei oes a'i anadl yn byrhau,
'Rwyf ti pryd hynny'n agoshau,
Yn dod yn is, yn nes i lawr,
Ni allwn bron dy *weld* yn awr!
Mae llen y cnawd mor deneu mwy
Fel gall yr ysbryd dremio *drwy*
Y gorchudd brau, a gweld dy wedd,
A theimlo blâs anfarwol hedd.

Dawelwch! O ddistawrwydd cun!
Dyfnha dy hanfod, dybla'th hun,
I ni gael clywed ysbryd gwiw
Sy' newydd ddod o ymyl Duw
Yn siarad! Rhyfedd yw yr iaith,
Do, ni a'i clywsom hi *un* waith
Yn Adda'n tad, cyn taro o bechod
Ein hysbryd-glyw â llwyr fyddardod.

Mae yma ereill gyda thi.
Eu hesgyll wrth ymsymud sy
Yn sibrawd am angylion lu.
Ni ddaethant hwy i'th gynorthwyo
I ddwyn yr ysbryd adref heno;
Mae'th allu di yn fwy na digon,
Tydi a leddaist fyrdd o alon
A'th fellten-gledd dy hun, dros Seion;

Na; daethant yma i fwynhau
 Y brif olygfa sy'n boddhau
 Nefolion—gweled ysbryd pur,
 Ar ol caethiwed enbyd, hir,
 Yn dawnsio ar ei holl gadwynau,
 Yn esgyn adref i'r wybrennau.

Os yw y dorf yn llawenhau
 Pan fyddo brenin yn neshau;
 Os oes baneri yn y wybr,
 Bwâu heirddion dros bob llwybr;
 Beth yw'r llawenydd deimlwch chwi,
 Angylion y Baradwys fry,
 Pan fyddo sant, na'r eira'n wynnach,
 Ar hwylio'i hynt, yn bur, yn holliach,
 I wlad, nag Eden deg'yn decach!
 Rhowch im fy ysbryd-olwg ennyd
 I weld ei lwybr i'r nefolfyd—
 Y lydan ffordd agorai'r Duw-ddyn
 Wrth esgyn fry, i'r saint ei ddilyn;
 Mae sypiau fyrdd o flodau nefol
 A dyfwyd yn yr ardd dragwyddol,
 Yn gwlawio dros y ffordd frenhinol;
 Eich dwylaw grogant uwch ei lwybr
 Enfysau y dragwyddol wybr,
 Tu ol i'w gilydd, fil o filoedd—
 A dan y rhain i nef y nefoedd!
 Ac O! pan welo dyrau'r ddinas,
 Pan welo'i ddarparedig balas
 I gyd o berl, i gyd yn barod,
 A'r Iesu'i Hun yn ei gyfarfod—
 O Fawredd! rhyfyg fu 'nhaerine'),
 Nis gallaf sefyll yn ei wyneb,
 Tarewch fi eto â dallineb!

Pan fyddo'r meddyg wedi troi
 Ei gefn, a'r teulu'n ymgyrnhoi
 I wrando ar fy ngair diweddaf,
 I dderbyn fy nghynghorion olaf—
 Boed rhai ohonoch, frodyr gwiw,
 Yn anfonedig gan fy Nuw,
 O gylch fy ngwely-angau bach,
 I ddwyn i fro dragwyddol iach
 Ysbryd na theimlodd ar y llawr
 Ond poen a siom a "chystudd mawr."

Na! taried *un* am ennyd mwy,
 Ac aed i'r angladd gyda *hwy*,
 A chloed y bedd ac aed â'r allwedd
 I'r Gŵr sy'n caru hyd y diwedd.
 Ymysg y saint sydd yno'n cysgu,
 A'u beddau wedi'u manwl nodi,
 Rhoed rifnod ar fy meddrod innau
 Mewn mynor 'stryd o gogolofnau—
 Fel na fo eisiau fore'r deffro
 Holi un Mair na Martha eto,
 "Pa le dodasoch ef i huno?"

Os caf gyrhaeddyd bro y Wynfa,
 Ryw ddedwydd ddydd o lwyr ddiangfa,
 'R ol cyfarch i fy hen gyfeillion
 Y dyrfa sy yng nghartref Seion,
 Ymholaf am fy Angel- Geidwad
 A'm dygodd drwy fy holl ymdeithiad;
 Caiff adrodd im y modd diengais
 Rhag gallu Satan erch a'i falais
 Ar lawer tro—datguddio'r amcan
 Pan aeth yr aur, y tai, a'r cyfan,
 O flac Rhagluniaeth rwygol; edrydd yno
 Resymau'r daith, a'i throion oll yn gryno;—
 Pam trawyd fi i lawr a minnau'n dringo;
 Paham bu adfyd mawr a minnau'n llwyddo.
 O uchder nef y nef, yn ol y syllaf,
 A'm llwybyr cul trwy'r anial dwfn a welaf,
 O garreg-filltir yr ail-eni pell
 Hyd at y terfyn yn y gwynfyd gwell;
 Bydd rhosyn ar bob draenen; gwawr siriolaf
 Yn euro godrau y cymylau duaf.
 O! synnaf weld fath was fu arnai'n gweini,
 Un wisgai fantell o ddi-len oleuni,
 A chob o anfarwoldeb dros y cyfan,
 Un, er ei fawr wasanaeth, guddiai'i hunan
 Nes dwyn i dŷ ei Dad y llesg afradlon,
 A hulio'r bwrdd â bara yr angylion.
 Caiff fod fy nghyfaill pennaf o'r angelfyd,
 Bwytawn ynghyd o ffrwythau pren y bywyd
 Y sydd yn trwm ddyferu anfarwoldeb,
 Bob mis yn rhoddi ei ffrwyth am dragwyddoldeb.

Canfyddaf di o bryd i bryd yn disgyn
 O'r cwmwl gwyn, a lleufer ar dy edyn

Dry nos yn ddydd, ar werthfawr weinidogaeth
 Ynglyn â rhyfedd drefn pryedigaeth.
 Cysgodet, gynt, y fore Drugareddfa
 Ag esgyll oll o aur—lle'r oedd eisteddfa
 Y Mawredd Dwyfol. Uwch y pur gysgodau
 Goblygai'th ben mewn santaidd fyfyrdodau ;
 O! ar y pethau hyn chwenychet edrych
 Pan oedd y niwl yn dew ar y spienddrych
 Wynebai at Galfaria.

Graddol ydoedd

Dy amgyffrediad o fwriadau'r Nefoedd.
 Dyfnhai'th ddyddordeb yn y cynllun dwyfol
 Yn ol ei ddadblygiadau pell-olynol.
 Beth oedd i ddod? Pwy fyddai Had y Wraig?
 Yr oedd y sain, fel swm pellenig aig,
 Yn addaw môr o ddidor ryfeddodau,
 A gwrandaw arno wnaet, o bell, am oesau.
 Pa beth oedd bendith Abraham? Pwy fyddai
 Had Dafydd a'i Etifedd pan y deuai?
 Fe syrthiodd Solomon—nid hwnnw ydoedd
 Blaguryn Jesse, gobaith y cenedloedd ;
 Rhaid aros eto am ddatguddiad oesoedd.
 Ond yma a draw fe gaed rhyw lesg gyfeir-fys
 Ar fyrddiwn croesffyrdd amser, i dy dywys
 I'r gras-ddyfodol mawr.

Pan roist orchymyn

I Abram arbed bywyd rhyfedd blentyn
 Y lân addewid—O! pan welaist yno
 Yr hwrdd yn barod i'w aberthu drosto,
 Yn barod heb i neb ei barotoi,
 Yn barod heb un awydd ynddo i ffoi—
 "Yn lle y mab" pan welaist ei offrymu,
 Daeth hanner-meddwl i dy ran bryd hyny
 Am Rywun Mawr yn gwaedu dros filiynau,
 Rhyw Un a dafn o'i waed yn fwy ei bwysau
 Na holl bechodau'r byd.

A'r archoffeiriad

Pan welit yn cyffesu beiau anfad
 Y flwyddyn ar y di-fai fwch dihangol,
 Pechodau miloedd ar ei ben unigol,
 A'i ddanfon ymaith gyda'r gŵr cyfarwydd,—
 Dwed, oni chrynai yr awgrymol nodwydd
 Ar gyfer Calfari a'r mawr foddlonrwydd?
 "Cyfarwydd" oedd "y gŵr" o'r ffordd i *fyned*,

Ond nid o'r ffordd yn ol. Fe ai i waered
 A thithau yn ei wyllo mewn unigedd,
 Gan synfyfyrrio ble yr ai'n y diwedd ;
 Fe groesai afon ddofn, ac yn union
 Ar ol ei chroesi syrthiai'r bont i'r afon
 Fel drwy ddaeargryn cryf. Ni allai ddychwel
 Y bwch yn ol, oblegyd beiau Isr'el
 A bwysent ar ei ben, a Duw ni fynnai
 Weld camwedd fyth yn Jacob pan faddeuai.

Ymlaen! ymlaen! mae'r bwch a'r gŵr yn pasio,
 Pa nos-fyd ydyw hwn maent weithian ynddo,
 Heb un preswlydd, ffordd, na charreg filltir,
 Na neb yn pasio byth? Un swn ni chlywir
 Ond sain diddymdra.

Ffarwel, fwch dihangol!
 Cyrhaeddaist oror ebargofiant bythol,
 Na ŵyr angylion ble y mae'n dragwyddol.

Ond pan y daeth cyflawniad llawn yr auser,
 Pan welai, gyda syndod, yn y dyfnder
 Y Dwyfol Fab â gwisg o gnawd am dano,
 Dyrswyd dy ddamcanion unwaith eto.
 Ni allai *Ef* ddioddef yn oesoesoedd,
 Yr Hwn yw hanfod holl fwynhad y nefoedd,
 A ffynnon pob dedwyddwch. Podd y gallai
 Y llygad hwnnw bylu, a oleuai
 Y ser bob nos mor danbaid, neu farwolaeth
 Anturio brwydr ag anfarwoldeb perffaith?
 Ac eto, beth a allai fod ei ddiben
 Yn dod i lawr mor ddwfn, rhoi'r fath orchudd-len
 Dros haul ei gyn-ogoniant, archu'r lluoedd
 Iachai yn llwyr i beidio dweyd pwy ydoedd?

Ond pan ddanfonwyd di o'r lan oleune
 I weini ganol nos yn Gethsemane,
 Nos ei fradychiad du—O! pan y clywai
 Ddyfalach weddi ei ing, a phan y gwelaist
 Ei ryfedd chwys o waed, y coch ddefnynnau
 Yn rhewi ar y llawr i ddwyfol berlau
 Er prynnu euog fyd—y cyfnod hwnnw
 Ti deimlaist y gall Anfarwoldeb farw,
 Y gall y Crewr ddioddef un prydawn
 I roddi dros y greadigaeth—fawn!
 Ymaflaist yn y cwpan ar y llawr,

Ond 'roedd ei bwysau yn anfeidrol fawr,
 Rhy fawr i neb ei godi ond ei Hun,
 Rhy chwerw i'w yfed ond gan Ddwyfol Ddyn.
 Ond er mor drwm ei gynnwys, er mor fawr,
 Mac'n wag ar greigiau Calfari yn awr.

Yn fore deuai'r gwragedd at y bedd ;
 Tydi'n foreuach. Dywed, gennad hedd,
 Pa fath, wrth godi oedd ei newydd wedd ;
 Darlunia'r fuddugoliaeth fwya' erioed,
 A threngol ruddfan angau dan ei droed.
 Pa fodd y plygaist ti ei amwisg wen,
 " A'r napeyn a fuasai am ei ben ?"
 Dwed imi enw'r angel dedwydd fu
 O fewn i feddrod Joseff, gyda thi—
 (Bedd Joseff mwy ; mae'n dwymn i'w dderbyn ef,
 Yn barod idd ei gorff, fel mae y nef
 I'w enaid.) P'un ohonoch, feibion nen,
 Eisteddodd lle bu'i draed, p'un lle bu'i ben ?
 Beth oedd y cyntaf air ddywedodd Ef
 Ar ol cyfodi'n Arglwydd byd a nef
 I'w " fywyd anherfynol ?"

Neu, a fu .

I'm Harglwydd rhyfedd basio heibio i *chwi*
 O *frys* i weled Magdalen, fu *bron*
 Ei *weld yn codi* ?

Feib y wawrddydd lon !

Dywedwch, a oedd ar ei wedd yn awr
 Ryw ol o'r chwys, rhyw ol o'r archoll fawr ?
 O, Didymus ! bu bron yn dda i ti
 Led-ameu'i adgyfodiad, fel caem ni
 Wybodaeth am ei lais, a'i ddull, a'i wedd,
 Mewn oedfa gynnar wedi gado'r bedd.
 " Moes yma'th fys, a dod yn ol yr hoelion,
 Moes yma'th law, a theimla 'nghlwyfau dyfnion."
 Onestaf sant ! ni foesaist ti dy fys ;
 Athronydd pur ! ni wnaethost unrhyw frys
 I estyn un o'th ddwylaw—digon fu
 'R *gwuhoddiad* i ddileu'th amheuaeth du ;
 Pwy ond Efe fu ar Galfaria fryn,
 " Y Cywir Hwnnw," wnai wahodd fel hyn !

Os oddiwrthyt, ennyd byr, y ciliais,
 Gwnei faddeu im, can's gyda'r Iesu crwydrais.
 Y mae fy holion eto heb eu hateb,

Cânt sefyll drosodd hyd yn nhragwyddoldeb,
Pan fydd fy ysbryd i yn ddigon santaidd
I ymgymysgu gyda'r llu angylaidd.

Y mae yr enw roed i ti yn Patmos
Yn rhagbrawf im o'r addysg sy'n fy aros
Pan gaf dy lawn fwynhau—"Un o'r henuriaid."
Mae'th hendra mawr, ynglyn â'th ienctyd dibaid,
Yn dy ddyrchafu uwch fy holl athrawon;
Nis gallaf fynd yn ol mor bell â'm holion
Nad wyt ti'n ol ymhellach.

Gwelaist wead

Y bydoedd yn eu gilydd fore'r cread;
Tydi a fedri eglurhau yn hollol
Hanesiaeth ddofn yr oesau daearegol,
Rhoi hyd y "chwe diwrnod," a darlunio
Y diluw mawr yn codi ac yn treio.
Cawn gennyf ti estoniat llawn, o'r diwedd
Ar gyn-iaith dyn, a'r oruchwyliaeth ryfedd
A'i torrai i fyny'n aml fil o ieithoedd,
Pan geisiai dynol ryw arddringo'r nefoedd
Hyd risiau defnydd, yn lle ysgol rhinwedd;
Desgrifi seiliad dwfn Tŵr Babel rhyfedd,
Ei uchder yn yr wybrau, a'r gwasgariad
Gymerodd yno le i bob cyfeiriad.

Anadliad dy hyawdledd wna wasgaru
Y niwl orchuddia Pisgah; cawn oleuni
Ar ddwyfol angladd Moses ar y bannau,
A'r modd ymfurfiodd haen o dew gymylau
Cyd-rhwng y clogwyn pell a'r bobl isod,
Rhag gweld ohonynt santaidd fan ei feddrod,
A'i droi'n uchelfa o addoliad uchod.
Cawn hanes taith y doethion, a'u dychweliad,
A rhyfedd ansawdd seren eu harweiniad.
Mae llawer myrdd o ereill ryfeddodau,
I'r rhai y deli di yr aur allweddau;
Yn iach, hyd oni chw'rddom!

Dan dy gysgod

O cadw fi, hyd oni chw'rddom uchod!
Os ydwyf yn etifedd iechydwrriaeth,
Ti fyddi'n ffyddlon im yn dy wasanaeth,
Hyd nes cyrhaeddwyf fro fy etifeddiaeth.

Y CAETHGLUDIAD.

DYWEDWCH im, awenau Seion wiw,
 Pa fodd na chlywir heddyw foliant Duw ?
 Pa beth a ddarfu i Gaersalem lon ?
 Pa ddieithr niwl orchuddia dyrau hon ?
 O! a ddiflannodd ysbryd mawl, a fu
 Am oesoedd ar ei gorsedd fryniau hi ?

Ni theimla 'r sant duviolaf ar ei hynt
 Y cysgod ar ei lwybrau deimlai gynt ;
 Mae 'n pruddaidd rodio hyd dy fryniau 'n awr
 Fel un a deimlai ddiffyg rhywbeth mawr,
 Fel un yn dwyn i gof ryw ddyddiau gwell,
 Fel sant yn teimlo fod ei Dduw ymhell.

Dy holl broffwydi, distaw ydynt hwy,
 A Seion ! mae rhyw wagder ynnot mwy,
 Mae 'n debyg i'r gorwagder dieithr fydd
 Pan rodia Duw i maes o'r greadigaeth brudd
 Yr olaf ddydd !

Hiliogaeth y santaidd, rhai welir mor wyw,
 Pa gwmwl ddaeth rhyngoch â gwyneb eich Duw ?
 O, prin y disgleiria y deml yn awr
 Mor danbaid a dwyfol ar gyfer y wawr.
 Cythruddir y nen ag arwyddion di-hedd,
 A chwery y mell fel ar lafn y cledd,
 Ymdorra 'r cymylau â lleisiau o fraw
 Uwchben mynydd Ephraim a Seion deg draw.

Gwae, gwae y diwrnod gadewaist dy Ior,
 Y Duw a'th arweiniodd o ddyfnder y môr,
 A droes y dyfnderoedd tragwyddol â'i lef
 Yn fawrwaith o gaerau ar grog hyd y nef,
 A gauodd ystormbyrth y dyfnder i gyd,
 Ar holl fawredd Soan, ag amnaid o'i lid,
 A drodd yr anialwech truanaf ei wedd
 Yn ddyfroedd o lawnder, yn llwybrau o hedd,
 O flaen dy ddyfodiad pan grynai y byd
 Gan swm dy orfoledd, dwyfoldeb dy bryd ;
 Y Duw a'th gyfarfu ar Horeb bell draw,
 A myrdd o angylion yn gweini bob llaw,

Ac yn ei ddeheulaw ddeddf gyfiawn ei sedd,
 A dalen o fythol gyfamod ei hedd ;
 Y Duw a gyfeiriodd â'i gwmwl ei hun
 Y ffordd tua broydd y diliau a'r gwin,
 A fagodd dy feibion ar fronnau y nef,
 A llaeth tragwyddoldeb, i gyd iddo ef,
 A drefnodd lariaiddiaf arweinydd i'r had
 I'w tywys i olwg mynyddoedd y wlad,—
 Paham ei gadewaist, O Juda,—yr Ior
 A daffai ei lwybrau ei hunan, y môr
 A'r dyfnder i ti yn agored o'r bron,
 Pan rodiech i fyny, fel duwiau o'r don ?
 Gostyngai ei nefoedd i weled dy wedd,
 A'i cnfys oedd drosot fel arwydd ei hedd.
 A deuai i'th frwydrau boreuol ei hun,
 A'r haul ar ei amnaid a safai, a'r hin
 A saethai ei fellt fel ym mrwydrau y nef,
 Ac amser arosai i'w filwyr hyf ef.
 Gwel, Israel, ei anrheg o'th amgylch, O! gwel
 Y wlad sy 'n llifeirio o laeth ac o fêl.

Ond daeth yr awr, y bore blin
 I ado Seion wrthi ei hun,
 A Juda fro nefolaidd dlos
 Yn unig dan y farnol nos.
 Am wrthod Duw, ei Brenin Mawr,
 O Seion lom, fe ddaeth yr awr.

Holl allu y gogledd a gyfyd i gyd,
 Y genedl fawr o ystlysau y byd.
 Assyria alluog a ddeffry i'r gâd,
 Llef rhyfel rydd allan nes deffro pob gwlad.
 Mynyddoedd y byd a synudant o bell
 Dan gasgliad ei myrdd tua 'r wlad a fu well.
 Ei llais o bell rua fel môr yn ei rym,
 A'i sang a ddilea genhedloedd yn ddim.
 Ei baner a gyfyd i'r bobloedd i gyd,
 Ac arnynt chwibana hyd eithaf y byd,
 Y llew ddaeth i fynny o'i loches ddi wawr,
 A gordd yr holl ddacar a godir yn awr.

O Dan bell y clywir gweryriad ei feirch,
 Gwel! drychir y nefoedd a'r ser ar eu seirch.
 Gan uchel weryriad ei gedyrn y cryn
 Y ddacar o amgylch, a Seion ei hun.

Dydd barn! Dydd dialedd! Mae 'n torri yn awr
 A gwyneb marwolaeth ei hun yw ei wawr.
 Cyfodwch y faner lifeiriol o waed
 Oll, oll tua Seion yn felldith a wnaed.
 Pob gweddi a gyfyd i'r nefoedd am nawdd,
 Gwaedd erwin, gwaedd byddin y gelyn a'i bawdd.

Jerusalem! O gaer y Brenin Mawr
 Y dysgai 'r nefoedd harddwch wrth dy wawr,
 Y bu proffwydi 'r nef a beirddion Duw
 Yn dedwydd rodio 'r hyd dy fannau gwiw,
 Gan yfed o ffynhonnau 'r nef ei hun
 Feddyliau oesoedd ereill, rhyfedd win
 Barddoniaeth ereill fydoedd, tra o'u blaen
 Olygfa amser hyd y gorwel cain
 Oleuid â dyfodiad Duw mewn cnawd
 A phell ysblander ei gyfryngol rawd,—
 Ai dyma lle y bu eneinioeg Duw,
 A ddaeth i fyny o Ephrata wiw
 I arwain Israel tua 'r rhiwiau draw,
 Bugeilio 'r nefol braidd a'i delyn yn ei law?
 Jerusalem! mor unig heb dy Dduw!
 A! nid y Seion santeidd honno yw;
 Beth fyddai 'r nef ei hunan heb ei Hior?
 'R hyn fyddai 'r gwely heb y llanwol fôr,
 Rhyw fythol wagder, tragwyddoldeb oer,
 Fel crwydro byth o fewn rhyw ddiffoddedig loer.

Mae 'n ganol nos! Ymguddiodd ser y nef
 Oll, rhag goleuo 'r distryw sy 'n neshau,
 Ac nid oes angel ar ganllawiau aur
 Y nefoedd heno. Braidd y clywir swm
 Dyferiad prudd Siloa bér islaw
 Tra 'n golchi traed santeiddiaf Seion Duw
 A dagrau y dylasai Juda lom
 Eu wylo oesau 'n ol. Mae 'n ganol nos!
 Ac athrist heno ydyw llais y gwynt
 Fel pe yn cludo am yr olaf waith
 Sain moliant ar ei aden tua 'r nef.
 Clyw ferw 'r gwersyll Babilonig draw,
 Fil miloedd ar ddi-hun awr drom y bedd.
 Gwel fellt eu cleddau ar y mewnaf gaer
 Yn gorddisgleirio fel rhyw ddydd o farn.
 Y mae awenau hawddgar Seion mwy,
 Ac ysbryd goruchwyliaeth ryfedd hon,

Ei hysbryd ffyddlon fyth-addawol hi,
 I gyd yn esgyn i uchelaf dŵr
 Y Deml wagedig, mewn parodrwydd prudd
 I ddianc tua 'r nefoedd, gyda fflam
 Ddiweddaf Seion, fel ei hadgof hi,
 I fyny at y Tad fyth i'w goffhau
 O'i thrallod maith, a'i gariad yntau gynt.
 Rhaiadra 'r gelynyon fel afon o lid
 Tros gaerau rhwygedig y ddinas i gyd ;
 Ei sanctaidd uchelion yn fathrfa a wnaed,
 A golchir ei miloedd heolydd â gwaed.
 Clyw 'r nef yn cyhoeddi uwch trigle y saint
 Eangder i'r cleddyf, a rhyddid i'r haint.
 Try 'r ser oll eu llygaid i fyny mor wyw,
 I fyny mewn syndod, gan edrych ar Dduw !
 A'r wawr weddnewidia ei gwyneb a'i llun
 Weld baner Assyria ar Seion ei hun.
 Dinistriwch ! Dinistriwch ! Ddymchwelwyr y byd !
 A dygwch ei meibion yn gaethion i gyd ;
 Ei Duw mawr ei hunan a'ch galwodd i'r lan
 I ddymchwel ei lluoedd, y nerthol a'r gwan ;
 Daw proffwydoliaethau cadarnaf yr Ior
 I'ch cymhell i fyny, fel gwyntoedd y môr,
 Dros riviâu heirdd Seion llifeiria y gwaed,
 Siloa a lenwir, a fethrir dan draed.

Weddillion Juda ! cydgrynhowch yn awr
 Wrth sain y Babilonig udgorn mawr
 Sy 'n galw 'r genedl o bob cwr ynghyd
 I'w pruddaidd drefnu—dorf anferthol fu!,
 Bedd-ddistaw fel cynteddau 'r Deml fry—
 I'w harwain ffrwd o flaen byddinoedd by
 A chleddau Babel bell. Yr olaf ddarn
 O feib y cedyrn, tua chaer y farn
 Cychwynnwch !

O Jerusalem ! Pa fodd !
 Pob gobaith gyda 'th ryddid di a ffodd.
 Gwel hwynt yn araf symud, riw uwch rhiw,
 Fel araf arwyl cenedl bennaf Duw.
 Pêr flodau Palestina ar eu hol,
 A fwyn ymgodant ar y dyner ddôl,
 Ar ol eu sang, fel pe gofynnent hwy—
 Pa bryd y gwelir meib y nefoedd mwy ?

SAINT ENLLI.

DEG awen, cân dy gywydd
 I gynnar ddiffynfa'r ffydd.
 Enlli fach! enillaf hwyl
 O'th gofion union anwyl.
 Cofio 'th saint fel cyfoeth sydd,
 Neu foeth i hynafiaethydd.
 Yr oedd ffydd ar ddiffoddi
 Yn y 'storm, hyd nes i ti
 Fwrw gwyn dy fore ganwyll
 O'r môr uwch y tramawr wyll.

Dwy filltir gywir dy gylch,
 A'r eigion yn gaer ogylech—
 Un o hyd—os bychan oedd
 Dy led, O diail ydoedd
 Rhyfedd glod dy grefydd glau,
 Fel haul dy ddwyfol olau.
 Er lleied aen-led dy dir,
 Y fendith oedd gyfandir.
 Ni fu erwi gan feirwon,
 O wir saint mor fras a hon;
 Yn dirion cuddia d' oror
 Ugain mil wrth eigion môr;
 Ugain mil o'th seint-hil sydd
 Yn llenwi 'th erwi llonydd.
 'E feda'r adgyfodiad
 Wych dornaeth o'th odiaeth had.
 Ca Llawddog gawell heddweh
 A hun lawn o fewn dy lwch.
 Dirfawr abad fu'Derfel
 I'r ynys hon, o ran sel;
 Yntef sydd dan lonydd len
 Dew orchudd dy dywarchen.
 Diboen i'r abad Beuno
 Yw gwely rhad dy gul ro.
 Mae Cadfan o dan dy do
 Hoff was i'r ne'n gorffwyso,
 Yn disgwyl egwyl agor,
 Ryw loew ddydd, ei farwol ddôr.
 Gwir brofodd glwysgor Bresi
 Fawr gnwd ffydd ein Dyfrig ni;

Rhodd yno ei urdduniant,
 Do, was hen, i'n Dewi Sant;
 O bob archesgob ni chaid
 Purach neu wynnach enaid;
 Rhôl ei fraint a'i ddirfawr fri
 A'i anlloedd, am hedd Enlli.
 Deyrn o sant! Oedrannus oedd,
 A'i ddidwyll awydd ydoedd
 Am dreulio yno ei oes
 Yn llonydd, weddill einioes;
 Byw mwy mewn cymundeb mel
 A Duw, yn Enlli dawel—
 Rhyw Seion bêr o swm byd
 Mwy, a'i elfen am eilfyd.
 Fawredig dduwiolfrydedd,—
 Pwy 'n awr drwy fyd mawr a'i medd?
 Byw beunydd, rhoi 'i bob ennyd
 Yn ddigoll i Dduw i gyd;
 Gado'r byd, dal gyda'r bedd
 Ryw ofeb sobr a rhyfedd!

Aeth rhif o wyr difrifol
 Drwy hyfryd unfryd o'i ol
 I fwynhau yr un dwfn hedd,
 Yr un hygar unigedd.
 A daethant o'i gymdeithas
 Dirion, yn gryfion mewn gras.
 Brwd elai eu brawdoliaeth,
 Ac yn Nuw cynyddu wnaeth.

Lle braint ydoedd Enlli brid,
 Goreu addysg a roddid.
 Fe rannai Einion frenin
 I'w mysg, er addysg, o'i rin;
 Rhoe lladaeth Emyr Llydaw,
 Urddol wr, yn rhwydd o'i law,
 I gadw y coleg odiaeth,
 A than nawdd Duw 'n Athen daeth.

Y monachod mynychynt
 Ein Enlli gain yn llu gynt.
 Glaniaw rhag llid gelynion
 Wnai saint yn yr ynys hon;
 I fwynhau, i fyw yn ol
 Cywir foddion crefyddol.

Os oedd ofergoelion syn
 Hudolus yn eu dilyn ;
 Eu rhinwedd oedd er hynny
 Drwy fraint, fel goleudwr fry ;
 Rhyw wawr wan, yr oreu oedd
 Acw yn asur cynoesoedd ;
 Gwawr o ras, goreu'r oesau,
 Nid oedd hi ond yn dyddhau.

Finnau, yn llesgedd f' henaint,
 Hoffwn, cyfrifwn yn fraint
 Gael treulio yno mewn hedd
 O dawel ymneillduedd
 Eiddilion fwyddi olaf
 Fy ngyrfa, yn noddfa Naf.
 Byw arno, byw iddo ef,
 Mwy'n ddiddig mewn hedd-haddef ;
 A dal cymundeb â'r don,
 Byd ail, o wydd bydolion.
 Heb dyrfaeu byd, heb derfyn
 Ond y gwyrddfor, gefnfor gwyn.
 O'n holl fyd, Enlli a fo
 Iach wlad i'm haul fachludo.
 Gwedi y boen, gyda Beuno
 Gorffwysaf, mi drigaf dro ;
 Ac hefo Beuno, o'r bedd
 Codi yn mawr-rwysg adwedd.
 Gwytherin goeth ei arawd,
 'R enwog Tyfriog ei frawd,
 A'u chwaer dyner Eleri,—
 Fo aml oes yn f' ymyl i.
 A Derfel mewn rhwysg dirfawr
 Gyfyd ar yr hyfryd wawr ;
 A'r doniog Cawrda unwedd
 Draw aiff i wlad yr hoff wledd.
 A Phadarn hoff eheda
 I fro lon anfarwol ha.
 Dwg Naf ein Tegwyn hefyd
 O Enlli ban i well byd.
 Dof finnau—minnau 'n y man
 Fry'n gydfyw â'r hen Gadfan.

ODLAU PRIODASOL.

A gyfansoddiwyd i Mr. John Morgan, mab i William Morgan, Ysw., Pont-y-pridd, ac Ellen, merch hynaf y Parchedig W. Jones, Pontarddulas, (gynt Cwmaman.)

BYDDED iddyn, y deuddyn dedwyddol,
 Ffawd Adda a'i Efa dan wên ddwyfol,
 Ehelaeth doraeth o lwydd daearol;
 Un haf o lawenydd aniflannol,
 Nis unwyd merch mor swynol—a hoff fab,
 Er Abram a Sara, bâr mor siriol.

Dyma ddau anwyl, dyma ddywenydd;
 Dyma ddwy galon dwym' idd eu gilydd;
 John sydd fel Adda, a'i Efa ufudd
 Yw ei gain Ellen, un deg aneilydd.
 Gyrfa deg! Ar haf eu dydd—na ddoed pla,
 Neu wywder gaua yn dragywydd.

Pwyll ei mam (pa allu mwy—is nefoedd?)
 A fo oludoedd Ellen fawladwy.
 Ellen wen, dan arweiniad,
 Rodio yn ol ei duwiol dad,
 Bo eur-gamp John heb wyrgam,
 Diwyd fel ei dad a'i fam;
 Y cryf addysg grefyddol
 O'i gyff ef, guffo ei ol.
 Boed bur—ac O! boed barod
 Y ddau i fyd sydd i fod,
 Yn eu taith boed iddynt hedd,
 Enw da, a ne 'n y diwedd.
 Gyfeillion tirion, eich taith
 Fo 'n yrfa o hoen hirfaith;
 Frawd a chwaer, hyfrydwch yw,
 Gwna 'ch diddan ganiad heddyw;
 Cynghanedd ddi-ddiwedd ddaw,
 Ail afon yn ymlifaw.
 Er i angeu fynd rhyngoch;
 Wedi y bedd ynghyd boch!

YMWELIAD Y DOETHION A BETHLEHEM.

Y disgwyliad.

PAN fyddo rhyw amgylchiad gor-ryfeddol
 Ar myl sylweddoliad, ceir y byd
 Yn disgwyl gydag awydd bythddyfnhaol,
 A dynol ryw ar flaenau'u traed i gyd ;
 Pob arfaeth fawr o uchel lys dwyfoldeb
 A dafia ei chysgodau 'mhell o'i blaen,
 Fel mynydd mawr, fel Alp o dragwyddoldeb
 Yn taffu cysgod dros dragwyddol waen ;
 Fel y dirwynai'r ddwyfol awr i fyny
 I Dduw ymddangos yn ein natur ni,
 Gan rym disgwyliad 'roedd y byd yn crynu,
 Dan gysgod ei ddyfodiad ar bob tu ;
 Arwyddai y disgwyliad cyffredinol,
 Yr iechydwrïaeth gyffredinol gaed
 Trwy ei babelïad yn y natur ddynol,
 Ei fywyd pur, a'i oll-haeddiannol waed.

A! genedl ddyn, ni wyddet fawr am dano,
 Dy gwbl oedd rhyw feddwl mawr o'i fod ;
 Ni thynnwyd nemawr ddarlun it o hono,
 Dy gwbl oedd rhyw ddisgwyl am ei ddod.

Prudd alltud oeddit o wladwrïaeth Israel,
 Canolbwne y goleuni dwyfol gynt,
 Ac estron trist i'r Ganan ddwyfol dawel,
 Lle clywid cerdd yr angel ar y gwynt ;
 Y wlad y ceid ei bryniau'n gysegredig
 Gan sangiad engyl ar eu teithiau pur,
 Pan hedent â rhyw newydd bendigedig
 I feibion Israel, o'r tragwyddol dir.

Gorweddai Israel wrth y dyfroedd tawel,
 Dewisol braidd, mewn bras gauedig ddôl ;
 A llawer bugail pur, a llawer angel
 Ar ddynol ddull, yn edrych ar eu hol ;
 A thithau'n crwydro ar y bythol fynydd,
 Y " ddafad arall," heb un goleu braidd,
 Yn holi am y gorlan ddwyfol lonydd,
 Heb unrhyw ateb ond rhuadau'r blaidd.

Ond er dy bellder o'r gauedig gorlan,
 Ti glywet wcithiau lais y Bugail Mawr

Ar ymyl awel bell—rhyw arwydd egwan
Y deuai ar dy ol ryw foreu wawr.

'Roedd ser i'w canfod yn dy wybren dithau,
Yn gwenu yn y nos o hirfaith hyd;
Fe gododd un o firain wedd yn forau,
Addewid Eden—seren gynta 'r byd.
Nid yw 'r ddynoliaeth ond parhad o Adda,
Aneirif amlhad o hono ef;
Gadawodd iddi ei obeithion penna,
A'i brif gymunrodd, yr addewid gref.
O, pwy nad yw yn teimlo ambell ennyd,
Ryw adgof am baradwys hardd ei llun;
Pwy nad yw fel yn canfod flaenau cynfyd
Ymhell tu ol ac eto ynddo ei hun?
Pa beth yw crebwyll ond adgofion Eden?
Pa beth yw barddas, onid ymgais drud
I sylweddoli y Baradwys addien,
Neu broffwydoliaeth am anfarwol fyd?

Myfi ni feiaf ffynnon fy naturiaeth,
Os daeth o honi ffrydiau pechod cas;
O honi hefyd llifodd dyfroedd gobaith,—
A gloew ffrwd addewid gyntaf gras.
I ba le bynnag crwydrai y ddynoliaeth,
Dilynai ffrwd y lân addewid hon,
Os elai 'n fain gan drai o ysbrydoliaeth,
Ni sychai hi yn hollol dan ei bron;
Blodeuyn gobaith yn ei hymyl dyfai
Oes ar ol oes, yn eiddil iawn mae 'n wir,
A'i berarogled, er mor wan, a lonnai
Breswylwyr pellaf y cenhedlig dir;
Y cenedl ddyn, pan fyddai 'n llwyr siomedig,
Aroglai hwn, a theimlai bêr fywhad,
A syllai i'r gorllewin bendigedig,
I weld a oedd arwyddion am yr Had.

Trwy wres eu cariad at dragwyddol bynciau
Dadblygwyd hedyn yr addewid bur,
Yn fwy mewn rhai oedd agos i ororau
'R Baradwys gain fu ar y dwyrain dir.
O'r dosbarth hwn fe gododd rhai i fyny,
Wŷr etholedig, goleuedig, glân,
Ymholwyr am y dwyfol wir oleuni,
Ac yn eu rhi mae doethion eu ein cân.

Ysbrydoedd puraf y Cenhedloedd oeddynt,
 Olynwyr Job a Jethro, feibion Ner;
 Goruwch y dorf, mewn purach awyr teithient
 Gan holi am eu brawd ymysg y ser.
 Ni feddent hwy ond golau eiddil anian
 I chwilio am dano yn y ddunos faith,
 Ac ambell i belydryn cryf o Ganan
 Yn saethu dros y caddug ambell waith.
 Caed eisoes yng nghanolfur y gwahaniaeth
 Ryw adwy fechan, i oleuni byw
 Addewid Ior, a mellt y broffwydoliaeth
 Dywynnu allan, golau uwch ei ryw.
 Fe dorrodd cronfa y goleuni dwyfol,
 Pan dorrwyd undeb llwythau Israel gynt,
 Gwasgarwyd gyda hwy y llewyrch nefol,
 Ac odlau Seion ar y pedwar gwynt;
 A'r cenedl ddyn a welodd lusern Salem—
 Y llusern a oleuodd Ior ei hun
 A mellten Sinai; clywodd ddwyfol anthem
 Pêr fardd Ephrata am y dwyfol ddyn.
 Ni ddarfuasai proffwydoliaeth Peor
 Ag adsain trwy yr oesoedd ar ei glyw;
 Disgwyliai weld golygfa hardd yn agor,
 A seren deg yn dod o orsedd Duw.

Cyflawnwyd ei ddisgwyliad yn y diwedd,
 Dymuniant y cenedloedd oll a ddaeth;
 Gadawodd yn y nef ei glaer ogonedd,
 A thabernaclu gyda ni a wnaeth.

Y cyfarwyddyd.

Mae'r ddaear yn fendigaid! Sangodd Duw
 O'r diwedd arni hi, a sanctaidd yw.
 Ond clust yr Iddew gan ei ddaearoldeb
 Sydd drwm yn awr, ni chlywodd sang dwyfoldeb.
 Er dod i waered ar ein marwol lun,
 I'w etholedig fro ym mhlaned dyn,
 I fysg ei bobl, ac at ei eiddo ei hun;
 Ni welsant hwy ei arwydd yn y nef,
 Ei eiddo ei hun ni dderbyniasant ef.

Ond tra trymhâi'r Iddew gan gnawdoldeb,
 Tra cysgai ef yn eigion daearoldeb,
 Darparai Duw oleuni yn y nef,
 I ddwyn y doethion effro ato ef.

Rhyw nos odidog der,
 Tra syllent ar y ser,
 Fe chwyddai cydgan bêr
 Holl anian lon;
 A chlywid newydd nod,
 Yn anthem bell y rhod,
 I rywun oedd yn dod
 I'r ddaear hon.

Rhyw ddwyfol fôr o gân,
 Oedd holl eangder glân,
 Y deg ddwyreiniol nef;
 Wrth wrando 'r anthem hon,
 A nefoedd dan eu bron,
 Cyfododd golau llon
 " Ei Seren Ef!"

Mil gormod yw i ddawn,
 Ddarlunio 'r gwynfyd llawn
 A deimlent hwy,
 Wrth wrando 'r dwyfol fawl,
 A darllen, yn y gwawl
 Rhyfeddol hwn, eu hawl
 I Geidwad mwy.

Ai angel oedd yr ymddanghosiad llawen,
 Yn tramwy 'r nef ar gyffelybiaeth seren?
 Ai 'r angel hwnnw a arweiniai 'r had,
 Trwy 'r anial gynt, i'r addawedig wlad,
 Mewn colofn o dân?

Ai cydgynhulliad

O danbaid ser mewn dedwydd gyfarfyddiad?
 Ai rhyw gymanfa o ddisgleiriaf fydoedd
 Oll yn ymdoddi 'n un, i roesaw 'r Duwdod ydoedd,
 Y Duwdod oedd yn dod i rwymo 'r cyfan
 Mewn bythol undeb gylch ei groes ei hunan?
 Godidog sergynhulliad, addas ydoedd
 Pan gafwyd canol bwnc dyn, angel, a'r holl fydoedd.
 Nis gwyddom ni dan gwnwl daearoldeb
 Nad seren oedd o gylchoedd tragwyddoldeb.

Addola, Awen! dod gywreinder heibiaw,
 Lle mae dy Dduw yn fud, bydd di yn ddistaw.

Fyth am y pur a'r dwyfol ymofynnent,
 Efyrdwyr llyfr creadigaeth oeddent,

Y rhagymadrodd i'r efengyl wiw,
 'R argraffiad cyntaf o feddyliau Duw,
 Porth teml y bywyd, cysgod prynedigaeth,—
 Bob nos darlennent lyfr creadigaeth ;
 Eu dail hoffusaf oedd y dail wybrenol
 A dadguddiadau pell y nef serenol.
 Mae gan y ser hyd heddyw dduwinyddiaeth,
 Ond rhy ysbrydol yw i lygad pwl anffyddiaeth.
 Mae gan bob seren air o rinwedd oesol
 I'r neb sydd yn hiraethus am y dwyfol.
 Pwy ddywed fod ysgarol fythol fôr
 Rhwng cread nerth a chread cariad Ior ?
 Mae ffydd yn canfod o'i harsyllfa well
 Y ddau yn mynd yn un mewn rhyw gysylltgraig bell.

Pur feib Gwyddoniaeth oedd y doethion cun,
 A gwir Wyddoniaeth sydd yn arwain dyn
 Yn raddol i gysegroedd Duwinyddiaeth
 At ganol bwnc pob bywyd a gwybodaeth.

Y daith.

Fe roed i filoedd gyfarwyddyd llawn
 Am oesoedd wedi hyn, at Brynwr byw ;
 Ond er pob mantais gaed, ychydig iawn
 A aethant i ymofyn am eu Duw.
 Nid golau ser sydd ar ein llwybr ni
 I Bethlehem, yr Ardd, a Chalfari ;

Mae 'n awr yn hanner dydd
 Ar holl diriogaeth ffydd,
 Mae 'r haul yn llawn ;
 Ac ni ddaw cryfach gwawr
 O hyn i'r borau mawr
 Ar ffordd yr Iawn.

O ! pam na bai y byd
 Yn myned oll ynghyd
 I Bethlehem gun,
 A holl belydrau 'r nef
 Yn gorffwys ar y dref
 Ac ar ei wyneb Ef—
 Y Dwyfol Ddyn !

Ond *doethion* oedd gwroniaid pur fy nghân,
 Ac er na chlywsant hwy ei enw glân
 Yn cael ei seinio 'n eglur nac yn llawn,
 Hwy gychwynasant ar yr ail brydnawn.

Y dydd canlynol i'r olygfa nefol
 Ymbaratoent i'w rhyfeddol daith;
 'Roedd yn eu blaenu gôr o engyl nerthol,
 Ac yn eu dilyn osgordd harddwych maith.
 Arosent am y nos, yn llawn o bryder,
 A ddeuai 'r seren ddwyfol eto i'r lan?
 Ai breuddwyd gawsent am y pur ddisgleirder?
 Ai siomedigaeth eto fyddai 'u rhan?

Hwyrfrydig oedd yr huan i fachludo,
 Hwyrfrydig iawn ym mryd y cenedl ddyn,
 Edrychai fry fel un a fai 'n myfyrio,
 Fel un garasai gael y fraint ei hun
 O'u cyfarwyddo at y Golau Dwyfol,
 Fel un garasai aros yn y nef
 Nes dangos iddynt hwy yr haul tragwyddol,
 A diffudd wedyn yn ei ymyl ef.

O'r diwedd aeth i lawr gan ogoneddu
 Mynyddoedd y gorllewin teg eu pryd,
 Anfeidrol enfys oedd yr wybr bryd hynny,
 Pob cwmwl oedd fel porth i ddwyfol fyd.

Wrth weled y gogoniant gorllewinol,
 Sibrydai 'r doethion,—“O gysegrfa glaer,
 Cyfaddas bron i dderbyn yr Anfeidrol,
 Yr holl orllewin sydd yn fôr o aur!”

Ac yn y man disgynnai o'r tragwyddol
 Y sanctaidd fydoedd ar uchafion nef,
 Ac yn eu plith y seren gyfarwyddol,
 O ddwyfol bryd, ei seren addien Ef.

Uwch croesffyrdd amser codwyd aml fynegfys,
 Ond dyna yr egluraf eto fu,
 Fel claer belydryn oddar flaen cerubfys
 Danghosai lwybyr iechydwrïaeth gu.

Symudodd y seren ardderchog ei gwawr,
 A'r doethion gychwynnent i'w gyrfa yn awr.
 Daeth seibiant rhyfeddol i'r cenedl ddyn
 Y nos ryfedd honno, bu felus ei hun;
 Breuddwydiodd deg freuddwyd am gyfaill a brawd
 Na welsai er Eden, sef Duw yn y cnawd,—
 Dirgelwech duwioldeb a gododd i'r lan
 O fôr tragwyddoldeb, sef Duw ar ei ran.

Lle sangai ei droed tarddai afon o wawl,
 A'r ffordd o'i ol ydoedd yn foroedd o fawl.
 Er cymaint ei fawredd ni theimlid un braw,
 Ni welid un cleddyf o lid yn ei law.
 Er cyd yr ysgariad adnabu ei wedd,
 A chofiodd am fore gyfamod ei hedd.
 Emmanuel ydoedd, sef Duw gyda ni,
 Galluog eiriolwr, yn dadleu o'n tu;
 Adferwr ein natur, adferwr ein hedd,
 Tywysog y bywyd, diddymwr y bedd.

Ei deg weledigaeth oedd sylwedd i gyd,
 Tra ef yn breuddwydio am Geidwad y byd,
 Ei bur gynrychiolwyr oent ar eu ffordd ato
 Y nos ryfedd hon, tra ef yn breuddwydio.

Pa awen ddarlunia felusder yr hynt,
 Disgleirdeb y seren, peroriaeth y gwynt,
 Ysplander y nos a oleuai eu rhawd
 Yn deilwng o'i derfyn, sef Duw yn y cnawd ?
 Ser nefoedd y dwyrain ynt ddisglaer o hyd,
 Ond weithian rhagorai disgleirdeb eu pryd;
 A oeddynt yn derbyn uwch llewyrch, gwell gwawr,
 O wyneb eu Hior pan yn dyfod i lawr!

Uwchben y doethion lledai'r nos
 Fel eang arddanghosfa dlos
 O ryfeddodau gallu Duw ;
 Yr arddanghosfa gyntaf yw ;
 'Roent ar eu ffordd i'r ail yn awr,
 Sef arddanghosfa'i gariad mawr.

Nos gynta'r daith aeth heibio'n llon
 A chyflym fel munudyn bron ;
 Dechreuai'r ser ddiflannu'n awr
 O flaen y deg gerubaidd wawr ;
 A'r olaf un i ado'r nef
 O'r miloedd oedd ei seren Ef.
 Diflaniad hon o'r wybren fraith
 Fesurai deg raniadau'r daith.

Gorffwysent dros y dydd ;
 Ar ymyl afon loew lās
 Breuddwydient am afonydd gras
 Rhai lifent mwy yn rhydd.

O ddydd i ddydd ymorffwys wnaent,
 O nos i nos i'w gyrfa aent,
 A'r seren gain bob hwyr yn dod,
 Gan fynd drwy'r nos ar agos rod
 Yn araf, fel y gallent hwy
 Ei dilyn heb amheuaeth mwy.

Croesawid hwy bob bore'n rhad
 Gan lwythau rhyw genhedlig wlad,
 A chawsant lawer holiad dwys
 Gan lawer cenedl dan ei phwys,
 Am amcan eu cenhadaeth hon,
 Ac ystyr dwfn y seren lon.

Disgwyliai'r bobloedd ymhob gwlad
 Am fore ddydd, am fawr ryddhad;
 Disgwylient am ryw Frenin gwell
 I ddyfod o'r gorllewin pell,
 A'i deyrnwialen oll yn hedd,
 A sail ei faine ar ludw'r bedd.

Ai harddwch y lewinol nen
 A'i gorysplandra, pan fo'r huan
 Dan for o aur yn cuddio'i ben,
 A greodd y disgwyliad eirian?
 Nis gwyddom ni; ond digon yw
 Fod llygaid pawb o ddynol ryw
 Yn edrych tua bedd y dydd
 Am fore y ddynoliaeth brudd.

Anfonai llwythau y dwyreiniol fyd
 Oll gyda'r doethion eu hanrhegion drud,
 Aur, thus, a myrrh, fel arwydd o'u gwarogaeth
 I Frenin mawr a Phrynwr y ddynoliaeth.
 "Rhowch iddo," meddent, "ein haddoliad glwysaf,
 Dywedwch wrtho am ein hiraeth dwysaf.
 O, ceisiwch ganddo roi tragwyddol rad—
 Tragwyddol fendith ar y ddwyrain wlad.
 Os gofyn ef pwy ym, dywedwch wrtho—
 Olynwyr Job, Melchisedec, a Jethro.
 Ewch rhagoch bellach, buraf feib y dwyrain,
 Mae'r seren eto wedi dod i'ch harwain."

Ryw ganol nos, ar ol ymdeithio'n hir,
 Canfyddai'r doethion yn y serwawl clir

Fynyddoedd Canan yn uchafion nef
 Yn esgyn i roesawu ei seren Ef.
 O uchelderoedd sanctaidd! myrdd o weithiau
 Y darfu i angylion ar eu teithiau
 Oblygu eu hedyn ar eu pell gopaon
 I orffwys ennyd, ar eu fordd i Seion.

O Ganan fendigaid, hoff Elen proffwydi,
 Bro ddwyfol y Gair, canolbwynt goleuni,
 'Rol oesoedd o siomiant ac oesoedd o erfyn,
 Mae'r cenedl ddyd wedi croesi dy derfyn!

Cryfaodd anthemau y nefoedd yr eiliad
 Y sangai'r cenedl ddyd ar oror dadguddiad.
 Nid *cenedd* mwy, mae y *natur* yn deffro,
 Ac at ei *chanolbwynt* i gyd yn dylifo;
 Cynhyrfodd y seren holl fôr y cenhedloedd,
 A dilyn mae llanw diderfyn y bobloedd.

Trwy heirdd ddyffrynnoedd elai'r doethion rhagddynt,
 A phur fugeiliaid Jacob a ddanghosynt
 I'r ymwelyddion leoedd bytholedig,
 Anfarwol gan adgofion bendigedig,
 Ogofau cysegredig i dduwioldeb,
 A'u syn adseiniau fel o dragwyddoldeb.

Ar hwyrol awr, ail nos eu hynt yng Nghanan,
 A hwy yn teithio yn y golau eirian,
 Diflannodd y disgleirdeb cyfarwyddol,
 Machludai'r seren bur am ennyd i'r tragwyddol.

Jerusalem.

Yr oedd Caersalem yn eu golwg mwyach,
 Ac nid oedd eisiau ser i'w harwain bellach.
 Yr oeddynt ar ganolbwynt y goleuni,
 A haul y Gair o'u hamgylch yn tywynnu.
 Pan ddygo natur ei heirydwyr ffyddlon
 I wydd y Gair, i wydd goleuni Seion,
 Fel un a'i gorchwyl drosodd mae'n diflannu
 Fel ser yng nghodiad huan yn ymgolli.

Gaersalem, er it syrthio o'th ogonedd,
 Ti gedwaist Air y bywyd yn ei buredd;
 Er lladd ohonot dy broffwydi uniawn,
 Eu proffwydoliaeth gedwaist oll yn ffyddlawn;
 Er colli'r ysbryd cedwaist y lythyren,
 A'r addewidion oll a gaed, o'r gyntaf wnaed yn Eden.

Yn araf iawn ac mewn godidog urddas
 Y doethion ddoent i mewn i'r ddwyfol ddinas;
 Ysplander eu gosgorddlu wrth ddylifo
 Trwy 'r dwyrain borth, y nos serenog honno,
 Oleuai yr olygfa synfawreddus,
 Eu hybarch wedd, a'u gwisgoedd gogoneddus
 A dynnai sylw 'r dor.

Synholi wnaethant

Pwy oedd y gwŷr, ac o ba le y daethant.
 Cyffrowyd holl Gaersalem pan eu clywid
 Yn holi am y Brenin a anesid.
 Deallai Israel mai 'r Messia ydoedd,
 O herwydd dod o feibion y cenhedloedd
 Heb fyddin, arf, na phennaeth i'w rheoli,
 I addef ei lywodraeth a'i addoli.

Pan glybu Herod y newyddion rhyfedd,
 Cyffrodd ei enaid, llwyr newidiai 'i agwedd.
 Y nos o'r blaen, mewn breuddwyd rhy sylweddol,
 Agorwyd iddo olygfeydd dyfodol—
 Fe welai fôr o ddwyfol chwyldroadau
 Ac yntau 'n suddo 'n eiddil dan ei donnau,
 A'r corwynt cryf yn tafu ei deyrnwialen
 Fel scflyn sych ar allor melt yr wybren;
 Disgynnodd Brenin o gynylau 'r nef,
 A sang ei droed faluriai 'i orsedd ef.
 A chlywodd holl genedloedd byd yn bloeddio
 Eu hunfryd groesaw a'u teyrngarwch iddo;
 A'r môr a ymlonyddai yn dragwyddol,
 A bu un Deyrnas mwy, y deyrnas ddynol-ddwyfol.

Fe wysiodd ger ei fron ddysgawdwyr Seion,
 Yr archoffeiriaid a'r ysgrifenyddion,
 I holi oracl fore proffwydoliaeth,
 Pa le y genid Crist, etifedd y freniniaeth.
 Cydatebasant oll mai Bethlem Juda
 A fyddai cyntaf fangre y Messia,—
 "A thithau Bethlehem, tir Juda dirion,
 Nid lleiaf wyt ymhlith ei dywysogion,
 O honot ti y daw Tywysog nefol,
 Fugeilia' mhobl Israel yn dragwyddol."
 Y creulawn deyrn a holai 'r doethion llawen
 Pa bryd ymddangosasai 'r ddwyfol seren,
 Mewn congl ddirgel o'r brenhinol lys,
 A dwedodd wrthynt,—

“ Ewch yn awr ar frys
 I chwilio am y Mab, Tywysog heddwch,
 A phan y caffoch Ef, i mi mynegwch;
 Dychwelwch yma i Gaersalem gref,
 A minnau af, ac a'i haddolaf Ef.”

Pan ddelai 'r doethion ar eu taith yn ol,
 Y brenin Herod, yn ei ryfyg ffol,
 Arfaethai ynddo i hunan anfon llu
 O filwyr erch i ladd y maban cu.

O, ynyd ! anfon dy orchymyn nerthol
 I rwystro 'r haul i godi yn dragwyddol ;
 Anadla ar bob planed i'w ddiffoddi,
 Ac arch i'r graig, gan wres dy ddigter, doddi ;
 Cynhulled dy Sanedrim, selied cyfraith
 I dorri cadwen achos pur ac effaith ;
 Tro ben dy farch i ffordd mellt y taranau,
 A thros yr enfys gyr dy heirdd gerbydau ;
 Dy droed tarawa ar y ddaear egwan
 Nes llyneu o ddaeargryn fryniau Canan,—

Milfloedd hawddach, bryfyn, fyddai hynny,
 Na lluddias Gair y nef rhag ei gyflawni.
 Ti, chwynyn ar y traeth, pwy ydwyt, Herod,
 I droi yn ol gryf lanw arfaeth Duwdod !
 Caiff gwrthglawdd pechod, uffern gref, ac angau,
 Eu cuddio cyn bo hir o dan ei donnau.
 Y mae dy orsedd hyd ei sail yn crynnu,
 Ac ni chei weld y doethion byth ond hynny.
 Mae Duw yn ymgymeryd â'u harweiniad,
 A'r seren eto sydd yn dangos bro y Ceidwad.

Mae cref Frenhiniaeth wedi dod i lawr,
 Ac os yw hi mor rymus yn ei gwawr,
 Beth fydd ei gallu yn ei chanol dydd ?
 Mabandod hon yn siglo'r ddaear sydd ;
 Pan ymddadblygo teyrnas Had y Wraig
 Fe ddua haul y nef, fe hollta 'r graig.

Ymlaen y teithient tua Bethlem bur,
 Yn sier bellach o fwynhau cyn hir
 Ddymuniant pennaf y cenhedloedd oll ;
 'R oedd anian wedi eu harwain yn ddi-goll
 At lusern bur datguddiad yng Nghaersalem,
 A'r ddwy'n eu cyfarwyddo tua Bethlem.

Chwe milltir o ymdeithio tawel llonydd
A'u dygodd hwynt i olwg dinas Dafydd.

Dinas Dafydd.

Doed un o honoch chwi, angylion Gwynfa
Sy'n canu'n llawen heno uwch Ephrata,
Un o fy mrodyr, feirdd y fro dragwyddol,
I dynnu darlun o'r olygfa nefol.
Ar ymyl bryn y safai'r ddinas fechan,
Yng nghanol coedydd cyfoethocaf Canan ;
Ai dyma ganol bwynt prydferthwch anian,
Ei harddaf le i dderbyn Ior ei Hunan !
Os lleiaf oedd plith tywysogion Juda,
Mae'n awr yn haeddu lle yng ngolygfeydd y Wyddfa.

Syllasant tua'r nef, yr oedd y seren
Yn gorffwys mwy, genhades deg yr wybren.
Hi safodd ar ei gyrfa gyfarwyddol
Goruwch y lle yr oedd y Mab Tragwyddol.

Gallesid disgwyl gweled dan ei golau
Odidog lys, ac engyl ar ei dyrau ;
Rhyw nefol balas wedi ei naddu allan
O fynydd perl, yn danbaid fel yr huan.
A, preseb oedd ei gryd ! Ystabl ydoedd
Y lle y ganwyd Crewr mawr y bydoedd !
Ond *doethion* oent ddirprwywyr y cenhedloedd,
A gwyddent fod prit ryfeddodau'r oesoedd
Ac amgylchiadau godidocaf amser
Yn cychwyn o dan len, yn dechreu yn y dyfnder.

Blinasai'r cenedl ddyn ar odidogrwydd,
Palasau aur, coronau, mawreddogrwydd,
Yr oedd ei hiraeth erbyn hyn am *Berson*
A allai lanw dymuniadau 'i galon.
Nid oedd o bwys pa agwedd fyddai arno,
Pa amgylchiadau fyddai ogylch iddo,
Os ceid defnyddiau iechydwriaeth ynddo.

Nid dod i geisio aur yr oedd y doethion,
'Roedd hynny ganddynt, a thrysorau ddigon ;
Ysbrydol waredigaeth oedd dymuniad
Eu calon hwy, ysbrydol ymddyrechafiad—
Dyrechafiad moesol y ddynoliaeth egwan,
Trwy gaffael yn eu natur Dduw Ei Hunan.

Mae Duw yn ddigon, er dan len o gnawd,
 Mae'n fwy na digon byth er fod ei wisg yn dlawd ;
 Er nad oedd iddo yn y llety le,
 Cai 'u tragwyddoldeb gartref gydag E ;
 Duw ! dyna lawnder holl wagleoedd dyn,
 Mae'n llond ei holl aberoedd, Duw ei Hun !
 Addolaf wrth ei enw, Fythol Fod,
 'Rwyf finnau bellach yn dirmygu clod
 Aur, coron, llys, y byd, yr haul, a'r ser,
 Ac uwch yr oll yn holi am fy Ner.

Addola, f'enaid, gyda'r doethion syn ;
 Ni raid it' bellach ddringo ael y bryn
 I holi y cymylau am dy Dduw ;
 Ni raid i ti, wrth droed yr wybrol riw,
 Ryw bruddaidd ddisgwyl am y cerbyd tân
 A gludai'r proffwyd at ei orsedd lân ;
 O edrych ! mae y ser yn syllu i lawr,
 Fel pe bai'r Duwdod gyda ni yn awr ;
 Nid yn yr uchelderau mae Efe,
 Y dyfnder heddyw yw ei lonydd le.

O ostyngieiddrwydd, hunymwadiad tawel,
 Trwy'ch broydd chwi y cân y ddwyfol awel.
 Mangreuedd distaw'r pur, y mawr, a'r union,—
 Ddyfnderau uchel, uchelderau dyfnion,—
 Mae engyl yn ymweled â'ch gororau,
 Ac ynnoch chwi caed Duw ei Hun un borau !

Y doethion gyda gwylder gostyngedig
 A aent i mewn i'r fangre gysegredig,
 A chanfuant yr olygfa nefol—
 Duw gyda dyn yn addfwyn a chartrefol !
 Pan welsant, gyda Mair, y rhyfedd faban,
 A dwyfol gariad ar ei wyneb eirian,
 O ! nid oedd rhaid petruso dim na holi,
 Ond syrthio i lawr ar unwaith, a'i addoli.

Disgleirdeb rhyfedd ei ogoniant dwyfol
 Am ennyd basiodd dros ei wyneb dynol
 Fel tanbaid hanfod myrdd o ser y borau,
 Ac adwaenasant Ef, gan agor eu trysorau
 A gwyl offrymu iddo o'u hanrhegion,
 Aur, thus, a myrrh, y godidocaf roddion.

Fe glywir yn addoliad pur y doethion
 Yr holl genhedloedd yn addoli weithion.
 Yr holl genhedloedd, trwy y lon ddirprwyaeth,
 Estynnant iddo goron y fienhiniaeth;
 Mae'r seren hithau'n cynrychioli anian,
 Gan roddi ar ei ben ei choron eirian—
 Caiff rodio ar y môr, a'r don a rewa
 Yn balmant dan ei draed pan ei cerydda.
 O flaen ei gerydd gwywa y ffigysbren;
 A phan orffenna'i waith agora'r wybren
 I'w roesaw tua thref, a chwmwl gwyn
 A'i derbyn oddiar yr olaf fryn.

O sylweddolydd tynged y ddynoliaeth!
 Nid oedd llywodraeth Adda ond proffwydoliaeth
 O'i gyffredinol ymerodraeth Ef
 Sy'n cynnwys defnydd, uffern, ysbryd, nef.

Mae canol bwnc y ddirfawr greadigaeth
 Yn awr yn trigo yn y deg ddynoliaeth;
 Mae holl aelodau teulu mawr y cread
 Yn cwrdd yn Bethlem wedi hir ysgariad;
 Mae daear yma yn ei phrif gynhyrchion,
 Aur, thus, a myrrh, y goreu o'i hanrhegion;
 O'r greadigaeth nefol fry anfonwyd
 Y seren olaf loewaf a oleuwyd;
 Y drydedd nef sydd hefyd yn bresennol
 Mewn myrdd o engyl, corau'r fro anfarwol;
 Mae'r pontydd nefol wedi eu hadgyweirio,
 A'r angel glân o'r ochor draw yn rhodio;
 Anfonodd y cenedloedd pell eu doethion,
 A'r Iddew agos ei fugeiliaid union;
 Y mae yr Iddew mwy, a'r cenedl ddyd,
 Y seren bell, a'r angel, oll yn un;
 A'r rhwymyn rhyngddynt heddyw sydd dragwyddol,
 Y mae yr oll yn un, a Duwdod yn y canol.
 O! caffwyf finnau, y pechadur gwaela,
 Ryw dawel le o fewn anfeidrol gylch Ephrata.

Prif ryfeddoldeb gras, bytholwyrth cariad,
 A syndod penna'r nef, yw'r ymgnawdoliad;
 Y dyfnaf fan ar fythol fôr duwioldeb,
 Addolaf fyth ar lan y rhyfeddoldeb.

Am filoedd o flynyddau y ddynoliaeth,
 A syrthiai i lawr trwy eigion colledigaeth;
 Llwyf fethodd beirdd, diwygwyr, athronyddion,
 I'w hatal hi—cyflymai i lawr i'r eigion.
 Ond Duw ei Hun a wisgodd hon am dano,
 A chododd, cododd byth o'r funud honno.
 Os oedd yn uchel yn ei disglauer gread,
 Hi gŵyd yn llawer uwch trwy'r ymgnawdoliad;
 Hi gŵyd yn awr i uchder cyfatebol
 I'w urddas Ef, y cadarn Dduw anfeidrol.

Mae darostyngiad Duw ei Hun
 Yn cyfiawnhau dyrchafiad dyn,
 Cawn ddringo byth i'r lan!
 Cawn esgyn o Ephrata bêr,
 Cawn fyned heibio'r haul a'r ser
 A'r angel yn y man.

Os daeth fy Nuw i lawr o'r nen,
 Gan ado fry ei orsedd wen,
 Os plygodd Ef ei ddwyfol ben
 Am onid ennyd awr,
 O, pwy a faidd fy lluddias i
 I esgyn tua'r nefoedd fry
 Ar hyd y ffordd y rhodiodd Rhi
 Ar agwedd gwas i lawr.

Emmanuel! O enw cu!
 Emmanuel! Duw gyda ni!
Duw gyda ni—y dechreu yw—
 Y diwedd fydd—*Ni gyda Duw!*
 Ni gyda Duw y trydydd dydd
 Yn dod o rwymau'r bedd yn rhydd,
 Ac o Bethania gydag Ef
 Yn esgyn tua nef y nef,
 Ni gyda Duw y dydd diweddaf,
 Fel engyl ar y cwmwl olaf!

Ar ol mwynhau y bur olygfa nefol,
 Astudio holl linellau'i wyneb dwyfol,
 Fe deimlai'r doethion mai yr Iesu ydoedd
 I lanw holl ddymuniad y cenhedloedd.
 Ymollyngasant i bereiddiaf hun,
 A, do! fe gadd yr alltud genedl ddyn
 Orffwysfa yn y man, a bythol gysur

Wrth weled Duw ei Hunan yn ei natur,
 Duw yn y cnawd yn gwenu ar bechadur!
 O felus hun! y cyntaf hun a gafodd
 Er pan ag Eden deg yr ymadawodd.

Yn nyfnder eu hyfrydlawn gwsg, rhybuddiwyd
 Cenhadau'r dwyrain, mewn nefolaidd freuddwyd,
 I ochel Herod a Chaersalem mwyach,
 A thraethu'r hanes i'r cenedloedd bellach.

A'r cenedl ddyn am dymor ymneillduai
 O wydd y dwyfol Geidwad, fel y gallai
 Gael hamdden mewn distawrwydd ac unigedd
 I weithio allan yr adferiad rhyfedd.
 Cyfarfu'r cenedl ddyn âg Ef drachefn,
 Pan oedd y Groes a'r beddrod o'r tu cefn,
 Pan oedd Calfaria creigiog wedi ei groesi,
 A'r bedd mewn buddugoliaeth wedi ei lyncu.
 O! byth nid ymadawodd mwy â'i Geidwad
 Ar ol ei gwrdd *tu draw i'r Adgyfodiad!*

C A L F A R I A .

CALFARIA, cloai fwriad—y ddyfais
 Ddwyfol ei chynlluniad;
 Clo fry roes Calfaria rhad
 Ar adail trefn gwarediad.

Gwelaf Ras ar Galfari,—ei foroedd
 Ar Galfaria 'n torri,
 Moroedd Iawn! mawredd i—guddio 'mhechod
 Dyma ryfeddod! môr i'w fodd!

Swn euogrwydd sy Niagra—swn hedd
 Sy 'n uwch o Galfaria!
 Llefwyd, "Gorffennwyd," a pha—lef ddynol,
 Ie, neu ddwyfol, a'r ni ddofa?

Am lu Salem, â'i lais ola—rhyw hael
 Eiriolaeth anadla;
 Uwch y ser pa achos a—dry yn ol
 Os clywaf eiriol dan loes Calfaria!

M O S E S .

Nos Gosen.

C AI Seion Duw 'n Gosen deg
 Hyfrydaf fore adeg,
 A llawenhau mewn llon hwyl
 I ffyniant Ioseff anwyl.

Ond nos ddu, pan ddarfu 'i ddydd,
 Syn lennai Gosen lonydd.

Anuwiol frenin newydd—a godai
 Yn gadarn ormesydd,
 A'i bennaf waith rhoi beunydd
 Atal ar ffawd teulu 'r ffydd.

Cenedl gyfan weithian aeth
 Am oesau dan ormesiaeth ;
 Is y cyni os cwynid,
 Trymach bob awr a'i llaw 'r llid.

Dan wylo codi wnelynt
 I'r Aifftiaid gau, gaerau gynt ;
 Yn ngwlad yr Aifft cynglydu
 Caerau certh â'u dagrau cu.

O ben pyramidiau bu—eu gwaedd brid,
 O erch ofid, yn aml ddyrchafu ;
 Ior o'i nef tosturio wnai,
 Gwrandawai 'u cri 'n y diwedd.

Pan roddwyd arch arswydawl—dieflig
 I dafu 'u meib swynawl
 I'r afon, f' arwr hyfawl—gyfodwyd,
 Ef addfedwyd i'w ryfedd ddyfodawl.

Y be bryn Moses.

Wele weithian faban fydd
 I'r had yn fawr waredydd ;
 O! bydd lawen, Gosen gu !
 Y maban gwan sy'n gwenu
 Ar fron Iochebed mor frau,
 Yn ddios heria dduwiau,
 Duwiau 'r Aifft oll, ryw dro,—a Pharo syn
 Anwar euog-ddyn, a gryna rhaiddo.

Iochebed! rhoist achubydd
 Egyr ddor yr aig ryw ddydd.
 O, dyna gryd yn dwyn grym
 Mwy na moroedd mewn mawr-rym!
 Fe gâr engyl ymyl hoff
 Ei gywrain gawell gorhoff.

Dri mis o dirionder mam,
 Y denawl fychan dinain
 A guddiwyd; gorchudd gweddi
 Uwch ei ben oedd ei chob hi.

O chwynai 'r un bach ennyd,
 Toai gwae y tŷ i gyd,
 Rhag i'r Aifftiad ofnadwy
 Weld y man, a'i glywed mwy.

Os bu o boenau lais babanol,
 Deuai Miriam a'i chân dymhorol
 I'w foddi; ernes fuddiol—o'i cherdd hi
 Wedi boddi yr Aifftiaid beiddiol.

Ei fendigaid fwyn degwch—yn ei gryd
 A wnai greu llonyddwch
 I'w fam ac i Amram hoff;
 A oedd gorhoff hawddgarwch
 Fel hwn, i lwyr ddiflannu
 Dan don yr afon a'i rhu?

Pan fethodd ei fam ei noddi—yn hwy
 Rhoes Naf feddwl iddi—
 Mewn cawell mawr gerllaw 'r lli
 Ei rhoddwyd, â thaer weddi.

O draw 'n gwylio 'r cawell,—mewn ing caled
 Am ei arbed, sai Miriam o hirbell.

“O 'mrawd bach, O 'mriw di-baid,”—
 Ynganai o ing enaid,—
 “Mae yn rhyfedd, min yr afon,
 A'i llif oer hi yn lle y fron!
 Yn lle braich anwylfraich 'nhad,
 Mae dinawdd hesg am danad.
 Trwy dy nerth, O tyred, Naf!
 Achub, O Dduw Goruchaf,
 Er Abram ” —

Ust! sw'n camau
 Hoenus hwnt, glywai 'n neshau.
 Tywysoges eres oedd,
 Odwych ferch Pharo ydoedd;
 O bell gwelai 'r cawell cu,
 Ac archodd un i'w gyrchu.

Duw yn awr a dyneroedd—ei mynwes;
 Ac i mewn pan syllodd,
 Anwylaf faban welodd,—ei wyneb
 A'i dlysineb di-ail a'i swynodd.

Gweld plentyn gŵyl yn wylo—a'i trwyadl
 Droai i'w anwylo;
 Ei hawddgar wedd, a'i ddagrau, O—ar goedd
 Pe llysaï bydoedd, pwy all'sai beidio?

Yng nghôl hesg ai angel oedd?
 Ai o fyd, ai nef, ydoedd?

O'i hymguddfa Miriam aeth,
 Gan ofyn mewn gwyn afaeth
 "Af fi i chwilio am famaeth?"
 "Ei," medd hi,—ond, mam a ddaeth!
 Ei fam ei hun! Fu mwy hoen
 I Efa yn ei haf-hoen,
 Yn Eden fro lawen lwys,
 Mwy erioed yn Mharadwys?
 Ebe hi, gan roddi bywyd
 I un oedd fel mewn newydd fyd,—
 "Y bachgen hwn a gwenni,
 A maga fab myg i fi;
 A mi a wnaf am hyn oll
 O degwech gyflog digoll."

Cyflog ardderchog a ddaeth
 I gariad—ei fagwraeth!

Addysg Moses.

Ar ei addysg ymroddodd
 Ei hygar fam o'i gwir fodd.
 Ei gynnydd myg yn nawdd mam
 Oedd ebrwydd yn ffydd Abram.
 Ar ei bron dysgai 'r Hebraeg,—heniaith bêr
 Ei llwyr hoffder, cyn sill o'r Aifftaeg.

Dysgai 'r brid addewid ddaeth
 Am wiw wlad y mel odiaeth,
 A'r hynod gyfamod fu
 I'r genedl ei thrigiannu,
 Am angel Bethel, am bob
 Digwydd ym mywyd Iagob.
 Aethant unwaith ar daith deg,
 I weld, is ser dwyfoldeg,
 Unig fedd Ioseff anwyl,—
 Ef, a'i fam, a Miriam wyl;
 Yno adroddai 'r hanes
 O'i dderch swydd, a'r llwydd, a'r lles
 A wnaeth i Seion ethol,
 Seion nef oesau yn ol.
 "Rhoes arch i'r patriarchiaid,"
 Eb hi â dagrau di-baid,
 "Y dydd eu gofwyai Duw,
 I'w dwyn o'r caethdy annuw,
 I grynhoi ei esgyrn ef
 A'u hedryd tuag adref."

Ac o newydd aidd Moses cyneuai
 Yn fil tanbeidiach, gloewach, pan glywai
 Am ei linach ymlynai—'n fil tynnach,
 Gwych ffawd ei âch mwyach nid amheuai.

Deuai i oed o'r diwedd—i fyned
 I fewn i'r llys rhyfedd,
 I ganol pob gogonedd
 A'r lleuer sy gerllaw 'r sedd.

Bu yn fab yno i ferch
 Y brenin—parai 'i annerch
 Trwy 'r holl lys megis ei mab,
 Ei gwir dywysog arab.

Ni fu erioed o flaen uchelfrydedd
 Fath ragorol anarferol fawredd;
 Y werin, gan ei eirian ogonedd,
 Ar bob tu yn canu Abrec unwedd;
 Onid hefyd yn enwog etifedd,
 A rhwysg ei arsaug ar risiau gorsedd?

Am ei harddwch, ei fawr rym, a'i urddas
 Fe roddwyd arno fawredd y deyrnas,
 A'i rheol lwyddol ar ei law addas;
 Tra eon biler cryfa 'r teyrnbalaas.

Maeddai y byd am ei dda wybodau,
 A'i weithredoedd i gyd yn eithriadau,
 Acw mal uwchlaw cymylau—y ser crog
 Ior oedd oludog o'i arddeliadau.

Ond er y gwychder i gyd
 Nid oedd ond anedwyddyd ;
 Y gwiw boreuol addysg barhâi
 Y ddwyfol lôn yn Gosen ddysgasai,
 Yn ei gyfoeth bedd Ioseff a gofiai,
 A delw anwyl ei fam a'i dilynai,
 A'r addewid fawr ddeuai,—a'i fron lân
 O'r llys seirian am Ganan ymgwynai.

Ni pheidiodd yr argraffiadau—mewnol,
 Nes myned fel tonnau
 Y môr, sy'n dryllio'r muriau
 Y rhai geir yn ei ar-gau.

Ef, unwaith, os penderfynai,—heb os
 At ei bwnc y cadwai ;
 Mwy'n ddi-sigl fel mynydd sai,—yn ddiddadl
 Mewn gallu trwyadl mwy'n geltl troai.

Gwrthododd lon swynion y presennol,
 Draw am eu gwell, gyda dirinyg hollol ;
 A rhwym hapusaf ei fri mabwysol
 O egni ei fryd rwygai'n fwriadol
 Er mwyn bod gyda'r bobl gyfauodol.
 Gwelai ei ffydd ar gynnydd trwy ganol
 Gwyll eu hadfydau, fil gwell dyfodol,
 Bore trwy gaddug, gwobrwy tragwyddol.
 Gwelai un difai, un glân a dwyfol,
 O Judah'n dyfod, a'i ddodi'n y dafol
 'N erbyn trosedd torf ryfedd afrifol ;
 Synnai ef edrych ar bwys anfeidrol
 Ei foddloniant yn llwyr droi y fantol,
 A'i hael haeddiannau'n codi'r hil ddynol,
 Rhai oedd yn feirwon, i urdd anfarwol.

Duw Isaac, efe a'i dewisodd,—a'i bobl
 Am byth a briododd ;
 Gosen eilwaith a geisiodd,
 Berth fan, a bu wrth ei fodd.

Gwelai Aifftiwr digywilydd—yn taro
 Ei frawd tirion, llonydd,
 Rhyw hyfwyn lafurwr ufudd,
 Is ei arw dasg y nos a'r dydd.

Enynna'i lid yn union—dros yr had,
 Ac ar eiliad lladdodd y creulon.
 Mewn tywod mân y toai
 Y gelyn erch; disgwyl wnai
 I'r genedl ar y fath arwydd—godi
 Yn gadarn o'u haflywydd,
 Eu myrdd oll, i ymryddhau
 O rwydau eu gwaradwydd.

Ond torasai y treisydd
 Di-ffael eu hysbryd a'u ffydd;
 Digalon gyda'u gilydd—yn llwfrhau
 Is pynnau cosb beunydd.

Yn nhir Midian.

Pharo glybu yn fuan—yn ei lys
 Ladd o hono'r truan;
 Rhedai 'i lid yn fôr di-lan; rhag ei ddig
 Yn siomedig ffodd Moses i Midian.

Jethro'n y wlad ddieithriawl
 Roes i'r tirion estron hawl;
 Cadd drigfa gyda y gŵr,—yna,
 I ennill ei fara fel llafurwr.
 A'i ferch yn wraig iddo fu,
 Un nad oedd yn cydweddu;
 Ei chyndyn dwymyn dymer—roi brawf ar
 Brif wron llarieidd-der;
 O hyn oll fe barai Ner
 Y dda fendith, addfwynder.
 Ei enaid, rhy danbaid oedd
 Odid rhy eon ydoedd.

Ni fyn Ion ddefnyddio neb,—nes tyner
 Dro'i'n iawn wylde ei hunanoldeb.

Yn mad unigedd Midian,
 Nos a dydd, ai is ei dân;
 Am lawn ddau ugain mlynedd
 Yno bu yn dyfnhau bedd
 I'r gau hyder ddaeth trwy 'i godiad,
 Yn swynawl lys anuwiol wlad.

Ffrwyth unigedd deugain mlynedd
 Oedd gwiw wyledd newydd galon ;
 Yfai'n helaeth ar fugeiliaeth
 O naturiaeth ei wryn tirion.

Oedd barod i'r anwar elyn Pharo,
 I wneyd i'w war is ei ddyrnod wyro ;
 Ydoedd barod, wedi i Dduw ei buro,
 I ddwyn cenedl oedd fythoedd yn cwyno,
 Oll yn ol i'r freiniol fro,—mewn urddas,
 Yn genel addas ogonawl iddo.

Er eu lles, mwy na'r oll oedd,
 I'r Duwdod parod ydoedd !

Enaid gwyn wedi ei waghau—weithian,
 I Dduw ei Hunan ei lanw â'i ddoniau !

Awrgloch gref arfaeth nefoedd,
 Taro'n awr yr awr yr oedd,
 Yr awr o ddurfawr rhyddhad,
 I hil y dwyfol alwad.

Ar fynydd Ior, hen Horeb—fe welai
 Nefolwych ddisgleirdeb,
 Perth yn fflamio yno heb,—ei difa
 Yn hardd ddiana yn ei gwyrddineb.

Angel Duw o'r dringawl dân
 I'w waith a'i galwai weithian
 Wrth ei enw, o'r berth hynod,
 Rhoi gyhoedd arch rhag ei ddod
 I le mor fad, teml mor fyg,
 O ry-afiaeth a rhyfyg.

“ Myfi yw Duw—Duw dy dad ”—eb Efe,
 Byw fyth yw fy mwriad,
 I roi i'w hil ef y lér wlad,
 Drwy ynni dy arweiniad.

“ Wr ethol, dos ! Trwy'th law di
 Daw'r genedl o'i dir-gynni.”

Arwydd ei bobl.

Wedi dileu 'i wrthddadleuon,—Moses,
 Y grymusaf wron,
 Ai'n awr i'r Aifft anhirion,
 Yn fawr wr drwy enw'r Ion.

Aaron wnai Ion yn enau—i'w was pur
 Beunydd i'w antur; bu'n dduw yntau,
 I roi yn eglurhaol
 Eiriau Naf i'w gâr yn ol.

O gyson deithio i Gosen daethant,
 A newydd ddadguddiad gras draethasant
 Wrth bennau y llwythau dan eu llethiant
 Faith res, ger Moses ymgrymasant;
 Rhoddes Ior ar ei ddau sant—arddeliad,
 Ar ei ddau gennad urdd o ogoniant.

Yn had Abram dadebrai—ar unwaith
 Y rhin a'i nodweddi,
 Sef cred i'r oll ddywedai
 Eu hoff Dduw fyth—ffydd ddi-fai.

I gadarnhau eto 'i eiriau tirion
 O flaen y genedl oedd dan flin gŵynion,
 Arddelai Ner hardd wialen Aaron
 I wneyd enwawg fawreddawg arwyddion;
 Bu i law ffydd yn abl ffon,—oedd beunydd
 O nerth i'w crefydd gan wyrthiau cryfion.

Cenedl ryw heb lyw, heb wlad,
 Oeddynt, a heb ddatguddiad
 O'r Nef, er eu hynafiaid,—Ioseff dda
 A roos yr ola i'r Israeliaid.

Rhyfedd oedd canrifoedd heb
 Oleuni'r dwyfol wyneb!

Wedi blynyddoedd gannoedd o gwyno,
 Heb un gweledydd pur i'w cysuro,
 Wele o Horeb oleu i euro
 Haf eu hynotaf dyngedfen eto.
 Rhyw gadarn lyw ar gydio—'n Dduw-nerthawl,
 Yng nghyrn hy ffwyrwl, yng nghoron Pharo.

A dieithr rym daeth yr awr,—i archu 'r
 Erchyll deyrn trahausfawr
 I ryddhau, er mawredd Ión,
 Ei dirion had o'i orawr,

Yr ymdrech a Pharo.

Yn syth i'r teyrnllys aethant,
 Drwy ddwys sêl dwedai 'r ddau sant:—

"Wele, ein Duw, fel hyn y dywed,—'Rhô,
Cyn im' hirio, i 'mhobl gŷn ymwared;
O'i boen, fy hoff gynfab i,
O'i holl ing a ollyngi'."

Ond y brenin, erwin ŵr,
Hiriai 'n hyf fawr enw Iôr,
Oedd yn dal ei dduwiau 'n dŵr
O rym mwy ar dir a môr.

Rhag rhoi ymwared Duw a galedai
Ei galon anhirion; y teyrn a'i heriai;
Gwyllt gaer ei galon yn gelltgraig elai,
O'i fan wych sedd fel y dyfnach suddai
I fedd mor ddwfn, na fyddai—unrhyw ol
O'i honiad fythol pan ei difethai.

Fal ffwrn o ufel ffyrnig
Yn bwrw fflamau 'n donnau dig,
Felly y teyrn hy yn awr,
Gan derfysg a gwŷn dirfawr
Tarannai, arwyddai raith—mwy creulon
Am orchwylion mil mwy erch eilwaith.

Gwyllt atal y gwellt, eto
Yr un gwaith trymwaith bob tro;
Archai bob un roi 'r un rhi
Yn fanwl o briddfeini,
A'u hedliw gai 'r genedl i gyd—eilwaith
Is eu gorwaith am eu seguryd.

O'u chwerwon garcharau—ai 'u gwaedd uchod
I'r gloewbell ofod,—Ior glybu 'u llefau.
Ar lawr y llys teyrnllys teg,—arwr glân,
Jehofah i hunan dafiai 'i herfaneg.

Ger bron y gormeswr balch, pan fwridd
Yr hoff wialen, hi 'n sarff a welid!
Trwy 'i balas ei hysplandra trybelid
Odliwiau erchyll a adlewyrchid;
A'r lleill, seirff uffern, o drech cadernid,
O ddiaail wanc, oll ganddi a lyncid!
Oedd ddraig lawn o ddrygawl lid,—bygythiai,
Ei phen dyrchai, a'i chynffon a dorchid.

Ni wnai hyn i'r gelyn gau
Eu gollwng o'u dyfn gellau.

Onid ail ei hudolion—yn eu mais
 I Moesen ac Aaron?
 Hwythau a wnaethant weithion
 O wiail seirff, pa les son.

Ni wyddom ni, braidd, ddim yn awr,—am rym
 Yr hen Gelf euogfawr,
 Ai rhyw rith lwydrith dan len
 Ai uthr elfen gythreulfawr;
 Digon in yw fod gan Ner
 Derfyn ar ei du arfer,
 Ac iddo 'n awr ei goddef
 I'w amcanion union ef,
 I galedu gwael adyn
 Is erch anghrediniaeth syn.

Ar hyn daeth uthr farnau Duw
 A dinistr i'r wlad anuw;
 Enynnawl farnau 'n unig
 A'u rhyddhai rhag Pharo ddig.

Y Nilus, o holl anwylion—ddi-rif
 Dduwiau 'r Aifft echryslon,
 Addolid gan eiddilon
 Fel duw pennaf uchaf hon.

Rhyw fore 'n ol ei arferiad—Pharo
 Ddelai yno o dan ddylanwad
 Ei goel, i roi moliant gau,—yn dra gŵyl
 Ger ei Neil anwyl plygai 'i heyrn liniau.

Moses hefyd yn rymus a safai
 Yno, a'i gadarn wialen godai
 Ar ei dŵr rhuol,—duw Pharo drawai
 Ar ei wyneb, cledd Ior a'i trywanai,
 A'i waed allan bistylliai—ger ei fron,
 Hoff fywyd calon yr holl Aifft ceulai.

Erech olwg! Yr archelyn
 I'r Ior ni chredai er hyn.

'Rol haint y llyffaint, doi'r llau
 Ryw flin ddi-rif filiynau,
 E wnai 'r farn hon yn rhy fyr
 Gwasanaeth y gau swynwyr;
 Ei durfing wae roes derfyn
 I'w bost hwy—"Bys Duw yw hyn!"

Pla ar bla, bob tro 'n fwy blin—Duw yn awr
 Uchod a erfawr awchai eu durfin
 I erchyllach archolli
 Haiarn fron y teyrn a'i fri.

Yn y man, er dychryn mwy
 Ar y dud anghredadwy,
 Duw roes i'w was Moesen—(rhoes cyn hynny
 "R holl ddaear obry) allweddau 'r wybren.

Tywallt wnai ar yr Aifft eon
 Fellt, a rhwysg barfoltau yr Ion.

Ond bro wen Gosen i gyd
 Fel Gwynfa, ail gwahanfyd,
 Yn nawdd Duw gai hindda deg,
 Drwy y llid yr holl adeg.
 Gwenau haul gai yn helaeth,
 A hedd Ior drwy i goror gaeth;
 A ser, y nos, eurai i nen
 Odidog, fel mwd Eden.

Eto amledodd tywyllwch teimladwy
 Uwch yr anedwydd Aifft ddychrynadwy
 I unrhyw fynediad rhy ofnadwy,
 Nifwl ydoedd i law 'n afaeladwy!

Ac addo wnai Pharo ffol—roi rhyddhad
 Yn ei fwriad ffug-edifeiriol.

Yn ol ei arferol fodd,—rhyfygus
 Wr hyderus, ei air a dorrodd.

Mae 'r oruchwyliaeth, y mawr archelyn,
 Ie, a'th yrfa, bron ar ei therfyn;
 Unwaith eto, Duwdod dyn,—adyn gwael,
 Ei gynfab Israel o afael d'efyn.

Duw Iôr aeth allan i daro—yr Aifft
 A'i rym unwaith eto;
 Ei gref fraich lwyr rwygai 'r fro
 Y synnawl farn-nos honno.

Jehofah nododd gyntafanedig
 Pob ty heb arbed i'r cledd llymedig,
 Bu uthr y dinistr heb eithriad unig;
 Ceid un marw ymhob tylwyth adwythig.

Draw o wych adail y llys derchedig
Obry hyd gleidŷ'r gaethes gloedig.

Myrddiynau meirw oedd hanes—anaele

Yr un eiliad eres!
O'u cyfrif ni fu cofres,
Rhy fawr i rif y farw res.

Anifail a dyn hefyd
O'r eang wae'n marw ynghyd.

Ar hanner nos dychrynnwyd—mil floedd
O deuluoedd, eu gobaith dilewyd ;

Un ddolef rwygai'r nefoedd
Un fin genedlaethol floedd.
Clywid myrdd, myrdd, ymhob man,
Heb un cynfab yn cwynfan.
Bu y nos i gynfab Ner
Yn bur adeg ddibryder;
Nos o lwydd, nos o wledda,
Ei chof bereiddgof barha.
A! diben y cysgod-aberth
Arwyddai waed mwy fyrdd ei werth.
Gwaed yr Oen oedd gysgod rhad
O'r Siloh a'r Croeshoeliad.

Lle gwelid gwaed yn gwridaw
Tua'r drws, ai'r dinistr draw;
Yr angel uchel ei law
Er aberth yrrai heibiaw;
Ei finiog gleddyf a weiniaï,
Gan fflamio i'w daith ymaith âi.

Pharo'n awr rhwng cyrff aneiri—ddeffrodd,

Ryfedd ffrawd, i erchi
Jubili i holl bobl Ion
O'i dynion heyrn gadwyni.

Gudael yr Aiffl.

Gwthiaw ffwrdd yr holl gaethion
Wnai ei weis ef y nos hon,—
“Ewch ar frys, oll, ewch o'r fro
Enbydus hon, heb ado
Heno o'ch eiddo haeddol
Yn yr Aiffl ewin ar ol.”

Ar bob tu i'w gyrru 'n gynt
Rhoddodd yr Aifftwyr iddynt
Liaws gloew o dlysau glân,
Rhai gorau aur ac arian.

Yn y nos cychwynasant,—byd ni wêl
Fyth genel dan y fath ogoniant.

Dygai Moses eu huchelres
O Rameses yn rymusion,
Heb un llesg, heb yn y llu
I'w gelu wr digalon.

Eu tair miliwn o'r Aifft drom a elynt,
Gydag urddas milwrddull cydgerddynt
Yn lluoedd addas, a'r oll oedd eiddynt
Yn ddiogel o Gosen a ddygynt ;
A hoff gais eu Ioseff gynt—i'w tadau
O flaenau oesau a gyflawnasynt.

Y lân golofn dân dywynnai—y nos,
I niwl bob dydd troai;
Dwyfol arweinydd difai
Byth yn nef! Pa beth a wnai
Elfen deg y golofn dân?
Tywyniad Crist ei hunan!

Hon a droes yn fuan draw,
O fwriad i'w cyfeiriaw
O gylch, rhag Philistiaid gau,
Hyd anial llwm diwenau ;
Y Môr Coch oedd fel mur cau
Ar draws holl rawd eu rhesau.

I ble'r ai y bobl ar hyn
A'r tyrfog fôr eu terfyn,
O dan eu hing? Onid nes
Dros eon Guldîr Suez?
Na! Ior fyth berffeithiai'r farn,
Ailgodai ei law gadarn
I lwyr ddial ar ei alon,
A maeddu 'u dig ym medd y don.

Unwaith eto Pharo ffol—wr creulon,
Ymlidiai a'i weision aml dewisol.

Gyrrodd, goddiweddodd hwy
Ynghyd mewn cyfyng adwy,
Ag angau yn dal cyngor
Ingol, rhwng Migdol a'r môr.

Diau hanner nos dynion
Yw bore ddydd ebrwydd Ion.

Ar hyn, y golofn orenwog elai
'N fawrwych o'u hol, a'r ddau lu didolai,
Israeliaid â'i gwawr a siriolai,
A'u hen elynion â niwl barn lennai.

Moses hyglood, ei wialen gododd,
A thros y tonnau uthr ei hestynnodd;
Yna dwyre'nwynt cryf a daranodd,
A'r môr ei hunan â'i rym a rannodd,
Ar wŷs Jehofah yn ddau fur safodd,
A rhyngddynt rhodiynt yn dorf waredol,
Drwodd hyd yr heol,—lle yn chwerau
Eto'n y borau ceid tonnau berwol.

Tu ol i'r dywell golofn,—ai'r beiddiawl
Lw anuwawl ar eu hol yn eofn;
Gyrrai fyth yn fwy gerwin,
Ni welai i ble, gan niwl blin.

Darganfu'r teyrn drwg ynfyd,
A'i rychwyrn gedyrn i gyd,
Yn rhy hwyr, mai y môr oedd
Bob llaw am bawb o'u lluoedd.
Rhy ddiweddar oedd iddynt
Ddiengyd o'u hynfyd hynt.
Y wialen gref eilwaith
Droai'r môr draw i'w rym maith,
A'i ddau fur a doddai fel
Eira nef ar ffwrn ufel.
Ofer oedd edifarhau
O dan y ffyrnig donnau;
Natur ei hun yn troi oedd
Ei llaw i faeddu'u lluoedd.

Y gwylltion wenyg holltynt—eu gleiniawg
Olwynion pan yrrynt;
Tua'r nefoedd draw nofiant,—cerbydau
A thramawr donnau aruthr am danynt.

Pharo gerth, yn nerth ei nwyd,
A'i fyddin oll a foddwyd.

Y tu hwnt i'r Aifft a'i hawl,
Awen Moesen rymusawl
Seiniau fawl, ragorawl gân,
Arweiniau'r côr ei hunan;
A rhif y ser, dyrfa syn
O addolwyr i'w ddilyn.
O'r tu arall i allu
Ein llygredd a'r dyfnfedd du,
Ei gân fyth dawdd i gun fawl
Gwiw "Gân yr Oen" gogonawl.

Yn yr anialtuch.

Daeth i'w braint y fendith brid
O warediaeth a rhydid!
Gwaith Moesen fwyn mwy'n eu mysg
Oll oedd eu diwall addysg.

Goruchwyliaeth eu disgyblaeth
I wedd odiaeth sancteiddiedig,
A'u cymhwysiad i addoliad
I wir rodiad pobl buredig,—

Bellach, oedd anhawddach nod—nag agor
Gwgus fôr o'i waelod;
Dwyn y bobl o gadwen bai
A fyddai yn fwy rhyfeddod.

Yn fuan wedi glaniau
Ar hoew wychr drefn yr ochr draw,
Eu gorddig wrthnysig nwyd
Anghyson a ddanghoswyd,
O'u mawr siom yn Mara sur,—
Aur adeg i'w Gwardur!—
Ni chofient eu huchafiaeth
Na'r hoff deg hynt o'r Aifft gaeth;
Ond, heb achos, cydbecku,
Tuchan am ddwfr, rhyw lwfr lu!

Moses dduwiol a eiriolai,—yn daer
A Duw a'i gwrandawai;
Y pren i'r dŵr pan fwriai,—Israel brudd
Liaws anufudd, meluswin yfai.

Wedi Mara, mor dymhoraidd
 A fu Elim, le nefolaidd,
 Fro y peraidd ddwfr puraf !
 Deuddeg ffynhonnau diddan
 O heulog liw crisial glân
 Yno geid rhag eu hadwyth
 Bob llaw, sef un i bob llwyth.

Yn anial Sin cynhennai,—y genedl
 Ddrygionus, pan welai
 Y trysor ystorasai,
 Yn eu llwybr yn mynd yn llai.

Gwaeddent, achwynent am grochanau,
 Llon doraeth yr Aifft a'i llawnderau,
 Heb unwaith feddwl am boenau,—ei hiau faith,
 Neu gofio unwaith eu gefynnau.

Duw a roes, ar gais Moesen
 Fara yn hael fry o'i nen ;
 Cryndeg fel had coriander,
 Fel mel ddiliau'r borau 'n bêr.

O fyw rhyfedd ! Tyrfa afrifawl
 Yn hyfryd dyfu ar ford dwyfawl !
 Anial Sin wnai'n le swynawl,—i'w miloedd
 Yd y nefoedd oedd yn wledd ddyddiawl.

Trwy uchel faeth angelion—y genedl
 Fagai ynni ddigon
 I yrru myrdd o ddewrion
 Hyglod, ail us, o'u gwlad lon.

Yn eu heisiau tuchanasant,—eilwaith,
 Ond wele Ogoniant
 Ior yn syn gerbron y sant—ar graig grog,
 Arwydd o'i enwog ddwyfol urdduniant.

Ei ddihafal wialen
 Darawai'r graig, hyfgraig hen,
 Allan o honi deilliai'n union
 Wyrthiawl lifiant, ryw nerthol afon,
 Chwyddedig ddyfroedd ddigon—at reidiau
 Y llwythau oll weithion.

Amalec â grym ei lu—ddoi i'w cwrdd,
 Ei gyrch fu agwrdd i'w gorchfygu ;

Ond rhoes eiriolaeth Moesen,—a rhiuwedd
 Yr enwog wialen
 Loew fuddugoliaeth lawen,
 Diail lwydd, i'r genedl wen.

Rhagarwydd o'r rhagorol
 Gadau, yn Nuw, geid yn ol.

Ar fynydd dwyfol gorsynnawl Sinai
 Trwy ddwys ogoniant Ior a ddisgynnai;
 Fel cydllais moroedd Efe gyhoeddai
 Ar ei eithafoedi, ei GYFRAITH ddifai.
 Yn daran ar daran 'n awr ymdorrai
 Ei eirchion unig—'a'r graig enynnai,
 Ar un tarawiad yn ffwrn troai.
 A'r anial mawr grynai—i'r terfyngylch
 A'r genel, ogyrch, rhag Ion, lewygai.

Miloedd, miloedd o dewion gymylau
 Unent eu plygion a'u duon doau,
 I ffurfio cuddlen ar ben y bannau,
 A phabell ordywell i Dduw'r duwiau,
 A'i lu o engyl, rhag cloddio o angau,
 Wrth weld gor-ryfedd glaer ogoneddau
 Ei ddwyfol wyneb, fedd i filiynau.

Wele'n awr ein glân wron
 Yng ngwyddfod hynod ei Ion!

Wyneb yn wyneb fe ymddiddanai
 A Duw ei hunan, nes gordywynnai
 Ei wyneb yntef—fe ganolbwyntiai
 'R gogonedd yn ei wedd, er na wyddai;
 Ei firain agwedd a gyfranogai
 O'r moroedd o wawl, o'r mawredd welai.
 Eiddilwch Israel ni ddaliai—'r purdeb,
 Ei haul-wyneb o olwg a lennai.

Ior rodd i'w gyfarwyddaw
 Ei reith-lyfr i'w nerthol law;
 Diail lyfr i'r genedl oedd,
 Rheol lwys i'r ol-oesoedd;
 Cynllun, cyfamodlun mad,
 Hyd egwyl y diwygiad;
 I'w paratoi mewn pryd teg
 I odiaeth ryfedd adeg

Trwy ddarbod hir i dderbyn
Y dedwydd had—y Duw-ddyn.

O flwydd i flwydd, ei gref law
Wnai'n llonydd iawn eu lluniaw
Yn araf, araf i fod
Yn ddedwydd bobl i Dduwdod.

Ar ben yr hynt oeddynt yn bobl sancteiddiol,
Gwyl a phuredig hil offeiriadol,
Yn barod i esgyn o'u prid ysgol
Adre i gyrrau 'u hystad ragorol.

Rhwydd Moab.

E ganfu'r prid gynfab—yn gynllun-ach
I'r oesoedd mwyach, yn rhosydd Moab.

Addfwyn un, dim ond unwaith
Yng nghyfnod ystod y daith
Y collodd ef ei nefol—larieiddfryd,
Dros ennyd resynol;
Trwy'r gwall fe'i cauwyd allan
O'i lwys etifeddiaeth lân.

Yn ufudd i'r arch nefawl,—aeth i farw
Wrth ei fodd yn hollawl;
A nerthodd Duw yn wyrthiawl,—ei lygaid
I weled y gannaidd wlad ogonawl.

I ben Nebo'n ddigwynion esgynnai,
Canaan dêg eirian oll ymagorai;
Duw, i loniant ei was, a'i dadlennai;
Trwy ei orfoddiant, tra y rhyfeddai,
I anwylach Canan elai,—i wlad
Hapus ei Geidwad, o Pisgah hedai.
A'i Dduw byw a'i claddodd ban
A'i law anwyl ei Hunan.

Mawr fu ym moreu ei fywyd,
A'i hir oes oedd fawr ar ei hyd;
I fyrdd uwch o fawredd aeth
Awr heulog ei farwolaeth;
O! ddialar angladd hylon,—
Fu neb ond JEHOFAH yn hon.

Y GROES.

FFO ymaith, Haul! i gongl dywylla'r nen!
 A gyda thi, dan wgu, aed y dydd;
 Ac O, na ad belydryn ar dy ol.
 Golygfa rhy arswydol hon i wawl,
 A chywilyddia'r dydd ei harddel hi,
 A'r nos ddychrynnai pe bai ganddi lygad.
 Na ddywed wrth y ser, os crwydri i'w plith,—
 Ac i ba le na chrwydri'n awr? Pa le
 Sy ddigon pell o olwg byd fel hwn?
 Y pellder mwyaf, mil rhy agos yw!
 Cei roesaw yno; yno mae y saint
 Yn goronedig, a'r angylion pur;
 A pharch i'r Duwdod yw'r arwyddair fry,
 Yr allwedd aur a egyr byrth y nen
 Gan sicrhau croesawiad llawn a rhwysg
 I bob ymwelydd, pob addolydd ddél
 Pe o ddistadlaf barth cre'digaeth Ior:—
 Ond O! na ddywed wrthynt pam yr wyt
 Yn crwydro o'th gartrefol gylch mor bell,
 Rhag iddynt yn eu santaidd ddigter, oll
 Fry ar eu claer orseddau, dyngu'nghyd
 Na thremiant :r y ddaear euog mwy
 Ar ol dy fachlud, i sirioli'r nos;
 Ac nad ymwelant fyth â'u hathrist loer,
 I'w llawenhau â'u gwenau llawn o hedd,
 Ac i'w chysuro ar ei gyrfa brudd.
 Ti, frenin y planedau, boddllawn fydd,
 Ac amyneddgar—aros gyda ni.
 Enwocach eto fydd y ddaear hon
 Na'r ser i gyd—enwocach trwy y Groes.
 Na chrwydra'mhell gan wylu am dy Dluw,
 Rhaid wrth dy wawl cyn hir i d'wyn i mewn
 Ddisgleiriach dydd o adgyfodiad gwiw,
 Na chododd o wybrennau'r dwyrain draw
 Ei fath erioed er pan y'th aned yno.

Dwed, Leuad deg! Ble'r oeddit ti bryd hyn?
 Yr oeddit tithau, fel y Ddaear dlawd,
 Yn dywell ac yn bruddaidd iawn dy wedd;
 A'r haul ni fynnai dafu siriol drem,
 Na throi ei wyneb golau atat fry,

Na sylwi ar dy ddagrau aml, o lid
 Dy fod yn gwasanaethu byd mor wael.
 Ac wylo'r oeddit mewn rhyw gongl o'r nen
 Yn athrist, fel y gwragedd wrth y Groes.

Gogwydda 'i ben, O wirfoddolrwydd pur!
 Nid marw o boen, ond o ewyllys mae.
 Nid chwi, elynion erch, ac nid tydi
 Felldigaid Groes, a ddyg ei fywyd ef.
 Ei "roddi" mae; pa gariad mwy na hwn!
 Ei "roddi" mae; ei hun y rhodd a'r rhoddwr.

Gogwydda 'i ben—ei ben oedd uwch na'r haul,
 Oedd gyfuwch â Jehofa ar ei fainc.
 Rhy uchel oedd i'w dynnu i lawr trwy drais,
 Ac i ymostwng, ond o hono 'i hun.
 Ei hunan trodd ei ystlys at y cledd,
 Trylymaf gledd cyfiawnder ar y bryn,
 Wirfoddawl Oen yn gwaedu dan ei glwyf.
 Ewch ymaith, filwyr! dyd y goron ddrain
 Ei hunan ar ei ben, a'r bicell erch
 A'i law ei hun i'w galon santaidd gyr.
 Aed Simon heibio. Dug ei groes ei hun
 Er yn flinedig, ac er fod ei ing
 Yn tynnu gyda 'i chwys borfforawl waed.
 Nid Isaac yw; ni raid ei rwymo ef
 A dwylaw ereill. Mae ei law ei hun
 Yn barod, a'i gyfiawnder yw y cledd,
 Ei ddeddf ei hunan yw y gyllell lem.
 Ond A, greulona fyd, rhy lawn tydi
 O ddiennyddwyr yr addfwynaf Oen.
 Dy law, Waredwr, cadw dan dy fron,
 Mae dwylaw torf yn barod ar bob tu
 I'w trochi yn dy waed a chodi 'th Groes.

Efe ni holai fel yr aberth gynt,
 Wrth ddringo ael y mynydd dan ei loes
 A'r allor ar ei gefn—ni holai ef
 "Fy Nhad, mae'r Oen?" Fe 'i gwelai ynddo i hun;
 Ond nid oedd yno angel llôn gerllaw
 I ddangos arall nod i fin y cledd.

Distawa, Ddaear! Tithau, Pilat, taw!
 A bydded Cæsar heb ei goron mwy;
 Nid Rhufain sydd yn llanw'r fainc brydnawn
 Swyddogion y:erodraeth fawr ei Dad,

Cyfiawnder dwyfol, deddf y bydoedd oll,
 Sydd yn ei wysio ef ger bron y faine,
 Uwch mainc na hon tu cefn i len y cnawd,
 Lle penderfynir tynged engyl derch,
 A lle mae bydoedd yn afrifawl dorf
 Dan grynu 'n aros am eu bythol ffawd.

Ei air, ei awgrym, ddymchwelasai 'r byd,
 Gan ddadgortffori llysoedd Rhufain fawr;
 Ei air greasai, uwch yr adfail, lys
 Ar wychach dull palasau 'r dwyfol fyd;
 Ac un o'r engyl (teyrn angylion, ef)
 Ddygasai orsedd glaer o'r wybren fry,
 A byddin o seraffiaid, ac Efe
 A eisteddasai ar y faine mewn rhwysg
 Anfeidrol, a'i holl farnwyr wrth ei draed,
 A'i holl gyhuddwyr ger ei fron yn fud,
 A hollalluawgrwydd yn grymuso 'r farn.

Pa ddynol allu, pa uffernol nerth,
 Pa nerth uffernol dynol yn gytun,
 Allasai ei ddarostwng Ef? Pa deyrn
 Feiddiasai 'i wysio ger ei fron, Efe
 Sy 'n arwain holl fyddinoedd nef y nef,
 A'r hwn wrth natur oedd dragwyddol lyw,
 Y uesa 'n y freniniaeth at ei Dad,
 Yn llanw 'r oesoedd trwy yr yspaid pan
 Nad oedd yr enw amser ar barhad,
 Ond tragwyddoldeb pur yn llanw 'r oll,
 Ac Ef ei hun, a'i hun, yn llanw tragwyddoldeb!
 Mab Duw, a Duw, a Duw mewn dyn oedd ef;
 A'i ganiated yn unig allasai roi
 I'r hoelion lymdtra, ac i'r cleddau fin.
 Fe se'iiodd, do, mewn Nys goruwch y ser,
 Ryw fyrdd o oesoedd cyn ei hoeddi hi,
 Y ddedryd fawr a'i rhwymai ar y Groes;
 Ei air ei Hun trwy enau pryfyn oedd
 "Croeshoelir Ef!" Bloedd iawnder ydoedd hon,
 A chais y ddeddf a roddwyd ganddo 'i hun,
 A'r hon o hono 'i hun oedd ardeb llawn.
 "Croeshoelir Ef!" O Sinai daeth y waedd,
 Ac nid oedd bloedd Caersalem ond yr adsain.

Arafwch, filwyr dig! eich Ceidwad yw:
 O, dygwch rai ei Groes, y mae ei friw
 Yn ddigon id lo er ei fod yn Dduw.

Anfeidrol lid sy 'n plygu 'i ysgwydd Ef,
 Cynldaredd uffern, a digofaint Nef;
 A! fraich a ddrylliai fydoedd dan ei bwys,
 I ddynion yn rhy fawr, i Dduw yn ddwys!
 Ond nid oes cynorthwywr un gerllaw,
 O'r ddaear isod, nac o'r nefoedd draw;
 Ei hunan dwg y llid, ei ddwyfol fraich
 A'i cynnal yn fawreddog dan y baich
 Nes syrthio o'r tu ol i'w Groes brydnawn
 O'r golwg byth, i ddyfnder môr o Iawn.

Ei hun yn gaer o gylch ei eglwys roes,
 Anfeidrol am'ldiffynnwr, ar y Groes.
 Ei hun gwrthsafodd holl fagnelau coll,
 Fel Craig yr Oesoedd, craig y bydoedd oll.

Pistylla gwaed, ac ynddo Iawn, o'i glwy,
 Mae dyn yn rhydd, mae Duw yn foddllawn mwy.
 Gwel byrth y nefoedd yn ymagor fry,
 Clyw udgorn hedd yn seinio o Galfari;
 Yr Iawn yw 'r allwedd a ddatglodd y nef,
 Agorodd euraidd byrth Caersalem gref;
 A'r Iawn a gododd udgorn hedd bryd hyn
 At enau per Trugaredd ar y bryn.

Galewch yr allor, archoffeiriaid, mwy,
 A'r holl aberthau, llwyr ddilewch hwy.
 Ymrwygodd y wahanlen! Dded yn awr
 Y byd ger bron y drugareddfa fawr.
 Caed allor gadarn, do, ac aberth llawn,
 Offeiriad hefyd ar y Groes brydnawn,
 Yr oll yn un, a'r un, trwy'r oll, yn Iawn.
 A! ni raid iddo mwy ddiodef loes,
 Mynychu 'r aberth, nac ailgodi 'r Groes.
 Ni fedd cyfiawnder un gofyniad mwy,
 Mae 'n foddllawn byth yn nyfnder iawnol glwy.
 Holl saethau 'r ddeddf, a holl bicellau 'i llid
 I'w galon fawr derbyniodd hwynt i gyd,
 Ac ni ddaw un o honynt fyth i'r lan
 I agor eilwaith glwyf pechadur gwan.
 Ei holaf saeth, diflannodd yn ei glwy,
 A soddodd yn ei waed ei melldith mwy.

Ai dyma 'r tâl, raslonaf haelaf Un?
 Am ras mor fawr ai dyma dâl y dyn?

Dy wawdio, addfwyn Oen, tra dan y llid
 Yn marw yn dy waed dros fleiddiaid gwaetha'r byd.
 Arafwch, filwyr dig, y Ceidwad yw,
 Y Mab yn llennu yn y dyn, y Duw!
 Mae yna urddas, oes, a chariad cun,
 Diderfyn gariad at golledig ddyn.
 Mae yna gariad mewn gweithrediad llawn
 Yn agor dôr y carchar ag allwedd gref yr lawn;
 O trowch y bicell rhag ei galon gu,
 Mae'n chwyddo'n awr o gariad atom ni;
 Ond na—"heb ollwng gwaed" nid oes i ni
 Faddleuant, nac mewn unrhyw waed ond gwaed ei galon gu.
 Mae'n rhaid ei dryllio, ynddi hi y trig
 Yr unig rin ddyhudda ddwyfol ddig;
 Myn Ior ei hagog hi, o'i mewn y mae
 Y perl o lawn, y pridwerth i'n rhyddhau.
 O tynnwch allan, filwyr dig gerllaw,
 Yr hoelion llymion o'i dirionaf law—
 Y llaw fu'n selio yr ymrwymed gu,
 Yr hen gyfamod am ein bywyd ni,
 Cyn seilio'r byd, cyn cynneu seren fry.
 O na ddywedwch wrtho,—“Gwared d' hun,”
 Pa fodd y gall tra'n gwared euog ddyn?
 Saf, Geidwad mawr! Saf yna ar y pren!
 A'n gobait, os disgynni, fyth dan len.
 Dy waed yw'r unig lawn am bechod dyn,
 A'r unig ffordd i'w wared ef yw peidio gwared d' hun.
 Na wawdiwch ef, O ladron, dan ei loes,
 Mae'ch bywyd yn ei angau, mae'ch nefoedd yn ei Groes.
 Mae'i unig ffordd i'w orsedd yn arwain trwy ei waed,
 Ac wrth ymostwng dan ei faich tyn fydoedd dan ei draed.

“Gorffennwyd!” Mae taranau Horeb draw
 Yn ddistaw oll, ac wybren loew mwy
 O ddwyfol dangnef yn amgylchu'r byd.
 “Gorffennwyd!” Mae y cwmwl tew yn wag,
 Llwyrr gollwyd ei lidiawgrwydd yn y Groes.
 Mae llais yr udgorn cryf yn beraidd mwy,
 O Sinai'n beraidd; tangnef yw y floedd.
 Mae'r bobl yn britho ael y mynydd draw,
 A gyda Moses ant i wyddfod Duw,
 I wyddfod Duw gwyddfodol yn y cnawd.
 A hen wersyllfa'r codwm, fuasai gynt
 Yn sefyll draw o hirbell, droir mwy
 Yn drigfa hedd, a goruchafiaeth lawn

Yw'r floedd a enfyn ei myrddiynau fry
 Trwy holl balasau'r ser i lys y Tad.
 "Gorffennwyd!" Nid oes yn y gyfraith lân
 Lidiawgrwydd; mae yn gwenu uwch y Groes,
 A gwenu bywyd ar farwion mae.
 Neshewch i'r mynydd, nid oes terfyn mwy.
 Mae Sinai'n eistedd ar ei sail mewn hedd,
 A môr o waed yn golchi ei ochrau fry
 Gan ddiffodd fyth ei fwrn o oesol dân
 A chuddio 'i lethrau â thrysorau'r Iawn.
 Pan grynai 'n ddirfawr dan daranau Duw,
 A llais y deiddf oddiar ei fflamiol frig,
 Gan gryfed oedd, yn peri i'r ddaear oll
 Adseinio'n hyawdl mewn daeargrynfau—
 Bregethwyr hyfion areithfeydd y graig—
 Bryd hyn pan grynai 'n ddirfawr, a phan grynai
 Y byd o'i gyleh fel ar ymddatod mwy,
 Amlygwyd Iesu 'n trengu yn ei waed.
 Anfeidrol effaith! Safodd yn y fan!
 Da ganddo ortfwys wedi crynu cyd
 A chuddio 'i ben am oesoedd yn y mŵg.
 Ac i bechadur euog, hyfryd yw
 Cael noddfa gadarn, craig i sefyll arni—
 Lle saif yr oesoedd a lle saif y ser
 I sefyll wedi syrthio filwaith dan
 Ystôrmydd profedigaeth, ac o flaen
 Awelon amser, siomiant ym mhob awel;
 A sefyll nes i donnau angau oll
 Fynd drosodd fythoedd—sefyll yn ddi gryn
 Rhwng chwyldrodau tanllyd ddydd y Farn,
 Pan syrth y ser, fawredlus danbaid gwrff,
 Yn ddrylliau fyrdd ar draws eu gilydd fry,
 Eu deddfau 'n anhrefn, anhrefn eu deddf.

O, nac ymffrostied dyn, y mwyaf hoff
 A'r mwyaf hawddgar, yn ei gariad mwy.
 A chwithau, archangylion, byddwch fud.
 Nid oes anwyldeb yn y Nef wrth hyn.
 Y seren bellaf yn yr entrych draw,
 Yr uchaf, nesaf at orseddfaine Duw,
 Sy'n yfed gwawl ei bresenoldeb byth,
 Gan adlewyrchu ei ddisgleirdeb llawn—
 Disgleirdeb ddallai'r haul â bythol nos,
 Y seren bellaf—pell i'r ser eu hunain,
 Edrycha i lawr trwy 'r anherfynol drai,

Ac ar ein tywyll fyd sefydla 'i threm,
 Ac yma cenfydd Gariad yn gwaghau
 Ag haelaf law holl drysorfeydd y Nef,
 Gan arllwys allan gyfoeth Duw ei Hun.
 Gwel yma'r briodoledd ar ei sedd,
 Y Groes ei sedd, â drain yn goronedig
 Ar Galfari, a'i gwisg yn goch gan waed,
 A than yr ymdrech ddwys yn chwysu—Iawn;
 A'r oll i gadw'r anheilyngaf rai,
 Yr anheilyngaf o'r anheilwng oll.
 Arferol yw y ser o edrych yma
 O'r adeg pan ddisgynnodd Duw o'u plith
 I'r preseb, a'i orseddfaine gyda hwy
 A'i holl balasau ar eu bannau'n wag.
 "Duw, cariad yw;" nid iaith y ser mo hyn,
 Rhy uchel iddynt hwy yr arddull hwn.
 Yr olaf a'r hawddgaraf enw yw
 Ar Dduwdod, ac â llythyrennau gwael
 Ei ysgrifennwyd gyntaf—gwaed yr Hwn
 A gynrychiolid gan yr enw per.
 Ac ni adwaenai Gabriel, er mor bur,
 Ac er mor ddwfn yng nghyfrinion Duw,
 Ni wyddai ef yr un o'i lythyrennau
 Nes ei benodi i drosglwyddo i'r byd
 Y newydd am ei sylweddolwr mawr.
 "Duw, cariad yw;" a fynnai angel glân
 Blymio yr enw? Safed wrth y Groes;
 Mae yno yn ei waed yn llanw'r enw,
 A'r enw'n llanw'r byd o gylch â hedd.
 Wrth weled anfarwoldeb ar y Groes
 Yn marw—Hollalluawgrwydd dan y baich
 Yn plygu—'r llais a roes i fydoedd fod
 O dan ergydion angau yn gwanhau—
 Dedwyddwch pur yn gruddfan dan y dur—
 Pwy feia'r cof os gedy allan mwy
 Holl enwau Duw ond Cariad—Cariad byth!

Y mac'n gyfiawnder hefyd, O mor llyn
 Wrth Fab, wrth unig aer ei goron fawr;
 Bydd ddistaw, Iddew, am dy gyfraith mwy,
 Ac am fanylder ei gofynion hi
 Ar Sinai bell, ei harswydolrwydd mawr,
 Ei llais y daran, mellt yn lampu 'i theml—
 Tyrd gyda mi, danghosaf iawnder mwy,
 Yr un cyfiawnder mewn disgleiriach drych.

Draw gwel dy gyfraith yn crynhoi ei bâr
 O'r oesoedd oll, o blith pob iaith a pholl,
 Elfennau tanllyd, llwythog oll o lid,
 I fynwes eang y Machniydd, nes tyr
 Ei galon ddwyfol gan y ffrwydriad syn,
 Ac nes y detyd cloion dyfn y graig,
 Ac nes ysgydw'r ddaear fel pe bai
 Byd arall yn ei tharo ar ei rhod,
 Ei tharo, a diddymdra yn yr ergyd.
 Ar Horeb bygwth llid yn unig mae,
 Ond yma, rhoi i lob bygythiad rym;
 Yr udgorn yno; yma'r cleddyf noeth
 Yn agor mynwes y Deddfroddwr mawr,
 A'r llafn o'r golwg yn ei briod waed.

Mae engyl yma'n ddistaw. Syndod dry
 Eu holl hyawdledd yn fudanrwydd pur,
 Mudanrwydd doeth ar bwnc mor fawr—nad oes
 Darluniad arno yng nghyrolau'r Nef,
 Na gair a'i gesyd allan yn ei rym
 O fewn holl ieithoedd y nefolion fry
 Sy fyth yn darllen rhyfeddodau Duw,
 Oruchel waith, yn athrofeydd y ser
 Wrth ymbartoi i swyddi'r dwyfol fyd.
 Y mae meddyliau uwch trosglwyddiad iaith—
 Meddyliau sant dan gysgod Croes ei Dduw!

Adwaenoch Ef, nefolion, yn ei waed;
 Mae yna fwy na gwaed i'ch golwg chwi,
 Ac nid yw'r croesbren yn terfynu'ch trem.
 Y mae dyfodol newydd 'nawr o flaen
 Y byd a'r bydoedd yn ymagor draw
 O'r munud hwn—yr ydych yn ei weld
 Yn llawn o anfarwoldeb, O mor deg!
 Mae'r ddeddf yn ddistaw, a fuasai gynt
 Yn ysgwyd llawer nef â'i tharan groch,
 Gan fygwth diorseddu engyl fyrdd,
 Sef dynion wedi 'u gwneyd yn engyl mwy
 Trwy riniau'r gwaed sy'n lliwio'r Croesbren fry.
 Mae gorsedd Ior yn gyfiawn wrth ryddhau
 Byd llawn o garcharorion, tra y ceir
 Ei gallu yn seiliedig ar y Groes,
 A'i haur golofnau 'n ddyfnion yn y gwaed
 O'r golwg, wedi 'u sicrhau am byth.
 Gadarnaf faine! Pwy all ei hysgwyd hi!

Gorseddfainc gras, gorseddfainc iawnder yw ;
Gras yn teyrnasu trwy gyfiawnder mwy.

Angylion ! Pam mor ddistaw ? Mae y gair
"Boddlonwyd,"—gair rhyfeddaf Duw ei Hun—
Yn fil rhy bér, yn fil rhy lawn o swyn,
I neb a'i clywo, pe yn gerub glân,
Ymafyd yn ei delyn arian mwy
Nes llwyr ddistawo'r adsain olaf fyth
Trwy holl wybrenau y bytholfyd pell.
Y mae cyfiawnder bellach wrth ei fodd,
Ei gleddyf yn ddi-ddenydd yn y wain,
Camedig arf, a'i farwol fin yn bwl
'Rol taro 'n erbyn calon Duw mewn cnawd.
O, pwy a draetha rwysg coroniad gras
Wrth fawrwyd esgyn i'w orseddfainc wen,
Cyfiawnder yn ei gynorthwyo i'r lan,
Y ddeddf yn edrych arno gyda gwên,
Tra engyl Duw yn crymu'n dorf ddi-rif
O'i flaen, bob un a'i goron yn ei law

Buasai hi, Trugaredd, lawer oes,
Yn wylo'n athrist ger yr orsedd hon—
A barotowyd cyn sylfaenu'r byd—
Heb hawl i esgyn i'r eisteddfa deg,
Yn wylo fcd eu llawnion drysorfeydd
Trwy'r oesau 'nghau, heb fodd i'w hagog hwy
Yng ngallu Duw ei hun, hyd oni ddaeth
Yr Archoffeiriad o'r tu fewn i'r llen,
A'i waed yn dyferynu ar ei ol,
A'r allwedd ganddo,—r unig un a wnaï.
Derbyniodd hi o law Cyfiawnder pan
Ddistawodd ei daranau uwch y Groes.

Mae Ffydd a'i gwrthrych yma, mor gytun !
Adnebydd hi ei gwrthrych yn ei waed,—
Ei waed, ei gwrthrych, sail ei hyder oll !
Mae'r lleidr draw yn gweled mwy na dyn,
Anfeidrol fwy, yn gwaedu wrth ei ochr.
"Arglwydd," ar groesbren ! Ffydd sy'n dwedyd hyn ;
Try'r Croesbren, ger ei fron, yn golofn fawr
Yr orsedd honno sydd yn uwch na'r nef.
'Wyt ar dy ffordd i'th Deyrnas hwnt i'r ser,
Pan ddelych iddi Arglwydd, cofia fi !'
Cyrhaeddodd yno, do, yr un prydawn.

Iesu ! A welodd hwn dy degwch pur,
 Pan wylit ddagrau gwaed tan farwol gur ?
 A welodd hwn falm bywyd yn dy glwy,
 Ac yn dy angau anfarwoldeb mwy ?
 Ac oni welaf fi dy wedd yn awr
 Ar dy orseddfa'n decach fyrdd ei wawr,
 A duwdod yn disgleirio ar dy bryd
 Fel hanfod llewyrch heuliau fyrdd ynghyd ?
 Ti, Deyrn y byd, Ti, Frenin cyrrau'r nef,
 Dwed, oni 'th welaf ar dy orsedd gref
 Sy drosti 'n berlau, drosti 'n ser i gyd,
 A'r nef o'th gylch yn un tragwyddol wrid ;
 Dwed, oni 'th welaf mewn gogoniant mwy
 Na phan yn wylod dan dy farwol glwy ?
 Yr un yw Ffydd, yn naear ac yn nef,
 O dan y Groes, o flaen yr orsedd gref ;
 Angylaidd lygad, gwawl ym meddwl dyn,
 Yn gweled Duw yng ngolau Duw ei hun.
 Rhy deneu ydoedd yr orchuddiol len
 Borfforai wyneb Iesu ar y pren
 I'w dallu, a dieithrio 'i wyneb gwiw,
 Hi sychai ffwrdd y gwaed, a gwelai—Dduw !

Mor ofer, Pilat, oedd dy ymgais di
 I olchi'th ddwyllaw. Nid oes iawn mewn dwfr.
 Estynna'th law, mae'n gochach nag o'r blaen.
 Egluro'r gwaed yr wyt wrth ymlanhau ;
 Dyfnhau'r ystaen. Na'r haul amlycach yw.
 Pan wisgo'r haul y llen sy ganddo 'nghawl
 Hyd fore 'i dranc, i guddio'i farwol wedd
 O wyddfod Duw pan ddel i farnu'r byd
 Yn rhyfedd rwysg ei ail ddyfodiad glân,
 Nid *dan*, ond *ar* y cwmwl olaf mwy—
 Pan wisga hon am ennyd uwch y Groes,
 Nis gall gysgodi dy euogrwydd erch.
 Disgleiria yr ystaen sydd ar dy law,
 O Pilat, yng ngoleuni haul cyfiawnder,
 A'i loer, cydwybod, yn ofnadwy glaer.

Pilat ! Mae modd dileu'r ystaen er hyn.
 Arllwysa'r dŵr, a dos a'r cawg yn wag
 A llanw ef â'r dyferynau drud,
 (Rhy rad i ni !) mor llachar dros ei rudd
 Ddyferant i ddyfrhau y ddaear sech
 Sy'n adwaen ynddo baradwysol rin,

Ie, rhin i Edeneiddio byd o ddrain ;
 Arch, Pilat, idd y dyrfa ymbellhau,
 A sangu'n ysgafn, tra y chwiliot am
 Un dafn—*un* ! Disgleiried ar dy law,
 Mae'r eira'n duo wrth ei gwyndra hi !
 Saf dan ei Groes ! Mae'r olchfa dan ei fron ;
 O, hydd gerllaw pan dorro 'i bywiol ffrwd ;
 Pan dorro, torrir syched llawer oes.
 Ystaen y cwymp red ymaith oll yn llwyr,
 Euogrwydd oesoedd foddid ynddi hi.
 Saf dan y Groes ! Daw miloedd gyda thi,
 O lawer byd, i weled agor hon.
 Yn iach, f'afendid ! Ymaith gyda'r ffrwd
 Sy'n llofo i orlynclyn angof mwy !
 A phed arosit heb lifeirio 'mlaen,
 Nith welwn mwy, rhy drwm i nofio wyt,
 A thrymach yw y Gwaed i'th gadw i lawr.
 Duw ! Pwy all godi'r bai a gleddaist ti !

 C Y F R Y N G W R .

SAIL ein hiachawdwriaeth roddwyd, mewn cyfamod eithaf cryf,
 Cyn sylfaenu y mynyddoedd, ac o flaen y bryniau hyf ;
 Fe ordeiniwyd yn Gyfryngwr, y tragwyddol Fab yn awr,
 Cyn ymddangos fel Creawdwr i roi sylfaen byd i lawr.

Ym moreuaf gerbyd cariad allan aeth i'n hachub ni,
 Ac er dyddiau tragwyddoldeb ei fynediad allan fu :
 Cyn bod llais clodforawl angel, cyn bod llais clodforawl dyn,
 Seliodd y cyfamod g'asol, seliodd er ei fwyn ei hun.

Pwy all draethu'r gweithrediadau am ein hiachawdwriaeth gael
 Y symudiad rhagordeiniol, a'r eiriolaeth drosom wnaed,
 Yn nistawrwydd tragwyddoldeb, pan nad oedd daearol fyd
 Yn bodoli ond mewn arfaeth, a chyn geni 'r ser i gyd ?

Cyfanedde'r ddaear ydoedd mangre ei foreuol fryd,
 'R oedd dyddordeb yn y gwagle oedd i dderbyn sail ein byd—
 Byw i fod yn sanctaidd allor i'w aberthiad ryw brydnawn,
 Byw i'w lanw & phrynedigion drwy ei angeu drud a'i iawn !

Ac wrth roi i lawr sylfeini y ddaearen yn eu lle,
 Ac wrth hongian odliarni fawrion oleuadau'r ne,
 'R oedd ei ddwyfol fyfyrddau ar y mil rhyfeddach awr
 Pan y rhoddai mewn cyfyngder sylfaen gobaith byd i lawr.

Carai feddwl am y boreu pan adawai'r nef ei hun,
 Pan ymgyrmai 'n ddigon isel i wneyd ei babell gyda dyn :
 A chan gymaint oedd ei gariad, a chan gymaint oedd ei aidd,
 Awrlais y dragwyddol arfaeth droai yn rhy araf braidd.

Ymddanghosai yn ffenestri proffwydoliaeth oddi draw,
 Hoffai ddylfod i'r rhodfaoedd drefnuwyd gynt â dwyfol law—
 Hen rodfaoedd y cysgodau ! Mynych cyfarfyddai ffydd
 A'i hanwylyd hawddgar yno, er nad ydoedd eto 'n ddydd.

Fel ar nos loeroleu dawel gwel y morwr ymyl tir,
 Gwelwyd ef gan batriarchiaid—nid yn amlwg nac yn glir ;
 Hoffai ddangos ei ogoniant, er mor bell ac er mor wan ;
 Er fod môr o oesoedd rhyngddynt, hoffai sefyll ar y lan.

Gwyddai ffydd ei fod yn dyfod, a disgwyliai lawer awr
 Weled ei ddisgleiriaf gerbyd heibio'r haul yn dod i lawr ;
 Ar glir benrhyn proffwydoliaeth safai ac edrychai uwy,
 Heb fwynhau yr addewidion, ond o bell eu gweled hwy.

Daeth yr amser terfynedig, amser ei ddylfodiad ddaeth,
 Ni bu 'n ol i'w addewidion, ei ryfedd ymddanghosiad wnaeth ;
 Y Tragwyddol Fab a roddwyd, ganwyd yn dywysog hedd,
 Er ei ddod yn ddyn, mae hynod fawredd Duwdod yn ei wedd.

Ofer holi dim am dano ym mhalasau Salem gain ;
 Mae cerbydau yn Ephrata, ni ddaeth ef yn un o'r rhain ;
 Nid oes rhwysg nac ymddanghosiad, na thorfeydd yn seinio clod,
 Nid oes cyffro ar y ddaear, er mai Duw ei hun sy 'n dod.

Daeth i lawr yn ddigon isel i breswyllo gyda dyn,
 A chymeryd baich euogrwydd torf aneirif arno 'i hun ;
 Daeth mor isel ag i'w ddodi yn y preseb gwael heb fri,
 Daeth mor isel ag i'w wneuthur dan y ddeddf i'n harbed ni.

Rhyfedd ras, O ryfedd gariad ! Ni bu 'n ormod ganddo Ef
 Aduel ei ogoniant uchod, a'i orseddfainc yn y nef ;
 Mae'r angylion yn ei ganlyd gyda moliant, cân, a chlod
 Hyd ym Methlem—dyna'r terfyn. Nis gall angel pellach ddod.

Gwelir seren dra rhyfeddol ar ffurfafen nef yn awr,
 Mae y doethion wedi darllen iachawdwriaeth yn ei gwawr ;
 Maent yn penderfynu deall diwedd ei chenhadaeth lon ;
 Seren o gyfundraeth hynaf cariad dwyfol ydyw hon.

Pasiodd heibio'r llys brenhinol, pasiodd heibio'r ddinas fawr,
 Mae yn sefyll uwch Ephrata, ar Ephrata llif ei gwawr.
 Safed y ddynoliaeth hithau yma, mae yn eithaf blin ;
 Dyma'r man y mae y Nefoedd yn ei bwyntio i maes i ddyn.

ALBERT DDA.

I. Galar y frenhines.

TARAN uwch llys Victoria—a dorrodd
 Dros dyrau 'r freninfa.
 Braw a'u todd oll, ALBERT DDA—yn sydyn
 Gyrhaeddai derfyn gorddiwyd yrfa.

Angeu er holl londer llys
 A dorau aur, nid erys;
 Rhag ei nerth mor egwan oedd
 Bri neu anlloedd breninllys!
 Unfodd â llwyn bychan anfalch
 I daran follt, yw derwen falch;
 Er cryfed, balched uwch ben,
 Llwhc ydyw i'r llucheden.

Un prydawn Prydain hunodd,—truenus
 Trannoeth y cyfododd;
 Gloewawr y Sul pan glywodd
 Hanes ei dranc, yn nos drodd.

Ganol nos ei gnul a wnaeth—i gannoedd
 Gwnnu 'n brudd gan hiraeth;
 Ar ei ol i fawr alaeth
 Ac arwyl ddu Caerludd aeth.

Ein Banon gun o'i hunaw
 Sydd drist ar ei gorsedd draw.
 Palasau heirdd, pa les ynt!
 Eu swyn a ffoes o honynt.
 Ar lawer haf dihafal
 Ble mor hoff â Balmoral,
 Pan gynt y delynt ill dau
 Er mwyn hedd, i'r mynyddau?
 Pennau 'r mynyddau yn nef
 Oddynt i'w gweld o'u haddef,
 A garw drum Lochnagar draw
 Uwch iddynt yn ymchwyddaw.
 Anedwydd weithion ydyw,
 Oer fel y fan Alban yw.
 Poen yw gweld Abergeldie,
 Mae yn saeth i'w monwes hi.
 Y iach Alban uchelbur
 Eilw i gof ei mewdol gur.

Darfu'n llwyr yr arwyrain
 A'r hoen geid yn Osborne gain.
 Ni all rhwysg uchelwysg chwaith
 Sirioli Windsor eilwaith;
 Tywyll yw y Castell heb
 Wenau ei addwyn wyneb.

Eglywir y nodau galarnadol,
 Cyfyd holl Brydain ei sain gresynol,
 Yn ei galarwisg mae yn gwyl eiriol
 Bore a nawn dios y plant brenhinol;
 A'i gweddi sydd yn ufudd ger nefol
 Orseddfa yr Ion, dros y weddw freinol.

Pan fo Victoria anwyl yn wylo
 Parod iawn gawn ein Prydain i gwyno,
 Yn ei holl ofid mae'n dagrau'n llifo,
 Ei baich a ddygwn, cydunwn dano;
 Mewn parch ei chyfarch a wnawn, a'i chofio
 O flaen gorsedd trugaredd, taer guro;
 A bedd ei hun anwyl—byddwn yno
 Yn filoedd gwlad i fad gydofidio.

Yr Ion nas methodd â'i rin esmwytho
 Loesau y galon ddilon, Ef ddalio
 Ar ei gwiw sedd ei meddwl rhag suddo;
 Ac O'r dda ateg, gobaith cwrdd eto
 A'i chu anwylŷd, hcn a'i chynhalio,
 Gobaith gwlad ber uwch ser a'i chysuro.
 Gweled drwy ffydd beunydd y bo—'r pell dir,
 A! ni yn genir enw angeu yno.

Y gyfyng awr a gofir,
 Hiraeth oedd ar fôr a thir.
 Rhoddai llongau arwyddion
 Galar dwys uwch gwely'r don.

Cydstyngent, hwy iawn wyrent
 Eu baneri,
 Taenai'r hiraeth a'r mawr alaeth
 I'r môr heli.

Ihwnt ar adenydd hoewon trydanol
 Ehedai'r eres hanes resynol;
 Cyffroni don ar fôr cyffredinol
 Dynoliaeth—ton o hiraeth tynherol;

Holl ddynoliaeth aeth o'i ol—i wyllo,
Arwyl oedd honno idd yr hil ddynol.

Rhyw len ddu dros Berlin ddaeth,
Elai ei llys i alaeth.
Ei rhwysg am alarwisgoedd
Drwy gur newidiai ar g'uedd.

Paris orwemp roes arwydd
O gyd-deimlad rihad yn rhwydd.
Pob dawn wnai 'i ffyddlawn goffhau
Hyd awen Môr y Dehau.

Dawn awen Zealand Newydd—draw gwynai
Drwy ganiad ysblenydd,
Dyr boen Victoria heunydd,
Iachaol falm i'w chlwy fydd.

Pren mwya 'r goedfa i gyd—draw syrthiodd
Dros serth ymyl bywyd,
A'i drwst a barai dristyd—
Clyw—braw o bell—clybu 'r Byd!

Y dderwen blannodd hiraeth—naturiol,
Victoria o alaeth,
I'w dirion goffadwriaeth.
O tyfed, fynnied yn ffaeth!

Na ddeued stormydd eon,
Gaua erch i rwygo hon;
Goruwch brasder dyfnder dól,
Ger byw rin dagrau breiniol,
Aed ar led uwcu ddear lawr
I uwyrfyd yn erfawr,
A draw boed mewn uchder byth
Yn deilwng o'i Enw dilyth.

ii. *Mawl y da.*

Nis gwyddem nes ei guddio—yn y bedd,
Y buddion gaid drwyddo;
E gyfyd Prydain i gofio—a wnaeth
O lawn wasanaeth, a'i gnul yn seinio.

Y rhyfelog trystfawr fola—y byl,
Heb oedi yngryma;
Yn y bedd adnabydda
Y buddiol, duwiol, a da.

Prydain oll wedi ei golli,—dalodd
 Ei dyled i'w deithi;
 Un blaenor, neb i lenwi
 Ei le ef ni welai hi.

Rhoddes le mwy mawreddog—i gyfion
 Gofiant ei Thywysog
 Nag i'r hanes am goronog—bennau;
 Am wir riniau pa deyrn mor enwog!

III. *Rosau.*

Olrheinir disglær hanes
 Ei ach ddugiol, yn ol, nes
 Darfyddo, pallo y pell
 Oleuni ar y linell.

Rosenu, fangre swynawl,
 Adgoffeir gydag hoff fawl,
 Ei le genedigol oedd,
 A bro tad ALBERT ydoedd.
 Hoffwn yn awr gerllaw 'r llys,
 Fwyn Awen, gael fy nhywys,
 A'r ser yn hanner siarad
 Am rai fu mor hoff, mor fad,
 Ond rhai sy'n awr gyda'r ser,
 A Naf! na bawn o'u nifer!
 Yn nistawrwydd nos torrwn
 I wylo wrth gofio, gwn.

E roddodd ef wawrddydd oes
 I rinwedd, boreu 'r cinioes.
 Ac ymyl trolyn camwedd
 A ofnai fal dyfnaf fedd.
 Aeth trwy brofedigaeth deg
 Glas oed, beryglus adeg;
 Diangodd o'i hud engur,
 A chadd barch am fuchedd bur.

Rhoddodd ei fryd ar addysg,
 A dod yn enwog mewn dysg.
 Dygai barch dysgedigion,
 Gloew barch o Brifysgol Bonn.

Ysgolor diesgeulus—a thrwyadl
 Dan athrawon medrus,
 Rhoddodd gamp fawreddus—o'i flaen yno,
 Enillodd honno yn llwyddiannus.

Yno rhoes sail oes i lawr,
Sylfaen bywyd llesolfawr.

Ei feddwl yfai addysg,
Llyn ydoedd, a dyfroedd dysg
Yn ei lenwi drwy lonydd
Efrydion dyfnion bob dydd;
Torrai ei lawnder tirion
A'i olud ar y wlad hon;
Feddyliol gronfeydd helaeth,—
Eu llenwi i ni a wnaeth.

iv. *Y briodas.*

I'w ddyfodol ymaddfedu—yr oedd
Yn raddol—dadblygu
Y ddawn oedd i weinyddu,
A dwyn gwawr ar Brydain gu.

Ior a edwyn yr adeg,
Mae'n parotoi mewn pryd teg.
A'i law gref e blyg yr Ior
Y gangen at ei gyngor.

Myn y pren i'w law mewn pryd
Yn ifanc—a'r dyn hefyd.
Parotoai ALBERT ieuanc
I wlad ei dreigl, i fawl di-dranc.
Cymhwysder gadd drwy addysg,
Y dyn mawr, i ddod i'n mysg.

Is rheolau a gwersi yr aelwyd,
Boreu tawel einioes, ALBERT luniwyd
I'w hoff yrfa—i Brydain ei ffurfiwyd,
Mewn gwybodau a moesau cymhwyswyd.

Y mae yn gyfiawn i'm hawen gofio
Am y swyn addien grymus wnai iddo
Adaw Coburg, rhoi Gotha deg heibio,
Er mwyn gwneyd Prydain addwyn yn eiddo.

Uniawn dywysog! Pan ein dewisodd
Nid am enw neu am glod y dymunodd,
Nac am allu—serch pur a'i cymhellodd;
Nid ei addysg, ei *gulton* dueddodd
ALBERT yr ieuanc i lwybraw trwodd;
Nid y goron ogoned a garodd—
Y Goronedig addfwyn a'i swynodd,
Ei theyrnwialen a'i thron ni welodd.

Y deg Victoria a'i dygodd,—swynion
 Victoria lon dros y don a'i denodd;
 Yn ddilwgr ei gariad ddaliodd,—tynhau
 Wnai 'i aur reffynau oni orffennodd.

Diddanwch dydd eu huniad
 Gofir yn hir, a'i fwynhad;
 Wrth eu plant traethant yr hen
 Am floedd y lluoedd llawen,
 Unol gyffredinol dôn
 Anwyl-ber gydgân Albion;

A'r taranau o'r Tŵr enwog,—a niwl
 Magnelau galluog,
 Bob llun yn dyrchu 'n dorchog—i'r nefoedd,
 Llen daenfawr oedd uwch Llundain fawreddog.

Prydain yn darwain ar uchelderau
 Orfoleddus foliannus filiynau,
 A'u llwyr fryd oll ar fawrhau—'r pâr breiniol,
 Rhoi llef arddunol, yr holl fyrddiynau!

Caent fendith Cymru hithau —anfonodd
 I fyny weddiau
 Hyd orsedd Ior dros y ddau
 An lwydd, hedd, ac aml ddyddiau.

Hawddgar bâr, oedd ger y byd
 Yn hyfawl gynllun hefyd—
 O undeb a flyddlonder
 O dan fad ordinhad Ner.
 Delw o anwyl gyd-lynu,
 A chwrdd teg, serch o'r ddau tu

O Gariad! pa 'n rhagori,
 O'r rhiniau teg, arnat ti!
 Golud byd benbwygilydd
 Hebod megys sorod sydd,
 Wyt oludoedd mewn tlodi,
 Gwnei 'n dynner ein hadfer ni
 Yn ol mwy o'r anial maith,
 Yn ol i rden eilwaith.
 Y llwythog ddidwyll weithiwr
 Yn ei gaban, egwan wr,
 Efo ei fun gun a gâr
 A chrug o blant chwareugar,

Dedwyddach ydyw na glyw gwlad
Dan goron, nas adwaen gariad.

Bri ydoedd y briodas—ar gariad
Pur, ger yr holl deyrnas;
A daeth i gymdeithas—yn engraff lân
O iawn a dyddan ieuad addas.

Collfarniad oedd eu huniad hwy
Ar y rhai fedrânt roi'r fodrwy,
A rhoi y llun oer, y llaw,
Y galon yn gwrthgiliaw
Yn anffyddlon, a'u monwes
Mal y graig heb deinlo gwres.
Anheilwng er mwyn elw
Yw rhoi'r llais i eirio'r llw.

v. *Y Prydeintwr.*

Y mawrwyd ieuanc dramorwr—droai
Yn drwyadl Brydeiniwr;
Daeth o galon, union wr,
Y goraf Brydain-garwr.

A'n brenhines gun pan ymunodd,
Ei theg oror am byth a garodd,
A'i gwiw luman ei serch ynglymodd,
Diau â'n Prydain y priododd.
O! y drem yn angeu drodd—gan bryder
Ar ei hoff faner, pan orffennodd!—

vi. *Gwasanaeth ei nerth.*

Pan oedd rhyfel fel ar fin
Agoryd yn dra gerwin;
A newydd ddwys orbwysig—i'n goror,
Ar y môr, yn dod o'r Amerig;

Ei rym i Brydain a roes
A rhannau goreu'r einioes.
Hi gafodd ALBERT gyfiawn
Ym mlodau'i ddyddiau a'i ddawn.
E ddaeth i'w gwasanaethu,
A hyd ei fedd diwyd fu.

Oedd barod i'w hynod waith,
A chalon i'w uchelwaith;
Egni llawn i gynlluniaw
A fai o les, a chref law
I hollol weithio allan
Yn ddioed a roed i'w ran.

A'i gyneddfau gwiw 'n aeddfed,
Fel pren firwythlawn ar lawn led,

VII. *Y bywyd pur.*

Ym mhuredd ei gymeriad,
Buddiolai, goleuai 'n gwlad.

Di-fai y caed ei fywyd
Ar fryn uchaf balchaf byd.
Llygredig bendefigaeth,
Iachau ei ffynhonnau wnaeth;
I fawrion mewn oferoes
Halen a fu ei lân foes.
Mal sant yn ymyl y sedd,
Briai, arweiniai rinwedd;
Rhoddi myg arwydd ei mawl
Ar nen y llys brenhinawl.

Ar wybrennau uchder breiniol—haul oedd
I lu amgylchynol,
Yn cynneu yn y canol,
A hwynt draw aent ar ei ol.

Puredd a rhinwedd i'r oes
A geir, os gwellheir y llys,
Yno mae ffynhonnau moes
Fywiol, a'r cyfeiriol fys.

Bywyd ein llys, echrys oedd,
O'r genedl llygrai gannoedd;
Gwridai, cywilyddiai 'r wlad—am lygredd
Euog amhuredd ei gymeriad.

Deuai, trwy 'r Tywysog duwiol,—i'r lle
Ryw wellhad rhyfeddol;
Eglur yw nas gwelir ol
Yn awr, o'r llwgr blaenorol.

Hynodol gynllun ydyw
I ni o foes, a iawn fyw.

Trwy rym ei fuchedd dra rhinweddol,
A goreu foddion siampl grefyddol,
Adenillid, glanheid yn hollol,
Ie 'n llwyr ddwys y lle urddasol.

Allor sy gerllaw 'r sedd—i Dduw 'r heddwch,
 Clwy edifeirwch, a chân clodforedd.
 Cân i'n Duw cyn hyn nid oedd,
 Hoff sain, yn nhai'n brenhinoedd.

VIII. *Y penteuin.*

Peunydd yr urddas pennaf—coronog,
 Ac y rhinwedd lwysaf,
 Yn ei deulu 'nghyd welaf
 Dan ryfedd dangnefedd Naf.

Y mae gofal am gyfoeth
 Drwy ei dŷ, cynhilder doeth.
 Union drefn cysondrefn sydd
 Trwy y llawn gartre llonydd;
 Yno byth canfyddwn bêr
 Lewndid, heb afradlonder.

Cyfuwch o'r blaen nis cafwyd—teuluath
 A iawn reolaeth y dyner aelwyd.

Cartref hoff, nis ceir trwy fyd,
 O afrif, un mwy hyfryd;
 Ymlyniad am y lonydd
 Aelwyd, a serch ar led sydd;
 Gau fyd o'r dihalog fan
 A'i dwrw oll, gedwir allan.
 Le tawel! mae fel am fod
 O dwrf y byd sy'n darfod,
 Mewn rhyw gu ymneillduedd
 I fwynbau dwyfol-ddwfn hedd,

A siarad am y wlad lon—a diwall
 Sy o'r tu arall i'r ser tirion.

Hwy dalant, dduwiol deulu,
 Barch i'r ddwyfol gyfrol gu,
 Y gyfrol ddwg i efryd
 Reol y Farn o'r ail fyd.
 A hwyr llonydd darlennant
 Air Duw Nef, a'i gredu wnant.

Ac fel tad ca folawd teg
 Ym Mhrydain am hir adeg.
 Cymysg heb derfysg bob dydd
 Ei gariad & doeth gerydd.

Mewn haelaf addysg os manwl fyddir,
 Ac os prydlon geryddon a roddir,
 I benteulu tra buan y telir,
 O hau yn forau cnwd llawn a fwrir.

Yntau a welodd fel penteulu
 Yr had hygar cynnar yn cwnnu,
 Ei biant trwy'i noddiant yn cynhyddu
 Mewn hedd, a'u rhinwedd yn eirianu,
 Rhai fagodd, gododd mor gu,—mor gynnes
 Yn ei fonwes, fel ŵyn i fyny.

Fe'u lluniodd, fe'u magodd nes edmygir
 Gan yr holl wlad eu cymeriad mawrwir ;
 Ple mae ar go esiamplau mor gywir
 O rodiad, o gariad mor ragorwir !
 Eu bywyd teg ar bob tir—sy'n rhoddi
 Hoff hardd oleuni, a'u ffyrdd ddilynir.

Ac o bydd gorseddfainc bell
 Yn wag dro, eir heibio'r oll,
 Ac o'i dŷ gwiw (nis caed gwell
 Eriod) e geir rhi di-goll.

IX. *Tywysog Cymru.*

Athen a fynnai ethol—un o'i dŷ
 Iddi'n deyrn rhagorol,
 I roi y ddeddf a'r rheol—o'i llys cain
 A'i thrôn firain, i'w thir anfarwol.

Rhedai hanes am Alffred yno
 A'i enw tyner a wnai eu tanio,
 Hoffasent, carasent roi'u croeso
 A'u caerau nawdd a'u coron iddo ;
 Ond hiraethodd teyrngadair Otho
 'N ofer, er yn dyner, am dano.

Yn ddi-goll magodd y gŵr
 Sydd i fod ar ein sedd fawr
 Yn deyrn ben, yn gadarn bor,
 Y mwyaf, sicraf is ser.

Yn dra boreu dechreuodd,—a mirain
 Gymeriad a luniodd ;
 Gwyrth fawr, tywysog wrth fodd
 Rhyddid a chrefydd roddodd.

Mynnai i'w fab adnabod
 Gwledydd gwâr daear, a dod
 I feithrin gwiw gyfathrach
 A phawb oll, ac a phob âch.

Ei anfon i'r gorllewinfyd—i gael
 Golwg ar eu rhyddid,
 Deall y bobl, dull eu byd,—heb atal
 Nodi'u hamryfal dymherau hefyd.

Gwell na dysg yw llawen daith,
 Hir a hoffus yw'r effaith ;
 Mae'n tarfu'r meini terfyn,
 Mwyhau'n meddyliau am ddyn ;
 O bawb i gyd, o bob gŵr,
 Y doethaf yw'r ymdeithiwr ;
 Ni bu gul neb o galon
 Ar ol hynt trwy'r ddaear lon.

Efe, a welodd fwyaf—o'n daear,
 Dios yw'r cymhwysaf
 I lywio'n ol meddwl Naf,
 A chael y sedd uchelaf.

Coflaw am y croesawiad
 A roes Amerig yn rhad—
 Cofio'r torfoedd oedd o hyd,
 Llonfawl y gorllewinfyd,
 A'r heulog glaer heolydd—trybelid
 I'w fri gyneuid yn Efrog Newydd,
 Wna darfu perygl dirfawr
 Atal llid mewn tywell awr.—
 Cyfaill fydd er mwyn cofion
 Y foreu daith hyfryd hon ;
 A cheir heddwch a rhyddid
 O'i glymau borau â'r byd.

Uched oedd meddylddrych ei dad
 Am oreu freiniol gymeriad ;
 Heb grefydd beunydd yn bur
 Ni fuasai at ei fesur.
 Rhaid oedd cyffroi'i dueddiad
 Heb feth, at dduwioledeb fad,
 Drwy'i anfon i'r dwyreinfyd,
 Drwy y lân Ganan i gyd,
 Y wlad brid gysgodid gan
 Adenydd Duw ei hunan ;
 Hynotaf oror Natur,
 Angel ar bob awel bur ;

Ac lle bu cawell a bedd
 Siloh yn ei iseledd ;
 A'r man yr holltai'r meini
 Claf ar ei ol—Calfari !

Bro Esaiiah, Jeremiah,
 Bro Hosea bêr, a Seion !
 Er mor llonydd, mae'n ysblynydd,
 Dihefelydd, mewn adfeilion.

E goelia wedi gweled,
 Cadarnach, cryfach y cred.
 Cipolwg ar Macpelah
 Gafodd ef, mae'n adgof dda.
 O neshau at fryn Seion,
 Mae i law fydd aml i ffon.
 Yno e droes fydd yn drem,
 A seliwyd hi yn Salem.

Bo'r gŵr fydd biau'r goron—yn talu
 Parch teilwng i gofion
 O'i orloff hynt ; argraff hon—O cadwed,
 Diogeled ei gred a'i galon !

Boed fyw ei burdeb hyd fedd,
 Ar drôn parhaed ei rinwedd ;
 Hyd yn nef aed yn ufudd
 Yn llwybrau 'i dad !

Pell bo'r dydd,
 Er hyn i gyd i Victoria'n gado,
 A rhoi'i llwyddiant pur a'i lle iddo ;
 Ei llaw addien hi a'n llywyddo
 Yn ddiatal hir flwyddi eto ;
 Am y llaw anwyl anwyl honno,
 Y deyrnwialen draw wnai wylo !

x. Nodder addysg.

ALBERT DDA lwybrai at ddysg—y miloedd,
 Neud byddin oedd o du buddion addysg.

Carai roi addysg gwiwrin,
 A'i roi i blant gweithiwr blin
 Na all ennill eu lluniaeth,
 Er rhoi cefn i lafur caeth ;
 Mae'n rhynu mewn oer annedd,
 Ow brin fyd ! bara ni fedd !

Pwy gasha'r plant carpiog sydd
 Yn wehilion heolydd,
 Yn crwydro gwibio ar goedd
 Yn isaf le'n dinasoedd,
 Tros nos heb gartre is nen,
 Blin eu tynged, blant angen?—

Tyner oedd ALBERT o honynt,—islaw

Ei sylw ef nid oeddynt,
 Ac o'i fodd agorodd gynt
 O'i nawdd ysgolion iddynt.

Troi nos y truenusion,
 Nifer llwm, yn foreu llon!
 Gwyddai y lles eres sydd
 O roi addysg foreuddydd;
 Tra yn egwan plyga'n plant
 I fyw'n ol rheol rhiant,
 Gwir addysg sy'n gwareiddiaw,
 Oes Aur i'n mysg trwy ddysg ddaw;
 Gwna ei rin goethi'n gweithwyr,
 Cawn wragedd gwell, a gwell gwyr;
 Gwerin fawr, i'r goron fydd
 Yn hyfoes werin ufudd.
 Gwladwriaeth heb gloi dorau
 A geir fyth yn ymgryfhau;
 Byw fydd hon heb fyddinoedd
 Na'r cledd dur, na'r rhagfur oedd.

O noddwr mawr ein haddysg!
 Ei enw oedd dŵr er nawdd dysg.
 E fynnai roi afonydd
 Yr holl wybodau yn rhydd,
 A lledu'i asgell lydan
 Drwy ei oes gu dros y gwan.

Myg flaenawr! ymgyflwynodd
 I ddiwyd fywyd o'i fodd.
 At bob gorchwyl egwyl oedd,
 A'i ofalon yn filoedd.

Od adeiledid badd-dai i dlodion,
 Boreu teg hafaidd ein HALBERT gyfion
 Idd eu hagoryd fyddai y gwron;
 Dda ewyllysiwr, gwyddai eu llesion;
 Rhyfeddawl rin oerfaddon—i iechyd,
 Maedda gelfyddyd meddygawl foddion.

A'i rad i'r ymddifad oedd afon
 Nerthol yng nghanol ei anghenion ;
 Pur dywysog, pwy i'r rheidusion
 A'r diymgeledd mor dwymgalon !

A chofiai Fasnach hefyd
 Sy ben am leshau y byd.

Hoffai agor i longau y moroedd
 Byrth o wiw lwyddiant, newydd borthladdoedd,
 I dderbyn llawnion faelion i filoedd
 Ein dewr ynyswyr, o'r holl deyrnasoedd,
 Ac anfon i'r rhain lydain oludoedd
 Ein tir a'r mwn naddir o'r mynyddoedd ;
 Yn ei rym yno yr oedd,—a'r eirian
 Faneri yn hofian ar y nefoedd.

Wrth raid areithiwr ydoedd,
 A rhoi'i fryd ar *brofi* 'r oedd.

Swyn ei araeth dra synhwyrol
 A enillai bawb yn hollol,
 Naws unol, i'r un syniad.

Drwy'i ddull difrifol eglur-olau,
 A rhyfedd haeledd ei feddyliau,
 A mawr swm ei resymau,—llwyddo wnaeth
 Yn ei gu araeth, heb ferw geiriau.

Ef oedd gryf, e ddyg ei ran
 Is gofal teyrnas gyfan.

xi. Cyngorydd y frenhines.

Cyngorydd llonydd gerllaw—ein Banon,

Beunydd i'w hyfforddiaw,
 Uchaf wr i'w chyfeiriaw,
 A tharian dros ei thrôn draw.

Fry ei chadarn fraich ydoedd,
 A chaer nerth ei choron oedd.

Bu'n tynnu at bwynt union
 Wrth helm y wladwriaeth hon,
 Llywydd dan lonydd lenni
 Addfwyn wrth ei holwyn hi.

Am hyn oll nis gwyddem nes
 Rhoi o'n hanwyl frenhines
 Hanes in o'i wasanaeth

I'n llys ni a'r lles a wnaeth.
 Heddychol ydoedd uchod,
 Fel seren ar uchel rod
 Yn rhoi o'i goleuni rhwydd
 Tirion, ond mewn distawrwydd.

Er ei ddyrchu i rod ardderchog,
 O un awydd gau ni bu'n euog;
 Er yn ymyl y goron emog
 Ni ymyrrai ag un em euog;
 Gwypm loewdra ei gemau pelydrog
 Dan ei ddwyllaw gaed yn ddihalog;
 Wrth droed yr Orsedd fawreddog—eistedd
 Wnai hyd y bedd, yn ddeiliad boddog.

Heddychol wr oedd, uwchlaw
 Y swyn od sy yn hudaw
 Llauer i ddarwain lluoedd
 O flas at y rhyfel floedd,
 A bod un i bawb dynion
 Tan y ser yn destyn son.
 Ond efe wrthodai fod
 I'n cadarn lu 'n benciwdod;
 Os oedd y brif o swyddau,
 Mwy enwog ceir am nacâu.
 Y fewnol fuddugoliaeth
 Ar hunan-glod yn nod wnaeth.

XII. *Noddwr y Celfau.*

Os hyglood ydoedd y maes gwleidiadawl,
 I'r enwog Dywysog mwy dewisawl
 Oedd arwain y gwyddorawl,—ei galon
 Ac ei hael foddion roes i'r Celfyddawl.

Nid rhwysgfawredd gwagogoneddol
 Garai, ewyllysiai y llesiol,
 Rhôl o'i wiw nodedd arweinyddol
 I beiriannaeth a chelfau breiniol.
 Er mawl eiriau y llwybr milwrol
 Trôl o'i fodd at yr ofyddol,
 Aeth i ofwyo'r llaw-weithfaol,
 Ac i noddi pob amcan haeddol
 Fyddai i'r byd yn fuddiol,—pob mudiad
 Er gwellhad a gwareiddiad graddol.

Heb feth adnabu ei faes
 A'i ran dda, llafurio 'n ddwys
 Er llwydd cywreinrwydd yr oes,
 A gwneuthur i lafur les.

Adfer gwyddawr i fawredd,
 Ac ailfywhau celfau hedd;
 Rhoi nodded gwirioneddol
 Di-ffug, nid addewid ffol;
 Rhai noddwyr geir yn addaw,
 Genau llyfn heb egni llaw;
 Ni wnant un ged weithredawl
 Na dim o fodd ond am fawl.
 Ef o *wneyd* ni fu yn ol
 Gan ei hewyd egniol.
 Un di-ffael i wneyd effaith,
 Ni bu 'n well neb yn ei waith;
 Prin ar air; rhagorai 'r ged;
 Aruthrol oedd ar weithred.

I'w esiampl dyledus yw
 Ein hamaethyddiaeth heddyw.
 Daear wnaed i roi yn ol
 A roddir iddi 'n raddol;
 Ei ffrwythydd ni rydd yn rhad,
 Na'i moethau heb amaethiad;
 Diwyllier, a daw allan
 Yn gan mil ei hegin mân.
 Deallus oedd mewn diwylliad,
 Gwyddai 'r ffordd i guddio 'r hoff had
 A thyner nerthu anian
 A'i haur lwyth i ddod i'r lan.
 Hoff ganddo rodio ar hyd—ei gaeau,
 Drwy ei ddi-efrau diroedd hyfryd,
 Edrych, wr haelwych, ar ol
 Ei ddi-brin ddolydd breiniol,
 Golud ei dir, gweld y da
 Hyd ei dyddyn dedwydda
 Mewn boddus cysurus hedd,
 Hyd ganol mewn digonedd.
 E wobrwywyd ei brawon
 A chynnyrch per, llawnder llon.
 Bwriai 'i dir bur-yd araul
 A grym trefn, nid gormod traul.

Troai ei wyneb rhag y trywanol
 Gleddyf ac y gwyw lawryf milwrol ;
 Nid eirf tân, iawn drafod dól—gai 'i nodded,
 Coledd yr cged, nid y cledd rhwygol.

XIII. *Yr arddanghosfa fawr.*

O'i ddoniau i'r hil ddynol
 Mae yr un mwya ar ol.

O'i orchwylion, yr uchela—a fu
 Y Fawr Arddanghosfa ;
 Adail oedd i deulu Adda
 A barotodd ein HALBERT DDA.

Adunaw'r teulu dynol,—ac adfer
 Cydfod cyffredinol,
 A dwyn hedd i fyd yn ol,
 Dyna 'i fwriad anfarwol.

Mal brawd e deimlai bryder
 Dros ei holl frodyr is ser ;
 A'i gariad hyd bob goror
 Gyrhaeddai fel y gwyrdd fôr.
 Noddwr holl feibion Adda,
 Brawd i ddyn oedd ALBERT DDA,
 O haelfrydig ddyn digoll,
 Nid dyn rhan, ond dyn yr oll.

Galwai 'r byd i gyd heb gas
 I'w drybelid Wydr-balas,
 O balas glân, heb elyn !
 O odiaeth frawdoliaeth dyn !

Udgorn hedd sy 'n adgrynhoi
 'R hil ddynol yn frawdol fry,
 Mae digter, ffalster yn ffoi,
 Lle 'r oedd sor, serch llariaidd sy.

Man ydoedd i bobloedd byd,
 Eirian gynhullfan hollfyd.
 Pabell hoff, lle nad oedd pob llwyth
 Ond aelod o'r unrhyw dylwyth.
 A moesgar gydgymysgu
 Wnai 'r serchus olygus lu.
 Hapus fan, cwmpasai fyd
 A'i dawel gelfau diwyd.

Ple is haul i'r palas hwn
 A'i loewbyrth, gyffelybwn?
 Palas yr hoffai pelydr
 Y ne wen, warae 'n ei wydr!

A, mor deg yn 'y mryd yw—'r lle dilyn,
 A'r flwyddyn—mae 'n flwyddyn nefol heddyw

Mae 'n awr fel pe gwelsem ni
 Nef-adail yn cyfodi
 Am ennyd gorddymunol,
 Idd y nef ymdoddai 'n ol.

Bloeddio i gad wnai 'r bobloedd gynt,
 Arw fodd, pan gyfarfyddynt;
 Cwrdd yn hyllaf gyflafan,
 Yn niwl tew, yng nghanol tân;
 Gwg yn eu golwg welid,
 Holtai y llawr gan fellt lliid;
 Gan fagnel rhyfel a'i ru
 Caerau anian yn crynu!

Pa gariad galluadwy—
 Rhengau yn tân—rhyngynt hwy!
 Nid oedd un arfod iddynt
 I gael cyfeillachu gynt,
 Nag mewn oes adeg mwynhau
 Eu gilydd yn y golau.

Ond er eanged y gofod rhyngynt,
 Oll yn ei gynllun eu arddun cwrddynt,
 I deml tangnefedd o'r diwedd deuynt,
 O'u hol eu handwyol eirf adawynt;
 Ar ol y gad farwol gynt—mae hedd gwyn
 Yn canlyn, a blwyddyn Jubil iddynt.

Ar ol y byd enbyd oedd
 O orfilain ryfeloedd,
 Dacw eilfyd y Celfau—yn ymagor,
 Nid yn mŵg magnelau
 Erfawr, na gwawl arfau,—ond yng nghanol
 Iach wyl ogonol, ac uchel ganau.

Gwelent eu mad ymddibyniad beunydd
 Ar ddiogelwch, ar dda eu gilydd,
 Bod da un genedl i'r byd yn gynnydd,
 A llawnder gwlad yn llanw drwy y gwledydd,

A bod drwg enbyd i'r rhan—yn dristyd,
A drwg hefyd i'r cyfan.

A deallasant fod llesion—ein hil
Mewn unoliaeth tirion,
Mai dinistr mwya' dynion—drwy'r oesoedd
Yw cam ryfeloedd ac ymrafaelion.

Dieithriwch ydyw ethryb
Rhyfel; mwy tawel i'm tyb
Fyddai tynged y gwledydd,—llonyddach,
Diogelach, o nabod eu gilydd.

Wedi nabod wynebau—eu gilydd
Gwelant yr un nodau
Yn oll, yr un llinellau,—eghur ol
O anfarwol berthynas forau.

Drwy y coll er crwydro cyd—is teirmil
O ystormydd enbyd,
Adref gwelaf eu hedryd,
Rhyw ail gwrdd i'r Hil i gyd.

Un oeddynt oll yn nhy Adda,—un oll
Yn nhy'r Arddanghosfa,
Todd hwynt; Palas ALBERT DDA—oedd i'r byd,
I gyfanfyd, fel adgof o wynfa.

Mor filain pam y rhyfelynt?—a gwaed
Pam gwedyn tywelltynt?
A hwy'n awr oll, fel yn nhref,
Yn addef mai un oeddynt?

Dyfais ALBERT (ai *dwyfol*—*feddwol* oedd!)
Faedda lid yn raddol;
Dacw y mudiad cymodol
Hynaws a wna'n hasio'n ol.

Ac er amheuon o'r Crimea—deil
Y deg Arddanghosfa,
Hi ddeil nes sylweddola
Yn ddi-len ei dyben da.

Hyd yr oes hauwyd yr had,—daw i'r lan
Drwy lonydd ddeddf tyfiad;
A cheir, o hedd a chariad
Na fu mwy, gynhauaf mad.

Rhod dai i'w orchwyl tra ardderchog
 Farn ddiwyraw, a llaw alluog,
 Wrtho daliai, glynai'n galonnog
 Haeddawl dasg, â meddwl diysgog.

A'r anhawsderau yn gadau godent
 Gan ei ddiffino egni ddiflannent;
 A'r daroganwyr o draw a gwynent,
 Aml lu aniddan, oll ymlonyddent,
 Clod y tywysog enwog a ganent,
 Wrth ei wasanaeth, oedd fel gwyrth, synnent.

Cadarn a ieuanc ydoedd,
 Nawn teg ei ogoniant oedd.

Penna gŵr oedd ef pan agorid
 Y ter Balas disglaer trybelid,
 Ei enw y dwthwn hwnnw fendithid,
 Ar lesolwr mawr ei hil sylwid,
 A chyfion floedd ddyrchefid,—gan bob iaith
 A gwlad ei fawrwaith a glodforid.

I'w gyhydedd ymgodai—haul bri teg
 ALBERT hoff—nis syrthiai—
 Ond cryfach, uchelach ai—ei leufer
 A'i amwych loewder nes y machludai.

Cai haelfeib pob celfau pert
 Eu canolbwnc yn ALBERT;
 Pwnc canol, pen, ac enaid
 Y gu Arddanghosfa gaid
 Ynddo ef—ni ddaw o'i ol
 Un noddwr mor ddefnyddiol.

XIV. *Duwch ei ymadawiad.*

Duwch ei ymadawiad—a niwliodd
 Ein hail Arddanghosiad,
 Rhy lesg oedd teimladau'r wlad
 Gan saeth ac hiraeth cariad.

O y cynnyrch a'r ceinion
 Aml a ddaeth i'r Deml Hedd hon!
 China ddyg o'i chynnydd hael,
 A'i dewis geinion diwael;
 Heirddion feinbriddion o'i bro,

O'i mwynwaith welem yno ;
 Bathion, a moddion meddyg,
 A gorau addurnau ddyg.
 Mynnai Ffrainc, mewn offer hedd,
 Gynnal ei gloew ogonedd ;
 Nid oedd plith pobloedd pob pau
 Ei bath am gywrain bethau.
 Norway ddeuai'n wir ddiwyd
 A'i mael o bell ymyl byd ;
 I Babel Hedd yn bybyr
 Deuodd o bau y dydd byr.
 Trwy hael fodd Awstralia fawr
 Yrrai drosodd aur drysawr ;
 Oddi draw, hardded oedd drych
 Ei cholofn aur uchelwych !
 Brazil, bu eres holi
 Gael trem ar ei heulem hi ;
 Tymor i weld cellt-emau
 Yn bur o'r drofanol bau.
 Tra hael oedd Awstria o lin
 A delid, a gwaith dilin
 O fedrusrwydd hylwydd hon,
 A dirif oriaduron.
 Dyg Rws oer o'i bedd-oer bau
 Ei brethyn o'i bro hithau :
 Nis traidd gwynt Rwsia trwyddo,
 Mewn gauaf trymaf gwna'r tro :
 Crwyn eirth, o'n cyleh i'w crynhoi
 I'n mawrles, a chrwyn morloi,
 Rhyfedd wrth deithio rhewfyd
 Dymor gwlaw, ein bod mor glyd.
 Hefyd cobau dihafal
 Pert i gyd o Portugal.

Mor odidog Oriel enwog
 Yr Arluniau !
 Parai newydd fyw lawenydd
 I filiynau.

Cerfluniau gorau a gaid,
 Ar fynor cerfio enaid.
 Gwenai y delwau gwynion,
 Delw o bridd anadlai bron.
 Oeddwn yn disgwyl iddi
 Ado'i man—siarad a mi !

Ym mhob celf mae bywiocâd
Eisoes trwy'r Arddanghosiad.
Newydd hwyl o hyn a ddaeth
Rhyfeddol ar ofyddiaeth.

Torf oeddynt yr ofyddion—goronwyd
Am gywreinwaith tirion,
Ynni i'w llaw a hoen llon
Byth ydynt eu bathodion.

Golwg ar welliantau'u gilydd—ddygodd
Ddiwygiad ysblenydd;
Mwynhau'r oll, tremio yn rhydd,
Ac ennill drwy bob cynnydd.
Ond bu tristyd ynnof wrth gofio
Y Pennaeth mwyn pan aethum yno;
Oedd rhy anhawdd yn ydd awr honno,
Rhy galed, ymatal rhag wylo.

Gwnai'r tro anochel flwyddyn uchelwyl
I filoedd aneiri'n flwyddyn arwyl;
A'n clodfawr dywysog enwog anwyl
Mewn bedd, pa ryfedd bruddhau ein prifwyl!

Y gŵr oedd i agoryd
Arddanghosfa benna'r byd,
Ei phen a'i hamddiffynnwr,
Yn ei fedd, unionaf ŵr!

Oll i'r man daeth llawer mil—o bob iaith
Yn y gobaith o gael teg Jubil,
I ben y daith erbyn dod—clywent gŵyn
Oer, a llais achwyn o'r llys uchod.

Ar ein sedd, tra yn neshau—i'w golwg,
Gwelent gysgod angau;
A'n llys i gyd yn llesghau,—cauad wnaeth
Ar ddu hiraeth ei ddisglaer ddorau.

Ac arwyddion ar ein gruddiau—trwy'r wyl
Ei fod yn anwyl hefyd i ninnau.

Newydd ddod o'i angladd ef
Iawn oedd i Brydain addef
Wrth y dorf ei hiraeth dwys,
Wrth y myrdd hiraeth mawrddwys.

O ganol ei ogonedd
A'i swydd fawr, suddai i fedd.

Claf heddyw yw celfyddyd,—a gwyddor
Guddiai 'i gwyneb hefyd
Ger ei fedd. Pwy geir o fyd
A'u nawdd mwy, y ddwy ddiwyd!

Er huno'r mawr arweinydd
Parhad i'r sefydliad fydd.
Ei feddwl ef ddeil o'i ol,
A'i gynnydd fydd ogonol;
Erys ar ol i'n hwyrion
Roi i fedd y ganrif hon.
Fe geir arddanghosfa gywrain
I'w hagog, tra bo gwyddor gain;
Daw ail oes a'i gwiw dlysau
A'i gloewaf glod i gelf glau.

A'r molawd roir i'r milwr—a roddir
I'r haeddawl wyddonwr;
Daw'r lles, y golud, a'r llwydd,
I ddedwydd gelfyddydwr.

Traethir yn hir y da wnaeth,
Synnir wrth ei wasanaeth,
Beirdd odlant, ganant i'w go
Nad ydynt mewn bod eto;
A'u blodau byw a ledir
Ar ei lwch mewn arwyl hir.
Erys ef wedi yr oes hon
Fel Selyf oloesolion.
Moliant dyr mal ewyn ton,
Fel niwl o flaen awelon,
Ond rhinwedd wedi'r einioes
Draw fwynha ddiderfyn oes;
Pwy ddywed gadarned yw!
Caerog adail, craig ydyw.

xv. Y diwedd.

Os na fu ei oes yn faith,
Bu'n fawr, heb un oferwaith.
Os oedd fer, lleshaodd fyd,
Rhô i Naf ei ran hefyd;
Mesur wrth ei lafurwaith
Dry'i oes fer yn deiroes faith.
Er mor fer ei drem ar fyd
Bu ddyfal—byw i ddeufyd.

Rhyngu dy fodd rhwng dau fyd
O Naf! bom ninnau hefyd!

Y da wneir ydyw ein hoes,
Ac wrth hyn bydd gwerth einioes;
Nid byw 'n hir, ond byw yn ol
Gair Rhi, ardderchog reol
Ddihalog—byw i ddilyn
Diben da—nid byw ond hyn.

Edrych arno 'n llunio lles
I ddynion, ryfedd hanes,
Edrych ar ei lawnwych lwydd
Oedd edrych ar ddiwydrwydd.

Ni rodd ef hyder mewn rhyw ddyfodol,
Ond mwynhau y munudau mynedol,
Parhaus ynni i'r presennol—dafnai,
A meddiannai ei oriau hamddenol.

Byw heb dwrf, gwneuthur bob dydd—ddaioni,
Ymroi â'i holl ynni, ond mor llonydd!

Safai 'r gŵr nesaf i'r goron,
Mawreddus hynt, ond mor ddi son!
Odiaeth oedd ei fendith ef—mewn mwynder
Gwŷl a thyner, fel gwllith y wiwnef.

Uwchlaw, ei swm ni clywid,—ei rinwedd
Er hynny a deimlid;
I'r ddynoliaeth mawrdda' wnelid—mewn heddi,
Ond ei ogonedd ni udgenid.

Dylifai 'i fywyd ail afon—ry fawr
I ferwi yn grychdon;
Y lli bas sy lle y bo son
Twrw moliant ar ei ymylon.

Dyrehafodd, fe rodd ei fryd—wr hynod
Ar ennill gwên hyfryd
Ior nef, a'i "dda was" hefyd,
Anwylaf air, mewn ail fydd.

Nid son wnai ef am grefydd,—ond ei byw
Hyd y bedd yn ufudd,
Rhodio 'n ol troed Gwaredydd
Heb hyder ffol, byw drwy ffydd.

Arswyda rhai, os sydyn—daw y waedd

A'r diweddaf elyn ;

Dedwydd a fydd credadyn

Parod mwy, doed pryd y myn.

Hapus ran, pwyso yr oedd

Ar Iesu, Craig yr Oesoedd.

Ar lif y farwol afon

Gweled tir a gwaelod ton !

Nid ofnai hon, er dyfned

Hynt ei llif, er maint ei lled.

Er dyfned ni raid ofni

Aflwydd yn ei hymchwyyd hi,

Os mwynheir archoffeiriad

Ynddi, a goleuni gwlad.

Parodrwydd i'r pur adref

A gaed yno ynddo ef.

Deildy yw rhith duwioldeb,

Ofer nod ni saif er neb ;

Ond ei gadarn dŷ gododd—ar y graig,

Ar gref storm ni syflood

Ei adeilad—fry daliodd,—yn nhonnau

Yn mhell li angau ni ymollyngodd.

Mwynhau 'r hen emyn yr oedd,—yr emyn,

Am rym Craig yr Oesoedd,

Canu pan o dan y dŵr

I'w Waredwr yr ydoedd.

Draw gwelai anwyl dir y goleuni,

A llon gorau Seion i'w groesawi

Ar y lan arall, ryw lu aneiri

Oll yn ei gwrddydd â llawen gerddi.

Mae 'r angeu er mor engur,

Mae 'r bedd wedi oes mor bur,

Yn gynhor i ogoniant,

A'r drws yw i gartre 'r sant.

Boreu 'i einioes a brynnodd,—a'i fawrwaith

Yn foreu orffennodd ;

Cerbyd Naf a safodd—yn ei ymyl,

Draw i fyd engyl adref dihangodd.

Aeth o'r byd a'i waith ar ben—nos Sadwrn ;

Ys hedodd yn llawen

I fwynhau "gorffwysfa 'n ol"

I ganol Sabboth gwiwnen.

SABBOTH GARTREF.

(Cyfansoddiwyd mewn cystudd.)

Y MAE y gweision yn pregethu
 A minnau yma wedi methu,
 Y meddwl hwn sydd yn fy ngwaelu—
 Hwyl ar y maes a minnau 'n ffaelu.

O! bydded llwyddiant i'r cenhadau,
 Arddeliad ar eu hymdrechiadau,
 A boed i minnau yn fy nhŷ
 Foddlonrwydd i'r ewyllys fry.

Meddyliais unwaith y mwynhawn
 Un Sabboth o orffwysdra llawn
 Fel ynys deg ar donnog fôr,
 Fel saib ar gerdd tragwyddol gôr ;—

Ond teimlwn ar y bore braf,
 Fel y medelwr fore haf
 Pan welo 'r cryman wedi ei ddodi,
 Ac yntau yn rhy wan i'w godi.

Diwrnod o orffwysdra clyd
 Yw 'r Sabboth rhyngom ni a'r byd;—
 Ond dydd o waith a llafur yw
 Y Sabboth rhyngom ni â Duw.

Na feddwl, O genhadwr hedd!
 Am orffwys nes ym mynwes bedd;
 Amser yw wythnos gweision Duw,
 A'u Sabboth—Tragwyddoldeb yw!

BEDDARGRAFF D. EDWARDS, LLANDDERFEL,
 MEIRIONNYDD.

L LANWODD yrfa o foes yn Llandderfel;
 Myg wr diwyr gam o'i gryd i'w argel;
 Diau nis duwyd ei einioes dawel
 O'i theg wawr hyd at eitha ei gorwel;
 Huna, dad! nes dêl—dy gorff i fyny
 O'th ogo obrÿ, ag holl nerth Gabriel.

Y "N O S."

TYRD Nos! a'th dorf o dystion; ym yn hoffi
 Hyawdledd dwfn y ser sydd gyda'r wawr yn tewi.
 Y mae dy bur ddistawrwydd yn cyhoeddi
 Fod acw Dduw a bydoedd tecach inni.
 Nos yw y dydd sy'n cadw'r ser o'r golwg.
 A dydd yw'r nos sy'n gwneyd y nef yn amlwg.

Mae'r haul yn creu anffyddwyr o'i gyfodiad,
 A thrwy y dydd y byd, y byd sy'n siarad.
 O croesaw, Nos! sy'n gwneyd i'r byd ostegu
 I dragwyddoldeb trwy y ser lefaru.
 Rhy gynnar, Wawr! rhy gynnar yw it ddeffro
 A dringo uchelderau'r dwyrain eto;
 Rhy gynnar—aros! mae y Nos mor dawel
 A'r fath deimladrwydd ar ei hathrist awel.
 Mae'n dangos heuliau nad oes machlud iddynt,
 Rhai nad yw'r bedd yn tafu 'i gysgod drostynt.
 Saf! oeda, Wawr! y mae dy ddull chwareugar,
 Dy ysgafn drem, a'th odlau llon difyrgar,
 Yn dramgwydd i gymanfa'r santaidd fydoedd,
 A phan ddiplanna'r Nos diplanna'r nefoedd.

O! tyrd y falmaidd Nos! yr adeg dawel,
 Pan gwsg y ddiwyd olwyn ar ei hechel,
 Pan nad yw twrf y byd yn daearoli'r awel.

Y morwr blin ar don aflonydd amser
 A lawenha pan welo yn y pellder
 Y llinell dân o ser ar lan y nefoedd,
 Goleudai o dragwyddol angorfaoedd.

Ac oedfa'r Nef yw'r Nos—Duw! Duw sy'n siarad
 I'w theml ymgynhulla'r ser i losgi mewn addoliad!
 A'u llygaid, heuliau'r hwyr, yn tanio oll gan gariad,
 Odidog gôr! anadlaf finnau odlig
 I'w canol draw, o'm preswyl nosawl unig.

O! mae dy wyneb, Natur fawr,
 Yn olau gan ryw ddwyfol wawr.
 Yr awel fwyn—
 Rhy eiddil i gyffroi y llwyn,
 Sy'n gorffwys yn yr hwyr-gysgodau,
 A'i holl freuddwydion am y blodau—

Pan lifo hon
 Fel dwyfol don
 A gyffroasid yn yr wybren dawel
 Gan adsain rhyw nefolaidd gerdd
 Neu fwynaf anadl angel,
 O! 'r traeth-adgofion yn y fan
 O ddynder bywyd ddaw i'r lan,
 A llawer bwriad, llawer trefn
 A chwelir ar y graig drachefn.
 O! 'r myfyrdodau pell olynol
 Gyneuir yn y fynwes ddynol,
 Fel ser uwchben yr anherfynol.
 Ddedwydd awr
 Pan y daw'r
 Nef i lawr
 A'r holl ser, ardderchog wawr
 Y bytholddydd, Dduw-ddydd mawr!
 Gwel y ser
 Y ser i gyd—
 Duw yn edrych
 Ar y byd!

O! 'r meddyliau anhraethadwy
 Sydd yn esgyn ac yn disgyn
 Trwy yr enaid noeth diblisgyn
 Fel angylion mewn urdduniant a thaweledd anirnadwy.

Pan glywaf swm môr-brudd y goedwig heddwawr
 Y mae fy enaid a'i feddyliau beddwawr
 Gan awel o'r tragwyddol yn adfywio,
 Y bore ddydd anfarwol yn eu lliwio.

Ardderchog wyt, O Natur, ganol nos!
 A dyma ganol dydd dy ardderchawgrwydd.
 O fewn dyfnderau'r nos y lleda hi
 Rôl ei hanfeidrol fonedd flaen y nef,
 Ei hachau o'r tragwyddol, ac yn awr
 Y clywaf hi yn canu am ei Thad;
 O! hapus hwnnw a all eilio'r gân
 A thynnu adlais o'r tu hwnt i'r ser.
 Y mae y bryniau cedyrn, ar ol cau
 Ffenestri'r wybren, ar ol troi y byd
 O'r neilldu am y nos, yn cydymroi
 I fyfyrdodau aruthr ac i fawl
 Rhy ddwfn idd ei glywed, rhy ofnadwy,
 Rhy bur i neb ei ddeall ond yr Hwn

Sy'n edrych ar ddistawrwydd bydoedd fel
Uchelaf rwysg hyawdledd, pan y maent
Yn beiddio efelychu yr Anfeidrol.

O Natur, Natur! aros mwy fel hyn!
Y mae y byd yn santaidd yn y nos,
A'r ysbrydolfyd fel yn un ag ef.
Mae'r enaid ar ei holl feddyliau'n teimlo
Rhithiau angylion yn ymorffwys ennyd
Fel brodyr a gollasid lawer oes.

Pryd hyn

Mae Natur dyner yn clustfeinio ar
Ei holl ffynhonnau'n tarddu i'r lan o Dduw.
Clyw swm y dyfroedd ar lechweddau'r bryn,
Dwrf gorfawreddog! fel pe mynnai'r rhaiadr
I'r ser ei glywed a dyweyd wrth Dduw
Fod iddo eto ar y bryniau lef
Dragwyddol o addoliad. Obry clyw
Yr afon hithau ar ei milwedd daith,
Yn llanw dyffryn ar ol dyffryn ag
Angylaidd fôr o addoliadol swm.
A'r ffynnon fach ymhell o fewn y goedwig
A lawenycha fod ei hodl hi
Yn hyglyw yn y gyffredinol gerdd,
A bod y ser yn gwrando arni lithau
Yn canu yn y côr.
Mae Natur yn addoli yn holl nerth,
Holl fawredd yr elfennau! Gwrendy'r môr
Wyllt fawl y gwyntoedd nes ymgodo'i donnau,
Fel gwyn fyd o addolwyr, tua'r nef.

ER COF AM MR. EDWARDS, VICTORIA HOUSE,
ABERCARN.

RHAGLUNIAETH fawr! Pa fodd y bu
I frawd mor hoff, i dad mor gu
Ddiffannu ymaith cyn i ni
Gael ennyd fach
I ganu'n iach!

Caraswn i gael ysgwyd llaw, caraswn anfon gydag ef
Ryw gofion hoff i'r ochr draw, at rai sydd bellach yn y nef,
Yng nghartref yn y dwyfol fyd,
Ers llawer blwyddyn faith ei hyd.

Ond ni chaed rhybudd, ni chaed awr—yr oedd y cerbyd wrth y
ddor— [lawr—

Rhy sanctaidd oedd, rhy bur ei wawr, i gyffwrdd â'r daearol
Claer gerbyd meibion Ior ;—
Ni feiddia'r angel—yrrwr mawr
Ohirio ennyd mwy—mor fawr
Oedd awydd y Gwardwr cun
I gael ei eiddo ato 'i hun.

Pa bryd y rholiodd y fath don
Ar unrhyw draeth o'r ddaear hon ?
Pa bryd newidiodd ddisglaer ddydd
I hwyr mor dywyll, nos mor brudd ?
Ond wrth ddychwelyd, aeth y don
Ag ysbryd Edwards ar ei bron
I fôr y bythol wynfyd fry ;
A'r disglaer ddydd, disgleiriach fu !

Agorodd angau gyda brys ei rydlyd byrth i gyd o'i flaen.
Adwaenai gerbyd mawr y Llys, a gwelai engyl Duw ar daen ;

Ni allai ofyn sill i'n brawd,
Na'i luddias funud ar ei rawd.

Ust, deulu prudd ! Nac wylwch mwy,
Mae meddyginiaeth lawn i'r clwy ;—
Roedd cyfaill hoffus gennyf fi,
Ac unwaith cytunasom ni
I ado cartref, gado gwaith,
A mynd ynghyd ar hyfryd daith ;
Pan ddaethum at yr orsaf fawr,
Yr oeddwn i ar ol, ryw awr,
Mewn tren boreuach aethai ef,
Ond wele *ail* gerbydres gref,
Ac er im' deimlo braidd yn brudd,
Mi a'i daliais ef yng nghorff y dydd.

O, nid yw hyn

Ond ennyd cyn !

Diwrnod byr yw'r einioes hon
Ac oriau ei blynnyddau bron,
Ac nid yw marw cyfaill eu
Ond blaenu ennyd arnom ni,
O, nid yw hyn
Ond cychwyn cyn ;
Yng nghanol eich wylofus sain,
Nid yw yr oll ond *tren o'r blaen*.

DR. PARRY, Y BALA.

Y boreu.

PA beth yw Corsica i mi
 At fangre'th enedigaeth di,
 Y lonydd BERSHAM—enw sy
 Yn anwyl gan angylion fry,
 Rhai yno geid yn gwylio'th gryd
 Dan nawdd eu clær adenydd clyd ?

Pa beth yw hanes boreu oes
 Y gwron rodd i filoedd loes,
 Gan lanw byd â sain ei fri,
 At hanes foreu PARRY gu !

Pan dorrodd gwawr ei fywyd, llawenhau
 Wnaeth Angel Methodistiaeth yn y nef,
 Wrth glywed tyrfa'n dod—sef tyrfa gref
 O weinidogion Seion yn neshau
 Yn arfog at eu gwaith, o'i arfdy ef.
 Danghosodd IESU i ryw dyrfa lon
 O Dadau Methodistaidd ger ei fron
 Olygfa newydd ar ddyfodol pur
 I ddod o addysg PARRY cyn bo hir—
 Dyfodol i ymagor yn ein mysg,
 Rhyw ddwyfol ddydd o sancteiddiedig ddysg
 Yn torri, draw, ar fryniau Cymru lân—
 A bu am ennyd seibiad yn eu cân !

Penodwyd i'r bachgennyn yn ei gryd
 Ei geidwad ;—angel ffyddlawn. Ar bob pryd
 Fe'i gwyliai, fel pe'n un o lawer mil,
 Wrth fynd i'r ysgol ddyddiol, a'r un Sul.
 O'i febyd fe'i bendithiwyd gan y Nef,
 Nid oedd dewiniaeth yn ei erbyn ef ;
 A bu ei foreu lwybr, fel mae'n wiw
 I un sydd i ddisgleirio yng ngwaith ei Dduw,
 Yn wyn o'r cryd i fyny, hyd nes daeth
 I gyflawn rym i gydio yn ei waith.

Ei lwydd a chwyddodd, do, yn afon fawr,
 Fel gwelir wrth ei gwely gwag yn awr ;
 Ac os yn fechan yn ei ffynnon wan
 Fel llygad gwllithyn newydd agor pan
 Dan ael blodeuyn, 'roedd mor loew a chlir
 A llygad gwllithyn hefyd, ac mor bur.

Mor deg, mor addas ydyw mebyd pur
 Yn hanes dynion sydd i fod cyn hir
 Yn gedyrn dros eu Hior; mae'n effaith gwiw
 A phrawf o ragarfaethol gyngor Duw.
 Dadblygiad cyson o'i foreuddydd ef
 Fu'i ganol ddydd, a'i hwyr, yng ngwaith y Nef.

Nis etifeddodd gyfoeth yn ei gryd,
 Ond etifeddodd fwy nag all y byd
 Ei roi i neb—rhieni â'u holl fryd
 Ar wasanaethu Duw, a'i feithrin ef
 Yn addysg ac athrawiaeth lân y nef.

Ymhen ei ffordd fe gadd yr iawn gyfeiriad—
 Yr addysg sydd yn rhoi o dan gymeriad
 Sylfaenwaith dwyfol, nas gall holl ystormydd
 Dyfodol oes ei ysgwyd yn dragwydd.
 Bu tad a mam grefyddol yn cyleirio
 Ffrwd bywyd pan ddechreuai 'n wan lifeirio;
 Ac wedi mynd o'r ysgogyddion ymaith
 Parhâi yr ysgogiad yn ei effaith.

Bu iddo hefyd ar Sabbothau 'r borau
 Un addas iawn i *ddechreu* agor dorau
 Ei fyd meddyliol,—gŵr a'i brif feddylfryd,
 A'i fyfyr llawn, ar Dduw a thragwyddolgyd.
 Ni ellir cofio HUGHES heb gofio hefyd
 Am ryw awyrgylch megys o nefolgyd,
 Am ras i goethi deall, gwella calon,
 Am rywrai 'n pasio—tebyg i angylion.
 Bu'r Awen hon *un* waith yn ei gyfeillach,
 A rhifid ef yn sant o'r puraf bellach;
 Fel teithiwr yn yr orsaf 'roedd e'n aros
 Am hwyr gerbyddres IESU i ymddangos—
 I minnau 'r oedd y byd ymhell,
 I minnau'r nef yn agos.

Ceid, rywfodd, grefyddolrwydd yn ei wyneb,
 Ac yn ei iaith drysorau o ddoethineb—
 A honno yn un nefol. Anhawdd ydoedd
 I fachgen tîrf anghofio ymhen blynnydoedd
 Ddylanwad pur ei ddysg a'i bresenoldeb—
 Un oedd yn byw ar gyfer tragwyddoldeb.

Mae'r disglauer foreu yn ymledu weithion,
 A cheir ein harwr ymysg myrdd Manceinion;

Mae PARRY yn eu mysg—ond nid o honynt;
 Fel pe na bai'n eu gweld ymlwybra drwyddynt.
 Efrogda y Ladineg ar yr heol,
 Y Groeg yn yr ystrôd—rhyw newydd real
 Feistrola ef bob dydd. Gymeriad addien,
 Mae bob yn ail yn gweithio ac yn darllen.

Fe glymai am ei fys ryw ddalen Ladin
 I'w darllen ar y ffordd,—a dalen wedyn,
 Nes bwyta'r llyfr oll. Yn ddiwyd ddiaball
 Ai rhagddo i feistrolï llyfr arall;
 Un arall eilwaith—ac un arall wedyn.
 Fel hyn, o un i un fe fagai edyn
 Meddylïol, gan ymgodi'n uwch i wybrau
 Gwybodaeth deg a'i hanherfynol lwybrau.
 Darlennodd lawer wrth y goleu goreu
 A fedd y byd—goleuni'r wawrddydd foreu,
 Sy'n dyblu ynni deall yr efrydydd,—
 Gwell awr o'r wawr nag orïau maith o'r hwyrddydd.

Y dydd.

Y mawr yn aml gynhwysir yn y bychan,
 Dyrnaid o fes gynhwysa fforest lydan;
 Ac yntau trwy yr Ysgol Sul, a'i swyddi,
 Ddanghosai fesen yr athrawol deithi—
 Y fesen dyfodd wedyn yn frenhinbren,
 Gan guddio'r Bala, y Fethodistaidd Athen,
 A llawer o feddylïol dirf blanhigion
 Yn tyfu'n gryf o dan ei chysgod tirion,
 Nes dod eu hunain yn ysbrydol dderi,
 Bob un yn nawdd i braidd ysbrydol dani.
 Mor felus ydyw olrhain cwrs ei fywyd,
 Y mae fel llyfr cyfoethog i'm meddylfryd,
 A phob rhyw ddalen newydd yn rhagori,
 Ac yn dyfnhau mewn cyfoeth a goleuni,
 Nes yw y ddalen *olaf* yn troi drosodd
 I Olau'r nef—y "Diwedd" mawr a'i selïodd.

O Bersham i Manceinion—dyna linell
 Heb ar ei gloewder unrhyw niwlen dywell;
 O'r Ysgol Sul, hyd risïau gloewon odiaeth,
 I fyny i Areithfa'r Brynedigaeth,
 Oedd gyfres o ysbrydol ddyrchafiadau
 Uwch law brenhinol rwysg dan aur goronau,

O'r Bala, megys eryr cryf, esgynnai
 I fyny i'r Brifysgol—lle cyrhaeddai
 Uchelion gloewon dysg, gan ymberffeithio
 Ymhob cyrhaeddiad freuddwydiasid ganddo,
 Wrth wrandaw Dalton gynt, a Lardner enwog,
 Ychydig a ddyfalai'r ddau dywysog
 Meddyliol hyn, pan fyddent yn darlithio,
 Fod llanc o'r fath ddyfodol disglauer yno.

O'r Alban yn ei ol i'r Bala lonydd,
 O! mae e gartre'n awr! a phawb yn ddedwydd
 O roddi iddo gadair y ddysgeidiaeth.
 Fe'i llanwodd hi—do, fel cyflawnydd arfaeth
 Benodol gan y nefoedd. Do, fe'i llanwodd
 Fel Solomon ei bulpud, nes gorffennodd.

Mae gartre'n awr! 'Rwyt tithau, f' awen, weithian,
Uwch ben dy bwnc, fel llong 'r ol myned allan
 O'r afon a'r cul fôr, yn gorfoleddu
Uwch ben y Werydd llydan, gan amledu
 Ei rholfawr hwyliau fel cymylau gwynion,
 A throi y gallu ar yr holl olwynion
 Hyd eitha'r ager cryf.

Nid oes golygfa

O fath yr hon geir im yn agor yma—
 Dyn mawr yn eistedd mwy i lawr *ar union*
Ganolbwynt ei feddylfryd a'i holl galon!
 Mae yn ei le, a'i long wedi cyrhaeddyd,
 'Rol mordaith *union*, at yr unbwynt hyfryd;
 Mac'n gweld ei waith o'i flaen yn eglur-olau
 Oddi yma hyd ei fedd, heb dor na rhwystrau.

Os holir im pa beth yw *un* egwyddor
 Ei hanes a'i arweiniad trwy'r holl dymor
 Hyd at y cyfnod 'nawr sydd yn ymagor,—
 Pa beth oedd *un* meddylddrych Ior Rhagluniaeth
 O'i barthed ef—*un* amcan dwyfol arfaeth,—
 Atebir yn ddiogfn—llunio Athro,
 Cyfodi dyn i godi dynion dano!

Fe fu yn dlawd yn ninas fawr Manceinion,
 'Roedd eisieu hynny at wneyd athraw union
 I fechgyn tlodion Cymru;—*hwy*, fynycha,
 Sy drwy helbulon fil yn dod i'r Bala.
 Yr oedd llifeiriant boreu i' amgylchiadau

Yn groes i gwrs ei fryd a'i dueddiadau,
'Roedd hynny yn gymhwysder i gyd-deimlo
A'r sawl oedd i wynebu'r gwrthlif eto.

Mae hen long ryfel draw ar lannau'r Hafren,
Heb arni gadben, dwylaw, hwyl, na hwylbren;
Mae wedi ei throi yn llwyr o'r neilltu weithion
Gan y niweidiau gadd mewn brwydrau poethion;
Mae wedi ei throi yn ysgol i blant tlodion.
Môr garw bywyd a'i cymhwysodd yntau—
Plentyn y don all ddysgu plant y tonnau.

Mae yn ei le fel seren glaer sefydlog,
Yn llosgi acw yn ei rhod ddiysgog
Yn unig i oleuo, ac i ddangos
I ereill rai y cylchoedd sy'n eu haros.

Bu'n unig ymysg miloedd ym Manceinion
(Ond 'r oedd ei lyfrau yn gyfeillion ddigon,
Er nad yn aml eu rhif), a'i fyfyradau
Y cyfnod hwn, ar fil o lonydd oriau
Ar auaf-nosau wrth y ganwyll egwan,
Fu iddo yr hyn i Moses gynt fu Midian.
Daeth Moses o'i unigedd hirfaith allan,
Yn nerthol ŵr i ddwyn yr Had i Ganan;
Cymhwyswyd yntau heb yn wybod iddo,
I arwain arweinyddion Seion yno.
Preswylydd mawr y berth a ymddanghosodd,
Do, iddo yntau—a'i dangnefedd gafodd.

Fe weithiai'n ffyddlon gyda'i ddosbarthiadau,
Fel Noa gyda'r arch. Ei holl serchiadau
Ymblethent am ei waith. 'Roedd yn ei gader
Athrawol wrth ei gyflawn fodd bob amser.
Nid cader athro o dymer oer oedd honno,
Ond cader freichiau tad, a'i ddosbeirth cryno
Fel serchog blant o'i gylch ar nos o auaf,
Yn holi holion gan eu cyfaill mwynaf.

'Roedd dysgu ereill iddo yntau'n ddysg.
Cynyddodd ei wybodaeth yn eu mysg
Nes ennill cyrhaeddiadau uwch o hyd
I arwain ei ddisgyblion tra 'n y byd.
Fel garddwr yn ei ardd, eselly trodd
Ein harwr trwy ei ddosbeirth, wrth ei fodd;

Fe wyddai ble i bur ysgythru'r gau,
 Pa le i chwynnu, ble i ddyfrhau;—
 A gwnai yr oll mewn cariad, megys un
 Oedd yn ei elfen yn ei ardd ei hun.
 Ni fu ei waith galedwaith iddo ef,
 Ai trwyddo fel a cwmwl trwy y nef,
 O flaen y falmaidd awel—fel yr a
 Yr awel dros y blodau fore o ha.
 'Roedd iddo ef orffwysdra yn ei waith,
 Rhyw fannau gorffwys ar bob cam o'r daith.
 Os cariai faich, y baich a'i cariai ef
 Dan ymwybyddiaeth o foddlonrwydd Nef;
 Fel gŵr yn cario'i gwch tros lawer bryn,
 Y cwch a'i cariai yntau wedi hyn.

Mae pulpud Cymru oll mewn du
 Ar ol yr efenglydd eu,
 A'i harddodd trwy ei oes;
 Ei arddull ydoedd gynllun llawn
 O weinidogaeth uchel iawn—
 Mawr ganol bwynt ei ddysg a'i ddawn
 Oedd CRIST a lawn ei groes.

O dan eneniad rhad y nef,
 Fe godai'r dyrfa gydag ef
 O wydd y byd ymhell;
 A phan orffennai'r Sabboth llon,
 Clustfeiniaï aml gredadyn, *bron*
 Fel un a glywai'r olaf don,
 Yn torri ar wlad sydd well!

Mae aml bererin erbyn hyn
 Yn hell ymlaen—mae Seion fryn
 Yn anlwg iddo ef;
 Mae'n cofio'n brawd fel "Cristion" gu,
 Yn cofio'r "Efenglydd" fu
 Yn dangos iddo'r gulffordd sy
 Yn awr ar ffin y nef.

Gallesid meddwl pan yn llanw 'i le
 Ymysg ei ddoisbeirth gwiw, nad oedd efe
 Yn unpeth ond Dysgawdwr. Pan yr ai
 I'w bulpud eilwaith, gell'sid meddwl mai
 'R pregethwr oedd yn unig, gan mor llawn
 Oedd rhiniau'r brynedigaeth drwy ei ddawn.

Addurnol arddull, heb yr ofer wych ;
 Y coeth a'r athronyddol, heb y sych ;
 Gallasai weithio allan feddwl mawr,
 A'i ddangos gefn a gwyneb, nen a llawr,
 Nes aem o'i ogylech ;—safai erbyn hyn
 Fel palas o oleuni ar ryw fryn,
 Na fu yn gorffwys arno niwl erioed,
 Na neb yn meiddio ameu wrth ei droed.

Ysbrydol amaeth pur
 Oedd ef, o ffyddlawn ryw ;
 Ac O ! fel syllai dros y tir
 Hauasai ef i Dduw,
 I weld pa ffrwyth, pa gynnyrch oedd
 O'i lafur cudd mewn llwyddiant coedd.

Fe ddyblodd ef ei hun,
 Do, lawer, llawer gwaith,
 Trwy fagu gweinidogion da,
 Dorf, at y dwyfol waith ;
 Pan ddelo boreu cun
 Yr adgyfodiad mwy,
 Fe gaiff ei wobwr fawr ei hun,
 A rhan o'u gwobrau hwy.

Ni liosogodd nemawr sant
 Ei hunan fel efe,
 Ni bu i nemawr athraw blant
 O'r nifer hyn i'r ne ;
 Ac O ! ni fydd i nemawr un
 Wobrwyau o'r fath ddwyfol rin.

Rhyw PAUL oedd PARRY gu ;
 Ac am bob disgybl gwiw,
 Ei enw ef oedd TIMOTHY—
 Ei sanctaidd fab yn Nuw.
 Edrychai ar ei ol fel tad,
 Fel un yn gwylio dros ei had.

Yr hwyr.

Aeth heibio 'r boreu o ymbarotoi,
 Y mae cymylau 'r hwyr yn ymgrynhoi
 Uwch ben y dydd o weithio heb ei ail,
 Rhaid gostwng tôn y gerdd wrth weld ei haul
 Yn araf ostwng ei ddisgleirdeb clir
 Tu arall i fynyddau'r tywyll dir.

Gan gariad at ei waith,
 Fe deimlai braidd yn flin,
 O herwydd fod ei daith
 Yn hwy na'r gwaith ei hun—
 Ychydig gamau byr yn hwy,
 Gan rym ei glefyd ola a'i glwy.
 Carasai i'w ddaearol daith
 Ddibenu *gyda'i* nefol waith,
 A gyrru yn ei harnais llawn
 I dŷ ei Dad yn hwyr brydnawn.

Bu athrist ganddo rwystro 'i rym
 Cyn llwyr waghau ei hadlestr pur ;
 Bu'n dristedd, bron, orffwyso dim,
 Er 'nawr yng ngolwg Canan dir !

'Roedd gwrandaw ar dy sain,
 O ! fawr Iorddonen gref,
 Am fisoedd hirion, braidd
 Yn alar iddo ef.

Y sain bereiddia erioed
 Oedd swm ei ddothbarth cu,
 A char'sai fynd mewn cyflawn oed
 O'u swm i sain—
 I sain yr anthem fry !

Fe gyrhaeddasai llawer sant
 O nifer ei ysbrydol blant,
 Ers tro, y ddinas gain ;
 O ! 'r gorfoleddu'r ochr draw,
 Pan gwrddai hwnt uwch loes a braw,
 Pan deimlai aml gyfeillgar law
 Deimlasai ef o'r blaen !

Ymysg y llu 'roedd yno rai
 O'i ddothbeirth gynt, yn llawenhau
 O weld eu hathraw'n dod ;
 Fel yr arweiniodd PARRY hwy,
 Arweinient hwythau PARRY mwy
 I weld y wlad lle nad oes clwy,
 Na sain—ond anthem clod.

Arweinient ef, o fin y dŵr,
 Trwy engyl fyrddiwn at y GWR
 Ddioddefodd farwol glwy ;

A chlywyd yn yr anthem fawr
 Ryw lais na chlywsid hyd yn awr,—
 'Roedd wedi dysgu ar y llawr
 Y gân na dderfydd mwy.

Ym mysg y saith ugeinmil llon
 Brynasid ar y ddaear hon,
 Cymerai 'n rhwydd ei le.
 'Roedd wedi hen feistrolï'r gân,
 'Roedd wedi dechreu 'i chanu o'r bla'n,
 Pan gyda'r pererinion glân,
 Yn dringo tua'r ne.

Daeth angel hardd â choron wen—
 Ni fu ond ennyd ar ei ben,
 Fe roe y goron gain
 Wrth droed gorseddfa IESU cu,
 Gan ddwedyd, 'Gormod yw i mi!
 Rhowch hon i'r Bendigedig fu
 Yn gwisgo coron ddrain!

Ar hynny rhoddai'r dyrfa i gyd
 Eu holl goronau i lawr 'r un pryd,
 Gogoniant gloewa'r nef,—
 Drwy hynny mae yn uchder nen
 "Goronau lawer ar ei ben,"
 Yn ol yr anthem fawr—"Amen!
 Y moliant iddo ef!"

Hen fynwent gysegredig LLAN-Y-CIL!
 Ni feddi lwch, pe bae dy feirwon fil,
 Mwy bendithiedig! Ddaear ddedwydd yw
 Dy ddaear di am gynnwys perl mor wiw—
 Mor werthfawr gan y Dwyfol Dad, a wnaeth
 Ei brif ewyllys ar dy drysor caeth.

Boed gwanwyn deublyg ar dy dyfion di!
 Boed fyrdd dy flodau, myrdd dy wlithion cu,
 I'wylo hwyr a boreu ar y bedd,
 Lle gortfwys ei weddillion yn yr hedd,
 Nas gellir aflonyddu arno mwy—
 Lle ni ddaw gelyn byth i beri clwy!

YR ADGYFODIAD.

MI ddringaf i'r wybren fry hyd risiau 'i addewidion Ef,
Teg foreu anfarwoldeb sy yn gwawrio dros fynyddau 'r nef.

Un ffagl yw 'r greadigaeth fawr, anfeidrol fflam yn ennyn fry,
A choch yw 'r nef a'i thanllyd wawr, a heuliau yw ei chynnud hi.

Mil, mil o fydoedd lysg o'i blaen, a'u hulw dywylla 'r nef uwchben;
Marworyn du yw 'r huan cain, mae'r ser yn wylo ar fronnau 'r nen.

Tra thwrf cerbydau Ior gerllaw,
Caleda 'r wybren laes gan fraw;
A cheula 'i môr o hylif ter
Yn balmant i osgorddlu 'r ser.

Chwydd ar ol chwydd o'r ddwyfol gân
Fry, clyw, yn lledu 'r wybren dân!
A, dyna 'r Brenin yn ei swydd,
Mae 'r farn a'r Barnwr yn ei gwydd.

Ar fainc o berlau yn ymyl Duw,
Arch-angel o oruchel ryw
Ddechreua weithrediadau 'r dydd,
A bloedd yr adgyfodiad rydd.

Cwyd udgorn bywyd at ei fin,
Aruthrol udgorn Duw ei hun!
Anfeidrol dwrf! brawycha 'r nen,
Gogwydda, a syrth y goron o ser oddiar ei phen;
Disgynnant, fyrdd ar unwaith, gyda 'r llef,
Fel cawod drom o berlau drwy y nef.

Uwchlaw ehed yr adsain gref
O fyd i fyd, o nef i nef;
A thyr fyddardod angeu 'i hun,
A chwyd a gwrendy y fynwent flin.

Fel euog flaen ei Farnwr dua 'r haul,
A nos dragwyddol orffwys ar ei ael;
Fel lamp mewn tymhestl, derfydd ar ei hynt,
A diffydd fel y ganwyll yn y gwynt.

Dydd angeu 'r greadigaeth gref,
A dydd diffoddiad lampau 'r nef,—
Mae 'n gwawrio o'r orseddfainc draw,
A chwmwl ar ei ol ni ddaw.

C Y M R U .

Hoff wlad.

PA beth yw 'r swyn sydd yn y gair "Fy ngwlad,"
 A'r gallu rhyfedd, rhyfedd ei barhad?
 Pa beth yw 'r aidd sy'n ennyn dan fy mron
 Pan enwaf, neu pan glywaf enwi hon,
 Pa un ai yn ei broydd heirdd ei hun,
 Ai 'mhell tu draw i'r môr yn alltud eithaf blin?

'R ym yn dy garu, Gymru, yn ddi-goll,
 Yr ym yn caru dy fynyddoedd oll.
 Adwaenom eu copaon bob yr un
 Fel wyneb cyfaill ar ol cyfaill cun;
 Pan gwyd yr haul, a phan yr el i lawr,
 Llwy'r yw ein hiraeth am y lloer yn awr,
 I'w cyfarch a'u mwynhau o dan sancteiddiach gwawr.

Y môr darana ar dy draethau di
 A mwy o fawredd ac o nerth i ni!
 E dafia feddylddrychau mwy na'r byd
 I'th freichiau o benrhynion maith eu hyd;
 Mwy per-bruddaol yw pell sw'n y trai,
 A mwy cynhyrfus fyrdd y llanw i'n bywiocau.

Y morwr llawen, a dreuliasai gynt
 Yn sw'n dy ddyfroedd ei foreuol hynt,
 Gwel lawer ynys decach ar y don,
 A llawer gwlad o gyfoeth mwy na hon,
 Ond fel y nodwydd ar ei gwmpawd, try
 Ei feddwl yn sefydlog atat ti.

Gwlad y mynyddoedd a'r gwylltineb maith!
 Wrth droed ei bryniau, fel pererin, iaith
 Eistedda i addoli. Ble mae'r llaw
 All dynnu darlun o'r mynyddoedd draw
 A grwydrant yn y cwmwl, ac o bell
 Gyfeiriant obaith tua byd sydd well?

Cyn hyn bu ganddi anibyniaeth lawn,
 Ymhlith cenedloedd enw uchel iawn,
 Bu ganddi faner genedlaethol gynt
 Yn chwyfo uwch ei lluoedd ar eu hynt,
 A chlywyd bloedd ei byddin ddewr cyn hyn
 Yn deffro holl adseiniau bro a bryn.

Ei seren anibyniaeth aeth i lawr,
 A bedd Llywelyn a'i gorchuddia 'n awr!
 Ni rifir hi ymysg teyrnasoedd mwy,
 Ei henw a ddarfu o'u cynghorau hwy,
 Machludodd haul ei gwladwriaethol fri;
 Yn llwyr oddar ei bannau uchaf hi.

Er hyn y mae gogoniant llawer gwell
 Yn eiddo iddi, yn ei bryniau pell.
 Pa beth yw cyfoeth cenedl? Nid y gad,
 Y rhwysg, a'r rhyfel, ond ei gwlad, ei gwlad!
 Gwlad a'i dyffrynnoedd fel gwynfaoedd clyd,
 A'i bryniau fel arwyddion newydd fyd;
 Gwlad ag y gwna ei golygfaoedd berth
 Ddadblygu'r meddwl i'w angylaidd nerth.
 Er colli'i gwladwriaethol freiniol fri,
 Anrhaethol eto yw ei chyfoeth hi.

Pan syllom ar fynyddoedd hon
 Ar doriad borau dedwydd,
 Bob un yn chwyddo megis ton
 O fôr Hollalluawgrwydd,
 Pob galar yn dibennu sydd,
 Yr ym yn teimlo eto 'n rhydd.

A phan y cawn olygfa glaer
 Mawreddog awr machludiad,
 Pan ffrydia drostynt nentydd aur,
 Ac anian bron yn siarad,
 Ein mynwes yn ymchwyddo sy
 Gan anibyniaeth engyl fry.

Y bugail ar lechweddau mynyddoedd nefol hon,
 O, rhodder imi dreulio yn ei gymdeithas lon
 Yr oriau per-hamddenol sy'n dyfod ambell bryd
 Fel engyl idd ein gwahodd uwch holl ofalon byd.
 Rhagorach yw ei gyfran, er gwaelod yw ei wedd,
 Nag eiddo'r pen coronog sy'n uchel ar ei sedd.
 E balla rhwysg y ddaear ar ddiwedd ein boddhau,
 Ond byth ni phalla anian, mae'n newydd i'w mwynhau.
 Y llygad fina'n edrych ar rwysg yr orsedd fainc,
 A derfydd yn y diwedd swyn y filwrol gainc,
 Ond ef erioed ni flinodd yn edrych ar y wawr
 Yn tywallt ar y bryniau ffrwd y foreuol awr.

Er mynych ymglustfeiniad erioed ni ddarfu swyn
 Y dafnau yn yr ogof, y ffynnon dan y llwyn.
 Pob borau ymagora fel cyntaf forau'r byd,
 A'r haul a adnewyddu y greol wyrth o hyd.

Y mynyddoedd.

Rhoer imi gipio'r ysbryd fedyddia'r bannau draw
 Mewn dylif o farddoniaeth ymdorrol ar bob llaw.
 Mae'r wawr yn ymlodaenu ar hyd eu hochrau hwy,
 Diderfyn fawreddogrwydd ymdaen o'm hamgylch mwy.
 Ban ar ol ban ddisgynna o fyd y niwl yn awr,
 Yn filoedd ymddanghosant i dderbyn gwên y wawr.
 I fyny hyd eu hochrau ymrolia'r niwloedd prudd,
 A llechwedd ar ol llechwedd a daniwyd gan y dydd.
 Yn nrych y wawr ymdrefnant i edrych ar yr haul
 Yn dyfod led y nefoedd, a'i allu yn ddi-draul.
 Yr un mor ogoneddus, yr un mor brydferth ynt,
 A phan y doent i fyny o nos y tryblith gynt.

Gwyltineb tragwyddol o gylch a'u meddianna,
 Celfyddyd ni esyd ei throed i lawr yma.
 Ei meibion a'u cadwant i anian yn unig,
 I'r geifr yn noddfa, i'r stormydd yn lleithig.
 Meddiennir y dyffryn gan ddyn a'i gynlluniau.
 Ei ffyrdd palmantedig, ei dref, a'i balasau;
 Fe dyr y coedwigoedd rhai ydynt yn cofio
 Pan nad oedd ond gwyntoedd yn mynd y ffordd honno;
 Ete sydd i'w weled, a phan y clustfeiniaf
 Lleferydd y dynol yn unig a glywaf.
 Ond ar ei mynyddoedd unigaidd, y dwyfol
 Yn unig a glywir, a welir fyth bythol!
 Sydynrwydd a serthedd eu geirwon glogwyni
 Rydd arch i ddyn sefyll a mynd i addoli.
 Draw wrth eu godreion gorffwysa'n synedig
 I dderbyn meddyliau mil mwy dyrchafedig
 Na dim a ffynhonnodd erioed ynddo'i hunan—
 Barn ar ddaearoldeb yw'r drem hon ar anian.
 Pob tuedd am ennill a chlodydd tymhorol
 Wanheir gan welediad ar fawredd mor nefol.

Nef! nef!

Yw bloedd ei bryniau—ail i lef
 Y sant mewn hiraeth am ei dref,
 I'w feddwl ef eu bannau hwy
 A wasanaethant fel coffhad
 Am dŷ ei dad, a gwlad ddi-glwy.

Rhydd, rhydd,
 Y teimlwn ein hysbrydoedd prudd
 O rwy mau'r ddaear hon a'i lludd,
 Ar derfyn dydd pan roddom daith
 Ar hyd eu llonydd fannau hwy
 I gyrraedd mwy unigrwydd maith.

Mor hawdd addoli yn y maith unigedd
 Sy'n rhoddi iddynt fwy nag arucheledd!
 Ag ysbryd duwiolfrydedd mor gydunol
 Ceir holl ddylanwad eu pinaclau nefol!
 Eu bannau a'n cyfeiriant i'r uchafoedd
 Fel bysedd engyl tua ffordd y nefoedd.
 O teimlwn fel pe byddai'r holl olygfa
 A ninnau ynnddi, 'n symud tua'r wynfa.
 Mor hawdd addoli lle mae'r holl gre'digaeth
 Fel yn ymestyn am ei Ner mewn hiraeth!

Addoli mae y creigiau er na chlywaf
 Iaith na lleferydd gan eu ffurfiau cryfaf;
 Tystiolaeth ydyw eu haddoliad uchod,
 Tystiolaeth i'w dragwyddol allu a'i Dduwdod;
 Addoli mae'r llifeiriaint sy'n taranu
 O graig i graig, o fewn yr holltau obry;
 A dadgan nerth Creawdwr mae y daran,
 A bron ei gynrychioli Ef ei hunan!
 Yr awel, hefyd, ar ogwyddol gangau,
 Cerdd lawn o foliant a anadla hithau.
 Mor hawdd i ddyn ymuno yn y moliant,
 Yngodi tua'r nef ar ddylif yr addoliant!

Ymdaenant weithiau'n gyfres erfawr led,
 I bob cyfeiriad cangen uthrol red,
 Ac ambell fynydd uwch y mil ymgwyd
 Ac ar ei ben e ddyd y caddug llwyd
 Yn arwydd ei goroniad—plygant draw
 Eu pennau o goedwigoedd ar bob llaw.

O fynwes y dyffrynnoedd dyfnion clyd
 Disymwth yr ymsaethant ambell bryd
 Mewn maith unigedd tua'r wybren gref,
 Fel arsyllfaoedd rhwng y byd a'r nef.

Mynyddoedd Meirionnydd.

Cysgodion ardderchog mynyddoedd Meirionnydd
 Fel nos o farddoniaeth orchuddiant ei broydd
 O ddwyrain i lewin, o ogledd i ddehau,
 Cyfochrog â'r cwmwl y gwelaf eu trumiau.
 Ni fedra y llygad, o bell, eu gwahanu
 Oddwrth y cymylau sydd yn eu hamgylchu,
 Ond trwy ddiysgogrwydd tragwyddol eu creigiau
 A dyfnach tywyllwch eu pell amlinellau.

Cader Idris.

Cyfoda Cader Idris, ym mhellder wybrol fyd,
 Ei gorsedd, a chymylau yn ortho drosti ddyd.
 Mae 'n fynydd i fynyddoedd! eu huchaf lais ni chlyw.
 Mae 'n uchel o uchelion, a phell o bellder yw.

Y mae ei dydd yn feithach, a'i nos yn fyrrach—daw
 Y boreu yn foreuach, a'r hwyr yn hwyrach draw.
 Wrth syllu ar ei hochrau o duedd Tal y Llyn
 Pa galon na ddychrynnu o dan y creigiau hyn?
 Mor serth ei beiddiol ochrau! yn union tua 'r nen
 Y saethant i'r wybrennau trwy gwmwl, storm, a llen,
 Fel rhai a fai 'n dirmygu ymgyrhaedd am eu nod
 Trwy lwybrau cylchol—llwybrau dynoliaeth is y rhod,
 Fel llwybrau y ddynoliaeth pan ymgyrhaeddo hi
 Am uchel gamp dedwyddwch a maith-barhaol fri.

Edrychaf o'r uchelfan pan fyddo 'r haul yn llawn
 A dylif o ysblander dros draeth ardderchog nawn,
 Canolddydd o ardduniant ymdorra ar bob llaw,
 Llif o ardduniant yma, llif cyfoethocach draw.
 O teimlwn fel pe byddem ar ganol bwynt y byd,
 Ar ganol bwynt ei swynion a'i geinion ef i gyd.

Draw tua phwnc y gogledd, arweinia 'r Wyddfa gref
 Fawreddau yr olygfa filldiroedd tua 'r nef.
 Mynyddoedd fil weinyddant yn addfwyn wrth ei throed,
 Fel ufudd ymerodraeth o dan ei llywiaeth roed.
 Ei hawyr deneuedig yn addas elfen sydd
 I dderbyn ymweliadau angyllion derfyn dydd.
 Ei gosgordd o fynyddoedd yn dilyn tua 'r nen,
 A thros eu beilch ysgwyddau y dydd yn wisg ddi-len.

Mor llawn o awgrymiadau anfarwol yw y drych!
 Y pellder, O mor nefol! Yr agos, O mor wych!

Barddonol efryd lanwa yr amlinellau pell,
Nes gwisgant lwyr ddisgleirder a gwycheder bydoedd gwell.

O orwel pell y deau, ei ben Plunlimon gwyd
Yn araf ac yn bruddaidd, trwy lawer caddug llwyd,
Fel pe yn cofio 'r oesoedd pan oedd ein Gwalia 'n fawr,
A'i glogwyn yn ddisgwylyfa filwrol ar bob awr.
Pan glywid twrf y gelyn ar ganol nos gerllaw,
Fel seren buddugoliaeth ei goelcerth godai draw.

Ardderchog Lyn y Bala â llen o arian rydd
Amrywiaeth hoff i'r oror lle 'r egyr dôr y dydd.
Ac fel angylaidd ddringfa i fyny i'r wybren fry
Mynyddau 'r Aran welir—pob gris yn fynydd sy.
Mae cadwyn faith y Berwyn fel yn canllawio llwybr
I ysbryd yr ystorum i rodio trwy yr wybr.

Môr-gilfach Aberdeifi fel gwerddlas fythol waen
Ymhell i'r gorllewinbwn, ymegyr oll o'n blaen,
Fel newydd fyd ymdaena diderfyn wyrdd y môr,
Fel drych o anfeidroldeb a dyfnion lwybrau 'r Ior.
Mor brydferth yw y waneg dragwyddol wen y sy
Yn chwareu ar dy draethell, Meirionnydd greigiog hy ;
Mor heirdd y llongau ledant ar hyd ynylau hon
Eu hwyliau, fel adenydd o eira uwch y don !

Pan syllom ar y creigiau yn dal ymgrychiad dig
Y llanw ymosodol a'r storom ar ei frig,
Gan daflu yn ei wrthol y berwol lif yn wyn
Gan fraw wrth adael ochrau y caerau beilchion hyn,—
O mae yn dwyn i adgof y dewrion gynt a gaed
Yn troi yn ol elynion, rhai ddoent trwy lanw o waed.
Cydsefent ar y terfyn, a ffurfient yno graig
A droai 'r ymosodwyr yn ol fel tonnau 'r aig.
Boed tannau ar fy nhelyn yn gysegredig mwy
I'w cofiant, er na chlywaf ond braidd eu henwau hwy.

Mynyddoedd Arfon.

Ond pa ddarlunydd dynnodd ar y llen
Ogoniant Arfon? Ei hardderchog lu
O fryniau yn ymledu dros y nen,—
Mae 'r ddaear fel yn troi yn nefoedd fry.
Goruwch eu gilydd yr ymgodant fyth
Fel pe bai natur hyd eu grisiau hwy
Am ddringo bellach tua 'r nef ddi-lyth,
Heb orffwys nes cael gweld ei Chrewr mwy.

I bwy y dyrchid y beraon draw
 Ond idd yr hwn a ferchyg nef y nef?
 Pell byramidiau y dragwyddol law,
 Mor union y cyfeiriant ato ef!
 Anghofia 'r teithiwr pan eu gwel
 Bigyrnau Soan; holl ogoniant dyn
 Ddiflanna fel y niwloedd ar eu hael,
 O'i flaen nid erys onid Ior ei hun.

Dringo 'r Wyddfa.

Gwel acw y pererin wrth droed yr Wyddfa fawr,
 Yn ymbar'toi i ddringo ei llethrau beilch yn awr.
 Mae 'r huan wedi codi, a borau hafaidd sy
 Yn gwisgo â disgleirdeb yr holl fynyddau fry.
 Rhyfeddol ddisgwyliadau o dan ei fynwes bur
 Enynnir, fel pe byddai ar sangu nefol dir.

Yn araf a i fyny, yn araf eto 'n llon,
 I fyny ac i fyny—ond pell o hyd yw hon.
 Mae 'r Wyddfa i'r wybrennydd yn llonydd ymbellhau
 Fel delwedd o'r perffeithrwydd y mynnai dyn fwynhau.

Ar hyd y ffordd gerigog ymdrecha 'n galed draw,
 Ond am ei holl ymdrechion y golygfeydd bob llaw
 Yn gyflawn a'i gwobrwyant, a thua 'r glogwyn gref
 Gorona 'r holl ogoniant gorymestynna ef.

Mae llawer mynydd bellach, a llawer clogwyn hy
 Mewn dyfnder mawr yn gorwedd goris ei safle fry.
 A'r Wyddfa yn y diwedd a'i llwyr ryddha ei hun
 O fysg yr holl gopaon, a geir o bell fel un;
 Unigol yn ei mawredd, ac anibynnol mwy,
 Ymgyfyd tua 'r nefoedd, ac obry gedy hwy.

Y llwybyr cul sydd bellach yn enbyd ymgulhau,
 A'r teithiwr hyf am ennyd a ofna agoshau.
 Yr uchaf drum a'r olaf gulhaodd natur draw,
 A rhoes arswydol ddyfnder diorchudd ar bob llaw,
 Fel pe mynasai yma derfynu ymgais dyn,
 A chadw 'r ban uchelaf yn sanctaidd iddi 'i hun.
 Ond ar ei phen y gwelaf y teithiwr llon yn awr,
 Yr olwg gyntaf yma wobrwya 'r ymdrech fawr.

Ar edyn taenedig diderfyn arddunedd
 Ei ysbryd a gipir i nefoedd edmygedd.
 Pob meddwl iselaidd a bychan ddifflanna
 O flaen rhyfeddodau 'r aruthrol olygfa.

Ei enaid ymegyr fel aber i dderbyn
 Môr mawr yr arddunol sy 'n chwyddo gyferbyn.
 Ni theimla un diffyg mewn mwyniant mor uchel
 Ond diffyg ysgrifell a doniau yr angel.

Fe wêl yn ei ymyl ryw ieuanc arlunydd
 Yn syllu mewn syndod o gopa y mynydd.
 Fe ddringodd i fyny fel cywrain gelfyddwr,
 Ond sangodd yr Wyddfa a throes yn addolwr.
 Ei fraslen a blygodd, dyferodd ei bwyntel,
 Anghofiodd yr oll ond ei Grewr goruchel.

Gylchogylch edrycha—mynyddoedd, mynyddoedd,
 Aneirif, aruthrol, ar grog trwy y nefoedd ;
 Mwy uchel a beiddgar bob chwyddiad eu cenfydd
 Fel pe yn ymseilio ar fannau eu gilydd.
 Lle derfydd un gyfres dan goron o niwloedd,
 Y llall a gychwynna 'n fwy beiddgar i'r nefoedd.

O ganol y dirfawr a'r pur ryfeddodau
 Dyn yntau dderbynnir i'w dderch fyfyrdodau.
 Er gwaeled, er pelled yn awr ei canfyddir,
 O'i uchel fyfyrdod ni hollol alltudir.
 Fod egwan helbulus ! mae yntau 'n ymestyn
 O hyd am fwynhau y di-dranc a'r diderfyn.
 Draw rhag ei ddirmygu a'i lwyr ebargoſio
 Chwarelau Dinorwig ddywedant am dano.

Ond nid y mawreddog, yr erch, a'r aruthrol,
 Yn unig a welir o'r glogwyn arfeiddiol.
 Yn debyg i'r wyn ogyrch llethrau Gwyllt Walia
 O gylch yr aruthrol y tlws a chwareua.
 Wrth droed yr arddunol y prydferth a gymer
 Ei safle, a gwna yr ofnadwy yn dyner.
 Mor heirdd y dyffrynnoedd ddilledir ag ydau
 Gyferbyn â moelni tragwyddol y creigiau !
 Y llynnoedd lluosog o bell ymddisgleiriant,
 Ac ynddynt y creigiau a ailymddanghosant.

Fe genfydd odditano orddynderoedd,
 Agenau yn y creig, fel beddau bydoedd,
 Rhy ddyfnion i belydron haf eu tramwy
 A chwareu ar eu hochrau anringadwy.

O'i flaen y greadigaeth noeth o greigiau
 Dywylla'r nefoedd mewn aneirif ffurfiau,

Ar ffurf pigyrnog weithiau ymddyrchafant,
 A therfyn olaf yr ystorm a basiant.
 Yr eira yn dragwyddol goron wisgant,
 A'u traed ar orsedd o gymylau roddant.
 Tros wagle erfawr yr ymhongiant wedyn
 Gan agor, fal pe taenai byd ei edyn.
 A llawer llyn, a llawer llannerch ffrwythlon
 O amgylch gauir rhag y gwyntoedd llymion.

Yr olyfa od itar ben yr Wyddfa.

Eangder yr olyfa sydd eto braidd yn well,
 Arddunol yw yr agos, ond nefol yw y pell.
 Yr agos fyth ni lanwa holl ddymuniadau 'r fron,
 Y pell sydd yn ffiguro yr hedd a fynnai hon.
 O, pan y caffom olwg ar lan tu hwnt i aig
 Tebygem weld angylion paradwys ar y graig.

Goleuni oesoedd eraill yn awr i'r golwg ddaw,
 Chwareua ar adfeilion y castell hyglood draw.
 Ac yn yr ymyl gorwedd hoff ynys Mon, a lli
 Y Fenai deg yn arwain y môr o'i hamgylch hi;
 Gorwedda fel darlunlen taenedig ar y don,
 Aneirif yw y swynion a gawn ar fynwes hon.
 Ac yn y dirfawr bellder Iwerddon deg ei phryd
 A lonydd ymddyrchafa o fynwes dyfrog fyd;
 Er gwanned ar y dyfnder ei hamlinelliad du,
 Er colli yn y pellder ei golygfaoedd cu,
 Y dyfnder a'r pellderoedd sy'n rhoi i'r oror bell
 Ei huchddaeacol ystyr, a'i hawgrymiadau gwell;—
 Mor ddistadl yn y gorwel, mor fechan ar y don,
 Ac eto o'i chyrhaeddyd mor eang ydyw hon.
 O Wyddfa y dystiolaeth pan syllo llygad fydd,
 Fel hyn y gwelir eilfyd yng ngolau 'r seren ddydd.

O niwloedd prudd y gogledd mynyddau'r Alban sydd
 I'w canfod, fel cysgodau o nos ar fynwes dydd.
 Ffigurant yn eu gwylltedd a'u hanibyniaeth fry
 Gymeriad y mynyddwr breswylia 'u hochrau hy;
 Fel hyn y crwydra yntau yn nef barddoniaeth rad,
 Y gwisga yntau 'r storom i'w gynnal yn y gâd.
 O, braidd na wnaem glustfeinio i glywed adsain wan
 Y godbib genedlaethol yn marw ar y ban.
 Cyfarchant yr Eryri, fel brodyr o un fryd
 Yn eistedd mewn llonyddwch tragwyddol uwch y byd,
 Gan ado i lifeiriant ei ddigwyddiadau ef
 I lifo 'n ddisylw obry, a hwythau yn y nef,

Yn edrych mewn tangnefedd draw ar y seren bell
 Sy 'n addo i'r ddynoliaeth foreuddydd canmil gwell.
 Edrychant ar eu gilydd fel pe yn cofio 'r pryd
 I dringent i'w gorseddau ar gyntaf forau 'r byd,
 Pan oedd tragwyddol wyrddni yn chwyfo ar bob ban,
 Y storom heb ei geni, a'r awel eto 'n wan;
 A phan oedd y cymylau fel mentyll engyl gwiw
 Yn tonni yn yr wybren ar fraich yr awel fyw,
 Mor wynion gylch eu bannau ag enaid teg y dydd,
 A'r fellten heb ei geni, neu heb ei rhoddi 'n rhydd.

Ystorom ar yr Wyddfa.

Ystorom ar yr Wyddfa! Pwy a faidd
 Ddynesu at y testyn, heb o aidd
 Addoli 'n gyntaf, a chyfaddef fod
 Un hollalluog yn y nef yn bod.

(Yma darlennen Y Storm, tud. 34, llin. 18—22.)

Y gorfynyddoedd, ymneillduant hwy
 O olwg dyn, a byd o niwloedd mwy
 O'u hamgylch gaua. Dyblyg nos a daen
 Ei rholion o dywyllwch ol a blaen.

(Yma darlennen Y Storm, tud. 34, llin. 23—32.)

Adseinia 'r enaid, fel o bellaf fryn
 Ei anfarwoldeb, i'r cyngherddi hyn.

(Darlennen Y Storm, tud. 34, llin. 33.—tud. 36, llin. 23.)

Noddfeydd cyfaddas oeddych, wylltion greigiau,
 I ryddid fynd i dreulio 'i olaf oriau;
 Chwi a'i derbyniech pan yn llwyr luddedig,
 A ffurfiech iddo thronau mwy dyrchedig.
 E wyliai 'r daran rhag dyfodiad gelyn,
 A ffurfiar yr elfennau 'i olaf fyddin.

Bannau Brycheiniog.

Brycheiniog! oror o dawelwch per,
 Gwlad idd ei gweld yn santaidd olau 'r ser.
 Ei hinsawdd sydd dymerus i'w fwynhau,
 A'i chadwyn o fynyddoedd yn parhau
 Nes tynnu ogyrch amddiffynnol gaer
 O fewn yr hon mae'r oll yn hafaidd ac yn glaer.

Dy Fannau ydynt anwyl iawn i mi,
 Delweddau oestad o urdduniant fry.
 Edrychais arnynt lawer hwyr brydnawn
 Nes ebargiofio 'r byd a'i ofid llawn.

E ffrydia lleufer o farddoniaeth bur
 Ar hyd-ddynt, fel ar fannau 'r santaidd dir.
 O, y dylanwad orffwys ar eu hael,—
 Iaith goruwch swm, goleuni goruwch haul !

Y mae eu huwch yn bod, mynyddoedd mwy
 Aruchel a nefgeisiol fyrdd na hwy;
 Ond o'u cydmaru â'r aneirif lu
 O fryniau a ymdorfant ar bob tu,
 Arddunol ydynt—yn y boreu wawr—
 Arddunol goruwch iaith pan elo 'r haul i lawr.
 A chyfertyniad ydyw unig sail
 Pob mawredd a phrydferthwch is yr haul.

O Fannau nefol, O ogoniant fry !
 Bum un Nadolig wrth eich godrau chwi,
 Ond ffoisoch i'r cymylau rhagof fi.
 Fe farnai ysbryd eich pinaclau pell
 Feallai—mai o Fynwy—mai o bell
 Oedd oreu im eich gwyled.

Mynyddoedd Mynwy.

Gwyllt Walia ydwyt tithau, Mynwy gu !
 Dy enw 'n unig a newidiaist ti.
 Ein heiddo ydwyt trwy hynafol rodd,
 Ac ysbryd Gwlad y Rheieidr ni chyffrodd
 Ar dy fynyddoedd, ni 'th adawodd di
 Pan fynnai Lloegr dy restru ymysg ei siroedd hi.

Bob amser nid rhaniadau anian yw
 Rhaniadau daearyddiaeth—ysbryd byw
 A gorwyllt Gwalia gaf yn crwydro o hyd
 Dros dy fynyddoedd, trwy 'th dyffrynnoedd clyd—
 Tarana ar y bannau—rhuthra i lawr
 Ar wyn y nentydd yn y storom fawr.

Nid hyglo'd ydyw dy fynyddoedd di
 Am serthedd, uchder, a beiddgarwch hy;
 Eu nerth wastraffant yn eu lluosawgrwydd,
 Ac eto y mae ynddynt ardderchawgrwydd.

Dyffrynnoedd Cymru.

Ond nid y mawreddog, y gwyllt, a'r aruthrol,
 Yn unig hynodant y wlad anghydmarol;
 Nid creigiau ysgythrog yn derbyn tymhestloedd
 Di-rif ar eu conglau, heb syflyd trwy 'r oesoedd;
 Nid dyfnion ogofau yn yfed ystormydd

A chynnwys costrelau y nen yn dragywydd;
 Nid gwylltion fynyddoedd yn tafu eu dringion
 Bellderoedd aruthrol i'r nefoedd ar union;
 Aur bwyntel amrywiaeth a liwia ei hwyneb
 A mil o ddillynion a phob dymunoldeb.

Y tlws a chwareua o gylch yr aruthrol,
 Yn debyg i'r wŷn gylch y creigiau gorfeiddiol.

Os bechan ydwyf, Gymru wiw,
 Os cyfyng yw dy le,
 Cydgasglwyd ar dy fynwes bêr
 Bob ceinder is y ne.
 Ein rhandir yn eangach fu,
 Ond digon dy amrywiaeth di.

Pa le y dengys anian lon
 Ei swynion o bob rhyw,
 A'i miliwn harddwch mal yn hon?
 Byd mewn mân-ddarlun yw.
 Gwg anian yn ei hwyneb gawn,
 A'i gwên hawddgaraf yno 'n llawn.

Os gedy'r mynydd ar ei hynt
 Y niwl a'r gwynt ar ol,
 Canfyddwn yn ei gysgod mawr
 Ardderchog wawr y ddôl;
 Os gwga'r creig ar ogwydd fry,
 Rhos Eden obry 'n gwrido sy.

Rhwng holltau y mynyddoedd pell
 Dyffrynnoedd gwell eu gwawr
 Orweddant—nid oes gwynt na rhu
 I'n hafonyddu 'n awr.
 O, llawer paradwysaidd lyn
 A olcha draed y creigiau hyn.

Mynyddoedd hon, rhagfuriau ynt
 Ar gyfer gwynt a gwlaw,
 I gadw nerth pob storom flin
 A min pob drycin draw,
 O dan eu nodded chwardd y waen,
 A'i thwf tyneraf yno daen.

Mor ddedwydd ydyw yr ymdeithydd cun
 Sy'n caru anian er ei mwyn ei hun;

Yn gado'r ddinas dan ei myglyd len,
 Gan ymneillduo tua llonydd ben
 Rhyw fynydd didrain sydd yn dyrchu 'i hun
 Fel ffurf nefolaidd goruwch niwloedd blin
 A thwrf y ddaear. Dedwydd yw ei ran
 A'i fyfyrdodau ar y glogwyn fan.

Ond ceir ei ysbryd weithiau bron llesghau
 Gan fawreddogrwydd bythoedd yn parhau;
 Er cryfed a llydaned ei adenydd
 Yr eryr fina ar y pell wybrennydd;
 Ni wnaed y natur ddynol i ymgynnal
 Yn hir dan arucheledd diymatal.

Pigyrrnol greig, fel tyrau i angylion,
 Eu haruthroldeb bwysa ar y galon
 A grym lluddedol ambell ennydd llonydd
 Pan fynnai hi yn hytrach fin afonydd.

Pan ddaw y teimlad lluddedigol yma
 I ran y teithydd ar fynyddoedd Gwalia,
 Disgynned hyd at droed y glogwyn feiddiol,
 A chaiff yn awr olygfa bêr a swynol,
 Tynerwch yn dyferu ar ei lwybrau,
 A mwynder yn anadlu dros y blodau.
 Mor sydyn daw i'r dyffryn sydd yn deffro
 Pob syniad o dynerwch teimlad ynddo.
 Cyfnewid wna y mawreddogrwydd gorddwys
 Am swyn rhosynau, ffrydiau, a pharadwys.

Pa un ddewiswn o dy feilch fynyddoedd
 Yn frenin ar y lleill, pan ddyrch y miloedd
 Eu pennau heibio'r nennau fel brenhinoedd?

Pa un ddetholwn o dy bêr ddyffrynnoedd
 Fel gwynfa'r gerdd—mae'r cyfain yn wynfaoedd.

Dyffryn Clwyd.

Hoff Ddyffryn Clwyd yng nghofion yr ymdeithydd
 A gwyd fel delwedd o brydferthwch llonydd.
 Teilynga y flaenoriaeth am lonyddwch,
 Ei olygfeydd a'i baradwysaidd heddwch.
 Llifeiriol lawnder donna dros ei ddolydd,
 Môr aur cynhauaf yma sydd ysplenydd.
 Ac hyd ei ochrau fel i'w lawn amddiffyn
 Heirdd furiau o fynyddoedd sy'n ymestyn;

Gwyrddlesni 'r fro yn dâl am eu cysgodau
 A weua iddynt fentyll o bob lliwiau.
 Ardderchog goed â'u gwyrddni pell-lifeiriol
 Ddyfnhant ogoniant yr olygfa swynol.

Uwchlaw darluniad yw y swyn amgylcha
 Y preswylfeydd a frithant yr olygfa.
 Mor syml, mor llonydd hyd y fro eu gwelaf,
 Y gair dedwyddwch ar eu mŵg ddarllennaf.
 Heddychol fannau, lle y câr hapusrwydd
 Breswyllo gydag anian a boddlonrwydd,
 Prydferthwch ogyrch, a thangnefedd ynnoch,
 A gwên y nefoedd sy 'n tywynnu arnoch.

Mae anian yma fel yn llunio dyn
 I'w hagwedd lonydd, ac i'w delw ei hun.
 Nerth yn y corff, bywiogrwydd yn y meddwl,
 A wna ei oes yn hirddydd llon digwmwl.
 Mor ddedwydd yw ei gyfran hwyrddydd odiaeth,
 Pan fyddo 'r fro yn llafar gan beroriaeth,
 Cyngherddawl adar ar y coed yn pyncio,
 A'r dail yn sibrwd hanner geiriau wrtho.

Yr afon Clwyd a lonydd ymddolenna
 Prif fendith, pennaf addurn yr olygfa.
 Ni ruthra heibio gyda thwrf tymhestloedd
 Mae ysbryd yr olygfa ar ei dyfroedd.
 Trwy ganol rhyfeddodau y gwelediad
 Mor araf a myfyrgar ei mynediad!
 Dirwyna ei harianllif hyd y dolydd,
 A mynych y gohiria plith y coedydd,
 Ac o'i chyfeiriad union aml y troa,
 Fel un a fynnai lawn fwynhau 'r olygfa
 A phan ymedy tua ffordd y moroedd
 Y mae rhyw swn o hiraeth ar ei dyfroedd.

Y golygfaoedd hyn sydd yn dy wneuthur,
 O Gymru deg, yn wlad o hedd a chysur.
 Yr ydym yn dy garu pan y gwelom
 Dy greigiau yn y cwmwl oddiarnom,
 Pan fyddot fel yn gadael y ddaearen
 I grwydro yn aruthrol yn yr wybren;
 Ond mwy llonyddol yw ein cariad weithion
 Pan na fo dy fynyddau ond cysgodion
 I swynion mil tynerach a mwy llonydd—
 Y golygfeydd ar finion dy afonydd.

Dyffryn Conwy.

Teleidiaf Ddyffryn Conwy pan ganfyddir
 A edy ynnom argraff na ddileir.
 Fan yma y rhamantol ydyw nodwedd
 Y golygfeydd, ac anarluniol wylltedd;
 Draw yr ymdaen prydfferthweh anghydmарol
 Hyd wyneb teg y fro, fel gwrid gwynfaol.
 Disgynna 'r dyfroedd gyda thwrff gerwinol
 O lynnoedd y mynydd-dir gorllewinol,
 Edrychaf ar eu gwylltion ddisgynfaoedd
 Trwy ganol paradwysaidd olygfaoedd,
 Eu heirddion riedr o ryfeddol uchder
 Yng nghanol gwýdd a phob naturiol wychder,
 Edrychaf ac addolaf—ond cyrhaeddyd
 Yr uchder o farddoniaeth all gymeryd
 Y fath wynfaoedd ar ddarluniol lenni,
 Ni roed i mi yr anghydmарol allu.

Coed, dwfr, ac adfail, eu hamrywiol swynion
 A blethant trwy dy olygfaoedd mwynion.
 Daeth llawer bardd a llawer dwys athronydd
 O bell cyn hyn i'th ganfod, oror lonydd.
 A hithau Hemans! o dyneraf gofiant,
 Etholodd di yn llannerch ei dymuniant.
 Uwchben dy lonydd geinder tra 'n myfyrio,
 Ei horiau mwyaf dedwydd lifent heibio.
 Clustfeiniodd ar dy reieidr rhyferthwyol
 A llais ei hysbryd hi yn llwyr gyd-donol.
 O, medrai yfed dy farddoniaeth lawnaф,
 Ddeongli rhyfedd iaith dy ffrydiau puraf.
 Edrychai ar dy geinion anifeiriol
 A'r llygad clir barddonawl sydd yn deol
 Pob gwrthrych cain, i'w adgyfodi eilwaith
 Mewn bywyd uwch o ffigur a barddoniaeth.
 Ac wedi hedeg o flynyddoedd heibio
 Adgofion Conwy oeddynt yn ei swyno.
 Am danat ti, O oror bell, y canai,
 Ac am ymylon Clwyd ei hysbryd a ruddfannai.

Fy Nghymru lonydd, os yw rhai yn edrych
 Yn ddiystyrol arnat ti yn fynych,
 Y mae ysbrydoedd puraf y ddynoliaeth
 Yn dyfod atat i anghofio alaeth
 A thwrff y byd; a chael yr ymneillduedd
 Sydd gydnaws â phur ysbryd duwiolfrydedd.

Hwy ddeuant atat i fwynhau y tangnef
 Sy 'n dwyn ar gof i ddyn ei nefol artref.
 Hwy ddeuant i gymuno â'n mynyddoedd
 Sy 'n cymhell ein hefrydion tua 'r nefoedd.

A fu Taliesin ger yr oror hon
 Yn treulio 'i ddydd, yn plethu 'i odlau llon?
 Ei breswyl didrain a'i rodfaoedd llonydd
 A wnelai draw ar ymyl Llyn Geirionnydd.
 Rhod iddo ef yn forau 'r gynneddf odiaeth,
 Dirgelwch y farddonol weledigaeth.
 Gwladgarwch roddodd enaid yn ei ganau
 A'u cadwai 'n fyw trwy oesoedd chwyldroadau.
 Hyf oedd ei gerdd, tra seren anibyniaeth
 Hyd eto yn llewyrchu ar y dalaeth.
 Ei awen ydoedd bur a chenedlaethol,
 A rhoes i'r genedl arwyddeiriau oesol.
 Acth oesoedd heibio, eto mae ei gerddi
 Yn peraidd seinio rhwng mynyddoedd Cymru.
 A'i goffadwriaeth, miloedd a'i bendithiant
 Tra 'n rhedeg dros y gair, "Eu hiaith a gadwant."

Nis gwn pa le i edrych am eich beddau,
 Eich olaf orffwysfaoedd, O fy nhadau!
 Ond caraf grwydro ar hyd ochrau 'r llynnoedd,
 Lle unwaith bu eich didrain breswylfaoedd,
 Myfyrio hyd ymylau yr afonydd
 Lle gynt y gwelwyd chwithau, lawer hwyrddydd.
 Tebygem fod y tonnau mân a'r awel
 Yn dweyd eich enwau wrth y glannau tawel.

Duffryn y Ddyfrdwy.

Dan lawenhau ym mrynau pell Meirionnydd
 Cychwynna 'r Ddyfrdwy ar ei thaith ysplenydd
 Trwy froydd fel paradwys, rhwng mynyddau
 Y collir yn y nefoedd eu gorfannau.
 A golygfaoedd ei hymylau eirian,—
 E lanwai hon ei hun y gerdd yn gyfan.

Tra eto 'n ieuanc, gwylaidd ar ei gyrfa,
 Llyn Tegid i'w eangder a'i derbynia.
 Gynhyrfus lyn! ei orsedd o daranau,
 Gwyd ysbryd yr ystorom ar dy donnau,
 Y mae yn hoffi dy ymylau noethion
 Yn hoffi cwynfan ar dy wastad finion.

Pan ruthro geirwon wyntoedd y mynyddau
 I olchi eu hadenydd yn dy donnau,
 A gwynnaf osgordd o lifeiriant gerwin
 Hyd ochrau y mynyddoedd yn eu canlyn,
 Disymwth dros dy lannau yr ymchwyddi,
 Ac yn dy rwysg y môr a efelychi.
 Y Ddyfrdwy yfa, o'i mynediad drwod
 Ran o dy ysbryd a'th arddunedd hynod.
 Try allan o dy eigion yn gyfoethog
 O'th lawnder di, yn afon gref a bywiog,
 Ymorfoledda y mynyddoedd ynddi
 A'u hadgyfnerthion a arllwysant iddi.
 Cyflyma 'i dyfroedd yn ystormus weithiau
 Nes golchi 'r creig yn wynion ar ei glannau,
 Ac weithiau 'n araf fel pe bai 'n myfyrio
 Ar flodau 'i glan, heb ddewis myned heibio.
 Trwy fro Llangollen yn y man llifeiria,
 Myrdd o ddelweddau harddwch adlewyrcha.
 Hi nydda ei harianllif i gyfanwaith
 Amgylchol anian, fel y prif addurnwaith.
 Coed gwyrddion blygant dros ei dyfroedd eirian,
 A'u cangau sy 'n dyferu golud anian.
 Gwýdd, blodau, a phelydron, dros ei hymyl
 A blethant gysgodfaoedd fel i engyl.
 Prydferthwch anherfynol a lifeiria
 I lawr i'w hymyl lle yr ail ddisgleiria ;
 Llaw anian weua ei hymylwaith goreu
 Ar hyd ei glan â phrydferth liwiau 'r boreu ;
 Gweirddgloddiau dyfnion ar ei hochrau tawel
 Fel llynnoedd aur ymdonnant dan yr awel.

 Ymlaen y rhed, a'i golygfeydd amgylchol
 Yn newid fel profiadau 'r bywyd dynol.
 Yr Alwen ddaw, a'r Ceiriog, i'w chyfnerthu,
 A'r Alun hefyd dawdd ei theyrnedd iddi.
 Islaw Caerlleon clyw y môr yn dyfod,
 Ac ymeanga 'n fawrwych i'w gyfarfod.

 Dderwyddol lif ! deffroa swm dy ddyfroedd
 O'n mewn adgofion cenedlaethol filoedd.
 Ein Owen Glyndwr garai dy beroriaeth,
 A gwnai ei drigfa ger dy gyrrau odiaeth.
 Goddefer deigr yn o wladgarwch weithion,
 Ein tadau a syrthiasant ar dy finion.
 Hoff afon y Brythoniaid ! 'R oedd dy ddyfroedd
 Yn gysegredig gan eu beiddgar luoedd.

Ar foreu mawr y gâd pan ymbar'toent,
 Eu hirion rengau ar dy finion drefnent,
 Pob milwr a gusanai'r ddaear dano,
 Ymgrymai, yfai o dy ddyfroedd yno,
 A'r faner genedlaethol a agorid,
 A'u rhyfel floedd o fryniau pell a glywid.
 Ofergoel oedd ar foreu'r marwol helynt,
 Ond haeddant ddeigryn llawn—ein tadau oeddynt

Y cestyll.

Dan furiau dy gestyll aruthrol a hy
 Cynhaliwn gymundeb â'r oesoedd a fu.
 A brofa y creigiau gadernid y môr,
 Y creigiau a roddwyd i'w ddyfroedd yn ddôr?—
 Mor gedyrn dy feibion, a'u gallu mor fawr
 Pan wnaed y fath gaerau i'w cadw i lawr.
 O elyn i gyfaill olynol yr aent,
 A gelyn a chyfaill yn nerthol a wnaent.
 Os treiai am ennyd rhag caerau mor gerth,
 Môr llawn dy wroldeb ddychwelai i'w nerth
 A syrthiai y rhagfur, a'th faner o ben
 Y tŵr ardderchocaf a chwyfai'n ddi-len.
 Noddfaocedd ofnadwy eu caed yn eu bri,
 Y maent yn ofnadwy mewn adfail i ni.

Ar ymyl y moroedd ymdaen eu hadfeilion,
 A'u caerau'n adseinio i bruddgerdd y wendon;
 Hiraethol gymdeithas yn awr a gynhaliant
 A'r tonnau a'u gwelodd yn nydd eu gogoniant.
 Caerffili! canfyddais dy adfail ryfeddol
 Yng nghanol amddrychfa o fryniau arddunol.
 Breninoedd a ffoent i gysgod dy gaerau,
 A môr erledigaeth, ateliaist ei donnau.
 E welwyd ein Glyndwr yn rhodio dy gaerau,
 I'w lais awdurdodol adseiniodd dy furiau;
 Ond bythol unigedd yn awr a breswylia
 Dy eang neuaddau, a phrudd-der a'u toa.
 Lle gynt y teyrnasai gogoniant a mawredd,
 Distawrwydd tragwyddol a gyfyd ei orsedd.

Ynys Mon.

Pwy ganai Gymru ar wladgarol gainc
 Heb gyfarch Mona ar ei dyfrog fainc?
 Mor neillduedig oddiwrth y byd,
 Mor fythol dangnefeddus yw ei phryd,—

Parhau trwy 'r oesoedd yn hynafol wna,
 A'i hymffrost yw ei defaid ac ei da.
 Ac yma fel yn Eden lon ei hun,
 Gardd ydyw anian, amaeth ydyw dyn.

Mor felus gwrando ar y tonnau pan
 Ddiagynnont yn bererol ar ei glan
 Pan fyddo dylanwadau 'r hwyr gerllaw,
 Ac ambell seren yn ymddangos draw
 A'i phell oleuni yn ysbrydol bron,
 A'i delw bur yn crynnu ar y don.

Llong ar ol llong yn cylchu 'r penrhyn pell
 Unigaidd draw, O pa farddoniaeth well?
 Pa beth yw 'r swyn fywha 'r olygfa hon,
 Pan welom hwyliâu ar bellderâu 'r don?
 Ai teimlo 'r ydym fod ein hysbryd prudd
 Yn myned ymaith gyda hwy—yn rhydd—
 Diangor mwyach—heibio penrhyn ola
 Y ddaear hon, i grwydro am y wynfa?

Yn ofer mae y môr yn ymderfysgu
 Fyth wrth eich troed, aruthrol greigiau Cybi;
 Heirdd olygfaoedd Cymru, tua 'r llewin,
 Ddanghosant ynnoch chwi fawreddog derfyn.

Dewisol noddfa y derwyddon hen,
 Offeiriaid Prydain, a gwarcheidwyr llên.
 Pan ffoent hwy rhag gallu Rhufain gynt
 Yr hedai 'i heryr ar y pedwar gwynt,
 Môn a'u derbyniai, a dyrchafai 'r don
 Ei hangaer wen o gyleh eu noddfa hon.

Pa le yn awr y mae 'r coedwigoedd fu
 Yn ei mantellu â chysgodion cu,
 Ac yn ei gwneyd yn oror gymwys brid
 I'r rhai a fynnent lwyr anghofio 'r byd?
 Mawrhaodd beirddion hen yr oror wiw,
 Gwlad o gysgodion, gwlad o feirddion yw.
 Pa le yn awr mae 'r tywysogion hy
 Breswylient unwaith tua 'i glannau hi?
 Yn nyfnder oesoedd mae eu henwau ter
 Yn para i lewyrchu megis ser.
 Aberffraw! rhydd dy enw ail fywhad
 I'w coffadwriaeth hwy—eu teyrnlys mad.

Y porthladdoedd.

Disgynnaf oddiar dy fryniau hy,
 A'th bell fynyddoedd a adawaf fry
 Fel engyl yn y niwloedd, lle ni ddaw
 Ond ambell i luddedig gwmwl draw
 I orffwys ar ei daith yn drwm o'r don,
 Gadawaf mwyach dy ddyffrynnoedd llon—
 I lonydd huno yn eu harddwch berth
 O dan gysgodau dy fynyddoedd serth.
 Celfyddyd gyfyd ei gwahoddol law
 O'r mil porthladdoedd sy'n ymestyn draw.

Gogoniant anian a gogoniant dyn
 Gydblethir mwy trwy 'th olygfaoedd cun.
 Hwyl-brenni filoedd ar ymlau 'r don
 Olynant hyd y gwel y llygad bron,—
 Rhai 'n codi eu hangorau wedi cael
 Eu llwyth dewisol o'u brodorol fael,
 Yn llongydd ddisgwyl am y gwyntoedd gwell
 Sy 'n sibrawd wrthynt am eu gwledydd pell,
 Pob hwyl ar led i'w gwahodd—oll yn rhydd
 I fyned ganol nos neu ganol dydd;
 Ac ambell long yn codi 'n araf draw
 O borffor don y gorwel fel lled llaw;
 O'r gwyn oleudy neu o'r penrhyn mawr
 Defnyddir y pellwelyr cryf yn awr,
 A'r llywiad hwylia i'w chyfarfod hi
 A'i dwyn i fewn yn iach i'r porthladd cu;
 I'w law gyfarwydd ef y cadben rydd
 Y llywiaeth oll, yng nghanol creigiau cudd.
 Anturio ar dy lan, llongdrylliad yw
 Heb un o'th feib dy hunan wrth y llyw.
 Ond wedi dianc dy feisloedd pyd
 Bendithia 'r morwr dy aberoedd clyd.

Banerau y cenedloedd yma gawn
 A'u lliwiau 'n hofian yn yr awel lawn.
 A baner heddwoch uwch yr oll y sydd
 Yn chwyto yn ardderchog nos a dydd.
 Hynodol gân y morwr fywiocâ
 Y porthladd oll, a'i waith ei wynfyd wna.

Y menau.

Tra ymhyfryda y farddonol ddawn
 Yng nghyfoethogrwydd ac arddunedd llawn

Ei golygfeydd, tra gwisga anian wiw
 Ei holl arwyneb â phrydferthwch byw—
 Gorchuddia y mynyddoedd ar bob tu
 Oludoedd anherfynol yn eu bru.
 Gan froydd heirdd a mwneu prid eu rhyw,
 Gwlad hoff barddoniaeth a thrafnidiaeth yw.
 Gwytheni o ddefnyddiau mawr eu gwerth
 A wnant ei chreigiau anfesurool serth
 Yn uchaf ffordd anturiaeth, ac yn ddôr
 I dda a'i wely ail i wely môr.

Morgannwg.

Bendithia llawer hinsawdd bell a gwlad
 Dy anherfynol fael, Morgannwg fad.
 Morgannwg! enw clodfawr dros y byd;
 A llongau y cenhedloedd ddont ynghyd
 I geisio 'th olud; o'r Atlantic pell
 Llydanfawr, deuant am y cyfoeth gwell.
 Dy lo a wna yn ddedwydd ac yn glyd
 Fyrdd o aelwydydd ar derfynau 'r byd.

Gwych lanw dyfeisiaeth ddaeth dros dy geulennydd,
 Mae 'n cyflym feddiannu dy fryniau a'th froydd.
 Cyn hir, fel y'th alwyd yn hoff wlad barddoniaeth,
 Y'th elwir yn wlad rhyfeddodau gwyddoniaeth.
 Tra denir y beirddion i lannau 'th afonydd
 Gan sawyr eu blodau, a chysgod eu coedydd,
 O'u llonydd ymylon efryda 'r peiriannydd
 Wyddoniaeth aruchel a beiddgar eu pontydd.

Pontydd.

Ei Menai a barodd ddadblygiad rhyfeddol
 A gwych oruchafiaeth o grebwyll dyfeisiol.
 Dwy waith y canfyddwyd athrylith anturus
 Mewn myfyr yn ymyl ei llifaint cynhyrfus,
 A dwywaith ei gwelwyd uwchben y cyfyngfor
 Yn hongian ei phontydd wrth newydd egwyddor.

Pont Menai gysyllta gadernid peiriannol
 A thelaid brydferthwch a cheinder barddonol.
 Pa le mae ategion yr adail ddihafal?
 Ai breichiau y gwyntoedd sy fry yn ei chynnal?
 Y creigiau tragwyddol bob tu ymagorant
 I dderbyn ei thidau, ac yno ymglymant.
 Cyfandir ac ynys a faith ysgaresid
 A ailgyfarfyddant mewn heuldes trybelid.

Marchogion, cerbydau, trafndiaeth a'i gosgordd,
 A wnant yr awryfyd ar hyd-ddi yn brif-ffordd.
 Y môr a darana, ymchwydda ei ddyfroedd,
 Mae hon a'i sylfeini uwch cyrraedd y moroedd.
 Y llong yn llawn hwyliau a rwyfa o dani
 A dwg yn ddiangol ei beilehion hwyl-brenni,
 Y cadben a'i harwain yn ddifraw heb feddwl
 Fwy am yr uchelbont nag am ryw bell gwmwl.

Uwch eigion y Fenai gwyddoniaeth a gyfyd
 Ail arwydd o'i gallu, ail golofn o'i mawryd.
 Draw gwel y Britannia—myrddgellog bibellau
 A'u rhyfedd gadernid yng ngallu eu rhannau,
 I'w lleoedd awrybell yn gyfain eu codwyd,
 A'r stormydd ffyrnicaf ni lwyddant i'w hysgwyd.
 Syn wrendy y môr ar y daran agerddol
 Fawreddog, a dreigla trwy 'u ceudod aruthrol.

Y rheilfordd a'r pellebyr.

Y rheilfordd fawreddog, arch ddyfais yr oesoedd,
 A dorra ddistawrwydd dy lonydd ddyffrynnoedd.
 Gwyddoniaeth ymddengys a phellder a nderfydd,
 A'r gogledd anghysbell a'r deau gyferfydd.
 Dy wylltion fynydoedd eu pyrth a agorant,
 Allweddau y creigiau i fyny a roddant.
 Eu cydgerdd fynyddig gostega 'th lifeiriaint
 I wrando taranau y gwrdd agerbeiriaint.
 Ar unwaith i'r tanglawdd yn nawdd dy fynyddau
 O mal yr a 'u cludres, heb braidd deimlo 'r cledrau!
 Tra rhoddant i gludion aneirif trafndiaeth
 Adenydd y corwynt dros wyneb y dalaeth,
 Cyfochrog y gwelir y gwyfrau pellebrol
 I ddwyn ei newyddion—y ddyfais ryfeddol
 A archodd yr elfen nwyfreol i blygu
 Ei hedyn i'r ddaear, ar ddyn i weinyddu.
 Mor feinion y gwyfrau i rwymo yr elfen,
 Mor weinion i ddangos cyfeiriad y fellten!
 Ehed a'n hysbysion mewn tangnef derchedig
 Fel angel cariadlawn a llwyr anweledig.
 Gogoniant gwyddoniaeth fel haul a ddyrchafodd,
 A phellder ac amser fel niwl a wasgarodd.
 O ddyfais ddigymar! dyferodd o'r cwmwl,
 Ac inni y rhoddes fuander y meddwl.
 Mae'r tymor yn dyfod, mae'r wawrddydd yn gwenu,
 Y gwelir dynolryw trwy 'r byd yn un teulu.

Ei breiniau.

Gwlad o dangnefedd ac o ryddid gwir,
 Ni sauga caethwas ar dy ddedwydd dir;
 Rhy bur yr awyr a aneddi di
 I faner gormes ei llychwino hi.
 Os tlodion yw dy feibion, maent yn rhydd;
 Nid ofnant rhag llyffethair nos na dydd.
 Fel seiliau dyfnion eu mynyddau 'n awr
 Y deil eu breiniau, breiniau Prydain Fawr.
 Fendigaid hil, na faidd gormeswr erch
 Eu hafionyddu rhwng eu brynau derch.
 Ar dymor hau gŵyr yr amaethwr llon
 Na feda yr anrheithiwr gynnyrch hon;
 A phan y crugia, o dan haul di-len
 Ei lawnion aur ysgubau ar y fen,
 Ar hyd ei feusydd, yn ei hawlfrant gref,
 Rhydd fel ei arlwydd mwy y rhodia ef.

Ei hathrylith.

Athrylith hefyd rhwng ei brynau hi
 Fwynha yn gyflawn y tawelwch cu,
 Y nefol gysgod, yr unigedd gwell,
 Y lawn beroriaeth o lifeiriant pell,
 Sydd mor gyfaddas idd ei feithrin ef
 A i foreu lunio 'n ol ewyllys nef.
 Mewn cyfatebrwydd i dy wylltedd hy
 A'th agwedd olygfaol ryfedd fry,
 Darfelydd yn dy feib yn bennaf gawn
 Yn ffurf hynodol y farddonol ddawn.
 Anadla anian drwy eu cerddi llon,
 Pur lynnau ynt lle gwelir wyneb hon;
 Crwydr ei hawelon peraroglus hi
 Drwy blethion hoff eu ceir fel llwyni cu.
 Eu hodlau rwydd ddyferant fel y gwna
 Yr addon aeddfed o ganghennau 'r ha.
 Diorchest gynnyrch anian yw eu gwaith,
 Hwyl ni addysgwyd gan ddiwylliad maith,
 Clyw ferw y rhaiadr yn ei seinfawr iaith.
 Pan ganant, tery y llifeiriant fry
 Nerth a chyweirnod y beroriaeth hy.
 O eithaf oesoedd ei hanesiaeth lon
 Y bardd a berchid rhwng mynyddoedd hon;
 Tra thon yn sibrwd ar y lan ddi-lyth
 Na fydded Cymru heb ei beirddion byth.

Ei chrefydd.

Y maen diweddaf yn yr adail gref,
 Gyfeiria mwyach tua ffordd y nef;
 A'r nodwedd olaf yng nghymeriad hon
 A gwyd ein meddwl i gymundeb llon
 A gobaith byd sydd well—gwlad crefydd yw,
 Gwlad cysegrfaoedd y goruchaf Dduw.
 Ddedwyddaf oror! ym mha wlad y cawn
 Y ffordd i'r nef mor oleu, ac mor llawn
 O bererinion? Hen ac ieuainc sy
 A'u hwyneb tua 'r ddinas nefol fry.
 Dros hon pan ledol hwyr ei gaddug llwyd,
 Aroglarth mawl o'i mil aneddau gwyd.

Yn egwyddorion yr efengyl gu
 Mor hyddysg ydyw ei phreswylwyr hi!
 Y gair efengyl yw y cyntaf bron
 A ddysgir iddynt dan fynyddoedd hon.
 I bobloedd ereill y gadawant hwy
 Y ffyrdd i gyfoeth ac anrhydedd mwy,
 A'u bryd gyfyngant mewn ymdrechfa gref
 I rodio'n ufudd yn y ffordd i'r nef.

Diflannodd ofergoelion llawer oes
 Fel pethau diddym o flaen grym y groes.
 Bloedd jubiliaid glywid dros ein gwlad
 Pan seiniodd yr efengyl ddydd rhyddhad.

Oes ar ol oes ei chreigiau geirwon fry
 A faith adseinient i'r rhyfel-floedd hy,
 'Efengyl' yw yr adsain ront yn awr
 Tra yn cysgodi y Gymanfa fawr.

E synna'r teithiwr ganfod ar ei hynt
 Addoldai lle y bu rhyfeloedd gynt.
 Cyfrifir mwyach yr addoldai mad
 Ym mhlith hanfodion golygfeydd y wlad.
 Pob mynydd bellach a gysgoda'n hael
 Gysegrfa i'r Goruchaf ar ei ael;—
 Rhyw gymydogaeath lonydd ddirain yw,
 Ni welaf yn y fro nac ar y rhiw
 Ond ambell annedd o unigaidd wedd,
 A sain ni chlywaf yn y swynol hedd
 Ond uchel fawlderdd y rhyferthwy draw
 A phruddaidd gŵyn yr afon ddofn islaw;

Ond mintai ar ol mintai ddaw i lawr
 Ar hyd y llethrau, ar y ddedwydd awr;
 I fyny hefyd yr ymddingant hwy,
 A thorf gydunant yn y moliant mwy.
 Ar nos o auaf syllaf tua 'r lle,
 Mor gydnaws â goleuni ser y ne
 Yw hyfryd oleu y llusernau sy
 Yn araf symud hyd y llechwedd fry,
 Ac oll yn cwrdd ym mhyrth yr Ior a'i dŷ.

Tra phobloedd eraill yn cyfeirio 'u bryd
 Ar wag oferedd a difyrion byd,
 Tra llanwant bellach ar yr hwyrol awr
 Y llwybrau i'r chwareudy gau ei wawr,
 Ym "mhorth y nefoedd" caf dy feibion di
 A'u mawl a'u gobaith am y wynfa fry.

Haul anibyniaeth, llwyr fachludo wnaeth,
 Ond goleu tecach ar ei ol a ddaeth;
 Dydd iachawdwriaeth dorrodd ar ein gwlad,
 Ymledodd nes goleuo myrdd â'i rad.
 Cyfododd arnom haul cyfiawnder nef
 A meddyginiaeth yn ei esgyll ef,
 Yr haul oleua hyd y byd a ddaw
 Heb ado cwmwl ar y beddfaen draw.

 LLANGEITHO.

O Gymru bur! pa wlad o dan y ser.
 Mor enwog a thydi am weision Ner!
 Cyffelyb wyt i Ganan, Gymru dirion,
 A'th fryniau ynt i mi fel bryniau Seion.
 Pan welaf hwynt o bell, tra 'r haul yn machlud,
 Cyffelyb ynt i fryniau tir y bywyd.
 Pan fyddo 'r haul yn machlud, os clustfeiniaf,
 Ar hyd dy fryniau adsain bêr a glywaf,
 Sef adsain anthem ein duwiolaf dadau,
 Pan ganent gynt yng ngwres y diwygiau.
 Fel hyn y safodd llawer bardd Hebrêig
 Ar fryniau Canan, yn nefolaidd unig,
 Ar ol y Pasg i wrando ar adseiniau
 Per gân minteioedd Israel ar eu teithiau.
 Mae adsain cydgan fel yr eiddynt hwy,
 Yn para 'n hir, sef cân am farwol glwy.
 Gallasai côr o engyl, wrth fynd heibio
 Ar gwmwl gwyn, ddistewi oll a gwrando.

Os oes gan wledydd eraill eu henwogion,
 Os yw eu hymffrost yn eu cadfridogion,
 Ni chenfigennwn wrth eu ffrost ddaearol,
 Mae testyn ein gorfoledd ni yn nefol—
 Ein crefydd yw, a'n tanlyd weinidogaeth
 Sy 'n ennyn moliant dros ein holl diriogaeth.
 Aed ereill i fasnachu a rhyfela,
 Nyni a awn i wrando gair Jehofa.
 Ymffrostiant hwy mewn clodfawr faeslywyddion,
 A ninnau a ymffrostiwn mewn angylion—
 Mewn dynion oeddynt megys nerthol engyl
 Yn hedeg yn ffurfafen yr efengyl.
 Danghosant hwy ddinasoedd claer hynodfawr,
 A'r mannau lle cyflawnwyd campau clodfawr,
 Nyni ddanghoswn fwy, ond iddynt deithio
 Mor bell â mangre 'n cerdd, sef pentref bach Llangeitho.

Pa beth wnai 'r pentref hwnnw mor odidog?
 Ai genedigaeth rhyw ddi-ail gadfridog?
 Anfeidrol fwy! ail-enedigaeth miloedd
 I fywyd perffaith a di-dranc y nefoedd.
 Ni chlywyd udgyrn cad erioed yn seinio,
 Ni chlywyd magnel yn taranu yno,
 Er hynny clwyfwyd yn y lle archengyl,
 Satanaidd lu, gan gleddyf llym efengyl.
 Duw a'i wirionedd yn daranau yno
 A glywyd nes i orsedd Satan suddo,
 Nes ffoi o'i gaethion lu heb orffwys ennyd
 Nes rhoi eu traed i lawr ar dir tragwyddol ryddid.
 O'r bryniau ogyrch, O! mor bêr i'w glywed
 Oedd sain eu cân ar adfail ty 'u caethiwed.

L L Y W E L Y N .

UN fechan oeddit, Gymru, medd y byd;
 A bychan yw y ser i olwg amser
 Yn unig am eu bod ymhell.
 Pwy all ddatguddio y dirgelion sydd
 Yn wylo yn nyfnderoedd distaw anghof
 Am ryw fynegol lais, rhyw feiddgar fwa
 I bontio dyfnder oesoedd?
 Dy lanw o fawreddau droed i mewn
 I stormus gefnforoedd hanesyddiaeth,
 Ac eraill a'i hawliasant, ac i ni

Yr ewyn arwynebol oedd y cwbl
Dros fryniau amser daflwyd.

O! na chawn,
Llywelyn, olwg ar dy ddirain fedd!
Eisteddwn yn ei gysgod aml awr
Fel seren yn y nos.

'R oedd cerbyd gwyn y dydd yn gyrru i lawr
Hyd oriwaered y gorllewin ter,
Ei olwyn dân borfforai 'r wybren fawr,
A gwisgai 'r nefoedd ei dwyfroneg ser.

Yr oedd y lloer i eigion nef
Yn ymbellhau mewn llid,
A'i llynges—llynges fawr y ser
Yn diangori i gyd,
Gan adael porthladd amser gau,
A glannau 'r awyr fyd.

A chyda 'r nos caed milwr yn neshau
I gysgod dwfn y goedwig dromfrig draw,
A darn o gleddyf dan ei fraich,
A'i lusern yn ei law.

Pa le y mae? gofynnai 'n brudd, tra cuddia 'i rudd â'i ddwylo,
A'i galon yn ei lygad gaed, ei ffynnon waed yn wylo;
"Dy olaf deyrn, O! Gymru fad, anedwydd wlad fy nhadau,
Arferai droi yn ol mor chwyrn y llanw o gelyrn gadau!

Ei enw oedd y swyn a rwymai
Ein holaf rengau mewn beiddgarwch,
Ei wyneb oedd y wawr a dwymai
Fflam olaf welwaf cenedlgarwch;
Ymlaen, ymlaen, pan wthiai 'r gelyn
A'n huchel-leoedd dan ei draed,
Pan ar yr helyg crogai 'r delyn
A'i mwynaf dannau 'n hidlo gwaed,
O bell anadlai rhyw awelig
Dy fod, Llywelyn, eto 'n fyw!
Bwâid mwynion gangau 'r helyg
Yn deml o glod i'n holaf lyw;
A chodai bloedd o galon fawr gwladgarwch
Ymbell dros awyrdryau 'r dymhestl draw,
A thafiai coelcerth-danau cenedlgarwch
Oleuni dydd i wledydd ar bob llaw.

Fel tyrau o oleuni tua 'r ser
 Yngodai ein Heryri aml eu bannau,
 A mawrion lythyrennau rhyddid ter
 Argreffid draws y nefoedd yn eu tanau;
 Ymlaer, ymlaen! mil mil o froydd floeddient,
 Ddewrion, ymlaen ar ol ein holaf lyw;
 Mae rhyddid yn goleuo 'r bryniau, hoeddent,
 Ac O! y mae Llywelyn eto 'n fyw!
 I gorlan dywell angau ymgynhullem
 Tra bugail anibyniaeth gyda ni,
 Aem ar ei ol pan wyddid nad enillem,
 Ac nid oedd bywyd werthfawr ond i farw gyda thi."

 F F O N T Y G E R I . *

GLAN môr! glan y môr i mi!
 Teg oror Ffontygeri!
 Cân engyl yn d' ymyl di,
 Hwynt garant Ffontygeri.
 Hoff hynt geir, Ffontygeri,
 Ar lan dirion dy don di.
 Swm y don sy yn dyner
 Delyn bardd, ar dy lan bêr.
 Wyt gwr, O Ffontygeri,
 O fyd gwell ymhell i mi!
 Gloew le is goleu leuad,
 Os eir min nos, O 'r mwynhad!
 Brudd Leuad! bwriodd lewyrch
 Ryw dro, anfarwolai 'r drych;
 Nos Sadwrn hynaws ydoedd,
 Nosawl hynt cyn y Sul oëdd—
 Gofus awr, pan gefais i
 Hoff hynt ger Ffontygeri.
 Teithio ger hon at waith gras
 A rydd gymhwysder addas.
 Holl swm fy ewyllys i
 Yw tŷ gar Ffontygeri,
 A gardd deg, a gwyrdd y don
 I'w hymylu, a moelion
 Geirwon greigiau Ffontygeri
 Goruwch y don i'm gwarchod i.
 Nefoedd fyddai cael Neifion,
 Môr islaw fy mhreswyl lon.

 * Morgilfach prydferth ym Morgannwg.

CLEDDYFAU Y BRYTHONIAID.

FE welwai gormes du yng ngwawr
 Cleddyfau y Brythoniaid,
 Ac wylai rhyddid lawer awr
 Ar feddau ei wroniaid,
 A chodai i'r nefoedd y gloewaf o'i gleddau
 Wrth gofio 'u fyddlondeb, wrth weled eu beddau.

Canfyddai 'r Brython gledd ei dad a'i daid
 Yn hongian ar y mur,
 I'w wyneb codi gwrid o waed
 O'i galon—ffynnon bur,
 A thyingai, a'i law ar garn garw 'r cledd,
 Y byddai cyn nos
 Fel enaid y rhos,
 Yn goch ac yn dwym fel y gwrid ar ei wedd.

I bwv erioed y plygodd hon,
 Y wlad o feilchion fryniau?
 Flaen pwy ymgrymodd Arthur hy,
 A dewraf lu y tadau?
 Fe blyga y bryniau i donnau y môr
 Cyn byth yr ymgrymwn i estron bor.

Y mae y gwyntoedd yn y nef
 Yn rhyddion fel y dydd,
 Fy Nghymru! mae y storom gref
 Ar hyd dy filoedd bannau 'n rhydd,
 Ac nid ydynt hwy ond delweddau i mi,
 O'th ryddid a'th deg anibyniaeth di.

O, mae y baban hwn yn deg,
 Mair! gallem ar ei wenau fyw,
 Rhyw gerub-faban roed i ni
 I ddwyn i fyny a'i fagu i Dduw!
 Ac nid oes bedd mor greulawn, gwn,
 A meddwl eto—eto am hwn!

A thithau! pam y'th roed i mi?
 A'i fel y'th rwygid oddiar fy mron
 A deryn mawr o'n calon gyda thi?
 Y nefoedd wnaeth y fraich—haiarnodd hon,

Atalio hynny! O f' angylion eu;
 Y mae un ffordd—*un* sydd—i'ch cyrraedd chwi,
 Ond nid oes modd i'w hagar
 Heb agor bedd i mi.

Fe all y llygaid tanbaid gau
 O dan gysgodau angau mwy,
 Ond gweld y cyffion yn tynhau
 Am danoch, O nis gallant hwy!
 Af ymaith, af ymaith dan faniar fy ngwlad,
 A chariad ei hun
 Fydd y llymaf fin
 Erioed a ddisgleiriodd ar gleddyf fy nhad.

ANWYLDEB CYMRU.

FY NGHMYRU! mor anwyl yw'th froydd i mi,
 A'th fryniau yn duo y nef bellaf fry!
 O, gallwn ailenwi yng nghyfoeth fy ngho
 Dy Wyddfa Olympw, Hesperia dy fro!
 Mae gwledydd y ddaear yn agor o'n blaen,
 Mae gwobrau ardderchog godidog ar daen,
 Mae llwybrau ysplenydd i gyfoeth a bri,
 Anrhydedd a chlod yn agored bob tu;
 A'r swynwr ar ben yr heolydd rhos draw
 Yn galw 'n ddeniadol gan godi ei law;
 Ag hanner yr ymdrech fe ddygid i ni
 Fil mwy o ogoniant a chyfoeth a bri.
 Ond bythoedd y'th garaf, fro hawddgar fy nhadau!
 Ac am dy fynyddoedd ymglyma 'm serchiadau,
 Ac yn dy afonydd ystormus ymlifant,
 A chyda 'th awelon byth trwot y crwydrant.
 Clyw 'th ieuaine angylion, ar allor dy fryniau,
 Yn tyngu ffyddlondeb i froydd eu tadau!

Boddlonaf ar fwthyn ar ymyl y bryn,
 Ond imi gael gweled dy raiadr gwyn.
 Tylodi a phrinder sydd well gyda Chymru
 Na llawnder y byd a'i ogoniant oll hebddi.

Mae llawer yn gadael eu gwlad i estroniaid,
 Mae eraill i *dlaear* eu gwlad yn ffyddloniaid.
 Fe deithiodd y genedl Ewrob i gyd
 Wrth grwydro o barthau dwyreiniol y byd,

Ond nid oedd un wlad a atebai ei hawen
 O wledydd y byd, ond Cymru nefolwen;
 Ac ni chai orffwysfa i'w throed yn un man,
 Nes gweled o honi oleuni dy lan.

'R oedd yr Alpau yn uchel, ond gwell ganddi hi
 Gartrefu yng nghysgod yr Wyddfa fry;
 Er crwydro ar lennydd afonydd oedd fwy,
 Dewisodd ei hawen yr Hafren a'r Wy,
 'R wyf finnau 'n eu dewis, am danynt 'r wy 'n canu,
 Ac ni chaiff ymfudiaeth fyth byth ein gwahanu.
 Ni ddeuaf, fy mrawd, er iti daer erfyn,
 O Gymru dylawd, ni chroesaf ei therfyn.
 O! dyged Rhagluniaeth dydi yn dy ol
 I ddringo 'r hen fynydd, i rodio 'r hen ddôl!
 Fy mrawd! mae 'r hen afon yn murmur o hyd
 Am rywbeth sy ganwaith rhagorach na 'r byd;
 Mae angel y dyffryn yn para yr un
 I'm derbyn yn ol o bob gwibdaith flin;
 O, tyred fy mrawd! Mae angel y dyffryn
 Ac awen yr afon yn barod i'th dderbyn.

O Gymru! 'r wy'n caru cysgodion dy fryniau
 Fel edyn tragwyddol amrywiog eu lluniau;
 Mi dybiwn fod engyl i'w gweld yn dy wybrau
 Ac ol eu hymweliad yn gwynnu dy lwybrau.
 Mae adsain cref anthem yr hen ddiwygiadau
 Hyd heddyw yn nofio hyd froydd fy nhadau.

Ar lan ei hafonydd y treuliais heb loes,
 Mewn swyn awenyddol, foreuddydd fy oes;
 O! bydded fy henaint yn gwywo yn llonydd
 Fel derwen lawn oed, ar lan ei hafonydd;
 A bydded im yno pan wywo y wedd,
 Ar lan ei hafonydd O bydded fy medd!

Ei gwanwyn sydd fel adgyfodiad i mi,
 'R wy'n hoffi ei haf, eto canmil mwy eu,
 Mwy cydnaws â'm hysbryd, yw 'r Hydref rhaiadrog
 A gwyntoedd y gauaf, y gwyntoedd hiraethog.

Y fath gydymdeimlad rhyfeddol y sydd
 Rhwng gauaf yng Nghymru ag ysbryd y prudd.
 Am wastraff yr haf, mab afradlon y flwyddyn,
 Ac am ei ddigrifwch a'i wylltineb diderfyn,

Mae anian yn awr wedi dyfod i angen,
 A llwm yw y ddôl, a noeth yw y gangen.
 Ei gwlaw sydd yn disgyn fel dagran difeiriol,
 Mae ei breichiau, y noethion ganghennau, yn ciriol
 Am bardwn, sef gwanwyn; cynhygiant fel iawn
 Eu rhyndod a'u noethni bob bore a nawn.

Mae'r llong yn y porthladd yn barod i gludo
 Y dyrfa sy'n awr yn mynd i ymfudo;
 Dymunaf eu llwydd ar y moroedd pell,
 Ond rhagrith a fyddai dymuno gwlad *well*;
 Os *gwell* ganddynt hwy wlad o gyfoeth a bri,
 Boed iddynt ei chyrraedd, ond Cymru i mi,—
 Hen Gymru a'i bara a'i dwfr a'i braint,
 Ei nefol fendithion, ei Seion, a'i saint!

PONTARFYNACH.

Er ei huchedd gorfrawychol,—y fan
 Bontarfynach uthrol,
 Fry sai 'n hyf er oesau 'n ol,
 Cre' uwch rheieidr crochruol.

STORMIO UFFERN DDU.

(EFELYCHIAD.)

CLYW, Seion! clyw yr udgorn mawr adseinia dros y byd!
 Byddinoedd Satan sydd yn awr i'n herbyn oll ynghyd;
 Ond, O, mae 'n cadben mawr mewn nerth yn ymladd gyda ni,
 A bloeddiwn goncwest, concwest lân, wrth stormio uffern ddu.

Cydgan—

Wel, awn oll ymlaen, yn enw 'r nef, mae 'n llywydd mawr o'n tu,
 Ac fel ei hen wroniaid ef, ni stormiwn uffern ddu!

Mae 'n baner lond y nef yn awr, mor ogoneddus fry!
 A helm yr iachawdwriaeth fawr yn gysgod drosom sy;
 Enilla milwyr dewr y groes goronau, fyrdd di-ri;
 Eia Pen-concwerwr, arch a roes i stormio uffern ddu.

Mae'r wawr yn torri trwy y niwl, a chastell pechod sydd
 Yn crynnu, crynnu hyd ei sail dan hyfryd oleu 'r dydd.
 Enillwn, mynnwn yn y man, dragwyddol fywyd fry;
 Trwy allu 'n Ceidwad down i'r lan, a stormiwn uffern ddu!

CENEDL Y CYMRY.

Y cwydr.

O'R dwyrain pell ar doriad—gwawr oesoedd,
Yr hil yn fyw ydoedd ar lawn fudiad;
Eawog lu 'n ymofyn gwlad,—bu gofwy
Boreu, a tŵramwy heb orthrymiad.

I'r llewin pan ddai'r lluoedd
Enw a dysg Athen nid oedd;
A chyn bod Rhufain glodus—ar eu hynt
Y Cymry oeddynt mewn rhwysg mawreddus.

Mor ryddion a'r afonydd—eu cafwyd;
Er cyn cof olrheinydd,
Dal eu rhan fel cenedl rydd—a'u breiniau
Yn eu treigliadau gynt trwy y gwledydd.

O na bai i'r awen bêr—adgofion
Digyfwng o'r amser!
Ei deisyfiad sy ofer,—mæ nifwl
A du gwmwl ar gynfrud Gomer.

Mawr oedd eu grym hwy a'u rhif—ar gyroredd
Ardaloedd oesau'r Dylif.

Esgynna rhwysg eu hanes
Fyth yn ol ac yn ol nes
Dengyd i wlad angof,
Gwlad lonydd nas cenfydd cof.

Eu hanesiaeth henoisol—a gollir
Mewn gwyllwch anhreiddiol;
Acw o'u rhawd prin y ceir ôl,
Yn y nos gynhanesiol.

Nid oedd ond ar fyd yn dyddhau,—adeg
Ydoedd cyn rhoi enwau
Ar Ewrob a'i gororau,—ei broydd,
Llydain afonydd, a'i gwylltion fannau.

Wrth deithio heibio ar hynt
Rhoddodd y Cymry iddynt
Enwau sydd gan eu sain,—eu cynhwysiad,
A'u dylanwad, yn awdlau eu hunain.

Ar ryw foreu goleu gynt,
 Gwlad Albion wiwlon welynt.
 Gwynder ei chreig uwch gwendon
 Oedd deg wahoddiad i hon.
 Enillai 'u serch yn hollawl,
 A'u moddion i'w meddu 'n hawl.
 Glan bell ar geulannau byd,
 Lle noddfawr a llonyddfyd,
 Anhysbys Ynys unig,—mewn moroedd
 Diogel ydoedd, gwlad gloedig.

Digymysg giwdawd Gomer
 Aeth yn nawdd rhagluniaeth Ner,
 O'i fodd i'r etifeddiaeth,
 A hon oll yn eiddi wnaeth.

Cyffion oedd cyfaneddiad—ein cenedl,
 Ac union ei thrigiad;
 Gweigion oedd y glynnoedd, gwlad
 Ofynnai am drigfaniad.

Deuai y wlad dawl hon
 O drawddysg y derwyddon,
 A'u llwyddiant, yn gawell addysg,
 I wledydd pell yn dardell dysg.
 Llywydd cred y gorllewin
 Yn gynnar oedd gan ei rhin.
 Rheidiol i bob efrydydd—i hon ddod;
 Celai gu glod fel coleg y gwledydd.

I fawr dwf yn foreu y daeth
 Rhyfeddol ddysg serofyddiaeth.

Rhoi llithiau ar y Llwybr Llaethog—fry sydd
 Yn fôr o ser tonnog,
 Wnai 'n seronyddion enwog,—eglurid,
 E ddilynid hynt bydoedd olwynog.

Esboniai Idris beunydd—ucheldrefn
 A chwyldro ysplenydd
 Yr huan seirian y sydd—yn deyrn gwawl,
 A'i luoedd nefawl iddo yn ufudd.

Ar y cyrff ser craffus oedd—trem Gwydion;
 Enwau 'u llun adwaenai, a'u lleoedd.

Y Rhufeiniaid.

Caisar hyd derfyn daear wnai dywys
 Ei fyddin enwog i feddu 'n hynys,
 Ein Caswallon nacaes ei wyllys,
 Caid arwyr filoedd ceidr i'w rhyfelwys.

Buan mewn aidd o ben y mynyddau,
 Yn odidog disgynnai 'r hendeidiau,
 Ni arosent nes glanio o'r rhesau,
 Dirif Frytaniaid yn dorf i'r tonnau.

Er tirio, er glanio, o'r gelynyon,
 Ar bob tu i'w drygu, ein pendragon,
 Arweiniai ei wronion,—eu pybyr
 Fanerog eryr nid ofnai 'r gwron.

Yn ol gyasant, troisant y trawsion,
 Draw o'u gwiw lannau, gwnaed i'r gelynyon
 Ymadaw yn ddiamodion,—mewn brys
 O'r hen Ynys, aerwyr anunion.

O! 'r floedd a'r gorfoleddu
 Ar y lan gan erfawr lu,
 Pan godai 'r teyrn faeddai fyd
 Ei angor i ddiengyd,
 Pan gaid Rhufeiniaid ar fôr,
 Dan gur yn gadaw 'n goror!

Gynt pan drigynt o dan un pendragon,
 Pa fyddin hyf, pwy faeddai henafion
 Y genedl enwog! Gnawd i elynion
 O'u blaen giliaw, a'r bobl o un galon.

Eithr y clwyf y methai 'r cledd
 Rhufeinig roi i fonedd
 Y genedl, mewdol gynnen
 A'i rhoes, arw loes, i'r hil hen.
 Bradwriaeth ei brodorion
 Ai o dan lwydd Prydain lon.

I'r wlad haeddol, mor niweidiol ymraniadau!
 Yn ei chanol, mor resynol ymrysonau!

Yr Ynys Gadarn, er na ysgydwid
 Gan ymosodlif trenllif estronllid,
 Lli gwenwynol o ddichell gynhennid
 Ddifai 'n raddol sail ddofn ei rhyddid.

Afarwy erch ei fwriad—erfyniodd
 Ar Rufeiniaid anfad
 I ddychwel i'r harddwech wlad,
 Heb wir ethryb i'w rhuthriad.

Llwyr ofer yw glewder gwlad
 Is engur gur ysgariad,
 Rhufeiniaid gaent drwy fewnawl
 Fradwriaeth ehelaeth hawl.

Er rhoi iau den ar yddfau'r Prydeiniaid,
 Llygru 'u miloedd ni allai gormeiliaid;
 Parhai nwyfiant pur eu henafiaid,
 A'u dewraf aniaeth er llid Rhufeiniaid.

Gwydr hyf gwedi hir hedd—iawn honnai
 I'n hynys ei bonedd;
 Mynnai gryfhau seiliau 'i sedd,
 A'i hadferyd i fawredd.

Gyrrodd Gloyw ar ein gorawr,
 Fal drycin, ei fyddin fawr;
 Aruthr lu, anrheithio'r wlad,
 Hir lwyddo heb orluddiad.

Y corff mewn cadwyn os caid,
 Rhy anhawdd rhwymo'r enaid.

Caradawg odidawg, parod ydoedd
 Ar y maes weithion a'i lewion luoedd;
 Gair ei folawd a wasgarai filoedd,
 Ie, baeddai ei enw eu byddinoedd;
 Mur a thŵr o gymorth oedd—i'n tadau,
 A chnul angau idd y gwychion lengoedd.

Er colli'r dydd, o'r newydd crynhoai
 Y Brython eon, ac ailgyneuai
 Fflam uchel rhyfel lle'r ai—ei ddidlawd
 Lewaidd anianawd, a'i gledd, ni hunai.

Glyw heb ail oedd, casglai blaid,—rhyfelwyr
 Filoedd fel âg amnaid;
 Ef ei hun fu enaid—y genedl gu,
 Ow! ei roi i fyny i Rufeiniaid.

Rhufain fu lon gael yr eofn flaenor,
 Y gorwych wron ynddi 'n garcharor,
 Hir y synasai wrth rwys aneisor,
 Ei fraich gawraidd a'i fawrwech egwyddor.

Ni ofynnai gan fonedd—mawreddog
 Am radd o hynawsedd ;
 Gwron ni chais drugaredd
 Yn ddi-fawl, gwell ganddo fedd.

Wedi caethiwo'r blaencr a'i blinai,
 Yr eofn Garadawg, Rhufain gredai
 Nad oedd yn Albion wron flaenorai
 Lewion mwyach, ei hawl ni amheuai.

Ni syniodd am adnoddau—y genedl,
 Na'r eginyn gorau
 O bur wladgarwch borau,
 Oedd â byw nodd heb wanhau.

Buddug flaenorai 'i byddin—wronawl
 Orenwog mewn brwydrin,
 I Gâl draw gan rwygol drin,
 Gyrrai Rufeiniaid gerwin.

Dan erchyll ffrewyll gormes deffroai
 Hen Brydeiniaid, a'u hanian bur daniai,
 Ag uchafiaeth lle bynnag y chwyfiai
 Hoff luman hon, yn unfflam enynnai
 Y wlad gan ryfel dig na arafai ;
 Drwy ofn ei gwroniaid Rhufain grynnai,
 Ei llais a'i gwladol allu ysgydwai
 Y tir, a'i gadwyn i'r gwynt ergydiai ;
 Rhyddid Prydain gain o'i fedd gwnnai ;
 Dan ei bron, calon gwron a gurai,
 Ac i luon rhyddid calon a roddai.

Eithr o fanwl ddisgyblaeth Rhufeiniaid,
 A chatrefn ddifai 'n milain ormeiliaid,
 Gorfu 'n dristion i'n hyfion henafiaid,
 Er eu henwog wrhydri, droi yn grwydriaid.
 Nid eu dewredd, ond trefniad y diriaid,
 A barai y dinystr ar Brydeiniaid.

Ow ! roddi y derwyddon,
 Luedd mŷg, i'r cledd y' Mon !

Heb un nawdd dan wyneb nen
 Ond arwydd hoff eu derwen.
 Gan alar trwm gwnelai 'r tro
 I genedl gyfan gwyno.

Y Sacson.

Trwy frâd Gwrtheyrn, y deyrnas—a gollodd
 Ei gallu a'i hurddas,
 A cholodd trwy 'r erchyllwas
 Ei goreu fro, Lloegria fras.

Gwlad oedd er oesoedd di-ri,
 Yn feddiant cyn cof iddi ;
 Collem yn hon ein cyrion a'u ceurydd
 A'n coron fawredig trwy'r carn-fradydd.

Dwyn Sacson trawsion trosawdd,
 Gweision erch, dan esgus nawdd ;
 Ond hwy i'r wlad fad ar fyr
 Droisant dros oesau 'n dreiswyr.

Môr o lid heb nemawr i lan—neu hafn
 O hedd, o hyn allan
 Yw brud y genedl, pob rhan
 Ar gof, yn un frwydr gyfan.

Draw o chulhai cylch ei derch lywiaeth
 O flaen grymusaf hyf lanw gormesiaeth,
 Hyd na chaid onid un delaid dalaeth,
 Un darn is hawl o'r hen deyrnas helaeth,
 Nid oedd *yno* Gymro 'n gaeth,—nac undyn
 Grymai i elyn a gau ormeiliaeth.

Y genedl i eirw glogwyni—Gwalia
 Gwél yn ymfoddloni,
 A'i hoff etifeddiaeth hi,
 Ei Rhyddid boreu, eiddi.

Fel creig ar ymyl eigion
 Dyfnfawr, yn gwrthdaraw'r don,
 Gan gadw'r môr cefnfor cau
 Draw o fewn ei derfynau ;
 O'n goror fel hyn gyrrid
 Grymus lanw gormesawl lid.

Lluoedd o bobloedd y byd—heb wrtharf
 Aberthant eu rhyddid
 O fodd, er mwyn celfyddyd,
 Hedd clau, a dinasoedd clyd.

Ofer eu son am aneddau llonydd,
 Ofer yw trafod dirfawr eu trefydd,
 Ofer maelion toreithfawr eu moelydd,
 Ofer y boen a'r holl lafur beunydd.

Ofer cân, ofer cynnydd,
 Ofer oll heb wlad fo rydd.

Pa lesiant yw palasau—dihafal
 Eu dyfais a'u ffurfiau,
 I ormeswyr am oesau
 Gael mewn hedd gwael eu mwynhau?

Rhag camrwyg rhoddai'r Cymry—(bo cofeb)
 Y cyfan i fyny!
 Troent yn filoedd trahy
 I'r maes rhag gormeswr hy.

Cyn yr aberthid Rhydid a'i radau,
 Peryglid mad wareiddiad i raddau,
 Addoedid celfyddydau,—ysgarthion
 Oedd eu holl faelion gerbron eu breiniau.

Aberthid eang barthau—o'r Ynys,
 Yr hen derfyn borau,
 Mannau prid, er mwyn parhau—ar enwog
 Gymru fryniog gof Gomer a'i freiniau,

Troi o'u hafawg bentrefydd—a'u gadaw
 I gyd heb breswlydd,
 Dwyn garwaf duaf dywydd,
 Dwyn oer rew, i fod yn rhydd.

Er mor flin, cynefin oedd
 I dân ysu 'u dinasoedd.

Trwm ddinistr i'w meddiannau—eu daoedd
 A'u diwyd drafnidau;
 Gwell palas dinas ar dân
 Na 'u hoff luman yn ffamau!

Er cyrch didawl, cais unawl Saesoniaid,
 Er llwydd a dinystr lluoedd y Daniaid
 Gorldiog, er miniog gledd Normaniaid,
 A garw elyniaeth myrdd o greuloniaid,
 Y genedl yn genedl gaid,—mal y dydd
 Ai drwy afonydd o waed Rhufeiniaid.

Gwae 'r fyddin ormesgar a feiddiai
 Groesi 'r ffin oesol, yn ol ni elai!
 O'i du fwriad llwyr edifarai,
 Nid buddugoliaeth, ond bedd gelai.

Y safiad wnaeth yn ei thalaeth olaf
 O du rhyddid, pa fodd ei hadroddaf!
 Uwch gwrthsafiadau 'r oesau ei rhesaf,
 Yn ddiamheuol hwn oedd y mwyaf.
 Rhwysg cadarn Owen Glyndwr ysgydwai
 Y tir, a'i gadwyn i'r gwynt ergydiai;
 Trwy ei fawr lewddid Rhydid waredai,
 Harri goronog ar sedd Lloegr grynai.

Maes Bosworth

Ni fynnai y genel ymdawelu,
 Diau nis difyrrid nes adferu
 Un o waedoliaeth y teyrnawl deulu
 Prydeiniawl henoawsawl i deyrnasu.

Arafodd erch olwyn rhyfel—a bŷs
 Bosworth ar ei hechel!
 Gorffwysed, safed nes el
 Daear a nef draw 'n ufel!

Harri Tudur, naturiawl—olynydd
 Ein hen linach deyrnawl,
 Ym Mosworth, lyw grymusawl—goronwyd,
 Ac O, mawrhawyd y gwaed Cymroawl.

Cun didwyll o'n enawd ydoedd—a'i haniad
 O'n henaf frenhinoedd;
 Brawd i ni ar Brydain oedd—mwy'n unben,
 Ac O mor llawen Cymru a'i lluoedd.

A'r ddraig goch roddai, ar gad
 Bosworth, eglur hysbysiad
 Mai brenin o deyrnlinach—Brutus oedd
 Yno a'i luoedd gwronawl hoew-iach.

Ein baner pan oedd unbennaeth—Prydain
 Yn ein prid waedoliaeth,
 Ar y gwych ddydd y ddraig goch ddaeth—i'w bri
 Pan y dai Harri i'r penaduriaeth.

Pob deddf o ddirwy ddileid mwyach
 Drwy haelioni y Dudorawl linach ;
 Bu hollol dangnef bellach—yn eiddom,
 A rhad arnom dan y wir deyrnach.

Ochyr yn ochyr un achaws—oedd gan
 Eu dwy genedl gydnaws ;
 Diflannodd, trengodd llid traws,—caseion
 Wnai y frwydr hon yn frodyr hynaws.

Drylliodd datododd Tudur—yr uchel
 Frawychus ganolfur,
 Gaid rhyngon, gwedi'r engur—lid, unem
 Ac ymasiem drwy ryddid cymesur.

Un brenin mwyach, a'n breiniau—yr un,
 Pa raid wrth gynhennau
 Neu frwydrin, a ni'n mwynhau—'r un gyfran
 O iawn weithian â hwythau ?

Adeg uniad dwy genel—ydoedd hon
 Er diddanwch uchel,
 Oddiyma, Gwalia, gwél
 O'r diwedd yn fro dawel.

Er hynny wedi'r Uniad—parhai
 Ein priod noddwediad,
 Dal i fyw yn genedl fad,
 A chenedl heb lychwiniad.

Meddwl Cymru.

Os cynhyrfir gan fawr rwysg ein harfau
 A'u hynt mawledig, lyn ein teimladau,
 Mae'n hyfrytach cofio am hen frutiau,
 Canu am ddilyth rwysg ein meddyliau,
 Y cyffroad, dylanwad i lenau
 A daflasom wedi adfail oesau,
 Y trwydded odiaeth gai 'n traddodiadau
 Agor drws Ewrob i'n gwir drysorau,
 Rhoi uchel feddylddrychau,—dyma rodd,
 Molaf y rhad-rodd uwch mil o frwydrau.

Bod o lès i'r byd, hwyluso—meddwl,
 Rhoi o'i moddion iddo,
 Yw diail waith cenedl wir,
 Arddunir y rhodd honno.

Eu meddyliau yn ddiau ynt ddaoedd,
 A dawn mwyaf cynydlawn y cenedloedd,
 Mewnol ydynt eu mwn o oludoedd,
 Y pur drysor sy 'n para drwy oesoedd.

Hen Athen, a Rhufain hithau—i ble
 'R aeth bloedd eu cadresau?
 A dirfawr glod eu harfau? Ble weithion
 Y mae arwyddion o'u mawreddau?

Eu dewrder a'u hawdurdod
 Doddodd, ddifannodd fel ôd.
 Holl ledred eu llywodraeth,
 A'u grym, i'r diddym y daeth.
 Eu caerau nis cyweirir,—hwy weithion
 Mewn adfeilion dyfnion nid ofnir.

Ond os soddwyd awdurdod eu seddau
 A'u mawredd isod ym moroedd oesau,
 Ac eres gnwd eu goresgyniadau
 O chwalwyd ar edyn chwyldroadau,
 E ddaliodd eu meddyliau—trwy gydol
 Gauaf niweidiol mil o gyfnodau.

Ein henwog genedl ninnau—wnai ei rhan
 Er ennyn cynheddfau
 Gwledydd, yn ei threigliadau—drwy oesoedd
 Dyfal ydoedd yn meithrin bryd-flodau.

Mwyach bo rhodfa 'm hawen
 Ar hyd feusydd llonydd llên,
 I ddilyn ei meddyliawl
 Efen bur, mesur ei mawl.

Trwy'r mawr les bares i'r byd,—y nwyddau
 Weinyddodd i efryd,
 Pery ei chof mewn parch hyd
 Derfyn oesoedd daearfyd.

Dyma ddyfnaf sieraf sail
 Ei chlodydd uchel adail.

Y gwledydd i'n goludog—hengofion
 A gaf yn ddyledog;
 O'n cofiaethau cyfoethog—y tyfodd,
 Ail agorodd llenoriaeth flagurog.

Ewrob draeth a wnaeth yn nhu—ei llên
 A'i doniau addien, i'w hadnewyddu,
 Pan oedd o'i chwsg dyfngwsg du
 Dybryd yn ymddadebru.

Daw marwaidd lesg dymhorau—ar ynni
 Dirfawr anian weithiau,
 Ei llysiau geir yn llesghau,—cloedig
 A rhewedig ei chynhyrchiol radau.

O ddilyn rhwysg meddyliol—cenhedloedd,
 Cawn adlif llesghaol,
 Traeth hanesiaeth cynoesol—fod adeg
 I dir gofeg o wywder gauafol.

Allwysai y Tywyll Oesoedd—ddiod gwsg
 Oedd hud gau i'r bobloedd,
 Anadlent ar genhedloedd—eiddilwch,
 Egwan arafwch am ganrifoedd.

Ynni bryd drwy 'r byd beidiai,—a ther haul
 Athrylith fachludai,
 Lluddedig grebwyll ddodai—'i bin euraidd
 I lawr—trymaidd gwsg marwaidd gynerai.

Athrylith aeth i gaeth gwsg,
 Daear amgylch i drymgwsg;
 Yn nhirion ardd llenoriaeth
 E ffoes cynyrchiolrwydd ffaeth;
 A'r awen lân, egwan oedd
 Ei llais trwy 'r Tywyll Oesoedd.

Gwedi hir auaf gwyw a dirywiol,
 Deuai gan wenu adeg wanwynol,
 Ffoes trwch tywyllwch y byd deallol,
 Ewrop ail gwnnai mewn bri plygeiniol,
 Trwyddi yn ei ynni cynhwynol
 Cyffrôdd, dihunodd y meddwl dynol.

Adferwyd bryd i'w fawr-rym,
 Ond ofer adfer ei rym,

Tra nad oedd gan bobloedd byd
 Lyfrau na sail i efryd.
 Nid oedd gwychion gofion gynt
 I feddwl roi i ffurf iddynt;
 Haul llên ar ddifancoll oedd
 Oll is y Tywyll Oesoedd.

O ba ddiben athrylith ysblenydd
 Heb wrthddrych ceinwch all dderbyn cynnydd
 Oddiallan? Nid yw ond arddullydd,
 Na 'i allu ond eiddaw llaw y lliwydd.

Byd Ewrop oedd heb awdurol—weithiau,
 Ac amlinau i ddoniau arddunol
 Eu llenwi yn gynlluniol,—a'u hongian
 Yn nef eirian llenoriaeth anfarwol.

I'r bryd dynol, dwyfol daeth
 Arlwy 'n awr o lenoriaeth
 Y Cymry,—rhodd bery byth
 Yn deilwng o barch dilyth.

Dyma rodd i'r byd ei mawrhau,—enwog
 Rodd o odidog draddodiadau.

Hen Gymru oedd enwog am wir ddoniau,
 Mwy ni fu Athen am hynafiaethau,
 Aruthredd didor, a thraddodiadau,
 Awenol aniaeth, a gwronawl enwau
 Mawredig gymeriadau—fal ser pur
 I lawr hyd Arthur ar asur oesau.

Meddai olud meddyliol,—a thoraeth
 Eirian o'r chwedlonol
 A naws y ffughanesiol,—hyglod oedd
 Ami anlloedd, am hyntoedd y rhamantol.

Dihafal draddodiadau hefyd—oedd
 Eiddi o'r boreufyd,
 Rhai oeddynt yn cyrhaeddyd
 Hyd oesau borau y byd.

Mawr drysor y Cymry droswyd,—eu llên
 I'r byd llwm drosglwyddwyd,
 A thrwyddo llawn waith roddwyd
 I'r meddyliol nerthol nwyd.

Gruffydd ab Arthur.

E berthyn i Gruffydd ab Arthur—barch
 Drwy'r byd am ei lafur ;
 Ar ein holl lèn perchen pur
 Ys ydoedd, a'i drosiadur.

Cyfieithodd ein cofiaethau,—ein hanes,
 A'n hen draddodiadau,
 Rhoes i eraill drysorau
 Ein llên i'w cyflawn wellhau.

Ei "Historia" ni lesteirid,—ei lanw
 O lwydd nis cyfyngid,
 Hyd dir Asia trosid,—a thrwy'r gwledydd
 I ddarfelydd y wledd oraf hulid.

Rhedodd drwy eang gylchoedd y Ffrangaeg,
 Croesawyd, mynnwyd yn yr Almaenaeg,
 Bu ei rad olud i'r ber Idalaeg,
 Darlennwyd, esboniwyd drwy'r Yspañaeg.

Llochodd, mabwysodd y byd—y coelion
 Tirion a'r cofion Cymreig hefyd.

Fe wnaeth ein hynafiaethau—yn eiddo,
 Noddodd ein meddyliau ;
 A'n didor draddodiadau
 Hoffodd, ymrôdd i'w mawrhau.

Am ddihafal wronion Gwalia,
 Iach deuluoedd byd yn chwedleua,
 Synnid nifer yn Sandinafia
 O dan aur hwyr edyn Aurora.

Defnyddiau wrth fodd athrylith roddwyd
 Y gronfa hon o gofion pan gafwyd,
 Doniau'r cenedloedd daniwyd—mae'n hysbys,
 O'r diwedd ewyllys bryd ddiwallwyd.

Hen hanes ein brenhinoedd
 Eu mawl-destyn arddun oedd,
 Cyfriniol broffwydoliaeth
 Ein Merddin ddewin a ddaeth
 Yn bwnc i lenorion byd,—am oesoedd
 Rhedwely ydoedd i ddyfroedd efryd

Ei adfyd a'i dynghedfen,—a'i gystudd
 Yn ei gastell draenen,
 Ei ddolef ar nos ddulên,
 A'i wae yn "y ddraenen wen."

"Arthur" y rhamantau.

Clod pur ein Harthur nerthawl—fu eilwaith
 I folawd awenawl
 Ganiad yn bwnc gogonawl,
 Uwch myrdd o wrthddrychau mawl.

Cynhwysa ffughanesion—y gwledydd
 Glod ein pennaf wron
 Hyd ei golli yng ngwlad gwyllion,—traethiad
 Am ei arfolliad ym mro Afallon.

Myfyrion am ei fawryd,
 Gan goethion benbeirddion byd,
 Melus geirdd am ei lys gynt
 A'i ogonedd a genynt,
 Ei odidog farchogion,
 A hyfryd grefft y Ford Gron.

Ei lwydd yng nghad Celyddon,—a chofus
 Uchafiaeth Caer Faddon,
 Gwrolwaith, gwae ar âlon
 O'u neshau i'r Ynys hon.

Llannwyd y byd llewinol—â thrydan
 Ei weithredoedd nerthol,
 Ac o'i hanes orescynol—e ddaeth
 Helaeth doraeth o weithiau awdurol.

Enw Arthur aml ei nerthoedd—ym Mhrydain
 Mawredig os ydoedd,
 Enwocach uchelach oedd
 Acw yn odlau'r cenedloedd.

Y rhyfedd, y mawr hefyd
 Elai'n fwy, e lanwai fyd;
 Ameuro ei gymeriad
 Wnai mil o awenau mad.

A llewydych Llŷs Caer Llion—gynyddai
 Gan addurn y beirddion,
 Nes oedd ei dinasyddion
 Yng ngwawl bri fal engyl bron.

Llawnwych adluniad o'n llên chwedlonawl
 Ynt brif-weithiau doniau'r meddwl dynawl,
 Dyma ddelid eu gweithiad meddyliawl
 A' blaenau eu ffrydiau amgyffredawl;
 Mŵn eu cyfoeth mewnwawl,—eu gogoniant
 A'u mawr riant yw'r meddwl Cymroawl.

Dylanwad ein chwedloniaeth—newidiai
 Nodwedd aml lenyddiaeth,
 Weithion cawn olion helaeth—o'i weithiad
 Yn hoff gynhwysiad aml ffughanesiaeth.

Beier a fynner, e fu—hen addysg
 Chwedlonyddiaeth Cymru
 O les i echlysu—moes a dewredd
 O du rhinwedd drwy'r byd i daranu.

Dygant dramor ddysgedigion—gyffes
 O'i gwiw effaith weithion;
 Pob Cymro, seinio am swynion—y chwedl,
 Na bo o'r genedl neb a rhyw gŵynion.

Ni cheir i Gymru na choron—na darn
 O deyrnas, na lluan
 Dewr ogylch, na phendragon,
 Yr oll yn awr yw llên hon.

Rhyddid.

Mawrhaf y Cymry hefyd—am rwyddo
 Mawreddog hynt rhyddid,
 A rhoi balch engrafft i'r byd,
 Hoff arwyr, o'i ddifferyd.

Bythol ymfrostiwn, gwn, yng ngogonedd
 Ein gwronion, bu enwog eu rhinwedd,
 Nid goresgyn y byd â gau rwysgedd,
 Ond diffyn yr iawn derfyn hyd oerfedd,
 Mwynhau bro Cymru mewn hedd—gofalus,
 Gwyliadwrus i'w gwalio â'u dewredd.

Am ein gorchestion glewion pan glywid
 Diffynwyr iawnder is ser gysurid,
 Dan erchyll ffrewyll gormes deffroid
 Eu hyf luoedd, a'u heirf a ail loewid.

Rhag trawsder creulawn ar ol cyflawni
 Eu rhan, a'u llu egwan bron llewygu,
 A'u gobaith bellach, bellach ar ballu,

A'r dig ormeswr wedi grymusu
 Ei fyddin i'w llwyr faeddu,—caid cysur
 O gofion Arthur i'w hadgyfnerthu.

I ryddid caid arwyddion
 Cymorth ail co' Marathon.

Charles o'r Bala.

O holl odidawg liosawg lesion
 Ac amryw ddoniau'r Cymry i ddynion,
 Prif rad yw puraf air Ion,—rhodd odiaeth!
 Mor fuan daeth a môr o fendithion!

Un o honom a enynnai—y fflam
 O hoff les oleuai
 Genhedloedd filoedd am fai,
 Ac am waed a'u cymodai.

Y gair os seliedig oedd,—agorwyd
 Ger yr holl genhedloedd;
 Ei ladau a'i oludoedd
 Iddynt caid yn feddiant coedd.

Os cauedig fu gwyllys Ceidwad
 Rhag hil Adda, drwy euog luddiad
 Cynoescedd, y cynhwysiad—dynolryw
 Erbyn heddyw a'i gŵyr heb enhuddiad.

Pob llwyth fwynhâ o ffrwythau—odiaethol
 Cymdeithas y Beiblau;
 Ar daenol fôr ei doniau—pellaf blant
 Y cwyp ganant acw am y pegynau.

Mynegfys dywys rai duon—eu lliw
 Yn lluoedd i'r ffynnon,—
 Pan ylech yr Ethiop yn hon
 Bydd holliach heb weddillion.

Os *un* addwyn rodd sy yn eiddi,
 Medd hon ddigon i ddieuogi
 Dyn dan gollfarn gadarn, a'i godi
 I ogoniant y nef o'i gynni;
 A ddalio hon, medd hawl i—bob cyfran,
 Bywyd ei hunan, pob daioni.

Dugiaid a chadfridogion—nas enwer
 Eu gwasanaeth weithion,
 Nas canmoler ger gwron
 A sant y Gymdeithas hon.

Am y rhodd hon myrdd myrddiynau—folant
Ior ar felus dannau,
Mawrhânt y Cymro yntau—o wir fodd
Draw a'i hestynnodd dros y tonnau.

A'r hil a'i dygodd fawrhânt,—bydd uchel
Euw gwiw ei genel byth mewn gogoniant.

Yr haelwych feddylddrych ddaeth
Yn elw i fyrdd dynoliaeth.

Nis cawn yn hanes cenedl—wasanaeth
Na syniad mor uchel,
Nefol effaith ei gwaith gwel
Dros wyneb daear isel.

Diodid, o'i cheidwadaeth
Lles diderfyn i ddyn ddaeth.
Yr oedd yn werth ei pharhau
Heb leihad, yn ei blodau,
I roddi'r fath gyfarwyddyd,
I roi y fath drysor i fyd.
Hi roddodd fwy na rhyddid,
Do, hi roddodd fodd i fyd
Adnabod y Duwdod heb
Len ar Ei ddwyfol wyneb.

Amddiffynnodd, cynhaliodd Nêr
Ei gwmwl uwch pabell Gomer
Er mwyn hyn! Ei rwymyn oedd
A'i ras o'n cyleh drwy'r oesoedd.

Awen Cymru.

Pa bobl mor gyflawn o'r ddawn farddonol,
Mor fawrion mewn eiddion awenyddol?
Mae'r wiw gân addien mor ogoneddol,
Yr awen, er yn Eden, mor hynodol?
A'i phur dân mor gyffredinol?—is ser
Y fath nifer dan ei nwyfiaeth nefol?

Mawredig iawn ym Mhrydain—oedd y bardd
A'i burddwys arwyrain;
Am ei urdd ceir mawredd cain
Oestadol er oes Tydain.

Delw o hedd oedd ei wedd wiw,
 A'i orllaes wisg awyrlliw.
 Ar fardd ni chaid gwaharddiad,
 Oedd nawdd ac hedd yn nydd câd.

Mor hŷf, rhwng fflamau rhyfel,—y rhodiai!
 Elai, a deuai yn ol yn dawl;
 Ei ddygiad oedd diogel,—ar helynt
 Ef elai rhyngynt fal rhyw angel.

Barddoneg deg oedd pob dysg,—mydryddiaeth
 Ac awenyddiaeth oedd pob cynaddysg.

Er pob llethol elynol ddylanwad,
 Brawychawl draha a berw chwyldroad,
 Er rhwysg camwri, erys cymeriad
 A chlod yr awen uwchlaw dirywiad.

Rhodder ehangder iddi,
 Y nen yw ei helfen hi.
 Mae yn hoffi min affwys,
 Tremyn odd y dibyn dwys.
 Deil ar daith gwibdaith nes gwél
 Oror iach yr aruchel.
 Yn hollol gartrefol trig
 Ym mhur wydd y mawreddig.
 Ni ddaw'r cyffredinedd hi,—myn fawredd,
 A iach arddunedd i'w chawraidd ynni.

Y gynghanedd.

Mor gu i'r Cymry ei gwedd
 Yng ngheinwisg y gynghanedd!

Nyddedig gynghanedd ydyw—ei nawd
 A'i nodwedd diledryw,
 Y diddadl brofiad hyd heddyw
 Mai y wir ddawn Omeraidd yw.

Ei hoffus drefn sydd effaith,
 Sydd ddrych o ansawdd yr iaith.

Dolef anian, awr câd elfennol,
 Llef y rhaiadr, mynyddllif rhuol,
 Darlunia drwy olynol—dreigliadau
 O'i tharanau cyflythrennol.

Mor nerthol cyffifol lef
 Ac adlais ei chlych cydlef!

Noddi y cynghaneddion—y byddom
 Fel buddiawl arwyddion
 O fawrddysg ein cynfeirddion—(sy mwy 'n fud)—
 A môr golud y Gymraeg wiwlon.

Athrylith i'w rheolau
 A'u cryf ddull, câr ufuddhau.

Awelon, nid hualau,—yw y rhain,
 Is ei aur adain, i'w eres rodau
 Fry hêd ei fyfyriadau,—ag enwog
 Odidog ehediadau.

Gemau'r awen Gymréig—gwyh harddwisg
 Ei cherddi mawreddig,
 Nid ydyw'r drefn nodedig—yn gadwen
 Na lludd i awen mewn llaw ddeheuig.

Egyr ei lwybyr ar led,
 A rhydd wawl i'r bardd weled;
 Llwybyr i'w fyfyr fwyfwy,
 Chwilio am air a chael mwy.
 Iawn ddaw i awen ddiwyd,
 Gair i fardd a egyr fyd.
 E dry gair wrth droi o'i gylch
 Fyr ymgais, yn fôr amgylch.

Pa le ceir llên mwy eirian,
 Pwy edrydd gynnydd y gân!

Bardd erioed fu i ganu 'n ogonol
 Glod gorchestion y gwron gwladgarol,
 Ein niferi anfarwol—o feirdd gynt
 Llawn oeddynt o grebwyll awenyddol.

Tyrrau ser ynt dros yr wybr,
 O lawned yw y lôn-wybr!

Y deirdd Cymreig.

Y godidog *Ododin*—yn gynnar
 Iawn, ganai ANEURIN;
 Ac arwydd-eiriau gwiw-rin—yn forau
 Wnaed i oloesau gan DALIESIN.

Ei felus "Ner a folant"—wireddir;
 Oedd yn gweld nodweddiant
 Uchel ei genel pan gân
 Ag hyder,—“Eu hiaith gadwant.”

Goronwy hefyd a geir o'u nifer,
 Mae ei le yn ymyl awen Homer;
 Rhodda ei bwyll a'i gerdd bêr—ddrych o ddysg
 Ac odiaeth ddigymysg deithi Gomer.

Fe fwriai 'n fyw y *Farn Fawr*—a gorddwys
 I'w gerdd athrylithfawr;
 Trwy ei wir rym tery 'r awr
 Fuddugol i fedd agawr.

Ac ar y rhes eres hir
 Ionawr hefyd iawn rifir.
 Tra bo 'n llên y *Fellten* fydd
 Dan gauad yn ei gywydd.
 Ail lifa 'r *Diluw* hefyd
 Ymchwydd ei frawd a fawdd fyd.

A gorwych fardd y GAERWEN—hedai hwnt
 Hyd entyrch nef awen
 Heb orchest, oedd berchen—ar ysblenydd
 Ddawn ddieilfydd, arddunedd ei helfen.

Ar ol yr arddunol feirdd a ddoniwyd,
 I'n tadau diau un bwlich adawyd.
 I Dduw a'i wiw gysegr bardd a geisiwyd
 I Seion fwyn, a WILLIAMS anfonwyd,
 Efe i eglwys Ion a gymhwyswyd
 Ei asbri dilesg a ysbrydolwyd,
 Iddo y fawreddog gynneddf roddwyd,
 Ie, byw esgyll cerub i'w hysgwyd,
 Ei athrylith fendithiwyd—i'w orchwyl,
 A'i awen anwyl o'r nef eneiniwyd.

Rhoes ei farddas gyfaddas foddau
 I Seion dirion o'i blinderau
 Isod, adrodd hynod haeddiannau
 Ei Gwardwr, mynegu 'i radau.
 Chwery y genedl ar wych organau
 Ei farddoniaeth brofiadon fyrddiynau;
 Ai ffyddiog oludog ddisgwyliadau
 Nofia ar redlif ei swynfawr odlau
 Hyd dawl lennydd gwlad y telynnau,
 Trem anwyl trwy 'i emynnau—ar hyfryd
 Fro y bywyd lle ni chofir beiau.

Af i dramorol fyd yr Amerig,
 Aml Gymro gân yno 'n ddigon unig
 Ryw odl odiaeth bêr ysbrydoledig
 O'n mawr brydydd,—O mor buredig
 Y mawl a gwyd o lās deml y goedwig!
 E gymer awel y dôn Gymrêig
 A'i syw nodau i fyny 'n synedig.
 Ty ei dad gofia 'r alltudiedig,
 Ei godiad bendigedig,—meithriniad,
 Ac addysg fad ei wlad oleuedig.

Ceir a foddia'r teimlad crefyddol,
 Yn ei emynnau dyfnion, mewnol,
 Boddhânt chwaeth genhedlaethol—yr unwedd
 Ag eu mir ddullwedd Gomeraiidd hollol.

Gwelid egwyl diwygiad
 Ar bob llaw 'n goleuaw 'n gwlad;

Agorai ddôr trugaredd i—ryw dorf
 Ar derfyn trueni;
 Llauer mil o'n hepil ni—achubwyd,
 Tyrfa ailanwyd trwy fywiol ynni.

Llif o deimlad mawladwy—mwyach oedd
 Yn ymchwyddo fwyfwy
 Yn eu hael galonnau hwy,—cronedig
 A chauedig heb fawrwech adwy.

Y pur ddwfn! Pwy a'i rhyddha?
 Mae 'r llesfawr ymarllwysfa?

Awen gun Williams pan ganodd—y llyn
 Llwenydd a dorrodd!
 Engyl, pan ymollyngodd,—wrandewynt,
 Y ne synnynt, mawl Gomer pan seiniodd!

Ei genedl a ddigonodd—a'i genedl
 Gynnes a'i coronodd,
 Y pen-geiniad pan ganodd,—a thrwyddo
 Yr eiddo i Dduw roddodd.

Yr iaith Gymraeg.

Diau ni fu dan nef âch
 A lynai yn ffyddlonach
 Wrth ei hiaith, ni werthai hon
 Er ystryw nac aur estron.

Draw o oesau borau y byd,
Ei gwyllo 'r oedd fel gwal ei rhyddid;

Fel arwyddlun arddunol—o'i dilesg
Fodolaeth gwladyddol;
Ydoedd yn gydredol—a'i dilead
Y syniad o lethiad cenedlaethol.

Cenedl nid oes nas cwynir
I'w hiaith hen golli ei thir
Yn raddol gyda 'i rhyddid,
A'u rhoi i un bedd rhag orn byd.

Y Rhufeinaeg, gyda 'r faner—wladol,
Lwydai i anarfer;
Er cynbarch yr aeg geinber
Ei sain ni chlywir is ser.

Am hon hefyd mae 'n ofer—clustfeinio
A gwrando o gywreinder,—ni adseinia,
Mwy ni ateba min y Tiber.

Lleferid gan holl fawrion—byd unwaith,
Bu doniau uchelion
Odwyh yn trin tynghedion
Daear ar gylch drwy 'r aeg hon.

Rhagddi 'r elai tra llwyddai 'r llyuddion,
Dilynai 'r llwybr a dorrai y dewrion,
Gyda hwy e gadwai hon—ei haddef
Mewn tangnef—ac adref gyda 'r ceidrion.

A chauedig bellach ydyw,—o fewn
Athrofeydd, heb unrhyw
Noddwyr ond gwyr llên heddyw,
Dug fawr rwysg, ond aeg farw yw.

A'r goethaf Roaeg hithau,—iaith yr hen
Brif athronwyr borau;
Nid oes âch bellach neu bau
Yn ei sisial er's oesau.

Ond iaith Gomer a bery,
Ei sail yn ddiysgog sy;
Er gweled dwys galedi,
A chwerwon droion di-ri,
Noddent, cynhalient yn hy
Yr enwog iaith er hynny.

Mae 'n iaith fyw mewn eithaf hwyl
 Ym mryniau Cymru anwyl.
 Yma 'r erys mor eirian
 Ei bri ag yn nyddiau Brân.
 Nid ar dariannau dewrion
 Amhêus lwydd, mae sail hon;
 Ni raid effaith rhaith ar hyn,
 Ni raid offer i'w diffyn;
 Gnodol aidd y genedl yw
 Ei diddos nawdd hyd heddyw.

Am ei chadwraeth mae uchawduron,
 Llenwyr odiaeth eu chwaeth, yn feilch weithion;
 I dramorawl awdwyr mawrion—ced yw,
 Mae Ewrob heddyw 'n mawrhau ei buddion.

Hynod wyddor ydyw ei nodweddiad
 Ar ieithoedd laweroedd rydd egluriad,
 Ceir yn hon ffynnon a chyff eu haniad,
 Cu iawn oleuni ar eu cynluniad.

A godidog geidwadaeth
 O wawr deg amser y daeth,
 Ar hynt oesoedd gynt e gair
 Gwawr rwydd o lawer gwreiddair;

Eglurhad ar gynfudiadau,—a bri
 Boreuol giwdodau,
 Gwelediad i'w treigliadau,
 A'u hanes gynt oedd nos gau.

Y Ladinaeg pan yr ymledaenai,
 Hen ieithoedd seinber lawer a liwiai,
 Ei delw neillduol a raddol roddai
 Iddynt, a'u nodwedd hwynt a newidiai,
 Drwyddynt ei helfen dreiddiai,—tra ffynnodd
 Hir y goddefodd llawer aeg ddifai.

Mae profion ymhob prifaeg—Ewrob o
 Fawr bwys y Rufeinaeg,
 Ac o'i heffaith fel cyffaeg,—ond o'i llwydd
 Mae arwydd yn y lân Omeraeg.

Yn firwd bur ei phurdeb oedd,—yn llifo
 O bellafion oesoedd,
 Er ystryw cêl a rhwystr coedd,
 Er a wnaed, yr un ydoedd.

Er drwy egwyl byr ei drygu,—hi wnai
 Newydd ymadferu
 I'w grym di ail, gormod oedd
 I allieithoedd ei llethu.

A diau er bod awydd,
 Mwy hyd y Farn, gormod fydd!

O'i rheol os dirywiai,—a silleb
 Os alliaith a'i llygrai,
 Dihalog eilwaith delai
 Yn adferol heb ol bai.

Mae 'r hen iaith yn berffaith bur
 In eto, fel ffrwd natur.

Cywir y siaredir hi—a newydd
 A phur beunydd, mal yn Neffrobani.
 Nid o fewn i brid feini—cauedig
 Rhyw goleg unig, ond ar glogwyni
 Cymru enwog, mor heini—ag erioed,
 Mae 'n gref er henoed mewn gorfawr yuni.

Cain dlws ein cenedl yw hon,
 Cynnyrch o'i theithi ceinion.
 Delw in' o'r genedl hynod,
 Cynnal hon fo 'n union nôd.
 Ein gwahanfur naturiawl,
 Rhwymyn yw, caer am ein hawl.

E geir dan y rhod odidog flodau
 Na flagurant ond mewn hafawl gyrrau,
 Ar lenydd afonydd y Trofannau,
 A cheir nodweddion teithi a doniau
 Rhyfedd yn anian ein crefydd ninnau,
 Na fyddant fyw heb foddau—priodol
 Y iaith Omerol ac ei thwym eiriau.

Odiaeth haulflodau ydynt,—hinsawdd dwym
 Sydd dymor iawn iddynt,
 Ac heb wres ein haeg bur hon
 Gwywo 'n anhylon wnelynt.

Fe ddileir ein crefyddol aidd—cynnes,
 A'n canu nefolaidd,
 A'n pur emynnau peraidd,
 Gyda hon, ireiddlon wraidd.

Ag ysbryd mawl cysonawl ei seiniau,
 Pob sant addolgar a gâr ei geiriau,
 Awr lonydd ar ei liniau—teimla 'r ddôr
 Yn ebrwydd agor flaen ei brawddegau.

O flaen gorsedd trugaredd, trwy 'i geiriau
 Naturiol ydynt ein taer alwadau,
 Dyma lydan adwy i deimladau
 Addwyn arllwysiad idd ein holl eisiau.

Mawr glod yr Omeraeg lân
 Er drygair a darogan,
 Barhao yn ein broydd
 Yn ei rod tra delo dydd.
 Hen yw, mae eto 'n ieuanc,
 Newydd drwy elfen ddi-dranc.

Iaith bêr a thyner ei thôn,—dylifiad
 O lafar peraidd-don;
 Geiriau syw, dengar eu son,
 Mal su ymylau Seion.

Iaith bêr a thyner ei thôn
 Melus seiniau aml swynion;
 Wrth raid, bydd aruthr wedyn—ei seiniau,
 Bwrw ei geiriau fel y berw gorwyn.

Swn fal per fwynder ar findant—arian
 Ei mêl-eiriau roddant;
 A phwnc mawrwydych gorwydych pan gânt
 Fel rhaiadr gauafol rhuant.

Bo 'n gamwedd i feibion Gomer,—bellach
 Ballu mewn ffyddlonder;
 Mawrygu b'ont Gymraeg bêr,
 Hyd derfyn byd ei harfer.

Dyheuyd Cymru.

Heb hedd Naf byddai 'n ofer—ogoniant
 Y genedl a'i gwydychder;
 Ban uwch y cyfan, cofier,
 Ydyw nawdd a chariad Ner.

Crefydd yw cynnydd cenel,—a'i phennaf
 Amddiffynnol angel;
 Pob rhinwedd hardd dardd lle dêl,
 Nid urddas ond o'i harddel.

Pa beth yw gwir werth cenedl, a'i nerthoedd?
 Nid caerau, palasau, a gwymp lysoedd,
 Neu lawer o fyddin luoedd,—cyfyd
 Ei gwir fywyd o'i chysegrfaoedd.

O, pa sawl dengmil o'n hil anwylaf
 I ffydd Iôn yn ufuddion ganfyddaf!
 O du gwir achos y Duw Goruchaf
 Oll o un galon yn llon eu gwelaf,
 Rhoi 'u nerth a'u hamser i'w Naf,—mor unol,
 Mor egniol, yn y mawr gynauaf!

Sabbath yng Nghymru.

Sabbath addwyn o glogwyn golygaf
 Hyd hyfryd waelod y fro dawelaf,
 Ryfedd Walia! dy dorfoedd a welaf
 I dŷ eu Ner yn myned yn araf;
 Am addolwyr bro Salem meddyliaf,
 A'i thorf bererinion gyfion gofiaf.

I gyd y Sabbath gedwir
 Yn ei waith, dydd Duw yn wir.
 Mola pob un mal pe bai
 Yn swn taranau Sinai.

Ymorffwys o bwys y byd,—mae 'n cenedl
 Mewn cynnes addolfryd,
 Ymwneyd ag ef, mynd i gyd—ar ei ddydd
 I'w dŷ 'n ufudd, a'u Duw yno hefyd.

Teithwyr beunydd sydd yn son—am ein mawl
 Mewn melus adgofion,
 Fel rhai glywsent fawl yr Iôn
 Is awyr nefol Seion.

Ceir ar Ganan drigfan-drem,
 Ceir Sul fel un Caersalem.

Tueddiadau toddedig,—tynerwch
 Tan eiriau caredig
 Iôr, ydyw eu puredig—addoledd,
 Uchel nodwedd o fuch ailanedig.

Poen y Cyfiawn pan y cofiant,—a grym
 Ei groes pan y teimlant,
 Hoff Waredwr, ffrydiant—eu llygaid llon,
 Ac mal gloewon gymylau y gwlawiant.

Dedwydd wresogrwydd y sy—yn anian
 Gynhennid y Cymry;
 Hewyd trwyadl,—wŷr trahy,—oedd eu lles,
 Eu boreuaf hanes a brawf hynny.

Eto 'n bur y tân bery—ym moliant
 Tra melus y Cymry;
 Trwy 'u crefydd aidd santaidd sy,—tân cariad
 Fyth o'u cymeriad mad ni ymedy.

Nid gau offrwn—nid moesffurf digyffro
 I foddiaw camrwysg yw crefydd Cymro;
 Teifl ei enaid a'i ysbryd diffino
 I'w grefydd, llawenydd oll yw honno;
 Nid dull anaddas tu allan iddo
 Heb hewyd iawnddwys, ond bywyd ynddo;
 Traidd ei dylanwad trwyddo,—llywia 'i rawd,
 Mae 'n wir anianawd, mae 'n rhan o hono.

Mewn crefydd beunydd mae 'n byw,
 Ei nodwedd, ei elfen ydyw.

Am hon y mae 'i ddymuniad,
 Nofia yn hon gan fwynhad.
 Nid dyledswydd afrwydd yw,
 Tâl, llâd, a braint oll ydyw.

Ei graddau gweithgar roddant
 Ddwnf nos, bob cynneddf fwynhânt
 I fyfyrïaw 'n llawn awydd
 Ar seiliau a phynciau 'r ffydd;
 Myfyrïaw fyth am fwriad
 Ac am drefn y cymod rhad;

I efengyl cyfyngu—eu myfyr,
 Ymfyn am Iesu,
 Ac am yr lawn cyflawn cu
 Roes y tâl dros y teulu.

Ac er nas gŵyr y mwyrif
 Am ddeddfau, rhodau, a rhif
 Y ser a'u lliaws araul,
 A threfn cyfundraeth yr haul,
 Cànt y clod am wybodaeth,
 Digon yw, o'r Duw a'u gwnaeth.

Ein digoll weinidogaeth,—am allu
 Cymhelliant, trydanïaeth,
 A thoddawl areithyddiaeth,
 A llawn hwyl, yn gynllun aeth.

Diareb hon drwy y byd,—am ei grym
 A'i gwres sydd mor danllyd,
 A'r Cymreigaidd aidd a ddyd,
 Wedd ddi-fai, ynddi fywyd.

Arddull hon sydd yn gyson ddanghoseb,
 Neu lyn lle gwel y genel ei gwyneb,
 O'n dwys grefydd mae 'n adysgrifed—byw,
 Arlun ydyw o'n Gomerawl nodeb.

Mae 'n adlun o Gymru 'n goedd,
 O *fywyd* ei golygfaoedd.
 Gwél y genedl glogwyni
 Ei gwlad enedigol hi,
 Ardduniant, uthredd anian,
 Oll yn ei dull llawn o dân.
 Hon fal ein clogwyni fedd
 Iach hwyl ac arucheledd.

Godidog ymgodiadau—o grebwyll
 Fel gorgribog fannau,
 Ei haruchel feddylddrychau—ydynt,
 A'r golwg arnynt fel gwir glogyrnau.

A phan ddaw'r floedd orffennawl,
 Y dorf fydd yn fyw drwy fawl;
 Mae 'i swm mor rymus inni—mor nerthol,
 Mor naturiol, a llyn mawr yn torri.

Digonir De a Gwynedd
 A thirion genhadon hedd.

I'w henwog alwad gan Iôn eu gelwir,
 Gan yr Iôn ei hunan eu heneinir,
 O'i orsedd lân eu byw dân a dynnir,
 Y nefol dwyniad gan fil adwaenir,
 Y sel llwyddiant nas lluddir,—y teimlad
 A'r arddeliad rhad na ddynwaredir.

Nid y chwareufa au, ond ei chrefydd
 Oleu, weina i'r genedl lawenydd,
 Ei phur hoen ydyw cofio 'i Phryniawdydd;
 Gwrando am dano, dyma 'i dywenydd.

Rhyfeddawl yw 'n crefyddol lwydd,—a'n hedd
 Yn nodded ein Harglwydd;
 Molwn Ef am le 'n ei wýdd,
 A rheolau 'i air hylwydd.

Moliannwn yma haelioni,—ein Duw,
 Bu yn Dad i'n noddi;
 Cynnal wnaeth ein cenel ni,—mor llonydd
 Y mae, a'i adenydd Ef am dani.

Pa beth ond ei ffyddlonder—dieisor,
 Gadwasai hil Gomer!
 Ei ddwyfol fraich, addefer,
 Fu 'n nawdd, a'n preswylfa Ner.

Taenwn ei foliant tyner,—ei demlau
 Boed amlach eu nifer;
 Gwir rád a goreu hyder,
 Goreu nawdd cysegrau Ner.

Digymar had Gomer ym,—hyd heddyw,
 Dedwyddaf wlad gennym;
 Rhyddid a iaith bur eiddym,—dihangol,
 Gwarddol, dilwgr ydym.

Rhyfeddod rhyfeddodau—yw ein bod
 Yn byw ar y bryniau
 Dedwydd, lle trigai 'n hendeidiau,—lleoedd
 Y bu eu llysoedd mewn gorbell oesau.

Mae 'r genedl yma ar gynnydd,—mwynhau
 Ei haml yniau mal o newydd.

Heb lesghau pobl liosog ym,
 Digonedd o ysbryd gennym,
 O eneidiawl rym anodor
 I bara mwy tra berwo môr.

O parháed nodded Ner
 A'i gymorth i dŷ Gomer;
 Cenedl gyfan ddianaf
 Mwy bydded yn nodded Naf.
 Am oes y byd grymus bo,
 A dilesg, hyd nes delo

Yr haul a'i forau olaf,—i ddeffro
 O ddyffryn tywyllaf
 Y beddau, holl feib Addaf,
 Filiynau 'n ol, flaen eu Naf!

Bydd rhyw dorf o'r beddrod du
 O'n cenedl hoff yn cwnnu,
 Hardd dduwiol lu ar ddelw lon
 Y Gŵr fydd biau 'r goron.

Cânt nefolaidd euraidd nos
 Ar lan anfarwol einioes,
 Dygir yn waredigol
 I fwynhau "Gorfwysfa 'n ol."
 Tân eu mawl, rhyfeddawl fydd,
 Yn awyr Salem newydd.

ABOU BEN ADHEM A'R ANGEL.

(EFELYCHIAD O LEIGH HUNT.)

ABOU BEN ADHEM, rhad i'w lwyth patriarchus!—
 Ddeffrodd un nos o freuddwyd hyfryd-felus.
 Goleuni 'r lloer droai 'r ystafell glyd
 Yn rhyfedd hardd, fel darn o ryw ail fyd.
 Fe welai angel yn y pelydr milbleth,
 Ar lyfr aur yn ysgrifennu rhywbeth.
 "Pa beth a ysgrifenni?" holai 'n eon—
 Rhai hyf i gyd yw'r rhai sy bur o galon—
 "Rwy 'n ysgrifennu enwau 'r rhai anwylaidd
 Sy 'n caru 'r Arglwydd."

Holai Abou 'n wylaidd,
 "A yw fy enw i'n eu plith?"

"Nid felly!"

Ond ni wnaeth hyn i Abou ddigalonni—
 Anadlodd yng nghlyw 'r angel hyn o weddi,—
 "O leiaf, ysgrifenna f' enw 'n tŷyddlon,
 "Fel un ag sydd yn caru f' holl gyd-ddynion."
 Fe wnaeth yr angel hynny, a diflannodd.
 Y nos ganlynol eilwaith ymddanghosodd
 Ar harddach ffurf; amlygodd iddo enwau
 Y rhai a seliodd Duw â'i gariad gorau—
 Ac er ei syndod, a'i dragwyddol les,
 Enw Ben Adhem oedd ar ben y rhes.



PENTREF Y GELLI GROES, MYNWI.

Oddiar y ffordd i'r Ynys Ddu.

PRESWYLFA'R BARDD.

AR lanterch rhwng eurlwyni
Mewn bro fras, a mwynber fri,
Rhwng cangau a blodau blydd
Y gwanwyn, trig awenydd.

Cerdd falmaidd o beraidd big
Eurog adar o'r goedwig,
Seiniau peroriaeth swynawl,
Dery ei glyw yn fyw gan fawl.

Tra cerdd trwy'r fro werdd, côr y wig—a gân
Ogoniant ar dalfrig,
A mawl byw o aml big—er difyrru
A diddanu ei duedd unig.

Gwên blodau gwynebledol
A liwgar addurna'r ddôl
Sy o flaen ei dŷ mor deg
Yn gwrido mewn gwawr hydeg.

A gloewfwyn afonig lifa—islaw,
 A syw wledd arlwyra;
 Dil anian afradlona
 Dros fronnydd y dolydd da.

Tremia ar ei bron arian
 Wedd deg, yn ymchwyddo dan
 Anadl tawel awelon,
 Araf lu, ar yrfa lon.

A gardd deg o iraidd dwf,
 Llwyni eurdeg llawn irdwf,
 Yn Eden gain daen o'i gylch,
 A thegwch berth o'i ogylch;
 A phrennau hoff eu rhinwedd
 Dan ffrwythau 'n teghau ei gwedd.

CATHL HIRAETH.*

MAE Sophia fach,
 Mewn arall fyd yn berffaith iach;
 Os cafodd yma boen a chur,
 Mae heddyw yn y Wynfa bur,
 Yn tynnu hawddfyd a mwynhad
 O hafaidd dlysau heirdd y wlad,
 Fel pawb o'r dedwydd nefol âch.

Y lili dlos,
 Aeth megis seren yn y nos
 I lawr dan gwmwl dudew erch;
 Ac ar ei hol rhed dagrau serch;
 Ond colli wnaed ei siriol wedd,
 Er hardded, o dan lenni 'r bedd,
 Y gruddiau oedd fel dengar ros.

Y dwymyn erch,
 Nid oedd ond cennad dwyfol serch,
 I'w chyrchu adref gyda brys
 Yn gwrel tlws i'r nefol lys;
 Lle gwenai blodau fythol-wyrdd
 Yng ngolau engyl disglær fyrdd,
 A lathrant yn y Wynfa dderch.

* Ar ol fy nith, sef Sophia Thomas, merch fechan Mr. Benjamin a Mrs. Mary Thomas, Twyncarno, Rhymini.



EGLWYS MYNYDD ISLWYN.

FY CHWIORYDD.

BU gennyf chwaer, a brodyr gennyf fu,
Anwylaf rai! ond cyn erioed i mi
Eu gweled i'w hanwylo, cyn i serch
Frashau ar wledd edrychiad, angau erch
Ofwyodd dŷ fy nhad, a chymerth hwy
Bob un i fedd ar ffrwst. Dwfn, dwfn glwy
Oedd hyn i dyner fynwes tad, ac i
Dynerach fynwes mam. Dan ddwyfron gu
Fy nghalon i, bryd hyn, hapusaf bryd,
Nid ydoedd wedi curo ergyd drud
Erioed; nac wedi gyrru 'r teimlad brwd
I lan i'r llygad llon i'w troi yn ffrwd
I feddallhau a'u henaint iâ y bedd;
Nac wedi addurnhau â gwridd y wedd
I'w golli ar fyr yng ngauaf henaint blin;
Nac wedi archu ffrwd ei bywiol rin
I nerthu 'r llaw i ddal y pen i lan,
Y pen dan dwys gofalon sy ry wan

I ddal ei bwys ei hun; i nerthu 'r bys
 I d'wyllu yr ysgriflen gwyn, ar frys,
 A phrudd gymylau galar bywyd blin;
 Ddim wedi rhoi i'r traed ysgogol rin
 I gludo tua 'r fynwent lun yn ddelw
 O alar llawn ei hun a phrudd-der gwelw.

Ni chydabyddir angau. Ond cei di,
 O angau erch, fy nghydabyddiaeth i
 Am hyna. Cei, o leiaf unwaith wên,
 A diolchgarwch unwaith, gan wr llên.—
 Cymwynas oedd ei marw cyn fy mod
 I wylo ar ei helor, cyn fy nod
 O wyll diddymder i oleuni bod,
 Goleuni tywyll y tu yma i'r bedd.
 Fy chwaer! fy chwaer! fe 'th roed i freichiau hedd
 I aros dydd hapusach, cyn i mi
 Na theimlo bywyd llon, nac ofni angau du.
 Y bedd! fy niolch derbyn am ei dwyn
 Mor foreu ymaith, cyn i'w llygad mwyn
 Wybod pa beth oedd wylo; cyn i'w grudd
 Rosynaidd wisgo gwelwedd henaint prudd;
 A chyn i obaith farw dan gyllell siom;
 A chyn i amser chwyddo 'r galon drom
 A galar, nes ei thorri 'n ddrylliau. Cyn
 Blinderau ieu'nctid, bron, aeth drwy y glyn.

Hedd, hedd, fy chwaer! cei yn y fynwent hedd
 A chwsg; caf finnau gysgu yn y bedd.
 Ni chysgais noson eto. Er pan wyf,
 Wyf effro. Nos, i ddyn dan lymder clwyf
 Gofidiau bywyd, sydd fel dydd, a dydd
 Ei liw yn unig yn wahanol sydd
 I nos, yr un mewn trymder dwys, a'r un
 Mewn gobaith am ddisgleiriach gyfnod cun.

Ni chysgais eto noson drwyddi. Mae
 'R anfarwol yn breuddwydio byd o wae
 Rhag fyth i seibiant gloi amrantau 'r pridd,
 A gwenu ar y marwol. Gwna yn ddydd,
 Mewn gofal, yr erchyllaf nos mewn gwyll.
 Gwag lwythi y ddychymyg, oll, un ddull
 A beichiau rhy sylweddol profiad trwm,
 Ddirlethant galon dyn fel creig o blwm.

Hedd, hedd, fy chwaer! sychedig wyf am hedd.
 Dy frawd gyfrifa 'n fendith seibiant bedd
 Ar ol caledwaith bywyd. Hoff yw hun,
 A melus cwsg, ar derfyn gyrfa iin.
 Tra blin yw gyrfa bywyd; blinder llawn
 O'r cyntaf gam i'r olaf yma gawn.

Fy nhad a ddengys im' y ddôl
 Flodeuog, lle chwareuit gynt,
 A'th wallt yn chwyfo 'n mlaen ac ol
 Fel arian donnau drwy y gwynt.
 A dengys im' dy gader fach
 Sy 'n drysor ger yr aelwyd iach.

Bryd hyn nid oeddwn. Nid oedd neb, bryd hyn,
 Am danaf fi yn meddwl. Amser cyn
 Fy nghyntaf amser oedd. Yn arfaeth Duw
 Bryd hyn, er hynny, oeddwn. A! nid byw
 Mewn arfaeth yr wyf heddyw; byw mewn poen;
 Mewn teimlad, byw; anfynych, byw mewn hoen.
 Nid arfaeth mwy. A arfaeth! ar dy hun
 Yn fuan blinaist. O ddiddymdra cun!
 Na fuaswn eto ynnot yn arfaethedig fod,
 Mewn bwriad fyth, heb fyth o fwriad ddod.
 Addfedaist yn rhy gynnar, arfaeth lawn!
 I mi 'n rhy gynnar, ond tydi sydd iawn.
 Am hynny prydlawn ydoedd, cyflawn bryd
 I mi ymddangos ar chwareu-fwrdd byd,
 Yn sylwedd eglur mwy, yn arfaeth gun
 Yn gweld, yn byw, yn bod, yn eglur lun.

Ond adref, efryd, adref! A! paham
 Y'th archaf adref? Gwn nad wyt ar gam
 Wrth grwydro; yn y fynwes gartref mae
 Eisteddle y trueni, tarddle'r gwae.
 Hi, fel meithrinfa pob trueni, sydd
 Yn arllwys allan ofnau nos a dydd.

Blinedig gartref, na chondemnier dyn
 Am sangu tir estronol. Ynddo 'i hun
 Newyna. Chwant! O na fuasit ti
 Yn pallu gyda'r ymborth! Ynnom ni
 Wyt gryfed ag ym mynwes Efa wen
 Pan gasglai anfarwoldeb ar gangau'r bywiol bren,
 Pan wleddai ar afalau bywyd, pan
 Lifeiriai balm yn fywiol lif dros fron y Wynfa gan.

Ond adref, efryd, adref! Paroto
 Dy hun i ddychwel i dywellaf fro
 Y bedd, lle cwsg fy chwaer, a lle cyn hir
 Af finnau i gysgu. Anhebycaf dir
 I gwsg ei anrhydeddu â'i bêr swyn;
 Ond trymgwsg angau yw, gobennydd mwyn
 Na raid ei esmwythau; anwylach pridd
 Gan bridd, a nos gan gwsg, na gwên y dydd.
 Ond Ann! yn swyn dy gwsg gorffwysa mwy.
 Nid oes i'w dorri unrhyw boen na chlwy
 Na thristwch prudd. Gylchogyloch perffaith hedd
 A thaw tragwyddol a gysegra 'th fedd.
 Tragwyddol? Cyfeiliornais; nid yw hedd
 Y fynwent yn dragwyddol. Cwsg y bedd,
 Er trymed ydyw, dorrir; a'i nos brudd,
 Foreuddydd anfarwoldeb, dawdd i ddydd.

O na bawn fel fy chwaer! Ar ol i mi
 Fwynhau melusder cwsg, am ennyd cu
 Rhy fyr, rhy felus i barhau, i lan
 O'i eurllys dwyrol dyrch yr haul yn gan,
 Ei hun yn oleu, i oleuo'r byd;
 Gyr myrdd o'i belydr trwy fy ffenestr glyd,
 A lleinw o'm cylch f' ystafell â gwawl pur
 Nes cywilyddio 'm cwsg, a deffro 'm cur.

Fy hawddgar Ann! Aeth llawer tymhestl ddu
 Dros dŷ dy dad, er pan symudwyd di
 O hono. Gwgodd ffawd, a throes yr hin
 Fu'n hafaidd, yn ystormus. Mordaith flin
 Ac wybren dywell gawsom; ton ar don
 Yn bygwth dinistr; golehid hyder, bron,
 I'r dyfnder dros y bwrdd; a chrynnai ffydd
 Ar ben yr hwylybren brau. I addo dydd
 Nid oedd serenol obaith, obry—lli;
 Corwyntoedd amgylch; a chymylau fry.
 Ond cariad glymai'r dwylaw oll yng nghyd
 A'i aur-linybau; cariad heriai'r byd
 A'i holl helbulon; gan sirioli'r bwrdd
 A disglauer lampau gobaith. Mawr oedd twrdd
 Y byd am danom, diau soddem mwy,
 A chywir oeddynt, soddem o'u rhan hwy.

Rhagluniaeth wisgai brudd gysgodau'n awr,
 A'i llwybrau yn y dwfn, heb arnynt wawr.

I'r môr a'r nwyddau; aur, meddiannau, oll,
 Yn dalpiau defnid dros y bwrdd i goll,
 I goll anadferadwy. O fy Ann!
 Pe gyda ni, torrasai 'th galon wan
 Ymhell cyn cyrraedd porthladd. Oeddit ti
 'N ddiogel ar y lan, pan oeddym ni
 Mewn perygl ar y môr yn ceisio dwyn
 Y dymhestl drom trwy obaith per a'i swyn.

A thi, Eliza! dan gysgodau'r glyn
 Orffwysit yn nyfnderau heddwch syn
 Ym mynwes ddofn distawrwydd, pan oedd wybr
 Rhagluniaeth yn trymhau fwy fwy, a'i llwybr
 Yn anchwiliadwy gan dywyllni prudd
 Amcanion ei gorchwyliaeth oll dan gudd.

Fy chwaer Eliza, ugain mlynedd prudd
 A rhagor, rifir gennym er y dydd
 Y'th roed i ofal mynwent Islwyn fry
 Gan dyner *fam*; ni raid wrth goflyfr; hi
 Gofnoda'r amser; ceir pob blwyddyn hir
 Yn argraffedig ar ei mynwes bur.

Llawn ugain mlynedd! beth! ai dyma'r dydd
 I mi dy annerch gyntaf, uwch dy bridd
 I ganu'r gyntaf odl? Maddeu im,
 Eliza, maddeu, ni 'th adwaenwn ddim!
 Erioed ni welais wrid dy wedd, erioed
 Ni 'm llonnwyd â dy gân; dy rosyn roed
 I'r fynwent wywol yn blygedig em,
 Cyn i'w brydferthwch unwaith daro'm trem.
 O chwaer! na chawsw'n olwg arnat cyn
 Dy guddio'n llwyr dan ddyfnion lenni'r glyn.
 Dy lais oedd beraidd, gwn, ond nid i mi
 Y trefnwyd swynion ei beroriaeth gu.

A Margaret, ti yn faban roed i'r bedd
 I godi yn angyles lwys, a'th wedd
 I gyd yn anfarwoldeb. Hedd, fy chwaer!
 Nes cyfarfyddom flaen yr orsedd glaer.

O Ann! Margaret! Eliza! Hedd i chwi,
 Fy hoff chwiorydd, dieithr oll i mi
 O ran gwelediad, ond nabyddus trwy
 Ddarluniad, ac anysgaradwy mwy.

Ar fyr disgynnaf atoch i fwynhau
 Swyn hun di-dor; yr wyf yn agoshau
 Bob awr i'r fynwent; tua'r fynwent mae
 Gogwyddiad dyn, terfynol bwynt ei wae!

Canfyddaf linyrn y cyfamod hedd
 O'r orsedd fry yn cydio yn eich bedd.



EGLWYS MYNYDD ISLWYN O BEN TWYN TUDUR.

ADGOFION SERCH.

MAE y blodau amryliw mor deg ag o'r blaen,
 A'u gwenau fel cynt yn addurno'r waun.
 Ond A! diflanedig eu swynion nan
 Hebddi hi! hebddi hi! Fy Ann! fy Ann!

Fel cynt ymflagura y lannerch dlos,
 Lle canem ein hodlau, lle clymem ein rhos,
 Ond diflannodd pob swyn a gysegrai y fan
 Gyda hi! gyda hi! Fy Ann! fy Ann!

Caf y wigfa gysgodawg fel o'r blaen yn wyrdd,
 Ond mae'r swyn o'r blaen a gysegrai'r ffyrdd?
 Diflannodd! diflannodd! a gwag yw'r fau
 Hebddi hi! hebddi hi! Fy Ann! fy Ann!

Y corau asgellog ynt lawen fel cynt,
A'u tŷn fel o'r blaen feddalha y gwynt,
Ond swyn eu telori adawodd y fan
Gyda hi! gyda hi! Fy Ann! fy Ann!

Mae y parlawr yn ddestlus a chryno fel cynt,
gi hedau a'i nodwydd wele parod ynt!
Ond pwy, O! pwy a'u defnyddia nan?
Nid tydi! nid tydi! Fy Ann! fy Ann!

Wele'r traeth ger y môr lle y ceraist fi,
Y traeth ger y môr lle y cerais di.
Ond galar im mwy yw ymweled â'r fan
Wrthyf f' hun! wrthyf f' hun! Fy Ann! fy Ann!

Ni lif hoen gyda'r borau, na hedd gyda'r hwyr,
Ni ddaw seibiant o'r llewin, adfywiad o'r dwyr,
Ni fwynhaf fel o'r blaen olygfa'n un man
Wrthyf f' hun! wrthyf f' hun! Fy Ann! fy Ann!

O! a ydwyt o'r nef yn fy nghofio i?
O'r ddaear yr wyf yn dy gofio di!
Mwynhau yr hen gofion yw 'm gorchwyl nan
Wrthyf f' hun! wrthyf f' hun! Fy Ann! fy Ann!

Od yw engyl yn wylo, o'th lygad di
Aml ddeigr yn ymdawdd wrth fy nghanfod i
Yn rhodio'n benisel, a'm calon yn wan
Wrthyf f' hun! wrthyf f' hun! Fy Ann! fy Ann!

Od yw engyl yn wylo—a pham nad ynt
O *dynerwch* yn wylo!—yr wyt fel cynt
Yn wylo fy ngweled o'th orsedd gan
Yn unig! yn unig! Fy Ann! fy Ann!

Na! trist fyddai meddwl *yn awr* dy fod
Yn wylo; cawd wylo islaw y rhod;
Ond perlau tynerwch yw 'ch dagrau ban,
Tynerwch hapuslawn! Fy Ann! fy Ann!

Saeth angau a dorrodd yr undeb cu,
Dyneraf undeb, oedd rhyngom ni.
Ond i'th ysbryd rhyddedig fy nghalon nan
Sy gywir! sy gywir! Fy Ann! fy Ann!

Er cryfed rhyferthwy 'r Iorddonen ddu,
 Nawf cariad trwy 'i thonnau i'r arall du ;
 Mae drosodd ! mae drosodd ar y loewach lan
 Gyda thi ! gyda thi ! fy Ann ! fy Ann !

Wyf gyfeillgar â'r beddau dilewyrch mwy
 Er pan y'th hebryngais i'w goror hwy ;
 Os dymuni fy ngweled a gado 'th lys can
 Wyf yno ! wyf yno ! fy Ann ! fy Ann !

Er pan yn y fynwent y dodwyd di,
 Y fynwent yw cartref fy efryd i ;
 Os dymuni gymdeithasu â'm meddwl gwan
 Cei ef yno, fyth yno, fy Ann ! fy Ann !

Os yw efryd ar eilfyd yn dwyn i ddyrn
 Ddrychfeddwl o'i ansawdd a'i burdeb cun,
 Caf ei ddirnad ar fyr, ydwyf ar ei lan
 Gyda thi ! gyda thi ! fy Ann ! fy Ann !

Pan enfyn fy Ngheidwad ei engyl i lawr
 I'm derbyn o donnau 'r Iorddonen fawr,
 Gyda hwy i'm croesawu i'r loewach lan
 Bydd di ! O, bydd di ! fy Ann ! fy Ann !

A phan yr esgynnom, rhwng myrdd o ser,
 Yng ngawwl anfarwoldeb i'r baradwys bêr,
 O ! rho imi eistedd yn dy gerbyd can
 Gyda thi ! gyda thi ! fy Ann ! fy Ann !

M E W N A D G O F . *

MAE byd wedi pasio, byd anwyl i mi,
 Er pan y gorchuddiai 'r dywarchen dydi ;
 Byd cyflawn o hawddfyd, byd cyflawn o hedd,
 Ond byd nad oes heddyw o hono ond—bedd.

J. — !

'Rwy 'n cofio swm clychau yn Heol yr Ardd,
 Pan oeddwn ry ieuane i'm cyfrif yn fardd ;
 'Rwy 'n cofio swm clychau brydnawnau y Sul,
 A thybiwn fod blwyddi fy einioes yn fil.

J. — !

* Am Mrs. Davies, Garden Street, Abertawe.

Mae adgof dy enw yn gymysg i mi,
 A hyfryd beroriaeth y môr alarch cu—
 Rhyw Fôr Galilea fu hwnnw i mi,
 J. —!

Tydi, yn fy nheimlad, oet famaeth i mi,
 A "mam" fyth y'th alwn oddiar "*fifty three*;"*
 Mabwysiad dy gariad a'm cuddiodd mewn hedd,
 Nes aethost yn sydyn i oror y bedd,
 J. —!

Mae Langland yn aros, mae Caswell yr un, †
 Ond olien ein traed ar yr hen draethau cun,
 Nid oes heddyw un,
 J. —!

Yr olaf brydnawn ar yr hen draethell gu
 A dreuliwyd gan un oedd yn anwyl i ti—
Oedd yn anwyl i mi—
 Sy 'n awr megis breuddwyd o'r hen amser fu,
 J. —!

Mae'r byd wedi newid, a minnau, yn awr,
 Yn myned i lawr
 Ar ol fy anwylion i'r dieithr fyd mawr,
 J. —!

Gan siomedigaethau, er nad ydwyf hen,
 Anfynych yr edwyn fy wyneb un wên,
 J. —!

Ni gawsom, "tu yma," ein digon o fraw,
 Ein digon o stormydd, do, ddigon o wlaw,
 Gobeithio nad oes yr un siomiant "tu draw,"
 J. —!

Ai ber fo y daith,
 Ai ber ynte faith,
 Cwrdd fi, ti, a'r "lleill," pan ddibenno fy ngwaith
 Y gyntaf a welwyf, yn ieuanc neu hen,
 Pan ddalwyf o'r tren,
 Fo Jane!
 Tri eraill, ‡ a Jane!

* Blwyddyn marw Miss Bowen.

† Langland Bay a Caswell Bay, ar oror Browyr.

‡ Ei dad a'i fam, a Miss Bowen.

Y FODRWY BRIODASOL.

Tôn :—“*Bugeilio'r Gwemith Gwyn.*”

PAN blygem wrth yr allor wen i dderbyn sel ein hundeb,
O! 'r fath brydferthwech pur di-len dywynnai ar dy wyneb;
Ni feddai un brenhinol lys d'wysoges fwy urddasol
Na thi—pan roddais ar dy fys y fodrwy briodasol.

Os chwerwa tymer dan fy mron at wrthrych hoff fy nghariad,
Edrychaf ar y fodrwy hon a derfydd pob drwg deimlad;
Dychwela f' enaid gyda brys i'w londer cymdeithasol,
Fel *pan* y rhoddais ar dy fys y fodrwy briodasol.

Mae'n dwyn i'm cof foreuol hynt, ieuencid llon a gwridog,
A miloedd o rodfoedd gynt plith rhos a choed godidog;
O! gallwn fyned er dy fwyn trwy dân, trwy donnau chwyddol,
Pan syllwyf ar y bys sy'n dwyn y fodrwy briodasol.

Mae'n dwyn i'm cof dy gartref cain, a'r hen ystafell dirion
Lle teflais ar y bwrdd o' th flaen aur gawod o fodrwyon;
'Rwy'n cofio'r gwylder oedd, a'r brys, a'r gwrid o degwech dwyfol,
Pan ddodaist *gyntaf* ar dy fys y fodrwy briodasol.

Er pan o flaen yr allor gu ein hunwyd mewn ieuencyd,
Newidiodd popeth *onid tri* o brif gysuron bywyd,
Yn ffyddlawn in' parhaodd tri heb ysgog dim, sef grasol
Efengyl Nef—ein cariad ni—a'r fodrwy briodasol.

Os oes gan frenhinesau'r byd fodrwyon gwerthfawrocach,
Os ydynt filwaith yn fwy drud, a'u gemau'n gyfoethocach,
Nid ydynt *hwy* yn gryfach ddim na *hon*, er mor urddasol;
Nis gall ond angau dorri grym dy fodrwy briodasol.

O'r defnydd goreu, aur i gyd, y mae'n arwyddlun cymhwys
O'r rhinwedd oreu fedd y byd a'r bennaf ym Mharadwys;
O! nid oes yn y nefoedd fry un rhinwedd mwy urddasol
Na honno a seliasom ni trwy'r fodrwy briodasol.

Briodas mewn gogonedd gaf ym Meibl Duw'n glodadwy,
Mae amddiffynnawl nerth ein Naf anfeidrol ar y fodrwy;
A'r angel ddaw o'i loewaf lys i weled dynes rasol
Yn derbyn ar ei chrymol fys y fodrwy briodasol.

Mae'n gron fel seren, ac mor hardd, ac nid oes ynddi doriad
Na diwedd chwaith, fel serch dy fardd, tragwyddol fel ei gariad;
Os bu i serch ddechreuad llon ar lan y don urddasol,
Fe bery, ie pery'n hwy na'th fodrwy briodasol.

Fe dreulia amser eurgylch hon, oer auaf bedd a'i rhyda,
 Ond byth ni dderfydd dan fy mron y serch a gynrychiola;
 Ac wedi cyrraedd dwyfol lys mi blethaf flodau nefol,
 I'w doddi am yr unrhyw fys yn fodrwy briodasol.

Pe deuai niwed i'th gyfarfod,
 Fe fyddai 'm cysur wedi darfod,
 Gostyngai f' Awen brudd ei hedyn,
 A byth ni chanai odl wedyn.

LLE YR WYF FI.

ER llymed yw y boen a'r gwawd,
 Er oered yw yr hin,
 Na ddywed mwyach, O! fy mrawd,
 O dan dy loes dy fod yn dlawd,
 Ti wyt etifedd Ior ei Hun!

Fy mrawd, ymaflaf yn dy law, os dringi gyda mi,
 Hyd risiau'r Uchystafell draw, i wrando yr Ewyllys gu.

O! gwranddo yr Ewyllys rad, drwy waed a wnaed i ni,—
 'Yr wyf yn ewyllysio, Dad, ei ddyfod lle'r wyf fi!

I bwy y mae'r Ewyllys hon? I ti, i ti, fy mrawd!
 Na ddywed mwyach dan dy groes, o dan dy loes, dy fod yn dlawd.

Mae'n rhoi yr ynys fechan hon, sef amser, i'w elynion;
 Cyfandir anfarwoldeb oll a geidw i'w etifeddion.

Cynhwysa yr Ewyllys rad
 Orffwysfa fry, a thŷ, a Thad;
 Mae ynddi wynfyd pur heb groes,
 A digon erbyn bythol oes.
 Mae ynddi "dŷ nid o waith llaw,
 Tragwyddol yn y nefoedd draw,"
 Ac anfachludol Haul y nef
 Gogyfer a'i ffenestri ef
 Fyth yn llewyrchu yn ei rym,
 Heb ar ei gonglau gorwynt llym
 Yn curo byth, nac awel groes
 Yn chwythu hyd y fythol oes.
 Mae ynddi Bren o Fywyd gwir
 Sy'n arllwys ar y wefus bur

Ddyferion o anfarwol rin,
 Gerubaidd neithdar, ddwyfol win.
 Mae ynddi odidocaf blas
 Ar ymyl afon lydan lās ;
 O! lys digymar, byth ni syrth,
 Mae'th enw di goruwch y pyrth,
 O'i fewn mae'th hawliau yn ddi-goll,
 Fel perchen yr adeilad oll.
 Mae afon loew ynddi hi,
 A pherlawg bontydd tros ei lli,
 A thyrfa o gerubiaid clær
 Yn edrych dros ganllawiau aur
 Ar holl lyngesoedd Duw o'r bron
 Yn gorffwys ar ei dwyfol don,
 I gyd yn gyfain a di-goll
 Ar ol meddiannu 'r moroedd oll,
 Ar ol meddiannu 'r pellaf fôr
 Yn eang ymerodraeth Ior,
 A suddo 'r olaf long a fu
 Yn dal i fyny 'r faner ddu.
 Mae ynddi gyfoeth i'r tylawd,
 I'r unig, O! mae ynddi frawd!
 Cynhwysa yr Ewyllys wlad
 I'r alltud, i'r afradlon dad!

O! gwrando yr Ewyllys rad, drwy waed a wnaed i ni,—
 "Ei ddyfod lle 'r wyf fi, fy Nhad! ei ddyfod lle 'r wyf fi!"

Pa "le" yw hwnnw? Pan fo 'r ser yn dangos imi lan
 Neu bennarth o'r tragwyddol fyd, edrychaf am y fan.
 Pan fyddo 'r byd mewn hun, mae 'r ser yn sisial am y wlad,
 Ac fel yn codi eu lampau 'n uwch i ddangos tŷ ein tad.
 Lle y mae Ef! Er pelled yw y drigfa freiniol fry
 Agorodd imi lwybr gwiw drwy waed i'w chyrraedd hi.

'Rwyf fi yn awr ymhell o'm gwlad,
 O'r lle 'r wyt ti!
 O! cofia dy Ewyllys rad,
 Fy Mhrynwr, a'r ddeheulaw 'th Dad,
 Rho 'th gadwen gref o'm hamgylch i.
 O riw i riw tyn fi i'r lan,
 Nes caf fy hunan yn y man
 Yng nghanol dy ogoniant fry,
 Lle yr wyt ti.

CYSTUDD YN Y GWANWYN.

DAETH yn ei dro y gwanwyn llon y flwyddyn hon fel arfer,
Gan ddwyn i'r hen leshad o'i boen, i'r ieuane hoen a
llonder,—

I mi, fab llên, ni ddygodd ddim ond cystudd llym a gwywder.

Mae wedi agor ar y glas o flaen y plas fu lawen,
Rosynau y Glyn, ryw Seion glau, ond nid rhosynau'r Awen;
Mae wedi cau ar y ddwy foch ddau rhosyn coch y perchen.

'Rol clywed trwy'r ffenestri cau yr adar clau yn pyncio,
A gweled yn ymylu'r ffyrdd friallu fyrdd, dros rifo, [gwywo!
Mor brudd yw gweld yn nrych y bardd y gwyneb hardd yn

A D G O F . *

WRTH feddwl am ofidiau'r byd, pa galon bron na thyr?
A phwy nad yw yn llawenhau fod bywyd *rhai* mor fyr?

Byr fu dy fywyd is y ne, dim ond y bore bach,
Ond—Morgan! cefaiſt yn brydnawn lawn dragwyddoldeb iach.

Beth! tragwyddoldeb iach ar ol oes fer, gystuddiol flin!
O, Morgan! yn dy wynfyd clau 'rwy'ti 'n mwynhau ei rin.

'Rym ni yn aros ar dy ol, yng nghol "y cystudd mawr,"
A thi tu allan iddo i gyd, mewn gwynfyd clyd yn awr.

Pe gallwn gredu fyned un o deulu dyn am unwaith
Drwy hyn o fyd, *heb unrhyw fai*, tydi a gai'r ganmoliaeth.

Bum ar y môr y dloë brydnawn, mor llyfn oedd, mor llonydd
Meddyliais am dy dymer di—ond dim am ru y 'stormydd.

Tywysen oeddit garodd Ior, wrth agor yn y borau,
Melynodd di i'w Wynfa lon dan ei belydron gorau.

Bu sydyn dro dy gyfiawnhad—mæ hynny o hyd yn sydyn—
Ond sydyn fu dy sancteiddhad, a'th ogoneddiad wedyn.

Cyfymodd Iesu, Morgan gun, ei rasol oruchwyliaeth,
I'th gael yn foreu ato'i Hun, drwy rin ei brynedigaeth.

Mor beraidd yw dy anthem mwy, 'rol croesi drwy yr afon,—
"Nis gallwn farw mwyach ddim, cydstâd y'm â'r angylion."

Morgan, ffarwel! daw'th fam, a'th dad, i'r unrhyw wlad yn fuan;
A Duw a gasglo yno oll y teulu heb goll yn gyfan.

* Er cof am Morgan, mab y Parch. W. Jones, Abertawe, yr hwn a fu farw
Awst 3, 1878.



Y Parch. D. Jenkyns, Babell, tua 1859.

CYFLWYNIAD, Y *Caniadau*.
I'R
PARCH. DANIEL JENKYNs,
Y CYFLWYNIR Y CANIADAU HYN,
FEL ARWYDD O BARCH,
AC O RWYMEDIGAETH YR AWDWR IDDO
AM HYFFORDIANT CREFYDDOL
YN NGWANWYN EINIOES,
AC AM IEUENTID WEDI EI DREULIO
MEWN TANGNEFFEDD
A MYFYR TAWEL YN EI GYSOOD EF.
ISLWYN.



Y FFOREST.

Ty y Parch. D. Jenkyns; gwelir darn o do y Glyn, tŷ Islwyn, drwy frigau y palmwydd.

Y NEFOEDD.*

Y NEFOEDD! Mae'n ofer—i eiddilyn
 Ddal y gorddisgleirder!
 Marwol wyf—môr o leufer
 Sydd ormod i'm nychdod, Ner.

Hyd yn hyn, da yw i ni—fod y Nef
 O dan niwl—fod llenni
 Yn dyner iawn am dani,
 Gwal uwch haul o'i hamgylch hi.

Gorlawenydd sydd yn soddi—'n meddwl
 'Run modd a gorgyni;
 Rhaid aros, hir nos, i ni
 Weled ein hanfarwoli.

Dyma loewgylch nad amlyga—cariad
 Ond cwr o'r olygfa;
 Eagyn i ben Pisgah—gweld Caersalem
 Ar ambell trem o bell tra yma.

Ond os pell, nid oes palliad—o un rhyw
 Yn rhol y datguddiad
 Am y dragwyddawl, hyfawl wlad,
 Na'r modd in' er ei meddianiad.

O radd i radd fe roddid
 Prawf ar brawf am y fro brid;
 Graddol olynol enwau
 Yn ol y nerth i'w mwynhau.

Wedi'r niwl yn duo'r nen,
 Y llid, a cholli Eden—
 Pa beth fydd Nef i Efa?
 Pa air anwylair a wna?—
 Y prif deitl, mewn profiad dwys,
 I'w bryd oedd ail baradwys.

All Baradwys.

Wedi llwyr golli ei bri boreuol,
 A'i gyrru allan, allan yn hollol
 O'i hawddgar Eden, yr ardd gu, wridol,
 A luniai y fedrus law anfeidrol,

* Argreffir yr awdl hon drwy ganiatâd caredig I. Jones, Treherbert, cyhoeddwr *Pregethau Islwyn*.

O! yr aeth dwys ar ei hol—yn ddbaid
Wanai drwy enaid ein mam druanol!

Aniddan galon Adda
Waedai 'n ddwfn am Eden dda.
Cofio 'r prennau
Blygol gangau
Dan afalau, bwyd nefolion,
Wnai 'i funudau
I'w deimladau
O hyd oesau, boenau dwysion.

Beunydd gwnai gyferbyniad
O dost ing, rhwng dwy ystâd,—

Eang anial anghenus,—dirinwedd,
Drain, mieri dyrus,
Yr erch yn lle y serchus,—diffeithle
Llwyd, anaele, yn lle Eden hwylus ;

Yn lle angylion llawen,—hyfrydawl
Frodyr gynt yn Eden,
Llewod lu mewn llid di-len—heb swyn clau
I'w troi 'n eu holau yn eu teyrnwialen.

A'r brid addewid pan ddaeth
I'r hen fyd, o'r Nef odiaeth,
Oedd adferiad rhad o'r oll
Fu encyd ar ddifancoll.

Selio Paradwys eilwaith,
Dedwydd mwy; a mil mwy maith!
Tydi ein Nef wyt, Eden fir,
Adferedig dy wiw frodir.

Yn Nef y Nef cawn fwynhau
Dy engyl heb dy angau,
Dy fyd braf, a dy fywyd bren,
Dirif lu, heb dro aflawen.

Heb fethiant, heb wae fythol,
Heb ddamwain, heb ddim yn ol,
Gwelliant ar dy fwyniant fydd
Yn Nuw, yr Eden Newydd.
Duw 'n gwella 'i Wynfa ei hun
Drwy ryw ffyrdd myrdd mwy arddun,

Clwyfau rhad pen Calfari
 All ennill dy "well" inni.
 Na 'th holl fwynhad clodadwy
 "Enillodd," Ef haeddodd, "fwy."
 Cawn goron well, cawn gaerau,
 Cref ddôr a braich Ior i'w chau.
 Satan a'i falais eto
 Nis cawn i'n hyfrydlawn fro,
 Un dyn drwg i'r Eden draw
 Neu ddraig ni fydd i rwygaw.

Adda ac Efa, er maint eu cofion
 O'r hyfryd oror a'r wiw fro dirion,
 Mwy rhyfeddawl bythawl eu gobeithion
 O'r Eden Newydd sydd a'i hansoddion
 A'i sancteiddiol drigolion—trybelid
 Uwch gwywo a newid, wych egnion.

Yn raddol yn ol is niwloedd—oesawl
 Ai yr hynafawl arlun o'r Nefoedd,
 Y cof mad am Baradwys—a'i rhyfedd
 Hoen a'i harogledd, wanhai 'n yr Eglwys.

Gobaith, dymor maith, fu mwy—o'r Nefoedd
 A'u goludoedd, heb un drych gweladwy,
 Heb ganllaw, a heb gynllun,
 Nes i Ior ddangos ei hun

I'r mwynwedd Abram union,—a'i alw
 I'w ddilyn yn ffyddlon
 I ryw fro fad, ryw wlad lon
 Eirian, fel bro nefolion.

A rhoes ei ffydd ufudd ef
 Ail enw ar y loew-nef,
 Y lwys etifeddiaeth lân,
 Y cu enw oedd Canan.

Canan.

Nid oedd y wlad ddi-ail hon
 Ond daearawl dud tirion,
 Rhyw faterol ddynol dda,
 I'w antur ar y cynta ;
 Tir bras, lle rhôl natur bron—ei ffrwythau
 Hael, a'i moethau, heb ofal amaethon ;
 Ond deuai y wlad dawel
 A'i ffrydiol laeth, maeth, a'i mêl

I Abram wrth ymlwybro
 Yn rhagarwydd hylwydd o
 "Wlad well;" o Nef y Nefoedd
 Yr ail gysgod hynod oedd.

Ac fel cysgod o ddyfodol—y Nef
 Mwynhai y fro hudol;
 Yn swynion y presennol
 Llawenhai fod gwell yn ol.

Yn ei thriogaeth efe ni thrigai,
 Yma, er hoffused, ni ymorffwysai,
 Byw fel "diethr" wnelai—gyda'i giwdod
 Yn ei holl ystod "mewn lluestai;"

Ail i un ofnai lynu
 Wrth un gwrthddrych ceinwych cu
 Tu yma i wlad rad yr hedd,
 I Ganan y gogonedd.

Y foddus etifeddiaeth
 Yn ei ddydd i'w ran ni ddaeth,
 Ond fel drych di-hafal—draw
 Ar ymyl Nef i dremiaw.

Ei phrydferthion heirddion oedd
 Yn hafal bron i'r Nefoedd.

'Roedd siriawl erddi Saron—i'w feddwl
 Fel rhodfeydd angylion,
 A sw'n tawel awel lon,
 Canan fel cân nefolion.

Wedi i'r genedl drwy 'u drygioni—trist
 Gael eu troi o honi,
 Eu holl Nefoedd oedd y hi—Gwlad Canan,
 A chael eu diddan ddychwelyd iddi.

Llawen chwedl y genedl gaeth,
 Uwchderau 'i hiachawdwriaeth,
 Llon obaith hon yn Bithynia,
 A'i goludoedd yn Galadia,
 A dewisiad Capadosia,
 A holl drysor pellder Asia,
 Oedd—ei had-newyddu hi
 I lonwych wlad goleuni,

I'r ryfedd etifeddiaeth
 Trwy y Duw-ddyn i ddyn ddaeth,
 Lle gwrida 'n anlygredig
 Bob ceinion trylon, lle trig
 Y sant tu arall i'r ser,—mewn purdeb
 A dwyfol undeb, uwch pob diflander.

I ninnau hyd heddyw arlun diddan
 O'r rhyfedd ogonedd yw 'r bêr Ganan;
 O! mae hi 'n agor, pan f'om yn egwan,
 O'r loew-Nef fawr, gylcharlunfa eirian
 Olynol siriol ddrychlenni seirian,
 Aml Escol, fro swynol frasa anian.

Proffwydol ei Hescol hi
 O ddawn y Nefoedd inni;
 A ffydd fel yspiydd pell,
 Fry idd y bêr fro ddi-ball,
 Blaenbrawf ga o Wynfa well,
 O doraeth y byd arall.

F' enaid! pan ei i fyny—i Ganan
 Gogoniant i'w meddu,
 Mewn hedd cei 'i hetifeddu,
 Heb elyn na dychryn du.

Yno fyth ni welaf Hethiad
 Un i'm herio, neu Amoriad,
 Neu anuwiol Gananead,
 Ni fydd yno ddifeddianiad.
 "Teyrnas sicr," trwy 'n Hiesu, yw,
 A gwlad ddiogel ydyw,
 I'm dilyn daw 'r gelyn gau—yn bybyr
 I fewn i engur afon angau,
 Dyma 'i oll—nis daw 'mhellach—
 Ni gawn yn hon gau 'n iach.

Ac im mae cerrig-camu
 O fewn y ddofn afon ddu,
 Sef y prid addewidion,—hyd y rhain
 Mi af drwy yr afon,
 Daw aml lu hyd ymyl hon
 Efalla: o 'nghyfeillion,
 O Seion, i'm croesawu,
 A rhyfedd rwysg dorf ddi-ri.

O! deued, tua 'r diwedd,
 Fy mam fad, fy nhad mewn hedd,
 Dithau, fy chwaer odiaethol,
 Dirion, deg, rho dro yn d' ol;
 Hyd fin y dŵr dwfn, a doed
 Yma obaith fy maboed,
 Sy 'nghartref yn Nef yn awr
 Diameu ers hir dymawr.

Deuwch i'm dwyn o'r diwedd
 I fyw yn yr unrhyw hedd,
 I gael draw fuddugol drem
 Ar sylwedd mawr Caersalem.

Caersalem.

Os enwog oedd Seion gu,
 Eiddil oedd i ddelweddu

Caersalem Nef y Nefoedd,—lle 'r erys
 Allor Ior y bydoedd,
 A'n Hior gwir ei Hun ar goedd,
 A'i faith lys, fythol oesoedd.

Adeilad disigl, dilyth,
 Ac iddi sylfeini fyth,

Jehofah 'i hunan a'i sylfaenodd,
 A llanw ei Dduwdod allan ddododd,
 Wyrthiau fil! mae wrth ei fodd—yn gyfan
 A'i law ei hunan y'i cyflawnodd.

Am hon ymddyrchafa mur
 O wir iasbis eresbur,
 Rhy uchel i frawychiad,—neu greulon,
 Gyrch eon gwarchaead.

Ni rhaid wrth deml o un rhyw,
 Trigfod y Duwdod ydyw.
 Addolfa ni fedd eilfyd;
 Llawn pob man gan Dduw i gyd.
 Ion yw ei holl ddaioni,
 Ei hanthem lawn a'i theml hi,
 Un Eglwys fawr ei glwys fyd—A! dyma
 Gymanfa, wych oedfa fyth uwch adfyd.
 Sancteiddrwydd ei harwydd hi—a'i hurddas,
 Dim anaddas nid a i mewn iddi;
 Tu allan, mewn tywyllwch,
 Y trig pob anwiredd trwch.

Mwynha y Salem Newydd
Ryw dragwyddol ddwyfol ddydd.

Glân fyd y goleu hanfodawl!—ei dydd
Yw Duw clauer-bresennawl;
Duw a'r Oen, rhaiadr o wawl
Draw o'u gwedd yn dragwyddawl.

Wele Ner, goleuni yw,
A'i ddedwydd wedd—dydd ydyw.
Dydd hoenfawr, dydd o wynfyd,
Diwedd gwae,—dydd! dydd i gyd!

Ei dirion wedd nis dyrydd
Heb dragwyddoldeb o ddydd.

Ofer gwyneb, ofer gwenau
Y gweledig oleuadau,
Lle mae'r canol fythawl olau,
Duw 'n ei odiaeth dywyniadau.

Ffaw wyrthiau ynt ei phyrth hi,—rhyfeddol
O loewbur elfennol berl-feiui,
A! degwech pob porth digoll,
O wir lân gyfan-berl oll.
Nid oes drwy'r nefawl oesau
Un rhwd certh, na rhaid eu cau,
Na'u gwyliaw rhag un gelyn,
Na thrais erch, na rhuthro syn.

Ni welir drwy'r heolydd—un inglawn
Angladd yn dragywydd,
Ol hiraeth na galarydd,
Yn Seion fawr “nos ni fydd.”

Ymneschau y mae hoen Seion,—a'r ochr
Hyn i'r echrys afon,
Weithiau i mi anthem hon
Ddygir yn hyglyw ddigon.

Teimlaf pan glywaf bell glod—a mawl mad
Ei mil myrdd, ryw syndod,
Ryw ias bêr, o eisieu bod
Yn iach yn canu uchod.

Ymatal Dad! mae eto—'n rhy gynnar

I'r gân—rwyf yn suddo,—
A 'mhabell hon ambell awr
I lawr ar ymfalurio.

I bryfyn mae blaen-brofiad
O Nef, yn ormod mwynhad.

Wyf amharod, fy mhuro—sy reidiol

Dros ryw adeg eto;
Drwy dy ras Dad, ryw dro—byddaf addas
I urddas y ddinas ryfedd honno.

Rhodio gaf lannau 'r afon
Gain, a lif drwy ganol hon,
Ei dŵr wna fythol dorri
Pob syched o'i hyfed hi;
Hoen fawr fydd ymddifyrru
Uwch ei throion ceinion eu,
Gweld lled a golud ei lli,—ac urddas
Y Deyrnas—llynghesoedd Duw arni.

Yn eglur o'r pinaglau—ni welwn

O'n hol ein holl lwybrau
Yn yr anial, a rhiniau—y ddwyfol
Law geryddol, fanwl ei graddau.

Aml dro y bu wylo hir
O'i blegyd, 'nawr ddadblygir;
Cawn liw clir, cawn oleu clau
Am ddinistr y meddiannau.

Ar y byd tu draw i'r bedd
Rhyw enw mawr ei rinwedd,
Er mawr fraint i'r saint eto sydd,
Sef y lân orffwysfa lonydd.

Gorffwysfa lonydd.

Y Sabboth per ei seibiant
Yn awr sy 'n gysgod i'r sant,
Yn rhag-ddarlun dymunol,
O'i Nef—"Orffwysfa yn ol."
O! mae anian am ennyd
O'i phwys yn gorffwys i gyd;
A'i holl ynni yn llonydd
Drwy 'r proffwydol ddwyfol ddydd,
Fel am lwyr-dafu ynaith
Ei gwedd gynt, a'i gwisgoedd gwaith;

Ei phryd sydd offeiriadol,
Hedd dwfn ar fynydd a dôl;
Arwydd mad i gredadyn
O ryw le gwell ar ol hyn.

Melus weithion
Ei obeithion am Sabbothawl
Dragwyddoldeb, heb y byd
A'i wael bennyd ail-boenawl.

Llafuriwn oll o forau
Yr oes, nes ei dwfn hwyrhau,
Dewr weision gyda'r Iesu,
Yn ddi-dor hyd y bedd du;
A'n holl fwriad llafuriwn
Ddydd a nos dros achos Hwn,
Heb ofyn hedd, heb fwynhau
Esmwythyd na blas moethau;—
Ni a gawn mewn gogonedd
Ar ol hyn anfarwol hedd.
O! cawn gynnes fynwes fad
Hoff Iesu i'n gorffwysiad;—
Oesau meithion o lawn esmwythyd
Fry, siriolfawr oesau yr eilfyd,
A byw ar bren y bywyd,—heb gyffraw
O gwsg difraw dan ei gysgod hyfryd.

A'n "gwael gorff" mewn argel ga
Hoffusfaith lawn orffwysfa.

E gyll, e gysga *allan*—o'i dynged
Had angau ei hunan;
O aua' bedd cyfyd ban,
Draw ca haf wedi'r cyfun.

Ni adwaenir cyflawnder dywenydd,
Na chlau foliannau y Wynfa lonydd,
Nes dwyn o'r glyn dudew oll o newydd
"Y marwol hwn" gyda mawr lawenydd;
Ei adgyfodiad fydd—orchest bennaf,
Olaf a llawnaf ei Mawr Gynllunydd.

Fe'i rhwymir drwy fawr amharch
Yn y tywyll erchyll arch;
Gadawer mewn ogo dywell,
Yn y ffeiddiaf gulaf gell,

(I'r "hwn" y cylch ryw ennyd
 Oedd bell amgylchedd y byd)
 Ond cyfyd o'i wywlyd wedd
 Ryw haul o anfarwoledd.

Ai "hwn" y "gwael"—"hwn" y gwyw
 Un adeg—*ai* "hwn" ydyw!

"Hwn" y buom, drwy'n bywyd—o lesgedd
 Yn ei lusgo'n dristfryd
 O hinsawdd i hinsawdd, hyd
 Y ddaear hon mor ddiwyd
 I ddewis hafaidd aua'—ym mroydd
 Mwy rhywiog Idalia,
 Neu ger môr treulio'r tēr ha'
 O ewyllys i'w wella?—

Ai "hwn" erioed fu hwnnw,—sydd a'i ddrych
 Heddyw a'i lewych mor ryfedd-loew!

Ie, "hwn" yw, wedi'i newid—i'r ddelw
 Urddolwych, drybelid
 Dyga anfarwol degid
 Delw yr Oen a'i di-ail wrid.

Dim eisieu gofwy mwyach—i'r Idal,
 Na rhodio traeth bellach;
 Mae'n allu i gyd, mae'n olliach,
 Ni fetha'n hwy, mae fyth yn iach.

O! nghorff bach, afiach hefyd,
 Sy'n brudd gan gystudd i gyd,
 Cei dithau ryw forau fydd
 Lawenhau yn dy ddelw newydd,
 A chodi mewn iach adwedd
 I wych barch, o amharch bedd.
 Gabriel pan y gwel y gwaith,
 Ei dreimiad a dry ymaith.
 Tydi eto fyddi brif ryfeddod
 Y Nef ei hunan, y mwyaf hynod,
 Pan fyddi ar ddelw'th briod—synna
 Y deg Wynfa dros byth wrth dy ganfod.

O nifer enwau'r 'Stad Nefol,—i mi
 Yr un mwyaf swynol,
 Mwyaf pur a naturiol
 Yw—Ty'r Tad, le rhad ar ol.

Ty'r Tad.

A ! cartref yw y Nefoedd,—yn aros
 Rhyw aneirif luoedd.
 Ei hollwych ystafelloedd—ddarparwyd,
 A'i harddaf aelwyd, i fyrdd o filoedd.

Yno Duw ei Hun sy'n Dad,—a'i wynfawr,
 Hanfod oll yn gariad,
 Rhyfedd ymorfoleddiad
 Yng nghanol ei lwyddol had.

O yr aelwyd fawr ! O le difyrus !
 'Rol anhwylderau, 'rol anial dyrus ;
 Rhydd Ion, Dad daionus,—in' uwch cystudd
 Ei gynnes orchudd, a gwenau serchus.

Nadolig, pan y delo,—eto wél
 Y teulu yn gryno,
 Ac yn un arlun gwan o—'r cwrdd holliach
 Ar y lydanach fawr aelwyd honno.

Ni gawn gwrrdyd i gyd ger
 Aelwyd Ion, drwy'i law dyner,
 Mewn mwynhad anhraethadwy,
 Uwch siom ac "ymado mwy,"
 Fath orfoledd rhyfeddol
 I Dŷ'n Naf fydd dod yn ol !
 Yn ol o'r pell anialwch !—eto'n ol
 I babel noddol, i bob llonyddwch ;
 Ie 'nol wedi i ni
 Unwaith lwyr ddigalonni.
 Yn ol ! yn ol i'n hawliau
 Yn y clyd nef-gartref clau,
 I'n henaid goflaid gyflawn,
 Os plant, gogoniant a gawn ;
 Ei holl blant mewn llwyddiant llon
 Fyddant ei etifeddion.

Er eu gwaeleddau a'u hafryglyddiant,
 Ei etifeddion eto a fyddant ;
 Gyda Christ ei hunan cyd-feddiannant
 Wlad y gu gân a golud gogoniant.

Mewn rhwysg yn y man yr ant
 I'r llawn fodd a'r llon feddiant.

Deuant i'w hoed o'r diwedd,—ym more
 Mawr eu disglaer adwedd;
 Yr Oen a maith rinwedd—ei Iawn di-ail
 Fydd eu sail i etifeddu sylwedd.

Oes! y mae glân “drigfan” draw,—palas haf,
 I'r iselaf o'r plant gael preswyliauw.

Llawenhawn! “Lle” yw y Nef,
 Sylweddol oesawl haddef.

Nid ystâd anweladwy
 O dan niwl, ydyw yn hwy.
 Ewyllys Crist sydd hollaw
 Brawf mai lle yw 'r Ne i'n hawl.
 Ein lles pan ewyllysiai—o'i gariad,
 O flaen ei Dad fel hyn y dywedai;—
 “Rho, mewn hedd, i'm Dyweddi
 Yn llwyr fod lle yr wyf fi!

Lle yr wyf fi.

“Dod, dy Hun, fy nheulu 'n iach
 Gyda mi i gyd mwyach.”

Iawnwych le! clust ni chlywodd,—a llygad
 Un eiliad ni welodd
 Y bri teg a barotodd
 Yr Ior gwir i'r rhai garodd.

Eiddilion yw 'n meddyliau—uchelaf,
 A chalon yn ddiau
 Ni fedd un tyb wna foddhau
 Am wawl y bythawl bethau,

“Pethau” gorau ei gariad,
 Gorau 'r Ion o'i roddion rhad.

Gorau Duwdod i gredadyn—yw Nef
 A'i mwynhad diderfyn,—
 Llwy'r agor ei drysor drud
 A'i olud oll i elyn.

Nid digon gan Ion in fwynhau—heddwch
 A'r dedwyddyd gorau,
 Heb loes am fythol oesau
 Yn y bêr anfarwol bau;—

Rhy fychan ein diddanu—yn unig,
 Mae 'n Hion am ein synnu,—
 Am agor, in edmygu—ryw ryfedd
 Faith ogonedd, modd fyth i ganu—

Byw mwy 'r tragwyddoldeb myg—diorffen
 Yn y bur, lawen, fwyn bêr-lewyg.

Sydyn arddanghosiadau—aruchel
 O'r mawrwychedd gorau,
 Mwynhau gogoniannau 'n Hior
 A'i ddidor ryfeddodau;
 Rhaiadrol orfawrhydri
 Duw a'r Oen, oesau di ri.

Gwahanol yw gogonedd
 Y dorf fawr tu draw i fedd;
 Oes, mae draw raddau lawer
 Rhwng y saint fel rhwng y ser;

Ond o hedd a dedwyddyd,
 Eu rhan geir yr un i gyd.
 Yno i bob enaid bydd
 Ei lonaid o lawenydd,
 Os telir apostolion
 Yn ddwbl yng ngogonedd Ion,

Os ceir gan rai ddisgleiriach—coronau,
 Nis ceir un hapusach;
 Yr un bwrdd fydd i'r un bach,—yr un wledd
 Rad, a'r un sylwedd, er draw 'n iselach.

Ni fydd dig nac eiddigedd,
 Ond cydfyd o hyfryd hedd.

Ni faga Ephraim genfigen—wedyn
 At Judah, nac absen,
 Ni ddaw un llid prudd na llen
 Dros nwyfre y lle llawen.

Ar ei dawel wehelyth
 Judah ni chyfynga fyth.

Ac yno yn eu canol—yr Iesu
 Arosa 'n dragwyddol,
 Heb gwyn, heb swyn absennol,
 Na neb, "nac ewin yn ol."

ODLAU HIRAETH.*

MAE'CH deufab anwyl yn y nef, a chwithau ar y llawr,
 Maent hwy yn canu "Iddo Ef," a chwi'n y cystudd mawr;
 Paham yr wyli, dirion dad, paham y wyla'r fam,
 A hwythau, os o'ch cyrraedd chwi, o gyrraedd pob rhyw gam.

Diolchweh fod i'wch anwyl blant yn engyl pur i Ior,
 Diolchweh fod i chwi ddau sant yn canu yn y côr—
 Y côr ag sydd uwch cyrraedd gloes
 I ganu am dragwyddol oes.

Pe buasech yn eu gadael hwy o'ch ol mewn anial croes,
 Buasai hynny'n peri clwy wrth ado stormus oes,
 Diolchweh idd y dwyfol Dad a'u cymrodd hwy mor glau,
 Ac O! pan lanioch yn y wiad dragwyddol, bydd y *ddau*
 Yn aros ar y lan tu draw
 A'u tad a'u mam i ysgwyd llaw—
 I ysgwyd llaw uwch cyrraedd gloes,
 Uwch 'mado am dragwyddol oes.

Rhyw fyd gofidus yw ein byd, y mae y rhai a garwn ni
 Yn gorfod dioddef lawer pryd ar ol ein mynd i'r beddrod du—
 Ond chwythed stormydd yn eu grym, a deued myrdd o wyntoedd
 croes,

Ni chaiff James Henry oddef dim, ni chaiff Jehoiada un loes.

Y mae James Henry gyda Duw, Jehoiada yn angel gwyn,
 O! onid gwell y Nef i fyw na rhwng y bryniau cyfyng hyn!
 Fe ddylai 'u hanfarwoldeb pur
 Yn llwyr felysu'ch cwpan sur.

Hen fynwent lonydd y Twyn Gwyn, gofala am eu llwch mewn
 hedd; [bedd,
 Mi ddof ryw ddydd â blodyn gwyn i'w blannu'n ddistaw ar eu
 Sef blodyn gwyn o'r gwynnaf sydd oblegid gwynfyd yw eu rhan,
 A daw y ddau o'r marwol bridd mewn gynau gwynion yn y man.

BEDDARGRAFF HEMAN GWENT.

MOR lom ar ol ei Heman—yw Gwalia,
 Gwelwch ei hir drigfan;
 A! tan glo mae'r Cristion glân,
 Hwyllog angel y gyngan.

*Er cof am James Henry a Jehoiada, anwyl blant Mr. a Mrs. James, Dyffryn Farm, Mynydd Islwyn. Bu y cyntaf farw Ebrill 6ed, 1874, yn chwe mlwydd a deg mis oed; a bu Jehoiada farw yn ebrwydd ar ei ol, sef Mai 25ain, yn bum mlwydd a saith mis oed.

CARNHUANA WC.

CARNHUANA WC! O! pa Gymro sy, pa lenor na fawrha ei glod!
 Pwy ymhlith beirddion Gwalia gu na wna ei fawl yn
 Carnhuanawc enwer—digon yw [haeddawl nod!
 I greu trwy Gymru deimlad byw.

Diwrnod prudd oedd hwnnw pan glywid nad oedd Carnhuanawc
 mwy; [glwy.

Y newydd athrist ym mhob man trwy Gymru roddai ddyfnaf
 Paham ysbeiliaist, angau du,
 Anwylyd Gwalia o'i chol gu?

Gallasai fyw flynyddau hir
 I gyfoethogi llên ei wlad,
 Fel haul disgleirfawr uwch ein tir
 Yn tywallt gwawl gwybodaeth fad.
 Ond felly rhyngodd bodd, ein Tad, i ti;
 Ein Tad, efelly rhynged bodd i ni.

Do, colodd Cymru ddeigrin, pan o'i nen lenorol hi
 Machludodd y fath seren gan oddiar gyhydedd bri.
 Gwag yw ei lle; pa seren sy
 Yn addas i'w sefyllfa fry!

O'i ol galara'r beirdd ynghyd,
 A'u cerddi oll fel yntau'n fud.

Yn llanc rhagorai. Pan, yn llaw ei dad,
 Y cerddai dros y dolydd gwyrddwawr mad,
 Mor llon a'r ŵyn o'i gylch, e welid dyn
 A llenor yn ei wedd a'i sylw cun.

Yr wybren glaer a yf uwch ben oleuni'n llif o'r huan ter,
 A'r awel lon ddiddana'r nen ag alaw ei chwibanogl bêr,
 Oll gaent, ar doriad gwawr ei ddydd
 Ei sylw craff a'i efryd rhydd.

Y rhos a'r lili glwys a gaed yn ymfalchio yn eu harddwch,
 Gan daenu'u swynion gylch ei draed a gwisgo'r dolydd â
 Yn llanc chwareuai yn eu plith [phrydferthwch,
 Pan yfent falm o gostrel aur y gw lith.

E hoffai rodio trwy y wig, pan wisgai'i dillad hafaidd, gwyrddion,
 E hoffai wrando ar y brig awenau'r pluog delynorion,
 A chlywed yr awelon mwyn
 Yn tewi i fwynhau y swyn.

Ar lan yr afon teimlai ef,
 Anianydd hoff, fel un yn nhref.
 Oedd murmur y delorawg don
 Mewn cynghord â theimladau 'i fron.
 Oedd lawen pan ardremiai'r ser,
 Ddodrefnant fry eurllysoedd Ner,
 Mor deg ar fynwes loew y lli,
 Yn gwneyd y don yn falch o'u bri.

O radd i radd cynyddai. Haul y nen
 Ni ddyrch ar unwaith i orseddfainc wen
 Rhwysg cyhydeddol. Gyr y wawr o'i flaen
 I chwerthin ffwrdd o ystafelloedd cain
 Yr wybr bob cwmwl prudd, a gwneyd y nef
 Yn barod i roesawu 'i gerbyd ef.

Mae tyfiant i athrylith. Hawlia dawn
 Ei hamser cyn yr ymddadblygo'n llawn.
 O radd i radd cynyddai. Bore oes
 Ei le i lawn ganolddydd bywyd roes.
 Ai uchel y gobeithion lanwent fron
 Ei dad am fawredd y bachgennyn llon?
 Uwch y cyflawniad, llawer uwch ei ddawn
 I dad na mam ragddweyd ei uchder llawn
 Er mor dra phleiddgar rhiaint, er mor ddall
 Dan orchudd serch i bob rhyw ffael a gwall.

Y wawr oedd olau; y canolddydd llawn
 Oedd ddisglaer; eithr tanbaid oedd y nawn;—
 Tanbeidrwydd rhiniau a chynneddfau cu
 Yn ddadblygedig yn eu cyflawn fri.
 Mae heuliau 'n machlud, er mor rwysgfawr yw
 Eu tân-gerbydau a'u pelydron byw;
 Machludodd yntau. A! nid diffyg ddaeth
 I lenu 'i nodwedd disglaer; symud wnaeth
 Dros orwel amser a'i orllewin du
 I loewach arddrych anfarwoldeb cu.

Ein Cymru, ein hoff Gymru, pwy a fu
 Mor llwrymroddgar i'th wasanaeth di?
 Pwy fel efe i'th ddwyn i sylw'r byd,
 A thafu gwawl ar dy deleidion drud?

[boeth,
 Gorchestion dy wroniaid gynt, rhai aent yn fyrdd i'r frwydr,
 A baniar rhyddid gyda'r gwynt yn esgyn fry, a'u harfau'n noeth,
 Fel caer o ddur yn mudo mlaen, a'u calon ddewr yn nofio'n hy
 Mewn môr o lid, tra'n frith ar daen geleiniau gâlon ar bob tu—
 Eu holl orchestion draethai'n llawn
 Heb liwiad gorddarluniol ddawn.

Nid gwisgo tyb â blodau arddull mae,
 Nid honni gwiredd i ddychymyg gau,
 Ac nid goreuro mympwy trwy fais dawn,
 Ond traethu 'r gwir yn syml, y gwir yn llawn.

O grafanc anghof cipiai 'n hy
 Hen gymeriadau mawr eu bri;
 Rhai yn wybrennau disglær llên
 A rhyddid, a gwladlywiaeth hen,
 Lewyrchent gynt, ail heuliau mawr,
 A Chymru 'n olau dan eu gwawr.

Caswallawn Fawr, er marw, byw
 Yng ngwaith Carnhuanawc eto yw;
 Byw yn ei anghydinarol fri,
 A byw yn addurn, Gymru, i ti.
 Cynfelyn yn ei rwysg di-len,
 A choron gwron ar ei ben
 Fyth yn blaguro, yntau sy
 Brif em yn "Hanes Cymru" gu.

Yr hwn, O Gymru, a ddarluniai fri
 Y gemau gloew a wawlhant dy hanes di,
 O fewn dy hanes, i wladgarol drem
 Ei hunan heddyw yw y gloewaf em.

Gwladgarwch! nid enw disylwedd oedd iddo,
 Ond cadarn egwyddor, ddihalog ei rhyw,
 Trwy ddrych ei ymddygiad yn teg ymddisgleirio,
 Gan gyffwrdd ei galon deimladol i'r byw.
 Gwladgarwch! os dieithr yw neb i'r hoff rinwedd
 Efryded Carnhuanawc, ei weithiau a'i fuchedd,
 A chenfydd ei theithi ar berffaith gyfunedd
 Yn llawn ymgorffoli mewn un nodwedd wiw.

Wladgarwyr mewn enw ac ymffrost yn unig,
 Chwi lén-Phariseaid, amgylchwch ei fedd—
 Os meiddiwch neshau at y fan fendigedig
 Gysegrir â swynion teilyngdod a hedd.
 Ei feddrod parchedig ragrithwyr, amgylchwch!
 Ac yno, O yno, diwygiad ardystiwch
 Yn gywir wladgarwyr, dan wylo dychwelwch
 A delw ein gwron yn fyw ar eich gwedd.

Brudd fynwent Cwm du, cadw fanol ddisgyblaeth
 Ar dyfiant dy borfa dros fronnau dy bridd,

Rhag fyth i gysgodion ei gwyrddfwng ehelaeth
 Doi bedd ein gwladgarwr â thrymder a hudd;
 Fel gem hawdd-nodadwy O! cadw 'i orffwysfa;
 Na thyfed ond blodau, y tecaf rai yma,
 Ac wyled yr awel pan heibio y crwydra
 Ei thôn yn gwynfannus, a'r adsain yn brudd.

Yn nwyfiant calon lawn o wladgar dân
 Gadawai gartref clyd dros Gymru lân.
 Hyd ffyrdd cerigog ai, wladgarwr mwyn,
 Tan wybren drom, ac awel lem, heb gwyn.
 Cysegrwyd daiar yr Iwerddon fir
 A sang ei droed. Olrheiniai ei holl dir—
 A chraffder hynafiaethydd gwir, ac aidd
 Gwladgarwr yn mawrhau ei wlad o wraidd
 Ei galon—am weddillion mawryd hen
 Derwyddiaeth. Ac, i gyfoethogi llên
 Ei wlad â darganfyddion, hwyliodd draw
 I Lydaw bell. Ei lygad, ar bob llaw
 Graff sylwai, 'n fyw i bob derwyddol garn,
 Neu gromlech, o hynafiaeth yn werthfawroca ddarn.

A! pwy ddarlunia ei lawenydd ef
 Pan, wrth ddychwelyd o'i ymchwildaith fawr,
 Y gwelai fryniau 'i wlad yn cyfarch nef,
 A'u bannau yn cusanu 'r wridog wawr,
 A phelydr teyrn goleuni 'r nen
 Yn dawnsio 'n drylon ar eu pen.

E welsai 'r Alpau tua 'r nen yn esgyn, a disgleirder dydd
 Tragwyddol yn coroni 'u pen, a'r llithreira 'n treiglo 'n rhydd
 Gronfeydd terwynion oddi fry—
 Dros lethrau rhewllyd, aruthr fri!

A'u bannau fel gordyrau syth o deml anian ar y llawr,
 Fry yn coffeidio 'r nef, ym mhlith mil o gymylau, llon eu gwawr,
 Ond iddo ef caed hoffach swyn
 Yn nghreig gwyleiddiach Cymru fwyn.

E welsai llyn Lough Erne fel llen o wydr gloew dan fwa 'r nen,
 A brith ynysodded ar ei li fel gemau o addurnol fri,
 A'r awel falmaidd ar ei thaith,
 Yn cribo brig ei donnau llaith,
 A'i ddyfroedd yn ymdaflu fry
 Mor wyn â llaeth i'w chyfarch hi;

Ond iddo ef oedd hoffach swyn
 Ger un o lynnoedd Cymru fwyn—
 A phelydr teg yn euro 'i bron
 A gwrid o wawl; a'r awel lon
 Gerllaw yn chwareu 'i haden fad
 Yn llwythog o aroglau 'r wlad;
 A blodau 'n amaerwyo 'u glan,—
 Y gwridog rôs, y lili gan,
 Delw purdeb; a'r flinedig don
 Yn cysgu 'n esmwyth ar eu bron.
 A! iddo ef golygfa fwyn
 Oedd hon, yn llawn o farddol swyn.

E hoffai lwch ei wlad, a'i meini cedyrn hi—
 Arwyddion ar barhad o'i hen dderwyddol fri;
 Edrychai gyda siriol wên
 Ar olion rhwysg derwyddiaeth hen.

Pan welai gromlech drom yn crymu 'n ddwys,
 Ac ar ei maen-golofnau 'n doddi 'i phwys
 Yn athrist, wedi llwfrhau o dan
 Gorwyntoedd oesau, a chan oed yn wan,
 Adgofiai amser pan y gelwid hi
 Yn allor, pan y cai grefyddol fri
 Ac ebyrth i'w chysegreu; archai ef
 I'w gof y dydd pan gylch yr allor gref
 Ymgrymai lluoedd o addolwyr gynt,
 A'u gwallt yn chwyfo mewn ceryddol wynt.
 Hen allor Pentref Ifan ar ei thri
 Ategiion, sydd mor ffyddlawn dani hi
 Yn ei chryfhau i gynnal brwydr gref,
 Tragwyddol frwydr âg awelon nef,
 Y rhai yng nghryfach sain eu hudgyrn fry
 A fynnent foddi fyth ei harawd hi,
 Ei harawd ar dderwyddiaeth,—hon gai drem
 A sylw Carnhuanawc. Drudfawr em
 Oedd yn ystorfa 'i hynafiaethau eu.
 Darlennai ynddi gyfrol lawn ar fri
 A mawryd crefydd, ar flagurog wedd
 Gynt lanwai 'n gwlad o'r gwaelfwth i'r sedd.
 Meddiannai gwastad Caer Caradawg swyn
 A'i gwnai 'n hoff fan i'n hynafiadur mwyn.

Ei galon wladgar gurai 'n chwyrn gan lid
 At bob dyhiryn a amharchai fedd

Un o wroniaid Cymru. Gwrthrych drud
 Hoff ganddo oedd pob carnedd, man mewn hedd
 O fewn ei briddgawg hunai llwch rhyw dad
 Wynebai gynt, tan faniar rhyddid mir,
 Estroniaid lu, yn aberth dros ei wlad
 Yn golofn aur dan anibyniaeth wir.
 Trychwaliad bedd Taliesin yrrai dân
 O ddig gwladgarol trwy ei fynwes lân,
 Ni fynnai dynnu carreg o un garn
 I walio 'r llys cywreinfalch, na gwneyd sarn
 O lwch gwroniaid, na fai rhaid i brif
 Ryfelwyr Groeg, neu ymerawdwyr hyf
 Rhufain dragwyddol, gywilyddio mwy
 I orfwys yn yr unrhyw fedd â hwy,
 A dal eu palmwydd gan orchestion fyrdd
 Sydd yn blaguro mewn anfarwol wyrdd.

Pob carreg hen a ddygai ol o hynafiaethol fri
 Ar gopa bryn, ar arffed dôl, arddenai 'i sylw cu.
 Oedd hoffach ganddo ef na 'r harddaf faen
 Erioed a dynnwyd o farmorawl haen.

Trysorfa traddodiadol ddysg
 Ar ddydd ei angau aeth o'n mysg.
 Cyfrinion derwyddoniaeth, pwy
 A deif oleuni arnynt mwy?
 Pwy fel efe? Pa fron mor llawn
 O'r ddysg, a'r ddarluniadol ddawn!

A! nid ei farwol ran yn unig sydd
 Dan dromlen anghof. Yn ei feddrod cudd
 Dan fythol glo mae traddodiadau hen
 Cyfrinion barddas, a dillynion llên,
 Gwybyddus iddo 'i hun yn unig. Hwy
 Fel yntau ydynt yno 'n ddistaw mwy,
 A dedryd anghof arnynt. Yn y bedd
 Anghofir dyn, a dawn, a dysg un wedd.

Cyfrinion beirddion Ynys Prydain, pwy
 A fedd yr allwedd a'u dadgloa mwy?

Oedd feistr ar ein hiaith, ein hen iaith gu
 Ein cenedlaethol berl, a'n pennaf fri;
 Dyferai 'i mêl-frawddegau dros ei fin
 Mor rwydd â thros aurlafar Gomer gun.

Ei geiriau tyner, rhai drosglwyddant ffrwd
 Teimladau calon lawn o gariad brwd
 Yn eu cynhennid fwynder a'u naws flydd
 Gan roi i'r meddwl gwylaidd lafar rhydd;
 A'r rhai ardebant gyffroadau cryf
 Y brwd wladgarwr, a'r rhyfelwr hyf,
 Pob gair fel adsain twrf rhyw raiadr llym,
 Pob cydsain yn wroldeb ac yn rym,—
 Meistrolodd hwynt; ac ar ei alwad, oll
 Gweinyddent i roi ffurf i'w dyb di-goll.

Troellau mwynber ei hymadradd hi
 Ddefnyddiai fel meistrolgar athraw 'n hy.
 Dan Lwyni Academus aeth heibio aml awr fwyn,
 Ar aden hoen difyrus wrth ganu 'i rhin a'i swyn.
 Ei golud anhreuliadwy eglurai i ddoethion lu,
 Ei dyfnder amhlymiadwy a'i hymadferthoedd eu.
 Tra 'n sugno laeth gwybodaeth o fronnau addysg lawn,
 Tra 'n derbyn arlwy odiaeth ar fwrdd clasurol ddawn,
 Tra aur-phiolau 'r awen yn llawn trysorau 'r nef
 O'i amgylch—ein hiaith drylen gadwynai 'i efryd ef.
 Athrofa goeth ni feddai un swyn i ddenu 'i fryd
 Oddiar yr aeg ddysgasai yn blentyn yn ei gryd,
 Yr aeg dros fin mam dyner wahoddai gwsg a'i swyn
 Aml dro, drwy felus drymder i gloi ei amrant mwyn.
 Hon, ar dywyniad bywyd, barablaï 'n bêr cyn hyn
 Wrth lamu'r ddôl arianbryd, wrth ddringo'r gwarsyth fryn;
 Yn llys yr uchawduron hi oedd ei aeg drachefn,
 Agorai 'i gwreiddiau dyfnion a'i chynghaneddol drefn.

Wedi olrhain hynafiaethau pobloedd hyglod ereill gynt
 Anfarwolwyd â choronau buddugoliaeth ar eu hynt,
 Troai adref at hynafiaeth ei anwylaf wlad ei hun,
 Tafu gwawl ar ei chyfriniaeth wnaeth yn nod ei lafur cun.
 Pan ganfyddai oleu newydd ar ryw ran o hanes hon,
 Neu draddodiad llwyd a rhydlyd wedi 'i rwygo gan oed bron,
 Ymlawenai fel perl-geisydd wedi cael y prifem drud;
 Hanes Cymru ddenai beunydd ei chwiliadol ddawn a'i fryd.

Oedd enwog ym mhob gwyddor. Medrai ef
 Yn ymyl Newton olrhain bydoedd nef,
 A rhyfeddodau 'r heuliau rhwygafwr sy
 Ar dân-olwynion yn ymdreiglo fry.
 Y blaned Mercher, ger canolbwynt dydd,
 Agosaf gâr yr haul; a Gwener. sydd

Yn ddelw o brydferthwech; y wech Iau
 A'i gosgordd landeg ogylech yn gwawlhau;
 A'r welwlwyd Sadwrn, a'i modrwyau sydd
 Yn adlewyrchu harddwch teyrn y dydd.
 Hwyt oll arnodai ar lydanfron nen,
 A mwy, myrdd mwy 'n addurno 'r tran di-len.

Y rheithiau tragwyddol osododd yr Ior
 I lywio ysgogiad y ddaear a'r môr;
 Y swyn digyffelyb, y gallu di-draul
 Sy 'n gwneyd i bob planed addoli yr haul,
 Gogwyddo fyth ato, heb fyth ato ddod,
 A dawnsio o'i amgylch, bob un yn ei rhod;
 Dirnadai hwy 'n gywir, a'i hun megis haul
 A'u heglurai i ereill yn oleu a hael.

Difyrrai 'r teulu gylch y bwrdd a darnau o hynafol ddysg,
 Gwasgarai anwybodaeth ffwrdd, a rhoddai'r cnewyllyn heb y plisg;
 Addysgu oedd ei nod di-feth,
 A derbyn addysg o bob peth.

Difyrru yn rhinweddol wnai,
 Nid porthi blys at gellwair gau.
 Cymysgai falm adfywiol mwyniant gwir
 A chwpan addysg a gwybodaeth bur.

Ni theimlid angen testyn lle y byddai yn wyddfodol; 'r oedd
 Amrywiaeth yn ei addysg e i'r bwrdd, fel i'r areithfa goedd.
 A defnyddioldeb nodai 'n llawn
 Bob testyn a gyflogai 'i ddawn.

Pob munud werthfawrogi 'n llawn
 Fel drutaf rodd wrth ei mwynhau
 Yn chwim ddiflannu. Bore a nawn
 Munudau i addoli gai;
 Un munud byr mewn gwir addoli Duw,
 Gwystl o ddedwyddaf dragwyddoldeb yw.

Efe ei hun yn frig o'r uchaf ryw
 Yng ngardd llenyddiaeth, tafiai gysgod gwiw
 Dros flodau heirdd ond eiddil. Noddfa gref
 Gai ieuainc feirdd o dan ei aden ef.
 Aml un sydd heddyw 'n addurn llawn i'w wlad
 Feithrinwyd dan ei arolygiaeth fad.
 Y gwledig lanc, a fagwyd ar ael bryn,
 Na welodd drem erioed tu hwnt i'r glyn

A hardd ymledai dan eurflodau fyrdd·
 Islaw ei ddirrain gartref, oll mewn gwyrdd,
 Hwn lanc, ymddifad o bob peth ond dawn,
 Dan nawdd ein Price ar fyr a fwriai rawn
 O'r fath uchelaf, grawn athrylith wir,
 Per firwythau dawn o blaniad anian bur.
 Addysgai 'r meddwl i weithredu 'n iawn,
 A'r doniau ir i ymddadblygu 'n llawn.
 Trem bendant a hyderus athraw mad
 A feddalhai â gwên siriolaf tad.

Ni thafiai fyth i lawr awenydd ieuanc, pan
 Yn dysgu 'r aur-gelfyddyd fawr ar lethr Parnassus ban.
 Ond rhoddai 'i law i'w ddarwain fry
 I'r deml gorona 'r mynydd eu,
 Lle tardd y ffynnon ddwyfol dêr
 A ysbrydola 'r odl bêr.

Nid fel y môr yn llyncu 'r oll i'w gol—
 Gyfoethog anrhaith!—heb roi perlau 'n ol
 Oedd ef; ond fel y cwmwl gonest sy
 Ar ol crynhoi ei laith oludoedd fry
 O'r fro werddonog, yn edrydu 'r oll
 A mwy na iawn am bob mygdarthog goll
 Mewn gwllithion balmaidd o ariannaid wawr,
 A mêl-gawodydd i ddiwallu 'r llawr
 A thorri syched egr y meusydd llwfr
 Trwy holltau fyrdd sy 'n ymddyheu am ddwfr.
 Elusengarwch! gwyddai ystyr iawn
 Y gair; ei galon oedd ei ystyr llawn,
 A'i fuchedd, drych ei galon; ynddi hi
 Y rhinwedd nefol yn ei hawddgar fri—
 Bri hawddgar Cristionogaeth!—d'wynnai 'n hardd
 Yn nod i folawd ac edmygedd bardd.

Prif hoffder rhai—och! hoffder islaw dyn—
 Yw murio gylch eu haur, a'u lles eu hun
 Yn unig ddiben. Bryf! nis gwyddant hwy
 Sy 'n rhwym wrth lwch, am nod na mwyniant mwy.
 Nid felly Carnhuanawc. Rhoddai ef
 Yn ol a roddid iddo. Pan fai nef
 Yn hael—a phryd nid yw? 'ond graddau sy
 Yn rhoddion y drysorfa ddwyfol fry—
 Pan fyddai yn hael wrtho, hael un fodd
 Wrth eraill fyddai yntau efo 'i rodd.

Elusengarwch distaw oedd. Y ddawn
 Gyfrannai heddyw o orlifant llawn
 Ei deimlad, fory lwyr anghofiai; O!
 Fawladwy anghof, prawf perffeithrwydd co.

Ni welwyd un cardotyn llwm yn troi o ddrws ei dŷ
 A'i fron yn brudd, a'i wedd yn drwm gan siom a newyn du;
 Na! chwarddai gwenau ar ei ael
 Wrth ado tŷ y prif wladgarwr hael.

Aml fam amddifad, gyda 'i phlant ymddifaid fel ei hun,
 Ac argraff o helbulon gant yn rhychau ar ei llun,
 Lawenai pan o glogwyn fry
 Y gwelai wawr ei wladaidd dŷ.

Dywedai,—“Fy hoff ŵyn, mae acw un yn byw
 Dosturia wrth ein cŵyn, ac ef ein gweddi glyw;
 O ddrws ei dŷ yn wag nid awn,
 Un waith o leiaf digon gawn.”

E wyddai 'i farn; a'i farn arddelai 'n goedd
 A didwyll, eto nid rhagfarnllyd oedd.
 Ni ellir fyth darostwng meddwl hael
 I raddfa front pleidgarwch; rhagfarn wael
 Sy bennyd meddwl gwaelach; saeth ym mron
 Y drwg a'r cenfigennus ydyw hon.

Ei feddwl oedd ry eang i'w gulhau
 I fod yn rhedle i'r fath deimlad gau.
 A'r awyr foesol lle chwareuai 'i ddawn
 Oedd i'r fath gwmwl yn rhy glaer, rhy lawn
 O wawl athroniaeth uchel. Yn ei ŵydd
 Cai Pabydd eglurhau ei farn yn rhwydd,
 Er fod ei farn mor groes i'w eiddo ef
 Ag yw tywyllni anwfn i wawl nef.

Anffaeledigrwydd, ai o enau 'r glowr tlawd
 Ai llys y bwystfil gau, ddirmygai gyda gwawd.
 Anffaeledigrwydd! nodwedd yw
 Na fedd ond anffaeledig Dduw.

Gwir glod ni wyr am derfyn. Pan o ryw
 Rhinweddol, fel y nefoedd di-dran yw.
 Rhy gul terfynau gwlad i gynnwys bri
 Y fath lèn-arwr a Charnhuanawc gu.
 Croch donnau 'r Hafren yn eu twrf di-daw
 Ni allent foddi sain ei glodydd. Draw
 Ehedai er pob enllib du ar daen,
 Teilyngdod noeth a'i gyrrai 'n hyf ymlaen.

Gwrandawai Lloegr ar ei uchel fri,
 Edmygedd llawn a chwyddai 'i mynwes hi.
 Dros fryniau Cheviot cludai awel fwyn
 Ei orfoleddus glod i'r Alban fry,
 A thros y dyfnor â thrydanol swyn
 I Ffrainc trosglwyddid ei enwogrwydd cu,
 A thrwy 'r cyfandir lledai 'i glod bob llaw,
 Ei adsain lonnai wlad yr Ellmyn draw.

Y trwsiad y tu faes oedd hardd, un fodd
 A'r dodrefn y tu fewn. Bys natur rodd
 Fawreddog gyffyrddiadau ar y tŷ
 Fel ar y deiliad. Oedd ei dalcen hy
 Yn deilwng o'i athrylith, awgrym cu
 Fod angel yno, cyntedd addas i
 Y fath ystorfa ddrudfawr o ddysg llawn,
 A'r fath gydgasglfa o oludoedd dawn.

Llewyrchai 'i feddwl yn ei lygad mir,
 Ac ar ei lawes gwisgai 'i galon bur.
 Fe drigai fry mewn hinsawdd foesol, sydd,
 Dan belydr bonedd derch, ac awel flydd
 A balmaidd rinwedd, yn rhy bur i rith
 Ei llygru â'i wenwynllyd, halog chwyth.
 Cywirdeb a'i nodweddai 'n llawn. I'r gwir
 Ei law oedd arf, a'i fuchedd—ardeb clir.

Cyfrolau 'n llawn athrylith welem ni
 Yn nhân ei lygad. Oedd ei lygad cu
 Ei hun yn enaid; claer, agored ddrych
 O galon hawddgar, ac o feddwl gwych.

E feddai glust a ddaliai swyn peroriaeth a'i mêl-ddiliau hi,
E feddai fys ddyhidlai 'n fwyn ddyferion ei hudoliaeth gu.

Ei swynion wrthi glymai 'i glyw
 Gan wneyd ei enaid iddi 'n fyw.
 Ai gyda 'r wawr i chwyddo 'r gerdd
 Gysegrai demlau 'r goedwig werdd.

Asgellog gôr yr adar cu
 Ar lawen ehedfaoedd fry,
 Yn arllwys eu cynghanedd llawn,
 A pheroriaethol awel nawn
 A'i hudgorn llon yn chwyddo swyn
 Ac effaith eu telori mwyn,
 Byth-lawen delynorion nef!
 Eu tôn oedd falm i'w galon ef.

Offeryn hoff fy ngwlad ! y delyn fwyn !
 O'i thannau mel tarawai swyn ar swyn.
 Gwnai iddi siarad iaith gwladgarwech pur,
 A bywioeau teimladau 'r Cymro gwir.

A'i law yn gorffwys ar ei ddwyfron bur,
 A'i lygad oll yn dân o deimlad gwir,
 A'i wallt yn laes gudynau ar chwyf fry
 Yn brawf o'i serch at anian seml gu,
 A'i freichiau 'n ymgofeidio ar ei fron,
 A'i deimlad gyda 'i bwnc yn chwyddo 'n llon,
 A'i agwedd oll yn ddelw o sobrwydd llawn,
 Gollyngai allan fywiol lif o ddawn.

Y fath fudanrwydd lywiai 'r dyrfa pan
 Lefarai ef ! Distawai lluoedd gan
 Awyddfryd llawn i ddal ei eiriau drud,
 Braidd yr anadlent, oeddynt oll mor fud,—
 Mudanrwydd hoffwyr dysg, mudanrwydd doeth
 Yn dal defnyddiau ol-ymddiddan coeth.

Ein Cymru, ein hoff Gymru, oeddit ti ;
 A phob peth ynot iddo ef yn gu.
 Dy feilch fynyddau, trwy uchelfryd sydd
 Yn cyfarch nef, dan wên tragwyddol ddydd,
 Gan hoeddi 'n eofn anibyniaeth fry
 Trwy lais y daran a'r awelon hy,—
 A ! hoffai wibio drostynt, fry yn nen,
 A syllu ar y gwawl yn goron ar eu pen,
 A gwrando arawd pêr yr awel lon
 Tra adar lu yn lleisio yn ei bron
 I'w llonni ar ei gyrfa chwern â swyn
 Eu tannau mêl a maws eu corau mwyn.
 Dy froydd oll, yn llif o frasder llawn,
 Ar fore trylon, neu fyfyrgar nawn,
 Olygai ef â threm dreiddgarol un
 Yn darllen natur yn ei gwawl ei hun.
 Mor llon edrychai ar y dolydd heirdd—
 Hoff fannau, oll yn frith o swynion beirdd,
 Y dolydd heirdd, dan gnydau chwyfawl chweg
 Mor dlws addurnant froydd Gwalia deg !
 Cyfoethog fan yng ngheinion natur roed
 Yn gartref addas iddo; sang ei droed
 Gysegrai 'r lle; ac, at yr hyfryd swyn
 A ddenai yno hoffwr natur fwyn,

Atodai swyn dry 'r fro 'n gartrefol dir
 I'r hynafiadur a'r gwladgarwr pur.
 Amaethwyr llon ei ardal! nodwch chwi
 Ar lech anfarwol cof, y dolydd eu
 Y cerddai 'r prif wladgarwr drostynt pan
 Ai i maes i yfed balm yr awyr ban
 A sugno iechyd o'r awelon pur
 A gweld y blodau 'n garped dros y tir.
 Y manau cofiwch! cysegredig ynt
 Rodfeydd Carnhuanawc trwy 'i isoerawl hynt.
 Eich meib addysgwch i'w hedmygu 'n llawn,
 A'u parchu fyth fel meddiant gwerthfawr iawn.
 Na thynner aradr drostynt. Flora dlos!
 Byth gwrieded arnynt dy hawddgaraf ros.

Bu natur yn afradlawn ar ei rhin
 A'i drudfawr roddion pan y ganwyd ef.
 Nid digon iddi oedd cyfrannu un
 Odidog ddawn. Talentau prid y nef
 Roed yn sypynau iddo; calon lawn
 Trysorau teimlad; bron yn chwyddo dan
 Orlifol serch; chwaeth i wahanu 'n iawn
 Rhwng twrf â chynghan; clyw ddifyrid gan
 Gywreiniaf gord peroriaeth; bysedd chwim
 A wnaed i swyno 'r tannau pêr i'r dim;
 A llygad wahaniaethai rhwng pob lliw
 A'u cyffyrddiadau tlysaf; bysedd gwiw
 Fel i drydanu 'r delyn, felly i
 Ddyferu dros flaen ei ysgrifwr eu
 Linellau tlysiion, ail i natur wiw,
 O'r gwrthrych roent ddarluniad teg i'r byw,
 Nes twyllo yr edrychwr bron. Oent oll
 I'r cynllun mor gyffelyb a di-goll.

Ein cestyll gwag, cynteddau mawryd gynt,
 A'u rhagbyrth yn safnrythu 'n hyf, a'r gwynt
 Yn chwiban trwy eu llysoedd lenwid gan
 Ddillynion ymerodraeth unwaith, pan
 Archwyfai baner anibyniaeth fry
 Ar frynian Cymru hawddgar, pan oedd hi
 Mor anibynnol â'r awelon sydd
 Yn llonni'r wybren â'i haroglau blydd,
 Mor anibynnol â'r afonydd gwrdd
 Yn holl eofndra rhyddid dreiglant ffwrdd
 Ar hyd ei bronnau, yn ddiystyr o
 Ragfuriau 'r bryn, ac amdroadau 'r fro;—

O'n cestyll gwag, trwy efelyddol ddawn
Ffyddlawn i natur, tynnai ardeb llawn.

Mor gywir y darluniai 'r chwyn orchuddiai 'r fan lle bu
Gwroniaid yn eu rhwysg cyn hyn yn herio estron lu!

Mor gywir hefyd tynnai ddrych
O'r eiddew 'n dringo 'r muriau gwych
Yn glynu 'n ffyddlawn wrth y wal
Er digter gwyntoedd oesau, mal
A'u breichiau eiddil ar led ban
Yn penderfynu 'u dal i lan
Yn brawf i'r byd a'r wybren faith
O'r hyn fu Cymru deg un waith.

Ei hun yn berffaith rydd, e fynnai ddwyn
I ereill berffaith ryddid. Clywai gwyn
Yr Affricaniaid alltudiedig sy
Dan haiarn law caethiwed a'i drem hy
Yn taflu cwmwl lliidiog ar dy wawl,
Amerig! cwmwl digter Duw! Y sawl
Fyth na archwaethant ddafn o falm hedd
Yng ngwpan chwerw eu bywyd, fyth a'u gwedd
Yn brudd gan dristwch, a'u mynwesau 'n llawn
O ddrylliau calon friw, a seibiol nawn—
Pan gloa 'r haul ei amrant aur, a phan
Y disgyn hedd i adfywhau y gwan
A pharotol lluddedig fyd, trwy flydd
Orffwysdra, i drallodau arall dydd,
Yn fore iddynt hwy!--y sawl ni chânt
O oes i oes un Sabboth; na fwynhant
Ddisgwyliad am un fendith well na bedd;
Y rhai na alwant angau, uthr ei wedd,
Yn frenin dychryn, ond yn borthor mad
Yng nghyntedd anibyniaeth a rhyddhad,—
Oedd gyfaill iddynt. Galwai hwynt i gyd
Yn frodyr o un gwaed, er nad un pryd.
Y cnewllyn nid yw waelach os yw 'r plisg
Yn felyn neu yn ddu. Dan wynnaf wisg
Mae 'r galon dduaf. Muria 'r duaf groen
Fron lawn dynoliaeth yn ei gwae a'i hoen.

Fe dorrid distaw swyn y nos yn aml â saeth ei weddi daer
Yn hedeg trwy yr wybren dlos i fyny i'r orseddfa glaer—

Ei weddi daer am doriad gwawr
Haul rhyddid ar y fagidu fawr.

Llenyddol Gymdeithasau 'i wlad,
 Beth oeddynt heb ei wyddfod mad
 Ond cyrff heb anadl, peiriain cryf
 Heb agerdd nac ermigydd hyf.
 Eisteddfod wech y Fenni! Pwy
 A leinw ei gader ynddi mwy?
 Ysgogydd yr holl beiriant mawr
 Nid ysgog heddyw yn y llawr.
 Y tafod a ollyngai ffrwd
 Lifeiriol o wladgarwch brwd
 Sy heddyw 'n fferru 'n iâ y bedd,
 Yn fud yn nyfnder bythol hedd.
 Efe oedd galon y Gymdeithas bur
 A yrrai ynni i bob aelod wir,
 Gan fywiocau yr oll. Bu 'n dyner dad
 I'w meithrin hi â llaeth gwybodaeth fad,
 A diliau mêl athroniaeth. Dyrchodd hi
 I sylw tywysogion. Dododd fri
 Ac argraff anfarwoldeb ar ei chlod.
 I efelychiad gwledydd gwnaeth hi 'n nod.
 Gallasai llyw y deyrnas fwya 'i bri
 Ymfrostio sefyll wrth ei phenial hi.
 Hi yr i'r cysgod gymdeithasau 'r byd,
 Fel haul yn gorddisgleirio ei amblanedau i gyd.

E gyfoethogai *Seren Gomer* gu
 A darnau drudfawr o drysorfa lawn
 Ei hynafiaethau; ac addurnai hi
 A gemau disglær ei lenyddol ddawn.

Tywalltodd ddylif ei athrylith lawn
 Trwy gyfrwng syn ei "Gyffrawd." Creol ddawn—
 Dawn grea feddyldrychau—ynddo gawn
 A drych disgleiriaf o ddarfelydd llawn.
 Dylinaï olion rhawd gwareiddiad mad
 Ac ymerodraeth deg o wlad i wlad.

Anrheithiwr dyn a daear, angau du!
 Nid digon i dy wanc ein Hiolo gu,
 Ein cuaf Iolo, y disgleiriaf em
 Yng nghoron Cymru. Brathid dy saeth lem
 I galon Carnhuanawc; cymer mwy
 Y cyfan wedi 'r fath angeuol glwy.
 Paham y daliaï 'r lluoedd yr arf mwy
 Ar ol i'r pencadfridog syrthio! Pwy

Drig yn yr ysgol wedi i'r athro mad
Ddifiannu! Heb Carnhuanawc llwm yw 'n gwlad.

Nid ei wladgarwch a'i athrylith gref
Yn unig drwsient ei gymeriad ef
A thlysau anfarwoldeb. Rhin yr Iawn
Ar Galfari, fu 'n nod i'w uchel ddawn.
Dadblygai faner hedd o flaen y byd,
Achubiaeth lawn, a rhadau gras i gyd.

Carnhuanawc yn ei fywyd! Bu yr enw 'n swyn i glyw y bardd,
Wrth ei bêr sain yr awen gu esgynnai ar ei haden hardd,
Trwy wybr llên, ei uchel glod
A chwyddai ar bereiddiaf nod.

Carnhuanawc yn y fynwent! Mae yr enw yno 'n llawn o swyn
Ei goffadwriaeth sy 'n parhau yn bêr fel arogl blodau mwyn.
A thra bo Cymru 'n Gymru—bydd
Costrelau serch yn gwlychu 'i bridd.

Rhown her it, angau, er fod oesau maith
O'th flaen yn fantais i gyflawni 'r gwaith,
Er fod ein brawd o dan dy farwol glo,
Yn tawel huno yn dy farwol fro,
Rhown her, eofnaf her i'th auaf du
I dafu gwywder ar ei delaid fri.

Rhinweddau Carnhuanawc! Tragwyddol ieuainc ynt,
A phrawf yn erbyn malldod angeuol wywol wynt;
A bythol ieuainc fyddant o dan dymherus hin
Pan, dan helbulon henaint, y trenga amser blin.

A! nid oes gwywder i enwogrwydd gwir,
Na bedd nac angau i gymeriad pur.

Ar ei orffwysfa 'ng ngol y fynwent brudd
Na choder colofn harddfawr. Bro dan hudd,
Mae 'n wir, yw 'r bedd; hoff fro distawrwydd yw
Lle edwa rhos ein bywyd; yno, gwyw
Yw blodau ir ieuencid; pryd yr hardd
Sy welw yno; yno mud y bardd,
Ei delyn yno ar gysgodion taw
Fyth hongia; yno barddol swyn ni ddaw;
Ond yno rhinwedd ar anfarwol wedd
Flagura. Rhinwedd heria allu 'r bedd

A'i swyngyfaredd, i'w diwreiddio hi
 O gof, neu dafu cwmwl ar ei bri.
 Bedd ein hoff, hoff Garnhuanawc beunydd sy
 Yn olau dan adlewyrch y gwawl fu
 Mewn gloewaf riniau yn tywynnu 'n llawn
 Trwy ddrych ei fuchedd a'i odidog ddawn.
 Dos, sennwr! sydd a'th halog fys i lan
 A'i nod at frychau du, at bethau gwan
 Mewn nodwedd disglær; dos at fedd ein brawd,
 A weli yno nod i sen a gwawd?
 Rhy gysegredig yw y lle, rhy glaer
 Gan loewder haeddiant! Yma llen ni chair.
 Disgleirïaf riniau a wawlhânt y fan,
 A gobaith adgyfodiad gwell i lan
 I wisgo mentyll anfarwoldeb fry
 Fel haul gorona y disgleirder cu.

Y bedd! enw arall ar ddistawrwydd. Hedd
 Tragwyddol osteg a gysegra 'r bedd.
 Ond eithriad, Carnhuanawc, dy fedd di;
 Y dyn a ddysgwyd yn iaith natur gu,
 A all yfed o'r awelon arawd pur,
 A sugno meddwl o'r blodeuyn mir,
 Efe—ac O! fy Nghymru! pa sawl un
 O'r fath a rifi 'mhlith dy blant dy hun!—
 Efe, uwch ben dy fedd, Carnhuanawc gu,
 Glyw awenyddion yn adseinio 'th fri.
 Neb, dim ni wel; ond sain clodforedd glyw,
 Sain haedd ar dannau cof tragwyddol yw.

Yr awel a anadla uwch y lle
 I'r fynwent sy 'n trosglwyddo marwnad ne.
 Y blodau heirdd addurnant fron ei fedd,
 Trwy 'u bythol wyrdd a'u haniflannol wedd
 Ront arlun o brydferthwch ei foes gu,
 A'i rwysg dan goron anfarwoldeb fry.

Ni fedd chwarelau 'r byd un maen
 Wna adail deilwng i'w goffhau,
 Mud gyfrwng fyddai marmor cain
 Ei fri a'i rinwedd i barhau;
 Gwell ambell ddeigryn ar ei fedd
 Na mil o feini gwych eu gwedd.

Dewch feirdd, a thynnwn flodyn hardd
 Yn wlyb o'r gwllith, yn ffres o'r ardd,

I'w blannu ar ei ddistaw fedd,
Tra ffrwd o ddagrau 'n golchi 'n gwedd,
A'n gwyneb tua'r ddaear werdd
O canwn iddo olaf gerdd!

Hedd, Carnhuanawc, hedd
I'th lwch yng ngwely'r pridd;
Boed enfys cymod dros dy fedd
Yn arwydd llon o'r dydd
Y gyrra trydan anfarwoldeb drud
Elfennau bywyd trwy fynwentydd byd.

WILLIAM PARRY, 39, PARADE, CAERDYDD.

FE gaed i deulu Myrddin ragoriaeth glân a bri;
Caed rhinwedd hardd cyffelyb i deulu'r Bronwydd gu;
Ond daeth holl ragoriaethau y ddau yn un, yn wir,
Pan wnest ti 'th ymddanghosiad, O William Parry bur.

Dwy nant fu ger eu gilydd o burdeb crisial glân,
Yn gruddfan serch bob hwyrdydydd, ond lleddf oedd sain eu cân;
Ond heddyw llwyr anghofiant holl nodau poen a chur,
A'r ddwy a lon gymysgant yn William Parry bur.

O fachgen tlws! mae 'th gariad yn eang, fel y môr;
Ond gwyddost pwy i'w garu, rhag pwy i gau y ddôr;
Mae gennyt lygad craffus, er dim ond agor braidd,
A gelwir un yn ewyrth na pherthyn dim i'th wraidd.

Pa beth sy'n peri hynny, ai bardd wyt tithau i fod,
Rhagorach fil na 'th ewyrth, a llawer uwch dy glod?
Os unwaith bwri allan egin y farddol ddawn,
Gofala 'th dad, 'rwy'n sicr, y caiff ddadblygiad llawn.

Mi welaf yn dy wenau serchiadau 'th fam i gyd,
Yr oreu ferch a anwyd i hyn o farwol fyd;
Ac yn dy wrol agwedd, ar ddechreu 'th yrfa fad,
Mi welaf sel anhyblyg a dewrder cryf dy dad.

Os cei di einioes hirfaith, aed clod y Fronwydd fawr,
A rhinwedd teulu Myrddin, at lawer oes i lawr,
Y ddau yn gymhlethedig, y ddau yn llawn a chlir—
Bydd ffyddlawn i'th hynafiaid, O William Parry bur.

I'th dad tyf fwyfwy'n debyg, dy gynllun fydd efe;
Yn llwyr, fel fe, yn mhopeth byth ar yr ochor dde;
Dilyna lwybrau i rinwedd, gocheli lawer cur,
Ac yna i dangnefedd aiff William Parry bur.

ADGOFION AM BENJAMIN MILES, PANT TYWYLL.

A DDERFYDD pererindod anwyfaf ysbryd cerdd
 Yng nglyn y tywyll feddrod? Na! mae tywarchen werdd
 Yn ymyl, beddrod newydd tu hwnt i feddrod du,
 Yn galw am dagrau beunydd ar ol y dagrau fu.

O! fyd y groes a'r beddau, ai ti yn unig gawn?
 Ai ni ddaw disglær forau ar ol y fath brydnawn?
 O ben mynyddoedd gobaith edrychaf am y wlad
 A seliwyd gynt mewn arfaeth i'r gwynfydedig had.

Afonydd a redasant o'm llygaid, trwy y glyn,
 Pan gofiwn a'm carasant flynyddau maith cyn hyn;
 Gweld cyfaill ar ol cyfaill yn pasio'r terfyn maith,
 I wynfyd bydoedd eraill, tra ninnau ar y daith.

Mae'n brodyr yn ein gado ar stormus fryniau'r byd,
 Eu hunan yn ymado i'r wlad sy'n heddi gyd;
 O henffych ddydd cawn eto gwrdd yn y dawel wlad,
 Lle nad oes mwy ymado—un teulu ac un Tad.

Ac eto braidd na chyfeiliornai dyn,
 Gan anheu cariad y tragwyddol Gun
 Sy'n eistedd ar lifeiriaint Rhagluniaethau,
 A'i olwg bythoedd ar dragwyddol draethau;
 Gweld haf o'r rhiniau a'r gobeithion llawnaf
 Yn troi mewn un-nos yn dragwyddol auaf;
 A mynwes lawn o dân a duwiol ynni
 Dan gauad bedd ar unwaith yn diffoddi.
 Braidd na ofynnai tad galarus beunydd,
 A'i fraich yn pwyso ar y beddfaen newydd,
 Yn llesg gofleidio'r arwydd olaf mwyach
 O enw a chymeriad mil gwresocach—
 Paham ei rhoddwyd imi? O paham
 Mor deilwng o serchiadau tad a mam,
 I'w rwygo ymaith gyda braich mor erwin?
 Fe wnelsai gwaelach gardd ar gyfer y fath ddrycin.
 Ni chawsom braidd ond hamdden idd ei garu,
 Ond hamdden braidd i'w deilwng werthfawrogi,
 Ei weled ef yn nhorriad ei hawddgarwch,
 Cyn cau o feddrod ar yr holl brydferthwch.
 Fe byddai beddfaen am bob calon, gwn
 Y byddai llawer uwch y beddrod hwn.
 Gwaghawyd ein calonnau uwch ei fedd
 O'u gobaith olaf, ac o'u holaf heddi.

Yn dawel, frawd! os yw
 Rhagluniaeth nef
 I ti heb angor a heb lyw,
 Nid felly iddo ef;
 Mae'r oll yn olau i dy Dad,
 Mae yn ei law gywiraf helm,
 Ac yn ei olwg wlad.

Ymdafia ar dy ffydd
 Fe ddaw dy Ior—
 Fe ddaw yr Iesu atat
 Gan rodio ar y môr!
 Yn lle dyweyd,—“Drychiolaeth yw,”
 Cofleidia ef, dy Frawd, dy Dduw.

A gofyn iddo ef,—
 “O Arglwydd, arch i mi
 Ddod atat ar y dyfroedd,
 Atat fry!
 Mae'n werth im ddyfod dros y lli,
 Dros fyd o donnau, atat ti.”

Nid yr ochr yma'n unig
 A roddwyd dan ei law,
 Gorchymynna i'w anwylion
 Fynd drosodd i'r lan draw;
 Ac O, na chlywem ninnau mwy
 Yr arch i groesi atynt hwy.

Paham yr wyli, frawd?
 A ydyw'r Duwdod mawr
 Yn darfod lle y derfydd
 Abwydyn gwael y llawr!
 Pam y caethiwi'r dwyfol Un
 O fewn terfynau deall dyn?

Gad ddwylaw Ior yn rhydd,
 Gad iddo fynd ymlaen
 A'i gynllun mawr o gariad
 I mewn i'r byd tu draw i'r bedd a daen;
 Un act o gariad yw i gyd
 I fyny hyd esgynlawr yr anherfynol fyd.

Cei roi i ddyfroedd teimlad
 Lifddor lawn
 Er hynny—mae dy Geidwad
 Yn cofio y prydawn

Y safodd yntau yn ddi-bris
Ar ymyl beddrod Lazarus.

Fe aeth i nef y nefoedd
A holl deimladau dyn
Yn fywiog yn ei fynwes,
A chalon fel yr un
Sy'n troi yn ddyfroedd ac yn llyn
Ar ol dy anwyl Benjamin.

Y beddargref.

Y storom a ddisgwylid, yn ei lle
Y porthladd ddaeth, dymunol hafn y ne.
Gofidiau oed a henaint basiodd ef,
A'i ienctyd anfarwolwyd yn y nef.

SARAH ANN LEWIS.*

RHYFEDD yw y cyfnewidiad, Pandy Machen, yn dy wedd;
Mae dy weld yn gwneyd im feddwl heddyw'n brudd am
lauer bedd.

Lle na welais ddim ond gwenau, cariad, a siriolder mawr,
Nid oes dim yn awr ond dagrau, nid oes dim ond beddau'n awr.

Ble mae Gwilym Ilid addfwyn welwyd yma'n llond y lle?
Ble mae'r hyfryd gynghaneddion swynent Ogledd pell a De?
Ble mae Eisteddfodau'r Fenni a'i coronodd lauer tro?
O'r ardderchog wyliau hynny, nid oes dim yn awr ond co.

Darfu'r ymdaith dros y Waren i gael treulio hwyr o hedd
Yn y Pandy gyda'r Awen, darfu y farddonol wledd;
Nid yw per gyfeillach Ilid im ond adgof erbyn hyn,
Ac mae siriol lais ei briod wedi tewi yn y glyn.

Dacw'r cauadlenni eto—unwaith eto—oll i lawr;
Angau eto sy'n toi'r Pandy â rhyw gwmwl dudew, mawr.
Pwy, yn awr, fy mrawd, gymerwyd, *Sarah Ann, dy unig ferch,*
Am yr hon y llwyr gylmwyd holl reffynau aur dy serch?

Pe buasai gennyt ragor o rai tebyg iddi hi,
Ti allesit f'allai hebgor un i law y gelyn du;
Ond ni fedd yr angau galon, ac er nas meddit ond yr un,
Trawodd hon i lawr yn greulon tra ym mhleth dy freichiau cun.

* Unig ferch D. Lewis, Pandy, Machen, yr hon a hunodd yn yr Iesu
Mai 12, 1877, yn 17 oed.

Nid oedd dy lifeiriol dlagrau ganddo ef ond gwawd i gyd,
Na dy ryfedd ymdrechiadau i'w hadferu ar bob pryd;
Gweithiai dan ei chyfansoddiad gyda rhyw ffyrnigrwydd mawr,
Ac ni pheidiodd nes i'r babell fechan, frau falurio i lawr.

Ofer cyfoeth, ofer cariad, ofer gobaith, ofer ffydd,
Ofer tadol wyliadwriaeth ar ei oreu nos a dydd;
Ofer newydd ddyllanwadau, amgylchiadau goreu'r byd,
Newid lle a newid awyr fu'n oferedd gwag i gyd.

Ond, fy mrawd, nid ofer ydyw gobaith yr Efengyl fawr;
Erys hwn yn gadarn heddyw er ei mynd i fedd i lawr,
Merch i ti—ond chwaer i Iesu,—hawdd y gelli ollwng mwy
Dy ryfeddol afael arni i afaelion Un sydd fwy.

Llawer o dduwiolion enwog, dynion cedyrn yn y ffydd
Oent, er hyn, gan ofn marwolaeth, mewn caethiwed nos a dydd;
Ond dy feich mewn hedd wrandawai ar yr hen Iorddonen ddu;
Nid oedd swm ei chryfion donnau ond peroriaeth iddi hi.

Wedi iddi led-ddyfalw barn rhyw feddyg mawr ei fri,
Nad oedl dim ond marw iddi, dim ond croesi'r afon ddu,
Ni feddylodd am yr *afon*, dim ond am yr *ochor draw*;
Er mor egwan, er mor eiddil, byth ni theimlai unrhyw fraw.

'R oedd ei ffydd yn apostolaidd, ac edrychai ar y bedd
Fel y porth i'r byd nefolaidd, fel poen byr cyn bythol hedd;
“*Mae hi drosodd arnaf*,” meddai, ond dywedai hyn mor llon
A phe buasai'n newydd hyfryd llawn o hedd i'w chlwyfus fron.

Unwaith aeth i Arddanghosfa oedd yn llawn heirdd ddelwau mad,
Holai'r fechan—“Beth sydd yma?” “Dyma'r Nefoedd” meddai'i
“Nage” meddai'r fach synedig, “Nid y Nefoedd yw y lle, [thad—
Nid yw'r *Arglwydd Iesu* yma, ac nid oes Nefoedd hebdo Fe.”

Dwedodd unwaith y carasai fynd i'r Nefoedd *gyda'i thad*;
Gwell er hyn, fy mrawd, fu iddi dy ragflaenu i'r nefol wlad;
Nid oes pryder mwy am dani, dim am dani *hi* byth mwy;
Sarah Ann, pwy bynnag gwyno, sy uwchlaw pob loes a chlwy.

Hoffai'r môr—rwyf finnau'n hoffi sain y dyfnder, swyn y don—
'Roedd y môr yn sugno'i meddwl fry at Dduw a'r Wynfa lon;
O Benarth a'i gopa nerthol syllu wnelai lawer awr,
Ond mae'r môr, Penarth, a'r angau oll tu cefn iddi'n awr.

Canu gyda'r hoff berdones wnai'th anwylaf Sarah Ann,
Canu yn swm yr hen Iorddonen, am “Un a wrendy weddi'r gwan;”
Eiddil oedd ei llais, ond cadarn oedd y Gŵr ganmolai hi,
A chadd newid y piano am y delyn aur sydd fry

NORA RACHEL.*

TYWYDD teg heb awel groes,
 Nora Rachel, fu dy oes ;
 Mordaith fer dros lyn di-don
 Cyflym fel drychfeddwl bron,
 Yna glanio yn ddi-glwy
 Ar y traeth anfarwol mwy.

Nora Rachel, eneth dlos,
 Ni chest wybod beth yw nos ;
 Hanner awr
 Yn y wawr
 Yna bythol ddydd o hedd ;
 Yn y wlad tu draw i'r bedd
 Ni chaiff Nora eneth dlos
 Wybod byth pa beth yw nos.

Aethum frig yr hwyr i'm gardd,
 Gwelais yno flodyn hardd,
 Aethum eilwaith gyda 'r wawr,
 Nid oedd yno ond ei sawr ;
 'R oedd aderyn ar y brig
 A'm blodeyn yn ei big.

Cawsom olwg ar dy bryd
 Dim ond unwaith, dyna i gyd ;
 Pan edrychem yr ail waith
 Gwelem angel ar ei daith
 A thi ganddo, Nora wiw,
 Fry fel anrheg teg i Dduw.
 Gwelai 'r nef ystorm o draw
 A'r cymylau 'n llawn o wlaw ;
 Ar ddu wybren canol oes
 Gwelai 'r niwloedd pell, a'r groes,
 A thosturiodd, Nora lon,
 Wrthyt cyn it gychwyn bron.
 Mynnai it osgoi yn llwyr
 Boethder dydd a thrynni 'r hwyr.

Pam yr wylwch, riaint eu,
 Pan mae Nora 'n canu fry ?
 O, dywedwch,—“ Digon yw
 Y mae Nora gyda Duw.

* Merch Mr. a Mrs. Phillips, Twynrodyn House, Llansamlet, (15 mis oed).

Y mae gennym yn y nef.
 Angel blentyn iddo ef.
 Mae ein Nora Rachel fach
 Heddyw yn dragwyddol iach."

ANNIE MARY.*

ARFERAI Annie Mary ddyweyd yn forau iawn,—
 "Mi garwn fod yn angel," 'r oedd yn angel cyn prydawn.
 Yr wyf yn cenfigennu wrth Annie Mary fach,
 Am nychu ond am ryw chwe mlwydd, cyn bod yn fythol iach.

Ces lawer storom arw yn ystod f'oes erioed,
 Gwyn fyd na buaswn farw pan ddim ond chwe mlwydd oed;
 Bu farw Annie Mary cyn teimlo 'r boen o fyw,
 Cyn cyffwrdd bron â'r ddaear hon, ehedodd fry at Dduw.

Ni welais Annie Mary ond dwy waith yn fy oes,
 A theimlais mai rhyw farwol fai, fai iddi deimlo loes;
 Yr oedd yn hŷn na 'i hoedran, a theimlai 'r nef ei hun,
 'R un fath a mi, ac aeth a hi, o gyrraedd gofid blin.

Bu chwaer i Annie Mary, sef Nora Rachel fwyn;
 Arferai Annie Mary ddweyd, a'i llais yn llawn o swyn,—
 "Mi wn pa le mae Nora," gan bwyntio tua 'r nef,
 Ac yno'n glyd mae'r ddwy ynghyd yn canu "Iddo Ef."

Pan laniodd Annie Mary yn iach yr ochor draw,
 'R oedd Nora fach, yn fythol iach, yn estyn iddi ei llaw;
 A dug ei chwaer dan goron glaer ger bron yr orsedd wen,
 Byth, byth, mae'r ddwy yn canu mwy, i'r Gŵr fu ar y pren.

Mae'n rhaid i natur egwan i gael ei ffordd i gyd,
 Mae'n rhaid i natur wylo ar lan y bedd o hyd;
 Er hynny, hoff rieni, mae cysur cryf i chwi,
 Mae gennych ddwy yn canu mwy ger bron yr orsedd fry.

Flynyddau'n ol, p'odd cenais i? "Mae gennych blentyn mwy,
 Oes ferch yn nef y nefoedd fry," ond 'n awr mae gennych ddwy;
 Pam wylwch mwy a chennych ddwy ymysg cerubiaid pur?
 Eich unig nod a ddylai fod, fynd atynt cyn bo hir.

* Anwyl ferch Mr. a Mrs. Phillips, Twynrodyn House, Llansamlet.

Mae Nora dros yr afon, ac Annie Mary mwy,
 A chulach 'n awr yw 'r afon fawr i groesi atynt hwy;
 Chwi groeswch afon angau yn awr heb unrhyw fraw,
 O'u clywed hwy, y ddedwydd ddwy, yn canu 'r ochor draw.

Mae 'ch cysylltiadau pennaf yn awr yng ngwlad y nef;
 Y mae eich dwy anwylaf mwy ger bron ei orsedd Ef;
 Beth sydd yr ochr yma i glymu 'ch serch yn hwy?
 O! dim at sy tu hwnt i'r lli, lle mae y ddedwydd ddwy.

 E R C O F . *

CANFYDDAIS long odidog gynt, yn hwylio ger y lan,
 Gwydr oedd y môr, cân oedd y gwynt, Paradwys oedd y fan;
 Ond trodd yn sydyn o amgylch penrhyn,
 A ffwrdd o'm golwg ffodd.
 Mi wylais ar ei hol yn hir,
 Nes mynd i ben y penrhyn clir,
 A gweld yr hafn i'r hon y trodd.

Fel hynny y canfyddais ef yn hwylio un prydawn,
 O amgylch penrhyn angau du, mewn dyfroedd cryfion iawn;
 Yn sydyn ffodd—collasom ef—
 Tu arall i'r farwolgraig gref,
 Ond troi a wnaeth
 I ddwyfol draeth,
 I mewn i borthladd nef y nef.

Dilynodd Iesu yn ddi-baid mewn anwadalwch pur,
 Cysondeb yn ei grefydd gaed o flwydd i flwyddyn hir.

Mae crefydd rhai fel comed wyllt heb reol iddi 'n bod,
 Ei grefydd ef oedd fel yr haul bob dydd yn llanw ei rhod.

Crefyddol yn y teulu clyd ac yn y drystiog dref,
 Crefyddol fyddai ar y stryd fel yng nghynteddau 'r nef.

Sefydlog oedd yn Seion gynt fel derwen lonydd gre,
 Trwy haf a gauaf, gwres a gwynt, caed Watkins yn ei le.

Galarodd Seion ddyddiau hir ar ol ei blaenor mad,
 Fel praidd ar ol eu bugail pur, fel-teulu ar ol eu tad.

Addfwynder ar ei dymer gaed, boddlondeb ar ei wedd,
 Ac ni oddefai byth i ddim gythryblu ei fewnol hedd.

* Am y diweddar Mr. Watkins, blaenor parchus yn Eglwys y Trinity, Abertawe.

Os codai môr gorthrymder byd, parhâi ef yn llon,
Fel llestr ysgafn nefol clyd, fe godai gyda'r don.

Fe godai gyda'r don i'r lan, a suddai 'n ol yn fwyn,
Yn erbyn cwrs Rhagluniaeth nef ni chodai air na chwŷyn.

Mae'r fôrdaith drosodd erbyn hyn, newidiodd donnog fôr
Am hafn o anfarwol hedd o fewn i gariad Ior.

Mae'n canu heddyw ar y traeth, lle nid yw'r storm yn dod,
Lle nid oes gofid, poen, nac aeth, na chysgod bedd yn bod.

Fel afon ddofn cynyddai 'i grefydd ef
Wrth agoshau at fôr dedwyddyd nef;
Preswyliai engyl yn ei hymyl hi,
Bob ochr blodau rhinwedd geid ar daen,
Hi olchai lan cymdeithas ar bob tu,
A phan ymgollai yn y bythol li
Gadawai'r byd yn burach nag o'r blaen.

'R oedd awr yn ei gymdeithas ef,
Fel awr ar un o draethau'r nef,
Yng nghlyw rhyw gerdd nefolaidd lon,
Yn hyfryd swm rhyw ddwyfol don.

Gadawodd ar ei ol i'r byd esiampl lawn o ddwyfol hedd,
Gadawodd lwybr gwyn i gyd i lawr hyd borth y bedd.

Ei fywyd sydd fel prydferth ddôl, a thrwy ei chanol lwybyr cul,
O! rhodiwn ninnau yn ei ol, trwy orthrymderau fil.

WILLIAM JOHN, ABERTAWE.*

Y MAE fy adgof prudd am dano ef
Fel adgof am ryw angel pur o'r nef,
A welais unwaith yn fy mreuddwyd llon
Yn rhodio ar binaclau'r ddaear hon.
Rhyfeddu'r ym yn awr, er mor hiraethog,
I'r nef ei adael cyd mewn byd mor halog,
Byd nad oedd nemawr cydymdeinlad ganddo,
Trwy ystod bywyd maith, â dim sydd ynddo.
A fu'r fath un, fy nghyfaill, yn ein mysg?
A fu'r fath burdeb mewn daearol wisg?
Wyf bron yn ameu; ond dy ddagrau heddyw
A dystiolaethant mai gwirionedd ydyw.

* Cyflwynedig i'w fab yng nghyfraith, Mr. J. Rosser.

Pe byddai cwmwl llawn o farnau'r nef
Yn hongian yn fygythiol goruwch tref,
Un o'i fath ef

Mewn heol lonydd, bell, ddienw
Wasgarai'r cwmwl enbyd hwnnŵ.
Fel dwyfol wynt, ei weddi gref
Ymlidiai'r niwl i gyd o'r nef.

Yr ym yn teimlo pan y collom un
O'i dduwiolfrydedd ef, a'i ryfedd rin,
Fod un dadleuwr llai o'n tu
Er mwyn yr hwn caed Ior o'n hochor ni.

Mor bur trwy ganol halogedig fyd
Y teithiodd ef, mor lân ei wisg o hyd!
Cerddai mor ysgafn dros y ddaear hon,
Ni chasglai ddim o laid ei llygredd, bron.
O! gymaint uwch na ni preswyliai ef
Bob dydd, a'i ymarweddiad yn y nef,
Yn ddigon uchel fry i ganfod gwawr
Ardderchog ddydd yr adgyfodiad mawr,
Pan gwyd ei gorff i'r uchder pur a dwyfol
Lle y preswyliai 'i ysbryd yn wastadol.

Pan fyddai arddanghosfa yn y dref,
Idd ei ystafell ddirgel elai ef.
Ni chlywai braidd olwynion masnach byd,
Na gyriad y cerbydau trwy'r ystryd.
Fel môr yn boddî swm y ffrydiau sydd
Yn cydlifeirio iddo nos a dydd,
Efelly môr eangaf Tragwyddoldeb
A lanwai fyth yn uwch ar draeth ei bell dduwioldeb—
Llwyr foddai swm y byd, swm afon amser,
Dros raiadr angau sydd yn syrthio i'r bythol ddyfnder.

Meddyliais heddyw, gyfaill ffyddlawn, gwiw,
Mai yn y pentref y dylasai fyw,
Neu mewn unigaidd dŷ ar ael y bryn,
Yn swm y rhaiadr tragwyddol wyn
(Gwyn fel ei ysbryd ef)—rhyw bell uchelfan,
O swm y byd ar fynwes buraf anian.
Ond digon nerthol oedd ei grefydd ef
I fyw yn santaidd yn y boblog dref.
A! digon cref oedd aden ei dduwioldeb
I'w godi ef at bothau tragwyddoldeb
O ganol twrf y byd a'i ddaearoldeb

Nac wylwn mwyach ar ei ol, fy mrawd ;
 Ond ar ei ol dilynwn yn ei rawd.
 Wrth syllu 'n ol, y mae ei lwybr ef
 Yn oleu nes ymgolli yn y nef.
 Cul lwybr oedd trwy ystod einioes faith,
 Ond tua phen—godidog ben y daith,
 Yn sydyn trodd i'r heol ddwyfol sy
 Yn llawn dragwyddol gan dorfeydd diri
 O waredigion ac angylion fry.

Ffarwel, ardderchog gyfaill, hyd y borau
 Y cawn dy gwrrdyd yn y pell ororau,
 Gororau nad oes mynwent yn eu duo,
 Na moroedd y mwynhad byth, byth yn treio.
 Gorffwysfa gyda 'r seintiau fry sy 'n canu,
 Y rhai nid oedd y byd yn deilwng o'u meddiannu.

 ER COF AM ANN.*

Y M mlodau 'i dyddiau diddan
 I fedd oer fe wywodd Ann.
 Diau ni roes angau syn
 Ymosodiad mwy sydyn ;
 Anheus wyf am y son
 O dorri i lawr Ann dirion.
 Ow ! dorri mewn rhyw deirawr
 Fath degwch i lwch oer lawr !
 Ein hygar Ann ! Ai gwir yw
 Dy roddiad i ar heddyw ?
 A enhuddwyd brydnawn heddyw
 Dy bur wedd—d'wed, ai breuddwyd yw ?
 Ni elwn i gan alar
 Sydyn, i'th ddilyn i'th ar ;
 Dy gefnder, rhy dyner dyn
 I ddylaith oer dy ddilyn.
 Gwae ludd ! Pwy allai gladdu
 Yn nhymor gwawr, Ann mor gu ?

Mae 'n eira ! O, mae 'n aros
 Ar dy lwch, Ann dyner dlos !
 Bwrw ei seintiol buredd,
 Eira Duw fyn ar dy fedd.

* Priod Mr. Edmund Williams, Pontllanfraith, yr hon a fu farw yn dra sydyn
 Mawrth 6, 1876, yn 34 oed.

Mae 'n hwyr, rhy hwyr i eira,
 Ond er mwyn Ann ddiddan dda—
 I hardd lân arwyddlunio
 Dy burder, gwiwder dy go.

Ber dy oes briodasol;
 Mae 'n drist gweld Edmund ar ol.
 Wylaf od af, wr di-hedd,
 Yn agos i'w unigedd.
 Fy awen brudd ni fyn bron
 Ei weled, wr anhylon.
 Aniddan heb Ann beunydd,
 Heb Ann a'i serch ba hoen sydd?
 O, gwmwl dig! Mal y daeth
 Y groglenog Ragluniaeth
 Dros ei aelwyd siriolwedd!
 Dyddiau rhy forau i fedd.

Ann wenlwys, gorffwys yn gu
 Isod, nes delo Iesu
 I'th alw o fedd i'th ail fyd,
 Faith lwyddfawr fythol hawddfyd.
 Doi o'r llwch, wedi'r holl lid,
 O âr Beulah 'n drybelid;
 Gwahanol fythol a fydd
 Yn Nuw, dy arwedd newydd;
 Gwedd loew, dragwyddol ieuanc,
 Uwch gofal trist, uwch gafael tranc.
 Hynod fydd dod o fedd dig,
 Gyda'r dorf fendigedig,
 I fyw byth yn y nef bau,
 Heb ail ing, heb ol angau.
 Henffych wiwfad bêr adeg,
 Fy nghyfnither dyner deg!

Glyn, brydnawn ei hinglawn angladd

 Y M O R W R .

O, MAE un galon dyner ymhell tu hwnt i'r lli,
 Oes, mae un galon heno yn teimlo drosot ti;
 Lle cwyd y lan ei hysgwydd o greigiau draws y llif,
 A'r tonnau yn addoli wrth draed y creigiau hŷf;
 Lle eistedd, rhwng y tonnau yr Ynys fawr ei bri,
 A'r moroedd yn cydnabod ei maith awdurdod hi;

O! y mae llygad yno yn effro trwy y nos,
 A'i dagrau ar ei grudd fel gwllith ar dyner rudd y rhos.
 Mae 'th gof yn arogl hyfryd, a'th enw 'n brid i'w brun,
 A'i chariad yn ei mynwes lân ar dân yr ennyd hon.
 Hi glywodd lais yr awel fu 'n dawel fwyn y dydd,
 Yn rhuo o'r mynyddau, a'r storm o'i rhwymau 'n rhydd,
 Yn galw ar y moroedd i godi ar bob tu,
 Trwy 'i hudgorn o daranau, ei nerthol udgorn fry.
 O! mae y ddawn ddarlunia yr aeth a'r ofnau syn,
 Y pryder, a'r distawrwydd, a'r anadlu byr, bryd hyn?
 A'i baban ar ei mynwes hi elai at y ddôr—
 Y mae ei thŷ yn sefyll ar ael yng ngwydd y môr.
 Yr oedd y tonnau 'n disgyn fel deri ar y traeth,
 A thaffai 'r môr o'i safn gwyn afonydd pur o laeth;
 A chodai ambell wendon o eigion du yr aig,
 Fel mynydd mawr o ddyfroedd yn uchel dros y graig.
 Arweiniai 'r gwynt y tonnau yn wynion tua 'r lan
 Reng ar ol rheng, a gyrrai y gwllaw fel tonnau ban;
 A'r mur o greigiau gwynion ym mron y llanw cryf
 Orchuddid obry, a'u pennau yn aml dan y llif.
 Yn awr arllwysa 'r nefoedd ei thrysorfeydd o wllaw
 Fel nentydd o'r cymylau, a chwyd y môr bob llaw.
 O, mae y ddawn ddarlunia yr aeth a'r ofnau syn,
 Y pryder, y distawrwydd, a'r olwg drom bryd hyn?
 Edrycha ar ei baban, ei baban tyner, mwyn;
 Mae 'n gwenu ar ei mynwes, a'i wên yn llawn o swyn.
 O na bai llygad gan y storm! Mae 'n gwenu ar ei bron,
 Angylaidd ddiniweidrwydd yn gwenu 'r funud hon.
 Edrycha tua 'r wybren, uwchlaw 'r cymylog do;
 Mae dinas fawr y ser dan len, a phyrth y nef ynghlo.
 Ust, ust! pa brudd ochenaid, pa lais wylofain sy
 Ar enau oer yr awel, yn codi o'r eigion hy?
 Cyffroa 'i chalon ynddi, a chryna dan ei bron,
 Fel taran yn y cwmwl, fel llestr ar y don.
 Rhyw gadarn long wrth hedeg, ail eryr dros yr aig,
 Fel priddgawg brau ymddrylliodd ar ddannedd cellt y graig.
 Lle drylliodd llawer llanw ei donnau beilch i gyd,
 Lle torrodd llawer taran ei hudgorn mawr mewn lliid,
 A lle y crygodd llawer storm a chorwynt croch cyn hyn,
 Hi suddodd i'r dyfnderoedd, ac uwch ei beddrod gwyn,
 Yn golofn fawr o ddyfroedd i fyny chwydda 'r don
 A'r dryllion a'r hwylybrenni fel fforest yn ei bron.
 A, long gyfoethog, gadarn, mawreddog oedd ei gwedd,
 Y ddoe wrth aru 'r eigion sydd heno iddi 'n fedd;
 A bloeddai llawer tyrfa o'r lan, pan welent hi

O'r gorwel yn dyrchafu, fel duwies ar y lli;
 A llawer tro yr hwyliodd hyd brif-ffyrdd pell yr aig,
 Ac hwyliodd yn ddiogel hyd ymyl llawer craig.
 Ond daeth ei hawr, ei holaf! A mil o donnau hy
 A gydymdorrant ar y bwrdd, a thafiant, hyrddiant hi
 Yn gyflym, fel llucheden, dros anial gwyllt yr aig,
 Nes suddo'n llawn o donnau i'w bedd o dan y graig
 Ond ust! pa lef wylofus sy'n codi eto o'r lli?
 Pa brudd ochenaid eto, o pa alaethus gri?
 Mae calon gwraig y morwr yn chwyddo yn ei bron,
 Fel cawod yn y cwmwl, wrth wrando'r adsain hon.
 "Rhyw forwr fel fy mhriod," hi dybia ynddi ei hun,—
 "Brawd, chwaer, i ddatgan iddynt ei syniad nid oes un,—
 Rhyw forwr gwlyb o'r tonnau, yn rhylllyd noeth ei fron,
 Sy'n ceisio dringo'r creigiau, a'i waed yn rhuddo'r don;
 Yn awr ar gollu ei afael, a'i ruddiau'n ddu gan fraw,
 Y dyfnder aruthr dano, a'r creigiau crog uwchlaw,
 O, pwy ddarlunia'i gyflwr, yn noeth i'r dymhesti hy.
 Heb noddfa rhag y gwyntoedd, heb gysgod rhag y lli!
 Fy mhriod, O fy mhriod," hi dybiai ynddi ei hun,
 Tra'n edrych ar ei baban, ei baban teg ei lun,—
 "Mae'th fynwes dithau heno yn oer yng ngwely'r don,
 A'r môr yr hwyllt arno gynt yn gortfwys ar dy fron;
 Ac nid oes golofn ar dy fedd, O, nid oes yno un
 I wlitho blodau adgof â dagrau hiraeth cun.
 O am gael huno gyda thi ym meddrod maith y don,
 Per huno yn dy ymyl, a'th faban ar fy mron!"
 O! gwel ei thŷ yn plygu ar ymyl serth yr aig,
 O! gwel y don yn codi yn llawer uwch na'r graig.
 Gwel lyn o wlaw yn arllwys o gwmwl llawn uwchben!
 Fel rhaiadr trwy'r agenog do ar hyd ei haelwyd wen.
 Y mae y trawstiau oesol yn crynu yn y mur,
 A'r gwyntoedd yn eu plygu fel pan yn geinciau ir.
 Mae'r nef yn duo hyd y ser, mae'r graig mewn ing islaw³
 Yn clymu ei hunan wrth y tir gan dafu'r tonnau draw.
 Ond laesu mae y seiliau, a chodi mae y môr,
 O! dacw'r tonnau'n rhuthro i mewn fel diluw trwy y ddôr!
 A phlygodd yr adeilad ar ogwydd tua'r aig,
 A threiglai'r oll i lawr i'r môr yn ddrylliau dros y graig.
 O! erchyll oedd ei gweled'r ol colli ei gafael fry,
 Yn syrthio gyda'r tonnau ar ddrylliau mân ei thŷ,
 Rhy erch ei gweled yno a'i throed ym medd ei gŵr
 Am ennyd byr yn ceisio dal ei baban uwch y dŵr,
 Fel pe'n disgwyl i ryw angel ei ddwyn â thyner law
 I gol rhyw famaeth dirion yn y gwledydd tawel draw.

A! nid oedd angel yno, a thynnodd ef i'r aig
 Yn ol—a suddai 'n araf a'i golwg ar y graig.
 Bu farw heb ochenaid yn dawel yn y dŵr,
 Yn ddedwydd marw yr un awr a'i baban hoff a'i gŵr.
 Hi gafodd ei dymuniad y nos ofnadwy hon,
 Cael huno ym medd ei phriod, a'i faban ar ei bron.
 Ond braidd na archai 'r Nefoedd o'u llys serenol ban
 I'r môr ddiflannu byth, a ffoi am byth o wydd ylan.

Y PARCH. W. MORRIS, TY DDEWL.

B'LE mae'r seren fawr a thanbaid a oleuai Gymru fad?
 Ac y gorfoleddai miloedd unwaith yn ei llewyrch rhad?
 Mae'r tywyllwch tew sy 'n canlyn ei machludiad athrist hi
 Yn dywedyd pa mor ddisglaer ac mor fawr uwch Cymru fu.

Hi arweiniodd bererinion fel y seren honno gynt,
 Pererinion o dŷ Gomer at y Ceidwad, hardd-deg hynt;
 Ar ffurfafen niwlog amser gogoneddus oedd ei gwedd,
 Ond machludodd i ogoniant llawer mwy, dros ymyl bedd.

MORRIS enwog! O mor swynol fu ei ddawn dan ryfedd hwyl!
 'R oedd ei lais fel udgorn Seion yn gwahodd y dorf i'r ŵyl,
 Gŵyl danteithion Iachawdwriaeth, gŵyl ddarparodd Duw ei hun
 I arddangos ei oludodd, ac i dorri angen dyn.

Ar esgynlawr y Gymanfa brenin ar ei orsedd oedd,
 Ac o amgyleh-ogyleh iddo clywid Jubiliaidd floedd,
 Bloedd tyrfaoedd o droseddwyr wedi cael maddenant rhad,
 Llawn floedd gan bererinion wedi canfod cyrrau 'r wlad.

Ar ei daith deffroai 'r siroedd, ac os ar y mynydd ban
 Y byddai yr addoldy unig, dringai y torfeydd i'r lan.
 Nid oedd ond Efengyl yno, ond yng Nghymru digon yw
 I grynhoi rhyw dorfoedd dirfawr, a gwneyd y lle yn dŷ i Dduw.

Dyfod wnaent, parhau i ddyfod er mor unig fyddai 'r fan,
 Yno llawen gydgyfarfod hen ac ieuainc, cryf a gwan;
 Rhaid oedd newid yr addoldy bellach am yr awyr las.
 I gyhoeddi, yn eangder natur, drech eangder gras.

Braidd na thybiem weld angylion ar y cwmwl uwch y llu,
 Fel yn disgwyl i ryw galon deimlo edifeirwch eu,
 A! mor fynych esgynasant o'r odfeun nerthol hyn
 Mewn llawenydd i'r gogoniant, wedi 'r bregeth ar y bryn.

Meistr mawr y gynulleidfa, meistr y Gymanfa fawr!
 Mae dy lais yn ddistaw heddyw, mae dy le yn wag yn awr.
 Diau melus ydyw gorffwys wedi 'r fath lafurus daith,
 Ac anhraethol yw y wobr wedi dydd mor llawn o waith.

Gorffwys oddiwrth dy lafur, canlyn mae 'th weithredoedd pur,
 Dy ganlyn mae dy alwedigion tua 'r nefol dwyfol dir,
 Rhai a alwyd trwy arddeliad ar dy weinidogaeth di,
 Maent yn dringo bryniau amser ar dy ol yn araf fry.

O'r anhraethol ychwanegiad at ei fwynhad o'r nef ei hun,
 Fydd eu gweled hwy yn dyfod yno, bob yu un ag un;
 O! mor felus fydd ymddiddan dan gysgodau 'r bywiol bren
 Am yr oedfa, am y frawddeg a'u cychwynnodd tua 'r nen.

Gan y fath awdurdod gerddai gyda 'i weinidogaeth ef,
 Gan y sanctaidd hyfdra deimlai i gyhoeddi gair y Nef,
 Braidd na thybiem iddo dderbyn ei gomisiwn gyda 'r llu
 A'i derbyniodd ar y mynydd lle 'r esgynnodd Iesu fry.

Ac os ydyw 'r llaw yn llonydd fu yn hau, mae 'r had yn fyw,
 Ac mewn llawer calon bellach aur dywysen aeddfed yw.
 Mae y gauaf wedi pasio, gwanwyn gras ar roi ei le
 I dragwyddol haf gogoniant sydd i ddwyn y grawn i dre.

DR. JONES.*

RHYW fan, os penderfynai—ei gyrraedd,
 Nid oedd garw a'i rhwystrai;
 Os pell, efe nis pallai,
 Heibio rhwystr yn ewybr ai.

E geisiai, nid yr agosaf,—fe rodd
 Ei fryd ar y pellaf;
 Buan aeth i'r ban eithaf
 O lwydd sy—uwch miloedd saf.

Ni flinai nes bod yn flaenaf;—gyda
 Y dysgawdwyr pennaf
 Drwy sicr gydraddolder y saf;
 Bod yn ail oedd bod yn olaf.

* Englynion ar gyflwyniad tysteb i'r Parch. J. H. Jones, A.M., Ph.D.

Braf esgyn i Brif ysgol—Almaenawl,
 Mynnu 'r glod uchraddiol;
 I'n gwlad ni e gludai 'n ol
 Ei hurddenw arddunol.

Dychwelodd wedi chwiliaw—anoddyfn
 Athronyddiaeth drwyddaw;
 Mynnai i dref o'r Almaen draw
 Ei llenyddiaeth oll yn eiddaw.

Taenwyd, fe ledwyd o'i flaen—holl grebwyll
 Y gerubiaidd Almaen;
 Bro deg o burdeb ar daen,
 Bro ddedwydd, beirdd a'i hadwaen.

Iach diroedd uchdaearawl,—ymylau
 Melus y tragwyddawl;
 Edwyn uchder, gwychder, gwawl,
 Haul y Menwyd Almaenawl.

Hollawl ryglyddawl yw 'r glod—urddasol
 Drwy ddwysaf fyfyrdod;
 Eangder o deilyngdod
 A llwyr nerth enillai 'r nod.

Cychwynnodd heb un noddwr—i'w helynt
 O Walia 'n ieuangwr;
 Heb un o'i du, neb yn dŵr,
 E dde!ai 'n ben-raddolwr.

Olrheinia lawer henaeg—rhwydd hefyd
 Y sieryd y Syriaeg;
 Ie 'r hybarch Arabaeg,
 Fel y dyner Omer aeg.

ALPAU oedd rwystrau ei fawr hynt,—cuchiog
 Pan yn cychwyn arnynt;
 Gwir anhawdd, geirwon oeddynt,
 Ond olgofion weithion ynt.

Ef fagwyd i orchfygu,—llaw anian
 A'i lluniodd i faeddu;
 Dedwyddyd ei fywyd fu
 Am dir uchaf ymdrechu.

Ac ai 'mrawd, ai Cymro ydyw—y gŵr
 Gaf mor glodfawr heddyw?
 E dâl adrodd, diledryw
 Gymro o waed Gomer yw.

Siomedig iawn, os symuda—o'n mysg,
 Fyddwn mwy yng Ngwalia;
 Mae dymuniad teimlad da,—
 ER TIR GOMER TRIG YMA.

Taulu di-nod, tylodion ydym,—heb
 Ober cymwys eiddym;
 Er hyn oll cywir iawn ym,
 Mae mynwes gynnes gennym.

O'm henaid y dymunaf—i'n doethawr
 Y bendithion pennaf;
 Erddo bydded noddod Naf
 Trwy 'i helynt i'w awr olaf!

CYFLWYNIAD TYSTEB.*

O PWY sydd yn teilyngu bod
 , Mor uchel ar fynyddau clod
 A'r gŵr sydd wedi treulio 'i oes
 I arwain dynion at y Groes,
 I ddwyn yr aflan at y ffynnon
 Agorwyd gynt mewn dwyfol galon?
 Fe erys hwn mewn parch y pryd
 Pan na fydd cof am fawrion byd.

O dan dywyniad haul prydawn
 Y mae'r cymylau 'n brydferth iawn;
 Er hyn *cymylau* ydynt hwy,
 Ac er mor brydferth ynt ni welir monynt mwy.

A chlod y byd, cyffelyb yw
 I gwmwl gwan, neu flodyn gwyw;
 Ond parch yr un a berchir heno,
 Nid cwmwl yw yn myned heibio,
 Ond seren fawr
 Nad aiff i lawr;

* Ar gyflwyniad tysteb i'r Parch. D. Howells, Abertawe.

Hi lithra i dragwyddol rod
 Ar ol i amser beidio bod ;
 Llewyrcha yn y deyrnas rad
 Sy fry, sef teyrnas fawr y Tad.

Pan elo awel dros y ddôl,
 Mae 'n gadael tonnau ar ei hol ;
 Ond buan y llonyddant oll,
 A'r argraff a i gyd ar goll ;
 Ond pan y pasio angel pur
 Drwy ganol y ffurfafen glir,
 Mae 'n gado ar ei ol ffrwd o ddisgleirdeb hir.
 A gwel rhyw fardd, ymhen canrifoedd,
 Ryw ddarn o'r argraff ar y nefoedd.

Efelly am yr un a berchir heno,
 Bydd cof am ei dduwioldeb, wedi ei huno,
 Yn aros ar y byd, yn foddion i'w sancteiddio ;
 Fe erys y disgleirdeb pan fo'r seren
 Ei hunan wedi gado y ffurfafen.

Ei gydymdeimlad ef
 Ag achos Brenin nef
 Sydd eang iawn bob pryd ;
 Gofala am bob man,
Yr oll, ac nid y rhan ;
 A dyd ei ysgwydd dan
 Y baich i *gyd*.

Gofala megys tad
 Am holl eglwysi 'n gwlad ;
 Edrychant hwy i fyny ato ef
 Fel un yn byw o hyd
 Yng ngoleu bythol fyd,
 Yn ymyl nef !

Rhyw batriarchaidd fri
 Yn perthyn iddo sy,
 Mae 'n deilwng iawn
 O gael y dysteb hon,
 Ac nid yw hi ond ton,
 Un don o fôr ein caredigrwydd llawn.

Boed ei brydnawn yn hyfryd glir,
 O bydded ei brydnawn yn hir !

Ond er dymuuo hyn, mae'r dydd yn ffoi,
 Cymylau'r hwyr yn dechreu ymgrynhoi;
 Mae yntau'n sefyll rhwng y ddeufyd
 Yn awr rhwng dwy olygfa bywyd,
 Ond hyfryd yw y ddwy olygfa;
 O'i ol santeiddrwydd pur, o'i flaen tragwyddol Wynfa.
 Ac os yw'r llygad fel yn pylu,
 Wrth edrych ar y Gair bu hynny;
 Ac os yw'r ysgwydd fel yn crymu,
 Rhyw nefol faich achosodd hynny.

 ENGLYNION PRIODASOL.*

I'W priodas mae'n hawdd prydu—mae'r hwyl
 Mor hawdd ag anadlu,
 Fy awen gynnes fyn ganu,
 Rhoi mer y gerdd i bâr mor gu.

Fel engyl, uwch gafael angen,—eu ceir,
 Is coron tyngedfen;
 Ernes wiw yw'r Ynys Wen
 Oludog, o'r ail Eden.

Cymydog serchog y sydd—i minnau,
 Er mynych lawenydd,
 Pennod o ffraethder peunydd
 Bellach o'i gyfeiliach fydd.

Ar hanner nos dos, od wyd—yn ddwysglaf,
 Cei ddysglaid o ffraethfwyd;
 Ei athrylith ar aelwyd
 I Isllwyn byth sy well na bwyd.

Pwynt llonfawr yw Pontllanfraith—teg oror
 Lletygarwch perffaith,
 Cynheswyd, llonnwyd y llaith,
 Croesawyd cennad Crist ganwaith.

Arhoed noddod Ior nef—ar y lle,
 Er eu llwydd a'u tangnef,
 Eu nawdd hwy fo ynddo Ef,
 Eu harweinydd i'r wiwnef.

* Cyfansoddwyd ar achlysur Priodas y Parch. J. Davies, Brynmawr, â Mrs. Jones, Pontllanfraith.

Sanctaidd fo eich aidd trwy eich oes—eich dau,
 Dal arch Duw mewn pur-foes,
 Dal honno tra deil einioes
 A llaw gref yn Gelligroes.

A darpariad Iôr y Purwr—a ddwys
 Gyfaddaso 'ch cyflwr,
 I rodio 'ngwydd Gwardwr,
 Wedi'r daith a rhydio 'r dŵr.

Y GWANWYN.

GWANWYN ddwg a ennyn ddawn—holl anian,
 Yn llawenydd cyflawn,
 Gwedi hir gwsg daear gawn
 Wythwaith bywiocach weithiawn.

O'i gwely rhew geilw ar hon,—a deffry
 O'i diffrwyth hun weithion;
 Natur at ei llafur llon
 A ddwg newydd egnion.

Gwanwyn bair geinion borau,—a thlysa 'r
 Berth laswerdd â blodau,
 Agorodd glwm pob gardd glau,
 Rhoes anadl i'r rhosynau.

Y gwŷdd o'r newydd grynhoant—glydwch
 A goludoedd tyfiant,
 Cau mewn hedd am y cwm wnant,
 Y mynyddoedd amnoddant.

Yr awel bêr a chwery—âg arogl
 Fy ngardd gywrain obry;
 Caf hon yn cau i fyny
 O ros teg hyd ddrws y tŷ.

Mor ddedwydd y myrdd adar!—eu cyngerdd
 Wna'r cangau yu llafar
 O fawl byw; gwylltryw a gwâr
 A gân y fawlgerdd gynnar.

Y gro'n nawseiddio y sydd—o'i rewrwym,
 Mae'r aradr yn hollrydd;
 Pwy a draeth hoen amaethydd?
 E gwyd i'r dasg gyda'r dydd.

ER COF.*

YR wyf yn meddwl ambell bryd mai hyfryd ydyw marw,
 Cyn hwylio i maes o'r hafn clyd i'r môr a'r storom arw;
 Cael troi yn ol i fynwes Duw
 O hafn mebyd, hyfryd yw.

Pan fyddo rhosyn yn yr ardd yn gwrido yn y boreu,
 Gwell filwaith i ryw angel hardd ei dorri ar ei oreu;
 A'i gipio i'r baradwys dlos,
 Cyn teimlo awel oer y nos.

Wrth weld o bell y dwyfol dir, lle mae hi 'nawr yn gwrido,
 "Gwell ydoedd," medd y deall clir, "gwell oedd i'r nef ei chludo;"
 A llonydd ydyw 'r deall gwiw,
 Ond llonydd llyn o ddagrau yw.

O fynydd pell y Dwyfol Air er gweld y ddinas nefol,
 Y porth o berl, y llys o aur, lle mae hi mwy 'n gartrefol,
 Eu gweld yr ym drwy gawod drom
 O ddagrau, a thrwy niwl o siom.

Pwy feddyliasai, gan mor hardd eich rhosyn anghydmorol,
 Fod awel angau yn yr ardd deuluaidd mor gynarol!
 Tra syllech ar ei thegwch, daeth
 Y marwol wynt, a gwywo wnaeth.

O! cofiwch beunydd, er mai angau du
 A'i dygodd, nad oedd ef ond gwas i'r Un
 Ddywedodd unwaith, "Dygwch ataf fi
 Blant bychain, dygwch i fy mynwes gun."
 Yr oedd yn dlawd bryd hwnnw, ac heb le
 I dderbyn ei gyfeillion, nac i roi
 Ei ben ei hun i lawr pan fyddai'r ne
 Yn duo, a goleuni dydd yn ffoi;
 Ond erbyn heddyw mae'r anfarwol fyd
 Oll yn ei feddiant, tŷ ei Dad i gyd,
 I dderbyn ei gyfeillion pan fo gwedd
 Y byd yn duo dan gymylau'r bedd.

Mae 'n hoffi y rhai bychain; trugarha
 Wrth eu heiddilwch, a'u cymeryd wna
 I'w fynwes, cyn bo awel adfyd croes
 Yn dymhestl ar anialwch canol oes.

* Cyflwynedig i Mr. a Mrs. Jones, Barford Street, Llundain, ar farwolaeth eu plentyn.

Pwy ŵyr am brofedigaeth fel efe,
 Am wae y byd; ac O, am wynfyd ne?
 Fe deithiodd ffordd y byd yn wael ei wedd,
 A chafodd hi yn arw hyd y bedd,
 A threfna i'r rhai bychain lawer pryd
 Ddiangfa foreu rhag holl boenau 'r byd.

Efe sy 'n gwybod p'un ai hwyr ai boreu,
 Ai mordaith faith ai mordaith fer, sydd oreu.

Du yw y cwmwl; ond tragwyddol ddydd
 Tu ol i'r cwmwl du yn torri sydd;
 Mae llygad all ei weled—llygad ffydd.

Blin yw 'r ysgariad; ond tragwyddol fydd
 Y cyfarfyddiad draw a ddaw ryw ddydd.
 O! mor wahanol fydd ei dull a'i gwedd
 Pan nesaf cwrddoch y tu draw i'r bedd!
 Angylaidd nerth yn lle y gwendid fu;
 Yr hyn sydd farwol wedi 'i lyncu fry
 Gan fywyd; y cynheddfau boreu llym
 Yn ddadblygedig mewn anfarwol rym;
 Ei mebyd gyfnewidir yn y nef
 Am fesur oedran ei gyflawnder Ef.

RHUDDOS Y MORFA.

O BRY ger y gloew araflyn
 Sy 'n ariannu bron y dyffryn,
 Wele ruddos hardd y morfa
 Yn crechwenu mewn gorffwysfa.
 Hoffa 'r lleoedd mwyaf dirgel,
 Lle mae 'r dŵr yn fwyaf tawel,
 Gan ysgoi y deifr a'r nentydd
 Sy mewn bâr a chyffro beunydd.
 Mae ei ddail yn fawr a chyflawn,
 Yn addurno 'i frigyn blodlawn;
 A'i felynlw, ddisglaer flodyn,
 Hongia 'n berl goruwch y gloewlyn.
 Mae ei floenos wrth flaendarddu
 Fel botymau yn amgylchu
 Ei flodeuyn prif ragorol
 Sydd yn eistedd yn y canol.
 Chwardd y dŵr wrth dynnu ffyddlon
 Ddelw o'i flodau ar ei ddwyfron;
 Yntau fostia yn ei ddarlun
 Fel addolwr yn ei eilun.

Y GWYDDFID.

PRYDFERTHWCH perth yw 'r gwyddfid pêr.

Yn rhedeg dros ei brigau fry ;

O hardded yw ei flodau ter

Wrth ddringo porth y gwladaidd dŷ,

Yr hwn o fewn blodeuog len

Ymguddia fel paradwys wen !

Ei flodau a eirianir gan

Dra channaid a melynaid liw,

A'u glendid a goronir dan

Ribynau coch, linellau gwiw.

Wrth edrych ar eu mantell hwy,

Pa flodyn fostia 'i fantell mwy ?

O dan gysgodau 'r goedwig fry

Ymlecha bwthyn bach mewn taw,

Y poplys a'r derw hybarch sy

Yn furiau uchel ar bob llaw ;

Ond mil anwylach iddo ef

Na 'r poplys hardd, na 'r dderwen gref,

Yw 'r gwyddfid ; hwn mynwesa 'n llon,

A chlym ei frigau wrth ei fron.

Ond am ei help i'r blodyn llawn

Mae 'r arogl yn anadlu iawn.

Wrth weld y dderwen hen a blin

Yn gwywo 'n araf, gan lesghau ;

O dan holl amrywiaethau 'r hin,

Mae 'r gwyddfid wrthi 'n trugarhau,

Gan droi ei freichiau am ei bon

A'i changau noeth, tra pheraidd dôn

Asgellog gwyntog gorau 'r nen

Yn adymlonni ar ei phen ;

A'r fantell hon o'i bon i'w brig,

Ca adwarogaeth gan y wig,

A nerthir yr oeddrannus bren

I watwar holl awelon nen.

JOHN JAMES.*

MAE arnaf hiraeth ar dy ol, fy mrawd,

Wrth gofio 'r mynych ymddiddanion gawd,

Yr ymddiddanion am y ddwyfol drefn,

Y codwm du a chodi dyn drachefn.

* Blaenor yn y Babell, sir Fynwy.

Yr wyf yn edrych ar dy ol i'r nef,
Fel Eliseus o lan Iorrdonen gref,
Ond ofer edrych—cauodd cwmwl du
Ar gerbyd Israel a'i farchogion fry.

Troi yn fy ol drachefn rhaid i mi
O lannau yr Iorrdonen hebot ti,
Fel yntau heb Elias, ond pe cawn
Ryw barth o'th ysbryd, cwyno mwy ni wnawn.

Mae'r tywydd garw drosodd gyda thi,
Y mynydd olaf wedi 'i groesi sy,
Ac nid oes afon o dy flaen ond un
A honno ydyw afon Duw ei hun.

Mae dod i'r oedfa yn y gauaf oer
Heb olau seren ac heb olau lloer,
A'th ffon, a'th lusern fechan yn dy law,
Er wrth dy fodd, mae hynny drosodd draw.

Ei faddargraf.

Gweddiwr mawr, gorchfygwr ydoedd ef,
Nid ffurf, ond bywyd oedd ei weddi gref;
A phan orffennodd y ddaearol daith,
Lle'r aethai'r weddi y gweddiwr aeth.

AR OL Y FRWYDR.

(VICTOR HUGO.)

FY nhad oedd enwog am wrhydri eon;
Mor enwog, hefyd, am dynernwch calon.
Y nos ar ol y frwydr echrystlonaf
Aeth allan gyda 'i filwr-was ffyddlonaf,
Dros faes y gwaed.

Yn araf y marchogent,
Oblegid tagai'r meirw'r ffordd yr elent.
Yng nghanol y distawrwydd erch fe glywai
Lais gelyn o Yspaenwr a syrthiasai
Y diwrnod hwnnw o dan farwol friw,
Yn llefain—"Dŵr! O, dŵr! yn enw Duw?"
Fe roes fy nhad ei fflaeg i'w was, gan erchu,
"Rho lwnc i'r truan hwn cyn iddo drengu."
Tra plygai'r gwas i estyn iddo'r gostrel,
Anelai yr Yspaenwr lawddryll ddiregel
Yn union at fy nhad, a'i ben gwronwyh
A noethwyd oll o'i blufog het uchelwych:—
"Rho iddo'r fflaeg'r un fath," dywedai nhad,
A dewrder cariad faeddodd dewrder câd.

SANT PAUL.

Yngom Nereus ac Urbanus.

NEREUS ifanc un hwyr a safai
 Gerllaw'r Tiber, a dyner ymdonnai
 Trwy Rufain,—sain yr afon a'i swynai,
 Ac â'i ddwfn brudd-der tyner cyd-donnai;
 Ei drylen ddysgawdwr welai—'n agos,
 Is hudd y nos Urbanus ddynesai.

Ag eira amser ei goryn
 Oedd yn fawreddus weddus wyn,
 Yn eglwys Rhufain hygiod
 Ni fu neb yn fwy ei nod;
 Gloew sant yn ei heglwys oedd,
 Henadur ffyddlawn ydoedd.

Er y llid a'r digter llawn—adegau
 Erledigaeth greulawn,
 Ei ffydd cadwodd, daliodd, do,
 Er Nero, ŵr anhiriawn.

Er hynny prudd yw'r hanes,
 Wylai'n awr, delai yn nes;
 Ei enaid oedd yn flin dan—faich llwythog,
 Bwriai ei ddrylliog bruddeiriau allan;—

“Bore heddyw,—ai breuddwyd—yw y peth?
 Ein Paul a aberthwyd;
 Ein sancteiddiaf uchaf ŵr,
 Ein noddwr ddienyddiwyd;

Du gaddug yw'r digwyddiad,—Nereus,
 Ar awyr fy mhrofiad;
 Ofnadwy gyfnewidiad
 I'm mynwes sy, trwm noshad!

Fe doa nos fyd yn awr—e dduodd
 Ei awyr lydanfawr;
 Fyd-ledol wybr foesol fawr;—dy haul ffodd,
 E ddiflannodd dy ddwyfol lonwawr.

“Clyw uwch y ser y clych sydd—yn ninas
 Ein hanwyl Warelydd,
 Canant fil gyda'u gilydd—am lanio
 O'n Paul yno, sant mor ysblenydd.

“Diodid caffaeliad ydoedd—efe
 At fywyd y nefoedd;
 Y prif rhwng mil o filoedd,
 Draw yng ngwlad yr engyl oedd.

“Galar gerdd glywir i gyd—a nodau
 O anedwydd dristyd,
 Drwy 'n daearol farwol fyd,
 Mae rhwyg mawr o'i gymeryd.

“I'm cŵyn o hyd mae cynnydd
 Wrth son, a fy hiraeth sydd
 Yn chwyddo wrth gofio y gŵr—a'm trodd,
 Efe a'm harweiniodd at fy Mhrynwyr.

“Fe yrrodd y ddoe 'n forau—am danaf,
 Fe 'm denodd â'i eiriau
 I ddewis marw 'n ddiau—gydag ef,
 A gyrru adref o'm holl grwydrau.

“Ac er chwerwder y carchardŷ—i mi
 'R oedd mal claer balasdŷ,
 Neu wrth ardeb porthordŷ
 Yn agor i fro 'r nef fry.

“Rhyw gyffindref o'r nefoedd,
 O wlad engyl ymyl oedd.”

Y duwiol ŵr a dawai—blinderus
 Hiraeth alaethus ei nerth a lethai;

Ond ei frawd, yn llawn brwdfrydedd—holai
 Am yr helynt ryfedd,
 Torrai allan mewn taeredd,
 Wrth y sant hiraethus wedd;—

“Urbanus, dyro bennau—o hanes
 A hynod nodweddau
 Ein Paul anfarwol, o forau
 Hyd hwyr ei ddydd, dyro y ddau.

“Syn dwrf y ddinas nid yw,
 Darfyddodd holl dwrf heddyw,
 A swn dydd, mae 'r nos yn deg,
 Yr adeg oreu ydyw.

“Trwy fyd, pa wybrau ter fal—caredig
 Buredig wybrau Idal!
 Dyna 'r lloer ar donnau 'r lli,
 Gwenloer ar donnau 'r gwynli.

“A! mae y ser fel am son
 Am yr enaid mawr union,
 Heddyw aeth heibio iddynt
 Ar ei lon anfarwol hynt.
 Nyni, yr awr hwyrawr hon
 Gawn lonydd gan elynion.

Oedrannus wyd, a'r hanes sydd—i gyd
 Yn dy gof yn newydd;
 Adwaenit y duwinydd
 A di-ffael geidwad y ffydd.”
 Y sant yng ngoleu y ser
 Ger y Tiber atebai,—

Yr erlidiwr.

“A! mae y dyn a all ddweyd am dano,
 Y llaw neu bwyntel all ei iawn baentio?
 Na fai arlunydd anfarwawl heno,
 Rhyw gerub i harddwych loew-wych liwio
 Ar wal y nen, wir ddarlun o hono!

Fôr o destyn! pwy all ei darlunio?
 Fy noniau sydd yn ei ddwfn yn suddo,
 Ar hyd ei ymylon rhaid im hwylio,
 Ar hyd ei finion y rhodiaf heno;
 Chwennych gweld cilfach o hono—'r ydwyf,
 Rhy wan wyf y fath ddyfnfor i nofio.

“O genedl Israel ei ganwyd,—yn ol
 Deddf y nef enwaedwyd,
 A'r Iddew ieuanc roddwyd—dan uchel
 Law Gamaliel—a'i feddwl gymylwyd.

“Ei bennaf anwylaf nod
 Oedd ofer ffurf neu ddefod.
 Mawr oedd ef ym more 'i ddydd
 Yn ei wlad fel erlidydd;
 Yn ei lid anuwol oedd,
 Erlidiwr marwol ydoedd;
 Troi y ffydd newydd yn ol,
 Hyn oedd ei bwnc beunyddiol;
 Er mai rhwyddach, hawddach, oedd
 Rhoi mur i droi y moroedd.

“Pennaf elyn, erch offeryn archoffeiriad,
Yn dinistrio, heb ail iddo 'mysg y bleiddiaid.

“Chwythu celanedd erch weithion—a wnai,
E gablai 'r disgyblion,
Ac hoffai roi mewn cyffion
Y rhai oedd ar y ffordd hon.

“Ac er mwyn eu cadwynaw
A chryf lwydd ac â chref law
Rhaid ydoedd awdurdodiad
O lys crefyddol y wlad.
Cai 'r hawl gyfreithiawl o frad
Y ffwyrawl archoffeiriad ;
A chadarn, bellach, ydoedd,
Llaw y gŵr, galluog oedd ;
Mewn hwyl at ei orchwyl aeth,
O lawn a phur elyniaeth.

“Y si i Damascus aeth
Am Saul a'i ormes helaeth,
A'i ddu awydd i ddial,
A'i fod yn dyfod i'w dal,
Braw i'r saint a barai 'r son,
Enw Saul a'u gwnai 'n iselion ;

Ei enw pan glywent, clywent rygniad cloion
Yn agoryd i ddyfngelloedd geirwon,
Yno eu gwthiaw, a'u rhoddi 'n gaethion
Am eu crefydd, o dan rwymau cryfion ;
Braw ddodai yn eu breuddwydion—nosawl,
Ochrau amheriawl carcharau mawrion.

“Ymhell o'i flaen adwaenir—yr hy lew
Drwy 'i lawn ru daran-glir,
Gerwin o'i flaen y gyrrir—yn lldiawg
Ei ru amholttawg am lawer milldir ;
Iaith lawn erledigaeth lem,
Geiriau Saul o Gaersalem,
Oent o'i flaen, nes adwaenid
O bellder lawnder ei lid.

“Ofn a'u todd o fewn eu tai,
Nid oedd un a'u diddanai.
'Saul ! Saul ! yr echrys elyn,
Ow ! mae'n dod i'n rhwymo'n dyn ;
I ble y ffown, bobl y ffydd,
I drigo rhag y drygydd ?

Diniwaid fel defaid ym,
 Er hyn nodau'r farn ydym.
 Ofer yw, rhag ei fâr ef,
 I'n noddi mewn un haddef ;
 Cais o fewn Damascus fawr,
 Bob cafell, cell, ac allawr ;
 Aroswn, fel gwnai'r Iesu
 I'w greulon olynion lu.'

Y troedigaeth.

"A! pan wylent, yr oedd y pen elyn
 Mwy fel un diddim o flaen y Duw-ddyn,
 Hwnt ar ei yrfa, yn taer taer erfyn
 Am rad arbediad, eiddil abwydyn ;
 Mewn braw wedi syrthiaw 'n syn—ei lid mawr
 A'i allu dirfawr ddaeth oll i derfyn.

Wele yr ofnadwy elyn, mwyach,
 Cawraidd ei grafanc yn cwrdd a'i gryfach ;
 Goris haul un gŵr iselach—ni fu,
 Wedi ei blygu heb allu bellach.

Erfawr nefol-gloch arfaeth
 Trwy y nef taro a wnaeth
 Ei hawr deg ar hanner dydd,
 Awr Naf i droi 'r anufudd.

Fe yrrai Iesu o fry ei wysiad,
 Am ei gerbydau tra mygr heb oediad,
 Ac eirian gerbyd cariad—tragwyddawl
 Ddewisai i'w ogonawl ddisgyniad ;
 A daeth mewn rhwysg anhraethol
 Ac urddas, er cwrdd â Saul ;
 Deuodd o'i lys, nid oedd lai
 Yn ei olwg a wnelai,
 Fyth i alw y fath elyn,
 A tharo Saul â thro syn ;
 Yn urddas ei deyrnas daeth
 Fry o nen ei frenhiniaeth.
 Disgleirdeb ei wyneb oedd
 Loew fel teg heuliau filoedd ;
 Oedd ry-fawr yn awr i neb
 Boeri yn ei bur wyneb.
 Ymofynnaf am funud,—
 Ai efe fu 'n godde 'n fud ?
 Ai ei waed Ef, Brynwr da,
 Lifeiriodd ar Galfaria ?

Ai Ef yw'r hwn drosof a roes
 Y drud iawn drwy waed ei einioes?
 Fu'n wylo dan fy nyled
 Ar y groes? Pwy'n awr a gred?
 Yr Un yw Ef er hynny,
 Ac O! i'r tlawd mae'n Frawd fry.

'Rhag ei olwg syrthia'r gelyn,—llenna
 Dallineb ei dremyn;
 I ddyfnder iselder syn
 Taranfoltt Ior a'i enfyn.

"Fe alwodd o'r nef olau
 Fel hyn, ar y gelyn gau—
 'Rho d' ateb, pam rhaid iti
 Fy erlid, fy erlid I;
 Paham Saul?'
 'Pwy yma sydd?'
 Isel lefai Saul ufudd,
 'Godidog i gyd ydwyf,
 O, pwy mewn llwydd, Arglwydd, wyt?'

"O bosibl, tybiai eisoes
 Mai Hwn oedd Ef ar gref groes
 A roddodd ei waed rhuddwawr,
 Er ei fod bellach mor fawr;
 Yn Salem gwelsai'r Seilo
 Ar ei draed, hwyrach, ryw dro,
 A'r deuddeg gyda'r Duw-ddyn,
 Ar ei rawd mewn cnawd cyn hyn.
 Cofiai wyneb y cyfion,
 Fe allai'r awr erfawr hon.
 Ond os oedd petrusdod syn,
 Ys hedodd ffwrdd yn sydyn;
 Peidiodd y syn 'Pwy ydyw?'
 Rhoes ei air mai'r Iesu yw;
 'Os wyf fawr, Iesu wyf fi
 Drwy wledydd byd erlidi,'

"Y chwerw elyn a ddechreuai holi
 Yn awr, a dur ei galon ar dorri,—
 'Ba waith i' f' enaid, pa beth a fynni
 Mwy im ei wneyd? O, gwna yma'm nodi
 Os addas wyf, i'th swyddi—o'th wiwdeb
 O Iesu, ateb, ydwyf was iti!'

“O'i ras atebai 'r Iesu
 Ar hyn, i'r gelyn,—mor gu!—
 'I dy daith cyfod a dos—odd yna
 I'r ddinas gyfagos;
 Dy fuchedd gyda f'achos—cei 'i gweled
 Ac yno 'th dynged ga 'n noeth ei dargos.’

“Esgynnai Iesu i ganol—ei esgud
 Osgordd tragwyddol,
 A'i rwysg fel afon ar ol
 Drwy nef, ddisgleirder nofiol;
 Aeth i'r nef, a tharan oedd—yn y fan,
 O'i ol hyd eirian uchelderoedd.

“Gorweddai Saul yn y gorddwys alaeth,
 Wrth weled greuloned ei elyniaeth,
 Ac holl led eigion ei golledigaeth,
 Heb un goleudy ar binagl odiaeth;
 A! gweld yn glir yn wir wnaeth—do cyn hir,
 Oleuni iach dir, sef glan iechydwriaeth.

“Drwy gaddug du argyhoeddiad,
 Drwy 'r barn lŷs y tywys ein Tad
 Ei holl bobl o dywyll bau,
 Fry i bêr fro y borau.
 Ior a ddysg cyn eu rhyddhau
 Dynned yw eu cadwynau;
 Am ei feiau yntau oedd
 Yn yfed llid y nefoedd.

“Baich ydoedd ei bechodau,—fe welai
 Filoedd ei gamweddau,
 Deuai y ddeddf i'w dyddhau
 O fynwent eu cuddfannau.

“Dallineb ei lygaid allanol,—teg wawr
 Oedd at y gwyll mewnl;
 Cadd wg oedd fwy caddugol,
 Gorchuddiai niwl Sinai Saul,

“I godi, rhy lesg ydoedd
 Braidd yn awr, rhyw briddyn oedd;
 Hwythau, y rhai gyd-deithynt
 Gydag ef, ei giwed gynt,
 Ar hyn, wnaent ei arweiniau,
 Yn wyl ŵr, erbyn ei law.

"Tua 'r ddinas gadarn a braw arnynt,
 Rhyw gamau araf yn awr gymerynt;
 A'u Saul yn eiddil, iselion, oeddynt,
 Lu diras heb un addas ben iddynt;
 Trwy ei phorth uchel i mewn yr elynt,
 A'i hystrydoedd yn ddistaw a rodiynt
 Nes i dŷ un Judas y deuynt,
 Ac yno yn iach cenynt—i'w llywydd,
 Yn ei isel dywydd Saul adewynt.

"Gorwedd dan euogrwydd du—ei gamwedd
 Oedd gwmwl llydanddu,
 Llid tân yn gorfelltenu
 Yn nos drom ei fynwes dru.

"Duw o hyd yn gwrando heb
 Roi eto air o ateb.

"Ei Geidwad ni wnai ei godi—o'r don,
 Er mor daer ei weddi,
 Nes gweled ddyfned oedd hi,
 Nad oedd un gwaelod iddi.

"Môr oedd ei argyhoeddiad,
 Enbyd fôr, a'r bywyd fâd
 Dwyfawl mor hir yn dyfod,
 Drwy donnau dig dridiau 'n dod!

"Ond, O ras hynod, ar ol
 Oes o draha distrywiol,
 Y trydydd dydd drylliai Duw
 Ar unwaith rwymau 'r annuw;
 Y trydydd dydd rhydd yr ai,
 Efo 'i Geidwad fe godai;
 Y trydydd sydd dydd rhyddhad
 E godai fel ei Geidwad;
 Yn y fan esgynnai o fedd
 Pechod i newydd-deb buchedd.
 Anfarwol eirian forau
 Ydoedd hwn; dechreu dyddhau;
 Dydd folir gan wledydd filoedd
 A dydd gwyn i'r cenelldyn oedd.
 Pan wenai, pan dorrai 'r dydd
 I weini i Saul lawenydd,

Y rhyfedd ddwyfolwawr hefyd
 Dorrai ar bob rhandir o'r byd,
 Dwyreai 'r haul draw ar hyn,
 Canolddydd i'r cenelldyn.

"Ananias, addas ŵr,
 A nodwyd yn genhadwr.
 Hwn oedd yn Gristion addien
 Ymysg saint Damascus hen.

"Fe welai un nos nef-olau 'n nesu,
 Tragwyddol urddasol osgordd Iesu;
 O fôr y gloewbur leufer e glybu
 I'w syn orchwyl Ddwyfol lais yn archu;—

"' Dos heb aros,' meddai 'r Dwyfol Berydd,
 ' Was y nef, i dŷ Judas yn ufudd,
 Cyfod a dos! Saul yno sy lonydd
 Ar ei liniau, y gorfawr erlynydd,
 Yr eofn Saul ar f' enw sydd
 Yn galw yn ddigywilydd.'

"Ar ei hynt yn fore aeth
 A'i dirion genadwriaeth.
 Pan welodd, safodd yn syn,
 Wrth gael y nerthawg elyn
 Yn deisyf er gwaed Iesu
 Am hedd a thrugaredd gu.
 Olew pur i'w gur gerwin
 Dywalltai, tywalltai win,
 Bu 'n nos hir heb un seren,
 Ond torrai 'n awr y wawr wen,
 Disglaer foreu maddeuant
 Oleuai Saul yn loew sant;
 Danghosai, cyffesai 'i ffydd
 Heb oedi drwy y bedydd.

"Arwydd gwaradwydd fu 'r Groes
 Hyd hyn o gyfnod einioes,
 Ond troai mewn tarawiad
 Yn gun arwyddlun o rad,
 O barch a thrugaredd bur,
 A chodiad i bechadur,
 Fe lifai nefol leufer
 Am urddas hon, moroedd ser.
 Gwelai Saul yn ei gloes hi
 Ddigon i'w ddieuogi;

Gwelai yn hon lwybr glanhau,
 Rhyfeddol lwybr i faddau ;
 Gwelai fraint ar Galfari,
 Duw 'r heddwch welai drwyddi.
 Ar y groes fe roes ei fryd,
 Ei fyfyr a'i fai hefyd ;
 Yn dawel, enaid euog
 Bwysodd ef ar y gref Grog,
 Ac hi a fu 'n bwnc ei fawl
 O hyn allan yn hollawl,
 Bu ryfedd ganddo brofi
 Maddeuant o'i haeddiant hi.

"Dyn i Dduw, dyn newydd oedd,—rhoes ei hun
 Yno 'n was i Iesu 'n oes oesoedd.
 E roes ei hunan i'r Iesu yno,
 Cyflwynodd o'i fodd bob cynneddf iddo ;
 A'i holl fwriad yn awr oedd llafurio
 Yn ei wasanaeth dirion nes huno ;
 A, wasanaeth ! mae 'n swyno—engyl gwyn
 I roi y wiw delyn aur o'u dwylo,
 I gerubiaidd gôr roi heibiau
 Er mwyn hon eu cân drylon draw.

"Dewr oedd ef pan dorrai ddadl,
 Troai, pan droai 'n drwyadl.

"Drosodd o blaid yr Iesu—'r aeth efe
 Wrth farn yn llywyddu,
 Gŵr di-ail i'w gredo oedd,
 Cawr ydoedd ar ol credu.

"O dduaf niwl Iddewiaeth—drwodd, ai
 Draw i ddydd Cristnogaeth,
 A chanfod mewn undod wnaeth,
 Y perygl a'r ddarpariaeth.

"Ai 'n llwyr oll, yn ei holl rym,
 O'i henrawd, yng nghyfanrym,
 Mawrhyf ei gyn-gymeriad,
 Y llew oedd heb un lleihad,
 Yn ei ynni cynhwynol,
 Rhy eon ef i'w droi 'n ol.

"Ei nerthol anian wrth ei hail lunio,
 A'i gryfder dur, ni wnaed ond eu puro ;
 Deuai y sêl fu 'n erlid y Seilo,
 A'i gau nerth eon i'w gynorthwyo,

O'r hynod awr honno—troes ei nerthoedd
Oll, a chwbl ydoedd, bellach i'w bleidio.

Myned i Arabia.

“Er hynny nid ar unwaith—y deuai 'r
Duwiol ŵr yn berffaith
At alwad apostolwaith,
I'w barotoi bu rhaid taith.

“Ac o swm Damascus aeth,
Swm uchel ei masnachaeth,
I Arabia—dyna 'r daith
A'i addasai i'w ddwyswaith.

“Beunydd ei lonydd orchwyl yno,
A'i wastadawl waith oedd astudio
Anfarwawl lén y Gyfrol honno
Sy a'i sylwedd yng nghroes y Seilo.
Gwelai awduron hon yn uno
Ym mhob man i draethu am dano;
Ceid hwy heb antur yn cydbwyntio
Bob un yn gytun tuag ato,
O'r holl oesoedd cydarllwyso
'N helaeth oedd eu tystiolaeth iddo.

“Hoff delyn proffwydoliaeth,
Ar ol ei nefol swm aeth
Nes dyfod i Ddinas Dafydd,—is aur
Wawl y seren newydd,
A chael di-ffael wrth-ddrych ffydd
Oll yn y preseb llonydd.

“Gwelai Moesen, addien ŵr,
Oedd fawreddog ddeddfroddwr,
Dafydd hefyd a'i ddwyfawl
Delyn—prif am emyn mawl—
Selyf, ac Esay eilwaith,
A'r holl res nefolres faith
A gafwyd o broffwydi,
Gwelai yr holl ddisglaer ri
Wedi cwrdd mewn undod cu
Yng nghroes ac angau 'r Iesu.

“Sciliwyd ef yn ei grefydd—a'i obaith
Yn Arabia lonydd,
A phan amheuid y ffydd
Dileai 'i wrthddadleuydd.

“Yn feddylgawr dirfawr daeth
Yn addysg duwinyddiaeth.

“I eraill byddai hiroes
Yn rhy fer, yr hwyaf oes,
I ryw rannol feistrol
Pynciau 'n crefydd newydd ni—
A! cedyrn bynciau ydynt,
Ac mor hen ag Eden gynt—

Ond ef, uwch testyn dwyfol—pan safai,
Buan deallai y bennod ollol;
Fel y mellt, gorgyflym oedd,
Eneidiawl fellten ydoedd.

“Yn fuan ei newydd fywyd—dyfai
I'r dwyfol ieuencyd,
I'r gwiw londer a'r glendid
Sy 'n teghau y saint i gyd.

“Adeg meithriniad ydoedd
I'w grefydd deg, adeg oedd
I ddal cymdeithas a'i Dduw,—heb fariaeth
Na du elyniaeth ei genedl annuw.

“Yno yfai o'r cymundeb nefol
Barhaus ynni i'w grefydd bersonol,
Ac fel agoriad gardd deg flagurol
Dadblygai 'n ddifai ei anian ddwyfol,
Nerth hon a fwriai ei ffrwyth anfarwol
Is gwanwyn y gymdeithas ogonol.

“Iesu ei hun roes yno—'n ddigwmwl
Ei feddwl ef iddo,
Rhoes i'w law drefn rasol hedd,
A'i gwirionedd yn gryno.

“Efengyl hedd a fu yng nghlo,
Rhoddes ei hallwedd aur iddo.

“Yn aml addefai mai o law ddwyfol
Y cawsai ef yr efengyl nefol—
Eang ei doniau, heb gyfrwng dynol,
Hon draw a gadd o'i ffynnon dragwyddol
Yn bur, ac oll heb ol—o'r cymysgedd
A ddaw drwy lesgedd daearawl ysgol.

“Yn ei nerth cyflawn yn awr—fe elai
Ein nefolaidd flaenawr
I'w yrfa ryfedd wirfawr,
I weithio mwy ei waith mawr.

“ Yn ol o'i unigedd duwiol deuai
 I'r glodus Damascus, ymgymysgai
 A'r brodyr ffyddlon—pob sant ymlonnai
 Wrth ei weled, ac uwch y wyrth wylai.
 Yno ar fyr ei ddawn a arferai,
 A'r groes hyd ei oes a erlidiasai
 Weithion a bregethai,—a'r saint beunydd
 Yn eu ffydd newydd a gadarnhâi.

“Gwrthddadleuon yr Iddewon
 Yn ysgyrion a wasgarai,
 Ar bob adeg grym ei ofeg
 A'i resymeg fawr a'u sionai.

“ Mal cerigos yn ymyl creigiau—oedd
 Eu heiddil resymau ;
 Eu geiriau geid fel gro gau
 Dinerth, wrth gryfion donnau.

“ A ! fradwyr ! cydfwriedynt
 I'w ladd ar ryw nosawl hynt ;
 Gwylio y pyrth gan ddisgwyl Paul
 I'w ladd o lid dialeddol ;
 Ond efe mewn hynod fodd—dros y mur
 Er eu lliid engur o'u llaw dihangodd.

Mynod i Jerusalem.

“ Yn awr i Salem,” Nereus, “ elai
 O hyd a nos—a phan y dynesai
 Y gwiw wylsant, at y man lle gwelsai
 Yr Iesu gyntaf, yn syn fe safai.
 Am y fawr-wyrth wnaed yno myfyriai,
 Y golwg i'w gof galwai—r llais tyner,
 A'r gloew-wych leufer o'i gylch a lifai.

“ Nos lawn o ser, nos lon a siriol—oedd,
 A'r clauer lu serenol
 Difai, yn rhoi y dwyfol—ddisgleirder
 Y sydd ar hanner y nos ddwyreiniol.

“ ‘ O daith ’ ! e ddwedai weithian,
 ‘ O fythol ryfeddol fan !
 Hynodawl gychwynfan ydwyt
 Fy mythol les, fy Methel wyt ;
 Drwy fydoedd dirifedi
 Od af, nid anghofir di !’

“ A! gwn e fydd dda gennyf ddod—yma
 O barthau gwynfa bêr i'th ganfod,
 Gwedi myfyr byr uwch ben
 I lle a'i gofion llawen.”

“ Yn ddilesg rhagddo elai
 Yn fwy hwylus hoenus ai.

“ Fe ai 'r saint oll i fraw syn—yn Salem
 Weled Saul mor sydyn,
 Diau ni wnaent hyd yn hyn—heb gryf brawf
 Fyth goeliaw fod y fath ddig elyn
 A Phaul yn cofleidio'r ffydd,
 Y llew hwnnw yn oen llonydd.

“ Ond Barnabas ei gydwas gwedyn,
 Yn gyfaddas a'u dug ef iddyn;
 Profai alwad sicr y prif elyn,—
 ‘ Ar hanner dydd ’ drwy enau'r Duw-ddyn;
 O ddirbarch gwnaent dderbyn—y gŵr enwog
 I'w caer odidog fel credadyn.

“ O am fawr-gamp a grym Virgil,
 Bardd pennaf hynotaf ein hil,
 Weithiawn i iawn ddarlunio
 Y cwrdd o ardderchawg go
 Rhwng Paul a'r Apostol Pedr.
 Addefaf, mi wyf ddifedr.

“ Ar hoff hynt ai Pedr a Phaul,
 Rhyw hanner nos serenol,
 Er mwyn ymweld â'r manau—a fyddant
 Ryfeddol trwy'r oesau,
 Lle y gwelir llu golau—o'r nef lon
 Y gwaredigion gwiw ar adegau.

“ Paul ddymunai weld ple oedd y mynydd
 Lle bu'r Iesu'n gwaedu rhudd gawodydd
 Ar y pren, lle rhoi'r Prynnydd—Iawn pennaf
 I ddeddf Naf drwy ddiodef yn ufudd,
 Lle trymhaai anian, lle holltai'r meini,
 Bu'r haul ei hunan heb roi'i oleuni,
 Calon y cread tirion bron torri.

“ Yn ddi-swn elai'r ddau sant;
 Gardd Iesu gyrhaeddasant,
 Lle y caed coch waed o'i chwys,
 A'i boen fel môr heb ynys.

A! môr o lid marwol oedd
Ofnadwy heb hafn ydoedd.
Ar ael Calfaria eilwaith—
Ond ofer yw unrhyw iaith
I roi desgrifiad o'r hant,
Y llwydd a'r ennill iddynt."

Yn ei hanes Calfaria pen enwodd,
Yma'r hoffusaf sant ymorffwysodd,
A Phaul weithian o'i olwg ddisfannodd,
A'i holl enaid Calfaria a'i llanwodd.
A'r sant Nereus yntef
Yn awr edrychai i'r nef;
At ei athraw draw fe drodd
Ei dad yng Nghrist, a dwedodd,—

"Un hoen ddymunwn innau,—rhoi hwylus
Dro, Urbanus, i grwydro ar bennau
Y mynyddoedd rhai oeddynt
Lleoedd mad i Geidwad gynt.

"I minnau O! am hoenus—awr lawen
Fry ar ben Calfaria, Urbanus!
O! am drem ar Gethseman
Y sy fyth yn gofus fan.

"Oni chaf adeg gun cyn fy huno
I weled Salem a gwlad y Seilo,
Deuaf o'r lwys Baradwys i'w rhodio,
O ne dychwelaf ryw bryd i'w chwilio.

"Rho hanes y gwyr union—im eto,
Nac ymatal weithion,
Rhyfeddol i'r nefolion
Sy fry, yw'r hanes fawr hon."

Ar hyn y sant oedrannus—ai ar ol
Yr helynt fawreddus
Eilwaith, desgrifiai'n hwylus—deithiau Paul,
A'i gynhyddol lafur gogoneddus.

Y teithiau cenhadol.

"Llonyddwch heddwch ni chai—'n y ddinas,
Oddiyno floai,
I duedd Tarsus deuai—rhag bariaeth
Ffyrnig anuwiaeth fel ffwrn gyneuai.

“Judea a adawodd,
 Tua 'i faes mawr tramawr trodd,
 O'i wirfodd aeth i'w yrfa—yn llawn sêl,
 I'w helynt uchel o Antiochia.

“Os bu gras drwy yr oesau heb groesi
 O'r fechan Ganan, at fyd o gynni,
 Hwyliai yr adeg ar ol hir oedi
 Na ofnai fyned dros derfyn-feini,
 Y deg adeg i godi—ei faner,
 Bu blwyddyn Ner i bobloedd aneiri.

“Paul glywai uchod y môr yn codi,
 Mêr iachawdwriaeth yn mawrwyd dorri;
 A'r hil ddynol ar ei hael ddaioni,
 Cenhedloedd gannoedd yn ymddigoni.

“Ef pan anfonwyd, gorffennwyd ffiniau,
 Ai 'n newydd fyd heb yr hen ddefodau;
 Efe ail cerub uwch gafael caerau
 Uwch niwl gododd, uwch hen olygiadau,
 I gylch tragwyddol y Perffaith Olau,
 Fel nad oedd bellach un gwerth mewn achau,
 Nac un dylanwad mewn cnawdol enwau;
 E welai oferedd dynol furiau,
 Twyllodrus wenieithus wahaniaethau.

“Wrth edrych ar fawrwych fôr
 Ogylech im yn ymagor,
 Heb derfyn i'r gorwyn gylch,
 Ond yr hygar odreugylch
 Draw sydd yn priodi'r ser
 Gloewon, a'r don, mor dyner,
 A! y mae hyn yn mwyhau
 Fy eiddilion feddyliau;
 Daw o bell angder di-baid,
 Rin i ehangu'r enaid;
 Daw'r môr a'i ehangder maith
 I mewn i ddyn am unwaith,—
 A phenrhyn ffydd, lonydd lan
 Ger eilfyd, rhagorol-fan;
 Paul mal angel ymwelai
 Uwch y niwl, ac edrych wnai
 O'i feiddiol arsyllfa addas
 Ar y fawr drefn, ar fôr rhad ras;
 Llond hanfod y Duwdod oedd,
 A'i led anfeidrol ydoedd.

O! pam y rhaid lluddiau'r groesaw grasol
 Rhoi unrhyw fin am fôr anorffennol,
 Golud ein Naf, a'r galwadau nefol?
 Yno ar fin y môr anherfynol,
 Denwyd, enillwyd ef yn hollol
 O'i wael hanerawg gulni blaenorol,
 I gyhoeddi'r Efengyl dragwyddol,
 Ei doniau cyffredinol—difesur
 I bob creadur, ac i bawb credol.

“Ni lesteirid gan un cul ystyriaeth
 Ei hael wahoddiadau i'r wledd odiaeth;
 E ledai ogylech yr alwedigaeth
 I ateb angder y per ddarpariaeth;
 Nis atelid ei fawr apostoliaeth
 Gan wael gybydd-dra didda Iddewaeth
 O'i gau feindra'r hen gyfundraeth—drengai,
 I'w bedd mwy elai ac heb ddim alaeth;
 Ai i'w bedd a chanai'r byd
 Iach garol uwch ei gweryd.

“E fynnai i afonydd—gras y nef
 Groesi'n awr geulennydd
 Palestin, a'u rhoddi'n rhydd
 O'u hargaeau'n dragywydd.

“Paul a estynnodd berl Palestina,
 Ei chyfrol ddwyfol am ffyrdd Jehofa,
 Ei budd i holl feib Adda,—ei deddf wen,
 Ei hen rymus awen, a'r Messia;
 Ple rhy ddwfn, pa hil ry ddu,
 Rhy gaeth, i Paul bregethu!

“Ei weinidogaeth, Ior a'i bendigai,
 I fyrdd o waelion Ef a'i harddelai,
 Môr o ddylanwad mawr a ddilynai
 Ei waith, a llwyr ddyfethai—baganiaeth,
 Eilunaddoliaeth o'i flaen ni ddaliai.

“Ar ei ol, pa le bynnag yr elai,
 Eglwys fywiog flodeuog adawai,
 Canol-bwnc o gred o'r hwn ymledai
 Y goleu nefol gorfeiddiol feddai
 Ogylech trwy lydan wlad nes diflannai
 Y niwl a'r duwch a'r cwbl ordoai.

“O wlad i wlad fel angel ehedai
 Yn odidog am Iesu dywedai,
 Efengyl lon dros y don a daenai,
 A'i hoffus alwad i Paphos elai.

“Ei heang olud a efengylodd,
 Yn Lycaonia cerdd jubil canodd;
 A llawer yno 'n rhyddion a roddodd,
 A'i gredlythyr di-os a ddanghosodd;
 Y wyrth! trwy brifwyrth yno fe brofodd
 Diau 'n y fan mai Duw a'i hanfonodd.

“I Ewropa awr hapus--tarawai
 Yn Troas fawreddus;
 Awr a ddug i dircedd hon
 Newyddion gogoneddus.

“E gadd weledigaeth gu,
 Liw nos fe welai 'n nesu
 Ryw ŵr o bell ororau,
 O bell Macedonia bau.

“A gorddwys ofid y gŵr ddeisyfodd,—
 ‘Am y gair Macedonia a'm gyrrodd,
 Mi yn ofynnwr yma anfonodd,
 Ti a'r rhad drysawr, O tyred drosodd!’

“Yn ufudd i'r alwad nefol—hwyliai
 I'w helynt genhadol,
 Amddifad oeddym o ddwyfol
 Oleuni pur nes glaniai Paul.

“Ni fu un llong ar gefn lli
 Erioed ag uwch mawrhydi;
 Cenhadlong i'r cenedloedd,
 A dawn nef ar y don oedd;
 Yr haul llon oreurai 'r lli
 A'r don wareuai dani.

“Caraswn ei gweld yn croesi—y llif
 A'r llwyth dwyfol ynddi
 O'r nef i'n cyfandir ni,
 Y lân efengyl inni.

“Ai'r haeddawl ŵr mawreddus—heb oedi
 I Philippi mewn hoff hwyl hapus.

“Y Sul elai Paul a Silas—ill dau ’n
 Mhell o dwrf y ddinas
 I weddi-fangre addas
 Ar lan afon lydan, lân.

“Deuai un Lydia yno,—oedd astud
 Gan ddwysder i wrando;
 Gwnaeth gras ei fawr dramawr dro
 Ar ei rhan, yr awr honno.

“Tywysen gynta oedd Lydia lon
 O doraeth Ewropa dirion;
 Ei theg ysgub flaenffrwyth oedd—a gasglwyd,
 Gynauafwyd gan ras gwiw y nefoedd.

“Buan yn eu herbyn hwy—fe godai
 Torf gadarn ruadwy,
 Enbydus gylch heb adwy,
 Na man o ddiangfa mwy.

“Gan y dorf anwar mewn bâr fe ’u bwriwyd
 I’r carchar nesaf i mewn a gafwyd,
 Obry y drysau cry a sicrhawyd,
 A hwy yn y gell dywell adawyd.

“Ar hanner nos er hynny
 Y ddau frawd haeddfawr a hy,
 Ganent hwylus felus fawl
 Yn ei heigion unigawl;
 Yn eu cell gaethedig hon
 Yr oeddynt hwy yn rhyddion;
 Ni wna’r creulon gyffion gau
 Yma ddal eu meddyliau.

“A hwy yn gweddiaw, Ior a’u gwranda-wodd
 Yn y fan, a’i ddaeargryn anfonodd,
 Ac ar hanner nos, crynodd—dyfnaf sail
 Yr oesawg adail, Ior a’i hysgydwodd;
 Y drysau cryfion geirwon agorwyd,
 A’r carcharorion yn rhyddion roddwyd;
 Er mor gedyrn, eu rhwymau ergydiwyd,
 Ac urddas Paul a Silas a seliwyd.

“I geidwad y lle cadarn
 Ydoedd fel gwawr Dydd y Farn;
 Daeargryn, eneidgryn oedd,
 Ofnadwy o’i fewn ydoedd;

Tywyswyd ef at Iesu
Yn y fan, a thangnef fu.

“Trodd ein sant tua 'r ddinas hen,
Y goethaf ddysgedig Athen ;
Yno bu 'n pregethu y gwir,
'Y Duw hwnnw nid adwaenir.'
Oddiar y byd anfarwol
Tynnai 'r llen niwlen yn ol.
Wrth reol gwir athrawiaeth,
Profi 'n ddoniol nerthol wnaeth,
Y codi o'r bedd cadarn,
Yr ail fyd, a'r Olaf Farn.

“Hoff ŵr Duw, offeiriad oedd—yn addas
Weinyddu i'r Nefoedd,
Ac hynodlu 'r cenhedloedd,—ei enwawg
A'i odidawg offrymiad ydoedd.

‘Plannai mewn llwydd ysblenydd,
Eglwysi, hoff erddi ffydd ;
Ymwelai, delai ar daith
Yn ol, i'w chwynnu eilwaith ;
Dygai 'r ail weinidogaeth
Gynhyddiant i'w ffyniant ffaeth,
A thyfent fel wrth afon
Nefawl lif o'r Wynfa lon.

“O du yr efengyl deg—fe wnai gamp
Fwy nag un o'r deuddeg ;
A chynnydd mawr ychwaneg—rhagorodd,
Heibio hwy rhedodd mewn byr adeg.

“Llafurio wnaeth yn llawer helaethach
O ochr ei Ner, er dechreu yn hwyrach ;
Ar y maes fe weithiai yn rymusach
O du crefydd gan ei hewyd cryfach,
Ar ysblenydd adenydd llydanach ;
I'r byd mewn tymor bach,—dros bob ymyl,
Rhoe 'r Efengyl, ar yrfa ehangach.

“Cadarn dros ei bwnc ydoedd,—calonnog
Ger bron enwog wŷr a brenhinoedd.

“Gan daran ei genadwri—crynodd
Coronog fawrhydi,
Uchod heibio rhôd ei bri
Yn ei gadwen gwnai godi.

“A phan amddiffynnodd—ei hoff hawliau,
 Ffelix a ddychrynnodd,
 Y Dydd Olaf, loewaf lys
 A ddilys sylweddolodd.

“Rhy eglur gwelai 'r rhaglaw
 Y Farn Olaf drymaf draw ;
 Y môr yn unfflam eirian,
 Y lloer deg oll, oll ar dân ;
 Mynwent hwnt i fynwent fawr
 Yn y mŵg yn ymagawr,
 Ac o niwl barn cnul y byd
 Draw a seiniai dros ennyd :

“A Ffestus a hoffai eistedd—o dan
 Ei donnog hyawdledd,
 Ai 'n syn ar ei uchel sedd
 Wrth rwyf ei araeth ryfedd.

“Sylfaenai, pilerai Paul ei araeth
 Yn ddwfn a theg ar graig rhesymegiaeth ;
 A chodai o'r sail fel adail odiaeth
 Mewn llwyrfa fanylaf gyfunoliaeth,
 Maen uwch maen mewn cysonwych ymuniaeth,
 A byw urddunol flodau barddoniaeth
 Yn ymagor, a grawn dychymygiaeth
 Yng nghrôg o'r oludog adeiladaeth—
 Mae 'n wyrth o addurn mewn areithyddiaeth,
 Yn nefol, uwch pob dyn-efelychiaeth.

“Siomi pawb wna rheswm pur,
 Ni etyb hwn i'n natur
 Ai chyrhaeddfawr wych reddfau,
 Ni bydd ef yn ein boddhau
 Oni roir ar yr arlun rhydd—byngau
 O aur afalau y darfelydd.

“Paul fel huan daffai allan
 Oleu eirian, wiw leuerydd
 Gwres o'i eiriau a'i lythyrau
 Geid, a golau, gyda 'u gilydd.
 Wrth fwynhau y golau gwyn
 Ar hyd ystyr ei destyn,
 Teimlo 'r ydym rym ei wres
 Ac hoen ei ysbryd cynnes.

“Y dyfnaf destyn nid ofnai,
 Egniol wr, i'w ganol ai;
 O hyn i farn, ail ni fydd
 I'w gawr-afael ar grefydd.
 Datguddiwyd i broffwydi
 Gwr ei maes ehangfaes hi;
 Ar uwch tir yn llewyrch teg
 Y dydd—e gai y deuddeg
 Fwynhau ar ucheldrefn Ner
 Oleuach trem o lawer;
 Ond cyrrau, rhannau, er hyn
 Roddwyd yn eglur iddyn;
 Ymyl o'r efengyl fawr
 A'i da amwiw am dymawr;
 A! nid rhan o'i hamcan hi,
 Rhyw unig gwr o honi
 A welai Paul, ond unoliaeth—cyfa
 A chyfandra mawr ei chyfundraeth;
 Ei lygad welai ogylech
 Y dwyfol ragorol gylech
 Newyddion wirioneddau,
 Am un gwir mil mwy yn gwau.

“Y cyfan oll cofio wnai,
 A'r swm, pan ymresymai.
 Y gadwen sydd i godi
 Tua 'r nef ein natur ni,
 I godi dyn i gader,
 I lys sydd uwch haul a ser;
 Fe ddilynodd ei rhyfedd ddolennau
 O lys y cariad a'r bwriad borau
 O ael a dibyn anfeidroldebau,
 O awyr fythol yr hen arfaethau,
 Do, fe 'i dilynodd hyd adfyd-lannau
 Amser—trwy amser a'i holl flinderau,
 I fro iach engyl, y fro uwch angau;
 Wrth ddolen y dirgel hen ragluniad,
 Caf yn hon y cyfiawnhad,—yna gwen
 Ddolen gain addien y gogoneddiad.

‘O gadwen fawr fendigedig! od wyf
 Yn d'afael clymedig,
 Dirwyni di ryw unig—gwael fel fi,
 A draw bydd codi o'r bedd cauedig!

"Athroniaeth ai ar wyneb,
 Chwareuai hyd yr ochr, heb
 Daraw i'r gorddyfnderoedd,
 Wyneb gwir ei randir oedd;
 Iddewaeth hynafiaethol—unfodd gaid
 Yn rhoi ei holl enaid i'r allanol;
 Enaid y pwnc oedd nod Paul,
 Y faith wythien fythol
 O wiredd prid godidog
 Y sydd dan grefydd y grôg.

"Athronwyr, dysgawdwyr gynt,
 Rhyw eiddil fadwyr oeddynt
 I gyd, yn ofni gadaw
 Y glennydd llonydd gerllaw;
 Ond ef—Columbus crefydd!—a hwyliai
 O olwg y glennydd.
 Elai 'r enwog olrheinydd
 I fawr a phell gefnfor ffydd!

Yn y drydedd nef.

"Mewn rhyw ias nefolias fyg,
 A rhyw lawen berlewyg,
 Cipiwyd ef i'r loewnef lwys
 Ryw bryd, fry i Baradwys;
 Anfarwolion y fro welai,—y saint
 Goruwch swm gofidiau,
 Yn y nefol bythol bau,
 A'r angylion rhwng heuliau.

"O'i flaen y Wynfa lonydd—oludog
 Ymledai 'n ysblenydd
 Dan dragwyddol ddwyfol ddydd,—ei mwyniant
 A'i ther ogoniant oedd fyth ar gynnydd.

"Aeth i eil-bwynt bythol-bell
 Yng Ngwynfa, ryw Bisgah bell,
 A cherub gwych i'w arwain,
 Ar ei fawr gyrech drwy 'r fro gain;
 A gwelai 'r ddinas glaer oddiyno,
 Ei godidawgrwydd o hyd yn chwyddo,
 Rhes uwch rhes o balasau i roeso
 Y dorf ddi-rif trwy ei phyrth sy 'n llifio
 Odd ein daear, heb angladd yn duo
 Ei llon heolydd, neb o'r llu 'n wyllo.

"Ond ef, o'i wibdaith nefol
 Uwch haul neu, ddychwelai 'n ol.

“Rhyw fer wib cyn ei erfawr waith—oedd hon
 O ddyddanus effaith,
 Neu drem, o flaen ei drymwaith,
 Ar wiw fyd ei wobrwyl faith;
 Rhyw gip drem ar gopa draw,
 Bêr Sabboth! brysiar heibiau.

“A! fe rodd fore heddyw
 Ei ail daith—bytholdaith yw.
 Rhyddhad, ymadawiad oedd,
 Fe aeth i aros fythoedd.

“O flin ddwysgur! wyf fel yn ei ddisgwyl
 O'i hynt uwch heuliau, hwnt o'i uchelwyl
 Ar gyrch, ond gau yw'r gorchwyl—am dano
 I'n aros heno, Nereus anwyl.

“Nereus fwynaf! ni fedraf adrodd
 Y llid, y gofid, y trallod gafodd;
 Gwae, echrys ddig, a chroesaw a ddygodd,
 O ymyl du angeu'n aml diengodd.

“Mileinig erledigaeth
 Ef yn nod bennaf a wnaeth;
 Gloew nod i'r gelyn ydoedd,
 Ac o fyd amlycaf oedd.
 Iddewaeth, Paganaeth, gynt
 Dwy eiddig wrthblaid oeddynt,
 Unai y ddwy anynol
 O lid pur i erlid Paul.
 Addfwyn ŵr, goddefai nych
 O fewn carcharau'n fynych.
 Ar fordaith deirgwaith gwnai'r don
 Agawr ei fedd yn eigion,
 A braidd y diangai'n brin
 O'r môr a'r storum erwin,
 A llidiwyd ei drallodau
 A brad rhy gerth brodyr gau.

Iesu'n unig.

“Ond barnai, cyfrifai'n fraint
 Ei ddyfal ddiodefaint;
 Ni thybiai, ni farnai fod
 Neb, neb, yn werth ei nabod
 Is nen ond Iesu'n unig!
 Er mwyn ei air dygai'r dig,

I'w ddilyn ef boddlaw'n oedd
 Drwy ganol pob dryghinoedd,
 Dilyn drwy newyn, drwy nos,
 Drwy syched, dros ei achos.

“O'i fodd aberthodd y byd,
 Moethau, a phob esmwythyd;
 Ei dalent a'i fodolaeth
 I waith nef yn aberth wnaeth.

“Diddym oedd pob dedwyddyd
 Neu barch feddiannai y byd,
 At orffen mewn llawenydd
 Ei hoff oes a chadw 'r ffydd;
 Ei bwnc, tu yma i'r bedd—oedd gweithio
 A llafurio yn ei holl fawredd,
 Yr hoffusair 'Gorffwysaw'
 Oedodd hyd y byd a ddaw.

“Tyred! mae'r wawr yn torri!
 Rhodio'n ol sy raid i ni.
 O'i pher hun Rhufain ddeffrôdd
 O feddau cwsg; darfyddodd
 Si yr afon; y ser hefyd
 Ganant yn iach bellach i'n byd,
 Dywed eu hymadawol
 Eiriau hwy—'Dewch ar ei hol.'”

R A C H E L . *

O PAHAM y suai'r don
 Ar y lan, mor swynol,
 Rachel fach, gan lanw'th fron
 A breuddwydion nefol?
 Seiniai'n bêr fel cloch y Sul,
 Eto nid oedd ond dy gnul!

Eang yw Amerig fyd.
 Ni chest ti er hynny
 Ddim ond bedd o honi i gyd,
 Gellsid hyn yng Nghymru—
 Gellsid *mwy*, sef uwch dy ben
 Las dywarchen Cymru Wen.

* Cyflwynedig i Mr. Lemuel James Jermyu, Pa., America, ar ol ei anwyl briod, merch y Parch. William Jenkins, yr hon a fu farw Mawrth 26ain, 1876.

Ywen Gwalia, enwog wedd,
 Fuasai yn cysgodi,
 Rachel fach, dy fore fedd—
 Maen Cymreig i'w nodi,
 A phereiddiaf feirdd dy wlad
 I goffhau 'th rinweddau mad.

Lemuel aeth ag ysgafn fron
 Idd ei lon Amerig,
 Ddaeth yn ol yn brudd ei wedd
 Idd ei annedd unig
 Gerllaw Nant y Felin Fach
 Lle buasai gynt mor iach.

Gwelais ef yn gyrru i lawr
 Blwyf-ffordd gul yr Ynys,
 Nid oedd i'w roesawu 'n awr
 Neb ond mam oeddrannus;
 Gwelais wrth ei frys a'i wedd
 Fod ei Rachel yn ei bedd.

Eto yn ei gerbyd bach
 Dygai yn ei ymyl
 Ogoneddus eneth iach,
 Un o fyd yr engyl—
 Byw dlysineb Alice Ann
 Wnai fy swyno yn y fan.

Delw 'i mam ddaeth ar ei gwell,
 Do, yn fyw i adgof,
 Ac nis gwnai Amerig bell
 Beri dim ebargof;
 Nid oes goleu digon ter
 I Alice Ann ond goleu ser!

Ni fu 'rïoed hawddgarach mun,
 Ni fu un fwy anwyl;
 Wedi ei gweled, darfod wnaeth
 Hiraeth am dy anwyl
 Rachel. Alice Ann y sy
 'N ddelw fyw o'th ysbryd fry.

Wedi holl ofidiau 'r daith,
 Wedi 'r maith helbulon,
 Wedi 'r marw mewn estron wlad
 A'r ysgariad creulon,
 Cewch gyfarfod oll-yn iach
 Wedi 'r cyfan, Rachel fach.

DAVID HOWELLS, ABERTAWE.

I ERAILL boed eu harwyr,
 A'u grymus hewydus wŷr;
 Rhoddes Naf urddas i ni
 A geir yn tra rhagori,—
 Ardderchog Weinidogaeth
 O nefol ryfeddol faeth,
 Yn llosgi y'ngwawl dwyfawl dân—areithfa
 Orwemp, olyna rym Paul ei hunan.

Ond er holl ddisgleirder glwys
 Uchela areithfa 'r oes,
 Mae'n gruddfan tan drallod dwys;
 Niwl tew angladdol â'i toes.

Hiraeth sy ym mhyrth Seion,
 Am roi sant mwya 'r oes hon
 I lawr i dawel orwedd,
 Haul ein byd dan lenni bedd.

Duw fu Dduw i Dafydd Hywel,—Duw fu
 Hyd fedd yn ei arddel;
 Mwynhau Duw mewn ne dawel
 'N awr mae 'r sant tramawr ei sel.

Canu llawn dau can llinell—am wron
 Mawr y Ddwyfol Babell,
 Sy lawen i'r awen rydd—
 Sy grefydd i'r ysgrifell.

O fawrion daear pa fri 'n y diwedd
 At hedd-weinidog sanctaidd ei nodwedd?
 Nid yw enwogion byd yn eu hagwedd
 A'u dewis fawryd ond us oferedd;
 Dyna rod o anrhydedd!—uwch cymyl
 Miloedd o engyl deimla eiddgedd.

Calfaria oedd yn cael ei fryd,—a'r Iawn
 Oedd rym ei holl fywyd;
 Ei fyfyr a'i gof hefyd
 Fry gai Calfaria i gyd.

Hywels anwyl seiniodd—i ryfeddol
 Dorfeydd hyd y gallodd,
 Y Gŵr a'n bore garodd,
 A mawr fael y *marw o'i fodd!*

Y marw o'i fodd! Y mwya rhyfeddol!
 Cywir etifedd y cariad dwyfol
 Yn rhoddi 'i hunan, drysor haeddiannol,
 I wared enaid o'i wae dirdynnol,—
 Hyn oedd ei bwnc beunyddiol—swm odiaeth
 Ei fyw weinidogaeth orfendigol.

Ei ddiben ydoedd byw i eneidiau,
 A'u bythol wared o dynged angau;
 Effaith ei araeth wnaï lyffetheiriau
 Pechod, dan ddyrnod Gair Duw, yn ddarnau;
 O danodd syrthiai cadwynau—caethion
 Mwy yn adfeilion mewn oedfa olau.

Elfennau geidw Calfiniaeth—ddiysgog

Oedd esgyrn ei araeth;
 A thrwy ei gref athrawiaeth,
 Creigiau i eneidiau wnaeth.

Cadd yn forau ddwyfol seliau,
 A nef-nodau 'r anfonedig;
 Cadd y gorau gredlythrau—
 Addoliadau ardeledig!

O gallaf, galwaf, i go—y nefawl
 Wedd addurnawl a'r nawdd oedd arno
 Ar esgynlawr mawr yn Môn,
 Ar y maes plith grymusion,—

Mae dydd y gymanfa fawr yn gwawrio,
 Weithion mae awr dirion deg ar daro;
 O, clyw yr emyn yn cael ei rwymo
 Yn offrwm pereiddfwyn i'w gyflwyno;
 Yn ei hwyl swynawl ein Hywels yno
 A mawredd gyfyd—mor hawdd ei gofio.
 A! dyna 'i wyneb wedi 'i eneinio,
 A goleu 'r farn yn llewyrchu arno.
 Clywch Aaron a'i syn glych aur yn seinio;
 Swn y lliaws mawr sy yn llesmeirio,
 Mae ugain mil o'n hil oll yn wylo,
 Tra, uwch iddynt, ei lais yn trech chwyddo—
 O'r Amen a'r ymuno—ogoned
 Derfyn, heb ludded, a'r dorf yn bloeddio!

Mae hen bobl yn min y bedd—hyd heddyw
 Mewn diddan orfoledd,
 Ar ael oes yn cofio 'r wledd,
 Difrifawl oedfa ryfedd.

Ailanwyd yr ŵyl honno—ugeiniau
 Gan yr Ysbryd trwyddo;
 Duwiol dad ysbrydol do
 Oedd hwn i luoedd yno.

Pa allu dawn, pwy all dynnu
 Arlun o'r gwynwawr loew-wawr lu—
 Y gogoneddedig waredigion
 Gai i'w roesawu o gaerau Seion,—
 Y croeso rhyfedd 'r ol croesi 'r afon—
 Gan ei hyf alw gerbron teg nefolion
 Fel eu tad drwy rad yr Ion—ddisgleiriaf
 Pur lu hygaraf, perlau ei goron ?

I'w bulbud hoff, ble bu dyn
 O'i radd a'i nerth a'i wreiddyn,
 Yn glynu mor galonnog
 Wrth fawr gred areithfa 'r grog?
 Didewi hyd y diwedd,
 Aeth o'i bulbud i'w fud fedd.

Am oes, y Cyrddau Misol—lywyddodd
 Drwy lwyddiant bendithiol;
 Yma o hyd y mae ol
 Ei athrawiaeth a'i reol.

Drwy gariad a'i ragorion,—trwy 'n Hiesu
 Teyrnasodd yn Seion;
 Dyn iraidd, a dawn Aaron,
 A'm swyn bryd fel Moesen bron.

O nifer meib tangnefedd—ni fu neb
 Yn fwy 'i nod a'i fawredd;
 Gwnai 'i ireidd-der adfer hedd—i'r praidd glwys,
 A bwriai 'r eglwys ail berarogledd.

Sobrwydd dwyfol difrifoldeb—y gŵr
 Oedd gerydd diwrtheb;
 Baeddu 'n hwy nis beiddiai neb—gan dynner
 Eres anwylder ei bresenoldeb.

Pa sant fel ef, mor nefol,
 A'i hir lwybr mor loew o'i ol?

Nid mwy dilen ol-lwybr seren
 Yn y loewnen, gan oleuni;

Erys naws ei ras i ni,
 Am eiloes bydd ymboli;
 Gŵr a chyngor goruwch angof,
 A'i eiriau fel gemau i gof,
 Perlau fydd glwys eiriau y sant
 A dlyasant ddyfodol oesoedd.

O'i ol ef, had ei lafur
 Dwfn, i bell a dyf yn bur,
 Er aros dan nos yn hir,
 Had da gweddi dadguddir;
 Rhinwedd Gair Duw 'r hedd a drig,
 Goreu had anllygredig.

O'i ddifeius hardd fywyd,
 Awyr bêr sy ar y byd;
 Awyr bêr gwawr y borau
 O'i bur oes wna hir barhau;
 Cof o'i wiw yrfa sy fel cyfeirfys
 Tua 'r ne dawel i'n tirion dywys;
 Wedi angau, dengys!—i'n cyfrwyddo
 Ei iach ddiwyro fuchedd a erys.

Daeth y bywyd-gerbyd gwyn,
 A neidiodd mewn munudyn
 Acw i loew fainc Elias,—a gyrrwyd
 Gan gerub mewn urddas
 Hyd yr wybr yng nghlud rhad ras,
 Heibio heuliau i'w balas.

Pyramid er peri mawl,—pe caffai
 Ofer a fyddai i'w gof rhyfeddawl;
 Enw dyn Duw! O dyna dŵr
 Faedda waith pob celfyddwr;
 A i'r lan drwy y loewnef
 Ban hyd anfarwoldeb nef.

Was difai! gorffwys, Dafydd,
 Hyd y nefol ddwyfol ddydd
 Yr agora 'r Ior gwiwras
 Eto rydlyd glô 'r Crug Glas!
 O, di-boen yw d' obennydd;
 Hun y saint yn fôrddwfn sydd.
 Seraff goleugraff gai log
 O gael estyn it glustog,

Hen was i'r addfwyn Iesu
 A geir i'w engyl yn gu;
 O caerog le yw y Crug Glas
 I'r hyn sydd farwol o'r henwas.
 Hynod gaer, nid a o go
 Am ennyd ddim o hono.
 Mil hentfych fawrwych forau,
 I'th Ior ddod obry i'th ryddhau,
 A'th ail lunio i'th loewnef
 Yn ol ei gorff heulog ef.

Anwyl ŵr, pwy gawn i'w le
 Er tywys Abertawe?
 Ni wel y dref, farwol dro,—
 Ei Lot sancteiddiol eto.
 Oedd un waredai ddinas
 Drwy fawredd rhyfedd ei ras;
 Rhyw aden ddisglaer ydoedd;
 Diau rhyw fur i'r dref oedd;
 Drwg ludd fu i'r dre o'i gladdu.
 Esgud oedd i wisgo du;
 Eang oedd i'w gynhebrwng e
 Barotoad Abertawe;
 Gweinidogion bron heb rif,
 Henuriaid yn aneirif.

Apostol henafol nef
 A roddwyd i'w hir haddef;
 Angladd oedd i angel-ddyn,
 Y dorf oedd braidd ddiderfyn;
 O fewn y dorf Galфинаid,
 Efengyl ag engyl gaid,
 Aneurif yn ei arwyl—yn tynhau
 Eu myg reffynau am ei gorff anwyl.
 Y glwys angylion gloisant
 O dan sel feddrod ein sant;
 Aent ag allwedd y bedd ban—ar odiaeth
 Oreu wasanaeth, i'r Iesu i Hunan;—

Iesu a edwyn ble gosodwyd—gwerth
 Y gwaed unwaith gollwyd;
 E fywioçá i lwch, fe i cwyd
 Yn deilwng o'r Iawn dalwyd.

Os yn deilwng o'r syn daliad—beth fydd
 “Y corff a fydd” yn nydd gogoneddiad!

UDGORN Y JUBILI MILFLWYDDOL

CHWYTHWCH yr udgorn ar glogwyn Moriah!
 Adref, Iddewon, adref!
 Agorwyd pob porthladd ar lan Palestina,
 Adref!

Nid oes ar ffiniau 'r wlad un fyddin mwy dan arfau;
 Yn ol, anfarwol had, i'r mel-ororau!
 Mae 'r ffordd yn rhydd, mae 'r lle yn barod,
 Hawddamor ddydd gollyngdod.

Chwythwch yr udgorn ar glogwyn Moriah!
 Udgorn rhyddhad yr Israelaidd had,
 A chwydded yr adsain, eryrol arwyrain,
 I bellaf ororau pob ynys a gwlad;
 Wyntoedd y nefoedd, yr anthem O eiliwch!
 Dros bennau mynyddoedd,
 Dros donnau y moroedd,
 Ei hadsain danfonwch!

A chwi 'r addewidion,
 Hoff berlau plant Seion,
 Yn fil ac yn fyrdd eich bendithion gawodwch;
 Bellach try 'ch geiriau
 Oll yn drysorau;
 I lawr o'r nefoedd gwlawia eich perlau dwyfol drud,
 Eich golud tywalltedig a gyfoethoga 'r byd.

Qnd chwythwch yr udgorn ar glogwyn Moriah!
 Adref, Iddewon, adref!
 Yn ol yn ddi-nâg
 Mae phiol y felldith yn wag;
 Mae 'r pomgranadau 'n pyngu gan addfedrwydd llawn yn fyrdd;
 A choed talfrigog
 Yn oroludog
 Mewn aeron eurog,
 Bereiddiaf lwyth, yn plygu, a'u cysgod dros y ffyrdd.
 Deuwch fyrdd i'r wledd! mae 'r cangau eurog wawr,
 Gan olud ffwrwythau, a harddwch blodau, oll yn cusanu 'r llawr.

Libanus wisg ei fantell werdd,
 Gan ychwanegu swyn pereiddiaf gerdd
 Adeiniog gorau
 Rhwng bytholwyrdd gangau,
 I'ch croesaw adref
 Dan faner tangnef;

A'r diliau mel drwy'r dolau mad,
 Yn llifeiriant
 A'ch llon wahoddant
 Yn fyrdd i'r Ganan fad.

Chwythwch yr udgorn ar frig Himaleh!
 Iddewon y dwyrain trowch adref i gyd

O gonglau y byd!
 Yn ol yn ddi-nâg,
 O Dan hyd Beersheba
 Mae Canan yn wag!
 Poblogwch ei chaerau!
 Esgynnwch ei bryniau!

A thaenwch eich pebyll dros lennyrch ei broydd,
 A phlannwch eich baner ar gopa pob mynydd,
 Sef hen faner Dafydd, dan nawdd yr hon gynt
 Anturiodd eich tadau yn fyrddiwn ar hynt,
 A bloedd buddugoliaeth yn chwyddo o'u rhengau
 Nes hollol ddistewi hyfgorau y gwynt.

Ar lannau y Danube yr udgorn O chwythwch!

Adref, Hebreaid, adref!
 Dan chwyfawl luniau tangnef,

O Poland fel dylif ar Ganan tywelltwch!

Gwsg Mynydd yr Olewydd
 Ei fantell orysblenydd;

Mae'r myrtwydd yn eu bythol wyrdd

A'u harddwch yn teghau ei agwedd; [iaid fyrdd,

A'r palmwydd uchel, mal breninoedd beilchion, tal ar ddeil-

Mor syth yn sefyll ar ei lechwedd,

Yn arluniau bri a mawredd.

A'r olewydden fras ar chwyf, dan awel nen

Ac awgrym wybren las, gorona'i ben.

A Charmel ar roesawol wedd grechwena dan ffrwythlonrwydd,

Fel brenin ar ei sedd rhwng amldra a digonolrwydd.

Mae'i fraser yn llifeirio dros ei ysgwyddau i lawr,

A choed yn taflu drosto eu gwsg o eurog wawr.

O odrau Môr Canoldir, man

Y gylch ei draed yng nghawg y don,

Hyd ddyffryn Jesreel ymestynna, dan

Fil myrdd o winwydd llon,

Y rhai orffwysant ar ei fynwes eu cangau gwan, dan lwyth o rin,

Yn flin gan wres, yn drwm gan win.

I lan Iddewig lu !

I lan i'r Ganan gu !

Mae glannau 'r afon sy 'n ariannu bronnau Escol,
Yn wlyb gan ddaagrau gwin, yn llif o frasder bywiol, [gynt
Ac yn huddedig dan gangau tewfrig, cyffelyb i'r oludog gangen
A dorrwyd yno gan Osea ar ysbïol hynt
Rhwing blodlawn goed y werddfro.

Pentrefydd glannau Môr Tiberias sydd
A mwd o flodau dros eu muriau 'n hudd,
Yn disgwyl eich myrddiynau i lan
I'w llanw mwy

A gyrru ffrwd y Tyrciad didrain, gwan,
Sydd yn halogi a'i gân a'i weddi eu cysegredig awyr hwy.

I lan Iddewig lu !

I lan i'r Ganan gu !

Dirymwyd braich y pagan,
Dymchwelwyd sedd y Sultán,
A chwalodd anadl barnol wynt
Holl ddeddfau y Divan !
Hebraid ! ar fuddugol hynt
I lan—yn fyrdd i lan !

Mae banïar Calfari yn chwyfio 'n uchel fry
Uwch tyrau Caercystennyn, i lan, waredig lu !

Ond chwythwch yr udgorn ar glogwyn Calfaria !
Lle rhoes eich Messiah, Iddewon, brydnawn
I gyfraith Jehovah oludoedd o Iawn.
Dewch adref i'ch gwlad, i fynwes eich Tad,
Messiah deyrnasa ar orsedd ei rad.
Wylwch, O ! wylwch, wrth weled eich tadau
Yn gwawdio eu brenin yn nyfnder ei boenau.

Edrychwch ar ei glwyfau yn arllwys llif o waed,
A'r porffor ddyferynau 'n ddrud berlau dan ei draed.

O ! syllwch ar y bywiol ffrwd o'i ystlys lif, brydnawn,
Mae fyth yn newydd, fyth yn frwd, gan rinwedd dwyfol Iawn.

Mae 'r drem yn ergyd farwol i'ch anghrediniaeth oesol.
A Iesu dirmygedig ! "Ti"
Gydfloeddiwch, "yw ein Siloh ni."

I lan, brynedig lu ! I lan i'r Ganan gu !
A baner Cristionogaeth yn chwyfio ar bob tu.

Ehed côr yr awelon, a pheraroglau'r wlad,
Dros fronnau'r gerddi gwyrddion i ddyblu eich mwynhad.

A Hebron ymddyrrha ei ben i'r wybr arian
Dan goron o eira i'ch croesaw i Ganan.

Mae'r ffordd yn rhydd, mae'r lle yn barod,
Croesawiad sydd, a bloedd gollyngdod!

Clywch chwythiad yr udgorn ar glogwyn Moriah!
Yn ol yn ddi-nag!
O Dan hyd Beersheba
Mae Canan yn wag.

YR ARGLWYDD SY 'N TEYRNASU.

YR Arglwydd sy 'n teyrnasu ar orsedd tragwyddoldeb;
Ei law sy 'n dal i fyny y ser mewn undeb.
Un awgrym o'i ddigllonder ef
Ddifodai afrif fydoedd nef.

Yr Arglwydd sy 'n teyrnasu! Frenhinodd crynwch!
O flaen ei gadarn allu i'r llawr ymgrymwech;
O farwol lwch! na fyddwch hy—
Yr Arglwydd yn teyrnasu sy.

"Yr Arglwydd sy 'n teyrnasu" medd myrdd o fydoedd;
"Diderfyn yw ei allu" cân sereiff nefoedd;
Rhown ninnau chwydd i'r anthem fry—
"Yr Arglwydd yn teyrnasu sy!"

PA BETH YW IEUENCTID?

IEUENCTID? Blodyn hardd
O dyner blaniad Duw
Yn ymddadblygu ar fron gardd
Ddifannol amser, yw.
Ddyn ieuanc: dod dy flodyn gwiw
Yn offrwm per ar allor Duw,
Fel yr adblanner ef brydnawn
I'r wynfa sydd o'r fath eurflodau 'n llawn.

Y NOS YN MYNEGU GWAITH EI DDWYLAW EF.

O MOR oludog ydyw
 Y nos mewn gemau eurliw
 Sy 'n addurniadau ar ei mantell fry;
 Cyfoethog mewn cyfrolau,
 Ar ddwyfol ryfeddodau,
 A rhwysg Hollalluawgrwydd, ydyw hi.

Mor hyawdl yw 'r ser gorbell
 Ddisgleiriant ar ei mantell
 I hoeddi allan "waith ei ddwyllaw Ef."
 Dyfnderoedd ei ddoethineb,
 A mawredd ei diriondeb,
 Mynegant oll yn iaith cerubiaid nef,

Ai mantell dywell nos,
 Ai llif disgleirder dydd,
 A daen ar fynwes wybren dlos,
 Dadleniad o Dduw rydd,
 Ac ol ei fysedd cywrain sydd
 Ar lenni nos, fel pelydr dydd.

GWAGEDD O WAGEDD, GWAGEDD YW Y CWBL.

YN hawddgar acw ymdaen cymylau gloew a llon
 Dros fynwes dlos yr wybren gain yn ddodrefn heirdd i'w
 Ond pethau munud ydynt! Mwy [bron,
 Ni welir ond eu gwagle hwy.

Amryliw fiodau hardd dan berlawg wlithion fyrdd,
 Hawddgared ynt ar fronnau gardd a than y perthi gwyrrd,
 Arluniau tegwech nef! Ond A!
 Tra swynant, gwywant dan y chwa.

Y wig mewn mantell werdd yn llawn o gorau llon
 Mor swynol ydyw! Ond, pan nesaf gwelaf hon,
 Ni fydd ar gangen ddeilen werdd,
 Nac ar un brigyn adsain cerdd.

Prydferthwech, pan y chwardd ar rudd ieuentid gwiw,
 O! mae yn hyfryd, mae yn hardd. A! hefyd, mae yn wyw.
 Dy farwol chwythiad angau rydd,
 Yr hawddgar, dan oerlenni pridd.

Cyfeillion, dan wên llwydd ymdyrrant ar bob llaw,
 Ond gwged ffawd—mor rwydd y ffoant hwythau draw!
Cyfaill! mae 'r nodwedd yn rhy ddrud
 I'w gael o fewn isloerawl fyd.

Serch—wyla yntau 'n brudd uwch ben y bedd
 Lle mae y fam neu 'r chwaer dan gudd yn nistaw fynwes hedd.
 Byw 'n fynych mae ar bethau fu,
 A siomiant yw ei derfyn du.

Ar bob isloerawl beth sydd o ddaearol ryw,
 Argraffer yn ddi-feth,—“Byr, diflannedig yw!”
 A bather yr un ddedryd erch
 Ar bob daearol swyn a serch.

Am olygfaocedd sy o aniflannol ryw
 Rhaid troi ein golwg fry i'r wynfa wiw
 Lle nad yw hedd na chariad, trwy
 Oes Duwdod, yn diflannu mwy.

 MACHLUDIAD HAUL.

HYD danbaid lethr y nen olwyna teyrn y dydd,
 Ei gerbyd tân uwch ben, ac O! 'r fath londer sydd
 Trwy 'r lewin-ymerodraeth, pan
 Ganfyddir ei wynepryd can.

Hawddgared agwedd nen dan swynol wrid, brydnawn!
 Chwardd dan oludog len, a llif o loewder llawn,
 Pan tua 'r gorllewinol gaer
 Y try y teyrn ei wyneb claer.

Y gloew orielau 'n hongian sy ar bared wybren fawr,
 Pan fachlud ef, ddodrefnir fry â lliwiau gwych eu gwawr,
 Prydferthwch paradwysol daen
 Hyd gwr y nef-olygfa gain.

Cymylau hardd bob llaw ar lawen weddau sy
 Yn cynnal uchelwyliau draw i roesaw 'r brenin fry,
 Yn fil a myrdd hebryngant ef
 I lawr i'w orllewinol dref.

Y ddôl nwyfreol fry a wisg ei thecaf wedd
 Yn barch i'r gwawl-lywiawdwr sy yn disgyn i'w orffwysfa hedd,
 O gwr i gwr yr wybr ddi-lid
 Degheir ag un borfforawg wrid.

O! bydded nawn fy nydd byr innau 'n loew fel hyn,
 Croesawed engyl fi, a boed goleuni yn y glyn,
 Machludiad hapus yna fydd,
 Machludiad i dragwyddol Ddydd.

Y S E R .

PAN safai 'r Crewr fry ar fainc o loewaf wawr,
 Dyferai berlau fyrdd bob tu o'i goron ddisglaer, fawr,
 A'r perlau drudfawr droent uwch ben
 Yn ser arddunawl ar fron nen.

A M S E R .

RHAIADR chwyrn yw amser ddaeth
 O fôr tragwyddoldeb maith--
 Rhaiadr yrr i'r môr yn ol
 A dynolryw yn ei gôl.

Raiadr cyflym! O! 'r fath rif
 Sydd yn cysgu ar dy lif,
 Wedd frawychol, yn feunyddiol heb un ofn;
 O fy Nuw! beth fydd eu braw
 Yr anedwydd ddydd a ddaw
 Pan gyrhaeddir yr arllwysfa dywell ddofn?

Tra y plethwyf yn y llwyn
 Y funud hon fy odlau mwyn,
 Aruthr syniad! mae dy donnau, raiadr braw,
 Yn chwyrnhyrddio tros y dibyn
 Anfarwolion fyrdd i lynclyn—
 Duaf, dyfnaf lynclyn tragwyddoldeb draw!

Heno, pan y byddaf fi
 Yn gorffwyso, a llaw ddu
 Cwsg yn taenu llen distawrwydd dros y glyn,
 Cofia f' enaid! bob munudyn
 Bydd y dwfn anfeidrol lynclyn
 Yn dig olchi i'w waelodion filoedd syn.

Yr un dynged i bawb! Minnau
 Chwyrn ysgubir gan ruthriadau
 Y llifeiriant marwol hwn i'r bythol fôr.
 Boed dy agoredig freichiau
 Yn fy nerbyn draw o'r tonnau
 Rhag fy nghuddio fyth o danynt, rasol Ior!

I ' R E R Y R .

A DERYN hyf, draw, draw yn nen
 Chwareu'i'n iach awyr awen.
 Y nef oll, dy athref yw,
 A'th dalaeth odiaeth ydyw.
 Gweli fry y gloewfawr haul,
 A'i gôr planedawg araul
 O'i gylch ar balmant y gwawl
 Yn llawenu 'n llu unawl.

Uwch miloedd o gymylau fel arian nofiawl sy
 Ar fron yr uchelderau chwareua 'th aden fry.
 Dy fryd sydd ar y nefoedd, dy ffordd sydd yn y gwawl,
 Lle chwaddd carolau bydoedd a myrdd delynuau mawl.

Wyt frenin uchelfrydig ar fron yr wybr fry,
 Yn addurn gwir foneddig, mawreddig drem mor hy ;
 Derchedig draw uwch adar ar lachar araul le,
 O! hydeg em digymhar fry 'n harddu dwyfron ne.

O! disgyn ar dy asgell
 O'r pur uchelderau pell,
 Disgyn i'r bryn wybrennawl
 Draw geir yn cofleidio 'r gwawl,
 Arluniad rho o'r lân-wybr
 Di-rif ryfeddodau 'r wybr.

Pa olwg ar wymp heuliau?—a pha drem
 Hoff draw ar leuadau
 Ddyry Ner i addurnhau
 Ei goeth greadigaethau?

Gwed pa ogoned geinion,—pa fodau
 Pa fydoedd uchelion,
 Sydd fry ger gorseddfa 'r Ion
 Yn urddo 'n nennau heirddion.

Pa ryw seiniau per swynawl
 O nefolaidd fwynaidd fawl,
 O ogoniant, lifant i lawr
 I'th arian lys a'th orawr,
 Dros oriel uchder seirian
 Y ser o'u trybellder ban?
 Telynuau plant y loewnef,
 A pher nod, offer y nef,

O'r llysoedd fry arllwysant
 Fawl eurber ar dyner dant,
 A chlywi 'u huchel awen,
 A'u cerdd bér yn nyfnder nen!

Mawreddog ardrem roddi
 O'r nen ar ein daear ni
 Yn ei rhod maith yn rhedeg
 Ar heinyf daith trwy nef deg.

Ei golygfaoedd hi, er gwyched yw eu gwedd,
 A ddiystyrri di fry ar dy sedd;
 Môr arian o ddisgleirder dydd
 Yn nofio 'n loew o'th amgylch sydd.

Uchelaf fryniau 'r llawr, fel beilch glogwyni sy
 Yn saethu i wybren fawr, ddirmygi di!
 Rhy wael eu balchaf ardwr hwy
 I ddenu trem dy lygad mwy.

A phwy, ar ol un daith trwy fro y nen,
 A gweld ardderchog waith ei Dduw uwch ben,

Yr ystafelloedd tryloew fry,
 A'r ser yn ddodrefn arnynt sy,
 Pwy, wedi'r fath olygfa lon,
 Fyth dremiai ar y ddaear hon?

Yr wybr! yr wybr o hyd
 Yw 'r nod o'th flaen,
 Dirmygi bob pelydryn clyd
 Pob cwmwl ysgafn cain
 A dreigla trwy 'r eangfawr drân
 Sy rhyngom ni a'r wybren lân.

I lan i nefol lys llywodraeth Ner
 Edrychi am ol ei ddwyfol fys ar seirian dyrau'r ser
 Fel glwys lusernau 'n hongian sy
 Ar bared tragwyddoldeb fry.

Wyt arlun teg o ffydd fel eryr nefol sydd
 Yn esgyn heibio cyfundraethau fyrdd
 Ar aden iachawdwriaeth
 I godi plant marwolaeth
 I ddisglaer wynfa hedd dan goron urdd.

Ar ei haden aur eheda fy enaid tlawd i fyfny,
 Dring o fyd ing, dianga o dynged abred obry;
 A thrwy ei swyn dyrch fi yn fwyn ar glogwyn er golygu
 Y Salem sy ar fryniau fry, ogoned dref, yn gwenu.

Ni chyfaddaswyd llygad dyn i weld tir pell y wynfa lon;
 Na 'i glyw i dderbyn adsain cun peroriaeth hon;
 O! awn i lan ar asgell ffydd i glogwyn Pisgah y dadguddiad dwyfol,
 Oddyno gwelwn wawr dedwyddach dydd yng ngoleu pur y
 Seren Fore siriol—

Y seren welodd Balaam hen oddar glogwyni Peor gynt,
 Yn codi 'n hardd â siriol wên uwch Palestina, ar rad hynt,

A chôr o sereiff yn ei dwyn ymlaen,
 O wybyr tragwyddoldeb, gyda bloedd,—
 “Gogoniant yn y goruchafion cain
 I Dduw, a'i wyllys da i ddyn ar goedd.”

O! awn i glogwyn Pisga! ffydd yw yr aden,
 Mae yno lawn olygfa, oes, ar well Eden.—

Nefol Eden yn drylawn o flodau
 Gardd eirianedig â gwir addurniadau
 Mawredd o lewyrch! myrdd, myrdd o liwiau
 O gywreiniad goronau—cerubiaid,
 O! mor gannaidd dan amrywiog wenau;
 Hoff rinwedd dawdd o'i phrennau
 Glystyron i'n llon wellhau.

Gwelaf y wlad! a gloewaf lu—'r engyl
 Rhwng ei choed yn canu:
 O dyna gêd—Eden gu
 I ddyn heb ei haeddiannu.

Dring, dring i glogwyn Pisga! ffydd yw y glust;
 Gwel hwnt glogwyni gwynfa—ond gwrando! ust!
 Pa geirdd ar aden nefol wynt sy 'n dod?
 Carolau gwaredigion ynt, uwch, uwch y rhod!

Melused yw 'r beroriaeth a dery 'm clyw mor lyfryd
 Ar dannau iachawdwriaeth o bau y bywyd!

Ffydd sydd yn agor dôr y wynfa gan ollwng ataf
 Lif euraidd y beroriaeth yma o'r nefoedd uchaf!

Eryr! er maint yw 'th fraint a'th fri,
 Nid ydwyd ti
 Ond pryfyn bron, yn ymyl hon,
 Yn iach!
 Uchelach hi!

“Y NOS Y BRADYCHWYD EF.”

MAE awrlais Salem fawr ar daro tri, *
I fewn i byrth y dref arllwysa myrdd a defosiynol fri,
Gan guddio'r ffyrdd fel cwmwl du.

Dinasoedd Palestina ymwagbant,
Torfeydd arllwysir trwy bob porth ynghyd;
Hebreaid fry i ddinas Seion ânt
A phroselytiaid o bell barthau'r byd.
Fel arlen drom yn cuddio'r cysegredig lawr
Eu trefn, yn aml fel gloewon ddagrau'r wawr.

Arlannau'r Neil! arllwyswch yr holl had
Iddewig, a'r holl ddychweledig lu.
A thithau, falch Euphrates, o bob gwlad
Addurna'th lannau, danfon feibion cu.

I lan! i lan! i Salem gref
Y dônt o dan fanerau nef!

Pentrefydd glannau Môr Tiberias, trowch
Eich dylif o ymwelwyr tua'r fan!
A chwi o ardal yr Iorddonen dowch
I'r lan! i'r lan!

Mae awrlais Salem fawr ar daro tri!
O Dan hyd Beersheba traidd y swyn,
Fel un symudol fôr dan donnau trwm di-ri
Ymdreigla'r dorf gan ganu anthem fwyn.
Cysegrir bryniau holl Palestina
A phêr adseiniau mawl! mawl Jehofah!

A hithau, ymherodres byd
Ar lannau'r Tiber, heddyw'n dderch ei thrôn,
Er mor baganaidd, ddenfyn feibion drud
I iswybrennawl brif-gaer Ion.
A Hebron, hen ei pharch
Arllwysa'i llu
I'r ddinas gu
Lle mae y Deml, a lle y bu yr Arch.

* “Delid yr oen pasg ar y degfed dydd, a lleddid ef ar y pedwerydd ar ddeg, yn y cyfnos, neu rhwng y ddau hwyr; sef tua thri o'r gloch yn y prydawn.”
[Nid Islwyn yw'r bardd mawr cyntaf wnaeth i awrlais daro can ei ddyfeisio.—GOL.]

Dros fryniau Canan
 Trwy 'i broydd eirian,
 Tra cerddant yn y blaen,
 A'r diliau mêl ar daen,

Rhwng pomgranadau ac aeron gorau, bereiddied yw eu cân !

Mor hoff y cofiant hwy "ar gyfer Jericho,"
 Y modd y daeth eu tadau trwy yr afon ddofn i'w bro,
 A'r dull y syrthiodd muriau 'r ddinas gynt
 O flaen eu hunol floedd y seithfed hynt.

O flaen Gibeon
 Ymlama calon

Yr Iddew yn ei fynwes gan foddhad,
 Wrth gofio 'r modd y safodd bydoedd nef
 Yn ufudd oll wrth lef
 A gweddi un o bennaf gewri 'i wlad.

Ond brys! mae awrlais Salem wedi taro tri!
 Prydnawn pedwerydd diwrnod Abib yw,
 Mae Oen y Pasc yn barod ym mhob tŷ,
 A'r bara croyw, a'r surion ddail, yn ol gorchymyn Duw.

Myrdd, myrdd fwytânt!
 A phlentyn bychan sy
 Yn holi ym mhob tŷ,—
 "Fy nhad, mae 'n syn
 Beth yw 'r gwasanaeth hyn?"
 "Hwn yw 'r gwasanaeth," etyb ef,
 "Osododd Duw y duwiau yn gof o waredigaeth gref
 A nos rhyddhad ein tadau,
 A rhwysg ei estynedig fraich
 Wrth arwain Israel fwrdd heb faich."

Myrdd, myrdd fwytânt! A! cysgod yw eu pryd,
 Anghofio wnant y sylwedd drud.

Mae 'n nos!

Ond trwy y prif heolydd
 Llewyrcha lampau celfydd,
 Nes gwisgo y nos brudd
 A darn o fantell dydd.
 Ond anaturiol
 Yw 'r gwawl celfyddol,
 A thraha ar orffwysdra anian leddf,
 Mae 'n groes i'w deddf.

Symuda torfoedd o bob oedran
Yn ol a blaen, i mewn ac allan.
Mewn rhodres cerddant bob ystryd
A balchder ar eu gwyneb pryd.

Clywch olwynion y cerbydau
A chyrn a charnau
Yn dadsain yr holl dref
Fel daeargryn gref!

Ond pwy, atolwg, yw y ddau
Draw sydd yn agoshau
At ddyn yn dwyn ystenaïd o ddwfr?
Mae 'u gwedd yn hynod, er yn lwfr.

Dilynant ef tu cefn i'r dref,
Nes dod i uchystafell fawr
Lle parotôt y pasc, ac ymhen awr
Un ar ddeg hynod ereill sy 'n eu cwrdd.
Eisteddant oll o gylch y bwrdd.

Pwy, pwy yw 'r un dieithrwedd sy wrth ben y bwrdd?
Mae mawryd—tlodi, galar—bri, oll yn ei wedd yn cwrdd.
Difrifwch tragwyddoldeb sydd
Yn seddu ar ei agwedd brudd.
O hynod un! rhyfeddol yw,
Ai dyn: ai angel? dyn ai Duw?
Pelydron anfeidroldeb ar ei rudd
Mewn dwfn fawrhrydri yn tywynnu sydd.

Y mae 'r cerbydau ar hyd y rhodau yn rhedeg â mawr rym,
Ond nid yw rhwysg Caersalem dref
Yn tynnu trem o'i lygad ef
Na 'i sylw ddim.
Gweithreda 'i feddwl mawr
Ar bethau uwch y llawr,
Ac uwch y ser i gyd;
Y mae fel un mewn sobrwydd dwys
Wrth weled pechod yn ei bwys
A Duwdod yn ei lid!

“Hwn yw fy ngwaed,” O seiniau syn!
“Dywelltir drosoch,” beth yw hyn?
“Hwn yw fy nghorff a ddryllir, fy nefaid, drosoch chwi,
A mi yw 'r Oen a leddir o dan y gyllell ddu.”

* * * * *

“Un o honoch chwi
A'm bradycha i!”

* * * * *

Rhyw un ffyddlon
Ar ei ddwyfon—
“Arglwydd ai myfi?”
A! etyb gwên fwyneiddlon
“Nid tydi! nid tydi!”

* * * * *

Un arall o hyf agwedd
A mynwes lawn o bryder,
Ond trem yn dân gan ddewrder,—
“Arglwydd ai myfi?”
Distawrwydd â gwên dyner
Awgrymant “Nid tydi.”

* * * * *

Cynnwys arswydol
Y geiriau brawychol
“Un o honoch chwi
A'm bradycha i”

Barha yr adsain o fraw trwy'r ystafell; [dywell.
A dyfneir ei effaith trwy sobrwydd perffaith a distawrwydd y nos

* * * * *

Un ofnus ei drem,
Fel pe brathai drwy ei galon saeth lem,
Yn hunan-gollfarnedig,
A llais a thôn grynedig,—
“Athraw, ai myfi?”
Tarana dwyfol wg ar rudd
Yr Athraw prudd—
“Tydi!”

“Daeth, daeth yr awr nodedig, yr arfaethedig nos,
'R hyn wyt ar fedr ei wneuthur ar fyrder gwna, a dos!”
“Dos!” bloeddied Salem! eglur yw mai Siloh sydd
Dan ddieithr friw yn yr ystafell hon yn gudd.

Deffrowch! deffrowch! drigolion Salem gref.
Mae Siloh yn eich plith, A! dyma Ef.
Bloeddiwch uwch Gwyl y Pasc—fyth darfu hi.
Mae'r sylwedd mawr ei Hunan gyda ni.

Tyrd, gynrychiolwr Aaron, i'r uchystafell ddistaw.
 Y ddwyfronneg a'r aureffod a'r meitr, dod heibiau.
 Ar odrau 'th fantell na flagged bomgranad mwy,
 A'r clych o aur—distawed fyth, fyth eu hadsain hwy.
 A chwi y Lefiaid enwog gylchogyloch y bwrdd dowch,
 Eich addurniadau euog wrth draed y Siloh rhowch.
 Symuder pob canwyllen wael
 O flaen tanbeidrwydd dwyfol haul.

Ymollynged y cadwyni aur, a syrthied y wahanlen!
 Dos, genedl-ddyn, i mewn lle mae'r drugaredd fan dan aden
 Ymledawl y cerubiaid—dos, ysgydwa law â'r Iddew mwy.
 Cysgodau prudd y ddeddfol nos, llwyr ddiflanasant hwy.

Chwi Ethiopiaid duon, heb ofn na chledd na chlwy,
 Ewch, ewch i mewn yn eon; nid oes wahanlen mwy.

I mewn, genbedloedd, i'r santeiddiola!
 Mae Ior y lluoedd ar drugareddfa
 Fil gwell yn gwenu arnoch a thangnef ar ei wedd,
 A myrddiwn o gerubiaid yn chwareu gylch ei sedd.

Moriah! goddef i bob pagan is y nen
 Ymddringo dy arlethrau fry, a moli ar dy ben.

Mae'r ddau yn un! mae'r mur ar lawr!
 Rhwng dyn a dyn nid oes wahaniaeth 'n awr.

Ond clywch!—

Mae awrlais Salem fawr yn taro un!
 A sobrwydd nos yn prudd gysegro'r dre.
 Distawrwydd a thywyllwch yn gytun
 Ar ysgafn gamrau gerddant trwy y lle
 Mor bruddaidd, fraich ym mraich, gan ddwyn
 Y ddinas oll i'w meddiant trwy 'u llygad-gloawl swyn.
 Mae'r lle ym mynwes trymder
 Yn ddistaw fel y bedd;
 Felly mae'r nos bob amser
 Pan na chyffroir ei hedd.

Ond nid oes un cyffroad
 Yn llys yr Archoffeiriad;
 O'r bwthyn tlawd i'r breiniol dŷ
 Distawrwydd sy,
 O ddyffryn Jehosaphat i frig Moriah fry.

Cwsg, Satan lywiant holl dorfeydd y dref;
 Hir y disgwyliwyd,
 Taer y gweddiwyd,
 Craff yr edrychwyd,
 Manwl ymholwyd,
 Ond pan y cafwyd
 Y dwyfol berl, dibrisiwyd
 A diystyrrwyd ef.

Nid oes yn awr o'r fintai hon ond deuddeg gylch y bwrdd. [cwrdd.
 Mae syndod, tristwch, galar, ym mhob bron fel amryw ffrydiau 'n

Ust! pwy sy 'n rhodio yr ystryd!
 Clywsom ei sangiad ar y palmant coedd—
 Heddeidwad! A! obaith rhy ddrud—
 Nid archoffeiriad oedd.

Gwrandawn fath ddieithr eiriau ddyferant dros wefusau
 Y dirmygedig Grist ar nawn ei greulawn ddiodefidiadau;
 Ysgydwa beraroglau hedd o'i hardd agwedd a'i frawddegau.

"Chwenychais fwyta 'r Pasc yn fawr, blant, gyda chwi un waith
 yn hwy
 Cyn rhoi fy hun yn basc; ond ar y llawr ni fwytáf o hono mwy,
 Mwynhawn yr wyl fawr nesa
 Ar fwrdd fy Nhad yng ngwynfa."

Mae 'n ganol nos! Ymsudda 'r dre
 Yn ddyfnach, ddyfnach i brudd fynwes taw;
 I dorri ar orffwysdra 'r lle
 Nid oes ond ambell gerbyd yn gyrru yma a draw.

Ymddengys heirdd lusernau 'r rhod
 Yn llawnach o ddisgleirder,
 Taerineb, a thryloewder,
 Nag yr arferant fod.
 A ydych chwi, ser, o'ch meinciau yn nen
 Yn llygadrythu ar eich Ner dan farwol len!

Ond clywch! o'r uchystafell lom ymddyrecha adsain cân;
 A thyr ei swyn trwy gaddug y nos drom i'r wynfa lân,
 Lle eilir hi gan sereiff fyrrd rhai feddant lwys dafodau tân.

Rhyfeddwch, ser! wrth weld yr Oen
 Yn canu ar brydnawn ei boen,
 A'i ffyddlawn unarddeg, waredig rai,
 O'i gylch yn chwyddo mawl y gân ddi-fai.

O synnwch fydoedd draw! oferedd, gwn,
Dirgymhell syndod ar fath fyd a hwn,

Clywch adsain olaf y rhyfeddol dôn
Wrth esgyn tua gorsedd Ion!

Try'r fintai allan i'r ystryd yn awr,
Cydrodiant tua muriau Salem fawr,

A thros furmurawl li afonig Cedron
Sy'n treiglo rhagddi gyda si yn llawn breuddwydion.

Hoff fryn Olewydd! uwch dy glod
Na'r holl fynyddau is y rhod,
I'r ardd sydd ar dy lechwedd dring
Fy Ngheidwad'nawr mewn dwyfol ing.
Mae'n gorwedd ar dy lethr heb ortho,
A gwllith y nos yn disgyn arno;
Ei unarddeg o'i amgylch sydd
Yn ffyddlawn, eto'n cysgu'n brudd,
A gweddi ddofn eu hathraw gwiw
Yn torri'n ddarn acenion ar eu clyw.

A'i wyneb ar y glaswellt oer
Dan wybren drom ddi-loer,—
O! gwelwch ef dan wg y nef
Euogrwydd byd arno a roir.

O! dacw ddafnau trwm o waed yn llifo'n chwys o borffor wawr,
A Chariad Duw yn dal ei chwpan rhad i'w derbyn pan ddefny-
nant tua'r llawr.

Trysora yn ei chawg bob dafn llawn
I'w roi i'r ddeddf yn holldigonol Iawn.

A chwyd i lan bob blodyn pur dan draed,
I weld a oes o dan eu cysgod ir ryw ddafn o'r gwaed.

Iesu fy Nuw! mae'r glaswellt tan dy draed
Yn llaith gan ddwyfol waed.
Gwaed enaid yw!
Gwaed dyn ym mynwes Duw!

Cedron li! ychydig a feddyli di am rin y dafnau heno sydd
Yn gymhlith âg oer wlithion y nos brudd
Yn notio ar ymchwyfol laswellt gardd
Gethsemane, gerllaw yr hon y chwarrdd
Dy ddwfr ar yrfa nosawl lwfr.

Arafach ! mwynach ! O awelon nef !
 Ystyriwch pwy yw Ef
 O flaen eich oerlyd chwythiad sydd
 Yn rhynu dan yr wybren brudd.
 Ef gynt a rodiai ar eich edyn
 Pan ar eich taith dros fryn a dyffryn.

O ddeddfau anian fawr ! pam na ataliwch chwi
 Eich prwyaeth munud awr er mwyn yr addfwyn Ri ?
 Agorwch borth y dwyrain hardd ac archwch gerbyd taniol
 Yr haul i lan, i dwynnu uwch yr ardd yn foreuach nag arferol.

Neu ymddiosged y wen loer
 O'i gemwrig arian oer,
 A rhwysged hi
 Mewn cerbyd o dân fry,
 A thafled ffrwd o wres i lawr
 Am unwaith ar ei Chrewr mawr.

Gorehmynnwch wyntoedd hyf y nen
 I'w hystafelloedd yn y fro uwch ben.

Trowch Gethsemane ardd
 Yn deml hardd,
 Ddisgleiriach na 'r un farmor sy
 Yn goron lathr ar ben Moriah fry.
 Addurner hi â dodrefn ser y nen,
 Disgleiried drosti berlau fyrdd heb len.
 Ac ar ei gloew orielau
 O rhowch seraffig gorau
 A phrif organau nef y nef,
 I'w llanw â pheroriaeth ddwyfol gref.

Trowch Cedron obry 'n llif o arian ;
 A gwisgwch yr Olewydd,
 A'i feilchion balmwydd,
 A mentyll o aur eirian.

Os gormod hyn, archwch na wylo nef
 Ei dagrau oer, oer mwyach arno ef.

A boed—

Ond taw !

Pa oleu dieithr draw !
 Mae dyfroedd Cedron yn disgleirio
 Gan flaglau tân trwy 'r wybr yn chwyfio.

Mae'r goleu uthr yn dod
 Nes! nes! mae brad yn bod.
 Clywch sangiad traed trymion
 Tu yma i lif Cedron.
 Pa leisiau garw erchyll
 Ar lechwedd y bryn tywyll
 Yn llwon halogedig
 Yn rhwygo'r wybr grynedig?
 Wele loewon gleddau milwyr
 Yn mellennu trwy'r drom awyr.

Mae'r Eryr ar daen,
 Mae'r fyddin o'i flaen!
 "Codwch—
 Awn!"

"DAETH YR AWR."

DAETH yr awr! Iscariot, dos,
 Yng nghudd ym mantell nos
 I lys yr archoffeiriad, o flaen y fyddin fawr,
 Cytuna bris y Ceidwad, daeth yr awr!

Mae'r llys yn eistedd
 Mewn rhwyg a mawredd
 Yn disgwyl dy ddyfodiad mwy,
 Dos! brysia! gwerth ef iddynt hwy.
 Na saf i ddadleu ynghylch y pris,
 Derbyn y cynnyg cyntaf—brys!

"Daeth yr awr!"
 Medd y Gwardwr mawr
 Ei hun, o awydd cariad llawn
 I roi ei waed yn fythol Iawn.

Brys! adyn, brys! y mae
 Caersalem fawr yn huno,
 Ac nid oes neb yn cyffro
 Ond archoffeiriaid gau.

Diffoddwyd yr holl lampau
 A'r cyhoedd oleuadau.
 Mae pob ystryd yn dywyll,
 Yn unig mae gwawl erchyll

Yn ffenestr palas Caiaphas draw,
Ac ambell flagl fel arlun braw
Yn goleuo'r Lefiaid fry
I'r palas dŷ.

Iscariot, ffwrdd!
Mae'r arian ar y bwrdd.

"Daeth yr awr!" Dihunwch lengau!
Mwy na chloer eich amrantau.
Brys! parotowch y ffyn, a phlethwch goron ddrain,
Ac awchwch eich cleddyfau, a gloewch bicell fain.

Mae'r pridwerth wedi ei nodi,
Mae'r darnau wedi eu talu.

I'r gwersyll daw ar frys
Yr archoffeiriaid,
Mae ffaglau tanbaid
Yn symud gylch y llys.

Par'towch y gorsen frau, a'r glaerwen wisg frenhinol,
A threfnwch y pren gau a'r hoelion llym arteithiol!

Wele y bradwyr!
I lan a'r Eryr!
Yn fyddin fawr aed, aed eich llengau dan ddisglaer arfau
Daeth yr awr!

"Daeth yr awr!"
Annwfn fawr!
Arllwysa 'th lucedd yn fil o filoedd o'th wersyll tân yn awr!

Daeth yr awr! yr awr i brofi dy rwysg a'th allu,
A bythol gadarnhau dy sedd neu 'i chwalu 'n llwyr i'r llawr.

Gyr, gyr dy fyddin fawr yn donnau o lid du,
Pob ton yn ellyll rholfawr—ac annog hi
A'i chadarn allu i lwyr orfygu penwron Calfari,
Er bythol adfer trwy'r aruthr ddewrder yr orsedd gref, y goron
A gollodd gynt ar faes y wynfa fry. [deg, a'r bri,

"Daeth yr awr!"
Brys! Simon brys!
O! gwel y chwys
Dros ael y Siloh
Hyd ôl y gwaed sy 'n llifo

Gan bwys y groes
 A marwol ing y loes.
 Mae rhinwedd yn y chwys,—
 Ond brys, Simon! brys!
 Hyd lethr Golgotha dwg un pen
 O'r melldigedig warthus bren!

Tyrd gyfraith y nef yn dy gyflawn arfogaeth:
 I gwrdd â Meichniydd dynolryw 'n llawn llid!
 Dy fyrddiwn o farnau
 Am fyrddiwn o feiau,
 Gwagha ar ei ben eu digofaint i gyd!
 Dy hawliau cedyrn oll, tarana â llid mawr!
 I'w ateb yn ddi-goll,—“Daeth, daeth yr awr.”

I blannu baner tangnef a'r Duwdod ar y llawr,
 I ddwyn y crwydriaid adref i fynwes y nef fawr,
 I brofi hoen anhraethol,
 A theimlo hedd anfarwol,
 A dechreu cân dragwyddol—
 “Daeth yr awr!”

“GORFFENNWYD.”

GORFFENNWYD! clybu'r rhwysgfawr haul, a ffoes
 O wydd y byd, a'i wên yn wg a droes.
 Pan welai 'i Grewr yn gogwyddo 'i ben
 Fry cauai 'i amrant aur o flaen y nen!
 A throai i ffau ddyfnaf y nos gudd
 I geisio ei galarwisg fwyaf brudd—
 Ac yn y fantell dywell, a'i lygad hardd ynghau,
 Rhwng bydoedd dychrynedig ymdreiglodd gan dristau.

Gorffennwyd! suddodd y drydanol lef
 Trwy greigiau fyrdd i fro'r ddaeargryn gref;
 Pan glywodd ffoes ei hôn—deffrodd mewn llid—
 Rhoes ru brawychol trwy ddyfnderoedd byd—
 Er galw ei dychrynfeydd yn fyrdd i lan
 A'i holl ysgydwol nerthoedd i'r un man,
 I ymdorri oll ar unwaith trwy aruthr nerth a bri
 Fel myrddiwn o fagnelau dan wadnau Calfari.

Gorffennwyd! aeth y gair yn fywiol li
 O anfarwoldeb tua'r fynwent ddu,

A nofiodd torfoedd ar ei donnau byw
 Dan ddwyfol ddelw yn ol i fynwes Duw.
 Gorffennwyd! teimlwyd grym yr adsain hy
 Trwy 'r Deml goronai ben Moriah fry!
 Ymrwygodd y wahanlen gan ddwyfol rin y gair,
 A gwelai byd prynedig y drugareddfa aur.

“NEF A DAEAR A ANT HEIBIO, EITHR FY NGEIRIAU
 I NID ANT HEIBIO DDIM.”

POB lleuad a arianna nen-amrodau 'r haul-gyfundraeth, drŷ
 Yn gorff o wyll dan ddyfnaf len, a gwaed bruddha 'i har-
 Ond ymddisgleiria 'm geiriau cedyrn, pan [ianwedd fry!
 Dan fôr o waed y trenga pob lloer gan.

Y ddaear fawr, gan oed yn flin, a'i gwisg yn llwyd gan yrfa faith,
 Newidia'n llwyr; ar newydd lun cychwynna fry i'w newydd daith,
 Ond pan ar arall wedd adlunir hi
 Anghyfnewidiol fydd fy ngeiriau i.

Ei bryniau beilchion, fry yn entrych wybr, y rhai ag her wrth-
 dront y corwynt hyf [sylfaeni cryf!
 Ataliol furiau ar ei rwysg a'i lwybr, llwyr—llwyr ddynoeithir eu
 Pan ruthrant heibio 'n erfawr gyrff o dân—
 Myrdd “gyda thwrf,” saif, saif fy ngeiriau glân.

Yn ei funudau olaf, yr haul fry a syrth i fythol gwsg rhwng
 llenni prudd! [ddydd!
 Yn gawr blinedig cau ei amrant cu, ac yn ei lys ni enir arall
 Ond pan daen nos dragwyddol dros y nen
 Fy ngeiriau i ddisgleiriant yn ddi-len.

Corwyntoedd barn, yn llawn elfennau llid pan chwythant drosodd
 o eilfydoedd draw [i lwch mewn braw!
 Diffoddant ddisglauer lampau 'r nef i gyd, gan chwalu myrdd o ser
 Ond pan o fod dysgubant nennau fry
 Ar Allu Duwdod saif fy ngeiriau i!

“A PHEDR A GANLYNODD O HIRBELL.”

O! NA cholffarner yn rhy lym un gwir gredadyn, pan
 Fo'r brofedigaeth yn ei grym, a'i galon ynddo 'n wan.
 Nid marw yw yr anian well—
 “Pedr a ganlynodd o hir bell.”

Ni feddai yr eondra gynt na'r galon wrol gref,
Teimladau dyn, diflannol ynt—efelly 'i deimiad ef;
Ond ni ddiffoddwyd yr egwyddor well,
Er gwanned oedd—"canlynodd o hir bell."

Nid oedd ei gariad at ei Athraw pur yn llosgi 'n fflam o fewn ei
fron yn awr, [cynta'r wawr,
Ond meddai eto un wreichionen wir, dra egwan, fel pelydryn
Gwreichionen rhwng llif-ddyfroedd uffern hell
Ond dwyfol oedd—"canlynodd o hir bell."

E. MORGAN, CAERDYDD.

DYWEDWYD wrthyf, farw Ieuan bur,
Ac wylais pan ddywedwyd. Ond, ai gwir
Fod *saint* yn marw? A! nid angau mwy
Yr hyn a elwir angau; iddynt hwy
Porth anfarwoldeb hapus yw y bedd,
Gwawr dydd tragwyddol, dôr i balas hedd;
Ystorum arw, nid llongddrylliad fu;
Ym mhorthladd hedd ar draeth y wynfa gu
Diangol yw y morwr; gwisg o bridd
Yn unig soddodd yn yr eigion cudd.

Diangfa oedd; rhyddhad o garchar blin
I awyr rydd eilfydoedd; newid hin—
Y rewlyd am yr hafaidd; gerwin fôr
Am hafn o fythol hedd yn nheyrnas Ior.
A wylais ddydd ei angau? Beth! ar ddydd
Ei ogoneddiad! Codais yn groes brudd
Amgylchiad ddygodd goron iddo ef,
Aniflanedig wobr anwylyon nef.

Haeddasai 'r gem gadarnach gist; y gem
Ddisgleiriai 'n loew, ddi-rwd, dan hin ry lem
Mewn cleidy, angel ydoedd; haul rhy bur
I'r ddaear halog ddal ei wawl yn hir
Heb geisio tafu drosto aml len ddu,
A galw hynny 'n ddiffyg. Ond ei fri
A'i nodwedd, pan ddisgynnodd lleni 'r glyn
I gau 'r olygfa faen ein llygaid syn,
A'i hagog fry yng ngŵydd angylion nen,
Ei fri, bryd hyn, oedd araul a di-len.

Ffo, enllib! ffo oddiwrth ei fedd ar frys.
 Brycheuyn du nid oes i feiol fys
 Ei nodi yma. Dyn, cywiraf ddyn,
 A Christion i'w goroni, yma sy'n
 Ymorffwys hyd y farn, pan, ger y byd
 Y cyfiawnheir ei egwyddorion drud.

Yng nglan yr angeuol li,
 Yng ngholedd yr angeu li,
 O'i flaen hwnt fe welai nef
 Aurlannau yr oleunef;
 Bro lawn o bur oleuni,
 A Ior yn haul i'w rhan hi;
 Bro sereiff a'u bras oror,
 A'i llonder mal llawnder môr.
 Gwelai 'r wlad, a disglauer lu,
 Ogoned, yn cydganu
 Ar finion yr afonydd
 Dan y ras-orseddfa sydd.

Gwelai gerub â gloew goron
 Yn ei law, o flaen awel lon
 Ato'n hedeg tan nodi,—
 "Y brawd hoff, dyma 'th wobr di."

Howel, dan chwarae 'i delyn
 Yng nghôl gwawl, yn angel gwyn,
 Safai draw i'w roesawu
 I'r lan o'r ymchwyddfawr li.
 Ar aden oreuredig
 Dygai ei frawd i deg frig
 Derch yn nef,—“Edrych yn awr”
 Lefarai dan lif eurwawr
 Goleuni tanbaid gloewnef,—
 “Oddyma noda y nef
 Oludog, yn ymledu
 'N olygfeydd chweg, teg, bob tu.
 Gylchogylch gwel iach agwedd
 Nefolion gwynion eu gwedd.
 Gwel Uriel mewn gwawl eirian,
 Odlâ'n bêr â'i delyn ban.
 Gabriel ar frig y wybren
 Gwel yn uwch nag heuliau nen.
 Clyw'r aneisor gôr a gant,
 Foreu wawr ein hadferiant,

Fawl i Dduw, floedd o hewyd
Am ddyddiwr, prynwr mewn pryd.

“Pa eirian degwch ! y prynedigion !
Bennau hygaraf, bob un a'i goron,
Dan awyr heddwch i gyd yn rhyddion,
Uwch acw a welir yn iach eu calon.
Yn aur-balasau eu Ner heb loesion
Gogoniant ddygant, nef-foneddigion !

“O hynod olwg ! weld dyn a'i deulu
O dan y goron a Duw 'n ei garu ;
Ei boenau drosodd ; a'i ben, drwy Iesu,
Ogoned a'r angel, er gwan drengu.

“Mor iach, oll, a mawrwych, ynt !
Godidog werth gwaed ydynt.
Prynwyd hwy ar y pren dig,
Do, a gwaed y bendigedig.
Gwaedodd y bendigedig
I'w prynu, do, ar y pren dig.
Ninnau, wehilion anian,
Ddargipiodd, tynnodd o'r tân ;
Drwy ei waed yn der wedi
Cannwyd a glanhawyd ni.”

Goleuni tanbaid lanwai'r glyn o'i flaen ;
Gloew lampau'r addewidion, fyrdd ar daen,
Yr addewidion am adgodiad gwell,
Arllwysent oleu trwy'r olygfa bell
Hyd eigion tragwyddoldeb, nes hyfhau
Ei galon yn yr ymdrech. Syllu wnai
Yn siriol ar y bedd ; nid carchar du
Y galwai'r fangre, ond gorweddfa gu
I'r corff ymorffwys ynddi yn swyn hedd
I adnewyddu'i nerth. Yr oedd ei fedd
Yn ddisglaer drwyddo. Iachawdwriaeth bur
Lewyrchai drosto'n enfys tangnef clir.

Anrheithiwr marwol ! Pam y dygaist di
Brif berl trysorfa'm serch, fy nghyfaill cu,
Fy nghuaf gyfaill ? Diflas, diflas mwy
Yw cyfeillgarwch ; gwaeda serch dan newydd glwy.
Ardystiaf ar dy feddfaen, Ieuan gun,
Y byddaf bellach gyfaill im fy hun

Fel, ar fedd arall, na alarwyf mwy.
 A ! nid cyfeillion gwir mo honynt hwy
 A elwir felly, felly berchir gan
 Y galon ddidwyll. Cyfaill ym mhob man,
 A than bob tymhestl, cyfaill, cefais di,
 Mor gywir a fy nghalon f' hun i mi !

Ei frawd ! trwy natur hoff ei frawd, ac un
 Trwy brofiad ; dau dyneraf frawd mewn un ;
 Brawd mewn ffyddlondeb a orbwysai fyd,—
 Nac wyla, gyfaill. Wylo, afraid yw ;
 Ei frawd, feithrinwyd yn yr unrhyw gryd,
 Troed wylo 'n efryd syn am ennyd—clyw
 Y floedd trwy anadl addewidion Duw,
 Hwyl floedd yr olaf udgorn, olaf ddydd
 Y ddaear, pan y dyrch, a'i babell bridd
 Yn danbaid anfarwoldeb, a'i holl lun
 Yn ddelw o ogoniant Duw ei Hun.

MAWL I DDUW.

FY enaid ! O bendithia Dduw !
 Rho iddo beunydd foliant byw.
 A boed dy nerthoedd oll ar dân
 O santaidd barch i'w enw glân.

O ! nac arghofia 'i ddoniau fyrdd
 Sy 'n gwlawio 'u cyfoeth dros dy ffyrdd.
 Ar dannau mawl chwareua mwy,
 Cân am eu digonolrwydd hwy.

Yr hwn sy 'n maddeu 'th feiau 'n llawn,
 Yn dryllio 'th gadwyn den mewn Iawn,
 Yn soddi 'th bechod yn ei waed,
 Gan glymu 'th elyn wrth ei draed,

Yr hwn wellha dy glwyfau du
 A dwyfol falm o Galfari
 Gan dynnu 'r niwed o bob clwy,—
 Fy enaid, Ef addola mwy.

Duw a'th gorona, fore a nawn,
 A chyfoeth ei drugaredd lawn,
 Gwaredu 'th fywyd hefyd mae
 O ddistryw a thragwyddol wae.

I'th lawn ddiwallu nos a dydd
 Goludoedd o ddaioni rydd ;
 Y mae bendithion pur ei ras
 Mor aml a gwlyth y ddaear lās.

Dy gamrau âg ymenyn ylch,
 A môr ei radau lif o'th gylch ;
 Fy enaid, O ! addola Dduw,
 A'm nerthoedd oll, ei enw gwiw.

O DDYFNDER MOR.

O DDYFNDER môr euogrwydd du
 Y llifais Arglwydd arnat ti ;
 Fy ngweddi ar dy orsedd clyw,
 A sylwa ar fy nghalon friw.

Os creffi ar anwiredd, pwy
 A saif o flaen dy wyneb mwy ?
 Ond mae maddeuant gyda thi,
 Ac fel y'th ofner hedd i ni.

Rho imi, Arglwydd, falm dy glwy,
 Ac ar dy air gobeithiaf mwy ;
 Disgwyliaf am dy wên yn awr
 Yn fwy na 'r gwylwyr am y wawr.

Disgwylid Israel am ei Dduw,
 Addoled ef â chalon friw ;
 Tangnefedd sydd, a noddfa gref,
 Ac aml ymwarded gydag Ef.

Y BUGAIL MAWR.

YR Arglwydd yw fy Mugail mawr,
 Ni theimlaf eisiau ar y llawr.

O dan ei law arweiniol ef
 Dan ganu rhodiaf ffordd y nef.

Gwna imi orwedd, hafuidd hin,
 Mewn porfa welltog, lawn o rin,
 Tra chwyth aroglau 'r nefoedd fry
 Ar hedd-awelon Calfari.

At ffynnon prynedigaeth lawn
 Tywysa 'm henaid, fore a nawn,
 A disycheda dorf ddi-ri
 Gerllaw ei dyfroedd tawel hi.

Pan af ar grwydr o'r gorlan bur
 Fy nghanlyn wna trwy anial dir;
 O safn y bleiddiaid mae 'n rhyddhau
 Gan ddychwel f' enaid o bob bai.

Er mwyn ei enw arwain fi
 Yn gywir i'r baradwys fry,
 Hyd lwybrau ei gyfiawnder pur
 Trwy fyrdd o faglau 'r anial dir.

Pe rhodiwn ar hyd glyn y bedd,
 Pe gwelwn angau ar ei sedd,
 Nid ofnwn niwed na braw syn,
 O'm blaen goleuni lanwai 'r glyn.

Anfeidrol Fugail! yr wyt ti
 A'th dyner wialen gyda mi,
 Ac yn yr ymdrech olaf hon
 Fy nghysur fydd fy ffydd, a'th ffon.

Yng ngwydd fy holl elynol lu
 Arlwyi haelaf ford i mi,
 A phiol fy nymuniad sydd
 Yn llawn i'r ymyl, nos a dydd.

Daioni a thrugaredd, trwy
 Fy mywyd, a'm canlynant mwy.
 Preswyliaf, Arglwydd, yn dy dŷ
 Nes fy rhyddhau i'th wyddfod fry.

ARGLWYDD Y LLUOEDD.

A RGLWYDD y lluoedd, ein Hior ni!
 O! mor ardderchog yw dy fri,
 Yr hwn osodaist uwch y nef
 Ogoniant dy freniniaeth gref.

O enau plant y peraist fawl
 A gallu i ostegu'r sawl
 Na seiniant dy ardderchog glod
 Ti Awdwr bydoedd, Awdwr bod!

Pan syllwyf ar y nefoedd fry
 Godidog waith dy fysedd di,
 Y lloer a'r ser a defaist draw
 Fel perlau oddiar gledr dy law,

Pan syllwyf ar eu mawredd hwy
 Pa beth yw dyn, O Arglwydd, mwy
 I ti ei gofio, neu o'r nef
 Ymweled â'i breswylfod ef?

Y GROES.

GWELD Iesu ar y pren dan bwys euogrwydd byd,
 A'r gyfraith ar ei ben yn arllwys cronfa 'i llid,
 Enynna ynnof fywiol dân
 O gariad at ei enw glân.

Yn ymyl croes fy Nuw eisteddaf fore a nawn,
 Llif yno ddyfroedd byw, tardd yno fôr o lawn,
 A heibio hou y ffrydia lli
 Dyr fy angerddol syched i.

Nid ofnaf ing na gloes na dyfais uffern gref,
 Pan syllwyf ar y groes, a gwaed ei galon Ef
 Yn llifo dros ei wisg brydnawn,
 Yn frwd gan rin anfeidrol Iawn.

Mae'r gwaed-ddefnynnau drud dreiglasant dros y pren
 Ar gadw fry i gyd yng nghawg trugaredd nen.
 Anturiaf at yr orsedd mwy
 Yng ngrym eu digonolrwydd mwy.

Gydwybod! dring i lan i fynydd Calfari,
 Gwel Dduw 'n ymgrymu dan lwyth dy euogrwydd du!
 A thawed dy gyhuddol lef
 Fyth, fyth o flaen ei angau Ef.

Yn llonydd eistedd mwy gan ganu wrth y groes,
 Na rydd i'm calon glwy, na phâr i'm mynwes loes.
 Hedd mwyach! Ymlonydda di
 Dan aden waedlyd Calfari.

Fy enaid clwyfus, bydd gynefin iawn â'r groes,
 Dring yno nos a dydd am falm iachâ dy loes—
 Y balm o Gilead yno gaed,
 Balm dynnwyd gynt o'r drutaf waed.

COFIAF CHWI.

ETIFEDD Gorsedd Duw—'rwy 'n myned at fy Nhad,
 Yn natur dynol ryw, i'w fynwes dyner fad.
 Ond dan y goron danbaid fry,
 Ganlynwyr ffyddlawn, cofiaf chwi.

'Rwy 'n myned at fy Nhad byth mwyach i'w fwynhau,
 O flaen ei wyneb rhad i fythol lawenhau,
 Ond pan ym môr ei fwyniant fry,
 Fy hoff ddisgyblion, cofiaf chwi.

'Rwy 'n myned at fy Nhad i'm llys brenhinol draw,
 Lle mae'r deyrnwialen fad yn barod fry i'm llaw;
 Ond pan uwch bydoedd daliaf hi,
 Fy hoff ddisgyblion, cofiaf chwi.

'Rwy 'n myned at fy Nhad, i blith seraffiaid nen,
 Rhai folant f' enw rhad o gylch fy ngorsedd wen,
 Ond rhwng mel-fwyniant eu tôn fry—
 Tôn fyth-chwyddedig—cofiaf chwi.

O! cofiaf chwi pan fydd y bydoedd tan fy nhroed,
 O cofiaf chwi! rhai fu mor ffyddlawn im erioed!
 O rhwng y dwyfol swynion fry,
 Ar frig gogoniant, cofiaf chwi!

HAWDDAMOR, NOS.

FY Nuw! fy Nuw! bendigaf Di
 Am flodau iechyd, blodau bri;
 Ac am eu torri a'u gado 'n wyw
 Bendigaf di fy Nuw! fy Nuw!

O! tyner oedd yr awel fwyn
 Anadlai arnaf hedd a swyn;
 Ond gwell y dymhestl; profais drwy
 Ei chwythiad hi dynerwech mwy.

Islaw y lloer gwell wybren ddu,
 I'n troi at wybren loewach fry;
 Hawddamor, nos! trwy 'th lenni prudd
 Canfyddaf wawr tragwyddol ddydd.

Gorffwysdra pêr wobrwya 'r groes,
 A llwyr iachâd ganlyna 'r loes;
 Rhaid, rhaid i'r fynwes deimlo drwyddi
 Pan dynnir gwraidd y drwg o honi.

Trugaredd gwywo y cysuron pêr
 O'm blaen a daenai llaw Rhagluniaeth Ner;
 Enillfawr fu y golled honno im,
 Enillais nefoedd, ac ni chollais ddim.

CYFAILL.*

AM lawer blwydd bu 'n troi o gylch ei fedd,
 Mae er y ddoe o'i fewn ar dawel wedd.
 Os trwm ei faich tra yn y fuchedd hon,
 O! ysgafn yw 'r dywarchen ar ei fron.
 Llewyrcha mil o addewidion ter
 O'r ogof nosawl hon, fel mil o ser;
 Mae dôr i fythol ddydd o'r ddofn gell,
 A rhydlyd borth i fyd i fywyd gwell.

Gorffwysa di! a dod dy ben i lawr
 Ar arffed iâ y bedd mewn hedd yn awr.
 Mae 'n bryd it orffwys, O! y mae yn bryd
 I'r fron dawelu wedi gwaedu cyd,
 I fys oer angau gau dy aelïau blin
 Yn nhawel nos y bedd a'i falmaidd hun.
 A! nos y bedd! mae honno fyth yn dawel,
 A thrwyddi hi ni chwyth ystorm nac awel.

O'th fynwes flin ni chwyd ochenaid eto,
 Ac ni ddaw gwaedd i'r distaw fedd i'th ddeffro.
 Rhy ddwfn yw ym mro distawrwydd obry
 I leisïau 'r byd ei gyrraedd i'th gythryblu;
 Rhy ddwfn, rhy bell; ond A! mae un all alw
 Y bedd i'w wÿdd, a thorri hun y marw,
 A chyfaill hoff a brawd i ti yw hwnnw!
 O! forau teg ddwg ar ei awel fry
 Yr hollalluog lef o'r nef i ni!
 Deg wawr a egyr ddôr y fynwent brudd
 I ollwng iddo y tragwyddol ddydd!
 Hardd, O! fy nghyfaill, fydd dy wedd bryd hyn
 Wrth ddod i fyny o gysgodau 'r glyn,
 Wrth esgyn tua 'r nef yn dawel fry
 Rhwng chwyldroadau 'r farn a'i thyrfau hi,
 Yn dawel fry! a'r beddau 'n wag bob llaw,
 Y byd yn cau a'r nef yn agor draw.

REBECCA JONES, PONTYPRIDD.

I LAN y dŵr elai 'n hyderus,—Iesu
 Eisoes yno 'n daclus!
 Gwelai draw argoel di-rus
 O nefolaidd lan felus.

* Mr. D. Bowen, Abertawe.

Gwelai fyd y bywyd di-ball,
A goleu dyrrau gwlad arall.

Ar obennydd ffydd ei phwys—mor addien
Ymroddai i orffwys;
Goleuni dydd yn y glyn dwys,
Goleuni i gerdded glyn gorddwys.

Croesawiad corau Seion,—a'i cherddi
Ddoent i'w chwrrd i'r afon;
Melus tua 'r ymylon
Oedd tonau hedd tannau hon.

Hyd ochrau nef dechreu wnant—âg engyl
Gyngherdd y gogoniant,
Hithau dyn yr odiaeth dant
Ar ymylau 'r môr moliant.

Efrydu 'r hen fwriadaeth—yw ei gwaith,
Chwilio 'r gwythi helaeth
Geir c rasol adferol faeth,
Drwy ddirfawr ddyfnderoedd arfaeth.

Iach mwyach uwch amheuaeth,—a llonydd
Uwch llanw anghrediniaeth,
Ar ol y storm a'r alaeth
Hionon nef ei phrydnawn wnaeth.

I arlwy fawr yr ail fyd,—yr elai
Ar ol hirfaith dristyd;
Gylch y bwrdd cafodd gwrddyd
A glân deulu 'r gân i gyd.

CAROLINE MARY DAVIS.*

DROS Aber-Iâ ymdaenodd cwmwl du,
A daeth yr hwyr a'i gawod ddagrau fawr,
Yn sydyn, do—pan na feddyliem ni
Ond am y wawr.

'R oedd seren deg yn gwawrio ar y byd
Yn llawn o bob prydfferthwch a phob swyn,
Hi oedd canolbwynt serch y teulu i gyd,
Sef Carey fwyn.

* Bu farw yn Aber-Iâ, Penrhyndeudraeth, Gorffennaf 17, 1877, yn 18 oed.

Rhy ddwyfol oedd ei gloewder i barhau
 Ar farwol rod—rhy anwyl oedd yn wir
 Gan Iesu a'i angylion, in fwynhau
 Ei gwên yn hir.

Mewn teulu 'n ofni Duw, pan fyddo un
 Yn mynd a gormod o'n serchiadau ni,
 Mae Iesu 'n trugarhau, ac ato 'i Hun
 Fe 'i cymerth hi.

Mor fyr yw deunaw mlynedd! Ond mor faith
 I gael mwynhau ANGYLES gyda ni!
 Wrth gofio yr ymdeithydd, hir fu 'th daith,
 O Carey gu!

Cael gormod nefoedd ar y ddaear hon
 Yw colli nefoedd y tu draw i'r bedd;
 Mae Iesu yn cymysgu 'r prudd a'r llon
 Er mwyn ein bythol hedd.

Os swynol oedd y Nef, rieni cun,
 I chwi o'r blaen, mwy swynol yw yn awr—
 Oblegyd mae eich merch anwyla 'n un
 O'r "dyrfa fawr."

Mae dolen *newydd* rhyngoch 'nawr a'r Nef,
 Un ddolen *llai* wrth hyn o farwol fyd;
 Fel hyn, o un i un, datoda Ef
 Y rhwymau i gyd.

Mor hawdd fydd marw pan fydd marw mwy
 Yn ddim ond mynd at yr anwylaf rai
 Garasom yma—oll uwch loes a chlwy,
 Heb boen na bai!

Wrth gofio 'r ymadawiad yn y glyn,
 Yr ingol loes, a'r *olaf* ysgwyd llaw,
 Mor felus fydd cyfarfod wedi hyn
 Yr ochor draw!

O! fendigedig, ddwyfol ochor draw!
 Yr ochor draw i gystudd, poen, a chledd,
 A'r ochor draw i bechod—daw! fe ddaw!
 Tu draw i'r bedd!

O! plannwch flodau o'r siriolaf liw
 Bob gwanwyn ar ei bedd, sef lliwiau hoen,
 Fel haedda un sy 'n canu gyda Duw
 A chyda'r Oen.

Mae 'n gamwedd wylo gormod ar ol un
 Na wyla byth ond hynny ; un sy i ddod
 O lwch Meirionnydd, fel yr Iesu ei hun,
 Yn gerub fod.

Y PARCH. DAVID MORRIS, CAPEL HENDRE,
 SIR GAERFYRDDIN.

NI sonnid am ei ddysg, ac eto, pwy
 Ddywedai 'n well am rinwedd marwol glwy?
 Dyferai 'i weinidogaeth ar y llu,
 Gan yr eneiniaid dwyfol oddi fry
 Mor felus traethai am faddeuant llawn,
 A'r ffordd i fywyd trwy anfeidrol iawn!

Bod yn offeryn iachawdwriaeth dyn,
 Pa fraint gyffelyb yn y nef ei hun?
 Etifedd oesoedd, anherfynol fod,
 Ei achub ef sydd hawl i fythol glod ;
 Tydi a gefaist yr uchelfraint fawr,
 A'th le sydd uchel yn y nef yn awr.

CANED CLYCHAU RHONDDA.*

CANED clychau Rhondda 'n awr,
 Gyda 'n hun-llef fonllef fawr ;
 Ac er bod y gaua 'n dod,
 O! na wywed dail y coed—
 Aer Broneirion ddaeth i'w oed,
 Aer y Cymro gore erioed.

Dowch i fyny, dowch yn fyrdd,
 Dan fanerau, lond y ffyrdd,
 Dowch, wynebdu fyddin fawr,
 Seiniwch glod eich llyw yn awr ;
 Offerynau tawel hedd
 Yw ei arfau, nid y cledd ;
 Cenwch iddo ddydd ei oed,
 Aer y Cymro gore erioed.

Cymwynaswr fel ei dad
 Fyddo mwy 'r etifedd mad ;

* Ar ddyfodiad Edward Davies, Llandinam, i'w oed, Mehefin 1873. Y gerddor-
 iaeth gan Mr. J. Thomas, Blaenannerch, yn awr Llanwrtyd.

Nid oes eisiau mynd ymhell,
 Nid oes eisiau cynllun gwell;
 Un yw gweddi Cymru fad,—
 Boed y 'tiffedd fel y tad!

Oes o haf fo 'i oes o hyd, oes o hedd;
 Oes o gân fo 'i oes i gyd, hyd y bedd;
 Boed y dwysen fel yr had,
 Boed y 'tiffedd fel y tad!
 Cenwch glychau, seiniwch glod
 Aer y Cymro gore erio'd.

G W E D D I .

PAN y cauwyd dorau Eden, safai 'r euog yno 'n hir,
 I fwynhau yr olwg olaf ar y ffrwythau dros y mur;
 Toddai ymysgaroedd cariad wrth ei weled dan ei friw,
 A gadawodd yn ei ymyl allwedd Eden uwch ei rhyw.

GWEDDI yw yr allwedd honno, agoriad yw i'r wynfa fry;
 Nid oes porth ar gaer y nefoedd a wrthsaif ei gallu hi;
 Ymagora 'r nefoedd iddi hyd yr orsedd ddwyfol bell,
 Fel yr ymagorodd unwaith o flaen yr archoffeiriad gwell.

Mae y gwylwyr archangylaidd yn ei chroesaw ar ei thaith,
 Pan y delo Gweddi heibio, agor, agor, yw ei gwaith;
 Mae ei thrwydded yn ei mynwes, gall ei ddangos os bydd raid,
 Ysgrif o dan law cyfiawnder, dan sel fawr o werthfawr waed.

Dyma 'r ddolen sydd yn uno gwendid dyn a gallu Ior,
 Dyma 'r traeth i roi ein llestri ar y dwyfol fythol fôr;
 Dyma 'r aber lle cyferfydd afon dymuniadau dyn,
 A di-derfyn fôr trugaredd, sydd a'i led fel Duw ei hun.

Gallu hon, nid meidrol ydyw, O! nid dynol yw y fraich
 Fo i'r lan ar ystum gweddi, ac nid gormod unrhyw faich;
 Mae pechadur ar ei liniau wedi mynd yn fwy na dyn,
 Yno mae y gwan yn gadarn, â chadernid Duw ei hun.

Braich yr angel ydoedd rymus sydd yn cynnal sail y byd
 Ac yn dal y Greadigaeth wrth ei gilydd led a hyd,
 Ond ar Peniel cyfarfu a'i grymusach, plygodd hon
 Dan y weddi, er na phlygodd erioed dan bwys y ddaear gron.

Olwyn fawr ei nerth a'i gallu ydyw Gweddi; pan y try,
 Fe ysgoga holl olwynion nef a daear gyda hi;
 Rhod Rhaegluniaeth ar y ddaear, Eiriolaeth yn y nefoedd fry,
 Y ddwy olwyn fawr, i symud ar ei hechel ryfedd hi.

Gweddi yw y porth i deml
 Amlygiadau wyneb Duw
 Gweddi a

(Gadawyd yn anorffennol ar ganol brawddeg.)

L A Z A R U S .

- “Y MAE fy nghyfaill Lazarus yn huno,
 Yr wyf yn myned i'w ddeffroi o'i fedd.”
 Mor hyf siaradai! 'R oedd awdurdod ganddo
 I rwymo angau, a malurio 'i sedd;
 'R oedd ganddo lef a wnai i angau wrando,
 A rhoddi ei brynedig bwrcas iddo.
- Nid honnwr gau sydd yma 'n ymfawrygu;
 Diddymwr angau yw 'r Ymdeithydd blin!
 Mae ynddo fawredd, ynddo ddwyfol allu,
 Mae anfarwoldeb hefyd ynddo 'i hun;
 Pan gwyd ei fraich, tyr heyrn byrth marwolaeth,
 A chryn y bedd, gan addef ei lywodraeth.
- “Y mae fy nghyfaill Lazarus yn huno.”
 Ei gyfaill? Yr oedd ganddo ambell un!
 Un yma a thraw yn rhoi ei galon iddo,
 Ei galon iddo, pennaf Gyfaill dyn;
 Ac er ei fod yn hawddgar oll i ddenu,
 Un yma a thraw geir eto yn ei garu.
- “Fy nghyfaill.” Peth cyffredin yw yr enw;
 Ond pwy all blymio 'i ystyr llawn a'i bwys?
 Adwaenwn un oedd ddigon mawr i'w lanw,
 'R oedd yno ddyfnder, yno sylwedd dwys;
 Caed môr o ystyr yn yr enw yno,
 Nad oedd gan amser linydd idd ei blymio.
- Lle oer a phrudd yw 'r bedd i ddodi ynddo
 Anwlyd cu, i huno hirfaith oes;
 Pa le mae 'r llun angylaidd? O, ai yno!
 Fe rydd pob newydd adgof newydd loes;
 Iesu! y mae f' anwlyd innau 'n huno,
 Pa bryd y deui heibio 'r bedd i'w deffro?

MEWN GWLAD BELL *

MEWN gwlad bell mae 'n galed byw—A! mor bell
 Dy Gymru bur heddyw;
 Pallai dawn, er pelled yw,
 A dweyd anwyled ydyw.

Pen Arth a'i gopa nerthol,—hen Gaer Dydd,
 Ger y don Hafrenol,
 A Llandaf plith meillion dŏl,
 Ddaw i olwg feddyliol.

Dy galon a'th gred gwylia!—d' hoff awr i
 Ado Ffrainc a wawria;
 Nid yw pluf ei rhwysg ond pla;
 Gwell tawelwch Gwyllt Walia.

CLOD LLETYGARWCH. †

CEIR yn nhorfoedd Caernarfon—wr hynod
 Ei riniau at estron;
 Fel cyfaill daw, a'i law lon
 Roesawa deithwyr Seion.

Dygodd o Geredigion—garedig
 Radau i fro Arfon,
 A chlywaf iach alawon
 Dwyfol lais y Deifi lon.

Lle hoenfawr, llawenfyd—bore a hwyr
 I bererin esyd,
 Enwog le i deimlo 'n glyd,
 Lle uchradd megys Llechryd.

Brawd i saint, a'i briod sydd—chwaer iddynt
 O uchraddol grefydd,
 Dros dirion hoff feibion ffydd
 Mawr boen a gymer beunydd.

Yn ei heddwch a'i nodedd—Duw fyddo
 Hyd fedd yn eu gwarded;
 A'r oes i'r eiloes pan red,
 Gwlad engyl fo 'u gloew dynged.

* Englynion i Mr. John Davies, Caerdydd, pan oedd yn aros yn Ffrainc.

† Englynion cyflwynedig i Mr. a Mrs. Stephens, Uxbridge-square, Caernarfon.

D. R. STEPHENS.

STEPHENS! A, enw cyffrous i Gymro,
 Cynhyrfa deimladau llenorion y byd;
 Dros wefus y bardd fel dil mel y mae 'n treiglo,
 Ac i'r hynafiaethydd mae 'n felus a drud;
 Stephens! mae 'r enw yn deffro adgofion
 O lenor dysgedig, a chyfaill cariadlon,
 Y pennaf ei ddoniau, y mwynaf o ddynion,
 A'r uchaf ei glod o feib Gomer i gyd.

Yn wrol lanc ym more 'i oes
 I lwyr ddiwydrwydd fe ymroes,
 Gan benderfynu mynd ymlaen
 Er rhif y rhwydau oedd ar daen
 Dros dyner lwybr ieuencid, rhoes
 Ei fryd ar ddod yn gawr yr oes.
 Dros feusydd ffrwythlon llawnion llên
 Yn fynych syllai gyda gwên
 Wrth oleu canwyll, pan nad oedd
 Masnachol dwrf nac erchyll floedd
 I beri cyffro, pan fai taw
 O orsedd gwyll yn taenu braw
 Hyd gyrrau 'r arddrych. Llawer tro
 Pan fyddai Abergwyddon fro
 A'i holl drigolion yn ddi-feth
 I deyrn y nos yn talu treth,
 Efe oedd effro gyda 'r gwaith
 O gyfansoddi gwreiddiol draith.

Gwreiddiolder meddwl, dull, a dawn,
 Feddiannai, a thrysorfa lawn
 O bob gwybodaeth. Medrai ef
 Athroniaeth byd, athroniaeth nef.
 Deallai y gwyddiannau oll
 A'r celfyddydau yn ddi-goll.
 Oedd hyddysg yng nghyfrinion llên
 Derwyddon a phrydyddion hen.
 Helyntoedd holl deyrnasoedd byd
 Adroddai â deallus fryd;
 A chyfundrefnau 'r nefoedd gron
 Gaent gylchle eang yn ei fron.

Nid trwy ddylanwad mawrion byd y daeth
 I sylw, bri, a pharch. Nid aur a'i gwnaeth

Yn fawr yng ngolwg mawrion. Nid trwy hawl
 Ucheledd bonedd y cyrhaeddodd fawl;
 Na, am ei lwyddiant a'i anrhydedd cun
 Dyledwr oedd i'w ymdrechïadau 'i hun.
 Trwy rym athrylith, ac ymroad llawn
 I fyfyr, trwy ymdrechu fore a nawn,
 Y dringodd dros ataliol fryniau fyrdd
 Nes cyrraedd gorsaf bri, a phalmwydd gwyrdd
 Anfarwol glod. Gwir, yn nhywyniad gwawr
 Ei einioes, na chyfrifid ef yn fawr—
 Fel na chyfrifir eraill lanciau sydd
 Ymhlith y dorf yn cychwyn gyrfa 'u dydd—
 Er hyn, pan ymddadblygai 'i ddoniau mir
 Yn loew a phrydferth megys blodau ir,
 Pan wrth y bwrdd yn rhoi desgrifiad rhad
 O gampau a chyfreithiau hen ei wlad,
 Pan drwy y wasg yr ymddisgleiria i 'n gu,
 Pan o'r areithfa y llywyddai 'r llu,
 Ei enw gerfid gyda boddus wên
 Ar faen bytholiant ymhlith cewri llên.

Anfarwol Stephens! Hyfryd yw y swydd
 O adgoffhau dy riniau. O mor rwydd
 I fardd adgofio bardd, a chanu 'i holl
 Rinweddau ar gyfodluddull yn ddi-goll!
 Cyffrous i'n serchiadau yw 'r coffhad
 O'th ddoniau mwynion a'th ragorion mad;
Eu coffa, digon yw; ni raid wrth baent
 I'w gorddarlunio 'n rhwysgfawr, herwydd maent
 Yn ddisglâer oll o hanfod, ac yn hardd
 Naturiol, fel y wridog wawr pan chwârdd
 Yn drylon uwch y dwyrain borth, neu pan
 Lewyrcha 'r haul ar orsedd y gwawl can.

Haelionus ddoniau, berlau 'r nef
 A afradlonwyd arno ef
 Anwylyd anian!
 Yng ngwawr ei ddydd tywalltodd hon
 Anfarwol lif o ddawn i'w fron
 O'i phiol arian.

Efe, fel y winwydden gun
 Yn plygu dan ei llwyth o win
 Gyfrannai fendith;

Caem ymddigoni fore a nawn
 Ar glysdwr o'r pereiddiaf rawn—
 Grawn ei athrylith.

Eanged oedd cylch ei wybodaeth! Pwy all ei amgyffred i gyd?
 Ei ddeall grafangai athroniaeth a holl hanesyddiaeth y byd;
 Olrheiniai helyntoedd yr oesau, y brwydrau, a'r troion di ri,
 O frwydr arwrol Caerdroia hyd syrthiad Hungaria o'i bri.
 Ei feddwl cyrhaeddgar grafangai syniadau athronwyr y byd;
 A gwyddai orchestion rhyfeddol y mawrion llenyddol i gyd;
 Ei gof oedd drysorfa ddihsbydd o berlau ysblenydd y beirdd,
 Lle cadwai brif geinion eu hodlau a phrif addurniadau eu ceirdd.

Ei dafod oedd arfedig ag hyawdledd greddfol pur,
 A llymach oedd ei eiriau nag edlymaf saethau dur.
 I'r frwydr ai o du ei wlad fel arwr dewr, a'i gledd
 Gylchogyloch yn pelydru gwawl tragwyddawl wir a hedd.
 Ar faes y wasg pan frwydrai 'n hyf a'i arf i'r lan, dros hon,
 Gelynyion fyrddiwn er mor gryf arswydent ger ei fron.

Ei wlad! mor gywir oedd ei serch at hon!
 Hi oedd anwylyd ei ryddgarol fron.
 Ei gariad ati oedd y ffynnon lawn
 Lle tarddodd ffrwd ei areithyddol ddawn.
 Defnyddiai arf y wasg i'w diffyn hi
 Rhag cleddau'r cyfryw fynnent droi ei bri
 I warth, a'i nerth i wendid, gan sarhau
 Ei barddas a'i llenyddiaeth trwy fodd gau.
 Elynyion Gwalia! gwrthwynebwy'r blin!
 Mor aml y cawsoch deimlo treiddiol fin
 Gwladgarol gledd ein Stephens, pan i'r gâd
 Y rhedai gyda'r floedd "Fy ngwlad! fy ngwlad!"
 Ei frwd areithiau fel colofnau dur
 Barhant yn dystion o'i wladgarwch pur;
 A'i urddas fel gwladgarydd fydd yn fawr
 Tra byddo mab i Gomer ar y llawr;
 A'i fri flagura yn ei gyflawn rwysg
 Tra thon yn Hafren a thra dwfr yn Wysg.

Trwy gyndreigliadau amser medrai ef
 Ddynodi aml helyntoedd Gwalia gref.
 Ei araeth ddisglaer dafai oleu llawn
 Ar frudiau 'n gwlad o'i bore hyd ei nawn.
 Carnhuanawc arall oedd. Ni roddai ef
 Ddychymyg wael yn lle hanesiaeth gref;
 Ac ni chynhygai res haeriadol faith,
 I lenwi gwagle man na fyddai faith.

Ni chelai 'r digwyddiadau anhoff, mwy
 Na 'r godidocaf rai. Darluniai hwy,
 Yr hoff a'r anhoff, da a drwg, ynghyd,
 Fel pe 'n ysgrifio hanes estron dud.
 Trychwalai bentwr dychymygion hen,
 A'r hyn fai wir adroddai gyda gwên.
 Olrheiniai hynt pob brodawr, arfog wr,
 O ddydd Caswallon fawr hyd gawr Glyn Dŵr.

Ei gedyrn wir areithiau dros ei wlad
 Oent drylawn o wrhydri dinacad.
 Milwrol gywair a arferai ef
 Fel gwron hyf yng ngwyneb byddin gref.
 Y pentwr hagr o drawshoniadau du,
 I'n herbyn luniwyd gan elynion lu,
 Ar ben y gâlon dynnodd ef i lawr
 Fel Samson ddewr ar frig Philistia fawr.
 A tharian gwiredd troai yn ddi-lwfr
 Bob cledd yn babwyr, a phob saeth yn ddwfr.

Ei iaith a garai fel y carai 'i wlad,
 Pan ddaeth yn wr bu iddi 'n dirion dad
 A chadarn amddiffynnwr; cafodd hon
 Y fangre fwyaf cynnes yn ei fron.
 Ar dannau cof chwareuai yn ddi-goll
 Ei phigion barddol a llenyddol oll.
 Diffynnai 'i bonedd, gan amlygu 'i rhwysg,
 Ar lannau Derwent fel ar lannau 'r Wysg.

Ei waed ymferwai trwy 'i wytheni clyd
 O'i galon hyd ei draed, gan ffoi i'w gryd
 A chochi 'n ddigllawn ar ei ddwyrudd, pan
 Sarheid ei iaith, ni waeth ymha ryw fan—
 Caerodor ai Caer Dydd; ei serch oedd frwd
 Ar lannau 'r Tafwys bell un fodd ag Ebwy ffrwd.

Ymreddfai glewder beunydd yn ei fron,
 Egwyddor llwrymroddiad lywiau hon.
 Cyn ymgymeryd ag un gwaith o bwys
 Meddyliai, pwyllai, adfeddyliai 'n ddwys,
 Rhagbrofai 'i nerth a'i gymhwysderau, gan
 Droi tremiant rhagolygawl i bob man
 Lle nythai rhwystr, yna 'i efryd iawn
 Esgorai 'n brydlon ar ymroad llawn,
 Yr hwn, fel gorchwyl-roddwr ar ei daith
 Yn rhoddi gwaith ar bawb, a phawb ar waith,

Gyflogai ei gyneddfau a'i holl ddawn
I ddwyn ei farn i fuddugoliaeth lawn.

Ei air oedd fel ei weithrød; a'i ddi-ffael
Weithredoedd fel ei eiriau, oll yn hael.
Dau agwedd ni adwaenai; yr un oedd
Ei agwedd yn y cudd ag yn y coedd;
Nid Cristion yma, ac anffyddwr draw,
Ond Cristion ym mhob man, pell a gerllaw.

Ei galon yn ei wyneb oedd; a'i wedd
Oedd ddrych o'i feddwl a'i dufewnol hedd.
Ni wasanaethai unrhyw amcan 'brwnt
Mewn dirgel fodd; ymgodai 'mhell tu hwnt
I gylch dibenion gau. Dyrchafai 'r gwir
Fel yn ei gredo, yn ei fywyd pur.
Ei addewidion ffrwythent mewn cwblhad,
Yr oll ddywedai a gyflawnai 'n rhad.
Diniwed fel colomen oedd; pa bryd
Y bu 'r fath ddawn a'r fath gywirdra 'nghyd
Yn yr un fron? Mabanaid oedd ei wên
Er mai rhyw Ercwlf oedd ar feusydd llên.
Ymgomiaï 'n llon a rhydd á'r glowr tlawd
Heb wrïdo, fel pe iddo 'n dyner frawd.

Uwch profedigaeth oedd mewn gwael ystad,
A dilwgr ymhlith mawrion penna 'i wlad.

Ei gredo ardeledig ddaliai 'n dyn
Mewn modd disigl a gair di-dwyll; er hyn
Ni wyrai i eithafion o un tu,
At ei wrthbleidiau tra chymedrol fu.
Tra y diffynnai 'i farn ei hun, heb loes
Gwrandawai eraill yn dyfarnu 'n groes.

Ei eiriau tyner a anadlent hedd,
A delw haelfrydedd chwarddai ar ei wedd.
Ei gannaid lygaid, fel dwy belen dân
O fron yr huan, neu fel pelydr glân
O goron angel, daflent ynni trwy
Y galon lesg. Athrylith trwyddynt hwy
A ymddisgleiriai yn eu llewyrch hardd,
Gloew ddrychau dawn, cyfryngau meddwl bardd.
Hwy welent anian fel y dylai bardd
Ei gweled, oll yn rhyfedd, oll yn hardd,
Ac oll yn dangos Duw. Adwaenent ol
Ei ddwyfol fys ar fynydd, ffrwd, a dôl.

Gorfawrion oeddynt fel ei ddoniau ter,
 Pur fel ei feddwl, disglâer fel y ser
 Pan dduaf yw y nos. Brycheuyn du
 Nid oedd i huddo eu hysblander cu.
 Pan yr areithiai ar ryw bwnc o bwys
 Eu trem oedd benderfynol, sobr, a dwys,
 Mor sobr a'i feddwl. Cynrychiolent holl
 Syniadau 'i fron; amlygent yn ddi-goll
 Tu faes a oedd tu fewn; ei galon lân
 A threm ei lygad ydoedd ddiwahan.

A phan y troai disglâer lif ei ddawn
 I redle pynciau difyr, llon a llawn
 Oedd eu hagweddiad; swyn dyddordeb roent;
 Ac fel ei feddwl, dianwadal oent.

Ei dymer bob amser oedd dawl a siriol,
 Fel wybren ddigwmwl yn gwenu mewn gwawl;
 Didwylledd oedd un o'r nodweddau rhagorol
 Enilloedd i'w enw ymddiried a mawl;
 Siroledd ei anian, a swyn ei areithiau,
 Ac arddull lifeiriol ei ysgrifeniadau,
 A'i aidd dros lenyddiaeth ei wlad a'i defodau,
 Fawrheir drwy 'n gororau â llafar di-dawl.

Nid fel pryfedyn gwael yn glynu wrth y llawr
 Oedd, ond fel seraf haul yn cychwyn gyda 'r wawr.
 Dros gant y byd ymdafai ef
 I ganol rhyfeddodau 'r nef.

Yn ei awenyddol yrfa ffoai hwnt i blith y ser
 Sydd yn hongian yn y gwagle wrth linyrau troedle Ner.
 Gyda 'r beirdd hyd ffyrdd Caer Gwydon bryisiai ar adenydd mawl
 I ddarganfod heirdd ddadblygion gallu Ior ym mroydd gwawl.

Oedd ei galon yn feithrinfa egwyddorion rhyddid mad;
 Ewyllysiai roi diangfa i gaethweision pob rhyw wlad;
 Amddiffynnai resymoldeb rhyddid llafar, rhyddid barn,
 Gan arddangos anuwioldeb gwladol a chrefyddol sarn.

Unai ffrydiau ei wybodaeth ag ehelaeth lif ei ddawn,
 Gan droi trochion ei athrylith eilwaith ar y llifant llawn;
 Yna gyrrai 'r holl ryferthwy ar draws durol furiau trais
 Nes y dadgylmai 'r caerau er eu hoesol rym a'u mais.

Ryddid! Do, ti gefaist orsedd gadarn yn ei fynwes lon,
 Rhoddodd it anwylaf annedd yng nghynhesaf gell ei fron;
 Wyla! wyla! mae dy noddwr heddyw 'n huno yn y bedd;
 Mae ei fath i ddal y bwa? Mae ei ail i drin y cledd?

Efe fel seren fawr addurnai wybr llên,
 A Chymru dan ei wawr arwisgai hygar wên,
 Drwy ei llenorol wybren hi
 Llewyrchai ar gyhydedd bri.

Llafurwyr trwy ei uchel ddysg a wnai yn athronyddion pur;
 Fel hardd oleuad yn eu mysg pelydrai wawl athroniaeth wir,
 Nes gwneyd y bwth mynyddig gwael
 Yn ddêlw o athrofa hael,
 A'r tad yn athraw prif di-goll
 Ar fyfyrdodau 'r teulu oll.

Er uchel ei deilyngdod, balchder du
 Ni feiddiai lechu yn ei fynwes gu.
 Ei folawd lifai dros bob gwefus gun,
 Ond ni ddyferai dros ei fin ei hun.
 Nid mwy ei ddawn na 'i wylder, ac nid llai
 Ei haeddiant na 'r cydfoliant uchel gai.

Ni wyddai beth oedd gweniaith ond trwy glust,
 A phan lefarai truthiwr, gwedai "Ust."
 Ailadrodd beiau eraill fyth ni wnai,
 A'r neb a'u hailadroddai a gashai.
 Heb fai i'w gelu, pa angenrhaid oedd
 Brawychu rhag enllibwr cudd neu goedd?
 A'i fawl yn chware ar bob tafod, pam
 Y ceisiai neu yr hoffai weniaith gam?

Yn uchelwyliau 'i wlad pwy fel efe
 I ddal y ffrwyn lywyddol yn ei lle?
 Hil Gomer, ym mhob cenedlaethol wledd
 Wrandawent arno megys teyrn ar sedd.
 Pan ymgynhullai ein llenorion eu
 Efe oedd uwch o'i ysgwydd na 'r holl lu.
 Cai glust a threm y dyrfa fawr i gyd!
 A rhwyin ei ddawn cadwynai eu holl fryd.

Teyrn yr Eisteddfod! Un o'i fedr a'i ddawn
 I arwain ei gorchwylion mwy ni chawn;

Yn hon, y gwan wnai 'n gryf, yr oer wnai 'n frwd
Llifeiriai 'i ddawn fel hwyad dros y ffrwd.

Ei drem darawai gryn drwy fynwes graig
Fai 'n erbyn Cymro, Cymru, a Chymraeg;
A chreai wrid ar rudd y gorfalch ddyn
A fynnai wadu 'i wlad a'i iaith ei hun.

Areithiai yng ngwydd torf o arwyr llên
Heb drem yswilgar na rhagrithiol wên.
A phan areithiai byddai doethion byd
O'u gwadn i'w coryn fel yn glust i gyd,
A'u genau oll dan glo am oriau maith,
A'u holl dafodau wedi anghofio 'u gwaith,
Heb neb yn yngan gair, na neb o'r llu
Yn colli brawddeg na drychfeddwl eu.

Areithiai nes bai bronnau myrdd yn un
Orysa danllyd o wladgarwch cun,
Nes bai dwy genedl mawr eu bri a'u grym
Yn ysgwyd llaw gan floeddio "Brodyr ym!"
Areithiai nes y synnai torfoedd llawn
Fod dyn yn meddu 'r fath angylaidd ddawn,
Nes bai 'r areithiwr pennaf yn eu plith
Yn methu meddwl am areithio byth.

Ond nid yng nghymeriadau 'r bardd,
Y llenor, a'r gwladgarydd hardd,
Yn unig, y rhagorodd ef,
Pregethai bur Efenfyl nef.

Os anfarwolwyd Groeg a Rhufain trwy
Hyawdledd eu hareithwyr digred hwy,
Clyw Gymru! gwlad hyawdledd, daeth i ti
Trwy arawd Stephens enwog, fil mwy bri.
Distewch baganiaid! ynnoch bri nid oes
Wrth Stephens yn areithio gwaed y groes.

Er teui y llais fu yn trosglwyddo 'r byw
Hyawdledd gadwai gynt ei fawl yn fyw,
Er hyn ei fawl bâr i anadlu trwy
Ei goeth draethodau; cofgolofnau hwy
O'i fawryd ynt, a mwy safadwy no
Uchelfeilch bigadeiliau 'r Aifftaidd fro.

Distewch, alarwyr! Pam y rhaid i chwi
 Wrth wylo, pan mae cyfrwng gwell i'w fri
 Ddisgleirio drwyddo? Mwy gadewch y dasg
 O dragwyddoli i' gof a'i fri i'r wasg—
 I'r wasg sy 'n gwrido gan ei dlysnï hardd,
 A'r hon dan gnwd ei ddoniau llawn a chwârdd
 Y funud hon, ac, hyd dro olaf rhod
 Y ddaear, fydd yn ffyddlawn glud i'w glod.

CALEDFRYN.

DWYS adgof ynnof ennyn—yn dyner
 Ond enwi Caledfryn;
 Trwy y gwlaw a niwl tew'r glyn
 Mae delw'r bardd i'm dilyn.

I'm dilyn mae ei hudolus—wyneb,
 A'r wên oedd mor serchus,
 A'i fyw eiriau llafarus,—hyawdledd
 Ei ryfedd bêr wefus.

O fyrdd-ddoniog fardd Anian!—dy gynllun,
 Dy ganllaw, dy gyfan,
 Ydoedd natur loewbur lân;—cyweiries
 Dy awen eres, dannau arian.

Swm y gwlaw yn syn glywaf—hanner nos,
 Neu ar nant clustfeiniaf,
 Neu ar ser, neu aeg rhos haf—
 A hen gyfaill lon gofiaf.

Nis ceir fath ansoddeiriaeth—i Gomer,
 Na gemau mor odiaeth,
 'Fath burder na choethder chwaeth
 I ardduno barddoniaeth.

Dwed i fi, dad fy awen—ai 'th reol
 A'th athrawiaeth drylen
 Oedd y nant—neu gerdd y nen
 Nos loew—neu eos lawen?

At yr awen hon, tra hi 'n huno,—daeth
 Dy Rothsay fawr heibio;
 A'i tharan dwrf uthr iawn, do,
 Wnai i ddiffwyth ddawn ddeffro.

Mor fyr, O frawd, mor farwol—yw einioes,
 Fel ennyd diflannol!
 Fath frys wnaeth Emrys o'th ol!—ac Emlyn
 A Robert wedyn, er eu bri tadol!

Ninnau ddeuwn yn ddiau,—cawn orwedd
 Cyn hir gyda chwithau;
 A godidog, O dadau,
 Yn y nef eich ailfwynhau.

ER C O F . *

GWELAIS olygfaeodd tyner, darnau o Baradwys wir,
 Gwelais gartrefleoedd lawer rhwng mynyddoedd Cymru bur;
 Cartref tyner, clyd, a llonydd, y Baradwys oreu yw,
 Lle yr hoffa y chwiorydd Cariad a Dedwyddwch fyw.

Ond ni welais unrhyw gartref ar fy ymdaith, ar fy rhawd,
 Yn rhagori mewn dedwyddwch ar dy gartref di, fy mrawd,
 Yr oedd yno gyfarfyddiad o'r elfennau swynol sy
 Yn gwneyd cartre 'n sylweddiadol o ddymuniaid cariad cu.

Heibio i'th aneddfa lonydd daethum eilwaith ar fy hynt;
 Prudd-der oedd a llwyr ddistawrwydd lle bu llais gorfoledd gynt.
 Ble mae'r wyneb hawddgar siriol a oleuai'r annedd hon?
 O, pa le mae'r llais croesawol glywid ar y trothwy llon?

Onid ofer ydyw ffurfio cysylltiadau tyner, cu,
 Pan mae angau yn eu dryllio—yn eu rhwygo ar bob tu?
 Nid yw'r undeb mwyaf tyner, mwyaf cryf, ond edef frau
 I ystormydd glyn marwolaeth ruthro mewn a'i thorri'n ddau.

Nid yw tegwch ar y ddaear, nid yw cariad ar y llawr,
 Ond blodeuyn ar y mynydd, lle y chwyth ystorom fawr;
 O, paham y mae ei harddwch yn ein denu, pan nad oes
 Mur o'i gylch, na chysgod drosto rhag awelon cryfion croes.

Mae dy gartref heddyw'n dywyll, mae dy fynwes heddyw'n brudd,
 Cwmwl galar ar dy ysbryd, deigrin hiraeth ar dy rudd;
 Anhawdd iawn yw dwyn unigedd wedi'r fath gymdeithas lon;
 Anhawdd newid y fath borthladd tawel, clyd, a'n frig y don.

* Am Mrs. Hopkins, gwraig Mr. Thomas Hopkins, Aberdar, bu farw Chwefror 22,
 1863, yn 42 oed.

Dioddefai hirfaith gystudd gan ymddiried ynddo Ef,
 Fel y dioddefe 'r morwr yr ystorm a'i dwg i dref;
 Hawdd yw dwyn y don uchelaf os teimlir mai 'r ddiweddaf yw;
 Hawdd yw nofio 'r afon olaf rhyngom a Pharadwys Duw.

Mae dwy ochr i Ragluniaeth, ochr oleu, ochr ddu,
 Ond y wyneb niwlog tywyll droir fynychaf atom ni;
 Henffych ddydd pan gaffom esgyn i uchelder clir y nef,
 I gael canfod wyneb goleu ei ragluniaeth ryfedd ef.

Goleu yw y wyneb arall, ie 'n awr, pe gwelem ni,
 Gan mor danbaid ei ddisgleirdeb ar yr ochr heulaidd fry
 Treiddia ambell i belydryn eisoes atom; yn y nef
 Gwelwn mwy, uwchlaw y niwloedd, oll yn haul ei gyllun ef.

O, paham yr hed dy feddwl tua 'r llonydd fedd o hyd?
 Uwch y ddaear, uwch y cwmwl mae ei chartref dedwydd clyd;
 Nid oes ond y marwol yna, fry gorffwysa 'r ysbryd byw,
 Yr anfarwol, wedi llwybro 'r ofnus daith, ar fynwes Duw.

Cyfnewidiad gwynfydedig gafodd, wedi dyrys hynt,
 Nerth a hoen tragwyddol fywyd lle bu marwol gystudd gynt;
 O ffynhonnau nef mae 'n yfed dyfroedd anfarwoldeb pur,
 Byw ar ffwythau pren y bywyd sy 'n cysgodi 'r dwyfol dir.

LLINELLAU GALARNADOL*

DUWIODDEB, O Duwioldeb, pwy draetha fyth dy werth
 Pan fyddo afon angau yn chwyddo yn ei nerth?
 Tydi i fyw wyt ddigon, a'th lewyrch gylch y bedd
 A wna y fangre dywell yn borth tragwyddol hedd.

Mor llawn o hyder oeddynt, ei geiriau hi a'i gwedd,
 Ar derfyn olaf amser, ar ymyl oer y bedd;
 Dieithriwch tragwyddoldeb, torfeydd yr eilfyd mawr,
 Nid ofnai—braich duwioldob a'i daliai 'n hyf yn awr.

Chwennychai braidd ymddatod i fyned ato ef
 A dynnodd ei serchiadau ymhell cyn hyn i'r nef;
 Hi deimlai rwymau 'r ddaear yn llaes o'i hamgylch mwy,
 A boddllawn oedd i angau eu hollol ysgar hwy.

Os anial fu y ddaear i'w theimlad ar ei thaith,
 Tra phell fynyddau Canan a welai ambell waith;
 Ac yn y nos dywyllaf llewyrchai seren ffydd,
 Nes aeth yr oll o'i hamgylch yn llawn tragwyddol ddydd.

* Ar ol Mrs. Barbara Roberts, Factory Cae Draw, Merthyr.

Gadawodd goffadwriaeth o fendigedig ryw,
 Adgofiodd ymarweddiad gysegrwyd oll i Dduw;
 Adgofion bywyd santaidd oedd lawn o dduwiol hedd—
 Pa gyfrodd well i'w gadael ar ol, wrth fynd i'r bedd?

Nid erbyn tywydd garw a gorthrymderau du,
 Nid crefydd erbyn marw a ewyllysiai hi;
 Ei bywyd oedd ei chrefydd, ei bywyd oedd y bedd
 Yr ofnai ei chael ynddo heb deinlo 'r dwyfol hedd.

Disgleiriai ei duwioldeb fel seren ar y nen,
 Fel dinas a osodir ar fryn, uwch cyrraedd llen;
 Santeiddiol oedd dylanwad ei bywyd ar bob llaw,
 A'i geiriau a anadlent aroglau 'r wynfa draw.

Mor beraidd yw adgofio ei hymddiddanion hi
 Pan oedd yn dechreu teimlo nerth yr Iorddonen ddu!
 Ymgodai 'r dyfroedd weithion a glan y byd oedd bell,
 Ac hollol anyddorol yn ymyl bydoedd gwell.

O, pan y collai 'i gafael ar bethau byd yn lân,
 Gafaelai yn y Ceidwad a adwaenasai o'r bla'n;
 Nid newydd orchwyl iddi oedd pwyso ar ei fraich,
 Cyflawnodd hynny filwaith nes milwaith golli 'i baich.

Er ofni lawer adeg mai methu wnai bryd hyn,
 Dadguddiai 'r addewidion golofnau yn y glyn;
 Yr oedd y dydd yn torri, dydd o dragwyddol hedd,
 Ac olaf niwl amheuaeth ddiflannodd tua 'r bedd.

Ei beddargraff yn Mynywent Capel y Graig, ger Merthyr.

I wlad engyl diangodd—uwch hiraeth,
 A'i choron a wisgodd,
 A'i phoen yn awr gorffennodd,
 Yn ddi-dranc lawenydd drodd.

ER C O F . *

COFNODWN mai cyfiawn ydoedd,—yn llanw
 Yn llonydd ei gylchoedd;
 A'i foes ef, mynegfys oedd
 I ffyrdd nef,—ffordd y nefoedd.
 Gyda 'r ŵyn yr addfwynaf—ei galon,
 Fugeilydd tyneraf;
 Ond rhifai gyda 'r hyfaf
 Rhag pob llwgr hy yn nhŷ Naf.

* Am Mr. Richard Jenkins, diacon gyda 'r Trefnyddion Calfnaidd, Castellnedd,
 yr hwn a fu farw Mai 16, 1863.

CAN O GLOD.*

ALAW,—“GLAN MEDDWDOD MWYN.”

PE meddwn bereidd-der côr tyner y dail,
 Mi ganwn am ddoniau a rhiniau'r gŵr hael;
 Pe meddwn brydferthion yr enfys a'r wawr
 Mi 'u rhown i addurno fy nghaniad yn awr.
 O, pwy sydd mor haeddol o glodydd ein gwlad
 A'r gŵr sydd i'r tlodion yn dirion—yn dad?
 Mae hwn yn rhagori ar gewri y gâd;
 Uchelaf ddedyddyd ei fywyd ef yw—
 Nid trin a dyfetha, ond cadw yn fyw,
 Nid elwyfo a brwydro, ond gwella y briw.

Pa enw mor nefol a “chyfaill i'r tlawd?”
 Pa gyfaill mor dirion, mor brydlon a'n brawd?
 Ei law sydd yn agor, fel cwmwl y ne,
 I wlawio ar dlodion tra llymion y lle;
 Ac wedi'r cawodydd, newidia eu gwedd
 Gan wanwyn ysbrydol o londer a hedd,
 A'r awen gu lawen gorona eu gwledd;
 Pwy draetha'r dedwyddwch a'r heddwch a roed
 Trwy'i ryfedd haelioni, i rai o bob oed—
 Ni fu ei addfwynach na'i rwyddach erioed.

Fe guddia'i haelioni drueni o hyd,
 Fel llanw yn cuddio y draethell i gyd;
 Mae'i galon bob pryd ar ei roddion mor hael
 A'r cefnfor ar donnau, a'r Hydref ar ddail;
 Ymedy y don yn dragwyddol a'r lan,
 A phalla gwlyth-emaui boreu aur ban,
 Cyn caua ei ddôr rhag y rheidus a'r gwan;
 Yn ol at ei ffynnon yr afon a red,
 Mehefin a rewa, a Rhagfyr a fed,
 Cyn gwelo gardotyn yn gado heb ged.

Mae miloedd yn casglu trysorau i'w cloi,
 Ond HUGHES sy'n eu casglu i'w rhannu a'u rhoi;
 Mae llawer yn claddu eu heiddo i gyd
 Rhwng muriau ariandŷ, o gyrraedd y byd;—
 Mewn lle llawer sicrach mae golud ein brawd,
 Mae'n gweled ymhellach, o uchder ei ffawd—
 Y goreu ariandŷ yw calon y tlawd;
 Bydd hwn yn dwyn cysur a llog yn ol llaw,

* I Richard Hughes, Ysw., Ynystawe.

Mae'r bath hyn yn pasio, yn treiglo tu draw
Yn nwyfol newidfa y byd mawr a ddaw.

Mae'i elusengarwch o dyfiant mor fawr,
Fel gwyrdd-bren cyfoethog mae'n cuddio y llawr;
O dano mae gweiniaid yn ddedwydd a chlyd
Pan chwytho y corwynt, pan wgo y byd;
Pan wywo o'i amgylch bob deilen, pob rhin,
Mae'i wyrdd ef yn para, a'i ffrwythau yr un
I bawb yn gyfraunog beth bynnag fo'r hin;
Ac nis gall storm arwaf y gauaf a'i gur
Ond gyrru ei wreiddiau yn ddyfnach i'r tir,
A gwasgar ymhellach ei arogl pur.

Pan gwyno y gweithiwr ar brinder ei ran,
A blodyn ei obaith yn wyw ac yn wan,
Fel cariad ei hunan fe'i gwelir yn dod,
A maethu'r methodig yn unig ei nod;
Dan ofal mor dyner cwyd gobaith ei ben,
Ail wisg ei liw goreu dan oleu y nen,
Yn siriol ei wenau fel wybrau di-len;
Ac ar ein dyngarwr, am fawredd ei rin,
Daw bendith y truan adfydus a blin,
Y nesaf at fendith Jehofa ei hun.

Ni welir ei weithwyr dan fraw ger ei fron,
Ei wyddfod sy'n gysur, a'u llafur sy'n llon;
Ni weithiant o ofn, na pharch oer ychwaith,
Gwir gariad yw'r goreu i gymhell at waith;
Yn ysgol tiriondeb hwy ddysgant yn rhwydd
Y wers fawr o gariad at awdwr eu llwydd,
Nes agos anghofio awdudd ei swydd;
Anturient yn eon, rai dewrion, o'i du,
A bywyd ei hunan aberthent yn hy
Dros feistr mor dyner, dros gyfaill mor gu.

Mae'n arddel unoliaeth yr holl ddynol ryw,
A hawliau y gweision fel hawliau y llyw;
Mae'n teimlo cylchrediad y gwae trwy yr holl
Gyfundrefn ddynol, fel uncorff di-goll;
Mae'n teimlo'r dolennau tragwyddol y sy'n
Cydrwymo yr uchel a'r isel yn un,
Y cryf wrth yr eiddil, yr iach wrth y blin;
Mae'n cario ei gredo oll allan mewn grym,
Gan roddi o'i haf at yr hyll auaf llym
O'i balas i'r bwthyn, a'r cwbl am ddim.

Nid oes un gerddoriaeth mor beraidd yn bod,
 Na charol mor bur i glyw'r nefoedd yn dod,
 A santiaidd beroriaeth amddifaid llesg mân
 Wrth anfon i fyny eu diolch ar dân;
 Nid yw y filwrgerdd yn myned i'r lan
 Ymbhellach na'i hadsain—i'r nef yn y fan
 Aiff diolch y gweithiwr, a'r wedi'w a'r wan;
 O, felus beroriaeth! mor ddwyfol pob nod,
 Mor grynol gan deimlad! o'r galon mae'n dod.
 A all yr angylion offrynu'r fath glod?

Yng nghanol peroriaeth mor odiaeth ei rhin,
 O, caffed hir einioes heb loes na thro blin;
 Caed henaint arddunol yn nodded ei Naf,
 Fel huan yn machlud ar derfyn yr haf;
 A phan y gorfflenno, boed engyl bob llaw
 Rhai welsant ei holl gymwynasau islaw,
 I'w gludo i'r Wynfa, y drigfa bêr draw;
 Ymddifaid a gweddwon a ddeuant mewn hedd,
 Ac Elusengarweh ei hun at ei fedd,
 A deigrin o hiraeth yn gwlitho eu gwedd.

ER COF.*

Yngardd eich serch angerddol—fe ledai
 Dau flodyn gwanwynol;
 A! gwywo wnaent! cydgau'n ol,
 Yng ngauaf gwynt angeuol.

Yn sydyn Thomas ehedodd—o'ch mysg,
 Chwim asgell a gafodd;
 Llaw angel ollyngodd i'w law fach wen
 Aur gadwen, i'r wiwnen a'i harweiniodd.

Ar ei ol yn ewybr elai—ei frawd,
 Ar frys fe'i dilynai;
 O gylch y bwrdd fe'i cwrddai,
 Moli Ner yn ei ymyl wnai.

Duw a'i cymerth o fyd camwedd—i fyd
 Sydd heb fai na llygredd;
 Byd o hoen bywyd a hedd,
 Uwch i ofid a cheuffedd.

* Am Thomas a Daniel, plant y Parch. J. Williams, gweinidog y Bedyddwyr,
 Ynysdu. Cyfwynedig i'w rhieni.

Pan mae'r ddau'n mwynhau mewn hwyl—ogoniant,
 Dan ganu mewn gorhwyl
 Yn y lawn nefol ŵyl,—pam wylwch chwi
 Mwyach, rieni, am eich rhai anwyl?

Riaint tyner yn y tonnau,—na foed
 Ynfydion deimladau;
 Tua'r ne a chartre Naf,
 Yr arwaf ffordd yw'r orau.

Fe all y Gŵr sy'n Gyfaill gorau
 Roi gollyngdod o oer gell angau,
 Llwyddodd i gael allweddau—'r bedd enbyd,
 Draw myn agorwyd ei drymion gaerau.

Engyl sydd beunydd uwchben
 Eu bedd, y ddau fab addien,
 Ac o dan eu seirian sel,
 Uwch dinistr bydd llwch Daniel.
 Eich Daniel o'i fedd isel ddaw,
 Arddelir ar y ddeheulaw;
 A geilw Ef Thomas hefyd
 O'r un bedd, ddydd barn y byd.

A! myfyriwch am forau—yr ail gwrdd,
 Ar ol gwae a thonnau,
 Ar ol ing, ar ol angau,—mewn gwledydd
 Lle na bydd nac archoll na beddau.

PELLEBYR MOR Y WERYDD.

CORONFAWR gamp cywreinfyd,—a cholofn
 Uchelaf celfyddyd,
 Dyfais i uno deufyd
 Sy ben ar ddyfeisiau byd.

Amser a phellder a ffodd,—milltiroedd,
 Mellteiriau a'u hysodd,
 Edyn y gwynt i'r hynt rodd,
 Mewn tarawiad mynd trwodd.

Rhyfedd, ym mherfedd mawrfor,—adeinio
 Meddwl dyn a'i gyngor;
 Rhyngwaith trwy wely'r angor,
 Edyn y mell't dan y môr.

"MYDDFAI."*

A THRYLITH teg a llwyddiant, O! pa bryd
 Eich unir eto, ac yr ewch ynghyd?
 Dynghedfen ddall, rhoer iti lygaid mwy
 I weld rhinweddau a'u gwobrwyo hwy.
 Llawn yw'r palasau o waelion mawr eu twrw,
 Mae engyl mewn bythynod yma 'n marw.
 Saf! dyma fedd—bedd angel o ddynolryw,
 Un na wobrwyyd gennyf fel y cyfryw.
 Nesha yn wylaidd; sarnwyd digon arno,
 Do, yn ei fywyd, pan y medrai deimlo.
 Ofnadwy fedr! pwy na fyddai hebddo?
 Mae'r bedd yn oer, oer; da nad yw y galon
 Fu'n teimlo oerni mwy y byd, yn teimlo weithion.
 Fe'i llwythwyd â theimladau nes ei phlygu
 Dan wywo tua'r bedd, a'i bythol dorri.

MYDDFAI! ni awn a'r ieuanc llon ei wedd,
 A chryf ei gariad, at dy lonydd fedd,
 I'th ysbryd sisial yn yr awel fwyn
 Wamalrwydd dynol serch, newidiol swyn,
 I godi ei olwg tua'r ser uwchlaw,
 A chlymu 'i serch ar fydoedd tecach draw.

O! a oes byd lle nid yw diniweidrwydd
 Yn fai, yn nod i enllib a gwaradwydd,
 Byd lle mae rhinwedd yn hollalluawgrwydd?
 Ail dinas deg, ysblenydd ei phalasaau,
 Ond heb warchawdlu a diffyniol furiau,
 Yw'r fron ddiniwed yma a'r galon hawddgar
 A fyddo'm syml, agored, anochelgar;
 Delw o'r golomen oedd dy galon drwyddi,
 Ni wnaed i sarff cyfrwysder drigfa ynddi,
 Calonnau felly amlaf sydd yn torri.

Mae'n rhyfedd iawn na welwn fwy yn wyllo
 Ar lan dy fedd; ai nid yw neb yn cofio
 Y mil hynodion gynt, a'r hawddgar riniau,
 A'th ddiniweidrwydd, coron dy nodweddau?
 Na, gwell gan enllib dremio ar dywyllni
 Y nos, nag ar y ser sydd yn disgleirio drwyddi.

Y mae cymylau ar y wybren loewaf,
 A brychau ar y lleuad deg pan decaf:
 O pwy, a deimlodd allu amgylchiadau,
 All gofio y diffygion mân a'r brychau,
 Rhy fân i'w gweld heb fwyaduro! ddrychau?
 Mae troion yn y cawraidd fôr; mae creigiau
 Yn deddfu 'i gwrs, gan fesur rhawd ei donnau,
 A gyrru 'r uchaf lanw yn ol, gan ddryllio 'i wynion resau.
 Mae ambell dymhestl yn rhy wyllt i'w dofi,
 A'r llongau cryfaf, harddaf, weithiau 'n soddi—
 O, pwy all feio dyn a'i galon wedi ei thorri?

Ac er fod prudd-der yn heneiddio 'i wedd,
 Ac aml adgof yn cythruddo 'i hedd,
 A nychdod yn byrhau bob dydd y ffordd i'w fedd,
 Fe ddaliai 'r arf i'r lan dros air ei Dduw,
 A'i asgell noddai 'i egwyddorion gwiw.
 A'i ddagrau oll yn had, ymlaen yr ai
 Trwy 'r llafur blin gan wyllo a chan hau,
 Yn fendith, fel y cwmwl tlawd ei bryd
 Sydd, tra yn wyllo 'n cyfoethegi 'r byd;
 Neu fel y lloer sydd yn goleuo 'r llawr,
 Gan ddangos heuliau fil o bell, ser o dragwyddol wawr,
 Tra hi ei hun mewn bythol hanner dydd
 Yn drom ei gwedd, heb lewyrch ar ei grudd,
 Ond llewyrch dagrau, gwawr tawelwch prudd.

A, MYDDFAI! pwy mor ddiwyd, er mor flin,—
 Un llaw yn sychu 'r deigrin gloew, ac un
 Yn gwasgar hadau hedd a rhinwedd cun?
 O! hapus cludo yr ysgubau draw
 A'r unrhyw ddagrau-eneiniedig law.
 Angylion ddont i'w cludo gyda thi,
 I ysguboriau anfarwoldeb fry.
 Mae 'r deigrin olaf wedi ei wyllo mwy,
 O, nid oes dagrau yn eu costrel hwy.

Teilyngdod pur! rhaid iddo fythol fyw,
 A chwyddo ymlaen, hollalluawgrwydd yw.
 Ac nid yw 'r rhwystrau ar ei lwybr sydd,
 Ond cregin mân ar ffordd y llanw rhydd;
 Ymlaen ymchwydda i ddisgleiriaf dir
 A thraeth tawelaf anfarwoldeb clir.
 Ryddedig ysbryd, gorffwys yn dy hedd,
 Mae 'th enw fyth uwch cyrraedd rhwd y bedd.

A thi a'i cododd â dy haedd i'r lan,
 Saif ar ei wadn ei hun heb ateg wan,
 A ni bydd farw tra bo rhinwedd byw,
 Anfarwoledig fel dy enaid yw.
 Ar allor cof mil o gyfeillion cu
 Enynna byth fflam dy enwogrwydd di.
 A llawer un eioed ni welsai 'th wedd
 Offryma i deilyngdod ei ddeigryn ar dy fedd,
 A phlanna yno flodyn hardd a pher,
 Gan sisial "MYDDFAI!" ac edrych tua 'r ser.
 Pan grwydro 'r athrist heibio 'r fynwent hon,
 A phrudd-der yn fynyddoedd ar ei fron,
 O, troed i mewn, ei gyfaill yma sydd,
 Dyweded, "MYDDFAI!" ac ysgafnach fydd.

Agored caed ei galon ar bob pryd,
 A, rhy agored! dyna oedd ei fai.
 Ei rinwedd fuasai mewn diniwed fyd.
 Ychydig wyr y rhosyn noeth ei fron
 Wrth roesaw y wenynen deg i mewn,
 A'i chylchu a'r modrwyon goreu o fêl,
 Fod colyn ac anrheithydd yn ei mynwes.
 Ni wyddai yntau hyn nes teimlo 'r rhwyg.

Tyrd Gymru, wlyb dy lygad, tyrd ymlaen,
 Dy ddagrau gwlawia yma, a'th flodau taen.
 Un gollodd fwy na dagrau erot ti,
 Wrthododd er dy fwyn uchelach bri,
 MYDDFAI sydd yma. Wyla ar ei fedd,
 A chais ei ail i gydio yn ei gledd.
 Yr oedd ei Gymru yn baradwys gain,
 A'i gwylltedd yn ogoniant pur o'i flaen;
 Ei bryniau ynghlwm wrth yr wybrennan ban,
 A'r tanbaid wawl o'i cylch fel môr di-lân,
 Dragwyddol lanw, yn golchi llawer byd,
 O! 'r oedd yn hardd, yr oedd yn deg i gyd.

Ei wlad, ei genedl, A, rymusaf eiriau!
 Byw oedd i berlewygol swm yr enwau.
 Cyffrodd ei galon wrth yr adsain filwaith,
 A thrwy galonnau fil fe chwyddai 'r effaith.
 Un oedd ei galon ef, pan deimlai 'i hunan,
 A greai deimlad ymhob bron tu allan.
 Ei wlad, ei iaith, ei arwydd-eiriau oeddynt,
 A mynnai barch, a mynnai noddod iddynt,
 Ei hun eu noddwr, a'i aden lydan drostynt.

Ac, O, y mae peroriaeth yn yr enw
 "Fy ngwlad," sydd uwch na bloedd y byd a'i dwrw.
 Oes, Walia! y mae ynnot swyn sy 'n clymu
 Dy feibion wrthyt, gan eu rhwymo i'th garu.
 Hyf wylltion fryniau! doder fy mhreswylfa
 Rhwng eich cysgodion pell, rhamantawl drigfa,
 Lle hoffa 'r daran rolío yn ei mawredd,
 A natur ar ddistawrwydd wastraffu ei hyawdledd.
 O, caffwyf grwydro hyd eich llethrau tawel,
 Yn ddedwydd mwyach gyda 'r oen a'r awel.

A, MYDDFAI! blentyn anian, blentyn Cymru,
 I ti, pa boen, pa fwyniant gwell na syllu
 O'r brynau draw ymhlith y claer wybrennau,
 Ar ddolydd Gwalia 'n fras gan fyth-lifeiriol ddiliau,
 Tra llaw y gwanwyn yn eu llorio â blodau?
 I ti, pa gerdd mor fwyn â thôn yr awel,
 Pa gyinghan fel ei hollau hi gerllaw afonig dawel?
 A syn addolit ar y brynau hyfion,
 Tra siglai 'r daran eu colofnau cryfion,
 Ofnadwy rwysg, a'u bannau moel, fel byddin,
 Yn synud ffwrdd ar arch, ar ysgwydd y daeargryn.

Yr oedd dy natur yn farddonol drwyddi,
 A natur yn farddoniaeth oll i ti;
 Yr afon deg a nefoedd o ser ynddi,
 A'i chyfoeth o drysorau llawer lli;
 A'r mynydd fry 'n goresgyn y cymylau
 Wrth ddringo 'r wybrol riw tua gloewach nennau, [iadau;
 Barddoniaeth oedd o lawysgrif Duw, y gwreiddiol gymer-
 Dy awdlau, 'r dolydd heirdd; a'th feirdd, y brynau.

Ar dawel draeth dy feddwl anian chwyddai
 Ei llanw o ogoniant fore a nawn,
 Ac yno ei goludoedd aml adawai
 Adgofion fil am Dduw yr argraff lawn.
 I ti yr oedd gan froydd, ser, a chreigiau
 Eu môr o ystyr oll a'u mil tafodau.

A! nid yw natur fud, nyni sy fyddar;
 Nyni sy ddall, mae natur oll yn hawddgar.

O, pwy anghofia 'i areithyddol ddawn,
 Oedd fel y môr, yn ddwfn, llydan, llawn.
 A phwy na chlodwyd ar ei lanw pur
 I lannau ebargofiant, araul dir.

Arweinïai 'r dorf i fyd uwchlaw y ser
 Yng nghlaer oleuni 'r Seren Fore der.
 Paradwys arall, Eden yn y nef,
 Oedd swyn ei araeth, swyn ei fywyd ef.
 Ac O, pa ryfedd fod ei olwg draw
 Ar fydoedd eraill, gwynfa deg uwchlaw,
 Efe, na theimlodd yma fawr mwynhad,
 Ond lludded blin heb seibiant, a thrymder heb ryddhad?

“Y dyn Crist Iesu,” hollalluog Geidwad,
 Ei angau, a'i fuddugol adgyfodiad,
 Ac adgyfodiad byd o feirwon ynddo,
 Achubiaeth byd o golledigion drwyddo,
 A, dyn a'i bwnc! y môr a lyncai 'i ddoniau,
 Gan guddio traeth ei feddwl byth â llanw o ryfeddodau.

Fel nen o ser, paradwys aml ei rhos,
 Y meddylddrychau drwy ei bregeth dlos;
 A siriol fel y bore caed ei wedd
 I'r dyrfa pan ddadblygai faner hedd.
 Ei fêl-frawddegau, fel wybrennau Mai,
 Dyhidlent fendith, rhinwedd i leshau.
 Hyd faes y gair ymlaen arweinïai 'r llu
 Gan wlawio rhos athrylith yn dryfrith ar bob tu.
 A nerth ei feddwl, swynion aml ei ddawn
 I'w eiriau roddent effeithiolrwydd llawn.

Mil, mil o lygaid nofient mewn tynerwch
 Adwyau glain i ffrydiau edifeirwch;
 Ac aml rudd teg liwiog gan ieuentid
 Dan rin ei ddawn â deigr yn tecach wlithid.
 Fel cwmwl o wybrennau teg y wynfa,
 Dyferai nefol wlaw a mwynder dros y dyrfa,
 A thynnai i lawr wawl o seraffaidd burdeb,
 A thrydan o wybrennau anfarwoldeb.
 A chodai ffrwd o ddagrau glwys i fyny,
 Drwy nerth ei feddwl a'i sugndynol allu,
 Un modd a'r lleuad yn pentyrru 'r tonnau
 Mynyddfawr, trwy naturiol ddylanwadau,
 Nid fel yr awel, yn eu cynddeiriogi
 Trwy chwythu a chodi twrdd yn wallgof a chrochwaeddi.

Cenhadwr heddwch! swydd o nefol ryw,
 O nefol roddiad a chymhwysiad yw.

Pa angel, O! pa gerub disglaer fry
 Na rwydd adawai y baradwys gu,
 A'i goron a'i ogoniant ynddi hi,
 Am fantell proffwyd, swydd cyhoeddwr hedd,
 Cyhoeddwr bywyd y tu draw i'r bedd?
 Odidog waith! a'i safle wrth y groes,
 Dy safle di, O MYDDFAI, drwy dy oes.

A thros ardderchog faes clasurol ddysg
 Aml grwydrai, fel gwenynen plith y rhos
 A'u gwrid sy'n euro gruddiau teg yr ardd,
 A'u bronau ar dorri gan ystor o fêl.
 Arwrfardd mawr yr oesoedd, sydd a'i ddawn
 Yn fwy mawreddog na tharanlyd nerth
 Achilles o flaen caerau Iliion gynt,
 Pan grynai'r duwiau a Hector ger ei fron;
 A Virgil bêr; a mil mildlysog feirdd
 Ei Gymru hoff,—adwaenai hwynt i gyd.
 Treuliasai lawer awr o felus gof
 Mewn bydoedd eraill gyda Milton fawr.

Ond beirdd y Beibl ei anwylion oent,
 Beirdd bro y diliau, bro'r llifeiriol laeth.
 Ar drumau beilch Judea aml y bu
 Yn gwrando, wedi ei ysbrydoli oll,
 Ar gerdd Esaiâh o serffaidd awen
 A mab Hilciâh, beirdd o urddiad Duw.
 Darlennai'n aml, a'i galon oll ar dân,
 Farddoniaeth tragwyddoldeb yn eu cân
 Edmygai'u hebediadau uchel ter,
 A'u meddylddrychau o fyd uwchlaw y ser.
 A mynych wylai dan gysgodau'r nawn,
 Wrth weld Ezekiel, o ardderchog ddawn,
 A dagrau yn eneinio'i odlau cu,
 Tra'n cofio'i wlad ar lannau Cedar li.
 A mil telynau Israel yn wylo ar helyg fry.

Tywynnai gwawr serchawgrwydd ar ei wedd,
 Fe'i lluniwyd i fwynhau melusion hedd.
 Ar nawn tawelaf wedi claddu'r dydd
 Ym mhorrffor ddyfnder y gorllewin prudd
 Pan gasglai'r teulu'n llawen a chytun
 Gerllaw y tân, a'i chwedl gan bob un,
 O! pan eisteddai yn y gadair fawr,
 Y ffiam ei ganwyll o gartrefol wawr,

Adfywiai oll, a thaffai 'i galon brudd
 Ei baich i lawr yn ysgafn fel y dydd,
 Tra gwawr o londer yn goleuo 'i rudd.

Bedd! bedd! O swynol air i'r fynwes glwyfus flin,
 Y balmaidd gwsg! dros oesoedd pair yr olaf, hwyaf hân.
 A, MYDDFAI! gorffwys yn dy fedd,
 Os nad oes yno rwyg, mae yno hedd.

O, pwy fu 'n gweini, gyfaill, arnat ti,
 A phwy a gaed i ddal dy ben i'r lan
 Pan blygai yn ystorom angeu du
 I lawr i'r dwfn fedd, fel deilen wan?
 Pan oerai 'th fynwes, a phan wywai 'th wedd,
 O! a oedd yno a lefarai hedd?

Fe suddai 'th galon yn dy fynwes brudd
 Dan rym yr ergyd olaf, hyd y bedd;
 O, pwy a gaed i'th adgoffhau o'r dydd
 Y cwyd yn ysgafn ac yn iach ei gwedd,
 A'i holl archollion wedi 'u llwyr iachau,
 Archollion siom a chyfeillgarwch gau?

A! do, gobeithiaist aml waith cyn hyn,
 Rhy lawn o obaith—dyna bechod dyn,
 Gobeithiaist pan y teithit lwybrau 'r glyn
 Gael gwenuau lluoedd o gyfeillion cun;
 Bu Un yn ffyddlawn, do, fe lynnodd Un;
 A digon gaed, 'r oedd Hwnnw 'n fwy na dyn.

Mae Cyfaill sydd â'i gariad yn parhau
 Yn angeu, a thu draw, mewn nefol fyd;
 Un sydd yn ymyl fyth i esmwythâu
 Y fynwes drom, a gwneyd y bedd yn glyd.
 A'i engyl ddoent yn dorf i'th gludo di
 Trwy o'gof angeu i'r baradwys fry.

A, dywed im sydd yma ar lan dy fedd
 Yn wylo gyda 'r awel drom ei chân,
 A nos o brudd gymylau ar fy ngwedd,
 Fy nghyfaill, dywed, pwy o'r dyrfa lân
 A'th gyfarfuant ar y glannau gwell
 Tu draw 'r Iorddonen, glannau 'r Ganan bell?

Ym mhlith y fintai gyntaf oni chaed
 Y seraff o Lwynffortun oll mewn hwyl,
 A'i fawl i gyd am rinwedd iawnol waed,
 Yn gwahodd ei fywgraffydd tua 'r wyl?

Yn angel perffaith mwy, heb unrhyw ffael,
Na deigr yn ar dy rudd, na chwml ar dy ael.

Af adref! a gadawaf di fan hyn,
Paham yr wylwn dan gymylau 'r glyn,
Lle nid oes neb yn wylo ond y byw.
Ystafell gwsig i'r corff blinedig yw,
I huno, a thawelwch yn ei dol,
Nes geilw Duw daranau 'r Farn a'i thwrf i'w ad-ddeffroi,
A'th alw allan i'th goroni draw,
Rhwing torf o engyl, tra 'r byd ar dân islaw.

O! pe bai teimlad yn gwresogi 'r bedd,
Ac ambell air yn torri ei erchyll hedd,
Erchyll i'r byw yn unig, gwn, fy mrawd,
Gwn na achwynit ar y fangre dlawd
Ei bod mor unig ac mor drom ei gwedd,
Ti, 'r unig yn dy fywyd, MYDDFAI, fel yn dy fedd.
A gwell unigrwydd tawel, lle nid oes
Wahaniaeth ond mewn enw rhwng brawd a gelyn croes.
Byd poblog, hwn! ceir milmyrdd ar bob tu,
Ond trwyddo teithio 'n unig, digysur, wnaethot ti,
Y modd y crwydra 'r weiw loer drwy 'r nefoedd,
Gan wylo a thristhau rhwng torf o lawen fydoedd.
Mae croesaw llawn a hedd ym mro y beddau
I'r blin siomedig, aml a thrwm ei ddagrau.
Elusen oedd gorffwysdra wedi blino,
A bedd pan nad oedd bywyd i'w ddymuno.
Af ar dy ol, fy mrawd, af yn dy gamrau
Pan ddél yr awr, y loewaf o'r holl oriau,
I geisio bedd ar lannerch werdd a thawel,
A thristyd yn tyneru llais ei hawel.

P R I O D A S . *

CAED yr hawddgar bâr drwy 'r byd—hoff wenau
Ffyniant a dedwyddy;
Un teg haf fo 'r hynt i gyd
Heb auaf yn eu bywyd.

Ar yr heol fawr i'r ail fyd,—crefydd
Fo'u cryfaf bwynt hefyd,
Y pwynt cain sydd yn arwain hyd
Fro lonfawr anfarwol wynfyd.

* Mr. Daniel Roberts, Merthyr, à Miss Keturah Lewis, Eglwys Newydd,
Gorff. 15, 1862.

ABRAM YN ABERTHU ISAAC.

BU Abram mewn disgwyliad hir
 Am fab yn ol addewid wir;
 O'r diwedd ganwyd iddo ef
 Ei Isaac hoff trwy wyrth y nef;
 Mawr oedd ei hoen wrth gael y rhodd
 Anwylaf hon, trwy ryfedd fodd,
 Ond mwy ei obaith am leshad,
 Ac helaeth fendith trwy ei had,
 Tra hoff y sylwai ar ei wedd
 Wrth grymu 'n dawl tua 'r bedd;
 Ond hoffach rhagolygai 'r awr
 Y byddai yn genhedlaeth fawr.

Isaac ydoedd fab ei henaint, nod disgwyliad, colofn nerth;
 Ni chyfrifai yn ogymaint berlau o anhraethol werth;
 Cafodd ar ei enedigaeth ail fodolaeth iddo i hun,
 Yn addfedrwydd ei ddynoliaeth fywyd i'w waeleddawg lun.
 Hoffai sylwi ar y baban yn ei egwan foreu lun;
 Pan y daeth yn hoewlanc heini hoffai sylwi ar y dyn.
 Anwyl ydoedd—dyn neu faban, cryf neu egwan—iddo ef,
 Yn eu gilydd hoff ymglyment fal dolennau cadwyn gref.
 Hwy feddiannent wir dduwioldeb yn ei phurdeb, yn ei gwraidd;
 Oeddynt un mewn duwiol deimlad, hefyd un mewn nefol aidd;
 Hoff gan Abram archiad Isaac, Isaac iddo yntau 'n was,
 Oedd y ddau o dan lywodraeth egwyddorion dwyfol ras.
 Pa ryfeddod fod anwyldeb yn eu hasio hwy mor gun?
 Yr oedd Isaac yn gywirddrych o'r foreuol wedd ei hun.
 Pan edrychai yn ei wyneb gwelai 'r dull oedd arno gynt,
 Iddo 'r ydoedd ei gymdeithas yn ail fwynhad o'i fabol hynt.

Ond er mor anwyl ydoedd ef,
 Nid oedd ond un o roddion nef
 Yr hon ofynnai Duw yn ol,
 O'i rad ewyllys, idd ei gôl
 Ei hun, yn gyfiawn a di-gam
 Er profi crefydd Abraham,
 Yr hwn â'i lais a alwodd ef
 I wrandaw ar ewyllys nef.
 Mal ufudd was i air ei Ri
 Atebodd yntau,—“ Wele fi
 Yn barod 'nawr i greu 'r oll
 A addewi im, neu yn ddi-goll,

Os archiad gaf, ymostwng i
 Yr archiad hwnnw o'th enau di."
 Diau disgwyliai 'r duwiol dad
 O enau Duw addewid fad,
 Neu sierwydd o'r addewid gref
 Gynt a gyhoeddodd iddo ef,
 Pan droes yn llon o dŷ ei dad,
 Er prawf o'i ffydd, i estron wlad,
 Gan adaw 'r fan oedd anwyl gynt,
 A dryllio rhwymau 'i fabawl hynt.
 Ond O! mor anhebygol yw
 Disgwyliad dyn i fwriad Duw;
 Os aml mae 'r naill yn addaw hoen,
 Mor aml mae 'r llall yn peri poen!
 Pan archodd Duwdod, O! mor glau
 Troes obaith cu yn obaith gau.
 Gwrandawodd, nid addewid fwyn,
 Ond uthr orchymyn, dygm i'w ddwyn,
 Nad allasai lai na gyrru hoen
 O'i fynwes, lai na pheri poen,
 A chodi braw i lywio sedd
 Y fynwes gynt lle llywiwai hedd.
 A! wedi 'r haf a'i ffrwyth di-goll
 Oer auaf ddaeth i wywo 'r oll,
 Gan lwyr ddiwreiddio 'r mwynder llon,
 A phlannu drain yng ngwraidd y fron.
 Braidd na ddywedai ef ar goll,—
 "I'm herbyn i y mae hyn oll."
 Ond os nad ydoedd archiad Duw
 Yn unol â theimladau briw
 Y patriarch, â'i gydwybod ef
 Cydunol oedd ewyllys nef.

Gorchymyn oedd a ddrylliai galon ddu,
 Dwfn glwyf gan hynny roes i fynwes bur
 Y fath serchoglawn dad ag ydoedd ef,
 Er maint ei barch i union arch y nef
 Oedd cleddyf ym mhob gair, a saeth i'w fron
 Ym mhob llythyren ddu o'r gyfraith hon;
 "*Cymer dy fab,*" nid bwystfil o un rhyw,
 Na gelyn chwaith, na 'r cyfaill mwyaf gwiw,
 Na dieithr, er fod Abraham ei hun
 Mor gymwynasgar idd y dieithr ddyn;
 "*Yr awr hon,*" heb ohirio i'r awr ail,
 Na chaniatau diwrnod iddo gael

Myfyrio neu ystyried beth a wnai,
 Pa un ai gostwng ai anufuddau ;—
 “ *Dy unig fab,*” etifedd ei ystad,
 Ac addewidion y cyfamod mad,
 Ei unig fab o Sarah, fwynaf un ;
 Nid Ismael, ond yr “ unig fab ” ei hun,—
 “ *Yr hwn a hoffaist* ” uwch pob arall ddyn,
 “ A hoffaist ” fel dy enaid hoff dy hun ;—
 “ Dos rhagot i Foriah,” rhandir pell,
 Yn araf, gan fyfyrio ’r weithred hell ;
 “ Ar allor boeth offryma ef i mi,”
 A llog ei gorff yng nghroth y fflaglau cry,
 “ Ar fryn a ennwyf wrthyt,” nid mewn cell,
 Ond acw ban ar frig Moriah bell,
 Mewn man cyhoeddus lle canfydda ’r nef,
 A dyn, ac angel, ei aberthiad ef.
 Pa warth ar grefydd a ddygasai hyn,
 Offrymu unig fab ar amlwg fryn ?
 A pha wael engraifft i holl ddynol ryw,
 Aberthu mab gan anwyl was i Dduw ?
 Yng ngwyneb hyn, mor ryfedd oedd i’w ffydd
 Orchfygu ’r ofnau oll, a chael y dydd.

Pa anatebadwy resymau amrywiol,
 Allasai ’r credadyn eu dwyn yn naturiol
 Yn erbyn yr archiad o enau y Duwdod,
 Er llunio esgusawd i lwyr anufudd-dod ?
 Pe buasai y patriarch yn wrthwynebol
 O gnawdol dueddfryd i’r arch awdurdodol,
 Gallasai resymu,—“ A yw ’r Gorchymynnydd
 Yn fod digyfnewid, yn holl-uniawn farnydd ?
 Os yw, pam yr archodd i mi drochi ’m dwylaw
 Yng ngwaed fy anwylfab, a’i greulawn labyddiaw
 A llymfin y gyllell, ei daraw mal gelyn,
 Heb unrhyw gyhuddiad o drosedd i’w erbyn ?
 O Dduw ’r trugareddau ! a ydwyt greuloned
 Ag erth ymddigrifo yng ngwaed y diniwed ?

“ Pa le mae ’th uniondeb ? Pa le mae ’th drugaredd ?
 Os lleddir fy Isaac, gwarthruddir dy orsedd.
 Pam rhoddaist ef i mi ? A pham y disgwyliais
 Hir dymor am dano, gan wedi y cefais
 Y rhodd amhrisiadwy, yr wyt yn ei gofyn
 Yn aberth i fflamau â dwyfol orchymyn ?

Pam trwyddo 'r addawaist im fendith a gwynfyd,
 A thithau 'n diwreiddio yr haf yn ei wendid?
 A droes wir grefydd yn hyllig greulondeb?
 Pa beth, ai llofruddiaeth a brad yw duwioledeb?
 Ond os rhaid cael aberth o'm natur syrthiedig
 Ai nid oes ond Isaac yn addas i'w gynnyg?
 Os nad oes fyn arall, ai nid oes ond Abram
 I'w daraw â'r gyllell, i'w losgi ar wenfflam?
 Ai nid oes un llwybr i mi fod yn ffyddlawn
 I arch y Goruchaf ond trwy fod yn greulawn?
 O Dduw! ai ffyddlondeb i ti yw llofruddiaeth,
 Datodydd cylymau a deddfau naturiaeth?
 Od yw 'n ddichonadwy, gad, gad yn fy nghafael
 Fy Isaac anwylaf, a chymer fy Ismael,
 O herwydd pa fodd yr edrychaf yng ngwyneb
 Fy hoffus gymares ar ol y creulondeb?
 Beth! myned at Sarah 'nol lladd ei phriodfab?
 Beth! tremio ar fam 'nol llofruddio i hanwylfab?
 Os oes y fath gyni yn y rhagolygiad,
 Pa gyni anhydraith fydd yn y cyflawniad?
 Pe buasai ei haeddiant yn esgus i'r weithred,—
 Un felly nid ydyw, un felly ni fuodd,
 I'th holl orchymynion erioed ufuddhaodd,—
 O! pa fawr greulondeb a fyddai llofruddio
 'R fath blentyn ag Isaac heb achos drwg ynddo.
 A! byddaf fy hunan yn wawd i'r cenedloedd,
 A'm crefydd yn warthrudd yng ngolwg y bobloedd."

Gwell ganddo fai goddef y gyllell ei hun
 Nag idd ei anwylfab gael teimlo ei min,
 Ond nid oedd amheuaeth o fewn ei fron friw,
 Rhy uchel i'w ameu oedd archiad ei Dduw.
 Ar ol cael yr archiad (feallai trwy sain
 Mewn rhyw weledigaeth y noson o'r blaen)
 Cyfododd yn foreu, ar doriad y wawr,
 Pan wenodd yr huan dadebrodd fel cawr;
 Heb aros ei weision, yn fywiog ei lun
 Cyfrwyodd yr asyn â'i ddwyllaw ei hun.
 Yn brudd, ond yn wrol, cychwynnodd i'r daith,
 A choed y poeth offrwm yn barod i'r gwaith,
 Cymerodd anwylfab ei fron gydag ef,
 A'i ddeulanc ufuddol i archiad ei lef;
 Heb un o'r ymdeithwyr ond Abram iawn nod
 Yn deall pwy ydoedd yr aberth i fod.

F'w wraig ni fynegodd y diben tra phrudd
 Rhag idd ei hanwyldeb orchfygu ei ffydd;
 A, Isaac! ychydig a deimlit o boen,
 Ni wyddit, ni wyddit, ti ydoedd yr oen.

Tra teithient hwy yn araf yn y blaen,
 Ardremiai Isaac ar yr agwedd gain
 Orwychai natur ar y werdd-las ddól
 Ar ochr y ffordd, ac weithiau troai 'n ol
 Ei dreiddgraff drem i hen Feersebah wlad,
 Er cael un olwg mwy ar dŷ ei dad.
 Tra syllai, 'r hoffus dŷ yn fychan ai,
 Tra teithiai 'mlaen y bychan ai yn llai;
 Ac felly 'n llai nes iddo fynd yn ddim,
 Nod anweledig idd ei lygad llym;
 Ond cyn ei guddio hwnt i'r bryniau ban
 A gydymchwyydent rhyngddo ef a'r fan,
 Meddyliodd,—“Dacw 'm genedigawl fro
 A thŷ fy nhad, lle caf 'nol dychwel o
 Yr yrfa hon wir hoen a mwyniant maith,
 Digonol daliad am ofidiau 'r daith;
 Ac at yr oll, ac uwch yr oll i mi,
 Caf roesaw mam yng nghôl ei breichiau hi.”

Y llanciau hwythau oeddynt lon eu llun,
 Ond pruddaidd oedd y patriarch ei hun;
 Nid llon oedd ef, llon nid allasai fod,
 Pa loniant oedd i'r fath anedwydd nod?
 Drych oedd ei drem o'i boen a'i fewnol bwys,
 A'i wedd sefydlog o'i fyfyrdod dwys.
 Ond pan y clywai 'i fab yn son am dref,
 A'r hoenfyd wedi dychwel gaffai ef
 Yng ngholedd breichiau ei anwylaf fam,
 A! treiddiai dychryn trwy ei fron fel fflam
 Yn ffloew enynnu, neu fel llymfin saeth
 Yn gwthiaw trwy ei galon ef er aeth
 A thradwys boen. Pa ryfedd? Gwyddai ef
 Os parchai 'i Dduw, na ddeuai 'i fab i dref
 Byth mwy, ac na chai rhwng hoff freichiau mam
 Arfolliant mwy, na nodedd cu rhag cam.

Anwyldeb fynnai eilwaith gael y dydd,
 Ond eilwaith brwydrodd a gorchfygodd ffydd.
 Mor feithion oeddynt ddyddiau 'i ymdaith brudd,—
 Yr eiliad fer yn awr, yr awr yn ddydd,

Ar dydd yn fwyddyn braidd ! Fel hyn mae cur
 Yn dal y dringlyn, gan wneyd byr yn hir.
 Er mor agored oedd ei fewnol glwy
 Pob trem ar Isaac a'i agorai 'n fwy,
 Gan gymaint oedd ei gariad at yr oen
 Pob newydd drem a barai newydd boen.
 Ar wyneb hoff ei fab pan edrych wnai
 Ail ymagorai'r clwyf oedd agos cau,
 A'r archoll fewnol eisoes oedd yn ddofn
 Ai'n ddyfnach gan achosi dwysach ofn.

“ Mhen tridiau y patriarch edrychodd, o hirbell canfyddodd y fan ;”

“ Aroswech,” bai ef wrth y llanciau, a ninnau a ddringwn i lan ;”
 Cymerodd holl goed y poeth offrwm i'w gosod ar ysgwydd yr oen,
 Esgynnodd i ddatod y cwlwm oedd rhyngddo a bywyd o boen.
 Wrth ddringo i gopa'r uchelfryn, a chamu dros raddau'r pellhael.
 Nid rhyfedd i Isaac ymofyn “ Mae oen y poeth offrwm, fy nhad ?”
 Meddyliai,—“ Pa beth yw ei ddiben fy arwain i glogwyn y bryn,
 Er cael yr holl barotoadau—pa les ydynt hwy heb y myn ?
 Ond rhag i ddynoethiad y diben ar unwaith achosi dwys boen,
 Amlygodd i Isaac yn raddol mai ef oedd yr aberth a'r oen :
 Atebodd y patriarch tyner â doethder oedd braidd goruwch
 dyn,— [hun.”

“ Am oen y poeth offrwm, fy mhlentyn, Duw edrych o'i ras iddo'i
 Er hynny yr oedd y gofyniad, a'r tyner gyfarchiad, “ Fy nhad !”
 O'r newydd yn tanio i anwyldeb, gan ddiffodd creulondeb a
 brad ;

A! braidd nad atebai i'r holwr, â hiraeth gan ddyfned ei glwy,
 “ Na alw'r hwn fydd dy lofruddiwr, O Isaac, yn dad i ti mwy.”

Ond yng ngorddwysder ei dufewnol boen
 Ac absenoldeb pob daearol hoen
 Myfyriai Abram ar addewid Ner
 Y byddai i had rhyw ddydd fel rhif y ser ;
 Yn yr addewid hon ymaflai ffydd
 Er ei orfoledd ar yr adeg brudd.
 Er hyn nid oedd ei sefydlogrwydd hi
 Yn hollol gau o'i fron amheuan du ;
 Braidd mewn distawrwydd na chyfeiriai ef
 At reswm er esbonio trefn y nef,
 Gan sibrd wrtho i hun,—“ Mae'n sicr y gall
 Fy Nuw gwblhau'r addewid hon heb wall
 Fel pob addewid arall ; ond a oes
 Modd cael y diben trwy'r fath archiad croes—

Croes yn fy nhybiaeth i, a lladd yr had,
 Etifedd unig yr addewid fad?
 Yr archiad a'r addewid yn ddiau
 Roed gan yr un, ond amlwg nad yw'r ddau
 Er hynny'n unol, herwydd sut y gall
 Duw fynnu'r naill heb esgeuluso'r llall?
 Beth! oni rhowd addewid gan fy Ner
 Y buasai hil fy mab fel rhif y ser,
 Neu'n amlach fyth, fel tywod man y môr?
 A! cofio 'rwyf, hyn a addawodd Ior.
 Ond eilwaith ef a archodd i myfi
 Aberthu'm mab ar ben Moriah fry.
 Fy mab! fy mab! fy unig fab! O Dduw,
 Abertha'r tad, a boed i'r mab gael byw!
 Os marw a fydd, rhaid marw gydag ef
 D'addewid d'hun, a dryllio trefniant nef.
 Os llwyr ddiwreiddir yr hoff wreiddyn hwn,
 Ow! nid oes obaith mwy am gangen, gwn.
 Y sylfaen yw, os dadymchwelir hi
 B'le rhoir yr adail a addawaist Di?
 Ond ust! ynfydu 'rwyf wrth amheu Duw
 Atalia, reswm!"

Meddyliodd eilwaith,—“Diau dichon Duw
 O waelod bedd ei adgyfodi 'n fyw,
 Oblegid onid gwyrth y gwyrthiau oll
 Ei lunio ef, a'i eni mor ddigoll
 O fru gwywedig fam yn nawn ei dydd,
 Pan oedd o henaint bron yn safn y pridd?
 Yr hwn a greodd yn y groth oedd gau
 A ddichon adgyfodi yr un mor glau;
 Os lleddir Isaac trwy orchymyn Naf,
 Isaac yn ol trwy ail orchymyn gaf.”

Credadyn oedd, a dysgodd ffydd ef i
 Ymostwng dan alluog law ei Ri,
 Ac nid i ddadleu mewn amheuaeth croes,
 Ond ufuddhau, os rhaid, trwy lemaf loes.
 Ni phrofwyd aur erioed mewn poethach tân,—
 O hwnnw ni ddaeth aur erioed mor lân.

Tra'n dringo'r bryn oedd gwedd y mab yn llon,
 Ond gwedd y tad fradychai ofnau 'i fron,
 Da gan y naill oedd cyrraedd pen y daith;
 Ond pe buasai'n hirach lawer gwaith
 Diamheu y buasai'n llawer gwell

Yng ngolwg Abram, er ei bod mor bell
 Ag ymdaith tri diwrnod o'i hoff wlad;
 Llawn dri diwrnod eraill hoffai'r tad
 Eu cael, i beth? Och, ai i roi amharch
 Ar Dduw, trwy oedi cwblhau ei arch?
 Nid felly; ond i gael am dymor mwy
 Hoff gwmni Isaac, cyn eu rhannu hwy
 Dros byth, o leiaf ar y ddaear hon.
 Y meddwl an ysgariad rwygai 'i fron;
 Ond cariad, gorfu arnat roi y dydd,
 A'r goron, a'r gogoniant oll i ffydd.
 'Nol dringo idd y gosodedig fan,
 A chodi'r allor gref mewn trefn i lan,
 Mewn geiriau a amlygent yr un pryd
 Y diben erch a'r modd, ill dau ynghyd,
 Dywedodd,—O! mor anhawdd ydoedd hyn—
 “Fy mab, ti ydyw aberth pen y bryn!
 O Isaac! pe y goddefasai Duw
 Buaswn farw fy hun i ti gael byw;
 Ond ni wna hyn, dewisodd Ef dydi,
 Bydd farw o'th fodd, er cael anfarwol fri,
 Wrth dy aberthu mewn angeuol boen
 Wyf yn aberthu pob daearol hoen;
 Un cysur mwy nis meddaf yn y byd,
 Dy golli di yw colli'm holl ynghyd;
 Ond rhaid ymostwng i ewyllys nef.
 Nid wyt rhy dda i'th roddi iddo Ef
 A'th roes i mi; yn ol ei archiad doeth
 Abertha 'th fywyd yn y fflaglau poeth.
 Cryf yw fy serch, ond cryfach air fy Nuw,
 O, ffarwel Isaac —”

Pwy ond yr Anfeidrol allasai amgyffred
 Y teimlad dyryslyd a ddaliai'r diniwed
 Pan archodd ei dad iddo gymryd ei rwympo
 Yn ddioed ar allor a godwyd â'i ddwylo?
 Yr ydoedd y newydd mor brudd a disymwth,
 Ac angau'n melltenu i'w wyneb mor safnrwth,
 Ac yntau mor ieuanc a hoew yn ei flodau,
 Yn erbyn ei ladd yn dra chedyrn resymau.
 Edrychai'n synedig, gorchuddid ei wyneb
 A glesni angeuol yn lle a'r disgleirdeb
 Y funud o'r blaen a belydrai o hono,
 Cyn derbyn hysbysiad o'r dynged oedd iddo
 Gallasai wrthsefyll, a rhwystro cyflawniad

Gorchymyn ei dad, pe yn groes idd ei deimlad,
 Heb nemawr o yndrech, o herwydd gwywedig
 Oedd Abram gan henaint a phoen estynedig.
 Gallasai daer ymbil am hollol arbediad
 A'r cyfryw resymau a rwygent hoff deimlad
 Y patriarch tyner; ac hefyd gallasai
 Ddiengyd o grafanc marwolaeth, pe ffoisai
 O glogwyn Moriah lle 'r oedd i'w aberthu.
 Ond Isaac ni fynnai fel hyn wrthwynebu
 Ar ol iddo feddwl mai Duw oedd yr awdwr,
 Mai aberth y weithred, mai 'i dad yr offrymwr.
 Ymostwng a fynnai; gan godi ei ddwylo
 I dyner goffeidio ei dad cyn ei rwymo
 Wrth goed y poeth offrwm; a braidd nad estynnodd
 Ei ddwyllaw a'i draed idd y rhaffau o'i wi'fodd.
 O ddeblyg ufudd-dod! O undeb ysblenydd
 Rhwng Isaac ag Abram, rhwng rhodd ag offrymydd;
 Nis gwyddom p'un fwyaf o'r ddau i'w rhyfeddu,
 Ai'r mab yn ymostwng, ai'r tad yn aberthu.

Mewn cred sefydlog yn ffyddlondeb Duw
 Y cai er marw yma, eilwaith fyw
 Fry mewn dedwyddach gwlad, uwch cyrraedd poen,
 Man y teyrnasa bythol hedd a hoen,
 Rhoes Isaac dduwiol, fel ufuddaf fyn,
 Ei hun wrth draed ei dad, yr hwn yn syn
 A "ymafodd ynddo" pan mewn cyflawn oed,
 I'w rwymo draed a dwylaw wrth y coed.

Ar ol ei rwymo yno'n wael ei lun,
 A chael un olaf gusan iddo 'i hun,
 Ac un i'r fam, cyfodai'r gyllell hir
 Oedd yn ei law, i roddi'r marwol gur
 A'r ergyd cyntaf, heb roi ergyd ail,
 Ac heb ystyried (gan mor wan y sail
 I'w ddisgwyl) y gallasai calon ddwyf
 Edifarhau ar ol y cyntaf glwyf.
 Ar unwaith penderfynodd ladd yr oen,
 Er rhoddi pen ar unwaith idd ei boen;
 Angeuol boen! ni fynnai weld ei waed
 Yn araf lif porfforaidd is ei draed.
 Wrth godi 'r gyllell uwch law gwddf yr oen,
 Ei fyfyr dwys a barai ddwysach boen.
 Nid oedd ond Duw ddirnadai 'r mewdol gur
 Ddyrwygai 'i enaid yn yr yndrech bur,

A'r tanllyd brofiad ar Moriah fryn ;
 Ni phrofodd neb, ni ddaliodd neb fel hyn.
 Darluniad oedd o'r aberth eilwaith fu
 Ar allor Duwdod er gwneyd cymod eu
 Ac arddanghosiad teg o'r ymdrech ddwys
 Rhwng Duw a'i Fab pan oedd dan ddwyful bwys
 Pechodau'r eglwys ar Galfaria fryn,
 Gerllaw Moriah, oesoedd wedi hyn.
 Wrth godi'r gyllell, O! pa frwydr gref
 O groes deimladau rwygai'i fynwes ef.
 Tra archai Duwdod o'i orseddfaine fry,
 "A duwiol aidd abertha'th fab i mi,"
 A thra'n ei fron cydwybod godai'i lef
 Mewn llwyr gydgordiad ag ewyllys nef,
 Gwrth-honnai serch nad ydoedd hyn yn iawn,
 Neud mynnai gael y fuddugoliaeth lawn
 Ar y gelynyon hyn, a braidd o glwy
 Na foddai'i lais ei nefol leisiau hwy.
 Gorchymyn Duw! rhy uchel oedd ei hawl
 Idd ei amharchu am holl fydoedd gwawl.
 Gwell ganddo fuasai tremio ar y ser
 A'r heuliau fyrdd trwy ymherodraeth Ner
 Yn cyd-ddiffoddi gan ymhyrddio trwy
 Yr eangderau i ddiddymdra mwy,
 A bythol anghof, nag i arch ei Dduw
 Ddioddef gwarth trwy anufudd-dod gwyw.
 Ond eto'r oedd yn gyferbyniol i
 Orchymyn Duw anwyldeb rhiaint eu;
 Os ymostyngai idd y naill heb wall,
 Rhaid oedd dibrisio, llwyr ddibrisio'r llall.
 Anwyldeb tad at unig fab ei fron,
 O, rhyngddynt hwy pa gadwyn gref oedd hon;
 Mor anhawdd oedd ei thorri hi yn lân,
 Trwy lwyr wahanu'r rhai oedd ddiwahan,
 Mewn pur anwyldeb yn ymglymu'nghyd
 Fel unig ddau fai'n cyfaneddu byd!
 Darostwng serch! gwaith goruwch rheswm yw,
 Anghyrhaeddadwy ond trwy ras ein Duw;
 Gras gafodd Abraham, a thrwyddi hi
 Gorchfygodd serch i'w fab o serch i'w Ri.

Wrth godi'r gyllell braidd na synnai holl
 Fyddinoedd anwfn yn nhrigfannau coll,
 A bythol dân. Ehedai'u huchel deyrn
 Dros oror uffern o'i gadwynau heyrn

Ar chwai adenydd hwnt i'r tanllyd lyn
 Nes cyrraedd clogwyn derch Moriah fryn.
 Mor uchel ydoedd ei uffernol hœn
 Pan welai 'n wir mai Isaac oedd yr oen,
 Ac Abram yr offrymydd! Meddai ef,—
 "N awr dacw derfyn i'r addewid gref
 Gynt roed i Adda yn fy erbyn i,
 Am 'Had y wraig' a'r hon o enau Rhi
 'N ol hynny gadarnhawyd iddo ef
 Sydd yma 'n dryllio 'i fab â'r gyllell gref.
 Mae Isaac hoff, yr addawedig had,
 Yn rhwym, a'i wddf dan gyllell lem ei dad;
 Mae 'r arf i lan! 'n awr dacw ef yn troi
 Ei fin i lawr â dirfawr rym er rhoi
 Y ddyrnod! Brysia nesaf eiliad! Caf
 Ar honno 'm gwynfyd ar addewid Naf."
 Ar hyn, er siomedigaeth i'r archdeyrn uffernol,
 A gwirfawr orfoledd i'r patriarch duwiol,
 Pan ydoedd y gyllell a gallu 'n dychwelyd
 I roddi y ddyrnod yn unol a'r ddedfryd,
 Pelydrodd o'i amgylch oleuni nefolaidd
 Tra clywai chwyn-chwyfiad adenydd angylaidd,
 Gwrtherchwyd y ddedryd, ataliwyd y ddyrnod,
 Mewn eiliad gan "angel y bythol gyfamod,"
 Yr Hwn a grochfloeddiodd wrth weld ei ufudd-dod,—
 "Na chyffwrdd ag Isaac, atalia y ddyrnod.
 O herwydd gwn weithian trwy hyn i ti 'm hofni,
 Gan 'nawr na wrthodaist dy unig fab imi."
 Y gyllell lem finiog a godwyd i glwyfo,
 A'r dwylaw crynedig ddefnyddiwyd i rwymo,
 Ddatodent y rhaffau, rhyddhaent yr offrwm,
 'N ol derbyn gorchymyn i dorri y cwlwm.
 Mewn ystyr ysbrydol yr ydoedd arbediad
 Y mab idd y patriarch fel adgyfodiad
 O fedd; mewn ewyllys 'r oedd wedi 'i aberthu,
 Am hynny mewn effaith 'r oedd wedi ailgodi.
 Dychlamodd i fyny oddiar yr allorfa;
 A'r cyntaf gofleidiodd ar ol y ddiangfa
 Oedd Abram, yr hwn pan o'i amgylch edrychodd
 "Yr hwrdd yn y drysni" mewn dalta ganfyddoedd;
 Offrymodd yr hwrdd yn boeth offrwm i Dduwdod
 Yn lle ei anwylfab. A! 'r oedd hyn yn gysgod
 O'r hwn a offrymodd ar glogwyn Golgotha
 Yn ddwyfol boeth offrwm i ddyn gael diangfa.
 Ar ol iddynt losgi yr offrwm yn fanlwech,

O gopa Moriah dychwelent mewn heddwch
 Gan beraidd ymgomio â'u gilydd wrth ddisgyn
 Ag araf gerddediad hyd ael yr uchelfryn,
 Nes cyrraedd y fan lle gadawsant y llanciau
 Y rhai oedd yn aros yn llon eu gwynebau ;
 Heb un yn absennol cychwynnodd y teithwyr
 I gyd tua 'u cartref fal ffyddlawn grefyddwyr.
 Ar foreu 'r dydd hwnnw ychydig feddyliai
 Y patriarch, pan ar brydnawn y dychwelai
 Yn ol y ffordd honno, y buasai 'i anwlyd
 Ag ef yn cyd-deithio mor llawen a hyfryd.
 Nid oedd tri diwrnod eu hoenfawr ddychweliad
 Ond megis tair awr, gan mor llon oedd eu teimlad ;
 Yr oedd eu hymddiddan fal swyngerdd melusber
 Yn byrhau y ffordd, ac yn byrhau yr amser.
 Mor fawr oedd eu hoen pan ddaeth gwlad Feerseba
 Ar unwaith i'r golwg, a'u hoffus breswylfa !
 Pan o fewn ychydig i'r tŷ, Isaac redodd ;
 Gan adael o'i ol ei gyd-deithwyr, prysurodd
 I fynwes hen fam ; a thra ymgofleidient
 Ym mreichiau eu gilydd, y rhelyw a ddeuent.
 Uwch dirnad yw 'r syndod a'r llonder a barodd
 Amlygiad y tad o'r hyn oll a ddigwyddodd ;
 Ar Isaac edrychai 'r holl deulu mewn undeb,
 Fel un wedi codi o ddyffryn marwoldeb.

 P R I O D A S . *

Y RHEFFYNAU aur orffennwyd,—a'r ddau
 O wir ddewis unwyd,
 Y golomen gylymwyd,
 Mae 'n hardd ran, mewn euraidd rwyd.

Gŵr doeth o gywir deithi,—gŵr hyfawl
 O grefydd ddiwyrni ;
 Enillodd, fe 'i haeddodd hi,
 Oedd addas i'w ddyweddi.

O, noddod Ior eu blynyddau,—a phan
 Orffenno eu dyddiau,
 At engyl dros bont angau
 I ddedwydd hedd aed y ddau.

* Mr. Thomas à Miss Fisher, Glandare Factory, Aberdar.

Y GROES.

A! PWY ddychmygai heddyw wrth ei weled
 Dan hoelion dur yn wylc ar y groes,
 Ei ddwyllaw 'n wlyb gan waed, a thorf wargaled
 A'u gwawd yn dyfnhau ei farwol loes,
 A chlwyf ar glwyf yn agor, enbyd boenau,
 A llid y nef fel môr, a'i eigion holl yn donnau, [enau
 Yn chwyddo 'i lanw dros y pen sydd uwch na'r holl wybr-
 Heb unrhyw gaer i dorri min a grym y gorlifiadau.

O! pwy ddychmygai wrth ei glywed yno
 Mewn dirfawr ing yn llefain, "O fy nhad,
 Mae'th hawddgar wên? Paham 'rwyf yn ymguddio?"
 Tra 'r floedd yn deffro adsain creigiau'r wlad,
 Ac ogof ar ol ogof yn ei hateb,
 "Paham! Paham!" a Duw yn llennu 'i wyneb.

Pwy dybiai mai y Mab ei hun sydd yma
 Dros ddyinion yn gwaghau 'i wythienau i gyd;
 A'i galon fawr tan ddyrnod braich Jehofah
 Yn plygu ac yn torri dan y llid!
 A ydych yn ei adwaen, chwi nefolion?
 Ai nid yw llen mor ddofn a hon yn dallu arch-angylion?

A! 'r ydych yn ei adwaen yn ei waed;
 A chyda'r gwaed yn gweld bendithion fil
 Yn llifo allan, afon lawn o ras
 Tua phob cyfeiriad, gan orchuddio'r byd.
 Mae yna fwy na gwaed i'ch golwg chwi,
 Ac nid yw'r croesbren yn terfynu 'ch trem.
 Iawn yw y gwaed! Ni raid dywedyd hyu;
 Mae'r ddeddf yn ddistaw, a fuasai gynt
 Yn ysgwyd caerau'r nefoedd â'i tharanau,
 Gan fygwth diorseddu torf o engyl,
 O ddyinion wedi eu gwneyd yn engyl mwy
 [Trwy riniau'r gwaed, sy'n lliwio'r croesbren fry.

Iawn yw y gwaed, a iachawdwriaeth lawn;
 A, mor afreidiol im hysbysu hyn;
 Mae llais cyfiawnder yn y nef o'm blaen,
 A dinas Duw yn crynu gan ei floedd,
 "Boddlonwyd," oddiar ei orsedd fawr;

Ei orsedd sydd yn gyfiawn wrth ryddhau
 Byd llawn o garcharorion, tra y ceir
 Ei gallu yn seiliedig ar y groes,
 A'i haur golofnau'n ddwfn yn y gwaed,
 O'r golwg wedi eu sicrhau am byth.
 Gadarnaf fainc! pwy all ei hysgwyd hi?
 Gorseddfainc gras, gorseddfainc iawnder yw,
 Gras trwy gyfiawnder yn teyrnasu mwy,
 Mae gras yn gyfion ar orseddfa o lawn.

Angylion! pam mor ddistaw? A, y mae
 Y floedd "Boddlonwyd," o enau Duw ei hun,
 Yn fil rhy bêr, yn fil rhy lawn o swyn,
 I neb a'i clywo, bydded gerub glân,
 Ymaflyd yn ei delyn arian mwy,
 Nes llwyr ddistawo'i hadsain olaf hi
 Trwy holl wybrennau tragwyddoldeb draw.
 Boddlonwyd! bloedd o Sinai danlyd yw,
 O udgorn barn, a iawnder yn ei chwythu.
 Ac O, pa angel, plith aml gorau'r ser
 All efelychu tôn Trugaredd, pan
 Yn syrthio ar wddf Cyfiawnder i'w gofleidio,
 Ar wedd foddhaol dangnefeddus mwy,
 Ar ei ddychweliad o'r gyfryngol frwydr;
 Ei lais yn fwyn gan drugarawgrwydd pêr,
 Ai hyfryd arogl o foddlonrwydd llawn
 Yn esgyn hyd y nefoedd i'w foddhad
 O'r aberth brwd ar allor pen y bryn;
 Ei gleddyf yn ddiodefnydd yn ei wain,
 Camedig arf, a'i farwol fin yn bwl
 'R ol taro yn erbyn calon Duw mewn cnawd.
 Pwy efelycha gân coroniad hon,
 Wrth esgyn i'w gorseddfainc wen o ras,
 A'r ddeddf yn edrych arni gyda gwên,
 Gan estyn ei theyrnwialen haiarn fry,
 Ac engyl Duw, afrifol dorf, yn crynu
 O'i blaen, pob un a'i goron yn ei law,
 Tra hoeddai allan—"Ras! teyrnasa byth!
 I'r lan, i'r lan a llifddor cariad mwy,
 A gollwng fôr dy radau dros y byd,
 Eisteddaf mewn gogoniant ar y lli.
 O caed y byd ei gyfran yntau bellach
 O hedd, gollyngdod, iachawdwriaeth lawn;
 I mi agorwyd ffynnon ddofn o waed
 Dan galon Duw! ac ni sychedaf byth;

Teyrnasa, Ras! Bydd hollalluog mwy.
 Teyrnwialen iawnder yw 'th deyrnwialen di,
 Cyfiawnder Duw a'i dododd yn dy law.
 Ysgydwa hi o fôr i fôr, a thrwy
 Holl oesoedd amser, nes i'th olaf wyrth
 Waghau y bedd, a chael y dorf ynghyd,
 Anfeidrol lu, a'm delw arnynt oll,
 Heb ar eu gwedd frycheuyn hagr mwy,
 Yn newydd lwyr fel Adda o ddwyllaw Duw.
 Hyd dragwyddoldeb cadarnhaf dy sedd."
 Buasai hi, Trugaredd, lawer oes
 Yn wylo 'n athrist ger yr orsedd hon
 (A barctowyd cyn sylfaenu 'r byd),
 Heb hawl i esgyn ar eisteddfa deg.
 Yn wylo, fod ei thrysorfaoedd llawnion
 O oes i oes yng nghau, heb fodd i'w hagog,
 Yng nghallu Duw ei hun, hyd oni ddaeth
 Yr archoffeiriad y tu fewn i'r llen,—
 Yn goch o'r groes, a'i werthfawrocaf waed
 Dros odre 'i wisg yn dyferynu i lawr,—
 A'r allwedd ganddo! 'r unig un a wnai!
 Derbyniodd hi o law y gyfraith, pan
 Ddistawodd ei tharanau, ac y llannwyd
 Ei holl wybrenau â thragwyddol ddydd,
 Dydd disglair o dawelwch ac o hedd,
 Na fydd machludiad bythoedd ar ei haul
 A gododd rhwng cymylau Calfari
 Brydnawn, pan droes y dydd ei hun yn nos.
 "Gorffennwyd!" Gorfoleddai wrth y gair
 Yn awgrym oedd i'w môr o radau mwy
 Lifeirio a chynhyddol fythol lanw,
 A golchi myrdd o ynys dywell amser
 I araul lan y paradwysol dir.

A dorrodd hi? y galon eang honno!
 Lle tarddodd hedd-feddyliau fyrdd am ddyn;
 Yr hon ym mynwes Duwdod fu 'n ymchwyydo
 Nes gwthio allan y priodfab cun,
 Ei wisgo a chnawd, ar agwedd gwas, a'i anfon
 I'r blaned bell a distadl hon, yn unig fel rhyw estron
 I gyrcu y gwrthddrychau i dre i gofi y fynwes dirion
 A'u cannu yn yr olchfa lawn lifeiria 'n rhad o'i galon.

Hi dorrodd! Do, tarawyd hi â gwialen
 Cyfiawnder, fel y graig yn Horeb flin.

Dewch, wywedigion, dyma fedd i'ch angen;
A! troes diffaethwch Calfari yn llyn o ddwfr i ddyn.

“Ar uchel le” agorwyd yr “afonydd”
Sy'n gweithio 'u ffordd o fro i fro, a'u dyfroedd yn ddi-hysbydd,
Gan araf chwyddo dros y byd i'w baradwyso o newydd.

Try'r anial maith yn Eden mwy,
O dan eu bywiol ffrydiau hwy.
Agorer iddynt redfa well
Ar fyr trwy galon Asia bell;
Eu llanw orchuddio a chyfoeth ne
Arlethrau beilchion Himaleh.

O, chwyddwch dros gadwyni Altai fry,
I ddyfrhau tu draw yr anial du,
A llonni bron Siberia brudd ddi-loer
Sy'n wylo 'n unig yn y gogledd oer.

Mae'r pydew 'n ddwfn. Amlled ei rinweddau
O, llanwer yma holl ddyfrlestri'r byd!
Mae môr islaw. Ac nid yw'r myrdd o radau
Gaed eto, ond ffrydiau o'r cyflawnder drud.
Drud? cabledd yw! A, gwelaf haul Calfaria [wynfa,
A'i haeddiant yn sugndynnu'r môr dros aurgeulanau'r
A balm awelon gras o fry yn chwyddo'r llanw yma.

O, clyw y floedd o'r loewach lan,
Tyrd yma'r eiddil, yma'r gwan,
Ac yf hyd lanw, yf heb werth,
Yf fywyd a thragwyddol nerth.

Fel dyfroedd oerion i'r sychedig enaid
Yw'r ffynnon falm agorwyd dan ei fron;
Wyf dawl mwy! ni theimlaf un angenrhaid
Ar ol archwaethu bywiol ddyfroedd hon.
Dilynaf hi, y ffrwd o fythol lawnder,
Dros lawer craig, trwy ddyrystleoedd amser,
Nes llifa ymaith dros ddisgynfa angau
I'r môr tragwyddol, na adnebydd donnau;
Fywhaol ffrwd ar grasdir llwm yn tarddu
Nes llifo i'r tawel fôr o hedd, a minnau arni.

Eisteddaf a dechreuaf ganu

Yn hapus bythoedd. Mae pob dafn o hon
 Ei hun yn ffynnon, a thragwyddol darddu
 Y mae—'rwy'n teimlo 'i gallu!—dan fy mron.
 Ar godiad tanbaid haul y dydd diweddfaf,
 Bydd dyfroedd hon yn tarddu i'r lan, a thawel fyddaf.

Dros grasder amser sydd yn wyw gan siomiant,

Heb wawr un llannerch rós yn euro 'i wedd,
 Yn llawen teithiaf mwy, tra blodau diflant
 Y ddaear yn gogwyddo tua 'r bedd,
 I gyd yn wyw! A, er yr anial garw,
 Mae yma un blodeuyn nad yw mwy yn marw!

Ei wraidd ddyfrheir foreuddydd a phrydnawn
 Gan ddyferynau o lif yr afon lawn,
 Sy 'n ffrydio ar ein hol trwy ddiffaeth ffyrdd
 I gadw 'i wreiddyn fyth yn ir, a'i frig yn wyrdd.

Do, gwywodd aml flodyn gwiw
 Oedd ddwfn ei wraidd, a theg ei liw,
 Holl swynion bywyd ynddo ynghyd,
 Aur anfarwoldeb ar ei wrid,
 Flodeuyn o baradwys well
 Yn wyllo am ei hinsawdd bell;
 Rhy dyner filwaith oedd dy wedd
 I ddal awelon oer y bedd.
 Ond gyr y blodyn hwn i lawr
 Ei wraidd yn is o awr i awr;
 O'r nef mân-ddarlun teg ei wawr,
 Y gobaith am baradwys Duw,
 Y gobaith gwell am fywyd yw.

O ddwyfol ffynnon, mae ei dwfr yn oeri

Sinai, tra 'n darllen ar gyfrolau o fwg
 Ddigofaint Duw, a'r fellten yn amlygu
 Heyrn lythyrennau 'r ddeddf ar lenni o wg.
 Mae 'i frig yn oer! Ffwrdd tawdd y tew golofnau;
 A, gwel ei ben uwchlaw mewn gloew wybrenau.

Clir yw yr wybren uwch ei ben
 A golau hyd y drydedd nen.
 Holl heuliau 'r nef o'u nennau claer
 Arllwysant eu pelydron aur,
 Foddlonrwydd disglær, ar ei frig,
 Heb yn eu pelydr liw o ddig.

Cyfiawnder ar y ffordd tua maes y lladdfa,
 A'i gleddyf yn disgleirio ar ei glun,
 A llid yn duo i ael, eisteddodd yma
 Gan syched am foddlonol waed yn flin.
 Archwaethodd! Yfodd Iawn yn fôr o honi,
 A throes yn ol gan ado i gleddyf ynddi.

 A N G A U .

PA beth yw angau? "Beth?" yw'r adsain gawn
 O enau'r mawr ei ddyag, a'r mawr ei ddawn;
 Ymdrechion oesoedd, troent yn feth,
 A'r diwedd ydoedd dyblu—Beth?

Canmoler doethion Groeg, mawr oeddynt hwy,
 Ond ar oer fin y bedd beth ydynt mwy?
 Anwybodusion dall a thlawd
 Yn methu gweled cam o'u rhawd.

Socrates onest, O ar d' enaid trist
 Na thywynasai gwawl efengyl Crist,
 Yr hon sy'n dangos angau prudd
 Fel bore wawr rhagorach dydd,
 Gan ysgrifennu ar y bedd,
 "Mynedfa i dragwyddol hedd!"

 A D G Y F O D I A D .

O A D G Y F O D I A D! mae y gair yn hedd;
 Lliniara ddwysder gwae, siriola'r bedd;
 Y mae yn cylchu'r fynwent brudd
 A disglauer enfys bythol ddydd.

Yr udgorn dwyfol gân—nid amser mwy!
 Y ser yn deilchion mân ymddrylliant hwy;
 Yr udgorn gân, a'i adsain fydd,
 Tragwyddol fywyd, bythol ddydd.

 H I R A E T H .

O N A chawn etifeddu'r wlad lle nad oes flinder mwy,
 Ond canu am iachawdwriaeth rad rhinweddau mad ei glwy.

O dan awelon croes y byd ehed fy meddwl fry;
 Mae acw yn hedd, yn hedd o hyd. Bro dawel ydyw hi.

A phan y cwynaf dan y groes, y mae'r orffwysfa draw;
 Ni theimlir yno faich na gloes, ni phrofir yno fraw;

Lle nid oes siomiant byth yn bod, na chalon aflan mwy,
Ond canu i'r Oen dragwyddol glod am hynod rin ei glwy.

Mae yno aniflannol ddydd heb gwmwl prudd na llen;
A thorf brynedig yno bydd o gylch yr orsedd wen.

Ni dderfydd yno'r anthem bêr am haeddiant Iesu a'i glwy;
Pan losgo'r byd, pan syrthio'r ser, yn canu byddant hwy.

O dyma etifeddiaeth lawn, aniflanedig ryw;
Cyfiawnder haeddiant dwyfol Iawn, cyfiawnder Duwdod yw.

YR YSGOL SABBOTHOL.*

AWN tua'r Ysgol Sul, awn i gyd,
Gwna ni yn barod erbyn ail fyd,
Erbyn ystorm gorthrymder pan ddaw,
Erbyn taranau angau draw.
Dewch, dewch, unwch o'i phlaid,
Dan ei hadenydd mae hedd di-baid,
Unwch oll, unwch oll, unwch o'i phlaid.

ABERTH CRIST.

RHOES, rhoes,
Anfeidrol aberth drwy ei loes,
A'r ddeddf o blaid yr euog droes.
Uwchben y groes ymdorri wnaeth
Y cwmwl o anfeidrol lid.
Ac arno'i gyd heb arbed daeth.

O pwy
A draetha i oes lwyddiannus mwy,
A'r tâl am ddiodef marwol glwy!
Fe'u codir hwy i entrych nef,
Y dorf aneirif, erbyn hwyr,
Ag achub llwyr ddiwellir ef.

Iawn! Iawn!
O felus air, mae 'n seinio 'n llawn
Hyd eithaf nef y nef brydnawn;
Y gyfraith gawn yn hedd i gyd,
Cyfiawnder hefyd wrth y groes
Ei gleddyf droes o blaid y byd.

* Cyfansoddwyd ar gais Mr. J. D. Jones, Rhuthyn, i ateb y dôn "*Riflemen Form.*"

MORGAN HOWEL.

MORGAN HOWEL! Pwy yng Nghymru na chlybu am yr enw? Pwy

Yn yr enw na chydnebydd ddyn o riniau, fwy na mwy?
Ymberawdwr y gymanfa, un uwch o'i ysgwydd na'r holl lu,
Darfu ei isloerawl yrfa, hun a yn y fynwent ddu.

Efe oedd efengylwr o'r iawn ryw,
Yn rhannu bwyd i'r enaid, ac yn byw
Ei hunan arno. Yn y cudd a'r c'oeidd,
I Iesu Grist, gweinidog ffyddlawn oedd.

Pregethai boenau uffern gyda nerth,
Pregethai hedd a hoen y nefoedd ferth;
Taranai fel o groth Gehenna gref,
Pryd arall gwenai fel yng ngwydd y nef;
Ymsuddai i ddyfnderoedd anwfn fawr,
Ymgodai ar adenydd dwyfol wawr;
Bygythiai, crefai; gwgai, gwenai'n fwyn,
I alarmu dyn o hun a marwol swyn
Ei bechod, ac i'w osod ar ei draed
Yn effro, a'i edrychiad tua'r GWAED.
O fry gollyngai'r gadwyn euraid gref,
I godi'r gynulleidfa tua'r nef.
Dros eang gnydfawr feusydd cariad Ior
Yn fynych rhodiai; edrych ar ystor
Ac anchwiliadwy olud trefniant gras
Oedd ei hyfrytaf waith. Bu fyw yn fras—
Bywioliaeth angel oedd—ar ddwyfol wledd,
Ac arlwyadau hael efengyl hedd.

Teyrn oedd ef yn yr areithfa, a'i ddeiliaid, y gwranda-wyr oll;
Pan daranai, crynai'r dyrfa fel pe yn safn pydew coll;
Ei effeithlawn Anathema greai arswyd drwy y fron,
Ond ei adfloedd bêr DIHANGFA a lonyddai arswyd hon.

Wrth gyhoeddi gweinidogaeth damnedigaeth uwch y llu,
Ei seraffaidd ddrychfeddyliau dreiglent fel tân-donnau hy;
Nes oedd adamantaidd furiau, cedyrn dyrau uffern gref,
Yn ymysgwyd gan ryferthwy ei athrylith danllyd ef.

Pan gyfeiria'i areithyddiaeth at gyfundraeth cyfiawnhad,
Pwy ddarlunia weithrediadau ein teimladau mewn mwynhad!
Mor gyfoethog mewn profiadau nefol oedd ei fynwes gun,
Mor feistrolgar y chwareuai ar organau teimlad dyn!

A gorddyfnion ddrychfeddyliau, pwysfawr fel mynyddau 'r byd,
 Uchel fel rhodfeydd yr eryr, chwareu wnai â difyr fryd.
 Tra y syllai ar ddwyfol-ddull rhyfedd Faban Bethlehem,
 Gwenai 'r Awen yn ei arddull, fflamiai 'r seraff yn ei drem.

Braidd na thybiem, wrth ei wrando, fod rhyw Gerub mawr tu cefn,
 Yn dadlennu 'n ffyddlawn iddo ryfeddodau 'r ddrudfawr drefn,
 Gan dywallt cefnllif o feddyliau i'w fynwes o ffynhonnau nef,
 Yntau wedyn yn ei arllwys ar ein traws yn afon gref.

Safai beunydd fel rhyfelwr, a phencampwr ar y mur,
 Gan amddiffyn athrawiaethau a chyfreithiau Seion bur;
 Pan fai perygl, gwaeddai 'n uchel,—“ Ymarfogwch, weision IOR!
 Gwelwch Satan ar y rhagfur, gwelwch uffern wrth y ddôr!”

Arddanghosai 'r Groes ogorod, megis sail a baner hedd, [gwledd;
 A'r “grawnsypiau mawrion addfed hongiant arni” 'n ddefnydd,
 Gwledd o basgedigion breision, a phuredig loew win,
 Gwledd ddigonol i anghenion nef a daear, Duw a dyn.

Yn y Groes y cafodd fywyd, wrth y Groes y mynnodd fyw,
 Hi oedd unig nod ei ymfrost, unig sail ei obaith gwiw;
 Ei fawreddog ddrychfeddyliau,—anghymharol berlau 'r oes,—
 Dreiglent oll fel disglâer rodau amgylch ogyrch Haul y Groes.

Pen Calfaria! dyma gartref ei fyfyrdod trwy ei oes,
 Yma gwleddai ar yr aberth, yma syllai ar y groes;
 Gan frwdfrydedd ei feddyliau, hawdd oedd dwedyd yn ddi-len
 Iddo dreulio ei fynyddau ar y mynydd, wrth y pren.

Ei gorff yn unig drengodd. Mae ei glod
 Yn fyw, ac, fel ei enaid, bydd mewn bod,
 Cof, a thragwyddol rwysg, edmygedd arch
 Tra chrefydd a theilyngdod pur mewn parch.

Nid delw farw ga ddynodi 'r fan
 Lle tawel hunia ei ddaearol ran,
 Ond anfarwolion wylant nos a dydd
 Gylch-ogyllch ei orweddfa dywell, brudd,
 A dagrau 'n gwlawio dros eu hathrist wedd
 A feddallhant ei fyth-reweddig fedd.

CYWYDD FFYDD.

MYNEDFA uwch man adfyd,
 Taith ban, uwch artaith y byd;
 Rhyw glodus ragwelediad
 O nwyfol wledd nefol wlad;

Neu ymroddiad mawreddog
 Ar Grist, a rhinweddau 'r grog
 Enaid yn bwrw ei hunan—
 Dir bwys ! ar Waredwr ban,
 Gan ymddiried trwy gredu
 Ar iawn mad y Ceidwad cu—
 Yw didwyll ffydd credadyn,
 A diwael ddeddf duwiol ddyn.

Oferedd yw ffydd farwol,
 Neu ffydd y morwynion ffol :
 Ansawdd hon sy ddienaid,
 A buan, buan hi baid.
 Yng nghroth y tân Satan sydd
 Yn credu mewn Creawdydd ;
 Credu mae ei deulu dig
 Yn y ffyrnau uffernig ;
 Coeliant ddull hanfod Celi
 Yn y iawn drefn, Un yn Dri.
 "Mae Duw," medd yr anuwiaid ;
 "Cyfaddef â rhwyddlef raid."
 Ond tra credant, rhegant Ri,
 O dan eu heiyrn gadwyni.

Yr iawn ffydd, seren hoff yw,
 Ein hodiaeth huan ydyw ;
 Llygad i ddwyn holl eigion
 Bytholddrych i'r llewyrch llon.
 I goll a ein rheswm gau
 Yn ingol lynclyn angau ;
 Eithr ffydd ar ei haruthr ffo
 Er hyn ni luddir yno ;
 Tyr holl foltau angau hyll,
 Hi a ysgwyd ei hesgyll,
 Mantella mewn tywyllwch,
 Hed i'r llen, gan adaw 'r llwch ;
 Yna eheda'n odiaeth
 I drem yr anfarwol draeth,
 Gan dderchafu'r nenlenni
 I'n tremiad a'n nodiad ni.

O ensawdd nid yw 'n ansicr,
 Gair Duw yw sail y gred sicr.
 Ni syflir hon o'i safle
 Trwy ofer nwyd, tra fo 'r ne ;
 Gorfhwys ar Geidwad cadarn
 Diau y bydd wedi barn.

Er grym tân, er garm tonnau
 Gnodaw! boen y gnawdol bau,
 Cywir astud yw'r Cristion
 Trwy y ffydd dieilfydd hon.
 Trwy ei drych edrych adref,
 Tremia 'n hy hyd drumiau nef.
 Heibio'r ser e brysura,
 Heibio'r ser heb aros a,
 Trwy dyn gred tra dan y groes
 I hael annedd ol einioes.

O rwng blwng yr angau blin
 A dieflig âl dyflin
 Hi rydd drem o'r euraidd draeth,
 Mir olwg uwch môr alaeth.

Cadwyn ydyw, yn cydio
 Y duwiol â'r freiniol fro
 Orfras, lle trig mewn arfri
 Ei gwrthrych uchelwych hi.
 Ergydia yr orgyden
 Drwy'r llid y tu draw i'r llen,
 Ac hyd ddolennau'r gadwyn
 Wr heinif a i'r nef fwyn,
 I fro werdd y gerdd ddi-gaeth,
 A chyfan oruchafiaeth.

Da nawd credadyn ydyw,
 Dirion wr, ei darian yw,
 Rhag picellau'r fall-allu
 O ias ffwrn ddwys uffern ddu;
 O'i amgyleh ogylech heigiant,
 I'w enaid niwaid ni wnant.
 Hyll chwa o bicellau chwyrn
 Drecha a'i aes yn drachwyrn.
 Y saethau tanlyd sythion
 A barant fraw brwnt i'w fron,
 Ddiawchir, arbylir ban
 Dorrant ar draws ei darian.
 Yr unig aes i'r enaid
 Yw'r iawn ffydd, yr hon ni phaid.

O rasau da, rhes hi dyn
 A'i cheinlaw idd ei chanlyn,
 Gobaiith ydyw effaith hon,
 A chariad yw ei choron;
 O'i brasder a'i ffoewder fflwch
 Dyfera edifeirwch;

Haeledd pur a thosturi
 Yw ei pherffaith effaith hi ;
 Rhydd i'r Cristion nwyflon nerth,
 Eryr-nwyd ac arwr-nerth ;
 Ar y môr, hir ymaros
 Rodda hi i ni yn nos
 Gwasgfeuon, helbulon byd,
 A phroffion hyffion hefyd ;
 Gwedd f' Arglwydd welaf drwyddi,
 Dwg dangnef y nef i ni ;
 Ddwyfol rodd, hyfawl wreiddyn
 Ffyddlonder a dewrder dyn,—
 Mor drist yw bod yn Gristion
 Ar enw, heb rinau hon !

Diddadl ffydd yn y Duwddyn
 A'n cyfiawnha, cofiwn hyn.
 Ni ro Dduw i ni ryddhad
 O gryf ingol grafangiad
 Ing, a phech, angau, a phyd
 Enynbwill annwn enbyd,
 Heb inni bwysu beunydd
 Ar hoff iawn y Mab drwy ffydd.

Iawn gred yw'r rhedle drudlon,
 Ffordd hyfryd ar hyd yr hon
 Y nawf bendithion y nen
 I dir ing, i dre angen,
 Er enwog gyfoethogi
 Ein daear anhygar ni,
 A dwyn eneidiau dynion
 Yn ol i hedd anwyl Ion.
 Brasder a llawnder yn lli
 O ogoniant dddwg inni.

Mwy'n addas er f' amnoddi
 Yn Ner boed fy hyder i ;
 A phan yng ngherth ryferthwy
 Angau a'i byd ing y bwy,
 O fy Ngheidwad, fy Nghudwr,
 Pan yn wan o dan y dŵr,
 Pan ddaw ffrydiau, dagrau'r don,
 A gerwinder y wendon
 Hyd fy ngrudd, O! boed fy nghred
 Ddewrwydych, a'm holl ymddiried
 Ynnod, ti hoffusnod ffydd,
 Fy Nhad, fy rhad Wareddydd!

Y GWEDDNEWIDIAD.

1. Yr Ymgawdoliaid—Gwaieidd ymddanghosiad allonol y Gwaeredur—Achlysurol amlygiad ei ogontant mewn gwyrthiau—Ei hofder o anian—Cyddymdeimlad anian ag ysbryd dswtolofrydedd—Cysegredia-rydd y mynyddoedd fel mangreodd o amlygiadau dwyfol.

ISELED Brenin Caersalem,
Bythol Lyw hon, yn Bethlehem !
Yn ddyn bach mewn cadachau,
Duw a geir wedi 'i waghau,
Duw yn nelw a dull dynoliaeth
I'w deddf-le dioddefawl aeth.

Rhaid oedd, i'w fwriad addas,
Guddio 'i fawredd â gwedd gwas,
Fel nad ofnai bai y byd
Am arall ei gymeryd.

O fyd y tlotaf ydoedd
A gŵr dirnygedig oedd.

Du boen, gofidiau beunydd
Rif y ser i'w yrfa sydd.
Heb gartref cawn ef a wnaeth,
Ie, i fyd gartref odiaeth.

Ond ambell awr well, rhyw wyrth,
Gollyngiad gallu engyrth,
A gyhoeddai o'r gaddug
Mai Ior oedd dan y mawr hug ;
Elfennol stormlef anian,
Diau ai 'n fud yn y fan.
Anian gyfan a gofiai
Ei iawn lef, ac yn ol ai—
Yr un a phan yr enwodd
Ar ei faine y ser o'i fodd ;
Tawela 'r gwynt i'w alwad,
Yn ol gyr elfennawl gad.

Ei natur wael, gwael ei gwedd
Agenai, a'i ogonedd
Heibio y llen ambell awr
A lifai yn oleufawr.

Urddunant Natur ddenai
 Ei galon, yn hon mwynhai
 Olwg ar ei Dad eilwaith,
 Ail-goffo, cymuno maith.
 Anian ei hun yn unig
 Ger ei burdeb oedd heb ddig.
 Addas i gymdeithas Duw
 Oedd hon heb ogwydd annuw.

Llawer hwyr a'r lloer arian
 Uwch y byd yn dyrchu ban,
 A'r bryniau i'r wybrennawl
 Eangder dyfnder di-dawl
 Dwyfol-lonydd yn difannu,
 Unigrwydd distawrwydd bob tu,—
 Y gwelid ef yn gwyliaw
 Siriol drefn y serlu draw,
 Oedd un a wyddai 'u henwau,
 O fan is eu hail-fwynhau.
 Hawdd i'm Ner oedd eu mwynhau,
 Sylfaenydd eu hoesawl fannau.
 Hir addolai'r arddeliad
 O allu dwys llaw ei Dad.
 Ger eu Hawdwr gwnai 'u gwridiad
 Y nef a'i myrdd yn fwy mad.
 Nefoedd uwch ein nefoedd ni
 A ddelent i'w addoli.

Tra hoff ydyw Natur a'i hedd,
 O fwriadau duwiolfrydedd;
 A'i bryniau a bêr enwir
 Fel borau gaerau y gwir,
 Fel engyl yn ymyl nef
 Arweinian tua'r wiwnef.

Ior erchai 'i batriarchiaid
 Dihalog i'w goffo gaid,
 O ganol difenwol fyd
 I wyddfa fel newydd-fyd,
 O dawelwch diwaelod
 Enwog le i seinio 'i glod.
 A wneddyw ar fynyddoedd
 O'n tu, O pa faint oedd!
 Atebai o frig Tabor
 Ac o leithig unig Hor.

Fe drefnai Sinai yn sedd
 I gynnal ei ogonedd
 Anfarwol, ac adferyd
 Ei gyfraith berffaith i'r byd.
 Syw cofio Pisgah hefyd
 Araul fan yn yr ail fyd.

A dewisodd bryd-Iesu
 Yn y corff, eu bannau cu ;
 Tan oer loes tynnu i'r lan,
 Gweddio yno i hunan.

II. *Yr haul yn machlud—Iesu a thri o'i ddisgyblion
 wedi cyrhaeddyd pen mynydd Tabor—Yr olygfa
 oddiyno—Dimodedd y Mab yng nghamol ei weith-
 rediaedd gogoneddus ei hun—Y disgyblion "wedi
 trymhaeu gan gygeu" yn cael gorffwys ar drwm
 cefnago.*

Lleddfai 'r cymysg derfysg dig,
 Anian glywid yn unig.
 O olwg cuddiai 'r heulwen
 Dan fôr o borffor ei ben.
 Y llewin fyd â llen fawr
 Gaerai i mewn bob gorawr.

Yn eu taith yr ennyd hon
 Ar riwiau Tabor eon,
 Iesu a thri o'i weision
 Ffurfiâu llwyd mal breuddwyd bron,
 Ar eu hynt sefynt yn syn
 Gei ei uchelaf goryn,—

Pedr ac Iago ac Ioan
 Yn ei iach gyfeillach fan.

Pa gerdd, O pa gywirddawn
 Ddarlunia 'r olygfa lawn?
 O'i hwyrhau mwy swynfawr oedd,
 I gyd mwy edmyg ydoedd.
 Pa wylltedd yn y pellder,
 Pa saib gyda thymp y ser,—
 Crib oesawl cyrrau Basan
 Yn myned ar led i'r lan ;
 A'r niwl fel coron eilwaith
 Mwy gwych a gemog o waith ;
 Bennau goruwch bannau byth
 Trwy y gofod tragyfyth,

Ymeangu, ymhongian,
 Aml big mewn cymylau ban;
 Ei guchiog drumiau gochid
 I fawr rwysg ag olaf wrid
 Yr huan, a'i serth riwiau
 Ail llif o aur yn pellhau.
 Tua'r deau tra diwen
 Y dyrchai Gilboa i ben.
 Hermon gwyn ei goryn gaid,
 Ban o degwch bendigaid.
 Enwau cun ym mlaen ac ol,
 Ac Un mwy yn y canol!

Anian trwy Ganan i gyd
 Oedd ddwyfawl; naw's o ddeufyd,
 Gyda'i thawel awelon,
 Porth y nefoedd ydoedd hon.
 Engyl nef yn gartrefol,
 Wnai'n wyn bob dyffryn a dôl.

Er ceined a gwyched gwedd
 Anian a'i holl ogonedd,
 Addas oedd iddi suddo
 O ddiderfyn fryn i fro
 I'r ddofn nos, ar addfwyn wedd,
 I'w Naf fwynhau tangnefedd;
 I'r ddofn nos er addef ei Naf
 Yn natur dyn yr hynotaf;
 Rhag ei wedd troi i mawredd mad
 A'i chlod i dir machludiad.

Rhyfedd gweled ar ofwy
 Y Mab yn edrychw'r mwy!
 Hynod im ganfod y gŵr
 A'r gwaith yn fwy na'r gweithiwr.
 Adail y ser yn dal sydd,
 Mor dlawd mae'r adeiledydd!
 Olwyn anian yn ddi-lesg,
 A'r llaw fu'n ei lluniaw'n llesg.
 Gwelwn y rhod yn treiglo'n rhydd,
 A'r llaw iu'n ei lluniaw'n llonydd.

Ar drum cysgodfawr o draw
 Ei weision gaent orffwysaw.
 Efe'n flin mewn gerwin gur
 Yn llefain yn y llafur,

Yn rhwym o dan yr amod
 A wnai i Dduw cyn ei ddod,
 Hwytthau mewn per gyweithas,
 Drwy haeledd rhyfedd ei ras,
 Yn rhodio neu 'n huno 'n ol
 Ewyllys oedd rydd hollol ;
 Y diail Fugail dan faich
 A'i ddefaid oll yn ddifaich ;
 Ag addwyn ras eu godde
 Dwyn y llwyth du yn eu lle.
 Yn yr Ardd ni waharddai,
 Addfwyn Oen, eu goddef wnai.
 Gadawai hwynt,—y gwaed i'w hau,
 Gadawai hwynt,—gwaedai yntau.

III. *Crist yn gweddio—Gweldi yn ei chysylltiad â dyr-
 chafadau ysbrydol ac âg amlygiadau o fafr Dduw—
 Y Gweddnewidiad—Ymddangosiad Moses ac Elias
 "mewn pagoniant"—Y pagoniant cyfryngol gor-
 wech dartuniadaeth y darffelydd—Llewyrchiad y
 disgleirdeb nesol yn dihuo y disgyblion—Eu syn-
 dod a'u gorfoledd.*

Yr unigedd rhyfeddawl
 O'i fewn a ddeffroai fawl.
 Ystyrion y distawrwydd
 Diau roent gymhelliad rhwydd.
 Dewis holl lwydd mantais lle
 I edryd ei fryd adre.

O'r addolfyd arddelfawr
 Tua 'r nef troai yn awr.
 A dwylaw 'mhleth adolwyn
 Ei Dad â dymuniad mwyn.
 Ar wedd wylaidd rhoi 'i ddeulin
 Ar y llawr er oerfawr hin.
 Gwrandaw 'r weddi weddiai,
 Agor nef â dagrau wnai ;
 Eitha dwys ceir wrth ei dôr
 Yr Atebydd ar Tabor.

Rhoddodd fawredd ar weddi,
 A'i waith oll cydblethai hi.
 Yn ei hadsain elai 'n wyl
 Ei gyrehiad at bob gorchwyl,—
 Ei gynor i ogonedd,
 A'i ddôr i nefolaidd hedd

Palas cymdeithas ei Dad ;
 Ei hynodawl fynediad
 I'w lawn ing—nid elai 'n ol
 Hyd ei boenau dibenol ;
 Pan y llefai rhoddai 'i rhan
 I symud baich Gethseman.
 Dwyfolach dwysach deisyf
 Yn y cur oedd, "llefain cryf."

Enwog fynyddau anian
 Yn y niwloedd bythoedd ban
 Ddwyreant i heirdd riwiau
 Eu nef bell, o'r dyfnaf bau.
 O gudd ddyffrynnoedd gweddi
 A hedd ei chysgodau hi,
 I fyd uwch y cyfyd Ion
 Ei blant uwch pob helyntion,
 I'w fynwes, uchel-fannau
 Ael y nef i lawenhau.
 Prif dyrau temlau teimlad
 A ddaw fyth o'r weddi fad.

I'r lan oddiar ei liniau
 Galwai Ior Ef i'w eglurhau
 Yn ei forau lawn fawredd
 Trwy fad newidiad ei wedd.

Fel yr huan eirian ai
 Ei wyneb, gordywynnai ;
 A'i leufer ogylch lifai,
 A hwyr nos yn fore wnai.
 Heibio bwriai bob arwydd
 O farwol len, erfawr lwydd !
 Ai pob tranc i ddifancoll,
 Gwendid yn gadernid oll.
 Yn ol i'w ddwyfol wedd ai,
 Y dyn i'r duwddyn doddai.
 Pelydron ei ogoniant
 Fel môr o ddydd filmyrdd ant
 Yn ddiball o'i gorff allan,
 A'i wisg oll a'r byd sy gan.
 Wybrennau yn olau ynt
 Gan eu mad dreiddiad drwyddynt.
 O'i amgylch ef y Nefoedd
 Mal gwisg gan yn hongian oedd.

Ymweddai i'w fintai fach
 Fel y mae y mae mwyach,
 Gan addurn gogoneddawl
 Ei waelaf wisg lif o wawl.

Rhydd eilfyd brawf arddelfawr,
 Gyr ei weis goreu ai wawr.
 Cedyrn maith y gyfraith gynt
 O ganol nef ddisgynnynt;
 Rhoddwr, diwygiwr di-wall,
 A dirient o fyd arall.

Moses â'i law rymusol
 A gipiai, gyrhaeddai 'r rhol
 Ddwyfol o ganol y gwg
 Doai y byd â duwg;
 Elias hefyd, gloai
 Ddôr wybr pan i weddi 'r ai;
 Heddyw is ser y ddau sant
 Gwiw a gawn mewn gogoniant.

Bu rhyfedd iddynt brofi
 Rhyw nef ar ein daear ni,
 Ie 'r trwyadl bortread
 O hynny fydd y nef fad.

Disgleirdeb eu hwyneb hwy
 O'u rhyfedd freintfawr ofwy
 Gynyddai 'n ogoneddawl,
 Gwychach oedd eu gwisgoedd gwawl.
 Iddynt ail-ogoneddiad
 Urddolfawr oedd, ailfawrhad.
 Rhyfedd ogonedd gwiwnef
 Ai 'n uwch yn ei bresen Ef.

Yng ngwawl y cyfryngawl fri
 Darfelydd dry i foli;
 O fawr barch dyferu 'i bin,
 Goddelwi, plygu 'i ddeulin;
 I'w derfyn sydyn neshau,
 Dibyn anfeidroldebau.

Byd uwch amwib dychymyg
 A egyr mwy ei gwr myg.

Y ter ogoniant araul
 Oedd uwch na chanolddydd haul
 Gylchynnai, wysiai 'i weision
 I wynfa 'r olygfa lon;
 Ar y gwllith, O fendith fad,
 Dihuno gan dywyniad
 Urddasol fawredd Iesu,
 Coneddiad eu Ceidwad cu.

Synnu ble 'r oent dros ennyd
 Ym mha fan, ie, 'mha fyd!
 Syn ofyn ai y nefoedd,
 Ai sang i lys engyl oedd.

O y lloniant a'u llanwodd,
 Y nef, y tangnef a'u todd,—
 Ei weled ef fu waelaf
 Yn dragwyddol nerthol Naf;
 Y gŵr dan ofidiau gant
 Is ei groes a garasant,
 Tan y wyrth a'r taen o wawl
 Addefynt oll yn ddwyfawl;
 Y wyneb oedd yn marn byd
 Yn wael ac oll yn wywlyd,
 Fel yr haul fe elai 'r oll
 Yn degwch mwy na digoll.
 Addefynt gwrdd o ddeufyd
 I harddu heb ranu 'i bryd.

Y ddoe y wisg ydoedd wyw,
 Rhedawl ysblander ydyw;
 Gwyneb ni thry neb yn awr
 Rhag rhod ei wyddfod haeddfawr.

Gweledigaeth hiraethol
 Eglwys Naf, gwel oesau 'n ol,
 Yn merthedd a mawredd mir
 Ei ddelw a sylweddolir.
 Yno wele ei Hanwylyd,
 Mae 'n hawddgar oll, di-goll i gyd.
 Bron ffydd ar y mynydd mad
 A geir yn glaf o gariad.

Ni chaed dilwydd arwydd o
 Ei ddinod agwedd yno.
 Tragwyddol, dwyfol, difeth,
 Du nos ar hyd Nazareth!

Ar ol edrych ei wych wedd
 Hir adeg, a'i anrhydedd,
 Draw mwynhau ardreml newydd,
 Rhyw hoff awr o ffenestr ffydd,
 Oedd anhawdd gan mor ddenawl,
 Mor ryfedd ei wedd a'i wawl,
 Droï am un am un munud
 O'u per hwyl i ganfod pryd
 Ie'r urddol nefolion
 Fwyhaent yr olygfa hon.

Y ser a'u llu sy araul
 A dilen yn absen haul;
 Gerllaw, eu gwawr a'u llewyrch
 Huddir oll yn welwaf ddrych.
 Cyffredin radd i'w haddef
 Engyl yn ei ymyl Ef.

Er hardded gwychder eu gwedd
 A'u gynau gan ogonedd,
 O wawl uwch efelychiad
 Oedd yr holl fawreddau rhad.
 Yn y darlun arddunawl
 Efe oedd y pwnc o fawl,
 Addas oedd rhoi y ddau sant
 Yn hudd y gogoneddiant.

iv. *Cynhygiad Pedr*—"Ac efe eto'n llefaru" cwmwl yn
 nashau—Hymodrwydd y cwmwl fel arwydd o bres-
 enoldeb Duw—Y ddisgyblion wedi myned i meun-
 iddo yn ymbarotoi i glywed Duw yn llefaru—Y
 gorchymyn dwyfol.

Tristyd yn y byd bob awr
 Ordoa'n llwybrau diwawr;
 Er dod o bechod, beichiau
 Yma o hyd yn mwynhau.
 Er hynny daw i ran dyn
 Eiliadau nefol wedyn,
 A lloniant ambell ennyd
 Gwyd y fraich uwch baich y byd.
 A phan y daw rhyw ffyniant,
 Rhyw awr ragorfawr o gant,
 Dymuniad ein bryd mwynwedd
 Ydyw parhad y pur hedd.
 A Phedr pan oedd yn edrych
 Ar ddi-drai fawredd y drych,
 Diochain fwynhad uchod,
 Yno fyth dymunai fod.

"I bob un y gwnawn babell
 Yma, O pa wynfa well,
 Un i ti, canol-bwynt holl
 Degwch y nefoedd digoll;
 Un i ti sydd yn tywys
 Llu 'r gwawl â'th gyfeiriawl fys;
 O nef oll y pennaf Un,
 Ac o'i hanllesg lu 'r cynllun."

Yn y gair ni ymsyniai 'r sant
 A gynlluniai, gan y lloniant,
 Roi meibion gwynion y gwawl,
 Puredig rai ysbrydawl,
 Drachefn mewn byd o ddefnydd,
 Mewn pebyll serfyll in sydd.

Ni chofiai 'n ei uchafiaeth
 Y corff a'i amodau caeth,
 Ond aros heb achos byth
 Ei gofio yn dragyfyth,
 Preswyliauw draw ar oer drum
 Erch ael-dro yr ucheldrum.

Od oedd mewn dyryswch di-dawl
 Y gwas ydoedd esgusdawl.
 Dibechod wendid bychan,
 Hawdd iawn fu faddeu 'n y fan;
 Difai i gariad ofyn,
 O fwynhad, aros fan hyn.
 I duedd bur da oedd bod
 Aros o'i achos uchod.

Ond tra 'r oedd yn llefaru
 Ac oll mewn perlewyg cu,
 Ymledai cwmwl hydeg
 I doi yr olygfa deg.
 I mewn iddo, fawr ofwy
 Yn sydyn pan elyn' hwy
 Ofnasant, araf nesu,
 Syndod, gor-ryfeddod fu.

Meddwl am y cwmwl cain
 Y dydd hir gaed i ddarwain
 Eu tadau yn gadau gynt
 Hyd gyrrau 'r wlad a gerynt;
 Dewisai 'r Duwdawd osod
 I ni y cwmwl yn nod

O'i breswyl; a bu i'r oesoedd
 O'i wyddfod cu 'n addefiad coedd.
 Gorbell gwmwl yn gerbyd
 Gipiai pan ofwyai fyd,
 Ar Horeb, erfawr arwydd,
 Ei farnol osodol swydd,
 Hen drugareddfa unwedd,
 Arwyddo yno ei hedd.

O'i fawr urddas addas oedd,
 Godidog gysgod ydoedd.
 Gedy y byd ar godiad
 I gól arddunol ryddhad;
 Delwedd o arddunedd yw,
 O fyd y pellaf ydyw,
 I nef y nesaf hefyd,
 Arwydd rhagorlwydd i gyd,
 A'i lenni arwyddluniant
 Drachefn oesoldrefn y sant,
 Ei bod yn ormod i ni
 Tra isod dreiddio drwyddi.

Ond diddwl gwmwl o'i gylch,
 A gwawr hygar o'i ogylch,
 A golau benbwygilydd
 Fel borau ddorau 'r wawr ddydd,—
 Nid fel blin gwmwl Sinai
 Ddaliai i fyd ddelw o'i fai,
 Nid arwydd deddf a dorrid,
 Nid trysorfa llymdra a llid,—
 Trwy hwn nid oedd taranau
 A'u gawr yn rhwysgfawr barhau,
 O'i ras ei hun eilun oedd,
 Di-lid gordawel ydoedd.
 Tabor yn ddiystorom
 Oedd hyfryd â phryd ddi-ffrom.

Ynddo ymbarotcynt
 Fel eu tadau gorau gynt
 I wrando 'r mawr Ior a'i arch;
 Ac Iehofa wnai 'u cyfarch
 A llef o'r cwmwl nefawl,
 Arddelaf ei hynaf hawl,—
 "Fy anwyl Fab anfonais,
 Uchel yw, gwrandewch ei lais."
 Geiriau o'r mawr ragorawl
 Ogoniant, hoeddant ei hawl.

Ger bron hynod wyddfod Duw
 A gorddwys air y Gwir-Dduw,
 Mor ddirym a diddym dyn !
 E beidia fel abwydyn.
 Rhoi 'i lef o gant y nefoedd
 A'n daear gain adsain oedd ;
 A'i eres arch roddai 'r ser
 I ddu amdo diddymder.

Yn swn gorchymyn y Sant
 Eitha isel syrthiasant
 Ar eu hwyneb heb obaith
 O fraw maith ymadfer mwy.
 Ond hawdded idd y Duwddyn
 Eu hadfer o'r isder hyn !
 Os caiff â'i fys eu cyffwrdd
 Eu hofn ffy'n y fan i fwrdd.

v. *Y Gweddnewidiad yn cynnwys praeaf o'i ddwyfol fabolaeth—Ac o ragoroldeb Crist ar yr holl broffwydi a fu o'i faen, a'i uchelaeth aurdurdod—Y gyfraith ym mherson Moses, a'r profwydi ym mherson Elias, yn dwyn tystiolaeth iddo—Testyn yr ymddiddan, "Ei ymadawlad ef"—Dyddiorddeb y testyn o farwolaeth Crist i lu y nef—Ymddibymiad eu dedwyddwch arno—Anfarwolddeb yr enaid yn dyfod i'r golwg yn ymddangosiad Moses ac Elias—Dynoliaeth weddnewidiedig Crist yn rhaiddangosiad o opiantiaid "Y corff a fydd."*

Os gwelsai rhai ar ei wedd
 Huliad o bell ddwyfoledd
 Duwdawd yn y enawd cyn hyn,
 A! mwyach nid amheuy'n.
 Iddyn' niwl ei ddynoliaeth
 A'i llen yn dryloew oll aeth,
 A'i bur ddwyfoldeb araul,
 Yn wychach, hoewach na 'r haul ;
 "Hwn yw fy Mab!" ni fu mwy
 Le i hud anghoeliadwy.
 Os bu 'i urddas heb ei arddel,
 Cafwyd uchelaf sicraf sel.
 Gwaelod erthygl diwrthleb
 Gaed yn awr nas ysgwyd neb
 Yn eu credo, Creawdwr
 Fydd yn dragywydd y gŵr.
 A pheidiodd y proffwydi
 Oll yn awr ; mae 'u gwell i ni.
 Anfonodd Ion o'i fynwes
 Ddau bennaf o'r harddaf res,
 Ddau dyst mai Ef oedd destun
 Eu holl ddatguddiad ei Hun.

Gwelid hwy ar ofwy rad
 Gyda 'r tragwyddol Geidwad,
 Y canol-bwnc cynnal-bur
 O'u pell ddatgruddiadau pur.
 Yr oeddynt hwy 'n fawreddig,
 Un ar fellten-goch froch frig
 Horeb, a'r ddeddf ddiwyraw
 Yn dân o lid yn ei law,
 Y llall yn beiddio holl lid .
 Addolwyr na arddelid ;
 Ond darfod mewn diderfyn
 Swyddog mae 'r ddau enwog hyn.
 Un swyddog in sy heddyw,
 A Duwdod mewn dyndod yw.
 Yma o lwg Carmel ai,
 Gwelodd a synnodd Sinai.
 Darfod wnai 'i fawrwych dyrfaeu,
 Tabor oedd bwynt i barhau.

Gorhoff gaer y ffigyrau,—
 Gwiw i ffydd ei hadgoffhau,
 Ei rhodfa mewn hir adfyd
 Er oesau borau y byd,—
 Tua Cheidwad, gweladwy
 Oedd ei chyfeiriad mad mwy.

Moses, mewn hanes, mwyn oedd,
 O fyd llareiddiaf ydoedd,
 Deddfwr ond hynod addfwyn
 A modd hael i gydymddwyn ;
 Ond mwynach i'n dymuniant
 Neu fwy 'i sel ni fu y sant
 Na phan yn gweld gorffeniad
 I ddifyr hedd ei fawrhad ;
 Adeilad proffwydoliaeth
 O fawr nawdd, o'i ddwylaw ddaeth,
 E fwynhai ei weld y fan hyn
 Yn ymdoddi am y Duwddyn.
 I ddal enw is boddlaw'n oedd,
 Erioed gweinyddwr ydoedd.
 Un o ach uchelach oedd
 Yr Iachawdwr, uwch ydoedd
 Yn ei berson a'i burswydd
 Yn ei bêr lawnder a'i lwydd.

Ei ganlynwyr gaen' lonydd
 I fwynhau hoff oriau ffydd,—
 Ar donnau anghrediniaeth
 Canfod golau-trumiau traeth!
 Canfyddant acw yn foddawl
 Ei ddyfod trwy hynod hawl,
 Weithion ei ddanfon gan Dduw
 A'i arddel ef yn wir-Dduw.
 Oedd hyfawl i'w ffydd hefyd
 Fel y gair dwyfol i gyd;
 Archu gwrando arno *Ef*
 A'i ufuddawl gyfaddef
 Yr oeddid, cyfarwyddaw
 Y byd o lwyrfryd i'w law.
 Er fod Moesen hen yno,
 Ai'i fawryd i gyd dros go'.
 Gwylaidd gerllaw y gwelynt
 Y gŵr daranai'r ddeddf gynt.
 Y dadguddiad mawladwy,
 Beddai'i fawl—y Mab oedd fwy!

Yno gwiwlwn y gwelent
 Ddau dyst mwy—ddau Destament;
 Mawrion swyddogion y ddau
 Yn unol eu hanianau,—
 Efe yn y canol fyth
 Yn dal y prifffle dilyth,
 A'i lawnedd yn dolennu
 Y ddau yn un cynllun cu.
 Dygai'r sylweddoliad digoll,
 Hwynt yn un, yntau yn oll.

Addas oedd pwnc y ddau sant,
 Y groes a agorasant
 I'w meddyliau—modd helaeth
 I ddwyn yr ergyd pan ddaeth.
 Y ddu nos oedd yn neshau,
 Dibention ei ddrud boenau,
 Eglurhad di-gel ar hyn
 Roddai eu geiriau iddyn';
 Rhyw dreiddiad mawr i drawddysg
 Iehova ddaeth, ryfedd ddysg.

Pwy a ddywed rifedi
 Ac a draeth bynciau di ri
 Y Nef! Pa destun hyfawl
 Wahodda fyth newydd fawl!

Dorau myfyr egyr hi
 Drwy fydoedd dirifedi.
 A, ceinaf bwnc y nef bêr,
 Y canol-bwnc anwyl-ber,
 Yw angau y Cyfryngydd,
 Yn ei phwnc mae 'n un â ffydd.
 Ar lan anfarwol einioes
 E geir ail fawrhau y groes.
 Dyma gun destun y daith,
 A mawl Caersalem eilwaith.
 Dewis "ei ymadawiad"
 O flaen myrdd filiynau mad.
 Dyna bwnc nid i un byd,
 Addefawl gan y ddeufyd.
 Am oesoedd bu 'n destun dwys
 O bryder i Baradwys;
 Drwy y ser pryderus son
 Am aberth wnai ei meibion.
 Trobwynt llwydd a dedwyddyd
 Rhyw lu o fewn yr ail fyd
 Fu 'r disgwyliad mad am hyn
 A rodd yn foreu iddyn
 O gerbyd oesoedd gorbell
 Fydedfa i'r wynfa well.
 A'r Iawn, sef y cyflawniad,
 Ydoedd y pris, pris parhad
 Eu trigiad yn y wlad lwys
 A'u rhodiad yn Mharadwys.
 Nefoedd clau, grawnsypiau sant,
 Am angau 'r groes ymhongiant.
 Y groes a gywir esyd
 Faen hawl i anfarwawl fyd.
 Salem, palasau eiloes,
 Gwelwch eu grym gylch y groes.
 Hyn rydd i rad wlad y wledd,
 At ei sail, eto 'i *sylwedd*.
 Defnydd y dragywydd gân
 A'i swm yw ing Gethseman.
 Cofio 'r wylo a'r hoelion
 A fydd gwledd ddiddiwedd hon.

I'w meddyliau golau gaid
 Tywynnawl ar hynt enaid.
 Yn awr ni phetrusai neb,
 Awr i weld anfarwoldeb.

Gwnelai Tabor agoryd
 Yr ysbrydol fythol fyd.
 O ryw fyd drwy hyfryd hynt
 Y ddau eilwaith a ddelynt,
 Yn nerthol heb ol y bedd
 Mwy ar eu hygar agwedd,
 Rhyw liw anfarwol ieuanc
 Uwch newidion troion tranc,
 Yn hoenus hwylus eilwaith
 I ddilyn diderfyn daith.
 Prawf oedd o'r pur Ryfeddod,
 Sef bythol anfarwol fod.

Gwyddfa fu'r olygfa lon
 Di-niwl, i weld yn hylon
 Forau Barn oddiarni,
 Forau hedd ein hadwedd ni,
 Hynod forau'n hadferiad
 O fedd, i ryfedd fawrhad.
 Draw glaned o'i ragluniaw
 Ceir hoff ddull y corff a ddaw!
 Rhagluniad o'r goleuni
 Pur fydd am ein natur ni.
 Troaf i weld y portread
 O'r hyn a fydd ar ddydd rhyddhad.

EFENGYL FWYN, EHED!

EFENGYL fwyn, ehed! nes amgylchynnu'r byd.
 Am rin yr aberth dwed, yr aberth dwyfol drud;
 A chyda thi y newydd aed
 Am rym ei groes, am werth ei waed.

Hyd Affrig dywell dos, myrddiynau yno sydd
 O dan gymylau'r nos yn wylo am y dydd.
 O! agor iddynt ddorau'r gwawl
 I ddydd o fywyd, dydd o fawl.

Gostega'r byd o'th flaen; myn, yn lle rhyfel, hedd;
 A blodau cariad taen i baradwyso'i wedd.
 A'th faner fawr yn hardd ar led,
 Efengyl fwyn, ymlaen ehed!

FY MREUDDWYD.

BREUDDWYDIAIS freuddwydd bêr. A chyda hi
 Yr oeddwn ym mharadwys; ac ar lan
 Afonydd bywyd a gorfoledd pur,
 Yn yfed anfarwoldeb a mwynhad.
 Tragwyddoledig ein hieuenctid oedd,
 Ac anfarwoldeb mewn llythrennau aur
 Yn ymddisgleirio 'n danbaid ar ein gwrid,
 Ein palmwydd, a'n coronau. 'R oedd pob awel
 Yn llon gan adsain rhyw seraffig gerdd,
 A'i hanadl yn beroriaeth ac yn hedd.
 Ond er mor gyflawn y gynghanedd bêr,
 A'r cyngord er mor berffaith, medrwn i
 Ddosbarthu 'r lleisiau, a dynodi rhai
 O blith y lleill, trwy gynefindra hoff
 A'u tonau pan, yn bererinion llesg
 Yn wyllo am eu gwlad, y chwyddent fawl
 Yr Oen a'u prynodd gynt ar Galfari,
 Ar Galfari â'i werthfawrocaf waed.
 O! 'r golygfeydd gylchogylch oedd ar daen;
 Ac ar bob tu, O! 'r myrdd drigfannau hedd!
 Rhyfeddu 'r oeddwn nad oedd yno fedd
 Na cholofn brudd i angau, can's o fyd
 Llawn o fynwentydd erch y daethom ni;
 Ac oeddwn wedi ymarfer cymaint mwy
 A meddwl am y pridd, a chrwydro dan
 Gysgodau oer y glyn mewn efyrd dwys,
 Fel braidd y meiddiwn ddychymygu fod
 Un byd heb fynwent, na gobeithio cyrraedd
 Bro lle na chyfaddefir rhwysg y bedd.
 Dywedodd wrthyf, a dywediad oedd
 A wnaeth fy nef yn gan mil mwy nefolaidd,
 Ac ar fodolaeth am y cyntaf dro
 A seliodd ddymunoldeb,—“Byd rhy uchel
 I saethau angau yw y nef, rhy glaer
 I'r nos dragwyddol hudda 'r fynwent drom,
 A mil rhy danbaid i'w chysgodion prudd.
 Y BYWYD yw ein Pentywysog ni,
 Yr hwn â gair sy 'n anfarwoli bydoedd,
 Tad Tragwyddoldeb ei fawreddog enw,
 A thragwyddoldeb ei breswylfa deg.
 Teyrnasa 'n frenin, ie, ar frenin braw,
 A'i droed ar wddf y creulawn. Ganddo Ef

Mae agoriadau uffern ddofn ei hun,
 A phan y myn dadgloa hi, gan ollwng
 Y carcharorion o'u cadwynau 'n rhydd,
 Afrifed lu, yn anllygredig mwy.
 Mae adgyfodiad yn ei ffafwr, a bedd
 Heb obaith adgyfodiad yn ei wg."

A! byd heb fedd, heb siomiant, a heb boen,
 Drychfeddwl droai unrhyw fyd yn nefoedd!
 Gan edrych arni hi, fanwylid hoff,
 Angyles deg yn awr, heb ar ei hael
 Farwoldeb mwy, ymaflwn yn ei llaw
 A oedd mor wyn nes y buasai 'r lili
 Yn cywilyddio, ac yn galw ei hun
 Yn aflan, gan ogwyddo tua 'r lli
 I geisio dagrau i wylo am fwy purdeb.
 Ymaflwn yn ei llaw, fy hun yn angel,
 A'm gwedd, a'm cân, a'm geiriau yn angylaidd oll,
 Ac wedi llanw ein phiolau aur
 O afon bur y bywyd—dafn o'r hon
 Pe ei dyhidlid ar y dyfnaf fedd
 Ysgydwai 'r fan â nerthoedd anfarwoldeb,—
 Cydlaenhaem â gorfoledd mwy
 Na 'r hwn a chwyddai fron yr addfwyn dad,
 Pan orchymynnai y pasgedig lo,
 Y fodrwy, a'r newyddaf oreu wisg,
 I roesaw yr afradlon tua thref,
 A selio 'i adgyfodiad â gorfoledd.
 Mil mwy na 'r llondra a orlanwai 'r llys
 Pan, hwyr y dydd, wrth ddychwel dros y parc
 A ledai 'n wyrddni pur o flaen y palas,
 Y synnid y ffyddlonach frawd gan sain
 Yr uchel ddawns, a'r wybr oll o gyleh
 Yn darstain gan gynghanedd, a'r awelon
 O'u hystafelloedd fry yn gwranddo 'n syn
 Heb nerth i gychwyn i'w difrodawl hynt,
 Oll wedi eu tyneru gan y swyn,
 Eu gwyllted wedi ymdoddi yn fwyneidd-dra,
 A'u penderfyniad—bod yn ddistaw mwy,
 Oddieithr rhoi i'r gyngan ambell chwydd,
 A chludo 'mhellach y beroriaeth hedd
 Er synnu ereill a'i phereidd-dra hi,
 A chreu trwy 'r ddaear a'r wybrennau draw
 Un cyffredinol deimlad o edmygedd;
 Mil mwy na 'r mwyniant a orlanwai fron

Y patriarch hybarch, hyd orlifant, pan
 Yng Ngosen deg, y gwelai o'r teyrn gerbyd
 Yn disgyn brifywiawdwr bro yr Aifft,
 Ac ar ei wddf yr wylai londra 'n lli
 Wrth adwaen a chofleidio ynddo fab,—
 Cydlawenhaem â llawenydd mwy,
 A mwy llawenydd nag a deimlem pan
 Y cyfarfuom am y cyntaf dro
 A'r lan y môr, a'r tonnau oll yn fud,
 Yn ofni treiglo 'n drystfawr tua 'r traeth
 Rhag aflonyddu ein cyfeillach bêr,
 A pheri ini flinder, pan yr oeddym
 Yn dechreu talu rhan o'n teyrnged fawr
 I gariad, deyrn hawddgaraf, a phan oedd
 Dy saethau, serch, yn glynu yn ein mynwes,
 A'u blaenau y pryd hynny oll yn falm,
 A rhyw felusdra ym mhob archoll ddofn,
 Pob archoll yn rhy ddofn i'w dileu,
 Pan deimlem fyrlymiadau 'r ffynnon lawn
 O gariad pur o fewn ein mynwes,—ffynnon
 A darddai allan a chyflawnder mwy
 Gan orddylyfo beunydd, wedi hyn;
 A phan y teimlem ein calonnau ieuainc,
 Ein hewyllysiau, a'n gobeithion oll,
 Yn llwyr ymwadu â phob personolaeth,
 Gan wrthod ymfodoli ar wahan—
 Un enw, un galon, un ewyllys mwy;
 Pan deimlem gyntaf aurlinynnau serch
 Yn ffurfio rhyngom y tragwyddol undeb
 Nad elli di, O amser, ei wanhau,
 Na thî, O fedd, ei dorri fyth, tydi
 Sy 'n torri cytundebau 'r byd o'r bron,
 Gan ddryllio pennaf gyfamodau dyn.

Llawenydd oedd, anfarwol, a di-drai.
 O! mor wahanol i'r gorfoledd gynt
 A fyrlewyrchai fel y fellten chwim
 Gan ffoi, a chadarnhau breniniaeth nos!
 Mor felus ein bodolaeth mwy! ac O!
 Mor hawddgar, Anfarwoldeb, oedit ti,
 Diddyndra yn erchyllach nac erioed,
 Melusdra pur, heb ddafn o chwerwder oedd,
 Heb siomiant, tragwyddoldeb o fwynhad,
 A heb ochenaid, tŏn a chwyddid fyth
 Gan saint ac archangylion yn gytun.

Cydlawenhau yr oeddym fod ein rhan
 A'n hetifeddiaeth yn yr hapus fyd,
 Byd hapus anfarwolion, lle ni chwyth
 Un awel oer i wywo blodau hedd,
 Lle na adwaenir ond un tymor teg,
 Un gogoneddus Haf, a Duw yn Haul
 I'w dragwyddoli â gwawl ei bresenoldeb,
 A lle ni'th enwir di, O Frenin braw,
 Ond fel gormeswr gorchfygedig—ti!
 A greulawn ddrylliaist y llinynnau aur
 Gylyment ein calonau ni ynghyd,
 Gan anfon un i'r fynwent yn ei blodau,
 A chladdu 'r llall mewn tristwch cyn ei farw.

Tra chwaddai mewn gorlondeb ar ein hael
 Un o brydferthaf wenau anfarwolion,
 Arllwysem ein llawenydd gorlifeiriol,
 A hoeddi wnaem ein goruchafiaeth lawn,
 Mewn cân a dynnai sylw 'r engyl fry
 Pan dan gysgodion teg y bywiol bren
 Gwleddent ar oludoedd anfarwoldeb.
 Cân oedd am oruchafiaeth ar y bedd,
 A buddugoliaeth oedd yr acen fwyn
 A seiniwn ym mherffeithrwydd lloniant, pan
 Ddadglodd y wawr fy amrant, ac y ffodd
 Fy nef a'm holl ddedwyddwch gyda 'r nos.

Y WENYNEN.

RHWNG melfodrwyau y Wenynen lon
 Eheda draw yn llawen heibio 'r llys
 Gan ddwyn ystôr aml flodyn gyda hi.
 Pan rodiwn fore heddyw dros y parc,
 I yfed iechyd-roddawl rin y chwa,
 Hi ddeuai heibio gydag awel dydd,
 Mor llon â'r wawr, a'i bryd ar gasglu mêl.
 Diwydrwydd oedd ei si, a'i hagwedd oll
 Gweithgarwch wedi ymgorffoli oedd,
 Mor foreu, ac mor fywiog ar ei thaith.
 Gerllaw agorai rhosyn teg ei fynwes
 I wên y wawr, a balm y bore wlith,

Gorffwysai arno 'n llon, a rhwng ei ddail
 Ymguddiai nes ymsuddo yn ei fêl
 Rhyfeddu 'r oeddwn na fuasai hi
 Yn sylwi fel fy hunan ar ei liw
 A oedd mor deg nes gwridai 'r wawr o gwilydd
 Weld blodyn tlawd yn gwiago tecach ael,
 Ac ar y ddaear berl na fedd y nef.
 Disgwyliwn iddi sefyll, oll yn syn,
 I syllu ar ei harddwch, a thrachefn
 I syllu, a thrachefn gan deced oedd,
 A'i si yn ddistaw gan edmygedd mwy;
 Ond hi ni thremiai ar ei ddengar wrid,
 A'i wawr, er hardded oedd, ni thynnai 'i sylw.
 A dwedwn, tra y nofiai drwy y mêl,—
 "Wenynen fach, wyt ddoethach na myti."

Drachefn aethum allan y prydawn,
 Brydnawn drachefn cyfarfyddais hi
 Yn casglu 'r diliau mêl, dan lawenhau.
 A thybiais fod y blodau heirdd ynghyd
 Wrth agor eu mêl-fronnau iddi hi,
 Yn dwedyd,—“Boddlaw'n f'm, wenynen fach,
 I ti ymguddio rhwng ein tlyision ddail
 A gwledda yno, herwydd gado 'r wyt
 Ein harddwch, nod ein hymffrost, heb ei gyffwrdd;
 Nid fel y chwa sydd yn anrheithio 'n gwrid,
 Gan ddwyn ein gwawr, a chyda 'n gwawr, ein holl.”

Ac wele hi yn gorffen gyda 'r dydd,
 Fel y dechreuodd gyda 'r dydd, ei thaith.
 Yn llawen mewn mwynhad prysura adref
 I gyfoethogi ei thrysorfa fêl.
 A dwedaf,—“O na bawn, wenynen fach,
 Ar derfyn pob diwrnod fel tydi
 Yn ddedwydd ac yn llon, dan lawenhau
 Wrth nesu tua 'm cartref gyda 'r nos.
 Brydnawn, pan eilw y tywyllwch uthr
 Ei fyddin o gymylau fry i'r wybr
 I amgylchynnu gorsedd nos â braw,
 O, na bawn ynwybodol fel tydi
 Fod diben fy modolaeth wedi 'i gyrraedd,
 A gwaith y dydd, oll, gyda 'r dydd, ar ben.
 Anaml y byddaf fi yn foddlaw'n pan
 Yn dychwel tua 'm bwth; anamlach fyth

Yn gorfoleddu 'n uchel fel tydi ;
A mwy anaml drachefn yn gyfoethog.

Nid ofni di y gauaf llym pan ddaw,
Y gauaf llym sy 'n peri i bawb ofni.
Diwydrwydd dry yn haf dy auaf di,
A'i noethni enbyd yn gynhesrwydd pur.
Pan gwyna 'r dryw, o dan yr awel lem,
Hyd awr machludiad, am ychydig fara,
O drothwy i drothwy, yn gardotyn llwîn,
A phawb yn ddisylw, a'u calonnau 'n oer,
Oer fel y gauaf—delw oerni ei hun,
Tydi wyt ddedwydd yn dy gartref clyd,
A brasder haf lifeiria ar dy alwad.
Wyt berffaith anibynnol ar y byd,
Heb angen camu dros dy drothwy fêl
I ofyn am elusen gan gymydog.
A gwenu 'r ydwy't o'th ystorfa fras
Ar bob diogyn heibio ddêl ar grwydr
I geisio gan y gauaf y digonedd
Na lif ond o gostrelau aur yr haf.
A gartref mae dy gyfoeth oll yng nghadw,
Dy hunan yn ei wyllo a'i fwynhau ;
Heb ar wasgarfa un o'r diliau aur,
Nac ar anturiaeth ddafn o'th gyflawnder.

Rhwng melfodrwyau fil, ehed ! ehed !
Wenynen fach, wyt ddoethach na myfi ;
A'th efelychu fydd fy ymgais mwy.
Ni 'm twyllir fyth gan ymddanghosiad teg,
Ond gyda thi y galon brofaf bellach,
A rhoddaf i'r egwyddor fy holl sylw.
A threuliaf haf fy amser, a'm holl nod
I gasglu golud erbyn tlotach awr,
A chnwd toreithfawr o rinweddau da
A grasau gwell, nes llonni gauaf du
Y bedd ei hun, ac fel y byddo mwy
I mi yn haf o obaith ac o hedd ;
A thragwyddoldeb yn ymagor draw
Yn olygfaedd o ogoniant pur.

A gwobrau dy ddiwydrwydd yn hongian oll o'th gylch
Rhwng dy fodrwyau heirdd ehed ! ehed !
Ac wrth ehedeg, llawen bydd fy mod
Yn ddisgybl i ti, wenynen fach.

Y BARD D.

EI wisg oedd seml fel ei Awen gu,
 A gostyngeddwydd oedd ei uchaf fri.
 Gwrthodai 'r byd, ac ymryddhâi o'i swyn,
 Gan gynnal beunydd ei gymdeithas fwyn
 Uwchlaw, â'r lloer; islaw, â'r edn sydd
 A'i delyn fach yn llonni temlau 'r gwŷdd.

Ei enaid swynid i addolgar dymer
 Gan lais peroriaeth a'i hudoliaeth gu,
 I chwyddo cerdd y cerub gôr mwyneddber
 Dyrchafai, gyda 'r dôn, i'r wynfa fry,
 Lle chwytha sereiff eu tragwyddol offer
 Nes llanw tragwyddoldeb â phereidd-der.

Ar ael y bryn pan gyda 'r cwmwl gwibiai,
 A'r wawr yn euro bron y dwyrain draw;
 O! pwy ddarlunia y llawenydd deimlai,
 Yr hedd anfarwol brofai, pan gerllaw,
 Y brysiat heibio awel fwyn dan ganu,
 Adeiniog gôr o'i mewn yn per delori.

Ar odreu 'r waun, o flaen ei dŷ ymledai,
 O flaen ei dŷ yn wastad ac yn wyrdd,
 Afonig deg, ond wylaidd, ymddolennai,
 A'r awel bêr, ag ysbail gerddi fyrdd,
 Yn chwarau ar ei glannau paradwysaidd,
 Ei cherdd yn llon, a'i hanadl fyth yn falmaidd.

Ni welwyd yn ariannu mynwes dyffryn,
 Yr haul ei hun ni welodd loewach lli;
 Yr haul, a wel o ddwyrain i orllewin,
 Ni welodd afon fwy ei rhad na hi.
 A'r lloer a wenai pan y gwelai 'i darlun
 Yn crynu ar y lli, yn brudd gyferbyn.

Gwasgarai ei brashaol ddiferynau
 I bob blodeuyn a wylai ar ei glan,
 Pob tlawd flodeuyn gan syched a alarai,
 A'i ddyfrig yn wywedig ac yn wan.
 Danfonai aml risialaidd wydraid ato,
 Nes deffro 'i wên drachefn, a'i adfywio.

A'r rhosyn yn ei wisg o ruddwawr berlau,
 A'i wedd frenhinol yn urddasu 'r lli,
 Ymwelai gyda 'r wawr, a'i chrisial donnau
 Wrth olchi 'r glannau, yn edmygu 'i fri,
 A bryisiai ffrwdd, yn eofn rhwng y creigiau,
 Gan siarad am ei Duw, y Môr! a'i cheraint hoff, y tonnau.

Amgaerid ei breswylfa hyd y nefoedd
 A beilch fynyddoedd, muriau natur gref;
 I'w huchaf frig yn gynnes gan goedwigoedd,
 Eu hunig wisgoedd, llwyr amgaerent ef.
 A dysgent iddo, fry o'u huchelfaoedd
 I ddiystyrru 'r byd, a cheisio 'r nefoedd.

Pan wenai gwanwyn er eu bannau oerion,
 A'i gwenau yn cynhesu 'u hoeraf fan,
 Pan ad-ddeffroai 'i chwyth y coedydd meirwon,
 Gan archu 'r bywyd tîrf o'r gwraidd i'r lan
 I'r uchaf frig i'w guddio mewn gwyrddlesni,
 I adgryfhau y cangau, a'u cysgodi
 Rhag gwg y gauaf du, sydd, er yn marw, yn gwgu ;

A phan ym myrdd o lwyni ar lechweddau
 Y beilchion fryniau, y deffroai 'r gân
 Mor bêr a swynol nes yngrymai 'r bannau
 O'u gwawl-orseddau yn yr wybren lân
 I wrando, nes i'w celltaidd fron hiraethu
 Am lais i chwyddo 'r nefol gerdd, neu dant i'w hefelychu
 Ac uwch eu wybrol uchder hwy tua 'r haul i'w har-
 ddyrchafu;

Pan dorrai hun, gauafol hun y llysiai,
 Gan hongian ar ganghennau 'r berllan flydd
 Aml swp blodeuog, oll yn addo ffrwythau
 A thymor llawnach a disgleiriach dydd,
 Dy ddydd disgleiriach di, O haf! a'th dymor,
 Pan gân y ddôl, pan chwadd y bryn, a thi 'n blaenori 'r
 cydgor ;

Pan cyngherdd ei hadeiniog delynorion
 Yn llanw 'r wigfa ag addoliad glân,
 Gan agor llygaid teg y blodau tlodion
 'Tra 'n cysgu ar glustog oer yr eira mân,—
 O! pwy ddarlunia hedd y bardd, tra Anian
 Yn rhoi o'i breichiau ei hoffusaf faban,
 Y ddaear lom, i'w mamaeth deg, y gwanwyn
 I'w gwisgo a'i mynwesu fel ei phlentyn?

A phan y deuai 'r haf o lys yr huan,
 Yr huan sydd yn fythol haf ei hun,
 O'i oleuedig lys pan droai allan
 Ei drem yn eirian, angerddolaf gun,
 Pan ffoai 'r gwanwyn rhag ei wyneb tanlyd,
 Gan roi i fyny 'r byd fel llen cyn harddbryd
 I'w arolygaeth ef, ragorach athro,
 I ddwyn ei ddoniau allan a'i berffeithio,
 Addfedu 'i rawn, a thynnu 'i rin o hono;

Pan dan ei wres angerddol digalonnai
 Yr afon loew wrth chwilio am yr aig,
 A phan rhag llid ei belydr tân ymguddiai
 Dan nawdd y goedwig neu 'r grogedig graig,
 Hyd nos, pan ail-ddechreuai 'i phererindod,
 Yn llaw y lloer, a'i bron yn oer i'w gwaelod,
 Y lloer, ei hun sy yn wylo am ei phriod,—

O! pwy ddarlunia hedd y bardd, pan felly
 Dilennai Anian ei thrydanbaid wedd?
 O! pwy ddarlunia 'i londer, pan i fyny
 Esgynnai 'r haul yn rhwysgfawr tua 'i sedd,
 Ac yn ei gerbyd gydag ef yn esgyn
 Y dydd, sydd gydag ef yn codi ac yn disgyn?

Rhwng rhyfeddodau teg y bore ddydd,
 Y bore ddydd sydd oll yn rhyfeddodau,
 Ei anadl yn iachau y galon wan
 Sy 'n gwywo dan awelon gorthrymderau;
 A'i gorau yn addoli ar y brig,
 Gan ddeffro, 'i addoli 'r wig a'i blodau,
 Nes troi yn deml i Dduw bob llannerch werdd,
 Pob teimlad pur i Dduw, i Dduw bob cerdd,—

O! pwy all grwydro rhwng ei geinion llon
 Heb deimlo 'i fron yn llanw gan hyfryddwch,
 A thros yr ymyl yn ymchwyddo 'n fawl
 I Dduw, yn gân ddi-dawl o ddiolchgarwch?
 Dihunwch, feirdion, gyda 'r bore ddydd,
 Fel beirdd y gwýdd, y pluog feirdd, dihunwch
 Ddeffroes deg y bydoedd, effro byddwyf
 Pan elwi di, a chyda thi y dringwyf
 Y bryn ar d' alwad, i addoli yno,
 I weld y nos yn gadaw 'r nef dan wylo,
 Yn gadaw 'r nef, fel Adda 'r ardd yn gado
 Ac i ganu am y dydd, nes yn yr haul y delo.

Ar ol i'r wawr, ar floedd yr huan, gychwyn
 Ei hun yn effro i ddeffroi y byd,
 A gosgordd aur o belydr nef yn canlyn,
 Ac ar ei grudd yn chwarau 'r tecaf wrid,
 O! 'r fath berlewyg drwy ei fynwes deimlai
 Y bardd, pan gyda hi dros fryn a dôl y crwydrai.

Rhoes natur lygad angel i Arlwynor,
 Nes gwelai natur yn angylaidd oll,
 Rhyw fendith ymhob hin, ac ymhob tymor
 Gyflawniad o gyfundrefn fawr ddi-goll.
 Mawrygai 'r haul, nid am ei orddisgleirdeb,
 Ond am ei fod o Dduw yn danbaid ardeb.

Edrychai tua 'r bryniau addurnedig
 A choronedig ag ysblander dydd,
 Eu seiliau yn y creig yn garcharedig,
 Mor ansyffledig yn y dyfnder cudd,—
 Edrychai arnynt oll fel arwyddluniau
 O allu ymherodraeth Duw, a bythol rym ei eiriau.

Y Duw sydd a'i lywodraeth yn ymestyn
 Dros fydoedd filoedd, a thrwy oesoedd fyrdd,
 O! pwy gynhwysa 'i feddwl ef! Pa liny
 Fesura ei amcanion, blymia 'i ffyrdd,
 Ei ffyrdd sy 'n anchwiliadwy fel ei hunan,
 Nes rhydd efe o hono 'i hun wawl eglurhaol allan?

Pan lenna niwl yr huan, pwy a ddywed
 Yr wyla anian mwyach byth dan len?
 Ti 'r Dwyfol Haul! na fyddwyf mor wargaled
 A galw 'n gwmwl ar dy orsedd wen
 Bob goruchwyliaeth lem a chwytho droswyf.
 Fy Nuw! gwna fi yn foddllawn, nes atat fry y delwyf.

Dysgasai 'r bardd ar dymor teg ieuenctyd,
 Nid yw ieuenctyd yn aml yn dysgu hyn,
 Pa fodd i ddwyn yn esmwyth feichiau adfyd,
 Pa fodd i ysgafnhau aml groesau 'r glyn.
 Yn forau cymylodd seren ffawd; yn forau
 Y dysgodd yntau wenu dan gymylau.

I uchelfeydd dadguddiad aml y dringai,
 Efengyl iddo roes yr aden gref,
 Y ddaear yn y dyfnder pell ddiplannai
 Y ser ni welai, 'r oedd yr oll yn nef,
 Yn nef mewn gobaith llawn, nef mewn disgwyliad;
 Ei etifeddiaeth hardd mewn rhagwelediad.

Oddiyno 'n deg cydmarai 'r byd ac amser,
 A nefoedd, tragwyddoldeb, barn, a Duw,
 Cydmarai fôr o lid, â dafn o londer,
 Tragwyddol farw, â thragwyddol fyw,
 Gan benderfynu 'n llwyr o du 'r dyfodol
 Ynddygai fel yng ngwyddfod Duw, ar drothwy 'r byd
 tragwyddol.

Yn fynych pan yn crymu dan flinderau
 A olchent fel llifeiriaint dros ei ben,
 Edrychai ar gysylltiad amgylchiadau
 Y ddaear hon, â rhai y nefoedd wen.
 "Yr un Rheolwr acw sy 'n teyrnasu,"
 Dywedai gan gyfeirio uwch yr haul,
 "Yr un eangfawr drefn sy 'n gweithredu,
 Os drwg y cyntaf fydd, bydd dda yr ail;
 Mae gwobr bywyd oll tu hwnt i angau,
 Tu hwnt i angau mae fy ngwobr i;
 Er amlled yma yw fy ngorthrynderau,
 Bydd lawer amlach fy mwynderau fry.
 Yn dawel bellach, fry y mae fy nghalon,
 Fy Nghanan deg, fy etifeddiaeth wiw;
 Fy mrodyr fry, a fry fy holl gyfeillion,
 Yn dawel bellach! fry y mae fy Nuw."

Fel hyn y canai; cân gorfoledd ydoedd;
 Fel morwr ar y llif yn cofio 'i wlad
 Nes ebargoffio 'r don, a swyno 'r gwyntoedd
 Oll i ddistawrwydd byr â'i odl fad;
 Fel angel ar hir grwydr yn cofio 'r nefoedd
 Tra 'n olrhain ser-balasoedd pell ei Dad,
 Wrth weld y nef o bell, fel hyn y canai,
 Ac yn y gân y nef yn agos deimlai.

Pan na fo llygad yn agored isod,
 Y ser ddisgleiriant ar orseddau 'r gwawl;
 A'u corau glwys o engyl ganant uchod
 Pan bydoedd fyrdd yn fyddar, odlau mawl;
 A'r rhaiadr, rhwng y bryniau pell yn chwysu,
 Ddisblea 'i rwyg a'i ryferthwyol allu,
 Pan nad oes ond y creigiau hurt a'r cwmwl tlawd yn syllu.

Y môr dan chwyddo eilw ei gedyrn luoedd
 O'u gwersyllfeydd islaw 'r ryfelgar don,
 I fyny geilw eu difrodawl nerthoedd,
 I floeddio "I'r gad," a chwareu ger ei fron,

Pan nad oes draeth i weled a rhyfeddu,
 Na phlaned i fawrhau i'r ser ei allu,
 Dim ond y gwyntoedd byrbwyll yn rhodresu,
 A'r nos ar fron y llydau fôr yn cysgu,
 Heb don yn ddigon croch i'w deffro a'i haflonyddu.

Arlwynor, pan yn canu, fyth ni holai
 Pwy a'i mawrygai, pwy ganmolai 'r gerdd.
 Ei lais yn bêr a glywid pan na fyddai
 Gerllaw ond awel dlawd drwy 'r goedwig werdd
 O flaen y curwlaw 'n ffoi, ac wrth bob ogof
 Yn bloeddio "Noddfa!" fod y gwlaw yn wallgof.

Mae 'n rhaid i ser ddisgleirio. Seren ydoedd
 Arlwynor a'i disgleirder ynddi 'i hun;
 Tywynnai nes goleuo 'r holl amgylchoedd
 Pan na fai i'w mawrhau, edmygwr un.
 Pe cysgai 'r byd hyd ganol dydd, cyfodai
 Y wawr fel cynt, a'r haul fel cynt ddilynai,
 Ac iddo 'i hun a natur ymddisgleiriai.

A phwy, ag sydd yn ofni Duw, yn disgwyl
 Ei wobr a'i fawryd mewn disgleiriach rhod,
 O! pwy, ond sydd ag hunan iddo 'n anwyl,
 Na nef na Duw 'n fwy anwyl, fynnai fod
 Yn aruthr beth yng ngolwg plantos amser?
 Yn llyfu 'r byd fel hyn, FY ENAID, fyth na 'th weler.

Arlwynor a adwaenai uchelfrydedd,
 Uchelfryd am dragwyddol fywyd oedd,
 Coronau 'r saint, a phalmwydd eu hanrhydedd,
 Cannoliaeth Duw, ac nid gwerinol floedd.
 Ni feddai 'r ddaear iddo ddymunoldeb,
 Cyrhaeddai ei uchelfryd dragwyddoldeb.

Dan wyllo, gyda 'r cwmwl gwyn
 Fe hoffai wibio dros y bryn
 A'i olwg tua thecach byd!
 Flaen llysoedd heirdd, dewisai ef
 Y bryn, agosaf fan i'r nef,
 A'i gwyn parhaus am wybr fwy clyd,
 A thecach byd.

Oddiar ei glogwyn balchaf hoffai edrych
 Ar deyrn y gwawl yn deffro, oll yn dân,
 Ei drem yn fywyd oll, a'i dalcen clærwyth
 Yn t'wynnu 'n deg drwy ddôr y dwyrain glân;

A thwrf olwynion ei ddydd-gerbyd harddwych
 O bell yn llwfrhau y nos, gan wasgar llenni'r entrych ;
 A delw deg y borau llon
 Yn crynnu ar y don,
 Gan euro 'i bron.

A hoffai edrych ar y loew afonig
 O'r graig orgelltaidd yn ymdorri 'n rhydd,
 Gan ymson am ei chadw yn gaethedig
 Gyhyd, a threulio 'i dyfroedd i wylu am y dydd.
 O! hoffai 'i gwrandu ar ei gwibdaith unig
 Yn blino'r awel bêr, y blodau teg, a'r gwylld
 A dafent oll eu noddawl freichiau drosti,
 A thaer ofynion am breswylfa'r weilgi,
 Lle'r oedd ei henw 'n darfod, a'i hanes yn terfynu.

Ni chaed y glyn crisialaidd heb ei swynion,
 Deniadau fil ddisgleiriant ar ei li ;
 Hardd gylch o rôs yn euro ei odreon,
 A rhwng eu gwridiau, aml lili gu
 Mor deg a santaidd nes y byddai'r wendon
 Argyhoeddedig o'i gwylltineb eon,
 Yn llwfrhau, gan suddo'n ol i wylu yn yr eigion.

A theimlai 'i galon ysbryd gwrolfrydig
 Pan welai'r goedwig dal yn dringo fry ;
 A'r dderwen hybarch, gref, ei huu yn goedwig,
 A phob gwyrdd gang yn deml i adar lu,
 O fry yn syllu ar ei delw fawreddig
 A'i chawraidd ddarlun yn urddasu'r lli,
 A dwedai,—“F” athrawes wyt, dderwen fawreddog !
 Ac O! fel tydi na bawn yn sefydlog.”

Y greadigaeth, deg ei gwawr, oedd iddo'n gartref clyd,
 A'i holl wrthrychau fach a mawr yn berthynasau o un fryd.
 Aelodau'r un gymdeithas hardd,
 A hwy cymunai megis bardd.

Ymlonni'r oedd pan ddelai Mai,
 Dan wrido'n deg, a llawenhau
 I euro bron y lannerch dlos,
 A gwlawio ei hawddgaraf rôs,
 A gwisgo natur yn ei mantell werdd,
 A deffro swyn y goedwig, sain y gerdd
 Pan dawdd ireidd-dra rew y gro,
 A phan amranta dros y fro
 Y gwllithog emau, ail i ser,
 A'u llygaid yn fwyneidd-dra per.

Pan ymddanghosai 'r lleuad dlos ar fron yr wybren dawel fry,
 Yn drist, er yn frenines nef a'r nos, fel tyner frawd cysurai hi,
 A'i wên a sychai 'r deigryn prudd
 Gymylai ei mwyneiddiaf rudd.

Pan dros y gorllewinol gaer
 Disgynnai 'r dydd-lywiawdwr claer,
 A phan y cauai 'i lygaid llon
 Rhwng gwyrddwawr gauadlenni 'r don,
 Arlwynor o'i arsyllfa fry
 A wyliai ei chyfodiad hi,
 A fry anadlai odl bêr
 I'w chyfarch, gyda thorf o ser.

“O leuad dlos,

Deg fanon nos,

Rhwng ser yn orseddedig fry,
 Addolgar fydoedd ar bob tu,
 Anfeidrol gôr yn llawenhau,
 O, pam yr wyli di?
 O, pam yr wyli i drist-hau
 Y côr seraffig fry?

“Deg loer, paid a galaru ;
 O paid ; rhy gannaid, rhy gu
 Ydyw 'th ael di, a'th olau,
 O flaen nef i'w haflunhau.
 Soddi, ymguddi o'm gŵydd
 Yn nagrau dy unigrwydd.

“Yng ngrym eu cariad atat ti
 Disgynna 'r ser o'u nennau fry,
 I orfoleddu yn dy wawl,
 Mawrygu 'th wedd, a chathlu 'th fawl.
 Bydd lawen, leuad, gyda hwy,
 Ac una yn eu hanthem mwy.

“Ond gweddus it, *ymddifad* lom
 Y deigryn llawn, y galon drom.

“A! gwelaf nad yw 'r bydoedd fry
 Heb alaeth, fwy 'n daear ni,
 Mae rhai yn wylo heblaw dyn.
 Cymylir disglaer ael y ser,
 Ac wylant ar eu thronau ter,
 Fod gweddw athrist, welw ei llun,
 Yn crwydro drwy y nef ei hun,
 A'r llusern arian yn ei llaw

Yn chwilio conglau nefoedd draw
Am wrthrych ei ffyddlondeb cun,
Yn brudd, ac wrthi ei hun."

Un borau llon, tra nofiai'r awel beraidd
Fry drosto ar arianwawr lif y dydd,
A'i hanadl gan aroglau fil yn falmaidd
Arlwynor drwy ei ardd ymgrwydrai 'n brudd;
Fel cwmwl dros ei wedd ymdaenai prudd-der,
Ac nid oedd yn ei lygad belydryn o siriolder.

Y blodau oll o gylch a wenent arno
Gan gvdymdeimlo 'n fwyn, a'u lliwiau teg
Ddisbleid ger ei fron; o'u mynwes iddo
Anadlent eu haroglau mwyaf chweg.
Ond disylw oedd o'u gwahoddiadau tawel;
Nid yfai anadl chweg y wawr, na balm yr awel.

Ond un blodeuyn teg, a lon gyfarchai
Ei droed, rhwng arwelyau heirdd y lili a'r rhos,
Y tecaf ymhlith mil, ei sylw dynnai
Tra 'n athrist cerddai drwy 'i baradwys dlos.
Edrychai arno, a thrachefn edrychai,
Ac wedi methu edrych mwy, i wylu ymneillduai,
A thrwy ei ddeigryn llawn—ei lygad mawr ddisgleiriai,
Fel tanbaid haul drwy wybren wlawog t'wynnai.

"O flodyn teg dy wawr!" dywedai ef dan wylu,
"O flodyn per dy sawr! mae 'th wedd yn awr yn deffro
O dan fy mron, adgofion prudd
O decach ffawd, a gloewach dydd.

"Adliwia 'th wawr, mor deg, ei hawddgar wrid i mi;
A theimlaf drwy dy rogl, mor chweg, felusdra 'i gwefus hi.
O, wyla, flodyn, yn y bedd
Mae swyn ei min, mae gwrid ei gwedd.

"Dy fynwes, lawn o fêl, tydi egori i'r boreuddydd hardd,
Efelly yr agorai hi ei chalon lawn o serch i'w bardd.
A'm mynwes iddi hi, yr un mor rad,
Oedd lawn melusion serch a balm mwynhad.

"Pan wyt flinedig, bronnau'r rhos egorent i'th gofeidio 'n gun;
A hithau, fy angyles dlos, lonyddai 'mron pan fyddwn flin;
Ac O! mor hapus oedd fy rhan
A'm pwys ar fynwes deg fy Ann!"

"AWN HYD BETHLEHEM."

GOLLEDIG ddyn! O! ar dy rudd
 Na weler mwyach ddeigryn prudd,
 Na digalondid yn dy drem;
 Tyrd gyda mi, dan lawenhau
 A chanu 'n iach, yn iach i wae,
 A'n mynwes oll yn hedd, ein dau
 O! awn hyd Bethlehem.

Golledig ddyn! bydd lawen, bydd
 Yn llawen fel yr wyt yn rhydd
 O rwymau 'r gospedigaeth lem.
 O! gwened gobaith ar dy rudd,
 O! t'wynned yn dy drem.
 Gwel ragwawr y tragwyddol ddydd
 Yn torri uwch rhandir Bethlehem.

Er colli y baradwys gu
 A Duw, a nefoedd, gyda hi,
 O! bydded llon dy drem.
 Ar ol mae Eden fwy ei bri,
 Baradwys IOR! Ac nid yw bell,
 I weld ei haul a'i bywyd hi
 O! awn hyd Bethlehem.
 Am hawl i'r etifeddiaeth well
 O! awn hyd Bethlehem.

O! pwy sy 'n wylo dan ei loes?
 O! pwy sy 'n gruddfan dan ei groes?
 Gan siomiant pwy sy 'n drist ei drem?
 Fy mrawd yw ef! Ac awn ein dau
 Ynghyd, dan uchel lawenhau,
 Ein dau hyd Bethlehem,
 Mewn hyder cael ein llwyr wellhau
 Ynghyd ein dau hyd Bethlehem.
 Heb deimlo 'n lleddfu min y loes,
 Yn ysgafnhau trwm bwys y groes,
 O! pwy edrychodd, pwy a droes
 Erioed tua Bethlehem?
 Ni theimla 'r fynwes arall loes,
 Ni wel y llygad arall groes—
 Y llygad welodd Bethlehem.

Fry dacw seren yn neshau
 O'r dwyrain deg, dan lawenhau,
 Chwardd gobaith yn ei thren.

Ac wele, ceisio Ceidwad mae,
 Y Ceidwad gaed ym Methlehem.
 Orboblog Asia! danfon di
 Dy gynrychiolwyr gyda hi
 Oll, tua Bethlehem.
 Brys, ddoethion! cyfarfyddwn chwi
 I ganu, i foli, ym Methlehem.

“YR IESU A WYLODD.”

PWY? yr Anfeidrol! O, a fu y llygaid
 A oleuasant fil o heuliau cannaid
 A chreol drem, oll, oll yr unrhyw forau,
 A fu eu heurlif hwy 'n eneinio beddau!
 O beth! a oes mewn DWYFOL lygaid ddagrau?

Rhaid i'r ddynoliaeth wylo; i Dduw ei hun
 Drist-hau a cholli dagrau ar agwedd dyn.
 A, colodd fwy na dagrau “yn y cnawd;”
 Yr oedd y Duwdod yn y *dyn* yn dlawd:
 A Theyrn y nef ar *ddynol* ddull yn wawd.

Mae 'r baban bach, cyn gweled dim yn eglur,
 Yn wylo 'n fedrus. Y mae wylo 'n natur.
 Mae 'r hen, ar ol i hwyrnos amser lenu
 Y ser sy 'n edrych allan drwy 'r ffenestri,
 Yn wylo fel o'r blaen, a'i ddagrau gloewon
 Ar lan y bedd yn drwm eu llif, fel afon
 Yn chwyddo gan drymhau gerllaw yr eigion.

Disgleiriaf eigion fyddi, Feddrod du,
 Os lifa i'th fron ein holaf ddeigryn ni.
 Ein holaf ddeigryn! A, ddedwyddaf ddydd
 Y tawdd i'r bedd, gan adael ar ein grudd
 Ddigwmwl londer i dywynnu drwy
 Hir ddydd y nef, a gwawr na wywa mwy.

A, ddisglaer rudd, na hedodd cwmwl drosto
 Ym myd y gwawl, dan ddagrau oer mae 'n gwywo,
 A chyn bod henaint agos, yn heneiddio.
 Hynotaf olwg! mae yr Iesu yn wylo,
 A'r nef i gyd, tra 'r engyl yn eneinio
 Y sér a'u dagrau i syllu yn dyner arno.
 Mae 'n fwy wrth wylo yma na phan ydoedd
 Yn galw i fyny dorf o danbaid fydoedd

O wendid a diddymdra, i addurno
Y gwagle draw, a bod yn dystion iddo.

Dos, ddyn anedwydd, tua 'r bedd dan wylo,
Aeth mwy na dyn o'th flaen trwy ddagrau yno.
Distewch, greuloniaid! teg i minnau weithian
Ar lan fy medd, glan bedd fy arall hunan,
Waghau y cwmwl a orlethol brudd-der
Sy 'n pwyso ar y fron, trwy gafod fwyn a thyner.
Agora llanw o ddagrau f' aelïau heno,
A'r bedd yw 'r traeth lle hoffant dorri arno;
Agenog lan, nad oes un trai o honi,
Na digon, wedi i oesoedd wylo, iddi.

Dall yw y llygad nad oes deigrn weithïau
Yn lleddfu 'i lewyrch, yn ireiddio 'i aelïau ;
Beryglus wybren nad oes gafod ynddi,
Na chwml fyth mewn prudd-der yn ei llennu.
O! y mae dagrau yn santeiddio 'r olwg,
A thra cymylo 'r byd daw 'r nef yn amlwg.
Mae 'r ser yn loewach, tecach yr wybrennau
Pan welom hwynt trwy gafod drom o ddagrau.

O! deced wyt, ti wawr yr Adgyfodiad
O lan y bedd pan syllom ar dy godiad,
Olygfa hardd! tra 'n liygaid fel y borau
Mewn môr o wlith yn agor eu hamrantau.

O, na atalier addoer lif fy nagrau,
Ni fynwn lygad sych tra 'n crwydr ym myd y beddau.
Ofnadwy gosp, fynd trwy y byd heb wylo,
A gwelod bedd yn agor, heb ofidio,—
Yn agor ac yn cau ar drysor bywyd,
Oll mewn un dydd, oll mewn un angladd hefyd.

I'r fynwes drom, O, 'r fath ryddhad yw deigrn
Ar ol ei wrthddrych obry i'r bedd yn disgyn.
Mor deg, mor weddus yno yw ei weled
A'i dyner li yn sennu 'r beddfaen caled.
Nid caled chwaith; mae 'n wylo mewn distawrwydd,
Ac yno saif o'i wrthddrych fyth yn arwydd,
Saif fyth i ddadgan ei rinweddau yno
I'r dieithr grwydr yn ei ddagrau heibio,
Pan nad oes gan y byd, na chais na chof am дано.
Na pheidiwyf wylo, rhag i'r maen ei hunan
Ymdoddi i'r bedd, ac wylo ei fynor allan.

O! tardded odd y ffynnon rhwng f' amrantau
 Fyth newydd lif i wlitho newyddl feddau,—
 Mae ambell fedd yn newydd fyth, heb wywder ar ei flodau.

Adwaenaf ddyn a'i galon wedi gwywo
 Wrth yfed anadl oer y bedd, na ofnai heno
 Un croes, un anffawd gwaeth na methu wylo.
 Heb ddagrau, A! 'r fath angeu fyddai teimlo
 Ar lan y bedd,—y bedd sydd fel y blodyn
 Oleua 'i fron, yn ffres; agored fel y rhosyn
 Degeiddia 'i rudd, rhy deg i'r fath anghenfil!—
 Daeth un ymlaen a gwawdiai 'i ddeigryn eiddil;
 Dywedai wrtho, yn y fan distawodd,
 A'r oll ddywedai oedd,—“Yr Iesu a wylodd.”

“Yr Iesu a wylodd.” Iawn ei efelychu!
 Holl ddyled dyn yw gwneuthur fel yr Iesu.
 Ar feddrod cyfaill, crefydd bur yw wylo.
 Bu dagrau o'r nef ar fedd cyn hyn yn nofio.
 Anuwiol edrych ar y bedd heb ddagrau,
 Heb brudd-der yn tywyllu yr amrantau.

“Yr Iesu a wylodd,” teilwng yw i ninnau
 A santaidd, wedi 'r gafod hon, esmwytho 'r bedd â dagrau.

Fe wylodd ef, do,—pan drwy ogof angau
 Y gwelai y ddisgleiriach lan yn olau;
 Pan welai 'r beddrod drwyddo, a ffordd yn tywys
 Ymlaen i ganol nef o'i eigion echrys;
 Pan welai obry 'r marwol rydlyd ddrysau
 Yn llamu oddiar eu heyrn golynau,
 A'r caeth yn rhydd, a bywyd yn goleuo
 Ei rudd drachefn, a'r bedd yn agor iddo
 Nad yw yn agor ond i yfed dagrau
 A disychedu ei hun â newydd ffrydiau,
 Yn agor i ail-gau ar anrhaith o ocheneidiau.
 “FE 'I HADGYFODIR,” meddai ef, ac eto
 Ar rudd ei adgyfodiad mae yn wylo.
 O! y mae un yn gwylio bedd bob borau,
 Ac nid yn gwylio 'r awr a ddryllia 'i ddorau
 I ollwng ei anwylaf o'i ddyfnion brudd ororau,
 Na! gwylio 'r borau oer yr egyr unwaith eto
 I'w dderbyn yntau i mewn, a chau am oesoedd arno.

YR ADGYFODIAD.

YMDDRINGAF i'r wybrennau fry hyd risiau 'i addewidion ef,
Teg foreu anfarwoldeb sy yn gwawrio dros fynyddau 'r nef.

Un ffagl yw 'r greadigaeth fawr, anfeidrol fflam yn ennyn fry,
A choch yw 'r nef â'i thanllyd wawr, a heuliau yw ei chynnud hi.

Mil, mil o fydoedd lysg o'i blaen, a'u hulw dywylla 'r nef uwchben;
Marworyn du yw 'r huan cain, mae'r sêr yn wylo ar fronnau 'r nen.

Tra thwrf cerbydau Ior gerllaw,
Caleda 'r wybren laes gan fraw;
A cheula 'i môr o hylif ter
Yn balmant i osgorddlu 'r ser.

Chwydd ar ol chwydd o'r ddwyfol gân
Fry, clyw yn lledu 'r wybren dân!
A, dyna 'r Brenin yn ei swydd,
Mae 'r farn a'r Barnwr yn ein gŵydd.

Ar faine o berlau yn ymyl Duw,
Arch-angel o oruchel ryw
Ddechreua weithrediadau 'r dydd,
A bloedd yr adgyfodiad rydd.

Cwyd udgorn bywyd at ei fin,
Aruthrol udgorn Duw ei hun;
Anfeidrol dwrf! brawycha 'r nen,
Gogwydda, a syrth y goron o ser oddiar ei phen:
Disgynnant, fyrdd ar unwaith, gyda 'r llef
Fel cawod drom o berlau drwy y nef.

Uwchlaw ehed yr adsain gref
O fyd i fyd, o nef i nef;
A thyr fyddardod angeu 'i hun,
A chwyd a gwrendy y fynwent fin.

Fel euog flaen ei farnwr dua 'r haul,
A nos dragwyddol orffwys ar ei ael;
Fel lamp mewn tymestl, derfydd ar ei hynt,
A diffydd fel y ganwyll yn y gwynt.

Siomedig loer! ar ol ei hirfaith alar,
A goddef gwawd y nef, a thraha blin y ddaear,
Rhwing tanau fyrdd yn rhynu, a'i bron o eira 'n oer,
Diflanna fyth o'i thawel rôd, siomedig, unig loer,

I chwilio yng ngolau flaglau 'r farn am fedd diddymdra per,
Diflanna hwnt yn angladd fawr y ser.

Dydd angeu 'r greadigaeth gref,
A dydd diffoddiad lampau 'r nef,—
Mae 'n gwawrio o'r orseddfaine draw,
A chwmwl ar ei ol ni ddaw.

GLAN EBBWY.

O dawel eigion dy orweddfa gudd
Tywynna gwawr yn oleu, er yn brudd,
Gwawr a gyrhaedda hyd y tanlyd forau
Y cyfyd Haul rhwng niwloedd erch y beddau.
Mae trefn Duw a'i breichiau am dy lwch,
Mae addewidion ar dy fedd fel gwlyth y wawr yn drwch;
Ac fel y ser, o'r nef sy 'n gwylio'th gell,
Yn oleu, er yn uchel,—yn sicr, er ymhell.

AETH BLWYDDYN HEIBIO.

Aeth blwyddyn heibio o'th gwsg, anwylaf un!
Ar lan dy fedd, O! parcher dagrau 'r blin
Sy 'n ceisio, eto 'n methu, cysgu ei hun.
Aeth blwyddyn heibio! Pe mesurid hi
A chadwen teimlad, byddai 'n oes i mi,
Dechreuad eiloes yw; aeth heibio 'r gyntaf,
Ar lan y beddrod hwn y bu 'i hanadliad olaf.
A, Flwyddyn lesg! Hir, araf fu dy gamrau,
Ond 'roedd yr hin yn wleib, a throm fu 'r gawod ddagrau.

YR YSBIADUR.

YR Ysbiadur roes y bydoedd—pell
Yn y pur uchafoedd
Oll i ddyn—yr allwedd oedd
Yn drysor cudd drwy oesoedd.

Planedau golau gyda 'u gilydd—gaf
Trwy 'i gyfwng ysblenydd
Yn chwareu fel chwiorydd
Uchel eu dawns gylch haul dydd.

I bellafoedd y diball ofod—sylla
Tros holl waith y Duwdod,
Ni wna pellder un pallod
Drwy bell anfeidrollder bod !

Gloewder ddalla 'r gweledydd ;—angel yw
Yng ngwlad y tragywydd ;
Blina ar rwysg ysblenydd
Yr holl ser gerllaw y sydd.

Nos fud wna 'n lwysaf adeg ;—nos yw 'm dydd,
Nesa 'm Duw i'm gofeg ;
Goleudymp engyl gloewdeg ;
Dinas Duw yw y nos deg !

Yr hyn yw 'r Beibl at olrheiniad—crefydd
Yw 'r drych cryf i'r cread ;
Teyrnas Ior ddaw trwy 'i neshad
I'n gŵydd, fel ail ddatguddiad.

F Y N G A R D D .

MAE 'nhestyn cu yn peri imi feddwl
Am euroes fu, heb gamwedd a heb gwmwl ;
Mae 'n dwyn i'm hymyl ryw ddi-ail orffennol
A'i buredd megis puredd cylch serenol ;
'Rwy 'n cofio rhywrai elwid yn angylion
Arferent rodio gyda mi hyd finion
Rhyw afon bêr ei sain, fel gwir gyfeillion,
A'u llygaid megis heuliau o ddisgleirdeb,
A'u gwisg yn blygion fyrdd o anfarwoldeb.

Rhwng "dyn" a "gardd," O ! mae rhyw hen berthynas
Sy 'n dwyn i'm cof fy nheg foreuol urddas,
Fy ngenedigaeth fraint, ar lannerch dawel
Lle 'r oedd yr oll yn hardd o orwel i bell orwel.
Ai adgof am y wiw berthynas orau
Sy 'n gwneyd yr ardd i mi y lannerch orau ?
Ai hyn sy 'n gwneyd im dyfu perth mor dewfrig
O gyleh y lle, rhag pob difrodwr hyllig ?
Nis honnaf hyn, ond tybiaf fod a fynno
Adgofion Eden â phob garddwr eto.

Ple bynnag y sefydlo dyn ei drigfod—
Pa un ai gwych ai gwael fo ei breswylfod—

Mae 'n dyfod yno yn ganol-bwynt addas,
A buan iawn fe wena gardd o'i gwmpas
Fel rheidrwydd cynta i natur.

Er symudo

I fyw i ddinas fawr, nid erys yno
Heb "chwareu" gardd yn rhywddull flaen ei annedd
Er na fo onid mymryn o amgylchedd.
Mor werthfawr iddo ydyw prin dyfolion
Ei gyfyng lawnt, pan ddelo gwanwyn tirion
A'i bwyntel aur i liwio 'r unig rosyn
A'r lili weddw wyla wlith gyferbyn!
Mor werthfawr y gwyrddolion adblanedig
O ardd ei riaint mewn pell ddyffryn unig,
Wrth syllu arnynt cofia 'r alltudiedig
Am sain y gog, ac anthem fyrdd-blethedig
Y ddwyfol eos a arferai ganu
Mewn coedwig ddofn a wna'i dawel lenu
Hen gartre 'i febyd llon; fe ddaw i'w adgo
Aml wyneb teg na chawn fyth mwyach yno;
Mae 'n gweld y berth o gelyn oedd fwy iesin
Dan eira Rhagfyr nag yn nhes Mehefin.

Neu os na ellir lawnt, fe wna 'r dinesydd
Ryw ddynwaredu 'r ardd o fewn ei geurydd.
Fe ddyrcha yn ei ffenestr glaer fwaog
Flodeu-ddal hardd, ac aml i gawg godidog
Yn dal ei briod flodyn, a'u haroglau
Yn dwyn y wlad i gof bob hwyr a borau.

Rhowch i fardd fwth a gardd, rhowch im hardd eisteddfa;
Cangau coed, oesau oed, plethwch yn orseddfa.

Rhowch y byd gau i gyd idd y gŵr a'i caro;
Bwth a gardd foddia fardd, dyna ddigon iddo.

Mudaf hwnt tua 'r ffwnt pan fo 'r gwres yn greulon;
Dwyfol draw yw y gwlaw oera 'r llosg belydron.

Ni welais i olygfa 'rïoed mor hardd
A ffwnt yn chware cawod yn yr ardd,
Rhyw ddynwaredol gwmwl oddi isod—
Mae fel pe 'n gwawdio 'r cynyl gweigion uchod.
Amoeriad hyfryd dros y cyfan rydd,
Mae megis gwllith y nos ar dân y dydd.

Mae anian wrth ei bodd. Mae fel pe bai
 Yr oll yn fywyd, ac yr oll yn Fai.
 Ymfeinia 'nghlyw o dan y per fwynhad,
 Mi glywa'r blodau'n canu am y wlad
 Lle nid yw blodau'n gwywo. Clywaf si
 Fel pe bai engyl yn fy ymyl i.
 Nefolaidd oerder! braidd na wnelwn i
 Ryw grefydd deg o'th dawel hanfod di.
 Pan chwery ffyntiau'r Palas Crisial gwych,
 O! gallai engyl synnu wrth y drych,
 Wrth gyfoeth dyfais eu hieuangaf frawd,
 Gan ofyn,—“Beth a fydd pan ddyrch i rawd
 Y tragwyddolion, uwch cadwynau cnawd?”
 Mae'r oerdir yn adfywio f' awen i,
 Cawoda ei henglynion ar bob tu
 I lonni'r clywgar flodau—O! maent hwy
 Yn deall iaith fy ngwên a'm hawen mwy.
 Marmoraid ddelw'r serchior Cupid llon
 O dan y gafod, dry yn enaid bron—
 Gwel! mae'n anadlu bron! a'i lemaf saeth
 A'i ddyfn swynion, i ddwy fynwes aeth.
 Edrychai Gweno yn fy ngwyneb syn
 A chaethion oem ein dau i'r serchior gwyn,
 A ninnau, ie, 'n dau, heb wybod hyn.

Adeiliais im fy hun dan gysgod bryn
 Dŷ wrth fy modd. Nid yw yn fawr, er hyn
 Y mae yn ol fy hoffaf archwaeth i,
 Yn sylweddoliad o hen freuddwyd eu.
 Mae gennyf ardd tu ol, a lawnt tu blaen
 Yn Eden o wyrddolion teg ar daen.
 Caiff cadfridigion wrando seinio 'u clod,
 A rhodio ar yr enfys fel eu rhod,
 A byw ar fawl fel awyr, a mwynhau
 Gogoniant fel eu hetfeddiaeth glau;
 Rhagorach hawddfyd filwaith fydd i mi
 Fesuro'm lawnt yn deg rodfoedd eu,
 Rhai'n union, rhai yn grynon, rhai yn groes,
 A rhai o luniau ffyrdd ein marwol oes;
 Olwyno'r rhywod coch ar ferfa law
 I deg addurno'r llwybrau troiog draw
 Sy ddigon hoen i mi. Caiff Prydain Fawr
 Newidio ei gweinyddiaeth heb im ddawr;
 Caiff Ffrainc ddymchwelyd ei gormesol deyrn,
 A siglo'r byd wrth dafu'i thrymion heyrn,

I'w gwisgo drannoeth, 'n ol ei harfer hi,
 Anghyfnewidiol fydd fy ymchwil i—
 Addurno 'm lawnt, gwrteithio 'm cefn-ardd gu.

Mae rhywbeth newydd yn yr ardd o hyd,
 Rhyw egin newydd fyth, rhyw newydd bryd;
 Rhyw greol wyrth o'r impiad cynta' rioed;
 Rhyw santaidd wên ar flodeu hen eu hoed
 Fel rhai 'n par'toi i farw; ereill sydd
 Mor ieuainc â phelydron gwawr y dydd;
 A rhai o ganol oed, yn sobr eu gwedd
 Fel rhai yn dechreu meddwl am y bedd.

Mae rhywbeth newydd yn yr ardd bob dydd,
 Mae 'n arlun im o datguddiadau fydd
 Sy fythoedd yn darganfod pethau gwell
 Ym myd yr ysbryd—byd y pur, y pell.

Tyrd gyda mi, fy Ngweno gu, i'm gardd,
 A gwybydd beth sy 'n swyno calon bardd;
 Gwel acw 'r gwinwydd dringol—plygu 'n drwm
 Y maent gan aml i rawnswp, ddwyfol glwm;
 Dyferant gan addfedrwydd, wylo 'n brudd
 Mae 'r gwinrawn am nad oes a yfo 'u sudd;
 'Rwy 'n caru y pren ceirios, a'r pren per,
 Fel amrywiaethau gallu creol Ner;
 Ond pennaf destyn y farddonol ddawn,
 Yw 'r pren afalau yn ei flodau llawn,
 Y mae yn fyd o harddwch ynddo 'i hun,
 A theimla yr edrychydd bron yn flin
 Fod tegwch mor ddi-ail i rod-di lle
 I ffrwythau gwiw mor fuan; mynnai e
 Ei gadw yn ei flodau llawn o hyd,
 I gael rhyw ddrych i weled gwyneb pryd
 Hawddgarach gwrthrych fry yn nef y nef—
 Merch Seion gynt a'i cyffelybai ef
 I bren afalau ym mysg prennau 'r coed
 A'i ffrwyth i'w harchwaeth y melusa 'rioed,
 Tra 'n yfed o'i afalau neithdar nef
 Cai ddiogelwch bythol o "dan ei gysgod ef."

Nis gwn pa un sydd fwyaf i'w fawrhau
 Ai 'r prydfferth ai 'r defnyddiol yn fy ngardd;
 Ond prin y gellir gwahaniaethu 'r ddau;
 Mae 'r hardd mor ffrwythlawn, mae y ffrwyth mor hardd.

Nis gall y pys roi 'u ffrwyth i'n byrddau llon,
 Cyn bwrw allan liwiau 'r enfys bron
 A thalu idd eu hirion gynnal-goed
 Trwy 'u gwisgo â'r prydferthwch tlysa 'rïoed.
 Os prydferth yw y blodau ar bob llaw
 Maent hefyd yn ddefnyddiol—iechyd ddaw
 O'u hysfryd beraroglau, fel pe bai
 Angel yn ysgwyd ei adenydd clau
 Gan donni 'r awyr las, a pheri fod
 Rhyw lanw o iachusrwydd pur yn dod ;
 Difroda 'r haint y ddinas, ond pan ddaw
 I ymyl banc o flodau, cilia draw.
 Pan fyddo 'r blodau mewn dadblygiad llawn,
 O'u haml ogonedd diliau mêl a gawn.

Ceir cyfoeth arwyddluniol yn yr ardd
 Gogyfer â gwahanol droion oes,
 Ceir gwnllion i'r briodas-allor hardd
 O liwiau 'r wawr, a rhai at droion croes.
 Rhowch flodau llon eu lliw ar ael y fun
 Wnaeth fore heddyw gartref iddi ei hun
 Wrth fodd ei chalon.

Dacw newydd fedd

A gauwyd ddoe o dan yr ywen brudd,
 O, dodwch arno flodau trist eu gwedd
 A dyfodd anian erbyn niwliog ddydd
 O gydymdeimlad a'r ddynoliaeth sy
 Yn gwneyd ei goreu i'w gwrteithio hi,
 A thynnu allan y prydferthion cudd
 Ym mynwes hadau hon yn cysgu sydd ;
 Rhowch flodau trist ar ael y weddw lom,
 Y blodau hynny sydd yn siarad siom ;
 Ac eto, er i auaf erch eu cau,
 Yn agor eilwaith yn y gwanwyn clau,
 Gan addo draw yr adgyfodiad cun,
 A'r gallu ddaw â bore gwell i ddyn.

Pan bêr anadlo gwanwyn fywiol rin
 I ddeffro 'r blodau o'u gauafol hun
 I fywyd newydd o brydferthwch eu,
 Pan ymgryfhao 'r haul yn raddol fry,
 Mor ddedwydd im yw gwylio 'r gwenyn llon
 Yn sugno mêl o aml flodeuog fron !
 Gan efelychu eu rhagofal pur,
 Gofelais daenu blodau-wely nur

Yn union flaen eu cwch, ei drwsio 'n dda,
 A'i gadw 'n iach o bob rhyw chwynnol bla.
 Y fath ddedwyddydd yw eu gwyllo 'n araf
 Anturio allan at y rhos agosaf,
 Heb ar y cyntaf ond cusanu 'n frysiog
 Y wefus goch fel rhai hyd eto 'n ofnog
 Ac yna cilio 'n ol; ond ymhyfhau
 Yn fuan mae y gwiw gasglyddion clau
 A suo im eu diolchiadau chweg
 Am barotoi y fath baradwys deg,
 Ac nid oes yn yr ardd flodeuyn prid
 Na fynnant hwy gusannu 'i fêl i gyd
 A'i gludo idd eu cwch â'r swynol su
 Sy 'n gytôn â holl seiniau anian gu.

Os yn yr ardd y syrthiodd dyn o'i ogoneddus faine i lawr,
 Y mae yr enw gardd ynglyn â'i iachawdwriaeth fawr.

Yn Eden deg os tynnodd dyn
 Anfeidrol ddyled arno 'i hun,
 Yng Ngethsemane tâl a gaed
 Myrdd mwy na thâl mewn chwys o waed.

O ardd yr ing a'r chwys o waed, cei le 'n yr anthem iddo ef!
 Pob dafn o'r gawod ddwyfol gaed dry 'n fôr i nofio myrdd i'r nef.

Mewn gardd enillodd angau 'r dydd, fe 'i maeddwyd ar ei ddewis
 lawr;
 O fedd mewn gardd, yn fythol rydd cyfodai fy Ngwardwr mawr.

I'm gardd pan rodiar, tua 'r pasg,
 Adgofiar yr anfeidrol wasg
 O'm hachos i fu ar fy Nuw;
 Mae 'r blodau 'n wylo wrth fy nhraed
 Fel pe yn cofio 'r chwys o waed
 A dorrodd o'i anfeidrol friw.

I'm gardd pan rodiar gyda gwawr
 Y Sul, mi gana am Iesu mawr
 Yn dod o'r bedd yn fyw,
 Yn dod o'r bedd yn Dduw!
 Pan godai 'r pen o'r tywyll fedd
 Fe godai 'r teulu oll un wedd,
 Aneirif deulu Duw.

Gardd yw y nef, ac iddi hi
 Cyn blanja yw ein daear ni ;
 Yn ein hanialfyd, er mor wyw,
 Y tyfir blodau tecaf Duw.
 O goed yr anial hwn y llunia ef
 Yr harddaf ddodrefn sy 'mhalasau 'r nef.
 Dan drymder hiraeth, llymder siom,
 Mi wylais lawer cawod drom
 Ar ol y blodau dyfais i
 Yng nghysgod twymna 'nghalon gu ;
 Ond nid wyf fi yn wylo mwy,
 I ardd sy well adblannwyd hwy.
 O ! tyfu maent â llwydd di-ffael
 Gyferbyn a'r tragwyddol haul.
 Awelon afon bywyd sy
 Yn chwareu fyth eu clychau fry.
 Addfedwyf finnau yr un modd,
 Na syched pechod fyth fy nodd,
 A phan y'm torro angau i lawr
 I engyl boed yn bêr fy sawr,
 Yn ddigon per i'm rhoi o ri
 Tragwyddol flodau 'r wynfa fry.

 FY RHOSYNAU.

O ! MAE 'm rhosynau yn fy adwaen i,
 Gan ddiolch im drwy bêr-aroglau cu
 Am ofal maith fy llaw. Ymdrecha rhai
 O 'mlodau nur, fyw 'n hir, i mi fwynhau
 Eu ceinder yn yr hwyr. Mae ambell un
 Yn llonni y "dydd byr" a Rhagfyr oer ei hun
 Yn fil prydfferthach am fod arno wên
 Wrth wywo yn hwyrfrydig, marw 'n hen.
 O Chwefror ! brysia ymaith ! Ebrill glau,
 Cyflyma 'th hynt, a thithau, ddwyfol Fai !
 I mi gael eilwaith weld fy mlodau llon
 Yn adgyfodi eilwaith ger fy mron.
 Mae llawer wedi marw, ond mae mil
 Yn aros eto o'u hadblanedig hil,
 Mor debyg idd eu rhiaint, fel nad wy
 Ar ol yr hen yn teimlo galar mwy.

DISTAWRWYDD Y PREGETHWYR.*

BOED ysgafn, feirdd, eich sang, a sobr eich gweddi ;
 Tywarchen gysegredig danoch sy !
 A thi yr awel, O ! na chwyth mor hy !
 Lluch sant, prynedig lwch, gysegra 'r bedd.

HENRY ! mor bêr dy hun,
 A'th hedd, mor felus yw,
 Ac O ! mor hapus fry dy ysbryd cun
 Yn nhrigfa pob hapusrwydd—mynwes Duw !

Ni faidd y byd dy hawlu, y byd
 Erioed ni 'th hawliodd di,
 Rhy fychan oedd ei oll i lanw 'th fryd,
 Y nef ei hun oedd nod dy ymgais gu.

Bri, cyfoeth, mawl, dirmygit hwy i gyd ;
 Ac uwch yr haul—nef-dueddedig fod!—
 Cyrhaeddi dy uchelfryd ; uchel fryd
 Am fri uchelach fyth. Yr oedd dy nod
 Na 'r ser yn uwch, na fyddai uwch y ser
 I ti nid uchel fyddai. Buot fyw
 Y puraf fywyd, yn nhwrf eilfydoedd ter,
 Y nef yn d' ymyl, ac yn d' ymyl—Duw.

Henry ! yr wyt yn ddistaw. Ni chaf air
 Er gwyllo 'th fedd am oesau. A ! mor fud,
 Ond llawn o eiriau, llawn o eiriau aur
 Er hyn, yw dy weithredoedd aml a drud.
 Dy riniau o'th gymeriad yw y drych,
 Ac ni raid ofni pwy a'i gwel ; na phwy
 O engyl puraf eilfyd, er mor wych,
 Fesurant yno ddelw dy fuchedd mwy.
 Dy goffadwriaeth yw 'th areithfa gu,
 A'r hen effeithiau y pregethwyr mwy,
 A nerthol dy hyawdledd ynddi hi,
 A gloew dy enwogrwydd ynddynt hwy.

Myfi ni 'th folaf. Arall sydd a 'th fawl—
 Yr eglwys, ac a'th fawl yn well na mi ;

* Y Parch. Henry Jones, o Laneirwg.

Gwasanaeth i enwogrwydd rydd yr hawl,
 Anfarwol, yna, yw 'th enwogrwydd di.
 O! pwy 'n fwy gwasanaethgar yn ei oes,
 A phwy ymdrechodd gymaint i fawrhau
 Yr hwn, dros ddyn fu 'n gwaedu ar y groes,
 Dros ddyn yn gwaedu, a thros ddyn yn yfed gwae.

HENRY, yr wyt yn ddistaw, distaw fel dy feddrod du
 Sydd hyd ei waelod yn ddistawrwydd pur.
 Mae ereill yn llefaru drosot ti,
 Oes, ereill gawsant drwot farwol gur,
 A balm iachaol hefyd drwot ti,
 Y balm a lif fel afon lawn dros lethrau Calfari.

Oes! yn y fynwent hon drysorau drud
 A brynwyd gan y Mab dan ddwyfol glwy
 A dirfawr swm goludoedd IOR i gyd,
 Trysorau y cyfamod ydynt hwy,
 A dacw fedd lle dan gysgodion prudd
 Y gorffwys un o honynt. Dy fedd di
 O GWILYM,* trysor mil rhy ddrud i'r pridd,
 Ac i'r oer, ddiserch fynwent, mil rhy gu.

Dy seren deg fachludodd cyn i'th ddydd
 Braidd gyrraedd y cyhydedd. Aeth i lawr
 Yn danbaid dros orllewin amser prudd,
 Ac anfarwoldeb yn teghau ei gwawr;
 Machludodd; ond i godi 'n decach fry
 Yn nwyrain hawddgar tragwyddoldeb pell;
 O dan orllewin mwy ni chuddir hi—
 Nid oes orllewin i'r ffurfafen well.

A, dedwydd fuot, gyrraedd porthladd hedd
 A hafn anfarwoldeb, cyn i'th wedd
 Adnabod rychau henaint prudd, a chyn
 I nychdod blin gael mantais i'th arwain tua 'r glyn
 Yn araf, eto 'n erchyll. Tyner fu
 Y law a'th drawodd—llaw dy Geidwad cu!
 Rhagluniaeth falmaidd oedd; ystorm o hedd oedd hi;
 Bu daw † ac ymagorodd porthladdoedd nef i ti.

* Y Parch. William Lewis, o Lancirwg.

† Tawelwch.

YR IEUANC HEN.

Wrth edrych ar fy agwedd yn y drych,
 A methu cael y gwrid rhosynog fu,
 A gweld bob newydd forau newydd rych,
 O! braidd bryd hynny nad amheewn i
 Gywirdeb cofnodiadau 'r Beibl mawr
 O ddydd fy ngenedigaeth, dywyll ddydd,
 Nodiadau ag sydd eto 'n loew eu gwawr,
 Yr inc heb sychu bron, a'r lawsgrif sydd
 Fel gwaith y ddoe.

I'M CYFAILL PEREDUR.

PEREDUR hoff! addurner di
 A myrdd o ser disgleiriau bri.
 O! ar dy ben, awenol frawd,
 Ei chorn i gyd gwaghaed ffawd.

Ymro i wasanaethu Duw,
 Ymro, gwasanaeth odiaeth yw.
 Y nefoedd weno ar dy waith,
 A'r nefoedd a derfyno 'th daith.

Cysegra 'th awen fyth i Ner,
 A bydded fel dy enw 'n bêr;
 Angyles deg, anadled hi
 Fyth yn awyrgylch Calfari.

Na ddisgwyl di am wenau ffawd,
 Twyll ydyw hi a'i gwên, fy mrawd;
 Am wên y nef, O, disgwyl di,
 Mae bywyd yn ei gwenau hi.

Mewn meddiant, clod, gwatwargerdd yw,
 A'r llawryf, yn y llaw sy wyw;
 Gwatwara 'r disgwyliadau chweg,
 A gwywa flagur gobaith teg.

Anrhydedd araul mwyniant llon, O pwy
 Erioed a'u gwir, a'u llawn fwynhaodd hwy?
 O bell tryloew fel y cwmwl ynt,
 A ffoant, fel y cwmwl yn y gwynt.
 Mae 'r gorwel fyth yn agos, fyth yn hardd,
 Efelly CORON CLOD i drem y bardd;

Ond saf, Peredur, saf! Na cheisia hwy,
 Po fwy y ceisi, ymbellhant yn fwy,
 Os mynni ddilyn, teimli 'r mwyniant cu
 Oll yn y drafferth ac nid yn y bri;
 Yr ymdrech yw y wobr, ac nid y goron deg;
 Y llafur yw y taliad, ac nid y moliant chweg.

Peredur, O! bydd fodd lawn, di,
 Ar fynwes deg dy Fargaret gu;
 Cysuron daear hulio 'ch ffyrdd,
 A gwlawied nef gysuron fyrdd.

YNGLYNION GNODAU.*

GNAWD i ddialgar gofio,
 Gnawd i garwr ddrwgdybio,
 Gnawd i bregeth adaw 'r co.

Gnawd i yfwr sych geg,
 Gnawd i ragrith wyneb teg,
 Gnawd i ddiathrylith goleg.

Gnawd i lwfr wangalon,
 Gnawd i flin aml gwynion,
 Gnawd i Gymro dant a thôn.

Gnawd i ymddifad ddagrau,
 Gnawd i dduwiol weddiau,
 Gnawd i wely esmwythau.

Gnawd i weniethwr chwant swydd,
 Gnawd i ymroddgar lwydd,
 Gnawd i asyn ystyfnigrwydd.

Gnawd i wron ddifrodi,
 Gnawd i hael eluseni,
 Gnawd i frwnt feio y ci.

Gnawd i brydydd arwyrain,
 Gnawd i olud adain,
 Gnawd i Wyddel chwain.

Gnawd i rudd ogoned ros,
 Gnawd i falch godwm agos,
 Gnawd i euog gashau 'r nos.

*Gnawd, cyfystyr ag arferol.

Gnawd i awen dylodi,
Gnawd i athrofa goethi,
Gnawd i ffol ganmol ei gi.

Gnawd i awdl y gadair,
Gnawd i bryddestwr anair,
Gnawd i farwnad pen ffair.

Gnawd i fardd ddychymygu,
Gnawd i bwylllog arafu,
Gnawd i olygydd enw du.

Gnawd i'r enfys aml liwiau,
Gnawd i goeg aml eiriau,
Gnawd i ragrith y ddau.

Gnawd i don ewynu,
Gnawd i garwr wenu,
Gnawd i'r hen ganmol a fu.

Gnawd i aur wyro 'r ddedryd,
Gnawd i foddlaw'n ddedwyddyd,
Gnawd i bryddest hyd.

Gnawd i falcher ddwyn gw'radwydd,
Neud gwael ffugio saneteiddrwydd?
Gad i'th gymydog ei swydd.

Gnawd i fyrbwyll fachnio,
Neud gwae y drwg yw cofio?
Y dymestl ddyd werth ar do.

Gnawd i ymchwilar wrando,
Neud corach sy 'n ymchwyddo?
Doeth yw tewi er bod co.

Gnawd i'r doethaf ddistawrwydd,
Neud ffol ni w'yr ei ogwydd?
Beia dy frawd yn ei w'ydd.

Gnawd i hogyn gynghori,
Neud gwyrth i fardd gyfoethogi?
Po amla 'r aur gore 'r bri.

Gnawd i esmwyth wedd anfwyn,
Onid y iach sy 'n achwyn?
Tydi â'r law wen, taw a'th gwyn.

SYR ROBERT PEEL.

GLYW didwyll mewn gwleidiadaeth—gweledig
 Oleudwr ein talaeth,
 Piler hon, pa le yr aeth,
 Hyglod addurn gwladyddiaeth ?

Erch huddo llewyrch addien,—a gloewder
 Ein gwladol ffurfafen,
 Di-wawl yw 'n llenorawl nen
 Ar ol y disglaer haulwen.

Enwog a noddfawr yn ei gyneddfau,
 A thra enwog ei deithi a'i riniau,
 A digyfeisor am landeg foesau,
 O, mor nodedig plith mawrion dadau !
 Athrylith a'i ther olau—bendigaid
 Daniodd ei enaid, huan o ddoniau.

Ei lys oedd lys elusen,
 A llorf 'i ffyddloniaid llên.
 Seren fawr, a gwawr ei gwedd
 Yn eirian gan ogonedd ;
 Hyd y nen lledai 'n hynod
 Ar wybren ddisgleirwen clod ;
 Gwae ! i'r beddrod-gysgodion
 Gaddugo a huddo hon.
 Bydd drahaus y bedd drwy hyn,
 Par foledd i'n prif elyn.

Agored adail, lawn o gardodau
 A môr o drysor i dorri eisiau !
 Yma arllwyswyd, cawodwyd cedau
 Hyglod i'r rheidus, a gwlawiwyd rhadau.
 Cwynion yn fywiog ganau—a droid,
 A hoen gyfrennid i unig fronau.
 I'r dduwies rhyddid ei hurddas roddai,
 A'i chwaer fwyn heddwch ei arf a noddai.
 Eres haul ydoedd, i'r oes a ledai
 Ddydd o lawenydd, a'i wedd a lonnai
 Ei wlad, a'r awel hedai—dan chwiban
 Ei glodydd eirian drwy 'r gwledydd yrrai.
 A'r adsain ar gain gynnydd
 Ar ol yn oes oesoedd sydd.

Gywired oedd i'r goron,—gywired
 I'n hawddgaraf Fanon !
 Drwy ymlyniad tad at hon
 Argoeliai deyrngar galon.

Ac angel yn y cyngor—i gynnal
 Gogoniant ein goror ;
 Acw drwy ei ddydd cadwai 'r ddor
 Yn ddiogel ddiegor.
 Gwawdiai 'n dawel y gelyn,
 A barrau y dorau 'n dyn.

A dygai fyd i'w deg farn,
 Ysgydwai 'n hynys gadarn
 Nes amgylch ogylech agor
 Ei mil porthladdoedd i'r môr.
 A throdd byth ei thirwedd bêr
 Fel India o gyflawnder.
 Digaerau y deg oror
 Fel un maes o flaen y môr.
 Ac archodd i'r don gyrchu
 Dros bellder y dyfnder du
 Olud y byd i'w wlad bêr,
 A'i mynediad mewn hyder
 Heibio 'r holl wledydd heb raith,
 Hyd derfyn y byd hirfaith.
 Galwodd o benrhyn golau
 Y môr i ddig ymryddhau,
 Ac anfon fel o'r cynfyd
 Ei borth yn rhad dros y byd.

Ei âch derbynai o uchder bonedd,
 Ond ei fawr enw dyfai o rinwedd,
 Ei ddawn a'i rodiad oedd ei anrhydedd ;
 Teilyngdod pur, dyna fur ei fawredd.
 Uchel ei barch, uwchlau bedd, gogoniant
 Uwch ebargofiant, uwch bâr y geufedd !

Hawdd i filoedd ei foli,
 Hawdded tŷn heddyw i ti !
 Tonau per, tannau parod,
 Fyrdd gawn i'th eglurlawn glod.
 Gwlith i fyg oleuo 'th fedd
 Lonnant dy farwol annedd.
 Gleiniau mân, gloew yn eu mysg,
 Gemau 'r amranta'u 'n gymysg

Ddagrau, li, ddygir i lan,
 Ddisdyllir ddwysed allan
 O'r galon i argoeli
 Môr di-draeth ein halaeth ni.
 A thawel yr awel red,
 Yn dawel ei chŵyn dywed
 Uwch y fan, a chaf yno
 Loewaf frig lili y fro
 Yn methu dal gan alar.
 Y lloer, gun ei lleuer, gâr
 Wlawio, i bêr dyneru
 Y gro coeth, ei dagrau cu.
 A delwedd o'i nodwedd wna
 Aml fiodyn mal haf leda
 Ger y bedd, anhawddgar bau.
 Y rhosyn teg ei rasau,
 Rhoed beunydd ardeb hynod
 O ser disgleirder ei glod.

YR YMFUDWR A'I GARIAD.

- Y MAB. **M**AE 'r llong yn barod yn y porthladd draw,
 Mae 'r llanw yn ei rym,
 Clyw 'r gloch ddiwedda 'n canu—rho dy law,
 Rho 'th ffarwel im.
- Y FERCH. Fy llaw a roddaf it; hi fu cyn hyn
 Yn dwym gan gariad cu,
 Mae heddyw 'n oer, mae fel yr eira 'n wyn
 Mewn môr o ddagrau neithiwr golchais hi.
 Fy nghalon wedi ei llongddryllio sydd
 Ar draeth ystormus siomedigaeth brudd;
 'Rwyf tithau, f' unig fywyd-fâd,
 Ar hwylio i estronol wlad.
- Cydgan.* O! creulon fu 'n huno ar fore mor llon
 I'n hysgar mewn nos mor ofnadwy a hon.
- Y MAB. Clyw gân y morwyr, nerthol wŷr, wrth dynnu'i mewn â
 breichiau dur
 Yr olaf raff sydd rhwng y llong â'r tir.
- Y FERCH. Ond O! mae 'r gadwyn sy 'n ein huno ni
 Yn ddigon hir i fyned gyda thi

Dros foroedd pella 'r byd
 Nis gall y don
 Ond gloewi hon.
 Rhyw dderwen gref yw serch,
 Ni all ystormydd erch
 Ond gyrru 'i gwreiddiau 'n ddyfnach
 I eigion mynwes merch.

Cydgan. O! pam na fyddai cariad farw
 Ar awr mor oer, ar storm mor arw!

Y MAB. Ti wyddost mai tylodi llym
 Sydd yn fy ngyrru i ymfudo
 O! nid oes dim ond hynny—dim
 Ond newyn yn ei farwol rym
 A allai beri im dy ado.
 Mae eang fyd tu hwnt i'r don,
 Paradwys deg y gweithiwr llon,
 Caf le i'r fraich haiarnaidd hon
 I weithio er dy fwyn;
 Breuddwydiais neithiwr freuddwyd claer
 Fy mod wrth droed y mynydd aur,
 Mi welwn f' hun ar frig y don
 Yn dod yn ol i'r hafn hon
 A chennyf gyfoeth fwy na rhi.
 Prydnawn nefolaidd ydoedd, tawel
 Angylion ganent yn yr awel;
 Yr oedd it ar y lan,
 Yn ffyddlon, er yn wan,
 Yn edrych fythoedd tua 'r fan
 Lle collaist d' olwg arnaf fi;
 Mi neidiais ar y draethell hon
 I'th guddio bythoedd yn fy mron.

Y FERCH. Breuddwydiais innau freuddwyd blin.
 Yr oedd blynyddau wedi treiglo
 A minnau 'n marw wrthyf f' hun,
 Fy olaf awr oedd honno;
 Mi 'th welwn di at fy ngorweddfa 'n dod
 I 'ngolwg i mor brydferth ag erioed,
 Er bellach yn dri ugain oed;
 Anghofiais yno 'mhoen a 'maich
 Wrth hyfryd farw ar dy fraich.

Cydgan. Pa fodd, pa fodd, drugarog Dduw,
 Y gallwn heb ein gilydd fyw!

Y MAB. Ffarwel, ffarwel! Mae'r olaf gloch yn canu,
 Un funud eto cyn ein llwyr wahanu!
 Ffarwel, anwylyd! Gobaith, hedd, ffarwel!
 Ffarwel, ddedwyddwch! O ddedwyddwch llon,
 Bydd farw, trenga ar y draethell hon!

Y FERCH. Nis gallaf ddweyd yr olaf air
 Pe rhoddid imi fyd o aur;
 Ddydd bywyd, dos;
 Tyrd, fythol nos!
 Mi grwydraf bellach wrthyf f' hun
 Heb yn fy wybren seren un.
 O! pam yr wyt mor swynol, serch,
 I'n denu i'r fath anial erch?

Y MAB. Ust! Beth yw'r goleu newydd sydd
 Yn gwawrio ar fy ysbryd prudd?
 O bwrw 'th goelbren gyda mi,
 Mi weithia 'th fordaith dros y lli
 Rhydd cariad a dedwyddwch im'
 Ryw allu nefol, wyrthiol rym.

Y FERCH. Mi ddof dan ganu yn dy gôl,
 Mi awn drwy angau ar dy ol.

Cydgan. Mae clychau'r nef yn canu, awn ynghyd
 Fel engyl dedwydd a newydd galon tua'r newydd fyd;
 Mae'r don yn suo addewidion pur
 Am undeb maith i ni mewn rhyw ddedwyddach tir.

Y BUGAIL A'I GI.

MEWN bwthyn clai ar fynydd pell 'roedd bugail tlawd yn byw
 Yng nghwmni'r cwmwl du a'r storm o olwg dynol ryw.

Arferai godi gyda'r wawr i wyllo 'i ddefaid glân,
 Dihunent hwy wrth swn ei droed a'i beraidd gynnar gân.

Ond eira amser erbyn hyn a gaed yn gwynnu 'i ben;
 Ei gam oedd fyr, a'i anadl tyn wrth araf rodio ael y bryn
 Arwyddai fod y nos yn dod,
 A'i yrfa bron ar ben.

Ni feddai yno, wrtho 'i hun, un cyfaill ond ei gi,
 Rhagorach câr na llawer dyn, ffyddlondeb ydoedd hwn ei hun,
 Gwell na chyfeillion lu.

Mor hoff oedd hwn o'i feistr gwiw !
 Gadawai ef wrth odrau 'r rhiw i orffwys ar ei ffon
 Tra 'r ai ei hun ar ol y praidd i'w cyrchu ger ei fron ;
 Unigedd maith, a'r " dyddiau blin "
 A wnaeth y ddau yn awr yn un.

Cyfarthai ar yr awel bron
 A chwythai ar oedrannus fron
 Ei feistr cu ;
 Ei gryglyd ru ar hanner nos
 Arwyddai fod yr anedd dlos
 Yn gastell digon cry.

Ond un prydawn dychwelyd wnaeth
 O'r storom fawr, yn llesg a llaith,
 Eisteddodd yn ei gadair fawr ;
 A bore drannoeth codai 'r wawr
 I ddeffro 'r greadigaeth gref,
 Ond methodd mwy ei ddeffro ef.
 Ei hiraf olaf hun oedd hon
 A rhewodd flynonn bywyd dan ei fron.

Y bore ddaeth ; a'i fyddlawn gi
 Edrychai yn ei wyneb cu,
 Gan ddisgwyl y cyfarchiad llon
 Arferai ddod o'i enau ef ;
 Ei balf a ddododd ar ei fron
 Mor ysgafn a niwl y nef ;
 Cyfarthai gydag isel ofnus lef
 Ond bythoedd nis dihunodd ef.
 Fe lyfai 'i ddwylaw yn ddi-baid
 Ond eira angau yn eu hoeri gaid.
 Deallodd y creadur tlawd
 Ei fod heb gyfaill, câr, na brawd ;
 Ac wrth ei draed, mewn hiraeth llwyr
 Bu yntau farw cyn yr hwyr.

 ECHRYSLONRWYDD RHYFEL.

MAE 'r frwydyr drosodd, a'i tharanau hy
 Yn tawel ddarfod ar y nefoedd fry ;
 Gwanhau, gwanhau ceir twrf y fagnel bell
 Ar hyd ymylon yr olygfa hell.
 Ac ambell belen dros yr wybren flin
 Fesura arwydd prif drueni dyn

Ar linell erchyll o ddifaol dân,
A ddeifia 'r cwmwl teg fel rhol o wlan.

I ble yr ei, O filwr blin dy wedd?
Yn ofer yma chwili di am *fedd!*
Gorwedda i lawr, a'i ddryll o dan ei ben,
A thry ei olwg olaf tua 'r nen,
Ac nid oes neb yn dyfod! Cwyd ei law—
A! nid oes yna onid gwynt a gwlaw;
A thyn hi 'n ol, a gesyd hi yn brudd
I dwymno ar ei galon mwyach sydd
Ar oeri yn dragwyddol. Yn ei fron
A'i gwaed a'i dyfnion glwyfau cuddia hon.

“Pa beth a wnaethum fel yr haeddwn hyn?”
Ymgwyna 'n brudd a'i waed o'i gylch yn llyn,
A'i aelïau 'n rhuddwawr gan y marwol li,
A'i oll yn gwaedu ar allorau bri
Ei fywyd, a'i drefniadau teg i gyd,
A'i fyrdd gobeithion yn un aberth drud,
A diagwylïadau teulu cyfan mwy
Yn pruddaidd edrych ar ei farwol glwy,
Ac yna ar eu bedd tragwyddol hwy.

“Pa beth a fu fy mhechod fel y'm caed
Yn gorwedd yn y diwedd yn fy ngwaed,
Ymhell o dŷ fy nhad, a'm priod wiw
Aml fôr a maith gyfandir o fy nghlyw?”
Bydd dawl, Filwr! Rho dy farwol faich
I huno ar gydwybod fel ar fraich,
Yr unig fraich a feiddia wthio 'i hun
Rhwnng bydoedd ereill a siomedig ddyn.
Tu draw i lawer môr y trigant hwy
Y gofyn lawnder ganddynt waed dy glwy.
O fewn eich llysoedd, dedwydd ydych chwi,
Sy 'n dwyn y camwedd dan yr enw bri,
Eich glythoedd esmwyth tynnwch at y tân,
A chyda 'r offer per tarewch y gân,
A'r cauadlenni o borfforaidd wawr
Gollyngwch dros y ffenestr amlïw fawr,
A hongier pennaf ysplanderau 'r byd
O'ch amgylch, arwyddluniau rhwysg i gyd.
A! syniwch rywbeth am y dyrfa fawr
Sy 'n gorwedd heno ar y rhewllyd lawr,
Yn tawel farw yn eu gwisgoedd gwaed,
Heb ond y graig ddeifedig dan eu traed,

A gwyntoedd nef yn gwywo dan eu cwyn,
 Heb seren fry a ddeffry er eu mwyn,
 Anfonedigion eich uchelfryd chwi,
 Eich cyflogedig weision, feibion bri.

Pwy roes y Rhyfel, beiriant erch, ar waith ?
 Ac ym mha le y gwnaed y farwol raith,
 A phwy a'i seliodd hi ? Tyrd yma, gwel
 A yw y lladdfa hon yn dwyn dy sel ;
 Derbynia 'th ran o'r gwaed—dy ran o bwys
 Y barnol faich a'r cyfrifoldeb dwys.

Y gwirion Filwr ! Pam buasit ti
 Yn teimlo digter at yr estron du
 Na welaist wawr ei wyneb hyd y dydd
 Y cyfarfuoeh dan y gawod rudd—
 Y gawod waed a leidiai 'r cadfaes prudd ?
 Paham y chwyddai gorfyn fynwes un
 Ar ol pob aberth ac ymdrechfa flin
 Na feiddia edrych goruwch bedd di-faen
 Na allai cariad fyth, er rhodio 'n ol a blaen,
 Ei nodi ar y ddiolfrydig waen—
 Na meithrin gobaith gael ei enwi mwy,
 Na bod am ennyd y tu faes i'w glwy,
 Na disgwyl yn y diwedd awr o hedd
 I estyn i law cyfaill ddim a fedd—
 Dim cymaint ar ei ol a darn o gledd !
 O, am ba beth gadawai ef ei wlad
 A'i deulu hoff, ei nefoedd o fwynhad,
 A swynion cariad ar ei ol i gyd,
 A'r hon sydd iddo ef yn fwy na 'r byd ?
 Gadewch ef yma ; mae ei blentyn mad
 Yn dechreu per-feistrolï 'r enw " tad ;"
 Y mae gobeithion ei foreuddydd gynt
 Yn troi 'n sylweddau am ei lawen hynt,
 Per freuddwyd mebyd am ddedwyddwch pell
 Yn torri gyda rhagluniaethau gwell,
 Gan euro cylchoedd bywyd bob yr un,
 A'i wisgo oll a dymunoldeb cun :
 Gadewch ef yma. Na ! mae rhaith y llys,
 A chanmil lleisiau 'r wlad yn gofyn brys,
 Mae 'r offer erch yn barod ar bob llaw,
 A'r llongau 'n aros yn y porthladd draw ;
 Dos ymaith, was y miloedd, myned raid ;
 Ac os na ddeui 'n ol, nef Duw ! fe ddaw dy waed.

Mor hyf a gorwych gynau oedd ei wedd!
 Fe godai gyda 'r wawr fel herodr sedd
 A'i wisg yn llachar oll, a'i fron ar dân
 Gan farwol nwyfiant y filwrol gân.
 Paham oedd raid ei wisgo â'r fath wawr
 I'w ddenu ymaith tua 'r lladdfa fawr,
 A throi ei fynwes gan ysplander drud
 Yn fflam o rwysgedd, tua maes y llid,
 A boddi ei feddyliau ar ei awr
 Ddiweddaf byth, yn nhonnau 'r gydgerdd fawr?
 Fel hyn y barnwyd y buasai ef
 Gymhwysaf i wynebu 'r ymdrech gref—
 Gymhwysaf i anghofio 'i hun a'r nef.
 A! degan anwybodaeth! Sylli di
 Ar fellt dy gleddyf, ar dy wisg o fri,
 Ac ar allanol addurniadau'th radd,
 A'th newydd arf, y borau cyn dy ladd?
 Dwed, onid wyt yn teimlo fod dy wlad,
 A'th filoedd brodyr yn ei broydd mât,
 I gyd i'r milwr yn garedig iawn,
 Ei wisgo megys â disgleirder nawn?
 A! ateb ini heno pan y bydd
 Yr oll yn nofio ar y tonnau rhudd.

Tri ugain mil! ardderchog oedd eu gwedd!
 Gallasai 'r nen oleuo ar eu cledd
 Ei huchaf res o fellt, a'r gwawrddydd pell
 Droï yn ei ol o flaen y borau gwell
 A ffurfid â'u hysplander hwynt ar hyd
 Y bryniau crynol o symudol bryd.
 Gallasai 'r nefoedd ddal eu hun fel drych
 Goruwch y fath ddisgleirder maith a gwyach.
 Ond braidd y cred Marwolaeth erbyn hyn
 Mai ef a biau anrhaith ael y bryn!
 O! echryslonrwydd Rhyfel! Gormod yw
 I ysbryd barn ei hun ac angeu gwyw.
 Nesha y bedd yn araf! Cymer hwy
 I eigion mawr o hedd ar unwaith mwy,
 Fel un a ofnai rifo 'r yspail maith—
 A ofnai feddwl am ei erchyll waith.

Gorwedda y trueni erch a maith
 Ymhell tu allan i holl gylchoedd iaith.
 Fel ambell uchder o ogoniant ter,
 Fel dwyfol fraich a groga dros y ser;

Fel ambell feddwl o gerubaidd bryd,
 A gerdd ymylon y tragwyddol fyd,
 Nas gellir ond eu gweld a'u synio 'n fud
 Mewn enaid-ddynder yn y mewdol fyd,
 Lle y mae geiriau a phob cysgod sydd
 Yn bythol ddarfod yn y dwyfol ddydd;
 O, felly y ceir ambell annwfn dru,
 Ac ambell eigion o erchyllrwydd du,
 Arswydol olygfeydd o wywdra maith,
 Rhy bell, rhy ddyfnion byth i blymiad iaith.
 O'r braidd y gall y meddwl noeth ei hun
 Ymddal ar ymyl y gwelediad blin.
 Mae'r storm o waed yn gyrru ieithoedd byd
 Dan graig distawrwydd yn dragwyddol fud.
 Dod am dy galon dyner, fron o ddur,
 A selia 'n awr ffynhonnau 'th deimlad pur,
 A bydd yn hyf i rydio'r llynnoedd gwaed,
 A chlwyfo rhai bob ennyd dan dy draed,
 A thyred gyda mi i faes y llid,
 Fel bronnau uffern sydd yn waed i gyd,
 Y gallai hon ei wisgo ef i gyd
 Ger bron ei theyrn ellyllig, fel ei gwrid.
 Mil ar ol mil o glwyfedigion gwel,
 Bob un yn dal ei law lle mae y bel
 Neu'r farwol saeth, neu ddarn y cleddyf dur
 A dorrwyd, dorrwyd yn y galon bur.
 Rho imi ddiosg fy hanfodol hun,
 Dduw'r nefoedd! na âd imi fod yn ddyn,
 A gweled y fath fôr o wae, bob ton
 Yn llanw calon wag, ryw isel fron
 A draethwyd* i bob gwae yr ennyd hon.
 Na chlywer ynnof gur fy nghalon lawn,
 Sy'n curo fel wrth ddôr tragwyddol iawn.
 Ac O! na chofiwyl uwch y lladdfa hon
 Fod ffynnon o dynerwch dan fy mron,
 Rhag wylo fy modolaeth ffwrdd i gyd
 Mewn deigrin erfawr allai godi'r byd.
 A! dyma ddrych i ellyll ddal ei hun
 Heb grynu yn ei wydd; ac eto, dyn
 A gawn wrth wraidd yr holl welediad blin.
 Ar hyd y brif-ffordd cyfarfyddwn hwy,
 Dorfeydd o ffoaduriaid dan eu clwy,
 Rhai'n siglo a rhegfeydd gynteddau'r bedd,

* *Shored*—Traeth, traethu.

Ac ambell un yn cwympto ar ei gledd,—
 Rhai 'n gyrru ar eu gwaed-liwiedig feirch,
 A rhai bob tu yn glynu wrth y seirch,—
 Rhai 'n rhwygo 'u gwaedlyd wisg i gau y clwy,
 Neu mewn gwallgofrwydd yn ei ledu 'n fwy,—
 Rhai 'n torri yr angeuol bel o'u traed,
 Ac ambell un ar weddi yn ei waed.

Tyrd eto 'mlaen, pell yw y cadfaes prudd,
 A theithio raid dros lawer milldir rudd;
 Men ar ol men o feirwon ddaw ymlaen,
 A llawer magnel fawr, prif beiriant brad,
 A yr yn ol, yn mygu oll i'r gâd.
 Y storom bylor donna las y nef,
 A'r wybren droir gan ei sawyr ef.
 Ai dyma 'r pentref teg a welsai 'r wawr
 Fel bron o wynfa yn gwyl-wynnu 'r llawr?
 Tyrd, eistedd arni, a bydd fawr a llon,
 Ogoniant! eistedd ar y garnedd hon,
 A thorf o weddwon ac amddifaid syn
 O'th amgyleh ar y cerig oerion hyn,
 A llu o blant yn llefain ar eu tad
 Yn noethion hyd eu henaid—mamau mad
 Yn troi yn wallgof byth o faes y gâd.
 Ogoniant! eistedd yma fyth, a'th draed
 Yn gorffwys ar geuledig faine o waed,
 A doed y byd i'th weled ar dy faine,
 A'r oesoedd heibio â chlodforol gaine.

Pa fodd yr awn? Y mae y meirw yn cau
 Y brif-ffordd fawr, a'r gwaed yn gorddyfnhau;
 Ymgolla 'r llwybyr draw mewn tref o dân,
 A môr o fwg yr dros y nefol drân.
 Fel gwlad o farwor ar y gwynias lawr
 Y gorwedd mwy y goedwig eang fawr.
 Rhaid troi o amgyleh hyd y meusydd gwyw,
 A aml aml rychir gan y ffrydiau byw.

Dewch, dewch, drueiniaid gweddwon, gyda ni,
 Blant hanner noethion, a chwirydd cu,
 A'r nefoedd rhwygweh â'ch alaethus lef,
 Ac os na chlyw y byd, fe glyw, fe gofia 'r nef.

O, faes y lladdedigion! Mor eang ac mor faith!
 Barn! onid mwy na digon gwlad gyfan i'r fath waith!
 Ofnadwy 'r golygfaoedd mewn un prydawn a wnaed,
 Mynyddoedd ar fynyddoedd o wywdra ac o waed.

Agorwyd pyrth marwolaeth oll fel i dderbyn byd,
 A thafodd colledigaeth ei ragbyrth fwrdd i gyd.
 Ei ragarwyddion araf, nych ysbryd, gwaeledd gwedd,
 Sydd yn rhybuddio 'r tlotaf o agoshad y bedd.
 Fel â llifeiriaint sydyn eu torrwyd oll i lawr,
 Disymwth daeth y gelyn, fel nos ar draeth y wawr.
 I mewn y daeth fel afon, fel pe y troesid byd
 O flaen ei farnau dyfnion yn adwy fawr i gyd.
 Pell gadwyn o ddyffrynnoedd a daenwyd mewn un dydd
 O amgylch i'w heithafoedd yn wely i ddistryw rhudd.
 I'r ellyll mawr ymorwedd aml ddyfnder erch mewn gwaed,
 Neu edrych yn ei fawredd trwy 'r niwloedd rhudd a wnaed.

O am luniedydd ffyddlon, a dynnai 'r drych di-wawr,
 Hyd at y byw a'r galon, a hongia i maes yn awr,
 A barai weld yr aelod ar ol ei gado 'n wyw—
 Braich gref—draw ar y gwaelod yn crynu, ac eto 'n fyw,—
 A allai dafu 'i chryndod, fel bywyd, ar ei len—
 Barasai i lawer syndod, fuasai gynt mor wen—
 Nes peri i tithau 'i chanfod yn duo hyd y gwaed,
 Tra llun rhyw gadfarch uchod ar ddisgyn arni â'i draed.
 O am luniedydd uchel a dynnai ar ei len
Wirionedd erchyll Rhyfel, A, nid y rhwysgfawr ben
 Yn gyrru heibio 'r rhesau, gan floeddio, hardd a gwych;
 Ac nid y llachar rengau yn goroleuo 'r drych,
 Ac nid "y tro ysplenydd," a'r gwych wrolwaith draw,
 Ac nid y rhuthr dieilfydd er clwyfau bron a llaw,—
 Ond tyfol fryniau 'r meirwon, a'r byth-lydanol ddrych
 Ar grugiau y marchogion, dan ddrylliau 'r harnais gwych,
 A gobaith mil o weddwon yn cwympo ar bob awr,
 A'u cyfaill mwyaf ffyddlon yn gwingo ar y llawr;
 Ac er ei ddiaelodi, a'i roi dan fôr o draed,
 Y fagnel yn ei nodi, ac yntau yn ei waed
 Yn gwaeddi ar greulondeb, ar ddistryw, byd a nef,
 A'r belen dân yn ateb i mewn i'w galon ef.
 Hyn yw gwirionedd Rhyfel, ac O, na cherfid ef
 Yn nyfnaf liwiau 'r gorwel a bythol wawr y nef,
 Pe y goddefai 'r nefoedd i'r gwae-ddarluniol bin
 Gael yn eu dwyfol wawroedd ei drochi fyth i hyn.
 Na roed y bywyd-luniau i blaid y frwydyr fawr,
 Gyferbyn â'u calonnau i hongian onid awr.

Aroswech, nentydd, ar y bryniau draw!
 Mae eisiau eich gwelyau ar bob llaw
 I'r ffrydiau cyfoethocach. Seren glaer,
 Paid dithau godi y wahanlen aur

Na gollwng dydd y nefoedd. Mae y byd
Yn gorfoleddu yn y dyfnach gwrid—
Y gwawr o waed—gwyd i'w goleuo hwy
I araul fryniau anfarwoldeb mwy.

O, echryslonrwydd Rhyfel! Pennaf prawf
I'n golwg mwy ar donnau 'r gerdd a nawf.—
Rhy erchyll yw ei faes taranol ef
I gennad cariad, cennad gras y nef,
Hedd-gennad y graslonaf Iesu, ddod
O fewn ei gylch â geiriau 'r dwyfol Fod.
Efe a welir yn y farnol gell
Yn dysgu 'r euog am y ffordd sy well;
Ar hyd ymylon holl ddyfnderoedd gwae,
Eigionau pechod, ac arferion gau,
A gyfarfyddir yn ei swydd o hedd
Yn rhodio fyth, gan drwsio ar y bedd
Lamp anfarwoldeb, a rhoi gair y nef
I losgi yn ei borth tywyllaf ef;
Yr hwn sy 'n cynrychioli gras yr Ior,
A rhad ei weinidogaeth fel y môr,
Yn dal agorion yr anfarwol fyd,
A hedd-lythyrau gorsedd Ior i gyd;
Yr hwn sy 'n rhoi i'r galon dduaf wnaed
Ryw fywyd arall byth â dwyfol waed,
Gan droi y cwmwl oddiar dynged dyn,
A bryniau 'i dragwyddoldeb:—Ryfel blin!
Ni faidd efe neshau o fewn dy drân—
Dy amgylch o daranau ac o dân.

O, rhodder in' heno nos ddyfnaf y nef,
Ym mhyrth y cymylau mae 'r dymhestl gref
Yn aros i'w harwain i lawr ar y byd,
A gyrru o fynwes y nefoedd i gyd
Adgofion y gâd â'i tharanau ei hun,
A chipio adseiniau y rhyfel rhy flin
Rhag cyrraedd o honynt orseddfaine yr Ior,
Rhag wylo o amser ei ddeigryn—y môr.

Draw hongier y nos goruwch bryniau y llid,
Holl arled y nefoedd, fel elor wisg byd.
Rhy erchyll y gwae i welediad y ser,
Cenhadau bytholfyd, claer dystion ein Ner;
A, llawer golygfa o bechod a llid
Ddaliasant cyn yma yn ddistaw a mud!

O ffenestr oruchaf y nefoedd, a saf
 Gyferbyn â gorsedd dragwyddol eu Naf,
 Ugeinmil o weithiau syllasant i lawr
 Ar lawer golygfa ofnadwy ei gwawr;
 Ond trwy y cymylau a'u holltau di-wawr
 Ni feiddia un seren ymddangos yn awr.
 Cyfiawnder ei ser-ddiffoddiadur a ddyd
 Ar lampau y nefoedd goruwch y fath fyd.
 A oes yr un angel y nos erchyll hon
 Yn cyffwrdd y ddaear, fel awel y don?
 Mae oriau ar fyd pan y cyfyd y nen
 Ei ser a'i hangylion tu acw i'r llen,
 Heb ado ond pechod a barnau a llid
 I lanw ffordd amser a llywio y byd.

Ac nid yw hyn, yr oll o'n hamgylch sydd,
 Ond porth y gwae a'r ymddifadrwydd fydd.
 Ehed yr haul dros lawer blwyddyn faith,
 A phasia genedlaethau yn ei daith
 Cyn colli golwg ar effeithiau prudd,
 A chanlyniadau yr echryslawn ddydd.
 Fe daen cysgodion y mynyddoedd hyn
 Dros haul cenhedlaeth arall. Codir llyn
 Y gwaed ym Gronawl hwn a'i donnau rhudd
 A lawer cafod lawn, ry lawn o ddaegrau 'r prudd.

Ehed y newydd gyda brys y wawr:
 O, famau pell, ymddifaid fil yn awr,
 Ymbarotowch, bob calon unig lom,
 I dderbyn mwyach nos dragwyddol siom.
 O, bydded braich rhyw angel tyner mwy
 O dan eu henaid pan y teimlont hwy
 Eu holl ategion a'u daearol hedd
 Yn cwmpo amgylch-ogylich hyd y bedd;
 Tra lleufer tanbaid dros y wlad a'r dref
 Gan ysbryd Rhyfel, fel pe mynnai ef
 Roi golau i'r ymddifaid weld eu clwy,
 A lamp i'r weddw uwch eu beddau mwy.

Clyw wyfrau 'r pellebyr ar gryndod i gyd,
 Fel pe y trosglwyddai air olaf y byd,
 A'r olaf air glywir gan lawer a fydd
 Yr olaf ddeallir hyd derfyn eu dydd.
 Fellt! fellt! pam eich gwlychir yn nhonnau y môr,
 Rhai fry a oleuech genhadau yr Ior,

A'r engyl-osgorddion mor danbaid a gaed
 Yn rhodio y nefoedd tra bydoedd dan draed ?
 Paham y dadguddiwyd yr ysgol i ddyn
 Sy 'n dringo 'r cymylau a'r storom ei hun,
 Y rhoed i'w wialen a'i arch eiddil ef
 Wahanu 'n dragywydd fôr asur y nef,
 Nes rhodiai i ochr y duwiau a'r haul
 A thramwy fel angel y melltharth di-draul ?
 Ai nid oedd o'r blaen ddigonolrwydd rhy fawr
 O ffyrdd i newyddion ar fyd mor ddi-wawr ?
 Gweddusach oech chwi i newyddion y nen,
 A'r ddwyfol ohebiaeth tu acw i'r llen,
 Tu draw i'r wahanlen gymylau a ddyd
 Iehofa yn blygion o amgylch y byd,
 Na faidd ond yr haul ar orseddfainc y nawn
 Ei throi hi o'r neilldu, neu 'r dymhestl lawn.

Paham mor awyddus, wrolion y gad,
 I anfon ond enw y bachgen i'w dad ?
 Ai nid oes ond aden y fellten a wna ?
 Ust, ust, a oes allu o'r nefoedd a â !
 Mae llong yn yr hafn yn aros y gwynt—
 Rhy araf ei hwyliad, rhy hirfaith ei hynt !
 O, gallai 'r amddifad fwynhau llawer hun
 Tra byddai hi 'n aros yr awel a'r hin,
 A gallai obeithio aml fore a hwyr,—
 " Caf ledu y bwrdd iddo eto, pwy ŵyr !"
 A gwelid cymylau a gwenau o hedd
 O'i chalon newidiol yn lliwio ei gwedd ;
 Na ! lleibier ffynhonnau ei bywyd mewn awr,
 A gwywed mewn eiliad ei gweddi a'i gwawr,
 A rhoer yr elorwisg i lawr ar y bwrdd
 Cyn byddo y wawr a'i gwên decach yn cwrdd.
 Ewch ynte, fellt buain, a thorred y dydd
 Ar fyrdd o aelwydydd bedd-oerion a phrudd.
 Arloeswch y llwybyr dros fynydd a dôl
 I'r daran a'r Duw sydd i ddyfod ar ol.

Gwlyb yw y borau, rian lon,
 Bydd dawel ger yr aelwyd hon.
 Y mae y ffordd yn oer a llaith,
 Bydd hapus heddyw gyda 'th waith,
 A chân y dôn y carech chwi
 Ar oriau per ei harfer hi,
 Pan fyddai 'r haul o dan y don,

A natur oll—oll fel un dyner fron,
 A chysgod y mynyddoedd pell
 Yn disgyn fel o fydoedd gwell.

Clych ar ol clych—bydd dawl! Erfawr lu
 Yn llenwi yr ystrydoedd ar bob tu!
 Y mae dy galon lawn fel ton,
 Yn codi ac yn chwyddo 'r fron,
 Na ddylai chwyddo ond i dderbyn
 Gorffwysiad angel teg gyferbyn.
 Dos ynte allan gyda 'r llu.

Yng nghysgod hwyr fe 'i gwelwyd hi
 Yn dychwel dan dragwyddol glwy,
 Byth byth ni rodiodd allan mwy.

Dyneraf nefoedd! er pob gwae a llid
 Gawn yn ymhongian bythoedd dros y byd,
 Ac yn cofieidio 'i gaerau a'i wag rodres,
 Gan guddio ei fynyddoedd yn eich mynwes—
 Ai hyn sydd i barhau? Dywedwch chwi,
 Sy 'n gweld y pell a'r dwyfol ar bob tu,
 Ai nid oes seren o addewid lon
 Yn tramwy draw ar flaen y blaned hon,
 Gan ddisgwyl am ei hadeg? Onid oes
 Ar fryniau amser, er y gwyntoedd croes,
 Ryw lamp aniffoddedig, arwydd gwan
 O ddyddiau gwell a heddwoch yn y man?
 Y mae y ser yn edrych ar y byd,
 Yn para i'w ofwyo ef i gyd,
 Fel pe bai ganddynt eto feddwl mawr
 I'w sylweddoli ar y bel ddi-wawr,
 Ac fel pe byddent yn ei wyllo ef,
 I ryw ddibenion gwell, dros Dduw a'r nef.

A welwyd Duw yn rhodio trwy y byd,
 Yn unig ac yn addfwyn ac yn fud,
 Ar ymdrech anghydmarol i'w leshau
 A'i ddwyn i fyny o gysgodion gwae,
 A'i seilio ef goruwch y ser ryw bryd
 Fel gorsedd ei ogoniant uwch pob byd?
 A dafwyd dros ei Dduwdod wisg o gnawd,
 A droes efe euogrwydd gwae a gwawd
 Holl faich y byd, fel diffyg, drosto 'i hun,
 Yn unig i oleuo tynged dyn,
 A throi ei dragwyddoldeb tywyll ef
 Yn ddydd didertyn dros uchderau 'r nef?

A fu ei chwys fel dyferynau drud—
 Fel dyferynau gwaed uwchben y byd ?
 Ac O, ai hyn yw ffrwyth yr ymdrech flin,
 Ai dyma 'r oll a syrth i ran pryndedig ddyn !

Prysur a ymlaen yn dy rod, y blaned dywyllaf dy wawr,
 Mae oesoedd dedwyddach yn dod, a'u borau yn nesu bob awr.
 O ganol myrddiynau y ser dewisodd y nefoedd dydi
 Yn gartref i gariad eu Ner, a'i radau anfeidrol eu rhi.

Fe roddodd ei fywyd cyn hyn ar riwiau llifeiriol y gwaed,
 A rhuddwyd uchelion y bryn o'r rhychau ofnadwy a wnaed ;
 Bu ddirfawr ei bryniad ar bren ; gwneir, gwneir, fe derfynir
 Fe fythol symudir y llen orchuddiai ddyfodol y byd. [y llid ;

O forau hapusaf i ddyn ! a ddygwyd i mewn gyda llef
 Angylion y wynfa ei hun a seren ddiweddaf y nef,
 Y seren a gododd mor dêr i arwain y bywyd i'r byd,
 A aeth i orffwysfa y ser 'rol awr o wasanaeth mor ddrud.

Fe dorrodd y wawr gyda hon—y wawr sydd yn gofyn y byd
 A'i holl hanesyddiaeth o'r bron i dorri ar hyd-ddo i gyd,
 Nes byddo ei borau yn llawn, a'r tragwyddoldeb a fydd
 Yn agor i dderbyn ei nawn—i dderbyn cyflawnder ei dydd.

Bu ryfedd i engyl y nef eu galw uwchben y fath fyd,
 I chwyddo y gân ag un llef, fod Brenin o hedd yn ei gryd ;
 Fod eto ar ol yr holl wae, rhyfeloedd yr oesoedd a'u llid,
 Rhyw faner o hedd yn neshau, y deyrnas sy 'n gariad i gyd.

Tad tragwyddoldeb a ddaeth yn faban eiddilaf ei lun,
 A gwisgo ein natur a wnaeth, fel arwydd cyfamod â dyn,
 Fel arwydd tragwyddol o hedd, o'i fwriad i uno y byd
 A'r bydoedd tu acw i'r bedd, yn deyrnas o gariad i gyd.

Jerusalem ! O, ryfedd fu dy ran,
 Ei dderbyn ef â thyner lef i'r lan ;
 Rhyfeddol fu dy fraint, goruwch pob gwyrth,
 Gael agor i dywysog nef dy byrth,—
 Tywysog bywyd a thragwyddol hedd,
 Yr oedd graslondeb yn tyneru 'i wedd,
 A dagrau o deimladrwydd ar ei rudd,
 Yn fwy na 'r nefoedd oll, ac eto 'n brudd !
 Ogoniant ! dywed ar ba fainc o aur
 Eisteddaist ti mor ddwyfol ac mor glaer
 Ag ar yr ebol hwnnw ? Nid oes draw
 Ond cangen lawn o flodau ymhob llaw ;
 Na chawell saethau mwy, na chleddyf blin,

Na chalon ga ddioddef onid un ;
 Na baner ond a gyfyd Ior ei hun
 Am dano 'i hunan mwyach, natur dyn !
 Ferch Sion, cân ! Dywedwch wrthi hi,
 Fynyddoedd santaidd draw, a'r nefoedd fry,—
 "Dy frenin sydd yn dyfod, lyw y nef,
 A'i deyrnas o dangnefedd gydag ef.
 Y mae yn addfwyn, a'i orseddfaine gun,
 A'i gallu a'i sylfeini ynddo 'i hun,
 A'r oll o'r gwaed ollyngir dros ei sedd,
 Ei galon ddofn ei hun—ei hun a'i medd.
 Tywysog heddwch yw, ac iddo ef
 Y rhoed y byd a gorsedd fawr y nef.
 Fe ddygir gwledydd a phegynau 'r byd
 I droi o fewn ei deyrnas ef i gyd."
 Dywedwch, addewidion dyfnion Duw,
 Pa bryd y daw pob cenedl a phob rhyw
 O dan ei ddwyfol faner ? O, pa bryd
 Y daw y borau yr agora 'r byd
 Byrth y cenhedloedd iddo fel y gwnaeth
 Jerusalem gynt ar ei brydol daith ;
 Fe ferchyg ar y nefoedd aur yn awr,
 A dwg y nefoedd gydag ef i lawr.
 Dydd mawr y diarfogiad dros y byd—
 Dydd troad arfau rhyfel gau i gyd
 Yn offerynau hedd—fe ddaw, fe ddaw,
 A chwydd o gariad gwyd y nefoedd draw.

Ar derfyn pob dydd o ryfeloedd a chât,
 Pob erchyll brydnawn o orthrymder a brad,
 Fe glywodd y nefoedd ar derfyn y dydd
 Ochenaid yr haul dros y tonnau pell rhudd,
 Pan gydocheneidiai â'r bryniau a'r môr
 Am jubili natur a meibion yr Ior,
 Pan gyfyd gweithredoedd ardderchog ei law
 Yn rhyddion a phur ar y nefoedd gwell draw,
 O'r fflam a gyneuir ar orsedd eu Ner—
 Y fflam a all newid y ddaear a'r ser,
 A llosgi y byd hyd y dyfnder y daeth
 Pla pechod hyd ato gan ddifa 'i holl waith ;
 Pan na cha yr huan oleuo un byd
 Ond fyddo yn deml i'r Anfeidrol i gyd,
 Na disgwyl yn brudd am y fachludol awr,
 Na theimlo un pryder i ddilyn y wawr.
 Dileir terfynau teyrnasoedd y byd,

A bydd fel y nef yn agored i gyd
 I santaidd eneidiau, angylion, a Duw,
 Ei dramwy o amgylch fel un wynfa wiw.
 Cyd-toddir y cyfan i'r deyrnas o hedd
 A daen hyd y bydoedd tu acw i'r bedd.
 Terfynau marwolaeth ofnadwy ei hun
 Ni welir yn atal tramwyad y dyn ;
 Fe gerdd lle y mynno yn nheyrnas ei Dduw,
 Y deyrnas a una bob ansawdd a rhyw.
 Bydd newydd y ddaear, a newydd y nef
 O dan ei lywodraeth a'i luman hael ef.
 Teg fwa o oesol gyfamod a ddyd
 Rhwng nefoedd a nefoedd, rhwng byd pell a byd.
 A throir arf-dyroedd y bobloedd bob un
 Yn demlau tawelwch i heddwch ei hun.
 Dinasoedd y ddaear orweddant i gyd
 Ar dangnefeddusrwydd yn dawel eu pryd,
 Heb gaerau o'u hamgylch, heb gysgod bryd hyn
 Ond arlen y nefoedd ac ymyl y bryn.
 A'r ser ni ddihunir ag adsain un llef
 Ond fyddo 'n sancteiddrwydd—yn foliant i'r nef.
 Pob milwr a rydd ei ryfelwraig ar dân
 I ddifa adgofion y rhyfel yn lân,
 A'i arf yn y goelcerth a dawdd hyd y carn,
 A blodau oleuant rudd feusydd y farn.
 A sychir ffynhonnau gelyniaeth i gyd,
 A heddwch a leinw holl oesoedd y byd,
 A lledir y byd dwyfoledig ei wedd
 Fel gwên anherfynol o gariad a hedd.

Dymunol, O, dymunol fel y wawr,
 A'i gwên raslonaf ar ei thyner awr,
 Dymunol fel paradwys fydd dy wedd,
 Grwydredig fyd, pan lif banerau hedd
 Ar hyd dy fryniau oll, a rhandir du y bedd.
 Fe ga y rhian aros byth, a bod
 Ar fraich ei dewisedig, heb i glod—
 Y clod sy 'n byw ar waed a distryw rhudd—
 Ddwyn mwy y dafnau bedd-oer ar ei grudd.
 A daw yr hwyl i mewn i'r aber tawel
 Yn bur a thangnefeddol fel ei hawel.
 Brenhiniaeth heddwch gyda gallu ddaw,
 A'i seren well i ddyfnder Affrig draw ;
 Gwedd natur a'i theyrnasoedd is i gyd
 A ail ddychwelir gyda Phen y byd.

Y GENHADAETH GRISTIONOGOL.

L

"Yng nghyflawnder yr amser."

BETHLEHEM, bytholai hi—ei seren
 A fu siriol arni ;
 Rhyfeddol wawr fu iddi
 Gwedi nos—"Duw gyda ni."

Ac yno 'n gyflawn canwyd—ei thestyn,
 A'i thystiawl lu welwyd
 Yn y wawr a gain eurwyd
 A'u cyrhaedd-bell linell lwyd.

Y dyner addewid a'n rhyddhaodd
 Yn rhin yr heddwch i'n rhan arwyddodd
 Forau y ddaear, pan erfawr dduodd
 Ac am olau ein ffawd y cymylodd ;
 O dir ei wenau Duw a'i harweiniodd,
 Heibio yr oesau yn ei law brysiodd,
 Ar lun Naf yma safodd,—deg derfyn !
 Yn nelw y Duwddyn ei niwl a doddodd.

A'r brid addewid, bêr ddydd,
 Oedd Dduw, y mawr Addawydd.

Duw y goleuni ar deg olyniaeth
 Y Nef-Benadur yn faban odiaeth,—
 Ei dawel eni, gâr dielyniaeth,
 I'w hynaws yrfa o fynwes arfaeth,—
 Camp Duwdod cwmpawd helaeth—ei gariad
 O enwog fwriad, ar iawn gyfeiriaeth.

Newydd anwylaf ! Pa ddawn ehelaeth
 Gawn i ehedeg â'r bêr Genhadaeth
 I'r bellaf oror ! Pwy ga'r flaenoriaeth
 O agor dôr y fawr iachawdwriaeth,
 Taro y dôn, dwyn trydaniaeth—bywyd,
 Y newydd i'r byd am lawn ddarbodaeth ?

Os canodd oesau cynnar—draw, weled
 Rhyw olau tiriongar
 Addewid bell i'r ddaear,—dylem ni
 Addoli yn ddialar.

Pwy a gawn at ragddawn rydd
 A dwyfawl dannau Dafydd—
 Gywrain gamp, grynai i gyd
 Ag urddolfawr gerdd eilfyd—
 A ddyd in' y newydd dant
 Yn miloedd graddau 'r moliant?

"Gwelisom ei seren ef yn y Duograin."

Cennad ter yn uchder nen
 Roddes Ior, arwydd seren.
 Dewis swydd duwies iddi
 Wnai Ion wrth ei hanfon hi.
 Dug "y doethion," deg deithiau,
 Liw nos gan ymlawenhau,
 O fryniau y borau ban,
 Gwlad haul a golud dylan,
 A thoriad y wyrth araul
 Y tir y coronir haul—
 Hyd y man caed brawd i minnau—y man
 Bu dymuniad oesau,
 Yn ddyn bach mewn cadachau—gan forwyn
 Ar fynwes addwyn heb eirf na seddau,
 Heb roesaw yn ei breseb
 Na dôr yn agor gan neb.

Duw yn y cnawd, ein cân yw,—a'r prifnod
 Yng nghlod yr angel ydyw.

Bu dorau y byd arall,
 Eilfyd y bywyd di-ball,
 O ogoniant i wir lwyddiant yr ail Addaf,
 Yn ddifolltau ar golynau o'r aur glanaf,
 I'r angylion i'w rheng olaf—agor
 Ogylech ein byd gwaelaf
 Newydd fawl y drefn ddwyfolaf,—chwarau
 A thelynau 'r Genhadaeth lawnaf.

Gweis oeddynt, negesyddion
 I'r hael genadwri hon.

Y swydd fu urddas iddynt ;
 A'u batheiniau gorau gynt,
 Arwyddion nefol raddau
 Tan glod, ddiogent yn glau,
 Eu gwneyd yn ras-genhadon
 A chôr hedd i ddechreu hon,

I ddwyn y foreugerdd aur
Ar gu nodau 'r Genhadaeth.

Od wylodd un o deulu
Y nef lân, dirionaf lu
Erioed, bu 'n awr—yr adeg
Y daeth dydd cenhadaeth deg
Araeth yr angel eurwawr
Fyth i ben gyda 'r wen wawr.

Galw y cenadon cyntaf.

Aeth yr Iesu, ei thrysor,
Yn y man hyd fin y môr.
A'i addwyn braidd a wahoddodd
I leiaf rai 'r fraint haelaf rodd
O ddwyn goruchel ddoniau—'r Genhadaeth
I heulwawr dalaeth y mêl a'r diliau,
Difyrwaith gras hyd forau—'r eangiad,
Hyd agoriad yr hollfyd i'w gyrrau.

Trwy odiaeth alwad tra eu detholai,
Y laswawr don tra eu glwys ordeiniaï,
Heibio 'r ddwys awel braidd, braidd y suai;
A lais ei lor y nôr ni ymyrrai,
Hyd ei ewyn ymdawai,—i'w eigion
Arian ei lifion o'r niwl a yfai.

“Teyrnas Ion yn ter neshau!”—hyn ydyw
Eu cenhadaeth forau,
Sylwedd y cyntaf seliau—a dorrrwyd,
Nes eu hagorwyd â difloesg eiriau.

Ior a dywynnodd mwy ar eu doniau,
Ac eurodd edyn eu cyrhaeddiadau
A dwyfol danbeidiaf olau—y wyrth!
Oleua hyd engyrth waelod angau.

Ar eu hynt araf tirion y torrai
Dydd y Genhadaeth, a'r “deuddeg” nodai
I ddwyn y deyrnas a sylfaenasai
Hyd olaf oror y wlad lifeiriaï
O laeth a mêl, hen lwythi a'i molai.
Agor ei faner gymodgar fynnai
Yn y syw Ganan, lle y disgynnai
Llawer addewid, fel lloer a ddeuai,

Olau hanerog, a'i rhagflaenorai,
 Ar edyn oesoedd tra y dynesai.
 I'w frodyr e fwriadai—y blaenffrwyth,
 Heibio ei dylwyth o flaen byd elai.

A thrwy egwyl y deg a thrigain—nôd
 Y Genhadaeth firain,
 A lled a gallu ei hadain
 A'i nen i gyd fu'r Ganan gain.

Ei hadenydd gadwynwyd,—ei hodiaeth
 Ehediad gyfyngwyd
 I'r fro gan Ior fawrhawyd—y Seion
 A'i addewidion erioed ddiodwyd.

A chyn agor ei chynhygion—i'r byd,
 A'r bêr lechwedd Seion
 Torrai ei hysbryd tirion—i wyllo
 Am awr y gado a'i môr o gedion;
 Yr awr y rhoddai ei Rhi
 Ryddid y ddaear iddi;
 Byd o faes, heb ado fyth
 Ataliad i'w rhad dilyth,
 Na môr dan ddôr o ddwyrain
 I deneu gwr y don gain.

Gyda'r awel ei golwg a droai
 Tua'r gwledydd pell hwnt, a'r goleudai;
 Glan ar ol glan i'w golwg olynai
 Hyd yr ewynol fôr* draw daranai,—
 Y byd unigol paganol gwynai,
 Heb ar ei eiddiledd un braidd ddaliai,
 I fedd o lennol dwyll ymfoddlonai,
 Heb uwch ei fedd o haeledd a wylai.
 Eu poenau a'u gwaeledd pan y gwelai,
 O'i haddien fynwes y cais ddanfonai,
 Mynych oedd, paham na chai—roi helynt,
 A dwyn iddynt y Gair adnewyddai
 Eu henaid, a'u dihunai
 I fyw byth heb gofio bai.

** Dileu pechod trwy ei aberthu ei hun."*

Neshâi terfyn Seion—y pryd hyn,
 Parod oedd angylion
 Tŷ Dafydd yn toi'i defion,
 Duwiol hil, i adael hon.

A! er ei gwarth ceir ei gwedd
Yn hygar mewn unigedd.

Y Genhadaeth gun oedid,—ei hadeg
O hyd a bellhaid
Gan Dduw, a'r gain addewid
I fyd llawn, nes darfod llid;—

Rhaid oedd i'r nefoedd yn ol
Ei gweddus fri tragwyddol,
Ofyn dros elyn seiliau
A gwir rym i drugarhau,
A chynnyg heddwch union
Ym maith rwysg a grym ei thrôn.

Beiddiai dyn, fel gelyn gau,
Reolaeth Ior a'i hawliau;
A throes, trwy aruthr rysedd,
Ei fryd ar syfilyd y sedd
Dragwyddol, a rheoli
Fel Ior ar ei hadfail hi.

Rhoes le deddfau Ior, i'w nwydau a'u hawenau yn ei wyneb!
Troes o uchder ei gyfiawnder acw, a mwynder y cymundeb
A fwynhâi pan ei galwai, ei dihunai nodau Eden;
Ior ddirmygodd, gwrthryfelodd, a theilyngodd fythol angen.

Ior welodd, barnodd y byd
I boen tragwyddol bennyd.
I'r nef mewn taranau aeth,—am y bai
E fawr enynnai dros ei frenhiniaeth;
Gemai â ser uchder hon,
A chaerai am ei choron;
A'i holl Dduwdod cysgodai
Oesoedd fil ei sedd ddi-fai.

O wydd dyn ei wedd a dodd,
A'i fellt y nef a holltodd
O'i flaen, tra i'w ddwyfawl lys,
Elai â mawredd dilys.

Yn ei holl urdd ni allai
Y nefoedd byth faddeu bai;
Na chodi y pechadur
O'i erch boen yn ei braich bur;

Na dwyn yr enaid annuw
 I addas gymdeithas Duw,
 I fwynhau rheiddiau ei rhad
 A gorwedd yn ei gariad
 A'i heddwedd heb ddiddymhad
 Du ethryb y dieithriad—
 O'i uchel wydd nes sychid
 Ag Iawn llawn eigion y llid.

Cyn anfon cenhadon heddw
 A geiriau o drugaredd
 I'r holl fyd, rhaid rhoi'r llef fawr—
 Ei ddeddf a'r orsedd haeddfawr
 O'r newydd gadarnhawyd,—a'i hawliau
 Uchel, hyd frigau ei chlod fawrygwyd.
 Durym ei holaf daran—ar ddwyfawl
 Ehangiad hollawl ollyngwyd allan.

A phan y caed gwaed a gwerth
 Er ein cadw, rin cydwerth,
 Fel llawn deyrn fe allai'n Duw
 Gynnyg i'r euog annuw
 Lawnaf gymod, a bod byth
 Yn deilwng, yn Ion di-lyth.
 A'i holl genhadon ellynt
 Ar eu nefol oesol hynt
 Arganmol y ddwyfol ddawn,
 A dwyn yr amod uniawn
 Yn hyf, ar dirion ofwy—
 “A Ner cymoder chwi mwy,
 Mewn Iawn mae'n foddllawn i fyd—truanaf
 I'w heddwch haelaf mwyach ddychwelyd.”

Deuai'r ddwyfol fythol fainc—trwy'r iawn mawr
 I'w ras haeddfawr yn danbaid orseddfainc.
 A throid cadernid Duw,
 A myrdd yniau'r mawr-Dduw,
 Ei gyfraith a'i heffaith hi
 A'r lwyddawl reol eiddi,
 Dygid cyfiawnder di-goll,
 Awdurdod y Duwdod oll,—
 Ran odiaeth, yr un adeg
 O du y Genhadaeth deg.

Daeth yr awr ddirfawr i ddwyn
 Y ddeddf gan Oen oedd addfwyn,
 I fyned i galedi
 Diarbed, i'n harbed ni.

Y rhad gâr adawai 'i goron,—aml fawl
 Mil fyrdd o nefolion,
 A Duw 'nghyd, am dynghedion
 Galar y ddaear brudd hon.

O gallai trwy deg ollwng
 Ei holl fawredd rhyfedd rhwng
 Dyn unig â dig ei Dad,
 Ynail nòd ei ddymuniad—
 Dwyn tangnef y nef yn ol,—cymodi
 Duw y goleuni â byd gelydol;
 O gallai hyn ag holl hawl
 A defnyddiau dwfnhaeddawl
 Ei aberth, beiddiai nerthoedd
 Y ddau fyd i gyd ar goedd;
 A! dirmygai drem agwrdd
 Annwfn i gyd, ofnau gwrdd
 Y pennaf olaf elyn,
 A'i rym yn deg, er mwyn dyn.
 Y bai gymerai er mwyn
 Diorchuddio drych addwyn
 Duw mewn hedd ar orsedd rad,
 O fodd am dangnefeddiad,
 Yn deisyf ein dewisiad
 Mwy o drefn y cymod rhad.

Edifeirwch fel Duw fwriodd—o'i wydd,

A'i waed ni ataliodd,
 Ei rin yn gawodydd rodd
 Hyd yr allor a'i drylliodd.
 O'i galon ffyddlon y ffodd
 I'n cadw, pan y cododd
 Ior ei gledd am ryglyddawl
 Aberth o fytholwerth hawl.

Ataliai â chymod di-lyth
 A nodai y Farn â'i waed fyth;
 A grym lawn gor-rwymai hi—wrth “y pren,”
 Gwerth prid ein cymodi!
 Lle gyda 'r gwaed caed yn codi
 Gwell oesoedd a nefoedd i ni.

Amor, O ddydd y cymod,
 Mae Duw, ie Duw, yn dod
 O'r nef i dangnef â dyn,
 Oll yn ol i gôl gelyn.
 Nid gelyn byth! Daw golau
 I lwysol nefol lanhau
 Eto holl faes ei natur,
 Fel y bo yn ddwyfawl bur
 I Dduw roi reiddiau ei ras
 A'i dethol i'w gymdeithas—
 I fyny pan anfonir
 Cenhadon, gweision y gwir,
 I ddinasoedd, ynysau
 Daeuar oll, er diwair hau
 Grasau nef, a groesaw 'n ol
 Elynion afradlonol—
 Cymell y gelyn pellaf
 I ryfedd dangnefedd Naf,
 Ymadael heb amodau
 A'i fuchedd o gamwedd gau,
 Dilyn hedd Duw o lawn nôd,
 Dan obaith ei adnabod
 Fwyfwy, a'i dduwiol fyfyr
 Hyd y bedd roi 'i fywyd byr
 Yn wasanaeth gysonawl
 I Ion fyth, a'i oll yn fawl.

O fan ddiweddaf einioes,
 Galwa ef tua'r gref groes
 Ar unwaith, rym taranol
 Y felldith heb rith ar ol!
 Duon lengau beiau 'r byd
 O'u hoesoedd pellaf esyd
 O flaen ei groes, fel un grym,
 A! nid oedd onid diddym
 I bwys ei lawn llawn, a llif
 Torrawl ei haeddiant dirif.

Darfu byth holl dyrfau barn,
 Eilfyd o anfeidrolfarn
 A ddiffoddwyd, claddwyd cledd,
 Do, olaf arf dialedd.

"A'r ddaear a grynodd."

Acw ar ogwydd y gwelid y creigiau
 A lliidiol wyltedd, â lledawl holltau,

Eres ddifancoll o'u gorseddfenciau,
 Duw Ion a gododd y byd yn gadau,
 Gallu wybrennawg, a llu y bryniau,
 Taran dorfawr, holl natur yn dyrfau,
 I hoeddi allan trwy erfawr ddulliau
 Hawl y Gŵr hynod aml ei goronau,
 Anherfynol uwchddynol haeddiannau
 Y person a waedodd—pris eneidiau!
 Enhuddwyd y mynyddau,—braw a'u tōdd,
 A tharanodd natur o'i thronau.

Y mawr huan fachludai o ganol
 Ei frenhiniaeth; a'r sedd fawr enynnol
 A gaed yn euro brig y don hwyrol,
 Heibio hi tynnai ei gerbyd taniol
 Ar unwaith, a'i lamp grynol—gwnai soddi
 Ei dain oleuni is y don lennol!

Wedi llawn gyrraedd â braich ei haeddiant
 Agorion heddwch, a dwyn gwir noddiant
 Duw a'i holl eiddion o du llwyddiant
 Y Genhadaeth, gwawr odiaeth gwardiant,
 Marw i gynnal ei dramawr ogoniant,
 Beddu ei elyniaeth mewn boddloniant
 A mynnu ei ddymuniant—prynu byd,
 Ei fryd, awr hoff, esyd ar orffwysiant.

Seliwyd y bedd, tra 'i seiliau
 Oeraidd oll yn ymryddhau.

"Nid yw Efe yma."

A! buan y cododd yn Ben-Ceidwad
 Ag eofn nodwedd, heb gyfnewidiad,
 Er ei ddrych hyfawl a'i orddyrchafiad
 A'i eirian goron, yr un ei gariad,
 A'i fore, fore fwriad—galw dynion,
 Fyd o elynion, fod ailuniad—
 Rhyngom mwy trwy 'i angau mad—â'r Barnwr,
 Hedd i droseddwr di-hædd drwy suddiad,
 Hedd tragwydydd trwy gauad—y camwedd
 Yn rhyfedd lawnedd ei fawr foddloniad.

Pa eiriau nodant lawnder Pryniawdwr,
 Dihafal radau dwyfol Waredwr
 Yn codi o'r bedd! Llawn Dangnefeddwr
 Bellach ydyw, a diball Iachawdwr,

Cyflawn o haeddiant, ac O, fel Noddwr
 A braich ei allu uwch pob archollwr,
 Ar hyf luyddion yn orfoleddwr,
 O allu angau yn fawr Ollyngwr!
 Fyd! gwel dy Adgyfodwr—â mawredd
 Goruchaf agwedd mwy na Gorchfygwr.
 Eiriolwr mawr ei hawliau—dry 'n bennaf
 A llais uchelaf, y llys uwch heuliau.

Diodid ein Brawd ydyw
 O'r un cnawd, Brawd i bob rhyw;
 Oruchaf Gyfathrachwr,
 Dyn a Duw ynghyd yn dŵr
 O nawdd i ddynion eiddil
 Helaeth amrywiaeth yr hil.
 Er hyn, o fawr drueni
 Am ei nawdd ni wyddem ni.
 Byd oedd heb wybod heddyw
 Ei ddyfod, a'i fod yn fyw.
 Ei radau trysoredig
 Er yn ddi-drai, ynddo drig;
 A ni yn marw o newyn
 Oll heb wybod darbod hyn.

Efe yn ddyfroedd o fywyd—gloewfawr,
 Heb glaf i gymeryd,
 Neb braidd a godai ei bryd
 Na 'i phiol mewn hoff hewyd.

Y gollfarn wedi 'i barnu
 "Yn y cnawd," a'i dyrnawd du,
 A gweinion fyrdd dan gyni
 Heb wybod ei darfod hi!

"Bach i'r holl fyd."

Dadleniad y Genhadaeth
 A dydd hon o'r diwedd ddaeth.

I'r Olewydd, mynydd ei ddymuniad,
 Ei dyner wyn o dan ei arweiniad
 Gesglid ar ei fwyaf olaf alwad,
 I wrando gair yr hynod agoriad
 Dydd y warediaeth, diwedd ar oediad
 Y Genhadaeth odidog ei nodiad.
 Bu eu santeiddiaf fwynaf glustfeiniad
 I eiriau dedwydd yr awdurdodiad—

“ Ewch allan, allan at bob cynhulliad,
 Bywyd cyhoeddwch, bod y cyhuddiad
 Oesol drosodd, a sail y dyrysiad.
 Heddwch, heddwch, yw y gwahoddiad,
 Maddeuant helaeth, nid moddion taliad ;
 Ar edifeirwch cywir adferiad.”
 Wledd uchel, ail heddychiad !—fod Duw Ion,
 Ie dan goron, i gyd yn gariad.

Nefoedd a'u mael feddai mwy,
 Awdurdod Duw a'i ardwy.
 Brenhiniaeth fawr y nennau,
 Iehofa roes i'w fawrhau,
 Ei tharan drom a'i thrôn draw,—a'i llywiad
 I ddaliad ei ddeheulaw.

O nen y nerth brenhinawl
 Gyrhaeddasai, rhoddai 'r hawl
 I'w anwyl weision weini
 Maeth y Genhadaeth i ni.
 Anfonai hwynt o'i fynwes—
 Y blaenaf o'r uchaf res,
 Ag holl odidawg allu
 Gorsedd o drugaredd gu.
 A rhad Genhadaeth yr hedd
 Eurid â breiniol fawredd ;
 Fel deddf o'r brif orseddfainc,
 Ag hawl o anfeidrawl fainc,
 Hawl i sylw, a theyrnlys Ion
 Yn nodi ei chenhadon ;
 A nodedd brenin iddi,
 Ior a'i nerth i'w harwain hi,
 A barnu, barnu y byd
 A gwarthus fodd a'i gwrthyd.

Rhoddwyd iddo fawreddau—y nefoedd
 Yn afon ddilannau ;
 Llywyddiad gallueddau—teyrnasoedd
 Eitha 'r ynnysoedd, a throion oesau,

Fel y gallai a ddewisai, noddi 'i weision,
 Gwylio drostynt yn eu helynt fel anwylion,

A dwyn pob anghrediniaeth
 I fawr iawn goll, i farn gaeth.

A dal yn Brynwr dilyth,
 A bod i eneidiau byth
 Hyd holl amgylchiadau 'u hynt
 Yn nawdd, yn ddigon iddynt
 I bwyso arno fel Ior,
 Rhag angau ar ei gyngor,
 Nes eu dwyn i'w fynwes deg
 Ar ei edyn ryw adeg ;
 A chael y goruchelion
 Yn ei law, gallu 'r nef lon,
 Ac holl luoedd nefoedd Naf
 Ar ei achos goruchaf,
 A'u hadenydd yn donnau
 Fore a hwyr i'w fawrhau.

Digadwynai ef deg adenydd—hon
 A'i henaid ysplenydd ;
 Gan y nefol ddwyfol ddydd
 Goleuwyd brig Olewydd.

Ar ei adenydd mor eiraid-wynion
 Heibio, o liwgar gyfoethog blygion,
 Eang ei olud, aml ei angylion
 Gwmwl heulog â mawl o awelon
 Chwylai o'r goruchelion,—i fyny
 Esgynnai Iesu a gwên i'w weision.

O gyfaill gwerth ei gofio !
 Hyd y farn rhyw gennad fo
 I ddwyn ar gof ei ddoniau,—a chodi
 Uwchadwyth eneidiau
 I'r oesoedd, ddrych ei rasau
 Ar y groes yn trugarhau.

Dechreu yr Jerusalem.

E fynnai 'n flaenaf annerch
 A'i dal hi i'r genedl erch
 Roesai ei law ar y groes lem !—“Dechreu,
 Agor ei seliau yn y Gaersalem
 Ddaliodd y rhyfedd olwg
 Y duai 'r haul drwy ei wg.
 Ati e droes eto drem,—do obaith
 Eitha gras eilwaith i Gaersalem.

Bu ei hun tra 'n gun gennad
 Drwy ei oes der dros ei Dad,

A! bu yn aml uwch ben hon
 Yn wylo droi yn âlon
 Arddelwyr ei addoliad,
 A'i wadu gan deulu 'i Dad,
 Yn addig gan ei eiddo—O farn lem
 Gael Salem, Salem yn erbyn Seilo!
 Y Salem droesai olwg
 Mal i weld mewn aml i wg
 Ei fawrdd yn llifeiriaw
 Hyd yr oll o'r nefoedd draw!

Eilwaith, eilwaith etholai
 Ei mur fyth er ei mawr fai
 Fel pennaf foreuaf rawd—cylch borau
 I lwys gamau angyles ei gymawd.

O brawf o wiwdeb rhyfedd
 O ras Cenhadaeth yr hedd!
 Archu dwyn ei haddwyn hedd,
 Agorion ei thrugaredd,
 I ddwylaw ei ddialwyr,
 A'i bywyd i waedlyd wŷr:
 Dwyn y gwaed a gaed o'i gur
 O rym i olchi 'r amhur,
 Rin odiaeth anirnadwy,
 A'i haeddiant oll iddynt hwy,
 Er gwynnu 'r euog anhael
 Eilwaith yn ei effaith hael.

Gado pur rin ac ol y gwaed prynol
 Yn llonydd yno, yn llawn haeddiannol,
 I'w heuog enaid, ie o ganol
 Eu drygeddau gael gwledd dragwyddol,
 Llef o Dduw oll-faddeuol,—dedwyddwch,
 Cennad o heddwch, ac iawn dyhuddol,—
 Mawredd hon, moroedd ei hedd,
 Yw 'r achos—ei goruchedd—
 Tua 'r henwlad gan y cariad y tueddiad at ei eiddo,
 Troes ei wyneb i'w creulondeb fel ei ateb nefol eto.

Os cyfrennid hedd a rhyddid, i'r rhai welid, awr ei waeledd,
 Yn ei wawdio, ei gernodio, poeri arno, pa ryw ornedd
 Na faddeuir pan y dygir, y dilennir ei dylanwad
 I baganol fyd truanol, is eilunol oesol leniad?

Estroniaid! os trueni
 Huddai eich holl oesoedd chwi,
 Y byd o anwybodaeth,
 Y borau i'w ddorau ddaeth,
 Borau o radau di-rif;
 Y llyfrau tywyll afrif
 A reswyd gan yr oesoedd,
 A'r farn i dy gyfrif oedd,
 Guddia Naf dan sicraf sel,—maddeu hon
 I wynion a duon â nen dawl.

Maddeuwyd camwedd eon—y Salem,
 Sydd iselaf weithion
 Ei suddiad mewn troseddion,—lawenai
 I'w hoen elai a'i Seilo dan hoelion.

Genhadon minion y môr!
 Eu harosiad â'i thrysor
 Yn y Ganan—gwiw ennyd
 Awr bêr i adferwyr byd
 I orffwys oedd, rhyw hoff saib
 Hyd eu heilswydd, dawl-saib
 I ganu 'n iach i geinion
 A heuliau teg eu gwlad hon,
 I ail-weled ei lled, llif
 Ei diliau mel, a dylif
 Ei bendithion, a'u llonni
 A'i gwledd beraroglau hi—
 Libanus a'i heul-ben ef
 A'i donnau hyd y wiwnef—
 Uchelion Seion a'i sail
 Un oedfa, cyn i'w hadfail
 Reibiau llid ar y bell hynt
 Eu cyrraedd fel swm corwynt.

Oedd awr i dirion ddirwyn
 Oddiam holl weddau mwyn
 Anwyldeb, dymunolder,
 Aml linyrau tidau ter
 Cariad, i'r reddf genhadol
 Am ei nawd eu rhwymo 'n ol.

Taweliad y Genhadaeth
 Cyn llanw o fôr, môr ei maeth,
 Ei Sabbath hi, awr seibiol
 Cyn y maith ddyddwaith o'i hol!

Addewid y Tad.

Acw fel ennyn y fflam y cyflawnwyd
 Yr addewid anwyl a ddisgwyliwyd,
 Yn dân i fewn yr Ysbryd anfonwyd,
 A'i allu a'i oleuni 'r lle lannwyd,
 A'r wyl a anfarwolwyd—i filoedd,
 Bywyd i luoedd heb arbed wlawiwyd.

Newyddfyd o gynheddfau—agorwyd,
 Rhyw gaer fawr o wyrthiau
 Furiodd y faner forau,
 Uchder nef i'w chadarnhau.

Lluddiodd gwyrth arall heddyw
 Wyrth Babel oruchel ryw.
 Yn y nerthol wyrthiol wynt,
 Duw a'i fawl fel dwyfolwynt,
 Teml ieithoedd holl bobloedd byd
 Grynodd gan agor ennyd,
 A'i weision a ddewisynt
 Ei rhiniau oll ar un hynt
 Daliai 'i genhadon dilyth
 Yr allwedd fawr i'w llwydd fyth.

Wele leiaf feibion Galilea
 Yn agor dwyfol gariad Iehofa,
 A'i hoff olud i luoedd Pamphylia,
 Haeddiannol aberth i dduon Lybia,
 Holl esill tywyll Asia,—â didawr
 Eiriau ehedfawr yr unrhyw oedfa.

O ddwysaf gyfaddasiad !
 Ei geiriau byw glyw pob gwlad.
 Iaith epil Ethiopia
 Er mwyn hon ymgrymu wna,
 A rhydd ar allor heddwch—agorion
 Pob gair o ddiddanwch ;
 Dylif o hynod elwch
 Dardd i'w phoethaf lymaf lwch.

I bob gwlad mae 'r cenhadon—yn barod
 Fel y borau tirion
 I'r byd, a'u holl ddarbodion—fel dyfroedd
 A dawn y moroedd yn donnau mawrion.

Eigion ydyw 'r Genhadaeth
 A môr o drysor heb draeth.

Y merthyr cynaf.

Rhaid agor y diwygiad,
 Dwyn i mewn ei doniau mad,
 A dadguddiad egwyddor
 Ei llwydd maith, allwedd ei môr,
 Y newydd rym i'w nawdd roed—
 Y daw cynhaaf dioed
 O waed ei diniweidion,
 A rhyddid o erlid hon.

Iawnwyrth ei Hior ail gwyd ei merthyron
 O wedd eilwaith yn fyd o dduwiolion.
 Ei allu uchel drysora'u llychion
 Fel hadau oloesau mwy dilysion,
 Fel gwanwyn bywyd cyfyd eu cofion,
 Achos Seilo o'u llychau iselion
 Frasheir, lleufer Seion—ymddyrycha,
 Gorymeanga & grym eu hingion.

Duw a arweinia eu gwaed i'r wyneb
 Yn iachawdwriaeth—uched y wireb
 Eu gwaed a wnaed yn wiwdeb,—cadernid
 A gaera wendid er pob gerwindeb.

Ei bore seiliau gawsant bur seliad
 Gan Stephan, a'i hanian fawr ddihuniad.
 A thorrodd ei ferthyriad—er ei mwyn
 Rym y gadwyn rwystrai 'i ymgodiad.
 A beddai ei labyddiad—ragfarnau
 A seliau oesau i'w hisel lysiad.

Mawr lyn, a môr ei haelioni—gloewaf
 A glywyd yn torri,
 A glan ei theg oleuni
 I'n huchel ddawn, chwalodd hi.

Gwasgarwyd, lledwyd y llu,—yn y llid,
 A lledwyd gair Iesu ;
 Agoriad o'u gwasgaru
 I engyl efengyl fu.

Ar led gan erlidiad—ai 'r praidd borau,
 Iesu eu geiriau, ar wasgariad ;
 Yn eu mysg pob disgybl mad
 A gawn yn danlyd gennad.

Arwyddion o'i llwydd mawreddus—dorrant
 Trwy 'i dorau coneddu;
 Ar esgyniad ei rhwysg hoenus—gwelai
 A'i hudgorn a alwai dŷ Cornelius.

Gwawr cynhauaf haelaf hon,—deuai hi.
 Heibio i dorri 'r flaen-ysgub dirion.

Bu hyfryd i'w hysbryd hi
 Milwaith, ryw ail ymholi
 Am y fan safai annedd,
 A rhad hynt y brawd o hedd,* * Pedr.
 Fu yn agor dôr ei dawn
 O led y pen i dlodiawn,
 Dwyn i gof y doniau gawd,
 I gamol y mawr gymawd,
 A gwawr ei synedig wedd
 Droï hefyd y gred ryfedd
 Tua ffordd benffordd y byd,
 Heb gwynfan, i baganfyd.
 O lan a drodd oleuni
 Nefoedd y nefoedd i ni,—
 O diaeth im fai gwrando 'i thôn
 Ryw lonydd hwyrol hinon.

Rhyddhai Ior ei addewid—yma
 Rhag amod ei gwendid,
 Lleoldeb a holl waeldid—Iddewaeth
 O wan arwyddiaeth gadwynai 'i rhyddid.

Y brid addewid a ddaeth
 O'i chelawl oruchwyliath,
 O gaer yr holl ffigyrau
 Ymfurfiant gynt i'w hamgau.
 Y gras a ddisgwyliasiid
 I lawr drwy oesau o lid,
 A'r gwawl o bell ragwelynt
 Llu y seintiau gorau gynt;
 Y dwyfol feddwl dyfai
 I fyd yn obaith di-fai;
 Dawn y clywyd proffwydi
 Ar lan dwyfoleiddwawr li
 Ardalau ysprydoliaeth,
 Aml dro yn dymuno 'i maeth,
 Mewn ing fel am iawn yngan

Ei henw hi mwy, heb un man
 Weled ei hanfarwolwedd
 Ar gyflawn gywirlawn wedd;
 Y bu cenhaden bywyd
 A'u holl efrydiaeth gyhyd
 Uwch ei phen, a'r gorlenni
 O hyd am ei henaid hi;
 A'i ffurf yn gwmwl i ffydd,
 Heibio hon fel niwl beunydd;—
 Y drwyadl awr darawai,
 Ac o'i llenwaith ymaith ai!
 Gwel hi 'n dod o'r defodau,
 Ei mir ddull yn ymryddhau;
 Yng nghol sant angyles yw,
 Duwdod o gariad ydyw!
 Ei hoff wir fyth a'i ffurf fyw—
 Y Genhadaeth gain ydyw.

A chân o hedd cychwynnodd,
 Tua byd y tristyd trodd.
 Edrychai, gwelai ein gwarth,
 Iselion ein hoesolwarth,
 Cenhedloedd luocdd ar lawr
 Byd fel ar wywlyd elaw
 Yn mynd ar osgorddiad maith
 Heibio, i fedd anobaith.
 A'i cham bur a brysurai
 Am ei nod cyflymu wnai,
 Ar frys â'r adferfawr fraint
 I gyffwrdd y digofaint,
 Dodai 'i bys ar y did bwysig,—bywhau
 A'i diail radau fyd eloredig.

Ni saif ar ei hynaws hynt—nes oero
 Y ser ar eu helynt;
 Ei rhadau yn awr ydynt
 Mor llawn â'r dydd gorlawn gynt.

A! deil ei dyfroedd dilyth
 Ar y llanw—llinell bell byth.

Galw y cyllun—Genador.

Ymgwynai braidd am gennad—a lanwai
 Ei haelionus fwriad;
 Fai 'n gynllun o'i dymuniad
 Uwch myrdd, o'i meddylddrych mad

Am arwr a gymerai
 Ei holl ysbryd i fyd fai
 O 'i delw yn ymgnawdoliad ;
 Dynnai mwy ei hedyn mad
 Allan oll i'w llawn allu,
 Nofiai o gylch ei nef gu
 Fel angel uchel, wlychai
 Bob syniad fwriad di-fai
 A dagrau 'r haelfrydigrwydd
 Y gras hael amlyga 'r swydd ;
 Gwron, geisiai agoriad
 Mynyddoedd, glynnoedd pob gwlad,
 Allweddau y borau—byd
 I'w chwilio a'i ddychwelyd ;
 I air Ior fyn agoryd
 Pagan borth pob pegwn byd ;
 Heb rwystrau, boltau, na byd
 Uwchlaw ei uchel hewyd.

I roi y galwad a'i diargelai
 Iesu o ganol ei lys ddisgynnai,
 Ag hynod hewyd yn gennad deuai
 Yma 'i hun unwaith mwy, ymenynnai
 Ei ddwyfol wyneb oni ddiifannai
 Canolddydd cyfan. Ond nis taranai
 O aur gerbyd bywyd. O, nis beiai
 Yr addig elyn, o'r gwraidd ei galwai.
 O'i euog adwyth, hardd yr ymgodai
 Yn nefoedd hon ; ei phrif drôn feddiannai,
 Ei chân uchaf chwenychai,—ar arch Naf
 Draw i'w heangaf gylchoedd y dringai.

Ysbryd hon ei fawr asbri a daniai,
 Mawredd ei enaid fel môr ddihunai
 I ddwyn ydd arch mor addien a ddyrchai
 Ar don amser—o'r gilfach grebachai *
 Ymeangiad ei mael, a ymhongiai
 Am ei haeledd fel craig, a gymylai
 Ei huchel leufer o'i hamgylch lifai—
 I ryw wlad newydd beunydd, ymboenai
 Yn Iesu a digon nes ei dygai
 Hyd odreu ingol y byd a drengai ;
 A fflam ei seraffaidd aidd ddyhuddai

* Yr oruchwyliaeth seremoniol.

Y mawr ddig ar un tymor a ddygai;
 A erlidiodd, arledai—fyth mwyach,
 A gallu dwysach nag y lldiasai,
 A'i sel yn ddyfnach seiliau,—ysplenydd
 Dros y ffydd newydd fyth y cyneuai.

Ymysgwyd ger Damascus—ymesgyn
 Mae asgell fawreddus
 Y Genhadaeth hiraethus—ymryddhau
 I'w hwybrennau a'i borau hoenus.

A gwyrth, ei harchelyn gwel,
 I'w chyngor yn archangel.

A chryman uwch i'r mwyn haf,—Paul a rydd
 Awch newydd i'w chynhauaf.

Dihunodd Duw ei enaid
 Fel mewn bedd yn gorwedd gaid
 I newydd fyd a'i ddeddf fawr—
 Haeledd a rhad hyd elawr,
 Gwneyd da, bod yn gennad hedd
 Hyd lanw o bob rhadlonedd,
 Bod ar frys i dywys dall,
 Ar ing i adfer anghall,
 Ymholi fyth am waelion
 Y drych o genhadwr hon,
 Hwyllo brig y don aml bryd,
 Clustfeinio yno ennyd
 Ar lefau y parthau pell
 Yn nghosbau barn anghysbell,
 Dyddhau pyrth y gwledydd pell
 A'i gamau yn ddigymhell,
 Heb gartref haddef iddo
 A dull y byd; lle y bo
 Trueni, cyni, y cawn
 I'w goflaid aelwyd gyflawn.
 Y swydd dan bob hinsoddau
 A ddwg ei haul i'w dyddhau,
 A'i mad hin oll am dani,
 A'i Duw a'i holl gyda hi.

Dewis goethedd dysg Athen,
 A mawr rym ei Homer hen—
 Enaid ail-seiliai anian

A'i ddoniau gwrdd yn ei gân,
 Dafnai nerth y rhyferthwy
 A gwyrdd y môr i'w gerdd mwy ;
 A llên Rhufain gain i gyd,
 Yn gyfan dygai hefyd
 Sinai a'i holl gysonedd
 Oll yn rhod cynllun yr hedd ;
 A rhoddaï ei ddirfawr eiddion
 Yr un awr, ar allawr hon.
 A sodda deyrnas addysg
 Yn y nefol ddwyfol ddysg.

Orontes ar eu hyntoedd—a'i gwelodd,
 A galwai ei ddyfroedd,
 Fel hynt angel uchel oedd
 A'i nwyf i gyd o'r nefoedd.

Y llong genhadol gyntaf—"Odditno a fordwyasant i Cyprus."

Ei llong gyntaf ollynga,—adenydd,
 Y don a gymera ;
 Hwyl y nef, gorlawenha
 Ynysoedd minion Asia.

I hedd ton ymdawdd y tir,
 Am leithedd ton cymhlethir
 Ei ymylon, gem heulwawr
 I fys nef yw Asia 'n awr.

O'i hwyl aml wlad a welir,
 Heddyw daw aml newydd dir
 Aml ynys, ymyl-lannau
 Yn null niwl, yn llawenhau
 Yn ddifeth weld rhywbeth draw
 Ag arwyddion gwawr iddaw—
 Oedd fel haen o ddwyfol hinon
 A gwên Duw yn gwynnu y don.

Awel ar ol awel lon
 A lanwai yr hwyl union,
 A'u su, fel cerddi Seion,
 Fel perorgylch amgylch hon.
 Llôn oent gael ei llenwi hi
 A dwyn y waneg dani.

Iawn oedd i anian addef
 Swyn helaeth cenhadaeth nef.

Uchanedig ei chenhadon,
 A heddwch Duw oedd uwch y don.
 Ymgwyd ar donnau llwydion
 Cyprus gythryblus ei thrôn.
 Bu lawen addien iddi
 O nef ton ei chanfod hi,—
 Gwlad arall i'w diwallu,
 Ail-ofod i'r cymod cu!
 I'w hanian fwyn pa swyn sydd
 Dan awyr, fel gwlad newydd?

Glaniodd meibion goleuni
 Fel engyl o'i hymyl hi.

Ger Salamis ei gwiw rasol luman
 O fad ewyllys a chwyfiwyd allan.
 Taith ar fyd tywyll a gwag y pagan
 Heddyw goronodd ei haiddgar anian.
 Fel engyl, nefol yngan—a gedwynt
 Yno pan gofynt pa hoen gyfan,
 Y trysor mawr fel moroedd
 O lawnder, i'w hadfer oedd.

Darfu nos Paphos—y pyrth
 A grynynt gan goronwyrth
 Gweision hedd, gau swynyddiaeth
 Fel brau fwg o'r golwg aeth.

Gwener a'i theml gan wyrth uwch
 (Fu o gof â'r nef gyfuwch)
 A adawyd, llwyd yw 'r lle—fu ddilaith
 I fawl unwaith, ie fel y wiwnef.

Hefyd Antioch a fedai o'u hyntoedd
 A'u doniau hyfawl, olud y nefoedd;
 Jehofa alwai eneidiau filoedd
 Yno, a gwlad i fôr ei goludoedd;
 Yswyd arferion oesoedd,—dan gymod
 A gwawr y Duwdod ailgread ydoedd.

Agorwyd ei phorth hawddgaraf
 Oedd yn uwch yn nhrugaredd Naf,
 Fel dôr môr, i dderbyn mwy
 Afrifawl ddirfawr o'fwy,—
 A'r geiriau o fawr gariad
 "Yr ydym"—O rym y rhad!
 "Yn troi i bob pwynt ar hyn
 A galwad at bob gelyn."

Yma ein Ner i'w mwynhau
Droes ei môr dros y muriau.

I Iconium bu 'n canu
Y dôn fwyn. Eden ni fu
Decach na 'r darn, oedd garn gynt,
Ar eu taith a wrteithynt.

Hygaraf olwg, ddwyn Groegwyr filoedd
I'w dorau o fywyd yn dyrfaoedd,
Ar unwaith hefyd o'u barn-eithafoedd
Iddewon lawer yn addwyn luoedd ;
Ei chlod, uchel ydoedd,—a'i baner hael
Uwch eon afael braich y nefoedd.

Du eigion erledigaeth
Gwgu, ymgynhyrfu wnaeth.
Ond ar ei donnau dirym,
Arch nefoedd, mawr oedd dy rym.
Creigiau hwn oll, cregin ynt
Oferawl ger dy fawr-hynt.
Daw heibio â grym diball,—heibio 'r â
Hi brysur a i aber oes arall.

I air ei ras yr Ior rydd
Bennaf dystiolaeth beunydd.
Eneidiau i'w genhadon,
Fel gw lith borau bryniau brou:
Dorant yn emfyd eurwawr
A gwyrth wiw o groth y wawr.

Ni hudid ei chenhadon
I adael hael fwriad hon
Eu prifwaith, er eu profi,
Fawr rwysg, âg uchddynol fri ;
Gwell oedd o filoedd y swydd fad
Diau i floedd dwyfoleiddiad.

Mal engyl, ymyl angen—a gerynt,
Rhagorach tyngedfen
Na rhodio unrhyw Eden—
“Duwiau” yn wir â'u dawn wen.

Hoff yr egyr ei dyfroedd i Phrygia,
A'i golau etyl filoedd Galatia

Yn llwybr dinistr, a'i llaw bêr a daena
 Olud Seion i Laodicea.
 Ac haul a esyd uwchben Colossa
 O uchel lad byth mwy na fachluda.
 A Hierapolis ni ddibrisia,
 Y tirion afonydd trwy hon fynna.
 Eden ail esyd i anial Asia,
 Ac ar aml fan Pren Bywyd a blanna ;
 Ar ei duwiau anwir hi dywynna
 Olau y nefoedd—fel niwl a nofia
 Ymylau y dydd, eu mawl a dodda
 Dros orwel anghof, ac un Jehofa,
 Duw 'n gwisgo 'r nefoedd i gyd, gyhoedda
 Un Duw i dywys y byd adawa.

Angel glwys paradwys rodia—ei maith
 Gyrrau eilwaith, a'i haml gaerau alwa
 I foliant na adfeilia,
 O'r naill fyd i eilfyd â.

Gwyrthiau dorrant fel o groth y daran,
 Am eu hurdduniant uwch mawredd anian ;
 Ati ni honnai y tân ei hunan
 Allu, angau ei hun ni all yngan !
 Gwenwyn du drig yn wên dan
 Ei hygar fraich, bu egwan
 Yr addig wiber iddi,
 Donnau erch am dani hi.

Y Genhadaeth dan gnydiau
 Asia gun, ni cheisia gau
 Llaw ei haeledd rhyfeddol,
 Ni wel hyn ond niwl o'i hol,—
 Syllu 'n mlaen, ymledaenu
 Fel haul, neu afrifawl lu
 Yn amledd rhyfedd ei rhad,—cael meibion
 Eraill, a choron arall i'w chariad ;
 Rhoddi fyth ei harwydd fawr,
 Agor drws i'w gwir drysawr
 Ddyfod, troi newydd afon
 I bob gwlad o rad yr Ion.

Dod i Ewrop.

Oedd awr wiw lonydd ! Pwy a ddarlunia
 Y borau tawel yr ymbartoa ?
 Heddyw hon ddihuna—Ewrop fawr
 O fedd dirfawr yn ufudd dyrfa.

-Angel hon i'w hengyl hi
 I'r lan yn der oleuni
 O niwl nef dan lawenhau
 Redodd a'i agoriadau.

Pa fodd yr ant? Pwy fydd rym
 Heddyw i'w dyrnaid diddym?
 Diarbed fyd i'w herbyn,
 Nwydau, holl ddyfnderau dyn!
 Ac O, rhagfarn fel creigfyd
 A'i seiliau er borau 'r byd
 Yn isel o dan hen oesoedd—
 Buddiannau uwch fel byddin oedd,
 Urdd yr anfad offeiriadaeth—bob un
 Yno a'i eilun fel ei gynhaliaeth.

Ond y gair dilon "digalonni"
 Acw nid addef un cennad eiddi;
 Golau oll lle galwo hi,—nid yw croes,
 Nid yw einioes, ennyd i'w enwi.

O niwloedd, glynnoedd pob gwlad
 Codant yng ngrym eu Ceidwad
 I lan i'w gorchwyl hynod,
 Fel yr haul i'w nefol rod,
 Heb un gau ymddibyniaeth
 Am ennyd ar fyd mor ddi-faeth.

Iesu a'i groes yw eu grym!
 Oes o ddorau sy ddirym
 Oll i'r ryfedd allwedd hon
 Agora greigiau geirwon
 Y galon,—dôr ei Horeb,
 Dry hon yn afon er neb.

Swm y dôn sy am dano,
 I gyd am ei felus go,
 A garodd nes rhagori
 Ar ein holl ddigllonder ni,
 Nes ei farw! marw i'r moroedd
 Fyth yn chwilio ynddo oedd
 Am adwy, dorri mwyach—i lenwi
 Pob gelydol gilfach
 O ing, i fyd eangach
 Dwyn torfoedd ar ddyfroedd iach.

Hyn yw yr oll o'r newydd
 A holl sail y gallu sydd
 I droi y byd, herio bâr
 Duaf anwfn a daear.
 A digon yw dy gun nerth
 I'r diben, O, rad aberth !
 Dy loes, dy gariad di-lan
 A dyr y galon daran.

Ewrop a glywa ei glod
 Yr Oen, y Prynwr hynod ;
 A chalon lond ei mynwes
 Teimla 'r dwyfol raddol wres,
 Ar wddf y Prynwr addfwyn
 A, syrth i dragwyddol swyn !
 Dirgelwch Duw ar galon
 Ddynol, yw y ddawn hael hon.

Tir Groeg.

A thôn nef i Athen aeth,
 Dewis gadair dysgeidiaeth,
 Ydoedd â'i chain adsain oll
 I deg hyawdledd digoll.
 O gryd byd gysegredig,
 Yno bu 'i dawn er pob dig
 Goruwch yr oll fel gwreichion
 O orsedd ryfedd yr Ion.
 O thaniai Demosthenes
 Wlad faith ar unwaith â'i wres,
 Bu gyfuwch, bu uwch ei aidd
 Ar ei hoff nef seraffaidd,
 Uchderau iachawdwriaeth,
 Gennad Ior i ddor hon ddaeth.

Achaia ogylch heuir
 A geiriau Duw ; hawddgar dir
 A fu i'r Genhadaeth fawr ;
 Yr Iesu oedd ei thrysawr,
 Ei goludoedd, nefoedd, Naf,
 Am oesoedd fu rymusaf
 I ddal eilunaddoliaeth—goreuog
 I'r eitha ar enwog gaer athroniaeth.

Rhufain.

I Rufain hefyd ar y fwyn ofwy
 Ebrwydd ymledodd, a'i bwrdd mawladwy
 Huliai i'w myrdd, a'i sel mwy—am oesoedd
 O'i hol ydoedd anileadwy.

A'r swydd rad dros y ddaear ehedant,
 Engyl o heddwch trwy eang lwyddiant,
 Duwiau oesoedd o'u nefoedd dywysant,
 Draw eu haddolwyr a'u diarddelant,
 Cenedloedd acw anadlant—o'u rhyddhau
 O lwythi oesau a'u gorlethasant.

Ei dyfodiad, archiad i fydoedd—newydd
 Yn awyr yr oesoedd
 Ymgodi 'n edmyg ydoedd,
 Gair Duw am ail gread oedd.

A chododd gorwech adail,
 Dwyfolaf sicraf ei sail,
 O derfysg pobloedd dirfawr,
 O dryblith y felldith fawr.

O'i diluw ar aml-dduwiaeth—un Duwdod
 A rodiai hynod fannau crediniaeth.

Heddyw ynysodd aml a ddynesant
 Ei cherddi addwyn o bell a'u swynant;
 Gwyllo y llanw a'r golau a'u llonnant,
 Awelon o fwyn anadl anfonant,
 O aml benrhyn eu hedyn genhadant,
 Fel eu gwiw weddi, fel eu gwahoddiant.
 Ymyl y don a emant—â'u dagrau,
 A'u breichiau dros y tonnau estynant.

Prydain.

Borau odiaeth i Brydain
 A ddug hi â'i newydd gain.
 Cân yr hedd, cynnar iddi
 Y bu ei swyn addwyn hi.

Iddi hithau ar ei thonnau deuai golau, diogelwch,
 Modd i seinio am ei chofio oedd wyw yno heb ddiddanwch.

Yn forau yr arferodd—fy nhadau
 Y melus ganau, a'u mawl esgynnodd
 I lys Ior, ac aml i sant—fu anwar
 Elai yn gynnar i lawn ogoniant.

Angel rhad y Genhadaeth
 I hon, wedd hylon, pan ddaeth,
 Deimlai mwy ar ofwy rydd

Fel un mewn haddef lonydd
Ddifaedd, wedi cyrhaeddyd
Artref a bair tro fo byd.

Anwyl ei dilyn tan haul Idalia,
Dilyn y fawlderdd hyd lan y Volga,
O galon Ewrop hyd Ethiopia
O'i mawr oludoedd un môr a leda!
O lawn nerth ymlaen a,—daw a'i baner,
Daw a'i haml londer hyd ymyl India.

Ar fynydd Mars, ar finion—y Tiber
Ateba 'i disgyblion,
O gylch ei mad genhadon
Yno cyfyd hyfryd dôn.

Y Forum, mainc hoff arawd,
I ddawn hon yn santaidd wnawd.

A chyn ehedeg fry o'i chenhadon
Eneiniau Iesu ei hun yn weision,
Ie cyn darfod dydd eu trallodion,
Hwy a ganfyddynt eu hegwan foddion
Wedi ail-lunio byd o elynion,
A rhes o dduwiau ar orsedd eon
Yn ddistaw mewn braw ger eu bron,—a'u mawl
Drwy fyd ethawl yn darfod weithion.

Awr lonydd, draw ar lannau—y Tiber
Tybiaf â chymylau
Hynaws hwyr, weld yn neshau
Un o'i hodiaeth genhadau.

A'i lais oll o nefol sain
Ar ogwydd pedwar ugain,
Fel hyn y nefol hanes
A rydd â dwyfolaf wres,
I'r awel â mawr hewyd
Ddyfnion adgofion i gyd.

“ Y Iesu a'm dewisodd,
Nef ei drem arnaf a drodd,
Y clywais ei lais di-lid
A wnai fy mythol newid.
Denol un o dan ei loes
Ofynnodd a gai f' einioes
Foreuddydd fy nydd, a wnawn

Lynu yn ei ol uniawn
 O fodd, a gwneyd fy haddef
 A'm harosfa gydag Ef,
 Gado 'r byd i gyd i'w gais;
 A'r hwn aml hwyr yr hunais
 Ar fynydd oer, a'i fynwes
 Yn y gwlaw fy unig les.
 Ni achwynem, ochenaid
 Nych oer gydag ef ni chaid.
 Nid oeddym onid deuddeg
 A llai llu o'i du yn deg.
 Cofiaf yr 'Uchystafell'
 Lle caed arwydd gwaed myrdd gwell;
 Ar ei ol aethum ar hyd
 Heolydd Salem wywlyd,
 Mud oem—i'w hoff ardd ym dug,
 Unig oedd dan y gaddug."

O, ai ei fawl glywaf fi
 Oll, a'i hanes yn llenwi
 Mil o wledydd, fôr o gynnydd! fawr ogoniant!
 Digion ernes! marw i'w fynwes yw 'm herfyniant.

Canrifoedd! ac ni arafai—ei llwydd,
 Hyd y llys y dringai,
 Uchelion feibion di-fai
 O fewn y Senedd fynnai.

Rhufain fawr ddiderfyn fedd
 O'i gwerswyll hyd ei gorsedd.

II.

Sol yn oeri.

PA fodd yr oerodd ar hyn—y fflam fawr
 O aidd dirfawr ydoedd ddiderfyn?

Gwanhai edyn aur y Genhadaeth;
 Ehediad hygar y gadwedigaeth—
 Uwch eigion oesau, a'i chweg hanesiaeth
 A hir gollir dan nos o fawr gyllaeth;
 Hir oerai yr arwriaeth—a fynnai,
 Ie a welai, dan ei reolaeth.

Agorwyd eigion o lygredigaeth
 Llauer mwy bygythiol i fodolaeth

Ei haidd diwyraw a'i phur athrawiaeth
 Na thon lawnaf y cethin elyniaeth
 Ddeuai yn eon agwedd anuwiaeth,
 Ledai ogylch yn noeth erledigaeth.
 Fel arch Duw o'r diluw, daeth—i fyny
 A bri a gallu o bob argyllaeth
 A ledid gan *erlidiaeth—tu allan*,
 Bu ddigeulan ei buddugoliaeth.

Pabyddiaeth.

Ond o'i mewn codi y môr—guddiai hon,
 Yr eon eigion fu 'n hir yn agor—
 Pabyddiaeth! Pwy a'i bedda,
 Onid hon? Pa gennad a
 A'i hathrawiaeth odiaeth hi
 O ganol y drygioni
 I anuwiol, heb newid
 Ei henw bron a'i hanian brid?
 Gordagai 'r llygredigaeth
 Y gair oedd ddiwair a ddaeth
 A dawn ddiamod inni
 A rhad gyfiawnhad i ni.

A gawn ni byth egwan obeithio
 I genhadon aml hon ddarlunio
 I'r pagan oedd a'r pegwn eiddo
 Rai o swynion yr Iesu yno,
 O'i Iawn ai haeddiant, ddigon iddo,
 Ryw gainc ffyddlon o'r dôn am dano,
 Pwy wyr, er y mawr wyro—na welodd
 Ddigon, na chafodd gân i'w chofio?

Ar y nos o ddychryn hir
 Y golau ddiogelir.
 Muria Rhi am air ei ras,
 A rhydd aml wylwr addas
 Ar hyd gaer hyfryd yr hedd,
 Gaer unig y gwirionedd.
 Rhai "tadau" yn olau wnaeth
 Hyd eigion llygredigaeth,
 Goleudai ansigledig
 Hyd oesau o donnau dig.

Luther a chyfiawnhad.

Cyfundraeth athrawiaeth yr Ion
 O'i thrai gyda Luther eon

Ymgyfyd—am ei gofion
 Fel am wynfa heda hon!
 Fel angel mawr ei gwelaf,
 Ac udgorn, udgorn ei Naf,
 Yn ei ddilys ddeheulaw,
 A'i rôl yn ei lwyddol law
 Heb gredoau gau o'i gyleb,
 Haul hygar heb niwl ogylech.

Ffurfafen yr hoff air fwyfwy—a gaed,
 Trwy 'i godiad mawladwy,
 O'i thywylliad uthradwy,
 A'i niwl maith yn olau mwy.

Y gair sydd i'w agoryd
 I andwyol farwol fyd,
 Rhydd ydyw, euraidd aden
 Yn arfer yn uchder nen.
 Cyfiawnhad rhad i bob rhyw.
 Rhad, rhad Waredwr ydyw.

Cenhadaeth Leyden.

Boreuol ydyw bri Leyden,—bore
 Y bwriodd ei seren
 Ar engur ddyfnder angen,
 Du wae paganfyd di-wên.

Bu hynod i Amboyna—ei derbyn
 Heb erioed ofyn, a bryd Java
 A rhyfedd air Jehofa—oleuwyd,
 A'i hoff rym yswyd duwiau Formosa.

John Elliot, "apostol yr Indiaid.

Amerig, oesoedd drigai—ei hunan
 Yn mynwes anian, tra mwyn ei swynai
 Y dôn o hedd; dihunai—ar y don
 O'i breuddwydion, i'r gân beraidd hedai
 Hyd ei glan deg, a luniai
 Adsain nefolsain di-fai
 I alwad efengylaidd
 Elliot fawr erfawr ei aidd.

Yr Indiaid droed o'i randir,
 O'i lywodaeth helaeth hir;
 Rhag y gwawd a'r dyrnawd dig
 Droai 'i gadau i'r goedwig.

Arfeiddiol orberfeddion—Amerig,
 Muriau rhy echryslon
 I neb byth ond meib hon—ganlyn yno
 A goleuo i'w siomiedig luon.

Ar eu hol y per alwad—anfonwyd,
 Tôn o fynwes cariad,
 O dwymlawn gydymdeimlad
 Bêr eiriau fel tonau tad.

Cariad, cydymdeimlad oedd,
 A thad ar unwaith ydoedd,
 O'u gwewyr yn eu gwahodd
 I waith a byd wrth eu bodd,
 I ryfedd etifeddiaeth
 Ceurydd sy uwch cyrraedd saeth.

I'w alwad rhad bu aml dro
 Gôr o Indiaid yn gwrando
 Geiriau Duw yn gariad oll;
 A dygid â swyn digoll
 Is rhyfedd hynawsedd Ner,
 O galon yn don dyner
 Ddeigrin ar ol deigrin dwys,
 Fel perlau i fawl purlwys
 Y gŵr brydnawn a garodd
 Nes er eu helw farw o'i fodd.

Swyn yw y groes a newid—y fynwes
 Sy faen o gadernid;
 Ei diorthrech lech o lid—a dawdd hon,
 Ail afon o edifeiriol ofid.

Cenhadaeth Halle.

O Halle a olau hon,—agor wna
 Eurddor India ar y ddwyreindon.

Dwygriad Cymru.

O, ar fy ngwlad yr efengyl odiaeth,
 Ac ar ei hadain gain feddyginiaeth,
 Godai, hyd agor y gadwedigaeth,
 Ie hyd olaf fannau y dalaeth.
 Ei baner gweler mewn buddugoliaeth,
 Yn tyner chwyfio tan oruchafiaeth;
 Oddiar fil o froydd, arfoliaeth
 Gwiw a ymesgyn, fawl digymysgaeth,
 Bro o foliant lle y bu rhyfeliaeth,
 Heddyw gweddio lle 'r oedd gaudduwiaeth,

A Duw yr heddwch yn lle derwyddiaeth.
 Nid ofer fu cariad y Genhadaeth,
 Ni huliai 'n ofer y per ddarpariaeth.
 O bu yn dywell, yn rhaib andwyaeth,
 Ar aden y warediaeth—fel gwynfa
 Yr ymddwyrea o'i thrwm ddirywiaeth.

O fewn fy ngwlad, cenhadon
 Ardderchocaf haelaf hon
 A fagwyd, do, ar lwydion
 Fynyddau dienwau hon.

A wlad a fu oludog—dy gnydiau
 O genhadon enwog!
 Duw y gras o blaid y grog—a'u galwai,
 Dewisai aml dywysog.

Onid oedd dy fryniau di
 I lan yn myd goleuni,
 Bob tu yn magu i'r môr—afonydd
 I fyned a'u trysor—
 O gyrraedd llawer goror
 A bro deg—yn bur i'w dôr;
 A'r ffynnon dan dôn bob dydd—yn gwahodd
 Y gwyw dan y mynydd,
 A'i chariad ar rediad rhydd
 Yn dal ei dafn i'r dolydd,
 Eiddil hynt, am feddalhau
 A'i rhad bob isel reidiau;
 A'r awel tua 'r rhiwiau—yn brysio,
 A'i breision aroglau
 Yn bur o'r gerddi borau,
 Ei hunan heb eu mwynhau?

Y duedd hael a dywys
 A ffyddlawn hyfrydlawn frys
 Anian pan y derbyniodd
 Ddawn deg i redeg a'r rhodd
 I arall cyn ei hoeri,—
 Onid oedd ei hysbryd hi
 Agweddiad o egwyddor
 O reddf Cenhadaeth yr Ior,
 Ger bron ei cenhadon hi—a gawsant
 Hwnt ar ogoniant natur eu geni,
 Fegid ger y llifogydd
 A gwyllt drôn yr afon rydd?

Eofn oeddynt fel y gorfynyddau
 A ysgydwynt eu cryd â 'u cysgodau
 Borau eu heinioes, feibion y bryniau,
 Etifeddion urdduniant y tonnau
 Hwnt glywynt o'u gwelyau.—I'r nefoedd
 A'u dydd, mawr ydoedd eu hymroadau.

Fy nhadau o brif nodwedd!—eich enwau
 Gylchynir â mawredd,
 A gwên o fawr ogonedd
 O uwch byd oleua'ch bedd.

Llef y daran, nerth y llif-doriad—oedd
 Eiddynt at gyhoeddiad
 Y farn fawr! Fel ei gwawriad
 I fyrdd bu eu pregeth fad.

Eto gwyddynt agweddu
 Eu harawd i'r cymawd cu.
 Angylion efengylaidd—oent bellach,
 Ni bu dynerach gan neb dôn euraidd
 Y cariad, gwahoddiad hedd
 Yn ol ei holl anwyledd.

Daniel * draw a dywynnodd,—y fore
 Seren fawr a gododd
 Ar wagder y dyfnder dodd—Gymru cyd,
 A duwiol hewyd y wlad oleuodd.

A'r uchel ei ddarfelydd,
 Yng nghof hon eang a fydd
 Ei le, a fu oleuad
 O wawr ddisgleirfawr i'n gwlad.

Evans! † o'r cysawd hefyd
 A geir mor ddisglaer i gyd,
 Williams ‡ yn uchel welaf,
 Mawr oedd yn nefoedd gair Naf.

Ei feddwl mawr orfyddai—y byd
 O wybodaeth welai;
 Dawn suddol, dadansoddai,—gwirionedd
 I'w esgyrnedd noethfawredd fwriai.

O tharana—athronydd—
 Rhyw ddirfawr ddisyfi-lawr sydd
 Dano, nid taniad ennyd,
 Seilio ei bwnc fel sail byd.

* Rowland, Llangeitho. † Christmas Evans. ‡ W. Williams, Wern.

Elias * fawr a lywiau—ei filoedd,
 Dan fawl a'u banerau,
 Y munudyn amneidiai
 Am yr oll yn fflam yr ai!
 A! darfu y gŵr dirfawr
 Droai â'i fys y dorf fawr.

Golud y nefoedd i'n gwlad hynafol,
 Newydd dyfiant o rinweddau dwyfol,
 Diau mad heddyw 'r teimlad ymdoddol
 Uwch ei pharadwys o heddwech ffrydiol.
 Daeth yn Eden bob dôl,—yn ardd y nef,
 O rasau y wiwnef mor rosynol.

Esgeuluso 'r Genhadaeth.

Ond O, pa fawr andwyaeth
 O ddwfn esgeulusdra ddaeth
 I'r eglwys, pa orffwyso;
 A'r Gair o fytholber go
 Yn archu ffrwyth cynyrchiol
 Oni ddaw daear yn ddôl
 Baradwysawl, a mawl mwy—ar gynnydd
 Hyd ei gwledydd yn hyfryd glywadwy?
 Angel y fad Genhadaeth
 O'i olau rod i ble 'r aeth?

Pa fodd anghofiodd ynghyd
 Olaf air ei Hanwylid!
 Yn hir y cofiwn eiriau
 Rhyw gâr digymhar wrth gau
 Ei lygad â gwael agwedd
 Ar y byd yn nôr y bedd.
 Ar unrhyw egwyl pwy i'w anwylo,
 Pa gywir gyfaill, pwy geir i'w gofio,
 Fythol mor haeddiannol, i'w myrdd uno
 I gadw yr olaf air, hedd-air eiddo
 O fewn ei chariad, a'i fynych euro
 A'i huchelaf efrydion, a'i chwilio
 Eilwaith ac eilwaith hyd nes y cilio
 Pob niwlen egwan oddiam dano,
 Nes yn feddwl dinifwl y nofio
 O flaen ei henaid fel huan yno
 I'w haelaf waith i'w hwylio,—i uchaf.
 Faes gloewaf ei hoes i'w goleuo?

Yr Iesu anwyl, O, air i'w swyno!
 Dylai o hewyd, ie diluwio
 Daear â'i gyfoeth—Brawd i'w hir gofio,
 A fu yn dawel, a'r nef yn duo
 Ger eigion y gwae a'r graig yn gwywo,
 Dan lymion hoelion yn ein hanwylo;
 Duw yn gaddug o lid yn ei guddio,
 Na fynnai wedyn fyth gyfnewidio
 Ei farwol groes am nefoedd i'w roeso
 Onid allodd, iawn fodd y nef iddo,
 Ddwyn pechadur wedi 'i lawn buro
 Fry gydag ef tua 'r nef tan nofio
 Afon ei waed, heb arf i'w niweidio.

Oni ddylem yn dyrfaoedd wyllo
 I'w frodyr, ei frodyr ofer ado
 Heibio 'r oesoedd fynd gan ddibrisio
 Ei olaf air am ffyddlawn lafurio,
 I daenu ei hanes nes dihuno
 Y byd drwy undeb hewyd i wrando?
 Oni ddaw egwyl i hon ddiwygio,
 Borau i'r eglwys pan beraroglo
 Fyd a'i haeledd; pan gydymagweddo
 Mwy o'i hoferedd, pan yr ymfwrio
 I ffurf lwyr diwyro—'r awdurdodiad,
 Am ei gof mad pan ymgyfamodo?

Onid yw ei air yn dal
 Eto â grym diatal?
 Ai amheuawl ei hawl ef,
 Y cryna caer y wiwnef
 Ger ei fron, a gorfrynïau
 Nef y nef yn llawenhau
 Glywed o'u bannau gloewawl
 Hyd fyth, fynediad ei fawl,
 Engyl ar ol engyl, lu
 A'i faner fawr i fynd?

Ei air! beth yw seiliau 'r byd
 I nerth hwn, ond tarth ennyd?
 Gair brenin y brenhinoedd,
 Ei awdurdod, Duwdod oedd.

Dieilfydd grefydd y groes,
 I lan anfarwol einioes

Arwain ar ei hadain hedd
 Anheilwng yn ei haeledd,—
 Pa arwydd, pa egwyddor
 Gydgasgla, gymera 'i môr
 I mewn i gyd—mwyn y gair
 A'i cynnwys, onid cunair!
 Cariad! Rhad! Ie, Ior oll
 Wedd deg, yn haeledd digoll.
 Ei gwedd a'i nodwedd i ni,
 A'r meddwl o rym eiddi,
 Y mawr-beth fyth a'm herbyd—
 Yw Ion yn galon i gyd.
 Duw a gwyd i'r enaid gwan,
 Ar ddull o roddi allan,
 Fendithion breision, heb rif,
 Yn ddilan fythol ddylif.

Pa fodd, os rhoddodd i'm rhan
 Goflaid i euog aflan
 O lawnion fendithion Duw,
 Ie 'i hunan i annuw,
 O chefais fy nyrchafu
 O goll ar ei hadnw gu,
 Pa fodd na chawn fy noddi
 I ail ddelw o'i haeledd hi?

Fy enaid tlawd ar finion
 Môr haeledd diddiwedd hon,
 Ar y lan heb feddiannu
 O'i hanian ryw gyfran gu!

Ai ymddyliad o rad gwarddol
 Ar fy enaid, fael anherfynol,
 Heb ymddyliad cydsymudiadol
 O'i hegwyddorion mwynion a mewdol?
 Ai budd i mi heb ddim ol—o'i rhad mwyn
 Ynnof fel addwyn nwyf efelyddol?

O, a yfaf o afon—y bywyd,
 Heb awydd hiraethlon
 Gyfrwyddo gwyw efryddion,
 Yn aml lu at ymyl hon?

O rad cu Ior, wedi cael
 Fy hunan, pam wyf anhael,
 A'r fendith, y fendith fawr,
 Ar eilfodd anfeidrolfawr

Bob tu yn lledu fel llawn
 Fôr-eilwaith at farwoliawn,
 Yn ddi-lan tu allan i
 Welediad maith fy nhlodi,
 Heb ol munudol i neb
 Godi erioed o'i gwiwdeb ;

Fel môr yn newydd o'i ddorau,—ar ol
 Gorhulio â'i donnau
 Aberoedd gwlad un borau,
 Am wlad uwch yn ymledhau.

Dyferyn cun i un oedd,
 Dyferyn—ond o foroedd.

Onid ydyw ffydd credadyn,—nad oes
 Ond un ffordd i elyn
 Ddyfod at Dduw, i ofyn—maddeuant—
 Trwy hynod haeddiant, trwy Iawn y Duwddyn ;—

Nad oes a iawn dywysa—yr enaid
 Ar union i'r wynfa
 Onid un lusern, daena
 Ar ei lwybr anfarwol ha ;

I wyn a du, fyth nad oes
 Onid un Ceidwad einioes,—
 Onid yw y gred yn dwyn
 Ar a'i meddo, rwym addwyn
 I anfon i estronfyd
 Faeth y wybodaeth i'r byd,
 Ymroi â mawr hewyd—i ddwyn y wawr
 Heibio i gwynfawr dywyll baganfyd ?

A all efe syllu fyth,
 A dal o'i uchder dilyth
 Yr olwg ry ehelaeth
 Ar fyd di-fywyd di-faeth,
 I gyd dan dymhestl gadarn
 Heb angor ar fôr o farn
 Anfoddlonder digter Duw,
 Ddinistr cenhedloedd annuw ?—

O'i graig uwchlaw 'r goreigion—
 Newydd fyd ei noddfa hon—

Ei law oni ddyrch, a'i lef
 Ar y boddlu, rybuddlef?
 A hun a efe ennyd
 Ar ei graig nawdd, tra bawdd byd?

E allai i'r môr tywyllaf
 O gerth ddigofaint a gaf
 Ostwng i'r dyfnaf dristyd
 Olau, hyd fannau ail fyd
 Gyrhaeddai, gwawr o heddwch
 A droai, oleuai lwch
 Gronynau 'r beddau di-ball—i forau
 A dorau bywyd arall;
 A'u harwain i gyfeiriad
 Uniawn yr oleulawn wlad,
 O ganol eu holl gyni
 Ar fyrder i'w haber hi,
 Heibio creigiau anobaith
 I fewn i'r orffwysfa faith.

Ai distaw a didostur
 Yr edrych o'i fawrwych fur?
 O, rhoed ei lef o'i euraid lan,
 O'i graig yng ngolwg yr egwan,
 Ryw awgrym wan o'r wiwgred
 Uwch yr aig yn graig a red.

Hirgloch gwae oni erglyw?
 Brawd o'i gnawd mewn eigion yw!

O ddurder y byddardod
 Sydd gloawl fythawl, er fod
 Oll dan y nef yn llefain
 Ag unawl ddeisyfawl sain;
 Y floedd dros foroedd, dros fyd
 Digofaint a gydgyfyd,
 Nerthol waedd am gynhorthwy
 Yn eu henbyd adfyd hwy.

Hir, mewn hedd byddar oem ni,
 Byddar, a byd yn boddi,
 Pobloedd, gwyw luoedd pob gwlad
 Yr oll yn un llongddrylliad!
 A chennym ond ei chynnal
 Aruwch y dwfn erch, ei dal
 Wych obaith, lamp achubai
 Euog fyd ar graig a fai.

Gwaer y Genhadaeth.

Ymorfoledda, y fad Genhadaeth !
 A ! darfu nos dy araf hanesiaeth.
 Yn dy fawrhydi, yn dy fôr odiaeth,
 Tro heddyw allan â'r ter ddiwylliaeth,
 O dy eiddilwch, i'r dydd ehelaeth,
 Y dydd i'r byd fwynhau dy ddarbodaeth,
 Y dydd ysgydwa â dy ddysgeidiaeth
 Golofnau crynol eilunaddoliaeth,
 Y dydd a wel, ie, diwedd alaeth,
 Diwedd pob gau gredoau a duwiaeth,
 Oleua 'u harwyl heb ol a hiraeth,
 Glyw eu holaf eiddilaf addoliaeth ;
 Y dydd droa, a dawdd o'u dirywiaeth
 I ddirif lwyddiaint, i ddarfelyddiaeth,
 I gynllun di-eilun proffwydoliaeth,
 Ororau 'n daear o'r hir andwyaeth.

O dawel ymneillduaeth—dihuna ;
 Allan, O rhodia yn llawn warediaeth.
 Ail wawriad y dydd olaf ddaeth,
 Ar wybren deg y fawr brynedigaeth
 A fu ei hedyn erioed fwy odiaeth
 Uwch y byd ! I achub aeth,—clywaf hi
 O'i muriau 'n torri i'r mawr anturiaeth,
 Yr anturiaeth helaethawl
 A fyn y ddaear i fawl
 Yn gysegr oll, gan geisio
 Pob aflan bagan lle bo
 Ar bob glan a ban o'r byd
 Hyd foroedd i'w hadferyd.

Carey.

Coronir Carey hynod
 A'r pennaf ddisgleiriaf glod.
 Y prif o'i rhif i'w fawrhau
 Ar raniad ei choronau.
 Rhoes law fad i'r Genhadaeth
 Haddef mwy, noddfa a maeth,
 Canlyn, ei derbyn i dŷ—yn dyner
 O dan faner, a'i dwyn i fyny
 Eilwaith i nefoldaith fawr,—ei hedryd
 O gaer adfyd i lwyddiant gwaredfawr.

Adgyfodiad i'r Genhadaeth—a gaed
 O'i godiad ehelaeth,
 Ei lef yn greol a aeth
 Drwy awyr ei dirywiaeth.

Un oedd o'r dynion haeddawl
 Gwyd Ner o fwynder i'w fawl,
 Well engyll a ollyngir
 Ar olau gaerau y Gwir,
 Y rhai â dirfawr hewyd
 O fedd a ddihunant fyd ;
 A alwant, a'r byd eilwaith
 Red ar uwch tynged, uwch taith,
 A bannau o ddibenion
 Yn ei wydd fel bryniau Ion.

Dihunai ei drydaniaeth
 Yr eglwys mor ddwys na ddaeth
 Marweiddiol dymor iddi—hyd heddyw,
 Dydd ei hadgyfodi
 I'w rhod o faith fawrhydi,
 I nef ei thynghedfen hi.

I'w galon fawr, y fynwes—ydoedd fyd,
 A'i deddf fawr ddiormes—
 Bod i'r oll, bywyd o wres
 Yng nghanol byd anghynnes.

Anghyfannedd ryfeddol—am oesoedd
 Fu y maes cenhadol,
 E ledai y glwyd lwydol,
 A byd dihewyd o'i ol
 Ag ofnau fil yn dilyn ;
 Mir oedd ei weld, y mawr ddyn
 Yn hygar yn unigedd—ei ddilan
 Feddyliau o haeledd,
 Heb yno dlawd na bonedd—wnai o rad
 Fyth fwriad o'r fath fawredd.

Mad agor rhwymedigaeth
 Seion nef i'w hoes a wnaeth ;
 Yn y man hi ymunodd—yn llu mawr,
 Am ei hoff erfawr feddwl ymffurfiodd,
 Yn wedd o hewyd oll, yn weddiau
 O du llwyddiant y bywyd,—allweddau,
 Mwyach a yrrid at rym a chaerau
 Dorau mwy engyrth na durym angau ;
 Goludoedd, arogliaidau—deisyfiad
 O du ei gariad a'i deg eiriau.

Y llong yn barod.

Mae 'r llong uwch muriau y lli—ar fynwes
 Rhyw fwyn don o heli,
 Ind lawn gawn yn gweini,—fel am drempiad
 Ar gennad ei Geidwad yn ymgodi.

Y don sy barod yno,—pelydron
 Anwyllion yn heulo
 Ei bron, heb wynt i'w brynio,—pob uthredd
 I engyl hedd mwy ynghlo.

Thomas ei gydwes, a gawn
 Ar y bwrdd, oll ar burddawn.

Gwenant tra 'r creigiau gwynion
 O'u nefoedd teg i fedd ton
 Yn gostwng, gostwng i gyd,—a'u gorawr
 Anwyllfawr onid niwlfyd.

Un meddwl, un meddwl mawr
 O gerfiad cariad gorfawr
 O'u mewn, un pur ddymuniad
 Y sydd—am fythol leshad
 Amledd dynolryw; teimlad
 Nad oes un bryn, glyn, na gwlad
 Yn foddus gartref iddo
 Tra yn y byd truan bo
 Pechadur amhur ei ryw;
 Y byd, sirioldeb ydyw,
 Dedwyddwch diwad iddynt
 Bebyll hedd bob llaw i'w hynt.
 Paganfyd i gyd a gawn
 Ail dôr gartrefol diriawn;
 Broydd erch yn beraidd ânt,
 Rhodfeydd i gariad fyddant.
 Tra y byddo ynddo un
 A'i olwg ar wael eilun
 Un i'w achub, anichon
 Nawn o hedd i'r anian hon.

Ar lawer wawr oleuawl,
 Tra seiniau o forau fawl
 Oddiar yr hawddgar hwyl
 I nen o wenau anwyl
 Hyd faine Naf yn dyrchafu—
 Y caed y cenhadau cu

Y aml edrych mal adref
 Dros yr aig am ryw graig gref,
 Neu benrhyn gwyn â gwenyg
 Rhyw fryn uwch y môr-wyn myg,
 Dôr o India ar wendon,
 Ryw hylwydd arwydd o hon.

Llais yn Serampôr.

Y mae pyrth hen Serampôr
 I'w hanogaeth yn agor.
 Borau o Dduw yn bur ddaeth
 I dywyll fyd Hindwaeth
 O nodwedd mor ofnadwy,
 Doai â maith gysgod mwy
 A nos na ddarlunia neb,
 Gorlawnder o greulondeb,
 Hanner Asia; a resai
 Bob nwyd diafolnwyd fai
 Ag urdduniant gorddynawl
 Acw i fyrdd ar fainc o fawl,
 Roddai uchelfawr haddef
 I Juggernaut ar gaer nef.

Y duw eisteddai 'n dawel—a meirwon
 Fel môr hyd y gorwel
 O'i gylch, heb gysgod o gél
 Oesoedd i'w llychion isel.

Uwch y tryblith melldithiol—A, gwelaf
 Y golau tragwyddol,
 Ogoniant eilw o'i ganol—fyd i Dduw,
 I fawl mir y Iawn-Dduw fel morwynddol.

Yno dechrau son am radau y brawd gorau brwd ei gariad,
 Ei hynt rhyfedd, hyd at waeledd goriseledd ei groeshoeliad,
 Modd y carai, ac y deuai, dioddefai lid oedd ddwyfol,
 Dod i fyny er teyrnasu i adferu India farwol.

Hir o bu gwawr y bywyd—a dariai
 Is dwyrain dwyfolbryd
 Dieilfydd broffwydol-fyd,
 Sy a'i borth uwch ymgais byd,

Torrai y dydd at awr Duw,
 Dihunodd India annuw
 O'i thrymder yn llawer llu,
 Y gair odiaeth i gredu.

Hindwaid yn y diwedd
Yma gawn yn y lawn wledd.
Gwelynt eu heuog waeledd
Gan fawrhau rhadau yr hedd.

At gysawd y cymawd cawn
Eto eraill ser tiriawn,—
Ward o lawn eglurlawn glod,
A gem i'r nefol gymod;
Enw rhyfawl Marshman hefyd;
A'n Carey fwyn—côr i fyd
Uchelfarn edrych arnynt,
Uwch India wag orwag ynt
Uwch anwfn ei thrychineb—yn eu rhod
Yn drindod o diriondeb.

Clod Prydain.

O Brydain bêr eheda—angylion
Eraill weithion, a Ior a'u llwytha
A llawnder i holl India,—dyrchafol
Eangiad oesol i dynged Asia.

Ffrydiodd o'r cyffroadau—Prydeinig
I fyrdd unig, do fôr o ddoniau.

Cenhadon fel y tonnau—ar bob glan,
Digeulan ydyw golau
Dieilfydd fy ngwlad haelfawr,
Adain i fyd, Brydain Fawr,

Hyfryd olau ar fôr di-lan,
I euog fyd yr unig fan
I edrych o'i wae didrefn
O'i alaeth, am draeth, am drefn.

Haeledd hon, hefelydd yw,
Eilradd o aidd dwyfolryw,
Y gŵr i'w fawl garai fyd,
Gofiai enfawr gyfanfyd.

Eisioes dy Gymdeithasau—adwyant
Y duaf amgaerau
Geir am fyd yn ei gyd gau
O'i ganol i'w begynau.

Gymdeithas Genhadol Llundain.

I'r oesoedd mawr oedd yr awr,
Yr oedfa deg waredfawr,

Y rhoed maen euraid mur—arall allan
 I hynaws hongian yn y nos engur,
 Allan i'r nos dywyllaf—
 Cenhadon anwyllion Naf
 Yn barod yr un borau—i sefyll
 Uwch y gordywyll ddrych o gredoau,
 I gynnal uwch eigionau—paganfyd
 Air y bywyd, uwch môr eu beiau.

Llawnder Cymdeithas Llundain—ga fendith
 Aml gyfandir didrain;
 Mor ddedwydd myrdd, a'i hadain—yn noddfa,
 Heirdd eu lleda dros foroedd llydain.

Mwy daeth oes y cymdeithasau—â gwedd
 O dragwyddol forau;
 Aneirif y banerau—ddyrchefir,
 Eu tymp genir hwnt am y pegynau.

Tafodd yr Eglwys ynghyd ei phwysau
 Uchel ar unwaith, oll i'w chlориannau;
 Fel llynges o gariad daw 'r enwadau
 O'u haberoedd o hedd yr un borau
 O fawr dawelwch, i fôr di-olau,
 Yn gywir i ganol goreigionau
 Y ddofn baganiaeth, â helaeth hwyliau
 A gwiw oludoedd a goleuadau,
 A iawn dueddiad eu nodwyddau
 At y Seren ddwyfolaf ei gwenau
 Uwch yr Olewydd a fydd am faddau,
 Oni chyrhaeddir, ei uchraddau,
 Ei gofus air, godidog fesurau,
 "Ewch" ei addwyn lechweddau!—y bur raith
 Lifai unwaith o ddwyfolaf enau.

Hi newidiodd o'i nodwedd enwadol,
 Gan ehedeg i'w hagwedd genhadol,
 I rod o fawredd daear—adferol,
 Bob enwad i dywyniad cydunol
 Gwawr o hynawsedd ar fyd gornosol;
 O dân hon yn gydenynnol—cyn hir
 Caerau du ysir, credoau oesol.

Môr yw ei hewyd cydymroawl
 Gyrhaedda feinciau duwiau andwyawl,
 Bannau Paganïaeth unbennawl—ar fyd
 A dry 'n eilfyd i Ior a'i anwyllfawl.

Ofnadwy 'n gydfynedol
Ydyw hi, â Duw o'i hol.

Mewn un greddf cydgyferfydd
Enwadau, credoau 'r dydd;
Un awydd mawr, un hewyd
I bawb—adferiad y byd.

O'i thuser Gymdeithasau—nid ennyn
Ond un o'i daliadau;
Un arogl, y ddawn orau—i bagan,
Iesu ei hunan heb isenwau.

I eneidiau un ydynt,
Un oll o ddibenion ynt,
O'i gredo un gair odiaeth
Diau dros y byd a draeth
Pob cenhadwr, roddwr hedd,
A'i gynnwys yn nigonedd
Mab Duw i gadw anuwïol,
A'i ddwyn yn addfwyn yn ol.

O ba le bynnag, ai o bwl bennau
Andes eu hunain, y daw eu seiniau,
Ai o dywyll ynsoedd y deau,
Awen fad! croesawa 'r cenhadau
A molawd lael haeddawl mal delweddu
O gariad syn mwy na edwyn nodau,
Ond enaid tlawd a doniau—Crist ddwyfol
Yn fôr oesol ar gyfer ei eisiau,
A llef eu henaid o bellaf fannau
Asia elynol, o echrys lannau
Na fu ymwelyddion ond y tonnau
Erioed iddynt, goranwar dueddau,
Eu holl nod am ennill eneidiau—o'u bâr
A'u tuedd anwar at Grist a'i ddoniau.

I gyrrau aml fôr gerwin,
Dan echrysaf oeraf hin,
Dan aml hinsawdd dawddi gan des,
Ar ol eu hunol hanes
Bo rhwyddgyrch ar bereiddgerdd,
Parod O caer ysbryd cerdd.

Y byd i gyd i'r teg haf,
Gwyn yw i'r mawr gynhauaf.

India.

Hindostan o'i theg lannau—anfona
 Fwynion ddiolchiadau,
 Dirio gair Duw ar gyrrau
 Ei maith ing i'w hesmwythau.

Draw Calcutta dderbynia ei baner,
 Afon y fendith ddiderfyn fwynder
 Lifa o dan ddwyfol leufer,—yma
 Aml enaid yfa, aml Hindw ofer.

Ahmedabad glyw yr alwad, disglaer olau;
 Haul cyfiawnder ar ei gwywder dry ei gedau.

O gaerau Hindwaeth ei gwrandewir;
 Surat hynafol draw a siriolir,
 Hyd ei heolydd Armeniad* welir
 Fu a'i eilunod afrifol anwir,
 Yn hoeddi y newyddwir,—goludoedd
 Y Iawn i filoedd gan bagan folir.

Daw â'i siriol nefolwawr
 Heibio i fyrdd Bombay fawr.
 Gwelodd Amerig waeledd ei muriau,†
 Heibio y llifion clybu ei llefau,
 A thosturiodd. Adeiniodd ei doniau,
 Yr anherfynol waredol radau,
 A chywir ehediad uwch rhuadau
 Aml fôr, a beiddiodd, do, aml hinsoddau,
 I gyrhaeddyd & braich drugareddau
 Y pagan gwan, a'i lonni â'i gwenau.
 Y dwyrain unwaith o odre nennau,
 Y pell orllewin a'i orgyffiniau,
 Gadd haul a fwriodd dragwyddol forau
 Ar ei dynged hyd byrth diried angau.
 Y goludog alwadau—yn ddiball
 I arddrych arall roddir o'i chyrrau.

Firienied acw ar fryniau y Deccan—
 Ar uchaf urddunaf orseddau anian
 Fel hyderus gartrefle y daran—
 Haddef fu lom, yw'r hardd ddwyfol luman!

* Armeniad oedd y cenhadwr cyntaf yn Surat, lle bu 'n llafurio naw mlynedd.

† Yn 1813 daeth cenhadon yn *American Board of Missions* i Bombay.

O, geined agwedd paganiaid egwan
 Trwy ewyllys o hedd yn troi allan
 A thoriad Sabbath eirian—i wrando
 Gŵr Duw yno—Duw yno ei hunan!

Ryfedd hewyd! Y faner faddeuol
 A chwyfa o Nassuk, gyrchfan oesol
 Ofer ymhonnwr y gred Frahminol;
 Daw y pererin gau grediniol
 I fawl anuwiaeth, yn fiin i'w heol,
 Ac O cenfydd yr un dydd dedwyddol
 Yn ei swydd gennad y Duw tragwyddol,
 Ie, ger dringion, ger dôr eangol,
 Teml Sheeva dôa y byd Hindwol
 A'i chysgod, a'i chlod mor uchel-ehedol,
 A daw y lle andwyol—yn Seion!
 Gwedi ei gwynion, O Basg digonol.

Hyd Mangalôr y torra y borau,
 Mad enw Greiner yma dan goronau;
 A Dharwar anwar tu draw i fryniau
 Y Ghauts arfeiddiol, fwynha y golau;
 Ar gaerau Mysôr ei grymus eiriau
 Heddyw glywir er paganaidd gloiau;
 Ei bwrdd a daenir dan beraidd donau
 Awel Salem, a'i maddeuol seliau,
 Gwawr o fewn hudd ei hamgaer fynyddau
 O dynyr heddwch daena ei rheiddiau;
 A Bungalôr ni etyl ei dorau.
 Perhaidd ehed y pur wahoddiadau;
 Mahometaniaid, paganiaid gynnau,
 Glywant, adawant eu gau gredoau;
 Hon egyr fedd i grefyddau—dirfawr,
 Hyd y llawr y llwyda eu hallorau.

Diorseddir o uchder eu swyddau
 Y Brahminiaid, mae braw am eu henwau;
 Daw ofnadwyaeth hyd fan y duwiau
 Brig urddoledig yr addoliadau.
 A'r gwir llethir cyfundraeth y Llwythau,
 A gaed i enaid India 'n gadwynau;
 Haul gwir ryddid ddilea eu graddau,
 Hygar fawr entyrch o ragorfreintiau
 Heddyw hongir lle bu niwloedd angau.
 Pentrefi lawer yn ei phellderau

Ger ei hafonydd, ar ei gorfannau
 Geir is cain edyn gras y cenhadau
 Fel Eden yn aml fawliadau —Heirdd ynt,
 Hawddgar ydynt fel newydd greadau.

Ior a addolir lle bu meirw ddelwau,
 Iesu a'i ogoniant eu glwys ganau.
 Ner alwa fyddin araul o feddau
 Duon arferion India ryw forau.
 O drymion feirwon furiau—Brahminiaeth
 Dwg fyd odiaeth o adgyfodiadau.

O'r gorwag fyd daw rhagor
 O fewn y cylch, Travancôr.
 Mothelloor am waith ei law
 Rydd haeddol fawredd iddaw.
 Tinnevelly tan foliant
 Melus sy ag aml i sant.

Swartz yma ryglydda glod,—seren lwys
 Ar hanes eglwys, a Rhenius hyglood.

Acw o'i bedd cwyd Tranquebar—ar godiad
 Ar anfoniad gair Ion o'i faniar.

Madras a glyw am y drefn
 Edryd ei miloedd di-drefn.
 Ramadoo wyr am ei dawn
 A dôr achubiaeth diriawn.

O'u mawr ddyryswch daw myrdd Orissa,
 Borau i'r anferth fawr Bererinfâ,
 Heddyw ger hon ei mawrdduw* a gryna.
 A! bob gwyl derfydd, derfydd y dyrfa.
 Ar ei olwynion pwy a'i gorlonna?
 Môr ei addoliad heb droad dreia,
 Yn y diwedd nerth hon ni adawa
 Offeiriad ymddifad a'i haddefa.
 Daear a nef dry yn ha!—ei weled
 Oedd ogoned heb iddo a gwyna.

E balla aml fam bellach
 Yn ei byw, roi 'i phlentyn bach
 I'r dyfroedd geirw o'i dwyfron,
 Gerub têt i reibiau tôn.
 Defodau oesau eisioes
 Ynt ddiddym ger grym y Groes.
 Crynodd y caerâu anwir
 Ger gorsaf gyntaf y gwir.

* Juggernaut.

Cynhauaf, O cân newydd
 I genhadon Seion sydd,
 Arwyddion fod Ior iddynt
 Yn nawdd ar eu didrain hynt;
 Ei ysbryd hefyd yn dwyn
 Syw lwydd a seliau addwyn,
 Ie, o fewn gwyll di-faeth
 A llen dywell Hindwaeth.

India wael yn addoldai a welir,
 Ar ddrych hyfawl allorau ddrychefir;
 Yma adenydd addysg amdaenir,
 O dan eu haddwyn faeth adnewyddir
 O wedd andwyol aml fyrddiwn doir,
 Ie, ag hollol dwyllwch y gellir
 Ei deimlo yno, fyd a am-lennir.
 O daw efengyl Duw, fe eangir
 Y dealedigol fyd lle 'i dygir;
 Dygir ei choron a digarcherir
 Athrylith, ac i'w gwaith ei bendithir;
 Golwg y moesol gau ail-gymhwysir;
 Y gwladwriaethol â'i golud drwythir;
 Celfyddyd yn eurog fyd gyfodir
 Am ei baner, ac O meib a enir
 I farddoniaeth a fore ddihunir!
 Ogoniant na ddatgenir!—Darluniaeth,
 A chaer llenyddiaeth, uwch yr oll noddir.

O! ddarfelyddiad y fawr Genhadaeth,
 Pwy rydd fur am y pur fawr ddarpariaeth
 A diderfyn welediad ei harfaeth,
 Ei amrylawn ddibenion mor helaeth,
 A'i haneiri haelioni, o luniaeth
 A tho i bagan rhag oer wlybaniaeth
 I fyny, i fyny hyd faeth—didraul
 Goruwch hyd araul gaer iachawdwriaeth.

Neuaddau derch llenyddiaeth—addurnwyd
 Gan ddarnau ehelaeth
 O feiddiol ddarganfyddiaeth,
 Ail fyd o ieithyddol faeth.

Y wasg â'i mawrion esgyll
 Doai, ail-agweddei 'r gwyll,
 A deorai fyd arall

O newydd yn ddi-wall.
Ysgydwad eu rhwysg odiaeth
O ddig nos yn ddydd a'i gwnaeth.

Onid hynod dihuno
I fawr aidd mewn aml i fro
Ynfyd Hindwaid anfwyn
Yn engyl efengyl fwyn?
Hindwad yno dywys
A mât gyfeiriad ei fys
Tua 'r nef, at yr iawn Ior
Aml i frawd, aml i frodor;
Rhydd hanes gun yr Uniawn
Y duai 'r nef un prydawn
Oddiarno,—y ddyrnawd,
O a'r wen dan y mawr wawd!

India fawl yr haeddawl res—ryw forau
O'i gorfannau ag aiddgar fynwes;
O! 'r enwau goronir,—y cenhadon
Fel angylion i'w chofion ddyrchefir.
Enw Warth hynod ar ei thannau—glywir,
Heber folir o'r phellaf brif aelïau.

Meibion yr Alban rodiant ei bannau
Ag addfwyn araeth, ag hedd-fanerau,
Iesu a hoeddant yn ei holl swyddau,
Yn ei fawr gariad a'i ddwyfol radau,
Yn ordeiniedig frawd i eneidïau,
Hir-brofedig trwy bair o ofidiau,
Trwy lys, ac O trwy loesau—heb "ateb"
A'i fir wyneb yn fore o wenau;
Y gŵr unig a haedda goronau
Am ei urdduniant uwch myrdd o enwau,
Orchuddiodd, soddodd ein myrdd troseddau,
Ar fôr o iawn aneirif ei rinïau,
Hoeddant ei aml rinweddau—ar gaer bell
Hoornee dywell oni chryn ei duwïau.

Gwel feibion hedd, ryfedd res
Myg engyl am y Ganges.

Daeth y golau hyd ei glannau, nid gelymol;
Myrdd o radau addien forau, hedd anfarwol.

Mynych ar hyd ei minion
 Ior a erddyl engyl hon.
 Ar lan hon, o galon gu,—gwaed y groes
 A genir eisioes, gwiw enw yr Iesu.

O gylch, pa gynnwrf a gaid,
 Gynnwrf yn nglyn paganiaid !

Enwau Blumhart a Martyn
 I rol anfarwol a fyn ;
 Ryw eilfod anfarwolfawr
 I Smith am ei fendith fawr—
 Bri emwyd ag enw Brahmin,
 A'i fwyn draw fynnai ei drin,
 O'i fawl gau dafnai â gwg
 Ei eilun gwael o'i olwg,
 Gan addef Ior y nefoedd,
 Enw y mad Geidwad ar goedd.

Gwlad ar ol gwlad fwynha ei goludoedd,
 I Asia fawr ei golud sy foroedd,
 O daw ei mil o filoedd—i dderbyn
 Heibio a wedyn am draethau bydoedd.

Ar adfeilion pell Agra, dy foliant
 Hynod a genir, Seren digoniant.
 O'i gwyw agenau, gobaith gogoniant
 Dywynna heddyw, gwawr adnewyddiant
 Ar gynllun o urdduniant—anfarwol
 "Ddelw y Nefol," dragwyddol nwyfiant.

Boreuol hynt Chamberlain—a'i llonnai,
 Iddi e ledai 'r dragwyddol adain.

Gair Duw i Agra dywell
 I'w heuog byrth ddug o bell.

Delhi i gyd oleuir—yn y man,
 Pob mynydd orchuddir
 Ag aroglarth mwyndarth mawl,
 Y ddwyfawl gred addefir.

Ceylon.

Iselion gwaelaf Ceylon a'i gwelodd,
 Paganiaeth welw ger ei henw a grynodd ;

Yno Harvard a'i bore gynhyrfodd,
 Gair rhad bywyd o gywirdeb heuodd ;
 Uwch ei dyfnaf dywyllwch y safodd ⁴¹
 Golau. Golau uwch y gaddug alwodd,
 A chread uwch ddechreuodd—ymffurfio
 Yn bur dano, wyneb Ior dywynnodd.

Pleidwyr cyfundraeth Buddhiaeth dawant,
 Ei hen addolwyr luoedd ni ddaliant
 Ei defodau, a'i gwyliu nis gwelant,
 O filoedd miloedd gwanha ei moliant ;
 Cenhadon deg luon a'i goleuant,
 O lan i lan yr ynys ail-luniant,
 Durym Buddhiaeth dorrant,—ei mawr ludd,
 Ei maith orchudd ymaith a archant.

Enw yr Oen yn dyner yno—seinir,
 Y dôn eilir gan bagan dan wyllo.
 O, melus yw y molawd
 Tua 'i lys gan bagan tlawd.

Ogoned dirioned hed yr hanes
 O oror i oror, y ddawn eres !
 Ag uchel lwydd ei gwyich les—arwain Ior,
 Dorau i'w gyngor tu draw y Ganges.

Assam.

Assam fawr sy yma fyd
 A rhwyg mawr i'w gymeryd,
 Ie, mawr rwyg ym muriau—Paganiaeth,
 Gormesiaeth â grym oesau.
 O'i gorddyfnder cymerir
 Ei holl anferth nerth cyn hir.

O Serampôr ymadeinia y borau
 A chain ehediad am ei chenhadau,
 Hardd ymddengys i fyrdd ym medd angau
 Diau â chodiad o ddatguddiadau,
 Rhyfedd olud gair Ior a'i feddyliu,
 Yr achubol waredol fwriadau.

Jaipoor a welodd, do y pur olau,
 Sadiya unig a gais y doniau,
 Am Iesu a'i iawn y mae eu seiniau,
 A garodd, garodd y byd i'w gyrau,
 Welodd, ofynnodd fannau—eitha 'r byd
 I'w law i gyd, ei wobrwyl gedau.

Burmah.

Bellach Burmah ddyrchafa ei chofiant
 Ddug i'w gororau forau adferiant;
 A feiddiai lawnaf faith anfoddloniant,
 Gwarth, anobaith, pob gwyrthwynebian,
 I ddwyn gwiw wleddoedd gwinoedd digoniant,
 A'r addwyn faner o hedd-anfoniant,
 Seren lon gobaith gogoniant—i hon,
 A'r newyddion am yr Oen a'i haeddiant.

Judson fawr ga adsain fyth—i'w deg glod,
 Eto ryw gafod a fri tragfyth;
 Adawai gartref—dewis
 Cael rhyw fan ar eirian ris
 Gwasanaeth ehelaeth hon—
 I'r engyl, addas ddringion,
 I gyrraedd prifair gwiwras
 Duw ai wên gyda 'r "Da Was."
 Tra ar led enw Gwardwr
 Burmah a gofia y gŵr.

Ynysoedd yr India.

I'r Ynysoedd pell, a hir hunasant
 Dan isel lwythi, dan oesol lethiant,
 Byw ar y don heb wawr o dywyniant,
 O'u nychol eisiau "y rhai ni chlywsant
 Un son am dano," yno di-hunant
 O ryfedd waeledd, a'u torfoedd welant,
 Ie, yn gannoedd, ei fawr ogoniant;
 Lluoedd Java o bell a'i haddefant,
 Am ei faner a'i air ymofynnant,
 Moa a Kissor yma a'i ceisiant,
 Meib Borneo ymgrynhoant,—yma
 Efe alwa offeiraid i'w foliant.

China.

Aew i China fawr y cychwynnodd,
 Fôr o fywyd, y wlad fawr ofwyodd,
 Tua 'r miliynau hwnt yr ymlanwodd,
 Aml isel enaid, aml eisiau lonnodd,—
 Leangafa o'i wael ing a yfodd,
 A'i diliau addfwyn ei syched leddfodd,
 Ei awydd hyd ereill fydoedd dorrodd,
 Dan ryfedd esgyll dawn Ior fe ddysgodd
 Enw yr Iesu, ac O, ni arosodd—
 Eilwaith ei enw ganmolai, a thaniodd
 Aml un â chariad yr hwn a'i cadwodd.

O aethawg waelod paganiaeth "gwelodd
 Ei seren," o ddor angau ymddringodd,
 I gyd yn aidd ymgododd,—â'r alwad
 I'w eang wlad fel angel ehedodd.

Gwael ei Mur i gloi moroedd—Ior allan,
 Drylliai y galluoedd,
 Bannau uwch i'w herbyn oedd,—uchelion
 Dorau y galon a'i dirgeloedd.

Ger toriad, gwawriad y gwir
 Ei gau ragfarnau fernir.
 Haeledd ddaw i filoedd hon,
 A chul ni fydd ei chalon.
 Heibio y daw meib y don
 Hyd lannau dielynion ;
 I mewn i'w hafnau mwynion—gwahoddir,
 A chroesawir fel o ochrau Seion.
 Pan erddyl efengyl fwyn—China gau
 Rydd ei hallweddau ar ddull addwyn.

Ar wyn y don, wawr anwyl
 Gwynfyd i hon ganfod hwyl ;
 Newydd lwydd roi nawdd i long,
 Hynodle i genhadlong.

Pe anghof nid llai gofal
 Fydd yno gyweirio 'r wal ;
 Aredir llawer adwy,
 Drwy ei mur, ddaw 'n frodir mwy.

Uwch yr oll, i'w chyrrau hi—enw yr Oen
 Ar riniog mawrhydi,
 Ac haelfawr waed Calfari—fydd arwydd
 O lwydd tragwyddol iddi.

Morrison, yma ar sail
 Goruwch hedfawr gyrech adfail,
 A roes ei enw arddunawl,
 Enw a fydd golofn i fawl.
 Ei hafrwyddaeg i frawddegau—heddwch
 Drodd er myrdd o rwystrau ;
 Yr hynod lythyrennau—a ffurfiwyd,
 "Iesu" luniwyd, a'i res o hael enwau.

Japan.

Yn y man, y fawr gyngherdd o'i glannau
 O'u hir nos ddeffroa yr ynysau
 Yno a'u miloedd yn eu hymylau
 A geir, ie ogylech oll yn greigiau
 Rhag glaniad y cenhadau;—hyd Japan
 Daw cynghan am ei waed cu a'i angau.

Yn norau yr haul ni erys,
 Ar ddringion gorloewon ei lys.
 Gwrendy yr ochain gerwin, edrycha
 Pwy am ei nefol wyl a ddwysgwylia!
 O ffin Comorin golwg cymera
 Heibio i oeraf benrhyn Siberia,
 A'i gwledd hoff i'r gogledd a,—ei bwrdd per
 A'i gwên dyner am y pegwn daena.

Siberia.

Os bu oerion bell fronnau Siberia,
 Ger dihafal fawr gariad Iehofa
 A gwenau oesol mwy ymgynhesa,
 I rym ei gariad yr ymagora.
 Ei hir rewedig galon a ffrydia
 Yn edifeirwch a'i llawn adferfa
 Dan Haul Cyfiawnder per, a ddarpara
 Olau am arall fyd a'i diwalla;
 Eisioes hardd ymddanghosa,—godidog
 Y groes ar eurog risiau Aurora!
 O diaeth y gân heda,—fawl derchedig
 Glywn ar unig lannau yr Ona.

Rhoddir i hon ogoniant—Lebanon,
 Ie, gwyrdd Saron gerdda ei soriant;
 Godidawgrwydd o lwyddiant!—bri Carmel
 I'w haniael isel yn fawr iawn lesiant.

Ucheldiroedd Asia.

Pwy egyr mwy—pwy ga'r mawl!—
 Byrth Asia canol-barthawl?
 Pwy ar y faith ymdaith a,
 Chwal nos uchelion Asia?
 O nefol awen-ofwy,
 Onid trist yw myned trwy
 Hanner hon, lwydion wledydd,
 Yn brudd oll heb wawr o ddydd,
 A theithio myrdd o froydd

Yn addien fel Eden flydd,
 Bryniau a'u bannau fel byd
 Dirfawr goruwch daearfyd—
 Bannau yn dyrau 'r daran,
 Rhodfeydd y mellt euraid fan,
 Heb gwrdd o wiwdeb ag un—cenhadwr,
 Un addolwr ond o flaen prudd eilun?

I'w gofwy, O'r andwyol
 Fyd dilon gawn eto 'n ol,—
 Myrdd o fyrdd dan ddwyfol farn,
 Iselyd dan oesolfarn,
 Heb glywed am Waredwr,
 Grym y gwaed, gair am y gŵr!
 Llawer aig gorbell ar ol
 Na edwyn long genhadol;
 Aml fôr heb ymyl i fawl,
 A'i wanegau unigawl
 Yn aros yn aneirif
 Awr y llanw, pan archo 'r llif
 Ei fyrdd ymlaen dan fawrddull
 Godidawg ardderchawg ddull,
 Gohirio, tua 'r gorwel
 Troi di-wg olwg, a wêl
 Rhyw don hiraethlon yr hwyl
 A ddwg y rhyfedd egwyl!
 Genhedloedd heb genhadlong,
 Brudd lu, heb arwydd o long
 Ac ynddi, O ynddi hedd,
 Golau, a phob ymgeledd!

Afrig.

A! gwaedd Affrig a ddeffry
 Euraidd fraich trugaredd fry.

Ei Negroaid, ger rhiwiau—'r cyhydedd
 Draw, codynt eu llefau,
 Odiaeth yr atebiadau!—digioniant
 Iesu a fedant o'u deisyfiadau.

Mawr yw y dydd rhydd yr Ion
 Hynt heibio yn atebion,
 Ar ol gweddiau heb rif,—fel bloedd fan
 O sedd y daran am oesoedd dirif.

Duw glywodd ! ei henbyd gloiau—dorrodd,
 A'r dirif gadwynau
 Lethynt ei myrdd o lwythau ;—ogoned
 Beri i'w thynged o byrth angau
 Am drugaredd ryfedd Rhi,
 Am Geidwad, hardd ymgodi,
 Esgyn i fryn o freiniau
 Ar y nef ga 'u cadarnhau,—
 Breiniau yr Iawrol bryniant,
 Goludoedd oesoesoedd sant !

Ar y don genhadon hedd
 I'r dywell fro o'r diwedd ;
 Diau mordaith hirfaith yw,—i'r ffyddlon
 Fwynion genhadon, llesg iawn ydyw ;
 Y fuanaf, arafaid
 Wrth eu huchel, uchel aidd !
 Mynnai 'r cennad clodadwy
 Edyn y mellt dano mwy,
 Ehedeg â'r ddawn odiaeth
 Hyd y pellaf dristaf draeth,
 A disgyn ar rad esgyll
 A gwawr i ganol y gwyll.
 Fel angel uchel ei lef,
 Fflamiol o ganol gwiwnef,
 A chenhadaeth helaethaf
 O lys nen, o fainc lwys Naf.

Dorau ei harfordiroedd—agorir,
 Ie, gerwin leoedd
 Yr anial i'w hatal oedd
 Yn hyf fel ochrau 'r nefoedd.

Aml awr hyd ymyl eirian
 Senegal, seinia y gân ;
 Bu i fin y Gambia fawr
 Weled ei hanfarwolwawr.

Gwywa eilunod fil am ei glannau ;
 I gariad Ion try 'r Negro ei dannau
 Ger ei hymylon ; rhed grym o olau
 Gwybodaeth Ior fel llydanol forau
 Gogoniant, moliant hyd ei hymylau,
 Iesu a'i hanes yn ddwyfol seiniau

Hyd byrth goreubyd barthau—ei mewdol
 Fyd ingol, oedd fel gofod angau
 Tu allan i holl fannau—gwelediad,
 O gyrhaeddiad pawb ond trugareddau
 Hon a'i braich, braich y breichiau!—Genhadaeth
 Iachawdwriaeth, sy danbaid uwch dorau
 Marwolaeth, haul ar draethau
 Ail fyd in hyfryd fwynhau.

Aml lu a'u dwylaw duon
 I fyny am anfon hon!
 Eilchwaith, eilchwaith diolchant,
 Seinio am alw Negro wnant.

Melldith caethwasiaeth.

Guinea fawr, dan gwyno fu
 Is hollol wae yn sylu
 Am Ior mwy a gymerai—drugaredd
 Ar ei hagwedd brudd, tra y rhwygai
 Y creulawn ei heddlawn hil,
 Lonyddaf luon eiddil.
 Crynai 'i glan a'i meib anwyl
 Gan ofid oll ganfod hwyl
 Y gaethwasiaeth, a wysiai
 Ei duon feibion di-fai
 Filoedd o luoedd i lawr
 I'w blinfyd Babilon-fawr,
 Y byd sydd oll heb adwy
 I wlad eu dymuniad mwy.
 Y cylechoedd eu teuluawl,
 Rhwygir, dibennair pob hawl,
 Eu chwalu, heb ddychweliad,
 Er llef dyner tyner tad
 Rwyga 'r môr wrth roi 'r gair maith
 I'w fab, ei olaf obaith.

Dileed Duw a'i luoedd,
 Yr anwir gedwir ar goedd
 Y ddaear oll, yn ddi-wrid,
 Ie, rudda dir rhyddid.
 Er mor sier, crymir ei sedd
 Ar hynod ddydd gwirionedd;
 A'r waneg, ddedwydd egwyl
 A wrthyd ei henbyd hwyl.

Dydd coroniad y Genhadaeth,—bydd hon
 Wrth ei holwynion, gerth elyniaeth,
 Ei hunan yn gaeth yno,—ac Affrig
 Ar ol ei haddig frad, yn gorlwyddo,
 Dan gywirffawd yn gorffwys
 Ar obennydd ffydd ei phwys.

Sierra Leone â chysur lannwyd,
 Uthraf berfeddion Affrig a lonnwyd,
 Ar ei mynyddoedd y gair mwyn hoeddwyd
 Borau anfarwol i'w bryniau fwriwyd,
 Hyd ddyfnderoedd ei choedwigoedd dygwyd
 Y wawr ryfeddol, pob gwae arfeiddiwyd ;
 Yr anialwch arswydfawr ni welwyd,
 Enwau afonydd geirw ni ofynnwyd,
 Rhyfedd rwystrau ni rifwyd—gan bêr lu
 Bywiol gôr Iesu nes eu cwbl groeswyd.

Y diddysg dan addysg a adnewyddid.
 Ar fronau gwybodaeth bur ei maethid,
 Bellach bro'r yspeilydd a allorid
 I fawl Ior, a'r delwau a falurid ;
 O'r waedd annuwiol bu beraidd newid
 Am gun dawelwch, am ganau dilid
 Ganau'r Oen ! am gain wrid—y bywyd glân
 Ar ddwyfol anian a greddf ail-lunid.

Greig a Jansen.

Greig elai o gywir galon—â gwên
 I ganol peryglon ;
 Angau, bywyd o ingion—nid ofnai,
 Ar y bedd gwenai er budd gweinion.

Fe roes bob cynneddf o'i ran,
 Ei holl alluoedd allan,
 Do, ei enaid yn dyner
 Dros odiaeth Genhadaeth Ner,
 Fywyd o lwys hewyd syn,
 A'i waed i'w selio wedyn.

Bu Jansen lawen a'i dduon luoedd
 Hwnt o hewyd yn dod yn finteioedd
 Oedd anofion, i dŷ Dduw y nefoedd.
 Fel ymagorol fywiol wynfaoedd,
 Goris hael edyn gras a'i oludoedd,
 Heulog o fywyd fu'r golygfaoedd
 Ar ddiderfysg heirdd dorfoedd,—lu diddig
 Ie, golchedig o'i amgylch ydoedd.

Cynhauaf helaethaf o'r prudd lwythau,
 I Ior a fedwyd o buraf hadau
 Y Gair, a fwriwyd gyda gwawr forau
 Y lawn Genhadaeth ar boethaf draethau,
 Ar hyd yr anial mawr a diriniau.
 Diau braenarwyd â'i burion eiriau
 Fraenar addwyn, i aml fawrion wreiddiau
 Y Gair, ar eirwon anfwynion fannau;
 A bu yr anial diffaeth fel bryniau
 Paradwys ei hun yn llawn prid seiniau.

Gan amledd o rinweddau—hon a'i myn
 Ail rhosyn anfarwol ei rasau.

Gwareiddiad egyr heddyw
 Ei faniar i'r anwar ryw.
 Gwareiddiad, a gwiw roddion
 Hygar ddaw yng ngosgordd hon,
 A'i lon ged yn dilyn gaf
 Yn ol ei throed anwylaf,
 Nid o flaen, ond fel hynaws
 Weinydd o dan eilfydd naws.

Liberia.

Liberia wela y wawr
 O dir rhyddid—arwyddwawr
 O ryddid uwch ei raddau,
 Heibio 'r holl fyd i barhau,
 Yn y fro na edwyn frad
 Na gerwin floedd ysgariad,
 Lle ni ddaw i'w llonydd hil
 Dan falm mwynhad yn filmil—
 Eu Duw o'u hamgylech yn dŵr—
 Gerth rwym na bloedd gorthrymwr.

Am Benrhyn Palmas cwyd mad ganiadau
 I'r Oen a rodde, er anwireddau
 Y Negro, ei hun! Aml, aml goronau
 O fawl i'w ran am ei ddihafal riniau.
 Grahway dywell rydd oesol gredoau
 I fyny, arferion duon, a duwiau,
 Er mwyn addwyn rinweddau—y Ceidwad
 Alwai i'w gariad ei hisel gyrrau.

Ashantee.

Torraï y borau terwawr
 Hwnt i fyrdd Ashantee fawr ;
 Y ganwyll i ogoniant
 Oleua, gysura 'r sant,
 Ddygai Freeman i'w chanol
 Yn llawn aidd—ni syllai 'n ol.

Eglwysi 'n ymgodi gawn
 O'r moesol wgol eigiawn,
 Goethaf greadigaethau
 O bleth gerth y tryblith gau.

Yr Hottentotiaid.

Aml Hottentotiaid glyw am ei radau,
 Addfwyn Waredwr sydd fwy na 'i reidiau.
 Ei fro unig a'i reibiedig fryniau,
 Gaf yn doedig gyfnewidiadau ;
 Byw ardd am anial, beraidd emynnau,
 Bro o addoliant o dan bêr ddiliau
 A doniau addysg, hyfryd aneddau
 Beunydd i fywyd, lle bu noddfaù,
 Eon deigrod, dagrau—edifeirwch,
 Aml aml heddwch am wael ymladdau.

Vanderkemp.

Am y pell Vanderkemp ai,
 Ar ei oll pell yr elai.
 I'w hynod gyrch un nod gaid,
 Wych binacl—achub enaid.
 Y diffaethwch, harddwch oedd,
 Cysgodlen Eden ydoedd,
 Gardd y nef, i gyrraedd nod
 Am ei rinwedd mor hynod.
 Mynnodd er y dwymyn ddig,
 Hinsoddau o naws addig,
 Gyrraedd y nod ragorawl
 Iddo fydd arwydd o fawl
 Y dydd derfydd daearfyd,—
 Olau faen yn yr ail fyd !
 Llwydai ei wallt* hyd ei wedd,
 Deuai rychau y diwedd
 Braidd cyn i'w aidd gynyddu
 I'r mad benderfyniad fu

* Yr oedd yn ddeg a deugain pan gynhygiodd ei hun i Gyndeithas Llundain.

I'w arwain ar gain gynnydd
 Wedyn i derfyn y dydd;
 Ond hyn yn fwy a'i taniai,
 Ac uwch hwyl i'r gorchwyl gai.

Agor y faner fu 'i gywir fwyniant,
 Hulio y wledd o dragwyddol lwyddiant,
 Wledd i genedl na welodd ddigoniant
 Iesu ein moddion, son am ei haeddiant,
 Gwiw ennill i ogoniant—yr aflan,
 Y du bagan ar ei debygiant.

Yma dynion ar ddarfod am danynt,
 Baganiaid eiddil heb gennad iddynt,
 Luon duon at ei orsaf deuynt,
 Ac ar gu lewyrch y gair goleuynt
 Nefol anfarwol obeithion fwrynt
 Olau ar angau a'r holl niwl rhyngynt
 A thŷ eu Tad, y mad gyfamodynt
 O galon addien ei gael yn eiddynt.
 Paganiaeth, ei chwymp genynt,—yn lluo
 Ar ei hadfeilion gair Duw a folynt.

Y Bechuaniaid.

Cenedl y Bechuaniaid,
 Hwyrthau er oesau o raid
 Heddyw ganant ddigonedd
 Lu ar lu am fyrddau 'r wledd.

Ogylch y lluoedd egwant—addolant,
 I Ior crymant ar lanau 'r Kuruman.

Honnawl galedwch annuw
 Os bu hir dalm, Ysbryd Duw
 A doai galon dywell
 Y pagan dan ei gred hell,
 A'r enaid gaed o'i rinwedd
 Yn ir oll i air yr hedd,
 A'i galon yn ffynhonnau,
 A'i fryd ar edifarhau.

O'r mewdol barth eiriolir
 Am gennad, gwawriad y gwir.
 Chwydda mynych ddymuniad
 O aml newydd lonydd wlad—

Bell i mewn i mewn yn myd
 Huddfawr Affrig, berfeddfyd,—
 Dymuniad am ei enwi
 Am unwaith yn ei hiaith hi.

Robert Moffat.

Cyweirier eglur bêr glod
 At enw ein Moffat hynod.
 Ogonawl gennad gwiwnef,
 Digon yw ei deg enw ef
 Ei hunan o farddoniaeth,
 I rod-di ffrwd i gerdd ffraeth.
 Aml lwyth sy ym mhlith ei ser,
 Ac enw hoff Affricaner.
 Alluog ŵr! â llaw o gariad
 Agorai glo amlgaerog wlad
 I ddwyn afonydd enaid,
 Dyfroedd i bobloedd heb baid.
 Ger newyn, gair Ion heuai,
 Er pob lliid newid ni wnai.

Cywir ddelwedd o fawr haeledd, o bur nodwedd ei Bryniawdwr,
 Yfodd ysbryd awdwr bywyd, a mawr hewyd llwyr ymrowr.

I Caffraria o Galfaria galwai foroedd
 Anherfynol o fyth-ledol faith oludoedd.

Am ddyffryn trymaidd Affrig,
 Llu Ner am ei dyfnder dig
 Osodwyd, ei broffwydi
 Fywiol gylch o'i hamgylch hi;
 Troi eu gwedd oll tua'r gwynt,
 Mwynaf alw am nefolwynt.
 Oni chawn swm a chynnwrf
 Sydyn, yn y dyffryn dwrf!
 O am anadl! Dymunaf,
 Wyntoedd y nefoedd, O Naf!
 Nefolwynt ein Naf, eilwaith
 A'u troa i fyw—torf faith!
 Na pheidied y proffwydi—
 Mae mawr arch!—ei chyfarch hi.

Gorsafodd y gras hyfawl—a wynnant
 Yr anial paganawl,
 Bob un â chun gylch o wawl
 A doniau byth-lydanawl.

Forau y mawr adferydd,
 Affrig adferedig rydd
 I Dduw, O, bloedd o hewyd,
 Llef fawl ddeffroa 'r holl fyd!
 O'i thŷ o hir gaethiwed,
 Fילוedd o luoedd ar led,
 Daw i fyny hyd finion—y Niger,
 Moroedd o leuer, myrdd o luon;
 I fyny fel afonydd
 O'r holl gaethiwed yn rhydd,
 Feibion Ham heb un camwedd
 Chwerw gwyn, na rych ar eu gwedd;
 Byw i Geidwad heb gadwyn
 A'u bywyd i gyd heb gwyn.
 Brysiwch, ddwyfol-ber oesau,
 Ior a'i dderch fraich i'w rhyddhau.

Madagascar.

Daw a'i gwiw esgyll uwch Madagascar,
 Daw a'i mawr ddoniau hyd ei myrdd anwar,
 Iehofa a rwyga, forau hygar
 Yr iawn addewid a'r newydd ddaear,
 Ei gau amfuriau o fâr,—cyd-ddeuant,
 Miliwn ofynnant am ei lon faniar.
 A'i aml iawn rad, ymlaen yr eheda,
 I ereill foroedd y ddawn gyhoedda
 Yn y Tawelfor myn eto hwyfla
 I ynysoedd Polynesia—ddi-wên,
 Ar ei myg aden hardd yr ymgoda.

Polynesia.

Hir gwyno ar eu gwaneg
 Hiraethlon ar y don deg,
 O unigaidd fin eigion
 Holai eu dwys lu y don
 Hwyr y dydd lonydd lanwai,—o'i gorwel
 A'i nefoedd isel, beth ganfyddasai?
 Beth a'i dug? Pa obaith da—i'w hachos?
 Pa olau i nos ddofn Polynesia?
 A'r don, heb air i'w llonni,
 Hyd y graig ei dagrau hi
 Heilltion oll eu tywallt wnai,
 Mwy i'r niwl marw a wnelai.

Unig oeddynt dan gaddug
 Paganiaeth ehelaeth hug.

Rhy deg ar gaerau y don,
 Rhy fir i eirw arferion
 A lluman erch paganiaeth,
 A gaed ar hyd bob teg draeth—
 Ac ar fannau yfent forau i'w huchderau o wych doraeth,
 Oriau cyfain cyn i'w blygain fwrw ei adain dros fro odiaeth;—
 Bannau rhy anibynnawl
 Ar wyw fyd, i unrhyw fawl—
 I ddal unrhyw addoliant
 Seiniau ar eu golau gant—
 Ond eiddo ein Duw haeddawl
 Dry nef oll yn drôn i'w fawl.
 Er hardded oent ar wyrddion,
 Acw ar deg leisfeinciau 'r don,
 Hir y bu eu hawddgar byrth
 Yn wlyb gan ddynol ebyrth,
 Arferion mil rhy farwawl
 I'w henwi fyth ar gân fawl.
 Rhyfeloedd oesoedd ysynt
 Eu swynion tegeiddion gynt.
 Y tywyll ddyn-fwytaydd,
 Mewn rhwysg, a'i tramwyai 'n rhydd,
 A gwaed ar ei euog wedd,
 Fel delw i fawl dialedd,
 Ond mwy ofnadwy nodwedd—ei duwiau
 Ar hagr luniau pob rhyw greulonedd.
 Gorfoledda, Oceania, clyw eu seiniaid!
 Gwel y borau, ar y tonnau, a'r tywyniad.

Ffong "Duff."

Y mae y "Duff" â grym y don
 Mwy 'n neshau, emynnau Seion
 Hyd ei bwrdd—pand enaid byw
 Odiaeth o gariad ydyw.

Mae engyl yn ymhongian—â moliant
 Am ei hwyliau weithian.
 Arogl hedd i lawer glan—yn ei brys
 O fwyn ewyllys a enfyn allan.

Ar fynwes môr, mor esmwyth
 Uwch y llif yn falch o'i llwyth
 Ac o'i hafiaeth y cyfyd,
 A'i holl fael o arall fyd.
 I'w hwyl hi gwna engyl Ion
 A'u mawl, rym o awelon.

Aml y gwel am ei hwyl gain
 Oludog araul adain
 Aderyn, o fad hiraeth
 Dros li cryf i ddeisyf ddaeth,
 I'w fryniau pell, gyfraniad,
 Gofwy mwy, boreuddydd mad ;
 A'i garol ddeisyfol syw,
 Diodid cennad ydyw ;
 Ni bu 'r Arch o bêr orchudd
 O nawdd per mewn pryder prudd,
 Gynt ar enbyd fyd o fôr
 Waelod ingawl diangor,
 Anwylach gynt yn niluw,
 Mwy golud i deulu Duw,
 Arch gain fry goruwch gwiwne,
 Na 'r " Duff " i ynysau 'r de.

Yng nghofion anwylion Ner,
 Yn eu tôn nid mwy tyner
 Enw y ban a'u derbyniodd,—i'w cwrddydd
 Fel arwydd hyfryd ail fyd gyfododd,
 Nid mwynach i'w dymuniad
 A fu, na Tahiti fad,
 Man dieisior angori
 Ei ffyddlon genhadon hi.

Tahiti

Wedi hir nos fe dorrodd—heulog wawr,
 Fal â gwyrth newidiodd
 Ei hwyneb, Duw a wenodd,—Tahiti
 A'i oleuni a'i ogoniant lanwodd.

Dyrchafwyd y groes, arferion oesau
 Mwy ni welwyd, nac un man i wyliau
 Ei breuadaeth o erchyllaf brydiau ;
 Ai o daenedig amdywyniadau
 Y Gair mad a'i ddwyfol lewyrchiadau,
 I'w hyllion gorelwon yn rhy olau,
 Duw alwodd filoedd ei delwau—i farn ?
 Nid tyner farn—Na ! Duw tan arfau
 Ei ddialedd a'i amledd o olau,
 A'i law ei hunan yn dileu 'u henwau,
 A'u hanfad addoliadau,—am eu sedd
 Duw a'i wirionedd yn daranau !

Bu gadarn ei law arnynt ;
 Rhoddes Ior fawreddus hynt
 A gwedd ei air tragwyddawl,
 Eitha mud yr aeth eu mawl.

Allorau 'r duwiau ar dân—â fflamau
 Pell yn nennau fel pe llonnai anian
 Yn y gorchwyl anwylaf
 O lanhau 'i hun i fawl Naf.

Ereill ynnysoedd yrrynt
 Am y wawr i'w gorawr gynt,
 Deisyf am gennad Iesu
 Angel hedd i'w trengol lu.
 A'r odiaeth air a redai,
 A rhyfedd ogonedd gai.

Aml iawn am ddeunaw mlynedd—o ludded !
 Wleddoedd o ddigonedd ;
 Diau nos cenhadon hedd—a chwelir,
 Y cywir wrandewir yn y diwedd.

Gwlad well a Christ bellach, ei Iawn yno
 I filoedd Eimeo fu wledd mwyach.

Ogoned dan gred y groes
 Ynnysoedd cyfain eisioes !

Eto cana Oceania. Aml y swynion
 Ddaw ar fyrder, ddwyfol leufer, hedd fel afon.

John Williams.

Ar y don fwriadau hedd,
 A Williams fawr ei haeledd.

Hewyd cadarn Paul arno,—a'i fantell
 Ar ei brif hynt iddo ;
 A dau parth o'i ysbryd pur,
 Ryw gysur mawr i geisio

O ddyfnder eu harferion—baganiaid,
 Byw i gynnal weithion,
 Goruwch creig enbyd eigion—paganiaeth,
 Y Gair ehelaeth fel gwawr hylon.

Ior o'i deg droedigaeth,—o ennyd
 Anwyl ei warediaeth,
 Gofnodai gyfnewidiaeth—uwch oesau
 I'r de ynysau, rhod o hanesiaeth
 Tragwydd, fydd ryfeddawl
 I'r ail fyd, lawn rol o fawl.

O'i enaid, oedd ynddo 'n dân—cynhyddol
 O gariad hollol, geiriau Duw allan
 Daffai â theithiau diflin,
 Fel yr haul ei nefol rin.

Teyrnasai trwy Ynysoedd—y Deau,
 A gair Duw y nefoedd
 Yn ei law—taranol oedd
 Ei lais uwch delwau oesoedd.

Holl nerth, holl ymadferthoedd—ei enaid
 Ar unwaith, ei ddaoedd,
 I ereill aent; yr oll oedd—casgledig,
 Aberth unedig i byrth Ion ydoedd.

Rhyfeddol gydganoliad
 O'r oll o'i alluoedd rhad,
 Ei riniau gwiw, ar un gwaith,
 Un diben, hynod obaith,
 A'i gwnelai 'n brif gynhaliad
 O fyrdd i'r Genhadaeth fad.

Deuai 'r ynys dan ei driniaeth—i gyd
 Fel gardd iachawdwriaeth,
 O'i thrum uchelaf i'w thraeth,—gan radau
 Nef yn ddiliau, yn afonydd helaeth.

Gardd o deg wareiddiad oedd,—dan gysur,
 A'i phenadur, fel hoff oen ydoedd
 Ger ei ddeiliaid, gwir ddelwedd
 O uchaf barch i fab hedd.

Forau Sabbath, fawr seibiant,—a rhyfedd
 Rhifo dan y llwyddiant
 Y lluon i dŷ gogoniant—Dofydd,
 O gaerau newydd, a ymgrynhoant.

Gweled dagrau hyd eu gruddiau, deg arwyddion,
 Pan y clywant ei ogoniant fu dan gwynion,

O dan hoelion dros euogion, drws i agor,
Brawd a chariad ei gyhoeddiad a'i egwyddor.

Rhyw gerub mawr o gariad—yng nghanol
Anghenion—a'i godiad
I filoedd, o adfeiliad—o rwymau
Gallu augau, yn arwydd gollyngiad,—

Cariad penna Raiatea a enynna pan ei henwir ;
I'w hoffrymau o aml ddagrau, ei holl eiriau fyth allorir.

A Maurua pan ei cofia hithau wyla, mae ei thelyn
Fu bereiddgar ar anhawddgar helyg galar, gael y gelyn
Ei hanwylyd gennad bywyd, droes â'i hewyd i wawr Seion
Lawer talaeth o ormesiaeth hell baganiaeth oll heb gwynion.

Rarotanga hithau gofia am ei hwylfa dan gymylfawr
Nef, am dani i ddwyn iddi ei oleuni aniflanwawr.

Gwên Duw am ei "Gennad Hedd"—chwareuai,
Dan ei hedd hwyliai fal dain ddelwedd
Euraid lun o radlonedd—oedd a'i thon,
Oedd a'i hawelon heb ddialedd.

Llawer angel a'i gwelai—neu gerub
Dan gaer nef a grwydrai,
Am ei llywiaeth hiraethai,—ei llyw pêr
Am hanner awr ddymunai.

Llawer ynys, llwyr unig—am oesau
A'i heuog lwythau, o'i dyfrawg leithig,
Gwelai hon, a goleuni
Uwch haul a'i hamgylchali hi.

Deuai effaith fel diffyg
Am haul, wedi 'r cennad myg.

Oceania sy unig—y newydd
Grynhoia o'r goedwig,
O'r iach fro, o'r uchaf frig—ei lluoedd,
Anwyl iawn ydoedd i'w milmil unedig.

Ei gloewaf deg oleuad
A ddug dragwyddol ddyddhad ;
Hwyr a borau mor barod

I'w llonni hi, a'i holl nod
Fyth am les Polynesia,—ei chlodydd
Ar obennydd y bedd a dderbynia.

Bydd ei lwch er beddawl len
I alar fyth yn ddilen.

Aneddau gwynion oeddynt
Oll â byw gerdd, lle bu gynt
Ie, tonnau gwaed dynawl,
A lleoedd filoedd i fawl
Y duw gau; ail fydd a gwyd
Llawn o wawl lie na welwyd
Reiddyn o gyfarwyddydd
Dan orddwl gwmwl i gyd.

I'w mawl, hon o'i thra aml aidd
Oleuai 'r cylch teuluaidd,
Dros ei glau gylchau i gyd
Do addien o ddedwyddydd;
Y pagan mwy gai annedd,
Bwrdd ei hun o beraidd hedd;
Heddyw man i'w ddymuno
Yn bêr fraint, o bob rhyw fro;
Mangre yn fad gariad gylch,
A'i wraig yn hawddgar ogyrch,
Dan wedd hyfryd winwydden.
Ffrwyth fyth o hawdd law ddi-len.

Am ei ford, ei blant mwy fydd—rhag gwyrwaw
I'w gain law fel planigion olewydd.

Moes yn uchel—masnachau
Yma o lwydd yn amlhau,
A diwydrwydd aml-lwyddawl,
Nwyddau, aneddau dan hawl,
A phawb a'u dâ, a phob dól
Dan addurn Edeneiddiol,—
Dilynir ei dylanwad
Ar dro fyth â 'r aradr fad.
Afrifed arfau rhyfel
O'i hol sydd dan fythol sel.
Dydd i furiau deddfwriaeth,
I gaer y ddeddf ei gwawr ddaeth.
Daw a deddfau dedwyddfawr,
A gair y nef geir yn awr
Yn gydwedol, gan foli
Drwy yr oll rad eiriau Rhi.

Yr India Orllewinol.

Awen! tro d' olwg, cawn eto 'r diliau
 Ar lifeiriad, a'r anfarwol forau.
 Ei hynt, O, dilyner hwnt hyd lannau,
 Hynt y Genhadaeth hyd bellaf draethau,
 Arall fyd y tu hwnt i'r llifiadau;
 Newydd genhedloedd a gawn i cdlau,
 Ogonawl lanw o ganau—i brif draeth
 Serfyd barddoniaeth, ehelaeth wyliau.

Daw 'r llawenydd i'r Ind orllewinol,
 Yno yn forau Martin anfarwol
 Godai y faner, dirmyg difenwol
 Ni fu ludd ar ei yrfa lwyddol.
 A Braun oedd hefyd ar wybren ddwyfol
 Y Genhadaeth, oleuad anhraethol
 Eiriau, bydd aniflannol—ei gofiant
 O eang lwyddiant efengyleiddiol.

Deuai Negroaid dan gywir awydd,
 Hygar iawn foesau, o'u geirwon feusydd,
 O'u gwawd a'u gloes i godi eglwysydd
 I'w Duw o galon gyda eu gilydd
 Yn fwyn dorf derfyn dydd,—â chaniadau
 Mawl o gorau dyrchai 'r aml gaerydd.

Adeiladu a moliannu dan aml loniant;
 Pan orffennir haddef, eilir bloedd o foliant.

Eu dydd o boenau pan brid ddibennant,
 A bron dawel dros y bryniau deuant
 I'w mawr dâl—ac am ŵr Duw holant,
 At ei annedd yn lluoedd y tynnant,
 Ac oll yn gwybod y cânt—ddor ddiglo
 A gwyl yno o ardderchog loniant.

Pa hoen ail! Ethiopia yn wyllo!
 Ei miloedd ganant am wledd gu yno.
 Tua 'r digoniant daliant eu dwyllo;
 Heirdd dan addysg, a rhyddid yn eiddo
 A bythol ddedwyddol eilfyd iddo,
 Uchel wlad dawel heb niwl i'w duo,
 Nac un o'i myrdd yn cwyno,—faith fwynhad,
 Llawnder di-droad, llonder di-dreio.

Gwiw drysor, gwaed yr Iesu
 Yw peraidd lef y prudd lu.
 Ar ei fynwes, dorff anwyl,
 Tyner fraint, tan erfawr hwyl
 O'u lludded dwys gorffwysant,
 Awr lonydd ddigerydd gânt
 Ac wrth ddychwel, ucheled
 Eu cydgerdd lawngerdd ar led!

Clyw 'r mynyddoedd a'r dyffrynnoedd rad hoff riniau
 Y Gwaredwr, a'i genhadwr ga wiw nodau.

Cloiau 'r paganfyd clyw i'r pegynfor
 I'w llaw anegwan, oll, oll yn agor;
 Dygodd hyd rewedig ddor—byd oedd gau
 Fel âg angau, y dwyfol gyngor.

Greenland.

Agorai iawn londer i'r Greenlandiaid,
 Hi iach angorai a changau euraid
 O bren y bywyd at bob rhaid,—cangau
 O addien riniau 'n wyrddion i'r enaid.

Blaguro cawn deg rawn y grog,—cnydiau
 O'i haurafalau trwy 'r cych oerfelog.

Yr Esquimaux ar saig mwyn
 Yn ngwledd efengyl addwyn,
 Am byrth o iâ ymborthant,
 Moli Ner am haul a wnant.
 Cerdd ddifraw, cyrddau hyfryd,
 Mawl ar bell ymylau 'r byd!
 Torrodd ar eu tai eira
 Fôr o les, anfarwol haf.

Un llaw a rydd y pagan llon
 Yno ar y pegwn union,
 A'r llaw arall heb ballu
 Eres ged, ar y groes gu.

Llon yw ei nos, darllen wna,
 Dynwr awr, dan Aurora,
 Ei Destament, yn dyst mwy
 O'i oludoedd mawladwy.

Onid rhyfedd gwneyd rhewfyd
 A golau hon, oll yn glyd?

Addas i oll ei gwledd syw,—cymhwys pur
 I bechadur o bob ach ydyw ;
 Hidlawg i'r holl genhedloedd,—ordeiniad
 I bob gwlad, i bawb ei goludoedd.
 Nid oes man i'w haniaa hi,—na chartref
 Neillduol haddef, lle dël, eiddi ;

Na llwyth o'r byd all lithio—ei mynwes
 Rhag myned i geisio,
 Helaeth chwyl, eilwaith chwilio
 A'i holl fraint am arall fro.

Labrador.

Boreu daith hyd Labrador,—rhwng llunon
 Yr euogion ni ddewis ragor
 O fwyniant ; draw ar fynydd
 Na welodd haul, ol o ddydd,
 Ag eira hyd y gorwel
 Y wawr unigaidd a wel—
 Hynaws yw pob man os oes—cyfleuserau
 Yn y bannau i achub einioes.

O ganol Affrig gwena,
 Ei mewn-byrth yn hedd-byrth wna.
 O gryf lwydd gorfoledda
 Yn nghanol diluwiol iâ.

Addas i bawb.

Nid gwlad, ond Crist a phechadur ;—nid lled
 Y llwyth, ond y natur ;
 Enaid tlawd a phryniawdur,—frawd dilyth,
 Eura byth ei baner bur.

Pwy a'i rhwyma ? Palestina a Siberia sy i'w bwriad
 Fel eu gilydd ; nid oes geurydd un, na cherydd yn ei chariad.

Y neb a gadd ei byw ged,
 Mwyn ddewis, pam na ddywed
 I'w euog gymydog mwy,
 I'w gyfaill am ei gofwy ?
 O brysied, deued y dydd
 Y gwelir benbwygilydd
 Deyrnas cred, bawb gwaredig—fel di-ail
 Deg gofadail o flaen byd gwaefydig
 O allu hon, a'u holl aidd
 Ennill ereill a llwyradd ;
 Pan i'r byd rhoddir o rad—ei doniau
 A'i theg eiriau gaent hwythau o gariad,

A phan ddaw pob hoff enaid
 Gipir, waredir o'i raid,
 Yn glir nerth i glorian hon,—bwys newydd!
 Enaid beunydd yn byw i'w dibenion!
 Holl ynni arall enaid
 Hwyr gain a phlygain o'i phlaid,
 A phawb o denlu ffydd—yn genhadon
 Nefol, o galon, fel eu gilydd.

Awydd tolyn.

Hoff delyn proffwydoliaeth!—ymafwyf
 Yn dy nwyf brid a wnaeth
 I deg fryn gweledigaeth—ddarstain clod,
 A'i foroedd hynod o farddoniaeth—
 Yn gwlychu 'i sail, gwlych y ser,
 Digioniant golud Gwiw-ner!
 Esau gynt o lwys gantell
 Y pur ysprydolfyd pell,
 Grisiau uwch caddug yr oesoedd,
 Aml dro fu yn syllu nes oedd
 Yn Nuw, draw "dдаear newydd"
 Heulog ffawd i olwg ffydd.

Ieremi fu ger y môr—o gariad
 Bellach geir yn agor;
 Diameu 'r nefol dymor—a welsai,
 A chyrrhaeddasai ei cherdd ddieisior.

Daw gwiw gân! Daw gogoniant—даear gron
 A'i mawl fel addon, golud milffwyddiant.

Ymgrynhoi mae gwawr y nef,
 Gwenau dadguddiad gwiwnef,
 Goruwch y dдаear â grym
 A dawdd ei delwau diddym
 Yn y man, gan ei mynnu
 I fawl Ior, aneirif lu
 O honi i'w foli,—fyd—difrychau
 Araul i'w gyrrau, i'w ailagoryd
 A chydgor ser y borau,
 Ceinber hwyl, cân i barhau.

Daw borau, Duw a barodd—obeithio,
 Y Duw byth na roddodd
 Addewid na dдеuodd—i'w choron,
 I'w huchaf oleuni na chyflawnodd,—

Ior a esgynna risiau 'i ogoniant,
 Cyhoedda wyl o faine ei addoliant,
 O lewin a deau 'n filiynau deuant
 Hyd ei oleuni, a'i dŷ a lanwant;
 Iesu yn fyrdd ddewisant,—am oesau
 Clywch eu haml floeddiau, clychau milfwyddiant!

Proffwydoliaethau 'n ffeithiau hoff aethant,
 Yn llaw yr Ior â'u trysor tiriasant,
 Eu gwiw heirdd oesoedd a gyrhaeddasant,
 Odlau gwiw Esau eu hardal gawsant,
 Glannau 'u hafonydd gwiwras hoffasant
 Mewn ewyllysiau—mwy enillasant.
 Ysbrydion proffwydoliaeth ymlonant,
 Hyd gaer y newydd fyd hwy grynhoant,
 Pob breuddwyd gafwyd ar Seion gofiant,
 Yn y Genhadaeth odidog nodant
 Eu holl farddoniaeth, y llif urdduniant
 Y nefol hedd, cynhauaf o lwyddiant,
 Y deyrnas a ganasant,—heb un llen
 Ei theyrnwialen a'i thrôn a welant.

O newydd egwyl! “y gadwyn” ddygir,
 A bloedd oruchel “y ddraig a ddelir,”
 Oriau ei ffyniant a'i rhwysg orffennir;
 O flaen yr Oen diflanna yr anwir,
 O'i deyrnas ddifaol un ol ni welir.
 A, Satan ar lyn o dân gadwynir,
 Ei gaerau ni agorir—am oesau,
 A'i fanerau i Seion nef yrrir;
 Maen o adfeilion pob tŵr anfonir,
 Yr un borau holl byrth uffern gauir,
 Ei genau â chadwyn fydd gau—ni chedwir
 Hir oesoedd yno ar seddau anwir
 Eu cynhadleddau, pob cennad luddir;
 A'u holl atodawl nerthoedd alltudir
 Ynghyd o feinciau 'r byd, ni arbedir
 Un gau. Muriau Pabyddiaeth gymerir
 Yr un awr ogylech, gan farn eu rhwygir;
 Nod “y bwystfil” ar un hil ni welir;
 O'i ol anuwiol teml Duw lanheir;
 Ag adfeilion Babel hon fe lenwir,
 Y barnol fôr i'w derbyn agorir.
 O'i heuog lywiaeth ei chwyp pan glywir
 A'i thrwst aruthr hir,—trwy 'r uchelion
 Yng ngwledd Ion yr engyl a ddihunir.

A'r nerthol floedd gyhoeddir
 O gaerau nef, udgorn hir—
 "Syrthiodd! syrthiodd o'i sail—y ddinas fawr,"
 O allu hynodfawr oll yn adfail!

Ior a ymgoda o Armagedon
 Heb o'r eilunod na'r brau elynion
 Mwy i'w gweled, na dim o'u gau olion.
 Uched ei fawl goruwch eu hadfeilion,
 Unig fendigedig Ion,—tragwyddol,
 Y Duw a ethol pob gwlad weithion!

Daeth y frenhiniaeth i Naf,—oll bellach
 I gywir âch pobl saint y Goruchaf.

I'r wyl daw Israeliaid
 O'u llid blin, yn danlyd blaid.

I'w gwaredu heddyw Iesu a ddewisant;
 Ei lais bellach hynaws, mwyach nis amheuant;

Peraidd'gofio Canan eto a dymuno gweld y mynydd
 Ruddwyd ganddo unwaith yno, aiddgar rodio ffyrdd Gwaredydd.

A fu eu cwmp yn fywyd,
 A'u barn yn olud i'r byd?
 I fyd daw adgyfodiad,
 Golud mwy o'u galwad mād.

I Seion ag uchel law dychwelant,
 A'u diail ddawn cenhedloedd ddiunant,
 Cenhadaeth Ion goronant,—mawr asbri
 Tân eu proffwydi pur eiddi roddant.

Tanbeidiaf delyn Dafydd
 Tân ei fawl o blaid hon fydd;
 Swyna fyd,—un Seion fawr
 Mwy ogylech yn ymagawr.

Anherfynol, O swynol y seinia
 Udgorn ei hewyd, a'r byd grynhoa.
 Eilunaddoliaeth a lawn ddiala,
 Gwaed ei hofferiaid â'r ergyd fferra;
 Afon ei hedd ymddyfnha—i'r holl fyd,
 Diderfyn hefyd y dorf a'i nofia.
 Rhyddhad! Rhyddhad! fydd y gerdd eheda,
 A chysurir anialwch Sahara,
 A'i chyflawnder ar uchaf ael India.

Himaleh yn ymyl haul
 Eurir â'i borau araul.
 Eu pennau, yn norau nef—a welir,
 A goronir ar gaerau y wiwnef,
 Ymgrymant i'r moliant maith—a glywir
 Ie, o'u bryndir a'u hwybrendaith.

Daear fydd fynydd i fawl—y gwir Ion,
 Ogylech weithion yn Seion bêr-suawl.
 Ynddo fyth ni ddifethant,
 Yno 'n hwy drygu ni wnant.
 Eu geirw gleddyfau gurant—yn sychau,
 Gorau bladuriau o'u gwaewffyn dorrant.

Ufuddfawr dangnesfeddfyd—wna yn awr
 A'i gallu dwyfolfawr, o'r gwylltffilyd.
 Gyda 'r oen, blaidd di-wg drig,—i'w harchiad
 E ddarfu 'r gâd drwy y ddirfawr goedwig.

Y tyrfu fawr.

Ond O, yn nrych "y diwedd"—daw 'n amlwg
 I iawn olwg, ddibenion ei haeledd,
 Pan droir anian oll yn daranau,
 Y dua 'r haul ger awdwr ei olau,
 Acw a moliant gyda y cymylau
 Yn ei urdduniant a'i fôr haeddiannau
 Ar drôn o ser draw 'n neshau,—daear
 A dwys alar yn gado ei seiliau,
 Rhag ei olwg i ffoi i argeliant!
 Y lloer yn waed! Yr oll ar newidiant!
 Llewyrca anian gan ei ogoniant,
 A'r mynyddoedd eu hunain am noddiant
 Fel ag adenydd rhagddo a ffoant;
 Bydoedd ar fydoedd i nos difodiant
 Mwy i wyll anghof oll ymollyngant,
 Adseiniau tragwyddoldeb atebant,
 Terfyn nef, i'r tyrfau wnant—o'u cylchau
 A'u gorseddau fel â gair soddant.
 Y creig i'w cyrau ogylech
 Heddyw gawn yn toddi gylech.
 Y bryniau 'n donnau o dân
 Hwnt oll a dreiglant allan;
 Dorau y môr, dirym ynt,
 Toddir yr holl fyllt eiddynt,

Dydd mawr Duw, diluw o dân,
 Dinistr, dymchweliad anian,
 Borau o farn, braw i fyd
 Arwylfawr ddydd marwolfyd.

Duw furia am dy fawredd
 A'th rym, Genhadaeth yr hedd ;
 Efe 'i hunan blanna faner
 Dy fawl syw ar adfail y sêr.
 Holl freintiau a hawliau hon—diffynna,
 Ei grym arddela ger myrdd o alon.
 Ar ei holl wrthodwyr hi,
 Ar unwaith daw trueni,
 Olwyn barn droir arnynt,
 A, perffaith ddiobaith ynt.

“Llid yr Oen,” ei holl daranau,—cywir
 Eu gollyngir, o ddu gell angau
 Y rhwygir yr euogion
 I weled addas urddas hon.

Ufuddolion hon yn awr—lond gwynfyd
 A dorau eilfyd, dorf anfeidrol-fawr,
 Welir tua 'i ddeheulaw
 Fawr drefn, yn llifeirio draw.

A'u gynau gan ogoniant
 Yn wynion oll, i'r nen ânt,
 A phalmwydd dan drylwydd draw
 O lawn dâl yn eu dwylaw.

Byddin yr Oen o'u beddau 'n rhydd—fil myrdd
 Fel môr heb geulennydd ;
 Teyrnas angau, forau fydd,—wagheir,
 Y dorau a gaur yn dragywydd.

Foreuddydd ei fawreddau—yr Oen wêl
 Rin ei waed o ffrwythau
 Y Genhadaeth yn fawr gnydiau—dibaid,
 “Llafur ei enaid” hyd bellaf fryniau,
 Hyd olaf fro dawelwawr
 Nefoedd y nefoedd yn awr.

Dacw goron ei haelioni,
Hoff awr ei thal, a'i ffrwyth hi ;
I'r Oen, ei thorf ar unwaith
Agorodd y fwyn gerdd faith.

Bythol lwyddo, myned ato, gorffwys yno ger hoff swynion
Ei Gymdeithas yn ei urddas, gweld ei balas, gwlad heb olion
Llygredigaeth, un frenhiniaeth fawr ddialaeth, fôr o ddeiliaid
"Yn oleuni," wedi 'u golchi o'u hen gynni fyrdd yn gannaid,—

O waith ! O effaith ! ei ol—fydd olau
Ie, ar fannau byd anherfynol.

At ffon mad genhadwr—beth yw lleithig
Arfoledig y prif lywiawdwr ?
Dilynant, dilynant, lu
Ei fanol hynt i fyny ;
Ffrwythau ei wyrthiau di-wall
A diriant ar fyd arall,
A'i ogoniant ar gynnydd
Chwyddol ac anfarwol fydd.
Mwynha ar drumiau y nef—y ffrwythau,
A choronau gorucha 'r wiwnef
Fydd y rhai o fodd rydd—pagan iddo,
Efe geir yno ei brif goronydd.
Cannaid baganiaid o'i gylch
Fydd hygar nefoedd ogylch ;
A ! daw o Asia dywell
Bagan ar ol pagan pell,
O gelloedd Affrig allan
Yn wyn i gyd dan y gân—
Alwyd ganddo ef, eilwaith
Gymhwyswyd, hwyliwyd i'r daith.
Gwynfyd ei hun ganfod ol
Ei deithiau mor fendithiol.

Rhyfeddol gyfarfyddiad
A fydd yn y lonydd wlad
Rhwnng y ddau, a'u beiau byth
O olwg y nef ddilyth.
Yno adgofio y gair
A fydd, y cyntaf hedd-air,
Y cwrddydd, y pryd—y pren
A dodd â'i gysgod addien
Hoff ŵr Duw, y ffrydiau hedd—er ei fai
Yno welai 'r tlawd yn ei waeledd.

Ucheled y dynged hon
Hyd binael ei dibenion
Anwyllfawr draw mewn eilfyd!
Llaw aiddgar feda 'r ddau fyd.

Cymer i mewn orbelderau—ein bod,
Bydoedd i'w chlориannau;
Bodolaeth hyd draethau—tragwyddolfyd,
Hwnt i farwolfyd, fywyd di-feiau.

Wedi marwol dymhorau—cymer led
Eto ein tynged tu hwnt i angau.
Ei heres lilyn a esyd
Am farwol ac anfarwol fyd.

Dyn i gyd! dyna ei gair,—
Trwy fyd, trwy ddybryd fedd oer,
O'r gau fedd i'r drigfa aur
Y pell anfarwoldeb pur.

O fawredd rhyfedd ei rhad,
Goludoedd ei gwelediad!

Ail fyd, hoff ennyd, fu coffhau—ei gur
A'i fawr gariad borau,
Cofio 'i nerth er cyfiawnhau,
A'i amynedd i minnau.

Bu ryfedd iawn i'm brofi—rhin ei waed,
Troi 'n wyn o'm trueni;
Cael glan, ac haul goleuni,—dwyn i'm rhan
Ei nefol anian, fy aileni.

LLINELLAU I'M HANWYLYD.

YM mha le bynnag byddaf fi,
Y mae fy nghalon gennyf ti;
Ac nid oedd neb allasai ddwyn
Fy nghalon i ond Martha fwyn.
Fy meddwl fel colomen sydd
Yn hedfan atat nos a dydd,
Mae ynnot rymus serchus swyn
I'm denu atat, Martha fwyn.

Pan fyddo 'n mhell, y mae dy fardd,
 Yn meddwl am Ystryd yr Ardd ;
 Ac nid oes man mor llawn o swyn
 A'r man lle trig fy Martha fwyn.
 Dy lygaid mawrion gloewon glân
 Enynnant yn fy nghalon dân ;
 A thwym yw mynwes Isyllwyn
 Wrth edrych ar ei Fartha fwyn.

A hoffus waith fy Awen i
 Fydd canu am dy degwch di ;
 Cyd-ddiolch i Ragiuniaeth wnawn,
 Hi 'n cadwodd ni yn dyner iawn
 Is ei hadenydd nes ein dwyn
 I garu 'n gilydd, Martha fwyn.

Mi gofiâf am yr hoff brydnawn,
 A thithau goti 'n dyner iawn ;
 Pan y teimlasom rymus swyn
 Serch yn ein huno, Martha fwyn ;
 Ar lan y môr yr eisteddasom
 Ac yno gyntaf cydgarasom,
 Fe wnaed o ddau un enaid yno,
 Dwy galon gun yn un fan honno.

Bydd raid i mi ymadaw fory,
 Ond nis gall pellder ein gwahanu ;
 Gadawaf ar fy ol fy nghalon
 Yng ngofal cu fy Martha dirion.
 Mi fyddaf ffyddlawn i'm hanwylyd,
 A ffyddlawn fyddi dithau hefyd,
 O ! hapus ddydd pan ddof i'th gyrchu,
 A'th wneyd am byth yn eiddo i mi.

ENGLYNION I'R GERBYDRES.

PEIRIANT o ddofnwech ddarpariaeth—chwimed
 A dychymyg odiaeth ;
 Rhed ar ei myg rod er maeth,
 Yn chwai amser y chwimsaeth.

Ei rhodau cyfrgrwn gydredant,—oll yn
 Un llinell olwynant;
 Gwreichion i'r goruchion ânt
 O fol y berwol beiriant.

Nwyddau oddiyma 'n hæddol—gluda
 I'r gwledydd estronol,
 Gan ddwyn ar gadwyn gydiol
 I ninnau nwyddau yn ol.

Treiddia 'r mynyddoedd drwyddynt—i gludo
 Nwyddau gwledydd tanynt,
 I res hon ar ei his hynt
 Myg rheidiol amgaer ydynt.

Drwy allu dirfawr dryllir—y bryniau,
 Mal brwyn hwy wahenir;
 Ac yn hawdd Idris cyn hir
 I'r ager a egorir.

Yn gynt na 'r adar heda, yr eryr
 Arwrol ragflaena,
 Heibio 'r gwynt yn ei hynt a,
 Buan gorwynt ban gura.

Prawf o fedr, ie, prif fodrwy—i fys
 Dyfeisedd mawladwy;
 Onid ydyw 'n nodadwy
 I roi un drem arni drwy?

Pery y cadwmp beiriant—o erasbri 'n
 Eresbrawf, er moliant;
 Y to a ddêl a'i gwelant
 O'n hol, a rhyfeddu wnant.

Er glaned ei heurog olwynion—chwin,
 Er mor chwai eu troion,
 Ac er ei holl ragorion,
 Onid tarth yw enaid hon?

ER COF.*

Blodeuyn hardd-deg ydoedd, rhy deg i ddaear lawr
 Fwynhau y fath brydferthwch, ond am ryw funud awr;
 Rhy oer oedd gardd auafol y ddaear farwol hon
 I flodyn mor nefolaidd hir wrido ar ei bron.

Er cryfed serch rhieni, a pherthynasau lu,
 Er taered oedd eu gweddi am gael ei chadw hi,
 Gweddiau dagrau cariad oent aneffeithiol mwy,
 Esgynnodd fel angyles o rhwng eu breichiau hwy.

Mae 'n ddigon i angylion roi tro i'r ddaear ddu,
 Mae adgof fach am danynt yn fwy na 'n haeddiant ni;
 Ac eto mae 'r ddynoliaeth ar ol eu caffael hwy,
 Yn disgwyl iddynt aros, a pheidio dychwel mwy.

Rieni tyner, athrist,
 Paham yr wylwch? Pam?
 Hi gafodd fwy nag amser,
 Do, mwy na thad a mam.
 Hi gafodd dragwyddoldeb
 Digwmwl o fwynhad,
 Y nef yn gartref iddi,
 A Duw ei hun yn dad.

Na syllwch ar y beddrod,
 Ond ar y ser rhai sy
 Fel aur ganwyllbren tanbaid
 O flaen ei gwynfa fry;
 O, acw mae ei chartref!
 Mewn bywyd, nid mewn bedd—
 Y bywyd sydd yn llifio
 O orsedd Duw a'i hedd.

Mae goleu yn y cwmwl,
 Er hylled yw ei wedd;
 Mae goleu yn y nifwl
 Sy 'n hongian dros y bedd;
 Os mynnwch syllu arno,
 O, syllwch gyda ffydd
 Sy 'n gwneyd y bedd yn oleu,
 A chysgod angau 'n ddydd.

* Am Miss E. Williams, merch Daniel ac Elizabeth Williams, Pontypridd.

C Y M R U .

O GYMRU deg! mawrhad hon
 Yw 'th iawn waith, Awen, weithion.
 Datgan ei bri hi, a'i hawl
 I res y gwych a'r oesawl.
 Dyro drylen ddadleniad
 O'i myrdd o ragorion mad.
 Darlunier drwy oleuni
 Anian, ei holl geinion hi.
 Gwrieded rhod ei hynodion,
 Gwawr ei bri, yn glaer ger bron.

Pa Filton all farddoni
 Yn addas ei hurddas hi?

Ei hamrywiaeth, môr i awen—nofio
 Yn ei wyf a'i helfen;
 Gwyrdd yw ei gwisg, hardd ei gwên
 A goludog, ail Eden.

Hynodol wlad fy nhadau,
 Difyr im yw dy fawrhau.

Myrdd o geinion, mawredd o ogoniant,
 Golygfeydd cariadlawn yn llawn lloniant,
 Gwiw weunydd yn anadlu digoniant,
 Helaeth barthau dan lwythi o borthiant,
 A thirion ydau, a'th or-hynodant.
 Llwyni heirdd anian yn llawn urdduniant
 A ffrydiau â'u rhiniau a'th ariannant.
 Coedwigoedd filoedd yn fyw gan foliant,
 Yn wyrdd-drwsiedig i'w brig heb rwygiant,
 Ar ael mynyddoedd oerlym eu noddiant,
 Oddiarnom ar chwyf, a'th addurnant.
 Awelon oerion ar lawen yriant
 Uwch dy ddolydd beunydd a chwibanant,
 A gwledd o wiwgain aroglau ddygant;
 Rhwng dy ardaloedd a nefoedd nofiant,
 Poethwres yr huan eirian a oerant,
 A min ei belydr gorlymion bylant,
 A'th aur lennyrch a'th awyr a lonnant.

Yn eu bronnau, yn fawr heidiau nawf yr adar,
 I'w difyrru â'u tôn seingu, tannau swyngar.

Anian a'r Celfau eu rhiniau rannant,
 Ar dy wyneb eu rhadau a wenant,
 Eu rhagorolion tirion bentyrrant
 Trwy 'th froydd, dy ddolydd â'u daoedd huliant.
 Rhoddant it elw, a hardd enw urdduniant,
 Ar dy aur-lennyrch a'th bryd arluniant
 Ragorion Eden, aur ei gwawr nodant.
 Anfarwol yw dy foliant,—pur foesau
 A theg wiw riniau a'th goronant.

I weled ogoned yw dy geinion
 Diri, a hygared dy ragorion,
 Dy ddeilwydd lluniaidd, dy ddolydd llawnion,
 Dy arian afonydd hyd eirian finion,
 Ar ewynfrig dig y don—milforiant,
 A llawenant rhwng dy ddillynion.

Pa awenydd sydd neu sant
 A gân dy holl ogoniant?
 Drud ddiliau drwy dy ddolydd
 I frashau 'n llifeirio sydd.

Afonydd.

Hwnt o'r gorfannau try garw afonydd,
 Neiddant acw, rhwygant lechweddau 'r creigydd,
 I'w troi o'u gyrfa pa rwystr a'u gorfydd?
 Mynnant wllithog oludog waelodydd
 Heiniau ardelaidd ar fronnau 'r dolydd,
 Dyna eu manau dan aden mynydd.

Wele deg emau 'n goludog gymydd,
 Sia eu miwsig ar fynwes neusydd.
 Pob seren ysblenydd—ddrych ariannaid
 Welaf yn delaid ar lif ein dolydd.

Yn hir, dan len o arian
 Ymdreiglant, niwydant bob man.
 Weithiau hwy 'n dawel welir
 Ar eu taith ar fronnau 'r tir,
 Heb don yn byw o danynt
 Na 'u gwedd yn annog y gwynt;
 A than y chwa weithiau 'n chwyrn
 Eu myr godant mor gedyrn,—
 Gyrru pob peth o'u goror
 I fynd yn ebyrth i fôr;
 Troi eu haniau ariannaid
 Ar y ddôl i lygrol laid;

Mewn braw curo dwylaw, dan
 Droï 'u holl fyddin gadr allan ;
 A garw hyll wedd gyrru 'u lli
 Gorchwyddog, gan grochwaeddi,
 Nes ynt y bryniau â'u son—trwy fraw du
 Bron ysgaru i'r wybr yn ysgyrion.

Ond derfydd, derfydd eu dig
 A'u hamryddull mawreddig
 Yn y môr, y môr mawrwyllt,
 Diwedd eu taith a'u gwaith gwyllt.

Afon Taf.

Acw ar gyrrau 'r creig garwaf
 Eofned dull afon Taf!
 Creigydd cedyrn, bob cwr eu gwedd codant
 Fry i fro asur, lu afrif rhesant,
 Yr awelau a'u saethdyrau dorrant,
 Goruwch eu gilydd terydd anturiant,
 I weld ei berw wrth hyll fwrw 'i llifeiriant.
 Ar ei llaethwynion drochion edrychant
 Yn fyfyriol, yn fanol clustfeiniant
 Heinyf adlefau nef i'w dylifant.
 A'r holl chwaon anhirion a heriant,
 "Byddwch fud mewn munud" gorchymynnant,
 A'u dannedd fel eirf dynnant—i'w horni
 O'u llys, a'u torri rhag pob llesteiriant.

Gyr ymlaen, a grym o li—mwy haerllug
 Yn ymarllwys iddi
 A chwydd o'r arlechweddi,—yna ffwrdd
 A'i gwynddwr agwrdd gan gynddeiriogi.

Pontypridd.

Yn gant i'r afon gu—Pontypridd ddyrch
 I'r uch entyrch gan ei rychwantu.

Yng nghoffi awel fel enfys fawr—drosti
 Rhed ar estyn gorfawr ;
 Dacw arwyddfwd cyrhaeddfawr,—tyst banwedd
 Yn wybr brydwedd o asbri brodawr.

Rhondda.

Rhondda 'n gadr raiadrau—ruthra mewn serch
 Dirfawr, i'w hannerch o'i chlysdwr fryniau ;
 A'i llwyth arfolla hithau, hoffa ffraeth
 Sain ei gwarogaeth ar laswyn greigiau,

Amddrychfa fryniog grogawl,
Yn gwrando 'u gwrdd dwrdd didawl.

Gyr rhagddi yn lli mwy llawn
Gan herio 'r creig anhiriawn,
A llyncu i'w bru mewn brad
A boddi bloedd trybaeddiad
Y nentydd yn eu hantur
Dros greiglechwedd, dannedd dur;
A digiaw hyd ei heigion,
Gwneyd rychau brau ar ei bron
Mewn bâr at bob mângarreg
Nes dod i'r gwastatir teg.
Yna 'i mawr lif, O! mor lwys
Ar arfied y fro orffwys.

A! der lannerch i'w dŵr gwydrol huno,
Dan wên y wawr loewfawr i lyn lifo,
A thua 'r aber ymlithraw heibio,
A'i thrwm lyfndeg offrwm heb braidd gyffro,
Dull arafonydd wedi llwyr fino,
Mewn hunymwadiad tra mwyn yn mudo
Ar frest ffrwythlonfawr y fro—mor raddawl,
Heb greig rhestrawl, heb garreg i rwystro.

Ysgydwa glannau cysgodawg gleinion
Lliwiau hygarddull eu mentyll gwyrddion
Ar ael ei disgleirdeg ddifreg ddwyfron,
I ordegeiddiau gwrid ei hagweddion.

Tywl.

O wyllt frig Ceredigion
Darweinia Tywi 'i lli llon.
Try allan o'i llys banog
Ag uchelfalch freinfalch frog,
Mal un a fai 'n ymlonni
Foreu dain, ar fwriad i
Ymdeithio trwy ryw fro fras,
A gweled dolydd gwiwlas,
Gerddi a pherllenni llon,
Glynnoedd a threfydd gleinion,
Rhes swynol o rosynau
Am y wig yn hardd ymwau,
Aneddau o dan huddiad,
Hardd flodau fel mydau* mad,

* Arches.

Gwynfa arweledfa lon
A'i llonnaid o ddillynion.

Yn esgud trefna 'i gosgordd
Ar adwyau ffiniau 'r ffordd,
I weini i'w bri gerbron
A pharchu ei hoff eirchion.
Daw Brân â 'i da i'w bronnau,
A'i holl nwyf i'w llawenhau.
Dulas gan chwerthin dala
Ei gnawd dreth heb gwyno tra
Heddwch Cynen gyhoedda
I fron hon pan ym'twrw wna.
A Chothi, rhedli llawn rhin,
Ymfwria o Gwm Ferwin
A gwir awydd goreon
I gefnogi ei lli llon.—
Gan y rhai hyn, hi fyn fawl
A nwyfiant i'w llys nofiawl.

Ar ei glan ceir aml lannerch
A dail syw 'n anadlu serch;
Agored wyll hygarwawr
Yn anwyl fel y wyl wawr
Yn yfed neithdar nefawl
O'r gwynt, a phiolau 'r gwawl;
A rhengau bryniau fry rhwng wybrennydd,
I'w brig yn wisgedig â glas goedydd,
A'u llwyni banog fel llenni beunydd
Dros hagrwech y safnrythog grog greigydd.
Yma a draw 'n emau drud
Gwelir godidawg olud
O gnydau, manau mwynwych,
I rwymo 'r drem ar y drych.

Gwy.

Gwy loew firain a deg lifeiria,
A'i mawr oludoedd bob cam arleda,
Brashau â'i heffaith heb bris a hoffa,
Ar lwybr unionsyll ni hyll chwyrnella
Drwy ofer rydafi, ond araf reda
Dros froydd dain, a chain amgylchyna,
Ie, yn llonydd a musgrell huna;
Ar fron y tirwedd, mewn hedd ymnydda,
Rad eres! nes mwynha—'r glannau hygyrch
A'r syw lennyrch ei nodd braslona.

Ond yn donnog ar brydion dihuna,
 A thrwy hyf ystum ei nerth orfostia,
 Dros gerrig rhydraws gyrra—ar falchwedd,
 A thrwy eu dannedd ei llif uthr dynna.

O gariad rhad at Gymru hi reda
 Heibio'r gwigoedd lle mewn bri y gwga,
 Rhwng coedydd llonydd, ein cestyll hena,
 Ar eu holl garnedd mewn trynwedd tremia,
 Yn hael ei thon wyla—uwch adfeilion
 A hardd-deg olion dy ryddid, Gwalia.

Conwy.

Cain yw dy wyneb, Conwy! dy wenau
 Gyrhaeddi o'r ser; tyner yw tannau
 Adar a'u mawl ar dy aur-ymylau,
 Lle chwery awelon lon delynuau;
 Pur adlais eu per odlau—ddybla'r gerdd,
 Difyr gyngerdd rhwng blodeufawr gangau.

Y nef deg a'i gloewdeg oleuadau
 Ddifyr fireiniant dy chwyddfawr fronnau,
 Gloew-wawr burlen o ddisglær berlau.
 O'r nefol lysoedd bydoedd a'u bodau
 Chwarddant pan welant ar dy fron olau
 Eu dain agwedd, a chwardd dy wanegau—
 Yn eu mawr ofal am gynnal gwenau
 A cheinion llon y lluniau—ni rychant,
 Sorri nid allant, seirian eu dulliau;
 Syllu a rhyfeddu'n fawr
 Ar holl luniau'r ser llonwawr.

Ni hardda Conwy â'r dyfroedd ceinwawr
 Un ardal anferth; ar red olwynfawr
 Tyn ei chyfrolau rhwng mannau mwynwawr
 Ar ysblenydd waelodydd teleidwawr,
 Bro ffirwythlon, gwiwlon ei gwawr,—mwy'i chynnyrch
 Nac amryw lennyrch ein Cymru lonwawr.

Amaerwyir, goleuir ei glannau,
 O! mor ddarswynol â myrdd rosynau.
 Anian deg ddyd fil o hydeg flodau
 Ffres gan ieuentid, a gwrid gwawr ydau,
 Yn frith-gylch pefr, i'w theghau,—yna lawr
 A hyd daith laswawr gan fostio'i thlysau.

Dyfrdwy.

Olrheinier mwy Dyfrdwy deg
 A'i heiriandaith fireindeg.
 Hi efryda i fro wiwdeg—aml geinion
 Gwull, a hynodion Llangollen hydeg.

A moddau ariannaidd ymddirwyna,
 Am y ddâl lon fel sarff ymddolenna,
 A'i dŵr gloewdeg fel gwydr a gluda,
 I frashau goror y fro segura,
 Ireiddiol rinwedd rodda,—ysblenydd
 Ar hyd ei glennydd yw 'r ydau glana.

Pelydr ar belydr draw ar wib olau
 Dywallta 'r haul ar yr araul ororau,
 Drwy ogoniant ei belydrawg wenau
 Mil mwy godidog y berthog barthau.
 Ar daith y Ddyfrdwy hithau—wna loew ddrych
 I'r fro, o lewyrch ei lathr fir liwiau.

Ei gwydr-gynfas yw urddas y werdd-ddol,
 Nod ter ei gweddus ymfrost tragwyddol;
 Yn ei chylchau, troadau tra hudol,
 Dysbleir, egorir drych mwy hygarol.
 Dros fronau manau dymunol—ffwrdd a,
 Ymrwyfa, nydda, O! mor foneddol.

Y nefoedd wisg wên hyfwyn
 O'i serch, yn goron i'r swyn.

Diliau y gwllith, anadl y gwllaw—ar fron
 Y fro fras sy 'n nofiaw;
 Telynorion llon gerllaw
 Offer hedd i'w phereiddiaw,—
 Mawl o gangau! mêl-gyngherdd
 Yn addolfa 'r wigfa werdd.

Chwardd awelon ar rawd hylon
 Drwy fro 'r diliau;
 Chwyth trwy 'r asur uwchben, eglur
 Chwibanoglaui;—
 Hwy ddihunant y diog wyddenau,
 A llon ysgydwant eu llawn wisgiadau,
 Ie, â rhyglud o'u peraroglaui
 Llwythant eu hanal, gan ddal gwin ddiliau,

Yna 'n bêr iawn y borau—anadlant,
 O fry rhannant dros y fro eu rhiniau.
 Iddynt yn dra boneddig
 Awgryma, arwena 'r wig.

Hafren.

Eirian fodd, gyr Hafren fawr
 Efo 'r elfen gyfrolfawr.
 Trysorau têr llawer lli
 Roddant eu hystor iddi.
 Mawr ofal am yr afon
 Sy 'n gwau trwy 'r bryniau i'w bron;—
 Ar ei hystumiau o'u trumiau tremiant,
 Ei heofn agwedd a'i bâr gefnogant,
 O'r ne ei rhyfedd droion a rifant
 Gan gu gynnal ei gŵyn a'i gogoniant;
 Gyda 'r tarth draw gwrandawant—waedd benrhydd
 A garw leferydd ei gorlifeiriant.
 A rhônt adgyfnerthau rhydd
 O'r bannau i lawr beunydd,
 Dŵr o nen i gadarnhau
 Tonnau ei gorwylltineb.

Ar eondaith i'r broydd ariandeg
 Gyr nentydd yn benrhydd a'u gwlyb arheg
 I'w rhoi 'n doll i'r Hafren deg,—cydnabod
 Ei hawdurdod a'i mawrhydi eurdeg.

Gan ffynnu mewn gallu, gyr
 I'w thynged â nerth engyr,
 Gan gylchu, termu pob tud
 I gael y dyfrog olud
 I fynwes ei lli di-dor,
 Yna 'n falch ymchwydda 'n fôr.
 Y difalch enwad "afon"
 O'i heofn nwyf ni fyn hon.

Ar fin ein pur afonydd—difyr gweld
 Yn y deifr gwyrdd beunydd
 Amrywiaeth mawr eu hawydd—o bysgod,
 I gyd i'r gwaelod yn gwau drwy 'u gilydd.
 Yn eu helfen anwyllfad
 A'u cynneddf yn neddf mwynhad.

Y Lllynnoedd.

Ar y drych darlathra draw
 Aurlynnoedd yn arluniau

Yr ymylon a'r moelydd
 Gylchogylch, a'r sergylch sydd
 Yn disgleirio o froydd
 Aniflannol ddwyfol ddydd.
 Ar loew ddwr oer wele ddrych
 O ser y neflys eurwych.

Ar eu glan, eurog lynnau,—yr afiach,
 Er rhif ei arteithiau.
 A dwysder ei flinderau,
 O'i holl loes ga ei wellhau.

Y Rhaiadrau.

Syrth yr hydrwyllt serth raiadrau—a'u sain
 Yn synnu wybrennau;
 Mwy uchel na thwrf magnelau—trymion
 Ar ruthr eon, yw eu haruthr ruau.

Y crogedig greig ydynt—rym dirwystyr
 Ar ymdorri danynt;
 Hydr drwst y rheidr drostynt
 Draw, gwel—a arswyda 'r gwynt.

Arnodau gwyllt-addurnedig,—eu trwst
 Eu trem, mor fawreddig!
 Eigion o ddwr, gwyn gan ddig,—ymwylltiant,
 Yn fawrwyh hyrddiant ail cadfeirch erddig.

Y Mynyddoedd.

Draw mewn addurn dwyrea mynyddau
 I fro neillduedd yn falch eu gweddau,
 Yn uthredd bonedd ymsedda 'u bannau
 Acw ymbelydr haul, rhwng cymylau,
 Mewn garw urdduniant crogant eu creigiau
 Yn llwybron ar eu moelion ymylau.

Cadr ydynt er cydruadau—chwaon,
 Eu garw ymryson, a'u grym er oesau.

Wedi digio wrth froydd—ein daear,
 A'n diog afonydd,
 Am roi 'u gwasanaeth mor rydd
 A di-boen i'r byd beunnydd,
 I'r nef-ororau ar nwyf eryrog
 Tua 'r haul cu â gallu asgellog,
 Wele arddyrchant, O! lu ardderchog
 Yn yr awyr dan goron eiryog.

Eneinir eu clogwyni enwog—ban
A gloew seirian fôr glas awyrog.

I fro 'r tragwydd ddydd ant,
Ar rawd y dymhestl troediant.

Cyfeiriant heb lysiant i balasoedd
Natur a'i phell oruchystafelloedd.
Ar gadeiriau nennau mal brenhinoedd
Mwynhant amddrychfa o olygfaoedd—
Cymylau nosol acw mal ynsoedd
Fry, fry yn nofiaw ar fôr y nefoedd.
O! ddirifedi fydoedd ar fydoedd,
Mil myrdd i'r goleu mal môr o ddirgeloedd,
Eu beilch glogwyni 'n rhesi er oesoedd
Gofleidiant nen a'i llawen alluoedd.

Tragwyddoldeb ardebant,—o'u bannau
Anibyniaeth floeddiant.
Haeddol Hedd a orseddant—ar feinciau
Eu hoer neuaddau, a'r Awen noddant.

Ar eu hael, yr awelon—a'r awyr
Chwareuant mor hylon.
Wrth yr wybr an wyrthiau 'r Ion—ymgomiant,
A'i fri a ganant heb ofer gwynion.

Lle mae dorau llym daran—yn agor
Gwgus arfdy anian,
Gan ollwng mewn gwyn allan
Fellt a thwrf, llid du, a than,
Dyna 'u tref yn nef, dan nod
Y darlachar haul uchod.

Yn nulliau y nef llawenant
Ar binagl awyr ban glywant
Y deryll sonfawr daran
Uwch ein byd, yn cychwyn ban
I'w gyrfa lidiog erfawr,
Ewybr wedd, a'r lwybr y wawr.
Melltenna trem wyllt anian,
Eofn dwrf, a'r nef yn dân!
Addwyn i'w beilch glogwyni
Ganu oll o'i geni hi.

Galwant acw ar eu gilydd—yn filoedd
 I foli 'u Creawdydd,
 A'r daran, gawr anian, rydd—i'w creigiau
 Uchelaf eiriau â chroch leferydd.

Rhedant weithiau 'n ddidor resau
 Neu gadwynau yn gydunol,
 Gan ddwyn clegrau, crogawl greigiau,
 A gallt-ddarnau gwyllt-addurnol.

Ac weithiau 'n fyrbwyll gwthiant
 Mewn bri eu clogwyni gant
 Oddar fronnydd broydd bras
 Lle tarddant mewn gwyllt urddas.

Clodydd eu Creydd mewn geiriau croewon
 Draw a gyhoeddant drwy eu hagweddion.
 Daneddog greigiau yn gorau geirwon
 Aml eu rhif yn moli 'r Ion—yn eu hiaith,
 Rhydd eu dirgeliaeth ryddhad i'r galon.

Mor ddifeth y pregethant
 Rym a mawredd sedd y sant!
 O'u hareithle nwyfreol—i wir dyb
 Ardebant law ddwyfol;
 Mae pob maen mewn haen yn ol
 O fedredd bod anfeidrol.

A chri dwys o'u hochrau dur
 Try neint ar eon antur.
 Cerigog fron y creigiau—egorant
 A'u gerwin ddyrnodiau;
 Eu chwys dros echrys ochrau—chwyrndafiant,
 Ewynant, gwylltiant rhwng eu gwag holltau.

Plumlimon.

Ei ben Plumlimon beunydd—a gadarn
 Goda i fro 'r wawrddydd,
 Eithr ei draed aruthred rydd
 Ar ein goror yn gerydd.

Hafren a Gwy, o'i fron gerth—y tynnant
 Eu tonnog ddeifr anferth:
 Eu Gwy âg ofnadwy nerth
 Red tros ei ochrau tryserth.

Yn ei friedd nwyfreol—enudda
 Fynyddoedd israddol ;
 A'i edyn, dyffryn a dôl,
 Nodda yn dra bonheddol.
 Dring ef y rhiwiau nefawl
 Mewn parch i gyfarch y gwawl.

Yn mhob dryghin, saif, fel iesin
 Ior, a brenin ar y bryniau.
 Fry mor loewbur trwsiai 'r asur
 Ei ben eglur a'i binaglau !

Bannau Brycheiniog.

Uwch in Bannau Brycheiniog
 Ar fron y nef gref yn grog.

Cader Ferwyn.

Cyfeiria Cader Ferwyn—i froydd
 Nwyfreol mewn gorfyn :
 Maith yrfa ! am ei therfyn
 Gwelwch y gwawl yn gylch gwyn.

Penmaenmawr.

Penmaenmawr, O ! mor gawraidd—â'i ysgwydd
 Amrosgo, yr erfaidd
 Y mor hyl, mewn mawr aidd—i gadw rhag ton,
 A'i throchion mawrion, bob teithiwr miraidd.
 Amddiffyn cyflawn cawn rhag cur
 Dan ei gesail, dyna gysur.

Cader Idris.

Draw edrych Cader Idris
 O'i nen ar ein wybren is.
 Gwel yr huan yn torri allan
 O'i fro seirian, foreu siriol ;
 Dyrch ei bannau at daleithiau
 Per agweddau 'r haul tragwyddol.

Y Berwyn.

Yr un fodd Aran Fowddy
 At y ser yn pwyntio sy.
 A dir fryn Cader Fronwen
 Uwch y byd ddyrcha ei ben.

Eryri.

Dacw glogwyni beilch Eryri
 Yn coroni cyrau anian ;
 Ar eu hochrau, gwylltion greigiau
 Yn hagr rengau yn gorchongian.

Saetha 'u bannau trwy gymylau
 Megys tyrau, ymgais taerwych ;
 Eu hagweddau ar binaglau
 Asur-gaerau sy ragorwych.

A'r Wyddfa ymgoda, gan
 Dorri 'r wybrenfwd arian.
 Mewn rhwysg mynnai oresgyn
 Pob nifwl neu gwmwl gwyn,
 Nawf lan yn nofiawl ynys
 Ar fron y nefoedd drwy frys.
 Ar wybr, cyfeilles yr haul
 Agora'i olwg araul
 Arni bob boreu 'n ernes
 O rym ei oleu a'i wres.
 O'i chadair orddechedig
 Loew draw, lle yr oesol drig,
 O dan aniflannol des,
 Fry yn nen, falch frenhines,
 Tra mynych mae 'n tremiannu
 I lawr ar fynyddau lu
 Y rhai sydd ar orseddau
 Ar is yn ei gorfawrhau,
 Gan gydnabod ei bod ban
 Ar fryniau erfawr anian
 Yn Fanon o iawn fonedd
 Uchel ei drych, gwych ei gwedd.
 Cymylau, rhithiau ar hynt,
 Yn nofio ar gefn hyfwynt,
 Oddiarnom a'i haddurnant,
 I nef ei chroesawu wnant.
 A nawf y pelydr nefawl
 O'u palas, gwymp lys y gwawl,
 Ar frys drwy fôr o asur
 Heibio 'r pell wawr-lwybrau pur,
 Wiw lu nen, i lon annerch
 Ei heon ddull a'i thrôn dderch,
 Ac ar ei chopau chwarau

Mawl nef, ac ymlawenhau,
Gan ymffurfio 'n goron gu
Ariannaid, i'w mireinu.

Y Cyfanciddau.

Yna pentrefydd ym mhob pwynt rifir,
A gwawr eu hadeildai 'n teghau 'r doldir.
Ar foreu iawndeg oddiar fryndir
Ar wyrdd y gwaelod mor hardd eu gwelir!
Yn foddus fe 'u canfyddir—rhwng cangau,
A'u holl aneddau dan wullion huddir.

O wlad aneisior! aml ei dinasoedd,
A'i maelyddion yn fawrion niferoedd
Mir eu gwelediad, mawr eu goludoedd,
Mawrwydych eu nodeb yn y marchnadoedd.

Ardderchog aerwyr, rhyfelwyr filoedd,
Lluon hoew esgud yn eu llawn wisgoedd,
Yn rhesi troediant ein hir ystrydoedd
Yn fawreddog drwy fywiog dyrfaoedd.

Dacw odidog luosog balasau
Yn loew ddarnodawl eu haddurniadau,
Llathra marmor fel môr ar eu muriau,
A'u mawrwedd burlwys fel myrdd o berlau.

Bro yn llifeirio o fêt—a golud
Yw ein Gwalia dawel:
Ar bob rhosyn gwenyn gwel
Ar eurgyrch o'u pêr argel.

Flora dêg a'i hanrhegion—adwaenir,
Ei golud dyrir ar ein gwlad dirion:
Brithwau trwy 'n glynnau gleinion
Ei lliwiau heirdd wna llaw hon,

Mir ethol o'i hamrywiaethu—ei theg
Gyfoethocaf liwiau
Hwnt o gist nef, er teghau—ein tirlawr
A'i wneyd yn barlawr llawn Eden-berlau.

A! ddiwael waith, y ddôl wna
Ddillada ar ddull Eden.
Glaswellt welir mewn glwysawr
Wrth chwyfio yn lliwio 'r llawr.

A "llygaid y dydd" lliwgu
Yn fflwch eu tegwch bob tu.

Blodau yn wynebledawl—deg wridant,
Hwnt lledaenant eu holl liwiau denawl;
O! ddarnau addurnawl!—y prif berlau
Ynt ar goronau natur gywreiniawl.

Ail i ser o wawl siriol—disgleiniant,
Draw hoffed harddant arffed y werdd-ddol!
Glan yw eu dull, gleiniau dól,—coronant
Amryw urdduniant Cymru orddenol.

Yn y llynnoedd eu lluniau—a chwarddant
Ar iach wyrddion donnau;
Llawen gweld eu lliw yn gwau
Yn agwedd y gwanegau.

Yr awelon, tra yr hwyliant—ar frys
Trwy fro nef, arafant,
Weis y tywydd, distawant
I gael pêr arogl y pant;

O glogwyn, teg golygu—hael doraeth
Heirdd ddoldiroedd Cymru,
Gwynion feusydd yn gwenu,
Bwyd teg yn addfed bob tu.
A'u gweddau 'n llawn gwahoddiad
I'r medelwyr, mudwyr mad.

Pomona fwynha yn hon—gawellaid
O deg wull æ aeron,
Afalau eurwawr mawrion
Yn nglwys law 'r angyles lon.

Wele erddi, perllenni pur llawnion,
Yn wyrdd eu dyfrig yn harddu 'i dwyfron,
Mor gain i archwaeth eu mir gynyrchion!
Arab welediad, O! wawr ei blodion.

Mae ereill lennyrch mor heirdd, mor llawnion
O harddfrog lwyni a gerddi gwyrddion?
Y cnydau ar hwyliau gyda 'r awelon
Yn cwhwfannu acw, haf hinon.

Dyferion glwysion y gw lith—rhif y ser
 Yn eu holl fwynder, yn lli o fendith
 Ar y gweunydd a'r gwenith,
 A mêl-fronnau 'r blodau blith.

Dyferion gloewon y gwlaw
 Nawseiddiol ynt yn suddaw
 Yn nghwmni 'r gw lith bendithiol
 I ryddhau daiar y ddôl,
 Nes y byddo 'r fro yn frith
 Gan derwyn egin dirith.

Yna bywiol wyneb haul a'i wenau
 Dront fry o'u hygain ddwyrain wawr-ddorau,
 O dan eu hehedol dywyniadau
 Ar eu cain adeg addfeda 'r cnydau.
 A'u gwawr wybrennol ymwisga 'r bryniau
 Uwchlaw dolydd iachaol eu diliau.

Mor oludog mewn amrywiol hadau,
 Mor dra addurnawl dan gnodawl gnydau,
 Yw 'r dyffrynnoedd hyfryd hoff eu rhiniau
 Ar rwyddaf lediad dan fyrdd o flodau.
 Y glwys, dihalog lysiau—ar y ddôl
 Onid danteithiol iawn ydynt hwythau ?

Dan orchudd o gnwd anerechol,—llenni
 Llon o ffrwyth toreithiol,
 A mir ddull y mae 'r ddôl—dan wawr ruddain
 Yn hardd, yn firain mewn gwyrdd anfarwol.

Yn mhob parth mae y perthi—yn camu,
 Cymaint yw rhifedi
 Cnydau rhad y cnau di-ri—glysdyrant,
 Draw a ymlynant ar eu haml lwyni.

D. J. yn Clwyd.

Ar ogoniant Cymru geinwawr—y clo
 Yw Dyffryn Clwyd dirfawr—
 Goreudeg wedd, gwridog wawr,—drych o bau
 Eden a'i rhiniau ar daen eirianwawr.
 Wele nawf awelon nen
 Yn ebrwydd ar fron wybren,
 Rhai 'n dwyn ar win-adenydd
 Beraroglau blodau blydd,
 Gan bereiddio y fro fras,

Ruddlon gaeau ireiddlas,
 A llenwi 'r Dyffryn llonwawr
 A'u hadfywiol siriol sawr,
 Tynneru tonnau euraid,
 Yr adar, bereiddgar haid.

Ar fan mwy gwiwlan y pelydr golau
 Ni ddawnsiasant yn lloniant eu lluniau.
 A'u rhiniau odiaeth eiriana ydau
 Hoff fron gweunydd, Dyffryn y gwenau,
 Gwiw, hynodol ei gnydau—a'i ffrwythydd,
 A'i holl ddolydd yn lli o ddiliau.

Ei hoff Glwyd a wastraffa 'i goludoedd
 Yn afradlonawl dros hyfryd lannoedd
 O fawr gariad at y fro a'i gyrrroedd,
 I ber-frashau diliau ei hardaloedd.
 O ddwyfron ei berthog ddyfroedd—sudd da
 I'w hâr arllwysa drwy yr holl oesoedd.

Ai 'n fwys i engyl glwyswyn—y lluniodd
 Llaw anian y Dyffryn?
 Lleda 'i holl liwiau dilyn
 Ar eangfawr glawr y glyn.

Ceir hyfryd a chyd longyfarchiadau
 Gwenyn a chaniadgar adar, heidiau,
 Y rhai agorant ger y wawr-gaerau
 Eu boreu donig ar bêr, bêr dannau.
 Anadla swyn hynodawl o'u seiniau
 A'r awel dan eu haraul adeiniau.

Gwelir draw ar glawr y drych
 Yn ddernyn pert addurnwych
 Iach adail gwyngalchedig,
 Yn swn cyngherdd y werdd wig.

Hyfryd yw taro difyr dant—yn llon
 Dan y llwyni ariant,
 I fardd y prif urddiant—yw canu tôn
 O dyner galon dan eu hargeliant.
 A gwrando ar gywreindant
 Adar pêr rhwng blodau 'r pant.

Ar hyd ein moelydd rheda ein milod
 Aml eu hwynebaw, mil, mil i'w nabod,
 Amrywion anian, rhai mawrion hynod

A nodau brasder heb un dibrisdod,
 Rhai tewion, rhi y tywod,—o'r mynydd
 Hwnt trwy eu gilydd pranciant i'r gwaelod.

Meirch gwrdd ydynt â mawrwych gerddediad
 Yma yn tramwy, eon eu tremiad,
 Oll yn arddel drwy uchel edrychiad
 Eu hen fawrhydi am heinyf rediad:
 Gorlawn o frysiog lidiog welediad
 Ydyw holl agwedd danllyd eu llygad.

Tewha cain ychain uchel—ar fywiol
 Borfaoedd yn dawel,
 A buchod gânt heb ochel
 Einioes fad trwy 'r Ynys Fêl.

Mor delaid ei defaid hi!
 Gwel gannoedd ar glogwyni.
 Ar ei gwawl-goronog, bannog bennau
 Areda y dilyn ddiadellau.
 Yn y nos ceir hwy 'n mwynhau—heb dristwch
 Eu rhan mewn heddwch ar ein mynyddau.

F mwnau.

Ei gwyneb, od yw 'n gwenu
 A nodau can cnydau cu,
 Os yw toraeth meus tirion
 Yn fawr olud i dud hon,
 Golud trech sydd yn llechu
 Yn eigion ei bron a'i bru.

Obry ei chalon a'i bru a chwelir,
 Ei mynyddau a'i chreigiau chwai rwygir,
 Goludoedd yn foroedd o'i bron fwir,
 Draw o'i gwaelodion cyflawnder gludir.
 Toreithiau mwnau mir—y creig garw-wedd
 Er gwaetha 'u dannedd o'r gwythi dynnir.

Drwy allu tramawr dryllir—hwynt allan,
 Golud anian o'i gwely dynnir.

Chwyda Cymru o'i cheudod—ddigonedd
 O gynnyrch di-ddarfod:
 Lli o aur câ llawer côd
 O'i thrysawr aruthr isod.

O'i fynwes Parys Fynydd—arllwysa
 Er llesiant y gwledydd
 Gyfoeth a hawg o efydd
 Rhagorawl, heb dawl, bob dydd.

Anturia llongau o barthau berthawg
 Y ddaear, ar anwar fôr ewynawg,
 Dros yr ymrolfawr erfawr fyr arfawg,
 O flaen anadlau awelau hwyliawg,
 Ar rwyfiad i'n tir hafawg—lle llwythant
 I ddigoniant ein hefydd gwiw enwawg.

Rhwyga Arfon o fron ei thalfryniau
 A morthwylion a chynion, lechennau,
 Ie, digonedd i doi ugeiniau
 A myrdd o fawrion lwysion balasau.

Cerrig hon yn mhob cyrrau—arferir
 Ar fawrion adeiliau ;
 Noddant dramor aneddau,
 Cywir fodd, gan eu cryfhau.

Da ledant i dylodion,—wir luniaeth
 I orlonni 'u calon ;
 Yn eu tai hyn yw eu tôn—"Oes dramawr
 Haul i dy ddirfawr oludoedd, Arfon."

Glo yn gadarn o'n glynau a godir,
 A'i oroludoedd trwy Gymru ledir,
 Aelwydydd Llundain a gain ddigonir,
 A channoedd o ddinasoedd gynhesir,
 Tu draw i foroedd glo 'n tud arferir,
 Am ein glo yn mhob man e glywir.
 A theg fendith i gyfandir—Amerig
 Yw, yno 'i glodig riniau a gludir.

Morgannwg a ddwg ddigon
 O'i brid rinweddau o'i bron.
 Er oesoedd, y trysawr—obry hunai
 Yn ei bron gynhwysfawr,
 Ond i ni chwyda yn awr
 Ei goludfa ddofn glodfawr.

Yn llechweddau ei berth fryniau
 Gwneir rhwygiadau gan ergydion,
 Er agor llwybr i eigion

Golud ei bru, gwlad ei bron,
A dwyn allan dunelli
O lo 'n fwyd i'n haelwyd ni.

Ac o fronnau 'r broydd weithiau
I bellderau dyfn bwl dorrir,
Hyd guddleoedd trysorfaeodd
Y goludoedd, lle gwaelodir.

Lluon terydd i'w wyll a anturiant,
Yn ei berfeddion dyfnion nid ofnant,
Rhi ym mol anian obry ymlonnant,
Yn y dyfnderoedd y du fwn dorrant,
Golud y wythen trwy 'r gwaelod weithiant,
Pan wyll du anian tunelli dynant.

Haiarn fwn a'i rin fynnir
O ddwrn anian tan eir tir.
Ar ol ei doddi, ei rin—i luoedd
Drwy ein hardaloedd dry yn aur dilyn.

Merthyr Tydfil a'i miloedd—gynhalia,
Yma arleda dramawr oludoedd;
Cywreinfawr dirfawr dorfoedd—sy 'n ddiwyd
Ag eithaf fywyd yn ei gweithfaeodd.

Ei gweithfaeodd,—genau miloedd
A ganmolant;
Am ei hanlloedd, y teyrnasoeodd
I'n tir nesant.

O hynod olwg, trafflith adeiliau,
Fforest o sythion, mawrion ffumerau
Yn wybr uchod, ban hyglod binaglau.
O! mor ddibrinion y myrdd beiriannau—
Offerynau ysol—y ffyrnesiau
A'u rhauu trenawl uwch gawr taranau!
Mantella niwlen mewn dull anolau
Ar y tirwedd, gan enhuddo 'r tyrau
Drwy y dydd, y nos edryda weddau
Gan agor ban ffaw luman y ffamau.

A! gyda bod rhod yr haul
Ar oror ei lwybr araul,
A'i lathr glud ar fachludaw
Goleu ddydd o'r ffaglau ddaw!
Y nos hell ni faidd neshau
I olwg y mil heuliau.

Os gwywant y glwys gaeau—dan bla dig
Archwaeth uffernig o'r chwyth-ffyrnau,
Goludog iawn gawn am goll—yr holl dir,
Yn daliad dygir y delid digoll.

Troa bagad, bythol fudiad,
Ar eu galwad, trwy eu gilydd,
O! 'r golud, O! 'r symud sydd,
Y twrw, y gwau tragywydd.

Ar ael pob gŵr e welir—*Masnach!* *Gwaith!*
Gwaith yw 'r araith o bob ffumer yrrir.

A *Gwaith* yw 'r aeg a wthir
O wyll erch y pyllau hir.
Y ffyrnau, chwithau chwythwch
Hyn â fflam eich anadl ffwech!
Chwithau wreichion i'r uchafion
Yrrwch hefyd
Yn orddisglair yr arwyddair
Ar wawr rhyddid,—

Ie, 'r awelon fry ar eu hwyliant
Eu chwibanoglau wiw leisiau laesant,*
O'u hargel dawel i'ch cyfarch deuant,
Ac ar eich pelydron llon darlennant
Am orhoff hanes Cymru a'i ffyniant,
Ei gwythi, nifer ei gweithiau a'u nwyfiant.

Mawl Cymru.

Mawredig, Gymru, ydwyt,
I'r byd bendith ddirith wyt.
Dan bwys d' oludoedd glwysion
Ar y môr dig cryma 'r don.
Trwy 'r Cyfandir clywir clod
Dy ddirfawr fwn di-ddarfod.
Hynod son! pa Indiad sydd
I'w wlad na seinia 'th glodydd?

Gan fawrion geinion ni chenfigenna
Wrth fwn serendeg ceindeg Golconda,
Potosi aurfawr ryglyddfawr gloddfa,
Na golud eiriandeg gwlad yr India,
Na bronnau trysorlawn trylawn Awstralia
Trwy yr hon aur mal afon ymlifa
O fru 'i mynyddoedd lle 'n fôr ymnodda.

* To hang down.

Cerddorion mwynion â'u mawl
 Adseiniant y wlad swynawl.
 Lluon o adar diwall eu nodau,
 Rhai llawn o swynion, rhai llon eu seiniau,
 O! mor hylawen mewn amryw liwiau,
 Y pur ddyhidlant eu peraidd odlau;
 Mawl dynnant o'u mêl-dannau,—clyw drawiad
 Difyr deimlad o'u cysgodfawr demlau.

Ar dywyniad y wawr a'i da wenau,
 Ar hyd y dolydd e red y diliau
 Mwyaf danteithiol, swynol o'u seiniau,
 Hedd-gynghanedd ar fyrdd o ganghennau.
 A thrydaniaeth eu haur-donau—denir
 Y teithwyr cywir o'u taith i'r caeau,
 A'u puraf nôd, per-fwynhau—o'r wig werdd,
 Ter rin cyngherdd cantorion y cangau.

Natur ddyhidla trwy eu hedd-odliant
 Ei holl farddoniaeth—llif o urdduniant;
 Syn goedydd y swyn gydiant,—wyrdd resau,
 Eu boreu gwisgiadau i'w brig ysgydwant.

Dihalog leisiau, O odlau glwysion!
 Pur eu difyrrwch, per eu dyferion.
 Gwewyr, prudd-der, gwasgara 'u pereidd-dôn
 O gelloedd, dirgeloedd dua 'r galon.
 Eu mil leisiau melusion—ddyrchafant
 Fry yn foliant i fro y nef hylon.

Celfyddyd.

Clyw drwst y tân-beiriannau,
 A'u pib yn chwiban trwy 'n pau.

Mwth yr ehedant ar eu maith rodau,
 Gan ddwyn rhedol arbedol gerbydau
 Oll ar eu hol yu unol linyndau,
 Trwy fryn, tros ddôl, ar hedol droadau.
 Gan lonni 'r nen uwch ben â'u chwibanau,
 A bygwth dryllio cerigog greigiau
 Trwy eon ddyrnod, a'u torri 'n ddarnau,
 O! ewybr yriad! mewn byr, byr oriau
 Ant heb walldoriad hwnt i bellderau,
 Gan ddwyn dynion, newyddion, a nwyddau.

Uwch y meus dilyn try 'u chwim sidellau,
 Eofned gyrrant, chwylant uwch aelïau
 Llethrog anïan, a than ei gwythenau
 A dyfnïon goluddïon ei mwngloddïau.
 Saethant i galon a bron y bryniau,
 Ymenhuddant yn nghroth y mynyddau.
 Yn eu chwyrn helynt ydynt fel tidau
 Gwiw, eryrog, yn asio 'n gororau.
 Ar eu hehedol rodau—trwy rym gwres
 Mal yr a'u cludres heb deimlo 'r cledrau!

Amryw ddinasoedd Cymru ddynesant,
 Eu meitheroedd rhyngfilldïroedd dorrant,
 Ei pharthau canol fewnol gyfunant
 A ei maith orau trwy eu mwth yriant.
 Drwy frys, meithderau fyrhant,—yn ddiïdor
 Draw hyd eu goror ar drawïad gyrrant.

Dros ein chwyrnïon afonydd—neud diffin
 Y tefïr crogbontydd,
 I barhau eu llwybr rhydd,—er trosglwyddïad
 I'w holl fagad uwch deint y llifogydd.

Gyrrant heb segura—dros fôr llidiog
 A llwybr tonnog, trwy bibell Britannïa.

O frodir glodforedig!—Eden byd
 Dan barch coronedig!
 Trwy rin natur wyrenig a'i thlysiïon
 A'i dirfawr roddïon wyð orfawreddig.

A thrafnïdaeth ei threfï hynodïr,
 Ei phorthladdoedd a'i phyrth a lwyddïr,
 Ei hyd a'i thoraeth odïaeth a yrrïr
 Hwnt i'r gwledydd, ar antur hwy gludïr.

Da faeloryddïon, dihafal raddau,
 Eon eu trwythïr mewn anturïaethau,
 Rhagfwriadant, gollyngant eu llongau
 A'u daoedd i ffawd moroedd, a murïau
 Pren yn nawdd prin i'w nwyddau,—dïgonïant
 Yn gywir yriant i'n gororau.

A dewisoliïon newyddïon nwyddau,
 Weithïau â choedydd, weithïau iach hadau,
 A gwin maethus i'r gwan, ië moethau,

Neu anghydmharol haffledol flodau,
 O deyrnasoedd daear a'i hynysau
 Dônt, gan agor deint y gwanegau,
 I fewn i'n hangor-fannau—ar frig ton,
 A'r awelon yn chwareu â'u hwyliau.

Gyrru i'n rhandir ragorion yr India,
 Tirio & chynnyrch, priddlestri China,
 Llu enwog hwyliant yn llawn eu gwala
 I Gaernarfon ar ol gerwin yrfa
 A gwyntoedd tramawr, i nwyddfawr noddfa
 Ei phedronglfawr eng erfawr angorfa.
 Eu dail ethol ddadlwythant,—eu gwenith
 A'u gwin ni omeddant,
 Y dre odiaeth edrydant—heb arfgyrch,
 A'u henwog gynnyrch i'w hen ogoniant.
 Ei hethol lechi llwythant,
 Yna 'n ol gyda 'r don ant.
 Mon ffrwythlonfawr gerllaw 'r lli,
 Mawr olud yn môr heli,

Ynys deg ar fynwes y don,—mor fir
 Ei chref randir rhwng chwareufâ'u 'r wendon.

Y môr ogylech a'i gylch, gan
 Ei murio fryn a marian.
 Gwylia ef ei gwely hi
 Rhag i don rwygo dani.
 Rhydd arfog ddyfroedd erfawr
 Gylch ei ffin yn fyddin fawr.

Gwlad hardd a hyglod yw hi,—gardd ddifreg
 Ar ddwyfron y gwyrddli:
 Ar ei glân y dyfrawg li
 Sy addurn gloewlas iddi.

Cynddaredd dannedd y don
 Dorrir ger ei gwedd dirion.
 Lle angor i'r llongwr yw,
 A thud i'r amaeth ydyw.

Ei thir arloesir o bob sur lysiau
 Ac olion holl arwyddion hyll wreiddiau,
 Gyrrir y cerrig garw o'r cyrrau,
 Ac nid oes atal na thâl, na theiliau
 I wneyd ein Mon yn Eden am wenau,
 Yn wlad odiaeth am olud o ydau.

Am ei da duon mawr son sydd,—i haid
Ei hanifeiliaid mae hefelydd ?

Rhag dig cynddeiriawg y don,
Gerwinder hagr y wendon,
Llongau wrth ddiwall angor
Geir ar ei ffin, min y môr ;
Lluosydd lle ymarllwysa—holl ffrwd
Llif Ffraw i'r môr lynefa.
Ac amledd yn hafn Cemlyn,
A rhes yn cylchu pob rbyn.

Ond ho ! ei chrogawl Bont uwch yr eigion
Hudda lewyrch ei chynnyrch a'i cheinion ;
A gwedd Eryri o'n gwydd yr awrhon,
Hon a gorona ei holl gywreinion.
Wele uchafwaith Gwalia, a chyfion
Orthrech ar fôr, ar fôr a'i arferion,
Tremynt uwch garw-wynt ar gelf dan goron.
Hyd yr hoff wyrthiawl Bont heb drafferthion,
Ar eon yrfa yr awn i Arfon,
O ! mor dawel uwch deint y myr duon
A'r dwr ewyndeg, gan ddwrдио 'r wendon !
Gorwydych daith uwch ymgyrch y don—a'i brad ;
Diangawl hwyliad yn nghol awelon.

Rhua don ! gyr o dani !
Rho dy lef ! berwa dy li !
Rho ddyrnod agwrdd arni,
Syfla ran o'i safawr hi !
A ! er gwadd fâr a gorddig
Mynyddau o donnau dig,
Er llu môr a'i allu maith,
Ni chwympa darn o'i champwaith.

Dyna gerbydau 'n gyrru heb oediad,
A meirch chwai trymion, mawrwydych eu tremiad.

Mil acw ar ddiidwn amlwg gerddediad
Heibio eu gilydd, wŷr o bob galwad.
Acw trydar eu cyd-droediad—â bloedd rydd
Y môr dihysbydd, mawr y diasbad ;

Tonnau yn berwi tanynt,
A hwythau yn gwau mewn gwynt.

A lli engur y llongau—hwyliawg wedd
 Yn nghoffi gwynt yn chwarau,
 Nid ydynt ar feilchion didau—r Bont hon
 Yn ofni 'r eigion na 'i eofn regau.

Ond Mon, gardd ein dymuniad,
 Er ei myrdd geinderau mad,
 A'i thegwch a'i berth agwedd,
 A'i gwiw orodidog wedd,
 A'i didlawd ar, gysdedlir
 Gan ddegau o'n manau mir.
 Brithir ein brodir mewn bri
 A myrdd o'r fath falm-erddi.
 Golud hardd—gwlad o erddi
 Fel Mon, gwlad o falm yw hi.

Bro lawn o eurber lennyrch,—bêr ei sawt
 Bro seirian ei llewyrch,
 Sywgain baradwys hygyrch,—hulia 'i bron
 A mil o geinion a mel-gynnyrch.

Ond pwy, pa Oronwy rydd
 Arluniad o'r fro lonydd?
 Mor anhawdd adrawd ei holl
 Degwch a'i cheinion digoll.

Gwroniaid Gymru.

Ond trown ei golwg at res
 Gwroniaid gwir ei Hanea.
 Derwyddawl dadau roddynt
 Ehelaeth ddysgeidiaeth gynt.
 Eu gwaith a'u rheol, enwog athrawon,
 A'u mawr hynodent ym mri ynadon.
 Heb wyrni rhannent fel barnawr union
 Boenau rhwygawl ar bennau 'r euogion.

*(Yn y fan yma terfyna'r ddau gopi sydd gennyf
 yn llawyagrif Islwyn o'r awdl hon. Ygrifennwyd
 y ddau gopi'n fanwl iawn; ond y mas'r dalennau
 olaf, neu ddarnau ohonynt, wedi eu rhwygo ymaith
 o'r ddau lyfr ygrif. Yn dilyn coir hymny sy'n
 aros ar yr hanner dalennau. Er chwilio ymlod
 cyfeiriad tobygol, methais a chael y darnau coll.)*

* * * * *

I Gymru bu meis eon
 A'u nerth yn amddiffyn hon.

* * * * *

A'i feibion, dewrion eu dydd,
 Gludent anfarwawl glodydd.
 A'u henwau drwy 'r oesau rydd
 Ar dân efryd awenydd.
 Eidiol Gadarn a ddarniai
 Ei alon oll, dial wnai;
 Gwas gwrol, âg ysgyren
 Yn ei ddig â brig o bren
 Ruthrai â bloedd barn arnynt,
 Fal Samson y gwron gynt;
 Antur eon! tarawai,
 Llwyddo ei nod, lladd a wnai:
 Rhoddai 'r dorf yn eu rhuddwaed,
 A'u gwedd yn ddwfn yn eu gwaed.
 Rhodri mawr, garw ei drem oedd,
 A chadarn ei fraich ydoedd.
 Hael waith Caswallon Law Hir
 A'i ogoniant a genir.
 Ac enw Gruffydd ab Cynan
 Trwy y Cymry dery dân.
 Yn haeddol dad i noddawl dŵr,
 Atodaf Rys ab Tewdwr.

Owain Glyndwr, eon ei galonddid,
 Bu enwog deyrn, bu yn gadernid,
 Lluoedd gelymol oll ddigalonnid
 Ger bron ei filwyr, a'u haerwyr yrrid
 Oll o'i flaen â llif o lid—ar gyhoedd
 Aur dŵr oedd lle y rhedai Rhyddid.

Wroled ydynt, anfarwawl dadau!
 Flodau gwiw 'r oesoedd, fawledig resau!
 Dewrwyd benaerwyr, derch eu banerau,
 Arwrweis swyddol ar aur orseddau,
 Trwy anibyniaeth ein tirion bennau,
 Glew'n eu trinoedd, gloewon eu tariannau,
 Trwm eu hergydion a'u trem ar gadau,
 Nodedig eu hunedig eneidiau
 Am orfrydedd a thramawr fwriadau,
 A'r un mor enwog er hyn am riniau.

Tra oesol wybrennydd, tra sail brynau,
 Tra ser yn anian, tra seirian nennau,
 A gloew eirianwawl disgleiria 'u henwau.

* * * * *

Atal hoen ein telynau,—a'u hoelio
 Ar helyg ganghennau,
 Cloi 'r galon a'i ffynhonnau,—nis meiddiwn,
 Canu, gwn, fynnwn wrth gofio 'u henwau.
 Enwau a fyddant hynod
 Tra cylchoedd bydoedd yn bod.

• • • • •

A champweithiau tadau teg,
 Ha ardyrau Gwalia! pan eich gwelir
 Calon fflwch gwladgarwch a agorir,
 Prifenwau oesau i'n cof a wysir,
 Ar hyfion ymdrechion adedrychir,
 Taranau 'r gâd trwy y wlad arledir,
 Ar y saeth lem ad-dremir, a chyd floedd
 Afrifawg luoedd a thwrf eu heirf glywir.

• • • • •

Golud a phinael ein gwlad, a'i ffyniant,
 A phrif allwedd ei holl hedd a'i llwyddiant.

O! arhosed gair Iesu—a'i deyrnas
 Yn gadernid Cymru,
 A rhinwedd i'w heirianu,—nes bydd hon
 A'i bryniau uchelion trwy 'r wybr yn chwalu.

Y CEFFYL A'R ASYN.

(LA FONTAINE.)

'Roedd asyn tlawd a cheffyl yn cyd-deithio,
 Y naill dan erfawr bwn, a'r llall yn ddedwydd arno,
 A chroch oedd nâd ein Balaam am gynhorthwy,—
 "Syr, byddai yn gymwynas ganmoladwy,"
 "Ust! be sy ar y llabwst diog, hawyr?"
 A ffwrdd âg ef â'i sodlau yn yr awyr,
 A threngu wnaeth y truan yn ei ymyl,
 Ond trwm echrydus fu y tro i'r cheffyl—
 Rhowd pac yr asyn ar ei gefn,
 A'i groen drachefn.

Fe ddylai dynion gario beichiau 'u gilydd,
 A rhoi y naill i'r llall gynorthwy beunydd,
 Waith cyfaill pan y syrthia yn dy ymyl,
 I ti y gedy ei faich, a byddi 'n frawd i'r cheffyl.

E N A I D .

PA fodd darluniau di, O Enaid mawr?
 Oferedd yw i mi ddefnyddio iaith yn awr.
 Rhyw ddarn o Dduw
 Rhy fawr i lygad amser yw,
 A'i feddylddrychau dyrchafedig
 Fel bryniau yn yr anweledig
 Mae 'n sefyll uwch cyfandir amser, fry
 Fel Alp o eilfyd; angau yw
 Y nerthol ddaear gryn a'i try
 I'w le yn ol ar ymyl bryniau Duw.

Mae yn pontio 'r eigion ser
 A drychfeddwl;
 Mae yn dringo 'r nennau ter
 Fel uchel-bren bythol draw,
 Ac yn plethu eu cyfundraethau fel colfennau yn ei law.
 Mae ei feddwl, fel y nefoedd, fyth a byth yn ymeangu
 Tua Duw ac anfeidroldeb; gedy 'r ser-deyrnasoedd obry,
 Fel pererin nef-rwymedig
 Ar ei daith anherfyndedig,
 Byd ar fyd fel dól ar ddól
 Ar ei ol.

Yf i mewn, yr Enaid mawr, fydoedd Duwdod fôr ar fôr
 Fel meddyliau munud awr, a sycheda am feddyliau noethion
 Am ei weled fel y mae mwy heb gyffelybol lun [Ior,
 Y tu draw i'w holl weithredoedd ynddo 'i hun.
 Cyneuer byth feddyliau ter
 Drwy nen fy enaid i fel ser.

Meddyliau mawrion ynt y goleuadau gwiw,
 Sy 'n llosgi tua bydoedd gwell a'u terfyn oll yn Nuw,
 Yn llosgi nes y byddont yn anweledig draw
 Yng nghanol dydd y Duwdod, claer Dduwdod ar bob llaw.
 Rho imi, Dad, y gallu i dramwy 'n ol a blaen
 Trwy dragwyddoldeb meddwl sydd o anfeidrol daen.

Y mae y byd yn fawr, mae 'n llanw cylch
 Rhyfeddol yn y gwagle, ynnot ti
 O Enaid mawr, drychfeddwl syml yw.
 Y greadigaeth, er llydaned hon,
 Brysura i mewn ac allan trwot ti
 Fel awel lawn o Dduwdod, a phob byd
 Fel adsain o'i gadernid. Mae y ser

Yn soddi yn dy ardderchawgrwydd maith
 Fel traeth o gregin, tra y chwyddo'th lanw
 Uwch cyfyngforoedd amser oll i mewn
 I'r moroedd pell tragwyddol, lle y mae
 Duwdod yn foroedd mwy, a'r oesoedd oll
 Fel tonnau o anfeidrol rif, o chwydd
 Anfeidrol rwysgfawr. Enaid! beth yw môr,
 Môr o fawreddog fydoedd ar dy ffordd?
 Rhyd, hawdd i enaid groesi. Medri di
 Linyddu 'r bydoedd ar ddrychfeddwl derch
 A chwareu ar y tant. Mae rhywbeth ynnot
 Sy 'n fwy na 'r bydoedd—rhywbeth sydd yn gwneyd
 I'r haul dy adwaen oddi draw fel un
 O'r nefol bythol fodau, ac, i'th law
 Ollwng ei reithlyfr mwyach, lle y mae
 Uchelion ddeddfau llawer byd, lle cawd
 I'r ddaear ei thudalen;—rhywbeth sydd
 Yn troi elfennau natur oll fel afon
 Ar olwyn dy ddibenion, gan eu dwyn
 I gydweithredu drosot ti, rhai sydd
 A'u gilydd yn rhyfela ac yn dryllio
 Y nefoedd â'u hystormydd, ac yn gadael
 Rhwygiadau oesol ar ystlysau 'r bryn.
 Yr wyt yn cau y tARTH i mewn, ac wele
 Fraich egyr lwybr trwy y gwynt a'r môr,
 Nerth sydd yn ysgwyd gwledydd fel pe bai
 Ysgogiad mawr y ddaear yn deimledig.
 O Enaid! mae y byd yn soddi ynnot,
 I'r tawel eigion o adgoſion sydd
 Yn cysgu ar suddedig draeth ieuencyd,
 Fel anigonol beth o fychan bwys;
 A thi wyt gadarn eto, yn dy flaen
 Yn ymeangu gydag oesoedd eilfyd,
 Ac nid oes dim a'th flina, Enaid mawr,
 Ond rhifo oesoedd. Henffych dymor pan
 Ddiffoddir llusern amser uwch y byd
 A phruddaidd oleuadau 'r nos rhai sydd
 Yn dyferynu tragwyddoldeb arnat
 Mor brin, a thithau mor sychedig fyth.
 Wyt fel pe rhwymid Ysbryd mawr y môr
 Ar graig gerllaw rhyw ffynnon. Felly ti
 Dan araf ddyferynol oriau amser.
 Mae 'th nerthoedd fel afonydd yn dyfnhau
 Ac yn llydanu i dragwyddol fôr.
 Paham y byddit—pam mor gryf i farw?

Mor danbaid i'r dragwyddol nos dy ddal ?
 Rhaid fod dyfodol cerub, rhaid fod byd
 Tragwyddol yn dy aros, fod dy waith
 Yn ddwyfol a diderfyn fel dy nerth.

Gadewi ganrif ar dy ol fel ton
 Ar fordaith anherfynol. Haul a lloer
 A ser ni welir mwy ;
 Tyn amser, enbyd yrrwr, yn y man
 Ffirwyn fawr yr oesau i mewn, pan fyddo ar
 Redegfa lawn, a'i gerbyd mawr o fydoedd,
 Pob olwyn heulog a ser-wawlyr mawr,
 A unwaith ymollynga, a dwyfol lais
 Lef allan "Darfu !" uwch y cwbl,
 "Na fydded !" Mae y bryniau ? Mae y môr ?
 A'r myrdd dyffrynnoedd ? Gwagle yw yr oll.
 Tydi ! tydi !
 Yn unig a adawyd, Enaid mawr !
 Ac yn dy nerth a'th rwysg gadawyd di.
 Wyf yn dy weled yn dragwyddol iach,
 Ymhell i fyny ar fynyddau Ior,
 A naddu 'r wyt gadarnaf gestyll fry
 Yng nghreigiau tragwyddoldeb. Llosga 'r byd
 Fryn oddiar fryn, dyfnderoedd tan ddyfnderoedd
 Arddrych i mewn at arddrych, nes y bydd
 Ei echel main a theneuedig mwy
 Yn gorwedd ar y gwagle. Bydd y ser
 Fel tân-fynyddoedd wedi diffodd byth
 Yn casglu nos dragwyddol am eu bannau.
 Anghyfaneddol ceir y bydoedd oll,
 Tyf barnau drostynt fel fforestydd dyfnion.
 I ti er hynny 'r dydd ofnadwy hwn
 Duwdod a thragwyddoldeb ymagorant,
 Ac ei i mewn dan ganu. Wrth dy ystlys
 Y cwmp deng mil o fryniau ac o fydoedd,
 O Dduw canfyddi 'r oll
 Fel cwmp o ddail brydnawngwaith. Byddi di,
 Pan gyfarfyddo y ddau dragwyddoldeb
 Yn nhyrfau croch yr olaf ddydd, ar ol
 I'r cyntaf weithio 'i ffordd i mewn i'r ail
 Trwy holl oes-gloddiau amser, byddi di,
 O ! Enaid mawr, yng nghartref ar y llif,
 Ac yn mwynhau anesgrifiadwy rwysg
 A thwrf eu cyfarfyddiad pan y sawdd
 Holl fryniau amser mwy.

Y MILFLWYDDIANT.

HENFFYCH awr!

PAN ddaw 'r cenedloedd yn eu rhwysg i'r lan
 O dŷ eu hir gaethiwed, fel y daeth
 Eu Duw i'r lan o'r bedd, ag angau erch
 A'u holl elynion bellach dan eu traed,
 O dan fanerau pryndigaeth daw
 Holl Israel dyuol ryw mewn hedd i'r lan
 Trwy fôr o waed, i addawedig wlad,
 A Chanan eu hiawnderau, fel y daeth
 Eu cysgod gynt o'r Aifft.

Fe ddofir yr elfennau. Flwyddi fil
 Anghofia 'r tonnau eu digofaint gynt,
 A thafiant ffwrdd ormesol iau y gwynt:
 Y santaidd donnau wylant ar y traeth
 Ddagrau o hylif berl, mewn edifeirwch
 Am oesoedd o greulondeb at y lan.
 Fe gaiff yr eglwys lawenychu 'n awr,
 A sychu ei dagrau ymaith â gafaelion
 O wenau yr Anfeidrol, a mwynhau
 Ei wyneb fel disgleirdeb hanner dydd,
 A byw ar ryfeddodau, byw ar Dduw
 Fel wybren ar afonydd o belydron.

A daw y planetau yn nes at eu gilydd
 O gonglau y gwagle, fel nefol chwiorydd,
 Fel nef-gyfandiroedd pereiddiaf eu sawyr.
 Heb rhyngddynt ond culfor rydiadwy o awyr.
 Fel ardal odidog o deg Elysfaoedd
 Ymalwant dros donnau awyrol y nefoedd.

Bryd hyn bydd anian gref fel eang fôr o fawl,
 Yn chwyddo tua nef y nef ei dwyfol lanw heb dawl,
 A bydd pob anadl yn fawl bryd hyn;
 A gwelir hawddgar weddau angylion wrth y beddau,
 Ac yn eu llaw allweddau
 Aur y glyn.

Dyfera 'r gwlaw o'r nef yn dyner fel y gwllith,
 A chwilia 'r awel gref ar santaidd hynt ymhlith
 Awyrol encilfeydd y storm, a charn
 Ei hadfail yn y môr,
 Am lwch merthyron Ior
 I'w casglu oll at ddôr—
 Dôr y Farn.

TYBIAETH.

NID ym yn sicr fod yr enaid mawr
 Yn cyfeiliorni pan y cwyd uwchlaw
 Holl brofiad dyn o'r cawell hyd y bedd,
 Gan sisial pethau anhraethadwy, gyrru
 Pob ffigur dros y terfyn, ymbellhau.
 Fel seren i'r tragwyddol.

Onid oes
 Gan enaid hanes ynddo ei hun,—rhyw drai
 O dywyll bethau 'n murmur o'r tu ol
 Ar bell, anghysbell draethau—traethau lle
 Y collwyd Adgof gyda gorfawr ddrylliau
 Rhyw fyd neu fydoedd.

A yw 'r ser uwchben
 Mor ddwyfol ac ardderchog ag y myn
 Barddoniaeth ganu? Onid *mewnol* swyn,
 Adgofion am ddwyfolach golygfeydd
 A phethau yn disgleiro oll gan Dduw,
 Sy 'n rhoddi iddynt hwy eu hysbryd-north
 A'u harucheledd? *Ynnom* mae y ser!
 A phob barddoniaeth, onid adgof yw
 O rywbeth mwy a fu, neu ragwelediad
 O rywbeth mwy i ddyfod?

Pwy nad yw
 Yn teimlo weithiau fel pe byddai hyd
 Hir-anghofiedig, trwy ryw ongl bell
 O'i gynfod yn chwyrn hedeg, neu yn cyffwrdd
 Rhyw benrhyn o adgofion?

Dychymygion,—
 Pwy brofa nad gweddillion bywyd uwch
 Mil ardderchocach ynt, yn nyfnaf fôr
 Yr enaid mawr yn gorwedd hyd nes del
 Oll-chwiliol anadl barddoniaeth heibio?
 O! henffych awr pan ymddanghosa Duw
 Fel nerthol haul uwch holl gyfnodau bod,
 A ffordd yr ysbryd trwyddynt oll yn olau
 O'r Dwyfol—*trwy* 'r parthedig fod—*yn ol*
 I'r Dwyfol mawr drachefn.

MAE BYWYD FEL Y NEF.

MAE bywyd, fel y nef, yn llawn o fydoedd ;
 Pob dydd—rhyw fyd o ddrwg neu rinwedd ydoedd
 Trwy gylcholygfa 'r oriau buain deuem,
 Awr ar ol awr, fel cae 'r ol cae a heuem ;
 Yn had hyd yr ymylon aeth y dydd
 I lawr dros holl derfyngylech amser prudd,
 Fel byd hauedig i'r tragwyddol rodau,
 Ac yn nhymorau tragwyddoldeb codai.
 O fewn addfedol ddyllanwadau iawnder,
 Y mae yr had yn tyfu i gyflawnder,
 Cyflawnder dydd y Farn, mawr ddydd y medi,
 Pan fydd holl oriau amser o flaen y Farn yn lledu,
 Byd goruwch byd trwy awyr tragwyddoldeb,
 Yn wynion i grymanau angau neu anfarwoldeb.

O HAPUS LUDDEDIG.

Mae 'r nos ar ei bannau i gyd yn oleuni,
 Môr bywyd tua 'r bedd yn prysur ymloewi.
 Nid hon yw yr uchaf, mae ereill wybrenau,
 Mae bywyd ar fywyd, a nennau ar nennau.
 Po uchaf y dringom mwy clir yw 'r olygfa .
 Nes gwawriom yn Nuw a chael ynddo 'r Wynfa.
 A feiwn ni 'r ffordd sy 'n croesi y bryniau ?
 Y gallu a'r ordd sy 'n dryllio calonnau ?
 Mae 'r ffordd yn troi 'n sydyn trwy gilddor y bedd
 I balas tragywydd a hafddydd ei hedd.

Ar aden tywyllwch mae 'r ser yn neshau, [yn cau.
 A thua bro hawddfyd tymhorol mae 'r wynfa dragwyddol

O! hapus Luddedig sy 'n disgyn i'r glyn
 Hyd riw gorthrymderau, a'th galon yn llyn,
 A'r llwybr o'th ol yn wlyb gan dy ddagrau,
 A glyn dy adgofion yn dywyll gan feddau,
 Bedd, bedd y tu cefn i fedd yn y nifwl
 Fel plyg y tu cefn i blyg yn y cwmwl,
 Ac ambell i fedd ac ambell i flwyddyn
 Yn rhy bell i'r meddwl ei gofio a'i ddilyn,
 O hapus Luddedig sy 'n curo mewn hedd
 Wrth haiarn ddôr angau, yng nghysgod y bedd !
 Trwy stormydd a gwyntoedd mae ceisio y nef,
 Ac nid yw hi 'n agor i'r ysgafn ei lef.

Pan fyddo y llais wedi methu gan alar,
 Yn eiddil ei swm ac yn isel ei drydar
 Fel awel mewn mynwent o feddau newyddion,
 O! mae ein gweddïau bryd hynny yn gryfion,
 Yn suddo i galon y Duwdod, yn plethu
 Ei briodoliaethau fel cadwyn o'n deutu.
 Mae 'r Duwdod yn agor ei fynwes a'r nefoedd
 O'i mewn, pan y llefom o'r stormus ddyfndercedd.
 Ar lawr dan y groes, a chraig yn y galon,
 Neu ar ymyl rhyw fedd oedranus a llwydfon,
 Lle cyfyd y cof ei orsedd aml ennyd
 Gan droi ei deyrnwialen dros bell forau bywyd—
 Aml flwyddyn yn codi fel angladd i'r golwg
 Yn araf a phruddaidd trwy 'r niwloedd anamlwg,
 A rhai o'r wynebâu yn ddieithr, ac eto
 Fel rhithiau breuddwydion heb hollol ymado,—
 O! dyna hoff funud y fendith fawr,
 Mae dagrau yn nofio y nefoedd i lawr.
 Pan hedo y weddi drwy gawod o ddagrau
 A'i haden yn wleb gan ddyfroedd teimladau,
 Y weddi wan eiddil a'r anadl tyner
 Na chlywyd o fewn terfynau bro amser,
 Hi lanwodd y wynfa oruchaf â'i hadsain
 A dyg iechydwrïaeth yn ol ar ei hadain.
 Pan nofio y galon i fyny mewn dagrau,
 Y nef amgylch ogyrch a egyr ei hafnau;
 Ymdorcha cyfiawnder gylch gwynion bileri
 Gorseddfainc y gras, i selio y weddi.

Mae Ior yn y nefoedd yn pwyso y croesau,
 Yn mesur yr yrfa, yn rhifo y beddau.
 I'r bedd—na! nid yna y soddodd dy ddagrau,
 Mae 'r llaw fu 'n eu casglu yn wynnach na 'r beddau.
 A wylaist erioed un funud, un deigrin?
 'R oedd costrel o'r nefoedd islaw yn ei dderbyn.
 Mae dyn yn anghofio ei ddagrau, a'r dyffryn
 Yn gollwng dros gof gawodydd y gwanwyn,
 Ac eto mae natur yn brysur o'r golwg
 A'r hedyn claddedig yn gwyrddu i'r amlwg.
 Mae 'r gawod yn codi o'r ddaear mewn blodau,
 A dagrau yn cnydio mewn nef o rasmusau,
 A maes llwm y galon o'r hir anffwytholdeb
 Yn harddwych aeddfedu i haf anfarwoldeb.
 Bu farw! mae Ior yn cofio 'r arteithiau,
 Ac wrth eu rhifedi yn trefnu 'r taleithiau.

Nid ofer, fy mrawd, yw wylo yn ymyl
 Un ieuanc yn marw, pan na fo ond engyl
 I'w clywed gerllaw yn symud trwy 'u gilydd
 Gan drefnu y goron, gan drefnu y palmwydd,
 A gwylio yr awrlais yn ymyl y funud,
 A'r galon bron sefyll, a'r byd prin yn symud.
 A wylaist ti yno? do, afon o ddagrau,
 A mynwes ni ddeil y byd o drallodau
 Bilerodd rhagluniaeth bryd hyn ar yr enaid.
 A phan fo 'r olygfa yn codi ar amnaid—
 Ar amnaid y cof i fyny o feddau
 A thawel orweddfa fy more flyneddau—
 Pan bwyswyf fy mhen ar y beddfaen oer,
 Yng ngoleu sancteiddiaf y seren a'r lloer—
 Ar lauwl o adgofion fe ddychwel teg ddrylliau
 Y llynges odidog o fore bleserau
 Gyda 'r hon y cychwynnem o borthladd ieuencyd,
 Dan hafaidd awelon, rhy hafaidd, rhy hyfryd,
 A phan lifont i mewn gyda gwynt cryf o gofion
 Pa ddewrder all furio o amgylch y galon?
 Fy natur a'gyr fel hafn gyferbyn
 A dagrau a'i lleinw i'w croesaw a'u derbyn.

Mae 'r nefoedd yn sefyll i edrych ar ddeigrin,
 Mae 'n plygu i ganfod y tlawd ar ei deulin
 Dan gysgod y pren yn y fforest bell, unig,
 A'i wedd yn pruddhau cysgodion y goedwig.
 Hi selia y deigrin tu fewn, pan y byddo
 'N rhy wylaidd i ddangos ei hun a disgleirio;
 Mae ambell i deimlad rhy ddwfn a thawel
 I'w adsain fyth gyrraedd y wefus a'r awel,
 Ond clyw! mae y nefoedd yn dal yr ochenaid
 Pan yn symud yn drwm hyd waelodion yn enaid.
 Mae Ior yn dyrchafu ei orsedd yng nghanol
 Prudd ddrylliau y galon a'r fron edifeiriol,
 Ac YNDDO mae dyn yn ymsymud a byw,
 Mae ei feddau yn agor a'i galon yn gwaedu yn Nuw;
 Pwy bellach a ofnai? Daw 'r cyfan i'w le
 Tra bywyd ac angau yn troi ynddo Fe.
 A phwy na charasai ei rwymo i'r lladdfa,
 A chael bedd mor nefolaidd ger allor Moriah.

O! nid oes un trallod mor ddwfn, mor gudd,
 Nad yw i'r Anfeidrol mor amlwg a'r dydd.
 Y prudd trallodedig, tawelaf ei bryd,

Sy 'n wyllo i'w fynwes ei ddagrau i gyd,
 Yn rhwymo 'i drallodau i gyd wrth ei galon,
 Yn cario ei fflam i gyd yn ei ddwyfron,
 Heb oddef ochenaid i lwytho yr awel,
 A phawb yn ei dybied yn ddedwydd a thawel,—
 Y neb sydd alluog i lennu y gwg,
 I oddef y fflam a chaethiwo y mwg,
 I yfed ei ddagrau, a byw ar ddistawrwydd,
 Yn fedd iddo 'i hun, ac ar hiraeth yn arglwydd ;
 Y prudd trallodedig tawelaf ei fryd,
 Mae un yn trysori ei ddagrau i gyd
 Mewn cwmwl o gariad i agor ryw forau
 Yn gawod o ogoniant trwy 'r nefol ororau.
 O! ti y siomedig a'r gwelw dy wedd,
 Sy a'th garol brudd heno fel adsain o'r bedd,
 A chysgod marwolaeth o'th amgylch yn cau,
 Ac eto marwolaeth ei hun yn pellhau,
 Tuag atat dy hunan y cwyni o hyd
 Yn ddistaw, rhag clywed a gwawdio o'r byd,
 A'th galon wywedig yn unig yn awr
 Y rhaid it' gymuno, ac â'r beddau di-wawr
 Sydd amgylch yn agor fel noddfaû bob tu,
 Ac eto bob tro yn cau rhagot ti,
 Mae un yn cofnodi dy aml flinderoedd
 A dyddiau dy alar ar lyfrau y nefoedd.
 Mae 'r tonnau angylaidd trwy 'r nef yn distewi
 Am ennyd, i wrando a dal ar dy weddi.
 O Dad yr ymddifad a brawd y siomedig,
 Fe wlawia ei wenau i'r fynwes wywedig.
 Pan na fyddo cyfaill yn ymyl na brawd,
 Na llaw neb i estyn elusen i'r tlawd,
 Pan fyddo yr aelwyd yn oer fel y bedd,
 A newyn yn eistedd yn wyn ar y wedd,
 Mae Ior y fan honno i'r athrist tylawd
 Yn noddfa a chysgod, yn gyfaill a brawd.
 Am bob newydd artaith sy 'n rhwygo y galon
 Fe esyd â'i law newydd berl yn y goron ;
 A'r deg etifeddiaeth mewn heulfro o'r wynfa,
 Ei heang derfynau yn fwy fe 'u heanga.

O! hapus Luddedig, flinedig dy fron !
 Melusaf yr hafn po uchaf y don.
 Pan fo angladdl y dydd mewn distawrwydd yn symud
 I fedd y gorllewin, mae 'r ser yn dychwelyd ;
 Ar feddrod yr haul mae y lloer yn disgleirio,

A'i gosgordd o fro tragwyddoldeb yn gwawrio ;
 Rhaid cylchu ein bywyd â nen o gymylau
 Cyn delo y nefoedd a'i thegwch i'r golau ;
 Croesawaf y gaddug sy 'n llennu y byd
 I ddangos y nefoedd tu cefn i gyd ;
 Mae 'r nos yn llawn ser, mae hedd mewn trallodau,
 Mae dydd yn y cwmwl sydd amgylch y beddau.
 Cofleidiad fy medd gan ymlawenhau,
 Ar aden ddu angau mae 'r nef yn neshau.
 Rhaid llosgi 'r gre'digaeth i'w hadfer i Dduw,
 Rhaid gruddfan i ganu, rhaid marw i fyw ;
 A bedd yw ystafell oleuaf ein bywyd,
 A'r nesaf i mewn i balasau nefolfyd.
 O hapus Luddedig ! mae 'r nefoedd yn agos
 Pan na fo yn naear un swyn yn ymddangos ;
 Mo'r isel yw 'r ddôr sydd yn arwain i'r bywyd !
 Rhaid plygu hyd y bedd i gael grisiau nefolfyd.

Y DYLANWAD.

PAN y myn y daw,
 Fel yr enfys a'r gwlaw,
 Fel odlau yr eos ger y gwyrddaf llyn draw ;
 Nid mwy anibynnol y seraff y sydd
 Yn disgyn ar donnau diweddaf y dydd,
 Pan fyddo 'r gorllewin, rhwng huan a môr,
 Fel i dragwyddolfyd yn ffurfio y ddôr.

Pan y myn y daw,
 Fel y ser dros adfail y cwmwl draw
 Yn llwyr anibynnol ar amser islaw ;
 Pan y myn, heb orfodaeth na dyled i'r byd,
 Pan y myn, fel pethau y nefoedd i gyd.

Nid felly y môr
 Sydd iddo 'i reolau, ei ddeddfau, a'i ddôr ;
 Mae ei lanw a'i drai yn curo o hyd
 Fel dringlyn* mawr amser yng nghlyw yr holl fyd ;
 O ganrif i ganrif mynegir adegau
 Ac eiliad fanylaf ei holl ymweliadau.

Nid felly yr haul
 Sydd i amser yn sail,
 A'r oriau a'r eiliadau i'w gysgod yn gail,—

*Pendulum.

Mae yr Alp sydd yn rhew tragwyddol o hyd
 Ac yn wyn o fraw byth gan ei bellder o'r byd,
 Mae 'n gwybod y funud y cyfyd o fôr
 Tywyllwch y dwyrain fel delw yr Ior;
 A'r adar a wyddant gan ddeffro 'r un eiliad
 I chwyddo per udgorn y byd-adgyfodiad.

Dylanwad yr awen,
 Y pruddaidd a'r llawen,
 Mae 'n hŷn yn ei darddiad na 'r ser bore fu
 Yn canu uwch bydoedd dwyreol di-ri;
 Mae 'n ddyfnach o Dduw na 'r moroedd di-draul
 O ddyfroedd; mae 'n gwawrio lle machlud yr haul.

Fel yr enfys y daw,
 Fel arwydd cyfamod tragwyddol wnaed draw
 Rhwng Meddwl & Duwdod, pan araf ddychwelai
 Môr mawr tragwyddoldeb hyd nes ymddanghosai
 Mynyddoedd pell amser, ac Arch y Meddyliau
 Tragwyddol yn disgyn yn iach ar eu bannau.

"DEUWCH, GWELWCH Y FAN."

O FNADWY fan, O fedd, ystyriem di,
 Erch gladdfa ein gobeithion teg i gyd;
 Pan lenaist obaith Israel yn dy fru,
 Tywyllwch dudew a ordodd y byd,
 Ac nid edrychem tua 'r nef am wawr,
 Yr oedd ein gwawr a'n nefoedd ynnot ti,
 Ein Hathraw hoff, a'n Harchoffeiriad mawr,
 O dan dy gwmwl a'th gauadlen ddu.

A! ynnot mwy nid yw ofnadwy fedd;
 Yn amllder ei rym i fyny daeth,
 Yn goch ei ddillad, ac yn hardd ei wedd,
 Mor rhwydd, mor rhwysgfawr, o'th afaelion caeth.

O! deuwch, gwelwch, nid yw yma mwy,
 Nac yma neb ond angeu dan ei glwy;
 O, gwelwch yr anfeidrol ddwyfol wyrth,
 Darostwng nerth marwolaeth, dryllio 'i byrth,
 A thorri llwybyr drwy gysgodau 'r bedd
 I ddinas Duw, a thawel froydd hedd.

Y BRYNIAU.

GWELED y bryniau fel gwlad wybrennol
 Yn hongian dros anian, mae 'n dra synnol,
 Draw ymeangant fel ardrem hongiol,
 Lluniau o fedredd y llaw anfeidrol,
 Fel Anfeidroldeb ar grôg ardebol,
 Fawredd ar fawredd duwiau-ddyferol,
 A, braich Duw fel brychau dôl—a'u cyfyd
 Eu seilwaith hefyd o'u sel eithafol!

Chwal hwynt trwy 'r uchel entyrch
 A'u sail fel bro ddail a ddyrch.

Am ystlys y tymhestloedd—draw hongiant
 Dringion yr uchafoedd!

Cerddediad cawraidd ydoedd—hyd-ddynt gynt,
 Duwiau ar fawrhynt hyd awyr-foeodd.

Broniad gair Ior yw'r bryniau,—coronwaith
 Cywreiniaf ei riniau,
 Ei gre-nerth dan goronau
 Ar y nef yn ymdeyrnhau.

Crôg ael awyr eu creigleoedd—echrys
 Ar hyd ochrau 'r nefoedd,

Ei glywiol leithig-leoedd.

Fynediad ofnadwy—o Dduw-fawredd!
 Ei fôr amhlymadwy
 O allu maith, ar goll mwy
 A chodiad anghyrchadwy!

Wedi i Dduw doi y ddaear—â'r nefoedd,
 A rhoi Neifion anwar
 I orwedd o dan wedd wâr,
 Hudd nef fwyn iddo 'n faniar,

A bwrw y gwenyg brigwynion—gorwyllt
 Dan gaerau uchelion.
 A chrogi uwch yr eigion
 Chwydd y tir uwch awydd ton,—
 Rhoi gwagder y dyfnder dwys
 Mawr arffed i'r môr orffwys,
 A chrynhoi ei charn awyr
 A darostwng mwng ei myr,
 Archodd ei Hior chwydd arall,
 Chwydd byd ar ei fraich ddi-ball

Goruwch môr ar ymgyrch maith
 Awyrfawr, a'r tir hiraith,
 A'i fryniau y fawr ennyd
 A daflodd, bwriodd y byd,
 Fel uchelion dystion Duw
 Fil myrdd yn nghoff y mawr-Dduw.
 Hyd y nefoedd y bloeddiant,
 Moli Ner dan drum haul wnant.
 Plethiadau, clymau y clod
 Fachant ar y nef uchod.
 Mawl Naf hyd ymyl y nen
 A gludant â gloew aden,
 Gyda'r sér tyner eu tôn
 Ar doriad eu gwawr dirion,
 A'r goleufawr rwysgfawr haul
 A'r lloer a'r holl lu araul,—
 Arwyddion yr Ior oeddynt
 Ar fyd halog euog gynt,—
 A safent yn lwys hefyd
 Fel duwiau uwch beiau 'r byd.
 Llawer patriarch a archid
 O'r byd di-wawr, llawr y llid,
 Chwareule y chwerw helynt
 A du gae pechodau gynt
 Dywyllid, wywid gan wae
 A gyriad barn a gorwae,
 Fro lom o dan farwol len
 Byd fu fel wyneb Eden;
 Y blaned a gwbl lennodd
 Ior a'i farn dan arwaf fodd,
 A barn fel arwydd arni,
 Fel arwydd ei hafwydd hi,
 A Dig yn aredig ei rhod
 Hyd ddirfawr gladdle diddarfod,—
 Galwai Naf i gol nefoedd—ei gu rai,
 A greddf i'r uchafoedd
 Y serch yn eu mynweoedd—droai 'n fwyn
 Eu tremion addwyn tua'r mynyddoedd.
 A chodent, brysient o'u bro—is tawel
 A newydd awel gan weddio,
 Hyd y mynydd dymuno
 Diddarfod gyfarfod fo.
 Ei glywed, a gweled gwedd
 Ragoraf ei drugaredd,
 Moli i'w lys, a theimlo 'i law

Fel ernes nefol arnaw,
 Rhodio trwy ardd ei harddwch,
 Caru, ymddilladu â llwch,
 Ymostwng yn ddim, eistedd
 Dan aden addien ei hedd,
 A dwyn araf ledaeniad
 Hyd yr oll, ei gysgod rhad !

O'r nennau teg arnynt hwy—disgynnodd
 Duwies gain fawladwy
 Addewid, ymylid mwy—â nefol
 Wawr y dwyfol rad-ofwy.

Abraham lwybrai yma,—gadawodd
 Frig diwerth Moria
 Yn wrid o ddydd gan gred dda
 A dwyfol rad Iehofa.

Ffydd gu lle gorfu gerfiodd—lythrennau
 'R gwaed ar y bannau, a'r graig dderbyniodd
 Yr angel tawel a'i tôdd—ei hoerwawr
 Ddisigl lawr fyth ddisgleiriodd.
 Tra difai gred, tra Dofydd
 Baw nefol anfarwol fydd.

A mynydd Duw mewn hedd dwys
 Môr-ddwfn daweled mawrddwys,
 Lle nad oedd onid llun Duw
 I'w gwrdd—cysgod y gwir-Dduw,
 Na gwyneb, gwawr, na gwenau
 Ond eiddo Ior yn dyddhau,
 Lle mae'r anial fal byd-fedd
 Yn yfed môr tangnefedd,
 Iawnbarth i'r ddawn awenber
 O'i dwys hudd, glywed y ser !
 Derbyniodd, dygodd dân Duw,
 Gordderch arwydd y gwir-Dduw,
 Redai gynt gan or-deghau
 Brig Horeb oer ei gaerau.

Cyn disgyn at ddyn Ior ddaeth,—yn ysgafn
 Ar asgell achubiaeth
 Cyffyrddai, dyferai faeth, hyd fannau
 'R bryniau, rydiau o fôr y warediaeth.

Am adeg ymsymudai—uwch y byd
 Nefolwych barth trigai,
 A'i ras uwchben arosai,
 A'r nef yn haddef a wnai.
 Ond yn is yn is nesodd,

Duw, o ras, atom ail drodd,
 A lleithig cadwedigaeth
 Ar fannau 'r mynyddau wnaeth.
 Atebai o frig Tabor,
 Ac o leithig unig Hor.
 Hawddgarai 'r creigydd geirwon
 A'i aden lad, a'i wên lon.
 Gweddi proffwydi a'u ffydd
 Fugeilynt efo 'u gilydd
 Addewid hedd i euog
 Acw ar hyd y bryniau crog.

Unigrwydd Sinai a'i hagrwech—dorrwyd
 Gan diriad ei heddwch
 A chysgodion ei radlonwech,—borau
 Loer ei feddyliau o ryfedd elwech
 A wawriai dros drum oeraidd
 Sinai, a ireiddiai 'i wraidd.
 Meddyliau am hedd i elyn,—meddwl
 Am haeddu dros waelddyn,
 Troi Duw o fewn natur dyn
 Mwy ar waelddull marwolddyn,
 A'i ddarwain trwy holl ddorau
 Gwae y byd, trwy euog bau
 Trueni, taro unwaith
 Fôr, môr ei deilyngdod maith.

Ban Horeb â'i wên eurai,—a'i drempiad
 A daniodd drum Sinai,
 A'r anial a ymfryniai—i'w weled
 I'w ogoned lys tra disgynnai,
 Ei lachar lys o luced
 Hyd y rhiw lom gaed ar led,
 A'i gaerau teg o wawr tân
 Dorrwyd o gorff y daran.

Muriwyd y bryn â mawredd,—a throwyd
 Uthr riw ei unigedd
 Garw ael, yn fangre o hedd—diweddfan
 I olaf daran bytholfyd orwedd,
 Fyth orwedd mewn hedd, a ni
 Llon nawdd, tu allan iddi,
 Tu allan i'r tywyllwech
 A chylchoedd y trinoedd trwech.
 Llwech yr anialwech niwliai—bryd yr wybr,
 Rhodd yr haul dywyllai,
 Fel tir-fôr gan rollo 'r ai,—anian lon
 Yn guddleigion gaddugai.

I'w nen goronog anian a grynai,
 O thronau 'r awyr ei tharan ruai,
 A holltau Horeb â'i meltt a eurai ;
 A gorwel o luced hardd ymledai
 Am yr holl anial, fel gwal a'i gwyliai,
 Gwarcheidwyr Eden goruwch a'i rhodiai,
 Cerublu nefol osgorddol gerddai
 Y godre synnol, a'u llygaid ar Sinai.
 Heddyw o'r uchafoedd cledd Ior chwyffiai
 Ac uchder awyr fel coch waed droai
 Dan ei aweliad, a Ion a waliai
 Y byd âg adgoffion bai, ond mur nes
 I'w rasol fynwes dyner sylfaenai,
 A rhod trugaredd godai—dros y bryn
 A gwawl sydyn dros y mynydd glwys hedai.

Ar Seion y troes hewyd
 Afon ei galon i gyd,
 Ac euraidd wrid ei gariad
 Hunai fyth ar y fron fad.
 Baner ei hedd bu 'n hir iddi,—hir bu
 Ei ddisglaer borth arni,
 Dan ei hedd gysgodion hi—angylion,
 Gwiw luocedd hylon, yn gwyl addoli ;
 Fel trum nef olau, tramwy
 Ei bannau teg buont hwy,
 A lledu eu holl aden
 Ar y nos i euro 'i nen.

Duw a etholodd ei hodiaeth aelïau,
 O fodd ei fynwes i'w hafaidd fannau
 Tyner symudodd tan ras-amodau,
 Tan wawr y cyfamod a'i gysgodau
 Fu yr hir hongian allan yn nullïau
 Golenni niwl am galon o heulïau,
 Yn hir hongian fel bore gyfryngau
 Yr iachawdwriaeth, o'r goruchderau ;
 A llifon engyrth pell afon angau
 Yn araf danynt, a'i llethr hyf o donnau
 Ar fad dreiad o'r olaf fyd-riwïau :
 Lle teimlai ffydd awyr rydd, Ior-reiddïau
 Ymylon awelon uwch eu hwyliïau,
 Lle tefïd ei thïd o hiraethïadau
 Gan law rasol i ganol aur-oesau ;
 Tra 'r hedol lucedol lewychiadau

Hyd y môr hwnt, fel agoriad amrantau
 Ion oddiar ei galon-eigionau,
 Gwrid ei freuddwyd uwch ei gariad-fawreddau,
 Breuddwyd ffurfiwyd mewn adail o ffurfiau,
 Rhodd ei gariad-ruddiau—i Seion fad,
 Eurog dwyniad trwy gawod o wenau.

Haddef Jehofa 'i hun ei haddefid,
 Ei enw a'i ogoniant yno genid,
 Ac ofer ryfedd y fan gyfrifid
 Ei luman olau mwy oni welid
 Fel arwydd ei llwydd; o bell llueddid
 Yn eonach o fyrdd pan ei henwid.
 Tueddau hon santeiddid—â sang Ion,
 Ar ei hymylon a'i hochrau molid.
 A'i goleuadau o'u lle pan gludid,
 A bore ddydd ffydd pan brudd ddiffoddid
 Ar hyd ei hymyl gan eiriau Duw emid,
 Yn wag a diwawr pan ei gadewid,
 Rhyw fore ymdaith Duw eilwaith welid
 Yn rhodio ei nen, â gwrid enynnid
 Y dwyfol rudd uwch adfail ei rhyddid,
 Oerni y gafell, carnau y gofid;
 A'i heddwch eilwaith fel môr ddychwelid,
 Lledai ei hagwedd yn ei holl degid,
 A'i chwaer glaer Moria degleuerid,
 Y deml gadarn hyd ei hymyl godid,
 A thyrau Jehofa eilwaith rifid
 Ar ei theg gaerau a'i phyrth agorid,
 A chan y dôn i'r goruchion daenid
 Ei rhes o gedyrn furiau ysgydwid,
 A'r llestri aur i'w llysau ter yrrid,
 Siloa lwys oleuid, â'i hangel
 A'i chwyfion tawel drachefn ei toid.

Goleuwyd brig Olewydd—â gweddi
 Tragwyddol eiriolydd
 A agorai bell gaerydd
 Heulaidd ddôr tragwyddol ddydd.

Eneiniau 'i bannau unig—o'i deg rudd
 A dagrau codedig.
 O'r dwfn yn ei natur y daw.
 Rhinwedd yn ddyfnfor o honaw;
 Ar y traeth yn ei natur trig—rhyw foroedd
 O oroludoedd anfeidroledig.

Y B E I B L .

FENDIGAID air y digelwyddog Ior!
 Ymagor wyt o'm blaen fel gwnai y môr
 O flaen Columbus gynt, diwaelod yw
 Dy ddyfnder di, sef dyfnder meddwl Duw.

Cyrhaeddi'n ol, o ran dy gynnwys pur,
 I gyfnod pan nad oedd rhwng môr a thir
 Na ffin, na deddf yn bod. Cyrhaeddi 'mlaen
 Trwy oesau 'r byd a ddaw, ar fythol daen.
 A charreg felltir olaf amser sy
 Anfeidrol bellder o'r tu ol i ti.

Lle nad oes dechreu, ble dechreuaf fi,
 Lle nad oes diwedd, ble dibenna 'nghân;
 A gaf fi ddechreu tua Chalfari
 Dy ganol bwynt, lle 'r unir heb wahan
 Di-rif linellau dy ddadguddiad maith,
 Canolbwnc holl feddyllâu Duw a'i waith?
 Cyfundrefn faith o fydoedd heb un haul
 A fyddot, ryfedd Feibl, heb Galfari,
 Adeilad uwch na'r ser heb unrhyw sail—
Iawn yw dy rwymyn, *Iawn* dy hanfod di.
 Dy deddf, dy ebyrth, dy gysgodau gawn
 Yn cydgyfarfod mewn cydgordiad llawn
 A sylweddoliad perffaith, yn yr lawn.

Ar ol dadguddio in' y modd a'r pryd
 Y dygwyd pechod i'n hanffodus fyd
 Dadguddia, yn yr ymyl, ras y nef
 A'r bwriad i'w ddileu a'i faeddu ef.
 Cymysgai sain addewid gyntaf Ner
 Ag adlais trwst y codwm, O! mor bêr!
 Melusach oedd na chydgan ser y borau,—
 Cynghanedd prynedigaeth yw yr orau!
 Addawyd had y wraig, yr hwn ysigai
 Erchyllaf ben y sarff; pan ymddanghosai
 Danghosai Abel yn ei gyntaf aberth
 Mai sylwedd yr addewid fawr oedd pridwerth,
 Boddlonrwydd holddigonol dros gamweddau
 Trwy farw un oedd fwy na myrdd miliynau
 O ddyinion ac angyllion gyda'u gilydd.

Fe welai ffydd, o Eden, ben Calfaria
 Lle yr agorid dôr i decach gwynfa
 Na'r hon gauasai pechod; fe wireddwyd -
 Ar ddalen gynta 'r Beibl,—“ Yr Oen a laddwyd
 O ddechreu 'r byd.”

O Adda hyd at Moses
 Nid ysgrifennwyd yr addewid eres
 Yr hon a ffurfiai sylfaen pob dadguddiad,
 O'r hon nid yw'r holl Feibl ond dadblygiad
 I lawr hyd Patmos bell.

O enau Adda
 Mynegwyd yr addewid werthfawroca,
 I'r patriarch cyfnasaf, yntef eilwaith
 A'i rhoddai i'w olynnydd, oll yn berffaith
 Heb lygriad na chymysgedd—fel y daethai
 O enau Duw ei hun pan yn yr ardd ei traethai.
 Ffrwd fain oedd hi, ond dwyfol bob dyferyn,
 A rhinwedd ynddi i droi yn fôr diderfyn
 I nofio myrdd i'r nef.

Er cyd yr oesau
 O Adda hyd at Moses, 'r oedd blynyddau
 Y seintiol patriarchiaid oll mor feithion
 Fel mai ychydig oedd niferi tystion
 Addewid gras. Ychydig o ddolennau
 Wnai ffurfio cadwen y dystiolaeth forau.

Er, yn y man, ordoi y cynfyd annuw
 Am ei ddrygioni erch, â'r dyfroedd diluw,
 Gwnaeth ffydd i Noa gyda dwylaw diwyd
 Ddarparu arch i gadw ei haddewid,
 Pan holltai 'r ddaear yn rhaiadrau filoedd,
 Pan gydarllwysai holl gymylau 'r nefoedd,
 Pan godai 'r moroedd o'u gwelyau dyfnion
 Gan guddio bannau 'r ddaear yn eu heigion,
 Fe gasglai Noa 'i deulu amgylch iddo
 Bob bore, hanner dydd, a hwyr, i selio
 Eu ffydd yn yr addewid, ac i'w dysgu
 Mai achub hon i fyd oedd heb ei eni
 Gymhellodd ras y nef trwy dirion arfaeth
 I ddarpar iddynt hwy 'r fath waredigaeth.

'Rol glanio ar y newydd fyd,
 Bu Noa fyw ganrifau 'nghyd
 I selio y dystiolaeth fawr
 A ddaeth o Eden bell i lawr.

Ac os cymysgwyd iaith y byd
 I ieithoedd fyrdd, yn Babel draw,
 Fe roed i'r ieithoedd hyn i gyd
 Yr hen addewid ar bob llaw.
 Aeth dalen gynta 'r Beibl drud
 Fel hyn i bob rhyw barth o'r byd,—
 Rhyw ernes o'r gymdeithas fawr
 Sy'n taenu'r Beibl oll yn awr
 Dros gyrrau eitha daear lawr.

Cyffredinol fu'r addewid
 Trwy yr oesau meithion draw,
 "Hâd y wraig" yn unig enwid,—
 Ffydd ni wyddai ar ba law
 Yr edrychai hi am dano,
 At ba lwyth, neu at ba wlad,
 Dim ond disgwyl rywbyrd iddo
 Ddod a'r cyffredinol hâd.

Ail i afon mewn anialwch
 Heb redwely idd ei lli,
 Oll ar wasgar trwy'r diffaethwch,
 Fu y wiw addewid gu ;
 Ond yn amser da y nefoedd
 Casglwyd dyfroedd hon ynghyd,
 A'i rhedwely *unig* ydoedd
 Teulu Abram, a'r holl fyd.

Cymerth iddi ffurf a chartref
 Gydag Abram, wrth ei bodd,
 Pabell Abram fu ei haddef,
 A'i luesty ef a'i todd ;
 Trwy ei rhinwedd ganwyd iddo
 Fab o uwch-ddaearol hâd,
 Bellach cafodd ei neillduo
 I un llwyth ac i un wlad.

Gwelodd Abram, gwelodd Isaac
 O Foriah, Galfari ;
 Yn yr hwrdd oedd yn y drysni
 Gwelodd Aberth gwell i ni.
 Ni fu sel erioed mor danbaid,
 Ni fu ffydd erioed mor lawn,
 A gwobrwywyd hi â chysgod
 O anfeidrol berffaith lawn.

Mae awr y nefoedd wedi taro,
 Ymdoddi mwy mae calon Pharo
 O dan ergydion barnau 'r Duwdod,
 A rhydd i Gynfab Ior ollyngdod.
 O! dacw 'r santaidd bur arweinydd,
 Deddfroddwr mawr y genedl newydd
 A lunir trwy ei fawr genhadaeth
 I Dduw yn santaidd offeiradaeth,
 I wyllo 'i ddwyfol lyfr, nes delo
 Cyflawnder y cenhedloedd at y Siloh.
 Mae'r tir a sanga Moses santeiddiedig
 Oll yn fy ngolwg i yn gysegredig.
 Pa fodd y gallaf edrych yn ei wedd,
 Pa fodd y gallaf wrando ar ei lais,
 Y cyntaf wr erioed etholodd Duw
 I ysgrifennu ei feddyliau 'i hun
 Ac agor rhol y llyfr penna erioed?
 Mae myfyrdodau deugain mlynedd maith
 Unigedd Midian dawel, wedi rhoi
 Rhyw ddwyfol argraff ar ei santaidd wedd.
 Rhy santaidd yw i siarad fawr ei hun,
 Rhag suddo o'i wrandawyr ger ei fron
 I beidio codi mwy; angenrhaid yw
 I Aaron siarad drosto, idd yr hwn
 Y mae efe yn Dduw. Rhy santaidd yw
 Ei gorff i neb ei gladdu ond yr Ior
 A'i engyl distaw, rhag i synnawl fyd
 Adeilio teml ar ei edmyg fedd
 A dwyfoleiddio 'i lwch. Pa ryfedd fod
 Gwialen yn y fath gysegrol law
 Yn parthu 'r môr yn ddau, yn hollti 'r graig
 Gan dynnu afon allan lle nid oes
 Ffynhonnell ond sy wyrthiol, ac yn gwneyd
 O Mara chwerw win y gallai engyl
 Eidduno marwol syched er ei fwyn—
 Y llaw fu wedi hyn, dan ryfedd swyn
 A nerthol ddylanwadau Ysbryd Duw,
 Yn dal y bluen ysgrifennai i lawr
 Y modd y galwyd o ddiddymdra llwm
 Gyfoethog fydoedd i addurno fry
 Y pell dragwyddol ofod, ac a roes
 Yn eglur inni greadigaeth dyn,
 Gan baentio nos ei gwmp, a bore wawr
 Ei ryfedd brynedigaeth. Dyma 'r gwâr
 A ddringodd Sinai i gyfarfod Duw,

A derbyn o'i ddeheulaw gref y ddeddf
 Sy'n gwneyd y Beibl fyth yn safon barn
 Y byd a'r bydoedd oll.

Ond er mor bur
 Y gyfraith lân a dderbyniasai ef,
 Er gwae y byd toredig gyfraith oedd ;
 Eithr yn y cwmwl tew, y mell, a'r mwg,
 Trugaredd hefyd gaed, a chanddi hi
 Derbyniodd Moesen y gyfundrefn rad
 O rag-gysgodau a gyfeiriai 'r ffordd
 At ddwyfol un nad oedd y gyfraith fawr
 Ond athraw ato ef, i gyfiawnhau
 Pob un a gredai yn rhinweddau 'i waed.
 Danghoswyd iddo 'r drugureddfa rad,
 A'r gyfraith dan ei chysgod wrth ei bodd
 Yn ddyhuddedig fyth gan ddwyfol waed.
 Ac mor ryfeddol oedd y drefn rad
 I achub euog ddyn, mor berffaith lwyr,
 Mor ogoneddus i gyfiawnder Ior
 A'i holl briodoleddau, fel y caed
 Cerubiaid gwynfa yn cydsyllu i lawr
 Ar synnawl santaidd ogwydd, arni hi
 Fel rhai na feddai nef y nef ei lun
 Cyffelyb swyn i brynedigaeth dyn.
 Danghoswyd iddo y "Diangol fwch,"
 Ac Aaron bur a'i ddwyllaw ar ei ben
 Yn llwyr gyffesu camwedd Israel oll,
 Ac yna yn ei ddanfôn ffwrdd yn llaw
 Gŵr cymwys i'r anialwch—yr anialwch
 Na wŷr nac ofnog ddyn, na satan chwaitl,
 Pa le y mae. Fe welai 'r cymwys wr
 Yn mynd a'r bwch diangol yn ei law
 A'i feiau ef ei hunan ar ei ben,
 Sef camwedd Meribah yn bennaf oll
 Fe 'i gwelai 'n mynd, a'r perthi o'r tu ol
 Yn gwasgu at eu gilydd, fel nad oedd
 Un llwybyr i ddychwelyd ; gwelai ef
 Yn croesi yr afonydd dyfna erioed
 A'r pontydd ar ei ol yn syrthio i lawr
 Heb fodd dychwelyd mwyach. Moesen fawr,
 Rhoe'r rhag-gysgodau hyn, a miloedd mwy,
 Oll yn ei bum-rol pur, ac wedi cau
 Ei ragymadrodd i'r efengyl bur
 Fe ddringodd glogwyn Pisgah i fwynhau
 Golygfa ddwyfol Canan, yna rhoes

Ei ysbryd pur i Dduw, a'i farwol gorff
I ddwyfol angladd nad oedd ynddi hi
Alarwr dan y nef.

Fel mae'r fendigaid awr yn ymneschau,
Mae rhedle yr addewid yn culhau;
O fyrddiwn epil Abraham sy'n awr
O rif y gwllith a wylir gan y wawr
Ar rosweyau Saron, dewis hi
Dan lonydd gysgod coed Ephrata gu
Dŷ Jesse'r Bethlehemiad, ac o ri
Ei feibion ef y proffwyd mawr ei fri
Eneinia Dafydd wridgoch—hwn fydd tad
Yr addawedig fendigedig hâd.
O, ddedwydd deulu! O, freintiedig lyw,
O'th lwynau di y daw y dyn fydd Dduw;
Ti genaist lawer salm broffwydol, bêr,
Am dano; cyfran fawr o Feibl Ner
Addurnaist a'i ogoniant, ac fe fydd
Dy en di mewn cof, tra pery memrwn ffydd;
Dy salmau, bêr ganiedydd Israel wiw,
Yw cyfrwng moliant holl addolwyr Duw
O dan y ddau gyfamod. Nid oes tant
Ar delyn pryndegaeth, ryfedd sant,
Na ddarfu'th gerubiaidd gyflym fys
Ei gyffwrdd yn ei dro. Ein Hedmund Prys
Wareuodd ar dy ol dy delyn wiw,
Dan ysbrydoliaeth o eil-raddol ryw,
I lonni eglwys Gomer. Tybiaf fi,
Y bydd y dedwydd waredigion fry
Yn canu bythoedd rai o'th salmau di.

Rhagwelaist y bradychwr erch ei bryd,
A'r dioddefaint oedd i roi i fydd
O feirwon, anfarwoldeb. Gwelaist draw
Ryw gysgod du, rhyw ddisglaer wawr gerllaw—
Sef cysgod angladd twysog mawr y nef,
A disglaer wawr ei adgyfodiad ef,
A chenaist salm o ddarluniadol rin
Y gallsai Ioan ei hanadlu 'i hun
Y cyntaf dro erioed, gerllaw y bedd
Oedd wag dragwyddol o dywysog hedd
Ar fore'r trydydd dydd. Dy lygad pur
Proffwydol welai'n oleu ac yn glir,
Ei gnawd mewn gobaith yn ymorffwys mwy
Ac enfys o ogonedd gylch ei glwy
Yn clauer ymdragwyddoli; ni chai'r bedd

Na'i lygredigaeth gyffwrdd dim â'i wedd.
 Canfyddaist lwybr bywyd *trwy* y bedd
 Yn arwain i dragwyddol lwydd a hedd,
 Dilynaist ef, yn dringo 'r *olaf* fryn,
 Y pellaf, *nesaf* at y cwmwl gwyn
 A ffurfiai gerbyd ei ddyrchafiad fry,
 A chenaist anthem ei esgyniad cu.
 O byrth, dyrchefwch oll eich pennau ynghyd,
 Ac ymagorwch, ddrysau 'r dwyfol fyd,
 A brenin y gogoniant drwoch ddaw
 A baner buddugoliaeth yn ei law.

T R E F E C A.

MOR gysegredig wyt, Drefeca hen,
 Dros lawer oes cartrefle llonydd llen,
 Mor neillduedig oddiwrth y byd,
 Fel gwynfa hardd tu faes i'w dwrf i gyd.
 O bell ymddengys dy amgylchoedd pur
 Trwy ddrych adgofion fel y santaidd dir. [o riw i riw
 Fe deimla'r teithiwr pan yn dod i'r lan yn araf ar ei hynt
 Fod awyr gysegredig am y fan, fod ysbryd oesoedd ereill
 Fod engyl y diwygiad mawr a fu [eto'n fyw;—
 Yn gorfhwys eto ar dy dyrn di;
 Fel hyn y teimlai y ffyddloniaid gynt
 Wrth ddod i awyr Seion ar eu hynt.

Ai dyma'r fam y clywyd Harris fawr,
 A'i rymus lef yn tynnu 'r nef i lawr?
 Mor fynych ynnot y canfyddwyd ef
 Fel angel yn ehedeg yn y nef,
 Gwahoddawl sain efengyl yn cryfhau,
 Taranau 'r gyfraith fwy fwy 'n ymbellhau
 Nes byddai 'r cyfan yn efengyl mwy
 A'r dyrfa 'n floedd o fawl am farwo! glwy.
 Mor fynych yr adseiniai 'r muriau hyn
 I'r gân o foliant am Galfaria fryn;
 Mor fynych yma yr anghofiai'r saint
 Gan nefol hedd eu llygredd a'u holl haint,
 Pan y taranai y diwygiwr mawr.
 Mor hybarch yw y cysgodfaeodd draw
 A blannwyd yno—â chysegrol law
 Y pen diwygiwr! Braidd na thybiem weithiau
 Fod amser, y difawr, a'r tymhorau

Yn gwneyd eu holl i'w harbed ar eu hynt,
 A'u gado fel yr oent mewn oesoedd gynt.
 Wrth orffwys danynt ar fachludiad haul.
 O dyghymygem ennyd fod eu dail
 Yn sibrwd enw y diwygiwr cun
 Ac enw Huntingdon o dan yr un.

Man neillduedig oddiwrth y byd,
 Fel gwynfa hardd tu faes i'w dwrf i gyd;
 Ni ohlywir yma ond y lleisiau pêr
 A roed i'r fro, i'r mynydd, ac i'r ser;
 Unigrwydd digon eang yma gawn
 I'r meddwl ynddo droi ac ymddadblygu 'n llawn.

Mor ddedwydd yw yr ieuainc uchelgeisiol
 Yng ngolau ter holl ser y nef glasurol.
 Y meddwl yma yn ddisgleiriach burol
 Trwy ddwfn o oesoedd yn pelydru sy,
 Nes sefyll yn fuddugol ar fryn dysgeidiaeth fry.
 Mor ddedwydd treuliant aml flwyddyn lawn
 I ychwanegu gorau dysg at ddawn;
 Cymhwyso 'u hunain mewn unigrwydd maith,
 O olwg dynion, i'r santeiddiaf waith,
 A threulio 'r borau mewn athrofa gudd
 I ddyfod at eu gwaith yn rymus ganol dydd.

R H I N W E D D .

AED ereill i geisio anrhydedd a chlod, i'r lan ar uchelion y byd,
 Gogoniant derchedig yn unig fo'n nod, a mawlfloedd y
 bobloedd ynghyd;
 Af finnau i waered yn wylaidd fy ngwedd i fro dawel rhinwedd
 i fyw,
 Ac yno cyfodaf fy mhabell mewn hedd dan gysgod cydwybod a
 Duw!
 Os na chaf ogoniant daearol, caf fwy—fy nghymeradwyaeth
 fy hun,
 Boddlondeb tufewnol, cydwybod ddi-glwy, bendithion melusach
 na gwin.
 Os na fydd ysplenydd afonydd o fawl yn llifo o'r ol, bydd fy llwybr
 Yn oleu gan burdeb, fel llinell o wawl 'r ol angel a groesodd yr
 wybr;
 A phery y llinell pan dderfydd y byd, pan ballo disgleirdeb fy
 ngwedd,
 Fel miloedd o ser yn tywynnu ynghyd yn danbaid goleua fy
 medd.

Hoff waith angylion, Rinwedd brid, yw dod ynghyd i'th noddi;
 Wyt yn rhy werthfawr, rinwedd lân, i dân y farn dy doddi;
 A *da* yw 'r gwirioneddol *fawr*, a'r *da* yr awr ddiweddaf
 Yn unig a goronir draw ar ddeheu law 'r Goruchaf.
 Y mae dy wobr ar ei thaith, os yw yn faith yn tario,—
 Ei mawredd a'i bytholdeb sy yn peri y gohirio.

Mae perarogledd Rhinwedd, diau, 'n hyfryd
 Wrth syllu ar ei delw yn afon bywyd.
 Tu draw i holl linellau ei gelynyon,
 Tu hwnt i bechod ac i angeu creulon,
 Mae llanw tragwyddoldeb yn llifeirio
 Oll gyda hi, heb awel groes i'w lluddio.
 Ond rhosyn plith y drain yw 'r mwya 'i geinder,
 A'r unwedd rhinwedd ar anialwch amser.
 Arddunol ydyw yn ei myg unigedd,
 A gwesgir allan ei *holl* berarogledd.

O! pwy mor gryf, mor gadarn a'r rhinweddol;
 Mae 'i wyneb, er mor hardd, o bres tragwyddol.
 Cyfiawnder ydyw gwregys cryf ei lwynau,
 Mae 'n graddol fagu nerth i gwrdd âg *angau*.
 Fel eiddew am y dderwen, Rhinwedd union
 A bleth am allu Duw ei breichiau gwynion.

Os isel yw ei bwthyn, wrth y ddôr
 Mae claer warchodlu o angylion Ior;
 Symudiad eu sidanaidd esgyll sydd
 Beroriaeth iddi wedi darfod dydd,
 Peroriaeth y buasai Handel fawr
 Yn tewi byth o'i chlywed ennyd awr.

Pan el i orffwys, oll yn ddedwydd flin,
 Y mae rhyfeddol ddyfnder yn ei hun,
 Fel dyfnder wybren o ddi-dyfnas las,
 Fel balmgwsg Efa cyn y codwm cas;
 Fe allai cerub ddewis bod yn ddyn
 Er cael mwynhau breuddwydion rhinwedd gun.

Os yw ei gwisg yn dlawd, hi gaiff ar frys
 Ei newid oll am laeswych ŵn y llys;
 Cyfoethog draill ei gynau gwynion fydd
 Yn cuddio y cymylau 'r olaf ddydd,
 A Duw a'i harddel ger casgledig fydd
 Fel aeres deg ei gyfoeth mawr i gyd.

Dedwyddyd pur yw marw iddo ef,
 A newid poen am dirion hoen y nef.
 Paham yr ofnai y dyfodol maith,
 Pan nad oes yn ei hir ddaearol daith
 Droadau gwyr i beri iddo loes,
 Wrth sylu 'n ol ar bererindod oes ?
 Mae marw cryf yn dilyn Rhinwedd fad
 Trwy fythol ddeddf, fel ffrwyth yn dilyn hâd.

Oes o gyfiawnder, oes o ddweyd y gwir,
 Ac oes heb athrod yn ei hystod hir,
 Heb dorri 'i lw, heb newid byth mo'i air,
 Heb farn usuriaeth yn melldigo 'i aur,
 Oes lawn o gymhwynasau i'r tylawd,
 Heb dderbyn enllib, heb niweidio 'i frawd—
 Dos, ddedwydd ddyn ! Cref yw dy galon di,
 Colofnau rhinwedd a'i hategant hi.
 Nid ofni, mwy, rhag unrhyw chwedl drwg,
 Byth ni'tn ysgogir er mor fawr y gwg.
 Dos, ddedwydd ddyn ! I ddyffryn angeu dos !
 Nac ofna ddim, os tywyll yw y nos,
 Y nos ddiweddaf yw am byth i ti,
 O ! mae un seren yn ei hentrych hi,
 Sef gwên dy Dduw ; chwaer-seren arall sydd
 O fewn i'th enaid, sef cydwybod rydd.

AI BREUDDWYD YW BODOLAETH?

AI breuddwyd yw bodolaeth ? breuddwyd, dyn,
 Ai rhyw dychymyg ar weledig lun
 Y byd, ai cysgod yw'n ehedeg ffwrdd
 Ar aden tyb a dychymygodl dwrdd ?
 Anhraethol frys tua'r bedd-ddiddymdra llwyr,
 Ai hynny yw ? Sisialaist, " Pwy a w'yr ?"
 Myfi a wn ! a thyred gyda mi,
 Frawd—tyred acw tua'r fynwent ddu ;
 A weli di y bedd sy'n gwgu draw,
 Yn gwgu arnaf tan gysgodion taw ?
 Mae yna sylwedd. Yna dan y pridd
 Mae cyfoeth fy modolaeth oll yng nghudd ;
 Oes, gyfaill, y mae yna fwy na thyb.

Rwy'n cofio'r awr, yr awr y dygwyd hi
 O'm mynwes. A ! fe deimlai angeu du
 Fod yno sylwedd, trysor gwerth ei gael

I gyfoethogi'r nef â'i riniau hael.
 Ai cysgod oedd y DDELW honno o burdeb
 Ymglymai wrthyf a'r fath nefol undeb?
 O, dwed ai cysgod yr angyles gu
 Ymlynai wrthyf yn yr ymdrech ddu,
 Gan erfyn yn ei hiaith â'i threm, "O! eymorth fi?"
 A weli di yr archoll dan fy mron—
 Yr archoll dorrwyd yn yr ymdrech hon?
 Ai cysgod yw fy mhoen? A! gwyn fy myd
 Ped hynny tai—yn gysgod gau i gyd,
 Rwy'n teimlo'r clwyf, er nad oes ar fy ngrudd
 I gynrychioli'r teimlad ddeigrin prudd;
 Yma! o fewn! y mae fy nagrau'n llifo
 Yma—o fewn—mae'm calon yn eu wyllo;
 O fewn y gwelir dagrau yn eu purdeb,
 Pan maent yn fil rhy drwm i nofio ar y wyneb.
 Nid cysgod, LLAWDDEN, a allasai dynnu
 Y llanw o ddagrau welwyd y pryd hynny;
 'Roedd mwy na chysgod yn yr angladd honno—
 Oedd! mwy na breuddwyd, mwy na bywyd yno;
 Bu swyn bodolaeth y pryd hwnnw farw—
 A! dydd o gladdu sylwedd ydoedd hwnnw.

Y DDERWEN.

TI welaist lawer oes
 Cyn hon, O dderwen eon!
 A llawer canrif bell a roes
 I ti ryw heirdd fodrwyon;
 A'u cadw'n ffyddlon byth wnei di
 O gariad at yr oesau fu.

A oedd yr oesau fu
 Yn well na hon?
 Rwy'n tybied wrth dy olwg di
 Fod hiraeth yn dy fron
 Am fore ddydd canrifoedd gwell,
 Canrifoedd dy ieuencid pell.

A oedd melusach cân
 Yn nofio ar y gwynt
 Fu'n chwyfio'th ddeilen ieuanc lân
 Ryw ganrif fore gynt?
 Oedd! oedd! a minnau gyda thi
 Sy 'n wylo am y pethau fu.

YMADEWIAD Y PARCH. D. EDWARDS (*Pennal*),

O'R COED DUON I PILTON GREEN, GWYR,

Hydref 14, 1870.

HIRAETH sy yn mhyrth Seion—oer alar
Wrth ffarwelio weithion
A gwas a weithiai yn gyson
A sel mawr yn y Salem hon.

'E rodd drwy 'i ymarweddiad—a'i goethion
Bregethau yn wastad,
Oleuni a dylanwad
I goethi a gloewi 'n gwlad.

Tawel yn y Coed Duon—fu 'i rodiad,
A'i fryd ar yr union;
Cofir ef fel gŵr cyfion,
Duwiol, hyd yr ardal hon.

I dy wasanaeth, Edwards union—dos
Dan dy ddisglaer goron;
A gefaist, frawd, mor gyfion—
Ni all neb weld gwall yn hon.

Ni a gawn mewn gogoniant—eto gwrdd
Hwnt i gur a siomiant;
A byw fythoedd heb fethiant— a chwarau
A thelynau o fythol loniant.

Rhyw ail fael anfarwol fydd—ymuno
Mewn perffaith lawenydd;
Hefo y saint adref sydd
Ger bron eu hawddgar Brynydd.

I G Y F E I L L E S

(SONAWD).

GYFEILLES deg, a glywi di yr awel
Gerllaw yn canu yn yr wybren dawel?
Mor fwyn ei thôn! mae hi yn cydymdeimlo;
A weli dy y gwllith? mae 'r nef yn wylo—
A! yr wyt tithau! minnau wylaf hefyd—
Mae dagrau 'n felus; y mae wylo 'n hyfryd.
Uwchlaw EI BEDD mil haws i'r llygad wylo
Nag edrych—edrych ar y blodau 'n gwywo;

Camsyniais—do! mae pawb yn wylo yma!
O, pwy, ar feddrod un mor deg, mor ieuanc—pwy na
wyla.

BEDD EVAN HARRIES.

PWY i Alpau y pwlpud—gwyd o'i ol
Gyda 'i awch a'i oglud?
Ow! mae wylo am olud
Y ddawn fawr sydd heddyw 'n fud.

ANORFFENNOL.

I ESU mawr! Rho ras i mi
I'th ddilyn, a'th addoli;
Mae 'n neshau, a'm heinioes sydd
I ben yn dirwyn beunydd,
Dwyn dy iau, rhodio 'n dy ol,
Hyd y rhiw, wrth dy reol;
Llawer rhiw sy 'mhell ar ol
Ar ffiniau y gorrffennol—
Iesu mawr! Bu'th ras i mi,
Res uwch dig res i'w croesi;
Rhiw neu ddwy dan glwy 'r gloes,
Sy'n awr i Seion eirioes,
Rho'th arweiniad mawladwy,
Arweinydd hoff! riw neu ddwy.

LLONGYFARCH.

A FONIAN hoff! Dymunaf lwydd i'th ferch, a'i phriod mwy;
Eu bywyd fyddo'n draeth i foroedd serch i lanw fyth fwy fwy.
Tydi a'i collaist—ond i gariad mwy y collaist hi;
Bydd ef yn fwy na thad—na thi yn fwy, Afonian gu!
Ti a'i collaist fel y cyll y nant ei hun o fewn yr afon gref;
O! collont hwythau, fel yr afon gu, eu hunain fyth yn nhawel
fôr y nef.

Mil uwch na 'r Andes bo amddiffyn Ior o gylch y ddau,
A dyfnach na dyfnderau 'r tawel fôr, fo 'u heddwch clau.
Os digwydd nos ordoi eu bywyd gwiw, boed lawn o ser;
Os cwrddant ar eu taith â dyrus riw, ei phen fo dinas Nêr!
Enillfawr golled ydyw. Tebyg yw
I gollu seren yn y boreu ddydd;
Neu dderi 'n colli 'u mës; neu flodyn gwiw
Yn colli 'i arogl yn yr awel flydd.

Wyf newydd ddirwyn fawrlais; nid oes llaw, Afonian gu,
 All ddirwyn pwysau 'n heinioes; tua 'r naw mae 'n hawrlais ni;
 Fe dery y ddeuddegfed awr cyn hir, i mi yng Nghymru wiw,
 I ti, Afonian, ar estronol dir, ond cawn yn Nuw
 Ein hunol fythol artref—ynddo cawn
 Ein gwlad, ein Heden lawn,
 Holl hoen y boreu mewn di-dranc brydnawn.

MAER ABERTAWE.

MAERONIAETH Abertawe fawr
 Sy enfys gylch ei enw 'n awr;
 Jerusalem fy nghofion i
 Hen Abertawe, ydwyt ti;
 Mae delw'th aber ar fy mron,
 Er crwydro 'n mhell mae swm dy don
 Yn dilyn fel rhyw gerub-gân
 Ddyferodd o ryw seren lân
 Ryw oes yn ol, ryw euraidd oes
 Cyn imi deimlo unrhyw loes,
 Cyn chwiban o gerbydres hy
 I foddi 'th bêr fôr-anthem di,—
 Gan mor gysgrol fyth i mron
 Yw swm dy Dawe, sain dy don,
 O! nid oes dinasyddol fri
 Cyffelyb i'th faeroniaeth di.
 Boed llwydd i'w harwr yn ei le
 Fel pennaf wr fy nghalon-dre;
 Dymunwn i i'w 'flwydd' barhau
 Cyhyd a blwydd ym mhlaned Iau.

Dôr ei breswylfa egyr ef
 I dderbyn gweinidogion nef
 Yr unwedd ag yr egyr hi
 I dderbyn haul y boreu cu;
 Fe w'yr fod derbyn cennad Ior
 Fel derbyn angel yn ei ddôr,
 Gadawant fendith ar eu hol
 Fel y gadawa'r gwllith i'r ddôl.
 O, letygarwch, rinwedd wiw,
 Sancteiddiaf o'r rhinweddau yw
 Er pan, un waith, derbyniodd Dduw,
 Er pan eisteddodd " yn y cnawd "
 Ger aelwyd fach Bethania dlawd.

Er esgyn i'w ogoniant fry,
 Yr Iesu gyda 'i weision sy,
 A gyda hwynt i bob rhyw dŷ,
 Fe gofia bob cymwynas gun
 Fe 'i dyd i lawr fel iddo 'i hun.

Rhy gul yw cydymdeimlad rhai
 I dderbyn neb i mewn i'w tai
 Ond pobl un enwad; G——sy
 A'i wyneb fel yr huan fry
 Yn gwasgar cysur, hedd, a hoen,
 Ar holl aelodau teulu 'r Oen.

Mae lletygarwch rhai mor gul
 Fel nad oes ond rhyw un o fil,
 Pregethwr mawr, boneddwr gwych,
 Yn cael mwynhau â arlwyad sych.
 Ceir eto rai dan enw 'r gair
 Addolant lo os bydd o aur.
 Dirinwedd hollol yw eu haidd,
 Ac hunanoldeb yw ei wraidd.
 Mae 'n harwr fel y cwmwl llawn
 Sy'n dod i'r lan o'r môr brydnawn,
 Mae 'n gwlawio dros y fro i gyd
 Ar gedrwydd Libanus, ynghyd
 A'r rhosyn gwyl yn Saron glyd.
 Ac unig derfyn ei haelderau
 Yw terfyn eitha'i gyfleusderau.
 Fe red y bywiol drydan, tra
 Y rhed y gwifr; felly 'r a
 Haelioni 'n brawd tra bo ar daen
 Gysylltiad idd ei gario 'mlaen.

Mae bendith fwya'r byd, a bendith fwya'r nef,
 Fel dwy angyles deg ynghyd, yn rhodio gydag ef,
 Sef bendith gweddwan a'i phlant amddifaid sy
 Yn llawenyachu yn eu rhan trwy 'i garedigrwydd eu;
 Y llwybr oedd mor arw lyfnhaodd ef i'w traed i gyd,
 A bendith un fu farw ddaw iddo o'r ail fyd.

Fe wŷr am lwybrau 'r awen gu, rhodfeydd angylion Ior,
 Rhydd aml wib-daith lonydd fry hyd lan y dwyfol fôr,
 Y môr o bur wirionedd maith
 Sy'n dechreu lle y derfydd ffaith,
 Y môr sy'n yfed iddo 'i hun

Holl ffrydiau gwybodaethau dyn,
 Y môr lle mae ynsoedd Duw
 A'r seintiau ar eu bannau 'n byw,
 A llongau o oleuni claer
 Yn hwylio ar ei hylif aur.

Mae ffawd yn 'gwneuthur' ambell un, nid felly gyda 'n brawd,
 Fe lwyddodd ef trwy waith di-fin ei hun i wneuthur ffawd.
 Ychydig iawn sy 'n cael y byd yn barod oll i'w derbyn,
 Eu meusydd wedi eu hau i gyd heb wynt na llanw i'w herbyn;
 Y plâs yn barod ar y fron, pob rhodfa deg o'i gwmpas
 Mor llyfn, ac mor brydferth bron ag enfys yn ei urddas
 O flaen y mwyrif mawr o'n hil a sernir gan yr "Uch Deng Mil;"

Gorweddâ bywyd yn ei hyd
 Fel tiroedd y gorllewin fyd,
 Y gorwyllt dir a'r goedwig dywell
 Ni ildiant ond i'r bâl a'r bwyell;
 Diwylliad yw yr unig allu
 A wna i anian ein diwallu,
 Efelly bywyd yn ei hyd
 Mae 'n rhaid gwrteithio 'r oriau i gyd,
 Rhaid prynu amser, erw wiw,
 Os mynnem gywain haf yn Nuw,
 Heb flino fyth na llwfrhau
 Mae 'r oll i'w wneyd, mae 'r oll i'w hau.

Wrth syllu 'n ol, o'i anrhydeddus safle,
 Ar flwyddi 'i oes, ni chenfydd unrhyw wagle,
 Pob blwyddyn bell a chyfrif da i'w roddi,
 Planhigion llafur ienctyd wedi tyfu
 Yn gedrwydd hyf am weddill oes i'w noddi.
 Y fath fwynhad yw syllu i orffennol
 Sydd wedi darpar erbyn pob dyfodol!
 Os cafodd Alpau beiddgar am ei luddio,
 Fe 'u cafodd oll yn unig idd eu dringo;
 Os codai croes-for yn ei erbyn wêithiau,
 Ei benderfyniad godai 'n uwch na 'r tonnau,
 Nis enwaf fi orchfygydd mil o gadau
 Fyth yn yr unrhyw gân a Maeddwr Amgylchiadau.
 Meistrolodd wyddor deg mordwyaeth bywyd,
 A throai 'i hwyl pan godai croeswynt enbyd,
 I'w yfed oll i mewn, ac er arafu
 Ai rhagddo radd nes i'r ystorm davelu.
 Am ennyd bach os methai fyned rhagddo
 Gan wylltfor amgylchiadau yn gwrthlifo,

Wrth angor gobaith nofiai 'i long heb wyro
 Mae hon yn awr yn Aber Tawe 'n nofio
 A myrdd o ysnodenau i'w haddurno,
 A minnau ar y lan, fel bardd y teulu
 Am yrfa lwyddol yn ymorfoleddu.

Pa le mae awen caredigrwydd cu ?
 O! doed ei hysbrydoliaeth arnaf fi!
 Pe gwnawn eiriadur-enw cu,
 Rhown garedigrwydd am dy enw di.
 Mae 'n brawd yn deall amcan mawr y nef
 Wrth roi mor hael—ei roi drachefn mae ef.
 O! nid yw Ior yn rhoi trysorau cun
 I neb i'w cloi i fyny iddo 'i hun;
 Mae 'n rhoi i ddyinion gyfoeth, fel y mae
 Yn rhoi ei wlaw i'r cwmwl, i ddyfrhau
 A gwneyd i'r blodau ganu; fel y rhydd
 Oleuni yn yr haul, i greu y dydd.
 Ein brawd sy ffynnon, heb na chlawr na chlo,
 A groesaw i bawb yfed yn eu tro
 Heb dalu dim—O! diolch dyn tylawd
 Yw 'r talu goreu erbyn boreu brawd.
 Yr Arglwydd sy'n benthycia, ac fe ddyd
 Ddigonol log, i fyw trwy fythol fyd.
 Gwae'r dyn sy'n cloi rhag angeu ei drysorau,
 Yr allwedd honno gloa'i enaid yntau
 Yn nhywyll garchar tragwyddoldeb pell
 A goleu byth ni ddaw i'w farnol gell.
 Yr hael, wrth wisgo 'r noeth yn Rhagfyr garw
 Sy'n sicrhau Mehefin deg i farw.

Caredig lyw i'w weithwyr yw, mae 'n feistr, eto 'n dad;
 A'u gwobr lân am lunio 'r gân sy rodd o fynwes rad.

Cydbletha ef awdurdod gref a thyner gariad byw,
 A'r unig wir ufudd-dod pur, hoff gynnyrch cariad yw.

Arddela'n hŷ 'r berthynas sy yn rhwymo pawb yn un,
 O! mae'r tylawd yn gystal brawd a'r ucha 'i lwydd a'i lin.

Y G E L Y N .

MAE 'r gelyn, clywch, yn dyfod
 Fel llanw mawr ei nerth,
 Rhowch, ddewrion, eich ysgwyddau

Ynghyd fel creigiau certh,
 I dorri nerth ei donnau
 I rolïo 'r llanw draw—
 Cydruthrwn i'w gyfarfod
 Fel llewod ar bob llaw
 I droi yn ol ei nerth.

Aed rhywun at ei longau
 I'w dodi oll ar dân
 Fel na ddiango gelyn byth
 O Gymru lonydd lân;
 O, chwythed gwyntoedd ffafriol
 Y wenfflam fawr a chref
 Nes byddo 'r tân yn berwi 'r môr
 A'r mwg yn toi y nef.

Dowch, ddewrion, dowch i'w yrru
 Yn ol i'r marwol draeth,
 Chwareued mellt ar bob rhyw gledd,
 Boed angau ar bob saeth;
 O, gyrrwn hwynt i'r tonnau,
 A rhown y dorf i gyd
 Rhwng gwres y llongau 'n llosgi
 A phoethach gwres ein llid.

 TALHAIARN.

Y MAEN hwn guddia mewn hedd—brofedig
 Brif awdwr o Wynedd;
 Ow! rifo bardd mor ryfedd,
 Addfwynaf wr, i ddwfn fedd.

Ei barodlawn bêr hyawdledd,— a'i fyth
 Gyfoethog arabedd,
 A'i gân, gwyd ei ogonedd
 A'i fawl byth uwch gafael bedd.

Talhaiarn eto oleua—ei wlad
 A'i lôn ardderchoca;
 Rhyw ail gof anfarwol ga
 Gu eilydd, tra bo Gwalia.

Y LLEN LEIDR.

Y LLEN LEIDR—un llawn o lol,
Ow! eiddilyn meddyliol;
Ymhonnwr heb ddim enaid,
Ei enw byth yn fuan baid.

Duach yw lladrad awen,
Mwy anfad yw lladrad llên,
Mwy eonfawr, mwy ynfyd,
Na'r lladradau gau i gyd.
Bathedig aur, beth ydyw?
Eiddil beth ger meddwl byw.
Meddylddrych nefolwych fedd
Fry, hawl i anfarwoledd.
Pery hwn pan gwympo 'r rhod
A'r llachar ser oll uchod.

Difai yw lladron defaid,
A'r hwn a ddygo o raid,
Wrth y dyn o ragrith dwl
A feiddio ddwyn drychfeddwl.

Un bach, ysgafnach nag us,
Lwm enaid! mae fel manus.
Digonol dafol i'r dyn—
Prawf garw—f'ai rhwyd prif-goryn.

Mae fel llwm gotwn heb gŵyr,
Eisiau enw heb synwyr.

Peth enbyd yw gorfryd gau
I ddynyn fo heb ddoniau;
Dwyn y gamp—dyna i gyd—
Ac ennil am rwysc ennyd.

Dyn eiddil heb adnoddau
Yw y dyn gwellt, adyn gau.

Erddyl hen farddas arddun,
Fel ei waith nefol ei hun;
Ni all hwn ddwyn pennill heb
Ryw anaf ar ei wyneb,
Rhyw fyfyr, rhyw ffigyr ffol,
Gwael, o radd bongleryddol.

A fynno fri ar gefn ei frawd
 Ddielir â thragwyddol-waw.
 Ca wialen cywilydd,
 A sarn llaid i feirniaid fydd.
 Ni roddes natur bur i'w ben
 Hanner ymenydd cylionen.

Hynny o fri fo yn fy rhan
 Fo yn fy enw fy hunan.
 Rhedaf ar fy nhraed fy hun
 Hyd balas urddas arddun,
 A gonest heulog wyneb
 Uwch dyled, niwed, i neb.
 Mil gwell fydd dwy linell lân
 Nag ofer gyfrol gyfan
 Lawn o ffug yspeil-len ffol,
 Hyll druanwaith lladronol.
 Gwell gen i, gwell gan awen
 Frath y neidr na'r enw *Lleidr Llén*.

Y CADEIRFARDD MARW.

URDDASAWL Gadeirfardd isod—huna
 O fewn cyfamod,
 Angylion sy yn ngwaelod
 Ei oer fedd—mae deffro i fod.

Ymwelydd! Dyma olaf—arweddfa
 'R addfwyn fardd tirionaf,
 Dwyrea wedi hir auaf
 I fro lon anfarwol haf.

DECHREU CANU.

GORFFWYSAIST lawer blwyddyn, f'awen gu,
 A'th gerub-ben oblygaist ar dy blu
 Gan bêr freuddwydio am y dyddiau fu.
 Bu fywiog dy ieuenctyd, llawn o waith,
 O! llawer tro y cymerasom daith
 Yng ngherbyd y dychymyg, heibio'r byd,
 Y lloer, a'r haul, a goleu'r ser i gyd.
 Nyni a daflem ar ein gwib-daith wiw
 Fwaog bontydd heirdd, o fyd i fyd,

A rhodiem drostynt gydag hyfdra mad
 I'r bydoedd sy o gwmpas tŷ ein tad;
 Ser mawrion godem, megys gemau glân,
 I'w llon linynu ar y gynnar gân.

Gorffwysaist wedi hyn, fy awen wiw,
 Wrth odreu tawel y dragwyddol riw
 Sy'n rhedeg at y Tad—y rhiw y sydd
 O'r nos yn cyrraedd i'r tragwyddol ddydd.
 Ni ddaeth ond ambell odl dros dy fin,
 Rhyw hanner effro a rhyw hanner hun,
 Heb unrhyw ymdrech y blynyddoedd hyn.
 Cod mwyach! y mae'r haul yn croesi'r bryn,
 Diwrnod amser ar ei hanner sydd,—
 Cod mwyach! Cyfod! mae yn ganol dydd.

Dwed, a enillaist rywbeth yn dy faith
 Orffwysfa? A oes ynnot ysbryd gwaith?
 A dyfodd dy adenydd yn dy hun?
 A ydynt hwy yn awr, fy awen gun,
 Yn gryfion i ehedeg tua gwlad
 Yr etholedig fendigedig had
 A chroesi môr o oesoedd?

Dywed im

A feddi di yn awr ddigonol rym
 I ddal diagleirdeb ei dyngedfen ef
 Yr angel-ddyn, cenadwr mawr y nef,
 Elias! un o arwyr mwyaf Ior,
 Y gŵr a dynai o drysorau'r môr
 I lanw cwmwl Iacob fel y cai
 Moriah bêr a Charmel eu dyfrhau.
 Cân idd y glwysaf arwr! awen, cân
 I'r gŵr a dynnai'r bythol dwyfol dân
 O nef y nef i lawr, ac yn y man
 A aeth ei hun mewn dwyfol dân i'r lan.

ELIAS Y THESBIAD.

BWNC uthr! Ba awen a'i cân?
 A oes dull esyd allan
 Y rhyfedd fuchedd oedd fel
 Rhawd engur rhyw brid angel?

Dod awen drylen am dro
 O goneddus gân iddo,
 Y gŵr wnai agor y nen,
 A lywiodd anian lawen,
 Deithiodd lygrol farwol fyd
 Ag urddas heb ei gwrddydd,
 Ac yn ei rwysg cyn hwyrhau
 Draw a sengodd dros angau.

Elias oedd haul o sant
 I'w genedl—ei ogoniant
 A lleufer ei gymeriad
 Oleuai fyrdd Israel fad.
 Gwelid ef fel golau Duw
 Mewn nos syn, mewn oes annuw.

Addas oedd idd ei oes hell,
 Oes duwiau gau, oes dywell,
 Oes Ahab a Iesebel,
 Ni fu oes yn fwy isel;
 Dibrisid Duw a'i breswyl,
 Dirfawr wae, a darfu 'r ŵyl;
 Darfu y gân, a'r dorf gynt
 A mawl i Salem elynt;
 Ac yn lle y canu llon,
 Addolid lloi eiddilion;
 Yn lle enw Duw, 'r lloi yn Dan
 A lwythid â mawl weithian.
 Deddf Horeb ydoedd farwair,
 Cloedig gauedig air.
 Llyfr y ddeddf, lleferydd Ion,
 Ai'n waeth gan lwydni weithion.

Baal oedd Dduw i'r bobl a ddaeth
 O rwym isaf gormesiaeth—
 O wlad yr Aifft, lu di-rif
 Urddolwch, trwy fôr-ddylif.

Y gwir Dduw a agorodd heol
 Dra mawr eang drwy y môr rhuol
 Rhag drygionus ddreigiau, drwy ei ganol
 Y Ior a'u dygodd yn waredigol
 I fyny o'r eigion dwfn rhwygol.
 Iehofa o'i nerth roes afon wyrthiol
 Bêr iawn i'w hyfed a bara nefol,
 Ei gysegr eirian yn eu canol,

Ei faner wen, a'i golofn arweiniol ;
 A ysgrifennodd ryw fodd rhyfeddol
 Bur hoff athrawiaeth y berffaith reol,
 Ei ddeddf lân yn y tân melltenol.
 Hwylt hwy er hyn aent ar ol
 Y ffeiddiwch anffyddol.
 A thros y wlad glodadwy
 Duwiau maen addolid mwy.

A Duw Horeb o'r daran
 Fry uwch byd wnaï 'u cyfarch ban—
 Y Duw wnaeth y byd, yn ol
 Dyfais ei gynllun dwyfol
 Ac a'i hongiodd fel cangen
 Las brydferth yn anterth nen.

Anfad ddirywiad ar ol
 Eu briedd glwys boreol!
 Dybryd oedd gweld had Abram,—a'r halog
 Ahab euog yn ffyrdd Ieroboam
 Ddysgodd Israel, genel gu,
 Heb achos, oll i bechu.

Ar weision Duw, ar Seion daeth
 Du egwyl erledigaeth;
 Torrai ffrwd o ddigter ffrom,
 Tros y tir torrai storom;
 Iezebel o'r teyrnlys ban
 Wnaï ollwng ei chwn allan
 Ar gywir broffwydi 'r ffydd,
 Defaid corlannau Dofydd—
 I'w herlid hwy o'r wlad oedd
 Yn hafal i fro'r nefoedd.

Nes gwenau a naws gwanwyn
 Pan drymaf gauaf a'i gwyn ;
 Hoff gan Ner yn nyfnder nos
 Idd ei engyl ymddangos.

Elias ddaeth o lys ei Dduw
 I gwrdd â gelyn y gwir-Dduw ;
 Urddas oedd ar wedd y sant
 Arwydd Ion a'i ardduniant;
 Fflamiai nefol dwyfol dân
 Yn ei der lygaid eirian,
 Wrth ei lef a'i nerthol wys,
 Taranlef, crynai 'r teyrnlys

Ior a lennodd ei foreuol hanes,
 Arferion ei dirion febyd eres,
 Cauodd o'r ddwyfol gyfrol y gofres
 O'i gyn-dylwyth fel gweig enwau diles,
 Mawreddog awgrym roddes—fod ei radd
 Yn loew uwchradd i bob dynol lechres.

Nid enwir achau dynol—yn nhynged
 Y dyn-angel nerthol,
 Un roddir cyn hir yn ol
 I fraich Naf ar feirch nefol.

Ion a'i dyg i fyny dan
 Ei enwog nawdd ei hunan.

Deuai ar unwaith gan groch daranu,
 A'r brenin fel deilen grin wnai grynu;
 Ofer ei fyddin erfawr i faeddu
 Y dychwelwr a aned i chwalu
 Ei holl anuwiol allu—ac o lwch
 Edifeirwch i gyflawn adferu
 Y deg llwyth, fel digoll lu
 I ogonol ail ganu
 I'r Ner wnaeth eu hadferu—trwy 'i gryfder
 Tan ei faner o'r tonnau i fyny.

Y gŵr unigol gan wyrthiol nerthoedd,
 Erfawr eneiniog, heriai frenhinoedd;
 Ucheled a'i dynged oedd—ei allu,
 A Duw i'w waredu'n bleidiwr ydoedd.

Ahab ydoedd abwydyn—ger ei fron,
 Mewn gwir fraw a dychryn
 Am ei fai safai yn syn
 Coronedig garn-adyn.

O gof aeth ei drysorfa gyfoethog,
 Ei ddaearol lwydd a'i swydd orseddog,
 Ei holl lysoedd a'i fyddinoedd enwog,
 Ei wron-aerwyr a'i goron euog;
 Oedd anuwiol ddyn euog—o flaen Duw
 A'i enaid annuw'n terfysgu'n donnog.

Gwynepryd synbryd y sant
 Wnai gynneu gan ogoniant.
 Gwelodd arwyddion golau
 Y farn sicr fawr yn neshau.

Ar heol fawr awyrol fyd—o bell
 Gorbell, fe glywsai gerbyd
 Y dwyfawl lid yn dyfod,
 A Ion dig i farn yn dod.
 Yn enw ei Naf dyrchafodd
 Ei fyg law, a'r nef a glodd.

Bron gu yr wybren gauwyd—a'r cwmwl
 Drwy y camwedd rwymwyd
 Ni fu laith y nef lwyd—adeg hirfaith
 O bur effaith geiriau'r mawr broffwyd.

Agorion gwlybion y gwlaw
 A roddodd ei Ior iddaw

Dihafal lid Iehofah—gynyddodd,
 A'r pla estynnodd drwy Palestina.
 Yn ei broydd sychai beunydd
 Yr afonydd araf yno.
 Gerddi, dolydd, oll am newydd
 Win-gafodydd yn gofidio.

A tharawai aruthr huan—deifiol
 Ar holl dyfiant Canan,
 Y wlad hoff is barnol dân
 Ai'n llesg oll, llosgai allan.

Y llysiau i gyd oedd yn llosgedig
 A bywyd yr hadau yn bydredig,
 A'r fro odidog fal anial unig
 Wywai gan anadl poethwynt gwenwynig.
 A'r gwyrddwawr bren o'r gwraidd i'r brig—wywodd;
 Duw a ergydiodd geinder y goedwig.

Ahab welai gylch ei balas—wywder
 Wawdiai rym ei deyrnas—
 A'i erddi er ei urddas
 Heb floen na gwlyb flewyn glas.

O wres anaele y rhosyn olaf
 Yn Saron orwech gauai'n syn-araf
 Dan y barnol losgol haf—darfu 'i wên
 A'i wrid addien, llwyr wywai'r diweddaf.

Anian glodd ei ffynhonnau—oddifewn
 I ddu fyd y creigiau;
 Llethodd sychder y bêr bau
 Aniddan, am flynyddau.

Daear gan y sychder a agenai,
 Y poethwynt tesog gorldiog ledai
 Ei adenydd, a'r goedwig a daniai
 A'i hysawl lewyrch y nos oleuai
 A'r afon olaf yn orfain elai,
 A'i dafn olaf i'r môr dwfn wylai.

Deuai yn drist yn ei dro
 Y gwanwyn prudd dan gwyno,
 Heb gynnyrch, heb ogonedd,
 Heb arwydd gwlaw na bwrdd gwledd;
 Ar ei ol agorai haf
 Newydd, ond heb gynhauaf!
 Ac hir rwymid y cryman
 Di-fudd uwch yr aelwyd fan.

Ond heb ei newid, Ahab anuwiol
 A barhai'n ei gamwedd boreuol,—
 A'i oferedd,—yn anedifeiriol;
 Yr Ion ni addefai, a'i farn ddwyfol
 A'i enfawr allu fu'n ofer hollol
 I'w ddwyn ef o'i ffyrdd yn ol,—mewn geulwydd
 Byddar ynfydrwydd, beiddiai'r Anfeidrol.

Rhag ei ffyrnig orddig gas
 Ddu lywydd, fford Elias.
 Ior oedd ei gyfarwyddwr,
 Ei ran, ei darian, a'i dŵr.
 Gyda'i Dduw gadawodd ef
 Yn ffyddiog ei hoff haddef;
 Deuodd i anial diwen—cysgodog
 Ger ydd enwog Iorddonen,
 Man addas i ymnoddi—
 Mewn heddwch mawr gerllaw'r lli,
 Eurog fraint, ar garreg frith
 Ei faine gar afon Cerith—
 Rhagorach yr oer garreg.
 A hedd Duw, na gorsedd deg.

O'r afon yno'r yfai,
 A rhyfedd ddigonedd gai.

Greddfau adar ysglyfgar ddifodwyd
 A'u haruthr drachwant gan wyrth Ior drechwyd,

Y cigfrain eu hunain a anfonwyd
 Ar eu hadenydd—newyn ordeiniwyd
 I weini, darbodi bwyd—yn ei flas,
 Gan Dduw Elias eu gwŷn ddilewyd.
 Bu rhyfedd cael boreufwyd,
 A phrydnawnol, faethol fwyd,
 Melus, gan ednod milain,—rhoi pob cêd
 O'u bodd—a myned heb ddim eu hunain.

RHOS IGOL, CAE'R FFYNNON.

CAE'R FFYNNON is eu orffennedd—welaf
 Fry ar ael siriolwedd;
 Gwypmp lys yw, gem, palas hedd,
 A'i furiau'n ddrych o fawredd.

Ardeb tlysiheb swynol,—Eden lon
 Dan lwyni rhamantol;
 Ceinion o dyfion dwyfol
 Filiynau ceir flaen ac ol.

Rhos-lwybrau grisiau grasol—uwch alaeth
 I uchelion nefol,
 Yw y gwych rodfaedd gwawl
 Geir i harddu'r gaer urddawl.

O, y drych o'i dŵr uchel—ymegyrr
 Haedd edmygiad angel,
 Huan draw drenga'n dawel,
 Llyn gwaed y gorllewin gwel.

Rhos Igol, a roes egwan—awen
 Hoen newydd dda gyfran,
 I mi ar fy hynt dyma'r fan,
 Dyma lonydd deml anian.

Yn ei ddydd awenydd ddaeth—heibio hon,
 Is baich o feirniadaeth;
 A chaid llonyddwch odiaeth
 O fore i nos, a'i fwrw wnaeth.

Yn ddiau mae'n hawdd i awen—ganu'n
 Gynnes i
 Ser-wawl yw ei siriol wên—Ior roddo
 Ras i lwyddo Rhos Igol addien.

DOD ADRE O'R ODFA.

A NODDYFN is Waun Adda!—ochr annwn,
 Ddychrynaw! lithrigfa;
 Ow sal dwll wedi Sul da,
 Ow'r adfyd wedi'r odfa!

Y WYDDFA.

FRYN y nef mor gartrefol—yr Wyddfa,
 Mor addfwyn! Mor ddwyfol;
 Geilw ni o'i gwawl yn ol
 I dŷ 'n Naf dan do nefol.

BARN BEIRDD PWLLHELI.

BERNAIS y beirdd heb wyrni,—a dios
 Nis daw unrhyw gyfri;
 Yn y farn nid ofnaf fi
 Alaeth am feirdd Pwllheli.

Y BEDDAU.

PA le y mae doethineb, ble
 Y mae ei thrigfan is y ne?
 Ar derfyn byd, ar ymyl bedd,
 Fan yma mae ei sobraf sedd.
 A! enaid tlawd yw hwnnw sydd
 Heb fedd o fewn holl goedwig ei adgofion prudd.

Rhoer i mi annedd unig draw
 Ar ael y bryn, a mynwent lawn gerllaw;
 I fydoedd ereill, fy allweddau
 A'm harweinyddion fydd y beddau.

Paham yr ofnir bedd? Ochr goleu bywyd yw,
 Lle mae y nef yn dechreu a dyn o ddifri'n byw,
 Yr enaid mewn maintioli teg yn cychwyn ar ei stad.
 Gan adael ysgol amser fyth a dychwel at ei dad.

Du erchyll ydyw'r cerbyd, a'r ffordd, ystormus yw,
 Ond pwy achwynai ar y ffordd sydd yn terfynu yn Nuw?

Ar ol croeslwybrau filoedd y mae y culfedd du
 Yn llwyr grynhoi holl lwybrau dyn i mewn i'r Duwdod fry.

MIS TACHWEDD.

MIS tuchan yw mis Tachwedd—mis niwloedd,
 Mis anaele trymwedd;
 Mis creulon, drosto'n dristedd,
 Mis arch byd, mis erch y bedd.

ADEG ETHOLIAD.

DWYS yw'r olwg ar Disraeli—a'i griw,
 Tra'r storm gref yn codi—
 Rhy hen ei long i'r werin li,
 Rhyfeddol, mae ar foddi.

Aiff i'r dwfn, a phwy ar dir—a wyla
 Eiliad, pan ei collir?
 Y Fabilon hon cyn hir
 Yn ngheufedd gwarth anghofir.

Gwaharddwyd i'r deg Iwerddon—ei rhan,
 Gan rwyg ei gelynyon;
 Ond gwawr rhyddhad gyrraedd hon—caiff forau
 Ac oesau o lwydd cyson.

Yn awr anfonwn wron,—un a fyn
 Fod dan faner Gladstone,
 Yr uchaf o'r uchafion
 Gawn ar faes y ganrif hon.

O du *Bright a Right* ar ol—hir huno
 Taranwn yn nerthol,
 A rhoddwn ein gŵr haeddol
 Heb un pall ar ben y pol.

YR YSGOL SUL.

PAN wasgaro'r wawr y tywyllwch mawr,
 Pan fo'r haul a'i olau'n llawn,
 Ac yn tynnu draw tua llinell naw
 Awn yn llon tua'r ysgol—awn.
 Yno'r ydym oll yn un
 A'n calonnau yn gytun,
 Ac yn yfed nefol rin
 Yn yr Ysgol Sul;
 Af yn llon tua'r Ysgol Sul.

Yn y gauaf prudd pan y torro'r dydd,
 Neu ar hyfryd forau haf,
 Pan fo blodau fyrdd yn ymylu'r ffyrdd
 Tua'r Ysgol Sul yr af.
 Pan y delo dydd y nef,
 Dydd yr Arglwydd ydyw ef.
 Hyfryd gennyf ado tref
 Am yr Ysgol Sul.

Yn y dosbarth gwiw, O, mor hyfryd yw
 Yn y weddi fore hon,
 Ac yn ddiwahan y dyrchafwn gân
 Ac ymduwallt wnawn mewn addoliad llawn,
 Ein calonnau oll yn llon,
 Yn y Beibl sanctaidd cawn
 Ddysg a chyfarwyddyd llawn
 Fodd i ieuanc fyw yn iawn;
 Af i'r Ysgol Sul.

EVAN HARRIES.

HIRAETH sy yn mhyrth Seion—o gludo
 Gwyliedydd mor ffyddlon
 Ar y mur, i fro'r meirwon,
 Mae yn saeth yn mynwes hon.

Seren ar wybren yr oes,—oedd eirian
 Ar fedd-orwel einioes;
 Heb ffael i'w disgleirdeb ffoes
 I niwl gorllewin eiloes.

Ei fyw dân o nef dynnai;—ei frawddeg
 Gwyfr oedd a dywysai
 Nef-drydan, y dorf daniai,
 Yn gorff mad o deimlad ai.

Caed ystyr cu ei destyn—trwy ei ystun,
 Trwy ei osteg arddun;
 Ei law a'i ddifrifol lun
 O'i ddirlith ydoedd ddarlun.

SION WYN O EIFION.

O! Seion-dannau awen Sion dyner,
 Oedd nefol ogonedd hon fel Gwener
 Yn serenu, a'r nos ar ei hanner;

Hi roes bereidd-dod ar oes o brudd-der,
O'i nychdod mae fry'n uchder—engyl Ion,
Sion Wyn o Eifion sy un o'u nifer.

ANFARWOL DDYN.

ANFARWOL ddyn! pwy fedr dy orchfygu,
Ymgryma'r môr o'th flaen, a gwnei i'r fellten blygu;
Nesha yr huan gyda'i deulu o fydoedd
I gyd i'th wydd, o uchelfannau'r nefoedd.
Daw'r lloer i lawr yn wylaidd o'i phalasaau,
A dyd ei throed ar ymyl y cymylau,
A dengys it heb unrhyw gel ei hagwedd brudd a'i brychau.
Yr wyt yn lledu'th dafien ar yr huan,
Yn enwi y planedau o gylch, yn sangu ochrau anian,
Gan blymio'r eigion ser. Ffwrdd tua'r nefoedd
Fel angel ei, gan agor dorau'r bydoedd.
Pan godi dy wialen tua'r nifwl,
Disgynna'r mellt fel rhaiadr dân o'r cwmwl
Yn ufudd wrth dy draed. Ac ar dy awgrym
Amgylchant fôr a thir fel engyl cyflym
Fai'n llamu o'r cymylau i drosglwyddo
Dy feddwl hyd derfynau'r byd yn daallyd a diflino.
Ti wnai y tARTH yn nerthol fel daeargryn,
Yr wyt yn tynnu'r tân o'r nef, yn codi'r firwd o'r dyffryn
Yn gynt na'r awel. Erfawr yw dy allu,
Anfarwol ddyn! Pwy fedr dy orchfygu?

HIR einioes lawn o rinwedd—i Miss Hughes
Am ei swyn a'i mwynedd;
Duw fo'n borth hyd fin ei bedd—
A nef Duw fo ei diwedd.

CYMHELLWYD fi i ddethol darnau byrion,
Ac felly aeth farwrgerdd yn ysgyrion.
Ac os oes beiau cofied yr holl graffwyr
Fod peth o'r bai yn perthyn i'r argraffwyr.



ISLWYN, ODDIAR GARREG EI FEDD.

CLOD.

MOR felus i mi yw cyweirio fy nhelyn
 Fu'n crogi ar helyg glyn angau mor hir,
 I chwareu clod arwr nas adwaen un gelyn,
 A'i enw fel seren yn uchel a phur.
 Mae 'm tannau'n dyferu eu hodlau pereiddiaf
 I D—, ni raid im' eu cyffwrdd ymron,
 Ni raid ond anadlu, daw'r odlau melusaf
 I'w enw yn ol holl eneiniaid Llwyn On.

Beth glywaf? Pereiddiaf blethiadau y delyn,
 Nid gordrwst y fagnel, nid tinciad y cledd;
 Llon iaith meibion llafur,—olwynion Cwmfelin
 Yn troi er mawlhadau i gelfyddyd a hedd;

Os gwelaf y weddw,—nid gweddw y milwr,—
 Ond gweddw y gweithiwr, caf D— gerllaw
 Yn sychu ei dagrau, yn noddi ei chyflwr,
 A gwên ar ei wyneb, a rhodd yn ei law.

Mae tymor ar fôr pan na wŷr yr edrychydd
 Ai llanw ai trai yn y pellder sy'n bod,
 Ond ffy ei amheuaeth fel breuddwyd pan genfydd
 Y rholiawg feilch donnau fel duwiau yn dod;
 Bu adeg ar draeth pell ieuentyd fy ngwron
 Na wyddid ai aflwydd ai llwydd fyddai 'i ran,
 Ond heddyw mae'r llanw mor uchel, mor gyson,
 Nas gallaf ond canu ei lwydd ar y lan.

Mae bechan afonig hyd ochrau Plumlumon
 Yn llesg ddyferynu, mor eiddil ei sain
 A dafnau mewn ogof, ond buan try'n afon,
 A chwyddo yn fôr wna ei harian li main;
 Ar lannau'r môr Hafren fe gipiodd fy ngwron
 Ei hysbryd, a'r unrhyw fu ymchwydd ei ffawd,
 A'r un ei wasanaeth—fel dwg y bur wendon
 Y llong ar ei mynwes, dwg yntau y tlawd. -

Yr hen afon Tawy furmurai drwy'r oesoedd,
 A'r awen Omerawl adseiniai gerllaw,
 Heb unwaith freuddwydio trwy'r cysglyd ganrifoedd
 Fod eres oludoedd yn fyd aur islaw;
 Dadlennydd y golud di-draul ymddanghosodd,
 A'i fyddin wynebbdu i'r dyfnder yr aeth,
 A'r graig adamantaidd a'i durwch a dorrodd,—
 Columbus y glofyd o'r diwedd a ddaeth.

Mae natur yn un trwy ei holl amrywiaethau,
 Un corff a phob aelod yn gwneuthur ei ran;
 Gweinydda y nant ar yr afon, a hithau
 Weinydda ar drysor y môr yn y man;
 Cyflenwa'r môr eilwaith holl reidiau y cwmwl,
 Gwna'r cwmwl gydnabod â chafod dra chu,—
 Fy arwr a fedd y cyffelyb ddrychfeddwl
 Am undeb cyfalaf a llafur y llu.

O! nid oes golygfa mor hardd ar ddynoliaeth
 A meistr a gweithwyr yn byw yn gytun;
 Yr oll yn dangnefedd, a chadwen unoliaeth
 Yn rhwymo buddiannau yr oll yn yr un;

Y meistr haelgalon, fel haul yn y canol,
 A'i weithwyr o'i amgylch mewn trefn ddigoll,
 Yn byw ar ddisgleirdeb ei wyneb tywynnol,
 A goleu yr un yn oleuni i'r oll.

Os uchel efe, nid yw hynny ond mantais
 I weled ymhellach y tloedi islaw,
 Nid uchder unigol hunanol uchelgais,
 Ond uchder y cwmwl goludog ei wlaw ;
 Tra uchel yw tarddle y Nilus frashaol,
 Tra uchel a phell yw cartrefe y gwllith,—
 Po uchaf sefyllfa ein gwron dyngarol
 Melusaf yw'r rhoddion sy'n disgyn i'n plith.

Teilyngdod wobrwyr, a'm harwr eistedda
 Mewn cadair lywyddol ym mwrdd ei hoff dref,
 Ei swydd fel dinesydd a lonydd gyflawna
 Ac nid oes rhagorach gwarcheidwad nag ef ;
 Ar lan dy Fôr Alarch, ti hen Abertawy,
 Pa drefol lywyddfaint geir fel d' eiddo di,
 Lle bu fy mhrudd awen mor ieuanc yn canu
 Am rai sy mwy anwyl na mywyd i mi.

Y ddaear sy'n gorff, ag amryfal wythenni
 Drud, drwyddi yn rhedeg,—gwaed masnach y byd,
 Mae ef yn eu hadwaen, fel meddyg uchelfri
 Yn adwaen gwythenni'r corff dynol i gyd ;
 Lle union y globwll a wêl mewn munudyn
 I reinio * y wythen sy flwyddi fyrdd oed,
 Ac allan arllwysir rhyw gyfoeth diderfyn,
 Byd newydd ddatguddir gan llath is ei droed.

Mi wela'r amddifad, pan ddel Sul y Blodau,
 Yn rhodio yn araf at eglwys y plwy,
 Mae'n gosod blodeuglwm yn arwydd o gariad
 Ar fedd ei rhieni, a'i chalon yn ddwy ;
 O ! nid oes ond un yn y nefoedd i'w noddi,
 Sef "Tad yr amddifad," â'i ddwyfol fraich gref,
 Ac nid oes ond un ar y ddaear yn rhoddi
 Per falm yn ei chlwyfau, a D— yw ef.

Pe fyth y dewisai archangel orchuddio
 Ei danbaid ddisgleirdeb â mantell o gnawd,
 Gwnai hynny er mwyn yr anrhydedd o wisgo
 Y santaidd gymeriad,—diffynnwr y tlawd.

* To lance.

O! *rhoi yw y derbyn* helaethaf o'r diwedd,
 I *Dduw* mae y benthg, fe dâl yn ddilyth,
 A D——, fel angel, a a i ogonedd
 Nef elusengarwch, ryw foreu o'n plith.

Mae crefydd yn adwaen ei enw difrychni,
 Ei ymdrech o'i phlaid sydd egniol a llwyr ;
 Ac fel ei gyfenw, agora'i ffenestri
 Oll tua *Chaersalem* foreuddydd a hwyr ;
 Mae caethglud y codwm yn dychwel yn araf
 Dros nos-fryniau amser, i Ganan y nef,
 O! pan y cyrhaeddont yr oror bereiddiaf,
 Ymhlith y rhes flaena o'r dyrfa boed ef.

DAVID BACH.

DAETH ysbryd pur i lawr o'r nef
 A gwisgodd gnawd yn *yegafn* len,
 Fel gallai fynd yn ol i'r nen
 O'r lle y daethai ef.

O! teneu oedd y llen o glai,
 Fel plyg o niwl, fel *meddwl* bron,
 Fel cysgod cwmwl ar y don,—
 Diosgodd hi,—mor hawdd, mor glau

Wrth edrych ar ei lwybyr pur,
 Mae fel pe hedasai angel gwyn
 Dros wyneb teg rhyw freuddwyd-lyn
 Ar bleser daith o'r dwyfol dir.

Beth ydoedd? Tlysni teg y wawr
 Beth ydoedd? Hanfod rhos y byd,
 A pheraroglau 'r gerddi i gyd
 Yn pasio ennyd awr.

O ddynol eos! Pam mor fwyn
 Y cenaist ti yn nos y byd,—
 O pam mor bêr i dewi cyd!
 Ai breuddwyd oedd yr oll, ai swyn?

Daeth ysbryd pur o'r ser i lawr,
 Ac yn ein brys galwasom ef
 Yn David Bach,—ac yn y nef
 Hwn yw, i *ni*, ei enw'n awr.

Nis gwyddom beth yw'r enw cu
 Sydd gan angylion arno ef
 Yn awr yng ngwynfyd pur y nef,—
 Ond David Bach fydd byth i ni.

Pan yn y fro dragwyddol iach,
 Y cwrddom ef, tu hwnt i'r bedd,
 Er mor ogonawl fydd ei wedd,—
 Ac er y bydd yn ddwyfol ddyn
 At fesur oedran Crist ei hun,—
 Cyfarchwn ef fel "David Bach."

GWRTHRYFEL LLAFUR.

HYLL elyll y Sefyll Allan,—a fu
 Yn farn byd pedryfan;
 Uthr rwygai 'r gweithiwr egwan,
 Ysai y bwth a'r plas ban.

Claddai 'i ewin yn y werin
 Yn dra gerwin, didrugaredd;
 Anedwyddwch oedd ei elwch,
 A'i hyfrydwch mewn difrodedd.
 Uthr oedd gweled y werin lethedig
 Dan ergydion ei lid yn rhwygedig,
 Ei gawraidd allu megis gordd hylig
 Yn dyrnu ydoedd eu llu darniedig,
 Ymlonnai 'n dra mileinig,—gan fwynhau
 Eu prudd gwyniadau, aethau adwythig.

Yn ei urddlym osgorddlu
 Caed newyn a dychryn du,—
 Llwm, welw-wyn newyn euog,—a'i chwerwerch
 Arwydd,—dynol benglog,
 Baner o frawder i'w fri
 Ag arni lun esgyrnog.

Pwy dan nef all wrthsefyll
 Ynni a nerth newyn hyl?
 Ysguba,—nid oes gobaith,—
 Y mwya 'i rwyg a'i lym raith.
 Haws troi y llanw distrywiol,
 Hyrddio nerth y Werydd yn ol.

GORMES CYFALAF.

RHYW deyrn erch ar aur dron oedd
 Cyfalaf,—drygai filoedd.

DOL.*

YN ein tir pa destun teg
 Mal ceisio canmol caseg?
 Griffiths yw y gŵr a hoffaf,
 Ei Ddol a'i gig yn ddial gaf.
 O! pwy, mwy, geir yn un man
 Ail y gŵr o Gilgeran?
 Acw ar daith fe gurai Dol
 Niferi'r Derby anfarwol.
 Blin enw fai Blaenannerch,
 Diles im', heb Dol a'i serch.
 Aberporth o'i chynhorthwy
 Sy fythol ddymunol mwy.
 Ac mor rwydd cymerai hi
 Y gain awen i Geinewi!
 Y lle ochrog od Llechryd,
 Heb hon, fai allan o'r byd.
 Rhyw dun o flaenor doniol
 Plufyn oedd y dyn i Dol;
 A dirfawr bwys cadeirfardd
 Oedd ail us i Ddoli hardd.
 Haeddai Dol feirdd i'w dilyn
 Arwyr glew'r Gwrhay a'r Glyn.
 Teilynga Dol ddi-lol lân,—ar fy ngwir,
 Hoff awdl hir, a phedolau arian.
 Y mae Dol, 'nol famod i
 Yn werth diolch, wrth dewi.

DARGANFYDDIAD GLO.

FE gollwyd y wythien
 Am ugain mlynedd faith,
 Yn sydyn troes y glo yn graig,
 A'r glowr adref aeth;
 Fe aeth a'i arfau gweithio
 Oll adref gydag e,
 Am ugain mlwydd ni chlywyd swm
 Ei fandrel yn y lle.

A daroganai llawer
 O wŷr dysgedig iawn

* Yr oedd Islwyn ar daith yng Ngheredigion yn casglu at gapel; Mr. W. Griffiths, Rock, yn "gyfaiil;" ac yng ngherbyd Mr. Griffiths y teithient.

Fod y wythien wedi mynd
 I ebargofiant llawn,
 Ac nad oedd dim o flaen y plwy,
 Dim mwy, ond llosgi mawn.

Ond Gethin fawr ei gyfoeth,
 A Dafydd fawr ei ddawn,
 A aethant obry ar ei hol
 'Mhen ugain mlynedd llawn;
 Er gwaetha 'r gau broffwydi
 A'r mân fasnachwyr oll,
 Fe aed drwy galon gref y graig
 Ar ol y wythien goll.

Edrycha pob gau broffwyd
 Yn awr mor hurt a llo,
 Wrth glywed fod y creigiau
 Oll wedi troi yn lo.

Hir oes i Gethin enwog,
 Canmolwn ef i gyd,
 Mae ganddo gyfoeth dirfawr
 Ac anturiaethus fryd,
 Ei galon sydd mor eang
 A'i etifeddiaeth fawr,
 A'i benderfyniad fel y graig
 Y cloddiwyd trwyddi i lawr.

Nis gŵyr pa beth yw ildio
 I rwystrau nac i draul;
 Rhy uchel yw i wrando
 Ar ddaroganwyr gwael;
 Buasai 'n archu cloddio
 I lawr nes dod i ma's
 Yn Neau Cymru Newydd,
 Tu hwnt i'r ddaear las.

 PRIODAS GWILYM TEILO.

HIR einioes drylawn o riniau—i'r par
 A'r puraf ragorau;
 A gwlawied nef ei chedau,
 Foreu a hwyr, i'w llwyr wellhau.

Yr anwyl aur-awenau—i'w mwyniant
 Ddyhidlant hedd-odlau,
 Llu y nef fo'n eu llonhau
 Ar dyner dyner dannau.

Byw yn dda, byw yn dduwiol—y byddoch
 Hyd y bedd, byw'n fuddiol,
 A chyd fyw, a byw heb ol
 Du fwriad edifeiriol.

Ond da fwriad 'difeirwch—am bechod
 Yn mhob achos, cofiwch ;
 Am ei fod ymofidiwch,
 Iawn yw y lle—yn y llwch.

Y mae eisiau ymosod—i wneyd da
 Yn ein dydd byr isod ;
 Mae'n frau iawn, mae'n fyr hynod,
 O gwnewch ei ddiwygio'n nod.

C A R T R E F .

Y GORAF le i'w garu,
 Delw o'r nef yw'm cartref cu.
 Mae im' dân a mam dyner,
 Mae yno byth im hoen bêr,
 A gwên ddi-ffug yn nydd ffawd
 A'r unffurf yn awr anffawd.
 Ni cheir brad yn chwerwi bron
 Neu gilwg dan un galon,
 Ond calon wrth galon gu,
 Wedd lon, yn ymddolennu.

I glefyd enbyd od af
 Yno, ni ddigalonnaf.
 Mam gariadus serchus sy
 Angyles ger fy ngwely.
 Drwy nos hir druenus, hon
 A'm gwylia o dwym galon.
 Myn ddal fy mhen eiddilaf
 I'r lan, pan yn egwan af.
 A chariad fy chwiorydd
 Ffyddlawn yn gysurlawn sydd.

Od a y morwr diwyd
 O'i wlad bér, ca weld y byd,
 Amrywion gwylltion a gwar,
 A gwel ynsoedd gwylar ;*
 Afonydd gwyachaf anian
 A'u gro o aur gloewawr glân,
 Heirdd goed y rhudd gyhydedd
 Resau ar eu hochrau hedd,
 Fforestydd o balmwydd beilch,
 Ac erfawr fryniau gorfeilch ;
 Ar falmwynt adar filmyrdd
 Llawn o fawl, a'u lliwiau 'n fyrdd ;
 Gemliw nos, digwmwl nen
 Odiueth, fel oedd uwch Eden,—
 Ei bennaf fyfyr beunydd
 Er hyn am ei fwthyn fydd ;
 A nodwydd anewidiol
 Ei galon union, yn ol
 Bwyntia tua'r lle tawel,
 I'r trofan eirian pan el.

O dre y bardd am dro bum,
 Ar foethus yrfa aethum,
 I fwynhau pell barthau 'r byd
 A mynnu hoen am ennyd ;
 Eto siomiant dwys imi
 A fu 'r holl ddaearol fri ;
 Môr y ddinas, myrddiynau,
 Mawredd oedd yn fy mhruddhau ;
 Hiraethais, gelwais i go
 Fy anwyl gartref yno.
 Yr hen barth, er olrhain byd,
 Yw diddadl nyth dedwyddyd.

Fy annedd dan hedd fy Naf
 Sy gu ar hirnos gauaf.
 Mor glyd mewn mawr galedi
 Trwm, oer, yw cartre i mi !
 Yr hwyr yn ngoleu 'r eira
 Y plant wareuant â'r ia,
 Neu syllant i'w llesiant llon
 Trwy'r ffenestr ar y Ffynnon,
 Ceir hon i gyd fel cywrain gawg,
 Nefol degan, neu flodeugawg.

* Coral.

A cheir hwyl gylch yr aelwyd,
 Ein hunaw! gufawl a gwyd
 I Naf o galon ufudd
 Am radau a doniau'r dydd.

Ac i lawr os daw'r hen dŷ
 Yn ddybryd garnedd obry,
 Af i weled adfeilion
 Muriau y lle fu mor llon,
 Wylaf uwch yr olaf faen
 Ac af â hi fel cof-faen.
 Sia'r nant wrth ser y nef
 Yn adrist am f'hen adref.
 Hyfrydwch fydd cofio'r adeg
 Min ein nant hon mewn henaint teg.

Mor ddedwydd fy mreuddwydion
 Mewn henaint am ein nant hon,
 A'r werddaf len a'r ardd fydd
 O flaen y drigfa lonydd!
 Ac y dderwen hen honno
 Oedd du cefn (hawdded y col!)
 Balch o'i chryfder, refder oedd
 Yn asur—balch o'i hoesoedd!

Boed mawryd y byd i'r bon,
 Boed alaf i'r bydolion,
 Boed lloniant byd i'w llenwi;
 Tra fo mam, cartref i mi!

—
 P R I O D A S . *

RHAGLUNIAETH ni roi galonnau—deuddyn
 Dan ddedwyddach rhwymau;
 Yn ein tir ni unwyd dau
 Mwy unedig mewn nodau.

Doed mwyniant, llwyddiant bob llaw,—yn y daith,
 Bendithion fo'n gwlawiaw;
 Pob argoel drwg, pob perygl draw,
 Drwy'u heinioes, hyd awr hunaw!

Ac wedi bywyd cydwedd,—a dydd hir,
 Aed y ddau hygarwedd
 Fry i lawn anfarwol hedd,
 Nef dawl Ion fo'u diwedd.

* Y Parch. D. Davies, Glyn Nedd, & Miss Mary Daniels, Llanelli.

YSTOROM FELLT.

EDRYCHAF allan yng ngoleuni'r mellt,
 Mae'r wybr yn goch, a'r holl gymylau ar dân.
 Gwel! mae'n tywyllu eto; tywyll yw
 Fel bru anobaith. Nid oes seren draw
 Yn gwawrio o ddyfnderoedd nef, er fod
 Milfliwn yno. Eilwaith mae y mellt
 Yn cynneu llygorn yr ystorom fry
 Ar oriel y cymylau, nes yw'r nef
 O agwedd fel rhyw blaned goch a fai
 Yn fflamio heibio'n byd, ac yn y fan
 Ar derfyn y greadigaeth.—O pa gri?
 Ust! pa wylofus lef sy'n codi i'r lan
 Yn athrist gyda'r awel? Ofer im
 Glustfeinio, mae y daran ar ei thraeth
 A'i thwrf yn llanw'r nefoedd fel pa bai
 Rhyw seren fawr mewn tymhestl yn neshau,
 A'i hechel hir yn cochi hyd ei bron
 Ar dorri yn ei chanol. Blin a maith
 Yw rhu'r taranau ar uchloriau'r cwmwl,
 A chwyd eu hadsain fel taranau eilwaith
 O'r ogof wag a chafn mawr y fro.
 Mae'r gwyntoedd bellach yn rhuthro trwy y glyn,
 A'r goedwig fawr yn plygu o'u blaen, a'r neint
 Yn rhuo dan eu fflangell, a'r mynyddoedd
 Yn ymgynghori ar risiau y cymylau.
 Gan godi eu breichiau tua'r nef, a thyngu
 Na syflant o'r uchelion hyd y dydd
 Y saif y lloer, y ddaear fawr, a'r ser
 Ar derfyn eithaf amser. Ffwrdd yr ant,
 Trwy'r eang drân, fel lleng-gor o daranau
 Ar edyn anweledig. O, na chawn
 Osteg i wrando yr alaethus gwyn
 Sydd yn mwneiddio'r awel ar ei thaith
 I fyny i'r mynyddoedd. Car i mi,
 Feallai, yw, neu frawd yn chwilio o gylch
 Am dŷ ei dad a'r manau hoff lle gynt
 Chwareuem gyda'r awel a'r wenynen.
 Mae'r dymhestl wedi'i ddal! nid hon yw'r gyntaf,
 Boreu ystormus gadd, a chodai gwawr
 Ein bywyd dan gymylau fel y rhai
 Sy'n awr yn toi y nef. Ym min yr hwyr
 Fe holai am ei geraint, nid oedd neb
 Yn adwaen ei wynepryd; holi wnai

Am helynt rhyw gyfeillion anwyl gynt—
 'Roedd wedi pasio'u bedd. Ust! nid yw hon
 Awr i freuddwydio. Mae gwrthrychau serch
 Yn agos i'r galarus, er eu bod
 Tu hwnt i'r môr, tu hwynt i angau rai!
 Draw chwydda y Dafwys ei mynwes fel môr;
 Mae yr Hafren a'i thonnau
 Yn croesi y glannau
 A Mynwy yn brysio i atal y ddor,
 A gwae a farchogo eu dyfroedd yn awr,
 Clyw! tafiant y llongau
 Fel gro ar y creigiau,
 A fforest o fadau
 A thrafiwnc aruthrol yfant i lawr,
 A chodant y llynges sy'n britho eu bron
 I ganol y dymhestl ar warthaf y don.
 Fry syrth yr hwylbrenni
 Fel tyrau i'r weilgi,
 Y llynges odidog, diflanna! diflanna
 I'r eigion mor esmwyth a chawod o eira.

Y R A N D E S .

TYRD, tyrd i fyny i'r bryniau; yno mae
 Llif ysbrydoliaeth natur yn dyfnhau,
 Ac yn llydanu tua'r moroedd ser
 Sy'n tonni fyth gan anadliadau Ner.
 O natur! caf dy wersi uchaf di
 Yng ngenau'r gwyntoedd pell a'r dymhestl hy
 I fyny ar y bryniau, ac uwchben
 Brynraich uchela'r ddaear, yn y nen
 Lle mae rhyw anfeidrollder o ororau
 O'n blaen yn agor ei ardderchog ddorau,
 Gan ddangos uchder nad all dim o ddyn
 Ei feiddio ond dychymyg, a'r gallu hwnnw ei hun
 Heb ludd daearol wrth ei aden gain,
 Yn bur, yn noeth, a'r beiddgar ynddo ymdaen.
 Y gwyntoedd clyw fel diluw mawr o sain
 Yn codi dros y byd; a'r bryniau pell, o flaen
 Holl osgordd amser a'r daearol bethau,
 Yn esgyn trwyddynt, trwy'r cyfryngol nennau,
 Gan edrych i'r dyfodol a'r uthr anfeidrollderau.
 Ar ben y bryniau, byd-leihaol uchder,
 Teyrnasa natur yn ei garwaf wychder;

Ei rhyfethwyol ddyfroedd yn llifeirio
 Heb feidrol law a gallu i'w llesteirio;
 Y gwynt yn codi fel rhyw fôr awyrol,
 A'r nef yn symud ar eu chwydd pybyrol.

Ddiderfyn fawreddogrwydd! Pwy all rodio
 Byd-gaerau natur, pwy eu hanner ddringo,
 Lle rhed y bryniau a'r cymylau llwydion
 I'w gilydd mwy, fel arfyd o freuddwydion,
 A'th drumau di, Peru, yn chwyddo a chwyddo eilwaith,
 Fel daear-ddrington llydain ar eu seilwaith?
 Mae natur yma yn ymado â'r byd,
 Yn tynnu ei rhwysg i mewn i'r nef i gyd.
 Ddyn gorfaleb, dos, a dilyn hi i'w bannau,
 Chwareua ar ei hoch-ddaearol dannau,
 Sy'n ymdeneuo i fyny i'r ysbrydol—
 Hanner y ffordd dy lygad hyf ymleiw â gwaed bywydol
 Ymhell o fewn y ddaear, ac oddiarni
 Lle nad yw dyn â marwol droed yn sarnu,
 Y mae gan natur gysegredig fannau
 A cheidw hi i'r ysbryd-fyd rai o'i santeiddiaf dannau.
 Fel pe bai tragwyddoldeb wedi syllu
 Un waith i lawr, a gado i dywyllu
 Y tir a'r môr ei gysgod goranferthol—
 Canfyddwn hwy mor gedyrn a holl-nerthol
 Yn hongian ac yn hongian hyd y nefoedd, [pellafoedd,
 Gan redeg mewn mawrhydri gwyllt bytholwyllt i'r
 Taen natur yma fawrion wastadeddau,
 A rhyngddynt tyr ddyffrynnoedd fel byd-feddau.

Crog ei byrdd-dir a'i helyntoedd
 Fel cymylfyd yn y gwyntoedd,
 Lle mae'r storm a'i harswyddoldeb
 Bellach yn eu tragwyddoldeb.

Oddiar y gwastadeddau
 Saf y bryniau tua'r nefoedd,
 Ac uthroldeb, fel bodoldeb,
 Yn ymlunio yn eu gweddau.

Hanner daear, hanner nef,
 Chimborazo! Pwy all edrych arno ef?
 Uchel ac ofnadwy yw,
 Oddiar y torfoedd bryniau,
 Yn ymgodi megys Duw,
 A'i amnefoedd yn dyfnhau,

A'i gysegroedd niwl am dano fyth yng nghau.

Fryniau! fryniau! arnoch chwi,
 Ar eich bannau nef-orsafol
 Mae y nerthoedd byd-ddyrchafol
 A ddiffoddwyd pan y rhoddwyd y llywodraeth oll i ni;
 Arnoch chwi

Fry! fry!

Mae eu marwol lid yn ffreuo,
 A'u caos-lampau'n ailoleuo;
 Y galluoedd nad yw'r byd
 A'i holl luniau o fôr a bryniau,
 Onid lledrith yn eu llid,
 Yr ystormydd caethiwedig
 Sydd o danom yn rhwymedig,
 Tan fyd-glawr o gyfandiroedd,
 Daeaf-furiau, diwawr foroedd,
 A'r taranau tan-ddaeafol,
 Trwy ysgydwad oll-ysgarol,
 Gyfnewidiant wedd y byd,
 Gan roi iddo newydd luniau
 Newydd foroedd, newydd fryniau,
 A newyddaf gant i gyd,—
 Fryniau! fryniau! caf eu twrdd
 Yn ymruthro i'r lan i'ch conau,
 Fel mewn genau yn cydgwrdd.

Engyrth ysbryd caos sy
 Yn anadlu trwoch fry;

A phan yn ei lid y rhuo, y mae nefoedd canol dydd
 Fel â barnol wyll yn duo, a lanterni ar y bryniau'n symud
 Oddiar yr ufelfaoedd, cyfyd o'r byd-ddyfnider cudd [sydd.
 Fryniau fflemioli tua'r nefoedd,
 Fel gwylfaoedd dychrynadwy, byd-weladwy,
 Y tymhestlog olaf ddydd.

TAWELU'R YSTORM.

Diogelwch y saint.

FE allai'r moroedd lanw'r nef
 A'r bryniau lanw'r môr;
 Ymblygai'r wig ei hun yn arch
 I ufuddolion Ior.

Daw'r fflam hyd at dy rwymau, sant,
 Fe lysg dy garchar pridd
 Lawr hyd y bedd—ti lami o'r fflam
 Yn angel nerthol rhydd.

*Cydymdeimlad anian adeg
ystorm y Croeshoellad.*

A chauai dorau tân y dydd
Mewn trawiad ar bob tu,
A thros yr haul fe daflai'r nos
Ei mantell erfawr ddu.

Cydymollyngai lwynau'r byd,
A gwywai gwreiddiau'r graig,
A dygai'r awel fwyn o bell
Ddyfnion ruddfannau'r aig.

Dyferodd dafn brwd o'i waed
I'r ddaear—crynodd hon,
Fel pe buasai planed fawr
Yn taro i mewn i'w bron.
A chrynodd nes i'r marw blin
Ddefroi yn nyfnder angau'i hun.

Gruddfannau'r ddaear dorrent ffwrdd
O greigiau fil yng nghyd,
A theimlai'r nefoedd hyd yr haul,
A gwywai'r ser i gyd;
Ac ar ei orsedd wylai'r dydd
Am feddrod o gynylau prudd.

A braidd na chodai'r huan
Ar fore'r trydydd dydd
Yn gynt, o awydd gweled
A chael yr Iesu'n rhydd.

O, hawddgar oedd y borau!
Fe wisgai'r nef yn awr
Ei hardderchocaf liwiau
A'i mantell aml wawr.

Ac ysbryd mawr y Storum
Gadwynai'r gwyntoedd hy,
A gwenai unwaith ar y byd
O gwmwl disglaer fry.

Oedd! anian yn adnabod Ior
A'i wyneb oll yn waed,
A phan yn codi i'r lan, a'r bedd
Yn plygu dan ei draed.

Tawola'r Storm.

Mil henffych, henffych it, y Storom hy,
 Yn holl arfogaeth yr elfennau fry;
 Er codi o'r dyffrynnoedd ar dy lef,
 Fel aruthr feddau i amgau y nef;
 Er i fynyddoedd o gymylau draw
 Oddiar eu gilydd grugio yn dy law,
 Ac ymgolofni hwnt fel beddfaen byd;
 Draw er i'r ser ymlechu rhag dy lid;
 Er rhwymo'r byd â gwregys o daranau,
 A throi y môr, y môr bob dafn, yn donnau,
 Nid ofnaf di, O natur, yn dy nerth,
 Er parthu'r moroedd i'th olwynion certh;
 Edrychaf tua'r nef, mae acw un
 Fu yn y Storm, fu ar y don ei hun.

Trymhai y dydd tua'r nawn-gysgodfaeodd,
 A rhoddai i'r nos deyrnwialen y nefoedd;
 A'r nos acw dafnai ei hugan-gymylau
 Am ganol y nef fel mantell o feddau;
 A ffordd fawr y ser â chaddug ordoai,
 A'u lluoedd ysblenydd i ddyffryn o niwloedd arweiniai.

Draw, draw, ymeofnai y dymhestl hy,
 A'r tonnau ymdafent i'r llong o bob tu,
 Fel bleiddiaid ollyngid o ffauau y dyfnder,
 A chollai y morwyr bob gobaith a hyder,
 O amgylch eu hathraw ymgasglent yn brudd
 A'r dagrau a'r don yn eneinio eu grudd,
 A chlywid eu lleisiau uwchlaw yr holl dwrdd,
 "O, athraw, dihuna, mae'r môr ar y bwrdd,"
 Dihunodd yng nghanol y Storom ysblenydd,
 A'r tonnau yn gwlychu ei unig obennydd.


Yr oedd ei wyneb oll yn wenu dwyfol!
 Edrychodd ar y don wlychasai'i droed—
 Wylodd ei hun i'r môr. Sibrydodd air
 Yng nghlyw y Storom—un o eiriau Duw—
 A daeth y lloer i'r golwg fal o fedd
 Yn dyner ac yn deg, a'i lluoedd ser
 Orchuddient waen y nef ar uchel drefn,
 A bu dawelwch mawr.

251

89087910600



b89087910600a



89087910600



B89087910600A